



KELEY
RARY
RSITY OF
FORNIA







YMRU'R

PLANT.

CYFROL VIII.

DAN OLYGIAETH

OWEN M. EDWARDS, M.A., RHYDYCHEN.

Y GERDDORIAETH DAN OLYGIAETH

L. J. ROBERTS, M.A., RHYL.

"I GODI'R HEN WLAD YN EI HOL."

1899.

GWRECSAM: HUGHES A'I FAB.

~~4139~~

78A

~~48~~

GIFT

PB 2101

C8

v. 8

RHAGYMDRODD I'R WYTHFED GYFROL

MAIN



BLENTYN, y mae'n rhaid cael rhywbeth i'w edmygu. Edmygu yw gwaith plentyndod. Rhaid i blant gael arwyr, a chymeriad eu harwyr sydd yn penderfynu eu cymeriad a gwaith eu bywyd. Dywedir fod hanner milwyr y fyddia Brydeinig yn ymrestru yn Llundain. Un rheswm am hynny ydyw fod march-flwr gorwych yn sefyll o flaen Whitehall, yn un o'r ystrydoedd mwyaf cyhoeddus. Nid wyf yn meddwl i mi weled y milwr erioed heb weled bachgen bychan,—yn digon carpiog yn aml,—yn ei wyllo ac yn ei edmygu. Ac uchelgais y bychan, o hyn allan, yw tyfu yn ddigon mawr i fod yn un o amddiffynwyr ei wlad.

Yn y gyfrol nesaf yr wyf am roddi darlun i'r plant o fywydau rhai o'r Cymry ddylent edmygu. Y mae llawer Cymro wedi gweithio ac wedi aberthu, ac y mae hanes ei fywyd yn sicr o danio sel plant yr oes hon, a rhoddi uchelgais ynddynt i wneyd gwrhydri. Rhof amcanion eu bywyd hwy o flaen y plant, gan obeithio y gwel llawer eu prydferthwch.

Deallaf fod "Cartref ein Cymdigion" wedi bod yn ddyddorol i blant. Yn y gyfrol nesaf ceir cyfres gyffelyb o erthyglau ar "Cartrefi ein Cyfeillion." Wrth ddweyd "ein cyfeillion" yr wyf yn cyfeirio at greaduriaid ydym wedi ddofi,—y march, y fuwch, y ci, yr iar, y ddafiad, y golomen, yr afr, yr wydd, y wenynen, y mochyn, a'r cyffelyb. Dywedir sut y dofwyd hwy, a phaham y maent yn gyfeillion i ni.

Bydd mwy o hanes gwledydd ereill yn y gyfrol nesaf. Adroddir hanes cyffrous Holland, gyda darluniau lliosog i roddi syntad i'r plant am y wlad fechan ryfedd honno. Bydd cyfres o erthyglau dyddorol ar dreulio "Gauaf ar lan Môr y Canoldir," gyda darluniau o lan y môr hwnnw,—y glan môr tlysaf yn y byd.

Bydd llawer o olygfeydd yn hen Gymru, ac o ddarluniau o'n Cymru ni, yn y gyfrol newydd. Y mae gennyf ddarluniau tlysiion iawn o bentrefydd a golygfeydd Cymru wedi eu cerfio, rhai ohonynt wedi eu tynnu gan fy narllenwyr

ieuainc. Bydd gennyf gyfres o ddarluniau o addoldai Cymru. Ceisiaf wneyd fy ngoren i wneyd daear Cymru yn gysegredig i'w pliant.

Yn y gyfrol nesaf bydd cyfres o erthyglau syml ac eglur ar lywodraeth ein gwlad,—y frenhines, y senedd, Bwrdd Llywodraeth Leol, Bwrdd Masnach, y llysoedd cyfraith, &c.,—fel y deallo plentyn pa fodd y rheolir ni.

Cedwir hen neillduolion goreu CYMRU'R PLANT, tra yn chwilio am rai newyddion. Bydd darluniau plant yn y gyfrol newydd,—ni raid i mi ddweyd hynny,—plant yr ysgolion dyddiol, plant yr Ysgol Sul, plant Urdd y Delyn, plant y Gobeithluoedd Dirwest, plant y nefoedd.

Fel o'r blaen, ceisir denu'r plant i garu gwaith bysedd Duw. Rhoddir aml gipdrem iddynt ar fywyd dyddorol adar a blodau a physgod. Rhoddir o'u blaen y pethau rhyfeddaf wêl teithwyr y fiwyddyn nesaf yng ngwledydd pell y byd. Rhoddir hanes ambell wr enwog neu wlad ryfedd o dro i dro. Fel y mae'r cylchgronau enwadol yn llawforwynion i'r Ysgol Sul, bydd CYMRU'R PLANT yn llawforwyn i'r ysgolion dyddiol.

Ond nid rhoddi gwybodaeth dyddorol yn unig yw'r amcan. Ceisir rhoddi o flaen pob plentyn amcanion uchel ac anrhydeddus. Ceisir gwasanaethu crefydd, moesoldeb, dirwest, cynhildeb. Hoffwn fedru rhoddi plant Cymru ar y ffordd i ennill cyfoeth y ddaear, a'i hanrhydedd; hoffwn fwy pe medrwn roddi i bob un ohonynt galon bur a gwefus lân.

Y mae CYMRU'R PLANT yn dal i lwyddo. Y mae ei gylchrediad yn ehangu bob blwyddyn. Fy nod yw cael llwybr iddo i bob tŷ yng Nghymru. Y mae ei waith, ar lawer cyfrif, y gwaith pwysicaf fedraf fi wneyd. Trwy dipyn o anhawderau yr wyf wedi gweithio hyd yn hyn; ond y mae'r anhawderau'n diflannu. Yr wyf wedi credu fod gan CYMRU'R PLANT waith mawr o'i flaen. Y gefnogaeth fwyaf calonogol yw y cymorth wyf yn gael gan gymaint. Pe pallai hyn, buasai'r baich yn ormod i mi. Yr wyf wedi gwario ar yr wyth cyfrol fwy na'r derbyniadau o dipyn; ond, costied a gostio, yr wyf wedi penderfynu gwneyd y CYMRU bach yn deilwng o blant Cymru.

Os oes ardaloedd nad yw CYMRU'R PLANT yn myned iddynt, byddaf yn dra diolchgar am gael cyfle i anfon hen rifynnau fel esiamplau i athrawon a charedigion eraill.

Gwobr pob aberth a gwaith fydd gweled cenedl o Gymry'n codi fedr wasanaethu eu gwlad, a gwasanaethu'r byd, yn well na'r un genhedlaeth fu o'i blaen.

OWEN M. EDWARDS.



AB GARAU CINTRA, PORTUGAL.

CYNHWYSIAD YR WYTHFED GYFROL.

Wyned-ddarlun,—“Y Babanod yn y Coed.”

PLANT CYMBU,—		TUDAL.	PLANT YSGOL		TUDAL.
cii.	Ynysbwl	12	COFLANTAU BYRION,—		142, 265
ctii.	Trelew	31	Maggie dlos	23	
ctv.	Penuwch	41	Mary Jones	54	
cv.	Coedllai	59	Mary Catherine	101	
cvi.	Blaen Clydach	78	Llywelyn	121	
cviil.	Blaenau Ffestiniog	89	Mary Lizzie	121	
cviii.	Pentre Estyll	166	Teddy	122	
cix.			Robbie	122	
cx.	Llanwrtyd	183	C. A. Mason	155	
cxii.	Rhos Ddu	201	Evan Jones	179	
cxiii.	Fron Cysylltan	208	Aerwen fach	184	
cxiii.	Cydweli	229	Lil fach	204	
cxiv.	Pwllhell	249	Bedd y ddau frawd	209	
cxv.	Acrefair	263	Gladys	231	
cxvi.	Harlech	279	David	232	
cxvii.	Penbre	313	Llywelyn Owen	232	
cxviii.	Wyddgrug	325	Y sedd wag	316	
cxix.	Llanystumdwy	336	Claudia	328	
cxix.	Llanegwad	342	Ritchie	328	
cxxi.	Dosbarth yn Ysgol Sul		Lewis Davies	332	
	Cwm y Gŵ	361	Bessie James	332	

BYWYD PLANT,—	TUDAL.	TUDAL.	
<i>Cymeriad,—</i>		<i>Llecynnau Tllysaf,—</i>	
Wrth fynd drwy'r byd	8	i. Llanelltyd	24
Gofalu am y plant	26	ii. Pont Cenarth	56
I fyny	159	iii. Ban Abertawe	92
Yn ugain oed	236	iv. Cader Idris	110
		v. Llyn Tegid	121
		vi. Aberglaelyn	130
		viii. Pont Menai	240
		ix. Dyffryn Olwyd	258
		x. Castell Powys	304
<i>Dymuntadau,—</i>		<i>Addysg,—</i>	
Goronwy bach	40	Neillduolion Ysgol	18
Llythyr at Nest	43	Egwyddor R. Jones	98
Cân y fam	125	Gwladgarwch plant	262
Naw briallen wen	239		
<i>Gladgarwch,—</i>		<i>Arwyr,—</i>	
I godi'r hen wlad	62	Michael D. Jones	77
Awn i'r mynyddoedd	228	Thomas E. Ellis	163
Cadw dy gleddyf yn loew	294	Robert Rowland	187
<i>Hiraeth,—</i>		<i>STORIAU CYMBU,—</i>	
Y beddrod hwnnw	70	<i>Gan Watcyn Wyn.</i>	
Pa le mae fy nghyfoedion	116	i. Cerbyd Morgan	165
Pan oeddwn i yn hogyn bach	180	ii. Maen Cetti	205
Mae'r nef yn nes yn awr	345	iii. Hirlas Brancaled	230
		iv. Cawg Tyrnog	261
		v. Y dyn dall a'i ffon	297
<i>Crefydd,—</i>		<i>GWLEDYDD EREILL,—</i>	
Gwedd ddirgel	86	Draw yn y Dwyrain	9, 87
Dros ddyn pechadurus fel fi	284	Ysgol Lydwig Gwengam	124
Y plentyn a'r afonig	312	Ffordd Uganda	227
Dan y faner wen	361	Duwiau Môr y De	299
Teyrnas y plentyn	370		
<i>Peryglon,—</i>		<i>BEWYDBAU RHYDDID,—</i>	
Peryglon plant	178	i. Rhagymadrodd	11
Y gair cas... .. .	360	ii. Marathon	62
<i>CYMBU,—</i>		<i>RHYFEDDODAU CELFYDDYD,—</i>	
<i>Hanes,—</i>		i. Pyramidiau'r Aifft	19
Gwŷr Llansannan	195, 269	<i>MEDDYGON,—</i>	
Darlunio hanes Cymru	322	i. Robert Jones, Lerpwl	37
		ii. A. Emrys Jones, Manchester	34, 57
		iii. R. D. Evans, Ffestiniog	197
<i>Ardaloedd,—</i>		<i>MEWN PERYGL,—</i>	
Tyddewi	66	i. Rhuthr y Trwyngorn	30
Dyffryn Crawnant	188	ii. Yn y Diffaethwch	41
Llyn Fanod	277	iii. Llong ar y creigiâu	150
Llansannan	289	iv. Ystori un achubwyd	159
Pen Llwyn	315	v. Dringo Mynyddoedd	339
		vi. Yn yr eira	367
<i>Siroedd,—</i>			
i. Morgannwg	15		
ii. Ceredigion	47		
iii. Meysyfed	79		
iv. Brycheiniog	82		
v. Meirion	111		
vi. Arfon	145		
vii. Dinbych	177		
viii. Mynwy	213		
ix. Mon	241		
x. Ffint	260		
xi. Maldwyn	305		
xii. Caerfyrddin	343		
xiii. Penfro	357		

BYWYD Y MOR,—

i. Ar y Wyneb	35
ii. Y dyfnderoedd	233
iii. Tywyll, oer, llethol	235
iv. Y gwaelod	335

YSTORMYDD,—

i. Rhagymadrodd	45
ii. Lli Mawr Llanuwchllyn	45
iii. Gorlifiad y Wladfa	325

ADAR,—

Ein Cantorion	131
Diolch iti, gwow fwyn	136
Plentyndod y gŵg	141
Yr ehedydd	199
Telor yr helyg	244
Y capercaillie	275
Y gwenollaid yn ymadael	298
Crwydriadau adar	301
Cofwch am yr adar	355
Aderyn yn glanhau ei big	356

CWN,—

Y ci a'r brethynwr	123
Pam mae trwyn ci yn oer	126
Cwn St. Bernard	365

BLODAU,—

Y blodeuyn cyntaf	3
Neges yr Eirdiws	58
Rhosyn glas	200
Lili ac ysgall	260
Y planhigyn anufudd	275
Tansi	280
Gardd yr Arglwydd	239

CARTREFI EIN CYMDOGION,—

i. Y Llwynog	7
ii. Y Wenci	39
iii. Y Creyr Glas	71
iv. Y Dyfrgi	102
v. Y Fry Liwyd	139
vi. Yr Ysgyfarrog	169
vii. Y Wiwer	217
viii. Y Forfran	233
ix. Y Barcud	272
x. Y Gigfran	307
xi. Y Ddraenog	327
xii. Y Carw	354, 359

TONAU,—

i. Beth sy'n hardd	23
ii. Yr Hapus Wlad	52
iii. Dweyd wrth Ie-u	91

TUDAL

iv. Addfwyn Iesu	108
v. Er Cof	157
vi. Can godir Cymru'n ol	174
vii. Can yr adar	203
viii. Plant ydym eto	247
ix. Fwy fel Eife	276
x. O Walla Wen	310
xi. Gwnaed y byd yn nef	340
xii. Etifedd anwy heddyw	363

TUDAL

HANES,—

Oliver Cromwell	99
Rheithwyr Bunyan	162
Gwr y Mwgwd Haiarn	233

NATUR,—

Arogl	106
Dail	137
Gwlith	144
Glan y môr	163
Planed Mawrth	178
Heb gwsg	182
Hyfrydwch yr haf	195
Cregyn	193
Unigedd	227
Morwyr rhyfedd	261
Lliw petris	264
Gwawn	271
Adenydd	311
Gloyn byw	316
Eira	324
Y dydd byrraf	355
Gwinwydden Hen	364
Mae'r gauaf wedi dyfod	376

DYCHMYGION,—

i. Cwmystwyth	55
ii. Penrhyndeudraeth	103
iii. Gwlad y Gog	153

YSTRAEON BYRION,—

Gweddî Bob	5
Corachod Loo Gweltas	21, 53
Yr Angel	73
Gweddî plentyn	78
Bob y gŵr bonheddig	95
Breuddwyd y codwr canu	137
Lleidr y ffactri	137
Effaith pechod ar y wyneb	140
Bachgen yn achub tref	151
Ystori wir am dren	186
Tom Ellis a phlant	200
Y ddynes garedig honno	231
Mewn unigedd	246
Er mwyn ei gyfeillion	264
Blodeuyn bach	309
Buddugoliaeth y baban	312
Ergydion derbyniol	314
Marw yn y nwy	363

YSTRAEON gan H. E. M.,—

i. Ohwareu bod yn ledis	68
ii. Morwyn fach o'r tloty	133

		TUDAL.			TUDAL.
YSTRAEON gan 'y Parch. O. Owen,			ix. Torri gwallt Bobbie ..		286
Pentrefelin,—			x. Dweyd adnod		317
i.	Nansi a'r iar	107	xi. Tynged y gath		347
ii.	Christopher Sanctaidd ..	151	xii. Ymadawiad y Ddau ..		371
iii.	Brad a bradwyr	211	DARLEN DIFYFYR,—		
iv.	Solomon a'r wenyneyn ..	237	46, 75, 110, 152, 173, 235, 278, 280, 306, 314,		
v.	Nis gellir cuddio'r drwg ..	297	334, 356		
vi.	Chware ág arth	333	CYSTADLEUAETHAU,—		
Y DDAU HOGYN RHEINY,—			32, 153, 225		
<i>Gan Winnie Parry.</i>			URDD Y DELYN,—		
i.	Y Ddau	3	25, 60, 89, 117, 160, 185, 202, 213, 313, 335,		
ii.	Rhai Ereill	37	364		
iii.	Y Ddau'n dod	38	YSGWRB Y GOLYGYDD,—		
iv.	Wedi dod	103	1, 33, 65, 97, 129, 161, 193, 225, 237, 289, 321,		
v.	Derbyniad y Ddau	131	353		
vi.	Gwallt babi	170			
vii.	Y pwll llaid	218			
viii.	Perygl chwipio	250			





YSGWRS Y GOLYGYDD.

Blwyddyn newydd dda i chwi oll,—bur fel yr eira, lawn fel yr haf. Cawn gwmmi ein gilydd.—os cawn fywyd,—hyd ddiwedd blwyddyn arall. A pha lafur neu brofedigaeth bynnag sy'n gudd dan lenni'r fwyddyn, nid oes dim mor lawen i'r golygydd a chwmmi plant.

Gwelwch fod llawer o ystoriau newydd yn cychwyn yn y rhifyn hwn. Oherwydd diffyg lle, gorfod i mi adael, tan y rhifyn nesaf, yr ysgrif gyntaf o gyfres ar "Fywyd y Môr." Adroddir hanes y planhigion a'r pysgod sy'n byw ar wyneb, yn eigion, ac ar waelod y môr mawr.

Cynhygiwyd gwobr yn rhifyn Hydref am enwi y pregethwr, bardd, llenor, cerddor, a seneddwr mwyaf poblogaidd, barn y mwyafrif i benderfynu. Dyma'r rhai agosaf at farn y mwyafrif,—Parch. John Williams, Lerpwl; Dyfed; golygydd CYMRU'R PLANT; Dr. Parry; T. E. Ellis. Nis gellir rhoddi dim pwys ar y dyfarniad pwy yw'r llenor mwyaf poblogaidd, gan fod y plant caredig yn sicr o enwi eu golygydd. Ennwyd llawer iawn o rai eraill ymhob cangen. Yr unig un enwodd y pump yn llawn yw Ceridwen Machno. Anfonod ei henw i Mr. Morgan, a chaiff y wobr.

Cofied pob plentyn fod darlun y "Babanod yn y Coed" yn dod yn rhodd, gyda'r rhifyn hwn, i bob un ofynno am ei rifyn mewn pryd. Os bydd llawer o dderbynwyr newyddion, daw darluniau ereill yn rhoddion gyda rhifynnau ereill y flwyddyn.


Cofied y plant fod yn bosibl cael llyfrau Urdd y Delyn o swyddfa CYMRU'R PLANT,—*Hanes Cymru* (ceiniog), *Diarhebbion Cymru* (ceiniog), *Islwyn* (ceiniog), a *Diliau'r Delyn* (dwy geiniog), llyfr alawon i'r cyfarfodydd.

Yng nghyffres y *Llenor* y mae dau lyfr yn awr yn barod, mewn llian prydferth, a chyda llawer o ddarluniau. *Gwaith Glasynys* yw y naill, a *Gwaith Robert Jones Rhos Lan* yw'r llall. Hanner coron yr un yw prisiau'r cyfrolau hyn.

Cofier am CYMRU hefyd. Y mae rhifyn Ionawr yn rhifyn dwbl,—pris swllt. Ni chyhoeddwyd erioed yng Nghymru gymaint o erthyglau a darluniau am y pris. Ymysg y DARLUNIAU bydd "Llecyn Tlysaf Cymru" gan S. M. Jones; "Gwerthu'r Ferlen," gan A. E. Elias; "O gylch y tân," gan D. J. Davies; Mynwent Abererch (lle claddwyd R. ab Gwilym Ddu); cyfres o ddarluniau o Fro Morgannwg; Mynachlog Tal y Llychau; Eglwys Dewi Sant; portreïadau o Gwilym Hiraethog a llawer ereill. Yn y darluniau a'r erthyglau y mae talent oreu Cymru i'w gweld.



BLODEUYN CYNTA'R FLWYDDYN.



Y BLODEUYN CYNTAF.

BLODEUYN cynta'r flwyddyn, croesaw iddo, yw'r tlysaf un. Yr eiriawl oedd y cyntaf welodd Hael a Haf, yn gwenu o'r eira ger llwyn coed.

Dywedir mai brodor o wlad gynhesach yw'r eiriawl, a'i fod yn blodeuo yn ein hinsawdd oer ni ar yr un adeg ag y blodeua yn ei gartref heulog.

Yr wyf yn dymuno blwyddyn newydd dda i chwi oll, lawn o'r blodau nefol all dyfu yng

ngauaf ein daear ni, yn enwedig cariad Crist.

Y DDAU HOGYN RHEINY.

GAN WINNIE PARRY.

I. BOBBIE A WILLIE.

DARLLENAIS amryw lyfrau yn adrodd hanes plant, ac arferwn gredu fod eu hawdwyr yn tynnu ar eu dychymyg i raddau pell iawn yn yr hyn adroddant am eu harwyr bychain. Credwn nad oedd dichon cael bodau tebyg i'r rhai ddesgrifid ganddynt. Yn rhinwedd fy swydd o athrawes yn Ysgol y Bwrdd, Nantgwyn, yr oeddwn yn tybied fod gennyf brofiad eang o bob mathau o blant, ac nid oeddwn erioed wedi dyfod ar draws yr un plentyn yn ymddwyn fel y rhai hynny yn y llyfrau.

Ond erbyn hyn mae fy syniadau wedi cyfnewid yn ddirfawr, a chaiff yr awdwyr hynny ddweyd yr hyn a fynnant wrthyf. Credaf y pethau mwyaf eithafol allent adrodd. Ac am fy mhrofiad eang o bob mathau o blant, yr wyf wedi gorfod cydnabod mai ffolineb oedd i mi erioed feddwl fy mod yn feddiannol ar y fath beth. Arwynebol i'r eithaf ydyw pob profiad ynglŷn â hwynt ond yr un geir wrth fyw yn yr un tŷ a rhai ohonynt am beth amser. Dyma'r unig ffordd i sylweddoli yn drwyadl eu galluoedd ymhob cyfeiriad. Yr achos o'r chwyldroad yma yn fy syniadau oedd "Y Ddau Hogyn Rheiny."

Yr oedd iddynt enwau wrth gwrs,—dau enw digon diniwed,—Bobbie a Willie. Nid oeddynt, fodd bynnag, yn fynegiad i'w cymeriadau. Twyllodrus hefyd oedd eu hymddanghosiad allanol, yn enwedig ar fore Sul pan yn cerdded i'r capel yn eu siwtiau melfed du, a'u coleri gwynion llydain. Er, feallai, buasai sylwedydd craff yn canfod yr osgo i ymdroi ar ran neillduol o'r ffordd, ac hefyd y fflachiad yn llygaid y ddau wrth fyned heibio i dŷ neillduol yn y pentref; ac os digwydd iddo fod yn gyfarwydd â ffyrdd rhyfedd ac anesboniadwy bechgyn bychain, buasai yn deall pa gysylltiad oedd rhwng pwll o ddwr lleidiog wrth ochr y ffordd ac arafwch eu cerddediad wrth fyned heibio iddo. A buasai y gath yn eistedd yn synfyriol ar garreg drws y tŷ crybwylledig yn ddigon o ddehongliad iddo ar y fflachiad yn eu llygaid pan gawsant olwg arni.

Ond nid wrth yr enwau Bobbie a Willie y coffheir hwynt gyda ni. Am "Y Ddau Hogyn Rheiny" y soniwn bob amser, a bydd yma godi dwylaw ac ysgwyd pen pan y crybwyllir am danynt. Buont acw fis, ac feallai na fyddai adroddiad o ddigwyddiadau y mis hwnnw yn amddifad o ddyddordeb i ambell un pan y crybwyllaf rai o ganlyniadau eu hymweliad. Cyfarfyddodd y gath â diwedd ditrifol; bu raid cyrchu'r ci i'r dref at y meddyg anifeiliaid, ac er hynny mae ol y frwydr arno eto; ac fel mynegiad i'r gweddill o'r hyn gymerodd le, digon yw i mi nodi fod holl grefftwyr y pentref, o'r saer hyd y gwneuthurwr clociau, wedi gorfod talu ymweliad â'r tŷ trwy wahoddiad arbennig ar ol ymadawiad "Y Ddau."

Gyda golwg ar y gath, druan, teg yw i mi hysbysu mai trwy fod yn or-ofalus am gynhesrwydd ei chorff y bu iddynt achosi ei diwedd, a'u bod yn galaru gymaint a neb yn y tŷ ar yr achlysur, er fod yn gymysg â'u galar hwy syndod at y canlyniad rhyfedd ac anisgwylidwy oedd wedi dilyn eu gweithred drugarog. A'r un modd gyda'r ci hefyd. Wrth ymdrechu cyfleu daioni iddo, yn ol eu tyb cydwylbodol hwy, y digwyddodd damwain iddo yntau, er wyrach na fuasai neb ond hwy eu hunain yn credu fod eu triniaeth ohono yn debyg o wneyd unrhyw les iddo.

GWEDDI BOB.

Y MAE llyfrgell lewyrchus yn y Dwyran, Mon. Dywed y gweinidog,—y Parch. John Williams,—fod y llyfrgell wedi llwyddo-tuhwnt i'w disgwyliad, fod ynddi gannoedd o gyfrolau gwerthfawr, a'r rhai hynny wedi eu rhoddi gan mwyaf gan garedigion.

Mae hanes ei dechreuad yn hynod a dyddorol. Fel hyn y dechreuodd, meddai Mr. Williams. “Mae yn y Dwyran yma lawer iawn o forwyr, a rhyw noswaith yr oedd nifer ohonom yn ymddiddan am gael llyfrgell, ac yn ein plith yr oedd cadben llong, yr hwn sydd aelod o'r eglwys hon.

“Ymhen ychydig ddyddiau aeth y cadben i ffordd at ei long, ynghyda phedwar eraill o'r ardal hon, y rhai sydd hefyd yn aelodau o'r eglwys.

“Cychwynasant ar eu mordaith yn gysurus, ond pan yn amgylchu Cape Horn cododd yn ystorm anghyffredin, chwythwyd yr hwyliau yn ddarnau, a chollassant rai o'r cychod. Erbyn hyn yr oedd pethau yn edrych yn ddifrifol; nid oedd dim yn y golwg ond dyfrllyd fedd. Gwahoddodd y cadben y dwylaw ynghyd i gael ychydig o ymgynghoriad, ac meddai,—

“Wel, fy nghyd forwyr, mae hi ar ben arnom, yn ol pob peth sydd yn ymddangos ar hyn o bryd. Nid oes dim ond un peth a fyddai yn waredigaeth i ni, a hynny ydyw i'r gwynt droi. Beth ydych chi yn feddwl fyddai y goreu i ni wneyd?”

“Ac meddai un o'r morwyr,—‘Mi faswn i yn cynnyg i Bob weddio.’ Ac â hynny y cydsyniwyd, ac aeth Bob ar ei liniau i weddio, a gweddi o ddirif ydoedd.

“Y gwirionedd ydyw hyn. Ymhen pedwar munud ar ddeg fe drodd y gwynt o'u tu, a chyrrhaeddasant hwythau y porthladd a ddymunent yn ddiogel. Pa gyfrif bynnag ellir roddi am yr uchod, dyna'r ffaith.

“Mor gynted ag y cawsant y lan, aethant i ymgynghori pa aberth a wnaent am y fath waredigaeth amserol. A daethant i'r penderfyniad i anfon gyda y post cyntaf £5 0 0 at sefydlu llyfrgell yn eu cartref yn Nwyran. A dyna ddechreu'r llyfrgell.” Llawer a ddichon taer weddi y cyfawn.

Llangefni.

ASIEDYDD.

Dernyn o aur yw nugget. Catwyd un yn ddiweddar yn Kanowna, yn Awstralia Orllewinol, yn pwyso dros bymtheg can owns, ac yn werth chwe mil a hanner o bunnau.



CARTREF Y LLWYNOG.

“Os medr fynd a'r wydd adre, bydd llawenydd ymysg ei rai bach.”

CARTREFI EIN CYMYDOGION.

I. CARTREF Y LLWYNOG.

MAE'R llwynog yn un o'n prif gymydogion. Er cymaint o dai a phobl sydd yn ein hynysioedd ni, y mae'r llwynog yn medru arros eto, er cymaint o hela sydd arno, bron ym mhob rhan o'r wlad.

Twll neu ogof mewn craig, neu dan gysgod coed, yw ei hoff gartref. Chwilia am ryw lecyn neillduedig tawel, ac yno y portha ei rai bach, ac y dysg iddynt ei ffyrdd cyfrwys ei hun.

Cysga lawer yn y dydd, a chwyd allan at y nos. Y mae'n fuan-droed iawn, ac yn gyfrwys iawn. Crwydra ymhell o'i gartref i chwilio am ysglytaeth. Cig yw ei fwyd; ac, os caiff ei ddewis, cymer ysgyfarnogod, cwingod, gwyddau, ieir, a phob math o adar.

Pan fo'n dechreu tywyllu, gofelir cau'r gwyddau mewn lle diogel, yn enwedig gwyddau'r amaethdai sydd ar fin y mynydd. Os esgeulusir, feallai mai y nos honno y daw y cadnaw. Clywir uchel dwrf y gwyddau, rhuthra'r gweision yno, ond gwelant fod un o'r gwyddau ar goll. Mae'r llwynog wedi bod yno, wedi ei lladd, wedi ei thafu ar draws ei gefn a'i gwddf yn ei safn,—ac erbyn hynny'n ddigon pell o gyrraedd y cwn. Os ymlidir ar ei ol ar unwaith, gad yr wydd, a dianc am ei fywyd.

Os medr fynd a'r wydd adre, bydd llawenydd ymysg ei rai bach. Tyn y naill yn ei throed, chwilia un arall ei phig, gan ddifyrru eu hunain nes y daw'n amser cinio. Ac yna difyr iawn fydd ar y llwynogod bach.

Y mae'r llwynog y mwyaf cyfrwys o'r holl fwystfilod. Medr guddio ei ysglyfaeth os bydd eisiau. Tyr dwll yn y ddaear a rhydd yr wydd neu'r iar neu'r ysgyfarnog yno, gan ei chuddio â phridd.

Yn y gwanwyn y mae'r wyn yn hoff ysglyfaeth iddo. Ond weithiau, erbyn iddo ddod a'r oen adre, bydd y bugail wedi bod yn ei gartre, a mynd a'i rai bychain i ffwrdd. Yna bydd yntau'n teimlo fel y teimla'r ddafad wedi colli ei hoen. Gwelais lwynogod bychain mewn amaethdy mynyddig unwaith, mewn cawell. Yr oedd eu llygaid yn gochion ffyrnig, a cheisient frathu'r llaw gynhygiai fwyd iddynt. Gwrthodasant fwyta dim, a buont farw o newyn.

Y mae hela llwynog yn un o ddifyrion rhai sydd ag amser a moddion. Rhed at ei gartref, a cha fod yr helwyr wedi rhoi carreg i'w rwystro i mewn. Yna rhed am ei fywyd, nid yn droiog fel yr ysgyfarnog, ond yn syth yn ei flaen. Rhed weithiau am hanner can milldir, rhed am wyth neu ddeng awr heb hollol ddiffygio. Pan ddelir ef, ymladda yn ddistaw a milain hyd nes y tyn y cwn ef yn gareiau.

Soniodd yr Iesu am Herod gyfrwys greulon fel "y cadnaw hwnnw." Meddyliodd hefyd am gartref y llwynog pan ddywedodd nad oedd "gan fab y dyn le i roi ei ben i lawr."

WRTH FYND DRWY'R BYD.

(*Cyngor ar ddechreu blwyddyn.*)

WRTH fynd drwy'r byd yn erbyn gwynt,
 Storm temtasiynau lu,—
 Bydd mor ddiniwed ar dy hynt
 A'r fwyn golomen gu;
 Tanbeidied purdeb er pob loes,
 Yn goron ar dy ben;
 Er gwaethaf drain pechodau'r oes,
 Bydd lân fel lili wen.


Hyd lwybrau dysg i fyny bryn
 Anrhydedd dos yn syth;
 A boed rhosynau'th fywyd gwyn,
 Yn perarogli byth;
 Ym mrwydrau y gwirionedd byw,
 Paid bod fel corsen wan;
 Ond dal er stormydd o bob rhyw,
 Fel derwen ym mhob man.

Wrth fynd drwy'r byd na ddeued pla
 I'th gwrdd, na throion chwith;
 Blagured dy weithredoedd da,
 Dan nefol loew wiith;
 Dan wenau euraidd hawddfyd gwel
 Fod gennyt galon iach;
 Hyd flodau rhinwedd casgla fêl,
 Fel y wenylen fach.

Os rhua adfyd wrth dy ddrws,
 Os troir dy ddydd yn nos,
 Disgleiried dy gymeriad tlws,
 Drwy'r oll fel seren dlos;
 Fel arwr dewr, bydd fel y dur,
 A'th gân yn llonni'th waith;
 A fflam dy serch at bopeth pur,
 Fo yn goleuo'th daith.

Y Bala.

RICHARD AB HUGH.



I. RHAGYMARRODD.

MAE llygaid y byd yn troi eto, yn y dyddiau hyn, at hen wledydd Prydain; ac y maent, yn yr ystyr filwrol, ymysg gwledydd pwysicaf y byd. Ddiwedd y flwyddyn ddiweddf bu ymherawdwr yr Almaen ar daith trwy wlad Canan. A phwy ŵyr na ddaw Asia Leiaf yn fuan yn flodeuog fel cynt? Ie, nid amhosibl yw i Ninefeh a Babilon godi eto o lwch canrifoedd.

Yr wyf yn bwriadu rhoi ambell gipolwg ar olygfeydd dyddorol draw yn y dwyrain, lle mae'r pyramid eto'n gweled haul tanbaid y bore, a lle mae'r balmwydden eto'n codi oddiar lan afonydd dyfroedd.

II. CYRRAEDD KHARTOUM.

COLBORNE,—*In the Soudan.*

Ar wawr y bore, gwelem olygfa megis golygfa yng ngwlad hud. Yr oedd bron lydan yr afon ardderchog yn disgleirio dan belydrau cyntaf yr haul; ac megis botymau gwyrddion arni yr oedd ynysoedd dirifedi, yn dod i'r golwg yn raddol o'r niwl goleugoch difannol. Ymhell bell o'n blaenau gwelem res hir o hwyliau gwynion y cychod ar eu ffordd tua Khartoum. Fel yr awn ymlaen y mae'r mynyddoedd yn cau o'n cwmpas. Crwydrwn trwy'r "can ynys namyn un," gan syllu ar y llwyni ardderchog o goed. Toc y mae'r golygfeydd yn dod yn wylltach, a'r Nilus fawreddog dawel yn troi'n afon fynyddig wyllt. Yn awr yr ydym ym merw y rhaiadr olaf. Yn araf,

yn boenus, bob yn fodfedd, yr ydym yn morio trwy'r nos yn erbyn yr afon; ond tua chanol dydd drannoeth yr ydym wedi cyrraedd yr afon agored drachefn.

Yn awr y mae'r mynyddoedd anial yn cyrraedd at yr afon. "Y Sychedig" yw enw arwyddocaol y mynydd acw. Cyfyd bryn serth o'r afon bob ochr, a chrocodeil yn cysgu canol dydd lle bynnag y mae digon o dywod iddo sefyll arno.

Ond dyma ni allan o'r ceunant, ac yn morio'n hyfryd eto ymysg llu o ynysoedd,—a'r balmwydden frenhinol brydferth yn codi i fyny at yr awel o fysg tyfiant amryliwiog.

Yr ydym yn ymyl man cyfartod y Neil Wen a'r Neil Las yn awr,—y mae dwfr un ochr i'r afon yn laswyn, a'r llall yn wen. Filldir yn uwch, ar y Neil Las, gwelwn Khartoum, a hyfryd i'r llygad yw gorffwys ar ei llwyni palmwydd hi.

III. BEDD AR FIN ANIALWCH.

MACDONALD,—*Too late for Gordon.*

Bedd rhwng gwlad ffrwythlawn a'r anialwch anherfynol,—onid yw'n ein hadgofio am y ffarwel âg un anwyl ar fin tragwyddoldeb mawr?

"Codasom cyn i'r haul godi, wedi ein deffro gan swm yr adar uwch ein pen, a murmur y colomennod. Daeth y pentrefwyr ag ychwaneg o laeth a wyau, ac wedi brecwast brysiog ail gychwynasom i'n taith. Arweiniai ein llwybr oddiwrth y Neil yn awr, dros anialwch tywodlyd.

"Ar y ffordd aethom heibio amryw fynwentydd. Ar bob bedd yr oedd cerrig gwynion, cochion, a melynion. Yr oedd ar y beddau hetyd lestri pridd o wahanol ffurfiau. Y rhai hyn, meddai fy ngweision, oedd y llestri olaf ddefnyddiwyd gan y marw, a rhoddid hwy ar y bedd i gofio am dano. Yr oedd y beddau bob amser rhwng y tir ffrwythlon a'r anialwch mawr,—ar ymyl yr anialwch."

IV. AFON YN YR ANIALWCH.

"Yr wyt yn ymweled â'r ddaear, ac yn ei dyfrhau hi; yr wyt yn ei chyfoethogi hi yn ddiffrwyr âg afon Duw, yr hon sydd yn llawn dwfr; yr wyt yn paratoi yd iddynt. Coroni yr ydwyf y flwyddyn â'th ddaioni, a'th lwybrau a ddiferant fraser. Diferant ar borfeydd yr anialwch; a'r bryniau a ymwregysant â hyfrydwch. Y ddydd a wisgir â defaid, a'r dyffrynnoedd a orchuddir âg yd. Am hynny y bloeddiant ac y canant."

BRWYDRAU RHYDDID.

I. RHAGYMATRODD.



YDYW yn iawn son wrth blant am frwydrau? Hoffwn i bob plentyn-gashau ymladd er mwyn ymladd neu er mwyn darostwng cenedl neu dir. Ond peth arall yw brwydrau rhyddid. Aberth y dewr dros y gwan a'r diniwed oeddynt hwy. Dros gartref, dros fam a phlentyn, dros wlad anwyl a thros Dduw, yr ymladdwyd hwy. Ac yr wyf am son am rai o'r brwydrau hynny, y brwydrau roddodd ddynol ryw yn rhydd.

Ymysg yr hanesion cyntaf sydd gennym am ein tadau, cawn hanes brwydro â dreigiau erchyll. Byddai

draig hir gadwynog, gyda thraed byrion ac adenydd daneddog, a chyda safn anferth, yn dod o ryw gors afiach gerllaw. Weithiau plant yn unig gymerai i'w bwyta, dro arall genethod ieuainc yn unig. Ac o'r diwedd codai rhywun dewr ymysg y bobl, gwisgai ddur am dano, a mentrai i gyfarfod yr anghenfil, i ymladd dau fywyd âg ef. Ac yna, drwy gollu un bywyd clwyfid y ddraig, a byddai'r bobl yn rhydd.

Dywedir am Sior, nawdd sant Lloegr, iddo ef ymladd â draig er mwyn ei bobl. Medrai Padrig, nawdd sant yr Iwerddon, hefyd, yrru pob creadur gwenwynig o'r tir.

Chwedlau yw y rhai hyn, ond y mae iddynt eu hystyr. Weithiau gormeswr yw y ddraig, ac ymleddir brwydr galed âg ef er mwyn rhoddi gwlad yn rhydd; a chofia'r Swisiaid am William Tell, y Ffrancod am Sian d'Arc, y Cymry am Owen Glŵr.

Dro arall pla yw y gelyn, a mentrai rhywrai dewr i'w wyneb, i ymladd âg ef, ac i rwystro iddo ddyfetha y bobl. Yr wyf yn adwaen bechgyn ieuainc sydd yn ymladd â'r pla ofnadwy sydd yn yr India'n awr.

Ymladdodd yr Iesu i ryddhau dynol ryw. Gorchfygodd ei addfwynder a'i aberth y byd, a rhoddodd ryddid i ni.

Yn y penodau sydd i ddilyn, darlunias rai o frwydrau mawr rhyddid,—y brwydrau enillodd eu rhyddid i wledydd ac i'r caethion,—lle gwelir gwrhydri ac aberth y dewr.



PLANT CYMRU. CII. PLANT YNYSWYL, MORGANNWG.

YSGOL SUL JERUSALEM, YNYSBWL.

RHAI o blant Ysgol Sul Jerusalem, ynghyd â'u hathrawesau, welir yn y darlun gyferbyn. Daw darluniau'r bechgyn eto.

Cangen a ddaeth o hen eglwys Bethel, Llanwyno, ac a ddechreuodd ei gyrfa yn Hydref, 1885, yw yr ysgol hon. Erbyn heddyw y mae wedi tyfu yn llawer mwy na'r hon y tarddodd o honi.

Mewn tŷ annedd y cychwynwyd hi, ac unarddeg oedd yn bresennol y Sabbath cyntaf; erbyn y Sabbath dilynol cafwyd lle mewn llofft ystabl; a buwyd yn y fan honno nes y gorfuwyd estyn "cortynau y preswylfeydd." Symudwyd drachefn i siop wag, hyd nes i'r festri bresennol ddyfod yn barod ym mis Gorffennaf, 1887. Adeiladwyd capel yn y flwyddyn 1888, ac y mae yn perthyn iddo eglwys a chynulleidfâ gref.

Cerrir gweithrediadau yr ysgol ymlaen mor debyg ac y mae yn bosibl i'r ysgolion dyddiol, ac athrawon ieuainc sydd yn ddieithriad yn gwasanaethu gyda'r plant. Yr ydym wedi cael prawf twy nag unwaith ar weithgarwch diffino y bobl ieuainc gyda phlant yr ysgol hon.

NEILLDUOLION YSGOL.

Y MAE gan ysgol, fel bachgen neu eneth, nodweddion cymeriad. Ac, fel mam, rhydd argraff ei nodweddion ar ei phlant.

Mae dwy brifysgol fawr Prydain,—Rhydychen a Chaer Grawnt,— yn debyg iawn i'w gilydd; ond gall y cyfarwydd ddweyd ar unwaith i ba un ohonynt y perthyn gŵr fo'n siarad ag ef. Trylwyredd, hwyrach, yw un o nodweddion Caer Grawnt; aml-ochredd yw un o nodweddion y Rhydycheiniwr. Sel yw ffynhonnell nerth a gwendid y naill; goddefiad y llall. "Un ffordd iawn sydd," ebe'r gŵr o Gaer Grawnt, "a honno yw y ffordd y gwn i am dani." "Ie," ebe'r Rhydycheiniwr, "mae honno'n ffordd, ond nid yr unig un, a hwyrach mai nid yr oreu; ond yr wyt yn foddlon i'w threio."

Y mae i dri choleg cenedlaethol Cymru, ac i'r colegau ereill o ran hynny, eu neillduolion. Yr wyf yn sicr mai nodwedd bechgyn Aberystwyth yw cymwynasgarwch. Gwnant gymwynas, yn hytrach na pheidio, pan fydd hynny ar eu llaw. Mae awyr iach, a'r deffwyddwch sy'n dilyn iechyd, wedi rhoddi'r nodwedd hon iddynt. Ac nid oes dim yn talu'n well na pharodrwydd i wneyd cymwynas; y mae yn un o'r galluoedd mwyaf nerthol, er mor addfwyn, i wneyd gwaith. Madgeuer i mi am gyfeirio at esiampl neu ddwy. Dyma hanfod llwyddiant T. E. Ellis. Yn yr ysgol, yn y coleg, yn y Senedd gwnai gymwynas hyd yn oed i elyn. Dyna J. A. Jenkins,—cofrestrwydd

Coleg Prifysgol y De,—y mae'r olew gwerthfawr hwn yn ei gymeriad yntau. A pha le bynnag yr holaf am fechgyn Aberystwyth,—yn athrawon, gweinidogion, meddygon, cyfreithwyr, ffermwyr, siopwyr, a phopeth,—y mae'r cymwynasgarwch hwn yn esboniad ar eu llwyddiant. Pe cawn i'm dewis o lawer o ddoniau,—hyawdledd, cyfoeth, athrylith, doethineb, a'r holl bethau wna ddyn yn allu yn ei wlad,—dewiswn nodwedd bechgyn Aberystwyth o'u blaenau i gyd.

Onid hyn oeddwn yn feddwl ddweyd,—y mae llu ysgolion Cymru yn awr yn ffurfio eu cymeriadau; a'r neillduolion a roddir iddynt yn awr fydd ganddynt, ond odid, am oesoedd. Fel y daw plant newyddion i'r ysgol, argreffir nodweddion yr ysgol ar eu cymeriadau. A dyma'r rheswm am bwysigrwydd yr athrawon, *a'r disgyblion*, cyntaf. Gall athraw dideimlad gwawdlyd andwyo, nid un oes yn unig, ond oesau. Gall bachgen drwg hyf fod yn felldith i ysgol pan wedi ei gadael ac wedi marw.

Am hynny, ymdreched pob athraw a disgybl i roddi i'w hysgol y nodweddion goreu fedd eu cymeriad hwy. Gwelaf un ysgol yn dad-blygu brwdfrydedd,—tân oddiworth dorch rhyw athraw selog sydd yno; ac y mae brwdfrydedd yn allu y rhaid wrtho. Gwelaf mewn ysgol arall gariad at y cain yn deffro,—ac olrheiniais ef i athraw tawel boneddigaidd sydd a'i holl enaid yn ei waith. Drwy Gymru mae nodweddion yn ffurfio ac yn tyfu; planhigion gwan ydynt yn awr, ond byddant yn gysgod i'r ysgol cyn bo hir. Gofaler, felly, nad tyfiant drwg ydynt.

Mae'n wir y gall bachgen neu eneth newid cymeriad ysgol. Yr wyf yn cofio bachgen yn dod i goleg y mae a fynno fi âg ef, ac yn codi cymeriad y coleg mewn tair blynedd. Dysgodd i'r bechgyn beidio edrych ar dlodi fel gwarth, dysgodd hwy nad oedd hyd yn oed yn anffawd; dysgodd i bawb anrhydeddu dirwest; dysgodd hwy i gredu mai nid prawf o athrylith, ond gwarth iddo, oedd diogi; dysgodd iddynt deimlo mai nid arwydd o fawredd oedd iaith ofer, ond arwydd o fychander natur lwtr. Gwelais eneth wnaeth i ferched ysgol gyfan ymogoneddu yn eu Cymraeg; a hwy o'r blaen yn ddigon mursenaidd ac yn ddigon anonest i wadu y medrent hwy iaith eu tad a'u mam.

Onid yn y dechreu mae hawddaf rhoi nodweddion da i ysgol. Ymysg y rhai hynny bydded cydymdeimlad ac anrhydedd.

Mae gallu Prydain ar y môr yn aruthrol. Hi bia' hanner llongau'r byd, a gellid troi cannoedd o'r rhain yn llongau rhyfel mewn ychydig ddyddiau.

SIROEDD CYMRU.

I. MORGANNWG.

YMYSG siroedd Cymru, Morgannwg yw yr ail o ran maint, a'r gyntaf o ran poblogaeth, cyfoeth, a phwysigrwydd.

Llechweddau deheuol hyfryd bryniau Cymru yw y sir hon. Y mae amrywiaeth mawr ynddi. Bryniau yw ei rhan ogledol; "Bro" werdd donnog yw ei rhan ddeheuol. Trysorgell Cymru yw ei bryniau; gardd Cymru yw ei Bro.

Rhed afonydd i lawr drwyddi o'r Bannau i'r môr,—afon Tawe, y Nedd, y Rhondda, afon Taf. Ar ei harfordir-



CASTELL CAER DYDD.

(Darlun gan A. Freke, Caerdydd.)

oedd y mae porthladdoedd eang a diogel,—Caer Dydd, Barri, Castell Nedd, ac Abertawe.

Y mae Morgannwg yn 856 milldir ysgwar, ac odditani i gyd y mae cyfoeth dihybydd o lo ac o arian,—nid oes le yn y byd yn meddu cymaint o gyfoeth mor agos i borthladdoedd cyfleus. Yn 1891 yr oedd poblogaeth y sir yn 687,218; nid oes ond deuddeg sir drwy'r deyrnas yn fwy poblog na hi, ac nid oes yr un wedi gwneyd cynnydd mor gyflym. Yn yr un flwyddyn yr oedd poblogaeth Caer Dydd yn 128,915; Abertawe yn 90,349; Merthyr Tydfil yn 58,080; Aberdâr yn 38,431; ac Ystradyfodwg yn 88,351. Erbyn hyn y mae y rhai hyn oll wedi cynhyddu llawer.

Pe cychwynnwn yn y dwyrain, deuem at Gaer Dydd yn gyntaf. Y mae hon y dref fwyaf yn Nghymru, ac yn un o bump neu chwech porthladd mwyaf y byd. Y mae ei dociau eang yn rhyteddod. Y mae ynddi hen gastell Normanaidd, gwelir ei olion du yn edrych ar y castell newydd,—trigfa Ardalydd Bute. Yng Nghaer Dydd, hefyd, y mae Coleg Prifysgol Deheudir Cymru.

Yn ymyl y mae Llan Daf, gydag un o bedair eglwys gadeiriol Cymru. I'r de y mae tref newydd brysur Barri, i'r gogledd hen gastell toredig Caerffili. Ymhellach i'r gogledd eto, y mae pyllau glo a fwrneisiau Dowlais, Merthyr Tydfil, ac Aberdâr. Ychydig i'r gorllewin ceir cymoedd poblog prysur y ddwy Rondda. Awn ymlaen a down i Lyn Nedd, llawn prydfferthwch a chyfoeth; ac oddi-yno i Ddyffryn Tawe. Yng ngwaelod y dyffryn hwn gwelwn fŵg Treforis ac Abertawe,—canolfan y gweithio haiarn ac alcan, yn enwog trwy'r holl fyd.

Gadewch i ni fynd drwy Abertawe i ddeheudir y sir; gadawn y mŵg ar ol, a chawn fro lawn o firwythau a blodau. Er llymed a hagedd yw yr olwg gyntaf gawn ar Abertawe,—dim ond mŵg a chwys,—cawn tau digymar o brydferth, a gwlad swynol, newydd fynd drwyddi. Gallwn droi ar y dde, a chrwydro drwy froydd iach a thlws Gŵyr. Neu trown ar y chwith, heibio adfeilion hen fynachlog Glyn Nedd, sydd wedi duo gan fŵg y gweithydd, ac ymdeithiwn i Fro Morgannwg. Down i wlad Wil Hopcin,—i Ben y Bont a Threlalas,—a buan y down i wlad y caeau gweiriog tawel. Y Bont Faen yw canol y fro; ac o'i hamgylch y mae llawer pentref bychan cysglyd. Gwlad dlos odiaeth yw hon, a hawdd y gallasai D. ab Gwilym roddi ei holl ddychymyg ar waith wrth yrru'r haf yn gennad drosto i Forgannwg. Ond cyn hir down at brysurdeb mawr eilwaith, pan ddaw Barri i'r golwg.

Y mae i'r sir gyfoethog hon,—yn fro a bryniau,—hanes hir a



GOLWG AR DREFORIS.



PORTHLADD ABERTAWE.

(Golygfa oddiwrth y Llyfrgell Ryd a bed i Chr'tmas Evans.)

dyddorol. Yn y ddeuddegfed ganrif daeth y Normaniaid i orchfygu ei Chymry mwynion, ac i deyrnasu arnynt. Codasant gestyll ymhob cwr ohoni, gwelir eu hadfeilion bron ym mhob dyffryn hyfryd yn y Fro. Yn eu cysgod codwyd aml fonachlog hefyd,—yn enwedig Glyn Nedd a Margam.


Ond, erbyn heddyw, y werin sy'n rheoli yno, wedi llawer o droion hanes. Daeth Masnach a Diwydrwydd, a graddol ymneillduodd Gorthrwm o'u blaen. Y mae Morgannwg erbyn heddyw yn llawn o bobl o bob rhan o Gymru; y mae nerth Cymru ynddi. Y mae ynddi feddyliau clir yn cynllunio a breichiau cryfion yn gweithio, a gwyr pob rhan o'r byd am dani.

Mewn moesoldeb nid yw, oherwydd ei phorthladdoedd a'i gweithydd, mor lân a'r siroedd ereill. Ond y mae ganddi weithwyr pybyr dros grefydd a moesoldeb ac addysg, a chynhydda ei phurdeb gyda'i nerth.

I'W DDARLLEN YN DDIFYFYR.

Gwelais eleffant yn mynd i'r ffair yr oedd John yn y cae mae gwartheg yn bwyta pryfed, genwair mae pysgod yn yr afon mae gro yn y chwarel mae llechi yn cael eu gwneyd i'w bwyta mae afalau diniwed yw'r oen bach sydd i ddal pysgod mewn fwrn mae tan yn boeth mae'r haul yn y nos mae lleuad.

HOW. OWEN.

RHYFEDDODAU CELFYDDYD.**I. PYRAMIDIAU'R AIFFT.**

PYRAMID CHEOPS.

ID oes, ond odid, o fewn y byd ryfeddodau celfyddyd mor hen a Phyramidiau'r Aifft. Edrychant yn dawel heddyw, oddiar gwr yr anialwch, ar gydymgais gwyllt cenhedloedd, ac y maent wedi gweled llawer tro ar fyd cyn hyn. Yr oeddynt yn hen pan oedd celfyddyd Groeg yn ei chryd; yr oeddynt yn dair mil o flynyddoedd oed pan ffodd Joseff, gyda Mair a'r Iesu bychan, o'i wlad ei hun i'r Aifft.

Rhwng dyffryn cul ffrwythlawn y Nilus a'r anialwch anhysbys eang sy'n ymestyn i ganol Affrig, y mae erchwyn o fryniau creigiog. Ac ar y rhain, rhwng y dyffryn


a'r anialwch, rhwng bywyd a marwolaeth, y codwyd y pyramidiau enfawr.

Cerrig aruthrol ysgwar, wedi eu naddu'n ofalus, yw eu defnydd; a'r syndod ydyw pa fodd y medrwyd eu trwsio, eu cludo yno, a'u ffitio i'w gilydd mor berffaith. I oesau wedyn bu'r Pyramidiau'n ddirgelwch ac yn rhyfeddod. Daeth y Persiad, y Rhufeinwr, a'r Arab yn eu tro i orchfygu'r wlad, ac wrth edrych ar y pyramidiau mawr distaw ar fin yr anialwch, gofynnent oll,—Pwy a'u cododd? Beth sydd y tu mewn iddynt?

Pan fedrodd yr Arab gloddio i mewn iddynt o'r diwedd, ni chafodd drysor yno,—ystafell fechan sydd yng nghanol y maswnwaith enfawr, ac ynddi gorff perarogledig un o hen frenhinoedd yr Aifft.

Pan ddechreuai brenin deyrnasu, dechreuai baratoi lle ei fedd. Cliriai ei weithwyr le gwastad ar ben craig ar fin yr anialwch. Yna gwnaent byramid dros ystafell. Yna, os byddai'r brenin byw, gwisgent y pyramid â haen arall o feini enfawr,—ac felly, wrth gael gwisg ar ol gwisg,—tyfai'r pyramid gyda blynyddoedd y brenin. Bu i Cheops fywyd hir, a'i byramid ef yw'r mwyaf un. Y mae'n gorchuddio tua thair acer a'r ddeg o dir. Y mae hyd pob ochr yn 750 troedfedd, ac y mae uchder pob ochr lechweddog yn 568 troedfedd,—y mae felly cyn uchred ag adeiladau pigfain uchaf y gorllewin, ac yn gan cadarnach.

Cadernid yw prif nodwedd y celfyddydwaith rhyfedd hwn. Ystafell fechan yn ei ganol yw ystafell y marw. Uwch ben genau y fynedfa gul iddi gorweddai bloc enfawr o wenithfaen ar drawstiau. Pan



AR BEN Y PYRAMID.

gludid y brenin i'w orffwysta garreg, tynnid y trawstiau, syrthiai'r garreg fawr i'w lle,—a chai'r brenin fod yno am oesoedd, a neb yn alluog i aflonyddu ar ei hun olat. Mae'n ddi-ameu fod yr Aifftiaid yn credu fod a fynno'r corff ág anfarwoldeb yr enaid, a dyna sy'n esbonio awydd eu brenhin-oedd i ddiogelu eu cyrff. Ond, erbyn heddyw, y mae'r Arab ysbeilgar wedi medru tyllu i ystafell fechan y marw,—ac nid yw corff y brenin Cheops yn gorwedd yno mwy.

Ond gellir barnu mor gadarn yw'r

pyramidiau, a'r gwaith aruthrol sydd arnynt, oddiwrth anhawsderau y rhai fu'n ceisio eu difa. Ceisiodd un o'r chaliffiaid dministrio'r Pyramid Coch. Bu ei weithwyr wrthi'n ddyfal am wyth mis, ac yna digalonodd. Ond, o bell, ni welir ol y dinistrwyr ar y Pyramid Coch.

Gellir dringo Pyramid Cheops i'w ben, ris ar ol gris. Rhaid i'r anghyfarwydd logi dau Arab, neu hwyrach dri; un i dynnu ymhob braich, ac un i wthio y tu ol. Cymerir tua chwarter awr i esgyn, ac y mae'n sicr mai wedi colli dy anadl y cyrhaeddi'r pen,—lle deuddeg troedfedd ysgwâr.

Mae'r olygfa yn un nas gall y dychymyg cryfaf ei darlunio. Edrycher i lawr,—y mae pyramidiau a beddau'r cynfyd o'n cwmpas. Edrycher drostynt tua'r dwyrain. Ar un law y mae henn ddinas Memphis, ar y llall y mae Cairo. Y mae'r haul ar yr afon, a hi yw bywyd yr Aifft. Ar ei glannau y mae caeau gwyrrddion, a'r palm-

wydd tal breuddwydiol yn dwyn i'n meddwl hen ddarlun o'r duwiol,—"fel pren wedi ei blannu ar lan afonydd dyfroedd." Troer i gyfeiriad y gorllewin i weled gwlad heb afon. Ar hyd ymyl yr anialwch, i dde a gogledd, gwelwn bennau'r pyramidiau ereill yn codi i'r nen. A'r anialwch,—o liw melyngoch unffurf,—darlun o farwolaeth neu dragwyddoldeb yw.

Gellir mynd i mewn i'r pyramid hefyd. Cul ac isel a hir yw'r fynedfa, a distaw iawn yw ystafell y brenin. Sylwer ar berffeithrwydd y maswnwaith; dywed un hen ysgrifennydd fod y meini mawr wedi eu ffitio i'w gilydd mor gelfydd fel nas gellir gwthio blaen nodwydd neu flaen gwelltyn i'r cyswllt.

Ychydig wyddis o hanes y pyramidiau. Os oes rhyw goel ar draddodiadau, trwy orthrwm y fflangell y gweithiodd cannoedd o filoedd o bobl i'w codi. Ond arhosant, yn ol pob tebyg, i ddiwedd y byd,—i ddweyd am awydd oesoedd boreuaf hanes am dawelwch anfarwoldeb.

Ysbeiliwyd yr Aifft gan genedl ar ol cenedl,—y mae ei thrysorau, ie, cyrff ei brenhinoedd,—yn amgueddfeydd bron bob gwlad. Os mai Prydain sydd i reoli hen wlad y Pharoaid, mae'n sicr y sicrheir i'r Aifft cyn hir yr hyn sydd yn weddill iddi o drysorau ei hen gelfyddyd. Ond gwir iawn yw'r gair na fedr yr un genedl ladronllyd ei hysbeilio o'i pyramidiau.

CORACHOD LOC GWELTAS.

CHWEDL LYDEWIG.

YN yr hen amser trigai yng ngwledydd Gwened a Chernew gorachod drwg, yn cael eu rhannu yn bedair cenedl,—un ohonynt yn trigo yn y coedydd, y llall yn y glynnoedd, y drydedd yn y trefydd, a'r bedwaredd yn y meusydd agored. Yn yr amser yr wyf yn dweyd am dano, yr oedd corachod bron ymhob lle trwy Lydaw. Yn Ploadren, yn agos i Loc Gweltas, yr oedd maes agored mawr o'r enw Daear y Dderwen. Yn hon yr oedd tref corachod. Deuai y corachod bychain a drwg hynny i ddawnsio yno bob nos, a phwy bynnag a basiai pryd hwnnw trwy y maes, oedd yn sicr o gael ei gymeryd i'r ddawns, a rhaid iddo lamu hyd nes cân y ceiliog, pryd y syrthiai i'r llawr yn farw. Er hynny, ar noson auaf, aeth Benead Gwilsier, wrth ddyfod adref o'i gaeau, drwy y maes i fyrhau ei ffordd. Yr oedd yn credu y byddai iddo fynd trwy'r maes cyni y nos; ond pan ddaeth i'w ganol, gwelodd y corachod duon yn ei amgylchynu, fel brain mewn cae gwenith.

"O Santes Anna!" ebe'r ffarmwr, "colledig wyf! Rhaid i mē ddawnsio hyd y bore."

Daeth y corachod ato fel haid o wenyn. Ond beth? Dyma hwy yn crynnu, ac yn lle cymeryd Gwilsier, penliniasant o'i flaen. Yr oeddent wedi gweled yn ei law ffon fechan wen, yr hon oedd ganddo yn glanhau swch ei aradr. A chanasant holl ynghyd,—

"Hedd iddi, hedd iddo,
Mae ffon yr aradr ganddo,
Hedd iddo, hedd iddi,
Mae ffon yr aradr ganddi!"

Dealodd yr amaethwr fod ei ffon wen yn wared iddo rhag y corachod, ac aeth ymaith o'r maes heb ddrwg yn y byd. Bu hynny yn wers i'r wlad; wedi hyn dygai pob teithiwr, pan deithiai yn y nos, ffon fechan wen yn ei law. Ond yr oedd Benead Gwilsier yn ddyn anedwydd, oblegid crwb mawr oedd ganddo rhwng ei ysgwyddau. Dymunai dynnu hwnnw oddiar ei gefn, ac nid oedd ond y corachod yn abl i wneyd hynny. Aeth yntau gyda fforch fechan wen ei aradr tuag at y maes, heb anghofio anfon gweddi at Santes Anna, mam y Brythoniaid. Pan welodd corachod Daear y Dderwen ef yn dod, daethant ato gan floeddio,—

"Dyma Benead!"

"Ie, ie, fy nynion bychain, dyma fi eto; yr wyf yn dod i'ch gweld! pan y mae gennyf ychydig o amser. Rhaid i gymydogion da ymweld â'u gilydd, onid gwir?"

"Ie'n sicr," ebe hwythau. "Croesaw da i ti. A ddawnsi di gyda ni?"

"O, na wnafl, fy meistri bychain anwyl. Nid yw fy anadl yn ddigon hir."

"Pan ddymuni, peidiwn a dawnsio."

"Addawch ar groes yr Iesu."

"Ni a addawn ar groes yr Iesu." Cymerodd Benead Gwilsier ei le yn y cylch, a dechreuodd y corachod ddawnsio, gan glapio eu cân arferol,—

"Dydd Llun, dydd Mawrth, dydd Mercher!"

"Y mae'ch cân yn unfurf iawn, fy meistri anwyl," ebe Gwilsier. "Yr ydych yn darnio yr wythnos. Yr wyf ffinau yn abl i hwyhau y gân,—"

"Dydd Llun, dydd Mawrth, dydd Mercher,
A dydd Iau a dydd Gwener."

"Mâd! Mâd!" ebe'r corachod. "Yr wyt yn gantor da. Dywed eilwaith." Bloeddiodd Gwilsier,—

"Dydd Llun, dydd Mawrth, dydd Mercher,
A dydd Iau a dydd Gwener."

A'r corachod yn dechreu dawnsio eilwaith gan chwibanu fel cwn, a ddywedent gyda llawenydd,—

“Beth wyt ti yn ddymuno am dy boen, ffrynd? Golud neu degwch?”

“Fy meistri anwyl a pharchedig, pan ydych mor dda a gofyn i mi ddymuno peth, mi a ofynnaf gennych dynnu fy nghrwb oddiar fy ysgwyddau.”

“Ie. Dos yma.” Cymerasant ef, a thafasant ef o law i law, hyd ddiwedd eu cylch. Yr oedd y truan yn goddef llawer, ac yn ocheneidio yn hir; ond pan ddaeth at y diweddaſ gorach, yr oedd ei grwb wedi diflannu, ac efe mor deg a dyn ieuanc. Pan ddaeth adref i Loc Gweltas, bu y trigolion mewn syndod mawr, a'i wraig ei hun ni chredai mai efe oedd hyd nes iddo ddweyd nifer ei chapiau a'i siawlau. Deuai pob un i ofyn pa fodd y daeth mor deg, ond dywedai efe ei fod un noson yn cysgu yn y caeau, a phan ddihunodd, yr oedd yn ddigrwb. A llawer ohonynt a'i credent, ac aeth un neu ddau i gysgu yn y caeau dair nos y naill ar ol y llall.

Yr oedd ymysg y dynion cefngrwba deiliwr o'r enw Ieuan Tort. Gŵr anhygar oedd, a chybyddlyd oedd fel hen gi. Yr oedd Gwilsier yn ddyledwr iddo o ddwy bunt. Daeth Ieuan at ei dŷ, a dywedodd wrtho y gwerthai ei anedd os na ddywedai pa fodd yr oedd ei grwb wedi myned ymaith. Crwb ydoedd hefyd ar gefn yr hen deiliwr. Felly bu'n rhaid i Wilsier ddweyd.

Y nos honno, aeth y dyn drwg yma i Ddaear y Dderwen gyda ffon wen yn ei law. Daeth y corachod tuag ato, a gofynasant iddo ddyfod i'w dawns. Aeth Ieuan i mewn i'r cylch.

(*I barhau.*)

GALAR BARDD AM EI UNIG FERCH.

PAHAM y ciliast, Maggie dlos?
Mae'r dydd i mi yn awr yn nos;
Ah! cest fwynhau y nefoedd bur
Ym more d' oes cyn adwaen cur.

Rhy ddwyfol brydferth oeddit ti,
Rhy lân, rhy anwyl i'n byd ni;
Am hynny cerddaist drwy y glyn,—
Y nefoedd oedd dy gartref gwyn.


Dy ddwyllaw gwynion, cain, di-nam,—
Hyfrydwch tad, a golud mam,—
Sy'n chwareu'r anthem “Iddo Ef,”
Ar aur delynuau nef y nef.

Dy wallt modrwyog melyn wawr,
Ganmola engyl nef yn awr;
Erioed yn dod i Wynfa Rhi,
Ni welsant hwy dy dlysach di.

Myn dagrau hiraeth am dy wedd
Gael byth einnio man dy fedd;
A thrwy dristâol weddi fyw
Cawn ddyfod atat ti a Duw.

Fy Maggie brydferth, hoff, ddi-nam,—
O! cadw le i'th tad, a' th fam,
A' th bedwar brawd sydd yma'n drist,—
Gerllaw i ti ac Iesu Grist.

GLYN MYFIR.



LLECYNNAU TLYSAF CYMRU.

1, Llanelltyd, Cŵder Idris, a Dyffryn Mawddach.

URDD Y DELYN.

Y RHEOLAU.

1. Dysgu siarad ac ysgrifennu Cymraeg; darllen rhan o'r Beibl Cymraeg, neu ryw lyfr Cymraeg arall, bob dydd, ac ysgrifennu Cymraeg o'i gyfansoddiad ei hun.

2. Astudio hanes Cymru, a gwneyd ei oreu i godi ei wlad, fel y byddo Cymru fydd yn wall na'r hen Gymru.

3. Dysgu canu'r delyn, os bydd hynny yn y cyrraedd; a dysgu alawon Cymreig.

4. Byw, hyd y gall, yn ol dyageidiaeth yr hen Gymry gynt, mor bell ag y mae'r ddyageidiaeth honno'n un a dyageidiaeth Crist. Y mae'r ddyageidiaeth honno'n gofyn purdeb, cariad at addysg, caredigrwydd at ddyn, addfwynder at greaduriaid dïreswm, iaith ddihalog.

AELODAU NEWYDDION.

708. W. J. Waterhouse, B.A., B.Sc., B.C.L., Yr Ysgol Sir, Tregaron.

O goleg Eglwys Crist, Rhydychen,—hen goleg Ioan Tegid,—y daeth Mr. Waterhouse i Gymru. Sais ydyw, ond medr Gymraeg ac y mae'n hoff o lenyddiaeth Cymru. Dysg Gymraeg i'w blant.

709. Hywel Gwyn Owen, Garn Dyfi, Cornwall Road, Finsbury Park, Llundain.

CYFARFODYDD.

Y mae gan gangen Moriah, Llwydcoed, Morgannwg, raglen brydferth a deniadol iawn am y gauaf hwn,—yn gyngherddau, darlithiau, cyfarfodydd cystadleuol, a dosbarthiadau Beiblaidd. Mae'n amlwg fod pobl Llwydcoed am gysylltu crefydd, gwybodaeth, a gwladgarwch â'u gilydd, a tod yn eu mysg rai da iawn am gynllunio.

Mae gangen o'r Urdd wedi dechreu tyfu ym Mhennal, Meirion. Yng nghapel y Wesleyaid y cychwynnodd, a rhoddwyd Gwilym Dyfi i'w harolygu. Y mae'r cyfarfodydd yn dechreu am bump nawn Sadyrnau. "Pan oeddwn yn mynd i gyfeiriad y capel adeg dechrau," ebai'r arolygydd, "yr oedd lleisiau o bob cyfeiriad lle gwelid plant. 'Gaf fi berthyn i Urdd y Delyn Capel Wesley?' oedd eu cais. Aethum at ein capel ni, ac yno yr oedd torf brydferth o blant ein pobl yn disgwyl am danaf. Cawsom gyfarfod ardderchog. Rhoddodd dau ar hugain o blant y Wesleyaid eu henwau ar y llyfr. Hefyd yr ydym wedi cyhoeddi fod rhyddid i blant pob enwad ddod i berthyn i 'Urdd y Delyn Capel Wesley,' fel y mynnai y plant ei galw. Mae brodyr ereill wedi eu penodi i'm cynorthwyo, ac y mae dau wr ieuanc o Fethodistiaid Calфинаidd wedi cynnyg eu gwasanaeth,

—un ohonynt yn hanesyddwr Cymreig rhagorol, felly bydd yma bump neu chwech ohonom i ofalu am y plant.

Mae cangen y Fron Cysyllte, sir Ddinbych, wedi cael tystysgrif iddi hi ei hun mewn llythrennau aur. Ar gais y gangen weithgar hon, yr wyf am ofyn i arlunydd medrus gynllunio tystysgrif dlos ellir werthu am ddimai neu geiniog, gan nas gall y plant i gyd gyrraedd pris y bathodyn. Y mae cangen arall wedi ei sefydlu gan y Parch. Huw Parri, gweinidog yr Anibynwyr, yn Rhosymedre.

Mae 60 aelod yn barod ym Mhennal, 39 yn Fron Cysylltau, a 22 yn Rhosymedre. Daw eu henwau yn y rhifyn nesaf, a hanes difyr eu cyrtafodydd.

Da gennyf weled cymaint o gapeli'n dod yn gartref i'r Urdd; yn sicr ein dyledswydd yw ieuo gwladgarwch ac awydd am wybodaeth y dyddiau hyn â chrefydd a moes.

GOFALU AM Y PLANT.

Os ydym am i engyl letya yn ein mysg,
A gweld ein cenedl anwyl yn dringo Gwyddfa dysg,
A chlywed cân Gwirionedd yn dod dros dderi'r pant,
Yn enw'n Duw a rhinwedd gofalwn am y plant.

Os ydym am gael arwyr o fri y dyddiau gynt,
Fyth-enwog lewion pybyr, rhai hyf ar frwydrol hynt,
Daw adlais dynyr uchel o lwydion feddau gant,
Ar wefus lefn yr awel,—“Gofalwch am y plant.”

Os ym am ddydd heddychol yn lle nosweithiau brad,
A chlywed durtur ddwyfol Efengyl yn ein gwlad,
A byw gyfaredd telyn ddifera sw'n o'i thant,
I ymlid ysbryd cyndyn, gofalwn am y plant.

Os am weld ton diwygiad yn torri hyd y tir,
A'i droi dan ei eneniad fel Eden ieuanc glir,
Mae gwaedd uwch gwaedd yn esgyn o wyn ddymuniad sant,
Sydd at ei fedd yn grwydryn,—“Gofalwch am y plant.”

GWILYM DYFI.

AROS.

“Nef a daear a ânt heibio, eithr fy ngeiriau i nid ânt heibio ddim.”

MEDDYGON.

I. ROBERT JONES.



ROBERT JONES.

YR wyf am roddi i'r plant gyfres o ddarluniau o feddygon enwog o Gymry. Ni raid dweyd mor ardderchog yw celfyddyd y meddyg,—achub bywyd, lliniaru poen. Ac un o gymhwynaswyr pennaf dynol ryw yw hwnnw fedr ddarganfod ffordd i ladd clefyd, neu i leddfu poen,—gedy'r byd yn hapusach nag yr oedd o'r blaen.

Y mae Robert Jones, bachgen o Gymro, erbyn hyn yn un o feddygon esgyrn enwocaf Prydain; a chydag ef y dechreuwn.

Ganwyd ef yn Rhyl, yn 1857. Cafodd ei addysg yn Sydenham College. Prentisiwyd ef yn Lerpwl i'w ewythr,—Hugh Owen Thomas, y meddyg esgyrn enwog,—ac astudiodd yn y Liverpool School of Medicine.

Daeth llwyddiant mawr iddo, oherwydd ei fedr a'i egni. Yn 1882 gwnawd ef yn un o feddygon y Stanley Hospital; ac enillodd glod am ei fedr fel llaw-feddyg esgyrn,—ychydig wyddai fwy nag ef am bob anhwylder esgyrn y glun, y cefn, y pen lin, y ffer, yr ysgwydd, y penelin, a'r garddwn.

Yn 1888 gwnawd ef yn feddyg y Ship Canal,—a wneid rhwng Lerpwl a Manchester,—gyda thri ysbyty a deunaw o feddygon dano. Bu lluwys mawr o ddamweiniau wrth wneyd y gwaith aruthrol hwnnw,—llawer iawn o esgyrn dorwyd. Yr oedd ugain mil o ddynion yn gweithio ar y canal; ac yn ystod y pum mlynedd y buwyd wrth y gwaith, arolygodd Robert Jones drwsio ol tair mil o ddamweiniau. Gwelir oddiwrth hyn mai ychydig o feddygon sydd wedi cael mwy o brofiad. Mae wedi ysgrifennu llawer ar osod esgyrn hefyd.

Yn 1889 etholwyd Robert Jones yn llaw-feddyg y Southern Hospital, ysbyty y mae gan laweroedd yng Nghymru achos i'w bendithio. Y mae yn naturiol meddwl fod yn rhaid i'r clat ddiweddef llawer, pan fydd asgwrn wedi torri neu fynd o'i le. Ond clywais ddweyd y bydd Robert Jones yn neillduol dyner wrth osod esgyrn plant,—mae ganddo blant ei hun.

Beth sy'n hardd?

LEUAN O LEYN.

DEWI MYRNACH.

DOH Bŷ. *Moderato. Tri churiad i'r mesur.*

S.	: : : : : : 1. Beth sy'n hardd?	: : : : :s ₁ s ₁ :- .l ₁ :s ₁ s ₁ :- :- d ₁ :- :-
S.	m ₁ :- :f ₁ s ₁ :- :- : : 2. Beth sy'n hardd?	: m ₁ m ₁ :- :f ₁ :m ₁ m ₁ :- :- s ₁ :- :-
A.	: : : : : : y cwm - wl gol - eu	: d ₁ d ₁ :- :d ₁ d ₁ :- :- m ₁ :- :-

d ₁ :- .t ₁ :l ₁ l ₁ :- :- - :s ₁ :l ₁ t ₁ :- :l ₁ s ₁ :- :- - : - : :
'N plyg - u'i ben dan bwys - au'r gwylith; f ₁ :- :f ₁ m ₁ :- :- - : - :m ₁ fe ₁ :- :fe ₁ s ₁ :- :- r ₁ :- : :
'Nof - io yn yr aw - yr fry, r ₁ :- :r ₁ d ₁ :- :- - :t ₂ :d ₁ r ₁ :- :d ₁ t ₂ :- :- - : - : :

m ₁ :- :f ₁ :m ₁ s ₁ :- :- - : - : :s ₁ s ₁ :- .l ₁ :s ₁ s ₁ :- :- d ₁ :- :-
Pel - ydr haul dis-gleir - deg gwisg - i, m ₁ :- :f ₁ :m ₁ s ₁ :- :- - : - : :f ₁ m ₁ :- :f ₁ :m ₁ m ₁ :- :- s ₁ :- :-
Pan fo dis - - - glær wawr y bor - eu d ₁ :- :r ₁ :d ₁ m ₁ :- :- - : - : :r ₁ d ₁ :- :d ₁ d ₁ :- :- m ₁ :- :-

m :- .r :d d :- :- - :t ₁ :d r :- :m r :- :- - : - : :
'N dawns - io'r fron y rhos - yn brith, s ₁ :- :m ₁ s ₁ :- :- - : - : :s ₁ t ₁ :- :d t ₁ :- :- - : - : :
Yn gor- eur - o'i od - re cu, d ₁ :- :t ₂ :d ₁ m ₁ :- :- - :r ₁ :m ₁ s ₁ :- :s ₁ s ₁ :- :- - : - : :

r :d :m r :d :m f :- :- - : - :t ₁ d :- :- - : - : :
Dawns - io'r fron y rhos - yn brith; t ₁ :s ₁ :d t ₁ :s ₁ :d t ₁ :- :- s ₁ :- :- s ₁ :- :- - : - : :
Yn gor- eur - o'i od - re cu. s ₁ :m ₁ :d ₁ s ₁ :m ₁ :d ₁ r ₁ :- :- - : - : :f ₁ m ₁ :- :- - : - : :

t ₁ :- :d r :- :- - : - :m r :- :t ₁ r :- :- s ₁ :- :-
Hyn sydd hardd - ond gwe - af wrth - rych s ₁ :- :s ₁ t ₁ :- :- - : - : :d t ₁ :- :s ₁ t ₁ :- :- t ₁ :- :-
Hyn sydd hardd - ond, ah! can - fydd - af
s ₁ :- :m ₁ s ₁ :- :- - : - : :s ₁ s ₁ :- :s ₁ s ₁ :- :- s ₁ :- :-

{	d :- :d	d :- :- :- :t ₁ :d	r :- :d	t ₁ :- :- :- :- :
	Tec - ach	hardd -	ach na hwynt-	hwy,
	s ₁ :- :m ₁	s ₁ :- :- :- :s ₁ l ₁ :- :l ₁	s ₁ :- :- :- :- :	s ₁ :- :- :- :- :
	Ryw - beth	hardd -	ach er mor	wiw,
	m ₁ :- :d ₁	m ₁ :- :- :- :m ₁ f _e ₁ :- :f _e ₁	f _e ₁ :- :f _e ₁	s ₁ :- :- f ₁ :- :

{	s ₁ :- :s ₁	s :- :- :- :f :m	r :- :r	r :- :- d _e :- :-
	Deigr - yn	merch	uwch ben am	ddif - ad
	s ₁ :- :s ₁	m :- :- :- :r :d	t ₁ :- :s ₁	l ₁ :- :t _a l ₁ :- :-
	Trem - iad	gen -	eth yn ar	ddang - os
	f ₁ :- :f ₁	m ₁ :r ₁ :d ₁ s ₁ :- :- :- :f ₁ :m ₁	f ₁ :- :s ₁ l ₁ :- :-	f ₁ :- :s ₁ l ₁ :- :-

{	r :- :m	f :- :- :- :f m :- :r	m :- :r	m :- :- :- :- :
	Ar - wydd	teim -	lad dros ei	glwy,
	l ₁ :- :l ₁	l ₁ :- :- :- :l ₁ s _e ₁ :- :l ₁	s _e ₁ :- :l ₁	l ₁ :- :- s _e ₁ :- :-
	Ca - lon	serch -	og dan ei	briw.
	f ₁ :- :m ₁	r ₁ :- :- :- :r ₁ m ₁ :- :f ₁	m ₁ :- :f ₁	m ₁ :- :- :- :- :

{	d :- :r	m :- :- :- :f m :r :d	m :- :- r :- :-	
	Deigr - yn	merch	uwch ben am	ddif - ad
	s ₁ :- :t ₁	d :- :- :- :r d :t ₁ :d	d :- :- t ₁ :- :-	
	Trem - iad	gen -	eth yn ar	ddang - os
	m ₁ :- :s ₁	d ₁ :- :- :- :t ₂ d ₁ :r ₁ :m ₁	s ₁ :- :- s ₁ :- :-	

rall.


{	d :t ₁ :l ₁	d :r :m r :- :- :- :d	d :- :- :- :- :
	Ar - wydd	teim - lad dros	ei glwy.
	f ₁ :s ₁ :l ₁	s ₁ :- :d t ₁ :- :- :- :s ₁	s ₁ :- :- :- :- :
	Ca - lon	serch - og dan	ei briw.
	r ₁ :m ₁ :f ₁	m ₁ :r ₁ :d ₁ s ₁ :- :- f ₁ :- :m ₁	m ₁ :- :- :- :- :

3 Beth sy'n hardd? yr aur a'r perlau,
 Sidan, porphor, lian main,
 Addurniadau teg dduwiesau,
 Gwisgoedd gwyghion, golwg gain;
 Hyn sydd hardd:—ond canmil harddach
 Agwedd isel, gwylaidd lef,
 Boneddiges mewn taer weddi
 'N codi'i golwg tua'r nef.

4 Hed glân angel drwy'r cymylau,
 Sathr eu godre, daw i lawr;
 Diystyra'r aur a'r perlau,
 Pasia'r blodau glwys eu gwawr;
 Cwyd y *deigr*yn—hoffa'r *tremiad*,
 Clyw'r *oehenaid*—yna chwadd;
 Lleda'i edyn, rhwyga'r awel,
 A gan sibryd—"Hyn sy'n hardd."

Dechrestr y pennill olaf fel hys—

{	m ₁ :- :f ₁ s ₁ :- :- s ₁ :- :- }
	m ₁ :- :f ₁ s ₁ :- :- s ₁ :- :- }
	m ₁ :- :f ₁ s ₁ :- :- s ₁ :- :- }
	Hed glân ang el, &c.



MEWN PERYGL.

I. RHUTHR Y TRWYNGORN.

DACW berygl pobl glannau'r Zambesi, yn Affrig. Cofier, er ei hagedd, y medr y trwyngorn redeg yn gyflym iawn, a'i fod yn greulon yn ei ddig. Cofier hefyd fod ei groen mor dew fel nas gellir ei saethu â gynnu cyffredin,—a'r fwlet yn wastad fel ceiniog ar ei groen.

Saethwyd hwnacw gan Corporal Johnson. Cyn iddo ddal yr un o'i weision duon anfonodd fwled i'w ysgyfaint, a syrthiodd y creadur anferth i lawr.

Mesurai bymtheg troedfedd o'i drwyn i flaen ei gynffon, yr oedd ei galon yn ddeuddeg pwys, esgryn ei ben tua phedwar ugain pwys, ac yr oedd yr holl fwystfil tua thunell a chwarter.

Anodd iawn yw dianc rhagddo os na fydd coeden yn agos. Teifl y brodorion eu beichiau, a cheisiant ddianc trwy'r tyfiant,—gan gofio am y trwyn a'r corn perygl sydd yn cyflymu ar eu holau.



PLANT CYMRU. CIII. PLANT TRELEW.

YSGOL TRELEW.

DYFFRYN hirgull yw y Camwy, ac yn cael ei rannu yn ddau,—nid gan natur, ond gan arfer,—a gelwir un rhan yn Ddyffryn Uchaf, a'r rhan arall yn Ddyffryn Isaf. Tua chyfeiriad canol y Dyffryn Isaf y mae Trelew, ac mewn congl naill du. Eto, dyma bentref pwysicaf y Wladfa yn awr,—nid y mwyaf, ond y pwysicaf. Yma y mae gorsaf ffordd haiarn y Wladfa, a'r prif fasnachdai, ac yma o ganlyniad y cludir y rhan fwyaf o gynyrchion y wlad er eu hallforio i wledydd eraill. Ceir yma nifer o dai lled dda, ynghyd â chapel Methodus,—y capel mwyaf yn y dyffryn,—ac Eglwys Loegr. Yma hefyd y mae swyddfa'r *Drafod*,—papur newydd y Wladfa,—a phrif swyddfa y C. M. C.

Nid oes ond ychydig flynyddoedd er pan oedd y fan lle mae'r pentref yn awr yn ddim ond anialwch. Bum yma nifer o weithiau pan oedd y lle yn ddrain i gyd, ac yn ddigon anhebyg i fod yn safle

pentref; ond heddyw y mae wedi newid llawer, a cheir yma brif le marchnad y Wladfa Gymreig.

A dyma ysgol Trelew. Y mae i ysgol y rhan yma o'r dyffryn hanes, ond nis gallwn fynd ar ei ol yn awr. Fe welir gwedd drefol ar y plant sy'n y darlun. Nid oes yn eu plith ond ychydig o blant y wlad. Bu plant y wlad yn dod yma, ond yn awr ceir ysgolion eraill yn fwy cyfleus. Y maent yn Gymry bron, os nad bob un, ac mae'r ferch ieuanc welir yn ymyl y drws yn awr yn un o ysgolion Cymru.

Mr. R. O. Jones, gŵr ddaeth i'r Wladfa o Fangor, yw yr athraw. Y mae efe yn un o'r athrawon mwyaf diwylliedig sydd yn y Wladfa. Y mae wedi gwneyd llawer dros gerddoriaeth y Wladfa, a pharha i godi chwaeth y lle ym myd cân.

GWOBRAU.

RHODDIR gwobrau am yr hanesyn goreu,—heb fod yn hwy nag un tudalen CYMRU'R PLANT. Gwnaiff unrhyw hanesyn y tro; y mwyaf dyddorol gaiff y wobr. Gofaler am fyrdra, arddull, a chwaeth.

Y wobr gyntaf yw *Gwaith Islwyn*, gwerth hanner gini. Rhoddir *Gwaith Glasynys*, *Gwaith Robert Jones Rhos Lan*, *Y Wladfa Gymreig*, a chryfolau hanner coron eraill, yn wobrau i'r goreuon. Os enillir gwobr gan aelod o Urdd y Delyn, anfonir medal iddo hefyd.

Y mae'r hanesion i fod yn llaw O. M. Edwards, 3, Clarendon Villas, Oxford, erbyn Chwefrol 1.

COFGOLOFN LLYWELYN.

Daeth 3/- yn ychwanegol o Garno oddiwrth John Thomas, Winllan; sef 2/6 gan Miss Marsh, a 3c. yr un gan H. Humphreys a J. Wilkinson.

Bydd darlun plentyn o bob sir yng Nghymru yn y lle crwn eleni. Rhoddir eu henwau i gyd yn rhifyn Rhagfyr. Bydd erthyglau darluniadol ar bob sir hefyd, a darluniau plant ysgol o bob un.

 Cyfeiriad y golygydd yw,—OWEN M. EDWARDS, 3, CLARENDON VILLAS, OXFORD.

ARGRAFFWYD A CHYHOEDDWDYD GAN HUGHES AND SON, 56, ROSE STREET, WREKHAM

YSGWRS Y GOLYGYDD.



YN Y DWYRAIN.

(O CYMRU'R PLANT, Cyfrol VII.)

Chwefrol; Arthur Williams, Dôl Hendre, yn rhifyn Mawrth; Ifan ab Owen, Rhydychen, yn rhifyn Ebrill; a mab y Parch. E. D. Priestly Evans, gweinidog yr Undodwyr yn Kidderminster, yn rhifyn Mai. Yn rhifyn Mehefin mae dau blentyn bach caredig dynnodd John Thomas, Cambrian Gallery, ar eu ffordd i'r ysgol yn Fourcrosses, Lley. Cefnder bach o Lydaw sydd yn rhifyn Gorffennaf. Plentyn, adwaenwn i gynt, yn cysgu yn yr haf, sydd yn rhifyn Awst. Arthur Williams, Tyddyn Deicws, gollwyd ar Fynydd Hiraethog, ond a gawd, sydd yn rhifyn Medi. Llinos Iddon, fu farw'n ieuanc, sydd yn rhifyn Hydref. Jane Aerwen Morris, Porth Madog, sydd yn rhifyn Tachwedd; ac yn rhifyn Rhagfyr ceir dau blentyn Mr. O. Owen, ariannydd, Pwllheli, a chyfnither iddynt o Ddyffryn Conwy.

Addewais roi enwau'r plant ymhob rhifyn fel y deuant. Y flwyddyn hon bydd y plentyn o'r sir ddarlunnir yn yr un rhifyn. Yn Ionawr yr oedd Ann Gwenllian, merch Mr. R. E. Jones, 6, Rennie Street, Riverside, Caerdydd, i gynrychioli Morgannwg. Y mis hwn gwelir darlun o fab Mr. J. A. Jenkins, B.A., Cofrestrdydd Coleg y De, i gynrychioli Ceredigion,—un o Aberystwyth yw; y mis nesaf daw orwyr i Michael Roberts, Pwllheli, gyda hanes sir Faeysfed.

Gwelwch ddarlun o Dr. Emrys Jones yn y rhifyn hwn. Y mae ganddo erthygl ar Daniel Ddu o Geredigion yn Cymru, rhifyn Chwefrol.

Medded fy nghynorthwywyr amynedd; byddaf yn parotol y rhifynnau weithiau fisoedd ymlaen. Daw enwau buddugwyr y gystadlueaeth yn y rhifyn nesaf, a hanes cystadlueaeth arall. Bydd rhestrau a hanes canghennau URDD Y DELYN hefyd.

Y mae cyfrol CYMRU'R PLANT am 1898 yn awr yn barod, wedi ei rhwymo mewn llian coch cryf a destlus. Nid yw y pris ond deunaw ceiniog. Pan gofir fod yn y gyfrol 376 tudalen, gyda 154 o ddarluniau, a'r oll wedi eu rhwymo yn gyfrol dlos, nid gormod yw dweyd mai dyma'r gyfrol rataf gyhoeddwyd yng Nghymru erioed. Mae'r cyfrolau ereill yn amhosibl eu cael erbyn hyn; ond penderfynwyd cadw stoc o gyfrol 1898, er mwyn cael cyfrolau i'w rhoddi yn wobrwon mewn cyfarfodydd ac i'w hanfon yn anrhegion i berthynasau a chyfeillion mewn gwledydd pell. Os oes rhywun wedi colli rhai o'i rifynnau, dyma gyfle i gael cyfrol gyflawn am lai na'r pris ofynnir am ei rhwymo'n unig.

Anghoflais ddweyd wrthyhch pwy oedd a'u darluniau yn y lle crwn y llynedd. Trowch yn ol i'r gyfrol, neu i'ch rhifynnau, a mi a ddywedaf wrthyhch. Yn mis Ionawr cewch lun Owen ab Owen, mab hynaf y golygydd, fu farw ar fin ei bump oed; efe oedd yr aelod cyntaf o Urdd y Delyn fu farw; canwyd cân gobraith ei fywyd gan Iolo Caernarfon, a'i farwnad gan Elfed ac eraill; mae ei fedd yn Llanuwchllyn. Dafydd Jones, Glan Dŵr, sydd yn rhifyn



A. EMRYS JONES, M.D.



DARLLEN A CHOFIO.

MAE rhai'n meddwl y dylent gofio pob peth ddarlennant. Cwynant fod eu cof yn wan os na fedrant wneyd hynny. Ond nid cofio popeth sydd eisiau, ond cofio'r peth sy'n ofynnol i dyfiant ein meddwl ni. Ni ddefnyddia'r corff iach ond y bywd wna les iddo; telly am y meddwl, cydia yn y peth sy'n faeth iddo. Ni hoffwn i orfod cofio pob peth ddarlennaf; ac yn sicr ni hoffwn gofio fy holl droion trwstan. Rhyw ddull o faddeu ydyw rhoi cof gwan i ddyn; modd i guddio ei ing a'i ddioddef oddiwrtho.

BYWYD Y MOR.

I. AR Y WYNEB.

GORCHUDDIR tair rhan o bedair o wyneb y ddaear gan y môr. Tybid unwaith nad oedd bywyd yn y môr, a'r un gwreiddyn sydd i'r gair ag i'r gair "marw."

Ond, erbyn hyn, gwyddis fod y môr i gyd,—yn wyneb, eigion, a gwaelod,—yn llawn o lysiau a chreaduriaid. Mae bywyd trwyddo i gyd; ie, yn ei ddyfnderoedd tywyllat distawaf, yn ei eangderau mwyaf ystormus.

Mae gwyneb y cefnfor yn llawn o fywyd llysieuol. Yn yr hinsoddau poethion tyf ar wyneb y môr sypynau atrifed tebyg o ran

llun i edafedd, neu wair wedi ei dorri. Y mae tyfiant arall ar ffurf pelen, lawn o awyr, a llinynnau meinion yn nofio i fyny tua'r wyneb oddiwrthi. Wrth edrych yn fanwl, gwelir fod y tyfiant hwn yn adlewyrchu goleu'r haul. Ar dueddau Awstralia, a rhwng Ynysoedd Môr y De, y mae'r tyfiant mor fawr fel y lliwia'r môr,—gwelir golwg werdd neu lwyd goleu ar lanerchau, ac mewn ambell i fan ar y môr ym mhob cyfeiriad. Y mae môr-blanhigion coch, filiynau ar filiynau o edafedd mân, yn rhoddi lliw ac enw i'r Môr Coch. Yn y Môr Tawel cytyd arogl y tyfiant mewn ambell lecyn.

Tyf llysiau yn hinsoddau oerion y pegynau hefyd, ar wyneb y dŵr. Pan rewa'r môr, cyfyd y rhew blanhigion y wyneb o'r dwfr; a bydd digon ohonynt weithiau i roi lliw goleugoch ar y rhew.

Heblaw y llysiau bychain hyn, nas gellir eu gwelw yn hawdd ond yn dyrrau gyda'u gilydd, y mae llawer o dyfiant brasach,—mathau o chwyn y môr,—yn tyfu hyd y wyneb. Fel y mae ambell dylwyth dynol,—megis yr Arabiaid gynt,—yn grwydrol hyd yr anialwch, tra ereill yn aros yn eu hunfan yn y lleoedd ffrwythlawn, felly hefyd y mae ambell fath o chwyn yn grwydrol hyd wyneb y môr, tra ei frodyr yn aros yn eu hunfan yng nghilfachau'r traeth. Gŵyr y rhai sylwgar groesodd y Werydd am y chwyn melyn y mae ei felynder yn brydferth ar y môr glas fel y mae melynder crafanc-y-frân yn brydferth ar y caeau gwyrdion. Y mae llawer math o'r chwyn crwydrol hwn,—peth yn fychan, un arall yn gymharol gawraidd,—a'r oll yn byw yn y môr.

Er mwyn pwy y mae'r llysiau morawl hyn yn tyfu? Y mae llu o bysgod yn magu ynddynt. Gwyddis am un pysgodyn sy'n gwneyd nyth o'r tyfiant hwn, fel y medr aderyn ar y lan wneyd nyth o wair. Gwna nyth crwn, a chylyma ef ynghyd, dodwya o'i fewn, ac ynddo megir ei rai bach. Y mae llu o bysgod a phryfed yn byw ar y tyfiant, a chrwydrant gydag ef. Y maent bob amser o'r un liw ag yntau hefyd, fel nas gall eu gelynion eu gweled. Fel y mae croen y teigr o'r un liwiau a gwellt y trofannau, felly y mae lliwiau pysg gwyneb y môr yr un a lliw yr hesg a'r chwyn crwydrol yr ymborthant arno ac y bywiant ynddo,—rhai'n llwyd, rhai'n felyn, rhai gydag ysbotiau gwynion, a rhai o las dwfn. Mae rhai eraill heb liw o gwbl, yn dryloew fel gwydr, ac y mae yn anodd iawn eu gweled yn y dwfr.

Yn aml ar y wyneb gwelir pysgod mawrion hefyd,—y morfil, y morlo, a llawer eraill.

Y mae adar yn byw bron yn gyfangwbl ar wyneb y moroedd hefyd. Yn eu mysg hwy y mae'r albatross mawr gwyn, sy'n gysegr-edig ym meddwl y morwr ofergoelus. Y mae hyd ei aden yn gwneyd ehedeg yn gyflym yn beth hawdd iawn iddo. Clwyda ar wyneb y dŵr. Bydd yn dilyn llong weithiau; ond gyda'r nos erys

ar y dŵr i orftwys, a deil y llong bore drannoeth. A dyna'r cas-gan-longwr, a'r pysg ehedog, a llawer eraill.

Y mae trychfilod ar y môr hefyd,—rhai duon a choesau hirion yn rhedeg yn chwim hyd wyneb y dŵr, ac yn cario popeth feddant, hyd yn oed eu wyau, gyda hwynt.

Y DDAU HOGYN RHEINY.

GAN WINNIE PARRY.

II. NODIADAU AR RAI CYMERIADAU IS-RADDOL.

CRYBWYLLAIS eisoes fy mod yn dilyn yr alwedigaeth o athrawes yn Ysgol y Bwrdd, Nantgwyn. Pan ddeuthum yma, rhyw bum mlynedd yn ol, cefais lety gyda dwy hen ferch oedd yn byw mewn tŷ o'r enw Pen y Bryn. Geilw rhai o enethod y pentref finnau yn hen ferch, ond mae graddau mewn hen ferchedod, tel mewn popeth arall; ac y mae cryn dipyn o ffordd rhyngof â'r ddwy Miss Jones o Ben y Bryn. Yr wyf fi eto yn gallu gwisgo gŵn gwyn ar ddiwrnod poeth yn yr haf, tra mae eu rhai hwy wedi eu rhoddi o'r neilldu ers llawer dydd. Cefais gipolwg ar un o'r gynau hynny rhyw ddiwrnod, pan oedd cynhwysiad un o'r hen gistiau derw sydd yn y llofft wedi digwydd cael eu tynnu allan er mwyn i'r gwynt chwythu drwyddynt, ac yr oedd yn anhawdd gennyf gredu ei fod erioed wedi bod am ffurf esgyrniog un o'r ddwy Miss Jones. Feallai y bydd rhywun yn edrych ar fy ngwisgoedd innau gyda'r un syndod rhyw ddiwrnod.

Yr oedd gwell byd ar y ddwy pan wisgent y gynau hynny, ac yr eisteddent ynddynt i weithio'r samplers oedd yn awr yn grogedig ar furiau rhai o'r ystafelloedd. Ond yr oedd gogoniant Pen y Bryn wedi cilio cyn i mi adnabod y lle, er fod ei sawyr eto yn glynu wrth y tŷ a'i berchenogion, ac yn gosod rhyw urddas arbennig arnynt, nad oedd y ffaith fod un o'r ystafelloedd yn cael ei gosod am arian, hyd yn oed, yn alluog i'w diddymu.

Y rhinwedd mawr oedd yn perthyn i mi fel lletyes yng ngolwg Miss Jones a'i chwaer oedd fy mod yn "eneth mor suful," meddent hwy, ac hefyd na fyddwn byth "yn mynd i rodianna hefo rhyw hen hogia, fel bydd genod y pentra 'na bob gyda'r nos am oria pwy gilydd."

Rhaid i chwi beidio a meddwl fod yr ymadrodd uchod yn gerydd ar holl fechgyn ieuainc Nantgwyn. Yr oedd y ddwy yn cydnabod y rhagorolion, ac yn gwenu arnynt. Un o'r rhai hynny oedd Mr. Hughes y gweinidog, yr hwn arferai alw yn fynych iawn ym Mhen y Bryn. Nis gwn a'i gor-ymarfer y ddyledsyydd o ymweled sydd yn perthyn i'w swydd yr oedd wrth wneyd hynny; os felly, nid oedd yn

gyson yn ei gyflawniad o'r ddyledswydd honno, i farnu wrth sgwrs un o aelodau Salem,—Mrs. Williams Tŷ Canol. Wrth ddod i'r tŷ o'r ysgol rhyw brydnawn clywn lais y foneddiges honno yn y parlwr. Yr oedd yn siarad gyda'i chyflymdra arferol, a thra yn tynnu fy het a'm jecad yn y pasaj ceisiwn ddyfalu pwy oedd yn ei gloriannu y diwrnod hwnnw. Deallais yn fuan mai diffygion y gweinidog, testyn hoff gan Mrs. Williams, oedd o dan sylw. Dyma ran o'r hyn ddisgynnodd ar fy nghlust,—

“A dyna fo, Miss Jones, ddaw o ddim ar gyful rhywun i edrach am dan rhywun. Tydw i ddim yn meddwl fod i droed o wedi bod dros y drws acw ddim *dwywath* ys pen mae o yma.”

“Wel, wir,” clywn lais Miss Jones yn ateb, “bachgan ifanc hynod ddymunol tydda i'n i gael o, i ddeyd y gwir i chi, a rhaid i mi ddeyd fod o'n dwad yma reit amal i edrach am danom, yn bydd, Cati?” (“Cati t' chwaer” fydd Miss Jones hynaf yn galw'r llall pan yn son am dani wrth rywun arall.)


“Ac wrth *gwrs*, mi fydd yn dwad yma, mae—.” Ond meddyliais y buasai'n well i mi dorri ar sgwrs Mrs. Williams yn y fan hyn, neu y buasai cymeriad y gweinidog druan wedi ei dynnu yn edeuon.

Yn fuan ar ol hyn, fodd bynnag, peidiodd ymweliadau mynych Mr. Hughes â Phen y Bryn a phoeni Mrs. Williams, oherwydd bu am ysbaid o amser bron yn ddieithr-ddyn yno, a'r ychydig droion y galwodd yn ystod yr amser y cyfeiriai ato nis, gwelais ef gymaint ag unwaith, gan ei fod yn dod pan y byddwn yn yr ysgol. Ac nid wyf yn cofio i mi ddod wyneb yn wyneb ag ef yn unman. Yr oedd y ddwy Miss Jones wedi sylwi ar y cyfnewidiad ynddo yn yr ystyr yma, a'r hynaf yn dweyd wrth y llall,—

“Llawer o waith sy gino fo, reit siwr. Nid peth bychan 'di gneyd pregetha, Cati, a hogyn ydi o wyddost, ynte Elin?” gan droi ataf fi.

“Dw i'n meddwl i fod o'n dwad ddigon amal,” meddwn. “Twn i ddim be sy isio gweinidog gerad tai ar hyd gydol yr amser, yn bychanu ei feddwl, ac yn gwrando pob rhyw hen fân siarad lot o ferched.”

Yr oedd gennyf fy marn fy hun, fodd bynnag, ar ymddygiad Mr. Hughes. Yr oedd son yn y pentret ei fod yn myned i briodi gyda Miss Price, Felin Nantgwyn, a fy nhyb i oedd ei fod yn rhy hoff o fod yng nghwmni honno, i fforddio'r amser i dalu ei ymweliadau arferol, pe buasai hynny o ryw bwys. Diangenrhaid yw dweyd nad oedd mynych neu antynych bresenoldeb Mr. Hughes ym Mhen y Bryn yn pwyso ar fy meddwl i o gwbl. Gwelaf, fodd bynnag, fy mod wedi crwydro ymhell oddiwrth fy ngwir destyn, ac wedi son am bobl cymharol ddibwys. Ond yr oedd yn angenrheidiol eu crybwyll, er nad ydynt hwy a'u gweithrediadau o ryw ddyddordeb mawr yn ymyl “y ddau,” a'u gweithrediadau hwy.



“Cydia yn ymyl y gwddf os medr.”

CARTREFI EIN CYMYDOGION.

II. CARTREF Y WENCI.

CREADUR bychan, ond chwim a pherygl iawn, yw'r wenci. Rhyw saith modfedd yw ei hyd, o'i drwyn i fon ei gynffon; rhyw ddwy fodfedd a hanner yw hyd ei gynffon. Nid yw ei daldra ond rhyw ddwy fodfedd a hanner. Llwyd goleu yw lliw ei gefn, ei ochrau, a'i goesau; ond y mae'n wyn odditano. Mae ganddo *whiskers*, fel cath. Mae ei glustiau yn fawr. Bychain, crynion, a duon yw ei lygaid. Mae ganddo ddeuddeg dant ar hugain, ac y maent yn finiog iawn.

Mae'n gymydog agos i'r rhan fwyaf ohonom yn y wlad hon,—ond nid yw'n hawdd iawn ei weled, oherwydd yn y nos y bydd yn talu ymweliadau. Mae ei liw, ei faint, a'i symudiadau chwim a gochelgar, yn ei wneyd yn beth anodd iawn ei weled.

Cywion ieir a gwyddau, cwningod ac ysgyfarnogod bychain, llygod, a wyau yn enwedig, yw ei hoff ysglyfaeth. Nid yw agos cyn-

gwyfymed a'r ysgyfarnog. Ond gwelais ysgyfarnog yn sefyll yn syn, gan wneyd swm dolefus, oherwydd ei bod yn gwybod fod y wenci ar ei hol. Y mae arni ormod ofn i redeg, crynna drwyddi, erys yn honydd nes y teimla ddannedd y wenci yn ei gwddf.

Nis gall llygod ddianc rhagddo ychwaith. Dilyn hwy i'w tyllau, ac ni wiw iddynt geisio ymladd yn ei erbyn. Lladd nadroedd, a thyrchod daear, a llygod dŵr; y mae petris, hefyd, wrth ei fodd. Os ceisia'r iar amddiffyn ei hwyau, lladd y wenci hithau hefyd.

Brath yn farwol bob amser, ni welwyd dim yn gwella wedi ei frathu gan wenci. Cydia mewn lle bywydol, yn ymyl y gwddf os medr, a buan y gwna ei ddannedd meinion blaenlym eu gwaith. Mae'n anodd iawn dianc rhagddo; medr ddringo wal mor hawdd a cherdded y ddaear, gall neidio i fyny droedfeddi oddiar y ddaear, a gall ddringo coed.

Mae'n anodd iawn ei ddal, ac yn fedrus i ddianc. Cododd eryr wenci unwaith. Ond, i fyny yn yr entrych, medrodd y wenci droi at ei elyn a'i frathu. Gwelwyd yr eryr yn disgyn i lawr yn bendramwnwgl, a'r wenci'n dianc oddiwrtho pan gyrhaeddodd y gwaelod.

Ceisla le sych i wneyd ei gartref. Gorwedd ef a'i deulu ar wellt, dail, a mwswgl. Mae ei rai bach yn ddeillion pan enir hwy; ond buan iawn y dont i ddilyn eu mam i chwilio am wyau petris. Torrânt dwll yn yr wy, a sugnant ef heb i neb eu dysgu. Mae arogl cryf, a thra anhyfryd, ar y wenci ac ar ei gartref, ond y mae ef wedi arfer ag ef. Cwsg yn ei gartref clyd drwy'r dydd; at y nos yr a allan. Dwg ei ysglyfaeth adre i'w twyta; ceidw ef am hir yn ei fwtri; ni ddechreua ei fwyta hyd nes bydd yn dechreu arogl. Ni tyn y wenci aros yn unlle ond yn ei gartref ei hun. Gwnaethai well gwaith na chath pe medrid ei ddofi; ond ei ddofi ni fyn.

GORONWY BACH.

Ar ben dy flwydd, Goronwy bach,
Ar ben dy gyntaf flwydd,
Mae'th wên yn ysbrydoliaeth iach,
A chanu i mi'n rhwydd.
Barddoniaeth! Pa farddoniaeth well
Na'th ddiniweidrwydd eu?
Adsain alawon Gwynfa bell
Yw'th lon chwerrhinaid di.
Os tlws yw'r bore yn ei fri
Wrth ddod o'i rwyman'n rhydd,
Mi wela 'ngoleu'th lygaid di
Belydrau tecach dydd;

Yr haul wrth esgyn fyny'r bryn
Sy'n prydferth liwio'r nen;
Ha! toriad gwawr dy fywyd gwyn
Yw'r aur sydd ar dy ben.

Y gyntaf flwydd i ti yw hon,
Yr olaf rywbryd ddaw; [gron,
Boed rhyngddynt lawer blwyddyn
A bendith yn eu llaw;
Blynnyddau'n mynd—blynnyddau'n dod
Yn dyner a di-lef,
Ar ola' o dragwyddoldeb boed
Y nesaf at y nef.

MORLWYN.



PLANT CYMRU. CIV. RHAI O BLANT CEREDIGION.

YSGOL PENWCH, CEREDIGION.

DYMA ddarlun o rai o blant mynyddwyr canolbarth Ceredigion. Plant i weithwyr a bwthynwyr bychain ydynt gan mwyaf. Sefydlwyd yr ysgol ugain mlynedd yn ol, yn bennaf drwy ymdrechion y diweddar lenor Aeronian. Llwyddiant mawr yw ei hanes o'r dechreu. Enillir y *grants* uchaf yma ers blynyddau lawer. Yr ysgolfeistr yn awr yw Mr. J. Emlyn Jones. Y mae wedi llafurio yn galed yn yr yr ysgol a'r ardal ers dros ddeg mlynedd. Ofni yr ydym ei gollu, gan ei fod wedi dechreu pregethu ers rhyw dair blynedd yn ol. Eiddunwn llwyddiant iddo ef, ac ar ei waith rhagorol gyda'r plant a'r bobl ieuainc. R. J.

MEWN PERYGL.
II. WEDI EI ADAEL YN Y DIFFAETHWCH.

PERYGL enbyd oedd perygl y Capten Massey, un o filwyr byddin anffodus Hicks Pasha yn y Soudan. Collodd ef a'i gydymaith Aiffataid Ali y fyddin yn yr anialwch, a chrwydrasant

ymhell. Toc sylweddolasant eu bod wedi colli eu ffordd, ac wedi colli eu ffordd yn yr anialwch.

Llannwyd hwy a gobaith wrth weled mŵg,—tybient mai mŵg y gwerysll oedd; ond och! nid oedd ond colofn o dywod poeth droellid gan y gwynt. Yr oedd y ddau ar eu ceffylau, a buan y daeth pangfeydd syched at ddyn ac anifail,—ond ni fedrent weled y Neil, er iddynt ddringo i ben mynydd uchel anial.

“Paham y byddwn farw ein dau?” ebe Capten Massey wrth yr Aifftwr, a gwnaeth iddo ei adael, gan nas gallai gerdded ymhellach. Cusanodd yr Aifftwr ef, a wylodd. Gorweddodd Capten Massey i lawr, a llewygodd. Arosodd ei gydymaith gydag ef am hanner awr, yna teimlodd fod ei galon wedi peidio curo, a throdd ymaith i chwilio am ddwfr a bywyd.

Tua saith o'r gloch y noson honno dadebrodd Massey. Yr oedd yn unig yn yr anialwch. Ond gwelai dân mawr yn y pellder. “Dacw'r gwerysll,” meddai, a gwnaeth ymdrech i godi. Tywysodd ei geffyl, ond ymhen cam neu ddau syrthiodd yr anifail ffyddlon yn farw i beidio codi mwy,—lluidded a syched wedi ei ladd. Yr oedd *revolver* a gwain Massey odditan y ceffyl; gadawodd hwy yno, ac aeth i gyfeiriad y tân a dim ond ei gleddyf noeth yn ei law. Ond yr oedd yn rhy wan i gyrraedd y tân; a da iddo oedd hynny, oherwydd tân y gelyn oedd.

Cododd y lleuad ar yr anialwch, a syrthiodd y milwr i lewyg drachefn. Dadebrodd yr haul ef eilwaith, ond nis gallai ymlwybro tua'r tân oherwydd gwres anioddefol yr haul. Rhoddodd ei gadach sidan dros ei ben; a theimlai ei goesau'n llosgi yn yr haul. A dyma fel y gorweddodd, druan, ar hyd y dydd.

Ychydig gafodd fyw i adrodd am ddiodefiadau fel ei rai ef. Yr oedd ei dafod wedi chwyddo'n enfawr, ac wedi mynd yn galed fel haiarn, gan syched. Yr oedd mater gludiog yn llenwi ei wddf, ac yr oedd yn gorfod ei dynnu ymaith â'i ddwyllaw, gan na fedrai boeri mwy. Yr oedd ei wddf yn cau o hyd, ac anadlu yn dod yn fwy poenus ac anhawdd.

Yr oedd yr haul yn machlud drachefn pan wnaeth y milwr un ym-gais arall i gyrraedd y peth dybiai oedd yn wersyll ei gyfeillion. Cododd; ond syrthiodd cyn rhoddi dau gam. Yr oedd yn cau ei lygaid, i gysgu ei gwsg olaf feddyliai, pan glywodd swm carnau meirch yn dynesu. Y funud nesaf gwelodd fintai o Arabiaid arfog yn dod. “Ni waeth,” ebai, “goreu po gyntaf i mi fynd o'm trueni.”

Amgylchynnwyd ef gyda chyflymder mellten, yr oedd llw o bicellau'n cyfeirio ato, a thybiodd fod ei awr olaf wedi dod. Ond, ym mhangfeydd ei syched, gwaeddodd,—“Dwfr! dwfr!” Gyda hynny gostyngodd yr Arabiaid eu picellau, a daethant i ddweyd mai cyfeill-

ion wedi dod i chwilio am dano oeddynt. Rhoisant ddwfr iddo, arweiniasant ef i'r gwersyll ar hyd y nos,—a bu fyw.

Ond llawer milwr arall grwydrodd i'r anialwch, wedi colli ei gyfeiriad, ac ni wŷr neb ym mha le y syrthiasant, yn lluddedig a sychedig, i beidio codi mwy.

LLYTHYR EI MHODRYB AT NEST.

Merch fach chwe mlwydd yw Nesta, wedi dechreu ysgrifennu at ei mhodryb yn Lerpwl fawr, a chafodd lond blwch o felusion mewn atebiad. Bydd yn sicr o ysgrifennu yn aml.

Brawd tair mlwydd iddi yw Geraint. Bu milodfa yn y dref lle y mae yn byw, ond nid oedd Geraint yn ofni y camel na'r eliffant pan yr oeddynt yn mynd i'r afon, yn ymyl ei dŷ. Y mae arno ofn y "cows" sydd ar y simneiau. Y maent yn troi ac yn siglo eu pennau arno, ac y mae yn eu galw yn "Fwci" mawr a "Bwci" bach yn ol eu mhaint. Cefnder a chyfnither a chyfaill yw y lleill.

DERBYNIAIS eich llythyr yn llon, Nest fach,
 A da iawn oedd clywed eich bod yn iach;
 Ysgrifennwch eto heb fod yn faith,
 Dywedwch bob peth yn rhydd am eich gwaith.
 A ydych yn dysgu eich gwersi oll?
 A'u hadrodd yn gywir heb sill yngholl?
 A ydyw Geraint yn fachgen da,
 Yn myned i'r ysgol heb ddwedyd "Na?"
 'Rwy'n synnu ei fod mor wrol a hŷ
 Heb fymryn o ofn yr eliffant du;
 Ond hynod mor wirion a swil yw e',
 Yn crynu wrth edrych ar *cows* y dre.
 Fe ddaw yn gallach 'rwy'n siwr cyn hir,
 Cewch weled fy mod yn dwedyd y gwir.
 Dymunwn eich gweled eich dau yn fawr,
 'Does dim ond boddloni fel hyn yn awr;
 Aml edrychaf ar eich lluniau glân,
 Sydd yn fy ystafell uwchlaw y tân;
 Ni feddaf yn wir yr un cysur gwell,
 Tra fyddo y ffordd sydd rhyngom mor bell.
 Wel, 'nawr, rwy'n anfon melusion i chwi,
 A nnewch chwi eu rhannu yn deg rhwng tri?
 Rhowch ran i Geraint, ac i chwi eich hun,
 A Stanley, os nad yw yn ormod o ddyn!
 Rhowch hefyd i Lilian ran dda, bid siwr,
 Ond peidiwch cweryla na chadw stŵr;
 Os bydd 'na un neu ddwy fach yn spâr,
 Gwnewch gofio *poor* Tom, eich cyfaill a'ch câr.
 Gyda serch, fel hyn eich llonni a wnant,
 'Nawr cofion caredig eich UNCLE a'ch AUNT.



TAWELWCH O FLAEN STORM AR Y MOR.
(Penmaenmawr yn y pelllder.)

Dorŷus gan A. H. Hughes, Llanudano.

YSTORMYDD.

I. RHAGYMDRODD.

Y MAE ystormydd y pethau mwyaf arddunol yn hanes y byd ; ac er eu bod yn dinistrio ar y dde ac aswy, y maent yn gwneyd cymhwynasau mawr i iechyd y byd. Pan wyf yn ysgrifennu, y mae ystorm fawr o fellt a tharanau newydd ysgubo dros y wlad. Cliriodd yr awyr, a gadawodd ystôr o iechyd ar ei hol. Ni tharawodd y mellt ond un goeden ; yr oedd tair brân ddu yn nythu yn y goeden, a lladdwyd hwy.

Meddyliais innau am adrodd hanes rhai ystormydd y gwyddwn am danynt, trwy glywed neu ddarlenn. Byddaf yn hoffi clywed y gwynt-oedd ystormus yn rhuo dros y mynyddoedd, ac yn hoff o ddarlenn y *Storm*, prif waith Islwyn.

Beth amser yn ol anfonodd Alarch Glan Dyfi yr hanes sy'n dilyn, wedi ei godi o'r hen *Daysgedydd*, am Ionawr, 1842. Hanes am "li mawr Llanuwchllyn" ydyw,—Mehefin 20, 1781. Ysgrifennwyd yr hanes gan Edward Edwards, Pen y Geulan.

II. LLI MAWR LLANUWCHLLYN.

Yr oedd yn ddiwrnod ffair yn y Llan, ac yn wresog a mwll anarferol ar y pryd. Duodd yr wybren yn gynnar, a thorrodd cwmwl yn agos i Fwlich y Groes. Yr oedd gwartheg yn pori ar y llannerch, y rhai a gymerwyd ymaith gyda'r cenllif. Dadwreiddiwyd pob coeden ag oedd yn agos i'r afon, a chariwyd hwynt i lawr i'r dolydd, hyd nes oedd pob cae gwair ac yd o'r Llan bron at y llyn yn goed, mwd, pysgod, &c.

Mae yn beth rhyfedd na bu colled am einioes neb ond un hen wraig, yr hon na welwyd dim ohoni mwy, na chymaint a charreg sylfaen o'r tŷ lle yr ydoedd. Cymerodd y dyfroedd dalcen tŷ arall, ac aeth a'r gwely a'r drych arno ymaith, y rhai a gafwyd yn daclus ar y Llyn Tegid drannoeth. Mae awrlais yn bresennol yn nhŷ yr ysgrifennydd, yr hwn a gafwyd ar y llyn y pryd hynny, ac y mae yn cadw ei amser yn dda eto. Aeth ceffyl gwyn o Benty yr Odyn gyda y rhyferthwy, a chafodd lan ymhen tua milldir, ac felly achubodd ei einioes. Aeth dau bwn o flawd o'r felin i lawr i'r dolydd, ac nid oeddynt fawr gwaeth, oddieithr ychydig hefo eu hymylau. Yr oedd merch o Fowddwy yn myned adref ar geffyl, yr hwn a omeddai fyned dros y bont, ond wrth hir guro aeth drosodd ; a phan oedd ei draed ol ar yr ochr draw, dyma y bont yn myned ymaith yn llanastra gyda y llifeiriant. Mae yn rhaid fod rhyw nerth i'w

ryfeddu yn y dyfroedd pan y cariai gynifer o gerrig mawrion i'r ddôl decaf yn y plwyf; mae un ohonynt wrth fesur yn pwyso hanner can tunell, yr hon a gariwyd tua chant a hanner o lathenni.

Mae un peth nodedig arall i'w grybwyll. Yr oedd Mrs. Charles, gwraig y diweddar Barch. T. Charles, Bala, yn yfed tê yn y Pandy Mawr, a phawb yn ddifeddwl am berygl. Dyma waedd fod y llif yn dyfod i'r tŷ; ac ar gefn Rowland Roberts, un o bregethwyr yr Anibynwyr, y cariwyd Mrs. Charles; a chyn pen ychydig funudau yr oedd y cwbl o'r tŷ, ond pen croes iddo, wedi ei wneyd yn garnedd.

Wrth i Mr. John Jones, Gweirgloddgilfach (*Tudur Llwyd*), fyned heibio i'w hen gartref, sef Pandy Mawr, ryw noswaith yn ddiweddar, cyfansoddodd y ddau englyn canlynol,—

“Wele'r lle a'r man y'm ganwyd;—heno
Nid oes hanes cronglwyd;
Tan y ne pa le mor lwyd?
Llwybr elor lle bu'r aelwyd.

“Och, derfysg, derfysg dirfawr!—och, ddyllif!
Och, ddialedd, tramawr!
Troi 'nhrigias, wanas wenawr,
Yn lle moel wnai y lli mawr.”

PW DDARLLEN YN DDIFYFYR.

FEL gwennol gwehydd yw einioes dyn sydd fod rhesymol i bawb. briodi gwraig ddoeth sydd goron i'w gŵr wrth draed Gamaliel addysgwyd Paul i regi Israel daeth Balaam allan o'i fedd y cyfodwyd Lazarus i fywyd tragwyddol yr achubir pechadur aflan gynt oedd mochyn du yw y llo brith yw y biogen unlliw yw y môr marw wnaeth y baban bach sydd gam fel saeth yr a y wennol i glwydo yr a ceiliog ar ol dodwy y crecian iar am fara y gofynnais nid burum sych lygaid y wylofus â'th law dyro i'r tlawd cyfoethog yw arglwydd Penrhyn sydd enw ar balas hardd yw rhinwedd mewn bachgen da y gellir ymddiried.

Carmel.

ANNIE OWEN.

DEDDF FENDITHIOL. Y mae Norway newydd wahardd rhoddi neu werthu tybaco i blant dan un ar bymtheg oed. Gwyn fyd na cheid deddf gyffelyb yn y wlad hon. Un o bethau mwyaf gwrthun y trefydd yw gweled bechgynnos yn ceisio ysmygu yn yr heolydd. Ni roddwn ddim am ddyfodol y bechgyn hynny.




RHAIADR MYNACH.

SIROEDD CYMRU.


II. CEREDIGION.

OBLIMLIMON, yng ngogledd ddwyrain Ceredigion, rhed hanner cylch o fynyddoedd i'r de orllewin. Y wlad rhwng y mynyddoedd hynny a Bau Aberteifi ydyw Ceredigion. Hanner cylch o fynyddoedd, hanner cylch o fân ddyffrynnoedd, hanner cylch o fôr,—oll yn edrych tua'r gorllewin,—dyna ydyw hi.

Tybier ein bod yn sefyll ar ben Plimlimon,—mae'n 2,469 troedfedd



CASTELL ABERYSTWYTH.



OLION YSTRAD FFLUR.

(Lle hun llawer o dywysogion y Deheubarth.)

o uchder,—ac yn gweld ymhell. Gwelwn fryniau is yn ei ymyl,—Moel y Llan yn 1,710 troedfedd, Pen Carreg Gopa yn 1,470, Foel Goch yn 1,353; ac, os trown tua'r de, Foel Wyddon yn 1,259, a llu hir o fryniau is ymhellach nas gall y llygad weled.

Oddiar lethrau y mynyddoedd hyn rhed llawer o afonydd i'r môr trwy ddyfrynnoedd bychain hyfryd,—yr Eion, y Leri, y Clarach, y Rheidol, yr Ystwyth, a'r Deifi,—y fwyaf mawreddog ohonynt i gyd. Dylaswn ddweyd fod mynydd llai,—y Mynydd Bach,—yng nghanol Ceredigion; ac ohono ef rhed y Wyre hanesiol a'r Aeron dlos i'r môr.

Wrth enau pob afon y mae porthladdoedd ac ymdrochleoedd,—y Borth, Aberystwyth, Aberaeron, Aberteifi, a llawer lle hyfryd llai. O'r lleoedd ynghanol y sir, Tregaron a Llanbedr yw'r rhai pwysicaf. Rhed un ffordd haiarn ar ei hyd, o ogledd i dde.

O ran maint, y mae Ceredigion y bumed o siroedd Cymru; y mae yn 693 milldir ysgwar. Y mae copr a phlwm a sinc yn ei mynyddoedd; ond yn ei hamaethyddiaeth, ac yn ynni diarhebol ei phobl, y



LLANFIHANGEL GENBU'R GLYN.

mae ei nerth. Dyma gyfrif am rai o'i 443,387 aceri yn yr haf diweddaf,—

Dan wenith,—6,430.
 Dan haidd,—15,567.
 Dan geirch,—29,514.
 Dan bytatws,—5,989.
 Dan wair,—58,771.

Yr oedd poblogaeth Ceredigion, adeg y cyfrif diweddaf, yn 62,630; hi, felly, yw yr wythfed o'n siroedd. Y lleoedd mwyaf poblogaidd ynddi yw Aberystwyth (6,725), Aberteifi (3,449), Llanbedr Pont Stephan (1,569), a'r Cei Newydd (1,286).

O anifeiliaid, yr oedd ynddi y llynedd 65,158 o wartheg, 255,020 o ddefaid, a 23,383 o foch.

Hen deyrnas Gymreig oedd Ceredigion; ac anaml y byddai ei thywysogion yn gytun. Daeth y Norman iddi, ac y mae olion cestyll eto ynddi ac ar ei chyffiniau,—megis Aberystwyth ac Aberteifi. Gorffwys llawer o dywysogion y Deheudir dan adfeilion hen fonachlog y Cisterciaid yn Ystrad Fflur.

Gorchfygwyd hi yn 1282, yr adeg y cwmpodd Llywelyn; a gwnawd hi'n sir, sef sir Aberteifi, yr un adeg a Chaerfyrddin, Meirionnydd, Arfon, Mon, a Fflint. Y mae eto y fwyaf gwladgar a Chymreig o siroedd Cymru; o'i phobl, y mae y mwyafrif mawr, sef 78,735, yn siarad Cymraeg; a dim ond 3,679 heb siarad yr iaith honno. Mewn llawer o bethau eraill y mae y fwyaf goleuedig, ac ar y blaen.

Yn ei chariad at addysg, yn enwedig, y mae'n ddjarhebol. Bu ynddi ysgolion campus; a'u gogoniant, nid mewn adeiladau costus, —tystied yr hen Neuadd Lwyd,—ond ym medr a brwdfrydedd ei hathrawon. A heddyw, y mae dau o golegau Cymru o'i mhewn,—Coleg Prifysgol Cymru yn Aberystwyth, a Choleg Dewi Sant yn Llanbedr. Ac un esboniad am ffrwythlonder sir Aberteifi mewn athrylith, yn ddiameu, yw lliosogrwydd ei hysgolion.

Pe dechreuwn enwi ei gwŷr enwog, byddai raid i mi ymatal, oherwydd diffyg lle, cyn enwi yr hanner. O Fedd Taliesin a hen gartref Dafydd ab Gwilym yn y gogledd i lawer bwthyn digon tlod-aidd yn y de, cawn gartrefi y daeth cymhwynaswyr i'n gwlad,—yn offeiriadau a phregethwyr, athrawon a meddygon,—ohonynt.

Wrth ddewis darluniau, yr wyf yn gadael addoldai ac ysgolion hyd dro eto. Gwn am ysgolion Aberystwyth, Ystrad Meurig, Pont Sian, Llanbedr, Neuadd Lwyd, ac eraill. Gwn hefyd tod hanes dyddorol yn perthyn i Langeitho, i Goleg Dewi Sant, ac i Lwyn Rhyd Owen,—adroddaf ef wrth adrodd hanes crefydd ymhob sir.



ABERYSTWYTH.

CYMRU'R PLANT.

Yr hapus wlad.

CERIDWEN PERIS

G. W. HUGHES, G. & L.T.S.C.

DOH Eb.

{	:d	m :- m r : m : f	s :- : m d :- : s	fe :- : fe t :- : l	l :- : - s :-
	:d	d :- : d d :- : d	m :- : d d :- : d	d : r : d r :- : r	r :- : - - :-
	1. Y- 2. Pan	mhell, ymhell uwch- glyw - yd tant eu	law y sér, Y tel - yn hwyl, A'u	mae rhyw hap - us mwynaldd tyn - er	wlad, lef,
	:m	s :- : s f : s : l	s :- : s m :- : s	l :- : l s :- : fe	f :- : - - :-
	:d	d :- : d d :- : d	d :- : d d :- : m	r :- : r r :- : d	t, :- : - - :-

{	:s	d' :- : d' t :- : l	s :- : f m :- : m	r : s : f m :- : r	d :- : - - :-
	:m	d :- : d r : d : r	m :- : r d :- : d	d :- : d d : l, : t,	d :- : - - :-
	A Ded-	myrdd o blant yn wydd-wch new - ydd	can - u'n bér, An- dor - rodd lrwy Or-	them - au clod i'r or - au nef y	Tad: nef:
	:m	m : f : s s : l : t	d' : t : l s :- : s	f : s : l s :- : f	m :- : - - :-
	:d	d : r : m f :- : f	m :- : t, d :- : d	r : m : f s :- : s,	d :- : - - :-

Bp.t.

{	:m ₁	l, :- : t, d :- : r	d :- : t, l, :- : s,	d :- : r m :- : r	r :- : - d :-
	:t _m	m ₁ :- : s ₁ l, : d : t,	l, : s ₁ : s ₁ l, :- : m ₁	s, :- : t, d : s, : s,	s, :- : - - :-
	Am Dig-	Ie - su Grist a rif - wch byth - ol	Chal - far - i, Maent bell - ach sydd O	hwyl yn hoff o gylch yr or - sedd	son, lawr,
	:s _d	d : m : r d : m : f	m :- : r d :- : d	m : s : s s : m : f	f :- : - m :-
	:m ₁ l ₂	l ₂ : d, : m, l, :- : r,	m ₁ :- : m ₁ l ₂ :- : d,	d ₂ : m, : s, d :- : t,	d :- : - - :-

f.Eb.

{	:d _s	d' :- : d' t :- : l	s :- : f m :- : m	s :- : s f : m : r	s :- : - m :-
	:l _m	m :- : m f :- : m	r :- : d d :- : d	r : d : r r : d : r	m :- : - d :-
	Ac Ac	y - mhen oes - au un - o swyn - ion	maith di - ri', Bydd nef a fydd An-	byw - yd yn y them - au plant y	dôn, llawr,
	:d _s	l : t : d' r' :- : d'	t :- : l s :- : s	t : l : t t : d' : s	s :- : - d' :-
	:f _d	d :- : d d :- : d	d :- : d d :- : d	s, :- : s, s, : l, : t,	d :- : - d :-

Ac

{	:m	f : m : r s :- : l	t : l : t d' :- : d	r : s : f m :- : r	d :- : - - :-
	:d	d :- : t, d : m : f	f :- : m m :- : d	d :- : d d : t, : l, : t,	s, :- : - - :-
	Ac Ac	y - mhen oes - au un - o swyn - ion	maith di - ri', Bydd nef a fydd An-	byw - yd yn y them - au plant y	dôn, llawr.
	:t	l : s : s s : d' : t, l	s : d' : t l :- : s	l : s : l s :- : f	m :- : - - :-
	:-	r : s : f m :- : r	s :- : s l :- : m	f : m : r s, :- : s,	d :- : - - :-

CORACHOD LOC GWELTAS.

II.

A CHANAI y dynion bychain fel cynt,—

“Dydd Llun, dydd Mawrth, dydd Mercher,
A dydd Iau a dydd Gwener.”

“Amser, amser,” ebe'r teiliwr, “yr ydych yn torri'r wythnos cyn ei diwedd. Yr wyf ffinau yn abl i hirhau eich cân.”

“Hirha, hirha,” ebe'r corachod.

“Dydd Llun, dydd Mawrth, dydd Mercher,
A dydd Iau a dydd Gwener,
A dydd Sadwrn a dydd Sul.”

“Beth wedyn? Beth wedyn? Mae eisiau llinell eto!”

“A—A—dydd Sadwrn a dydd Sul.”

“Ow! Pw!” ebe'r holl gorachod. “Bardd drwg a dibwyll wyt ti! Er hyn, rhodddwn rywbeth i ti am dy boen.”

Cymerasant et, a thafasant ef o law i law, a phan ddaeth at y corach diweddfaf yr oedd ar ei gefn y crwb oedd Gwilsier wedi ei adael. Felly yr oedd yn cael dau grwb, y truan.

Dychwelodd at Loc Gweltas gyda chynddaredd yn ei galon. Penderfynodd werthu tŷ ac annedd Gwilsier, er ei weddiau truenus. Ond penderfynodd Gwilsier hefyd fynd i ofyn cyngor i'w gyfeillion, y corachod, a daeth eilwaith at Ddaear y Dderwen.

Dyna efe yn y ddawns. A chanai y dynion bychain tanddaearol,—

“Dydd Llun, dydd Mawrth, dydd Mercher,
A dydd Iau a dydd Gwener,
A dydd Sadwrn a dydd Sul.”

A chwyrliant trwy y maes fel byddinoedd o ddail meirwon. “O! fy meistri bychain anwyl, pwy ynte a wnaeth i chwi linell mor ddrwg? Rhaid i mi ychwanegu llinell arall.”

“Ychwanega.”

“Dydd Llun, dydd Mawrth, dydd Mercher,
A dydd Iau a dydd Gwener,
Dydd Sadwrn, dydd Sul, wedyn
Dyna'r wythnos yn ei therfyn.”

“Hwre! Hwre!” ebe'r corachod. A mewn munud yr oedd yr holl faes yn orchuddedig gan gorachod o bob lliw ac o bob maint. Deuent o bob cwr, o bob twll, odditan bob carreg, a bloeddient,—

“Gwilsier yw ein cyfaill ni,
Gwilsier ein achubwr ni!”

“Dad trugarog,” ebe Gwilsier mewn dychryn mawr, “beth ydyw hyn?”

"Dyma beth ydyw," atebodd brenin y corachod. "Duw a'n barnodd ddwy fil flynyddoedd yn ol, i drigo ymhlith dynion, ac i ddawnsio bob nos yn y caeau gwyllt, hyd y delai Cristion i derfynu ein cân tragryddol. Yr wyt ti wedi dod yn achubwr, ac yn awr mae ein tynged drom wedi ei newid. Disgyn a wnawn eilwaith am byth i'n teyrnas, draw ymhell dan y moroedd a'r mynyddoedd."

"Os felly mae'r byd," ebe Gwilsier, "nid ewch ymaith heb gynorthwyo eich cyfaill."

"Beth ddymuni di?"

"Arian i dalu Ieuan y Teiliwr, ac i brynnu bara tra parhau fy muchedd."

"Dyma arian i ti!"

A thafiasant at draed Gwilsier y sachau duon croen, llawn o aur, oedd ganddynt wrth eu gwregys. Diflanasant o'r golwg, a dychwelasant i'w teyrnas, draw ymhell tan y moroedd.

Dychwelodd Benead Gwilsier hefyd at ei wraig gyda'r sachau bychain.

"Lle mae'r ganwyll, Tina?" ebe efe. Dygwyd canwyll. Agorasant bob sach, a dyna arian ac aur yn rhedeg o'r naill ben i'r hen fwrdd i'r llall. Talodd Gwilsier ei ddyled i Ieuan y Teiliwr; heblaw hynny, rhoddodd fwsiel o yd a chwe llath o lian i bob tlawd yn y plwyf, ac i'r hen berson ugain deuswllt.

Wedyn aeth ef â'i wraig i dref Gwengam, lle rhoddodd Duw iddynt ddeg o feibion hardd, sydd hyd y dydd hwn yn bendefigion y wlad.

FRANCES JAFFRENOU.

MARY JONES, LLYS IFOR.

PAN oedd mam a thad â'u gofal yn castellu 'u geneth wen,
A thra perthynasau'n tywallt eu bendithion ar ei phen,
A'i dyfodol hithau'n agor megis bore'n Mai, yn wyn,
Wele sydyn wŷs yn galw Mary Jones i groesi'r glyn.

Pan yn cofio am ei chanu, cofio 'i geiriau henffel hi,
Picell hiraeth sy'n trywanu, gwaed y teimlad reda'n lli';
Ond, os credwn y cawn eto yn y nef ei chwrdydyd hi,
Creir enfys o obeithion ar ein dagrau heilltion ni.

Bu y ddaear yn rhy ara, 'nol ei harfer, gyda'i bri;
Collodd y cyfleusdra olaf i roi gwobr iddi hi;*
Dianc wnaeth i freichiau'r Iesu, cafodd goron ganddo Ef,
Ddeil, er meithed tragwyddoldeb, fyth yn newydd fel y nef.

Penmachno.

DEWI MACHNO.


* Yr oedd wedi ennill Tystysgrif mewn arholiad ynglŷn â'r Ysgol Sul, ond bu farw cyn adeg y cyflwyniad.



DYCHMYGION CWMYSTWYTH.

Casglwyd gan T. RHYDDNANT MORGAN.

1. Paham y mae llawer bardd Cymreig fel gŵr blinedig?
Oherwydd nad oes dim yn ei foddio'n well na chadair.
2. Beth yw hwnnw nad yw na chig nac asgwrn, ac
eto sy'n berchen pedwar bys ac un fawd? MANEG.
3. Pwy fu'n fwyaf llwyddiannus fel canwyllwr yng
Nghymru?
Ficer Pritchard, canys efe a roddodd "ganwyll" i'r Cymry oll.
4. Pwy sy'n cael caniatad i eistedd o flaen y fren-
hines a'i het am ei ben? EI CHERBYDWR.
5. Paham y mae cnul cloch fel gweddi rhagrithiwr?
Am ei bod yn rhoddi sain ddifrifol â thafod anystyriol.
6. I ba le yr el Cymry yr America i gael golwg
arnynt eu hunain? I'R Drych.
7. Y mae rhywbeth na welir ond unwaith yn y
dydd, eto dim ond dwywaith mewn blwyddyn?
Y LLYTHYREN Y.
8. Pa beth yw hwnnw nad yw neb yn hoffi ei gael,
ond, wedi ei gael, nad yw neb yn caru ei
golli? PEN MOEL.
9. Paham y mae sir Fon fel pysgodyn?
AM EI BOD YN Y DWR.
10. I beth bydd pobl Aberystwyth yn croesi'r bont?
I FYND I'R OCHR ARALL.
11. Prun yw y dodrefnyn mwyaf ym Mhrydain?
CADER IDRIS.
12. Pa gwm sydd yng Nghymru nad yw byth yn
rhewi? CWM YSTWYTH



LLCYNNAU TLYSAF CYMRU.
ii. Pont Cenarth, Ceredigion.

MEDDYGON.

II. A. EMRYS-JONES, M.D.

Y MIS diweddaf soniais wrthych am feddyg esgyrn, y tro hwn dyma i chwi ddarlun a hanes meddyg llygaid.

Ganwyd Abraham Emrys-Jones yn Llanarth, sir Aberteifi, yn 1852. Lle pell, tawel, ydyw Llanarth; ond nid ychydig o wŷr enwog sydd wedi hannu oddiyno. Yn awyr iach y lle hoffus hwn y cafodd Emrys-Jones yr ystor o ynni, o gydymdeimlad, ac o gymwynasgarwch sydd yn cyfrif am ei lwyddiant.

Bu yn ysgol Llanarth, ac yn ysgol Port Sian, lle yr oedd ef a Gwenogfryn Evans yn gyfoedion. Aeth i Ysgol Ramadegol Aberteifi, ac oddiyno, tua 1870, i Brifysgol Glasgow. Yr oedd yn llawn ynni o'i febyd; taflodd ei hun i frwdfrydedd politicaidd 1868, ac wedi hynny, yr un mor egniol, i'w efrydiau meddygol. Nid yw ei gydymdeimlad ag amaethwyr Ceridigion fymryn llai na chynt, ac y mae efrydiaeth meddyg yn eangu cydymdeimlad ac yn gwneyd dyn yn rhyddfrydig iawn.

O Glasgow aeth i Edinburgh. Yn 1875 graddiodd yn M.B. a C.M. yno. Yn 1876 cafodd ei M.R.C.S. Seisnig. Yn 1877 cafodd ei M.D. ym Mhrifysgol Edinburgh, gyda chanmoliaeth uchel i'w draethawd ar anhwylderau'r llygaid.

Yn 1875 daeth yn feddyg trigiannol yr Hulme Dispensary, Manchester; a dechreuodd weithio'n egniol ynglŷn â iechyd a budd tlodion tref fawr y cotwm. Yn 1876 apwyntiwyd ef yn feddyg llygaid y Royal Eye Hospital,—ymroddodd yn gyfangwbl i wella anhwylderau y llygaid,—ac yma y mae, eto. Erbyn hyn y mae ei glod fel meddyg llygaid wedi taenu ymhell dros derfynau Manchester.

Y mae wedi ysgrifennu llawer, yn enwedig ar y llygad,—megis "Y llygad a gweled," "Anhwylderau achosir gan y ddiod." Mae'n ddarlithydd medrus a phoblogaidd ar hoff bynciau ei efrydiaeth hefyd.

Cymer ddyddordeb byw iawn ym mudd ei gyd-ddynion. Am ddeng mlynedd bu'n ysgrifennydd Cymdeithas Iechyd Manchester a Salford, ac y mae'n awr yn is-lywydd iddi. Efe yn un a gychwynnodd y mudiad i gael diwrnod yn y wlad i blant tlodion Manchester; ac y mae ei holl egni,—dafod, ysgrifell, a help,—ar waith i wneyd lles i'r tlawd a'r afiach.

Mae cydymdeimlad Dr. Emrys Jones yn eangach hyd yn oed na'i feddygaeth. Darlithia, nid yn unig o blaid iechyd ac yn erbyn meddwdod, ond ar ddynoliaeth dda,—megis ag y geir ym meddyliau Oliver Wendell Holmes ac ym mywyd Florence Nightingale.

Mae'n ustus heddwch yn nhref Manchester, ond y mae'n gwrthod cymeryd rhan flaenllaw yng ngwleidyddiaeth y dref.

Mae'n deyrngarol iawn i Lanarth, i sir Aberteifi, ac i Gymru. Ers

llawer blwyddyn efe yw llywydd Cymdeithas Genhedlaethol Gymreig Manchester,—cymdeithas sydd wedi esbonio beth ydyw cenedlaetholdeb eang a goddefgar. Mae'n ysgrifennwr Cymraeg prydferth; ac ymysg Cymry, dyngarwyr fel Iolo Morgannwg sydd fwyaf wrth ei fodd. Cred yn gryf mewn addysg; ei arwyddair yw "gore arf, arf dysg;" ac y mae'n aelod o lys Coleg Prifysgol Cymru.

Mae Bryn Derw, cartref Dr. Emrys-Jones, yn un o'r tai tlysaf a mwyaf cysurus ym Manchester. Mae'r llyfrgell yn llawn o lyfrau Cymraeg. Gŵr diddan yw gŵr y tŷ,—yn llawn hanesion difyr am fore oes yn Llanarth; mae'n un o'r rhai sydd yn cadw ynni a dydd-ordeb plentyndod gyda doethineb profiad. Gall y plant ddychmygu y peth wŷr dau blentyn Emrys Jones,—mai gŵr dedwydd, yn gwneyd ei oreu i wneyd pawb yn ddedwydd, yw'r meddyg llygaid. A than ei garedigrwydd y mae ynni a gonestrwydd amcan sydd yn esbonio ei lwyddiant a'r lle uchel sydd iddo ym Manchester ac ymysg y Cymry ymhob man.

—◆◆◆—

NEGES YR EIRDLWS.

Yr eirdlws gwylaidd ar gwrlid gwyn
Sy'n sibrwd ei neges gan blygu'n syn.

A dyma ei neges fach i ni,—

"Mae fy mrodyr yn dod, yn dorf ddi-ri.

"Hwy adgyfodir o'u beddrod llaith,
Cydunant yn eu newydd iaith.

"Codant i fyny ar newydd wedd,
I fyny o'r ddaear, oerllyd fedd.

"Daw'r haul a'i wawl, O blentyn clyw,
Teimlant ei swyn, hwy fyddant byw.

"Nid cwrlid gwyn fydd eu cwrlid hwy,
Ond daear yn gwrlid gwyrddlas mwy.

"I fyny mae'n brodyr bach yn dod
I lygad goleuni, dyna 'u nod.

"Ymgyrraedd a wnant at heulwen fwyn,
Prydfertha anian bob dól a llwyn.

"Paentiedydd gwychaf natur lân,
Liwia ruddiau fy mrodyr mân.

"Pan welwch chwi un o'r teulu bach,
Na sethrwch arno, gadewch e'n iach;
Mae ganddo neges, dwed yn awr,
Am allu tyner y Duwdod mawr."



PLANT CYMRU. CV. RHAI O BLANT SIR FFLINT.

YSGOL COEDLLAI, GER Y WYDDGRUG, SIR FFLINT.

UN o ysgolion perthynol i Fwrdd Ysgol Plwyf y Wyddgrug yw yr ysgol hon. Saif yn ymyl Clawdd Offa; ond er mor agos i'r terfyn ydyw, dysgir yr iaith Gymraeg i'r plant. Y flwyddyn ddiweddaf, er mai Saeson ydoedd y rhan fwyaf o'r aelodau, llwyddodd y cadeirydd poblogaidd, sef E. Bithel, Coedllai,—yr hwn a welir ar ochr dde y darlun,—i gael gan y Bwrdd i fabwysiadu y Gymraeg yn yr ysgolion lle y byddai hynny yn ymarferol. Ac ysgol Coedllai oedd i roddi prawf ar hyn yn gyntaf. Ac felly y bu. Dechreuodd yr ysgolfeistr ymdrechgar, galluog, a thwym galon R. T. Evans,—yr hwn a welir yn uchaf ar ochr aswy y darlun,—ar y gwaith ar un-waith; a'r canlyniad fu i'r ysgol ennill grant uchaf y Llywodraeth am bob pwnc yr ymgymerasent âg et, a hynny am y waith gyntaf erioed. Ac yn ychwanegol at hynny, enillodd pob plentyn a gymerodd y Gymraeg 3/- bob un o grant am Gymraeg, yr hyn sydd brawf ddiarnheul fod dysgu Cymraeg yn fantais i ddysgu pethau eraill, yn enwedig yr iaith Saesneg. Mae yma blant i rieni o Saeson yn sefyll yn anrhydeddus yn yr arholiad ar y Gymraeg, a pha beth sydd fwy

rhesymol nag i'r rhai hynny gael dysgu Cymraeg os yn meddwl byw ac ennill eu bara yng Nghymru. Paham y rhaid treulio y Sabboth i ddysgu iaith i blant Cymru tra y maent yn cael grant am hynny yn yr ysgolion dyddiol am bum diwrnod o'r wythnos?

URDD Y DELYN.

Y RHEOLAU.

1. Dysgu siarad ac ysgrifennu Cymraeg; darllen rhan o'r Beibl Cymraeg, neu ryw lyfr Cymraeg arall, bob dydd, ac ysgrifennu Cymraeg o'r gyfansoddiad ei hun.
2. Astudio hanes Cymru, a gwneyd ei oreu i godi ei wlad, fel y byddo Cymru fydd yn well na'r hen Gymru.
3. Dysgu canu'r delyn, os bydd hynny yn y cyrraedd; a dysgu alawon Cymreig.
4. Byw, hyd y gall, yn ol dysgeidiaeth yr hen Gymry gynt, mor bell ag y mae'r ddysgeidiaeth honno'n un a dysgeidiaeth Crist. Y mae'r ddysgeidiaeth honno'n gofyn purdeb, cariad at addysg, caredigrwydd at ddyn, addfwynder at greaduriaid direswm, iaith ddihalog.

ENWAU NEWYDDION.

710. Kate Eifion Roberts, Fourcrosses, Lleyn.
 711. Thomas Carrington, 1, Abbot Street, Gwreccsam.
 712. Peter Ellis, Pen y Bryn, Rhiwabon.

CANGEN PENNAL.

Cyferfydd bob nos Sadwrn, am bump nawn Sadyrnau, yng nghapel y Wesleyaid.

713—772.

Gwilym Dyfi; Rowland Humphreys, Tai-newyddion; Robert Davies, Thomas Robert Jones, Gwyndy; Richard Owen, Robert William Davies, David Davies, Thomas Hugh Davies, Ann Gwenfron Davies, Goronwy Davies, Richard Idwal Davies, Marian; Rhys Hughes Owen, Lili Owen, Mary Davies, Annie Davies, David Davies, William Davies, Jennie Davies, Lizzie Roberts, David Jenkins Roberts, Mary Davies, Esther Davies, David Davies, Sarah Ann Davies, Margaret Davies, Griandy; Gwladys Pugh Jenkins, Felin Parsel; Johnny Pugh, Margaret Jane Pugh, Ysgubor Fawr; Lizzie Mary Jones, David Jones, Tŷ tan yr Ywen; Ann Evans, Mary Evans, Jane Evans, Richard Evans, David Jones, Absulon Jones, John Daniel Davies, Margaret Jane Davies, Cathrine Ellen Davies, David Thomas Pugh, Griandy; Edward Hughes, Flag Inn; Amelia Pugh, Hugh Pugh, Ellen Pugh, Cwmdwr; Cathrine Jane Jones, Richard Jones, Cwrt; Willie Williams, David Williams, Thomas James,

Pendryn Bach; Daniel Pritchard Jones, Hannah Jones, Gwladys Jones, Gwyndy; Hannah Mary Evans, Cathrine Jane Evans, Evan Richard Evans, Richard Jones Evans, Gwerniago; Lewis Richard Evans, Cefncair; Mary Elizabeth Morgan, Cwmdwr; David James, Richard James, Pendryn Bach.

CANGEN FRON CYSYLLTAU.

Cyferfydd bob nos Iau am 6 o'r gloch yng nghapel yr Anibynwyr.

773—811.

Emlyn Jones, Edward T. Jones, Evan Rowlands, David Thomas, James Watkin Jones, Arthur Jones, Emlyn Jones, Trefor; William Owen Roberts, Evan Thomas Jones, Robert Rowland Davies, Joseph Thomas Jones, Thomas Llywelyn Griffiths, Willie Thomas, Robert E. Jones, Howel Cook, Ellis Williams, Robert E. Williams, John Abel Jones, Richard Elmor Jones, Herbert Jones, Fred Thomas, Robert Wallis Thomas, Margaret E. Davies, Eunice Davies, Susie Davies, Annie Jane Roberts, Elizabeth Jane Jones, Mary Ann Rowlands, John Henry Jones (ysgrifennydd), Huw Parri (llywydd), Blodwen Jones, G. Edward Jones, R. A. Jones, J. H. Williams, Elizabeth Jones, Alexander Jones, Ernie Jones, Arthur Jones, John Robert Roberts.

CANGEN RHOSYMEDRE.

Yn cyfarfod bob nos Fercher, am 6 o'r gloch, yng nghapel yr Anibynwyr.

812—832.

R. Myddleton Jones, Theophilus Daniels, Emlyn Davies, Arthur Davies, Rhosymedre; Thomas Williams, Howel Bates, Maelgwn Bates, Acrefair; Mary Elizabeth Jones, Annie Davies, Mary Ellen Jones, Eliza Jones, Emily Hughes, M. E. Daniels, Alice Smith, Rhosymedre; Myfanwy Bates, Blodwen Bates, Olwen Bates, Acrefair; Myfanwy Davies, Rhosymedre; Maggie Williams, Mary Williams, Acrefair; R. Lloyd Jones (ysgrifennydd), Huw Parri (llywydd).

Sefydlwyd canghennau'r Fron Cysylltau a Rhosymedre yr un adeg (Tach. 3ydd); a chynhelir cyfarfodydd un waith bob wythnos. Y mae yr elfen Seisnig yn gryf iawn yn Rhosymedre; er hynny, y mae y plant wedi cymeryd yn dda at ddysgu Cymraeg, a'r dull a gymerir yw rhoddi darnau i'w cyfieithu o'r Saesneg i'r Gymraeg, adrodd darnau o'r prif-feirdd, a chanu alawon Cymru. Y mae mynd iawn ar "Diliau'r Delyn," a'r plant yn canu yr alawon wrth eu bodd.

Rhoddir gwobrwyon yn y ddau le am unawdau, deuawdau, adroddiadau, llythyr Cymraeg, ateb cwestiynau ar hanes Cymru, a'r hanesion Beiblaidd. Rhoddir gwobr o ddwy geiniog hefyd bob wythnos i'r bachgen neu yr eneth ddaw i mewn i'r cytarfod yn y dull mwyaf boneddigaidd. Synnech y fath ymdrech a wneir i ennill y ddwy geiniog. Er fod y goreu i'w cael yn eu plith, y maent yn blant bach da i gyd. Y maent yn blant tlws i gyd hefyd, a chewch eu lluniau er prawf o hynny yn ystod y flwyddyn.

Bwriadwn gael eisteddfod fechan yn y Fron ar ddydd Dewi, gyflwyno y bathodau, &c.

Dyna adroddiad cyntaf y llywydd,—y Parch. Huw Parri.

— — — — —
 “I GODI'R HEN WLAD YN EI HOL.”

ALAW,—“*Llwyn Onn.*”

RHOWN ysgwydd wrth ysgwydd, a chalon wrth galon,
 Mewn ymdrech i godi'r hen wlad yn ei hol;
 Gwynebwn y gwaethaf, pe bai ein gelynyon,
 Mor amled a'r glaswellt ar fynwes y ddôl;
 Esgynned y tanllef o glogwyn i glogwyn,
 Paham y gwargrymwn dan ddyrnod sarhad?
 Mae ysbryd dewr Glyndwr a'n holaf Lywelyn,
 Yn swm buddugoliaeth, yn arwain i'r gâd.

Mae udgorn y glynnoedd a'u hirlais rhyfelgar
 Yn galw ei luoedd i ymdrech o werth;
 Ac aros yn gynnes mae'r frawddeg fyth-wladgar,
 Ar dafod pob gwron,—“Mewn undeb mae nerth;
 Ymunwn, ymunwn i ymladd â'r gelyn,
 Archollodd ein rhyddid trwy ddichell a brad;
 Mae ysbryd dewr Glyndwr a'n holaf Lywelyn,
 Yn swm buddugoliaeth, yn arwain i'r gâd.

Adennill eu rhyddid a'u breintiau cyntefig,
 Fo nod ac uchelgais amlycaf ei phlant;
 Gorchtygu yr estron a chael y colledig,
 Byw eilwaith dan heulwen a thelyn a thant;
 Os cerddodd ein heddwch hyd lwybrau gwaed dychryn,
 Mae gwawrddydd yn torri ar nosau ein gwlad;
 Ac ysbryd dewr Glyndwr a'n holaf Lywelyn,
 Yn swm buddugoliaeth, yn arwain i'r gâd.

GWILYM DYFI.



GWASTADEDD MARATHON.

BRWYDRAU RHYDDID.

II. MARATHON.

YR oedd gwlad Groeg, er yn fore fore, yn llawn o ddinasoedd bychain anibynnol, oll yn hoff iawn o ryddid. Draw ymhell, am y môr a hwy, cododd teyrnas fawr orthrymus Persia.

Darostyngwyd Groegiaid Asia, difrodwyd eu hynsoedd yn greu- lon, a barbaraid iawn oedd dull y Persiaid o ryfela a rheoli. Yn y flwyddyn 490 cyn Crist, penderfynodd Darius, brenin Persia, wedi methu mewn un ymdrech, y mynnai ddarostwng gwlad Groeg ei hun. Anfonodd genhadon i bob dinas, i hawlio dwfr a phridd,— arwyddion ymostyngiad. Utuddhaodd pob dinas iddo ond dwy,— sef Athen a Sparta.

Yn y gwanwyn anfonodd y brenin llidiog lynges aruthrol ar draws y môr. Ofnodd pob ynys ei gwrthwynebu, tan ddaethant i Eretria yn Euboea. Llosgasant y ddinas, a llusgasant ei phobl i gaethiwed mewn cadwyni. Ac yn fuan iawn clywodd y Spartiaid a'r Atheniaid eu bod yn cyrchu at eu glannau hwy.

Glaniodd y fyddin enfawr Bersiaidd ar wastadedd Marathon, rhyw

ddwy filldir ar hugain i'r gogledd o Athen, tra yr oedd Sparta tua chan milldir i'r cyfeiriad arall. Ni fynnai'r Spartiaid ofergoelus gychwyn i'r gad nes byddai'r lleud yn llawn; ond cychwynnodd yr Atheniaid ar unwaith.

Yr oeddynt yn ddeng mil o wŷr, oll yn gyflawn arfog. Ar y ffordd ymunodd y Plataiaid,—mil o wŷr arfog â hwy. A hynny'n unig aeth allan i wynebu can mil o filwyr Persiaidd.


Trefnwyd y fyddin Bersiaidd i ryfel ar y gwastadedd ar lan y môr, a'r llynges y tu hwnt iddi. Safodd yr Atheniaid yn yr agen, a mynydd ar bob llaw iddynt, fel nas gallai meirch-filwyr y gelyn ymosod ar ochrau eu byddin. Miltiades oedd eu cadlywydd. Trefnwyd eu byddin yn dair rhan,—canol, a dwy aden. Yr oedd milldir rhyngddynt a'r gelyn.

Y Groegiaid ddechreuodd ymosod. Cerddasant yn gyflym, yn wrhedasant, i gyfarfod y gelyn. Tafodd eu dwy aden y Persiaid yn eu holau bendramwnwgl, ond gorfod i'w canol gilio 'n ol o flaen cryfder y fyddin Bersiaidd. Wrth weled hynny, galwodd Miltiades adenydd ei fyddin yn ol, a rhuthrasant oll ar ganol byddin y Persiaid. Ni fedrai y rhai hynny sefyll yn erbyn rhuthr chwyrn y Groegiaid, a dechreuasant ddianc. Ac yn fuan iawn trodd yr holl fyddin Bersaidd i ddianc i'r llongau, a'r Groegiaid yn eu herlid.

Collodd y Persiaid, meddir, dros chwe mil o wŷr; syrthiodd 192 o feibion dewraf Groeg. Claddwyd hwy ar faes y frwydr; codwyd carnedd ar eu beddau,—onid yw i'w gweled hyd y dydd hwn?

Yr oedd brwydr Marathon yn un o frwydrau pwysicaf hanes. Rhoddodd egni a balchder cenedlaethol i'r Atheniaid; am dani hi y siaradai eu hareithwyr ac y canai eu beirdd. Rhoddodd ei rhyddid i wlad Groeg hefyd. Pe buasai'r Atheniaid wedi eu llethu, buasai'r Persiaid gorthrymus a barbariaid wedi llifo dros wlad Groeg, ac feallai dros Ewrob i gyd. Ni fuasai llenyddiaeth a chelfau cain Groeg wedi cael lle i dyfu, ni fuasai ei masnach wedi ehangu, ni fuasai'r iaith yr ysgrifennwyd yr efengyl ymhen y pum can mlynedd wedi dadblygu,—ni fuasai'r byd y peth ydyw heddyw oni bai am yr ymladd dros ryddid fu ar faes Marathon.

ARWYDDAIR COLEG Y DE,—“Nerth gwlad ei gwybodau.”

 Cystatrid y golygydd yw,—OWEN M. EDWARDS, 3, CLARENDON VILLAS, OXFORD.

A IGRAFFWYD A CHYHOEDDWDYD GAN HUGHES AND SON, 56, ROSE STREET, WREKHAM

YSGWRS Y GOLYGYDD.



ANFONER tonau i L. J. Roberts, Ysw., M.A., Tegfan, Rhyl; anfoner pob archebion am rifynnau, cyfrolau, a chloriau i'r cyhoeddwr, — Mri. Hughes a'i fab, Gwreccsam. Os anfonir hwy i'r Golygydd, gallai y bydd oediad hir iawn.

Gwerthir blociau'r darluniau ymddengys yng NGHYMRU'R PLANT am ychydig iawn, am lai na hanner cost eu cerfio. Y mae'n sicr y bydd yn dda gan lywodraethwyr ysgollion gael darlun o'r ysgol i'w argraffu yn eu hadroddiad; bydd yn dda gan rieni gael darluniau o'u plant i'w hargraffu ar gardiau Nadolig; a bydd yn dda gan argraffwyr gael darluniau o wŷr cyhoeddus a lleoedd enwog, i'w rhoddi mewn cylchgronau neu bapurau newyddion.

Pris bloc llond tudalen CYMRU'R PLANT yw tua 10/-; pris bloc hanner llond y tudalen, tua 5/- Ymfynner a'r cyhoeddwr.

Gwelir darlun o un o Gymry ieuainc Maesyfed, — mab Mr. Morgan, Plas yn Dre, Rhaiadr, — yn y lle crwn y tro hwn. O ochr ei fam y mae yn orwyr i'r enwog Michael


Roberts, Pwllheli, un o bregethwyr mwyaf seraffaidd Cymru.

Gobeithiais y medrwn roddi enwau buddugwyr y gystadleuaeth ar y tudalen hwn. Ond nid oes digon o le iddynt, nac yn wir i hanner y rhai hoffwn roddi crybwylliad anrhydeddus o'u henwau. Gwell gennyf gael yr enwau priodol bob amser, er mwyn i mi fedru gyrru'r gwobrwyon heb orfod ymohebu ychwaneg. Trafferth ddianghenrhaid yw ysgrifennu dau lythyr lle y gwna un y tro. O hyn allan, anfoner yr enwau priodol gyda'r traethodau. Yr wyf yn sicr y bydd y rhestr hir yn barod erbyn y rhifyn nesaf.

R. W. T. (Llandderfel). Ni welais yr hen allor yn y coed y soniwech am dani erioed, er nad ydyw ond gwaith tua chwarter awr o gerdded o orsaf Llandderfel. Da gennyf eich bod yn troi'ch meddwl at hanes ein tadau, bydd yr astudiaeth yn hyfrydwch i chwi trwy eich bywyd.

CORGOLOFN LLYWELYN. Daeth 6/- o Fourcrosses, sir Gaernarfon, trwy law W. Larsing. Dyma enwau y cyfranwyr, — Peredur Ll. Daniel, 2/-; R. O. Williams, 1/-; R. R. Jones, 6ch.; Elias Hughes, 6ch.; W. H. Roberts, 6ch.; O. Owens, 2g.; W. Larsing, 1/4. Bydd yn dda gennyf drosglwyddo symiau eto at gofologfn Llywelyn neu at gofologfn Daniel Owen.

Daeth llawer o enwau yn rhy hwyr i fod yn rhestr Urdd y Delyn y mis hwn, ond deuant yn y rhifyn nesaf.



TYDDEWI.

(Darlun gan Albert David.)



MAWRTH, 1899.

CYF. VIII. RHIF 87.

DYGWYL DEWI SANT.

COFIWN heddyw am gymhwynaswyr ein cenedl sydd newydd huno. Cofiw'n am Michael D. Jones, yr athraw a'r gwladfawr a'r gwladgarwr; am Thomas Gee, gŵr y *Faner*; am Owen Jones, y cofiantwr a'r llyfrgarwr,—oll yn bregethwyr. Cofier, hefyd, am Ivon, y gŵr garodd lenyddiaeth Cymru; am Robert Rowland, y bachgen ofalodd am ei fam, ac i'r hwn y talodd Duw ar y canfed. Dyna gyfeillion i **GYMRU'R PLANT**; bydd eu darluniau a'u

hanes yn *Cymru*. Mae eraill, mi wn; anwylwn eu coffadwriaeth, a cheisiwn ddilyn eu hol, er mwyn ein gwlad a'n Duw.

CHWAREU BOD YN LADIS.

"DEWCH i whare bod yn ladis, Mari, Sara, Marged Jane, dewch i whare bod yn ladis," gwaedda'i Acsa'r go, geneth fechan tyw lygad-lon, ar drwp o gyfeillesau iddi oedd wedi crynhoi ynghyd i ddifyrru eu hunain ar draeth prydferth yn neheu Cymru. Tyrrodd y plant o'i hamgylch mewn eiliad; rhaid fod rhywbeth yn hynod o swynol a difyr mewn chware bod yn ladis. Dawnsiai eu llygaid, a thyllai eu bochau, nes peri i ddwy foneddiges oedd yn eistedd ar graig gerllaw ofidio na baent hwy yn chware bod yr hyn oeddent.

Nid dyma y tro cyntaf i'r plant ddifyrru eu hunain fel hyn, hawdd oedd gwybod wrth weld eu parodrwydd i ddewis eu gwahanol gymeriadau.

"Ddoi di Mari?" gofynnai Acsa, wrth weld un yn dangos ychydig o anfoddlonrwydd.

"Os ca i fod yn Miss Hamilton y Plâs," atebai Mari, mewn llais cras na fyddai y foneddiges o'r Plâs ddim yn arfer siarad ynddo.

"Wel, o'r goreu," atebai Acsa ychydig yn groes, gan ei bod wedi meddwl personoli y cymeriad yma ei hunan. "Pwy fyddi di, Sara? A phwy fyddi di?" gofynnai i un ar ol y llall.

"Miss Jones y doctor w i bob amser," atebai un eneth fach, yr hon a hoffai yn fawr ferch y meddyg, boneddiges ieuanc nodedig o brydferth oedd newydd ddod gartref o goleg Aberystwyth yn llawn *honours*, ac o feddyliau uchel am yr hyn ellid wneyd i godi ei gwlad a'i chenedl.

"O ie, gynta wir, i gael ffeindio bai arno ni wedyn," meddai Marged Jane. "Miss Lloyd y Bryn fydda i; 'dyw hi ddim yn rhy dda, ag ma digon o arian gyda hi."

"Arian!" meddai y rhai nad oedd wedi dewis hyn, "mae'n ddigon salw mym."

"Nawr te, dechreuwch," gwaeddai Acsa, "a pheidiwch siarad mor uchel; 'dyw ladis byth yn gwaeddi. Siarada di, Mari, mewn llais ffein fel Miss Hamilton, ne 's dim spri."

'Roedd hyn yn hollol o gyrraedd Mari; enw Miss Hamilton yn unig allai y plentyn hyn gymeryd arni ei hunan. Ond am Acsa, yr hon a ddewisodd bersonoli un o wragedd mwyaf cyfrifol yr ardal, yr oedd wedi sylwi yn fawr ar bob peth oedd yn amlwg yn ei dull a'i hymddangosiad, a siaradaï â'r plant eraill yn arafaid a boneddigaidd fel ei phatrwn.

"Gofyn di yn awr i Miss Jones y doctor i ddod i'r Plâs," meddai Acsa. Yr oedd yn rhaid cadw Miss Hamilton i fyny i'r marc mewn llawer o bethau, a rhytedd fel yr oedd hyn yn spwyllo'r chware.

"Pryd chi'n dod i'r Plas?" gofynnai Mari yn swta.

"Diolch yn fawr i chwi, Miss Hamilton," atebai Sara fach, "mae bob amser yn bleser mawr i fi i ddod i'r Plas, nid llawer sydd yn y gymydogoeth yma y galla i siarad â hwy."

"Wyt ti bob amser yn meddwl bod ti yn well na neb," meddai croten nad oedd byth yn gallu cofio mai chware oeddent; un a wnaib ei goreu i bersenoli gwraig y rheithor, a chan nad oedd ganddi ryw ddychymyg byw iawn, yr unig ffordd y gallai wneyd hyn oedd drwy roddi rhoddion bychain i'w chyfeillesau o dê a siwgr ac ambell i bilyn.

"Wyt ti'n gall, Dina?" meddai Acsa, pan yr oedd Mrs. Price wedi anfon siol fach i ferch y Plâs. "Wyt ti'n meddwl aethe Mrs. Price a siol i Miss Hamilton? Chei di ddim where os na feindi di. Well i ti fod yn Mrs. Llewellyn, 'dyw hi byth yn rhoi dim i neb."

Erbyn hyn daeth dwy groten, scaprwyth yr olwg arnynt, i ofyn cael uno yn y chware.

"Does dim rhagor o ladis i gael," meddai un o'r ladis bach.

"Oes rhywun yn where bod yn Gowntess? gofynnai y fwyaf scap-rwyth o'r ddwy.

"Ti yn Gowntess!" gwaeddai y lleill gyda'u gilydd.

"Ie, pam? Ond fi sy'n whynnu gardd y castell bob amser," meddai Catrin, gan gydio yn ei thrwyn, a rhoi gwasgiad iddo i bwrpas neillduol, mewn modd na fyddai Cowntess yn arfer gwneyd.

"O, dyna faners, dyna faners," gwaeddai y lleill eto, "chei di ddim where os na fyddi di'n ladi."

"Diar mi, mae pethau fel hyn yn troi arna i," meddai Miss Jones-yr doctor, "oes dim modd codi y werin?"

Ond yr oedd y Cowntess yn gwneyd ei rhan mor dda fel yr oedd yn rhaid cyfaddef fod yn llawer hawddach cario y gwaith o ddychmygu ymlaen wedi iddi ddod yn un o'r cwmni. Yn wir yr oedd yn gymaint o gaffaeliad ar y traeth ag a oedd yn ei chylch aristocrataidd ei hun yn Llundain. Mewn eiliad yr oedd wedi gwisgo ei chyfeill-esau bychain mewn dillad gwych ag ychydig o arian.

"Well, there's biwtiful dress you got, Miss Hamilton! It stand on its head," meddai, gan dafu cymaint o edmygedd i'w llais nes yr oedd hyd yn oed Miss Hamilton, er lleied ei gallu i ddychmygu, yn gorfod troi ei phen yn ol dros ei hysgwydd i edrych ar gwt ei gŵn sidan.

Gan fod Pegws y Ciper yn foddlon cymeryd y part o *lady's maid* i'r Cowntess, ac yn gwybod ei gwaith i'r dim, hawdd oedd i'r foneddiges anfon nodyn bach i'r gyfeilles hyn a'r gyfeilles arall i ofyn iddynt i ddod i ymweled â hi. Ond prin yr oedd y boneddigesau bychain wedi gwisgo i fynd i ddawnsfa yn y castell pan y daeth mam y Cowntess allan i edrych am dani.

"O falle yn wir, mei ladi," meddai, pan gafodd ar ddeall beth oedd yn mynd yn y blaen. "Gown satin gwyn sy am danat ti, aie? Wel, os gwelwch chi yn dda, mei ladi, i ddod i dendio tipyn ar y mochyn cyn mynd i'r castell. A falle byddai cystal i Miss Hamilton olchi tipyn o'r llawr i'w mham yn i gŵn sidan. Nawr, bant a chi."

Neidiodd un o'r boneddigesau i lawr o ben y graig, a daeth ymlaen i gymeryd part y plant diniwed.

"Nawr, Cati," meddai, "chwareu teg iddynt hefyd. 'Rwy wedi bod yn gwrando ar bob peth maent wedi bod yn wneyd, a dim ond cymeryd patrwn i geisio bod yn rhywbeth gwell nag ydynt y maent. Maent fel hyn yn dysgu siarad mewn llais mwy mwynnaidd, ac yn gadael o'r neilldu arferion bach brwnt ac isel; da chi, gadewch iddynt hyd yn oed i chware bod yn well nag ydynt, fe aiff yr hyn maent yn wneyd mewn chware, mewn amser, yn arferiad," meddai Miss Jones, merch y meddyg. Ac yr oedd y plant yn agor eu llygaid mewn syndod nad oedd y tro hwn yn ffeindio bai. H. E. M.

CYMRU'R PLANT.

Y BEDDROD HWNNW.

MAE gweld y beddrod hwnnw
 Yn galw, er pob loes,
 Ryw euraidd oriau'n ol i'm bron—
 Adgofion bore oes ;
 Pan ganai telyn bywyd
 Gân gwynfyd ar bob tant,
 Sw'n clychau hawddfyd lanwai'r gwynt,
 Pan oeddym gynt yn blant.

Pregetha'r beddrod hwnnw
 Yn groew yn ei iaith
 Mai ber yw gyrfa llawer un
 Sy'n cychwyn ar ei daith ;
 Do, torrwyd blagur hawddgar,
 Yn gynnar, er ei swyn ;
 A gwywodd o dan awel Mai
 Ei oes anadlai'n fwyn.

Uwchben y beddrod hwnnw,
 Er chwerw boen i'r fron,
 Daeth cwmwl siomiant ar ei dro,
 I dduo'r nefoedd lon ;
 Ffodd gwenau rhagolygon,
 Fel tlysiion lu di-nam ;
 A machlud wnaeth ym more 'i daith,
 Haul gobaith tad a mam.

Ar lan y beddrod hwnnw,
 Yn loew fel y gw lith,
 Addurna gemau dagrau serch
 Y llannerch byth yn frith ;
 Myn hiraeth er cartrefu
 Babellu ar y lan,
 Ac adgof gyda'i flodau fyrdd
 Yn fythwyrdd noda'r fan.

Y Bala.

RICHARD AB HUGH.

COPIANTAU. Mae amryw gofiantau bychain prydfferth, mewn rhyddiaith a chân,
 wedi'm cytraedd. Anfoner darluniau pan fo rhai ar gael.

CARTREFI EIN CYMYDOGION.

III. CARTREF Y CREYR GLAS.



Y CREYR GLAS.

DERYN swil ac unig yw'r creyr glas. Saif yn llonydd am oriau, a gwedd fyfyrgar arno, ar lan y llyn neu'r afon. Dwfr clir a glân sydd wrth ei todd, oherwydd mewn dwfr telly medr weled ei ysglyfaeth yn well; a gwae i'r pysgodyn yr anelo ergyd iddo a'i big hir.

Llawer creyr fum yn wyllo yn nyffrynnoedd y Ddyfrdwy a Mawddach. Deil trithylliaid ac yslywod, a llynca hwy a'u pennau ymlaenaf; ond hoff ganddo hefyd yw nadroedd, geneu goegiaid, llyffaint, llygod dŵr, chwilog, a phob rhyw bryfetach. Y nos a'r bore yw adeg ei brydiau bwyd.

Gallech feddwl, wrth edrych ar ddull digyffro y creyr,—ei ben ychydig yn ol,—nad yw'n sylwi ar ddim. Ond y mae'n gwyllo'n ddyfal. Y munud y daw pysgodyn at ei draed, teimlad ergyd y big yn ddifeth. Ac os ewch eto, ymgyfyd i fyny'n ddistaw, gan ehedeg a'i draed hirion ar ei ol.

Mae'n hoff iawn o'i gartref ar ymyl rhyw lyn tawel, dan yr hesg. Bydd ei nyth ar lawr, neu ar ben coeden; nyth gwastad, go fychan i greadur mor heglog; wedi ei

wneyd o briciau, a'r tu fewn o wlan neu flew, hesg neu wellt neu rywbeth esmwyth. Bydd dau deulu yn y flwyddyn. Tri wy fydd yn y nyth fel rheol. Gwyrdd yw eu lliw; weithiau bydd eu pennau'n feinion, dro arall yn grynon.

O driphwys i driphwys a hanner yw pwysau'r creyr; y mae dipyn yn drymach nag arfer pan newydd fod yn pysgota. Y mae ei h dipyn dros tair troedfedd, lleda ei edyn bum troedfedd, ber yw



CARTREF Y CREYR GLAS, GER DOLGELLAU.

gynffon. Melen yw ei big, gwyn yw ei ben gan mwyaf, gwyn iawn yw ei fron, y mae ei gefn yn ddulas, yn llwyd, yn llwydglas, a'r gynffon yn llwyd-ddu.

Bydd y creyr byw'n hir iawn os ca lonydd. Medrir ei ddofi os delir ef yn ieuanc. Y mae anian pysgotwr ynddo.

Mae rhai mathau anghyffredin o'r rhyw, megis y creyr coch a'r creyr mawr gwyn. Gwelir hwy weithiau yn ein gwlad ni; ond y mae'n debyg mai diflannu wnant oll cyn hir.

Yn yr hen amseroedd yr oedd hela'r creyr â hebogau yn un o brif ddiffyrion y tywysogion, ac ystyrir yr aderyn yn flasusfwyd ar fyrddau brenhinoedd. Cedwid cartref iddo yng Nghymru ym Margam, Penrys, a Bodrydden. Ond yn awr ychydig o sylw delir iddo; ac aml garreg a ffon daflwyd ar ei ol gan rai na charant eu cymydogion.

YR ANGEL.

"**P**AN bydd plentyn bach yn marw, mae angel yn dod i lawr i'r ddaear oddiwrth Dduw, ac yn cymeryd y bychan yn ei treichiau, ac yna yn lledu ei edyn mawr gwyn. Ond cyn gadael y ddaear mae yn casglu blodau i'w dwyn gydag ef at Dduw. A phrydfertydyw y blodau ar y ddaear; ond wedi eu plannu yn y nefoedd, llawer mwy ydyw eu harddwch. Mae y Duw da yn gwenu croesaw ar bob blodeuyn; ond i'r un a garo Efe oreu y mae yn rhoddi cusan, ac yna mae y blodeuyn hwnnw yn derbyn llais, ac yn gallu uno yn y gân fawr dragwyddol."

Wele fel yr ymddiddanai angel Duw, tra y dygai un o'r rhai bach i'r nefoedd, ac yr oedd y bychan yn clywed ei lais fel mewn breuddwyd.

Ac ehedeg wnaethant uwch ben y manau lle yr arferai y plentyn chwareu, ac yna drwy erddi yn llawn o flodau ysplenydd. A gofynnodd yr angel, "Pa rai o'r blodau hyn awn ni i'w plannu yn y nefoedd?"

Ac yr oedd yno un goeden fechan brydfert—coeden rhosynau; ond yr oedd rhyw law greulon wedi ei hysigo, nes y gorweddai ei changhennau, yn llawn o flodau hanner-agored, o'i hamgylch yn y llaid, wedi gwywo i gyd. "Y goeden druan!" meddai y plentyn, "gadewch i ni ei chymeryd gyda ni, er mwyn iddi hi gael blodeueto i fyny lle mae Duw."

A chymerodd yr angel y goeden rhosynau, a rhoddodd gusan i'r bychan am ei feddwl caredig, ac hanner agorodd y plentyn ei lygaid. Yna tynnodd yr angel rai o'r blodau prydfert oedd yn yr ardd, nid anghofiodd chwaith y blodau gwylltion oedd gydag ochrau'r ffyrdd ac hyd y caeau,—y briallu, a bwtshiars y gôg, a llygaid y dydd.

"Onid oes gennym lawer o flodau yn awr?" meddai y plentyn bach. "Oes," atebai'r angel, ond nid esgynnodd efe eto at Dduw.

Yr oedd yn nos, a phob man yn ddistaw a thawel. Yr oeddynt yn awr mewn tref fawr, ac yn ehedeg yn araf drwy un o'i heolydd culaf a mwyaf distadl. Yr oedd yn amlwg fod rhyw deulu wedi bod yn symud eu dodrefn o un o'r tai. Yr oedd pob math o ysgubion wedi eu pentyrru o amgylch y drws,—hen degannau wedi torri, gwellt a hen garpiau, coryn hen het neu ddwy, a phob math o bethau nad oeddynt yn dda i ddim. Ac ymysg darnau o ryw lestr toredig yr oedd telpyn o bridd, yn cael ei ddal wrth ei gilydd gan wreiddyn sych, gwreiddyn o friallu gwynion, ond wedi gwywo yn awr, ac wedi ei dafu, gan rywun nad oedd yn gweled gwerth ynddo, gyda'r ysgubion eraill i'r heol.

A chymerodd yr angel y gwreiddyn sych o ganol y pentwr ysgubion, gan ddweyd wrth y plentyn,—“Ni a gymerwn hwn gyda ni i'r nefoedd, dywedaf wrthyf paham fel yr ehedwn i fyny.”

A lledodd yr angel ei edyn disglær unwaith eto, ac fel yr esgynnai oddiwrth y ddaear, adroddodd wrth y plentyn bach yr hanes yma.

“Yn yr heol gul lle y buom yn awr, mewn seler dywyll, yr oedd bachgen bychan cloff yn byw. Yr oedd yn dlawd ac yn glaf. Gorweddaï ar ei wely o hyd bron. Pan fyddai yn teimlo ychydig yn well gallai fyned unwaith neu ddwy ar draws ei ystafell gyda chynorthwy dwy faglen, a dyna'r cyfan. Am ychydig o ddyddiau yn yr haf, tywynnai'r haul i fewn i'r seler am ryw hanner awr, a byddai y bachgen claf yn eistedd lle y syrthiai'r pelydrau arno, a daliai ei law fechan wan i fyny rhwng ei lygaid a'r goleu, nes byddai yn gweled y gwaed coch rhwng ei fysedd main, yna byddai yn dweyd, —‘Mae ef wedi bod allan heddyw.’

“Ni wyddai efe ddim am ysplander y goedwig yn y gwanwyn a'r haf, ond yr hyn allai gasglu oddiwrth gangen o goeden fedw ieuanc a'i dail mân prydferth, ddaeth un o blant y gymydogaeith iddo, a'r hon osododd efe uwchben ei wely. A breuddwydiodd ei fod allan yn y goedwig, lle y tywynnai'r haul yn felyn, ac y canai'r fronfraith drwy'r dydd.

“Un diwrnod yn y gwanwyn, daeth yr un plentyn a dyrnaid o fiodau gwylltion iddo, ac ynglŷn âg un friallen yr oedd gwreiddyn. A phlannwyd y gwreiddyn bach mewn llestr, a gosodwyd ef wrth ymyl gwely y bachgen claf, ger y ffenestr. A thyfodd y planhigyn distadl, a daeth blodau arno bob blwyddyn; ac yr oedd i'r bachgen cloff megis gardd ysplenydd. Ei un trysor bach ynghanol gofidiau ei tyd tralodus oedd. Byddai yn ei ddytrhau a'i feithrin, ac yn gofalu am iddo gael pob pelydryn melyn, hyd y diweddat, ddeuai drwy y ffenestr gul. Yr oedd yn blethedig â'i holl feddyliai, canys iddo ef yr oedd yn blodeuo. Er ei fwyn ef yr oedd yn ymdywallt ei berarogl tyner, ac yn llawenychu ei lygaid â'i brydferthwch, ac at y planhigyn bach y trodd efe ei wyneb pan yn marw yn y seler.

“Mae y bachgen claf gyda Duw ers blwyddyn, ac yr oedd y planhigyn ger y ffenestr gul o hyd, wedi ei anghofio gan bawb, wedi sychu a chrino, am nad oedd llaw dyner i ofalu am dano. A thaf-lwyd ef allan i'r heol gyda phethau diwerth eraill pan oedd y dodrefn yn cael eu cludo i ffwrdd. A dyma blanhigyn y bachgen cloff, y gwreiddyn sych sydd gyda'r blodau prydferth eraill sydd gennym, oherwydd mae hwn wedi rhoddi mwy o lawenydd na'r blodeuyn mwyaf ysplenydd yng ngardd brenhines.”

“Ond pa todd wyt ti yn gwybod hyn?” gofynnai y plentyn bach oedd ym mreichiau'r angel.

“Yr wyf yn gwybod am mai fi oedd y bachgen claf hwnnw fyddai yn ymlusgo gyda dwy faglen. Yr wyf yn adnabod ty mlodeuyn yn dda.”

Agorodd y bychan ei lygaid yn llydan, a syllodd yng ngwyneb-disglaer yr angel. Ac ar yr un munud yr oeddynt yn nefoedd Duw, lle mae gogoniant a dedwyddwch tragwyddol yn aros.

A Duw a gymerodd y plentyn bach i'w fynwes, ac yna y cafodd efe edyn fel yr angel arall, ac a ehedodd law yn llaw âg ef. A'r blodau hefyd a bwysodd efe ar ei galon, ond i'r planhigyn druan oedd wedi gwywo, y rhoddodd Duw gusan, ac yna y daeth yn brydferthach nag y bu erioed, ac a gafodd lais, ac a unodd yng nghân yr holl angylion oedd o amgylch y Goruchaf, rhai yn agos, eraill ym mhellach, yn ymestyn yn gylch ar ol cylch i'r pellder yn ddiidiwedd, ond yr oll yn ddedwydd. A chanu a wnaent, fach a mawr, y plentyn bychan a'r planhigyn distadl o'r caeau, yr hwn un diwrnod orweddai yn sych a chrin ynghanol y pentwr ysgubion ar yr heol, wedi eu taflu allan yn ddiwerth.

I'W DDARLLEN YN DDIFYFYR.

GWELAIS ddyn yn nofio mewn padell ffrio y mae cig ci sydd yn rhedeg ar ol cacwn y mae colyn neidr yn lladd y cyntaf i'r felin gaiff falu blawd sydd ddefnyddiol i wneuthur llongau y mae coed yng Nghaernarfon yr oedd ffair y gauaf sydd wedi dod i ddal gwningod y mae rhwyd John sydd yn llongwr ar fwrdd y tŷ yr oedd gwaith glo sydd yn llosgi pan ar y tân oer yw y gwynt yng Ngharmel y mae siop E. Jones sydd yn weinidog yn Spaen y mae llawer o ddynion wedi colli eu bywyd yn y rhyfel rhwng Carmel a Phisgah y mae ysgol i ddysgu ffyliaid sydd yn bod yn y chwarel y mae gweithwyr mewn undeb y mae nerth i bricio tatws yr aeth Elen Jones sydd yn ganwr da ar y dôn Bangor sydd ddinas Llundain sydd le mawr yng Nghymru yr ydym ni yn byw ac felly arferwn ein iaith Lladin fydd gan rai yn y *Band of Hope* y mae dynion da am gadw row y cawsant eu cosbi gan Bety Jones y mae tafod llithrig fel sebon yw y rhew yn yr haf y cawn gyfarfod Nadolig sydd wyl yn cael ei gadw gan feddwyn y mae clustiau i wrando ond ni wrandawant.

Carmel, Groeslon.

GRIFFITH J. ROBERTS.




PLANT CYMRU. CVI. DOSBARTH YN YSGOL SUL GOSEN.

YSGOL SUL YM MŴAEN CLYDACH.

WELE yma ddarlun o ddosbarth o ferched ieuainc Gosen, Blaen Clydach. Yr athraw yw John Williams. Ganwyd ef ym Mhenrhyn Deudraeth, sir Feirionnydd, yn y flwyddyn 1856. Y mae wedi bod yn athraw da a ffyddlaw'n yn Gosen oddiar yr adeg y sefydlwyd yr achos yn y lle; a rhagor o'i gyffelyb sydd eisiau yn ein Ysgolion Sabbathol.

Dyddorol iawn fydd gweled ambell ddarlun o ddosbarthiadau Ysgolion Sul Cymru. Mae dyled Cymru i'r Ysgol Sul yn fwy na'i dyled i'r un sefydliad arall. A hir y parhau yr Ysgol hon i flodeuo, —ysgol rad, ysgol werinol, ysgol drwyadl Gymreig. Dyma ysgol sy'n dysgu athrawon yn ogystal a dysgu disgyblion, yr athraw a'r disgybl yn dysgu eu gilydd. Dyma ysgol nad yw ei dyddiau dros-odd; ar hyd ein hoes gallwn fynd iddi. A pha Gymro nad anwyl ganddo y boreuau Sabbath hyfryd y bu'n mynd yn ysgafn galon ac awchus ei feddwl i'r ysgol hon?



MICHAEL D. JONES.

MICHAEL D. JONES.

MAE'N rhyfedd meddwl fod Michael D. Jones,—hen arwr brwydrau dros ei egwyddorion a'i wlad,—yn huno yn ei ddistaw fedd ym mynwent Rhos y Fedwen. Bu iddo le mawr yn hanes Cymru ein dyddiau ni; ac nid anghofir ei enw am oesau lawer. Syniad prydferth o'i eiddo oedd cael Cymru newydd,—gwladfa o Gymry glân gloew,—yr ochr arall i'r Werydd. Gweithiodd a gweddiodd a phryderodd lawer dros y Wladfa. A hyd yn oed pe methai y Wladfa honno fel Gwladfa Gymreig,—a'm gobaith ydyw mai pell o hynny fydd ei thynged,—erys y cynllun yn un o'r rhai tlysaf y meddyliodd cenedlgarwyr am dano ac yr aberthasant er ei fwyn.

Bydd hanes y gwladgarwr yn gyflawn yn *Cymru*; ni ddywedaf yma ond ei fod wedi ei eni yn y Weirglodd Wen, Llanuwchllyn, a'i fod wedi ei gladdu ym mynwent capel yr Anibynwyr, ymhell o swm y byd, yn ymyl cartref ei febyd.

GWEDDI PLENTYN.

NOS lun diweddf methwn a chysgu. Syllwn ar “y wenloer yn oer ei nych,” tra y tywynnai a'i phelydrau lled-oleu ar fy ngwyneb, ac y dywedai fel y canlyn i'm clustiau,—Nid oes dim a garaf fel plant bach. Mor llawen yw'r pethau tlyision. Nis gallat beidio meddwl felly am danynt, tra yn edrych rhwng y llenni arnynt, pan ânt gyda'r nos i gysgu. Mor ddifyr eu gwyllo tra y tynnant am danynt! Dacw'r ysgwydd fach yn grwn a noeth, yn gwthio ei hun allan. Yna'r fraich yn dod i'r golwg. Gwelaf esgidiau bychain yn cael eu tynnu, a choes fechan yn dlws a gwyn yn dangos ei hun gyda throed bach i'w gusanu. Heno edrychais drwy ffenestr lle na thynnid y llenni yn dyn, ac mewn ystafell gwelais nifer o frodyr a chwiorydd bychain. Canfyddais eneth fach, dim ond pedair oed, a ddywed ei phader gyda'r goreu ohonynt. Eistedd y fam bob nos ar y gwely, gan wrandaw arni yn gweddio mor bur. Yna rhydd gusan ac erys ychydig gyda hi. Cyn pen hir daw Meistr Cwsc i gau ei llygaid, a derfydd am yspaid âg amser. Heno chwareuai y ddau blentyn hynaf yn nwyfus. Neidiai un ohonynt yn ei wisg wenllaes o fan i fan, o'r llawr i'r gwely, ac o'r gwely i'r llawr drachefn. Gosodai y llall ddillad y gweddill yn bentwr, a chan sefyll arnynt dywedai ei fod yn debyg i rywun mawr, a gofynnai i'w frodyr a'i chwiorydd ddyfalu pwy ydoedd. Rhóddai y trydydd a'r pedwerydd eu teganau i gadw.

Elai y fam at wely y fechan, a dywedai wrth y oll am fod yn ddis-taw i hon gael dweyd ei phader. Penliniai yr eneth fach bedair oed, a chan blethu ei dwylaw, adroddai ei gweddi yn uchel.

“Beth yw hyn?” medd y fam, gan neshau at y plentyn. “Pan ddywedaist, dyro i ni heddyw ein bara beunyddiol, ychwanegaist ti ddim rhywbeth arall? Methais dy ddeall yn iawn.”

Edrychai y fechan ym myw llygad ei mam, heb ddweyd yr un gair.

“Beth ddywedaist?” gofynnai y fam eilwaith, “ar ol ‘dyro i ni heddyw ein bara beunyddiol?’”

“Peidiwch a digio, mam bach,” meddai hithau, “gofynnais i Iesu Grist roi *llawer o feny*n ar y bara.”

Meddyliais fy mod innau, wrth geisio dysgu, yn rhoddi gormod o fara sych, a phenderfynais wrth fyned i gysgu, y rhoddwn o hyn allan *llawer o feny*n ar y bara.



AFON WY, GER ABEREDW.

SIROEDD CYMRU.

III. MAESYFED.

MAESYFED yw y leiaf ond un o siroedd Cymru, a'r leiaf oll o ran poblogaeth. Cynhwysa 425 o fill-diroedd ysgwar; nid yw ei phoblogaeth ond 21,791.

Gorwedd ar lethrau dwyreiniol Plinlimmon y mae Maesyfed, gan edrych ar wastadeddau Lloegr. Y mae ynddi lawer o rosydd meithion unig; ohonynt cyfyd aml fynydd, rhai ohonynt dros ddwy fil o droedfeddi; ac yma ac acw y mae dyffrynnoedd, enwog am eu tlysni gwyllt a mynyddig.

Rhed rhai o'i hafonydd i'r dwyrain, i wastadedd Lloegr ar eu hunion, megis y Llugw a'r Arrow. Ond yr Wy yw afon sir Faesyfed; dyffryn yr



OLION ABATY CWM HIR.

(Lle y tybia rhai y gorwedd Llywelyn.)

afon honno a'i changhennau yw y sir. Tardd yr Wy ym Mhlinlimon, a rhed i gwr gogledd-orllewin y sir, ac yna tua'r de drwyddi neu gyda'i therfyn. I'r Wy, ar yr ochr orllewinol, rhed yr Elan a'r Glaerwen, wedi ymuno cyn cyrraedd yr Wy ar hyd dyffryn swynol. Ar yr ochr ddwyreiniol, sef y rhan fwyaf o'r sir, chwyddir yr Wy gan afon Marteg, yr Ithon, a'r Edw.

Mynydd-dir eang yw sir Faesyfed. Os ychydig yw ei phobl, yr oedd ei defaid y llynedd yn 277,609; ei gwartheg yn 32,024; a'i moch yn 5,122. Ychydig ohoni sydd wedi ei hamaethu. O'i 272,128 acer, dyma hanes rhai,—

Dan wenith,—3,444.
 Dan haidd,—3,407.
 Dan geirch,—12,161.
 Dan bytatws,—885.
 Dan wair,—31,761.

Ei phrif drefydd yw Llanandras (*Presteign*), gyda 1,360 o bobl; Tref y Clawdd (*Knighton*), ar Glawdd Offa, 1,650; Rhaiadr Gwy; Llandrindod, 784.

Gorchfygwyd Elfael a Maelenydd gan y Normaniaid yr un pryd a Brycheiniog, a chodwyd cestyll Maesyfed a Chastell Paen. Ynddi y mae olion abaty Cwm Hir, lle y tybia llawer fod Llywelyn wedi ei gladdu. Ynddi hefyd y mae Bryn Glas, lle'r enillodd Owen Glyn Dŵr un o'i fuddugoliaethau pwysicaf.

Sir fwyaf Seisnigaidd Cymru yw Maesyted; nid oes o'i thrigolion



AFON WYSG.

(Aberhonddu yn y pellder.)

yn medru siarad Cymraeg ond 999. Dylanwad Henffordd, a'r terfyn mynyddig rhyngddi â'r siroedd Cymreig eraill, sy'n rhoi cyfrif am hyn. Ond Cymry,—ychydig yn hen ffasiwn,—yw pobl sir Faesyfed; rhai caredig, croesawgar, syml, a thipyn bach yn ofer-goelus.

IV. BRYCHEINIOG.

O ran maint, y mae sir Frycheiniog y drydedd o'n siroedd; o ran poblogaeth y mae'n ddegfed. Ar ei 719 milldir ysgwar y mae 57,031 o bobl; 39,014 o wartheg; 485,094 o ddefaid, a 8,864 o foch. Mae ynddi fwy o ddefaid nag yn yr un sir yng Nghymru.

Rhed dau drum o fynyddoedd drwyddi,—Mynydd Epynt a Bannau Brycheiniog; y mae'r pigyn uchaf yn 2,862 troedfedd o uchder. Rhwng Plinlimmon a Mynydd Epynt yn y gogledd rhed yr Irfon i'r Wy; rhwng Epynt a'r Bannau cawn ddyffrynnoedd uchaf yr Wysg. Mynyddig, gyda dyffrynnoedd ffrwythlawn a hyfryd, yw Brycheiniog. Yn ei mynyddoedd hi y mae noddfa olaf y barcutan, yn ei dyffrynnoedd ceir afalau goreu Cymru. Mae ynddi un llyn enwog,—llyn Safaddan.

Ei phrif leoedd yw Aberhonddu, tref dlos iawn, gyda 5,794 o bobl; Talgarth, lle claddwyd Howel Harris, gyda Threteca yn ymyl; Llanfairmuallt (*Builth*), 1,383; y Gelli (*Hay*), 1,830; Crug-hywel, a Thre Castell.



LLYN SAFADDAN.

Gorchfygwyd Brycheiniog gan Bernard o Neutmarché yn nechreu'r unfed ganrif ar ddeg. Cododd gastell yn Nhalgarth ac yn Aberhonddu; a gorchfygodd Rys ab Tewdwr, brenin y Deheubarth, mewn brwydr yn 1091. Ond daeth mab Rhys,—Gruffydd ab Rhys,—i reoli'r Deheubarth wedyn.

Gorchfygwyd Maesyfed a Brycheiniog ar yr un amser, a chan yr un gŵr, sef y Bernard hwnnw. Cododd gwerin y ddwy fel eu gilydd o blaid Owen Glyn Dŵr. Gwnawd hwy'n siroedd ar yr un adeg, sef yn 1536. Hwy yw'r unig ddwy sir yng Nghymru nad ydynt yn taro ar y môr.

Mae Brycheiniog, er ei bod hithau yn un o siroedd y gororau, yn fwy Cymreig na Maesyfed. Sieryd 18,927 Gymraeg ynddi.

Y DDAU HOGYN RHEINY.

GAN WINNIE PARRY.

III. PAHAM DYFODIAD Y DDAU.

I DDYCHWELYD at fy arwyr, rhyw fore Llun tua diwedd mis Gorffennaf y clywais gyntaf am eu bodolaeth. Dechreuai gwyliau'r haf y diwrnod hwnnw; ond ychydig oeddwn yn ei feddwl mor fychan fyddai y seibiant gawn yn ystod y pum wythnos oedd o fy mlaen.

Nid oedd gennyf berthynasau na chyfeillion agos, yn wir, y ddwy Miss Jones oedd yr unig rai a'm galwent wrth fy enw bedydd. Dechreusant wneyd hyn pan oeddwn yn sâl rhyw dro, a phan fyddwn yn crio bron ar hyd y dydd heb reswm o gwbl dros wneyd hynny. Cydsyniwn fy hun â'r hyn oedd y meddyg wedi ei fwmian uwch fy mhen,—“Nervous system out of order.” Ond yr oedd fy nwy letywraig yn meddwl mai teimlo unigrwydd fy sefyllfa yr oeddwn pan fyddwn yn wylo mor ddibaid. A rhan o'u caredigrwydd tuag ataf yr adeg honno oedd fy ngalw yn Elin; ac Elin ydwyf iddynt hwy byth er hynny. Ac nid drwg gennyf chwaith. Peth anymunol ydyw meddwl nad oes neb a'ch geilw yn ddim ond meist'r, meistres, neu Miss hyn neu'r llall.

Gan nad oedd gennyf gartref i fyned i dreulio fy ngwyliau, arferwn aros ym Mhen y Bryn gyda'r ddwy Miss Jones; ac mae gennyf adgof hyfryd am y gwyliau dreuliais felly.

Nid oeddwn, fodd bynnag, yn dilyn esiampl trigolion y pentref wrth wneyd hyn. Elai y rhan fwyaf ohonynt i ffynhonnau Llanonnen am bythefnos, dair wythnos, neu fis,—dibynnai yr amser ar sefyllfa fydol pob un. Math o Landrindod i Nantgwyn ydyw Llanonnen; ac

mae'r pererinion gyrchant yno mor amrywiol eu gwisg a'u gwedd a phererinion Chaucer gynt. Ond nid oedd gan y lle swyn o gwbl i mi.

Yr oeddwn wedi cael rhestr, wrth ddod o'r capel y noswaith cynt, o'r rhai oedd eisoes wedi ymadael am ddifyrrwch y ffynhonnau, ac yn eu plith yr oeddwn yn deall fod teulu'r Felin a Mr. Hughes, y gweinidog. Mis yn ddiweddarach, tel rheol, yr arferai ef gymeryd ei wyliau; ond tebygol yw mai er mwyn cael cwmni Miss Price y newidiodd ei amser. Hynny hefyd mae'n debygol barodd iddo ddewis Llanonnen fel lle i'w dreulio, gan i mi ei glywed yn dweyd unwaith na fuasai ef byth yn dymuno myned i Lanonnen i dreulio ei wyliau.

Nid oedd y ffaith fy mod yn cychwyn ar bum wythnos o ryddid yn peri rhyw lawenydd eithafol i mi. Yn wir nid oedd yn peri i mi lawenydd o gwbl. Yn hytrach yr oedd rhyw deimlad arnaf—nis gallaf yn hawdd ei ddesgrifio, ond feallai pe dilynwn esiamp! Miss Jones, a dweyd fy mod "yn teimlo rhyw ddigon rhyw bethma," y gwnawn fy hun yn ddealladwy. Pa reswm i'w roddi dros hyn nis gwn. Nid fy nheimlad arferol ydoedd ar ddechreu gwyliau. Feallai mai rhyw *presentiment*, fel y dywed y Sais, o'r hyn oeddwn i fyned drwyddo yng nghwmni'r "Ddau Hogyn Rheiny" oedd yn pwysu arnaf. Fodd bynnag, y peth cyntaf ddaeth i fy meddwl y bore hwnnw oedd y buasai'n dda gennyf pe buasai y gwyliau trosodd a'r ysgol wedi agor.

Pan oeddwn yn gwisgo am danaf curodd y postman yn y drws. Nid digwyddiad cyffredin oedd hyn, a chododd cywreinrwydd ynnof am ennyd parthed i bwy o aelodau'r tŷ yr oedd ei ymweliad yn debyg o fod yn ddyddordeb. Hannah 'r forwyn fyddai yn derbyn y nifer fwyaf o lythyrau ym Mhen y Bryn. Oddiw'rth "fy mrawd y pregethwr" y deuai pob un, meddai hi; a meddyliais mai un o'r cyfryw lythyrau oedd gan y postman y bore hwnnw. Ond nid felly yr oedd wedi'r cwbl. Pan ddaethum i lawr i'r gegin yr oedd Miss Jones yn sefyll wrth y ffenestr a llythyr heb ei agor yn ei llaw, ac yn craffu ar y llaw ysgrifen fel pe yn methu ei wneyd allan. Pan glywodd fi yn dod i mewn trodd ataf gan ddweyd,—“I chi ta i mi mae hwn, Elin? Ddois i a mo fy spectolts i lawr, a fedra i ddim gweld yn iawn enw pwy sy arno fo.”

Cymerais y llythyr o'i llaw. “I chi,” meddwn. “Fedra i ddim gneyd y postmark allan.”

“Wyrach mai orwth Mary ngnithar mae o. Agorwch o, Elin.”

Y cwbl wyddwn am Mary oedd ei bod yn ferch i hanner brawd tad y ddwy Miss Jones, ei bod wedi priodi cadben “llong fawr,” a'i bod yn byw mewn rhyw bentref bychan ym mherfeddion Lley. Nid oeddwn erioed wedi ei gweled ym Mhen y Bryn. Byddai y

ddwy Miss Jones yn son am dani ambell dro, ac yr oeddwn yn deall yr arferai dalu ymweliad â hwynt ar brydiau pan oedd yn ferch ieuanc. Agorais y llythyr a dechreuais ei ddarllen yn uchel. Erbyn hyn yr oedd Cati wedi dod i mewn, a Miss Jones wedi rhoddi ar ddeall iddi mai llythyr oddiwrthi eu cyfnither oedd yr un yn fy llaw. Rhoddaf ei gynhwysiad fel y darlennais ef i'r ddwy hen ferch.

FY ANWYL MARGARED,

Mae yn sicr y byddwch wedi synnu cael llythyr oddiwrthyf. Yr wyf mewn helbul garw, ac wrth gofio eich caredigrwydd ataf yn yr hen amser gynt, yr wyf yn meiddio gofyn cymwynas gennyf. Yr wyf newydd dderbyn teligram o Gaerdydd yn dweyd fod William wedi cyfarfod â damwain. Yr oedd ei long ar hwylio oddiyno, ac mae yn rhaid i mi fyned ato cynta gallaf. Gwiw i mi feddwl myned a'r plant hefo fi. Mae'r eneth fach o forwyn sydd gennyf yn rhy ieuanc a dibrofiad i mi eu hymddiried iddi, ac nid oes gennyf ddim i'w wneyd ond gofyn i chwi a Cati gymeryd eu gofal tra byddaf i ffwrdd. Yr wyf yn gobeithio na fydd hynny yn hir. Yr wyf mewn pryder mawr o achos William, ond yn ceisio gobeithio ei bod yn well arno nag yr wyf yn ofni. Mae gŵr ieuanc sydd yn lletya yn ein hymyl yn myned drwy Nantgwyn ar ei ffordd adref i fwrw ei wyliau. Os caf deligram oddiwrthyf cyn amser cychwyn am y trên, mi danfonaf hwynt yn ei ofal ef, a byddaf finnau yn gallu cychwyn yn y cyfeiriad arall hefo'r trên rhyw chwarter awr ar eu holau. Nid wyf yn meddwl y cewch lawer o drafferth gyda hwynt. Mae ganddynt eu beiau, wrth gwrs, ond nid wyf yn meddwl eu bod yn waeth na rhyw blant eraill. Feallai y gallwch anfon rhywun i'w cyfarfod i'r stesion. Gwelwch fy mod bron yn cymyd yn ganiataol y bydd i chwi eu derbyn. Gyda chofion caredig atoch eich dwy. Ydwyf,

Eich cyfnither,

MARY THOMAS.

"Y gyduras," "y peth tlawd," "y petha bach diniwad," meddai Miss Jones a'i chwaer bob yn ail, a'r nodyn tosturiol yn eu llais yn myned yn ddyfnach o hyd.

"Faint ydi hi o'r gloch? Ydi'r offis wedi agor, Elin?" gofynnodd Miss Jones.

"Chwarter i wyth ydi hi," meddwn. "Tydyn nhw ddim yn agor yn y *telegraph office* tan wyth, mi bicia i i lawr os licwch chi rwan."

"Cymwch panad cyn mynd." A thywalltodd Miss Jones de i un o'r cwpanau oedd ar y bwrdd, ac a'i gosododd wrth fy ymyl gan ychwanegu,— "Cewch ych brechwast pan ddowch chi yn ych hol."

Cyrhaeddais y *Post Office* fel yr oedd y cleric yn myned i fewn, a danfonais y geiriau o groesawiad i'r "Ddau" yn enw Miss Jones.

Ar fy ffordd yn ol i Ben y Bryn, cyfarfyddais Mrs. Williams, Tŷ Canol; ac fel arfer cymerodd *passage of arms* le rhyngom,—maddeuwch y Saesonaeg. Mae Mrs. Williams yn hoff anghyffredin o wybod hanes pawb a phopeth, a mae gennyf wrthwynebiad cryf iddi hi gael

gwybod dim o fy hanes i. Ac felly byddem yn dod i wrthdarawiaſt ar bob achlysur. Yr oeddwn yn gwybod beth ddywedai wrthyf y bore hwnnw cyn iddi agor ei genau.

"Dach chi allan yn fora iawn, Miss Evans. Mi oeddwn i'n ych gwelad chi'n dwad o shiop drygist (mae masnachdy o'r fath ynglŷn â'r Post Office yma), toes neb yn sal acw gobeithio?"

"Nag oes, thanciw," oedd fy ateb.

"O, meddwl 'roeddwn i fod chi wedi bod i nol rhyw ffigis." Yr oedd fy nwylaw yn weigion. Gwnaeth gynyg arall. "Tyda chi rioed yn gorfod dwad i nol y llythyrau o Ben y Bryn?"

"Na, mae'r postmam yn mynd yn bellach nag acw o spel."

Aeth i gyfeiriad gwahanol. "Am aros yn Nantgwyn fel arfar yr ydych chi yr holideis yma eto, decyn i? Mi oeddwn i'n clywad fod teulu'r Felin wedi mynd i Lanonnen, a bod Mr. Hughes hefyd wedi mynd yno. Mae rhai yn deyd 'i bod nhw'n mynd i briodi tra byddan nhw i ffwrdd rwan. I Lanonnen yr aethon nhw ddy Sadwrn beth bynnag."

"Wel, gobeithio y gna nhw fwynhau i hunain yno. Mae'r tywydd fel dasa fo am fod yn braf iddyn nhw," meddwn, gan feddwl dianc. Ond nid oedd Mrs. Williams am adael i mi fyned heb wneyd un cynnyg eto i gael gwybod fy neges yn y pentref y bore hwnnw.

"Fasa rhywun fawr o feddwl ych gwelad chi allan mor fora, diwrnod cynta'r holideis a phopeth. Fasa rhywun yn meddwl y basa chi'n licio cysgu dipyn yn hwy."

Clywn sw'n troed y tu ol i ni, a throais fy mhen. Gwelwn yr hen Richard Morris y Saer bron yn ein hymyl, ar ei ffordd o'r *yard* i not ei frecwast. Yr ydym ni ein dau yn dipyn o gyfeillion. Gwelais fy mantais, a meddwn wrth Mrs. Williams,—

"O mynd i shiop drygist i——. Sut dach chi heddyw, Richard Morris? Ydw i'n dwad rwan. Bore da Mrs. Williams." Ac es yn fy mlaen yng nghwmni'r hen wr yn fuddugoliaethus.

G W E D D I D D I R G E L .

Dwyfol ydyw, y mae llwyddiant
Sicr wrth ei harfer hi ;
Yn ei nherth y cariodd Iesu
'R groes i fynydd Calfari ;
Yn fy nagrau ymneillduaf
Finnau dan ei haden glyd,
Yna trechaf demtasiynau,
A gwylltflod anial fyd.

Gweddi ddirgel, dyma allwedd
All ddadgloi y nefoedd wen ;
Hi all dorri blychau enaint
Addewidion ar fy mhen ;
Yn ei llaw 'r wy'n anorchfygol,
Geilw engyl o fy mhlaid,
A gall dynnu Duw ei hunan
I fy nghadw os bydd raid.



V. YSTORM YN Y DIFFAETHWCH.

COLBORNE,—*With Hicks Pasha in the Soudan.*

WRTH i'r teithydd adael dyffryn cul ffrwythlawn y Neil o'i ol, a throi ei wyneb tua'r gorllewin, nid oes o'i flaen ond diffaethwch, yn ymestyn ymlaen i'r pellder am filoedd o filldroedd.

Yn Obac cawsom ugain o deuluoedd y Bisharin, a hwy sy'n byw agosaf i'r anialwch o dywod symudol godir gan y gwynt yn fryniau anwadal o ryw gan troedfedd o uchder. Maent ar lun caerau hirion. Dringai ein camelod drostynt, a gwelem y tu hwnt i bob un y diffaethwch diderfyn, heb goeden ac heb ddwfr. Weithiau gwelem, megis mewn drych, y ddrychiolaeth adnabyddus,—llynnoedd dwfr a choed cysgodol, popeth deniadol i deithiwr ar syrthio gan syched a lludded. Awgrymiadol yw yr enw Arabaidd arno,—*Bahr es Sheytan* ("môr Satan.")

Suddai ein camelod i'r tywod mân, a da oedd gennym gael eu traed ar anialdir caletach. A diffaethwch mwy trist yr olwg ni wel-som erioed na'r ehangder ymestynnai o amgylch ein pebyll. Nid oedd yno ddwfr, nac un math o dyfiant, nac arlliw bywyd ar ddim. Rhoddid aruthredd i'r olygfa gan y meini duon anferth oedd megis wedi eu gwasgaru hyd y gwastadedd. Edrychent fel pe wedi eu duo gan dân; yn wir edrychai yr holl fro fel gweddill rhyw goelcerth ofnadwy megis lludw byd wedi ei losgi. Y mae yr olwg fel yr olwg ga'r seryddwr ar y lleuad,—byd wedi ei losgi. Mewn un lle cyfyd carreg bigtain o'r ddaear tua'r nef, ac y mae y tywod, wrth ei yrru gan wynt, wedi gwneyd ei gwaelod yn gron, nes y mae yn awr ar lun gerllygen.

Tra yr oeddym yn ein pebyll, cododd ystorm. Gwelem y gwynt yn troelli'r tywod yn golofnau uchel, mor uchel fel na welem lle yr

oedd eu pennau'n diflannu i'r awyr. Yr oeddynt fel cewri'n gormdeithio dros yr anialwch; ac nis gallem beidio meddwl, wrth syllu arnynt mewn braw, am yr ysbrydion hynny y mae'r dychymyg Arabaidd mor hoff o'u creu.

OFERGOELION PLANT.

MAE gan blant ofergoelion eu hunain ar wahan i rai dynion. Mae'n wir nad ydynt mor flodeuog ag y buont; er hynny, ceir lliaws yn awr ag y mae plant yn credu ynddynt. Dyma rai ohonynt. Pan wel nifer o blant geffyl gwyn yn dod i'w cyfarfod ar y ffordd, byddant am y cyntaf yn llunio croes ar y ddaear â'u troed, a'r cyntaf boero yn y man lle croesa'r ddwy linell eu gilydd, gall hwnnw ddisgwyl y caiff rywbeth gwerthfawr ar y ffordd yn ystod y dydd. Cofus gennyf i hyn ddigwydd lawer tro, a'r fath ymdrech oedd i wneyd hyn am y cyntaf, a'r drafterth gymerwyd i rwystro eraill.

Ffyfna yr hen goel honno yn gyfiredin iawn ymysg y plant y dyddiau hyn,—y daw rhyw ofid os gwelir pioden yn croesi'r ffordd. Rhoddir pwys hefyd ar ba ran o'r oen welir gyntaf wedi ei eni, pa un ai ei ben, neu ynte ei gynffon. Os y cyntaf, gellir bod yn sicr, yn ol syniad y plant, y byddant yn lwcus yn y dyfodol; neu, os yr olaf, ni bydd iddynt ond poen a gofid trwy gydol y flwyddyn.

Pan gaffo bachgen neu ferch bedol ar y ffordd, cwyd hi i fyny, taff hi dros ei ben, ac nis edrych i ba le yr aiff. Wrth wneyd hyn, creda y caiff ryw lwc cyn pen yr wythnos.

Mynych y gwelir plant yn ceisio dod o hyd i feillionen a phedair dalen iddi, a phan ddeuir o hyd i'r trysor aiff y perchennog ynghyd â gwneuthur dolen ar y feillionen gyda'i law aswy, ac os llwydda yn ei ymdrech gwna yr un peth gyda'r feillionen ag a wna gyda'r bedol; a chred yn gydybodol mai y cyntaf gyfarfydda, ar ol gwneyd y gorchest hwn, fydd ei anwylyd dyfodol.

Llawer o ddifyrrwch gaiff y plant gyda'r chwareu diniwed hwn, oherwydd digwydd yn dra mynych iddynt gyfarfod âg un na chymerent y byd am ei gymeryd yn wrthrych eu serch tyner.

Ceir lliaws o ofergoelion eraill ymysg y plant; ond gwna hyn ddigon am y tro. Testyn difyrrwch diniwed i blant ydynt yn awr, ond bu ein tadau yn credu ynddynt. Yn awr credwn mewn gwaith, nid mewn lwc.

Penllwyn.

A. J. PIERCE.



CVII. CANGEN Y TABERNACL, BLAENAU FFESTINIOG.

URDD Y DELYN.**Y RHEOLAU.**

1. Dysgu starad ac ysgrifennu Cymraeg; darllen rhan o'r Beibl Cymraeg, neu ryw lyfr Cymraeg arall, bob dydd, ac ysgrifennu Cymraeg o'i gyfansoddiad ei hun.
2. Astudio hanes Cymru, a gwneyd ei oreu i godi ei wlad, fel y byddo Cymru fydd yn well na'r hen Gymru.
3. Dysgu canu'r delyn, os bydd hynny yn y cyrraedd; a dysgu slawon Cymreig.
4. Byw, hyd y gall, yn ol dysgeidiaeth yr hen Gymry gynt, mor bell ag y mae'r ddyseidiaeth honno'n un a dysgeidiaeth Crist. Y mae'r ddyseidiaeth honno'n gofyn purdeb, cariad at addysg, caredigrwydd at ddyn, addfwynder at greaduriaid direswm, iaith ddihalog.

ENWAU NEWYDDION.

833. William Jones, 18, Gibson Street, Lerpwl.

CANGEN LLWYDCOED, MORGANNWG.

834—837.

William Walters, Thomas P. Griffiths, Maria Walters, Elizabeth Jones.

CANGEN Y TABERNAACL, BLAENAU FFESTINIOG.

838—850.

John Jones Roberts, Cathrine Jane Jones, Gwylfa; Elizabeth A. Owen, Rhodfa Casson; P. Thomas Williams, Bron Ddwryd; John Idwal Jones, Hen Lythyrdy; Maria Jones, Tan y Manod; Mary Ann Jones, Bron Dderwen; Evan Henry Parry, Pen y Garth; Kate Davies, Pen y Groes; Mary C. Hughes, Tŷ Moelwyn; John Lloyd Edwards, Gelli Isaf; Gwladys Gwen Jones, Brynŷyr Haf; Eleri Llion Morus, Bron y Graig.

Y mae y gangen hon yn dal i ddysgu Cymraeg, ac i ganu "Diliau'r Delyn." Erbyn hyn, y mae tua hanner rhif yr aelodau yn gallu ysgrifennu Cymraeg difrychau. Bu yr holl aelodau yn tynnu eu llun. Daeth cryn lif o haul ar rai ohonom, ond ni rwgnachwn yn ei erbyn ef. Yr oedd yn well gennym gael gwên yr haul arnom na bod heb- ddi, serch i'r llun mewn rhai pethau fod yn dlotach. Hwyrach mai hwn yw y darlun cyntaf a gawsoch o gangen gyfan o blant Urdd y Delyn. Hefyd, mae yr enw cyntaf oll a ymddangosodd yn rhestr yr Urdd yn y darlun. Pan ddelo haf cewch air oddiwrth y gangen o- ben y Wyddfa.

R. R. M.

CANGEN PENNAL.

Pentref bychan, gwledig ydyw Pennal. Gallwn gadw at y rheolau i gyd ac eithrio dysgu canu'r delyn. Ond yr ydym yn bwriadu dysgu iddynt hen fesurau telyn, sef "Pen Rhaw" ac eraill. Mae Richard Owen, un o'r cynorthwyr, yn ganwr gwych gyda'r delyn. Yr ydym wedi cael cyfarfodydd rhagorol hyd yn hyn. Dyma drefn ein cyfarfodydd,—i ddechreu alaw, neu un o hen alawon Cymreig gan Urdd y Delyn; darllen Salm gan un o'r plant, a "Gweddi yr Arglwydd" gan un arall. Bydd yr holl blant ar eu gliniau yr adeg hon. Wedyn eir ymlaen mewn canu alawon Gwlad y Bryniau, ac adrodd. Treulir tua chwarter awr gyda'r "Holi ac Ateb ar Hanes Cymru." Yr ydym wedi cael pedwar dwsin o'r llyfr bach ardderchog hwn. Mae y plant yn gafael o ddirif ynddo. Byddwn yn dechreu y tro nesaf gwneyd yr Urdd yn dri dosbarth,—y bechgyn hynaf gyda eu gilydd, a'r genethod hynaf gyda'u gilydd, a'r plant lleiaf yn un dosbarth, ac athraw ar bob dosbarth. Hefyd byddwn yn rhoi testyn i'r bechgyn a'r genethod mwyaf i ysgrifennu arno. Buasech yn synnu mor wych y maent yn yr adran hon, a meddwl nad yw yr hynaf ohonynt uwchlaw tair ar ddeg.

GWILYM DYFL.

CYNNYDD.

Mae'r Urdd yn dal i gynhyddu o hyd. O Glynnog yn Arfon i Gaerdydd clywaf am furio canghennau newyddion. Bydd rhif yr aelodau'n fil yn fuan iawn.

Dweyd wrth Iesu.

PARCH. THOMAS LEVI.

R. D. HERBERT, G.T.S.C.

DOH Ab.

{ 1. Mae }	:s ₁ m :- :d t ₁ :d :r d :- :s ₁ :- :s ₁ l ₁ :- :t ₁ d :r :m r :- :- - :-
	:s ₁ s ₁ :- :s ₁ s ₁ :- :s ₁ s ₁ :- :- s ₁ :- :s ₁ f ₁ :- :s ₁ s ₁ :- :s ₁ s ₁ :- :- - :-
	cael dweyd gair wrth Ie - su, Ar lwy - br gar - w'r byd,
	:s ₁ d :- :m r :m :f m :- :- m :- :d d :- :r d :t ₁ :d t ₁ :- :- - :-
:s ₁ d ₁ :- :d ₁ s ₁ :- :s ₁ d :- :- d ₁ :- :m ₁ f ₁ :- :f ₁ m ₁ :r :d ₁ s ₁ :- :- - :-	

Ed. t.

{ Yng }	:r s d' :- :s s :l :f m :- :- r :- :s m :f :m r :m :r d :- :- - :-
	:d d :- :d d :- :r d :- :- t ₁ :- :r d :- :d d :l ₁ :t ₁ d :- :- - :-
	ngghan - ol y per - yg - lon, Ar ofn - au mawr i gyd,
	:t ₁ m s :- :s f :- :l s :- :- s :- :s s :l :s f :- :f m :- :- - :-
:d m :- :m ₁ f ₁ :- :f ₁ s ₁ :- :- s ₁ :- :t ₁ d :- :d s ₁ :- :s ₁ d :- :- - :-	

f. Ab.

rall.

{ Ar }	:d s ₁ r :- :de r :- :m r :- :- d :- :l ₁ f :m :r d :- :r m :- :- - :-
	:d s ₁ t ₁ :- :le ₁ t ₁ :- :d t ₁ :- :- l ₁ :- :m ₁ l ₁ :- :se ₁ l ₁ :- :l ₁ l ₁ :- :- se ₁ :- :-
	baich mor drwm yn gwas - gu, Ar en - aid bach mor Grist,
	:d s ₁ f :- :m f :- :s f :- :- m :- :d r :m :m m :- :r d :- :- t ₁ :- :-
:d s ₁ s ₁ :- :s ₁ s ₁ :- :s ₁ s ₁ :- :se ₁ l ₁ :- :l ₁ r :d :t ₁ l ₁ :s ₁ :f ₁ m ₁ :- :- - :-	

a tempo

{ Does }	:m m :r :d d :t ₁ :l ₁ s ₁ :- :- s :- :d d :r :m r :m :fe s :- :- - :-
	:s ₁ f ₁ :- :s ₁ l ₁ :s ₁ :f ₁ m ₁ :- :s ₁ s ₁ :- :d d :- :d d :- :d t ₁ :- :- - :-
	dim rydd gy - sur i - ml Fel dweyd wrth Ie - su Grist;
	:d l ₁ :- :d d :- :d d :- :m d :- :s m :- :l fe :s :l s :- :- - :-
:d ₁ r ₁ :- :m ₁ f ₁ :- :f ₁ d :- :- m ₁ :- :m ₁ l ₁ :- :l ₁ r :- :r s ₁ :- :- - :-	

Araf > a llawn.

{ Does }	:m l :- :r s :- :f m :- :f :m r :- :s m :f :m r :m :r d :- :- - :-
	:de r :- :t ₁ d :- :r d :- :r :d t ₁ :- :r d :- :d t ₁ :- :t ₁ d :- :- - :-
	dim rydd gy - sur i - ml Fel dweyd wrth Ie - su Grist.
	:l l :- :s s :- :l s :- :- s :- :s s :l :s f :s :f m :- :- - :-
:s ₁ f ₁ :- :f m :m ₁ :f ₁ s ₁ :- :- s ₁ :- :t ₁ d :- :d s ₁ :- :s ₁ d ₁ :- :- - :-	

2 Caf ddweyd y gair diweddfaf
Ar fyr wrth Iesu mawr,
Tu yma i'r wahanlen,
Oddiar y dddear lawr;
Ac O !'r cyfarchiad cyntaf,
I'r Iesu'r ochr draw,
Gan edrych yn ei wynneb,
A siglo'! sanctaidd lawr !

3 Wel, 'doed y dydd i 'mado
I'r cartref yn y nef,
O fewn i'r hoff drigiannau
Ddarparwyd ganddo ef ;
A phan gat fyned ato,
A'i weled fel y mae,
Caf ddweyd fy nghalon wrtho,
Ac yno ei fywnhau.



LLECYNNAU TLYSAF CYMRU.

ŷt, Bau Abertawe.

EGWYDDOR ROBERT JONES RHOS LAN.

[Un o athrawon anwyllaf Cymru oedd Robert Jones Rhos Lan. Ganwyd ef yn Llanystumdwy, Ionawr 13, 1745; bu farw Ebrill 18, 1829. Ysgrifennodd lawer o lyfrau hynod dyddorol, megis *Drych yr Amseroedd a Llefyrydd yr Asym*. Gwnaeth gaagliad defnyddiol o emynnau hefyd,—*Grawnsypiau Canan*. Ond fel athraw plant y bendithir ei goffadwriaeth, cafodd serch plant ei oes yn helaeth. Rhoddodd ei athrylith i wasanaeth plant tlodion ac anwybodus ei wlad; ysgrifennodd y "*Drych i'r Anllythyrenog*, neu hylwybr amlwg ac esmwyth i fod yn gyfarwydd yn y Frython-iaith: yn cynnwys hyfforddiadau buddiol a phleserus er cyfarwyddo plant i iawn spelio, darllain, a deall yr ataliadau."]

- A** sydd am Arglwydd, pen llywydd pob llu,
B sydd am Brynnwr, ein Cadwr, Ion cu;
C sy am y Cerubiaid, anwyl-blaid y ne,
Ch sydd am Chwennych, yn llonwych, eu lle;
D sydd am y Duwiol, rai siriol di-sen,
Dd sydd am y Ddinas iawn addas, y nen;
E sydd am Efengyl, twyn gynnil ei gwedd,
F sydd am Farw, a'n bwrw'n y bedd;
Ff sydd am Ffordd gywrain yn arwain i'r Ne,
G sydd am Goron sy'n llon yn y lle;
Ng sydd am f' Ngharu a'm prynnu mewn pryd,
H sydd am Heddwch o dristwch mawr drud;
I sydd am Iachawdwr, ein Dyddiwr bob dydd,
L sydd am Lwyddiant a ffyniant mewn ffydd;
Ll sy am y Llu harddwch, rai llon-wych eu llef,
M sy am y Moliant, anwylfrait y Nef;
N sy am y Nef oleu, pen siwrnai'r holl saint,
O sydd am Oen gwiwfodd, a brynnodd ein braint;
P sydd am Paradwys, lân gymwys ei gwedd,
Ph sydd am Physygrwr, cynhaliwr ein hedd;
R sydd am Ragluniaeth, cadwraeth Duw Dad,
S sydd am Sancteiddrwydd, ein hylwydd lanhad;
T sydd am Trugaredd a'i rhinwedd mawr hael,
Th sydd am ei Thrigfa, nef olau ddi-wael;
U sydd am yr Udgoron yn eigion y nen,
W sydd am Wlad nefol dda siriol ddi-sen,
Y sydd am Ymlanwant â'r mwyniant. Amen.

BOB Y GWR BONHEDDIG.

NID mab Syr William, perchennog glofa y Penrhos, ydoedd Bob, ond un o'r glowyr. Eto gelwid ef yn "Bob y gŵr boneddig" gan bawb yn y pentref, o Jones y ciwrad i lawr i Wil Gam y cariwr. Trigai Bob gyda'i fam weddw yn Nhy'n yr Ardd,—tŷ bychan ar y llaw chwith wrth fyned i eglwys St. Beuno, a chyferbyn a'r Collier's Rest, unig dafarn dy y pentref. Yr oedd ei dad wedi ei gladdu ers oddeutu tair blynedd, gyda'i ddau frawd Huw a William; collasant eu bywydau yn y danchwa a gymerodd le yn y lofa, pan y colodd nifer mawr o'r glowyr eu bywydau. Ac ni chatodd Bob ond diangfa gyfyng. Onibai i Huw ei frawd hynaf ei achub, buasai yntau hefyd ymhlith y meirw. Ond druan o Huw; wedi achub Bob meddyliodd y gallai achub William hefyd. Aeth i chwilio am dano, ond cafodd ef wedi marw, a'i wyneb wedi ei anurddo cymaint nes y torrodd Huw ei galon wrth edrych arno, ac nad oedd ganddo nerth i geisio achub ei hun. A chafwyd y ddau ochr yn ochr wedi hynny yn farw; a'u tad bron yn eu hymyl.

Am rai dyddiau wedi y ddamwain bu Bob yn hongian rhwng bywyd a marwolaeth; a llawer gwaith y dywedodd wedi iddo wella mai er mwyn cysuro ei fam dlawd y deisyfodd am adferiad, ac ni bu mab erioed yn fwy gofalus o'i fam. Druan o Bob, yr oedd yr ergyd yn un drom ac yn anhawdd ei chynnal; yr oedd ei dad a'i frodyr wedi eu claddu cyn iddo ef wybod beth a ddigwyddodd iddynt, ac yr oedd eu beddau wedi dechreu glasu pan y gallodd ef ymweled â'r fynwent am y tro cyntaf. Modd bynnag, cryfhaodd ddigon i fyned i ddechreu gweithio, a chyda chalon drom y trodd ei olwg tua'r lofa am yr ail dro. Yr oedd rhyw adgasedd chwerw wedi gwreiddio yn ei fynwes tuag ati, a phenderfynodd nad arhosai yno yn hir.

Yr oedd Bob yn hoffus gan bawb yn y pentref, achos yr oedd yn fachgen hynod o luniaidd o ran corff, a'i wallt melyn modrwyog yn disgyn hyd ei dalcen llydan, a mynych y dywedai Megan Jones, hen wraig oedd yn cadw siop fechan ar gornel y Stryd Ganol, fod yn resyn gweled ei wyneb wedi ei dduo gan lwch glo, ac mai gŵr bynheddig a ddylasai fod. Ac telly y daeth Bob i feddiannu yr enw "Bob y gŵr bonheddig."

Cafodd le gyda Doctor Morgan, ac yr oedd i ddechreu ar ei waith yr wythnos ganlynol. Ar y cyntaf meddyliodd Bob am roddi'r goreu i'r lofa ar unwaith, ac aros gartref hyd nes y cai fyned i'w le newydd. Ond wedi ystyried y peth gwelodd nad oedd ei foddion yn caniatáu iddo i fod heb weithio am bedwar diwrnod, ac yntau yn iach. Ac i'r lofa yr aeth gyda theimladau cymysgedig o lawenydd ac ofn. Aeth

popeth ymlaen yn iawn y diwrnod cyntaf, gweithiai yn egniol, a synnai ei gydweithwyr ei weled yn llonnach nag arferol.

O'r diwedd gwawriodd y diwrnod olaf iddo i weithio yn y pwll, a phan oedd yn bwyta ei foreutwyd awgrymodd i'w fam mai gwell fuasai iddo aros gartref y diwrnod hwnnw; ac yn wir yr oedd rhyw ofn wedi cydio ynddo, a methai yn lân a bod yn esmwyth. Yn y man sylwodd ei fam arno, ac atebodd yn chwareus mai gwell fuasai iddo fyned rhag ofn i'r pentrefwyr newid ei enw o "Bob y gŵr bonheddig" i "Bob y llwfryn."

Wrth glywed hynny ysgydodd Bob ei ysgwyddau yn anesmwyth, ond ni ddywedodd air; a gataelodd yn ei focs bwyd, ac wedi dweyd "Bore da" wrth ei fam cerddodd ymaith dan chwibanu tua'r lofa. Ac yn fuan yr oedd wedi myned ymaith o'r golwg. Erbyn hyn teimlai ei fam yn anesmwyth, ac yn ddig wrthi ei hunan am adael iddo fyned.

Dechreuodd Bob ar ei waith fel arfer gyda'i bartner Huw y Glyn; yr oedd y ddau yn gyfeillion mawr ac oddeutu yr un oed. Aeth y bore heibio fel rhyw fore arall, ac ar ol bwyta ei giniaw bu agos i Bob a myned gartref.

Yr oedd y glowyr yn barod i fyned i lawr, ac wrth weled Bob yn petruso, chwarddodd un ohonynt am ei ben. Yr oedd hynny yn ormod i Bob ei ddal, neidiodd atynt, ac yn fuan yr oedd yn chwyrrn-ellu i waelod y pwll gyda'r dynion eraill. Dechreuodd ar ei orchwylion fel arfer, a gweithiodd yn egniol hyd nes yr oedd oddeutu tri o'r gloch. Yna eisteddodd i lawr am ennyd tra yr oedd Huw yn gwneyd rhywbeth gyda'r wagen oedd yn ymyl. Yn sydyn clywai glec uwchben iddynt, a chyn iddo gael amser i archwilio y nenfwd, torrodd y pren oedd uwch eu pennau, a syrthiodd i lawr. Neidiodd Bob i achub Huw, a llwyddodd; ond nid heb aberthu ei fywyd ei hun yn yr ymdrech. Syrthiodd y pren ar ei gefn gan ei falurio yn erchyll, tra yr oedd Huw yn ddianaf. Wrth glywed y twrf prysurodd nifer o'r glowyr i'r fan, ac wrth weled eu ffafreddyn yn y fath gyflwr, methent ymatal rhag colli dagrau.

Yn fuan dygwyd ef i enau'r pwll, ac awd i chwilio am Doctor Morgan heb oedi, tra yr ymgymerodd un arall a'r gorchwyl poenus o hysbysu y fam o'r anffawd. Rhoddwyd Bob i orwedd ar y *stretcher* yn barod i gychwyn adref; ond ar hynny cyrhaeddodd y Doctor y fan, yn cael ei ddilyn gan ddau neu dri o'r pentrefwyr. Ysgydodd yr hen ddoctor ei ben gwyn pan y gwelodd Bob, ac wylodd yn hidl. Yr oedd wedi gweled aml i ddamwain erchyll cyn hynny; ond erioed ni welwyd ef yn teimlo cymaint. Syllai y glowyr arno yn

synedig, gan sychu aml i ddeigrin a lifai i lawr eu gruddiau rhychiog. Ar hyn agorodd Bob ei lygaid yn arafaid, a sylodd o'i gwmpas hyd nes y disgynnodd ei olygon ar Doctor Morgan. Yna ceisiodd wenu, gan estyn ei law ddolurus i afael yn llaw y doctor, a dywedodd,—

“Doctor, a wnewch chwi addaw gwneyd un gymwynas a mi cyn i mi farw?”

“Gwnaf, gwnaf, unrhyw beth a fynnot,” atebai yr hen ddoctor, gan dorri i lawr yn hollol. “Pa beth a fynnet i mi ei wneyd i ti, fy machgen anwyl i?”

“Gofalu am mam,” atebai Bob yn wannaidd, ac yna gorffwysodd ei ben hardd ar ei fynwes ddolurus, a chyn pen ychydig funudau yr oedd y bachgen hawddgar wedi ymadael a'i boenau. Ar y cyntaf nid oedd ei fam yn sylweddoli y peth o gwbl, a methai a chredu fod ei Bob hi, y bachgen harddaf yn y pentref, wedi ei ladd. Ond fel yr oedd y glowyr yn ei gludo i mewn sylwodd ar y corff gorchuddedig cyn i neb allu ei rhwystro; a rhoddodd ysgrech uchel, a dechreuodd wylo dros y tŷ. Ond ymhen ychydig tawelodd i raddau, a mynnodd weled ei bachgen er gwaethaf ymdrechion y rhai oedd yno; sylwodd arno am ennyd a gewynau ei gwyneb bron neidio allan trwy y croen. “Fy machgen tirion,” sibrydai, “beth a wnaif? John, William, Huw, a Bob wedi mynd.” Yna syrthiodd i lewyg. Claddwyd Bob wrth ymyl ei dad a'i frodyr, ac nid oedd yno yr un llygad sych yn yr angladd tra yr oedd Jones y ciwrad yn myned trwy y gwasanaeth, a chlywid aml i ochenaid yn mynnu ei ffordd o eigion aml i galon ofidus.

Y gwanwyn dilynol pan yr oedd llygaid y dydd yn dechreu ym- agor ar fedd Bob, dygwyd ei fam alarus i orwedd wrth ei ochr. Wedi ei gladdu ef ni wenodd byth mwy, a mynych y dywedai wrth ei chymydogesau na fyddai y cylch yn grwn yn y fynwent hyd nes y dygid hithau i orffwys wrth ymyl y rhai a garai gymaint.

Er dangos eu parch at Bob am aberthu ei fywyd i achub Huw y Glyn, rhoddodd y pentrefwyr gofadail hardd ar ei fedd, yr harddaf ym mynwent Penrhos öddigerth cofadail Mrs. Morgan, gwraig Doctor Morgan. Ac os y digwydda i ymwelwr holi bedd pwy ydyw hwnnw a'r gofadail wen arno, yr atebiad fydd,—“Bedd Bob y gŵr bonheddig.”

Rhosgadfan.

RICHARD H. WILLIAMS.

 Cytfeiriad y golygydd yw,—OWEN M. EDWARDS, 3, CLARENDON VILLAS, OXFORD.

ARGRAFFWYD A CHEYHOEDDwyd gan HUGHES AND SON, 56, ROSE STREET, WYKHAM

YSGWRS Y GOLYGYDD.



MRA dyddorol yw "Adroddlyfr y Plant," gyhoeddwyd gan Beren ddydd Gwyl Dewi. Llyfr bychan destlus, chwe cheiniog o bris, ydyw; yn cynnwys llawer o ddarnau barddonol cymwys i'w hadrodd, y rhan fwyaf o waith Beren ei hun. Y maent oll yn naturiol ac yn darawiadol iawn.

Da gennyf allu llongyfarch Richard ab Hugh, un y gwyddoch yn dda am ei ganeuon, ar ei waith yn ennill cader Eisteddfod y Bala.

J. Ll. G. Cynnyg cyntaf da iawn; y llinellau yn feldodaidd a chyhyd. Y mae caneuon gwanwyn eleni wedi eu trefnu. Canwch eto gyda'r gog y flwyddyn nesaf.

Yn y lle crwn y mis hwn gwelir llun un o enethod Meirionnydd,—Ceridwen Ann Griffiths, merch Mr. a Mrs. D. Griffiths, Glandwryd, Rhiwbrydir. Nid yw eto ond unarddeg oed; ond, oherwydd ei gallu naturiol a swynol i adrodd, y mae wedi cyrraedd enwogrwydd bron cenhedlaethol. Mae hi a'i chwaer Blodwen, sydd ddwy flynedd yn hŷn na hi, wedi adrodd llawer mewn cyfarfodydd mewn llawer ardal. Ond buddugoliaeth fwyaf Ceridwen oedd ennill y wobr yn Eisteddfod Genhedlaethol 1898, pan oedd deuddeg ar hugain o adroddwyr goreu Cymru yn cynnyg. Gwn y bydd yn dda gennyf oll, floedd o ddarllenwyr, weled ei gwyneb. "Arwerthiant y Caethwas" Hiraethog oedd y deryn. Sylwer ar enwau Cymreig y teulu dyddorol hwn,—Llywelyn, Myfanwy, Blodwen, Ceridwen, Eluned. Y mae llawer o dalent yn y teulu heblaw at adrodd. Y mae Cymru'n galw am loewi pob talent heddyw; rhwydd hŷnt i rieni ymdrechgar godi'r hen wlad.

Y GYSTADLBUAETH. Y mae'r golygydd, druan, mewn penbleth fin. Y mae wedi bod nis arall uwch ben y pentwr papurau; ond, er ei fod yn llawer pellach ymlaen, nid yw eto wedi cwbl benderfynu. Ni chafodd erioed gymaint o bapurau i'w beirniadu ar unwaith, ac y mae nifer mawr o'r ystorïau yn rhai campus. Rhaid i mi benderfynu erbyn y rhifyn nesaf.

Y mae Urdd y Delyn yn cynhyddu'n gyflym. Y mae lliaws o enwau eto mewn llaw; a bydd rhif yr aelodau yn fil yn fuan iawn. Y mae llyfrau bychain newydd i ddod cyn hir; ond, wrth gwrs, gall pob cangen ddefnyddio'r llyfrau a fyn.

Y mae llawer o atebion wedi eu paratoi; ond yr anhawsder ydyw cael lle iddynt. Mae llawer iawn mewn llaw, a gore po fwyaf gaf. Cofier fod pob rhifyn yn cael ei drefnu wythnosau, weithiau fisoedd, ymlaen llaw. Bob dydd bron mae gennyf achos diolch i ryw lenor dros blant Cymru.



(Tynnwyd gan H. D. L. uch, o'r darlun gan Holman Hant yng nghapel Coteq Keste, Blydychen.)

GOLEUNI Y BYD.

“WELE, YR WYF YN SEFYLL WRTH Y DRWS, AC YN CURO.”



EBRILL, 1899.

CYF. VIII. RHIF 88.

AT YR IESU.

CRÍ meddwl yr oes yw, — “Yn ol at Iesu.” Mae llawer wedi blino ar athrawiaethau dysgedig nas gallant eu deall, ac ar seremonïau rhwysgfawr y dyddiau hyn. Hoffant fynd yn ol at gretydd syml y gŵr fu farw ar y groes. Goleuni y byd yw. Mae'n curo wrth lawer drws eto, er fod chwyn wedi tyfu ar ei lwybrau. Ac y mae'n cael derbyniad. Y mae llawer yn ei garu heddyw o'r newydd, am iddo ef yn gyntaf eu caru hwy. Gydag

addysg, daw yntau a goleuni dwyfol, dynerwyd gan gariad anfeidrol Duw at ddyn.

OLIVER CROMWELL.

GANWYD Oliver Cromwell dri chan mlynedd i'r pumed ar hugain o'r mis hwn. O un ochr, ochr ei hen daid, yr oedd yn Gymro; yn hannu o deulu o Williamsiaid ymfudodd o Lanishen, ym Morgannwg, i Loegr. Yn nyffryn yr Ouse, gerllaw Huntingdon, mewn gwlad Buritanaidd iawn, y ganwyd ac y magwyd ef. Galwodd Duw ef i wneyd pethau rhyfedd.

Yr oedd dyddiau mebyd Oliver Cromwell yn ddyddiau pryderus ac enbyd. Bu'r frenhines Elizabeth farw pan oedd Oliver fychan yn bump oed, a daeth yr Ysgotyn Iago i reoli yn ei lle. Yn fuan iawn gwelwyd nad oedd y brenin a'i bobl o'r un feddwl. Tybiai'r

brenin fod Duw wedi rhoddi gallu iddo reoli fel y mynnai,—y gallai newid crefydd ei bobl, a threthu eu heiddo, fel y mynnai. Credai'r Senedd, o'r ochr arall, nas gallai'r brenin drethu ond trwy ganiatad cynrychiolwyr y bobl, ac nas gallai ymyrryd â chrefydd ond yn ol y gyfraith. Ar ol Iago daeth ei fab Siarl, ac yr oedd Siarl yn fwy cyndyn na'i dad. Ehangach, ehangach yr ai'r adwy rhwng y brenin a'r Senedd; ac o'r diwedd, yn 1642, diweiniwyd y cledd, a dechreuodd y Rhyfel Mawr. Yn erbyn y brenin, yn erbyn gorthrwm gwladol Strafford a gorthrwm eglwysig Laud, yr oedd y Senedd a'r Puritaniaid. Yr oedd bai o boptu,—onid yw felly bob amser panddaw rhyfel?

Ymladdwyd brwydrau Edgehill a Marston Moor. Ond, er ennill buddugoliaethau, ni fedrai'r Seneddwyr ddwyn y rhyfel i ben. Daeth Cromwell ymlaen. "Mynnwch wŷr yn ymladd oherwydd cydwybod," meddai, "ac nid am gyflog." Gwnawd byddin newydd,—y New Model,—ac yn lle ymdroi yn ei hunfan dechreuodd y fyddin lethu byddin y brenin. Achub Taunton, brwydr Naseby, ystormio-Bristol, cymeryd Rhydychen, gwarchae Penfro, brwydr Preston,—y mae gwaith y fyddin ryfedd hon ymysg pethau mwyaf cynhyrfus hanes Lloegr.

Daeth y rhyfel i ben, condemniwyd y brenin i farw, a theimlodd Cromwell fod Duw yn ei alw i reoli Prydain a'r Iwerddon. Yr oedd ei anhawsderau bron yn anorchfygol; ond credai yn Nuw a chredai yn y bobl. Dywedodd y buasai'n well ganddo fynd yn ol i fugeilio'i ddefaid na derbyn coron Lloegr; ac er cymaint soniodd ei elynion-am ei ragrith, yr wyf fi, yn un, yn ei gwbl goelio.

Rheolodd Brydain a'r Iwerddon, fel Amddiffynnwr, am tua dengmlynedd. Bu orfod iddo reoli â braich gref, ac ni hoffwn gwbl gyfiawnhau pob peth a wnaeth. Ond ceisiodd reoli yn ol cydwybod a thrugaredd. Dan ei lywodraeth daeth Prydain yn un o deyrnas-oedd cadarnaf ac enwocaf y byd. Cynhyddodd ei mhasnach yn rhyfeddol, ac yr oedd enw Blake yn adnabyddus yng nghilfachau pellaf y ddaear. Cafodd ei milwyr enw da yn Ewrob, a chrynnai'r Hispaen rhagddynt. Ond buddugoliaethau heddwch oedd ei phrif fuddugoliaethau. Graddol estynnwyd goddefiad crefyddol i bawb, ie, i'r Iddew a'r Pabydd; ac yr oedd John Milton, gyda'i gariad angerddol at oddefiad a rhyddid, yn ysgrifennydd i Cromwell. Gwell argraffiad o'r Beibl, gwell Senedd, arian pur, rhyddid cydwybod perffaith,—buasai Cromwell wedi gwneyd llawer mwy nag a wnaeth, pe cawsai fyw.

Y nos o flaen y trydydd o Dachwedd,—ar y dydd hwnnw yr enillasai Cromwell frwydrau Dunbar a Worcester,—chwythai ystorm-anferthol dros y wlad. A phan ddaeth y dydd gwyddai ei gadfridog-

ion a'i filwyr fod yr Amddiffynnydd yn marw. Ac ar y nawn hwnnw suddodd i heddwch oedd wedi ei golli ers blynyddoedd lawer. Er mwyn cydwybod yr oedd wedi ymladd, nid o'i fodd; er mwyn cydwybod yr oedd wedi rheoli,—aberthodd gysur a heddwch ei fywyd.

Nis gallai Gwerinlywodraeth Lloegr fyw wedi colli Cromwell; nid oedd neb a meddwl digon grymus, a braich ddigon cref, i gymeryd ei le. Croesawyd Siarl yr Ail yn ol; rhoddwyd llawer o hen gymdeithion Cromwell i tarwolaeth,—yr athronydd Vane; y pregethwr Hugh Peters; John Jones o Faes y Garnedd, Meirion, brawd yng nghyfraith Oliver, ac eraill.

Ond gadawyd i John Milton fyw, i ganu "Coll Gwynfa." Ac y mae pob egwyddor yr ymladdai Cromwell drosti, erbyn tri chan mlwyddiant ei eni, wedi gorchfygu.

—◆◆◆—

"MEDDYG MARY CATHERINE."

Geneth fach Hugh Thomas ac Ellen Hughes, Cremlyn, Bethel.

Henffych ! Angau, meddyg plentyn ;
Ti wellhaodd Mary Catherine.
Ceisiodd byd, am flwyddi rai,
Wneyd ei phoenau dwys yn llai—
Gwnaethost ti mewn un munudyn.

Yn ei dwys afiechyd ola'
Mor bryderus holem yma
Yn ei chylch, wrth fynd a dod—
Angau ddaeth i ateb fod
Mary Catherine wedi gwella.

O ! mor dlws oedd hun y plentyn,
Marw cyn rhoi clwyf na cholyn,
Ac heb dderbyn un ychwaith ;
Chwareu hyd at ben y daith,
Cwmpo i ogoniant wedyn.

Tlws yw marw'n anwybodus,
Fel y plentyn ieuanc nwyfus
Sydd heb wybod am y groes,
Greda fod y byd a'i loes
Yn baradwys dangnefeddus.

Nid yw'r groes ar eich ysgwyddau,
Dad a mam, ond croes ei phoenau,
Wnaed yn groes eich hiraeth chwi,
Na chwynfanwch dani hi—
Croes eich geneth ddiolfidiau.

Onid hawddach, fwyn rieni,
Daid a nain, a phawb fu iddi
Yn garedig yn y byd—
Goddef hiraeth dwys o hyd
Nag i hi ddioddef cyni ?


Diolch iti, Wanwyn tirion,
Am ddod heibio'r beddau byrion—
Torri hyd eu blodau mân
Flwch dy enaint peraidd glân—
Anrhydedda'r gwylledyddion.

Adgof bia oreu bywyd,
Boddlon ym i Anghof ysgwyd
Teyrnwialen dros bob darn
Nas gall ddal goleuni barn—
Hawdd fydd cofio'r gweddill hyfryd.

Du, medd rhai, yw cysgod angau ;
Pam gan hynny mae bywydau
Yn ymwynnu yn eu gwedd,
Wrth ddynesu at y bedd ?
Na, mae cysgod angau'n olau.

Bethel.

RHYB J_e HUWS.



CINIO'R DYFRGI.

CARTREFI EIN CYMYDOGION.

IV. CARTREF Y DYFRGI.

MAE'N byw yn yr afonydd, pysgod yw ei fwyd; gall redeg, gall nofio, gall fyw am ychydig o dan y dŵr, felly y mae'n anodd iawn ei ddal.

Mae ei wely mewn rhyw lecyn neillduedig, dan gysgod torlan, ar lan afon neu lyn. Edrychwch arno,—y coesau byrion cryfion, gewin-edd fel rhai adar dŵr, y pen llydan, y corff hir crwn, y gynffon yn meinhaus at y blaen, y clustiau bychain, a'r llygaid disglaer wél bob peth uwchlaw iddynt. Onid yw wedi ei wneyd at bysgota? Nofia'n gyflym yn erbyn y dŵr, plymia i lyn heb swm, a byth ni fetha ddal pysgodyn, os bydd yno bysgod yn digwydd bod.

Helir y dyfrgi â chwn. Ni ollwng hen ddyfrgi ei afael, unwaith y cydia, nes y tyn y gafael allan; ac ymladd hyd farw heb wneyd unrhyw swm.

Os delir ef yn ieuanc, gelli'r dofi'r dyfrgi. Mae'n greadur serchog wedi ei ddofi, a deil ddigon o bysgod i'w berchennog.

Ceir y dyfrgi ymhob gwlad bron.

Y DDAU HOGYN RHEINY.

GAN WINNIE PARRY.

IV. DYFODIAD Y DDAU.

TREULIWYD y dydd Llun hwnnw gennym ni ym Mhen y Bryn i barotol ar gyfer yr ymwelwyr. Pan ddeuthum yn fy ol o'r pentref bu raid i mi chwilio'r *time table* er mwyn cael gwybod yr amser i'w disgwyl; ac wedi i mi hysbysu mai gyda'r tren chwarter i saith yr oeddent yn debyg o ddod, aeth y gwaith ymlaen gyda brwdfrydedd. Wrth gwrs yr oedd Miss Jones a'i chwaer yn llawn prysurdeb eu hunain, ac wedi gosod Hannah ar waith. Yr oedd fy nghynorthwy innau yn angenrheidiol hefyd, meddent hwy.

Buasai rhywun oedd yn gyfarwydd â phlant yn gwenu wrth weled rhai o'r paratodau. Yn wir yr oeddwn i, hyd yn oed yr adeg honno cyn i mi raddio mewn gwybodaeth o'r bodau hynny yng nghwmni'r "Ddau," yn eu hystyried braidd yn anuddiol, i ddweyd y lleiaf. Tynnwyd y llestri goreu un allan, rhoddwyd llian glân gwyn ar y grisiau, a gwnaeth Miss Jones i mi tyned allan i'r ardd i chwilio am flodau i lenwi'r holl deganau hen ffasiwn oedd yn y parlwr goreu. Yr oedd Cati wedi gosod ei hun wrth y bwrdd mawr gwyn yn y gegin, a gwelwn hi drwy y ffenestr, a'i llewis i fyny i'r penelin, a'i dwylaw a'i breichiau wedi eu haddurno â blawd, ac yr oedd yn amlwg oddiwrth ddifrifwch ei gwynepryd ei bod yng nghanol y dirgelion o wneyd "Teisis Berffro," yr hyn yn unig oedd yn tystiolaethu i bwysigrwydd yr achlysur. Nid amgylchiad cyffredin fyddai yn cael ei ddathlu gyda "Theisis Berffro." Daeth i fy meddwl ymarferol na fuasai y cyfryw ddanteithion y pethau goreu ar les plant, ond ni fuaswn yn caru dweyd hynny wrth Cati.

Yr oeddwn wedi sylwi mai pur ychydig o fanylion roddai Mrs. Thomas yn ei llythyr parthed "y plant" oedd yn anfon i Ben y Bryn. Yr oedd y gair iddi hi, eu mam, wrth gwrs yn cynnwys y cwbl; ond yr oedd wedi anghofio mai amhenodol i'r eithaf oedd i rai na wyddent bron am eu bodolaeth. Daethum yn ystod y dydd i ddeall oddiwrth ymadroddion Miss Jones a'i chwaer eu bod yn cymeryd yn ganiatol mai rhyw ddwy neu dair o enethod bychain wnaent eu hymddanghosiad ym Mhen y Bryn oddiwrth y tren saith. Gwelwn y darlun oedd gan y ddwy hen ferch yn eu meddwl,—darlun o enethod bach a'u gwallt yn llyfn a threfnus, eu gwynebau a'u dwylaw yn lân bob amser, yn cerdded yn wastad mewn ffrogiau gwyr ion, a chadach poced bach lân ym mhoced fechan pob ffrog; genethod bach arferent ddweyd "Os gwelwch yn dda" *bob* amser wrth ofyn am rywbeth, ac nad anghofient ddweyd "Thanciw" wrth ei dderbyn.

Gresyn meddwl mor brin yw rhai o'r fath. Yn wir yr wyf wedi dod i greu nad oes yr un i'w chael ond ym mreuddwydion hen ferch.

Nis gallwn lai na gwenu wrth feddwl feallai mai hanner dwsin o fechgyn gwyllt direidus ddeuai i aflonyddu ar heddwch Pen y Bryn, ond nid oeddwn yn teimlo yn ddigon gwrol i awgrymu hynny i'r un o'r ddwy wrth eu gweled mor ddiameus parthed ffurf a llun eu hymwelwyr.

Dirprwywyd fi i fyned i'r orsaf i'w cyfarfod. Ni fyddwn yn dweyd y gwir pe dywedwn fy mod yn teimlo yn hollol ddifater a digyffro. Nis gwn yn iawn beth oeddwn yn ei ddisgwyl, ond yr oeddwn yn meddwl mai rhywbeth dipyn yn wahanol i'r hyn ddisgwyliai y ddwy Miss Jones, er nad oedd fy syniad innau yn agos i gywir. Fel y deuai y tren yn araf i fewn i'r orsaf gwelwn wr ieuanc yn agor drws cerbyd neillduol. Yr oedd yn edrych yn bur anesmwyth a phryderus, a sibrydai rhywbeth wrthyf mai gydag ef yr oedd y plant. Gwelwn ef wedi i'r tren sefyll yn neidio allan, a cherddais i gyfeiriad y cerbyd crybwylledig, ond cyn i mi ei gyrraedd, gwelwn fwndel (nis gwn pa air arall i'w ddefnyddio) wedi ei wneyd i fyny o gudynau troellog o wallt melyn, coleri gwynion, bag lleder du, a phedair llaw fechan fudr yn gafael yn dyn yn yr *handles*, yn disgyn ohoni yn bendramwnwgl ar y platform. Erbyn i mi ddod yn nes cefais mai dau fachgen bychan oeddynt, a meddyliais ynnof fy hun tybed mai y rhai hyn oedd y plant oeddwn yn ddisgwyl. Ni welwn yr un plentyn yn dod allan o unrhyw ran arall o'r tren, a throais i graffu ar y ddau hyn. Yr oedd gan y lleiaf ohonynt, yr hwn fuaswn yn barnu fod oddeutu chwech oed, wallt goleu yn disgyn yn gudynau bron ar ei ysgwyddau. Hanner y ffordd i lawr ei gefn yr oedd het wen fawr, yn cael ei dal rhag syrthio gan yr elastic oedd am ei wddf. Edrychai y llall rhyw flwyddyn neu ddwy yn hyn. Gwallt goleu oedd ganddo yntau hefyd, ond ei fod wedi ei dorri yn agosach i groen ei ben nag eiddo y llall. Yr oedd y ddau mewn ymdrech galed am y bag lleder du, a chlywn y geiriau hynod awgrymiadol,—

“Fedri di ddim i gario fo, mi wyt ti'n rhy fychan.”

“Taw y fwl, mi dw i gimint a chti bob mymryn.” O enau y bychan a'r gwallt laes y deuai y frawddeg olaf, a daeth genethod bach gwastad Miss Jones, druan, a'u hymadrodd moesgar, o flaen fy meddwl ar y funud, a bron na fuaswn yn torri allan i chwerrthin.

Yr oedd y gŵr ieuanc wedi bod yn holi am eu cist, ond gwelwn ef yn awr yn edrych o'i amgylch a'r golwg anystwyth yn fwy amlwg ar ei wynepryd, a meddyliais y byddai well i mi gymeryd trugaredd arno.

“Plant bach i fyned i Ben y Bryn ydi rhain?” gofynnais. Ciliodd yr edrychiad pryderus o'i wyneb ar unwaith, a chlywais ef yn rhoddi ochenaid,—o ddiolchgarwch mae'n ddiameu,—wrth iddo dynnu ei

het ac estyn ei law i mi. Yna trodd at y plant. Nid oedd y ddau wedi penderfynu pwy gaffai ddwyn y bag.

"Willie," meddai, "gadwch i'r bag 'na, a dowch i ysgwyd llaw hefo'r lady'ma sy wedi dwad i'ch cwarfod chi." Ac ychwanegodd wrthyf finnau,—

"Dyma'r chweched ymrafael sy wedi bod rhyngddynt ers pan mae'n hw dan fy ngofal. Mae yn ddrwg gennyf fod y fath olwg arnynt, ond mi fynnai Bobbie i mi brynnu mefus a phetha ar y ffordd."

Ac yn wir yr oedd "golwg" arnynt hefyd,—eu gwynebau yn llinellau o wahanol liwiau, a'u coleri, hwythau, wedi eu harddurno yn yr un modd. Ar ail orchymyn y gŵr ieuanc, tynnodd y mwyaf un law lydiog oddiar *handle* y bag ac a'i hestynnodd i mi. Gwelodd y llall ei fantais, a llwyddodd i gael meddiant llwyr o wrthrych yr ymrafael, a chychwynnodd i lawr y platform. Dyma'r cyfarchiad gefais gan ei frawd,—

"Sut yr yd— mi cei di hi eto ngwas i," a chan dynnu ei law yn frysiog rhedodd ar ol cludwr y bag, a chan fod y baich yn fwy nag allai hwnnw ddwyn yn hawdd, goddiweddodd ef heb lawer o drafferth, a gwelwn fod yr ymdrech ar ail ddechreu. Yr oedd y porter yn cau y drysau, ac wedi canu yn iach â mi neidiodd y gŵr ieuanc i'w le, ac yr oedd gwên o foddhad ar ei wyneb fel y llithrai y tren allan o'r orsaf.

Tra y safwn yn edrych arni yn diflannu yn y pellder, nis gallwn lai nag arswydo wrth feddwl am y gorchwyl o gael "y Ddau" i Ben y Bryn. Ond nid oedd diben ymdroi, yr oedd yn orchwyl oedd raid ei gyflawni. Wedi cael gan un o'r porters addaw dod a'u bag i fyny cyn iddi dywyllu, troais fy nghamrau i gyfeiriad llecyn neillduol ar y platform, lle y canfyddwn "y Ddau" mewn ymdrech galed o hyd, a'r frwydr yn dechra gwneyd ei hol arnynt. Gorweddai yr het fawr wen ar lawr o'r neilldu. Yr oedd yn amlwg fod yr elastic wedi rhoddi ffordd. Meddyliais mai'r peth cyntaf fyddai well i mi wneyd fyddai basisio dod a'r helynt i derfyniad heddychlawn. Yr oedd gennyf barasol yn fy llaw, un sidan coch, ac meddwn wrth y lleiaf ohonynt, gan roddi ty llaw ar ei fraich,—

"Welwch, mi gewch chi gario hwn i mi." A danghosais y testyn iddo. Edrychodd arno yn amheus, ond ni ollyngodd ei atael o'r bag. Yna dechreuais rito ei rinweddau, y gallai ei ddefnyddio fel ffon ac felly ymlaen. Ni chymrodd fawr o sylw o'r hyn oeddwn yn ei ddweyd, ond torrodd ar fy nhraws i ofyn,—“neith o agor?” “Gneith,” meddwn innau, braidd yn amheus yn fy nhro, fel y meddylwn am dynged tebygol fy mharasol. Ond yr oedd yn rhy hwyr i mi dynnu'n ol. Gollyngodd y dwylaw bach glydiog y bag, a chofleidiasant y parasol coch. Ac yr oedd heddych am ryw hyd.



DYCHMYGION PENRHYNDEUDRAETH.

Casglwyd gan GYMRO.

1. Pa bryd y canodd y ceiliog nes y clywodd holl
drigolion y ddaear ef? YN ARCH NOAH.
2. Beth sydd ymhen draw y beudy, dau bump yn
ymlid pedwar? DYN YN GODRO.
3. Ym mha fis bydd y merched yn siarad lleiaf?
YM MIS CHWFFROL.
4. Gown du heb hem; calon garreg a choes bren,—
beth ydyw? EIREN DDU.
5. Beth aiff trwy yr afon, fe wlycha ei ddau ben, ond
ni wlycha ei ganol? HOELEN Mewn CARN CEFFYL.
6. Beudy bach haiarn, a drws yn ei dalcen; buwch
goch yn mynd i mewn, a buwch ddu'n dod
allan. Beth ydyw? HAIARN SMWDDIO.

—◆◆◆—
AROGL.

GALLWN gofio lliaws o liwiau; ond ychydig o fathau o aroglau fedrwn gofio. A phob arogl gofiwn, ynglŷn â rhywbeth arall y cofiwn ef,—megis briallu, croen oren, gwair newydd ei ladd. Y mae gennym laweroedd o enwau ar liwiau, ond ychydig iawn ar aroglau.

Y mae arogl hyfryd, ac y mae arogl anhyfryd iawn. Y mae arogl anhyfryd yn gyffredin yn afiach, ac ambell arogl yn farwol. Gall clefyd ddod gydag arogl anhyfryd o garth-ffos. Dywedir y gall chwa o arogl oddiar *prussic acid* cryf iawn ladd dyn megis ar yr ergyd.

Nid yr un arogl sy'n hyfryd i bob creadur. Gwelwn wybed cochion yn hofran uwchben tomennydd, ac yn mwynhau arogl sy'n anhyfryd iawn i ni. Nid yw pob dyn yn hoffi yr un aroglau ychwaith; hoff iawn gen i arogl yr ysgaw, ond gwn am un arall nas gall ei oddef. Mae'n debyg fod gan bob creadur ei gas aroglau,—aiff twrch, er esiampl, ymhell o'i gartref os rhoddir wynwyn neu ddail ysgaw ynddo. Gellir gwneyd cymysgedd drwg arogl o elfennau eithaf diarogl; y mae *sulphuretted hydrogen*,—efe rydd ei arogl i wy drwg,—yn beth hawdd ei adnabod o bell.

NANSI A'R IAR.



FEWN ychydig yn ol, aethum i ymweled â Gwilym Goch a'i eneth Nansi. Wrth y tŷ gwelais iar a deg o gywion bach. Tra'r oeddwn yn edrych arnynt, dyna Nansi yn rhedeg allan i'w canol. Cloctai'r iar a lledai ei hesgyll dros y rhai bychain i'w hamddiffyn rhag cawres, fel y tybiai, oedd am eu dinistrio. Daeth tad Nansi allan, gwaeddodd arni, ac wedi i mi gyfarch gwell iddo, aethom ein tri i'r tŷ. Cawsom ymgom ddiŷyr, ac anghofiais bopeth am Nansi

a'r ieir.

Nos drannoeth, aethum drachefn i edrych am Gwilym Goch. Wrth neshau at y tŷ, yr oedd popeth mor ddistaw a'r bedd. Pan ar fin cyrraedd gwelwn Nansi yn rhuthro allan yn wyllt a'i gwallt i lawr, ac yn syth i gwt yr ieir. Creffais a sylwais arni, yn eu chwalu, yn gwneyd am yr iar a'r cywion a welais y diwrnod cynt, ac yn gafael yn yr hen iar gan ei thynnu at ei gwyneb. Synnais at blentyn mor hawddgar, yn ceisio tel y tybiwn, frathu'r iar am rwystro iddi guro ei chywion pan welais hwynt y tro o'r blaen.

Clywais swm y tad. Aeth at Nansi, a chan edrych yn ddigllawn, gorchymynnodd iddi roddi'r iar i lawr, ac i ddod ar unwaith i'r tŷ. Gostyngodd hithau ei phen, a thorrodd i wylo.

"Beth sydd arnat? medd y tad. "Beth oeddit yn ei wneyd y fan hyn?" Trwy y dagrau, i'm syndod, clywn y geiriau,—

"Ceisio'r oeddwn gusanu'r iar, a gofyn iddi faddeu i mi am ei dychryn hi a'i phethau bach y ddoe."

Cododd Gwilym Goch ei blentyn i'w fynwes, a chuddiodd ei gwyneb â chusanau. Meddyliais innau mor hawdd yw cam-esbonio, ac mor dda yw Duw yn datguddio pethau mor fawr i blentyn bach.

RHINWEDD.

GAN ISLWYN.

Aed ereill i geisio anrhydedd a chlod i'r lan ar uchelion y byd, Gogoniant derchedig yn unig fo'n nod a mawlfloedd y bobl ynghyd; Af finnau i waered yn wylaidd fy ngwedd i fro dawel rhinwedd i fyw, Ac yno cyfodaf fy mhabell mewn hedd dan gysgod cydwybod a Duw.

Addfwyn Iesu.

TŌN I S. S. C.

D. J. WILLIAMS, A.C.,
RHOS PONTARDAWE.

DOH C.

:s .,s l	:s	:d' .,t	t	:l	:l .l	s	:- .m :s .f		m	:-
Anwyl	Ie - su,	mae fy	nghalon	Fyth yn	slb -	rwd dan fy	mron,			
:m .,m f	:m	:s .,f	f	:m	:m .m	r	:- .d :m .r		d	:-
:d .,d d	:d	:m .,r	r	:d	:d .d	t,	:- .d :s, .s,		d	:-

:s .,s l	:s	:d' .,t	t	:l	:t .d' t	:- .l :s .fe		s	:-	
Nad oes	neb yn	haeddu'i	gar - u	Fel ty-	di trwy'r	ddaeear		gron;		
:m .,m f	:m	:s .,se	se	:l	:s .s	s	:- .m :r .d		t,	:-
:d .,d t,	:d	:m .,r	r	:d	:r .m	r	:- .d :t, .l,		s,	:-

:s .,s m'	:- .d' :r' .,m'	f'	:m'	:l .l	r'	:- .d' :t .l		s	:-
Mae fy en	- aid yn ym-	glyn-u	Fyth am	dan -	at, Ie-su	gwiw,			
:s .,s s	:- .s :s .,s	s	:s	:l .l	s	:- .s :s .f		m	:-
:s, .,s, d	:- .m :f .,m	r	:d	:d .d	t,	:- .m :r .t,		d	:-

:s .,s l	:s	:d' .,t	t	:l	:l .l	s	:- .d' :d' .t		d'	:-
Derbyn Di,	O	Ie-su	tir - ion,	Serch fy	ngha - lon,	eiddot		yw.		
:m .,m re	:m	:s .,f	f	:m	:m .m	r	:- .s :l .s		s	:-
:d .,d d	:d	:m .,r	r	:d	:d .d	t,	:- .m :r .f		m	:-

CYDGAN.

s :- :s	m' :- :-	:- :-	:d' r' :- :m'	f' :- :-	m' :- :-
Ie - su	hoff,	O	add - fwyn	Ie -	su,
: :	s :- :s	d' :- :d'	t :- :d'	r' :- :-	d' :- :-
: :	Ie - su	hoff,	O	add - fwyn	Ie -
: :	d :- :d	d :- :m	r :- :d	t, :- :-	d :- :-

{	l :- :l	r' :- :-	- :- :d'	t :- :l	s :- :-	- :- :-	- :- :-	}
	Eidd - ot	Ti	yw'r ga - lon	hon,				
	: :	fe :- :fe	s :- :s	s :- :fe	s :- :-	- :- :-	- :- :-	
		Eidd - ot	Ti	yw'r ga - lon	hon,			
	: :	r :- :d	t, :- :m	r :- :d	t, :- :-	- :- :-	- :- :-	

{	s :- :s	s :- :-	- :- :d'	d' :- :ta	ta :- :-	l :- :-	- :- :-	}
	Dim ond	Ie - -	su fyn	bar-	ab -	lu,		
	: :	s :- :f	m :- :ma	m :- :f	s	m :- :-	f :- :-	
		Dim ond	Ie -	su fyn	bar-	ab -	lu,	
	: :	t, :- :t,	d :- :d	d :- :r	m	d :- :-	f :- :-	


{	l :- :l	s :- :-	- :- :d'	d' :- :t	d' :- :-	- :- :-	- :- :-	
	Tra yn	cur - -	o dan	fy	mron.			
	fe :- :fe	s :- :-	- :- :s	f :- :f	m :- :-	- :- :-	- :- :-	
	Tra yn	cur - -	o dan	fy	mron.			
	re :- :re	m :- :	- :- :m	r :- :s,	d :- :-	- :- :-	- :- :-	

2 Er nad wyf ond plentyn egwan,
 Baban bychan yn y hyd,
 Gwn nad yma mae fy nhrifan
 Dwed fy nghalon hyn o hyd;
 Mae fy enaid yn hiraethu
 Am gael mynd i'r nef i fyw,
 Derbyn Di, O Iesu tirion,
 Serch fy nghalon, eiddot yw.

Cydan—Iesu hoff, &c.

3 Ti dderbyniaist lawer plentyn
 Bychan gynt, i'th fynwea gu,
 Gyda'r cyfryw 'rwyf yn erbyn
 Arnat heddyw derbyn fi;
 Mi a'th garaf doed a ddelo,
 Ti yw Ngheidwad, Iesu gwiw;
 Derbyn Di, O Iesu tirion,
 Serch fy nghalon, eiddot yw.

Cydan—Iesu hoff, &c.



CADER IDRIS,



ADAR Y MYNYDDOEDD.

“ Mae eto'n llawn llawenydd.”

SIROEDD CYMRU.

V. SIR FEIRIONNYDD.

SIR y mynyddoedd a'r aberoedd a'r rhaiadrau, hyd yn oed ymysg siroedd Cymru, yw sir Feirionnydd. Ychydig o ryfeddodau celfyddyd sydd ynddi, ond y mae Natur wedi gadael ol ei llaw ar ei mynyddoedd mawr a'i glynnoedd.

Meirionnydd yw'r wythfed sir yng Nghymru o ran maint, a'r ddeuddegfed o ran poblogaeth. Y mae'n chwe chant a dwy o filldroedd ysgwar; ac yr oedd ei phoblogaeth adeg y cyfrif diweddaf yn 49,212. Cura'r môr ar ei glannau gorllewinol.

Ei mynyddoedd yw ei gogoniant,—er nad ydynt mor uchel a rhai o'u brodyr cawraidd sydd yn edrych arnynt o sir gyfagos Caer-narfon. Dyma ei mynyddoedd uchaf, a throedfeddi eu huchder,—

Aran Fawddwy	2,970.
Cader Idris	2,929.
Aran Benllyn	2,902.
Arennig	2,800.
Moelwyn	2,529.
Llethr	2,475.
Diphwys	2,467.
Rhobell	2,409.
Rhinog Fawr	2,362.
Cader Fronwen	2,055.

Y mae llawer eraill uwchlaw dwy fil o droedfeddi. Rhed trwm uchel trwy ganol y sir, o ogledd i dde; rhed y Ddytrdwy a'i chang-



YN UCHELDIR MŴRION.



AR EI FFORDD I'R DDYFRDWY.

hennau oddiar eu llethr ddwyreiniol, ac afonydd eraill oddiar eu llethrau gorllewinol.

Rhed y Ddyfrdwy i'r gogledd, ac iddi hi yr a'r Tryweryn ger y Bala, a'r Alwen ger Corwen. I'r gorllewin rhed y Prysor; yr Artro; y Mawddawch, wedi derbyn yr Eden a'r Gain a'r Wnion; y Dysynni; a'r Dyfi.

Mae rhaiadrau Meirion yn enwog,—y Rhaiadr Du, Pistyll Cain, a llawer eraill.

Mae Llyn Tegid, brenin llynnoedd Cymru, ynddi; a llawer iawn o lynnoedd manach.



AFON MAWDDACH.

Nid yw llawer o arwynebedd garw Meirion dan driniaeth yr aradr a'r og. Y llynedd yr oedd aceri ei hamaethyddiaeth fel hyn,—

Dan wenith,—867.
 Dan haidd,—4,137.
 Dan geirch,—9,889.
 Dan bytatws, - 1,854.
 Dan wair,—44,326.

Yr oedd ynddi y llynedd 37,584 o wartheg; 8,771 o foch; 418,826 o ddefaid,—y mae yr amlaf ei ddefaid o bob sir yng Nghymru ond Brycheiniog.

Y mae ei llechi yn gyfoeth mawr iddi, yn Ffestiniog yn un cwr ac yn Abergynolwyn yn y cwr arall. Y mae ynddi hefyd aur. Cafwyd llawer o aur ger Dolgellau; a phan oedd Ap Vychan yn fachgen troednoeth tlawd yn Llanuwchllyn, yr oedd aur dan ei draed.

O hen drefi'r sir, un o'r rhai enwocaf yw Dolgellau, hen le senedd Owen Glyn Dŵr, gyda'i hamgylchoedd rhamantus, a'i phoblogaeth o 2,467. Y mae'r Bala yn enwog yn hanes y Diwygiad,—y dref dlos hon yw cartref y Feibl Gymdeithas a'r Ysgol Sul; ei phoblogaeth yw 1,622. Corwen, yn ol pob tebyg, yw man bedd Owen Glyn Dŵr.

O leoedd wedi tyfu'n ddiweddar y mae gan Abermaw, un o



AFON DYSYNNI A CHRAIG Y DERYN.

ymdrochleoedd prydfferthaf Cymru, boblogaeth o 2,045. Ond y lle mwyaf poblog o lawer ym Meirionnydd yw Ffestiniog, man y chwareli, gyda 11,073 o drigolion.

Y mae Meirion yn wlad y traddodiadau am dduwiau ac arwyr. Y mae llawer o olion y Rhufeiniaid ynddi,—ol eu tai ar ei llechweddau mwyaf heulog, ac ol eu ffyrdd hyd ei mynyddoedd. Yn 1284, wedi ei gorchfygu adeg cwmp Llewelyn, y gwnawd hi'n sir, a chodwyd castell Harlech gan Edward y Cyntaf i lethu ei rhyddid. Ond yn 1516 y rhoddwyd arglwyddiaeth Mawddwy ati.

Y mae sir Feirionnydd, yn ol yr ystodlegau, y fwyaf Cymreig a'r fwyaf gwerinol, yn gyffredin y fwyaf moesol, o holl siroedd Cymru. Feallai ei bod yn un o'r rhannau mwyaf darllengar yn y byd.

CYMRU'R PLANT.

PA LE MAE FY NGHYFOEDION.

PA le mae fy nghyfoedion,
 Cymdeithion mebyd gwyn,
 Fu'n chwareu'n ddiotalon,•
 'Rhyd llwybrau dôl a glyn?
 Mae cofio'r campau difyr
 Yn ddolur imi'n awr,
 Gwnaeth treigliad amser prysur
 Ar fyd gyfnewid mawr.

Mae cofio'r hoff chwareuon,
 Cysuron penna'r plant,
 A'r flol a'r digrif droion,
 Yn creu'n fy nghalon chwant
 Am gael bod eto'n blentyn
 Penfelyn, ysgafn fron,
 A'r byd o'm cylch yn glaerwyn
 Fel ewyn ar y don.

Pruddhau mae fy meddyliau
 Wrth gofio'r dyddiau gynt,
 A'r plant yn llon gwmpeini
 Yn mynd nes hollti'r gwynt!
 Rhaid *cerdded* erbyn heddyw
 Mewn araf, bwylllog drefn;
 Wrth basio rhoes blynyddau
 Eu pwysau ar fy nghefn.

Pa le mae'r bechgyn rheini,
 Fy nghwmni ar lwybrau'r Allt,
 A'r hoff enethod heini
 A'r gwynt yn cyrllo'u gwallt?
 Mae cloch yr ysgol eto
 Yn seinio'n glir a chroch;
 Ond Ow! mae'r plant a garwn
 O gyrraedd swm y gloch.

BEREN.

URDD Y DELYN.

Y RHEOLAU.

1. Dysgu starad ac ysgrifennu Cymraeg; darllen rhan o'r Beibl Cymraeg, neu ryw lyfr Cymraeg arall, bob dydd, ac ysgrifennu Cymraeg o'i gyfansoddiad ei hun.

2. Astudio hanes Cymru, a gwneyd ei oreu i godi ei wlad, fel y byddo Cymru fydd yn well na'r hen Gymru.

3. Dysgu canu'r delyn, os bydd hynny yn y cyrraedd; a dysgu alawon Cymreig.

4. Byw, hyd y gall, yn ol dysgeidiaeth yr hen Gymry gynt, mor bell ag y mae'r ddysegeidiaeth honno'n un a dysegeidiaeth Crist. Y mae'r ddysegeidiaeth honno'n gofyn purdeb, cariad at addysg, caredigrwydd at ddyn, addfwynder at greaduriaid direswm, iaith ddihalog.

AELODAU NEWYDDION.

851. J. D. Hooson, 175, North Brook Street, Princes Road, Lerpwl.
852. Thomas Thomas, 10, Penparlas, Dinas, Morgannwg.

CANGEN FRON CYSYLLTAU.

853—864.

Kathleen Mildred Edmunds, Kate Jones, Sally Johnson, Price Davies, John Ellis, Edward J. Jones, Jeremiah Rogers, Edward Daniel Davies, George Wright, John D. Davies, Christmas Davies; John Jones, Pleasant View, arweinydd y gân.

CANGEN CLYNNOG.

865—896.

Griffith Roberts, Llythyrdy; Griffith T. Jones, Penrallt; Hugh John Williams, Cefnatho; Evan Pritchard, Camfa'r Bwth; Thomas Williams, John Owen Môn, yr Ysgol Ramadegol; Richard Pritchard, Robert Pritchard, Hugh Pritchard, Camfa'r Bwth; Robert William Rowlands, Newborough Terrace; David Hughes, yr Allt; Richard Jones, Bodgybi; Richard Parry; Willie Hughes, Cefn Clynnog; Ellen Jones, Penrallt Isa; Jane Lewis, Tŷ'r Capel; Jane Mary Owen, Tŷ Cerrig; Mary Ellen Williams, Kate Jones, yr Allt; Dora Roberts, Mary Humphreys, Cout; Ellen Humphreys, Cae'r Hosan; Ellen Owen, Tyrpeg; Kate Roberts, Jane Roberts, Cout; Ellen Jones, Cilcoed Uchaf; Annie Roberts, yr Allt; Lizzie Jones, Cefn; Lizzie Owen, Tyrpeg; Jane Jones, Cilcoed; John Owen Jones (*Hyfreithon*), David Pierce Jones, Ysgol Ramadegol.

CANGEN PENNAL.

897—909.

Jennie Evans, Gwen Evans, Callanbach; Richard Davies, Cwrt; Ada Sarah Arthur, Charles Ostyn Arthur; Kate Jones; Ellen Letham, Annie Letham, Lizzie Letham, Edwin George Letham; Enid Rowlands, Siop y Bont; Elizabeth Ann Williams, Griandy; Lizzie Mary Davies, Marian.

910. Meiriona Lloyd, 45, Iron Lane, Georatown, Merthyr.

CANGEN FOURCROSSES, LLEYN.

911, 912.

W. Morris Williams, Ysgol Genhedlaethol Plasgwyn.
Willie Owen, Rhodfa Salem, Fourcrosses.*

CANGEN LLWYDCOED, MORGANNWG.†

913—927.

R. Rogers; J. Lewis, G. Lewis; W. Rees Davies; Daniel Walters; D. Jenkyn Jones; Maggie Davies, J. Hywel Davies; J. Lewis Thomas; Gethin Roberts; Mair Jones; Mary Williams; Maggie E. Charles; Morgan Davies, Annie Davies.

SEFYDLU URDD Y DELYN YNG NGHLYNNOG.

Cyferfu plant Clynnog Fawr, nos Wener, Chwefrol y trydydd, i ymuno â llu eraill o aelodau Urdd y Delyn. Yr oeddynt yn llawn nwyf ac yn siriol. Meddylant y byd o roi eu henwau ar gof a chadw fel llw o ffyddlondeb i'r delyn â Chymru. Difyr ydoedd gweled fod plant yn sylwi cymaint ar reolau yr Urdd.

Cyflwynwyd bathodyn Urdd y Delyn yng ngwydd aelodau newydd Clynnog, i Ellen Jones, Penrallt Isaf, am draethawd cryno a syml ar Eben Fardd.

Llunir cydymgynull bob nos Wener i ddysgu "Hanes Cymru," a chanu yr hen alawon; ac hetyd i hyfforddi'r plant yng ngwersi bywyd eu hynafiaid a Iesu Grist.

Mae Cymraeg plant y gangen newydd hon yn bur loew, ond

* Gor-or-wyr i Robert Jones Rhos Lan.

† Dylasai hon fod wedi ymddangos ers tro; hi yw'r rhestr gyntaf o Lwydcoed, a thrwy amryfusedd y gadawyd hi allan.

hyderir ei goethi wrth ymrwbio yn llenyddiaeth ddiifyr a hawdd ei deall ddarperir ar gyfer Urdd y Delyn.

Teimla Mr. Griffith Roberts, y Post Office, gryn ddyddordeb yn y symudiad, a sicr yw y gofala am dani tra bydd iechyd yn ei ruddiau. Mae amryw o fechgyn a merched ieuainc hefyd yn selog am hyrwyddo buddiannau yr Urdd.

EDWARD EVANS.

GAIR O FRON CYSYLLTAU.

Parha y cyfarfodydd yn llawn bywyd yn y Fron. "Urdd y Delyn" yw popeth gan y plant. Bu Mr. Parry, ysgol-feistr Acrefair, gyda ni rai wythnosau'n ol yn rhoddi darlith arbrawfiadol ar "Effeithiau Alcohol ar y corff;" yr oedd y plant yn ei mwynhau yn ardderchog, ac yn tynnu gwersi pwysig oddiwrthi.

Arddanghosir darluniau trwy gyfrwng y llusern ledrith nos Wener nesaf,—darluniau o'r merthyron. Bwriadwn bwrcasu llusern o'n heiddo ein hunain, yn perthyn i'r Urdd. Yr unig ddiifyg a deimlwn ar hyn o bryd ydyw cael darluniau (*slides*) Cymraeg. Gan y daw yr Urdd yn fuan yn allu yng Nghymru, goddefwch i mi dafu awgrym, a dyma fo,—Oni fyddai'n bosibl ffurfio rhyw gynllun cyffelyb i'r "Wesleyan Sunday School Union," i gael *slides* yn darlunio hanes Cymru, manau genedigaeith ei henwogion, lleoedd o ddydd-ordeb, &c.

HUW PARRI.

BWLCH GWYN.

Mae Pwyllgor Gobeithlu Capel y Wesleaid ym Mwlch Gwyn wedi penderfynu troi y Gobeithlu yn gangen o Urdd y Delyn, gan fabwysiadu rheolau'r Urdd a defnyddio y llyfrau,—“Diarhebion Cymru,” “Islwyn i'r Plant,” “Diliau'r Delyn,” ynghyda llyfrau Cymraeg eraill yn y cyfarfodydd. Dysgir hanes Cymru i'r plant, ac ymdrechir gan athrawon twymgalon i ddadblygu ysbryd gwladgarwch ynddynt. Cynhelir y cyfartodydd bob yn ail nos Fawrth. Daw yr enwau eto.

I'W DDARLLEN YN DDIFYFYR.


WRTH y felin gwelais ddyn yn llyncu ceffyl gyda phwn o flawd ar ei gefn a dau asyn prudd yn sefyll ar eu huntroed yr oedd twr o blant direidus yn rhedeg trwy bibelli tynnai dau ddyn gymylau o fwg mewn troliau yr oedd wyth o foch tewion yn canu bäs yn hamddenol yr oedd dyn o'r De a haid o train uwchben a gwraig garedig yn dweyd y ffordd i Lanfairfechan.



LLECYNNAU TLYSAF CYMRU.

17. Llyn Tegid,

COFIANTAU BYRION.



YMERAIS daith ddoe, tra'r haul yn gwenu'n brydferth, i fynwent yn y wlad yn Lloegr. Ni bydd arnaf ofn wrth fynd i fynwent yn awr; porth tawel y nefoedd ydyw i mi. Byddaf yn gweld bedd plentyn ymhob mynwent. Yr oedd un felly yn y fynwent hon, rhwng colofn uchel ardderchog ar fedd cadfridog a cholofn ar ei gorwedd ar fedd hen athraw. Naw oedd oed y bychan, unig blentyn ei dad a'i fam. Sais bach oedd, a Saesneg oedd yr adnod ar ei fedd,—

“Is it well with the child? It is well!”

Dan yr adnod y mae darn o farddoniaeth ar y groes Roegaidd ar y bedd bychan,—

“The child arose
And crossed thy threshold and beheld thy face,
O God, in peace. He will not come to us,
But we will haste across the fading hills,
And so to Thee.”

LLYWELYN, mab Mr. a Mrs. Francis Hughes, Rhiwbrydir. Cana Richard Jones, Morfa Bychan, am dano,—

Planhigyn oedd Llywelyn
Yng ngardd eich teulu chwi,
'R oedd yn eich bryd ei feithrin,
A'i ddwyn i barch a bri;
Ond croes i'ch dymuniadau
Oedd bwriad Nef yn hyn,
Daeth gwys i'w gyrchu adrau
I fod yn angel gwyn.

Wrth golli deigr yn hiraeth
Ar ol eich plentyn gwiw,
Fe leddfa'r brofedigaeth
Wrth gofio fel mae'n byw;
Yn gwisgo anfarwoldeb,
A chanu'n berffaith iach
Ar fryniau anfarwoldeb,
Y mae Llywelyn bach.

MARY LIZZIE, merch Mr. John W. Roberts, Bryndu; fu farw yn dair blwydd a 4 mis oed.

Ow, Mary bach, eich geneth dlws,
I'r gweryd dwys y gwyrodd,
Cyn profi gwên y byd na'i wg
O'ch golwg fe lwy'r giliodd.
Aeth adre'n iach ym more'i hoes,
Uwch stormydd croes a gwywiant,
Ym mreichiau teg rhyw angel hardd
I ganol gardd gogoniant.
Rhostryfan.

Mae heddyw'n canu'n bur ei dawn
Am rin yr Iawn haeddiannol,
Anfarwol yw ei disglair wedd
Yng ngwlad yr hedd tragwyddol.
Chwi, riaint hoff yr eneth fwyn,
Sy'n fawr eich cwyn a'ch gofid,
O mynnwch drwydded dwyfol waed
I'r wlad sydd ddigyfnawd.

WILLIAM OWEN (*Trysfanog*).

TEDDY, unig fab John a Jane Edwards, Tŷ Capel, Moss Side, Manchester,—bu farw ar doriad gwawr y flwyddyn newydd, yn bymtheg oed. Yr oedd yn fachgen hoffus a dwys, ac y mae cân Gwilym Tanad yn ddarlun byw o hono,—

Gyda gwawrddydd cynta'r flwyddyn
Hedodd Teddy dros y glyn,
A'i gymeriad mor ddilychwin
Ag yw'r eiriawl yn ei wyn.

'Roedd ei ysbryd llednais tawel
Yn dwyn gwên i'w natur glaf,
Gan ein lonni, fel gwna awel
Lonni'r lleeg yn nhesni haf.

Gynt ceid gwenau disgwyliadau
Ar ei bryd i lonni'n gwedd,
Heddyw blodau ei rinweddau
Wenant ar ei ddistaw fedd.

Prudd oedd colli cu serchiadau
Anwyl un o'n daear drist;
Ond mae cysur yn ei eiriau,—
"Mam, rwy'n mynd at Iesu Grist."

Dyna oedd ei hoff bleserau,
Byw i'r Iesu oedd ei chwant;
Dilyn,—a chael nef fel yntau,
Fo i ddarllenwyr CYMRU'R PLANT.

Na hiraethwch, riant, isod,
Fry mae Teddy'n gwylio'ch gwedd,
Y mae ef yn nes na'r beddrod,
Mae y nef yn nes na'r bedd.

Uwch gofdiau, poen, a gelym,
Fry yng nghwmni plant y nef,
Fe ga bellach ganu 'i delyn
Gan eich gwahodd ato ef.



TEDDY.



ROBBIE, mab Mr. a Mrs. J. Williams, Marine Road, Abermaw,—bu farw Rhagfyr 19, 1898. Ebe J. Richards,—



ROBBIE.

Un anwyl iawn y teulu,
Aeth ymaith yn dair oed,
Daeth angel gwyn i'w gyrchu—
Ni chlywyd swm ei droed;
Cymerodd Robbie'n ebrwydd
O fynwes rhiaint cu,
I drigo yn dragwydd
Ym mynwes Iesu fry.

Mae hiraeth yn ymwithio
O hyd dan fantell ddu;
'R serchiadau—hwythau'n crwydro,
A 'mofyn—"Sut y fu?"
Mae ffyrdd y Gŵr a'i galwodd
Uwchlaw ein dirnad ni,
Yr un yw'r 'wyllys roddodd,
A'r un a'i dygodd fry.

Y CI A'R GWERTHWYR BRETHYNAU.



BLANT hoff o gŵn y mae'r ystori hon.

Ychydig fisoedd yn ol daeth gwerthwr brethynau at amaethdy anghysbell yn sir G—. Ac heb gymaint a rhoi cnoc ar y drws, aeth i mewn yn hyf, ac aeth ar ei union i gornel tu ol i'r bwrdd mawr; gan agor ei bac, ac argymell ei nwyddau.

Wedi iddo ddod i ddeall nad oedd neb yn y tŷ ar y pryd ond y ferch, dechreuodd regi, a bygythiai nad elai allan o'r tŷ os na phrynnai y ferch ddeunydd gawn ganddo.

Yn sydyn y gwnaeth Pero ei ymddanghosiad.

"Pero," ebai y ferch ieuanc, "nad ti i'r dyn yma symud ei droed o'r fan yma nes i mi nol y plismon ato."

Rhoddodd Pero gyfarthiad i ddangos ei gydsyniad iddi.

Yn y fan daeth y gwerthwr i deimlo ei sefyllfa a'i berygl; a llefai,— "Chi cael y prethyn am dim, ond i fi cael mynd allan."

"Nid cyn i'r plismon gael golwg arnoch, syr," oedd atebiad sur y ferch iddo.

Ac ymaith a hi i'r pentref i chwilio am dano; ac ymhen yr awr dychwelodd yn ol a'r plismon gyda hi.

A chawsant y gwerthwr yn yr un fan yn union, heb symud ei droed, a'i wyneb yn welw fel angau; a Pero yn syllu yn herfeiddiol i'w lygaid. Rhoddodd y plismon gerydd llym iddo, cyn ei ryddhau o'i garchar.


A phan orchymynnodd y ferch i Pero tyned i orwedd ar yr aelwyd, rhoddodd un cyfarthiad fel rhybudd iddo beidio dyfod byth eto at y tŷ.

Y foment y rhyddhawyd ef, aeth allan heb gymaint ac ad-drefnu ei bac, yng nghanol cywilydd ac euogrwydd.

A hawdd gwled ar wyneb y plismon a Miss— eu bod yn mwynhau yr olygfa yn fawr, ac yn cymeradwyo ffyddlondeb Pero.

Carmel.

ANNIE OWEN.



DOSBARTH LLYDEWIG YN YSGOL GWENGAM.

YSGOL LYDEWIG GWENGAM.

DYMA ddarlun o ysgol Lydwig coleg Gwengam (Llydaw). Sefydlwyd hi, yr ail yn Llydaw, ar ol Ysgol Lydwig St. Brioc, ddwy flynedd yn ol. Mae yn cynnwys tri o feirdd ieuainc, sydd yn enwog eisoes,—Cozic, An Du, a Marion.

Yr athraw yw Mr. Le Clerc, yr hwn sydd un o enwogion y llenyddiaeth Lydwig yn ein dyddiau ni.

Os da gennych weled gwynebau eich brodyr ieuainc tramor, daw feallai ddarluniau o ysgolion Lydwig eraill.

Montroulez.

JAFFRENNOU.



CAN Y FAM I'W BABAN.

FABAN tlws, a'r llygad gloew,
Y mae mami uwch dy ben ;
Mae dy wrid a'th wenau heddyw,
Fel yr heulwen yn y nen.
Pa ryfeddod sydd yn llechu
Yn dy lygaid disglauer syn ?
Dacw ddelw gwyneb mami,
Fel y lleuad yn y llyn.

Mae'th wefusau fel y cwrel,
Dacw bedwar dant bach gwyn ;
Gwrid y wawr, a'i bysedd angel
Fu yn lliwio'r gruddiau hyn.
Dwy ael deg, fel dwy fôr wennol,
Chwery'n llon ar ewyn lli :
Llygaid perlog, byw a siriol,
Sydd yn siarad wrthyf fi.

Beth yw iaith y syn feddyhau
Sy'n dy lygaid, blentyn hoff,
Wibiant ar eu troellog lwybrau,
Yn rhy chwim i'r tafod cloff ?
Ai'r dyfodol, ai'r presennol
Wena yn dy wyneb llon ?
Ai breuddwydion melus nefol
Sydd yn chwareu yn dy fron ?

O, fy maban, dywed imi
Beth a fydd i ni ein dau ?
Yn dy freuddwyd beth a weli,
Sydd yn gwneyd it' lawenhau ?
Ai hir oes o hedda a chariad,
Drwy y byd heb gwmwl du ?
Ynte gweld mae'th loew lygad
Goron aur a thelyn fry ?

Ai'r presennol sy'n dy dwyllo,
Fy niniwed faban cu,
Drwy roi lliwiau teg i guddio
Hagrwrch y dyfodol du ?
A gaiff gofid welwi'th ruddiau,
A gaiff dagrau rychu'th wedd,
Pan fo'th fam o swm d' ymbiliau,
Wedi ei chuddio yn y bedd ?

O, fy maban tlws, cariadlon,
Os yw mami heddyw'n brudd,
Dagrau cariad, dagrau calon,
Sydd yn disgyn ar dy rudd ;
Ond ni chaiff ei holl ofidiau
Hi bruddhau dy lygaid llon ;
Cai di wenu, er i ofnau
Creulon gnoi y galon hon.

Ah, ni chaiff y byd helbulus,
Gennad eto i'th bruddhau ;
Wrth swm nodau'm cân gwynfannus,
Mae d' amrantau yn llesghau ;
Angel cwsg â'i aden guddia
Boen a gofid rhagot ti ;
Cariad dwyfol mam a'th wylia,
Cwsg, O cwsg, ar fy mhientyn i.

Cwsg fy maban ar fy neulin,
Y mae mami uwch dy ben ;
Cwsg fy maban, cwsg fy mherilyn,
Mae'th ddyfodol o dan len.
Os ca mami fyw i'th fagu,
Os dy wyllo'n hir a ga,
Neu os gweli di ei chladdu,
Os cai fyw, bydd fyw yn dda.

LLEW TEGID.

PAM MAE TRWYN CŲN OER.

UN o wledydd anferth y byd yw Canada. Y mae miloedd ar filoedd o aceri dan goedwigoedd heddyw, ond fydd, yn ol pob tebyg, dan feusydd cnydfawr cyn pen y can mlynedd.

Yng ngwlad y coed, yr afonydd, a'r llynnoedd mawrion, crwydra eto dylwythau o Indiaid. Ar hela y maent yn byw. Pan fydd digon o helwriaeth, bydd byd da arnynt hwythau. Pan fydd yr helwriaeth yn brin, yn enwedig yn y gauaf, trenga yr hen a'r methodig, y plant a'r gwragedd, ie, lwyth cyfan weithiau.

Mae ganddynt grefydd a thraddodiadau. Syrthiant ar eu gliniau pan welant yr haul yn codi. Saith broffwyd, yn edrych yn ddifrif-ddwys arnynt, yw saith seren yr Aradr. Cenhadon fflamlyd Duw, tybiant hwy, yw'r ser yng ngwregys Orion.

Mae ganddynt draddodiad am y diluw. Dywedant fod Weisacisac, —eu Noah hwy,—yn wr cyfrwys iawn. Medrai dwyllo pob anifail, ond y llwynog. Efe gadwodd yr anifeiliaid yn fyw, mewn cwch mawr, yn adeg y diluw.

Gwyr pawb fod trwyn ci yn oer iawn. "Cyn oered a thrwyn ci" ebe'r ddihareb. Dyma fel yr esbonia'r Indiaid oerni trwyn y ci. Ryw dro tarawodd y cwch, a'r holl anifeiliaid ynddo, yn erbyn craig. Torrwyd twll yn ei waelod, a dechreuodd y dwfr ffrydio i mewn. Beth a wnaeth Weisacisac ond cydio yn y ci, a safai gerllaw, a gwthio ei drwyn i'r twll, i atal i'r dwfr ddod i mewn. Yr oedd y dŵr yn oer iawn, ac nid yw trwyn y ci wedi cynhesu byth.

Y GWANWYN.

Daw y gwanwyn llon i'r byd
Yn llawn o serch a swynion;
Gan gusanu'r byd i gyd,
Cara'n daear dirion.

Daw a gwisgoedd newydd braf
I'r ddaear glaf yn hapus;
A'r rhai gorau fedda Naf
Rhydd ef fel hafddydd melus.

Gwyrddu'r ddaear mae yn gu,
Glasu'r nefoedd hefyd;
Gwyrddu, glasu, dyna'i waith,
Ymdaith wna yn hyfryd.

Treorci.

Daw a dail ac adar bach,
Gyr ganu iach i bobman;
Rhoddi dail ac adar mae,
Ar gangau'r coed yn ddiddan.

Dan ei swynion ef bob tro
Mae'r fro yn llawn o gariad;
A a'r byd dros hudol ris
Ei hapus weddnewidiad.

Ni throediodd ef erioed i'r byd,
Heb flodau drosto'n dryfrith;
Ac o dan ei ddwylaw braf
Try'r gauaf fyth yn fendith.

DAVID BOWEN (*Mysyr Hefin*).

BREUDDWYD YR IEN GODWR CANU.



YR HEN DDECHREUWR CANU.

A R ol gwasanaeth tra ffyddlon yn codi'r canu am fwy na deng mlynedd ar hugain, y mae Rhys Tomos wedi newid ei gynulleidfa a'n gadael. Pan yn edrych am dano rai misoedd cyn ei farw, adroddodd wrthym y breuddwyd hwn a gawsai noson neu ddwy cynt.

"Gwelwn fy hun," meddai, "yn cerdded hyd ffordd wastad a ddilynai lan aton weddol lydan. Yr ochr draw yr oedd tir glaswelltog tyner, gyda llwyni tlysiion o goed o dan heulwen hafaid. Yn y man clywn lais peraidd clir yn dweyd fy enw. Edrychais, a gwelwn yn sefyll ar fy nghyfer wr o ymddanghosiad hardd ac urddasol. Creffais arno am beth amser heb ei adnabod; ond meddyliwn ei fod yn debyg i John Jones, Blaen Annerch, a

gofynnais dros y dŵr,—

'Ai Mr. Jones ydych chiwi, deydwch.'

'Ie,' meddai, gan wenu arnaf.

'Wel rydw i bron yn methu eich nabod,' meddwn innau, 'yr ydych yn edrych yn llawer iawn ieuengach na'r pryd yr oeddych yn pregethu yng nghapel Bryn Bachau y prydnewn hwnnw yn y cynhauaf gwlyb bymtheg mlynedd ar hugain yn ol.'

'Ydwyf,' mae'n debyg, 'tydi henaint yn blino fawr ar neb yma. Ond beth feddyliwch o rhain?' meddai, gan dafu ei law i gyfeiriad llwyn o goed cauadfrig, o dan gangau y rhai y safai nifer o gantorion yn cael eu harwain gan ŵr ieuanc deniadol ei bryd. Yr oedd y canu y mwyaf tyner a phersain, a'r goreu glywswn erioed.

'Wel, dyna gôr, ynte Mr. Jones,' meddwn, 'does dim discord yn y lleisiau yna.'

'Nac oes,' meddai, 'yr ochr yna i'r afon yma mae hwnnw, welwch chiwi; wyddom ni ddim am dano.'




JOHN JONES, BLAEN ANNERCH.

Bu farw Rhys Tomos y dydd cyntaf o'r flwyddyn hon, a dodwyd ei gorff i orwedd ym mynwent Abererch, lle gorffwys gweddillion Rhobert Ap Gwilym Ddu, emynnau yr hwn a ganodd gyda blas gannoedd o weithiau.

D.

 Cytfeiriad y golygydd yw.—OWEN M. EDWARDS, 3, CLARENDON VILLAS, OXFORD.

ARGRAFFWYD A CHYHOEDDWDYD GAN HUGHES AND SON, 56, ROSE STREET, WREKHAM



YSGWRS Y GOLYGYDD.

Gwelir y feirniadaeth ar yr hanesion ar dudalen arall. Cefais gasgliad campus, a chaiff llawer ohonynt ymddangos. Yr oedd beirniadu yn waith anodd. Penderfynais yn ffafwr ystoriau byrion, cynhwysfawr, naturiol, tarawiadol. Y mae llawer o'r ysgrifenywyr galluocaf a mwyaf gwreiddiol yn colli mewn symlrwydd cynllun. Dylai ystori fod yn gyfanwaith dealladwy, fydd yn aros i gyd yn y meddwl wedi ei darllen.

—Y testyn nesaf fydd “Paham mae fy ardal yn hynod?” Rhoddir yr un wobwr, sef *Gwaith Islwyn* i'r goreu; a rhennir gwerth tua phumpunt o lyfrau rhwng yr ymgeiswyr eraill, os bydd teilyngdod. Y mae'r ysgrifau i gyrraedd O. M. Edwards, Lincoln College, Oxford, cyn neu ar y dydd cyntaf o Orffennaf.

Y mae blociau CYMRU'R PLANT ar werth, am brisiau isel iawn. Ymofynner â'r swyddfa; nac ysgrifenner at y golygydd, onide rhaid i'r llythyr fynd i'r fasedd. Goddefer i mi hysbysu nas gellir rhoddi benthyg y blociau hyn o hyn allan, gan eu bod yn awr ar werth; sylwerau ar hyn.

Y mae gwaith gohebu dirfawr gyda CHYMRU'R PLANT, fel y gellir meddwl. Am hynny maddeuer i mi am fethu ateb llythyrau weithiau,—y mae'n amhosibl eu hateb i gyd. Anfoner pob peth ynglŷn â cherddoriaeth i Mr. L. J. Roberts, M.A., Tegfan, Rhyl.

—Un tudalen sydd gennyf i'w roddi i Urdd y Delyn y mis hwn. Gwelir fod rhif yr aelodau yn awr yn 971,—y mae dau o'r 973 wedi marw. Y mae digon o enwau wedi dod, yr wyf yn meddwl, i'w gwneyd yn fil; ond nid oes le iddynt dan y rhifyn nesaf.

Y mae Cymru oll yn galaru, tra yr wyf yn cael yr olwg olaf ar brawflenni'r rhifyn hwn, am y pur a'r caredig T. E. Ellis.



LLECYNNAU TLYSAF CYMRU.

v. Aberglaslyn.



MAI. 1899.

CYF. VIII. RHIF 89.

EIN CANTORION.

MAE'R adar wedi dechreu nythu. Maent wedi gweithio'n galed i wneyd y nyth,—wedi cael deilen acw a glaswelltyn yma, wedi cael pluen ar y cae a thusw bychan o wlan ar y mynydd. Mor gelfydd, mor gain, yw eu gwaith. A gwnant ef dan ganu'n felus. A chawn ninnau glywed eu cân. Cyn hir bydd wyau bychain yn y nyth,—rhai gwynion a spotiau gleision, spotiau cochion, pob lliw prydferth. A chyn hir daw cywion bychain, i agor eu pigau pan glywant swm eu tad a'u mam yn dod a bwyd iddynt. A oes plentyn mor galon-galed trwy Gymru fel y gall dynnu nyth neu ladrata wyau? Os oes, gocheler ef.

Y DDAU HOGYN RHEINY.

GAN WINNIE PARRY.

V. EIN TAITH O'R ORSAF I BENYBRYN, A DERBYNIAD "Y DDAU" YNO.

NID wyt yn bwriadu manylu ar bob dydd o arhosiad "y ddau" ym Mhenybryn, ond gan fy mod wedi dechreu hanes diwrnod eu dyfodiad, feallai y byddai well i mi ei offen.

I ddychwelyd i'r man y gadawais hwynt yn y bennod o'r blaen, wedi penderfynu brwydr y bag du drwy gyfrwng y parasol coch,

cychwynasom ar ein ffordd. Yr wyf yn credu ein bod, fel gorymdaith o dri, wedi creu dipyn o chwilfrydedd ar ein taith drwy y pentref. Yr oeddem yn cychwyn o'r orsaf yn weddol bwylllog, un o bob tu i mi, y mwyaf a'r bag yn ei law a'r llall a'r parasol, heb ei agor eto beth bynnag. Deallais yn fuan mai'r bychan oedd y mwyaf rhydd ei ymadrodd. Dechreuodd gyfrannu gwybodaeth i mi gyda ein bod wedi cychwyn,—

“Robert Henry Thomas ydi f'enw i,” meddai, “a William John Thomas ydi enw Willie. Bobbie a Willie fydd mam yn ein galw ni.” Ac ar ol edrychiad difrifol yn myw fy llygaid ychwanegodd mewn llais un yn cyflwyno braint anrhaethol,—“Mi gewch chi'n galw ni fel bydd mam, yn ceith Willie?” Cydsyniodd hwnnw drwy blygu ei ben unwaith neu ddwy, ac aeth Bobbie ymlaen. “Mi dw i'n chwech, a Willie'n mynd yn wyth, mi gês i firthday dwrnod cyn ddoe, chafodd Willie 'run.”

“Mi geith Willie firthday rhyw ddiwrnod, yn cewch, Willie?” meddwn, er mwyn cadw pethau yn wastad rhwng “y ddau.”

“O mi fydd Shon y Sach wedi mynd a fo i rwla cyn hynny.”

“Taw, was,” dechreuai y llall, ond rhoddais fy llais i mewn drachefn.

“Fyddwch chi'n mynd i'r ysgol?” gofynnais. Willie atebodd y tro hwn.

“Mi fydda i'n mynd, fydd o ddim, mae o'n rhy fychan.”

“Mi dw i gimint a chti, a mi fedra i gimint a fo. Mi fedra i ganu'r 'Deryn Pur.' Dach chi'n gwbod honno? Fel hyn mae hi.” A dechreuodd ganu'r alaw honno mewn llais treiddiol. Yr wyf yn eithaf hoff o wrandaw alawon fy ngwlad mewn lle ac amser priodol, ond, o dan yr amgylchiadau grybwyllais, yr oedd gennyf wrthwynebiad cryf i'r “Deryn Pur.” Peth annoeth oedd i mi adael i Bobbie weled hynny, fodd bynnag, oblegid gwnaeth ef yn fwy awyddus i fyned ymlaen. Pan welodd fy mod am ddangos fy ngwrthwynebiad mewn modd effeithiol, rhoddodd led yr heol rhyngom, ac wrth wneyd hynny colodd ei het, elastic yr hon, fel y crybwyllais, oedd wedi cyfarfod â damwain. Awgrymodd hyn iddo ddull o dynnu mwyf yth o sylw atom. Gosododd yr het ar flaen fy mharasol, a chan ei dal gan uchod ag y gallai, cerddai ymlaen dan ganu am y “Deryn Pur a'r adain lās.” Meddyliais na wnawn ond colli urddas pe bawn yn ceisio ei gyrraedd i gael y parasol o'i afael. A pheth arall, nid oeddwn yn sicr pa un ohonom gaffai y fuddugoliaeth mewn ymdrech o'r fath, gan nas gallaf ymfrostio mewn rhyw lawer o nerth braich. Tua hanner y gân teimlodd Willie awydd uno ynddi, ac yr oedd yn duet o hynny i'r diwedd. Yr wyf yn credu mai rhywun direidus oedd wedi ei dysgu iddynt, oherwydd nid ar y nodyn arferol y darfu iddynt

derfynu, ond wythfed yn uwch, a daeth y nodyn hwnnw allan gyda bloedd anferthol.

Dianghenrhaid yw dweyd ein bod yn tynnu sylw y pentrefwyr. Yr oedd rhywun ar ben pob drws bron. Gwelais Margiad bach yn rhedeg allan o'r tŷ pobty, a rhywbeth yn ei llaw, ac yn sefyll yn stond ar ganol y ffordd pan welodd hi fi; a gwyddwn mai ei mam oedd wedi ei danfon, gan dybio mai rhyw gardodyn bach oedd yn canu, ac mai ceiniog yr oedd yn ei ddal mor dyn yn ei llaw fechan.

Edrychai y rhan fwyaf arnom yn syn, a gwenai ambell un, ond ni feiddiodd neb ddod ataf i ofyn eglurhad ar y peth. Mae arnaf ofn fod rhywbeth anymunol yn fy edrychiad oedd yn ddigon i gadw tafod hyd yn oed Mrs. Williams Tŷ Canol yn llonydd.

Nid bychan oedd fy niolchgarwch pan gyrhaeddasom ddiwedd y pentref, ac y troisom i'r ffordd gymharol unig sydd yn arwain i Benybryn. Wedi i ni fyned o olwg tai y pentref, ciliodd cyfran o'u brwdfrydedd. Rhoddodd Bobbie ei het am ei ben, a cherddodd wrth fy ochr, yn dwyn fy mharasol yn weddol drefnus. Ni pharodd pethau yn y cyflwr hapus yma, fodd bynnag, ond am yspaid byr. Cofiodd fod y parasol yn agor, ac ni fu yn hir heb ei ledu i'w lawn faintioli, ac wrth fod y ffordd braidd yn gul, a chlawdd draeniog o bob tu iddi, clywn y sidan yn rhwygo yrwan ac yn y man, ac yr oeddwn yn ceisio dyfalu faint o hono fyddai ar y ffram, a faint ar y drain, erbyn i ni gyrraedd Penybryn; a gobaith gwan oedd gennyf am ei gyflwr pan ddelem i ben ein taith.

Tua hanner y ffordd cyfarfyddodd Hannah ni, yr oedd yn rhedeg a'i gwynt yn ei dwrn, Miss Jones wedi ei hanfon i edrych oedd rhywbeth wedi peidio digwydd i'r trê, wrth ein gweled mor hir yn gwneyd ein hymddanghosiad.

"Faint ydi o'r gloch, Hannah?" gofynnais.

"Mae hi tua hanner awr wedi saith, Miss Evans." Yr oeddem wedi bod dri chwarter awr yn dod, yn lle rhyw ddeg i bymtheg munud, yr amser arferol gymerai i mi fyned o'r orsaf i Benybryn. Cynhygiodd Hannah gymeryd y bag o law Willie, ond gwrthododd ei chynorthwy yn bendertynol iawn. Cafodd Hannah ei dymuniad cyn hir, er hynny.

Deuthum i olwg lliidiart Penybryn. "Dacw'r lle yr ydan ni'n mynd," meddwn. Synnais braidd at y modd y derbyniasant y wybodaeth yma. "Hei, Bobbie, dacw giat iawn i siglo." Gollyngwyd y bag a'r parasol, a charlamodd y ddau yng nghyfeiriad y "giat iawn." Ni fuont eiliad yn dringo i'w phen, a dyna lle yr oeddynt yn "siglo" ys dywedent. Cyn i Hannah a minnau eu cyrraedd yr oedd Miss Jones a'i chwaer wedi dod allan o'r tŷ wrth glywed swm y lliidiart. Ni ddarfu iddynt ein gweled ni ar unwaith, mae eu golwg

'braidd yn fyr, a deallais fod camgymeriad pur naturiol wedi cymeryd lle. Clywn Miss Jones yn dweyd,—

“Cerwch i lawr, blant, oddiar y giat 'na mewn munud. Wyddoch chi fod drwg am ddringo giatia pobol?”

“Ia,” meddai Cati, “mae yn beryg iawn i chi frifo. Cerwch adra mewn munud, mae hi'n amser i blant bach fod yn 'i gwelyau.” Ond nid oedd yr un o'r ddau yn cynnyg symud, ac fel y deuthum i fyny clywn Bobbie yn ateb gyda ei eofndra arferol,—

“Fan 'ma da ni'n mynd i fyw tra bydd mam i ffwrdd hefo tada. Mae'n tada ni'n sâl, wyddoch, a mi dw i'n gwbod be di'ch henw chi, a chi hefyd,” ac yn pwyntio ei fys at Cati, “Cati a Margiad, ond mae mam yn deyd mai Auntie Margiad a Auntie Cati ydan ni i alw arnoch chi. Chi bia'r poni acw?” gan gyfeirio at Sallie, yr hen ferlen hanner dall, ieuencyd yr hon oedd wedi ei dreulio yn nyddiau euraidd Peñybryn.

Trodd Miss Jones ataf lle y safwn wrth y lliidiart, fel yn gotyn am eglurhad. Nis gallwn edrych yn ei gwyneb rhag ofn i mi chwerthin. Ceisiais ddweyd mor ddifater ag oedd modd,—

“Dyma ni o'r diwedd, Miss Jones. Mae Bobbie a Willie wedi blino mae arna i ofn.” Nis gallwn lai nag edmygu hunanfeddiant Miss Jones dan yr amgylchiad. Trodd at “y ddau,” ac meddai, fel pe buasai heb ddweyd gair o gerydd wrthynt ynglŷn â'r lliidiart,—

“Ddowch chi ddim i lawr i ysgwyd llaw a rhoi cis i mi? Prun ydi Bobbie?” Neidiodd Bobbie i lawr ac estynnodd ei law iddi. Tynnodd ei ben yn ol, fodd bynnag, pan y gwnaeth osgo i roddi cusan iddo. Ond gofynnodd iddi gyda'r ditrifolder mwyaf,—“Prun di Cati?” Edrychodd Miss Jones arno braidd yn amheus, fel pe yn meddwl ei fod yn gwneyd gwawd ohoni; cyfeiriodd ei bys at ei chwaer, heb ddweyd dim fodd bynnag, a rhoddodd ei law yr un modd i honno. Yr oedd Willie wedi dod i lawr erbyn hyn, ac aeth yntau drwy yr un ffurf o gyfarchiad.

Yr hyn dynnodd eu sylw gyntaf wedi myned i'r tŷ oedd Spot y ci, a'r gath, y rhai oedd yn cysgu'n esmwyth un ar bob pen i'r soffâ. Gwnaeth y ddau am danynt gydag ynni anarferol, ac nid wyt yn meddwl iddynt erioed gael eu deffro o'u cwsg yn y fath fodd disymwth o'r blaen. Llwyddais i'w hachub o'u crafangau drwy alw sylw'r “ddau” at y danteithion oedd yn eu disgwyl ar y bwrdd.

Gofynnodd Miss Jones iddynt o'tyn bendith cyn dechreu, ac aeth Bobbie drwy y geiriau canlynol mor gyflym ag oedd modd,— “Bendithia O Arglwydd y bwyd o'n blaenau, er mwyn Iesu Grist, amen.” Ac ar yr un gwynt,—“Ga i beth o'r jam 'na, Auntie Cati?” tra y clywid llais Willie yn dweyd,—“Ddaru ti ddim i ddeyd o'n iawn, Bobbie.”

Yr oedd "y ddau" yn weddol lonydd tra y buont yn torri eu newyn a'u syched. Bobbie oedd y cyntaf i ddigoni ei hun, a chyn hir dechreuodd edrych o'i gwmpas. Yr oedd yn hongian ar y mur gyferbyn ag ef ddarlun o Miss Jones wedi ei dynnu lawer blwyddyn yn ol. Yr oedd gwn gwyn am dani, a rhosyn coch yn ei gwallt. Gwelwn Bobbie yn syllu'n astud ar y darlun, ac yr oeddwn yn ceisio dyfalu beth fyddai firwyth ei fyfyrdodau.

"Pwy di honna?" gofynnodd o'r diwedd i Miss Jones, gan estyn ei fys at wrthrych ei astudiaeth. Trodd yr hen ferch ei llygaid i'r cyfeiriad, ac yr oeddwn yn dychmygu clywed ochenaid yn yr ateb,— "Fi ystalwm iawn, Bobbie." Astudiodd y bychan y darlun wedyn am beth amser. Yna gofynnodd iddi mewn dull hynod awdurdodol,—"Wyddoch chi i le bydd pobol yn mynd am ddeyd anwiradd?" Nid oedd Miss Jones rhyw barod iawn gydag atebiad i'r gofyniad rhyfedd yma, a throdd yr holwr bychan at ei frawd. "Dywed wrthi hi, Willie, i ble ceith pobol fydd yn deyd anwiradd fynd."

"I'r tân mawr" meddai hwnnw, mewn llais plentyn yn ateb yn yr Ysgol Sul.

"Dach chi'n clywed lle cewch chi fynd?" gofynnodd y lleiaf wedyn i Miss Jones. Dechreuodd honno amddiffyn ei hun. "Ddaru mi ddim deyd anwiredd, Bobbie."

"Wel do, yn deyd mai chi di honna," ac yn dangos y darlun. Yr oeddwn yn gweled fod dadl ddiertyn ar ddechreu; a meddwn,—

"Fyddda ddim well i mi fyned a nhw i'w gwelyau, Miss Jones? Mae nhw wedi blino dw i'n siwr."

"Ia wir, Elin, os ewch chi." Yr oeddynt mewn gwirionedd wedi blino, a chefais i fawr o drafferth i gael ganddynt orwedd yn llonydd o dan y dillad.

Wedi dweyd 'nos dawch' wrthynt es i fy ystafell fy hun i chwilio am lyfr neillduol i'w ddarllen. Wrth fyned heibio eu drws, ar fy ffordd i lawr, clywn lais Willie yn rhifo teulu Penybryn yn y drefn ganlynol,—

"Mae 'na gath a chi, a poni a chynffon hir, Bobbie, a dwy hen ddynes, a'r forwyn, a'r hogan 'na." Y fi yn ol pob tebyg oedd yn myned o dan yr enw urddasol diweddfaf. Nid oeddwn wedi bod i lawr mwy na hanner awr na chlywn i swm crio yn y llofft, a rhedais i fyny i edrych beth oedd yr helynt. Y peth cyntaf glywais oedd Bobbie yn dolefain,—

"Mae arna i isio mam, O mami, dowch yma." Yna deuai llais Willie,—

"Paid a chrio, Bobbie bach. Ddoi di i chwara llong, a mi gei di fod yn gaptan?" Gwanhaodd y crio am eiliad, ond nid oedd swyn i Bobbie mewn chwareu llong y noson gyntaf honno heb ei fam, ac:

-ailldechreuodd grefu am dani yn fwy chwerw byth. Dioddetais heb fyned i fewn er mwyn i mi gael dadblygiad pellach o alluoedd Willie i ddwyn cysur i'r bychan. Y peth nesaf glywais oedd,—

“Ga i waeddi fel mochyn yn cael 'i ladd?” Distawodd y dolefain torcalonny yn sydyn, ac yna dechreuodd y rhuadau mwyaf ofnadwy glywais erioed am wn i. A rhedodd y ddwy Miss Jones a Hannah i fyny'r grisiau mewn dychryn mawr i edrych beth oedd yn bod. Yr oeddwn wedi myned i fewn erbyn iddynt gyrraedd, ac wedi gosod fy llaw ar enau Willie, ond yr oedd Bobbie wedi ail ddechreu dolefain. Cefais y cerydd canlynol gan Willie pan gafodd ei enau yn rhydd o fy llaw,—

“Y beth wirion, dasa chi wedi gadael llonydd i mi waeddi fel mochyn yn cael i ladd, mi fasa wedi peidio crio ers meityn.”
 Fodd bynnag, llwyddais i gysuro Bobbie heb ail ddatganiad y mochyn hwnnw, ac ni chlywyd ychwaneg o'u swm y noswaith honno.

O DIOLCH ITI, GWCW FWYN.

O DIOLCH iti, gwcw fwyn,
 Am ddod yn ol i ganu;
 Dos ar dy daith o lwyn i lwyn,
 I lonni bryniau Cymru;
 “Cw-cw! cw-cw!” sydd ymhob lle,
 Mae'r gauaf wedi darfod;
 “Cw-cw! cw-cw!” rhown lon hwre,
 Mae hir-ddydd haf yn dytod.
 Mae'r ŵyn yn chware ar y bryn,
 Yn swm canladau'r hedydd;
 A phob hen fynydd anwyl fyn
 Ymwisgo 'i dillad newydd;
 “Cw-cw! cw-cw!” adseinia'r ffyrdd,
 Myn popeth dy groesawu;
 “Cw-cw! cw-cw!” mae blodau tyrrd
 O glust i glust yn gwenu.
 Aderyn hoff, mewn bri cei fod,
 Am ysgyfnhau gofidiau;
 Awelon balmaidd sydd yn dod
 A gwrid i lwydion fochau;
 “Cw-cw! cw-cw!” mwynderau gawn,
 Mae'r byd mewn hwyl yn canu;
 “Cw-cw! cw-cw!” cyd-lawenhawn,
 Mae'r nef uwchben yn gwenu.

Y Bala

RICHARD AB HUGH

LLEIDR Y FFACTRI.

Anfonwyd gan J. R. Hughes, Trem Idris, Trawsfynydd.

MEWN man neillduol yn L.— y mae ffactri fawr, yn yr hon y mae llawer iawn o glercod yn ennill eu bywoliaeth. Ond nid wyf am roddi hanes y cwbl i chwi, eithr rhyw ddau ohonynt,—un yn gyfoethog a diog a digydwibod, a'r llall yn dlawd a diwyd a gonest. Yr oedd y tlawd wedi dringo yn uwch na'r gŵr cyfoethog, ac am hynny yr oedd y cyfoethog yn genfigennus iawn wrth y tlawd.

Aeth misoedd heibio cyn iddo gael bwrw ei genfigen. Ond rhyw ddiwrnod y mae yn clywed rhai o'r swyddogion yn dwedyd wrth eu gilydd fod pethau yn cael eu lladrata o ddesc y prif-swyddog, a'u bod am geisio dal y lleidr. Meddyliodd y cyfoethog y cawsai gyfleusdra i ddial ar y tlawd trwy y lladrad hwn. Rhyw ddiwrnod mae y prif swyddog yn myned allan, ac nid oedd yr un o'r swyddogion eraill i mewn. Gadawodd y prif swyddog swm o arian mewn bag ar y ddesc. Gwyddai y cyfoethog beth oedd yn y bag ar y ddesc; ac y mae yn myned at y ddesc, ac yn cymeryd rhywbeth oddiyno. Y mae yn myned i'w le, ac ymhen ychydig yn myned i'r seler, lle y cedwid dillad,—cobau uchaf a hetiau, ac yn rhoddi rhywbeth yn llogell cob uchaf y dyn tlawd, yr hon oedd yn crogi uwchben ei gob ei hun, ac yna yn myned i'w le drachefn.

Ymhen ychydig daeth y prif swyddog i mewn, a chan nad oedd yr arian ar y ddesc, y mae yn myned allan drachefn, a dyma heddeidwad yn ei ddilyn i mewn yr ail waith. Gofynnwyd i'r holl glercod a fu rhywun dieithr i mewn, pryd yr atebasant na fu neb.

Ar hynny dywedodd yr heddeidwad os na ddywedent pwy a ladrataodd yr arian y byddai iddo archwilio eu llogellau. A dyna y peth a wnaeth, ac yn llogell pwy y cafwyd yr arian ond yn llogell y cyfoethog. Ond pa fodd yr aeth i logell y cyfoethog?

Mi a ddywedaf i chwi. Yr oedd cerbydau trymion yn myned ar hyd yr heol uwchlaw y seler, ac hefyd yr oedd twll yn llogell cob y tlawd. Ac wrth i'r cerbydau trymion gynhyrfu ychydig ar furiau y seler, disgynnodd yr arian drwy y twll o logell y tlawd i logell y cyfoethog, yr hon oedd islaw.

Gan mai yn llogell y cyfoethog y cafwyd yr arian, trowyd ef ymaith, ac erlyniwyd ef gan y gyfraith. Felly gwir yw y ddiareb, "Cenfigen a ladd ei pherchennog."



Y PRY LLWYD GARTREF.

CARTREFI EIN CYMYDOGION.

V. CARTREF Y PRY LLWYD.

YN ystod y dydd y mae'r pry llwyd gartref. Y mae yn brysur oddicartref y nos, yn chwilio am fwyd iddo ef a'i deulu. Twll yn y ddaear yw ei gartref. Efe ei hun a'i turiodd,—y mae'n ddwfn ac yn sych ac yn ddiogel. Yno y megir ei rai bach, ac yno y cânt eu haddysg deuluaidd. Pan ddeuant allan o'r twll, maent wedi dysgu pa fodd i ddal eu hysglyfaeth a pha fodd i ymladd â'u gelynyion. Os ymwelwch â hwy, ni welwch ond eu cynffonnau, yn diflannu trwy'r drws i lawr i'w twll. Yna cewch amser i edrych o'ch cwmpas.

Mewn lle caregog, dan greigiau mawr os medr, y gwna'r pry llwyd ei dŷ. Os bydd canghennau cysgodol i guddio man ei gartref, goreu oll. Dewisa le fel hyn, yn un peth, am ei fod yn sych. Dewisa ef hefyd am ei fod yn gadarn. Agen yn y graig, a hynny dan gerrig anferth,—pa le cadarnach sy'n bod? Nis gall cwn fentro i lawr yno; nis gallai'r dewraf fentro brwydr â'r pry llwyd yn ei gartref ei hun. Gwelais fintai o bobl yn cloddio am oriau cyn medru gwneyd lle i fynd i gartref y pry llwyd. Rhuthrodd nifer o gwn at y pry pan welsant ef. Buont yn ymladd âg ef am oriau; anafwyd rhai ohonynt; ymladdodd y pry llwyd hyd farw.

Cerddwr atrosgo, ond cyflym ddigon, yw'r pry llwyd. Wedi nos yr a ar ei deithiau. Ber yw ei gynffon, ac y mae ar ei sefyll, fel rheol, pan fydd y pry'n cerdded.

Mae ganddo ewinedd cryfion iawn yn ei bawenau; ac â hwy y turia'r twll yn y ddaear i fod yn gartref ac amddiffynfa iddo. Mae ei ddannedd yn finiog, a'i afael fel gafael peiriant dur. Mae arogl anhyfryd iawn arno.

Llwyd yw ei gefn, ond y mae'n ddu odditano; ac y mae ochr ei ben, ei drwyn, a'i dalcen, yn llwydwyn.*

Mae'r pry llwyd yn byw mewn gwahanol fannau trwy Gymru, er mor greulon yr erlidir ef gan ddynion a chwn. Ond ardaloedd mynyddig, creigiog, ac unig sydd wrth ei fodd, fel ardaloedd y Wyddfa, yr Aran, a'r Berwyn.

Y DAIL.

[Y mae'r dail yn dod allan yn awr. Dyma eu hanes, o erthygl ddyddorol gan R. Morgan, Llanarmon, yn CYMRU, rhifyn Ebrill.]

MAE bywgraffiad y dail yn ddyddorol. Hoffech chwi wybod eu hanes?

Ganwyd hwy y gauaf llynedd, a meithrinwyd hwy yng nghysgod eu ceraint fuont feirw, ac yn swn *lullaby* lleddf yr oerwynt a siglai eu cryd wrth fynd heibio. Gwelsant enhuddo eu gwely â chwrlid:

purlan o eira perlog, a'i addurno â brodwaith o arian feithrinwyd gan fysedd oerwynion y barrug. Gwelsant law wen y Gwanwyn yn gwisgo y prysgwydd o'n hamgylch â harddwch; gwelsant yr Haf, hael ei law, yn hulo y glaslawr â blodau; gwelsant hefyd ddiosg y goedwig o'i cheinwisg gan law arw anfwyn yr Hydref.

Bu stormydd dau auaf yn curo arnynt. Erbyn hyn maent yn heneiddio. O hyn allan, fel bydd y dydd yn ymestyn, dihoenant hwy; a thua dechreu yr haf, pan fo irlas pob coeden a llwyn, a gogoniant y wig yn ei anterth, syrthiant ymaith, yn swn lleddfol yr Awel, gan roddi eu lle, yn ol deddf olyniaeth, i'r dail bychain iraidd sy'n ymwthio allan oddiarnynt gydag ynni a bywiogrwydd diflino ieuentyd.

EFFAITH PECHOD AR Y WYNEB.

Anfonwyd gan K. M. R.

UN o'r darluniau goreu yn y byd ydyw y Swper Olaf, gan Leonardo da Vinci. Eistedda Crist wrth y bwrdd gyda'i ddeuddeg Apostol.

Fe ddywedir i'r arlunydd chwilio yn hir am wrthrych i gynrychioli y Gwardwr. Yr oedd arno eisiau dyn ieuanc o edrychiad hardd a sanctaidd. O'r diwedd tynnwyd ei sylw at un o aelodau côr yr Eglwys Gadeiriol, o'r enw Pietro Bandinelli. Yr oedd yn ddyn ieuanc prydferth yr olwg, a dymunol ei ffordd. Defnyddiodd Leonardo ef fel gwrthrych i baentio gwyneb yr Athraw Mawr.

Ymhen rhai blynyddoedd ar ol hyn, cymerodd Pietro daith i Rufain i astudio cerddoriaeth. Yno syrthiodd ymhlith cwmpeini drwg; hudwyd ef i yfed ac i gyflawni pob math o bechodau gwaradwyddus. Yn ystod y blynyddau hyn elai yr arlunydd ymlaen gyda'i ddarlun gwych.

Yr oedd yr apostolion oll wedi cael eu paentio yn awr oddigerth un, sef Judas, y bradwr. Aeth Da Vinci oddiamgylch, o le i le, i chwilio am ddyn gyda gwyneb digon hagr i'w gynorthwyo i fyned ymlaen gyda'i ddarlun. Tra y cerddai un diwrnod ar hyd ystryd-oedd Milan, gan sylwi ar wynebau rhai o'r dynion drygionus ddigwyddai gyfarfod, syrthiodd ei lygaid ar ddyn carpiog ac aflan, yr hwn oedd yn dwyn yn ei wynepryd gyfuniad o falais, cywilydd, a thrueni; a defnyddiodd ef fel gwrthrych i ddarlunio Judas.

Wedi gorffen paentio y gwyneb, dealodd Da Vinci mai ei hen gyfaill, Pietro Bandinelli, oedd; yr un ag oedd wedi eistedd iddo ychydig flynyddoedd yn ol i gynrychioli y Gwardwr. Yr oedd drygioni a phechod wedi hagra y gwyneb prydferth i'r fath raddau fel nad oedd bosibl ei adnabod.

PLENTYNDOD Y GOG.

PLENTYN drwg a hunanol yw'r gog,—y gwcw,—fach. Jenner, y meddyg ddysgodd ddynion sut i ochel y frech wen, yw hanesydd y gog. Tros gan mlynedd yn ol, ysgrifennodd hanes manwl, ffirwyth gwyllo amyneddgar am flynyddoedd lawer; ac ychydig o'r newydd sydd wedi ei ddarganfod er ei amser ef.

Daw'r gog i'n gwlad ni tua diwedd Ebrill, a dodwa ei hwyau tua chanol Mai. Ni chymer y gog y drafferth i wneyd nyth iddi ei hun, fel yr adar eraill. Ond, yn ddigywilydd ddigon, chwilia am nyth cynnes diddos llwyd y gwrych, neu ryw aderyn arall, a dodwa ei hwy ynddo. Llwyd y gwrych, druan, fu wrthi'n ddiwyd yn gwneyd y nyth, a hi raid fagu'r cywion; am y gog, aiff hi ymaith i ganu, heb ofalu dim am neb, ac yna ehed i wledydd pell.

Ond pe buasai'r gog fach yn aderyn bach hynaws, a charedig wrth yr adar bach eraill fegir yn yr un nyth, buasai'n talu am ei magu. Ond y mae natur fradwrus, greulon, ac anffyddlawr yr hen gog ynddi, fel y cawn weled.

Y mae wy'r gog yn fychan iawn, yn ol maint yr aderyn. Y mae weithiau'n debyg i wy llwyd y gwrych, dro arall fel wy'r aderyn to, dro arall fel wy llinos y garreg. Felly ni thybïa'r aderyn gwirion nad ei wy ei hun sydd yn y nyth.

Pan ddaw'r cywion o'r wyau, buan iawn y dengys y gog fach ei natur. Y peth cyntaf wna yw taflu ei brodyr a'i chwiorydd bychain dros y nyth. Gwna hyn er mwyn cael y lle i gyd a'r bwyd i gyd iddi ei hun. Tafl hwy dros y nyth heb ddim trugaredd; a byddant farw yn y drain neu yn y ffos o dan y nyth. Gwelodd Jenner hi'n gwneyd.

“Cefais nyth llwyd y gwrych, ac yr oedd ynddo dri o wyau llwyd y gwrych ac un wy'r gog. Drannoeth yr oedd yno un gog fach ac un llwyd y gwrych bach. Yr oedd y nyth ar ochr allan y gwrych, a gallwn weled iddo'n hawdd. Er fy syndod, gwelwn y gog fach yn taflu'r aderyn bach arall dros y nyth. Yr oedd ganddi ddull digon rhyfedd. Gyda'i hadenydd a'i chefn medrodd gael yr aderyn bach ar ei chefn; yna cododd gan ddringo at ochr y nyth; wedi cyrraedd yr ochr, ysgydodd ei brawd bach dros y nyth i'r drain.”

Cofier mai rhyw ddeuddydd oed oedd y gog, ac nad oedd yn gweled eto. Teimlai â blaenau ei hadenydd i wneyd yn siwr ei bod wedi troi pawb o'r nyth. Weithiau metha lawer gwaith, ond ni erys nes taflu pob wy a phob aderyn ond hyhi ei hun o'r nyth.

Ni ddodwa'r gog fwy nag un wy yn yr un nyth; dodwa ei hail wy mewn rhyw nyth arall. Ond unwaith, gwelwyd nyth a dau wy'r gog ynddo. Cyn hir yr oedd dwy gog fach, un llwyd y gwrych bach, ac un wy heb ei ddeor yn y nyth. Pan oeddynt yn ddwyawr oed,

dechreuodd y ddwy gog bach ymladd, a buont ddau ddiwrnod yn penderfynu pwy gai'r nyth. Weithiau byddai un gog yn codi'r llall i ymyl y nyth, ac yna'n syrthio yn ei hol, gan fod ei chwaer fach yn rhy drom iddi ei thafu drosodd. Yna treiai'r chwaer arall, a methai hithau. O'r diwedd medrodd un gog dafu'r llall, a'r llwyd y gwrych, a'r wy dros y nyth.

Cog ddrwg yw'r gog fach. Ymddwyn fel aderyn rhaib,—cyll ei thymor, edrych yn ffyrnig, tafl ei phen yn ol, gwna swm digofus fel y genllif goch; gwna ei hun mor debyg i aderyn drwg ag y gall.

Bydd yn y nyth am tua thair wythnos. Bydd yn ehedeg o gwmpas am dipyn wedyn; a bydd ar deulu yr adar a'i magodd ei hofn. Yna, oherwydd greddf ei natur, ehed dros y moroedd ar ol yr hen gogau.

RHAI O BLANT CYMRU.



J. H. ROBERTS A'I CHWAER.

NID oes dim yn fwy wrth fy modd na gweled gwynebau plant Cymru. Wrthynt hwy yr ydym yn disgwyl. Hwyl sydd i godi'r hen wlad. Hwyl sydd i wneyd enw Cymru'n barchus trwy'r byd. Y mae eu nerth hwy'n cynhyddu, tra y mae ein nerth ni, yr hen bobl, yn dechreu pallu. Y mae'r dydd o'u blaenau hwy, a chynhauaf euraidd ardderchog.

Wele ddarlun brawd a chwaer o Lerpwl. Y maent ymysg y rhai sy'n dysgu Cymraeg o'u cryd yn y dref Seisnig fawr honno. Y maent yn blant hynod addawol; ac anfonwyd y darlun i mi gan eu hathraw, gyda chanmoliaeth wresog, oherwydd fod J. H. Roberts yn fuddugwr cytarfod y plant. Tair ar ddeg oed yw'r

bachgen. Yr oedd ei dad, y diweddar J. J. Roberts, yn athraw uchel ei glod a'i barch ym Mhen Isa'r Waen, Caernarfon. Dymunaf i'r ddau blentyn hefyd nerth i gerdded llwybr dyrchafiad a defnyddioldeb.

Yn arholiadau lleol Rhydychen y flwyddyn ddiweddfaf cafodd tri anrhydedd mewn Cymraeg. Llwyddais i gael darluniau dau ohonynt; ni fedrais gael darlun y trydydd.

Y gyntaf oedd Catherine Rowlands, Arthog, pentref bychan tlws rhwng Dolgellau a'r Abermaw. Un o Ysgol Sir yr Abermaw yw'r eneth addawol hon. Yr oedd ei phapurau eraill yn dda iawn hefyd.

O ysgol yr Abermaw y cafodd Roy Richards ei anrhydedd hefyd. Mab Pentre Mawr, Dyffryn Ardudwy, yw efe. Y mae ambell i ardal yn codi to ar ol to o bobl alluog. Clywais y Parch. D. Lloyd Jones, M.A., yn adrodd gair rhyw hen amaethwr,—

“Twt! twt! Peidiwch son am eich amgylchedd. Brid ydi'r cwbl.”

Brid neu amgylchedd, y mae Ardudwy wedi magu rhai enwog, ac y mae i blant y fro hon lwybrau gwych i'w cerdded. Y beirdd teyrngarol, William a Sion Phylip; y gwerinwr John Jones, brawd yng nghyfraith Oliver Cromwell; Ellis Wynne, ddarluniodd weledigaethau Bardd Cwsg;

y tywysogaidd Richard Humphreys; yr Edward Morgan graff athrylithgar ym-gartrefodd yma,—dyma ychydig o rai y gall Roy Richards a bechgyn eraill yr ardal feddwl am eu llwybrau.

Y dydd yr wyf yn ysgrifennu, y maent yn claddu un arall o blant y Dyffryn yn Nhowyn,— y Parch. R. H. Morgan, M.A. Cashaodd ragrith a dynoethodd ef, parchodd a charodd uniondeb, gweithiodd yn galed ac i'r diwedd. Bu farw yn ddyn ieuanc, wedi gwneyd gwrhydri dros addysg ei wlad. Diolchwn fod yn ein hysgolion ac ar ein haelwydydd blant gwerth ymdreulio ac ymaberthu er eu mwyn.

Clywais, wedi ysgrifennu yr uchod, fod Miss Rowlands yn paratōi at gymeryd ei gradd ym Mhrifysgol Llundain, a Mr. Roy Richards ym Mhrifysgol Cymru. Yr wyf o galon yn dymuno pob llwyddiant i blant Cymru.



CATHERINE ROWLANDS, Arthog.



ROY RICHARDS.

CYMRU'R PLANT.

Y GWLITH.

TEYRN y dydd a dros y gorwel,
 Yn ei wisg borfforaidd, dlos;
 Daw cysgodau'r hwyr yn dawel,
 Cau amrantau'r dydd mae'r nos;
 Gwenau Anian sy'n ymguddio,
 Mud yw'r awel yn eu plith;
 Huna'r byd, ond i'w eneinio,
 A'i adfywio, daw y gwllith.

Mor fin-felus y ca gusan
 Gan wefusau'r rhosyn coch;
 Plygu 'i phen wna'r lili burlan,
 Iddo bwyso ar ei boch;
 O mae'n dlws ar fynwes daear,
 Fel rhyw nefol ddaagrau'n frith;
 Disychedu'r glaswellt hawddgar,
 Wna'r grisialaidd loew wlith.

O mor ddistaw y difera
 Ddiliau bendith bur o hyd;
 Ac mor esmwyth y gosoda
 Goron berlau ar y byd;
 Ond daw'r Haul i'w alw adre,
 Yn ei gerbyd tân o'n plith;
 Cluda awel fwyn y bore,
 Fawl y ddaear am y gwllith.

Os teyrnasa nos anffodion,
 Yn lle haf-ddydd llwydd ryw bryd;
 Ceisiwn wasgar gwllith cysuron,
 Lonna galon pawb drwy'r byd;
 Taened cariad hyd ein llwybrau,
 Berlau rhinwedd byth yn frith;
 Melus odlwn ein caniadau—
 O na byddem fel y gwllith.

Y Bala.

RICHARD AB HUGH.

DIHAREB o ASSAM,—Y pysgodyn fethwyd ei ddal yw'r mwyaŵ
 bob amser.



YMYSG A. MYNYDDOEDD ARFON.

SIROEDD CYMRU.

VI. SIR GAERNARFON.

SIR Gaernarfon yw'r nawfed o'n siroedd o ran maint, a'r drydedd o ran poblogaeth. Medd 361,097 o aceri, a 118,204 o bobl.

Y mae'r sir yn ddwy ran,—Arfon gyda'i mynyddoedd aruthrol, a phenrhyn Llein ac Eifionnydd. Y mae'r môr ac afon Menai ar du y gogledd, y gorllewin, a'r de; rhed afon Conwy rhyngddi a sir Ddinbych, ac afon Glaslyn rhyngddi a sir Feirionnydd.

Mynyddoedd Arfon yw ei gogoniant, a hwy yw y mynyddoedd uchaf yn Lloegr a Chymru. Nid oes fynydd yng Nghymru y tu allan i sir Gaernarfon yn cyrraedd y tair mil o droedfeddi, ond dyma rai yn Arfon,—

Y Wyddfa	3,570 troedfedd.
Carnedd Llywelyn ..	3,482 ..
Carnedd Dafydd ..	3,430 ..
Y Glyder Fawr ..	3,275 ..
Y Garn	3,107 ..
Y Foel Fras.. ..	3,091 ..
Elidyr Fawr.. ..	3,033 ..

Uwchlaw dwy fil o droedfeddi y mae, ymysg eraill,—

CYMRU'R PLANT.


Moel Siabod..	..	2,865	troedfedd.
Foel Hebog	2,578	”
Y Drosogl	2,478	”
Garnedd Goch	2,315	”
Mynydd Mawr	2,295	”
Tal y Fan	2,000	”

Y mae y rhai hyn oll yn Arfon. Mewn un lle, daw'r mynyddoedd



Y WYDDFA MEWN STORM.

fel lleng o gewri i lan y môr, ac y mae'r hen Benmaen Mawr, sydd a'i draed yn y dŵr hallt, yn 1,553 o droedfeddi o uchder. Ond o Fangor i'r de y mae gwastadeddau ffrwythlawn lawer rhwng



ABERDARON.

mynyddoedd mawr Eryri a'r môr. Mae bryniau Llein yn is, ond yn llawn mor nodedig; 1887 yw uchder yr Eiff, ac ymgyfyd Carn Fadryn i uchder o 1,221 yng nghanol Llein.

O afonydd, afon Conwy yw yr afon bwysicat. Hi yw'r terfyn rhwng Arfon a Dinbych, oddigerth lle'r ymestyn Arfon drosti i gymeryd Abaty Maenan a'r Creuddyn a Llandudno a Phen y Gogarth. Ar ochr sir Gaernarfon rhed i'r Gonwy yr Eidda, y Fachno, y Lledr dlos, y Llugwy ramantus, y Ddu, y Lwyd, a'r Ro. Ar yr ochr orllewinol, rhed yr Ogwen a'r Seiont a'r Garfai i afon Menai, a'r Llifon i'r môr. Ar y de, rhed y Soch, yr Erch, yr Afon Wen, y Ddwyfach, a'r Ddwyfawr i fau Tremadog.

Y mae llawer o lynnoedd bychain ymysg y mynyddoedd, megis Llyn Padarn, Llyn Peris, Cwellyn, Llyn Llydaw, Llyn Gwynant, Llyn Ogwen, Llyniau Mynbyr, Llyn Crafnant, Llyn Cowlyd, Llyn Eigian.

Ei chwarelau, ei hamaethyddiaeth, a'i detaid yw ffynhonnellau golud sir Gaernarfon.



CASTELL DOLYDDELEN, A THAN Y CASTELL.



CARTREF IEUAN O LEYN.

Y prif dretydd yw Caernarfon hynafol, gyda'i chastell; Bangor, gyda'i heglwys gadeiriol a Choleg y Gogledd a cholegau eraill; Llandudno dlos; Conwy hen, gyda'i chastell a'i Phlas Mawr a'i muriau; Nefyn, a'i llongau a'i physgod; Pwllheli a Chricieth, hen fwrdeisdrefi, yn awr yn ymdrochleoedd poblogaidd; a Thremadog, ar dir enillwyd o'r môr.

Arfon oedd cadernid hen Gymru anibynnol. Ar y mynyddoedd uwchlaw Aber Gwyn Gregin,—cartref Llywelyn Fawr,—y daliwyd Dafydd wedi cwmp Llywelyn. Wedi hynny, gwnawd Caernarfon yn sir gan Edward I. yn 1284, a chododd gestyll yng Nghonwy, Caernarfon, a Chricieth.

Y mae sir Gaernarfon yn Gymreig a gwerinol iawn; ond ychydig iawn, o'i chydmaru â siroedd eraill, o'i phobl sydd yn meddu dim o'i thir.



PWLLHELI.

Yr wyf yn caru ein mynyddoedd,—rhaid i mi gael dweyd hyn wrth ysgrifennu desgrifiad o sir Gaernarfon,—hwy yw amddiffynwyr ein gwlad a neillduolion ein cenedl. Fel y canodd Ceiriog, y mae castell y gorthrymydd yn gandryll wrth eu godrau; ond, am fynnyddoedd Arfon,—

“Dyma gestyll gododd Duw,
A'r eira ar eu pen,
I anbyniaeth Cymru fyw
Ar frig Eryri wen.”

LLONG AR Y CREIGIAU.

NID oes daith fwy difyr, pan geir wythnos o wyliau, nag i Ynys-oedd y Sianel, ac oddiyno i Lydaw. Ond, cyn dod at ynys Guernsey ymgwyfod creigiau'r Casquets o'r dŵr, a llawer llong aeth yn ddrylliau arnynt. Yr wyf yn cofio eu pasio ar wawr y bore, a gweled y môr aflonydd,—y mae'n aflonydd iawn o'u cwmpas hwy bob amser,—yn ymguro'n ewyn yn erbyn eu pennau bradwrus.

Nawn Iau, Mawrth 30, yr oedd y *Stella*, agerlong ardderchog, gyda dau gant o eneidiau ar ei bwrdd, yn teithio'n gyflym tua Guernsey. Daeth niwl tew dros y môr, ond tybiai Capten Reeks nad oedd eisiau arafu'r llong. Ond yn sydyn wele greigiau'r Casquets yn codi fel ysbrydion duon o'r niwl; a chyda hynny clywid gwaelod y llong yn rhwygo ar y creigiau danheddog oedd dan wyneb y môr. Yr oedd yn amlwg y suddai'r llong ymhen ychydig funudau, ac nid oedd le ar y creigiau creulon hynny i'r un truan gydio am ei fywyd.

Safai'r capten ar bont y llong. Gruddfannai'r gwragedd a'r plant, safai gwŷr a brodyr yn ddistaw a gwelw. Yr oedd pob swyddog a phob un o'r criw yn gweithio â'u holl egni; pawb, yn griw a theithwyr, yn berffaith ufudd i'r capten.

Paham y mae Prydain yn rheoli'r don? Oherwydd dewrder a disgyblaeth ei morwyr. Aeth llong i lawr ychydig yn ol, llong dramor. Rhuthrodd y morwyr i'r badau, gadawsant y teithwyr i'w tynged, a gwhiasant drueiniaid â'u rhwyfau rhag cyrraedd y cwch. Ond, ar long Brydeinig, y mae'r morwr i aberthu ei fywyd dros y teithiwr, a'r cadben yw'r olaf i adael y llong. A phan aeth y *Stella* i lawr, achubwyd plant, ac aeth dynion cryfion, Capten Reeks yn eu mysg, i lawr gyda'r llong. Gyda'r galar y mae lle i falchder,—medr y dewr roddi ei fywyd dros y gwan yn y dyddiau hyn eto. Ond awn yn ol at hanes y llong.

Gwaeddodd y capten ar i bawb gael *life-belt*. Yna gorchmynnodd ollwng y cychod i lawr. Gweithiodd y morwyr fel rhai'n gwybod fod bywyd yn dibynnu ar bob ymdrech. Gwaeddodd y capten am i'r gwragedd a'r plant fyned i'r cychod i ddechreu, gydag ychydig forwyr i rwyfo pob cwch. Gollyngwyd chwe chwch llwythog at eu hymylon i'r tonnau cynhyrfus, ac yr oedd y nos yn awr yn disgyn ar y môr.

Yna gwaeddodd y capten ar y dynion iddynt ymdaro drostynt eu hunain. Neidiasant i'r môr, gan gydio mewn rhyw ddarn o'r llong. Ac ar unwaith aeth y llong i lawr a'r capten ar ei bwrdd.

Bu'r teithwyr yn crwydro'r moroedd drwy'r nos, bu dros drigain ohonynt farw. Ond cofir yn hir am wrhydri'r capten a'r swyddogion a'r morwyr.

CRISTOPHER SANCTAIDD.

CŒIR llawer hanesyn am Cristopher Sanctaidd, er nad yw pob un hwyrach yn ffaith. Ni pherthyn i ni chwilio i mewn a gwahanu rhwng y gwir a'r gau. Adroddwn un a ymddengys i ni yn em prydfferth, pa un bynnag ai digwyddiad ai dychymyg yw.

Cyn ei droedigaeth bu yn anuwiol iawn. Tynnwyd ef at Grist pan welodd ei fod yn gryfach na diafol. Wedi iddo gymeryd Ei enw arno, edrychai o'i amgylch am rywbeth i wneyd drosto. Ni wyddai pa beth a gai. Gerllaw ei dŷ yr oedd afon, drwy yr hon yr oedd yn rhaid i drigolion y wlad oddiamgylch fyned ol a blaen i'r farchnad. Nid oedd iddynt na rhyd na phont na chwch; ac, weithiau, ar ol gwlaw trwm, rhedai yr afon yn uchel a chryf, ac nid yn ddiberygl yr ai yr hen a'r methedig a'r gwan drwyddi.

Gwelodd Cristopher gyfle i wneyd rhywbeth. Aeth at lan yr afon un diwrnod, ac mewn man cyfleus adeiladodd gaban, ac yno aeth i eistedd ar ddydd marchnad i wyllo; a phan welai angen, cludai nwyddau pob un oedd yn hen neu fethedig, a chariai ambell i un,—nwyddau a'r cwbl,—drosodd. Canys cryf iawn ydoedd, ac am hynny cryfder yr Iesu a'i denodd ato.

Diwrnod du, gauafol, oer, ac ystormus oedd y diwrnod cyntaf, a phrysyr iawn a fu. Ymlaenaf oll, daeth gwraig oedrannus, a'i cham yn fyr, gan ddwyn baich mawr ar ei chefn. Rhedodd Reprobus, canys dyna ei enw y pryd hynny, allan, a chynt na gwennol gwehydd yr oedd y wraig a'i baich dros yr aton.

Cyn pen hir daeth llencyn sionc gan redeg yn llon, a'i fryd ar ferw y farchnad, ond gwelid dagrau yn rhedeg i lawr ei ruddiau pan ganfu nad allai fyned trwy'r afon. Cymerodd Reprobus hwn eto ar ei ysgwydd lydan; ac ar yr ochr arall rhoddodd ef i lawr i ddianc yn siriol yn ei flaen i'r farchnadle.

Gwelwyd hen ŵr a'i wallt yn wyn, yntau hefyd yn cario nwyddau i'w gwerthu er mwyn cael byw, a chludwyd ef a'i nwyddau dros yr afon gan Reprobus.

Yn gynnar y prydawn daeth merch landeg, ysgafn ei throed, i'r ochr draw a'i gwyneb yn gwelwi pan welodd ddyfnder y dwfr. Edrychai Reprobus arni gan geisio dyfalu pwy ydoedd, a hir y bu cyn cofio. Gwawriodd arno o'r diwedd mai merch hen ŵr claf a drigai yn uwch i fyny ydoedd. Ni arferai ddod y ffordd hon, ond heddyw cafodd ddanteithfwyd a hoffai ei thad, a brys oedd arni fyned adref i'w roddi iddo. Edrychai ar yr afon ac ofnai ei mentro, a rhoddodd dro pruddglwyfus fel pe buasai am fyned yn ol,—pan welodd ddyn yn dod yn hyf tuag ati; ac mewn eiliad yr oedd y ddau dros yr afon yn ddiogel.

Arosodd Reprobus yno nes i lenni y nos ddechreu ymgasglu, a chychwynnai adref yn anfoddog ac yn ddigon prudd, gan feddwl mor ychydig a allai wneyd i lanw y presennol heb son am roddi iawn dros y gorffennol.

Gwelai fachgen ieuanc yn dod i'w gyfarfod fel pe yn myned i gyfeiriad yr afon, a dechreuodd ymresymu ynddo ei hun a elai yn '61 ai peidio i'w helpu. Cofiodd am nerth a lli'r afon, a dagrau'r llencyn cynarach yn y dydd, ac edrychai ar wendid y bachgen oedd erbyn hyn wedi dod ato ac yn myned heibio iddo. Rhedai ias o ofn drwyddo, ac elai ar ei ol. Daliodd ef ar fin yr afon, ac heb oedi, gafaelodd ynddo ac aeth i lawr i'r dwfr. Ysgafn oedd ei faich ar y dechreu, ond cyn myned i ganol yr afon yr oedd mor drwm nes suddo Reprobus yn isel yn y dwfr. Ni wyddai beth i teddwl na pha beth i wneyd, a chredai ei fod ar fodd i pan glywai lais yn dywedyd,—

“Reprobus yw dy enw, ond Cristopher (cariwr Crist) y'th elwir mwy. Myfi yw Crist, a gwyddost fy ngeiriau,—‘Yn gymaint a gwneuthur ohonoch i un o'r rhai bychain hyn, i mi y gwnaethoch.’”

Ysgafnhaodd y baich, cododd Cristopher o'r dwfr, ac ni welai neb. Aeth adref yn llon ei ysbryd, ac ni fu brudd wedi hynny. Ni wyddai hyd ei fedd a fu y peth, a'i breuddwydio wnaeth. Pa un bynnag, gwir oedd iddo, a phwy a wad nad allai fod. Am flwyddau lawer cludai trigolion y wlad bob diwrnod marchnad dros yr afon, nes y galwyd ef Cristopher Sanctaidd.

P'W DDARLLEN YN DDIFFYFR.

PWY yw y dyn acw sydd yn symud mynydd Plimlimon sydd uchel iawn am dorri llestri y cafodd y gath gurfa gan Jane Ann sydd ferch ieuanc hawddgar a dymunol iawn a roddwyd i'r dyn a dorrodd ei goes yn y lleuad y mae dyn pren sydd yn tyfu mewn Eisteddfod y cafodd Wil gini am ganu a thlws arian ac â chadair y gwobrwyyd bardd cadeiriol yr haul a welir yn Awstralia y mae mwngloddiau o aur y gwneir cadwyni arian sydd ddefnyddiol iawn yng Nghymru y mae pregethwyr da am nythu yn y llwyn y mae aderyn du iawn yw eira am buro y ddaear y Nadolig eto sydd wedi myned heibio'r tŷ yr aeth Jones y saer sydd yn byw mewn nyth dryw mae cywion pob Cymro ieuanc a ddylai ddarllen CYMRU'R PLANT sydd fisolyn da a gwerthfawr.

Penygraig.

JOHN GRIFFITHS.

Y GYSTADLEUAETH.

WEDI hir ddarllen a phryderu, yr wyf yn dytarnu'r wobr gyntaf i K. M. R., am ystori yn dangos effaith pechod ar y wyneb. Rhoddir yr ail wobr i J. R. Hughes, Trem Idris, Trawsfynydd, am ystori "Lleidr y Ffactri;" y drydedd i R. H., Llanllechid, am ystori Eiddalaidd; y bedwaredd i Cardi, am gyfaddasiad o ystori Ellmyn-aidd.

Anfoned pob un sydd yn y dosbarth cyntaf ei enw priodol, os nad yw'r cyteiriad isod yn ddigon, ac anfonir gwobr iddo. Caiff yr ystoriau hyn braidd oll ymddangos. Y mae ystoriau prydfferth iawn yn yr ail ddosbarth a'r trydydd hefyd. Caiff rhai ohonynt hwythau ymddangos; a phan wel yr anfonydd ei ystori, anfoned ei enw priodol i mi, a chaiff lyfr yn wobr.

Nid yw'r enwau yn y tri dosbarth yn ol trefn teilyngdod, trefn damwain ydyw.

DOSBARTH I. D. Jones, Dol Twlc, Cwmystwyth; Bugail; Gruffuth; Cardi; Llywelyn; Stephanus, Bwlch y Llan; Gaynor; E. J. Powell, Tŷ Capel Nazareth, Pentre, Pontypridd; Sarah Ann Thomas, Berth, Bala; Murmur y Nant; Un o Groesor; R. H., Llanllechid; J. R. Hughes, Trem Idris, Trawsfynydd; G. H. T.; K. M. R., Cae'r Foel, Dinorwig; Mwynwen; Un gara dôn y gŵr da; T. H. Davies, Ysgol y Sir, Tregaron; J. R. Jones-Griffith, Llanllechid; Mair A. V. Roberts, Bryn Melyn, Bala; Cadfan.

DOSBARTH II. R. Thomas, Cwm Cloch, Beddgelert; Maggie Edwards, Dolpandy, Penllwyn (ysgrifen dlos iawn); John James, Llwyn, Bow Street, Aberystwyth (mae lliw gwir ar yr ystori); Emrys Jenkins, Bethel, Llansamled (eithaf dyddorol); Cymro (John Owen Ty'n Llwyn a'i hadroddodd, onide? Ond paham y rhostid merch ieuanc yn Foty Cwm Dyli?); M. J. Williams, Coed Mawr, Llanberis; Iorwerth (digrif, ond hen); Cadwgan (y mae gennycheddawn i adrodd); P. T. Jenkins, Banc y Bryn, Llansamled (rhaid dal y lleidr hwnnw, oni raid?); Annie E. Jones, 2, West End, Port Talbot (ysgrifen brydfferth, a hanes colomennod bychain); Bryniog; Glanmorfab; Morwr Bach (ystori fach darwiadol iawn); Eryr o fro yr eira (dowch ag ystori newydd yn eich pig y tro nesaf, Mr. Eryr, mae hon yn rhy hen); Briallydd (tarwiadol, ond rhy drist); J. R. Roberts, 31, New Street, Porthmadog (medrwhc ysgrifennu'n dda: paham na ddoisai'r tarw'n ol at y bachgen wedi ei dafu?); W. E. Jones, Smith Forge, Taibach (darlun a darluniad da); D. D. Williams; R. Davies, 12, Cross Street, Llangefni, (da yw darllen am fechgyn bach dewr); J. Davies, Blaen y Cwm, Penmachno; Lizzie M. Evans, Carneddi, Bethesda; E. ap Edward; Lucy; Maggie G. Powell, Bryneglwys; J. J. Roberts, Rhos Gadfan; Edith Powell,

Bryneglwys; Hugh Owen, 35, Allington Street, St. Michael's, Lerpwl (ysgrifen a Chymraeg da); Blodwen o'r Urdd (iaith gampus); Ioan Ffestin (doniol iawn); W. J. Owen, Tyddyn Main, Mynydd Bodafon, Mon; D. Rees Phillips, Pentre Celyn, Caerfyrddin (tybed ei bod yn wir?); Ellen Jane Jones, Castell, Llangeitho; H. Evans, Garn, Dolbenmaen; Thomas Parry, 5, Mill Bank, Caerdybi (priodol iawn i'r amseroedd, pan y mae cymaint o son am heddwch); R. Lloyd Belton, 16, Wesley Road, Bwlchgwyn; Deio (yr wyf yn credu fod yr ystori'n wir, gan fy mod yn adwaen plant); J. Dwight Evans, 2, Bold Street, Caer; W. H. Williams, Meillionydd, Groeslon, Arfon; G. ap D.; J. H. Davies, 36, Langdon Place, Abertawe; O. T. Hopkins, Llwynllanc, Crynant, Glyn Nedd; John Thomas, Winllan, Carno; Ymgeisydd; Ceinwen (cymysgta o'r digrif a'r dychrynlyd); Carmen Sylva (gormod o briodi); Garth Bach a Llyn Llymbren (mor ddyddorol a'ch flugenw); Griffith Thomas, Cwm-cloch Isa, Beddgelert; Catherine A. Griffith, Caer Chwarel, Llanllechid; O. M. Owen, Plas, Glyn Arthen, Llandysul; A. J. Pierce, Fronheulog, Penllwyn (mae'r llall wedi ymddangos); William Davies, Pen y Banc, Llanegryn (adroddir yr ystori am leoedd eraill hefyd); John Ellis, Ysgol y Bwrdd, Aberteifi; Robert E. V. Roberts, Bryn Melyn, Bala; H. M. Williams, Coed Mawr, Llanberis; Llwyd y Berth.

DOSBARTH III. Ab Dewi; Sambo; John Heath, Pant Glas, Garthbeibio; Ioan Mai; W. Rees; Hannah Owens, Bryn Gwisg, Wyddgrug; Sion Sior; Miriam o'r Ysbyty; W. M. Williams, Coed Mawr, Llanberis; Naomi, Celynin; R. W. Owen, Rhostryfan; D. Jones, 4, Back Sun Street, Ffestiniog; E. W. Parry, Tŷ Pen y Garth, Ffestiniog; Un o'r Bont; J. Williams, 43, Farren Street, Trefor, Clynnog; Un hoff; Rebecca; Brysiog o'r Llan; G. P. W., Penrhyn Deudraeth; J., Nant Peris; Gelert, Beddgelert; Gwilym Teifi; T. Williams, Gorsgoch, Cross Hands, Llanelli; Tafolog; Un o lannau Tegid; D. Daniel, Pant y Llwydrew, Waun y Celyn, Llanelli; G. Evans, Pen y Briga, Llanfaelrhys; Maggie Owen, Bylchau, Dinbych; Idwal; Briallen; W. L. Richards, Machine House, Hirwaen; Llygad y Dydd; Cymro (nid oes llawer yn yr ystori ond fod Jeff. Rees yn digwydd bod yn Gymro, eto mae'n ddyddorol); Mary Griffith, Bwthyn Eiddew, Llanllechid; D. D. Jones, 5, Cilfodan, Bethesda; R. M. Williams, Coed Mawr, Llanberis; Maelorwr; J. M. Owen, 3, Howell Street, Cilfynydd, Pontypridd; M. W. Humphreys, Drefgerrig, Dolgellau.

DOSBARTH IV. Y mae yr enwau yn hwn mor liosog ag yn y tri dosbarth arall gyda'u gilydd. Drwg gennyf nad oes gennyf le iddynt. Na ddigalonnent. Gallant ddod yn ysgrifenwyr da.

COFIANTAU BYRION.



CYFRFAIS lawer o bleser, aml dro, wrth feddwl am gymaint o blant bach car-edig, dymunol, sy'n darllen CYMRU'R PLANT. Beth pe gwyddent oll am eu gilydd? Credent fod y ddaear yma yn nefoedd wirioneddol,—yn llawn o ddini-weidrwydd, o gariad, o chwareu. Ac ar gymaint o wynebau bychain tlysiôn, ar gymaint o fywydau bychain hawddgar, y mae'r fynwent wedi cau. Ond nis gall y bedd eu cadw; mi heriaf Angeu i feiddio cadw un o'r rhain yn ol. Byw dydynt eto, mewn hun.

CATHERINE ANN MASON, Ynysybwl. Yn groes i'n dymuniadau ni, blodau prydfferthaf yr ardd sydd yn gwywo gynaraf yn fynych. A thyna fel y bu yma. Yr oedd ein hanwyl Catherine Ann yn un o rosynau tecaf ein cymydogaeath boblog. Ac er iddi huno pan nad oedd ond pedair ar ddeg oed, hi a wasgarodd lawer o ber-arogl yn ystod ei gyrfa fer. Digwyddai fod yn un o saith o blant, y rhai sydd oll, fel eu rhieni o'u blaen, yn arwain bywyd rhinweddol. Gorfu i'w ffyddlawn tam eu gadael pan oedd Catherine Ann oddeutu wyth oed. A chan mai hi oedd yr ieuengaf o'r saith, daethai yn naturiol i fod yn ganwyll llygad ei thad tyner a gofalus, ac yn brit wrthrych serch ei brodyr a'i chwirydd hÿn. A dyma fu ei hanes hyd y diwedd. Cafodd ein chwaer fach bob mantais i fod yn eneth dda, a gwnaeth hithau y defnydd goreu o'r manteision hynny. Dysgodd rannau helaeth o'r Beibl a'r Llyfr Hymnau ar ei chof; ac adroddodd, yn rhagorol, lawer o benodau ar ddechreu odfaon. Y mae hefyd wedi gadael ar ei hol amryw o dyst-ysgritau "Undeb yr Ysgolion Sabbothol;" ynghyda lliaws o lyfrau a gyflwynwyd iddi yn wobrwyon am ffyddlondeb yn y Gobeithlu, a'r Ysgol. Ffarweliodd a'r fuchedd hon pan ar ymweliad â'i thad-cu, ger Aberystwyth, wedi wythnos o gystudd blin a di-rybudd, sef bore Sul, Rhagfyr 25, 1898. Buasai oddicartref am agos i saith mis, a bwriadai ddychwelyd y Gwener blaenorol i'r dydd y bu a'i Gwaredwr mawr ei galw ato ei Hun; yr hyn a wnelai ei cholli yn chwerwach fyth i'r perthynasau galarus. Cyrhaeddodd ei thad



CATHERINE ANN
MASON.

hyd ati rai dyddiau cyn ei hymadawiad. Eithr ni allai ymddiddan âg ef, oddigerth ar adegau. A phob tro y gallai siarad, ei hoff waith oedd adrodd wrtho y penodau newyddion a ddysgasai yn ystod y misoedd uchod. Ie, dyna y peth diweddaf a wnaeth i glywedigaeth y llawr. A dyddorol yw sylwi ddarfod i'w hysbryd gwyn gyrraedd y nefoedd fore y diwrnod a gedwir gennym yn goffiadwriaeth aeth ei Cheidwad bendigedig yn cyrraedd y ddaear—bore y Nadolig.

J. D. JONES (*Gweinidog.*)

Bu farw Catherine Ann,—
Nid marw hefyd,
Er rhoi'r ddaearol ran
Yng nghol y gweryd ;
Ond fyny gyda Duw
Mae Catherine Ann yn byw
Heb arni boen, na briw
Cystuddiol glefyd.

Un fer fu taith y llawr
I Catherine dirion,
Yn fore duodd gwawr
Ei chlaer obeithion ;
Pan glywsom ninnau hyn
Cymerwyd ni yn syn
Weld rhoi dyfodol gwyn
Dan dywyll blygion.

Trysori gair ei Duw
Oedd hoff waith Catherine,
A'i adrodd wnai mor fyw
Yng nghlyw y werin ;
Er byrred fu ei thaith
Fe'i clywyd lawer gwaith
Yn profi Iesu'n ffaith
Yng nghalon plentyn.

Bu CYMRU'R PLANT i hon
Yn gariad hefyd,
Ac ail oedd yn ei bron
I lyfr y bywyd ;
Cael golwg ar ei wedd
I Catherine Ann oedd hedd,
A chafodd lawer gwledd
Ar ei wynepryd.

Mae'r teulu ar ei hol
Mewn galar enbyd,
Ai nid yw hyn yn ffol
Tra hi mewn gwynfyd ?
Ni wnaeth ond rhoddi llam
O'ch blaen i gol ei mam,
Cewch chwithau roddi'r cam
Yn fuan hefyd.

Ynysybwl.

TREFINFAR.

ABERTH.

PAN oedd y *Stella'n* suddo, a'r cwch olaf ar gychwyn oddiwrthi, daeth tad a dau blentyn, un dan bob braich. Taffodd y plant i'r cwch, ond nid oedd yno le iddo ef,—aeth i lawr gyda'r llong.

Mae aberthu o hyd. Mae dynolryw yn debycach i'w Gwardedwr nag y mae neb yn feddwl.

Er Cof

Am T. E. Ellis, A.S., Ebrill 5ed, 1899.

DOH G₂

{	m :m.f s :s	d :f m :r	d :d.r m :s	f :m r :—
{	d :d.t, d :d	d :r d :t,	d :d.t, d :s,	l ₁ .t ₁ :d t ₁ :—
	Er mor chwerw	yd-yw dan-fon	Ein cyf-eill - ion	tu - a'r bedd,
	s :s s :s	m :l s :s	s :s.f m :d	f :s s :—
{	d :d.r m :m ₁	l ₁ :f ₁ s ₁ :s ₁ .f ₁	m ₁ :m.r d :m ₁	r ₁ :d ₁ s ₁ :—

D.t.

f.G.

{	m :m.f s :s	d :f m :r	r s :l.t d' :s.f	m :r d _s :—
{	d :d.t, d :d	d :r d :t,	t ₁ m :d d :d	d :t ₁ d _s :—
	Peidiwn wyl-o ond	melus gof - io	Taw-el hun - o	gânt mewn hedd;
	s :s.f m :s	m :l s :s	r s :f s :s.l	s :f m _t :—
{	d :d.r m :m ₁	l ₁ :f ₁ s ₁ :s ₁	s ₁ d :f m :m.f	s :s ₁ d _s :—

D.t.

f.G.

{	r :r.m f :f	d :d.r m :m	t ₁ :d.r m ₁ :t	l :se l ¹ m :—
{	t ₁ :l ₁ .d r :r	d :l ₁ l ₁ :se ₁	se ₁ :l ₁ .t ₁ d _f :f	m :r d _s :—
	Col-yn ang-eu	dynnodd Ie - su,	Per-ar - ogl - odd	wel-y'r saint,
	s :l.s f :l	l :d.l, d :t,	m :m.s d' :r'	d' :t l ¹ m :—
{	s ₁ :f ₁ .m ₁ r ₁ :r ₁	f ₁ :f ₁ m ₁ :m ₁	m ₁ :l ₁ .s ₁ d _f :r	m :m ₁ l ¹ m ₁ :—

{	m :m.f s :s	d :f m :r	s :d.t, l ₁ :s.f	m :r d :—
{	d :d.t, d :d	d :r d :t,	d :s ₁ l ₁ :d	d :t ₁ d :—
	Bellach, byw-yd	a go-gon-iant	Anher - fyn - ol	fydd eu baint.
	s :s s :s	m :l s :s	d :d d :l	s :f m :—
{	d :d.r m :m ₁	l ₁ :f ₁ s ₁ :s ₁ .f ₁	m ₁ :m ₁ f ₁ :r ₁	s ₁ :s ₁ d :—

2 Gadael croesau, gadael llygredd,
 Gadael llesgedd, maent ar ol;
 Goddiweddant wir lawenydd
 Gyda'u Harglwydd yn ei gôl;
 Gwisgo'r goron, cario'r palmwydd
 Fydd eu dedwydd orchwyl mwy;
 Bythol ganant eu telynu
 Am rinweddau marwol glwy'.

**DYCHMYGION GWLAD Y GOG.**

Casglwyd gan R. H. E.

1. Pwy adgyfododd un o farw, wedi marw ei hun?
ELISEUS. 2 Bren. xviii. 21.
2. Pwy fu agos a chael ei ladd ar ol iddo farw?
LAZARUS.
3. Pa wraig nas gwyddom beth oedd ei henw, y
gorchymynnir i ni ei chofio?
COFIWCH WRAIG LOT.
4. Beth oedd enw tad meibion Zebedeus?
ZEBEDEUS.
5. Beth oedd enw tad meibion Ammon?
BEN-OMMI.
6. Beth wel dyn na wel Duw mohono?
EI WELL.
7. Pwy fu fyw hwyaf ac y gladdwyd o flaen ei dad?
METHUSALEH.
8. Pa bryd y bydd dyn dros ei ben mewn dyled?
Pan y bydd yn gwisgo wig ac heb dalu am dano.
9. Beth sydd i mewn ac allan ar unwaith?
FFENESTR.
10. Beth wnaiff bâr o hosanau?
DWY HOSAN.
11. Beth yw y peth goreu rhag diffyg treulïad?
PEIDIO BWYTA.
12. Beth mae brawd yng nghyfraith i chwaer eich
mam yn ei berthyn i chwi?
TAD.

MEWN PERYGL.

IV. YSTORI UN ACHUBWYD.

YR oeddwn ar fwrdd y *Stella* pan oedd y cwch olaf wedi cynnu oddiwrthi. Torrodd y llong yn ei hanner pan ffrwydrodd y berwedyddion, a suddodd. Neidiais i'r môr, ond tynnwyd fi i lawr gyda'r llong. Pan ddeuais i'r wyneb tarewais fy mhen yn erbyn cwch oedd yn nofio a'i wyneb i waered. Dringais ar ei waelod. Yr oedd lliaws yn boddi o'm hamgylch, ond nis gallwn estyn ymwared iddynt. Medrodd tri ar ddeg ddringo ataf ar y cwch,—un ohonynt yn ddynes.

Yr oedd yn oer iawn, yr oeddym yn wlybion at ein crwyn, ac yr oedd y môr yn donnog iawn. Tua naw o'r gloch daeth ton fawr, a throdd y cwch i'w le, gan ein taflu oll i'r dŵr. Daethom yn ol i'r cwch i gyd ond dau,—cludwyd hwy ymaith i'r tywyllwch o'n golwg gan y tonnau.

Yr oedd agos lond y cwch o ddŵr, ac eisteddasom ynddo at ein ceseiliau, gan rwyfo goreu galleu. Gwelsom oleuni, a chododd hyn ein calonnau, a rhoddodd nerth i'n breichiau.

Ond tynnai'r môr ni'n ol er ein gwaethaf. Yr oedd mam a'i bachgen yn y cwch. Tua hanner nos bu'r bachgen tarw o anwyd a blinder, a gorfod i ni ei daflu i'r môr. Yna yr oedd y cwch mysg y creigiau, a thonnau gwylltion yn lluchio drosto. Yn y nos bu mam y bachgen farw o dor calon a blinder; a syrthiodd hen forwr yn farw ar ei rwyf yr un pryd. Taflasom y ddau i'r môr.

Bore oer cadduglyd oedd. Yr oeddym at ein ceseiliau mewn dwfwr o hyd, ac yr oedd corff marw arall yn nofio gyda ni yn y cwch, ac nid oedd yn awr ond wyth ohonom yn fyw.

Llawer gwaith y gwelsom long yn y pellder, ysgrechiasom gyda'n gilydd, ond ni chlywyd ni; ai'r llong ar ei ffordd, gan ein gadael i anobaith ac unigrwydd. O'r diwedd gwelodd llong Ffrengig ni; a chodwyd ni ar y bwrdd, bron wedi anobeithio cael byw.

I FYNY.

DRINGA, dringa ar i fyny,
Tua chopar mynydd mawr,
Lle mae awyr ddigymylau,—
Man teyrnasa dwyfol wawr;
Os rhaid dringo trwy gymylau,
Tewion, duon, ar y daith,
Paid ag ofni, dring i fyny,
Anfarwoldeb ddaw o'th waith.

Os yw'r mell t' th gylch yn gwibio,
Swn taranau'n taro'th glyw;
Dring i fyny uwch ystormydd,
Dring i fyny'n nerth ein Duw.
Fyny mae gwroniaid oesoedd,
Uwch y niwl mewn heulwen glir;
O'r uchelfan maent yn galw,
"Dring i fyny, dring yn wir."

G. O. PARRY.

CYMRU'R PLANT.

URDD Y DELYN.

Y RHEOLAU.

1. Dysgu siarad ac ysgrifennu Cymraeg; darllen rhan o'r Beibl Cymraeg, neu ryw lyfr Cymraeg arall, bob dydd, ac ysgrifennu Cymraeg o'i gyfansoddiad ei hun.

2. Astudio hanes Cymru, a gwneyd ei oreu i godi ei wlad, fel y byddo Cymru fydd yn well na'r hen Gymru.

3. Dysgu canu'r delyn, os bydd hynny yn y cyrraedd; a dysgu alawon Cymreig.

4. Byw, hyd y gall, yn ol dysgeidiaeth yr hen Gymry gynt, mor bell ag y mae'r ddysgeidiaeth honno'n un a dysgeidiaeth Orist. Y mae'r ddysgeidiaeth honno'n gofyn purdeb, cariad at addysg, caredigrwydd at ddyn, addfwynder at greaduriaid direswm, iaith ddhalog.

AELODAU NEWYDDION.

CANGEN BETHESDA, BWLCHGWYN.

GENETHOD,—928—948.

Alice Mitchell, Lizzie Rogers, Annie Daniel, Frances Myfanwy Owens, Sarah Williams, Elizabeth Ann Evans, Sarah Alice Griffiths, Miriam Evans, Edith Griffiths, Maggie Williams, Jane Jones, Ethel Griffiths, Eliza Mitchell, M. Blodwen Rogers, Julia Williams, Mary B. Roberts, Florence E. Rogers, Sarah Edwards, Harriet Belton, Dorothy Belton, Catherine Jane Williams.

BECHGYN,—949—970.

Rhys Alun Davies, David Henry Chiney, Thomas Griffiths, Lemuel Davies, Watcyn Jones, Robert Bartley, Samuel Price Owens, William Henry Jones, William Owen Griffiths, Charles Evans, John William Williams, George Roberts, John Roberts, John Edward Jones, David Richard Rogers, Robert William Ellis, William Arthur Williams, John Edward Jones, William James Edwards, Hugh Owen Edwards, John Edward Price, George Edwards.

971. R. Hughes, (ieu.), 41, Carrington Street, Lerpwl.

972. John Thomas, Winllan, Carno, Maldwyn.

973. David Davies Williams, Rhyd y Berw, Llanaelhaiarn.

 Cytfeiriad y golygydd yw,—OWEN M. EDWARDS, 3, CLARENDON VILLAS, OXFORD.

ARGRAFFWYD A CHYHOEDDWDYD GAN HUGHES AND SON, 56, ROSE STREET, WELSHAM



YSGWRS Y GOLYGYDD.

HOFF iawn gan y meddwl yw crwydro i wledydd pell. Oni w'yr pob plentyn am y meddwl hwn? Muriâu Jerusalem, a'r dwyreiniwyr sy'n cael syltu arnynt, onid yw pob Cymro yn hiraethu am danynt?

Nis gwelodd Iorwerth Glan Aled hwy; ond, gyda dychymyg bardd, darluniodd yr holl leocdd y bu'r Iesu ynddynt. Dylai'r plant wybod am "Baestina" y bardd melodaidd hwn. Onid ellid ei chyhoeddi yn llyfr bychan darluniedig tlws?

Erbyn y daw'r rhifyn hwn i ben ei daith, bydd cofgolofn enwogion Llansanan wedi ei dadorchuddio. Gwaith W. Goscombe John ydyw, llun genethig yn dal torch o flodau uwch eu henwau. Y mae pump ohonynt,—Tudur Aled, y mynach Ffranciscaidd, bardd olaf a melusaf y Cyfnod Aur; William Salesbury, cyfieithydd y Testament Newydd; y ddau frawd o'r Chwibren,—Gwilym Hiraethog a Henry Rees; a'r bardd mwynber Iorwerth Glan Aled. Pa le all ddangos cystal gwŷr? Os medraf, af i weled y dadorchuddio, a chewch yr hanes i gyd.

Dengys y golofn fod pob math o grefydd wedi gwasanaethu Cymru,—y Pabydd, yr Eglwyswr, yr Anibynnwr, y Methodist, y Bedyddiwr.

Yn y lle crwn am y mis hwn gwelir llun Evan Jones, y bachgen bach gobeithiol foddodd yn afon Ffestiniog. Mae ei hanes yn nes ymlaen.



Y RHEITHWYR YN "NHAITH Y PERERIN."



RHEITHWYR BUNYAN.

YCHYDIG ddeallodd y natur ddynol mor drylwyr a John Bunyan. Bydd "Taith y Pererin" yn ddyddorol tra bo calon ddynol yn curo. Ar y ddalen arall wele ymgais, gan arlunydd galluog, i ddarlunio rhai o'r gwŷr enwir gan Bunyan. Y rheithwyr ym mhrawf Cristion a Ffyddlon ydynt. Trowch i'r hanes, a darlennwch eu henwau. Ni raid i neb esbonio i chwi prun ydyw prun ymysg y wyn-ebau hagr.acw.

THOMAS EDWARD ELLIS.

"**Y**NEB mae'r duwiau'n garu, bydd farw'n ieuanc," ebe rhyw hen garreg sydd yn llais o oesoedd pell yn ol. Hoffodd pawb Thomas Ellis,—ei frwdfrydedd pur a'i onestrwydd tryloew,—a chafodd farw yn ieuanc. Hedd iti, y gŵr geraist dy wlad â chariad angerddol.

Ganwyd Thomas Edward Ellis yn amaethdy Cynlas, ger y Bala, ym mis Chwefrol, 1859. Anadlodd awyr crefydd a gwladgarwch o'i febyd yng Nghefnddwysarn. Cerddodd yn blentyn i Ysgol Ramadegol y Bala; ac y mae golygfeydd hytryd oddiar y pedair milldir oedd rhwng ei gartref a'r ysgol,—ar dlysnï Llyn Tegid a mawredd yr Aran.

Yr wyf yn ei gofio yn yr ysgol yn dda, yn llanc llygadlas penfelyn caredig. Yr oedd y bachgen yn dad y dyn. Ni byddai byth ar ol gyda'i wersi; ni fyddai yn foddlon yn unlle ond ar flaen ei ddosbarth. Ni fu ei garedicach mewn ysgol erioed,—helpai eraill hyd eithaf ei allu, ni chlywais air angharedig oddiar ei wefus erioed. Yr oedd yn llawn chwareu a llawenydd,—ond yn ddiniwed fel yr oen. Ni ddaeth gair amhur o'i enau. Yr oedd ei grefydd yn ei wneyd yn foneddwr perffaith. Nis gellir bod yn foneddwr yn ddyn os na byddis yn foneddwr yn fachgen.

O'r Bala aeth i Aberystwyth, ac efe yw un o'r rhai cyntaf o'r llu anfonodd Coleg y Brifysgol i wasanaethu eu gwlad. Oddiyno aeth i Rydychen, i'r Coleg Newydd. Yn y ddau le hyn ni cholodd un cyfleusdra i barotoi ei hun at fod yn ddefnyddiol, ac ni cholodd yr un cyfleusdra i wneyd daioni.

Ymdaflodd i wleidyddiaeth. Bu ei lwyddiant a'i ddyrchafiad yn syndod ac yn llawenydd i'w wlad. Enillodd serch pawb gyfarfyddodd. Yr oedd purdeb ei amcanion a'i awydd i wneyd daioni yn codi gwerin Cymru ym meddwl prif wladweinwyr yr oes,—oherwydd gwyddent mai un o'r werin oedd Tom Ellis.

Bu farw pan oedd ei wlad yn disgwyl fwyaf wrtho,—ond nid cyn gwneyd ei waith. Y mae wedi hau; bydd y cynhauaf, i'r sawl gaiff fyw i'w weled, yn ardderchog.

Cyflawni, nid dinistrio, oedd amcan Thomas Ellis. Bu'n deyrngarol i bethau goreu Cymru,—ei chrefydd a'i Hysgol Sul yn enwedig. Trwy garu caredigion Cymru, nid trwy gashau ei chaeion, y gwnaeth wrhydri. Milton, Morgan Llwyd o Wynedd, Mazzini oedd ei arwyr,—gosododd ei amcanion yn uchel, cadwodd ei gydwybod yn glir, credodd yng Nghymru, a chredodd yn Nuw.

Llawer cenhedlaeth o blant Cymru ddaw i ddarllen am dano, a cheisiant fod fel yntau,—yn onest, yn garedig, ac yn bur.

GWYN EU BYD.

[Ysgrifennodd Mr. T. E. Ellis yn album Edward Davies Bryan fel y canlyn, pan yn yr Aifft.]

“**G**WYN eu byd a gywir hauant wenith Duw; hwy gânt fwynhau nhwy y mae cyfrinach Duw. Gwyn eu byd y rhai ysbrydol, cansy gyda diafol afel arnynt. Gwyn eu byd y disgwylwyr distaw, fe ymwél yr Arglwydd Iesu â hwynt. Gwyn eu byd blant bychain Duw,—mawr yw ei ofal am danynt. Gwyn fyd weision grymus y Tad, eisteddant i wledda; a'r Oen a'u gwasanaetha. Gwyn eu byd y rhai bodlon,

dioddefgar, nid oes dim a all eu cythruddo. Gwyn eu byd a arosant yn isel, nhwy a godir yn uchel. Gwyn eu byd a nofiant yn erbyn ffrwd naturiaeth, nhwy ddönt i'r môr lle mae'r ysbrydoedd sanct-aidd."

(MORGAN LLWYD O WYNEDD.)

*Thomas E. Ellis,
Yngwesty Palas Ghezireh,
Ion. 13, 1899.*

STORIAU CYMRU I'R PLANT.

GAN WATCYN WYN.

1. STORI CERBYD MORGAN.

Yr hwn a elai lle y mynnai Morgan iddo fyned.

GLYWSOCH chwi am gerbyd Morgan,
Cerbyd wnelai fynd i bobman?
Pan glywai Morgan ar ei galon
I fynd i rywfan—elai'n union.

Nid oedd raid wrth farch i'w dynnu,
Nid rhaid wrth ager er ei yrru;
Ond pa le bynnag mynnai Morgan
Fe fyddai'r cerbyd yno'n fuan.

Fe elai fyny neu i waered,
Yr un mor rhydd a'r un mor rhwydded;
Nid oedd na dŵr na thân na thrydan
Yn eisiau i yrru cerbyd Morgan.

Ai dros yr heol neu dros y caeau,
Dros y bronnydd, dros y bryniau;
I bob taro dros y tiroedd,
Neu heb ymaros dros y moroedd.

Nid oedd eisiau rheilffordd dano,
Na rhoi cledrau er ei gludo;
Dim ond ffordd ym meddwl Morgan
Oedd eisiau arno i fynd i bobman.

Cerbyd gwerth i son am dano
Ydoedd cerbyd yr hen Gymro;
Dyna'i hanes i chwi'n gyfan,
Dwedwch beth oedd cerbyd Morgan?



PLANT CYMRU. CVIII. BECHGYN PENTRE ESTYLL.

CYFEILLACH PLANT PENTRE ESTYLL.

YR wyf yn anturio anfon i chwi ddau *group* o "Cyfeillach y Plant," Siloam, Pentre Estyll. Barnodd y gwŷr a dynnodd y darluniau y buasai bechgyn a genethod gyda'u gilydd yn gwneyd *group* rhy fawr.

Amcan y "Cyfeillach" yma yw rhoi egwyddorion crefydd i'r plant yn eu hiaith syml eu hunain—Cymraeg wrth reswm, bob sill. Amcenir eu diogelu i'r eglwys, ac yr ydym eisoes wedi derbyn rhai yn aelodau o'r eglwys yn uniongyrchol ohoni—wedi rhoi help llaw iddynt i groesi y ffin beryglus honno sydd rhwng bod yn blentyn a hogyn neu eneth ieuanc.

Darn o bennod, hanes cenhadwr, ystori am fywyd mawr Cymreig, dysgu pennill neu gân Gymreig, a gwneyd yr *actions* weithiau fel y gwneir mewn ysgolion dyddiol; holi ac ateb cwestiynau ar y darn pennod, egluro darlun tlws ysgrythyrol, yr hwn fyddo yn grogedig o'u blaen, canu emynau cymwys i blant—dyna waith "Cyfeillach y Plant."

Mae hi yn dair mlwydd oed erbyn hyn, ac yn ymgadw yn dda. Gofynnir i'r plant i fod yn ddirwestwyr, i ddweyd y gwir, i fod yn garedig wrth hen bobl a chreaduriaid direswm, i siarad Cymraeg, ac i ddweyd am Iesu wrth bawb.

Cynhelir hi o chwech hyd saith bob nos Fercher, a cheir llawer o aelodau y Gyfeillach Eglwysig, yr hon ddechreua am saith o'r gloch, yn dod i'r ysgoldy ugain munud a hanner awr yn rhy gynnar er mwyn cael bendith "Cyfeillach y Plant."



PLANT CYMRU. CIX. GENETHOD PENTRE ESTYLL.

Y gŵr a'u tynnodd yw Mr. David George, gŵr syml a dirodres, ac yn gweithio yn galed bob dydd mewn gwaith alcan. Mae ef a'i anwyl briod yn nodedig alluog a deheuig at waith o'r fath hwn, ac mae ganddynt siop ddel a swynol yn llawn gwaith eu dwylaw.

Yn *group* y bechgyn dyma fi yn y canol, ac felly hefyd yn eiddo y merched. Ar y dde i mi yn *group* y bechgyn dyna y ddau grythwr yn nesaf ataf, ac yn drydydd oddiwrthyf dyna y perdonydd—fy mab hynaf. Chwareuant ganiadau y plant mewn ffyddlondeb ymhob cyfarfod. Y tair merch ieuanc welwch yn y naill *group* a'r llall, yn ogystal a'r ddau frawd o oedran welwch ar fy ne yn *group* y merched, cynorthwywyr ffyddlon i mi ydynt. Byddant yn adrodd hanesyn, yn dysgu pennill neu adnod i'r plant, ac yn cadw cyfrif o'u ffyddlondeb.

Nis gallaf gael geiriau i fynegu fy niolchgarwch iddynt.

PENAR.

Y GLOYN.

A weli di'r gloyn yn hedfan
Fel darn bach o enfys y nef?
Paid a difwyno'r un bychan—
Cofia 'i Greawdwr ef.

J. R. TRYFANWY.

CYMRU'R PLANT.

AR LAN Y MOR.

AR lan y môr, O ddedwydd le,
 Cartrefle awyr iach;
 Anwylaf fan o dan y ne,
 I chware ennyd bach;
 Ym mrwydrau bywyd, duwies hedd,
 A'i gorsedd yma gaf;
 Am hynny siriol weinio'r cledd,
 Ar lanwedd dywod wnafl.

Ar lan y môr yn gwylio'r don
 Hyfrydlon, ar ei hynt;
 Ei miwsig lonna'r fynwes hon,
 Pryderon ffy'n y gwynt;
 Ei anthem ydyw'r storom ddwys,
 Diorffwys yw ei gôr;
 A hwyl wefreiddia delyn lwys,
 Paradwys glan y môr.

Ar lan y môr caf bur fwynhau
 Nef wenau heulwen hedd;
 Ac awel gwynfyd gluda'n glau,
 Fwynderau imi'n wledd;
 Hudolus yw ei donnau braf,
 Siriolaf gartref swyn;
 Dan wybren lasliw, hirddydd haf,
 Anadlaf ryddid mwyn.


Ar lan y môr rheddrwy fy mron,
 Gytrinion llanw maith;
 A balmaidd ydyw cwmni llon
 Awelon ar eu taith;
 Daw adlais fel rhyw ysbryd gwyn,
 Dros frigwyn donnau pell,
 Gan ddweyd fod haf-ddydd ar ol hyn,
 Mewn byd sy'n ganmil gwell.

Y Bala.

RICHARD AB HUGH.

GOLYGFYDD Y MOR.

Y MAE mynyddoedd a chymoedd ar waelod y môr fel ar wyneb y tir. Un o'r cymoedd mwyaf rhamantus ym meddiant y pysgod yw Ffos y Penrhyn Llydewig. Dywedir fod y cwm cul hwn yn gan milldir o hyd.



YSGYFARNOGOD GARTREF.

CARTREFI EIN CYMYDOGION.**VI. CARTREF YR YSGYFARNOG.**

DYMA'R mwyat diniwed o holl greaduriaid y ddaear. Nis gall ond dianc. Clyw bob peth, y mae ei chlust mor fawr ac ystwyth. Gwel i bob cyfeiriad, gyda'i llygad mawr amlwg. Mae'n hynod gyflym ar ei throed; ac y mae'n anodd ei gweld, oherwydd ei bod o'r un lliw a'r ddaear,—llwyd yn yr haf, llwydwen yn y gauaf.

Yn ystod y dydd y mae gartref. Cwsg yn hyfryd ar ddyddiau heulog dan gysgod coed, mewn rhyw lannerch neillduedig. Ond wrth gysgu y mae megis yn hanner effro, rhag ofn i elyn ddod.

Eithaf tlawd yw cartref yr ysgyfarnog; ond, pan fydd y gelyn ar ei goddiweddyd, ceisia gyfeirio tuag ato.

Y DDAU HOGYN RHEINY.

GAN WINNIE PARRY.

VI. YN TRAETHU AM AMRYW BETHAU YNGLYN A'R "DDAU."

LLE rhyfedd oedd ym Mhen y Bryn yn ystod y mis hwnnw y bu'r "Ddau" yn aros dan ei gronglwyd. Arnaf fi yn bennaf y disgynnodd y gwaith o'u cadw mewn rhyw fath o drefn. Yr oedd y ddwy Miss Jones at eu trugaredd yn hollol, oddigerth mewn un peth, sef, fod raid iddynt fyned i'w gwelyau saith o'r gloch. Safent yn gadarn ar y pwnc yma. Nis gwn ym mha le y cafodd y ddwy y syniad fod yn angenrheidiol anfon plant i orffwys saith o'r gloch ar hirddydd haf. Yr oeddent yn dweyd mai felly y cawsent hwy eu magu, ond mae yn amheus gennyf a oedd eu cof yn gywir ar y pwnc. Deallwch oddiw'rth yr ymadrodd uchod nad oeddwn yn cydweled â'r arferiad yma o'u heiddo ynglŷn â'r "Ddau." Nid am fy mod mor hoff o'u cymdeithas a hynny chwaith, ond y canlyniad naturiol o'u hanfon i'w gwelyau mor gynnar oedd iddynt ddeffro'n gynnar, gyda'r awydd, feallai, am chwareu pel ar ddrws fy ystafell, a hynny rhwng pedwar a phump yn y bore.

Dro arall cymerent ffordd wahanol i fy neffro ar yr un awr anaearol. Yr oeddynt yn hoff anarferol o adrodd rhigymau gyda'u gilydd mewn llais y gallai byddariaid eu clywed bron (cevais brofiad chwerrw o hyn ar achlysur arall); ac yr oedd ganddynt stoc helaeth o rai Cymraeg a Saesonaeg, ac feallai mai'r peth cyntaf glywn ambell i fore fyddai, "Willie bach ben bore," honno yn hynod bwrpasol, "Mary had a little lamb," a hanner dwsin eraill yn cael eu *chantio* naill ar ol y llall tu allan i'r drws. Nid yw fy edmygedd o'r cyfryw rigymau yn rhyw eithafol iawn ar unrhyw adeg. Pan fyddwn yn gwrando arnynt yn cael eu bloeddio wrth ddrws fy ystafell bump o'r gloch y bore byddwn yn eu cashau â chât perffaith. Yr oedd yn beth rhyfedd gennyf na fyddent byth yn myned at ddrysau Miss Jones a'i chwaer i aflonyddu arnynt hwy yn yr un modd.

Y myned i'r gwely cynnar yma oedd yr unig bwnc ar ba un y daliai y ddwy hen ferch yn gadarn yn eu cysylltiad a'r "Ddau." Ymhob peth arall yr oeddynt fel cwyr yn eu dwylaw. Byddai Miss Jones yn ei diniweidrwydd a'i hanwybodaeth yn gofyn, pan mewn pryder ynglŷn â'r modd i wneyd rhywbeth iddynt, "Sut fydd ych mam yn gwneyd, Willie," neu "fyddwch chi'n i gael o gin ych mam?" A buan gwelodd Bobbie, y craff, pa fodd i fanteisio ar hyn. Pan yn gofyn am rywbeth yr ymddanghosai Miss Jones neu Cati braidd yn amheus parthed y doethineb o'i roddi iddo, ei ddull

fyddai coroni ei ymresymiad taer gyda'r ymadrodd,—“Mi fyddwn yn cael gin mam, yn byddwn Willie?” Ond nid oedd hwnnw mor hoff o dynnu ar ei ddychymyg a'r llall, ac atebai er ei fawr ddi-g-ofaint,—“Wel na fyddwn wir, was.” A phan gofiai Bobbie, ni fyddai yn dweyd mwy nag,—“Mi fyddwn yn cael gin mam.” Ond cafodd lawer o bethau yng ngrym y dywediad hwnnw. Yr unig achlysur y syrthiai yr ymadrodd yma megis ar graig fyddai pan yn terfynu y deisyfiad am aros heb fyned i'w gwelyau awr yn hwy. Yr oedd yn hawdd gennyf gredu Bobbie pan yn dweyd,—“Mi fyddan yn cael gin mam, yn byddan Willie?” ar yr achlysur yma, pe buasai heb gadarnhad dibetrus Willie; ond nid oedd yr hysbysiad adna-byddus na'r cadarnhad o hono yn syflyd dim ar Miss Jones a'i chwaer ar y pwynt yma.

Deuais ymhen diwrnod neu ddau i ddeall mai Bobbie oedd yr arweinydd ymhob ymgyrch bron. Yr oedd ei feddwl yn fwy cyflym-nag eiddo y llall i weled y posibilrwydd o ddifyrrwch, difyrrwch-iddynt hwy, wrth gwrs, oedd mewn pethau oddiamgylch, ond yr wyf yn amheus a fuasai ef yn gallu dwyn y cynlluniau i ben heb gynorthwy ei frawd. Ynddo ef yr oedd y *staying power*, ys dywed y Sais. Wedi i Bobbie awgrymu pethau ac i hynny fod yn unol a meddwl y llall, gallech benderfynu y cyrhaeddent y nod. Nis gallwn beidio-edmygu y difrifoldeb ofnadwy â'r hwn y mynnai y bachgen wyth oed hwnnw gyrraedd ei amcan, er feallai mai ar fy nhraws i a fy nghys-uron y gorweddai ei lwybr i ogoniant.

Yr oedd gan Bobbie gryn dipyn o feddwl o'i bwysigrwydd. Ei ddesgrifiad cyffredin o hono ei hun oedd,—“dyn fel fi.” Yr oedd gan y “ddau” wrthwynebiad cryf i neb eu cusanu. Swildod, yr wyt yn credu, oedd yn peri hynny yn Willie; ond edrychai Bobbie arno fel y darostyngiad mwyaf. Eglurodd ei hun i mi un tro fel y canlyn,—“Tydw i ddim am roi shiws i neb, fydd *dynion* byth yn rhoi shiws i genod.” Y rhyw deg fel y gwelwch fyddai yn poeni Bobbie fwyaf am “shiws.” Ond nid oedd ei ymddygiad yn gyson â'r penderfyniad uchod *bob* amser. Ambell i dro byddai ton o hiraeth am ei fam yn dod trosto, ac ar adeg felly, os digwyddai i neb ond ni ein dau fod yn yr ystafell, deuai yn llechwraidd at fy ochr, rhoddwn innau fy mraich am dano yn araf, a rhywfodd byddai Bobbie ar fy nglin cyn pen ychydig, a'i ben ar fy mynwes, a chawn ei foethu hyd eithaf fodd fy nghalon. Ond os clywai swn troed yn dod yn ein cyfeiriad, neidiai oddiwrthyf mewn eiliad. Eithriad, fodd bynnag, oedd iddo roddi ffordd i'r gwendid yma. Fel rheol edrychai ar bob osgo i'w anwylo gyda'r dirmyg mwyaf, a cheisiai argyhoeddi pawb o'i bwysigrwydd yn y byd.

Ni fyddai dim yn ei ddigio'n fwy nag i Willie ddweyd,—“Mi wyt ti'n rhy fychan.” Nid wyf yn credu mai o fwriad y dywedai yr hynaf hyn, ond yn unig fel hysbysiad o ffaith naturiol. Pan fyddai ymrafael rhyngddynt, testyn poenus arall fyddai Willie yn eu drin. Gwyddai mai edliwiad ei gudynau hirion fyddai'r ffordd oreu i dalu'r pwyth yn ol am rywbeth neu gilydd i'r bychan. Byddai brawddeg fel y canlyn yn gyrru Bobbie bron yn wallgof,—“Y chti neyd o, hefo dy wallt babi! Mi wyt ti'n un codog. *Golden locks, golden locks, gwallt hogan.*” Yr oedd yn edifar gennyf fod wedi dweyd yr hen ystori wrthyt pan welais ei bod wedi awgrymu i Willie enw newydd o sarhad ar Bobbie, druan, a'i gudynau euraidd. Bu gyda phob un o'r pedair merch ym Mhen y Bryn yn crefu, â dagrau bron, am iddynt dorri “yr hen wallt 'ma.” Ac yr oedd pob un wedi bod yn ddigon calongaled i wrthod cydsynio â'r cais, er, bron na fuaswn i yn tosturio hefyd wrth glywed yr ymresymiad. “Fydd gin dynion byth hen wallt fel hyn, gwnewch i dorri o, a mi 'na i fod yn *good boy* i chi wir, yr Elin.”

Wrth grybwyll fy enw, bu tipyn o ymdrafodaeth ynglŷn âg ef rhwng y “ddau” a Miss Jones a'i chwaer. “Yr hogan 'na” oedd y dull yr arferent gyfeirio ataf pan ddaethant acw gyntaf; ond ar ol clywed Miss Jones a Cati yn fy ngalw yn Elin, dilynent hwythau eu hesiampl. Nid oedd hyn wrth fodd y ddwr hen ferch o gwbl. Dychmygent nad oeddwn yn cael y parch dyladwy oddiar ddwyllaw'r “ddau,” ac ymresymodd Miss Jones â hwynt ar y priodoldeb o'm galw yn Miss Evans, ond yn ofer. Atebiad Bobbie, yr hwn fel arfer oedd y cyfrwng ymadrodd, oedd,—“Dach chi yn 'i galw hi'n Elin,” ac yr oedd yr edrychiad a'r ysgogiad pen yn cyfleu ymhellach,—“Pam na chawn ninna?” Nid oes eisieu i mi ddweyd beth oedd fy nymuniad i. Meddyliwn na swniodd fy enw erioed mor esmwyth a pheraidd a phan yn cael ei seinio gan y lleisiau plentynnaidd hynny.

Ond i ddychwel at wallt Bobbie. Yr oedd gennyf *tam o' shanter* o wlan gwyn i wisgo i fyned i ben y Foel pan fyddai yn chwythu yn galed. Ffolineb yw myned a het allan i wynt fydd yn ysgwyd blew yr amrantaau, a meddwl cael rhyw gysur. Buaswn fy hun yn caru myned yn bennoeth, ond yr oedd arnaf ofn effaith y fath ymddygiad ar drigolion Nantgwyn.

Cafodd Bobbie afael yn y cap un diwrnod, ac awgrymodd ddyfais iddo drwy yr hon, yn ol ei dyb ef, y gallai dynnu ychydig o'r dirmyg oedd yn perthyn i'r cudynau hir. Gosododd ef am ei ben yn y dull y byddai ein neiniau ystalwm yn gwisgo rhywd am eu gwallt, ac yn y modd yma yr oedd yn gallu cuddio pob cudyn yn ddiogel.

O hynny allan hyd un diwrnod byth-gofiadwy, gosododd Bobbie

serch ei galon ar y cap gwlan gwyn, ac anhawdd oedd cael ganddo ei dynnu hyd yn oed wrth fyned i'w wely. Yr oedd yr hoffder yma o'i eiddo at y *tam o' shanter* braidd yn anghyfleus ar brydiau, ar y Sul er engraffit, pan oedd yn angenrheidiol bod yn weddol drefnus i tyned i'r capel, neu pan yn myned am dro, a'r ffordd yn gorwedd drwy y pentref. A llawer ymrafael fu rhyngom o'i achos cyn cychwyn ar daith o'r fath, gan nad oedd gennyf awydd mawr cydgerdded â gwrthrych bach mor ryfedd ag yr edrychai Bobbie yn y cap hwnnw, wedi ei osod am ei ben yn y dull grybwyllwyd, heb son ei fod wedi colli ei wyndra cyntefig y diwrnod cyntaf bron y gwisgwyd et, a'i fod yn awr "yn gywilydd i'w weled," i ddefnyddio desgrifiad Miss Jones o hono. Ond os oedd y cap yn lliniaru tipyn ar y dolur mewn un ystyr, nid oedd yn gysgod o gwbl rhag edliwiad Willie ar amser frae, a byddai yr un hen absen yn cael ei daflu at Bobbie, druan, ar bob achlysur o'r fath.

Yr oeddwn ddigon ffol ar y dechreu i ymyrryd â'u cwerylon, ond deuais i ddeall yn fuan mai gwell oedd i mi adael llonydd iddynt benderfynu yr ymrafael yn eu dull eu hunain, os nad oedd arnaf eisieu tynnu'r storm ar fy mhen ty hun. Oherwydd canlyniad pob ymyraeth â hwynt ar achlysur o'r fath fyddai i'r "Ddau" anghofio eu hanghydwelediad eu hunain, ac uno i fy nhafodi i yn ddiidrugaredd am feiddio rhoddi fy mys yn y brwes.

Clywais Miss Jones yn ymresymu â Willie rhyw ddiwrnod yn y geiriau canlynol,—“Dw i'n synnu atoch chi, Willie, yn curo'ch brawd bach fel 'na;” a chyn gallai orffen clywn lais y bychan,—“Tydi o ddim yn ty mhrito i, toedd o ddim ond cogio,” pan y gwyddwn fod yr ymrafael rhwng y ddau mor boeth ag oedd dichon iddi fod.

I'W DDARLLEN YN DDIFYFFYR.

DYN da yw drwg oedd y bachgen i'r farchnad yr aeth nain John gafodd ei guro a gwiail y gwneir basgedi plwm sydd yn y ddaear buwch sydd yn brefu yr oedd dyn yn canu bäs caled yw y garreg hir yw barf fy ewythr sydd yn cysgu yn y nos bydd lleuad coch yw gwaed pregethwr da oedd John Elias oedd un o'r proffwydi teiliwr fydd yn gwneyd dilladau hardd yw blodau sâl yw Bob ar ol smocio mawn fydd gan rai yn gwneyd tân oer yw hi yn y gauaf bydd eira mawr yw cylchrediad CYMRU'R PLANT.

Dolwyddelen.

R. H. E.

"Pan godir Cymru'n ol."

Y Geiriau gan GWMRYN.

FR. KUCKEN.

DOH B^l. *Gydag ynni.*

		<i>f</i>							
S.	:s ₁	d	:d	d	:l ₁ .t ₁	d	:—	d	:d
S.	1.Mae'r	Cym - ry	hedd - yw'n	deff	-	ro,	Yn		
	:s ₁	s ₁ :s ₁	l ₁ :f ₁	s ₁ :—	m ₁	:s ₁ .m ₁			
C.	2.Os	crog - wyd	tel - yn	Cym	-	ru	Ar		
	:s ₁	m ₁ :m ₁	f ₁ :f ₁	m ₁ :s ₁ .m ₁	d ₁	:m ₁ .d ₁			
	3.Os	coll - wyd	cor - on	Cym	-	ru,	Os		

		<i>F.t.</i>									
}	r	:s ₁	r	:d .r	m	:—		m	:s	:—	.s
	llawn gwlad - gar - wch	s ₁ :s ₁	s ₁ :s ₁	s ₁ :—	Fe	rodd	-	ir			
	hel - yg	flwydd - au	maith,	Mae'r	Bryth - on						
	t ₂ :t ₂	t ₂ :t ₂	d ₁ :—		d ₁	r ₁ s ₁ :—	.s ₁				
	cwmp-o	wnaeth ei	Llyw;	Os	ma	-	rw				

}	s	:—	.f	m .r	:m .f	s	:f	m	:m	r	..d	:r	..m
	mar - wol	er -	gyd	I	or - mes	cyn	bo						
	f	:r .t ₁	d .t ₁ :d .r	d	:l ₁	s ₁ .m	:d .l ₁	t ₁ ..l ₁ :t ₁					
	hedd - yw'n	cod -	i	Yn	e - on	at	ei						
	s ₁ :—	.ss ₁	l ₁ :s ₁ .f ₁	m ₁ :f ₁	s ₁ :s ₁	s ₁ :s ₁							
	wnaeth ei	dewr -	ion,	Mae	Cym - ru	et -	o'n						

f.B^l.


		<i>mf</i>								
}	^d s ₁	:—		s ₁	r	:r	r	:m ..r	d	:—
	hir; (cyn bo hir)	Dros	'ffin - iau'r	Haf - ren	ar	-				
	^d s ₁	:s ₁ .s ₁ s ₁	:s ₁	s ₁ :s ₁	f ₁	:s ₁ ..f ₁	m ₁ :—			
	waith; (at ei waith)	All -	tud - ir	Ies - tyn	frad -					
	^d s ₁	:—		s ₁	t ₂ :t ₂	t ₂ :t ₂	d ₁ :s ₂			
	fyw; (et - o'n fyw)	Mae	Ar - thur	et - o'n	deff	-				

		<i>f</i>								<i>f</i>				
{	s_1	: s_1	f	:-	.f	m	:-	.m	r	:-	-	: s_1		
	af,	Ym	lid	-	ir	rhag	-	farn	ffol,			Draig		
	m_1	: s_1	s_1	:-	. s_1	d	:-	.d	t_1	:-	-	: s_1 , f_1		
	wr,	Rhy	bell		i	ddod		yn	ol,			Chaiff		
{	d_1	: m_1	t_2	:-	. t_2	d_1 , t_2	: d_1 , m_1		s_1 , f_1	: s_1 , l_1	s_1 , f_1	: m_1 , r_1		
	ro,	Glyn	Dŵr		yn	dod		yn	ol,			Hardd		

		<i>cres.</i>												
{	d	:d	r	:m	.f	l	:s	f	:r	d	:d			
	Goch	ein	Har	-	thur	chwif	-	ir	Pan	god	-	ir		
	m_1	: s_1	t_1	: d	.r	f	:m	r	:l	s_1	: s_1			
	brad	-	wr		fod	yn	ag	-	os	Pan	god	-	ir	
{	d_1	: m_1	s_1	: s_1		d_1	: r_1 , m_1	f_1	: f_1	m_1	: m_1			
	fydd	ein	hen		fyn	-	ydd	-	oedd	Pan	god	-	ir	

		<i>mf</i>												
{	m , r	: d , r	m	:-	-	: s_1	d	:d	r	:m	.f			
	Cym	-	ru'n		ol,		Draig	Goch	ein	Har	-	thur		
	d_1 , t_1	: l_1 , t_1	d	:-	-	: s_1 , f_1	m_1	: s_1	t_1	: d	.r			
	Cym	-	ru'n		ol,		Chaiff	brad	-	wr	fod	yn		
{	s_1	: s_1	d_1 , d	>	>	>	>	t_1 , l_1	s_1 , f_1	: m_1 , r	d_1	: m_1	s_1	: s_1
	Cym	-	ru'n		ol,	Pan	god	'r	Cymru,	Hardd	fydd	ein	hen	fyn

{	l	:s	f	:r	d	:d	m	:-	.r	d	:-	
	chwif	-	ir,	Pan	god	-	ir	Cym	-	ru'n	ol.	
	f	:m	r	:l	s_1	: s_1	t_1	:-	. t_1	d	:-	
	ag	-	os,	Pan	god	-	ir	Cym	-	ru'n	ol.	
{	d_1	: r_1 , m_1	f_1	: f_1	m_1	: m_1	s_1	:-	. s_1	d_1	:-	
	ydd	-	oedd,	Pan	god	-	ir	Cym	-	ru'n	ol.	





ADFEILION CASTELL DINAS BRAN.



DYFFRYN Y DDYFRDWY.

SIROEDD CYMRU.

VII. SIR DDINBYCH.

HI yw'r seithfed o ran maint o'n siroedd, a'r bumed o ran poblogaeth; y mae'n 603 milldir ysgwar, y mae ynddi 117,872 o bobl.

Sir hir wasgfain ydyw, yn cyrraedd o afon Conwy dros afon Clwyd a thros afon Dyfrdwy at afon Ceiriog. Ynddi hi y mae eangderau Hiraethog, a rhan uchaf Dyffryn Clwyd, a gwastadeddau breision y Ddyfrdwy, a llethrau'r Berwyn uwchlaw glannau'r Ceiriog. Dyma hanes rhai o'i herwau,—

Dan bytatws,—3,257.
 Dan wair,—58,776.
 Dan wenith,—7,390.
 Dan haidd,—14,383.
 Dan geirch,—26,621.

Nid oes ond dwy sir yng Nghymru yn codi mwy o wenith na hi. Mae ynddi 64,979 o wartheg; 315,422 o ddefaid ar Hiraethog a'r Berwyn; a 27,406 o foch.

Ei phrif drefydd yw Dinbych, tref hardd ar fryn, gyda 6,412 o

bobl; Rhuthyn, hithau'n henafol, gyda 2,760; Gwrecsam, lle cyhoeddir CYMRU'R PLANT, gyda 12,552; Llangollen dlos, gyda 3,215. Y mae'r ddwy gyntaf yn Nyffryn Clwyd, a'r ddwy olaf yn nyffryn y Ddyfrdwy.

Y mae llawer o amrywiaeth yn sir Ddinbych. Ple sy'n dlysach na Llanrwst neu Langollen? Ple sydd mor unig a thawel a Llansanan neu Lanarmon? Ple sydd mor brysur a'r Rhos a Rhiwabon? Ple ceir cnydau mwy euraidd nag yn Nyffryn Clwyd?

Gwnawd Dinbych yn sir gan Harri'r Wythfed yn 1536. Y mae bron oll yn Gymreig iawn,—yr eithriad yw'r gornel ogledd-ddwy-reiniol.

Edrych mynyddoedd uchel ar ei harddwch,—Moel Fammau (1,820), Cader Fronwen (2,573), Moel Sych (2,716), Bron Banog (1,656). Heblaw Dyfrdwy a Chlwyd a Cheiriog, ceir ynddi afonydd Cledwen ac Aled ac Elwy, Clywedog, Geirw ac Alwen, Alun, Teirw,, Tanad.

PERYGLON PLANT.

BU plentyn farw ger Birmingham wedi bwyta llawer o flodau dant y llew. Nid at eu bwyta y bwriadwyd blodau, yn enwedig blodau dant y llew, a elwir gan rai yn "flodeuyn y gŵr drwg."

Bu plentyn farw yn ymyl Preston, meddir, oherwydd gwenwyno briw trwy roddi papur stamp arno. Ond dywed y Postfeistr Cyffredinol nad oes unrhyw wenwyn yn y glud sydd ar gefnau stampiau.

HEN AI IEUANC.

DYWED rhai mai hen fyd yw'r blaned Mawrth, a bywyd ar ddarfod ynddi, neu wedi darfod; tybiant ei bod yn mynd yn oerach oerach, a'i bod erbyn hyn yn anialwch rhewlyd.

Dywed eraill mai byd ieuanc ydyw, a bywyd yn dechreu dadblygu arni. Os ydyw hyn yn bod, mor ddyddorol fuasai sylwi ar ei bywyd yn tyfu. Nid yw hyn yn beth y tuhwnt i amgyffred ei bosibilrwydd. Yr ydym ar riniog mynediad eang i mewn i wybodaeth; y mae haul-arluniaeth a thrydan wedi eangu cylch ein gwelediad y tuhwnt i ddim y breuddwydiodd ein tadau am dano.

EVAN JONES.

MAB i Benjamin a Winifred Jones, Trefeini, Blaenau Ffestiniog, ydoedd Evan Jones.

Bachgen byw, nwyfus, a direidus ydoedd ef. Bedair blynedd yn ol, pan oedd yn saith oed, mentrodd dros y môr i America, heb neb o'i berthynasau yn gwmni iddo. I Efrog Newydd at ewythr iddo, frawd ei fam, yr oedd yn myned. Cyn iddo gychwyn rhoddwyd llyfr Dyfed ar "Wlad yr Addewid" yn anrheg iddo, a'r tri phennill canlynol wedi eu hysgrifennu ar y wyneb-ddalen,—

" Wrth adael bryniau Cymru,
A chroesi'r lasdon faith,
Y llaw sy'n siglo'r moroedd pell
A'ch cadwo ar eich taith;
Mi glywais broffwydoliaeth
Yn diagyn ar fy nghlyw,
Yn sibrdw fod eich rhawd i gyd
I fod ar lwybrau Duw.

" Cewch dyfu yn Efrog Newydd,
Fel blodyn haf ar ddôl,
A buan daw y gwanwyn gwyn
Cewch groesi'r môr yn ol,—
Yn ol, yn ol i Gymru,
Eich genedigol wlad,
I weled plant Ffestiniog wen,
A chalon mam a thad.

" Anfonwch lythyr bychan
O'ch hanes dros yr aig,
Ac ar ei amlen enw'r gŵr
Sy'n byw ym Mron y Graig;
Bydd geiriau o'r gorllewin
I mi fel swynion ha',
Os byddant wedi eu llunio'n llawn
Gan law "y bachgen da."

R. R. MORUS.

Pan yno y cymerwyd ei ddarlun yn ddamweiniol gan arlunydd dieithr gerddai yr heol. Onibai am y ddamwain honno ni buasai darlun o hono ar gael. Wedi bod yno am ddwy flynedd, daeth yn ol at ei dad a'i fam i Gymru.

Aeth i ysgol ddyddiol Maenofferen, ac yr oedd yn aelod o Ysgol Sabbothol Trefeini; deuai i seiad y Tabernacl gyda chysondeb difwlch, wedi ei ddsygu yn dda bob amser ar ei chyfer.

Medrai ddsygu yn gyflym, heb na phoen na phenyd. Yr oedd yn hoff o ddarllen. Darlennodd lawer ar "Daith y Pererin;" ni flinai yn darllen y daith honno. A gotynnodd i'w dad unwaith wedi ei ddarllen, beth oedd yr "aton" yr oedd eisiau ei chroesi at Iesu Grist.

Ei brif gyhoeddiad oedd "Cymru'r Plant." *Efe* oedd pia "Cymru'r Plant," ac aelodau eraill o'r teulu oedd pia "Drysorfa'r Plant."

Yr oedd ei galon yn llawn o dynerwch at greaduriaid direswm. Chwiliai am le i dosturio wrth y rhai hyn.

Nos Fercher, Ionawr 18eg y flwyddyn hon, dywedai yr adnod hon—testyn y Parch. H. Barrow Williams y Sabboth gynt,—“Na ofelwch, gan hynny, dros drannoeth; canys trannoeth a ofala am ei bethau ei hun. Digon i'r diwrnod ei ddrwg ei hun.” A phwysleisiai ar y gair “drwg” yn ol cyfarwyddyd y pregethwr, ac fel yr oedd ei dad wedi ei ddysgu. Dywedai ef,—a'i frawd llai, hefyd, bennau y bregeth.

Ond bore y Sadwrn dilynol,—Ionawr 21,—pan yn chwarae ar fin afon Cwm Bowydd, ychydig bellder oddiwrth ei gartref, syrthiodd i'r afon, ac yr oedd yr afon ar y pryd wedi llifo dros ei glannau. Cipiwyd yntau i lawr gyda'r llif, ac un yn unig a'i gwelodd yn cael ei gymeryd ar frig y llifeiriant.

Buwyd am wythnos yn chwilio yn ddyfal am dano. Ni ddanghoswyd erioed fwy o gydymdeimlad â theulu mewn galar. Bu llawer o gannoedd, os nad miloedd, yn chwilio yn ddyfal ar hyd yr afon am filldiroedd. A mawr oedd y llawenydd—llawenydd er yn llawenydd prudd—pan gafwyd ef, Ionawr 29ain, i lawr tua dwy filldir o'r lle y syrthiodd. Teimla y teulu eu bod wedi cael caredigrwydd digyffelyb yn y brofedigaeth lem o golli eu hanwyl fachgen yn unarddeg oed. Cymered y tad a'r fam gysur, ni raid chwilio am dano heddyw ar heolydd aur y nef.

PAN OEDDWN I YN HOGYN BACH.

(Tôn,—*Hon Ffon fy Nain.*)

PAN oeddwn i yn hogyn bach
 Dan ofal tyner fam,
 Pryd hynny teimlwn ddigon iach,
 Ac ni chawn unrhyw gam;
 A phan i'm calon deuai braw,
 Ar unwaith rhoddwn lam,
 Diogel fyddwn ar bob llaw
 Yn rhwym ym mreichiau mam.

Pan fyddai'r plant yn cwrdd ynghyd
 I adrodd yn eu tro,
 Storiâu bychain ddoent o hyd
 Yn dweyd am Bwci Bo;
 Eisteddwn innau wrth y tân
 Mewn ofn symud cam;
 Ond llusgo'n araf nes ymla'n
 I ymyl cader mam.

Ystrad Rhondda.

Pan fyddai swm y daran gref
 Yn rhoi uwch fy mhen,
 A'r mellt yn ffamio yn y nef
 O'r cwmwl du uwchben;
 Yn fuan rhedwn, yn fy mraw,
 I'm cartref hoff bob cam;
 Ac ar fy ofnau oll rhoid taw
 Pan welwn wyneb mam.

Mae cofio hyn yn peri clwy
 I'm calon nos a dydd;
 Y dyddiau hynny ni ddont mwy,
 'Rwy'n teimlo'n awr yn brudd,
 Mi gollais mam, a thrist yw'm gwedd,
 Hi heddyw sy'n y glyn,
 Yn huno'n dawel yn y bedd,
 Hyd wawr y bore gwyn.

MACHIN O.



PLANT YR IS-ELLYN.

Lle bydd y dŵr yn mynd dros y tîr.

BACHGENNYN YN ACHUB TREF.

HWYRACH nad anyddorol gennyh wybod pa fodd y bu i lanc ieuanc o'r enw Hans achub tref rhag boddi.

Ellmynnwr (*Dutchman*) o ran ei rieni oedd y bachgen hwn, ac yr oedd o'i febyd,—fel y dylai pob plant da fod,—yn ufudd bob amser i'w rieni. Yr oedd hefyd wedi cael ei ddysgu i ba le bynnag y caffai ei anfon gan ei dad a'i fam—i ddod adref yn gynnar o'i negesau.

Un prydawn, fodd bynnag, yr oedd ei rieni yn dechreu myned yn anesmwyth yn ei gylch, am nad oedd wedi dychwelyd yn ei amser priodol. Y tro hwn cafodd ei anfon o'r dref i'r pentref cyfagos, lle yr oedd ei ewythr yn byw, ac yr oedd fel arfer i dychwelyd yn ddioed ar ol te, fel y byddai gartref cyn nos. Aeth amser heibio, ond nid oedd hanes am Hans yn unman, a dechreuodd ei rieni anesmwytho. Wedi myned at y drws dro ar ol tro, penderfynasant fyned i chwilio am dano, a chymeryd gyda hwy lusern oleuedig i gael gweled y ffordd.

Digwyddai fod y llwybr ar hyd yr hwn yr oedd rhaid i Hans ddod

ar ochr arglawdd, oedd yn cadw y môr rhag gorlifo y tir. Tra yr oedd ei rieni yn myned hyd y llwybr hwn, yr oeddynt wrth reswm yn bur ofalus, gan aros yn awr ac yn y man i alw a gwrando. Ond nid oedd dim argoel iddynt glywed Hans nes oeddynt bron a chyrraedd y pentref. Yna arosasant i alw,—“Hans, Hans.”

O'r diwedd clywsant lais bron odditanynt, ac aeth ei dad i weled beth oedd y mater, a pha beth, debygech chwi, oedd Hans yn ei wneyd? Yr oedd yn *cadw y môr yn ol â'i law fach*.

Tra yr oedd y llanc yn cerdded adref, gwelodd ar ochr yr arglawdd fod y dwfr yn dechreu torri drwy agen fechan. Clywodd ei dad lawer gwaith yn siarad am y llitogydd dychrynlyd oedd wedi cymeryd lle fel canlyniad i'r môr dorri drwy y gwrthgloddiau hyn, er i'r dechreu fod yn fychan, canys ai yr agen yn fwy, fel y byddai i'r gwrthglawdd roddi ffordd, a miloedd lawer yn boddi mewn canlyniad. Tra yn cofio am hyn, fe welodd y llanc bychan fod y ffrwd fach hyn yn dangos fod perygl. 'Doedd dim amser i redeg i'r dref i roi rhybudd, a 'doedd neb yn agos yn y cytwng. Penderfynodd fyned i lawr i'r banc ei hunan, gan wasgu ei law fechan ar y twll i gadw y dwfr yn ol. Bu yno am amser maith yn methu clywed na gweled neb nes iddi fynd yn nos; er iddo alw yn fynych, 'doedd neb yn ddigon agos i'w glywed, hyd nes iddo glywed llais ei dad. Yr oedd erbyn hyn yn oer a blinedig, ond arosodd yno wrth ei orchwyl. Fe welodd ei dad y perygl ar unwaith, ac fe ddaliodd ei law gref i gadw y dwfr yn ol cyhyd ag y bu y fam yn rhedeg i'r dref i gael gweithwyr i gau y twll yn briodol. Ac nid hir y buont cyn gwneuthur hyn, ac yn awr yr oedd y perygl drosodd.

Ond yr oeddynt i gyd yn teimlo fod Hans bach wedi achub y dref. Oni buasai iddo atal y ffrwd fechan, buasai wedi rhedeg yn un fawr, a chyn y gallasai neb ei rhwystro, fe fuasai y môr wedi torri drwy y gwrthglawdd, ac erbyn y bore fe fuasai yr holl dref wedi boddi.

Gwelwn wrth hyn y gall perygl mawr godi oddiwrth beth sydd yn edrych yn fychan ar y cyntaf; ac os ydym am achub pobl rhag peryglon mawrion, ni ellir byth dechreu yn rhy gynnar.

HEB GYSGU.

Y MAE llawer o greaduriaid byw na byddant, hyd y gellir canfod; byth yn cysgu. Gwyddis yn awr nad yw'r penhwyad, a'r eog; a'r pysg euraidd byth yng nghwsg. Y mae dwsinau o fathau o wybed nad ydynt byth yn profi cwsg; ac y mae amryw fathau o niadroedd na's gwelwyd hwy yn cysgu erioed.



PLANT CYMRU. CX. PLANT LLANWRTYD.

YSGOL LLANWRTYD.

DYMA ddarlun o fechgyn Ysgol y Bwrdd, Llanwrtyd. Yn y canol y mae y prif-athraw, Mr. D. Rowland Gay,—brodor o Lanelli, sir Gaerfyrddin, yw ef; daeth yma i gymeryd gofal yr ysgol yn y flwyddyn 1876. Adeiladwyd yr ysgoldy hwn yn 1867, a gwnaed hi yn Ysgol y Bwrdd yn 1876.

Saif yr ysgol ar lecyn hynod gyfleus, ychydig gamrau allan o'r pentref. Oddiyma gellir gwelw rhai o'r golygfeydd mwyaf dydd-orol yn yr ardal,—o'i flaen y mae afon Irfon yn rhedeg yn araf a hamddenol gyda throad y bryniau. Hi yw prif afon y wlad, ac iddi yr arllwysa holl fân afonydd a nentydd Cantref Buallt. Hyn yn ddiau a fu yn achlysur i rywun ei galw yn Hiraafon, sef ystyr gynhennid yr enw mae'n dra thebyg. Yng nghyfeiriad y dwyrain gwelir gorsaf y ffordd haiarn, a'i gweision yn llawn prysurdeb o fore glân hyd hwyr y dydd; a rhed y gerbydres heibio'n gyson a'i thynfa fyny tua'r Dorth Siwgr ar gyffiniau sir Gaerfyrddin.

O du y gogledd, y mae y pentref glân yn ymledu o'r ddau du i'r

afon, ac yn myned ar gynnydd bob dydd. Yma y mae rhieni lliaws o'r plant yn trigo yn eu tai eu hunain. Dilyna y gwŷr eu gwahanol oruchwyliaethau trwy gydol y flwyddyn gron; ac agora y wraigedd eu drysau yn roesawus i dderbyn dieithriaid a ddaw ar ymweliad â'r lle ym misoedd yr haf, i ymfyn ychydig adgyfnerthiad i'w cyrff, ac adnewyddiad i'w hysbrydoedd, trwy yfed o ddyfroedd iachaol y ffynhonnau, ac anadlu yn awyr bur y bryniau.

Siaradant Gymraeg â'u plant ar eu haelwydydd, a phan ddaw teulu o Saeson ac ymsefydlu yn eu plith, dysga'r plant siarad yr hen iaith mewn ychydig flynyddau.

Y mae tua 150 a'u henwau ar lyfrau yr ysgol, ac y mae wedi pasio mor llwyddiannus ar hyd y blynyddau diweddaf fel y mae wedi cael ei gadael y flwyddyn hon heb un arholiad. Mae yr athraw yn llawn o ysbryd Cymreig, cymer ddyddordeb mewn dysgu'r plant i ganu alawon eu gwlad, i adrodd darnau yn yr hen iaith, a darllen CYMRU'R PLANT.

Ty'n y Pant.

EVAN JONES.

AERWEN FACH.

JANE AERWEN, anwyl blentyn Thomas a Jane Morris, Bodawen, Porthmadog. Bu farw Mawrth 19, 1899, yn 16 mis oed.

Hoff iawn oedd gennyf di, "Aerwen fach," ac ni fedraf ysgrifennu am danat ond fel pe'n siarad wrthyt.

Byr ond prydferth oedd dy fywyd, a dysgaist lawer i garu'r tlws a'r pur er eu mwyn eu hunain. Y mae yma wagle ar dy ol, ond gwagle sanctaidd yw—gwagle plentyn bach. Lleddf iawn oedd dy wawr, ac nid oedd rhai hoff o waedu calonnau rhieni ieuanc yn gynnwl wrth broffwydo. Ond pan gefais di yn fy mreichiau, yng ngoleuni ffenestr dy gartref clyd, mi a benderfynais na chredwn ddrwg am danat nes byddai raid. A da gennyf hynny heddyw. Cystuddiol oedd dy oes, mae'n wir, ond buasai'n frwnt ynnof i ddal cysgod dydd dy farw rhyngof a'th dlynsni o hyd, o hyd.

Er na chlywais di'n siarad gair, gwelais di'n gwenu lawer gwaith. Er na roddaist dy droed ar lawr dy gartref erioed, ni chwynodd serch ond yn erbyn gwendid ei freichiau.

Gwelaist yr heulwen yn blaguro ac yn gwywo ar Foel y Gest, a chlywaist swn y môr yn yr haf, a'r Maes Mawr, Pont Lyfni, a chlywaist finnau'n son am yrru dy enw i restr Urdd y Delyn. Erbyn hyn yr wyt yn sefyll ar "y môr o wydr," yn canu un o "delynuau Duw," ac yn edrych ar "frynau Caersalem" dan heulwen na wywa

byth. Gwyn dy fyd, Aerwen fach. Mor hardd raid fod y goren ar dy ben melynwallt.

Mae Aerwen wedi marw

yw cynghanedd y ddaear, ond

Fy Aerwen sy'n anfarwol

yw cynghanedd y nef, ac yn y nef mae'r gynghanedd oreu. Mwyn gennyf dy gofio, a chofio fod aden wen yr adgyfodiad dros dy fedd ym mynwent Salem, Llanllyfni. Henffych well, Aerwen, anwyl Aerwen!

Mil gwell gan Iesu'th wrando di
Yn canu'r bythol dannau,
Na'th weled yma gyda ni
Yn blino'n mhlith teganau.

J. R. TRYFANWY.

URDD Y DDELYN.

ENWAU NEWYDDION.

974. Phebe Evans, Bronafon, Borth y Gest, Eifion.
975. Elizabeth E. Roberts, Pistyll, Cymmau, Gwreccsam.
976. Blodeuwedd Evans, Ty Dyfi, Corporation St., Aberystwyth.

CANGEN BWLCHGWYN.

977—987.

Alun Roberts, Thomas Williams, Albert Roberts, George Frederick Roberts,—Peniel, Bwlchgwyn.

Gadewais enwau swyddogion Cangen Bwlchgwyn allan trwy amryfusedd. Yr ysgrifennydd yw E. Tegla Davies. Dyma hwy,—T. Arvor Davies, Bwlch Gwyn; E. Owen Belton, Bryn Du; R. Thos. Chiney, Tan y Graig; W. Davies, Ty'n y Groesffordd; Daniel Belton, Plas; Thos. W. Edwards, Gorffwysfa.

CANGEN MORIAH, LLWYDCOED, MORGANNWG.

988—994.

Tom Davies, William Davies, David William Davies, David Jenkins, Rees Davies, Maggie H. Jones, Mary Ann Davies.

YSTORI WIR AM GERBYDRES.

DRO yn ol, cyrhaeddodd gyriedydd a'i gerbydres yr orsaf, lle yr oedd i aros pum munud. Daeth boneddiges ato, gan redeg ar hyd y *platform*, a meddai, "Dywed y *guard* wrthyf fod y gerbydres yn gadael y gyffordd bymtheg munud cyn i ni gyrraedd yno. Y mae yn nos Sadwrn, a dyma y gerbydres ddiweddaf. Mae gennyf blentyn yn sâl iawn yn y gerbydres, a dim arian i fyned i lety. Beth a wna?"

Ni fedrai y gyriedydd ddweyd wrthi beth i wneyd. Ymhen ychydig, gofynnodd iddo,—“A fyddai yn bosibl i chwi gyflymu y gerbydres dipyn?” Ysgydodd y dyn ei ben, a dywedai, “Na fedraf, ma'am. Y mae gennyf yr amser, ac y mae y rheolau yn dweyd fod yn rhaid i mi gadw ato.”

Trodd y fam druan ymaith yn siomedig, gan adael gwyneb gonest y gyriedydd yn wlyb gan dagrau. Yn fuan, daeth yn ol wedyn a gofynnai,—

“A ydych chi yn Gristion?”

“Yr wyf yn credu fy mod,” meddai yntau. “Wel, a wnewch chi weddio gyda mi am i'r Arglwydd, mewn rhyw ffordd, oedi y gerbydres yn y gyffordd?”

“Gwnaf,” atebai, “ond nid oes gennyf lawer o obaith.”

Yna brysiodd y fam yn ol at ei phlentyn sâl, a chychwynnodd y gerbydres.

“Rywfodd,” meddai y gyriedydd wedyn, “gweithiodd popeth i'r dim; fel y gweddiwn, nis gallwn beidio gadael i'r peiriant gyflymu-ychydig, ac yna ychydig ychwaneg. Yn yr orsaf gyntaf wedyn, daeth y bobl i mewn ac allan o'r gerbydres fel gwyrth, a dyna ni yn cychwyn drachefn. Fel y gweddiwn ymddanghosai y peiriant fel pe yn mynd fel saeth trwy yr awyr. Rywfodd nis gallwn ei atal, a chyrrhaeddasom y gyffordd chwe munud cyn yr amser. Yr oedd y gerbydres arall yno, a'r *guard* a'i lusern yn ei law, ac meddai wrth ein *guard* ni,—“A fedrwch chi ddweyd wrthyf paham yr ydwyf yn aros fel hyn? Teimlwn fod yn rhaid i mi aros nes y cyrrhaeddech chi.”

“Nis gwn,” meddai yntau, “ond hwyrach eich bod i aros er mwyn y wraig hon, a'i phlentyn bach sâl. Y mae hi yn awyddus iawn am gael cyrraedd adref y nos Sadwrn hon.” Ond gwyddai y gyriedydd a'r fam mai Duw oedd wedi cadw y gerbydres yno fel atebiad i'w gweddiau hwy.



Y DIWEDDAR R. ROWLAND, U.H., PORTHMADOG.

Y BACHGEN OFALODD AM EI FAM.

DRINGODD Robert Rowland, fu farw Tachwedd 15, 1898, i sefyllfa o gyfoeth a pharch. Dyma fel yr edrydd Iolo Caernarfon hanes ei febyd, wedi dweyd hanes ei deulu.

“Daeth cwmwl yn fuan dros eu ffurfafen; bu farw y tad ar y 25ain o Fawrth, 1838, gan adael ar ei ol weddw ac wyth o amddifaid ieuainc. Ymgwymerodd ei frawd, Mr. D. Rowland, Caernarfon, a dwyn i fyny ddau o'r plant, Jane a Robert, yr hwn oedd ar y pryd tua naw oed. Ar ol bod gyda'i ewythr am ryw ddeunaw mis gorch-

fygwyd ef gan hiraeth, a mynnodd fyned adref. Mynnodd hefyd, cyn bod dros un ar ddeg oed, fyned gyda'i frawd hynaf i'r chwarel, er mwyn cynorthwyo ei fam i fagu y gweddill. Ymhen pedair blynedd, ymfudodd ei frawd i America, a syrthiodd cynhaliath y teulu yn hollol ar ysgwyddau Robert. Y flwyddyn ganlynol bu farw ei fam, a disgynnodd cynhaliath y tri plentyn ieuengaf, a chwaer hŷn nag ef, yn llwyr a chytan arno ef. Ymgymerodd â'r cyfrifoldeb yn ffyddiog a gwrol; cadwodd gartref bach cynnes iddynt; a thystiai na fu arnynt eisiau dim.

"Nid edrychai Mr. Rowland yn ol ar ddim yn ei fywyd gyda mwy o hyfrydwch nag ar ei ymddygiad tuag at ei fam a'i frodyr ieuengach. Credai fod yr Arglwydd wedi cymeradwyo ei waith, ac mai mewn canlyniad i hynny yr oedd yn ei fendithio ar hyd ei oes.

"Cyfarfu Mr. Rowland â rhwystrau fil, ac â rhai mawrion dros ben; ond gorchfygodd y cyfan, a chyrhaeddodd yn bur gynnar ar ei oes safle uchel o ymddiried ac anrhydedd. Dylai ei hanes fod yn ysbrydoliaeth i fechgyn tlodion ein gwlad."

DYFFRYN CRAWNANT.

COLEDDIR yr hen iaith gydag anwylddeb yn nyffryn gwyllt a phrydferth Crawnant, sy'n gorwedd ymysg brynau Brycheiniog; a chrosawir CYMRU'R PLANT yn frwdfrydig gan yr Ysgol Sul. Yn y Pasg diweddaf, arholodd y Parch. Gomer Harris y plant dan ddwy ar bymtheg yn Gymraeg. Ymysg y merched yr oreu oedd Beatrice Williams, Neuadd; ac ymysg y bechgyn, Johnny Williams, Neuadd, Dyffryn. Rhoddwyd gwobrwyon i'r goreuon gan Mr. F. G. R. Williams, U.D., Aberclydach, er mwyn calonogi'r plant i barchu eu hiaith.

MORWYN FACH O'R TLOTY.

ROEDD Mrs. Jeffreys a'i chwaer Miss Prichard wedi mynd gymaint yn ol yn y byd fel yr oedd yn rhaid iddynt, ar ddiwedd y flwyddyn 1897, gael morwyn fach o'r tloty. Edrychai pobl y pentref ar hyn fel peth dieithr iawn ym mywyd y ddwy foneddiges, gan eu bod yn cofio amser pan y cadwent ddwy forwyn, a'r rhai hynny yn rhai golygus iawn,—nid rhyw damaid bach tylodaidd yr olwg arni fel Biddy, yr hon oedd yn dlawd ei gwisg, yn dlawd ei llun, ac yn sefyll yn hollol ar ei phen ei hunan, heb gâr na chyfaill a wyddai am danynt yn y byd.

"Wyr neb pwy wyt ti?" oedd y cyfarchiad cyntaf a gafodd y forwyn fach, ar fore cyntaf ei gwasanaeth, oddiwrth Dinah Mari

Spite, croten fyddai yn gwerthu llaeth o dŷ i dŷ, un oedd wedi hanner gobeithio y cai *hi* ei chyflogi gan y ddwy toneddiges.

"Se well i tithau 'se ti ddim yn gwybod pwy wyt ti, na phwy ddygodd glogyn Miss Brown." atebai y plentyn.

"Rhen Wyddeles, 'rhen Wyddeles, eh, he he," gwaeddai Dinah, fel y bydd rhai nad oes ganddynt feddwl cyflym i daro yn arfer gwneyd. "Wyt ti'n gwbod *dim* am danat dy hunan," gwaeddai eto, wedi mynd gam neu ddau ar ei ffordd i dŷ arall.

"Mae'n well gwybod dim, na gwybod drwg," atebai y Wyddeles fach.

Ond y tunud nesaf yr oedd yn gwybod un peth am dani ei hunan.

"Bridget," meddai ei mheistres, Mrs. Jeffreys, "beth yw hyn w i yn glywed? Dyma ddechre drwg iawn. Cofiwch chi o hyn allan nad i chi ddim i weyd pethau fel yna wrth Dinah. Cofiwch hefyd fod gennyh y gwaith anhawdd o ennill cymeriad, a bod yn rhaid i chwi fod yn wastad ar eich gwyliadwriaeth os i chi am wneyd hyny."

"Wel, mi wedodd hi —"

"Nawr dyna ddigon; dewch a'r brechwast i mewn."

"Wel dyma i chi forwyn fach ddethe," meddai Miss Pritchard wrth weld Bridget yn dyfod i mewn a'r llestri.

Gwenodd Bidly o glust i glust, a rhoddodd ei chalon lam wrth glywed y geiriau caredig. Gallai ddweyd wrth Miss Pritchard,— "Codaist fi i tyny;" ac wrth Mrs. Jeffreys,— "Teflaist fi i lawr." Aeth ynghylch ei gwaith o barotoi y brechwast gyda bri ar ol hyn, a dywedodd Miss Pritchard wrth weld y drws yn cau ar ol y forwyn fach,—

"Wn i ddim siwt yr ych chi yn teimlo, Eleanor, ond mae rhywbeth yn debyg i lefain yn codi arna i wrth weld y tamaid bach yma wedi mynd ar un cam o ddillad y tloty i ddillad llawer yn rhy hen iddi."

"Llefain," meddai Mrs. Jeffreys, a dyna oedd yr ateb ddisgwyliai Miss Pritchard wrth ddweyd peth mor eithafol, "da chi, Margaret, ceisiwch ddefnyddio eich synwyr wrth edrych ar bethau fel hyn. Beth sydd yn dorcalonnus mewn bod plentyn o'r tloty wedi codi ris yn uwch yn y byd?"

"Oh, nid dyna y cwestiwn," atebai yr hen ferch. "Teimlo yr own i y carwn i i'r tamaid bach gael wythnos o chware beth bynnag; mewn gair, cael bod yn blentyn. Mi fues bron a chwerthin wrth ei gweld yn dod i mewn yn ddim ond cap a ffedog."

"Chwerthin nawr, nid —"

"Wel ie, dyna'r teimlad, dechreu mewn chwerthin a dibenu mewn

dagrau. Meddyliwch am dani, Eleanor, heb wybod erioed beth yw tad na mam, na chartref, na rhyddid. Wn i ddim ai nid y peth mwyaf o'r oll yw rhyddid."

"Does dim yn bosibl gweld eiso yr hyn na fuoch yn berchennog arno erioed," meddai Mrs. Jeffreys, "mae ganddi lawer gormod o un peth beth bynnag, mae ei thafod hi fel y pin, mi ddylech fod wedi ei chlywed yn ateb croten Mari Spite y bore yma."

"Mawr dda iddi."

"O mi roes i daw arni yn go fuan."

"Wel os ych chi yn cymeryd part Dinah, mi gymera inne bart Bridget."

"Margaret Elizabeth, mae'n syn gen i eich clywed," meddai Mrs. Jeffreys gan roddi i'w chwaer ei dau enw, fel y gw'nai bob amser pan y byddai yn anghymeradwyo yr hyn a ddywedai. "Cymeryd part yn wir!"

"Wel ie, mae yn amlwg eich bod chi yn cymeryd part Dinah, sydd a mam a chartref ganddi. Rw inne yn cymeryd part Bidy, sydd heb yr un."

"Ni feddyliais i fawr wrth gymeryd morwyn o'r tloty," meddai Mrs. Jeffreys, "mai fel hyn y byddai pethau yn troi mas."

"Arno ni y bydd y bai os gw'nai pethau droi mas yn ddrwg," atebai ei chwaer. "Credwch yn y forwyn fach, Eleanor; does dim yn gymaint o help i chi i wneyd yn dda, mi wyddoch trwy brofiad. Roedd fy mam yn credu ynw i, 'doedd fy nhad ddim, rwy'n cofio 'nawr yr effaith oedd y ddau yn cael arnat,—anghrediniaeth fy nhad yn peri i mi bob amser syrthio yn is na'm gallu; a chrediniaeth fy mam yn fy nghodi, os dim, yn uwch."

Merch ei thad oedd Mrs. Jeffreys, ac am hynny feallai nad oedd erioed wedi deall ei chwaer. Cododd oddiwrth y bwrdd mor gynted ag oedd yn bosibl, ac aeth at ei goruchwylion o ddwstio, a threfnu, a chwilio beiau.

Ym min yr hwyr gwelodd Bidy gyfle i redeg lawr i waelod yr ardd i weld a gai hi gip a'r Rachel fach, un oedd fel hithau yn blentyn y tloty, ac wedi dechreu ar ei gwasanaeth yr un diwrnod, a thyna lle yr oedd y plentyn yn disgwyl am dani, a babi mawr, yn edrych yn gymaint o faint a hi ei hunan, yn ei chol. Dechreuodd ddweyd ei chwyn y funud y daeth Bidy'n ddigon agos ati.

"Oh mae'n neis arnat ti," meddai. "Oh! dyna ffedog. Oh! dyna gap. Mi rown i'r byd 'se ni yn forwn ladi. 'Se ti ddim ond gwobod siwt un gas yw Mari'r go. Mi dorres big y tebot wrth neyd yng ngore i fod yn handi, a dyna glowten ges i gyda hi, ma 'moch i yn gwynio 'nawr. Chei di byth glowten 'da ladi."

"Na cha i," atebai Biddy, mewn llais diflas iawn, wrth gofio nad oedd yn bosibl galw clowten ar y dolur oedd ei chalon wedi gael, er y galle hithau ddweyd fod honno yn gwynio nawr.

"Oh dyna goler!" dechreuai morwyn fach y gof eto. "Mi rown y byd i ga'l gwisgo fel yna. Wyt ti yn teimlo yn ladi?"

"Mae'r coler yn stiff iawn," atebai Biddy.

"Fyswn i yn hidio dim am hynny," meddai Rachel. "Oh mi leicwn fod yn forwn ladi."

"Mi allai dithe wisgo coler os wyt ti yn leico."

"Does gen i ddim blas i wisgo dim. Ma'r hen fabi ma'n rhwbio i fyse ym mhob peth. Nawr hist mewn munud, ne mi gei di glowten," meddai y forwyn fach wrth weld fod y plentyn yn mynd i lefain.

"Oh paid bod yn gas iddo," erfyniai Biddy.

"Dyw i hen fam e yn meddwl dim o roi clowten i fi," atebai Rachel.

"Oh Rachel, Rachel —"

"Wel mi leicwn i dy weld di yn treio i gario fe. Mae e fel y plwm —"

"Dere i fi ga'l teimlo i bwysi e te," meddai Biddy, gan estyn ei breichiau dros y clawdd isel oedd rhwng yr ardd a'r ffordd lle y safai Rachel a'i baich drom.

"Bridget," gwaeddai Mrs. Jeffreys, mewn llais oedd yn dweyd mor amlwg a geiriau fod Biddy, nid yn unig wedi dechre y diwrnod yn ddrwg, ond yn ei ddiweddu yn yr un modd.

Penderfynodd y torwyn newydd y gwnai ddechre yn well bore drannoeth, ond yr oedd ganddi ddau elyn mor gryf yn Dinah Mari Spite a'i thafod parod ei hunan, fel yr oedd cadw yn gywir yn beth hollol amhosibl.

Cafodd Miss Pritchard hi un noswaith ar ddiwedd yr wythnos yn foddfa o ddagrau. Ceisiai lanhau esgidiau ei dwy feistres erbyn y Sul, ond yr oedd yn anhawdd cadw ei llygaid yn glir i weld ei gwaith, gan fod ffrydiau o ddagrau yn rhedeg dros ei gruddiau, ac ai y ddwy ffrwd yn rhychiau duon fel yr oedd Biddy yn ceisio eu sychu i fwrdd.

"Wel, nid dyma y forwyn fach ddaeth yma bore dydd Llun os bosib," gofynnai yr hen ferch. "Beth sydd yn bod Bridget?"

Methai Biddy gael geiriau i roi ar ddeall i'w meistres fel yr oedd wedi bod arni; er y mawr ddymunai wneyd hynny. Ychydig o oleuni gafodd yr hen foneddiges, ond yr oedd yn un fedrai ddarllen rhwng y llinellau yn well na'r rhan fwyaf, a gwnaeth benderfyniad y gwnai hi ei hunan agor y drws bore drannoeth i groten Mari Spite.

Bu yn disgwyl am dani hanner awr gyfan, ond cafodd lawn dâl am fod mor amyneddgar, pan wedi agor y drws a sefyll ychydig tu cefn iddo y clywodd Dinah yn dyweyd,—

"Wel yr hen Wyddeles, wyt ti yn ormod o ladi i ddangos dy hunan?"

"O nad w ddim yn ormod o ladi," atebai Miss Pritchard.

"Oh, ma'm, nid chi own i yn feddwl," gwaeddai Dinah mewn cyffro mawr.

"Pwy ynte?" gofynnai Miss Pritchard, mewn llais a gariai ddychryn i galon Dinah. "Os nad fi, Mrs. Jeffreys feallai. Galwch Mrs. Jeffreys, Bridget."

"O nage yn wir, yn wir."

"Wel pwy, ynte? Mae'n rhaid i mi gael gwybod, fel y gallaf eich gorfodi chi i weyd fod yn ddrwg gennych am eich ymddygiad. Ond na hidiwch," meddai y foneddiges, wrth weld fod y groten yn bur ystyfnig, "mi af i i lawr i gael gair gyda'ch mam ar ol brecwast."

"O os gwelwch chi yn dda, ma'm, ni na i byth rhagor, na na'n wir," meddai Dinah.

"Wnaiff hyna ddim o'r tro i fi, mae'n rhaid i fi ga'l gwybod pwy yw'r Wyddeles, dyna'r cwbl," atebai Miss Pritchard, "ond feallai fod eich mam yn gwybod."

"O ma'm, os gwelwch chi yn dda —"

"O, fi wrth gwrs yw hi, neu ni fyddai dim cymaint o ofn cyfadde arnoch."

"Nage yn wir, Biddy own i yn feddwl," meddai y groten wedi ei thwylo i greu na fyddai hyn yn beth mor ddifrifol.

"Bridget, dewch yma. Mae Dinah am ofyn eich pardwn —"

Ond erbyn hyn yr oedd Dinah hanner ffordd gartre, a holl blant y pentre ar ei hol am gael gwybod pam yr oedd yn wban mor ddychrynlyd. Ond dyna y tro diweddaf y clywodd Biddy yr enw a swniai mor hyll yn ei chlustiau, ac wedi i Miss Pritchard symud o'i ffordd un gelyn, ac iddi hithau a rhan uchaf ei nhatur goncro y llall, daeth i fod yn un o'r morwynion mwyaf parchus yn y gymydogeath, a meddyliai pobl oedd yn methu cadw eu morwynion mai peth dymunol iawn fyddai cael un o'r tloty, a honno yn ferch i dramp o Wyddeles,—mor llwyr yr oedd Biddy wedi ennill iddi ei hun gymeriad, a hwnnw yn un disglauer a dilychwin.

H. E. M.

☞ Cytfeind y golygydd yw,—OWEN M. EDWARDS, 3, CLARENDON VILLAS, OXFORD.

ARGRAFFWYD A OETHRODDWYD GAN HUGHES AND SON, 56, ROSE STREET, WELSHAM



CARN FADRYN, LLEYN.

TUDALEN Y GOLYGYDD.

Yn hanes plant Froncysylltau yn y rhifyn diweddaf lithrodd un cangymeriad i mewn. Edward Thomas Jones, trysorydd Urdd y Delyn, enillodd ran o wobwr y "Ddau Wynne."

Ymysg llyfrau newyddion y mae *Hanes Iesu Grist*, gan y Parch. J. Grawys Jones; *Hanes Eghwys Anibynnol Ebenezer*, Aberdâr; *Gwanwyn Bywyd*, gan y Parch. J. Hughes, M.A., Lerpwl; *Cofiant a Gweithiau Gwalchmai*, dan olygiaeth y Parch. R. Peris Williams; *Edmund Prys*, gan Glan Menai; *Yn ei Gamrau*, cyf. gan y Parch. D. E. Jenkins, Porthmadog; *Edmund Prys*, gan Asaph; ac ereill. Gweler nodiadau llawn yn CYMRU Mehefin.

Gwelir fod aelodau Urdd y Delyn erbyn hyn dros fl. Y mae mil o blant, o leiaf, yn hoff o Gymru, ac yn fyddlawr i'r iaith Gymraeg.

Mewn rhifynnau dyfodol bydd ychwaneg o hanes Llansannan, a darluniau o'i hen gartrefi. Am hanes taith yno, a'r dadorchuddio, a darluniau prydfferth o'r gofgolofn, Chwibren, rhai o blant Llansannan, &c., gweler CYMRU Gorffennaf.

Yn y lle crwn gwelir Hughie Thomas Jones, Llanfairfechan, yn ddwy flwydd oed, yn cychwyn i dreulio ei wyliau ar lan y môr.





GOR. 1899.

CYF. VIII. RHIF 91.

HYFRYDWCH YR HAF.

BBETH sydd yn fwy hyfryd na haf ar y mynyddoedd? Ar y ddalen arall gwelwch ddarlun o un o fynyddoedd Meirion yn yr haf. Mr. H. Owen, Abermaw, dynnodd yr darlun. Oni theimlwch gynhesrwydd yr haf wrth edrych arno? Oni theimlwch awel adfywiol y mynydd ar eich talcen? Uwchlaw Arthog, wrth odreu Cader Idris, y mae yr olygfa. Pob plentyn o Gymro,—os medr eled i'r mynydd yn yr haf. Dyddiau dedwyddaf fy mywyd i oedd y dyddiau y cymerai fy nhad fi yn ei law i ben y mynydd mawr sydd yn gwylio fy hen gartref yng Nghymru. Yr oedd yno iechyd ac ysbrydiaeth.

COFGOLOFN GWYR LLANSANNAN.

FEL yr addewais, eis ar bererindod i Lansannan, Mai 23, i weled dadorchuddio'r gofgolofn. Y mae Llansannan ymhell o bob ffordd haiarn. Y mae ar gariol y mynyddoedd mawr,—Mynydd Hiraethog,—sydd rhwng Dinbych yn Nyffryn Clwyd a Llanrwst yn Nyffryn Conwy. Rhwng Dinbych a Llansannan y mae ehangder o wlad werdd brydferth. Yna daw llwyd y mynyddoedd i'r golwg, ac mewn cesail ymnytha pentref bach gwledig Llansannan.

Rhoddodd y plwyf hwn gedyrn i Gymru,—Tudur Aled y mynach

a'r bardd melodaidd fu'n cwyno oherwydd cwmpo tywysogion Cymru; William Salesbury, roddodd y Testament Newydd yn eu hiaith eu hunain yn rhodd i'w gydwladwyr; Gwilym Hiraethog, roddodd fywyd i'r wasg Gymreig, gwir dywysog ei oes; Henry Rees, un y bu ei bregethau a'i weddïau fel y gwllith i dyfiant Cymru; Iorwerth Glan Aled, bardd mwyn plant ac adar a gwlad y Beibl.

Y mae cofgolotn y rhai hyn o flaen ysgol pentref tlws Llansannan. Y mae colofn uchel o garreg, ac enwau'r pump arni. Wrth droed y golofn y mae genethig o Gymraes yn eistedd, ac yn plethu coron o flodau i'w rhoddi er cof am danynt. Gwn y bydd y plant yn hoffi ei gweled wrth ddod i'r ysgol bob dydd. Wrth ei gweled byddant yn cofio am gewri eu hardal; a byddant yn ymdrechu dysgu. Pwy wŷr na chyfyd cewri eto o'r ardal dawel brydferth hon?

—◆◆◆—

C R E G Y N .

YDYCH chwi am fynd at lan y môr eleni? I ble'r ewch? I Drefraeth ynte Aberystwyth, Dinbych y Pysgod ynte'r Rhyl? I'r dref agosaf atoch, mae'n debyg, sydd ar lan y môr yr ewch. Cofiwch edrych ar y cregyn ar y tywod. Feallai eich bod yn byw ar lan y môr, ac y cewch amser i chwilio am danynt. Mae creadur byw,—math o bysgodyn,—wedi bod yn preswyllo ynddynt. Fel yr ydych chi yn byw yn y tŷ, felly y mae rhyw greadur bach, mor ddiniwed a chwithau, wedi bod yn byw yn y gragen. Pwy wnaeth eich tŷ chwi? Eich tad, hwyrach, neu ryw wŷr da arall, nid y chwi beth bynnag, yr oedd eich tŷ wedi ei drefnu yn gysurus i chwi. Ond nid oedd yr un tŷ,—tŷ'r pysgodyn yw'r gragen,—ar gyfer y pysgodyn, druan, a rhaid oedd iddo wneyd ei dŷ ei hun. Codwch y gragen, ac edrychwch arni,—mor dlws a del yw! Lle cafodd y pysgodyn y defnyddiau i'w gwneyd? O ddwfr y môr—halen ac elfennau eraill sydd yno, a gwnaeth hi heb gyllell na dim, ac yn galed iawn, er ei fod yn gweithio yn y dŵr. Mae llawer iawn o wahanol bysgod; a llawer, felly, o wahanol gregyn. Ni chewch ddim mwy iach a phlesurus na mynd i lan y môr a chasglu cymaint alloch o wahanol fathau o gregyn. Golchwch hwy wedi hynny. Torrwch ddarn o bapur gwyn caled,—dwy fodfedd o led, a phedair modfedd o hyd, a rhoddwch bedair cragen o'r un rhyw â *gum* ar bob cerdyn. Gellwch eu cadw'n destlus felly, a chwilio am eu henwau i'w hysgrifennu danynt.

Pa fardd Cymreig ganodd i'r gragen?



DR. R. D. EVANS, FFESTINIOG.

(Darlun gan Elliot & Fry.)

MEDDYGON.


III. DR. R. D. EVANS, FFESTINIOG.

GANWYD R. D. Evans yng Nghricieth, yn 1856. O Leyn yr hanna ei deulu, ac y mae o hil cerdd a phregeth,—Dewi Wyn yn ewythr iddo gefnder ei fam, a'r Parch. Owen Davies yn gefnder.

O Ysgol Genhedlaethol Llanystumdwy aeth i hen Ysgol Ramadegol enwog Botwnog, ac oddiyno fel efrdydd lleygol i Athrofa'r Bedyddwyr yn Hwlfordd. Treuliodd ei brentisiaeth meddygol ym Middlesboro, a'i efrdiaeth feddygol yn Edinburgh,—y cwbl cyn bod yn dair ar hugain oed.

Ymsefydlodd yn Ffestiniog, ac erbyn hyn y mae yn un o arweinwyr y lle blaenllaw ac effro hwnnw. Y mae yn ymdrechgar iawn gydag achos addysg ymhell y tu hwnt i gyffiniau Ffestiniog.

Y mae galwedigaeth y meddyg yn ei wneyd yn rhyddfrydig a llawn cydymdeimlad. Ond hyd yn oed ymysg meddygon y mae rhyddfrydigrwydd a charedigrwydd Dr. Evans yn amlwg. Saif yn gadarn dros ei egwyddorion, llefara'n ddiamwys,—ac y mae pawb yn hoff o hono. Y mae'n Fedyddiwr selog, a rhoddodd ei enwad bob anrhydedd iddo. Ond er hynny,—neu yn hytrach oherwydd hynny,—nid oes ŵr ehangach ei gydymdeimlad, na gwladgarwr mwy cywir ac amhartiol, hyd yn oed ym Mlaenau Ffestiniog.



DIWYDEWYDD.

Codi pont dros ffordd hafarn ym Mro Morgannwg.

YR EHEDYDD.

UCHEL a chlir yw'r gân, ond ple mae'r canwr? Nid oes goeden yn agos, na'r un creadur byw ond nyni; eto ymchwydda'r gân nes mae'r awyr gyfan fel pe yn ei hadseinio, a cherdd mor felus yw, mor swynol, nes y swnia fel emyn diolchgarwch.

Ple gall y canwr fod? Edrychwch i fyny, edrychwch i fyny! Yr ehedydd yw'r canwr—dacw fe mor uchel yn yr awyr try fel yr ymddengys i ni ddim mwy nag ysmotyn du ar y cymylau gwynion. Ni wna, fel adar eraill, ganu ei gân trwodd ac yna sefyll ychydig, fel pe i gymeryd anadl; pyncia ymlaen yr holl amser y bydd i fyny yn yr awyr, heb gymeryd arno arbed ei hun ac heb eisieu gorffwys. Cân yr ehedydd bron bob adeg o'r flwyddyn. Pan egyr llygaid y dydd, meddylia'r ehedydd fod ei oriau dyledswydd yntau wedi dechreu; a phan gwympa'r dail, teifi yr aderyn bychan, dewr, ei gerdd i'r awyr oer. Pwy na hoffa gân yr ehedydd?

Lawer blwyddyn yn ol, meddyliodd gweddw dlawd, oedd bron digalonni ar ennill ei bywioliaeth yn ei hen gartref, y gallai wneyd yn well yn Awstralia; a chroesodd y môr i'r wlad bell honno. Cymerodd gyda hi ehedydd dof, yr hwn a ganasai aml foreuol gerdd yn ei gawell tuallan i ffenestr ei bwthyn. Llogodd dŷ coed bychan yn y cloddfeydd aur, a thrwy olchi dillad y gweithwyr a choginio eu bwyd, llwyddodd i ennill digon o arian i'w chadw yn gyfforddus.

Canai yr ehedydd ei gân lon y naill ddydd ar ol y llall wrth ei drws, a buan daeth y cloddwyr aur i'w wrando. Ni chlywsent y gân gynefin honno ers blynnyddoedd. Fel y syrthia'r nodau melus ar eu clustiau, anghofiasant eu bod dan awyr estronol—dygai'r ehedydd eu hen gartref mor agos atynt.

Cynhygiodd mwy nag un ohonynt brynnu'r ehedydd, ond siglai'r weddw ei phen yn ateb i'w holl gynhygion. "Na, na," meddai, "wertha i byth mohono. Yr unig damaid o'r hen wlad sydd gennyf sydd yn y cawell yna. Ond gallwch ddod ar y Sul i'w glywed yn canu. Hwyrach y gwna les i chwi."

A Sul ar ol Sul daeth y cloddwyr aur i glywed yr ehedydd yn canu. Nid oedd ganddynt addoldai i fynd iddynt, na dim i wneyd y Sabbath yn wahanol i ddyddiau eraill yr wythnos, ond fod rhai o'r dynion, drwy lynu wrth eu hen arferion, yn dewis y Sabbath fel eu dydd gorffwys.

Dygodd cân yr ehedydd eu hen gartrefi i'w calonnau, os nad i'w llygaid hiraethus; a daeth llawer o adgofion mebyd llawen yn ol iddynt. Ymdyrrrent oddiamgylch tra canai'r aderyn ei gân ryfedd; ac yno, yn y tir pellennig hwnnw, llawer o'r meibion llafur hynny a

gofiasant y gweddiau ddysgwyd ar liniau eu mamau, a diniweid-
rwydd a gobeithion eu plentyndod a'u hieuentid.

Ah! 'roedd y byd wedi newid er yr amser hwnnw, a hwythau
gydag ef. Ymgodai bryniau a dyffrynnoedd eu hen gartrefi o'u
blaen, a thoddwyd eu calonnau. Yn wir, traddododd yr ehedydd
bregeth iddynt—pregeth ar gân. A phwy amheua iddo '*wneyd*
lles iddynt?'

Llwyn, Ceredigion.

Cyf. JOHN JAMES.

TOM ELLIS A PHLANT.

BYDD Tom Ellis byw yn hir ym meddwl plant Cymru. Mae ei
ysbryd yn arwain llu o blant i fywyd gwell,—i wneyd cenedl
well a rhagorach o'r Cymry. Cyfaill plentyn oedd, a dyheai am
roddi llytrau swynol i blant ysgolion Cymru. Plant oedd testyn ei
lythyr olaf,—rhoddi Ysgol Sir i blant amaethwyr a morwyr
Ardudwy. Ac mae plant yr ysgol honno am roddi carreg i gofio
am dano ynddi pan godir hi ar draeth môr yr Abermaw. Nodaf un
engraifft o lawer fel yr edmygai plant Tom Ellis.

Cafodd plentyn pert wyth mlwydd oed Mr. Robert Griffith, un o
Wesleyaid yr Abermaw, wobr uchaf ei ddoisbarth am ddysgu ei
Feibl. Drannoeth aeth i siop pen blaenor ei eglwys, ac wedi
dweyd ei neges, ebai,—

"Cefais hanner coron o wobr ddoe."

"Am beth, machgen i?" ebe'r blaenor.

"Am ddysgu'r Maes Llafur."

"Beth wyt am wneyd â'r holl arian?"

"Am eu rhoddi yn y banc."

"Da machgen i. Beth wyt ti am fod?"

"*Tom Ellis,*" ebe'r plentyn, gan godi ar flaenau ei draed i weled
dros y cownter.

RHOSYN GLAS.

YMAE garddwr yn Vienna, meddir, wedi medru tyfu rhosyn
glas. Ni welodd neb, hyd y gwyddis, rosyn glas o'r blaen.
Caiff y rhosyn glas groeso mawr i erddi'r cyfoethog; a chyn hir,
feallai, daw'n ddigon gostyngedig i gartrefu yng ngerddi'r tlawd.

Ieuanc a newydd ydyw; dyna pam yr anwylir ef. Mae ei frodyr
cochion a gwynion a brith yn harddach nag ef.



PARCH. G. OWEN. W. OWENS.

J. E. JONES. W. JOHNSON.
W. A. LEWIS.

PLANT CYMRU. CXL. PLANT RHOS DDU.

PLANT RHOS DDU.

CYN ymadael o Wrecsam cawsom dynnu llun plant Rhos Ddu sy'n perthyn i Urdd y Delyn,—ynghyd â'r rhai fu yn eu cynorthwyo y gauaf diweddaf hwn. Addaw i'r plant wnaethum, os y byddent yn blant da, yr anfonwn eu llun i **CYMRU'R PLANT**, ac y cawsent hwythau bob un gopi o hono yn cynnwys y darlun. Felly fu, ond drwg gennyf na fedrent ddyfod i gyd; ond 'doedd dim i wneyd ond tynnu y rhai ddaeth at eu gilydd.

Y mae yno hanner cant o enwau ar y llyfrau, a buont yn hynod ffyddlon i gyd trwy y gauaf. Siaradant, darlennant, ac ysgrifennant Gymraeg yn gampus. Dysgant ddaearyddiaeth a hanes Cymru, a chanant ei halawon o "Dillau'r Delyn," dan gyfarwyddyd Mr. William Owens Y plant bach goreu yng Nghymru ydynt, ac yn wladgarwyr bychain cywir.

Un noson cyn i mi ymadael, cawsom wledd gyda'n gilydd o de a danteithion lawer. Fu yno erioed y fath hwyl, a chafodd y plant erioed y fath wledd. Dilynwyd y wledd gan gyfarfod amrywiaethol gan y plant, a daeth nifer mawr o rieni a chyfeillion y plant i'r cyfarfod. Canu, adrodd, areithio, sillebu, *dictation*, cyfieithu, &c., oedd yno, a phawb mewn hwyl ac wrth eu bodd.

Yr oedd dau amcan i'r cytarfod,—un i roddi gwledd iawn i'r plant, a'r llall i minnau ffarwelio â hwy. Dyna'r peth anhawddat wnes ers talm—troi cefn ar blant Rhos Ddu. Nis gallwn ddatgan

maint y pleser a'r mwynhad gefais yn eu plith am rai blynyddau. Yr oeddwn yn eu caru, a chredaf eu bod hwythau yn fy ngharu i. Synnwyd fi gan eu gwaith yn cyflwyno anrheg hardd a gwerthfawr i mi yn y cytarfod dan sylw. Math o *Writing Cabinet* ydyw, o dderw caboledig, wedi ei addurno â *plated mountings*. Edrycha fel blwch pan yn gauedig, gyda dolen bob ochr i'w gario. Pan dynner y *drawer* allan, agora y top o hono ei hun,—*revolving top*,—yn hwnnw y mae y papur a'r *envelopes*, &c., ac yn y *drawer* y mae'r inc, yr ysgrifbinnau, pensil, a phob math o daclau o'r fath. Pan wthier y *drawer* yn ei ol, caua y top drachefn. Ar y plât sydd ar ei dop, y mae a ganlyn,—“Cyflwynedig i W. A. Lewis, gan Urdd y Delyn a Gobeithlu Rhos Ddu, Mawrth, 1899.”

URDD Y DELYN.

Y RHEOLAU.

1. Dysgu starad ac ysgrifennu Cymraeg; darllen rhan o'r Beibl Cymraeg, neu ryw lyfr Cymraeg arall, bob dydd, ac ysgrifennu Cymraeg o'i gyfansoddiad ei hun.

2. Astudio hanes Cymru, a gwneyd ei oreu i godi ei wlad, fel y byddo Cymru fydd yn well na'r hen Gymru.

3. Dysgu canu'r delyn, os bydd hynny yn y cyrraedd; a dysgu alawon Cymreig.

4. Byw, hyd y gall, yn ol dysgeidiaeth yr hen Gymry gynt, mor bell ag y mae'r ddyysgeidiaeth honno'n un a dysgeidiaeth Orist. Y mae'r ddyysgeidiaeth honno'n gofyn burdeb, cariad at addysg, caredigrwydd at ddyn, addfwynder at greaduriaid dreswm, iaith ddihalog.

AELODAU NEWYDDION.

995. Lloyd George Williams, Bron Llan, Gwytherin.

996. Haf Edwards, Bryn'r Aber, Llanuwchllyn.

CANGEN BETHESDA, CYDWELL.

997—1022.

Sarah Evans, Minnie Morgans, Heol-y-dwr; Mary Jane Davies, Heol Fair; Lydia Copp, Wesley Terrace; Gwennllian Davies, Heol Fair; Jessie E. Hart, Bristol House; Frank Davies, Station Road; Lizzie M. Thomas, New St.; Maggie Phillips, Station Road; Mary Williams, Ada Williams, Gwladys Jones, Water St.; Maggie Fisher, Castle St.; Violet Rees, Water St.; Mary Jones, Lady St.; Martha Ann Rogers, Pembrey Road; Gwladys Jones, Lady St.; Winifred

Phillips, Station Road; Willie Copp, David Copp, Wesley Terrace; Kattie Williams, Julia Williams, Water St.; Gwladys Davies, Castle St.; David George Evans, Water St.; Frank Jones, Lady Street; Idris Williams, Water Street.

Daw hanes a darlun y gangen hon,—wedi ei thynnu yn hen gastell Cydweli,—yn y rhifyn nesaf.

URDD Y DELYN, CLYNNOG.

HARDD yw ceidwaid mân y coedydd,
A'r blodau gwylltion ar y gellydd;
Ac wrth daro tant a llinyn
Hardd yw dwylo Urdd y Delyn.

Clychau Beuno, clywch hwy beunydd
Yn y tŵr yn taro'r newydd,
Fod y tynion dannau'n perthyn
I hardd dylwyth Urdd y Delyn.

Llwyn y Ne, mae'r lle mor llawen,
Pan fo cyngherdd ar bob cangen;
Mwynach, llonnach gerdd y llinyn
Ddaw o dalaeth Urdd y Delyn.

Aed y Bwlch i Ymwlech ymaith,
Aed y Gyrn i'r Garn ar ymdaith,
Cyn y gweler gân y gelyn
Ar ddioliad Urdd y Delyn.

HYWEL TUDUR.

GAIR O LWYDCOED, MORGANNWG.

Oddiworth y Paroh. J. Lewis.

Yr ydym wedi dirwyn ein cyfarfodydd gauaf i fyny. Cawsom dê, a chytarfod hwylus neithiwr. Da iawn gennyf eich hysbysu fod Urdd y Delyn wedi gwneyd lles i'n pobl ieuainc. Y mae llawer o ardaloedd y De ymhell yn ol mewn pethau Cymreig, a da gwneyd rhywbeth er gwella y sefyllfa. Cawsom gyfarfodydd llwyddiannus ar hyd y gauaf, a mynd ar gynnydd mae'r aelodau. Aeth y medalau bob un.

DROS FIL.

Y MAE'n llawenydd mawr i bob gwladgarwr weled fod, erbyn hyn, dros fil o blant yn perthyn i Urdd y Delyn. Bydd llawenydd yn yr Alban, yn yr Iwerddon, ac yn Llydaw. Y mae'r plant yn ymuno o honynt eu hunain; ni wesgir arnynt, ni ofynnir iddynt hyd yn oed.

LIL FACH.

ER cof anwyl am dani. Bu farw yn eneth fechan ddi-fam, Ebrill 17eg, 1899; yn saith mlwydd a dau fis. Gadawodd ei thad,— Mr. Solomon Bebb, Treherbert,—yng nghwmni hiraeth a thri o blant bychain i alaru ar ei hol. Ychydig ddyddiau cyn ei marwol-aeth, yr oedd mor iached a dail y gwanwyn, a mor nwyfus a'r awel sydd yn chwareu rhyngddynt. Dechreuodd deimlo'n glaf prydawn dydd Gwener wrth fynd adref o'r ysgol; a chyn "amser ysgol" yr wythnos ddilynol, yr oedd ei henaid gwyn wedi ehedeg yng nghwmni ei gweddi olaf i ymyl ei mam.

Tra'r gwanwyn frysiai'i gamrau
Dros lwybrau gwyrdd y ddôl,
Daeth yn ei gwmni gennad prudd
I alw Lil yn ol;
Ei henaid pur fedyddiwyd
Mewn diluw gwyn o hedd,
Pan ddwedai'r angel, "Ti gei ddod
Cyn gwybod ystyr bedd."

Pan oedd ei thraed yn oeri
Wrth nesu tua'r glyn,
Ei gweddi olaf hedodd fry
Yng nghwmni'i henaid gwyn;
Diffannodd yn y bore
Fel seren ola'r nos,
Mor ddistaw-ddwys a'r heulwen sydd
Yn sychu gruddiau'r rhos.

Hi garodd blant a blodau,—
Ni themlai byth yn glaf,
Mewn adgof gwisgai lili'r glyn
Ar wisgoedd gwynion haf;
Ond cyn i hwnnw wawrio,
Ei bywyd roddodd lam,
Dychmygwn bellach weled Lil
Yn ymyl Duw a'i mam.

Bob tro daw'r gwanwyn bellach
I ddeffro tlysi'r wlad,
O! boed mewn brys i wneyd ei sedd
Ar fedd yr eneth fad;
Gorwyntoedd, peidiwch rhuthro
Dros ben y fangre brudd,—
Gwnewch droi yn haf awelon mwyn,
A chwynwch nos a dydd.

Treherbert.

Prudd-bortreadu'i blentyn
Tra yma yn y byd,
Mewn adgof dwys a'i ruddiau'n llaith
Yw gwaith ei thad o hyd;
Dychmyga glywed miwsig
Ei chwareu ger y tŷ,
A chlychau'i gof sy'n canu'n wan
Y cerddi ganai hi.

Ar hyd y tŷ mae hiraeth
Yn gosod ol ei droed,
Dangosa inni swynion pridd
Ei bywyd seithmlwydd oed;
Ei thegan bach fan yma,
A'i dillad welir draw;
A'i gwyneb gwyn mewn darlun pur
Sydd ar y mur gerllaw.

Mae'r llais fu gynt yn adrodd
Adnodau ar ddydd Sul,
Yn canu'r nefol gerdd ddi-daw
Tu draw i'r "llwybr cul;"
A'r traed fu'n brysiu'n ddi-yr
I'r Gobeith-lu cyn hyn,
Sy'n dawnsio'n swyn y delyn bêr
Yng nghartre'r angel gwyn.

S. D. LLOYD.

STORIAU CYMRU I'R PLANT.

GAN WATCYN WYN.

II. STORI MAEN CETTI, YR HON A HOLLTODD DEWI SANT A'I GLEDDYF.

OES un o honoch chwi, blant, a wŷr
 Hanes Maen Cetti ym Mro Gŵyr?
 Os byddwch yn dawel adroddaf i chwi
 Y stori fel y clywais i hi.

Ar ben y bryn yr oedd carreg fawr,
 Mae darnau o honi yno 'nawr;
 Carreg aruthroł ei maint oedd hon,
 A'i golwg fel un o'r duwiau bron.

'Roedd gwŷr Bro Gŵyr yn dringo'r bryn,
 Ac ar faen Faen Cetti yn edrych yn syn,
 A'r maen flaen eu llygaid yn troi yn dduw,
 Ai'r garreg farw yn eilun byw.

Paganiaid y fro flaen y garreg fud
 Elent yn eilunaddolwyr i gyd;
 Calon y wlad yn caledu'n llwyr,—
 Calon fel carreg oedd gŵn wŷr Bro Gŵyr.

Clywodd Dewi Sant am y pethau hyn,
 Ac am yr addoliad ar ben y bryn,
 Ac yn sanctaidd ei sel aeth tua Bro Gŵyr,
 Gan benderfynu dryllio'r ddelw'n llwyr.

Casglodd y dynion i ben y bryn,
 A thynnodd ei gleddyf gyda hyn,
 Ac yno lle gwelai eu llygaid hwy,
 Holltodd y garreg fawr yn ddwy.

Ac archodd i ffynnon o ddyfroedd byw
 Darddu lle safai yr eilun dduw,
 Mae'r ffynnon yn tarddu hyd yn awr,
 Yn tarddu lle holltwyd y garreg fawr.

Dinistrio pob drwg ydoedd yn y byd,
 A rhoi rhywbeth da yn ei le o hyd,
 Dyna ydoedd gorchwyl Dewi Sant,
 Chwi gofiwch ei enw e,—gofiwch chwi, blant?

"Can yr Adar."

Y Geiriau gan y
PARCH. R. GWMBRYN JONES,
CAPEL DEWLI.

Y Gerddoriaeth gan
J. LUMLEY DAVIES, G.T.S.C.,
LLEDBRŌD.

DOH F.

<table border="0"> <tr><td>m .s</td><td>:fe .s</td><td> d</td><td>:d</td></tr> <tr><td>Cana'r adar mwyn - ion</td><td></td><td></td><td></td></tr> <tr><td>d .d</td><td>:d .d</td><td> l₁</td><td>:s₁</td></tr> <tr><td>s .m</td><td>:re .m</td><td> f</td><td>:m</td></tr> <tr><td>Cana'r adar mwyn - ion</td><td></td><td></td><td></td></tr> <tr><td>d .d</td><td>:d .d</td><td> d</td><td>:d</td></tr> </table>	m .s	:fe .s	d	:d	Cana'r adar mwyn - ion				d .d	:d .d	l ₁	:s ₁	s .m	:re .m	f	:m	Cana'r adar mwyn - ion				d .d	:d .d	d	:d	<table border="0"> <tr><td>m .s</td><td>:fe .s</td><td> r</td><td>:—</td></tr> <tr><td>yn y goedwig werdd,</td><td></td><td></td><td></td></tr> <tr><td>d .d</td><td>:r .r</td><td> d</td><td>:t₁</td></tr> <tr><td>s .m</td><td>:l .s</td><td> fe</td><td>:s</td></tr> <tr><td>yn y goedwig werdd,</td><td></td><td></td><td></td></tr> <tr><td>d .d</td><td>:d .t₁</td><td> l₁</td><td>:s₁</td></tr> </table>	m .s	:fe .s	r	:—	yn y goedwig werdd,				d .d	:r .r	d	:t ₁	s .m	:l .s	fe	:s	yn y goedwig werdd,				d .d	:d .t ₁	l ₁	:s ₁	<table border="0"> <tr><td>f .s₁</td><td>:s₁ .m</td></tr> <tr><td>Llanw'r byd a</td><td></td></tr> <tr><td>s₁ .s₁</td><td>:s₁ .s₁</td></tr> <tr><td>d .r</td><td>:m .d</td></tr> <tr><td>Llanw'r byd a</td><td></td></tr> <tr><td>l₁ .t₁</td><td>:d .t₁</td></tr> </table>	f .s ₁	:s ₁ .m	Llanw'r byd a		s ₁ .s ₁	:s ₁ .s ₁	d .r	:m .d	Llanw'r byd a		l ₁ .t ₁	:d .t ₁
m .s	:fe .s	d	:d																																																											
Cana'r adar mwyn - ion																																																														
d .d	:d .d	l ₁	:s ₁																																																											
s .m	:re .m	f	:m																																																											
Cana'r adar mwyn - ion																																																														
d .d	:d .d	d	:d																																																											
m .s	:fe .s	r	:—																																																											
yn y goedwig werdd,																																																														
d .d	:r .r	d	:t ₁																																																											
s .m	:l .s	fe	:s																																																											
yn y goedwig werdd,																																																														
d .d	:d .t ₁	l ₁	:s ₁																																																											
f .s ₁	:s ₁ .m																																																													
Llanw'r byd a																																																														
s ₁ .s ₁	:s ₁ .s ₁																																																													
d .r	:m .d																																																													
Llanw'r byd a																																																														
l ₁ .t ₁	:d .t ₁																																																													

<table border="0"> <tr><td> m</td><td>:r</td><td> f</td><td>:t₁</td><td> d</td><td>:—</td></tr> <tr><td>swyn - ion</td><td></td><td>Wna eu</td><td>oerdd;</td><td></td><td></td></tr> <tr><td> s₁</td><td>:fe₁</td><td>f₁ .l₁</td><td>:s₁</td><td> s₁</td><td>:—</td></tr> </table>	m	:r	f	:t ₁	d	:—	swyn - ion		Wna eu	oerdd;			s ₁	:fe ₁	f ₁ .l ₁	:s ₁	s ₁	:—	<table border="0"> <tr><td> m</td><td>:ba</td><td>:se .m</td></tr> <tr><td>Clywir hwy'n tel-</td><td></td><td></td></tr> <tr><td>s₁</td><td>:t₁</td><td> l₁</td><td>:r</td></tr> <tr><td>Clyw - ir</td><td></td><td>hwy'n</td><td>tel -</td></tr> </table>	m	:ba	:se .m	Clywir hwy'n tel-			s ₁	:t ₁	l ₁	:r	Clyw - ir		hwy'n	tel -				
m	:r	f	:t ₁	d	:—																																
swyn - ion		Wna eu	oerdd;																																		
s ₁	:fe ₁	f ₁ .l ₁	:s ₁	s ₁	:—																																
m	:ba	:se .m																																			
Clywir hwy'n tel-																																					
s ₁	:t ₁	l ₁	:r																																		
Clyw - ir		hwy'n	tel -																																		
<table border="0"> <tr><td> de</td><td>:r</td><td>r</td><td>:f</td><td> m</td><td>:—</td></tr> <tr><td>swyn - ion</td><td></td><td>Wna eu</td><td>oerdd;</td><td></td><td></td></tr> <tr><td> l₁</td><td>:r</td><td>r₁</td><td>:s₁</td><td> d</td><td>:—</td></tr> </table>	de	:r	r	:f	m	:—	swyn - ion		Wna eu	oerdd;			l ₁	:r	r ₁	:s ₁	d	:—	<table border="0"> <tr><td> m</td><td>:ba</td><td>:se .m</td><td> l</td><td>:m</td></tr> <tr><td>Clywir hwy'n telor - i</td><td></td><td></td><td></td><td></td></tr> <tr><td>m</td><td>:r</td><td> d</td><td>:t₁</td></tr> <tr><td>Clyw - ir</td><td></td><td>hwy'n</td><td>tel -</td></tr> </table>	m	:ba	:se .m	l	:m	Clywir hwy'n telor - i					m	:r	d	:t ₁	Clyw - ir		hwy'n	tel -
de	:r	r	:f	m	:—																																
swyn - ion		Wna eu	oerdd;																																		
l ₁	:r	r ₁	:s ₁	d	:—																																
m	:ba	:se .m	l	:m																																	
Clywir hwy'n telor - i																																					
m	:r	d	:t ₁																																		
Clyw - ir		hwy'n	tel -																																		

<table border="0"> <tr><td>l</td><td>:m</td><td> m .f .s</td><td>:s .f .m</td><td>m</td><td>:—</td><td> r</td><td>:</td></tr> <tr><td>or - i</td><td>Ar y wawrddydd</td><td>dlos,</td><td></td><td></td><td></td><td></td><td></td></tr> <tr><td>d .d</td><td>:r .r</td><td> de</td><td>:— .l₁</td><td>l₁</td><td>:—</td><td> —</td><td>:</td></tr> <tr><td>or - i</td><td>Ar y wawr - ddydd</td><td>dlos,</td><td></td><td></td><td></td><td></td><td></td></tr> </table>	l	:m	m .f .s	:s .f .m	m	:—	r	:	or - i	Ar y wawrddydd	dlos,						d .d	:r .r	de	:— .l ₁	l ₁	:—	—	:	or - i	Ar y wawr - ddydd	dlos,						<table border="0"> <tr><td>m .ba</td><td>:se .m</td><td> l .l</td><td>:l .s</td><td>s</td><td>:—</td><td> f</td><td>:</td></tr> <tr><td>Ar y wawrddydd, Ar y wawrddydd</td><td></td><td>dlos;</td><td></td><td></td><td></td><td></td><td></td></tr> <tr><td>d .d</td><td>:t₁ .t₁</td><td> l₁</td><td>:— .de</td><td>r</td><td>:—</td><td> —</td><td>:</td></tr> <tr><td>or - i</td><td>Ar y wawr - ddydd</td><td>dlos,</td><td></td><td></td><td></td><td></td><td></td></tr> </table>	m .ba	:se .m	l .l	:l .s	s	:—	f	:	Ar y wawrddydd, Ar y wawrddydd		dlos;						d .d	:t ₁ .t ₁	l ₁	:— .de	r	:—	—	:	or - i	Ar y wawr - ddydd	dlos,						<table border="0"> <tr><td>t₁</td><td>:r</td></tr> <tr><td>Dal - iant</td><td></td></tr> <tr><td>s .l</td><td>:t .s</td></tr> <tr><td>Daliant oll i</td><td></td></tr> <tr><td>s</td><td>:f</td></tr> <tr><td>Dal - iant</td><td></td></tr> </table>	t ₁	:r	Dal - iant		s .l	:t .s	Daliant oll i		s	:f	Dal - iant	
l	:m	m .f .s	:s .f .m	m	:—	r	:																																																																							
or - i	Ar y wawrddydd	dlos,																																																																												
d .d	:r .r	de	:— .l ₁	l ₁	:—	—	:																																																																							
or - i	Ar y wawr - ddydd	dlos,																																																																												
m .ba	:se .m	l .l	:l .s	s	:—	f	:																																																																							
Ar y wawrddydd, Ar y wawrddydd		dlos;																																																																												
d .d	:t ₁ .t ₁	l ₁	:— .de	r	:—	—	:																																																																							
or - i	Ar y wawr - ddydd	dlos,																																																																												
t ₁	:r																																																																													
Dal - iant																																																																														
s .l	:t .s																																																																													
Daliant oll i																																																																														
s	:f																																																																													
Dal - iant																																																																														

rall.

<table border="0"> <tr><td> s .l</td><td>:t .s</td><td>d¹</td><td>:s</td><td> s</td><td>:fe</td><td>s</td><td>:—</td><td> f</td><td>:—</td></tr> <tr><td>Daliant oll i</td><td></td><td>fol</td><td>- i</td><td>Nes</td><td>daw'r</td><td>nos.</td><td></td><td> —</td><td>:—</td></tr> <tr><td> d</td><td>:f</td><td>m</td><td>:r</td><td> de</td><td>:d</td><td>nos.</td><td></td><td> —</td><td>:—</td></tr> <tr><td>oll</td><td>i</td><td>fol</td><td>- i</td><td>Nes</td><td>daw'r</td><td>s</td><td>:—</td><td> —</td><td>:—</td></tr> <tr><td> d¹</td><td>:s</td><td>—</td><td>:—</td><td> l</td><td>:l</td><td>nos.</td><td></td><td> —</td><td>:—</td></tr> <tr><td>fol</td><td>- i</td><td></td><td></td><td>Nes</td><td>daw'r</td><td>s₁</td><td>:—</td><td> —</td><td>:—</td></tr> <tr><td>m</td><td>:r</td><td>d</td><td>:t₁</td><td> l₁</td><td>:r</td><td>nos.</td><td></td><td> —</td><td>:—</td></tr> <tr><td>oll</td><td>i</td><td>fol</td><td>- i</td><td>Nes</td><td>daw'r</td><td>nos.</td><td></td><td> —</td><td>:—</td></tr> </table>	s .l	:t .s	d ¹	:s	s	:fe	s	:—	f	:—	Daliant oll i		fol	- i	Nes	daw'r	nos.		—	:—	d	:f	m	:r	de	:d	nos.		—	:—	oll	i	fol	- i	Nes	daw'r	s	:—	—	:—	d ¹	:s	—	:—	l	:l	nos.		—	:—	fol	- i			Nes	daw'r	s ₁	:—	—	:—	m	:r	d	:t ₁	l ₁	:r	nos.		—	:—	oll	i	fol	- i	Nes	daw'r	nos.		—	:—	<table border="0"> <tr><td>s</td><td>:—</td><td> f</td><td>:—</td></tr> <tr><td>nos.</td><td></td><td> —</td><td>:—</td></tr> <tr><td>t₁</td><td>:—</td><td> —</td><td>:—</td></tr> <tr><td>nos.</td><td></td><td> —</td><td>:—</td></tr> <tr><td>s</td><td>:—</td><td> —</td><td>:—</td></tr> <tr><td>nos.</td><td></td><td> —</td><td>:—</td></tr> <tr><td>s₁</td><td>:—</td><td> —</td><td>:—</td></tr> <tr><td>nos.</td><td></td><td> —</td><td>:—</td></tr> </table>	s	:—	f	:—	nos.		—	:—	t ₁	:—	—	:—	nos.		—	:—	s	:—	—	:—	nos.		—	:—	s ₁	:—	—	:—	nos.		—	:—
s .l	:t .s	d ¹	:s	s	:fe	s	:—	f	:—																																																																																																								
Daliant oll i		fol	- i	Nes	daw'r	nos.		—	:—																																																																																																								
d	:f	m	:r	de	:d	nos.		—	:—																																																																																																								
oll	i	fol	- i	Nes	daw'r	s	:—	—	:—																																																																																																								
d ¹	:s	—	:—	l	:l	nos.		—	:—																																																																																																								
fol	- i			Nes	daw'r	s ₁	:—	—	:—																																																																																																								
m	:r	d	:t ₁	l ₁	:r	nos.		—	:—																																																																																																								
oll	i	fol	- i	Nes	daw'r	nos.		—	:—																																																																																																								
s	:—	f	:—																																																																																																														
nos.		—	:—																																																																																																														
t ₁	:—	—	:—																																																																																																														
nos.		—	:—																																																																																																														
s	:—	—	:—																																																																																																														
nos.		—	:—																																																																																																														
s ₁	:—	—	:—																																																																																																														
nos.		—	:—																																																																																																														

CYDGAN.

<p>m .s :fe .s d :d Moli Duw mae'r ad - ar d .d :d d l, :s, s .m :re .m f :m Moli Duw mae'r ad - ar d .d :d d d :d</p>	<p>m .s :fe .s r :- Am ei ddoniau Ef, d .d :r .r d :t, s .m :l .s fe :s Am ei ddoniau Ef, d .d :d .t, l, :s,</p>	<p>f .s, :s, .m Trwy dydd yn s, .s, :s, .s, d .r :m .d Trwy dydd yn l, .t, :d .ta,</p>
---	---	---



cres.

<p>m :r tryd - ar s, :fe, de :r tryd - ar, l, :r</p>	<p>fe :r Dy - na'u l, :d : :</p>	<p> s :- nef, t, :- r :s Dy - na'u t, :s,</p>	<p>se :m l :- Dy - na'u nef, t, :r d :f Dy - na, Dy - na'u t :- l :l nef, Dy - na'u m :- f :r</p>
--	--	---	---

<p>t :- - :- Dy - r :- - :- nef, s :- - :- nef, s :- - :-</p>	<p> - :- - - :- - - :- - - :-</p>	<p>s :- - :- na'u t, :d r :f Dy - na'u s :l t :r' Dy - na'u s :- - :- :s</p>	<p>d' :- - :- nef. m :- - :- nef. d' :- - :- nef. d :- - :-</p>
---	--	--	---

2 Synagogau'r dyffryn
 Sydd yn gartref cân,
 Plant y gerdd a'u hemyn,
 Oll ar dân ;
 Dros eu telyn hudol
 Llifa nefol falm,
 Odlau per eu carol
 Dry yn salm.
 Moli Duw mae'r adar, &c.





PLANT CYMRU. CXII. PLANT FRON CYSYLLTAU.
(Darlun gan Mr. Jethems, Llansgollen.)

PLANT FRONCYSYLLTAU.

YR wyf yn anfon i chwi ddarlun o blant cangen Froncysylltau o Urdd y Delyn. Rwy'n credu i mi ddweyd rywbryd eu bod yn blant tlws ac yn blant da, ac er fod rhyw debygrwydd i'w gilydd



Y DOYFADWY A PHONT Y FFOHDD, HAIRN DROSTI.

ym mhawb mewn darlun, fel y dywedai y gwawl-arlunydd (Mr. Lettsume), eto ceir amrywiaeth dirlawr yn ffurf ac osgo ac yn edrychiad llygad aml un. Mor ddymunol ydyw gwên ac mor ben-

derfynol yw golwg rhai ohonynt. Wrth edrych ar y darlun, nis gallwn lai na gofyn i mi fy hun, "Beth fydd y plant hyn, tybed, ymhen deg neu ugain mlynedd?" Y fath ddaioni allant wneyd, ac o'r ochr arall y fath felldith allant wneyd. Anhawdd credu y bydd i'r un o'r gwynebau hawddgar hyn droi yn amgen na bendith. Plant gweithwyr cyffredin ydynt oll,—rhai glŵyr a rhai pridd-feinwyr. Y maent yn cael addysg ddyddiol ragorol o dan arolygiaeth yr ysgolfeistr Mr. Cook, yr hwn, er yn Sais o genedl, sydd yn medru Cymraeg cystal a'r un ohonom. Y mae yma ers dros ugain mlynedd, ac o bryd i bryd wedi troi allan o'i ysgol ferched a bechgyn ag addysg lond eu pennau a dylanwadau da ar eu calonnau.

Ceir yn y darlun hwn blant yn perthyn i bob enwad, a phlant talentog ydynt, yn gerddorion gwych. Mewn arholiad cerddorol yn ddiweddar, enillodd amryw ohonynt dystysgrifau a gwobrau am eu medr yn y Tonic Sol-ffa. Yn ben uwchlaw pawb oll y mae ein hysgrifennydd,—John Henry Jones; yn y canol ceir yr arweinydd canu,—John Jones, Pleasant View; wrth ei ochr, ar bwys ei wlaw-len yr eistedd y llywydd,—y Parch. Huw Parri. Methodd ein trysorydd,—R. E. Jones, a bod yn bresennol, gan ei fod y prydawn y tynnwyd y darlun yn myned drwy arholiad yn Llangollen.

Cawsom Eisteddfod lewyrchus yma Ddydd Gŵyl Dewi; y plant wrth eu bodd ac yn ennill gwobrwyon yn rhesi. Bwriadwn yn flynyddol gadw yr ŵyl i fynd yn y cyffelyb fodd.

Saif Froncysylltau ar y ffordd fawr rhwng Castell y Waen (*Chirk Castle*) a Llangollen,—o fewn dwy filltir i'r lle olaf,—yn gwynebu y bont fawr sydd yn cario camlas y *Shropshire Union* dros yr afon Ddyfrdwy. Y mae yn lle neillduol o dlws, ar ochr bryn, a dyffryn godidog Llangollen yn gorwedd wrth ei droed. Er nad yw y boblogaeth yn gref, ceir yma bedwar addoldy ymneillduol (un Seisnig) ac un Eglwys Loegr.

GLO.

ANFONIR symiau anterth o lo i bob gwlad o Brydain hyd yn oed ym mis Mai. Ym mis Mai diweddar allforiwyd o fewn dim i bedair miliwn o dunelli. Dyma rai o'r gwledydd yr a ein glo iddynt,—

Ffrainc - - -	558,413 tunell.	Yr Aifft - - -	187,410 tunell.
Almaen - - -	506,065 "	Denmark - - -	174,080 "
Scandinavia - - -	492,204 "	Holland - - -	95,094 "
Eidal - - -	480,216 "	India Ddwyr. - - -	85,468 "
Rwsia - - -	420,834 "	Brazil - - -	64,357 "

BRAD A BRADWYR.

BRAD yw gwerthu cyfaill, gwlad, neu wirionedd. Brad mawr yw gwerthu cyfaill, brad mwy yw gwerthu gwlad, mwyaf brad yw gwerthu gwirionedd. "Pryn y gwir, ac na werth ef." Nis gellir caru bradwr, ac ni ddylid ei barchu. Tosturir wrtho fel wrth aderyn aflan na wél arch pan foddir y byd gan ddiluw Annwn.


Gwyliwn rhag cynnyg llety noswaith i frad. Pan roddir modfedd, fe gymer lathen. Unwaith yr ymeifl mewn dyn, byth ni é! ymaith. Gwthir ef allan; ar ol hir grwydro fe ddychwel, a chydag ef saith ysbryd mwy bradwrus nag ef ei hunan, á'r rhai y dodrefnir enaid dyn tra bydd.

Ni leddir brad nes lladd y bradwr, ac ni ddichon iddo fyw yn hir. Dysgir hyn i ni gan hanesyn Rhufeinig. Daeth Tatius a'r Sabiniaid unwaith yn erbyn Rhufain. Caerog oedd y ddinas, cadarn gan gerrig a dynion. Gan Tarpeius, tywysog y filwriaeth, yr oedd merch o'r enw Tarpeia. Gwelodd hon y breichledau aur a wisgai y Sabiniaid. Addawodd fradychu y ddinas pe rhoddid iddi y peth oedd gan bob milwr ar ei fraich chwith,—gan feddwl am y breichledau. Cytunodd Tatius, ac un noswaith agorwyd pyrth y ddinas gan Tarpeia, ac aeth y Sabiniaid i mewn. Am hynny, dywedodd Tatius am beidio cadw dim oddiwrth Tarpeia o'r hyn oedd gan bob milwr ar ei fraich chwith. Tynnodd pob un ei freichled aur ac a'i tafodd ati, a thynnodd pob un hefyd ei darian a wisgai ac a'i lluchiodd arni. Bu farw dan bwysau breichled a tharian.

Nid anfynych y dinistrir bradwr pan yn derbyn gwobr ei anwiredd. Glŷn brad wrth enaid dyn wedi iddo farw. Ceir naw cylch yn Annwn yn ol Dante, pob un yn is na'r un blaenorol. Yn y nawfed, mewn pedair cell, y trig bradwyr o bob math,—bradwyr ceraint; bradwyr gwlad; bradwyr cyfeillion; bradwyr arglwyddi, cymhwyn-aswyr, a'r Arglwydd Iesu.

Gall plentyn bach droi yn fradwr; gall ddweyd anwiredd a throi yn fradwr i'r gwirionedd; gall beidio dysgu iaith ei fam, a diystyrru hanes ei genedl a throi yn fradwr i'w wlad; gall achwyn ar gydymaith, a throi yn fradwr i'w gyfeillion.

Clywais athraw yng Nghymru yn gofyn i dwr o blant oedd dan ei ofal pwy oedd wedi gwneyd rhyw ddrwg neillduol, a gwelais hanner dwsin o ddwyllaw i fyny gan ddatgan awydd i nodi y troseddwr. Ni ddylai hyn fod. Gwell dioddef popeth na dweyd. Dyledswydd yr hwn a wna y bai yw cyfaddet yn hytrach na dwyn cosb ar eraill; ond os na wna peidied neb arall fynegu. Ni oddefir hyn gan fechgyn Ysgol Bwrdd yn Lloegr, a dylai plant Ysgol Sul Cymru fod llawn mor anrhydeddus. Cosper y plentyn os mynnir gan ei gyfeillion pan ddwg hwynt i helbul; ond byth na ddyweder wrth athraw na rhiant am ei fai. Brad yw hynny, ac ni thrig brad mewn enaid pur.



PONTYFWL HANNER CANRIF YN OL.



LLY SAFPAL LLYS IFOR HAEL, OER BASSALEG.

SIROEDD CYMRU.

VIII. SIR FYNWY.

MAE sir Fynwy yn un o siroedd gwastatat Cymru,—sir o feusydd firwythlawn, herddir gan goed ardderchog. Y mae hyn yn wir yn enwedig am ei rhannau dwyreiniol,—y rhannau ddyfrheir gan yr Wy a'r Wysg. Ond yn y gorllewin y mae bryniau, a'r rhai

hynny yn gorwedd ar gyfoeth o lo. Dyma'r wlad ddyfrheir gan yr Ebw, y Sirhowi, a'r Rhymini.

O ran rhif ei phobl y mae Mynwy yn ail o siroedd Cymru,—er nad yw ond yr wythfed mewn maint. Medd 252,416 o bobl ar ei 576 milldir ysgwar. Y lleoedd mwyaf poblog ynddi yw Casnewydd, gyda 54,707 o bobl; Abercarn, 10,462; Abergafenni, 7,743; Aber-sychan, 15,296; Abertileri, 9,138; Bedwelly, 6,773; Caerlleon, 1411; Nant y Glo, 12,410; Pontypwl, 5,842; Risca, 7,783; Tredegar, 17,341. Ymysg y rhai'n y mae rhai o ddinasoedd hynaf Cymru,—y mae Caerlleon ar Wysg yn hen dref Rufeinig; a hi, yn ol traddodiad yw llys Arthur. Y mae adteilion abaty ardderchocaf Cymry yn sir Fynwy, sef abaty Tintern. Medd amryw gastellydd hen,—megis Abergatenni, lle llofruddiwyd y tywysogion Cymreig; a Raglan, ar furiau yr hwn y bu Siarl I. yn cerdded yn bryderus ar ddiwedd y Rhyfel Mawr.

Sir hyfryd i grwydro ynddi yw sir Fynwy, o unigedd Llanthony yn y gogledd i brysurdeb Casnewydd yn y de; o ddyffryn prydferth Wy, gyda'i hen drefydd, i bentrefydd newyddion poblog y Rhymini a'r Ebw.

Mae ym Mynwy lawer o gyfoeth amaethyddol, dyma hanes rhai o'i herwau,—

Dan bytatws,—1,514.

Dan wair,—79,844.

Dan wenith,—8,168.

Dan haidd,—4,745.

Dan geirch,—8,507.

Mae ynddi 45,822 o wartheg, 213,238 o ddefaid, a 16,646 o foch. Ond ei chyfoeth mawr yw ei glo a'i haiarn.

Yn 1536 y gwnawd hi'n sir. Dywedodd Harri'r VIII. mai sir Seisnig oedd; ond i bob pwrpas ond y cyfreithiol, sir Gymreig ydyw. Y mae'n rhan o esgobaeth Llandaf, y mae'n rhan o Gymru i ddibenion addysgol. Fel y dywedodd Islwyn, un o'r beirdd mwyaf roddodd Sir Fynwy i Gymru,—

“ Gwyllt Walla ydwyt tithau, Mynwy gu.

Dy enw'n unig a newidiaist ti.

Ein heiddo ydwyt trwy hynafol rodd,

Ac ysbryd Gwlad y Rheieidr ni chyffrôdd

Ar dy fynyddoedd, ni'th adawodd di

Pan fynnai Lloegr dy restru ymysg ei siroedd hi.”

O amser Ifor Hael i amser Islwyn y mae Sir Fynwy wedi cymeryd ei lle yn deyrngarol ymysg llwythau Cymru. Ynddi y mae rhai o

lanerchau cysegredicaf ein hanes, hi fagodd rai o'n harwyr pennaf.
A gwir a ddywedodd un o'n beirdd mwyaf am dani,—

“ Ysbryd byw
A gorwylt Gwalia gaf yn crwydro o hyd
Dros dy fynyddoedd, trwy'r dyffrynnoedd clyd;
Tarana ar y bannau—rhuthra i lawr
Ar wyn y nentydd yn y storom fawr.”

Bu'r Eisteddfod Genhedlaethol yng Nghasnewydd yn ddiweddar,
ac y mae Abergafenni yn enwog yn hanes eisteddfodau.



PENTREF YM MYNWI.

Cynhyrchodd sir Fynwy, yn 1898, 200,000 tunell o wenith, 137,000 o haidd; 290,000 o geirch; 4,000 o ffa; 5,500 o bys; 7,000 o bytatws; 6,000 o faip.

Yn 1897 antonwyd 2,845,283 tunell o lo o Gasnewydd; ond oherwydd y streic, syrthiodd i 1,736,335 yn 1898. Anfonwyd y glo i'r Eidal, Ffrainc, Spaen, Groeg, yr Aifft, ac i'r America.



Y WIWER GARTREF.

CARTREFI EIN CYMYDOGION.

VII. CARTREF Y WIWER.

MAE gan y wiwer gartref clyd; ac y mae yn greadur bach dedwydd a diniwed a phrydferth ynddo. Y mae'r diniwed yn ddedwydd yn gyffredin; cenfigen sydd yn lladd ei pherchennog.

Mae'r wiwer o ffurf brydferth iawn, ac y mae yn hynod am ei ynni a'i ddiwydrwydd. Wrth fynd dan gysgod coed drwy goedwig dawel, gwelir ef yn teithio o gangen i gangen, neu yn croesi'r ffordd neu'r llwybrau gwelltog,—mor brysus, mor chwimwth. Ni welwch ond cip ar ei gynffon; mae'n rhy brysus bron i sylwi arnoch.

Mae'n ofnus iawn. Yn ehangder y goedwig, yn rhydd, y mae wrth ei fodd. Ond gellir ei ddofi'n hawdd, ac y mae'n hoff iawn o anwes pan ddofir ef.

Y goedwig yw cartref y wiwer. Chwilia am le gwag mewn boncyff coeden, neu am le rhwng canghennau. Yna casgla fwsugl a dail sychion, a gwna nyth bychan diddos a thlws. Y mae'n ddarbodus iawn; casgla ystor o fwyd at y gauaf, a chuddia ef heb fod nepell o'r nyth. Ffrwythau yw ei hoff fwyd, ac yn enwedig cnau. Y mae'n hoff o fes hefyd; ac yn yr hat bwyty flaenau planhigion ir.

Y mae'r wiwer yn llawn o chware, er prysured ydyw. Y mae'n ddedwydd yn y gauaf oherwydd ei fod yn ddarbodus yn yr haf.

Llwydgoch yw lliw'r wiwer, gyda bron wen. Y mae tuswau o flew ar ei glustiau. Mae ei lygaid yn fawrion, yn dduon, ac yn llawn bywyd. Mae ei ddannedd yn finiog ac yn gryfion. Ond ei gynffon yw peth hynotaf y wiwer. Y mae'n ddigon mawr i guddio ac i gynhesu ei holl gorff ar dywydd oer. Y mae'n harddwch iddo hefyd.

Dywed Linnæus iddo weled wiwer yn cymeryd darn o bren, yn ei wthio i'r dŵr, yn eistedd ar y pren, yn codi ei gynffon i'r gwynt, ac yn hwylio'n ddiogel ar draws y llyn.

Y mae llawer math o wiwerod yn y byd. Mewn rhai gwledydd gwnant ddifrod anaele ar blanhigion ieuainc; neu lladrant afalau o ystordai y gwladfawyr. Ond yn ein gwlad ni y maent yn gymydogion diddrwg, caredig, hollol ddiniwed. Ac y maent yn esiampl i blant yn eu diwydrwydd, a'u darbodaeth.

“Pan oeddwn yn y byd,” ebe hen Wesleyad, “dywedai'r diafol wrthyf fy mod yn well na neb yn yr eglwys. Wedi i mi ddod at gretlydd, dywedai fy mod yn rhy ddrwg i berthyn i eglwys Dduw.”

Y DDAU HOGYN RHEINY.

GAN WINNIE PARRY.

VII. YMDDYGIAD Y DDAU AR ACHLYSUR NEILLDUOL.

Y NODWEDD amlycaf yng nghymeriad y Ddau oedd eu hoffder at faw. Mae yn swnio yn rhyfedd, onid ydyw? Ond ni fyddai fy nesgrifiad o honynt yn un cyflawn o gwbl heb grybwylliad o'r tueddiad hwn oedd yn perthyn iddynt. Ymddanghosai i mi fel pe byddai rhyw reddf yn eu harwain at bopeth oedd yn debyg o'u llychwino. Os digwyddai i Hannah fod yn glanhau y grât, byddai un o honynt yn sicr o roddi troed neu law yn y llestr *black lead*. Os byddai yn golchi'r llawr, a hwythau yn rhywle yn y cyffiniau, yr oedd yn wyrth bron iddynt beidio troi y bwcedaidd dwfr am eu pennau. Ac felly gyda phopeth bron. Pan y pallai moddion i borthi'r tueddiad yma yn y tŷ, ymhyfrydai'r Ddau mewn gorwedd ar eu hwynebaw yng nghanol yr ardd, a gwthio eu bysedd i'r pridd. Byddai y ffaith tod ganddynt siwt wen lân am danynt yn ychwanegu at y pleser yma, wrth gwrs. Chwilio am bethau oedd eu hamcan, meddent hwy; pryfaid genwair oedd y "pethau"; a phan fyddwn yn eu gweled wrth y gwaith, byddwn yn ffoi i ddiogelwch fy ystafell, gan na fyddwn yn hoffi gweled (ni ddywedaf fy mod yn arswydo rhagddynt) hanner dwsin o'r cyfryw greaduriaid yn cael eu doddi ar fy nglin i wingo yn faw i gyd ar draws fy ngwn glân. Ofer oedd i mi geisio argyhoeddi'r Ddau nad oedd fy hoffder at bryfaid genwair mor eithafol ag i wneyd i mi ddymuno'r fath agosrwydd atynt; ond yr oedd y ffaith yma yn ormod iddynt sylweddoli,—nis gallent ddychmygu am neb nad oedd yn gwerthfawrogi y mwynhad o feddiannu pryf genwair byw. Yr wyf yn sicr o hyn, y buasai y creaduriaid yn cael byw mewn heddwch yng ngardd Penybryn, fel mewn rhyw ardd arall, pe buasai modd dod o hyd iddynt heb lychwino dwylaw a dillad. Y cloddio yn y pridd oedd mwy na hanner y mwynhad.

Yr oedd baw yn eu swyno ym mhob man. Pan yn myned am dro i'r pentref, cyteiriai y Ddau eu camrau yn naturiol i'r man y gorweddai y llwch yn fwyaf trwchus; ac os digwyddai iddi fod wedi gwlawio, cerddent ar eu hunion i ganol y llecyn butrat ar y ffordd. Eu hoff gyrchfan tu allan i gyffiniau Penybryn oedd y pwl dwfr lleidiog y cyteiriais ato mewn pennod flaenorol. Yr oedd ffrwd fechan yr ochr arall i'r ffordd a'i dwfr gloew yn rhedeg dros raian glân, a buasai rhywun yn meddwl, os oedd arnynt eisieu chwareu mewn dwfr, y buasent yn dewis yr olaf. Ond rhyfedd oedd ffyrdd y

Ddau hynny. Y dwfr llonydd lleidiog, a'i gen gwyrdd, a'r "pethau" lithrig anghynnes oedd yn byw ynddo, oedd yn myned a'u bryd.

Cyrhaeddodd ein dirmyg o Gyngor Plwyf Nantgwyn bwynt eithafol ynglŷn â'r pwll yma yn ystod y mis y bu y Ddau yn preswyllo ym Mhenybryn. Nid oeddem fel teulu wedi meddwl llawer am ddyledswyddau y cyngor hwnnw cyn hynny, ond buasai Miss Jones yn gallu dweyd wrth ei aelodau unrhyw ddiwrnod yn ystod yr amser y cyfeiriais ato beth oedd eu dyledswydd pennaf, ac yr wyf yn credu y buasant yn cofio ei hymadroddion hefyd.

Yr oedd y ddwy hen ferch mewn cynnwrf parhaus oherwydd y gallu hwn o'u heiddo i wneyd eu hunain "yn gywilydd i'w gweled," ys dywedai Cati. Yr wyf yn credu fy mod yn feddiannol ar dymheredd pur bwyllog, gan i mi ar ol diwrnod neu ddau ddod yn alluog i edrych ar eu hymddygiad yn yr ystyr yma heb ryw lawer o gyffro. Yn wir, deuais i wyllo gyda gradd o gywreinrwydd y duedd anesboniadwy hon oedd yn perthyn iddynt. Un peth fyddai yn rhyfeddod beunyddiol i mi, a hynny oedd y cyflymdra gyda'r hwn y dygent eu hunain i'r cyflwr hwnnw oedd mor anymunol gan y ddwy Miss Jones. Troent allan bob bore ar ol brewest mor lân a trefnus ag yr oedd dichon i dair o ferched eu gwneyd,—pedair yn wir, oherwydd byddai Hannah yn gotalu am eu hesgidiau. Edrychai y naill a'r llall, yn ol Miss Jones, "fel pin mewn papur." Cyn pen yr awr feallai deawn ar draws dau fachgen bach yn rhywle yng nghyffiniau Penybryn yn ymddangos mor anhebyg i'r rhai yr oeddwn wedi weled yn cychwyn i chwareu y bore hwnnw, fel y buaswn yn myned heibio iddynt heb eu hadnabod onibai fy mod yn gwybod am alluoedd y Ddau yn y cyfeiriad yma. Yr wyf yn cofio am un tro dipyn yn ddi-grifol ynglŷn â hyn.

Yr oeddwn yn gydnabyddus â merch ieuanc, Saesnes, o'r enw Miss Benson. Yr oedd yn byw gyda'i mam mewn pentref rhyw dair milldir o Nantgwyn. Yr oedd yn arferiad ganddi dalu ymweliad â Phenybryn ambell i dro, ac un bore, tra yr oedd y Ddau acw, cefais nodyn oddiwrti yn dweyd ei bod yn bwriadu dod i Nantgwyn i dreulio y prydawn hwnnw. Pan oeddwn yn cychwyn i wisgo am danaf i fyned i'r orsaf i'w chyfarfod, crefodd Miss Jones gennyf fyned a'r Ddau gyda mi.

"Bod yn byd be 'na nhw try byddwch chi i ffwrdd, Elin, mae nhw ar 'i drwg heidtyw ers pen godson nhw."

Er mwyn rhoddi esmwythad iddi hi a Cati, cydsyniais, ac es i chwilio am danynt er mwyn eu gwneyd yn ddigon trefnus i fyned drwy y pentref. Cefais hwynt yn eu cyflwr arferol, a "golwg dyehrynllyd" arnynt. Yr oedd Bobbie wedi cael gafael ar bot o *black varnish* yn rhywle, ac yr oedd y Ddau wedi addurno eu hunain

yn bur helaeth gyda'r cynhwysiad. Cymerodd i mi gryn amser i gael yr olion oddiar eu dwylaw a'u hwynebau. Llwyddais o'r diwedd i'w gwneyd yn weddol lân, er fod yr arogl yn eu canlyn o hyd. Gan ei bod yn ddiwrnod hynod o deg, gwisgais am danynt yn eu siwtiau gwynion, ynghydag hosanau ac esgidiau gwynion am eu traed. Defnyddiais y brws at wallt Bobbie nes yr oedd fel sidan. Bu ymdrafodaeth pur wresog rhyngof a'r olaf parthed y *tam o' shanter*, ond deuais allan yn fuddugoliaethus, a disgyrnai y cydynau euraidd o dan gantel yr het wen fawr. Ni ddywedaf pa toddion gymerais i ddod a hyn oddiamgylch. Yr oeddwn innau wedi rhoddi fy ngwn *pique* newydd am danaf, ac wele ni ein tri yn cychwyn o Benybryn yn ein gwisgoedd gwynion, heb yr un brycheuyn arnom. Yr oeddwn yn *teimlo* ein bod yn edrych yn "neis," heb i Miss Jones ein hysbysu o'r ffaith dyddorol. A mor ddiniwed hefyd yr edrychai'r Ddau! ni fuasai neb yn dychmygu wrth syllu ar eu gwynebau y fath ddrygioni oedd yn eu calonnau bychain. Yn y cyflwr dymunol yma y cyrhaeddasom yr orsaf. Y mae Miss Benson dipyn yn *gushing*, a phan welodd hi Bobbie gwnaeth am dano gyda'r geiriau,—“Oh you little angel.” “Hy! very much angel,” meddwn wrthyf fy hun. Gwrandewais weddill y sgwrs rhwng y ddau.

“Kiss me, darling.”

“Na 'na ddim, tydw i ddim yn ych licio chi, cerwch oddna.”

Yr oedd yn dda gennyf nad oedd Miss Benson yn gyfarwydd â Chymraeg, ond yr oedd yn deall gwrthwynebiad Bobbie i gael ei goffeidio yn y modd y dymunai hi, a chlywn hi'n dweyd,—

“Oh, you won't, well never mind, I daresay we shall be friends presently.”

Pan oeddem yn myned heibio i'r siop lle'r arferwn brynnu y melusion hynny a elwir yn *chocolate*, rhoddodd Bobbie bwriad i mi. Fy sylw o hyn oedd i mi ddweyd yn ddistaw,—“heno;” ac aethom yn ein blaen.

Yr oedd rhyw ysbryd o dawelwch dieithr wedi disgyn ar y Ddau y prydawn hwnnw, ac yr oeddwn yn llongyfarch fy hun ar eu hymddygiad gweddus, ac hefyd ar y ffaith ryfedd ein bod wedi dychwelyd i Benybryn bron yn yr un cyflwr ag y cychwynasom. Yr oedd ychydig fwy o lwch ar eu hesgidiau hwy nag ar yr eiddo fi; ond nid oedd hynny nac yma nac acw. Y tawelwch cyn y dymhestl oedd fodd bynnag, fel y cefais weled cyn nos.

Parhasant i ymddwyn yn y modd mwyaf dymunol am y gweddill o'r amser fuont yn ein cwmni y prydawn hwnnw. Ond tarawodd un peth fi'n amheus. Deuais ar draws y Ddau, ychydig cyn amser te, mewn ymddiddan dwfn â'u gilydd, mor ddwfn yn wir fel na chlywsant fi'n dynesu atynt, a chlywais Willie yn dweyd,—

“Mi fasa'n braf hefyd, a'r dillad yma a phopeth, ddoi di rwan?”

"Na, ar ol te di gora, mae 'na deisis a phetha i de heidddyw am fod yr hogan na yma. Welis i Auntie Cati yn mynd i gwpwrdd—" Daeth Bobbie yn hysbys o fy mhresenoldeb, a gorffennodd ei ymadrodd gyda'r gofyniad moesgar,—

"Be sy arnoch chi isio'n gwrando, Elin?" Gwyddwn nad oedd fawr o ddiben i mi geisio gael gwybod ganddynt beth oedd y cynllun yr oeddynt am ddwyn i ben ar ol te, ond yr oeddwn yn sicr ei fod yn rhywbeth heb fod yn unol a meddwl Miss Jones a'i chwaer o beth oedd yn wastad a threfnus, a phenderfynais gadw fy llygaid arnynt am y gweddill o'r dydd. Ac hefyd penderfynais y buaswn yn myned a hwynt i dynnu eu siwtiau gwynion ar ol te, tra yr oeddynt eto mewn cyflwr y gallent eu gwisgo unwaith beth bynnag cyn eu golchi. Ond ni lwyddais gyda'r un o'r penderfyniadau hyn; oherwydd, tra y bum i fyny yn fy ystafell yn chwilio am ryw ddarluniau i ddangos i Miss Benson, diflannodd y Ddau i rhywle, ac er i mi waeddi eu henwau tu fewn ac allan i Benybryn nid atebwyd fi.

Yr oedd Miss Benson yn myned yn ei hol gyda'r tren saith, ac es i'w danfon i'r orsaf. Pan yn cychwyn o'r tŷ galwodd Miss Jones ar fy ol,—

"Os gwelwch chi'r Ddau yn rhywle, Elin, gyrrwch nhw i'r tŷ, tydd yn amser iddyn nhw fynd i'w gwelyau yn union."

"O'r gora," meddwn, a chychwynnais yng nghwmni Miss Benson. Yr oedd yn noswaith hynod o braf; a chan fod gennym ddigon o amser, yn lle myned ar hyd y ffordd arferol, aethom gyda godrau'r Foel. Ychydig o'r neilldu i'r ffordd yma y mae y pwll dwfr hwnnw y bum yn traethu o'i achos yn gynarach yn y bennod. Pan ddeuthum i'w olwg yr oedd Miss Benson yn dweyd,—

"I am *so* sorry that I didn't see the little boys to say goodbye. I never *saw* such sweet little things in my life." Ar y funud yma clywais y geiriau,—

"Hei, dacw fo, brysia, gafal yno fo. O'r ffŵl, dyna chti wedi golli o eto," mewn llais yr oeddwn erbyn hyn yn bur gynefin âg ef. A daeth ochenaid ddistaw o ddyfnder fy nghalon. Troais fy llygaid i gyfeiriad y pwll, a gwelwn y Ddau, nid wrth ochr y dwfr fel yr oeddwn wedi eu cael lawer gwaith o'r blaen, ond yn ei ganol. Pallai geiriau i mi roddi disgrifiad o'r olygta oedd arnynt. Nid oedd dweyd eu bod "yn gywilydd i'w gweled" yn cyfleu syniad o gwbl o'u cyflwr; yr oeddynt tuhwnt i hynny. Ambell i lecyn yma ag acw oedd i'w ganfod o ddefnydd gwyn eu gwisgoedd, yr oedd y gweddill wedi ei guddio o dan haen o laid, yn gymysgedig â'r cen gwyrdd oedd yn nodwed mor amlwg yn perthyn i'r dwfr hwnnw. Yr oedd Bobbie wedi cuddio ei wallt fel arfer yn y *tam o' shanter*. Wrth ochr y dwfr yr oedd eu hosanau a'u hesgidiau wedi eu gosod

yn bentwr budr. Yr oedd yn amlwg eu bod wedi gwlychu yn gyntaf; ac yna wrth eu teimlo yn anghyfforddus yn y cyflwr hwnnw, wedi eu diosg. Safent, fel y dywedais, yng nghanol y pwll yn gwyro uwch ben y dwfr; ac ymddanghosef fel yn chwilio am rywbeth ynddo â'u dwylaw gyda'r dyddordeb mwyaf.

Ni ddywedais air am fy narganfyddiad ohonynt wrth Miss Benson. Gwelodd hithau'r olygfa, a rhoddodd fynegiad i'w barn yn y geiriau canlynol,—

“Just look at those horrid little creatures, the nasty things.”

Cododd Bobbie ei ben wrth glywed ei llais, a bron na fuaswn yn chwervthin wrth weled yr edrychiad digrifol roddai telpyn o laid ar ganol ei dalcen i'w wynepryd. Pan welodd pwy oedd wrth ei ymyl cychwynnodd i'n cyteiriad, gan waeddi gyda'r brwdfrydedd mwyaf,—

“Elin, mi dan i'n dal petha, petha duon mawr, mi ddo i ag un i chi.” Wrth weled nad oeddwn yn cymeryd y sylw lleiaf o hono, ychwanegodd,—

“Tyda ni ddim wedi maeddu ddim gwerth ar yn dillad, a mi ddaru ni dynnu'n sgidia a'n sana rhag iddyn nhw fynd yn lyb.” Cyn iddo ein cyrraedd, fodd bynnag, ysgydodd Miss Benson ei pharasol arno mewn dull hynod fygythiol, gan ddweyd,—

“Go away, you dirty little wretch. You ought to be whipped, both of you.” Gwelwch fod Miss Benson mor eithafol mewn beio ag mewn canmol. Ni ddarfu i mi gymeryd arnaf weled yr un o'r ddau, a chiliodd Bobbie yn ol i'r llecyn hoff, ac aethon ninnau ymlaen, fy nghydymaith yn cyfleu ei meddwl yn ei dull arferol,—

“Their mother ought to be ashamed of herself to leave her children in such a condition. Why, if she only washed them once a week, and just think of anyone buying a child like *that* a white tam o' shanter of all things in the world. By the way, where is that one you used to wear? So different to the little dears at Penybryn.”

Deuai llais y Ddau ar yr awel,—

“Yr hen hogan Sais, how d'ye do to-day. You are very dirty indeed.” Y peth diweddaŵ glywais oedd Bobbie yn datgan y gorchymyn,—

“Cofiwch ddwad a'r chocholet hwnnw, Elin.” A meddai Miss Benson,—

“Some of the village children I suppose, they seem to know you?”

“Yes,” meddwn yn gwtá.

“If I were you I would give their mother a bit of a talking to about the filthy state in which she keeps her children.” Ni atebais yr un gair i hyn ond troais yr ymddiddan i gyfeiriad arall mor fuan ag oedd modd. Pan yn myned yn ol i Benybryn, ar ol ymadawiad y tren, prynnais y *chocolate*, ond yr oedd fy meddwl wedi cyfnewid gyda golwg ar yr amser y gwelai y Ddau beih o hono.

Cyn i mi ddod i olwg y llecyn hwnnw ar y ffordd lle yr oeddynt yn mwynhau eu hunain gymaint, cyfarfyddais Willie yn rhedeg a bron a cholli ei anadl. Gafaelodd yn fy ngŵn gwyn â'i law fechan fudr,—

“Dowch, brysiwch,—Elin—mae Bobbie—wedi—wedi—” pallodd ei ymadrodd. Rhoddodd fy nghalon lam, a dychmygais fod rhyw-
beth dychrynlyd wedi digwydd i Bobbie, ei fod wedi boddi, feallai, er buasai synwyr cyffredin yn dweyd nas gallai foddi mewn gan lleied o ddwfr, onibai iddo syrthio ar ei wyneb a mygu. Fodd bynnag, rhedais mor gyflym ag y gallwn i gyfeiriad y pwll, a Willie yn llusgo yn fy ngŵn. Cyn i mi gyrraedd deuai llais Bobbie,—

“Brysiwch Elin, mae o jest a dengid.” A dyna lle y gwelwn ef yn eistedd yn hapus ar ochr y ffordd yn dal rhywbeth yn dyn yn ei ddwylaw.

“Spiwch Elin, be di o? Be di enw fo?” Fy unig atebiad oedd gafael yn y peth, yr wyf yn credu mai llyffiant oedd, nis gwn yn iawn, beth bynnag oedd y creadur yr oedd Bobbie wedi gwasgu hynny o fywyd oedd ganddo allan o hono, gataelais ynddo meddaf, a theflais ef i ganol y pwll. Rhoddodd y Ddau waedd dros y lle wrth weled tyngeid eu trysor. Codais Bobbie i fyny a gosodais ef ar ei draed yng nghanol y ffordd. Yr oeddwn wedi digwydd prynnu papur newydd wrth ddod drwy y pentref, a chesglais yr esgidiau a'r hosanau iddo, ac meddwn wrthynt,—“Rwan, cerwch adra.” Yr wyf ym meddwl fod rhywbeth allan o'r cyffredin yn fy llais a'm hedrychiad, oherwydd distawodd y Ddau eu llefain, a chychwynasant o fy mlaen yng nghyfeiriad Penybryn, yn edrych yn fwy pen isel nag y gwelais hwynt o gwbl. Wrth edrych ar fy ngŵn newydd a sylweddoli ei gyflwr, yr oeddwn yn ddiolchgar fod gennyf dymer gweddol bwyllog.

Yr oedd y ddwy Miss Jones bron wedi eu syfrdanu pan welsant pa fath greaduriaid yr oeddwn yn yrru o fy mlaen i fyny llwybr Penybryn. Ni chafodd yr un o'r Ddau roddi eu traed dros y drws, ond galwyd am Hannah i'w cludo yn ei breichiau i ganol y gegin, rhag i'r traed lleidiog faeddu y llawr, ac yno y golchwyd hwynt o'u pen i'w traed gennym ni ein pedair. Gwaith Miss Jones oedd arolygu y cyfan, a chludo pob dilledyn rhwng ei bys a'i bawd, fel yr oedd yn cael ei dynnu, allan i'r cwrt; a rhoddodd orchymyn i Hannah ddodi yr oll mewn crwc i fwydo mewn dwfr dros y nos.

Yr oedd ysbrydoedd y Ddau wedi codi i'w pwynt arterol o frwdfrydedd erbyn iddynt fod yn barod i fyned i'w gwelyau. Un o'u nodweddion pennaf oedd eu parodrwydd i anghofio pechodau'r gorffennol. Yn wir, nid hawdd oedd cael ganddynt sylweddoli eu heuogrwydd o gwbl; ac yn yr achlysur yma yr oedd Bobbie mor ddigywilydd a gofyn,—

"Ddaru chi brynnu'r, shocolet, Elin?" A phan welodd nad oeddwn yn cymeryd yr un sylw o hono, gófyinnodd drachefn,—

"Dach chi wedi digio?" A chan nad oedd yn cael ateb trodd at Willie gan ddweyd a nodyn o syndod yn amlwg iawn yn ei lais,—

"Mae hi wedi digio Willie." Yna daeth at fy ochr a rhoddodd ei law ar fy wyneb, a meddai,—

"Chwerthwch arna i Elin, dw i ddim yn licio fel'na. A mi ddaru ni dynnu'n sgidia rhag iddyn nhw tynd yn lyb." Caledais fy nghalon a throais fy wyneb i ffwrdd,—

"Willie," meddai wedyn, "tyd i neyd iddi hi chwerthin." A daeth hwnnw a cheisiodd droi fy ngwyneb atynt gan ddweyd,—

"Na ni byth eto Elin, wir-yr, a mi 'na ni olchi'n dillad yn hunan fory. Gwnewch chwerthin. Mi neith Bobbie rhoi shiws i chi os gwnewch chi. Rho shiws iddi hi Bobbie." Yr oedd Bobbie wedi dod yr ochr arall i mi. Yr oedd yn amlwg ei fod rhwng dau feddwl, pa un a allai oddef y tath ddarostyngiad, ac yr oedd yr edrychiad ar ei wyneb mor ddigrifol fel nas gallwn ddal yn hwy, ac yr wyf ym meddwl fod dda gan Bobbie ei fod wedi gallu arbed y "shiws" honno. Ond dywedodd, gydag edrychiad o hunanfodddhad,—

"Dyna fi wedi gwneyd iddi hi chwerthin."

"Taw, was, fi ddaru," atebai y llall, ac yr oeddwn yn disgwyl iddi fyned yn ddadl boeth ar y pwnc, ond ni chymerodd Bobbie yr her i fyny. Yr oedd rhywbeth mwy pwysig ar ei feddwl. Trodd ataf a meddai,—

"A rwan, Elin, ga ni shocolet?"

Oedd modd i mi ei wrthod? Cymerodd yr ymddiddan dyddorol yma le wedi i mi fyned a hwynt i'r llofft i'w rhoddi yn eu gwely, ac felly y bu i ni ein tri fwynhau y wledd o *chocolate*,—y Ddau ar eu heistedd yn y gwely, a finnau yn eistedd ar y traed. Y peth diweddaf wnes cyn dweyd "nos dawch," oedd defnyddio y cadach gwlanen a'r llian at eu bysedd a'u genau rhag i gynfasau llian Miss Jones achwyn arnom. Gwaeddodd Bobbie ar fy ol wrth i mi fyned allan,—

"Tyda ni ddim yn licio'r hen hogan Sais 'na, Elin. Ddaru hi'n ngyrru fi i ffwrdd. Cheith hi ddim dwad yma eto yn na cheith, Elin?" Fy unig atebiad i hyn oedd,— "Cerwch i gysgu."

YSGWRS Y GOLYGYDD.



I BLANT, ac i bawb o ran hynny, y mae rhyw swyn mewn cystadleuaeth ac ymgais. Cof-iwch mai testyn y gystadleuaeth oedd "Paham y mae fy ardal yn hynod." Cefais lawer o draethodau dyddorol iawn am wahanol ardaloedd. Bai llawer yw rhoddi disgrifiad o'u hardaloedd, yn lle dweyd yn eglur paham y maent yn hynod. Mae pawb yn canmol ei ardal, wrth gwrs; ac y mae un awdures fechan ddyddorol yn dweyd os caiff hi'r wob, y bydd ei hardal yn enwocach fyth.

Pigais y disgrifiadau goreu, a dyma restr ohonynt. Rhof enw'r ardaloedd ddesgrifir, ac enw'r ysgrifennwr.

GWOBRWYEDIG.

LLANELLYD: J. H. Williams, Tyddyn Gwladus.

PENLLWYN: A. J. Pierce, Fron Heulog.

PORTHMADOG: J. R. Roberts.

LLANBEDR PONT STEPHAN: B. Morris, Blaenplwyf Lodge.

FFESTINIOG: D. O Jones, Bod Ifor.

DOLGELLAU: Lewis Jones, 1, Brynteg.

ENW ANRHYDEDDUS.

(Gwobrwyir rhai o'r rhai hyn hefyd.)

GARTHREIRIO: J. Heath, Pant Glas.

GLYNARTHEN: O. M. Owen, Plas.

LLANDYSSŪL: D. Evans, 40, Brynhyfryd, Ferndale.

DOLGELLAU: Un o'r Bryn.

PORT TALBOT: Annie E. Jones, 2, West End.

DOLYDDELEN: Ned. ac Un hoffus o'i ardal.

LLANFAIRFECHEAN: Hu ap Ioan.

MARGAM: W. E. Jones, Taibach.

BEDDGELERT: Gelert.

DIFFRYN MAELOR: Maelorwr.

CAERFYBI: T. Parry.

CASTELL NEDD: Mynach.

LLANFAELRHYS: Griffith Evans.

Rhoddir y wob gyntaf i J. H. Williams; yr ail i H. J. Pierce; y drydedd i J. R. Roberts. Rhoddir gwobrwyon ereill i'r lleill.


Y DASG NESAF.

Gwn fod llawer o ddarllenwyr CYMRU'R PLANT yn meddu camera, ac yn medru tynnu lluniau. Rhoddaf wob o ddeg swllt i'r goreu, coron i'r ail, a hanner coron i'r trydydd, am wawl arlun wedi ei dynnu ganddo ef ei hun. Ni waeth beth a fo,—golygfa ar dir neu fôr, bodau dynol, creaduriaid, adar, coed, llynnoedd, &c.

Mae'r lluniau i'w hanfon i O. M. Edwards, Bryn'r Aber, Llanuwchllyn, y Bala, erbyn Medi iaf. Ni ddychwelir yr un darlun, buddugol neu beidio. Cyhoeddir y rhai goreu yng NGRYMRU'R PLANT os bernir hwy yn werth y gost o'u cerfio.



UNIGEDD.
O'r darlun gan Tim Evans.



AWST 1899.

CYF. VIII. RHIF 92

UNIGEDD.

NID oes dim rydd gymaint o iechyd i'r corff ac o orffwys i'r meddwl a threulio min nos yn unigedd y mynydd. Ar y ddalen gyterbyn gwelwch ddarlun o unigedd min yr hwyr. Gwaith arlunydd Cymreig ydyw, a chafodd y brif wobr yn yr Eisteddfod Genhedlaethol. Mor ddwys yw'r olygfa! Mae pawb wedi mynd adre. Mae'r gwllith yn dechreu ymfurfio ar y sypiau yd. Prin y clywir murmur lleddf yr afonig fechan draw.

Mae cysgodion yr hwyr yn disgyn ar y mynyddoedd. Mae pob peth yn hyfryd dawel. Unigedd y mynydd,—gyda ias o bleser hiraethlawn y meddylia pob alltud o Gymro am dano.

FFORDD MASNACH A RHYDDID.

ANAML, os erioed, y bu cymaint o anhawsderau i'w gorchfygu ag sydd gan beirianwyr Ffordd Haiarn Uganda, y ffordd y mae Prydain yn wneyd o Mombasa, ar lan ddwyreiniol Affrig i Lyn Victoria, bedwar can milldir i mewn yng nghyfundir Affrig. Yn un peth, y mae brynau uchel a serth i'w croesi; a rhaid gwneyd pontydd mawr a chostus dros aberoedd a chymoedd. Peth arall, y mae bron yn amhosibl cael llafurwyr. Ni lafuria brodorion y wlad honno; nid ydynt wedi arfer gwneyd. Rhaid dwyn llafurwyr o'r India, a'r swyddogion o Brydain. Y mae'r wlad yn un afiach iawn

hefyd ; ni fedr camelod na mulod na cheffylau fyw ynddi, ar bennau'r brodorion y cerrir beichiau.

Y mae prinder dwfr yn anhawsder mawr arall. Mewn un lle a'r llinell trwy ddiffaethwch erchyll am bedwar ugain milldir ; dro arall drwy anialwch o fangoed, rhy fyrion i roddi dim cysgod rhag yr haul tanboeth.

Un perygl mawr yw'r llewod. Pan fydd y llaturwyr yn cysgu yn y nos, daw llewod yn lladrataidd i'w cludo ymaith. Aeth llewod ag wyth ar hugain ohonynt ymaith i'w bwyta.

Ond, beth bynnag yw'r anhawsterau, y mae'n debyg y telir am bob traferth mewn amser. Amcenir agor Canol Affrig i drafnidiaeth, ac yn enwedig rhoddi ergyd farwol i gaethwasiaeth. Gwaria Prydain dros ganmil o bunnau bob blwyddyn i wyllo'r glannau rhag caethlongau ; ond ni fydd eisiau hyn wedi cael ffordd haiarn i'r ardaloedd y cipir y caethion druain o'u cartrefi ynddynt.

—◆◆◆—

AWN I'R MYNYDDOEDD.

AWN i'r mynyddoedd dan ganu,
Ciliwn o ddwndwr y dre ;
Yno mae tlysnï'n cartrefu,
Heddwch yw brenin y lle ;
Mwg sy'n cymylu'r dinasoedd,
Cysga'n ddioglyd uwch ben,
Dringwn i weld o'r mynyddoedd
Lesni ffenestri y nen.

Hudol yw miwsig gwahoddiad
Ffrydiau yng nghesail y glyn ;
Blodau sy'n gwenu croesawiad
Inni ar ysgwydd y bryn ;
Adar y grug sydd yn deffro
Gobaith nes llonni y fron ;
Hoender ac iechyd sy'n beichio
Cerbyd yr awel yn llon.

Cydgan y gwynt a felusa
Gyngherdd y mynydd i ni ;
Anian o'i mawredd arlwyra
Wleddoedd mwynhad gyda bri ;
Ffown o ddyffrynnoedd gofalon,
Gwlawia'r nef fwynder yn rhad ;
Unwn ym mawl telynorion
Rhyddid mynyddoedd ein gwlad.



PLANT CYMRU. CXIII. PLANT CYDWELL.

PLANT CYDWELL.

YN y rhifyn diweddaf gwelsoch enwau aelodau Urdd y Delyn yn ardal hynafol Cydweli. Wele eu darlun, yn ol fy addewid.

Sylwch ar y darlun; y mae yn un wrth fodd Cymro cenedlgarol. Codwyd y castell gan farwn estronol, o'r enw William de Londres, i orthrymu y fro fryniol dlos. Saif ar fryncyn sydd yn codi oddiar ddyffryn bychan prydferth yr ymdroella'r afon Gwendraeth drwyddo i'r môr. Ac yng nghastell y gorthrymwr, wedi bron saith cant o flynyddoedd, wele Gymry bychain glewion sydd am dyfu dan garu eu gwlad a'u hen iaith. Mae cestyll gorthrwm yn ddrylliog ac yn anghyfannedd, y mae rhyddid a gwladgarwch yn blodeuo,—dyna ddywed y darlun acw wrthym ni.

Dywed hen hanes mai arglwydd Normanaidd Cydweli ymosododd ar y Deheubarth pan oedd yr arglwydd Rhys wedi mynd i'r Gogledd i ofyn cymorth. Casglodd ei wraig arwrol Gwenllian, merch Gruffydd ab Cynan, fyddin. Bu brwydr rhyngddi a'r Norman. Syrthiodd Gwenllian, "blodau a thegwch holl Gymru," a'i mab bychan, yn y frwydr. Ond daeth ei brawd Owen Gwynedd i achub ei cham.

CYMRU'R PLANT.

STORIAU CYMRU I'R PLANT.

GAN WATCYN WYN.

III. STORI HIRLAS BRANGALED.

(Y Corn yfed o'r hwn y celai bron bob math o ddiod.)

A GLYWSOCH chwi hanes Hirlas Brân,—
Hirlas Brangaled,—hen Gymro glân,

Corn yfed a'i ymyl yn aur i gyd,
A chylchau arian ar ei hyd?

Er drachtio o hono yn fynych iawn,
Daliai yr Hirlas o hyd yn llawn.

'Roedd pob math o ddiod yn y byd
Yn y corn yfed i'w gael o hyd;

Pob math o ddiod, a phob math o win,
Ddim ond ei godi at ei fin;

Medd a bragodlyn goreu y wlad
O'r Hirlas rhydd yn rhedeg yn rhad;

Digon o laeth, neu ddigon o ddwr
Fel byddai syched ar y gŵr;

Diod y bore a hanner dydd,
A diod yr hwyr yn rhedeg yn rhydd;

Diod y gaua, a diod yr ha,
A honno bob amser yn ddiod dda;

Diod ar dywydd oer, a gwres,
A honno yn siwr o wneuthur lles;

Pob math o ddiod yn rhedeg yn rhydd
I dorri pob math o syched sydd.

Hirlas y teulu ydoedd ef,
Hirlas fendithiwyd gan y nef.

Hwn fu'n diodi'r teulu iach
O dad i fab, o ach i ach.

Hwn fu'n diodi teulu Brân,
Yn feibion dewr ac yn ferched glân.

Hirlas a'i hanes yn haeddu cân,
Hirlas dyn boddlon oedd Hirlas Brân.

Y DDYNES GAREDIG HONNO.

PLENTYN amddifad oedd Bob. Nid oedd erioed wedi gweled ei dad, ond yr oedd ganddo adgof bychan am ei fam,—“Y ddynes garedig honno” a arferai ei gusanu a'i alw wrth yr enw Bobi. Dywedai yn ei ddull plentynaidd na wyddai i ba le yr oedd hi wedi myned; ond yr oedd am fyned i chwilio am dani pan ddeuai yn ddyn er mwyn cael ei gusanu a'i alw yn Bobi wedyn. Ac yr oedd Bob yn meddwl yn sicr y buasai yn ddyn ymhen dwy flynedd, gan ei fod eisoes yn bump oed.

Wedi marwolaeth ei fam, rhoddwyd Bob o dan ofal ei nain pan nad oedd yn ddwy flwydd oed. Ond bu hithau farw yn fuan. Yna dygwyd ef a Toss,—hen gi ffyddlawn ei nain,—i gartref ei ewyrth William. Ond nid oedd yn fyd esmwyth arnynt yno. Curid Toss yn fynych gan Pero, ci y teulu, pan geisai gael tamaid o'r bwyd a roddid iddynt; a byddai raid iddo foddloni ar yr ychydig a adawai Pero yn weddill, ac ni raid dweyd mai ychydig fyddai ei ran. Tebyg ydoedd gyda Bob. Trinid yntau yn chwervw ddigon gan ei gefnder Huw a'i gyfnither Elen, nes y llenwid ei lygaid bychain â dagrau yn aml.

Un diwrnod yr oeddynt yn chwareu yn y cae wrth ymyl y tŷ, ac anturiodd Bob atynt yn araf, a Toss wrth ei sawdl, gan ddisgwyl cael ymuno â hwynt. Ond fel y dynesai atynt, edrychodd Huw arno yn guchiog ac Elen yn firoenuchel. Wrth weled hynny, eisteddodd Bob i lawr a Toss wrth ei ochr; ond cerddodd Huw ato, ac yn hollol ddirybudd tarawodd ef yn yn ei wyneb gyda gwialen a gariai yn ei law. Yna rheddodd ef a'i chwaer i'r tŷ, gan ei adael i wylu wrtho ei hun heb neb i'w gysuro ond Toss, yr hwn a lyfai ei law fechan, gan edrych i fyny i'w wyneb bob yn ail. Druan o Bob, yn awr yr oedd ei hiraeth yn fwy byth am ddod o hyd i'r ddynes garedig honno, a dyna lle y bu ef a Toss yn cynllunio i fyned i chwilio am dani.

Yn y man sychodd ei ddagrau ymaith a thywynnodd gwên dros ei wyneb bychan, ac wrth weled hynny ysgydodd Toss yntau ei gynffon yn llawen, gan neidio o gwmpas,—achos nid oedd dim yn ei foddloni gymaint a gweled Bob yn hapus, a llawer awr ddfyfr a dreuliasant gyda'u gilydd yn y coed gerllaw bwthyn ei nain. Wedi codi oddiar y llawr, a sythu i edrych a oedd yn ddigon o ddyn cychwynnodd Bob ar ei daith, a Toss yn ei ddilyn yn ffyddlawn,—weithiau o'i flaen, dro arall ar ei ol, ond fynychaf wrth ei ochr; ac yn fuan yr oeddynt wedi myned o olwg y tŷ.

Erbyn hyn yr oedd yn dechreu nosi ac yn oer iawn, gan ei bod yn ganol gauaf. Ond ymlaen yr aethant, nes yr oedd coesau bychain

Bob bron yn rhy lesg i'w gynnal, ac yn wir yr oedd Toss druan yn yn dechreu blino ar y daith; ac edrychai i fyny i wyneb ei feistr bychan yn fynych fel pe yn ymholi a oedd yn ddoeth iddynt fyned ymhellach.

O'r diwedd trechwyd hwynt, ac ni allent fyned gam ymhellach, a gorweddasant ar ochr y ffordd, Bob yn gorffwys ei ben bychan melyn ar ochr Toss, ac er gwaethaf yr eira oedd yn dechreu disgyn syrthiodd i gysgu fel pe buasai ar lin ei nain dyner, a cheisiai Toss fod mor llongydd ag y gallai rhag ei ddeffro, er fod y creadur ffyddlawn bron a threngu gan yr oerfel, a hiraeth arno am gael rhedeg i gynhesu ychydig. Ond ni wnai syflyd.

O'r diwedd torrodd y wawr, tra y gwenai yr haul yn oeraidd ar yr eira. Syllodd y ci ar wyneb y plentyn fel arfer, gan ddisgwyl clywed gair caredig. Ond ni ddeuai yr un. Llyfodd y gwyneb oer a gwelw, gan ddisgwyl y buasai hynny yn ei ddeffro. Ond ni syflai y bychan, a phan welodd Toss hynny gorweddodd eilwaith wrth ei ochr, gosododd ei ben gwlyb rhwng ei ddwy goes flaen, gan roddi cyfarthiad isel. Ac yn fuan yr oedd yntau gan oered a'i feistr bychan.

Yr oedd ol gwen ar wyneb Bob pan y daeth ei ewyrth William o hyd iddo. Pa ryfedd? Yr oedd wedi dod o hyd i'r ddynes garedig honno.

Rhosgadfan.

RICHARD HUGHES WILLIAMS.

GWR Y MWGWD HAIARN.

BU gŵr, na wyddai neb pwy oedd, yn garcharor yn Ffrainc am dros ddeugain mlynedd. Eid ag ef yn nhrymder nos o'r naill garchar brenhinol i'r llall. Weithiau byddai mewn castell mewn rhyw le mynyddig pell; dro arall byddai ar ynys anghyfanedd; cludwyd ef i farw i hen gastell trymaidd y Bastille, ym Mharis. Yr oedd mwgwd haiarn am ei wyneb, ac nis gwelodd neb fath wyneb oedd ganddo. Ac am hynny y gelwid ef y "Mwgwd Haiarn," neu "Masque de Fer." Yn 1703 y bu farw.

Aeth ei enw gydag ef i'r bedd, a bu llawer o ddyfalu pwy oedd Louis XIV. drahaus ac erlidgar ac uchelgeisiol oedd brenin Ffrainc yn y dyddiau hynny. Dywed Voltaire mai brawd y brenin,—cyd-efeilliad,—oedd y carcharor; a fod Louis yn ei gadw o'r orsedd. Gorchmynnodd y brenin falurio ei wyneb wedi iddo farw, rhag ofn i neb ei adnabod.

Dywed rhai ereill mai rhyw bechod o'i waith ei hun a'i dygodd yno,—taro mab y brenin, twyllo'r brenin, neu ryw bechod anfad. Ond y tebyg ydyw mai gŵr anffortunos, yn cael cam, oedd. Pwy bynnag oedd, y mae'n sicr na chawn byth wybod dim o'i hanes.

CARTREFI EIN CYMYDOGION.

VIII. CARTREF Y FORFRAN.



Y FORFRAN GARTREF.

DEG fy ngwyliau ryw flwyddyn, yn niwedd mis Gorffennaf, yr oeddwn ar lan y môr yng Nghymru; a chefais dipyn o gymdeithas y morfrain (*cormorants*). Yr oedd eu rhai bychain eto yn y nyth yn ddigon aml, a medrais fynd yn ddigon agos at yr adar droion i gael golwg arnynt yn eu hymyl. Pererin at lan y môr oeddwn i; ond yno mae eu hoff gartref hwy.

Safai morfran ar graig, gan roddi trefn ar ei phlu â'i phig. Gerllaw safai un arall, a'r don yn golchi ei thraed, yn syllu ar ei chydymaith yn feirniadol, ac megis yn dweyd,—“Tydi'n ceisio gwneyd dy hun yn hardd, hen forfran fel ti.” Uwchben ehedai chwaer iddynt, gan baratoi i ddisgyn at wyneb y dŵr, i suddo at bysgodyn, i'w godi i fyny, a'i lyncu.

Tybiwn, wrth edrych arnynt ddydd ar ol dydd, eu bod yn hapus oherwydd eu bod yn rhydd. Meddyliwn mai ychydig o ofal oedd arnynt, rhagor y gofal a'r pryder oedd yn etifeddiaeth i mi. Mewn rhyddid diofalon y maent hwy yn byw. Trai a llanw, storm a chysgod,—maent hwy fel pe'n gwylio ac yn mwynhau cyfnewidiadau natur. Weithiau byddant fel pe'n chware ar adenydd y storm; dro arall safant yn llonydd

megis i fwynhau tawelwch bore o haf ar lan y môr. O'u blaenau y mae y môr,—eu trysorgell ddihsbydd. Y mae'n llawn o bysgod, a gwyddant hynny'n dda. Uwch eu pen, yn edrych yn wgus ar y môr, y mae creigiau'r lan,—eu noddfa a'u gorffwysfa. Wrth edrych arnynt yr wyf bron a dweyd, fel y dywed yr hen bennill telyn,—

“Gwyn eu byd yr adar mwynion,
Hwy gânt fynd i'r fan a fynnon;
Hwy gânt fynd i rodio'r gwledydd,
A dod adref yn ddigerydd.”

Ond hawdd yw dymuno bod yn aderyn, a chael rhan fwy helaeth o ryddid y môr. Ni ddaw dedwyddwch gydag adenydd. Y gwir yw,—nid yw'r forfran hanner mor hapus ag yr ymddengys, nac mor ddoeth ychwaith.

Y mae cartref y forfran ar lethr craig uwch ben dyfnderoedd y môr. Nid yw ei nyth ond ychydig o briciau sychion celyd, wedi eu cludo yn ei phig i ben y graig. Onid yw yn lle ystormus iawn? Onid yw yn gosod nyth ei rhai bach yn nannedd y dymestl? Na, nid felly. Y mae'n lle clyd a thawel hyd yn oed ar ystorm. Tarawa'r gwynt yn erbyn gwyneb y graig, ac yna hyrddia'r graig ef yn ei ol a thros ei phen i'r tir. Ac wrth ei hyrddio felly, y mae lle tawel, megis yng nghôl y dymestl, ar ben y graig. Ac yno, lle y gwyr trwy brofiad fod tawelwch, gesyd y forfran ei nyth. Ac yno



Y FORFRAN GARTREF.

ca ei phedwar wy glas calchaid lonydd; yno megir ei chywion heb fawr o ofn gelyn. O'u mebyd, gwelant y môr, a sylweddolant mai trwy bysgota y maent i fyw. A son am olygfa o ffenestr tŷ,—pwya ga olygfa mor arddunol o'i chartref a'r forfran?

Nid peth hawdd yw mynd i edrych am y forfran i'w chartref. Os ewch, dianga pawb am ei fywyd ond y fam. Erys hi uwch ben ei nyth. Y mae ar y

tri neu bedwar bach yn y nyth eich ofn, ond y maent yn llawn cywreinrwydd, ac yn awyddus iawn am gael cipolwg arnoch. Ond y mae ar y fam ofn mawr y gwelwch hwy, a phan gyfyd un ohonynt eu pennau, rhydd bigiad iddo yn ei ben, fel awgrym iddo swatio i lawr o'r golwg.

"Tlws pob peth bach," ebe'r ddihareb. Ond nid yw'r mortrain bach yn dlysiog; os rhaid dweyd y gwir, y maent yn hyllion iawn. Pethau bach duon, blewog, anhygar ydynt. Tyfant yn gyflym, a buan yr a'r nyth yn rhy fach iddynt. Pan fyddont yn mysl adeg ehedeg, nid oes le cyfforddus i fwy nag un yn y nyth; felly y mae naill hanner y tri neu bedwar dros y nyth. Ac y mae golwg ddigrifol iawn arnynt.

Y mae un peth cas iawn yng nghartref y forfran. Y mae yno fudreddi a drewdod. Y mae'r hen adar yn dal mwy o bysgod nag

sydd ar y rhai bach eisiau ; a gadewir darnau o bysgod hyd y graig o amgylch y nyth, i bydru ac i ddrewi. Gwyddoch fod pob drawdod yn wenwynig ; ac ni thyf dim,—hyd yn oed mwsvgl neu gen cerrig,—lle bo'r forfran wedi gwneyd ei chartref.



Y FORFRAN UWCH HEN Y MOR.

—♦♦♦—
P'W DDARLLEN YN DDIFYFYR.

DYFED enillodd gadair Chicago sydd ddinas yn America rhyddhawyd caethion India sydd wlad eang yw gwastadedd Mamre sydd enw ar ddyn rhoddwyd cosp marwolaeth sydd ganlyniad pechod Adda oedd tad Cain ac Abel laddwyd yn y maes y cloddiwyd pydew dwfr a drowyd yn win ym mhriodas Cana yr oedd Mair Magdalen sydd air Hebraeg a ddysgir yn Athrofa'r Bala yr efrudir duwinyddiaeth.

Carmel.

J. J. WILLIAMS.

Y N UGAIN O.E.D.

GAN HUW MYFYR.

DISGWYLLAIS lawer blwyddyn
 Am weld y flwyddyn hon ;
 Un mil wyth gant chwe deg a phump
 O'r diwedd ddaeth ger bron.
 Mis Rhagfyr ddaeth eleni
 Mor ffyddlon ag erioed,
 A gwawr ei gyntaf ddydd sy'n dweyd
 Fy mod yn ugain oed.

Ar aden chwim dychymyg,
 Mewn rhyw fyfyrddod ffol,
 I ddedwydd oriau bore oes
 Fy meddwl hed yn ol ;
 Wrth rodio glan yr aton,
 Wrth chwarae yn y coed,
 Dychmygu wnawn ni byddai 'math
 Pan welwn ugain oed.

Ond heddyw rhaid boddloni
 I'm tynged, er mor drom,—
 Awyrol gestyll fwy na mwy
 A drowyd imi'n siom ;
 Rwy'n diolch na ddatguddiwyd
 Fy nh ynged i'm erioed,
 Neu ni fynaswn fod yn fyw
 I weled ugain oed.

Wrth adolygu einloes
 O ugain mlynedd llawn,
 Nid yw y cyfnod hynod hwn
 Ond tymor bychan iawn ;
 Nis gwelaf onid megis
 Y diwrnod byrra rioed,
 Wrth droi fy ngolwg heddyw 'nol
 O safle ugain oed.

Rwy'n teimlo fod fy mywyd
 Yn bwysig im fy hun ;
 Ac nid yn unig hynny chwaith
 Ond pwysig i'm cyd-ddyn.
 Pwy wyr nad oes ugeiniau
 Yn dilyn ol fy nbroed
 O ddiniweidrwydd bore oes
 Hyd adeg ugain oed ?

O ddedwydd ddyddiau mebyd !
 Mae'ch henwi'r funud hon
 Yn codi hen adgofion fyrdd
 I ddawnsio ger fy mron ;

Mae ar fy nghalon hiraeth
 Mwy grymus nag erioed,—
 O na bawn heddyw'n blentyn bach
 Yn disgwyl ugain oed.

Fy anwyl hen gyfoedion,
 A'm hen gyfeillion gynt,
 Rhagluniaeth nef a'u chwalodd hwy
 Fel gyda'r pedwar gwynt ;
 A llawer bachgen heinyf
 O blith y rhai'n a roed
 I orwedd yn y distaw fedd
 Cyn cyrraedd ugain oed.

Ond wele fi, er gwaeled,
 Trwy ras hyd heddyw'n fyw ;
 Nid damwain ydyw hynny chwaith,
 Ond gwyrth neillduol yw.
 Fy nefol Dad ofalodd
 Am drefnu llwybrau 'nbroed
 Trwy anial bywyd, gam a cham,
 Nes cyrraedd ugain oed.

Mi haeddais fil o weithiau
 Cyn hyn fy nhorri naith,
 Ond hir amynedd Duw sy'n dal
 Trwy'm holl gyndyrwydd mawr ;
 Fy mywyd innau bellach
 Er ei ogoniant boed,
 O am gael dechreu byw yn well
 Yn fachgen ugain oed.

Ar draethell llinell amser
 Diorffwys yw fy nbaith,
 Bob awr o'r dydd rwy'n mynd yn nes
 I'r tragwyddoldeb maith ;
 Ar dir y byd pellenig
 Yn fuan sang fy nbroed,
 Nis gwn nad disgyn raid yn awr
 Yng ngorsaf ugain oed.

Er iached ydwyf heddyw,
 Er bod fy ngwedd yn llon,
 Nid oes ond Duw a ŵyr a gaf
 Un flwyddyn byth ond hon ;
 O Arglwydd, rho dduwioledeb,
 A deued fel y doed,
 Pwy ŵyr nad fy ysgrifen fedd
 Fydd ' Bachgen Ugain Oed.'

SOLOMON A'R WENYNEN.

GAN Y PARCH. O. OWEN, PENTREFELIN.

YN nyddiau Solomon frenin deuai llu mawr o ddieithriaid drwy wlad Canan, gan deithio i'r Aiff. Un diwrnod cychwynnodd crefftwr cywrain o'r Dwyrain gan feddwl, fel eraill, weithio ei ffordd yno, gan y gwyddai yr hoffid pob cywreinwaith gan yr Aiffiaid. Wedi cyrraedd Bethlehem Judah cyfarfyddodd â hen gydymaith, yr hwn a'i perswadiodd i aros gydag ef. Hynny a wnaeth. Treuliai yno fywyd dedwydd; canys gweithiwr gwych ydoedd, ac yn bur fuan cafodd ddigon i'w wneyd.

Un peth yn unig a'i blinai, ac yn aml a barai chwerwder iddo fel "gwybed marw yn enaint yr apothecari,"—SOLOMON. Credai yn gryf fod dynion wedi meddwi ar Solomon. Nid oeddynt yn gwneyd dim o'r bron ond son am dano. Efe oedd bennaf yn eu meddwl, ac amlaf o bawb ar eu tafod. Clywai y crefftwr y bore am ei wybodaeth, a'r hwyr am ei ddoethineb; wrth ei waith am ei fedr, ac wedi noswyl am ei graffder; nes crewyd rhagfarn ynddo yn ei erbyn, a chas iawn ganddo oedd clywed ei enw.

Penderfynodd ddarbwylllo'r Iddewon nad oedd Solomon ond dyn digon cyffredin. Gyda'r amcan-hwn aeth ati i wneyd rhosyn. Bu yn gweithio yn ddiwyd am wythnosau, ac un noswaith gorffennodd ef; a thra phrydferth ydoedd. Ben bore trannoeth cychwynnodd i Jerusalem, ac ar y ffordd fe dorrodd rosyn oddiar goeden a welai, ac aeth a'r ddau i'r ddinas. Wedi cyrraedd holodd am Solomon, a dywedwyd y cadwai lys agored tua chanol dydd, ac y gellid ei weled gan unrhyw un yr adeg honno, ond nid cynt. Aeth y gweithiwr o gwmpas i syllu ar adeiladau Jerusalem, i roi tro yn y deml, ac i gael tamaid o fwyd, canys crewyd ynddo chwant am fwyd gan awyr y bore. Ar hanner dydd dychwelodd at balas y brenin, i gael Solomon yn barod ar ei orseddfainc. Aeth ato, a'r canlyn yw'r ymddiddan a fu rhyngddynt.

"Tydi yw Solomon, onide?"

"Ie."

"Clywaf lawer o son am danat."

"Mae'n debyg iawn."

"Mae nhw'n dweyd dy fod yn ddoeth iawn."

"Felly y mae nhw'n dweyd"

"Ac nad oes dim nad elli ei ddehongli."

"Welais i ddim eto."

"Ac nad oes dim tuhwnt i ti."

"Digon prin, hwyrach."

"Ac mi elli wahaniaethu rhwng pethau tebyg?"

"Gallaf yn weddol."

"Ac mi wyddost ragor, wrth gwrs, rhwng gwaith Duw a gwaith dyn?"

"Diau y gwn. Nid oes eisieu un doeth iawn i wybod hynny. Gwybodaeth yw yng nghyrraedd pob ynfytyd."

"O'r goreu. Mi wyddwn y gellat. Maddeu i mi am ddod atat, ond carwn i ti benderfynu rhyw beth bach fel prawf." A chan ddwyn y rhosynau oedd ganddo a'u rhoddi i Solomon, fe ddywed wrtho,—“Dyma i ti ddau rhosyn, un yn waith Duw, a'r llall yn waith dyn. Gofyn yr wyf i ti, O Solomon, nodi y naill oddiwrth y llall.”

"Mewn hanner eiliad," medd Solomon. A chymer hwynt i'w ddwyllaw gan edrych arnynt. Er syndod iddo nid yw ar unwaith yn gallu dweyd. Craffa arnynt; ond, er craffu, nid oes dim goleuni. Gwelir gwên o foddhad yn raddol ymdaenu dros wyneb y gweithiwr, ac yn y man tyr allan gan ofyn yn gellweirus,—“Ai hawdd yw, Solomon?"

"Nage yn wir," medd yntau yn ol. "Tybed nad fy nhwylo wyt? Maent mor debyg i'w gilydd rwy'n bron a chredu mai gwaith yr un un ydynt. Perffaith iawn hefyd ydynt fel y tybiaf nas gallai neb ond Duw eu gwneud. A wyt ti yn dweyd y gwir yn eu cylch?"

Gwelid gwrld yn codi ar ruddiau y gweithiwr o dan y ganmol-iaeth. Torrodd allan gan ddatgan,—“Rwy'n dweyd eithaf gwir. Fy ngwaith i yw un rhosyn. Ac ofn oedd arnaf y buaset yn adnabod y llall, canys tynnais ef o hoff goeden dy dad Dafydd, a dywed trigolion Bethlehem y gwisgai lawer tebyg iddo.”

Edrychai Solomon yn fanylach ar y rhosynau, ond canfyddid nad oedd efe ddim nes i wybod. Ni wyddai beth i'w wneyd. O'r diwedd amneidiodd at un o'i weision i agor ffenestr. Gwnaed hynny, a thrwy y ffenestr daeth gwenynen. Dechreuodd hofran uwchben y blodau, a disgynnodd ar un ohonynt.

"Dyna," medd Solomon, "rosyn Duw. Dyn a wnaeth y llall."

Paham yr oedd y wenynen yn disgyn ar rosyn Duw yn hytrach na rhosyn dyn? Ceir defnydd mel ym mlodau Duw. Ni cheir dim ym mlodau dyn. Ni cheir dim a fedd dyn a rydd nerth i galon ddrylliog ac ysbryd cystuddiedig. Mae gan blant eu profedigaethau a'u tristwch, ac nid oes neb tebyg i'w diddanu a'r hwn a ddywedodd,—“Gadewch i blant bychain ddyfod ataf fi, ac na waherddwch iddynt.”

COLER MORAN. Gwisgid coler Moran gan hen farnwyr yr Iwerddon. Pan fyddai'r barnwr yn rhoddi barn anheg, ebe'r hanes, byddai'r goler yn tynhau ohoni ei hun am ei wddf, gan wasgu.

Y NAW BRIALLEN WEN.

[Pen blwydd Elsi Vaughan Hoskins, Cefn y Maes, Blaenau Ffestiniog. Merch hynaf y Parch. D. Hoskins, M.A.]

MI glywais gan yr awel
 Sy'n siglo blodau'r coed,
 Fod geneth wen yn rhywle
 Yn cyrraedd naw mlwydd oed.

Gofynnais am ei henw
 Er bod yn siwr o'r son,
 A'r awel fwyn, dan chware,
 Atebodd,—“Elsi Vaughan.”

Ac wedi cael yr enw
 Eisteddais dan y pren,
 A beth oedd yno'n tytu,
 Ond naw briallen wen.

Am naw briallen lanach,
 Erioed ni chlywais son,
 Ac yn eu lliw mi welais
 Naw mlynedd Elsi Vaughan.

Briallu newydd eto
 A dyf o dan y pren ;
 A llawer awel ieuanc
 A sigla'i frig uwchben.


I Elsi Vaughan daw hefyd
 Flynyddoedd newydd glân—
 Mor dyner a'r awelon,
 Mor wyn a'r blodau mân.

Bydd, bydd, bydd blodau'n tyfu
 Yn ddifyr ar y coed,
 Ac Elsi yn eu canol
 Yn cyrraedd deunaw oed.


Boed llawer naw o flwyddi
 Ym mywyd Elsi wen,
 I gyd mor wyn a'r blodau,
 A welais dan y pren.

Os caf fi fyw 'rwyf finnau
 O hyd am wyllo'r sôn
 A ddaw ar frig yr awel
 Am lwyddiant Elsi Vaughan.

R. R. MORRIS.



PONT MENAI.



CAPEL COF ELIAS O FON.

SIROEDD CYMRU.

IX. MON.

Y MAE Mon yn hynod ymysg siroedd Cymru oherwydd ei bod yn ynys. Rhennir hi oddiwrth sir Gaernarfon gan fraich o'r môr a elwir afon Menai. Unwaith ni ellid mynd i Fon ond mewn cwch; ond yn awr y mae dwy bont,—y grog a'r haiarn,—yn ei chysylltu â'r gweddill o Gymru.

O ran maint, Mon yw y leiaf ond un o siroedd Cymru. Rhyw wyth milldir a'r hugain ydyw o ddwyrain i orllewin, rhyw ugain milldir o ogledd i dde,—y mae ei harwynebedd yn 302 milldir ysgwar.

Y mae'n llawer is a mwy gwastad na siroedd eraill Cymru. Nid yw ei mynydd uchaf, sef Mynydd Parys, ond 494 troedfedd o uchder. Byrion a bychain, wrth gwrs, yw'r afonydd,—Braith, Cefni, Alaw, ac eraill. Yn yr hen amser byddai Mon yn anfon llawer o'i chynnyrch i rannau eraill Cymru; yn y ddeuddegfed ganrif dywedid fod ei chynnyrch yn ddigon i ddiwallu Cymru oll, ac am hynny y gelwir hi

yn "Mon mam Cymru." Y mae ei hamaethyddiaeth yn bwysig eto. Dyma hanes rhai o'i herwau,—

Dan bytatws,—2,815.
 Dan wair,—41,339.
 Dan wenith,—209.
 Dan haidd,—4,584.
 Dan geirch,—22,250.

Mae ynddi 51,282 o wartheg, 71,748 o ddefaid, a 17,477 o foch.

O ran poblogaeth, y mae yr unfed a'r ddeg o siroedd Cymru. Ei phoblogaeth yw 50,098. Y mae'n drwyadl Gymreig, yn gymaint felly ag un sir yng Nghymru. Y lleoedd mwyaf ydyw Caergybi (8,745), porthladd rhwng Prydain a'r Iwerddon; Beaumaris (2,202), ar gwr yr ynys, ei hen ben tref; Llangefni (1,624), yn ei chanol; Porthaethwy (1,675); Amlwch, o'r lle yr allforid plwm Mynydd Parys; Llannerch y Medd, hynod gynt am ei thelynoriau a'i chryddion.

Ym Mon gynt, yn Aberffraw, yr oedd llys tywysogion Cymru. Anrheithiwyd hi gan y Saeson a'r Daniaid, ond hyrddiwyd hwy'n ol



HEDD NICANDER YM MON.

bob tro. Yn Llan Faes, ger y Fenai, yr hun a Eleanor, gwraig Llywelyn ein Llyw olaf; yno hefyd yr hun a John Elias. Gorchfygwyd Mon gyda'r gweddill o Gymru yn 1282, er i fyddin Edward gael ei gorchfygu ym mrwydr Moel y Don. Gwnawd Mon yn sir, ac adeiladwyd Castell Beaumaris ynddi.

Ymysg beirdd Mon y mae Lewis Morris a Goronwy Owen. Ardderchog y canodd Goronwy mewn hiraeth am dani,—

“ Henffych well, Fon, dition dir,
Hyfrydwch pob rhyw frodir;
Mirain wyt ymysg moroedd,
A'r dŵr yn gan tŵr it oedd;
Eistedd ar orsedd eursail
Yr wyt, ac ni welir ail;
Ac euraidd wyt bob goror,
Arglwyddes a meistres y môr.”

URDD Y DELYN.

Y RHEOLAU.

1. Dysgu starad ac ysgrifennu Cymraeg; darllen rhan o'r Beibl Cymraeg, neu ryw lyfr Cymraeg arall, bob dydd, ac ysgrifennu Cymraeg o'i gyfansoddiad ei hun.
2. Astudio hanes Cymru, a gwneyd ei oreu i godi ei wlad, fel y byddo Cymru fydd yn well na'r hen Gymru.
3. Dysgu canu'r delyn, os bydd hynny yn y cyrraedd; a dysgu alawon Cymreig.
4. Byw, hyd y gall, yn ol dysgeidiaeth yr hen Gymry gynt, mor bell ag y mae'r ddysgeidiaeth honno'n un a dysgeidiaeth Crist. Y mae'r ddysgeidiaeth honno'n gofyn purdeb, cariad at addysg, caredigrwydd at ddyn, addfwynder at greaduriaid direswm, iaith ddihalog.

AELODAU NEWYDDION.

1023. John Evans, 36, Powis Street, Lerpwl.
1024. W. Lloyd Jones, 33, Fernhill Street, Lerpwl.
1025. J. L. Jones, Coburg House, Coburg Dock, Lerpwl.

CANGEN SARON, TREDEGAR, MYNWI.

Ffurfiwyd cangen Saron Rhagfyr 12, 1898. Ym Mai diweddfaf cafwyd gwledd o de ar odrau'r bryniau. Gwnawd gorymdaith o'r plant, oll yn gwisgo cenin, a thynnodd lawer o sylw yn yr ardal boblog hon ym Mynwy. Bydd darlun o'r plant yn un o'r rhifynnau nesaf. Y mae eu henwau yn dilyn.

1026—1119.

E. Hermas Evans, Bessie E. H. Evans, Alice Jones, Morfudd Evans, Ceiriog Walters, Willie Jones, Joseph S. Williams, Lemuel Lewis, William Davies, Robert Lewis, Rosser Jeremiah, Glyndwr Edwards, Edward Evans, William J. Jones, Elizabeth A. Davies, Sarah Rogers, Lenny J. Jones, Willie Davies, Thomas J. Jones, Blodwen Jones, Mary E. Jones, J. Bromley Pyle, Evan H. Evans, William Morgan, David Jones, Fredrick J. Jones, J. L. Jones, Maude Jones, Elizabeth Jones, Catherine A. Davies, Letice Jones, Letice Prosser, Rachel Jones, Marie J. Davies, Rosy Jones, Gwladys M. Jones, Eleanor Hammond, Penelope Hill, Kate Hill, Ceinwen Rogers, Maggie Williams, David Pugh, Rowland Jones, Catherine Rogers, Margaret A. Hill, Edith M. Hill, Blodwen Phillips, Catherine Eynon, Mary E. Bowcott, Rees Jones, John Fisher, Idris Jones, Rees S. Jones, Willie Williams, Miriam Charles, Lilly Jeremiah, Lydia Davies, Teddie Battin, Edward Lee, David Jeremiah, Augustus Parker, Winnie Cutler, Maggie Pascoe, Gwilym Moses, Amelia Pascoe, John H. Hammonds, Mabel Moses, Trevor Jones, Gwenny Jones, Lizzie A. Jones, Etylene Davies, Rachel A. Harris, Blodwen Ishmael, Lizzie Morris, Celia Morris, Aneurin Jones, Gwladys Williams, Willie Sims, Rachel Ann Parry, George Robert Walters, Willie Morgan, David James Griffiths, Roger Griffiths, Edwin Wilde, Alice Clayton, Caroline Harris, Thomas John Jones, Gwladys Jones, William Walters, Emlyn Edwards, Ada Walters, Mary Louisa Williams, William Hammonds, William Edwards.

TELOR YR HELYG.*

PYNCIA aderyn bychan llai na'r cyffredin, ar un o'r cangau oddiarnom. Tebyg yw ei gathl i *roundelay* yr asgell arian—y ji-binc—ond ei bod yn fwy tyner a merchedaidd. Mae'n fwy yn y cywair lleddf na honno. Dechreua mewn nodyn a chywair uchel, rhed i lawr y raddfa, a chan dyneru'n raddol wrth fyned ymlaen, ymdodda'r seiniau olaf fel murmuron i'r awyr. Gwisg seml, lwyd-werdd, fel gwawr yr olewydd, sy ganddo, heb liw llachar ynddi oddigerth ychydig aur, fel hanner cylch, uwchlaw pob llygad. Dyma DELOR YR HELYG†—"bi-fach" neu "dryw'r ddaear" plant Talybont Ceredigion. Mae yn un o'r adar crwydr—*birds of passage*.

* O *Tro trwy'r Wg*, gan R. Morgan, Llanarmon, yn CYMRU Gorfennaf.

† Willow-warbler.

Daeth yma yn niwedd Mawrth neu ddechreu Ebrill, o'r de heulog, a dychwel yno yn niwedd Mēdi neu ddechreu Hydref. Mae ei delyneg fel acen gobraith neu lais y gwanwyn—clywir hi cyn "cwcw" cog, na "thwit" gwennol. Aderyn bychan sionc! dygi di, a dwg dy ysgogiadau buain, adgofion tyrdd i'm meddwl. Mae dy gân yn union yr un fath a chân dy geraint ddeugain haf yn ol, yng Nghoed Pryse, a Choed Dafis, a Banc Seiri—hen wigfaoedd ardderchog fy nghartref. Caraf hwy hyd y dydd hwn.

"How dear to this heart are the scenes of my childhood
When fond recollection recalls them to view,—
The orchard, the meadow, the deep-tangled wildwood,
And every lov'd spot which my infancy knew."*

Mae ei gorffyn bychan del fel pe wedi ei wneyd o arian byw, neu wedi ei wau o belydrau'r goleuni gan mor nwyfus a sionc y symuda. Neidia, picia, llamsacha o gangen i gangen i chwilio am drychflod, a chynron, a mân bryted ereill, canys dyna ei ymborth. Piga hwynt oddiar y brigau, a thyn hwy o'r blagur. Rhwng y tameidiau—ar ol pob golwyth—cana. 'Rwan mae ar frig y pren; mewn eiliad mae'n is i lawr; mae yma; mae acw; ac ymhen winciad mae yng nghanol y llwyn yn pigo, ac yn canu bob yn ail. Glywch chwi ef? Edrychwch, wele ef 'rwan ar flaen cangen, yn ysbio allan dros ei hymyl, ac yn pyncio, pyncio. Gwel wybedyn yn ei basio dan ganu, fe allai. "Dyma damaid da," meddai, a llama'n bing i'r awyr; hed ar ei ol, igamogam, i fyny, i lawr, yn ol, ymlaen,—deil ef—llwnc ef—brysia'n ol, i'r gangen, a chana eto. Ar amrantiad disgyn i'r llawr i hel arlwy rhwng yr irwellt. Chwilia am damaid yng nghwpanau'r milfyw, a phiga'r lindysyn o aur lygad y dydd. Ymsaetha i lwyn bychan sy o'i flaen—cana. Oddiyno adlama, crychneidia fel pêl, i fyny, i lawr, ar ol gwybedyn anffodus arall, ysglyfa hwnnw—*with gusto*—a disgyn yn ol, chwap, i'r llwyn a phynica drachefn. Gwarchod ni! mae yn chwimwth. Nid buanach, nid sydynach, yw crwydriadau astrus gwenfelten sforchog nag ehediadau gwibiog, trofaog yr edn bychan hwn. Mae wrthi eto. Rhed yn ysgafndroed ar hyd y cangau; estyn ei big i fyny; estyn ei big i lawr; teifi hi'n ol dros ei ysgwydd a chipia brylyn bob tro. Dacw ef 'rwan ar y brig yn canu. Wele delor arall, nwyfused ag yntau, yn dod heibio iddo,—ymgiprysant, tarawant fin wrth fin, ymsuddant i'r llwyn gerllaw, ymnwyfusant yno, ffrilliant, cogrant, tasgant allan, ymwahanant, ac ehedant, y naill i'r goeden yma a'r llall i'r goeden acw. Cyd-gânant gathl wedi ei chymhlethu â chariad. Glywch chwi hwy?

* Wordsworth.

MEWN UNIGEDD.

YM Mhatagonia, dair blynedd yn ol, yr oedd mesurydd tir yn mynd ar daith o tua phedwar can milltir i'r de. Aeth dau wladfawr ieuanc gydag ef i'w gynorthwyo. Er mwyn teithio'n gyflym cymerasant nifer dda o geffylau ganddynt. Wedi teithio tri chan milltir gwelsant fod rhai o'r ceffylau'n deneu iawn ac yn rhy wael i fynd ymbhellach. 'Roedd digon o borfa dda yn y fan honno, a phenderfynwyd i un ohonynt aros gyda'r ceffylau salaf. Boddlonodd Tom Lewis i aros, ac addawodd y lleill fod yn ol ymhen wythnos. Pan oedd Tom yn unig,—heb un bod dynol o fewn milltiroedd lawer iddo, teimlai weithiau braidd yn brudd, ond yn union deg tafiai ei bryder i ffwrdd a theimlai'n falch o'i sefyllfa. Gorffennodd ei fara'n tuan iawn, a chig oedd ei brif ymborth. Trwy gymorth ei ddryll cai ddigon o hono pryd y mynnai. Cadwai Tom un ceffyl yn rhwym bob amser yn ymyl y *tent*, fel y byddai'n siwr o hwnnw pe diangai'r lleill.

Un noswaith clywai swm y ceffylau'n carlamu ymaith yn ddisymwth, a'r ceffyl rhwym yn ymwylltio. Neidiodd allan a'i ddryll yn ei law. Ychydig o'i flaen gwelai lew (*puma*) yn sefyll. Anelodd ei ddryll ato a saethodd. Neidiodd y llew i fyny a throdd yn ei ol. Yr oedd yn rhy dywyll iddo ei ddilyn yr adeg honno. Ond bore drannoeth aeth i'r cyfeiriad hynny, a chafodd ei gelain yn ymyl.

Noson arall drachefn diangodd y ceffylau, a thrannoeth, ar ol rhoi ei giniaw ar y tân, marchogodd yntau ar eu hol. Yr oeddynt wedi mynd ar gylch eang o amgylch y *tent*, ac wedi dychwelyd yr ochr arall o fewn milltir. Ond yn y fan hon gwelodd Tom eu bod wedi troi'n sydyn a mynd ymaith ar eu hunion. Wedi sylwi gwelodd guanaco wedi ei hanner gladdu gan lew yn ymyl. Prysurodd yn ei flaen. Dwy awr oedd nes delai'r nos. Daeth o hyd i'r ceffylau, a gyrrai hwynt o'i flaen tua'r gwersyll. Yn sydyn gwelodd y llew wedi dod allan at y guanaco. Gyrrodd ei geffyl o flaen y lleill i gwrdd y llew. Disgynnodd, ond dalai'r ffirwyn yn dyn yn ei law chwith, a'i ddryll yn ei law dde. Saethodd. Rhuthrodd y llew clwyfedig tuag ato. Nis gallai ail lwytho ei ddryll, ac nis gallai gydio yn y *revolver* oedd ar ei ochr chwith, o achos y ceffyl; ond cydiodd ymlaen ei ddryll a tharawodd y llew yn ei ben nes ei gwmpo. Yna llonyddodd y ceffyl, a chafodd yntau hamdden i yrru bwled sicr trwy galon y llew.

Erbyn cyrraedd y gwersyll, gwelodd fod Reynard y llwynog wedi galw heibio. Roedd y ffwrn ar y llawr, a'r cig yn eisieu.

Gwelai Tom yr amser yn hir iawn, a phenderfynodd droi adref wrtho'i hun. Ond y noson cyn iddo roddi ei benderfyniad mewn grym, dychwelodd y lleill, wedi bod i ffwrdd am bythefnos.

Llwyn.

JOHN JAMES.

"Plant ydym eto."

DOH B^o. S.S.C.

ALAW NORWEGAIDD.

}	: .s ₁ s ₁ .,s ₁ :s ₁ :-d t ₁ .,l ₁ :l ₁ : .l ₁ f .,r :d :t ₁ r :d : .	}
	Plant ydym et - o dan ein hoed, Yn disgwyl am ein städ;	
	: .m ₁ m ₁ .,m ₁ :m ₁ :-m ₁ s ₁ .,f ₁ :f ₁ : .f ₁ l ₁ .,l ₁ :s ₁ .m ₁ :f ₁ f ₁ :m ₁ : .	
}	Gor-thrymder geir o dan y rhod, Ond byrfydd ei bar - had;	}
	: .d ₁ d ₁ .,d ₁ :d ₁ :-d ₁ f ₁ .,f ₁ :f ₁ : .f ₁ r ₁ .,f ₁ :s ₁ :s ₁ d ₁ :- : .	

}	.s ₁ s ₁ .,s ₁ :s ₁ :-d t ₁ .,l ₁ :l ₁ :-l ₁ f .,r :d :t ₁ d :- : .	}
	Mae'r et - i-fedd - iaeth i ni'n dod Wrth Destament ein Tad.	
	.m ₁ m ₁ .,m ₁ :m ₁ :-m ₁ s ₁ .,f ₁ :f ₁ :-f ₁ l ₁ .,l ₁ :s ₁ :f ₁ m ₁ :- : .	
}	Mae'r et - i-fedd - iaeth i ni'n dod Wrth Destament ein Tad.	}
	.d ₁ d ₁ .,d ₁ :d ₁ :-d ₁ f ₁ .,f ₁ :f ₁ :-f ₁ r ₁ .,f ₁ :m ₁ :r ₁ d ₁ :- : .	

}	.d d .,m :s :-m m .,r :r :-m d .,t ₁ :l ₁ :r d :t ₁	}
	Na ddigalon - wn, er ein bod Yn awr mewn an-ial wlad;	
	.m ₁ m ₁ .,s ₁ :d :-d d .,t ₁ :t ₁ :-t ₁ l ₁ .,s ₁ :l ₁ :l ₁ s ₁ :-	
}	Ni gawn yn fu - an gan-u clod O fewn y nef - ol wlad;	}
	.d ₁ d ₁ .,d ₁ :m ₁ :-d ₁ s ₁ .,s ₁ :s ₁ :-s ₁ l ₁ .,m ₁ :f ₁ :f ₁ m ₁ :r ₁	

}	:l ₁ s ₁ .,s ₁ :s ₁ :-d t ₁ .,l ₁ :l ₁ : .l ₁ f .,r :d :t ₁ d :- : .	}
	Mae'r et - i-fedd - iaeth i ni'n dod Wrth Destament ein Tad.	
	:f ₁ m ₁ .,m ₁ :m ₁ :-m ₁ s ₁ .,f ₁ :f ₁ : .f ₁ l ₁ .,l ₁ :s ₁ .m ₁ :f ₁ m ₁ :- : .	
}	Mae'r et - i-fedd - iaeth i ni'n dod Wrth Destament ein Tad.	}
	:t ₂ d ₁ .,d ₁ :d ₁ :-d ₁ f ₁ .,f ₁ :f ₁ : .f ₁ r ₁ .,f ₁ :s ₁ :s ₁ d ₁ :- : .	

}	.d d .,m :s :-m m .,r :r :-m d .,t ₁ :l ₁ :r d :t ₁	}
	Na ddigalon - wn, er ein bod Yn awr mewn an-ial wlad;	
	.m ₁ s ₁ .,d :m :-d d .,t ₁ :t ₁ :-t ₁ l ₁ .,s ₁ :l ₁ :l ₁ s ₁ :-	
}	Ni gawn yn fu - an gan-u clod O fewn y nef - ol wlad,	}
	.d ₁ m ₁ .,s ₁ :d :-d s ₁ .,s ₁ :s ₁ :-s ₁ l ₁ .,m ₁ :f ₁ :f ₁ m ₁ :r ₁	

}	:l ₁ s ₁ .,s ₁ :s ₁ :-d t ₁ .,l ₁ :l ₁ : .l ₁ f .,r :d :t ₁ d :-	}
	Mae'r et - i-fedd - iaeth i ni'n dod Wrth Destament ein Tad.	
	:f ₁ m ₁ .,m ₁ :m ₁ :-m ₁ s ₁ .,f ₁ :f ₁ : .f ₁ l ₁ .,l ₁ :s ₁ .m ₁ :f ₁ m ₁ :-	
}	Mae'r et - i-fedd - iaeth i ni'n dod Wrth Destament ein Tad.	}
	:t ₂ d ₁ .,d ₁ :d ₁ :-d ₁ f ₁ .,f ₁ :f ₁ : .f ₁ r ₁ .,f ₁ :s ₁ :s ₁ d ₁ :-	



PLANT CYMRU. CXIV. PLANT PWLLHELL.

YSGOL, GENHADOL, PENMOUNT, PWLLHELLI.

DYMA ddarlun o waith cenhadol Eglwys Penmount. Sefydlwyd yr achos mewn gweithdy saer yn y flwyddyn 1880, gydag ychydig blant i ddechreu. Ymhen dwy flynedd adeiladwyd ysgoldy eang, a adwaenir yn y dref fel yr Ysgol Garpiog. Erbyn heddyw y mae ar lyfrau yr ysgol 153 o aelodau. Cedwir moddion yma drwy y dydd y Sabbath, a chymerir dyddordeb neillduol gan y rhai sydd yn gofalu am y lle.

Fe welir yr arolygwr Mr. David Lloyd Jones yn eistedd ar yr ochr dde yn y darlun. Y mae yn gweithio yn rhagorol, trwy ddwyn esgeuluswyr i swm yr efengyl, a magu y plant dan iau Crist. Er yr adeg y sefydlwyd yr ysgol, y mae lliaws o frodyr a chworiydd ffyddlon wedi myned at eu gwobr, ond nid aethant heb adael deuparth o'u hysbryd ar eu hollynwyr. Nid yw y darlun yn cynnwys ond ychydig o'r athrawon ac athrawesau ac o blant yr ysgol. Er eu bod yn edrych yn lân a destlus, mae yn eu plith liaws mawr o blant tlotaf y dref, er hynny hyderwn y gwelir lliaws mawr o honynt "yn berlau yn ei goron Ef."

Tynnwyd y darlun gan Mr. W. Morgan Evans, arlunydd.

DULL O DDEWIS.

YN y dwyrain y mae' swyddogion uchel yn cael eu dewis mewn ffyrdd fydd yn ein taraw ni yn rhyfedd. Dywedir fod un Swltan wedi penderfynu dewis cadfridog rhyw ymgyrch yn y dull canlynol.

Gosododd afal ar ganol carped mawr, ac wedi hynny galwodd yr ymgeiswyr am y swydd i'r ystafell mewn trefn. Wedi hynny dywedodd wrth bob un,—

"Fe rof fi ofal yr ymgyrch i'r dyn fedr gael yr afal heb roddi ei droed ar y carped na defnyddio unrhyw offeryn i'w gyrraedd."

Wele un ar ol y llall o'r ymgeiswyr yn gorwedd yn ei lawn hyd ar y carped a'i draed bron cyffwrdd â'i ymyl, ac yn ymdrechu cyrraedd yr afal. Ond nid oedd hyd yn oed y talaf yn alluog i'w gyffwrdd. Pan ddaeth tro yr olaf i geisio, daeth i tewn ddyn byr a golwg wrol arno, a'r rhai oedd wedi methu yn gwenu ar y drychfeddwl iddo ef ei gyrraedd. Ond, fodd bynnag, ar ol meddwl ychydig, dyma ef yn troi ymyl y carped i fyny, ac yn ei rowlio, nes oedd yr afal o fewn cyrraedd. Wedi hynny estynnodd ef i'r Swltan. Trodd y wên ar wynebau yr edrychwyr yn synedigaeth, a dyma y Swltan yn dweyd wrth roi y swydd iddo,—

"Y chwi yw y dyn i fod yn gadfridog llwyddiannus, achos y medr-wch chwi orchfygu anhawsderau."

Cyf. R. E.

Y DDAU HOGYN RHEINY.

GAN WINNIE PARRY.

VIII. AMRYW HELYNTION.

YR wyf yn sicr na fu Pen y Bryn erioed mewn cyflwr mor helbulus a thra bu'r Ddau yn preswyllo yno, ac yr wyf yr un mor sicr na chafodd y ddwy Miss Jones amser mor fywiog yn eu bywyd ag a gawsant yr adeg honno. Yr oeddwn yn cydymdeimlo â hwynt yn yr amgylchiad blin yma oedd wedi dod i'w cyfarfod, er nas gallwn beidio a chwerthin chwaith, oherwydd ymddangosent yn byw o ddydd i ddydd mewn ofn parhaus beth wnelai y Ddau nesaf, ac yr oedd eu ffydd yn hynod gref yn eu galluoedd i dministrio. Yn wir yr wyf yn meddwl fod Miss Jones yn credu y gallent dynnu'r tŷ i lawr bron, os digwyddent feddwl am hynny.

Yr oedd pob aelod o'r teulu yn teimlo i'r graddau mwy neu lai oddiwrth eu presenoldeb. Ni chlywais Hannah yn defnyddio'r ymadrodd, "Go daria chi," mor aml a chyda'r fath bwyslais egniol erioed o'r blaen. Yr oedd y gath a Spot yn ddiameu yn hiraethu am y dyddiau dedwydd pan yr arferent gael eu cwsg prydawnol mewn heddwch bendigedig ar y sofa yn y parlwr. Treuliai yr olaf y rhan fwyaf o'i amser gan belled o'r tŷ ag oedd modd, ond nid oedd Titw mor gyfrwys. Ieuanc oedd hi eto, ac heb gasglu digon o brofiad yn ei thri mis bywyd i wybod pa fodd i amddiffyn ei hun yng ngwyneb gelynion mor ryfedd ac ofnadwy ag oedd o'i chwmpas yn awr. Ac am Sallie, druan o honi, peth newydd yn ei hanes ers llawer dydd oedd gorfod defnyddio ei charnau mor gyflym o amgylch y pwt cae lle yr oedd yn treulio ei henaint mewn heddwch â'r byd oddiamgylch. Y fi, yr wyf yn meddwl, oedd yn gallu cydymddwyn oreu â hwynt; ond, fel y dywedais o'r blaen mae fy natur yn un weddol lonydd, ac felly nid oedd rhyw lawer o ddiolch i mi, er nad ydwyf yn gwadu i minnau hefyd dymuno eu habsenoldeb, i ddweyd y lleiaf, ar amryw achlysuron, ac hefyd fy mod yn ystyried rhai o'u gweithredoedd yn anymunol a rhoddi y wedd oreu arnynt.

Gellwch farnu pa fodd y teimlwn un prydawn mewn siop yn y pentref, wedi tynnu fy mhwsr allan a'i gael yn wag; a thra y ceisiwn ddyfalu i ba le yr oedd yr arian yr oeddwn yn wybod oedd ynddo y diwrnod cynt wedi myned, i Bobbie yr hwn oedd gyda mi egluro y dirgelwch i mi fel y canlyn,—“O ni ddaru roid y pres i rhyw ddynas dlawd a lot o blant bach hefo hi. Dach chi'n cofio, Elin, ddaru chi ddeyd stori wrtha ni am roi petha i bobol dlawd a toedd ginon ni ddim pres i roi.” “Ia,” meddai Willie yr ochr arall i mi, “a mi

oedd ych pwrs chi ar y *sideboard* yn y parlwr, a ddaru ni feddwl y basa chi'n licio i ni roid pres iddi hi wrth bod chi ddim yno." Ni wyddwn beth i ddweyd yn iawn. Nid oedd wiw i mi eu ceryddu, neu buaswn yn gwrthdweyd fy hun, ac nid oedd gennyf ddigon o fedr i roddi eglurhad iddynt ar y pwnc. Ond penderfynais ynnof fy hun y rhoddwn fy mhwsr mewn lle diogel o hynny allan, ac hefyd y cymerwn ofal pa fath storïau ddywedwn wrthynt yn y dyfodol.

Yn dilyn yr un egwyddor, daeth y Ddau i'r tŷ un diwrnod yn amddifad o'u hosanau a'u hesgidiau, a'u heglurhad ar eu cyflwr troednoeth oedd,—

"Mi oedd na rhyw blant bach heb ddim sana na sgidia, a ma ginon ni lot o rai erill, a mi ddaru ni roi rheiny iddyn nhw." Tros-glwyddais hwynt, heb yr un gair, i drugaredd Miss Jones; nid oeddwn yn teimlo'n rhydd i'w cospi, yng ngwyneb y ffaith mai fi oedd wedi awgrymu y tath ymddygiad iddynt. Clywn Bobbie yn ymresymu â honno ac yn dweyd,—

"Elin ddaru ddweyd wrtha ni am roi petha i bobol dlawd." Nid oedd arnaf eisieu clywed mwy, ac es allan i'r ardd.

Byddai acw ryw helynt neu gilydd o'u hachos beunydd. Yr oedd y Ddau yn cymeryd dyddordeb anarferol yng ngwydrau y ddwy Miss Jones, ac y'r oeddwn amheus parthed y dynged oedd yn eu haros yn hwyr neu yn hwyrach. Rhoddais air o gyngor i Miss Jones a Cati i'w cadw yn eu pocedau, yn lle eu gadael yma ag acw ar hyd y tŷ; ond ni thalasant fawr o sylw i'm geiriau, ac un diwrnod codwyd y cri eu bod ar goll. Chwiliwyd am danynt i fyny ac i lawr. Ni chymerais i ran yn yr ymchwiliad yma, oherwydd yr oeddwn bron yn sicr fod y Ddau wrth wraidd diflaniad y gwydrau, ac awgrymais y byddai well eu holi yn eu cylch. Pan aethpwyd i'w ceisio, todd bynnag, cafwyd fod hwythau hefyd wedi diflannu i rywle. Danfonwyd Hannah i chwilio am danynt tu allan i gyffiniau Pen y Bryn, a dywedais wrthi am fyned i gyfeiriad y pwll dwfr hwnnw wrth odrau'r Foel. Ond daeth yn ei hol cyn pen ychydig yn aflwyddiannus. Yr oedd erbyn hyn tua hanner awr wedi saith, a dechreuodd y ddwy hen ferch deimlo'n anesmwyth. Penderfynais fyned gyda Hannah, ac aethum ein dwy i gyfeiriad y Ffridd, ffermdy tua milldir o Ben y Bryn, a chawsom y Ddau yn eistedd ar bentwr o gerrig wrth ochr y ffordd, a phâr o wydrau ar drwyn pob un, a morthwyl yn llaw pob un, yn torri cerrig, neu yn ceisio eu torri, â'u holl egni. Pan welais hwynt, cofiais ddartu i ni ar ein ffordd i'r Ffridd ryw ddiwrnod neu ddau yn gynt, fyned heibio i'r hen Ifan Jones yn torri cerrig wrth ochr y ffordd, a'i lygaid fel arfer wedi eu diogelu rhag y manion cerrig allai neidio i'w wyneb. Cofiais hefyd fod Bobbie wedi dangos dyddordeb neillduol yn yr hen wŷr a'i waith, ac wedi hysbysu

wrthf ei uchelgais i fod yn dorwr cerrig ei hun "rhyw ddiwrnod." Defnyddiai Bobbie yr ymadrodd olaf lle y buasai bachgen arall yn dweyd "pan a i'n ddyn."

Ond yr oedd gwaeth yn aros y gwydrau na'r tipyn camu gafodd eu ffram ar yr achlysur yma. Cadwodd y ddwy hen ferch hwynt yn ofalus am ryw ddeuddydd neu dri, ond buan y darfu iddynt anghofio y rhybudd gawsent, a diflannodd y gwydrau drachefn. Yr oeddwn i wedi digwydd myned i ddanfôn y Ddau i'w gwelyau pan wybuwyd eu colli. Byddai Bobbie pan yn dweyd ei bader yn arfer ei ddiweddu gyda gweddi o'i eiddo ei hun. Gofynnai am bethau rhyfedd iawn weithiau. Dyma un deisyfiad o'i eiddo y noswaith honno,— "Iesu Grist bach, please newch chi neyd i Auntie Cati a Auntie Margiad weld heb spectols." Yr oeddwn yn clywed y geiriau yn swnio yn ddieithr, ond ni ddarfu i mi eu cysylltu â dim anymunol, yn wir yr oeddwn yn teimlo fy hoffder at Bobbie yn cryfhau yng ngwyneb y prawf uchod o'i dynerwch a'i feddylgarwch o eraill, a meddyliwn y buaswn yn eu hadrodd wrth Miss Jones a'i chwaer. Pan gyrhaeddais y parlwr, fodd bynnag, y peth cyntaf ofynwyd i mi oedd,—

"Welsoch chi mo'n spectols ni Elin? mae'r ddwy wedi myned i rywla."

"Naddo," meddwn, "ond hoswch funud." Es i fyny'r grisiau yn fy ol. Yr oeddwn wedi cael esboniad ar weddi Bobbie, a phenderfynais y mynnwn gael gwybod beth oedd wedi digwydd i'r gwydrau. Cefais y Ddau bron a chysgu, ond gwnes iddynt godi ar eu heistedd. "Rwan Willie," meddwn, "lle mae spectols Auntie Cati a Auntie Margiad?" Edrychasant arnaf yn wirion â'u llygaid cysglyd. Cosodd Willie ei ben ac meddai mewn llais yr un mor gysglyd,— "Be Elin?" "Lle mae spectols Auntie Cati a Auntie Margiad?" gofynnais drachefn. Aeth Bobbie yn fwy effro. "Mae nhw yn y wash-house," meddai. "Ym mhle?" gofynnais. "Yn y wash-house, yn y twll llygodan," oedd yr atebiad. "Willie," meddwn, "deudwch yn iawn lle mae nhw." "Wel yn y wash-house mae nhw, Elin." Cymerodd Bobbie yr hanes i fyny. "Hannah oedd yn deyd bod llygod yn y wash-house, a Auntie Cati'n deyd mai rhoid gwyr yn y twll wedi dorri oedd isio, a mi ddaru ni neyd rhag i'r llygod frathu troed Hannah. Mi ddaru ni dorri'r botal bach honno mae'r ffisig drwg hwnnw yni hi Elin, ond toedd o ddim digon. A mi ddaru ni gymyd y spectols. Chydig bach o wydr geuthon ni o honyn nhw hefyd," meddai mewn llais siomedig. "Mi 'na ni chwilio am chwaneg o wydr fory, Elin, deydwch wrth Hannah, rhag i'r llygodan frathu'i throed hi." Yr oedd Willie yn gwyllo fy ngwyneb yn fwy na'i frawd, a meddai,— "Mi ddaru mi ddeyd wrtho fo na fase

Auntie Cati a Auntie Margiad ddim yn medru gweled heb spectols, ond mi ddaru o ddeyd y basa fo'n gofyn i Iesu Grist iddyn nhw gael gweld hebddyn nhw." "A mi ddaru mi hefyd. Elin, dach chi'n cofio. Ddaru mami ddeyd wrtha i y ca ni bopeth, os na ni ofyn, a chitha hefyd." Yr oedd yn ofer ceisio eu hargyhoeddi o'u pechod. "Gorweddwch, blant drwg," meddwn, "yn torri petha felna." Wrth i mi fyned allan, gwaeddodd Bobbie ar ty ol "Good night, Elin," mor ddigyffro a phe buasai heb wneyd drwg erioed.

Pan aethpwyd i archwilio'r *wash-house*, cafwyd y fframs wedi eu plygu wrth ymyl y twll llygoden, mymryn o wydr yn glynu ynddynt yma ag acw. Yr oedd yn nodweddiadol o Cati i ddweyd,—“Diar lwc nag aeth dim o'r gwydr i dulo nhw.” Ac yr oedd “Hy, piti na fasa peth wedi mynd i edrach gadwa nhw mo'i dulo'n llonydd” Miss Jones yr un mor nodweddiadol o honi hithau. Ond yr un modd ag y meddyliai Cati y meddyliai Miss Jones, ond eu bod yn defnyddio geiriau gwahanol i gyfleu ei meddwl.

Y diwrnod canlynol digwyddodd helynt arall llawn mor ddifrifol. Yr oedd y ddwy hen ferch wedi myned i'r dref i geisio cael gwydrau yn lle y rhai ddefnyddiwyd i gau twll llygoden. Yr oeddwn yn eu disgwyl yn ol gyda'r trên saith. Tua hanner awr wedi pump cymerais lyfr yn fy llaw, ac és allan i'r ardd. Yr oeddwn wedi cael prydnawn pur galed gyda'r Ddau. Yr oeddent wedi bod yn waeth nag arfer, ond yn awr edrychent fel pe buasai gwres y dydd wedi gadael ychydig o'i ol arnynt, ac wedi peri iddynt lonyddu tipyn. Eisteddwn i ar y fainc sydd yng nghysgod hen ddraenen wrth ochr y tŷ, a gorweddai y Ddau ar y glaswellt rhyw lathen neu ddwy oddiwrthyf. Ond gormod oedd disgwyl iddynt aros yn yr un fan heb symud am fwy na phum munud, a phan roeddodd Bobbie y cynygiad ger bron y buasai yn ddymunol myned i chwareu i'r cwrt, diflannodd y Ddau yng nghyfeiriad cefn y tŷ, ac agorais innau fy llyfr. Feallai fy mod wedi darllen rhyw ddalen neu ddwy pan y clywn Bobbie yn gwaeddi o ddrws y ffrynt,—

“Elin os ginoch chi llyny? Darn bach?”

“Nag oes gin i, be sana chi isio fo?”

“I chwara, dim ond darn bach.” Fel rheol byddwn yn estyn yr hyn ofynnent am dano, os byddai yn resymol, er mwyn diogelwch i bethau oddiamgylch. Ond nid oeddwn yn teimlo rhyw awydd mawr gadael fy sedd gyfforddus a'r llyfr oeddwn yn ddarllen i fyned i chwilio am yr hyn ddymunai Bobbie y prydnawn hwnnw, a meddwn,—“Hidiwch befo'r llyny rwan, Bobbie. Mi fydd Auntie Cati a Auntie Margiad yma yn y muntid, a wyrach do nhw a rwbath i chi.” Ni ddarfu iddo ddilyn ei ymresymiad fel arfer, ond trôdd yn ei ol i'r tŷ, i fyned i'r cwrt fel y tebygwn; a llongyfarchais fy hun fy mod

wedi cael ymwared â hwynt am dipyn. Clywais y cloc mawr ar y *landing* yn tarawo chwech ymhen ychydig amser. Y peth nesaf dorrodd ar fy heddwch oedd swm rhywbeth yn syrthio yn y tŷ. Penderfynais mai Hannah oedd wedi gollwng rhywbeth, gan nad oedd yr un waedd yn dilyn, a chan nad oedd yn dod i fy hysbysu o'r un ddamwain ynglŷn â'r Ddau. Yr oeddwn wedi anghofio fod yr eneth wedi myned heibio i mi rhyw ychydig o funudau yn gynt, a basgiad o dan ei braich, i hel rhyw ddilladau oedd ganddi yn cannu ar wrych y cae. Darllennais i ddiwedd y bennod yr oeddwn ar ei chanol, ac yna meddyliais y byddai well i mi fyned i mewn i ddweyd wrthi am hwylio ei hun i fyned i'r orsaf i gyfarfod y ddwy Miss Jones rhag otn y byddai ganddynt rywbeth i'w gludo i Ben y Bryn. Drwy ffenestr y parlwr cefn, lle yr oeddwn wedi myned yn gyntaf i gadw fy llyfr, gwelwn y Ddau yn chwareu ceffyl bach. Yr oeddent wedi llwyddo i gael llinyn a dipyn o hyd ynddo o rywle. A gwaeddodd Bobbie wrth fy ngweled,—

“Dan ni wedi cael llinyn iawn, Elin.”

“Dyna chi,” meddwn, heb feddwl gofyn o ble yr oedd y “linyn iawn” wedi dod. Yr oedd Hannah yn dod i mewn gyda ei basgiad ddillad pan ês i'r gegin, a meddwn,—

“Fydda well i chi fynd i'r stesion, Hannah, rhag ofn bydd gin Miss Jones rywbeth i'w gario.”

“O'r gora, Miss Evans, a i wisgo am danaf rwan.” Ac aeth i fyny'r grisiau. Pan gyrrhaeddodd y *landing* gwaeddodd,—“Mae hi ddigon buan, tydi hi ddim ond chwarter wedi chwech.” Cyn iddi ddwad i lawr clywn swm y lliidiart, ac wedi myned i ddrws y ffrynt, gwelwn Miss Jones a Cati yn dod i fyny llwybr yr ardd. Yr oedd gan yr olaf barsel papur llwyd yn ei breichiau, ac edrychai y ddwy yn hynod wresog a lluddedig. Rhedais i'w cyfarfod a meddwn gan gymeryd baich Cati,—

“O ble daethoch chi rwan? Ddaru chi rioed gerad o'r dre mewn ffasiwn wres. Mae Hannah yn hwylio i hun i fynd i gwarfod y trên saith.”

“Hefo'r trên saith deuthon ni,” meddai Miss Jones.

“Dier anwyl nage,” meddwn, “rhaid mai rhyw spesial oedd hi, achos tydi hi ddim ond rhyw ugian munud wedi chwech.”

“Dach chi'n drysu'n lân, Elin,” meddai Miss Jones. “Mae hi rhywla'n agos i hanner awr wedi saith, achos mi oedd y trên chwarter awr beth bynnag ar ol i amsar.”

“Wel, dowch i weld y cloc mawr ta,” meddwn, gan roddi'r parsel ar y bwrdd yn y *lobby*. Aethom ein tair i fyny'r pum gris sydd yn arwain i'r *landing* ar ba un y safai yr hen gloc derw. Ond at

chwarter wedi chwech y pwyntiai y bysedd pres o hyd. "Mae o wedi stopio Elin, tybed ddaru mi ddim i windio fo ddiagon uchaf nos Sadwrn?" Agorodd Miss Jones y drws, ac er ein syndod, nid oedd ond un o'r pwysau i'w cantod. Yr oedd hwnnw tua'r hanner. "Mae'r lein wedi torri reit siwr," meddai Cati. "Cerwch i nol canwyll, Hannah. Peth od iddi hi dorri hefyd, toes dim rhyw lawar ers pan roth David Jones y *watchmaker* un newydd. Rhaid fod hi wedi hannar pydru, mi dduda i'r drefn wrtho fo tro nesa gwela i o." Cymerodd Miss Jones y ganwyll o law Hannah a daliodd hi oddi fewn i gâs y cloc. "Hwdiwch, Elin," meddai, "gafwch yn y ganwyll gael i mi drïo i godi o, wela i ddim golwg ar y lein chwaith." Tynnwyd y pwysau allan, a chymerodd Miss Jones y ganwyll ail-waith, i geisio dod o hyd i'r lein. "Tydi hi ddim yma," meddai hi o'r diwedd. "Peth rhyfedd iawn lle'r aeth hi," meddai Cati. "A pheth rhyfadd iawn," ychwanegai ei chwaer, "na fasa un o honoch chi wedi clywed y twrw wrth iddo fo syrthio." Cofiais am y swm yr oeddwn wedi glywed pan yn yr ardd, a throais yn sydyn a chychwynnais i lawr y grisiau. Yr oeddwn wedi cael drychfeddwl. Rhedais allan i'r cwrw lle yr oedd y Ddau yn neidio ac yn prancio o gwmpas yn holl hwyl chwareu ceffyl bach. Pan welodd Bobbie fi gollyngodd y "reins" oedd wedi eu clymu am freichiau Willie a rheddod ataf, gan waeddi, "Ydi Auntie Cati wedi dwad Elin? Oes gini hi rwbath i ni?" Gafaelais yn y llinyn oedd yn llusgo tu ol i Willie, ac fel yr oeddwn yn meddwl yr oedd o'r un defnydd a'i gymar oedd yn y cloc yn awr. "Lle ceuthoch chi'r llinyn ma Bobbie?" "Oh, yn y cloc. Dudwch, Elin, ydi Auntie Cati a Auntie Margiad wedi dwad a rwbath i ni?" "Nag ydi," meddwn. "Oh, a hithe wedi deyd," mewn llais siomedig, "mi na ni ddiogio hefo nhw," ac yna mewn llais gwahanol ac yn ail afael yn y llinyn oedd ynglŷn â Willie,— "Tydi rhein yn 'reins' iawn Elin? Ddaru ni weld o'n hongian yn y cloc, a mi ddaru ni gymyd siswn a'i dorri o." Ni ddywedais yr un gair, ond gadewais hwynt gyda'r penderfyniad y caent sylweddoli eu trosedd y tro hwn beth bynnag. "Miss Jones," meddwn, "Bobbie a Willie ddaru dorri lein y cloc. Mi ddylach i chwipio nhw reit dda."

"Welsoch chi rotsiwn beth yrioed," meddai Miss Jones, "mae nhw'n haeddu i chwipio hefyd, yr hen gnafon bach. Cati, mi gei di neyd."

"Na wir, Margiad, chti di gora neyd."

"Wyrach gneith Elin wrth ein bod ni wedi blino wedi bod yn y dre. Tydi peth fel hyn ddim rheswm, mi fyddan wedi torri pob cyfryw beth sydd yn y tŷ yn union ddeg," meddai ei chwaer. Nid oeddwn wedi bwriadu i bethau gymeryd y wedd yma, a meddwn,—

"Tydi o ddim yn iawn i mi i curo nhw, Miss Jones. Tydyn nhw'n perthyn dim i mi."

"Wel rhaid i mi neyd, decyn i," meddai Miss Jones. Pan oedd yr ymdrafodaeth wedi cyrraedd y pwynt yma, rhedodd Bobbie i fewn a gwaeddodd o waelod y grisiau,—

"Auntie Cati dduthoch chi a rw bath i ni? Mae Elin yn deyd na dduthoch chi a ddim byd. Ond mi ddaru chi ddeyd y basa chi'n dwad a rw bath i ni os bydda ni'n *good boys*, a mi yda ni wedi bod yn *good* iawn yn tyda ni Elin?" Rhedais i fyny i fy ystafell a gadawais rhwng Miss Jones a Cati a hwynt. Pan ddeuthum i lawr drachefn, cefais y Ddau yn eistedd ar waelod y grisiau, yn cnoi *peppermints* â'u holl egni. Estynasant eu papurau i mi, ac meddai Bobbie a llond ei geg o'r melusion,—

"Ylwch, Elin, be ddoth Auntie Cati i mi, a Auntie Margiad i Willie. Cymwch rai Elin. Well ginon ni shoclet wyddoch, mi newch *chi* brynnu shoclet i ni fory yn gnewch, Elin?" Cymerais un neu ddau o bob papur, a rhoddais hwynt yn fy mhoced, yn gwybod y deuent yn hwylus cyn hir. A hwyliais y Ddau i'w gwelyau. Pan ês i lawr i'r parlwr ar ol gorffen y gorchwyl yma, dychmygwn fod edrychiad dipyn yn euog yn llygaid Miss Jones. Dechreuodd amddiffyn ei hun hefyd (nid oedd Cati yn yr ystafell); ac meddai,—

"Ddaru mi ddim i chwipio nhw heno, Elin. Mae pen Cati yn ddrwg wedi bod allan yn yr haul drwy y pnawn, a dasa nhw'n crio mi fasa yn i neyd o'n waeth." Ar ol swper pan oedd Cati a fi ein hunain yn y parlwr, Miss Jones wedi myned i'r gegin i rywbeth neu gilydd, dywedodd Cati wrthyf,—

"Welis i beth odiach yrioed, Elin, chês i ddim mymryn o gur yn y mhen heidtyw, a wedi bod allan mewn ffasiwn wres hefyd." Yr oedd yn dda gennyf nad oedd Miss Jones yn clywed.

Bore drannoeth daeth llythyr oddiwrth Mrs. Thomas, ac yn ei ddiwedd gobeithiai fod Bobbie a Willie yn blant da. Pan oeddwn yn ei ateb, meddai Miss Jones wrthyf,—

"Waeth i chi heb a sôn am be neuthon nhw ddoe Elin. Neith o ddim ond i phoeni hi, a mae hi mewn digon o helbul eisus, peth dlawd."

 Cystodir y golygydd yw,—OWEN M. EDWARDS, 3, CLARENDON VILLAS, OXFORD.

ARGRAFFWYD A CHYTRHODDWDYD GAN HUGHES AND SON, 56, ROBEY STREET, WREKHAM

YSGWRS Y GOLYGYDD.



R wyf yn gobeithio fod y plant yn cofio am beth y cynhygiwyd gwobr yn y rhifyn diweddaf. Cyn hir, yr wyf yn disgwyl y bydd plant Cymru yn medru tynnu digon o ddarluniau i lenwi CYMRU'R PLANT. Ffordd bynnag, os na fedr y plant wneyd defnydd o'r hensel neu'r brws neu'r camera, dysgent syllu ar brydferthwch natur. Yn yr haf hyfryd hwn, dylai pob plentyn fod allan yn y caeau. Mynned ddarganfod rhyw sedd o'r hon y gall wyllo coed a blodau ac adar. Na ddysgw'n i'n plant fod y byd hwn yn fyd drwg,—y mae'n llawn o ddaioni ac yn orlawn o brydferthwch.

Dylai pob plentyn ganu. Y mae Robert Roberts, A.C., athraw yn y Dyffryn, wedi cyhoeddi llyfr caneuon i ysgolion ac ar gyfer cystadleuaethau. Y mae testynau'r caneuon yn dangos y dylai'r llawen ei gael,—Fy Anwyl Wlad, Y Friallen, Yr Ehedydd, Ffarwel y Gwew, Diwrnod yn y Wlad, Tros y Garreg. Y mae'r geiriau yn y ddwy iaith. Ceir y llyfr oddiwrth R. Roberts, Nid yw ei bris ond dwy geiniog.

Ysgol y Bwrdd, Dyffryn Arduwy.

Dau frawd a chwaer,—plant Island View, Llanfairfechan,—yw y plant bach oedd yn y lle crwn y mis diweddaf. Drwg gennyf ddweyd fod y brodyr wedi colli eu chwaer.

Y mae llawer o Gymry bychain trefydd Lloegr wedi cael treulio gwyliau yng Nghymru,—ac wedi gweld y mynydd a'r môr, ac eisteddfod hefyd hwyrach. Yn sicr, y mae'r gân sy'n dilyn yn dweyd eu teimladau.


GWLAD FY NHADAU.

'Rwy'n hoff o Wlad fy Nhadau, a'i bryniau cribog ban,
Ni fyddaf byth yn canfod eu tebyg yn un man ;
Cusanant y cymylau tra'n wlyb gan ddagrau'r nos,
Dros eu hysgwyddau prydfferth y gwena'r lleuad dlos.

'Rwy'n hoff o Wlad fy Nhadau, gwlad yr Eisteddfod gu,
Athrofa genedlaethol yn hanes Cymru fu ;
Disgleirdeb ei goleuni, fel haul ar hanner dydd
Sy heddyw'n twynnu'n gynnes ymlaen a'r Gymru fydd.

'Rwy'n hoff o Wlad fy Nhadau, gwlad yr hen gewri gynt,
Mae'r creigiau fel pe'n adsain eu henwau gyda'r gwynt ;
Gwlad enwog meibion barddas, a'r delyn deir-res lon,
Gwlad cerdd a moes a chrefydd, mae 'nghalon i yn hon.

ILAR DAVIES.



CASTELL RHUDDLAN A DYFFRYN CLWYD.



MEDI 1899.

CYF. VIII. RHIF 93.

LILI AC YSGALL.

MAE blodeuyn, tel dyn, yn gwneyd ei oreu i fyw ac i gael byw. Y mae'r ysgellyn yn cydio gymaint fedr ymhob peth a gaiff,—y mae'n gwthio ei wreiddiau yn ddyfnion iawn i'r ddaear. Y mae'n amddiffyn ei hun hefyd,—y mae'n bigau drosto. Ond am y lili, nid oes ganddi hi amddiffyn yn y byd; tlos a thyner a diniwed ydyw. Ac er hynny, y mae'r lili'n fwy diogel na'r ysgellyn. Y mae pawb am dynnu'r ysgellyn o'i gae neu ei ardd, ni waeth iddo pa mor ddwfn yw ei wreiddiau na pha mor bigog ei wisg. Ond y mae pawb yn amddiffyn y lili. Nid trwy fagu pigau, ond trwy fagu blodau, y mae ennill lle yn y byd. Y mae diniweidrwydd a thrugaredd yn gryfach amddiffyn na golud a grym.

SIROEDD CYMRU.

X. SIR FFLINT.

SIR Fflint yw'r leiaf o siroedd Cymru; ond y mae'n boblog ac yn oludog iawn o'i maint.

Y mae Dyffryn Clwyd ac aber y Ddyfrdwy yn rhedeg yn gyfochrog tua'r môr. Rhwng y ddwy afon, ac yn gyfochrog a'r ddwy, rhed trwm o fynyddoedd, a'r pigyn uchaf ohonynt yw Moel Famau. A

dyna ydyw sir Fflint,—y bryniau a'r gwastadedd rhwng y trumau hyn ac aber lydan y Ddyfrdwy. Cornel ogledd ddywyreiniol Cymru yw. Ond dylaswn ddyweyd fod dau ddarn o sir Fflint y tu allan i'r terfynau a nodais; a fod darn arall o fewn y terfynau, ond heb fod yn rhan o'r sir. Y mae dyffryn uchaf yr Alun o fewn y terfynau a nodais, ond rhan o sir Ddinbych yw. Ond y mae darn y tu gorllewinol i afon Clwyd, o Lanelwy bron i'r Rhyl, yn perthyn i sir Fflint. Y mae darn arall o sir Fflint,—yn cynnwys, mi gredaf, hen gartref Dafydd Nanmor,—ymhell oddiwrthi, y tuhwnt i sir Ddinbych a'r Ddyfrdwy, sydd bron yn rhan o Loegr erbyn hyn.

Nid oes yr un aton o bwys yn codi yn sir Fflint, ond y mae y rhan fwyaf o'r Alun, a pheth o'r Glwyd, yn rhedeg trwyddi.

Y mae llawer o wenith a ffrwythau yn y sir; ond ei phrif olud yw ei glo, ei chalch, ei phlwm, a'i chlai.

Prif drefydd Fflint yw'r Wyddgrug, Treffynnon, Llanelwy, a'r Rhyl. Cynhwysa'r sir un o saith rhyfeddod Cymru, sef Ffynnon Gwenffrewi. Cynhwysa hefyd olion hen abaty hyfryd y Cisterciaid,—Basingwerk neu Maes Glas.

Y mae ei chestyll aml yn dweyd fod iddi hanes hir. Gorchfygwyd hi gan Iarll Caer. Yr oedd Caer ger un pen iddi, a Rhuddlan,—cartref gorthrymwr creulonaf Cymru,—yn y pen arall. Gwnawd hi'n sir pan gwmpodd Llywelyn. Yn y dyddiau diweddaf hyn y mae wedi magu rhai y gŵyr pob Cymro am danynt, megis Alun, Glan Alun, a Daniel Owen. Yng nghastell Penarlâg yr oedd cyllidydd mwyaf y ganrif,—W. E. Gladstone,—yn byw.

ESIAMPL.

Y MAE gweled aderyn ar het gwraig yn arwydd o greulonder neu ffolineb, ac o ddiffyg chwaeth at y gwir dlws.

Yr oedd gwraig unwaith yn gwisgo het ac aderyn arni. Daeth ar draws bachgen drwg yn lladd cywion bach glas y dorlan. "O'r bachgen drwg," meddai wrtho, "beth wyt ti'n feddwl fydd teimlad y fam pan wel hi ei rhai bach wedi eu lladd?"

"O," ebe'r bachgen drwg, "y mae'r fam wedi ei lladd yn barod. Yr ydych chi yn ei gwisgo ar eich het."

Nid peth hawdd yw dysgu tynerwch at adar i blant tra y gwelir gwragedd yn gwisgo cyrff adar ar eu hetiau.

ARWYDD.

"Yr wyf yn credu fod Mr. T— yn ddyn dedwydd ac yn ddyn da."

"Pa arwydd gawsoch o hynny?"

"Gwelais deganau ei blant ar lawr yng nghornel ei fyfyrgell."

STORIAU CYMRU I'R PLANT.

GAN WATCYN WYN.

IV. STORI CAWG TYRNOG.

(Yr hwn ni ferwai gig i ddiogyn.)

ROEDD Tyrnog yn hen foneddwr
 A chanddo gawg yn iawn,
 A mynych ar dân y gegin
 Fe'i rhoddid o gig yn llawn.

'Roedd llawer yn galw heibio
 I weled hen Dyrnog hael,
 A byddai bob amser ddigon o fir
 A bara a chig i'w gael.

'Roedd y cawg ar dân y gegin
 Yn berwi bron nos a dydd,
 A chalon yr hen foneddwr
 Yn galon dwym a rhydd.

Pwy sydd yn gwybod nifer
 Yr ychain a'r defaid bras,
 A roed i ferwi yn y cawg
 Yn hen gegin fawr y plas?

Ond er cymaint a ferwyd ynddo,
 Ac o hono gymaint fu'n cael,
 Ni ferwodd erioed un tamaid
 O gig i ddiogyn gwael.

Nad faint fyddai tân y gegin
 A gwres y fflamau coed,
 Ni ferwai y cawg un pryd o gig
 I ddiogyn gwael erioed.

Er berwi ac er berwi
 Am ddiwrnod ar ei hyd,
 Ni wnelai cig y diogyn gwael
 Ddighoni dim yn y byd.

Yr oedd yr hen gawg yn adwaen,
 Ac fel yn honni hawl
 I fwyda yr hwn oedd yn gallu
 Tynnu ei gig o'i gawl.

CYMRU'R PLANT.

Wrth weled y llwfryn diog,
 'Roedd y cawg fel yn mynd yn ddog,
 A dwedai ar dân y gegin,—
 "Ferwaf fi ddim o dy gig!"

"Y diogyn diffwrwyth," meddai,
 "Ym mha le bynnag y trig,
 Nid yw yn werth ei halen
 Chwaethach yn werth ei gig."

YNG NGHYMRU.

GAN TALDIR O LYDAW.

ERS wythnos, yr wyf yn teithio trwy Gymru lân. Mor brydferth, mor hardd ydyw gwlad y Cymry! A pha mor ddewr a gwladgarol ei phlant!

Yn dod o Gaernarfon ddechreu'r mis, teithiwn yn y rheilffordd efo plant Llanberis, yn dod adref o'r ysgol ganolraddol, ac oll yr oeddynt yn darllen eu hanwyl gylchgrawn,—CYMRU'R PLANT. Wrth weled fy ngwisg genedlaethol, dywedodd un ohonynt,—

"O, gwelais y flwyddyn ddiweddaf ddarlun o'r gwisgoedd yna yng NGHYMRU'R PLANT."

Yr oedd gyda mi fy anwyl gyfaill John Edwards (*Pwyntil Meirion*), ysgolaig o'r Ecole des Beaux Arts, Paris, prif ysgol gelf y byd. A dyna ni yn dechreu siarad fel babanod â'n hanwyl brodyr bach.

Gobaith a seren Cymru ydyw plant yr oes yma. Y mae eu teimladau i gyd yn dra gwladgarol. Yng ngorsaf Penrhyndeudraeth, yr 28ain o Orffennaf, cyfarfyddais â llu o blant bach, ac wrth weled medal Urdd y Delyn yn tywynnu ar fy mron, buont mewn syndod mawr, a mwyaf eto pan glywsant fi yn siarad eu hanwyl iaith.

Ar fy nghais taer, canasant oll i gyd "Hen Wlad fy Nhadau." Pa mor galonnog oedd eu cân!

Nid anghofiaf fyth mynyddoedd a dyffrynnoedd Cymru, na'r croesawiad da a dderbyniais ym mhob lle, ond nid anghofiaf hefyd fyth ei phlant.

MORWYR RHYFEDD.

PAN oedd llong Darwin yn hwylio gyda glannau Deheudir America, a phan oedd tua thri ugain milldir o'r lan, daeth llu mawr o fân bryfed copyn i ymweled â hwy. Yr oedd awel yn chwythu o'r lan, ac yr oedd pob copyn yn eistedd ar ben llinyn gwawn.



PLANT CYMRU. CXV. PLANT ACREFAIR.

GOBEITHLU ACREFAIR.

CAFWYD tymor llewyrchus y llynedd gyda'r Gobeithlu yn Acrefair. Gweithiwyd yn egniol gan y gweinidog,—Parch. J. Thomas, a welir ar y de i'r darlun; y Llywydd, Mr. E. R. Roberts, a'r Ysgrifenyddes, Miss E. A. Davies (a welir yn agosaf at eu gilydd yn yr ail rês, ar yr aswy i'r darlun). Traddododd Mr. W. Parry, Prifathraw llwyddiannus Ysgol y Bwrdd, gyfres o ddarlithiau dyddorol ar effeithiau niweidiol alcohol; ac hefyd Mr. Robert Williams ar Ddirwest a'r Beibl.

Mae y plant hyn yn hoff o ganu, ac wedi ennill droion dan arweiniad Mr. J. Wright.

Er o fewn milldir i Glawdd Offa, sydd rhyngom a Rhiwabon, ac er dylifiad y Saeson i'r gweithfeydd priddfeini (*terra cotta ac encaustic tiles*), y glofeydd, a'r gweithfeydd eraill sydd yn yr ardal hon, gwneir ymdrech i gadw'r iaith Gymraeg yn bur. Diolch am help CYMRU'R PLANT i wneyd hynny.

ER MWYN EI GYFEILLION.

NID oes gan neb gymaint o gyfleusderau i wneyd daioni a'r meddygon, ac y mae y gweithredoedd o dosturi a gyflawnasant yn haeddu mwy o'n hedmygedd na'r gweithredodd milwrol disgleiriaf.

Ar y pedwerydd dydd ar bymtheg o Fehefin, 1864, cymerodd brwydr le rhwng y ddwy long Americanaidd,—y Kearsage a'r Alabama,—ar dueddau Ffrainc. Prydeiniwr ieuanc o'r enw David Herbert Llewellyn oedd llawfeddyg yr Alabama, a pherchid ef gan bawb oedd ar y bwrdd. Ar ddiwrnod yr ornest, yr oedd yn gwneyd ei oreu gyda'r clwyfedigion. Pan oedd y llong ar suddo, rhoddodd y captan orchymyn i bawb i geisio achub eu hunain; a chynifer a fedrent, a nofiasant i'r cychod a osodasid at eu gwasanaeth gerllaw. Yr oedd dau gwch perthynol i'r Alabama heb eu dryllio, a rhoddwyd y clwyfedigion ynddynt o dan arolygiaeth Llewellyn. Pan oeddynt wedi eu llenwi, ceisiodd un dyn neidio i un ohonynt ond ataliwyd ef gan y meddyg, yr hwn a ddywedodd,—

“Mae arnaf fi gymaint o awydd achub fy mywyd a chwithau, ond gadewch i'r rhai sydd wedi eu clwyfo gael eu hachub yn gyntaf.”

“Doctor,” gwaedda i swyddog o'r cwch, “gallwn wneyd lle i chwi yma.” Ond gwelai y meddyg fod perygl i luddias y cwch am funud, a bod ei orlenwi yn rhoddi yr holl fywydau yn y perygl mwyaf. Atebodd,—

“Ni wnaf beryglu yr holl fywydau,” a throdd ymaith, er fod yr holl ddynion yn erfyn arno ddod i'r cwch. Aeth i lawr i waelod y llong i weled a oedd yno rywun mewn angen cynorthwy, a'r foment ganlyniol suddodd y llong, a threngodd y meddyg ieuanc tra yn cyflawni ei ddyledswydd.

Yn y modd hwn y colodd un o'r dynion goreu fuont yn perthyn i'r broffeswriaeth ddyngarol ei fywyd pan yn chwech ar hugain oed. “Roedd ei fywyd pur yn profi gwirionedd yr ymadrodd hwnnw,—“Dedwydd yw rhoddi yn hytrach na derbyn.” Pwy bynnag fyddo yn meddu ar yr egwyddorion ardderchog a lywodraethai fywyd y dyn ieuanc hwn, fedr ddweyd, heb un petrusder, fod bywyd yn werth ei fyw.

LLYWELYN.

LLIW PETRIS.

Y MAE Creawdwr yr adar yn gwneyd eu lliw, nid yn unig yn dlysmi i'r adar, ond yn amddiffyniad hefyd. Y mae lliw'r betrisen yn debyg i'r tir y bydd yn byw arno,—mae lliw llai amlwg arni pan ar dir clai na phan ar dir graianog neu ar rug y mynydd.

EGIN ADDYSGWYR.

PAN agorwyd Ysgol Sirol Ffestiniog yn Ionawr, 1805, anfonodd y Bwrdd Ysgol nifer o fechgyn a genethod iddi i'w cymhwyso i fod yn athrawon. Nid anyddorol, feallai, fydd gair ar gynllun-Bwrdd Ysgol Ffestiniog o barotol *Pupil Teachers*. Trefnir arholiad.

blynyddol yng ngwaith Safon VII., yr hwn yw safon derbyniad i'r Ysgol Sirol, gan roddi rhyddid i'r ymgeiswyr gymeryd hefyd ddau neu ychwaneg o'r materion a elwir yn *Specific Subjects*. Yr arholydd eleni yw Mr. E. D. Jones, M.A., Prit Athraw Ysgol Sirol yr Abermaw. Wedi cael boddlonrwydd ynghylch ymroddiad yr ymgeiswyr gan yr athrawon y byddont wedi treulio y flwyddyn flaenorol gyda hwy, dewisir y rhai uchaf ar y rhestr, yn ol angen y Bwrdd, i fod yn *Pupil Teachers*. Cedwir hwynt am ddwy flynedd neu dair, yn ol fel y llwyddant, yn yr Ysgol Sirol, a thelir gan y Bwrdd am eu haddysg a'u llyfrau. Os pasiant *Matriculation* Prit Athrofa Cymru, der-



CATHERINE MARY JONES, FFESTINIOG.

byniant rodd o £5. Ar derfyn y tymor hwn ânt i'r Ysgolion Elfennol i gael ymarferiad mewn addysgu plant, lle yr arhosant am flwyddyn neu ddwy, yn ol eu hoedran. Yn y tymor hwn rhaid iddynt fyned i'r Dosbarth Canolog yn yr Ysgol Uwchelfennol, ddau fore o bob wythnos. Fe welir gan hynny fod llwyddiant yr ymgeiswyr yn yr arholiad am Ysgoloriaeth y Frenhines i'w briodoli i'r addysg a

dderbyniant yn yr Ysgol Sirol gan Mr. F. P. Dodd, M.A., a'i gynorthwywyr, ac yn y Dosbarth Canolog gan Mr. John Bowen, a'i gynorthwywyr.

Y ddau gyntaf o'r *Pupil Teachers* i basio *Matriculation* oedd Catherine Mary Jones (Prif Athrofa Cymru), ac Edward Morgan Williams (Prif Athrofa Llundain), ac fel y cytryw y dodir eu darluniau yn y rhifyn hwn.



EDWARD MORGAN WILLIAMS, FFESTINIOG.

Merch yw Catherine Mary Jones i'r diweddar Mr. Owen Pierce Jones, gŵr a fawr berchid fel swyddog yn Chwarelau Oakeley, ac fel swyddog eglwysig yn yr Eglwys Saesneg.

Mab yw Edward Morgan Williams i Mr. Robert Williams, Prifathraw Ysgol y Bwrdd, Tanygrisiau, ac ŵyr ar du ei fam i'r diweddar Barchedig Edward Morgan, o'r Dyffryn. Y mae efe gan hynny o linach y cewri.

Ganwyd y ddau yn agos i derfyn y flwyddyn 1880, pasiodd y ddau arholiad y *Matriculation* yn y flwyddyn 1897, y flwyddyn gyntaf yr oedd yr arholiad hwn yn agored iddynt, ac arholiad Ysgoloriaeth y Frenhines ym mis Rhagfyr, 1898.

Safle Catherine Mary Jones yn yr arholiad diweddar oedd 228 ar restr y merched allan o 9000 a throsodd, ac Edward Morgan Williams yn 81 ar restr y meibion allan o dros 2000 o ymgeiswyr. Bydd y ddau yn myned i Goleg Aberystwyth ym mis Medi nesaf, a hyderwn fod iddynt ddyfodol disglar a gwasanaethgar.

NIS GELLIR CUDDIO'R DRWG.

PREGETH fach sydd gennyf heddyw, fy mhlant, i chwi, a phregeth y gall pob un ohonoch ddeall pob gair ohoni. Ni ddisgwylir i chwi ddeall pob pregeth. Bydd ambell bregethwr yn egluro gwirioneddau dynion; ac er i chwi wybod y geiriau, nis gwyddoch feddwl y brawddegau. Bydd ambell i un arall yn defnyddio geiriau hirion i guddio meddwl bach nes y byddwch yn cysgu ar hyd y bregeth. Gellwch fy neall i, ac ni chysgwch. Esboniaf bob gair. Bach wyf fy hunan, a chwithau yn fach, felly byddwn yn dilyn ein gilydd yn gampus. Cewch y testynau wrth fynd ymlaen, ond dyma'r pwnc,—*Nis gellir cuddio'r drwg.*

Oddiwrth y diafol y daw drwg, ac mi wyddoch beth a ddywed Llyfr Diarhebbion Urdd y Delyn am dano ef,—“Nid hir y ceidw'r diafol ei was.” Dyma sydd gennyf i'w ddweyd,—mae'r drwg yn sicr o ddod i'r golwg. Daw *geiriau* drwg i'r golwg. Peidiwch byth a dweyd dim byd drwg am neb. Os na fedrwch ddweyd da, byddwch ddistaw. Mi glywais eneth fach yn dweyd gair drwg am eneth fach arall, ac yna yn ychwanegu,—Peidiwch a dweyd wrthi, na wnewch? Hyn sydd gennyf i'w gofio, y bydd aderyn bach yn sicr o ail-adrodd y gair wrthi. Mae gennyf adnod i brofi fy mhwnic, pe bae eisieu. “Na felldithia y brenin yn dy feddwl, ac yn ystafell dy wely na felldithia y cyfoethog, canys ehediad awyr a gyhoedda y llais, a pherchen aden a fynega y peth” (Preg. x. 20). Mae gennyf hefyd stori fach yn dysgu yr un peth.

Er ys talm teyrnasai brenin cyfoethog ar Phrygia o'r enw Midas. Golud lawer oedd ganddo. Credai dynion yr adeg honno mewn llawer o dduwiau, a thybient y perthynai i bob un ei orchwyl ei hun. Enw dau ohonynt oedd Pan ac Apollo. Un diwrnod, fe ddywedodd Midas fod Pan yn gallu canu *flute* yn well nag Apollo. Digiodd Apollo wrtho, ac yn gosp arno newidodd ei glustiau, a rhoddodd iddo glustiau mul, i ddangos mor anwybodus a dwl ydoedd. Penderfynodd Midas gadw hyn yn ddirgel oddiwrth bawb, ac yn enwedig oddiwrth ei weision; ond gwelwyd y clustiau gan un. Nis gallai y gwas gadw yr hyn a welodd heb ddweyd. Eto, ofni y brenin yr ydoedd, gan y gwyddai y lleddid ef gan Midas am ddweyd. Be ddylicch chwi wnaeth o? Aeth i'r anialwch a thorrodd dwll yn y ddaear, a sisialodd wrth y twll,—“Mae gan Midas glustiau mul.”

Llanwodd y twll yn ofalus, a chredai na chai neb byth wybod am yr hyn a wnaeth. Ymhen amser tyfodd brwyn ar y fan, a phan chwareuai y gwynt ar y brwyn, dyma a ddywedent,—“Mae gan Midas glustiau mul.” Ac felly y daeth pawb i wybod y peth.

Daw *ysgrifsen* ddrwg i'r golwg. Ymhen deg mlynedd a thrigain ar ol marwolaeth Crist, yr oedd dinas fawr yn yr Eidal o'r enw Pompeii. Un diwrnod ysgrifennai milwr air drwg ar un o furiau y ddinas. Milltir neu ddwy o'r ddinas safai llosgfynydd. Y diwrnod a nodwyd dechreuodd luchio allan dân a lludw a chreigiau toddedig tel afon yn rhedeg yn boeth, gan guddio Pompeii o'r golwg. A bu farw y trigolion. Bu y ddinas yn guddiedig am gannoedd o flynyddoedd. Ar ol cymaint o amser cloddiwyd i lawr ac awd iddi drachefn. Wedi cyrraedd mur, gwelid yn eglur air drwg y milwr, a ysgrifennwyd gynifer o flynyddoedd yn ol.

Daw *gweithredoedd* drwg i'r golwg. Yr ydych yn cofio hanes Achan. Ar ol bod yn teithio am ddeugain mlynedd mewn diffaethwch, o'r diwedd daeth yr Iddewon i wlad Canan. Cymerodd Joshua a'i filwyr Jericho yn ddiraffferth. Aed ymlaen i gymeryd Ai, ond cawsant eu gorchfygu gan y dinasyddion. Cwyna Joshua wrth Dduw, a dywed Duw yn ol bod yna ryw ddrwg yn y gwerysll. Cododd Joshua yn fore drannoeth, gan benderfynu cael hyd i'r troseddwr, rhag i'r genedl gael ei gorchfygu. Wedi peth chwilio, caed mai Achan a wnaeth ddrwg, ac mi gyfaddefodd hwnnw gan ddweyd,—“Wrth fyned drwy Jericho mi welais siaced hardd, pum punt ar hugain o arian, a chan punt o aur. Cymerais hwynt, ac wele hwynt yn guddiedig ynghanol fy mhabel a'r arian danynt.” Ni feddylodd y deuai ei weithred ddrwg byth i'r golwg. Cofiwch hefyd y gosp a gafodd. Llabyddiwyd ef nes y bu farw,—efe a'i feibion, a'i ferched, a'i wartheg, a'i asynod, a'i ddefaid hefyd.

Cuddiwyd ei babell, a'r oll oedd ganddo, o dan garnedd o gerrig.

Pediwch a chredu neb na ddaw y drwg i'r golwg. Mae yn siwr o ddyfod, er i chwi geisio ei guddio. Mi glywsoch am y rhyfel fawr a fu rhwng Prydain a Rwssia yn y Crimea. Cafodd llawer o filwyr Prydain eu lladd, a chladdwyd hwy ymhell oddiwrth eu ceraint yn y tywod. Daeth y gweddill adref. Ymhen amser, dyma newydd yn dod i Brydain fod esgyrn y milwyr a gladdwyd yn dod i'r golwg. Nid oedd trigolion Prydain yn leicio hynny, a gorchymynwyd i'w claddu drachefn. Gwnaed hynny, ond dod i'r golwg yr oeddynt, dro ar ol tro, nes iddynt ddarfod.

Mae *gweithredoedd* drwg yn gyffelyb. Gellwch eu claddu drachefn a thrachefn, ond deuant i'r golwg. Daw drwg *cuddiedig* y galon i'r golwg. Dywed Iesu Grist hynny, a gŵyr ef bodpeth.

Casglai y bobl o'i gwmpas un diwrnod a dechreuai efe ddweyd wrthynt,—“Gwylwch arnoch rhag surdoes y Phariseaid. Gellwch feddwl eu bod yn dda iawn, ond drwg odiaeth ydynt oddimewn. Ni welwch hynny heddyw, ond rhyw ddiwrnod mi fydd pawb yn gwled. Ac os byddwch chwithau yr un fath a hwynt, yn ddrwg yn eich calon, caiff pawb weled rhyw ddiwrnod mai drwg ydych chwithau hefyd.”

Mewn hen ddinas un tro yr oedd delw fawr. Credai pobl y ddinas mai yn y ddelw yr oedd eu duw yn byw, a bod arno eisieu bwyd a dillad fel ninnau. Arferent dafu bwyd a dillad ac arian i mewn drwy enau y ddelw, a chredent eu bod yn boddloni eu duw. Un diwrnod mi feddyliodd dyn arferai feddwl drosto ei hun mai twyll oedd y ddelw, ac efe a'i taflodd i lawr un bore cyn i neb godi. Beth dybiwch chwi oedd yno? Llygod mawr, a nadrodd, ac adar aflan,—a hwy oedd yn llyncu y cyfan.

Felly, os bydd gennych chwithau feddyliau drwg yn eich calon, mi fydd Iesu Grist yn tynnu y wisg oddiarno ac yn dweyd nad ydych yn perthyn iddo. Trist iawn fydd ganddo wneyd hynny i chwi, canys nid oes neb a gâr fel plant bychain.

Daw pob drwg yn ddi-os i'r golwg, y rhan fwyaf yn y byd hwn a'r cwbl mewn byd ar ol hwn. Fy mhlant anwyl, cofiwch beidio gwneyd drwg.

BEDD Y DDAU FRAWD.

YM mynwent y Dyffryn, Goginan, y mae bedd y ddau frawd Llywelyn Owen a Robert Williams.

Yr oedd Llywelyn Owen Williams, Llety Caws, Cwm Merfyn, yn un o'r bechgyn hynny sydd wedi eu cwbl feddiannu gan awydd i godi'r hen wlad yn ei hol; ac nid yn unig ei chodi yn ei hol, ond yr oedd llond ei enaid o awydd i yrru'r hen wlad yn ei blaen hefyd. Ac yr oedd yn meddu digon o ddewrder i gario allan y tueddiadau hynny oedd yn cronni yn ei fynwes. A phan yn dra ieuanc, dechreuodd dreiddio i fewn i lenyddiaeth ei wlad; ac erbyn ei fod yn dair ar ddeg oed, yr oedd wedi llwyddo i ennill pedair ar ddeg ar hugain o wobrwyon mewn Eisteddfodau, ac mewn gwahanol ganghennau o lenyddiaeth. Ac erbyn iddo gyrraedd yr oedran hwnnw, yr oedd yn argyhoeddedig mai trwy wella moesau y werin y mae gwneyd Cymru Wen yn Gymru wennach. Ac i'r diben hwnnw dechreuodd barotoi ar gyfer y Weinidogaeth. Ond yr oedd ei Arglwydd yn meddwl fel arall. A galwyd ef adref yn ddwy ar bymtheg oed, a Robert ei frawd yr un diwrnod, yn wyth oed. A chladdwyd dau o ddarllenwyr selog CYMRU'R PLANT gyda'u gilydd yn yr un bedd ar y pedwerydd o Chwefrol, 1899, dan gawod o eira.

Disgynnai yr eira yn araf a gwyn,
 Ond nis gallai gannu y bedd yn y glyn.
 A dagrau cyfeillion wrth redeg yn frwd,
 A loewent gan ager teimladau mor frwd.
 A gwynion angylion 'hedasant i'r arwyl,
 Wrth rododi i'r gweryd ddau tachgen mor anwyl.

Angyles Tosturi a'i gruddiau yn llaith
 A ddaeth at y fynwent, gan ddweyd yn ei hiaith
 Mai gresyn oedd cuddio dau berlyn mor wyn,—
 Yn wynnach na'r eira, mor gynnar a hyn.
 Rhy gynnar oedd cuddio eu tegwch ieuangaidd,
 A hwythau mor gyflawn o dlysnï nefolaidd.

Angyles Trugaredd a ddaeth yr un modd,
 I goffa mai ganddi eu cawsom yn rhodd,
 I ddangos i'r ddaear pa fodd y mae byw
 Yn wridog o ffrwythau gogoniant i Dduw;
 A'n dysgu i esgyn i nefol dangnefedd
 Dros risiau o farmor yn llaw wen Trugaredd.

Daeth Angel Gwarcheidiol hen Walia, mewn hedd,
 I osod coronbleth yn addurn i'w bedd;
 Daeth Rhinwedd urddasol, a Moes, oddi draw,
 A Chariad, a Gobaith, a Ffydd, law yn llaw,
 I wylu ar lannau bedd oerddu eu meibion,
 Mewn eira mor wyn a rhinweddau'r ddau Gristion.

Dyrchafaf fy ngolwg drwy fagddu a siom,
 Gan edrych i'r nefoedd, a'm calon yn drom;
 Ond lleddfir ein hiraeth wrth weled y ddau
 Mewn lle môr ardderchog yn cydlawenhau,
 Mewn gwanwyn blodeuog o bethau dymunol
 Dan wenau yr Iesu o'i orsedd frenhinol.

Drwy siomiant ac ofnau, er marw a bedd,—
 Er mellu a tharanau, gofidiau di-hedd,
 Dilynwn i dawel orffwysfa y saint;
 Gan ddiolch mewn salmau o fawl, am y fraint
 O ddilyn yr Iesu, drwy flin orthrymderau,
 I ddangos prydfferthwch nefolaidd rasmusau.

ISAAC EURFIN BENJAMIN.

—◆◆◆—
DIOLCH.

D IOLCHAF am yr heulwen wan
 Flodeua'r ddaear wyw;
 Diolchaf am y cwmwl du
 Sy'n cadw'r blodau'n fyw.

J. R. TRYFANWY.

GWAWN.



AIR prydfferth a desgrifiadol yw'r gair Gymraeg "gwawn," fel y gair Saesneg cyfystyr, *gossamer*. Y mae gwahaniaeth rhwng gwe a gwawn, er mai yr un dull y gwneir hwy gan y pryf copyn yn ol ei dylwythau. At ddal ysglyfaeth y mae'r we; at symud o fan i fan y mae gwawn.

Pe cerddech ar draws y caeau ar fore teg yn nechreu'r mis hwn, ond odid na welech linyrau hir o wawn ar y twmpathau, yn estyn o gangen i gangen, ac o dwmpath i dwmpath. Y mae yr edafedd yn rhy deneu i chwi ei weled, os nad yw'r haul yn disgleirio ar y mân

wlithos sydd yn crogi, fel perlau'r tylwyth teg, arnynt. Wedi codi'r haul, ond cyn codi'r gwllith, yw yr amser i'w gweled.

Mân bryfed copyn a wnaeth y milldiroedd o wawn welwn ar ambell fore; ac er mwyn symud o le i le y gwnaethant ef. Nid yn unig y mae gwyneb y ddaear yn llawn gwawn, ond yr awyr hefyd; a medr pryfed copyn bychain iawn,—rhy fychan i'w gweled bron,—ddringo i uchder o gannoedd o droedfeddi i'r awyr ar hyd eu gwawn eu hunain. Ond pa fodd y medrant anfon y gwawn i'r awyr o'u blaenau?

Y mae'r gwynt mewn cynghrair â hwy. Dring pob copyn bach i ben carreg neu goeden, ac yna dechreua raffu ei wawn allan i'r gwynt. Cyn hir dechreua dynnu yn y rheffyn gwawn i edrych a ydyw wedi cydio mewn rhywbeth. Os bydd y gwynt yn isel, syrthiai'r gwawn i lawr, ar ryw dwmpath. Wedi teimlo fod y pen pellaf wedi cydio mewn rhywbeth, gwna'r copyn bach ben y gwawn sydd ganddo ef yn ddiogel wrth y garreg neu'r gangen y saif arni. Yna teithia ar hyd y gwawn, i edrych beth all fod yn y pen pellaf.

Os bydd y gwynt yn uchel, a'r gwawn i fyny, dring y copyn ar hyd-ddo. Y mae'n ddigon ysgafn i nofio yn y gwynt gerfydd y gwawn; a phan ddisgynna, disgyn ar ei draed, yn ddianaf, wedi bod yn uchel iawn.

Rhai ieuainc iawn sy'n defnyddio eu gwawn i weld y byd fel hyn. Yn yr haf a'r hydref cânt ddigon o fwyd ple bynnag yr ant. Ond, pan ddaw'r gauaf, a phan elont hwythau'n hen, gwnant eu gwawn yn we i ddal eu hysglyfaeth. Ac wedi dysgu hynny, dyna waith eu fwyd mwy.

A dyna hanes ieuencyd y pryf copyn.



Y BARCUD.

CARTREFI EIN CYMYDOGION.

IX. CARTREF Y BARCUD.

Y MAE'N anodd iawn i ni ymweled â chartref y barcud yn ein gwlad ni erbyn hyn. Un amser galesid gweled lluoedd o-forcutanod braidd ymhob rhan o'n hynsoedd. Yn amser Rhyfel-oedd y Rhosynau, tua 1450, yr oeddynt i'w gweled yn heidiau yn ymyl Llundain. Yr adeg honno yr oedd cyflwr heolydd Llundain-mor ffiائد ag yw cyflwr heolydd dinasoedd China y dyddiau hyn ;

ac yr oedd y barcutanod yn gwneyd gwaith da wrth ysglyfio pob drewdod.

Yn ddiweddarach, dyweder gan mlynedd wedyn, dysgid barcutanod i ymladd hebogion. Un tro, daeth ei fawrhydi Iago'r Cyntaf i weled brwydr yn yr awyr rhwng hebog a barcud. Yr oedd gan yr Iago hwnnw lawer o ddifyrion,—astudio duwinyddiaeth, profi fod gan y brenin hawl ddwyfol i wneyd y peth a fynno, condemnio yr arfer newydd o ysmygu, a llawer peth ysgafnach. Ond er ei fod yn wr doeth ac yn caru heddwch, yr oedd digon o'r hen ddyn ynddo yntau i hoffi gweled dau aderyn ffyrnig yn ymladd uwch ei ben. Wynebhai y ddau aderyn eu gilydd. Codent yn uwch, gan baratoi eu hewinedd, a'u llygaid yn ffachio ar eu gilydd. Codent o hyd, nes o'r diwedd ni welai y brenin ond dau ysbodyn du bach yn entrych yr awyr las uwch ei ben. O'r diwedd collasant o'i olwg yn lân. Os bu brwydr i fyny yn yr awyr, yr oedd yn rhy uchel i'r brenin fedru ei gweled; ac ni ddaeth pluen i lawr i ddweyd pwy oedd wedi ennill.

Pan oedd Shakespere yn ysgrifennu, yn ystod teyrnasiad yr Iago hwnnw, yr oedd pawb yn gwybod y lladratai barcutan gadachau oddiar y gwrych amser nythu,—

“When the kite builds, look to lesser linen.”

Tua 1850 yr oedd barcutanod yn Lincolnshire ac yn yr Alban. Ond erbyn hyn, yn yr holl Ynysoedd Prydeinig, rhai o gymoedd uchaf Cymru yn unig sydd eto'n gartref i'r aderyn hynod hwn.

Y mae y barcutan yn hawdd ei adnabod, pan ar ei aden, neu pan yn sefyll. Y gynffon hir a fforchog, y symudiadau prydferth, fel pe buasai'n llithro'n ddiboen drwy'r awyr,—nid oes odid i aderyn yn ehedeg mor hardd a'r barcutan. Edrychwch arno; ehed yn ysgafn ar gylch, a'i gynffon yn troi fel llyw; yn sydyn lled ei gynffon i'w llawn hyd, ac erys yn berffaith lonydd, i bob ymddangosiad, yn yr awyr uwch ein pen, a'i adenydd ar led. Edrych i lawr ar y ddaear; ac os gwel ei ysglyfaeth yno, syrth arno fel angeu. Dyna'r gwahaniaeth rhyngddo a'r hebog; disgyn yr hebog ar ei ysglyfaeth pan ar aden, ond cwyd y barcutan ei ysglyfaeth ef oddiar y ddaear.

Yr wyt am fynd a chwi am dro at gartref y barcutan, os medrwch ddychmygu ei bod yn ddiwedd Ebrill neu ddechreu Mai. Ond ni ddywedaf i chwi yn fanwl i ba le yr ydym yn mynd. Rhof fwgwd ar eich llygaid megis; a phan dynnir ef, cewch eich hun mewn cwm mynyddig, heb dŷ na thwlc yn y golwg, ar derfynau anghysbell Ceredigion a Maesyfed. Mi ddywedaf y rheswm am beidio dweyd wrthyhch pa le yr ydym. Yn ol pob tebyg, dyma unig gartref y barcutan yn ein gwlad erbyn heddyw. Y mae ef ei hun, a'i nyth,

a'i wyau mor brin fel y rhoddir pris mawr arnynt; ac, yn eu gwanc am arian, buasai llawer, pe medrent, yn difa'r barcutan o'i gartref olaf yn ein gwlad.

Yn fforch rhyw goeden uchel yr hoffa wneyd ei nyth; ac oddi-



Y BARCUTAN AR EI ADEN.

yno gall edrych yn dawel ar y wlad odditano. Ond yma y mae y nyth yn nannedd y graig acw, uwch ben y glyn. Dyma ni, ar draed a dwylaw, wedi cyrraedd ato. Nid rhyw waith arddunol iawn sydd ar y nyth. Priciau ac esgyrn, — wedi eu casglu o wrychodd a ffosydd, yw ei fur allanol. Y tu mewn y mae darnau o bethau esmwythach, wedi eu casglu o ochrau'r ffridd yn is i lawr yn y

wlad,—darnau o hen esgidiau, tameidiau o nythod cacwn, a llawer o hen garpiau. Wele bedwar wy yn y nyth. Ni ddodwyir ychwaneg; yn aml ni bydd ond tri. Rhyw lwydwyn neu fudr-wyn yw eu lliw. Rhyw hirgrwn byr, os goddefwch i mi alw yr un peth yn hir a byr ar unwaith, yw eu llun. Y mae ysbotiau arnynt, hefyd, o gochwyn ar laswyn.

Ymhen ychydig bydd pedwar o farcutanod bach yn y nyth, a bydd dyfal gario bwyd iddynt. Daw'r tad a'r fam a llawer o ysglyfaeth adref,—tyrchod daear, llyffaint, nadroedd, cwningod bychain, a physgod. Gwleddant ar aml ddarn o furgyn hefyd; a rhaid i mi gyfaddef y dygant weithiau gywion bach adar ereill o'u nythod.

Nid yw'r barcutan lawn mor ffyrnig ag y gallech feddwl wrth edrych ar ei lygad llidiog, ei ewinedd hirion, a'i big gref flaenfain gam. Weithiau, pan ymesyd ar gywion, bydd clochdar yr iar yn ddigon i'w yrru ymaith. Ond y mae'n ddewr iawn pan ymosodir ar ei gywion. Pe buasech chwi eich hunain wrth y nyth, a chwithau'n fach, hwyrach y deuai i'r golwg, ac yr ymosodai arnoch. Y mae hanes am fachgen yn cael ei glwyfo'n dost gan farcutan.

Bu barcutanod yn fy nghartref innau yn sir Feirionydd. Y mae yno gymoedd culion, ac aberoedd yn rhedeg rhwng mynyddoedd llechweddog mawr. Gelwir un amaethdy yn Nant y Barcud. Y mae'r nant yno; ond yr wyf yn credu fod y barcud wedi diflannu oddiyno'n llwyr. Lle unig ydyw; y mae'r llwynog a'r genlli goch

yno eto. Clywais fy nhad yn dweyd fod tad a mab unwaith am y cwm a'u gilydd. Yr oedd gan y mab wn, ac anelodd at farcud oedd yn croesi'r cwm i'w gartref. Disgynnodd ciw petrisen wrth draed y mab gydag iddo ollwng yr ergyd; disgynnodd barcutan clwyfedig wrth draed y tad yr ochr arall i'r cwm. Mynd a'i ysglyfaeth adre yr oedd y barcutan. Weithiau trydd ei ysglyfaeth at y barcutan yn yr awyr, a syrth y ddau, dan ymladd, i farw ar y ddaear.

Y PLANHIGYN ANUFUDD.

CLYWSOCH son am blentyn anufudd. Gwyddoch mai "Anrhydedda dy dad a'th fam" yw un o reolau euraidd ein bywyd. Ond a glywsoch chwi erioed am blanhigyn anufudd?

Gwelwch ef y mis hwn, hwyrach yng nghanol teulu bach tlws o flodeuyn llygad Siwsan (*wild pansy*). Planhigyn bychan gwlanaid ydyw, gyda changhennau cryfion o'i faint; y mae ei ddail yn fychain a chulion, rhyw sypynau crynion o flodeuach llwydwyrdion yw ei flodau. Ni chlywais enw Cymraeg arno erioed, ond y mae y Sais yn siwr o'i alw'n *cudweed*.

Er distadled yr olwg arno, y mae ganddo berthynasau enwog a hardd iawn,—megis *edelweiss* yr Alpau, a blodau anwyw (*everlasting flowers*) Deheudir Affric.

Hen enw arno yw *herba impia*,—"y planhigyn anufudd." Os sylwch, pan fydd y fam-blanhigyn wedi blodeuo, cyfyd canghennau bychain,—gallwn eu galw'n blant y planhigyn,—eu pennau blodeuog yn uwch na'u rhieni, gan eu cuddio yn lân. Ymhen tipyn cyfyd canghennau ieuengach, ac yn eu tro cuddia y rhai hyn eu brodyr hŷn. A dyna pan y gelwid y planhigyn gynt yn "blanhigyn anufudd."

Y CAPERCAILLIE.

YN yr Alban y mae cartref y ceiliog y coed ardderchog hwn. Ond bu yng Nghymru yn ol pob tebyg. Dywed rhai mai'r un gair a'r gair Cymraeg *gafr* yw *caper*,—oherwydd fod ganddo blu fel barf gafr ar ei gern.

Collwyd ef yn hollol unwaith o'r ynysoedd Prydeinig. Ond yn 1837 deuwyd ag amryw barau o'r capercaillie o goedwigoedd Sweden, a gollyngwyd hwy i'r coed yn yr Alban. Erbyn hyn y maent wedi cynhyddu'n llu mawr. A dywedir y deuant eto cyn hir i rannau mynyddig gogledd Lloegr a Chymru.

"Pwy fel Efe!"

OWAIN ALAW.

DOH F.

}	$\bar{d} : \bar{d} \mid r : r$	$\overline{m.r:m.f s} : s$	$\overline{d.t; d.r m} : r$	$\bar{d} : - \mid - : -$
	$s_1 : s_1 \mid s_1 : t_1$	$\overline{d.t; d.r m} : d$	$\bar{l}_1 : - \mid t_1 : t_1$	$\bar{d} : - \mid - : -$
	1. Un a gef-ais	i - mi'n gyf-aill,	Pwy fel E - fe!	
	$m : m \mid r : s$	$s : d \mid \bar{d}' : s$	$f : - \mid f : f$	$m : - \mid - : -$
	$\bar{d} : \bar{d} \mid t_1 : s_1$	$d : l_1 \mid m_1 : m_1$	$f_1 : - \mid s_1 : s_1$	$\bar{d} : - \mid - : -$

}	$\bar{d} : \bar{d} \mid r : r$	$\overline{m.r:m.f s} : s$	$\overline{d.t; d.r m} : r$	$\bar{d} : - \mid - : -$
	$s_1 : s_1 \mid s_1 : t_1$	$\overline{d.t; d.r m} : d$	$\bar{l}_1 : - \mid t_1 : t_1$	$\bar{d} : - \mid - : -$
	Hwn a gâr yn	hŵy nag er - aill,	Pwy fel E - fe!	
	$m : m \mid r : s$	$s : d \mid \bar{d}' : s$	$f : - \mid f : f$	$m : - \mid - : -$
	$\bar{d} : \bar{d} \mid t_1 : s_1$	$d : l_1 \mid m_1 : m_1$	$f_1 : - \mid s_1 : s_1$	$\bar{d} : - \mid - : -$

}	$f : f \mid m : m$	$\overline{r.d:r.m r} : r$	$s : s \mid f : f$	$\overline{m.r:m.f m} : m$
	$\bar{d} : \bar{d} \mid \bar{d} : \bar{d}$	$\bar{t}_1, \bar{l}_1 : \bar{t}_1, \bar{d}' \mid t_1 : t_1$	$\bar{d} : \bar{d} \mid \bar{d} : \bar{d}$	$\overline{d.t; d.r r} : d$
	Cyf-new-id - iol	yd - yw dyn-ion,	A siom-ed - ig	yw cy - feill-ion ;
	$l : l \mid s : s$	$s : s \mid s : s$	$s : ta \mid l : l$	$s : s \mid se : l$
	$f_1 : f_1 \mid \bar{d} : \bar{d}$	$s_1 : s_1 \mid s_1 : s_1$	$m_1 : m_1 \mid f_1 : f_1$	$s_1 : d \mid t_1 : l_1$

}	$\bar{d} : \bar{d} \mid r : r$	$\overline{m.r:m.f s} : s$	$\overline{d.t; d.r m} : r$	$\bar{d} : - \mid - : -$
	$\bar{d} : l_1 \mid t_1 : t_1$	$\overline{d.t; d.r m} : d$	$\bar{l}_1 : - \mid t_1 : t_1$	$\bar{d} : - \mid - : -$
	Hwn a ber - y	byth yn ffyddlon,	Pwy fel E - fe!	
	$s : m \mid s : s$	$s : d \mid \bar{d}' : s$	$f : - \mid f : f$	$m : - \mid - : -$
	$m_1 : l_1 \mid s_1 : s_1$	$d : l_1 \mid m_1 : m_1$	$f_1 : - \mid s_1 : s_1$	$\bar{d} : - \mid - : -$

2 F'enaid glŷn wrth Grist mewn cyni,

Pwy fel Efe!

Ffyddlawn yw ym mhob caledi,

Pwy fel Efe!

Os yw pechod yn dy dd'rysu,

Anghrediniaeth am dy lethu,

Hwn a ddichon dy waredu,

Pwy fel Efe!

3 Dy gamweddau a ddilea,

Pwy fel Efe!

Dy elynion oll fe'u maedda,

Pwy fel Efe!

Cei bob bendith i dy feddiant,

Hedd a chariad a'th ddilynant;

Crist a'th arwain i ogoniant,

Pwy fel Efe!

- | | |
|--|--|
| <p>-4 Câr yr Hwn sy'n llawn o gariad,
Pwy fel Efe!
Byth ni'th edy di'n amddifad,
Pwy fel Efe!
Bwrw arno dy holl ofal,
Dilyn Ef trwy ddyrys anial,
Dan dy freichiau hwn a'th gynnal,
Pwy fel Efe!</p> | <p>5 Brawd yw Iesu mewn cyfyngder,
Pwy fel Efe!
Cyfaill yw a lŷn bob amser,
Pwy fel Efe!
Diogel fyddaf dan ei aden;
Ac wrth rodio'r hen Iorddonen,
Yn ei law af drwyddi'n llawen,
Pwy fel Efe!</p> |
|--|--|

6 Yn y tywyll fedd fe'm cofia,
Pwy fel Efe!
Am fy llwch fe lwyr ofala,
Pwy fel Efe!
Egyr ef ei hun fy ngharchar,
Myn fy nghorff o waelod daear,
Ar ei wedd yn bur a hawddgar,
Pwy fel Efe!

Efel. PEDR FARDD.

AR LÂN LLYN FANOD.

◀Gorwedd Llyn Fanod yng nghesall bryniau canolbarth Ceredigion.

I.

O LOEW, lonydd llyn,
A'th wely ar y bryn,
Unigedd dwys deyrnasa gylch dy lan i gyd;
Mae dy unigedd di
Yn ein gorfodi ni
I feddwl am dynerach glan—tawelach byd.

II.

Minteioedd liliâu, fel mentyll angylion,
Mor lân, mor wyn,
Brydferthant dy lannau, a'u pennau clærwynion
A blygant wrth dderbyn cusanau mwyneddion
Awel y bryn.

III.

Lili llyn Fanod,—flodeuyn gwiw,
Pwy allai dy lunio?—Neb ond Duw.

Bethania.

T. CLEDANYDD EVANS.

URDD Y DELYN.

Y RHEOLAU.

1. Dysgu siarad ac ysgrifennu Cymraeg; darllen rhan o'r Beibl Cymraeg, neu ryw lyfr Cymraeg arall, bob dydd, ac ysgrifennu Cymraeg o'i gyfansoddiad ei hun.

2. Astudio hanes Cymru, a gwneyd ei oreu i godi ei wlad, fel y byddo Cymru fydd yn well na'r hen Gymru.

3. Dysgu canu'r delyn, os bydd hynny yn y cyrraedd; a dysgu alawon Cymreig.

4. Byw, hyd y gall, yn ol dysgeidiaeth yr hen Gymry gynt, mor bell ag y mae'r ddysgeidiaeth honno'n un a dysgeidiaeth Crist. Y mae'r ddysgeidiaeth honno'n gofyn purdeb, cariad at addysg, caredigrwydd at ddyn, addfwynder at greaduriaid direswm, iaith ddihalog.

AELODAU NEWYDDION.

1120. Franzes Vallèe (Ab Hervé), Rue St. Benoit, St. Brieuc, Llydaw.

1121—1123. Nesta Jones, Dilys Jones, ac Elwy ab Ifor, Corris.

1124. Ellen Myfanwy Jones, Glan y Gors, Llanddaniel, Mon.

1125. Robert Jones, Plas Iolyn, Pentrefoelas.

1126. L. Gruffydd Parri, Gwaenysgor, Prestatyn.

CANGEN HERMON, PENBRE.

1127—1160.

Catherine Davies, Miriam Davies, Jolly Cottage; Elizabeth Lewis, William John Lewis, Evan James Lewis, David Charles Lewis, Margaret Lewis, Britannia; Elizabeth Ann Hughes, Sandy Road; Margaret Thomas, David Hugh Thomas, Brooks Cottage; William Davies, James Davies, Thos. Henry Davies, Margaret Sarah Davies, Ty Cornal; Mary Lydia Moarse, David John Moarse, Margaret Sarah Moarse, Aaron Moarse, James Moarse, Greensfach; Mansel Hall, Agnes Hall, Village; Richard Jones, David Jones, Miriam Jones, Robert Jones, John Lewis, Frances Emily Lewis, Christopher Thomas, Else Mary Thomas, Myrddin Cottage; Thomas Arnold Morgan, Ty Canol; Evan James Edwards, Sandy Road; Maurice Evans, New Cottage; Willie John, Henry Orman, Sandy Road.

Bydd darlun tlws o'r plant hyn yn y rhifyn nesaf.

ENWAU NEWYDDION CANGEN CYDWELL.

1161—1166.

L. R. Maliphant, Margaret Ann Cole, Sarah Ann Evans, William Henry Jones, Water Street; Elizabeth Ann Davies, Lady Street., Fred Evans, Sarah Evans, Penlan Farm.



PLANT CYMRU. CXVI. RHAI O BLANT HARLECH.

DOSBARTH IEUANC ADDAWOL.

DARLUN yw hwn o ddosbarth Safon IV., perthynol i Ysgol Sabbothol Tryfer, Harlech, Meirionnydd. Eu hathraw, yr hwn a welir ar y dde, yw Mr. Robert Owen, Porkington Place. Mae hanes dyddorol yn perthyn i'r dosbarth hwn. Aeth yr oll yn llwyddiannus drwy arholiad ysgrifenedig y sir. Safai y bachgen bychan nesaf i'r athraw yn bumed yn y sir, ac efe hefyd oedd y goreu yn Nosbarth Cymanfa Ysgolion y Dyffryn, a chafodd ei wobrwyo yn y Gymanfa ddiweddaf. Ei enw ydyw Orthin Jones, mab i'r meddyg Cymroaidd a llengarol Dr. R. Thomas Jones, C.S., U.H., Penygarth, Harlech. Dywedwyd am dano pan yn faban,—

“Ein Orthin a wna wyrthiau,” a gwelir erbyn hyn fod proffwyd-oliaeth y bardd ar gael ei chyflawni. Chwaer i Orthin yw y bedwaredd o'r dde yn y darlun, yr hon sydd eneth bert a chyflym, ac yn arddel yr enw mwyn Catrin. Safai Simon Owen, un arall o'r dosbarth, yn drydydd yn nosbarth y Dyffryn. Cymer yr oll ddyddordeb mawr yn hanesion eu gwlad, ac yng NHYMRU'R PLANT. Am eu bod wedi llafurio mor galed, a

dyfod allan mor llwyddiannus cawsant drip fis yn ol gan eu hathraw at Lyn Cwmbychan, cartref hen Lwydiaid Ardudwy, disgynyddion un o bymtheg llwyth Gwynedd. Mwynhasant y daith yn fawr.

Eiddunwn i'r oll ddyddiau hir a dyfodol disglauer.

Dyffryn.

GWILYM ARDUDWY.

—◆◆◆—
PW DDARLLEN YN DDIFYFYR.

CYMRU sydd wlad yn Awstralia y mae aur yn y ddaear y mae glo gwyn ydyw eira yn yr haf mae gwres yn y gauaf mae rhew ar y môr yr oedd llong yn myned i'r America yr aeth William mewn sospan mae dwfr poeth yw yr haul glas ydyw yr awyr heddyw ddoe cefais anrheg o lyfrau ceir gwybodaeth iawn a roddwyd i'r dyn am redeg cefais wobr o aur gwneir cadwyni pres sydd ddefnyddiol iawn ydyw blawd at wneyd bara rhaid cael dwfr du ydyw y negro a hardd ydyw blodau yn y nos bydd lleuad mewn cae mae buwch a cheffyl yn darllen mae mam yn gwneyd hosanau mae Jane Ann sydd eneth brydferth ac anwyl ydyw iaith Cymru plant sydd yn yr ysgol mae dynion yn gweithio mewn tân mae gwres mawr lwyddiant a hir oes i GYMRU'R PLANT.

Rhoscolyn.

DARLLENNWR.

—◆◆◆—
TANSI

FAINT ohonom sydd yn adnabod blodeuyn y tansi? Blodeuai o gylch fy nghartref gynt,—nis gwn pwy a'i plannodd,—ac y mae ei arogl yn dwyn adgof byw am ddyddiau mebyd yn ol. Gymaint o'n hanes anghofiedig fedr ambell flodeuyn adrodd i ni. A pha ryfedd, onid hwy oedd ein cyfeillion goreu yr adeg honno?

Y mae yn ei ogoniant ym mis Medi,—gwyn fyd na chawn ei weled. Clystyrau melynion o flodau euraidd, yn codi o gyfoeth o ddail gwyrddion,—hanner plu hanner rhedyn o ran yr olwg arnynt,—gwelaf ef mewn dychmyg yn eglur iawn. Clywat ei arogl bêr,—gyda rhyw fymryn o chwerwedd ynddi,—hefyd.

Cyn fy amser i, mi glywais, defnyddid ef i lawer peth. Rhoddid ef mewn cacennau, mewn candi, ac mewn pwдинаu.

Byddai ein tadau yn llawer mwy hyddysg yn hanes rhinweddau llyisiau nag ydym ni. Yr ydym ar ein colled. Y mae'n werth i ni astudio y planhigion sy'n tyfu o'n cwmpas. Pe gwnaem hynny, synnem at gyfoeth y Creawdwr ddiwedd haf.

Cofied y plant syliwi ar ogoniant natur yn ystod y mis hwn.

COFIANTAU BYRION.



CANU wnant ar fynwes Iesu,
 Moliant gwynfyd yw eu rhan ;
 Boed ein gweddi a'n hymdrech ninnau
 Am fynd atynt yn y man ;
 Dwedwn am bleserau'r nefoedd
 Wrth y rhai sydd eto'n fyw,
 Beth all fod yn fwy llawenydd
 Na chael magu plant i Dduw ?

Dyma bennill olaf galargan ficer
 Trefeglwys am enethig, gwelir y pennill
 cyntaf yn nes ymlaen. Wedi ychydig amser,
 y mae chwerwder yr hiraeth yn darfod ; y
 mae'r hiraeth yn dod yn wynfyd, yn rhan o'r
 nefoedd megis wedi ei estyn i'r trallodedig tel
 prawf o'r dedwyddwch sydd eto i ddod. Y mae'r
 plentyn bach gymerodd Duw o fynwes y teulu eto'n
 aros,—yn tyfu gyda'r plant ereill ; yn bresennol, er yn
 anweledig,—mor dyner, mor brydferth, mor bur.
 Ac mor dda yw Duw wrth y rhai y rhydd drallod yn
 rhan iddynt ; hawdd yw iddynt tendithio ei enw.

GLADYS, merch Mr. a Mrs. Williams, Belle Vue,
 Trefeglwys, yn dair blwydd oed. Dyma fel y
 dechreua galargan deimladwy y Parch. Evan
 Edwardes, M.A., am dani,—

“ Chwerw yw'ch teimladau heddyw
 Wedi colli Gladys lon ;
 Anhawdd ydyw ymdawelu,
 Galar sydd yn llanw'ch bron ;
 Ddoe yr oedd yn blentyn hoenus,
 Bywiog, siriol, hardd ei gwedd,
 Canai gân, adroddai emyn,—
 Ond mae heddyw yn y bedd.”

Nis gallaf beidio codi un darn arall o alargan Gladys fach,—

“ T'wyll iawn yw llwybr marwolaeth,
 Nid oes drefn ar angau du,—
 Cadw'n fyw yr hen methodig,
 Torri'r ieuanc lawr yn llu ;
 Engyl nef a ganfuasant
 Ryw brydferthwch ynddynt hwy ;
 I addurno gardd Paradwys
 Aethant ; ni ddychwelant mwy.”

DAVID,—mab William a Mary Thomas, 1, Maddox St., Blaen Clydach,—bu farw Ebrill 6, pan rhwng dwy a thair blwydd oed. Gadael ei dad ar y ddaear, a mynd at ei fam i'r nefoedd, yw hanes marwolaeth y plentyn bychan hawddgar hwn. Gwelir ei lun yn y lle crwn. Collodd ei fam pan yn rhy ieuanc i'w hadnabod; a magwyd ef gan ei famgu. Darlunia Mr. James Thomas, Blaen Clydach, ef mewn galargan; a naturiol y dywed am y plentyn,—wedi son am hiraeth y byw,—

“ Yntau'n huno'n dawel esmwyth,
 Heb un gofid dan ei fron;
 Wedi dianc rhag ystormydd
 Sydd yn tramwy'r ddaear hon.”

Llawer feddyliais innau am ystormydd yn tramwy dros fedd plentyn bach.

LLYWELYN OWEN WILLIAMS, Llety'r Caws, Cwmerfyn, ger Aberystwyth,—bu farw Llywelyn ieuanc a thalentog y dydd cyntaf o Chwefror diweddat, cyn cyrraedd ei 17 mlwydd oed. Cafodd gystudd maith a blin. Yr oedd yn tynych mewn poenau dirdynnol, ond dioddefodd y cyfan yn dawel a dirwgnach.

Yr oedd er yn ieuanc iawn wedi dangos chwaeth at bethau crefyddol. Yr oedd yn ddysgwr rhagorol, ac yn hynod egniol gyda phopeth yr ymaflai ynddo. Byddai yr un ymdrech yn dod i'r golwg ynddo wrth adrodd ei adnod yn y cyfarfod eglwysig gyda'r plant, a phan y byddai yn adrodd am wobr mewn cyfarfod cystadleuol. Yr un modd wrth ganu, byddai yn canu â'i holl egni, ac yr oedd ganddo lais rhagorol. Yr oedd yn pasio yr arholiad sirol yn dda; ac unwaith enillodd y wobr sirol i rai dan ddeuddeg oed, yn hanes Iesu Grist.

Ond ei hynodrwydd pennat oedd fel adroddwr. Dechreuodd ddod i'r golwg fel adroddwr pan tuag wyth oed, ac o'r adeg honno hyd pan oedd tua phymtheg oed, pryd y lluddiwyd ef gan afiechyd, enillodd 33 o wobrwyon mewn gwahanol gystadleuaethau. Pan yn lled wael ei iechyd, mynnodd fyned i Aberystwyth i gystadlu mewn adrodd, ac er fod rhai llawer hynach nag ef yn cystadlu y tro hwn, iddo ef y dyfarnwyd y wobr, sef medal arian.

Ychydig ddyddiau cyn ei farw, galwai Llywelyn ei deulu i gyd i ffarwelio â hwy, ond ei frawd bach wyth oed, yr hwn oedd yn glaf iawn yn ei wely. Ac meddai am hwnnw,—“Nid oes eisiau i mi ffarwelio â Robert bach, oblegid daw ef gyda mi at Iesu Grist.” Ac ymhen ychydig ddyddiau bu farw y ddau yr un munudau. Aeth y ddau ym mreichiau eu gilydd, yn gwmni i'w gilydd; a chladdwyd hwy yr un diwrnod yn yr un bedd.

Goginan.

J. WILLIAMS.



BYWYD Y MOR.—II. Y DYFNDEROEDD.

DYWEDAIS wrthych, rai misoedd yn ol, am breswylwyr wyneb y môr,—yr adar sy'n crwydro uwch y tonnau, y pysgod a'r trychfilod sy'n byw yn agos i wyneb y dŵr, mor agos fel y gwelant oleuni'r haul ac y codant eu pennau i'r awyr uwchlaw'r dŵr.

Gadewch i ni'n awr geisio tremio i ddyfnderoedd cudd tywyll y moroedd mawr.

I ddechreu gadewch i ni ystyried mor eang yw'r rhan o'r ddaear sydd dan y môr. Nid yw'r tir sych ond megis pennau mynyddoedd yn codi uwchlaw'r dŵr; y mae ysgwyddau a thraed y mynyddoedd o'n golwg dan y môr.

Ambell fore ym mis Medi, pe digwyddech fod ar ben mynydd gwelech niwl yn gorchuddio'r dyffrynnoedd, a dim ond pigau'r mynyddoedd i'w gwelwch uwchlaw iddo. Yn y rhan glir uwchlaw'r niwl yr ydych chiwi, ambell fugail a'i gi, defaid a geifr, ac adar y mynyddoedd. Yn y niwl odditanoch y mae holl breswylwyr y ddaear,—yn ddynion, adar, anifeiliaid o bob math. Yn is i lawr na hynny wedyn, yn lle niwl cewch fôr; ac yn y môr mae llawer o breswylwyr.

Pe medrai rhywun daflu mynyddoedd y ddaear, a'r holl dir sych, i'r dyffrynnoedd sydd yn y môr, a fyddai yno ddigon o le iddynt? Byddai, a digon i ddau cymaint wedyn. Pe lefelid y tir trwy roi'r mynyddoedd yn y môr, byddai dyfnder o 1,700 gwrhyd o ddwfr dros wyneb yr holl ddaear.

Y mae'n anodd cael syniad am ddyfnder y môr, ac am yr anhawserau a'n cyferfydd wrth geisio darganfod beth sydd yn byw yn ei waelodion. Hyd y gwyddis eto, y mae dyfnder mwyaf y môr yn rhan ogledd orllewinol y Môr Tawel,—rhwng Asia ac America. Yno y mae y dyfnder yn bum milldir a chwarter. Ar gyfartaledd, rhyw dair milldir yw dyfnder y môr.

Yn 1872 anfonodd Llywodraeth Prydain long, y *Challenger*, am fordaith o dair blynedd, i chwilio hanes preswylwyr y môr a'i ddyfnderoedd. Dywedaf wrthych y tro nesaf pa fodd y daethant i wybod hanes gwaelod y môr.

"DROS DDYN PECHADURUS FEL FI."

O IESU, fy nghyfaill, fy Ngheidwad,
 Mi ganaf mewn dagrau i Ti,
 Am yfed "y cwpan i'r gwaelod,"
 "Dros ddyn pechadurus fel fi,"—
 Fi, fi,—
 "Dros ddyn pechadurus fel fi."

Ti brofaist ofidiau diderfyn
 Dy "hunan ar ben Calfari,"
 Wrth yfed "y cwpan i'r gwaelod,"
 "Dros ddyn pechadurus fel fi,"—
 Fi, fi,—
 "Dros ddyn pechadurus fel fi."

Dros dyrfa nas gellir ei rhifo
 Y dringaist i ben Calfari,
 Ac yfaist "y cwpan i'r gwaelod,"
 "Dros ddyn pechadurus fel fi,"—
 Fi, fi,—
 "Dros ddyn pechadurus fel fi."

Fy nghofio yng nghanol dy ingoedd,
 Ar groesbren mor arw wnest Ti;
 Ni throaist dy wyneb rhag edrych
 Ar "ddyn pechadurus fel fi,"—
 Fi, fi,—
 Ar "ddyn pechadurus fel fi."

O, Iesu ! wrth orsedd y nefoedd,
 Yng nghanol gogoniant a bri,
 Adgofia dy ingoedd a'th farw
 "Dros ddyn pechadurus fel fi."
 Fi, fi,—
 "Dros ddyn pechadurus fel fi."

Disgwyliaf gael canu ryw ddiwrnod
 Ar delyn anfarwol i Ti,
 "A yfodd y cwpan i'r gwaelod"
 "Dros ddyn pechadurus fel fi,"—
 Fi, fi,—
 "Dros ddyn pechadurus fel fi."

J. R. TRYFANWY.

Y DDAU HOGYN RHEINY.

GAN WINNIE PARRY.

IX. Y MODD Y BU I BOBBIE GAEL YMADAEL A'I WALLT.

NID ydyw diwrnod gwlyb yn yr haf ar ol wythnos neu ddwy o heulwen ddibaid yn beth anymunol yn fy ngolwg. Mae rhyw swyn yn nisgyniad distaw y gwlaw a'r goleu llwyd esmwyth; ond newidiais fy meddwl y diwrnod gwlyb cyntaf dreuliodd y Ddau acw, ac ar ei ddiwedd yr oeddwn yn gobeithio na fyddai iddi wlawio wedyn tra yr arhosent ym Mhen y Bryn.

Ond nid felly y bu, ac awgrymais i Miss Jones y diwrnod gwlawog nesaf y buasai yr atic yn lle campus iddynt ddfyrru eu hunain. Yr oedd hithau yn meddwl yr un fath, ac o hynny allan danfonwyd hwynt i fyny bob tro y digwyddai'r tywydd fod yn anffafriol iddynt fyned allan i chwareu.

Ond nid oedd hyn heb ei antateision chwaith. Un bore, clywn y twrw mwyaf dychrynlyd yn dod o gyfeiriad pen y tŷ, ac erbyn myned i fyny cefais dwmpath o rywbeth yn gorwedd wrth waelod grisiau'r atic. Yr oeddwn yn meddwl mai pecyn o hen ddrillad oedd, ond clywn swm crio yn dod o'i ganol, a chafais ma! Bobbie oedd wedi syrthio i lawr y grisiau, yr oedd Willie yn sefyll uwch ei ben, ond anhawdd oedd i mi ei adnabod ef na Bobbie yn y gwisgoedd rhyfedd oedd am danynt. Yr oedd yn amlwg eu bod wedi tynnu cynhwysiad hen gist oedd yn yr atic allan, ac wedi rhoddi am danynt hen wisgoedd i Miss Jones a'i chwaer. Yr oedd gan bob un wn llaes am dano, a bonnet am ei ben; ac yr oedd yn ddiameu mai baglu ar y wisg anghyffredin achosodd i Bobbie ddod i lawr y grisiau yn y modd y darfu iddo. Eu heglurhad oedd, mai dod i dangos eu hunain i mi yr oeddynt pan ddigwyddodd y cwmp.

Tro arall, digwyddodd Mrs. Williams, Ty Canol, fod wedi galw, a thra yr oedd acw daeth yn gatod drom. Aethpwyd i nol y Ddau i'r tŷ, a danfonwyd hwynt i'r atic fel arfer. Ni chlywyd dim oddi-wrthyn am beth amser, ond pan oedd Mrs. Williams ar ganol un o'i hareithiau dyddorol ar gymeriad rhyw rai neu gilydd o'r pentrefwyr, agorwyd drws y parlwr yn sydyn, a rhedodd Bobbie at Miss Jones gyda'r geiriau,—“Be di hwn; Auntie Margiad? tydi o'n beth digri?” “Hwn” oedd cap nos gwyn, gryn hanner llath o hyd, a tassel mawr ar ei flaen, wrth ba un y chwifiai Bobbie ef yn ol ac ymlaen. Edrychai Miss Jones braidd yn ddig, ac meddai wrth Cati,—“Rhaid cloi y cistia na yn yr atic, Cati.”

“Be di o Auntie Cati?” gofynnai y troseddwr ailwaith.

"Cap nos, cerwch a fo yn i ol, a rhaid i chi beidio tynnu'r dillad o'r gist eto. Cerwch yn *good boy* rwan."

Ond yr oedd Bobbie mewn syndod.

"Cap nos!" meddai. "Cap nos!" ac yn neidio o gwmpas, gan ei droi o amgylch ei ben gyda chyflymdra anarferol. A chan ei fod wedi dynesu at Mrs. Williams heb ymwybod iddo ei hun, daeth y cap yn un o'i droadau i gysylltiad â gwyneb y foneddiges honno gyda mwy o egni nag oedd yn ddymunol. Ond ni chymerodd Bobbie sylw o'r ddamwain yna.

"Cap nos!" meddai drachefn. "Cap nos pwy? Cap nos chi, Auntie Cati?"

"Elin," crefai Miss Jones, "newch chi fynd a fo i ffwrdd." Yr oedd dda gennyf gael myned o'r ystafell, gan fy mod yn teimlo tipyn o ddifyrwrch yn yr edrychiad oedd ar wynepryd Mrs. Williams, ac yr oedd arnaf eisieu rhoddi ffordd iddo. Cydiais yn Bobbie, a llusgais ef drwy y drws, tra y llefai,—“Dudwch cap nos pwy, Auntie Cati.”

"Hist, Bobbie," meddwn, "mi dduda i wrtha chi."

"Wel cap nos pwy, ta?"

"Cap nos tad Auntie Cati a Auntie Margiad."

Dilynwyd yr atebiad yma gan lu o ofyniadau parthed tada Auntie Cati a Antie Margiad.

Daeth Hannah a'r newydd i ni y diwrnod canlynol fod Mrs. Williams, Ty Canol, wedi taenu drwy y pentref, mai "y plant na sy ym Mhen y Bryn" oedd y rhai mwyaf anwraidd welodd hi erioed, a'i bod yn tosturio wrth y ddwy Miss Jones fod ganddynt berthynasau mor ddiwybod ag i fagu plant yn y fath fodd.

I ddychwelyd at yr atic, yno hefyd yr arferent gludo eu holl drysorau o "bethau," ys dywedent. Ac ni fyddwn byth yn myned yno heb ddychmygu fod nifer o'r cyfryw "bethau" yn llochesu yn fy ngwisgoedd yn rhywle. Yr oedd eu casgliad yn gynhwysedig o bethau troediog anghynnes,—yn bryfaid cop ac yn bryfaid cantroed, yn bryfaid twca ac yn bryfaid genwair, heb son am "wenyn meirch" wedi tynnu eu colyn, a'r pryfaid fydd yn hedeg o amgylch y tŷ.

Yn yr atic hefyd y cymerodd un o ddigwyddiadau mawr eu harosiad acw le un prydawn, nid prydawn gwlyb oedd hwn chwaith. Deuais ar draws y Ddau yn un o'u hymddiddanion dwfn â'u gilydd. Clywais ryw air neu ddau,—

"Nei di wir?" meddai Bobbie.

"Wyrach," atebai ei frawd.

"O gna rwan," crefai'r llall, "a mi gei di'r gwn hwnnw ges i ar y merthday, nei di, Willie?"

"O'r gora."

Gwelodd y ddau fi, ac aethant allan i'r ardd, a chanfyddwn hwynt drachefn mewn ymddiddan. Gwyddwn fod rhyw helynt ar droed, a cheisiwn ddyfalu pa ffurf y gymerai. Cyn pen ychydig, clywn hwynt yn dod i'r tŷ, ac yn myned i fyny'r grisiau. Yr oeddwn i yn y parlwr, a gwaeddais ar eu hol.

"Lle dach chi'n mynd, Bobbie?"

"I'r atic, Elin."

Teimlwn ychydig yn fwy esmwyth. Ni allent wneyd rhyw lawer o ddrwg yn y fan honno. Siomwyd fi'n ddirfawr. Ymhen rhyw hanner awr, dychrynnwyd fi'n ddirfawr gan y screchiadau mwyaf rhyfedd ac ofnadwy glywais mewn cysylltiad â'r Ddau eto. Yr oedd Cati y prydawn hwnnw wedi myned allan i dê, ac yr oedd Miss Jones a Hannah yn yr ardd bellaf yn hel eirin Mair i'w berwi. Cychwynnais yn frysioed i fyny'r grisiau, ond cyn i mi gyrraedd yr atic, rhedodd Spot i lawr ar garlam gwyllt heibio i mi yn dolefain yn arswydus, a'r golwg rhyfeddaf arno. Es yn fy mlaen, yn ofni na wyddwn beth yn iawn. Dyma'r olygfa gefais. Safai y Ddau ynghanol yr atic. Yr oedd siswrn yn llaw Willie, ac yr oedd cydynau Bobbie yn gorwedd yn bentwr euraidd wrth eu traed. Erbyn i mi fyned yn nes, cefais fod peth o flew melyn Spot yn gymysg âg ef, a deallais yr olwg ddieithr gefais arno.

Cofiais hefyd ar y funud ymha le yr oedd y Ddau wedi cael yr awgrym i wneyd y weithred yma. Yr oedd Hannah wedi myned a hwynt gyda hi gartref y diwrnod blaenorol. Barber yn y dref ydyw ei thad, a boddiwyd y Ddau yn tawr drwy ei weled yn dilyn ei grefft ar ben unr o'i gwsmeriaid. Yr oeddwn wedi cael adroddiad cyflawn y noswaith gynt o'r amgylchiad dyddorol. Ac yn awr gwelwn firwyth yr argraff oedd hynny wedi adael ar eu meddwl.

Pan welodd Bobbie fi, dechreuodd, yn ol ei arteriad, roddi eglurhad i mi. Byddwn yn sylwi y byddai yn hynod rydd a'i esboniad ar ol dwyn y cynllun i ben, ond mai ychydig o son y glywn am dano cynt. Dyma'r hyn gefais ganddo ar yr achlysur yma.

"Elin, mae Willie wedi torri ngwallt i, ry fath a'r dyn hwnnw ddoe. Yn tydw i'n iawn rwan?"

"Beth oeddach chi'n neyd i Spot?" gofynnais.

"O, torri i wallt *fo* hefyd. Tydi o ddim yn leicio hen wallt hir chwaith, a fynta'n ddyn."

Yr oeddwn yn deall meddwl Bobbie gyda golwg a Spot, er fod ei ymadrodd braidd yn dywyll. Aeth ymlaen,—

"A mi ddaru ni dorri cynfion Sallie hefyd bora, yn do Willie?"

"Do, a mae o'n mynd i roi 'i wn i mi pan a ni adra am dorri wallt o. Mi ddaru Spot ddengid cyn i ni orffen dorri 'i wallt o'n iawn, ond mi na ni neyd fory."

Cymerais y siswrn o law Willie, ac es i lawr y grisiau. Nid ydwyf, fel rheol, yn amharod gyda'm hymadrodd, ond rhaid i mi gyfaddef y byddwn bob amser yn myned yn fud o flaen ymresymiaidau'r Ddau. Clywn Spot yn parhau i ddoletain o hyd, a phan gyrrhaeddais y gegin cefais Miss Jones a Hannah uwch ei ben, Hannah yn ei ddal, a'r hen ferch yn ceisio bathio rhan o'i ben â dwfr cynnes. Pan glywodd yr olaf fi'n dod i fewn, dywedodd,—

“O Elin, mae 'na i ofn fod rhywun wedi tynnu llygaid Spot. Spiwch, pwy allai fod mor greulawn, tybed? Ac welwch y golwg sy arno fo.”

Yr oedd y Ddau wedi fy nilyn, a phan welsant yr olygfa, yr wyt yn credu eu bod am unwaith yn teimlo eu bod wedi gwneyd rhywbeth allan o'i le. Dechreuodd Bobbie wylo yn chwewr, ac yr oedd dagrau yn llais y llall fel y dywedai,—

“O Auntie Margiad, ddaru ni ddim trio, gwthio 'i ben yn erbyn y siswrn ddaru o wir-yr. Tydi o ddim yn brito rwan, yn nag ydi Elin?”

Edrychodd Miss Jones arno mewn syndod, ac yna syrthiodd ei llygaid ar Bobbie, a chododd ei dwylaw, ac meddai,—

“Wel oh! wel oh!”

Pallodd ei geiriau. Ceisiais eglurhau pethau goreu gallwn i, er tod yn anodd clywed gair bron yng nghanol y fath drwst,—y Ddau yn wylo yn dorcalonnus, a Spot yn gruddfan. Yr wyf yn meddwl y buasai Miss Jones wedi rhoddi dipyn o gweir iddynt ar yr achlysur yma, onibai ei bod yn eu gweled yn y fath gyflwr trist oherwydd canlyniad eu camwedd.

“O Auntie Margiad,” llefai Bobbie, “gwnewch fendio Spot. Na ni byth gymyd siswrn eto. Dyna fo, dyna fo, Spot bach, ddaru ni ddim trio wir-yr.” Rhoddwyd cadach am ben y ci mor daclus ag oedd modd; ond gan tod yn amlwg ei fod mewn poen, danfonwyd ef drannoeth yng ngofal Hannah a fi i'r dref at Mr. Jones y vet.

Mae Spot acw o hyd, ond y mae yn ddall o un llygad, ac nid ydyw cynffon Sallie byth wedi dod yn ol i'w harddwch cyntefig. Cyn y Sul canlynol dantonwyd y ddau hefyd yng ngofal Hannah i'r dref. A chafodd Bobbie y fraint o eistedd yng nghadair y barber i fyned o dan yr oruwchwylliaeth oedd wedi edmygu mor fawr y tro blaenorol y bu yno. Yr oedd yn ymfrostio yn anghyffredin yn ei ben moel, ac yn hysbysu y ffaith i bawb o'i gydnabod fod ganddo “wallt fel dyn rwan.”

 Cytfeiriad y golygydd i'w.—OWEN M. EDWARDS, LLANUWCHELLYN, Y BALA.

YSGWRS Y GOLYGYDD.

Yr wyf yn deall fod y darnau i'w darllen yn ddiifyfyr yn peri difyrweh mawr mewn cyfarfodydd ac ar aelwydydd. Ond gorfod i mi daflu amryw ddarnau da i'r faaged oherwydd fod cyfeiriadau at grefydd a'r Beibl ynddynt,—pethau nad ystyriwn yn destynau chwerthin. Cofled fy nghynorthwywyr caredig am yr awgrym hwn.

Weithiau anfonir archebion am rifynnau, a stampiau neu ddulliau ereill o arian, i'r golygydd. Na wnaer hynny. Anfoner yn uniongyrchol at y cyhoeddwr. Golygu yw gwaith golygydd, ereill sy'n gwerthu.

Nid oes neb yr wyf yn teimlo'n fwy diolchgar iddynt na'r rhai sy'n anfon darluniau imi, yn enwedig darluniau o blant ysgol. Bydd amser hir yn mynd, yn ddigon aml, cyn y cerfir ac y cyhoeddir y darlun. Y mae dau achos oediad,— y golygydd yn methu cofio darlun pwyl yw, neu ryw anhawder ynglŷn â hawlysgrif. Byddwn yn dra diolchgar pe'r ysgrifennai fy nghyfeillion caredig enw yr ysgol neu y gwrthrych ar gefn pob darlun. Dylent fy hysbysu hefyd a gawsant caniatad yr arlunydd. Os hwy ofynnodd i'r arlunydd dynnu darlun, ac os talasant am dano, nid oes eisiau gofyn cennad. Ond os prynu darlun mewn siop a wnaethant, neu gan arlunydd a'i tynnodd i'w werthu, rhaid gofyn cennad yr arlunydd, ac yn aml ni roddir caniatad. Bydd amser maith yn mynd yn aml cyn y medraf gael sicrwydd am hawlysgrif y darlun.

Y mae llu o ddarluniau ar gyfer y gystadlenseth wedi dod. Nid peth hawdd yw penderfynu ar y goreuon. Y mae llawer o wahaniaeth medr ymysg yr ymgeiswyr,—rhai, mae'n amlwg, wedi cael profiad hwy na'r lleill. Y mae gwahaniaeth mawr yng ngallu'r ymgeiswyr hefyd i weled beth sy'n hardd, yn enwedig wrth dynnu golygfa. Bydd y dyfarniad yn y rhifyn nesaf, a rhai o'r darluniau goreu.

Y mae teulu y diweddar T. E. Ellis yn paratoi Cofiant iddo. Os medd rhywrai lythrenau neu ysgrifau o waith y gwladweinydd ymadawedig, a fyddai mor garedig a'u hanfon i un o'r rhai canlynol,—Thomas Ellis, Cynlas, Corwen; O. M. Edwards, Lincoln College, Oxford; D. R. Daniel, Four Crosses, Pwllheli; J. H. Davies, Cwrt Mawr, Llangeitho. Cymerir pob gofal am danynt, a dychwelir hwy. Bydd awgrymiadau a hanesion yn dderbyniol hefyd.


Cofled ysgrifenyddion corau, ac ereill, mai cyfansoddwr tonau Cymru'r PLANT bia hawlysgrif y tonau, ac nid y golygydd. Cael eu benthig y maeef. Os bydd eisiau caniatad i'w hargraffu, anfoner at y cyfansoddydd. O hyn allan, byddwn yn ddiolchgar iawn i gyfansoddwr pe roddent eu cyfeiriad yn llawn wrth ben eu tonau.

Dau rifyn sydd i ddod eto o'r gyfrol hon. Yna bydd blwyddyn newydd o'n blaenau. Yr wyf wedi cynllunio llawer yn barod ar gyfer y gyfrol newydd, ac yr wyf yn meddwl y ca plant gymaint o flas, os cawn oll ein harbed, ar rifynnau'r flwyddyn nesaf ag a gawsant ar rifynnau'r flwyddyn hon.

Ni wii i mi ddiweyd mor bell ymlaen beth fydd yn y gyfrol newydd; ond gallaf ddiweyd fy mod yn sicr mai hi fydd yr oreu eto. Yr wyf yn gobeithio y cynorthwya fy narllenwyr fi i ddwyn y rhifynnau i sylw ereill, fel ag i ehangu'r cylchrediad.



COFGOLOFN GWYR LLANSANNAN.



HYDREF, 1899.

CYF. VIII. RHIF 94

GOGONIANIANT YR HYDREF.

EDRYCHWCH ar goedwig yn ystod dyddiau tawel,—os tawel fyddant,—dechreu mis Hydref. Nid rhyfedd i un gyffelybu'r olygfa i fyddin ddwyreiniol yn holl rwysg ei banerau amryliw.

Yn y gwanwyn, er mor hytryd oedd y goedwig, nid oedd yno ond un lliw, er fod llawer gwawr o wyrdd, o'r goleuat i'r tywyllaf. Ond yn awr gwelwn bob lliw. Dacw un pren,—ywen Wyddelig, neu ryw goeden arall sydd

wedi bod yn werdd ddigon,—y mae'n awr yn bruddglwyfus ddu fel breuddwyd am y nos.

LLANSANNAN.

GWYR pawb fod tair afon enwog yn rhedeg i'r môr yng ngogledd Cymru,—y Ddytrdwy, Clwyd, Conwy. Rhwng Clwyd a Chonwy y mae mynydd-dir eang Hiraethog. Rhed llawer o afonydd ohono,—yr Alwen i'r Dyfrdwy, yr Aled a'r Elwy i afon Clwyd. Os edrychwch ar y map, gwelwch amryw leoedd a'ch adgofia eich bod yn gwybod am y lle, enwau yn dwyn i'ch cof Dwm o'r Nant, Bardd Nantglyn, Talhaiarn, Gwilym Hiraethog, ac ereill.

Tua chanol bro Hiraethog, ymhell oddiwrth dref a thren, y mae pentref bach tawel Llansannan. Pe deuai rhywun yno ar ddamwain, wedi taith bell, gwelai yn y pentref beth a dynnai ei sylw ar unwaith.

Yn eistedd o flaen ysgol y pentref, gwelai gerflun o enethig yn plethu blodau. Geneth o Gymraes ydyw, a'i holl fryd ar blethu blodau; ac y mae yno gyda hwy ddydd a nos.

Pe gotynnai'r dieithr beth yw meddwl y golofn i unrhyw blentyn yn Llansannan, dywedai yn union mai gwaith yr enethig honno yw



plethu coron o flodau er cof am y rhai y mae eu henwau wedi eu cerfio ar y golofn uwch ei phen. Dyma'r enwau,—

TUDUR ALED.

WILLIAM SALISBURY.

GWILYM HIRAEHOG.

HENRY REES.

IORWERTH GLAN ALED.

Y mynach a'r bardd gwladgarol; cyfieithydd y Testament Newydd; y llenor amryddawn; y pregethwr seraffaidd; y bardd mwyn,—onid ydynt yn gwmni ardderchog?

Yr wyt yn rhoddi i chwi ddau ddarlun o rifyn diweddfaf CYMRU,—darlun o'r enethig sydd wrth droed y gofgolofn, a darlun o un o enethod Llansannan. Cewch ddarluniau ereill o leoedd hynod Llansannan yn yrhifyn hwnnw.

Gyda hyn yr wyt yn rhoddi i chwi lythyr oddiwrth Gwilym Hiraethog at Eben Fardd pan yn galaru am ei fab,—

“59, Bedford St., North, Liverpool.

Medi 16, 1856.

Fy anwyl gyfaill,

Y mae fy ymadrodd heddyw yn chwerw. Y mae ein tŷ yn dŷ galar dwfn a dwys. Bu farw ein hanwylaf David, canelbwnc serch, a chanwyl llygad y teulu. Nos Sabboth diweddfaf, tua saith o'r gloch, y cymerodd y tro chwerw le. Bu farw yn union fel y buasai byw,—yn dawel esmwyth, heb riddfaniad nac ochenaid.

Cafodd oes gystuddiol. Torrodd ei fraich ddwywaith. Ond dan un amgylch- iad ni achwynodd gymaint ag ochenaid i neb ar y ddaear ei glywed. Y mae ei holl garacter yn ddirgelwch i mi, ac felly i bawb a'i hadwaenent. Yr oedd yn ennill serch pob un ymhob cylch y bu ynddo; ac eto yn byw yn hollol ynddo ei hun rywfodd, ond byddai yn addfwyn a sirol wrth bawb a nesaent ato,—ond yn hynod gynnl o'i feddwl a'i deimlad.

Yr oedd megis wedi dyfod i'r byd i ddangos iddo'r ffordd o ennill serch, parch, a dylanwad, trwy fyned trwyddo'n ddistaw a gwastad. Yr oedd ei onestrwydd a'i gywirdeb yn nodedig. Credaf na fynasai er y byd wneyd dim ond a gredai oedd yn ei le. Yr oedd ei ddyfalwch yn ei alwedigaeth yn y banc, ei ffyddlon- deb i bob ymddried a roid ynddo, a'i fanylrydd cywir yn yr oll a wnelai, wedi tynnu sylw neillduol ei arolygwyr yn y dref hon ac yn Ninbych. Ond y mae wedi myned,—fy mab! fy mab!!

Medrwyd chwi, fy anwyl gyfaill, gydymdeimlo â ni trwy brofiad, y profiad chwerwaf o bob profiad yn y byd profedigaethus hwn. Y mae gennym lawer o bethau i ymgysuro ynddynt a bod yn ddiolchgar am danynt. Y mae ein hyder yn gryf fod ein colled a'n tristwch ni yn ennill, a llawenydd tragwyddol, iddo ef.

Yr ydym fel teulu yn cydgofo'n gariadus atoch chwi a'ch teulu.

Ydwyf, fy anwyl gyfaill,

Yr eiddoch yn alarus,

W. REES.

DEDDF CYNHAUAF.

Y DDEDDF ydoedd addfedu
Gwair yn y cwm, a grawn cu;
Gwneyd moelydd yn gnwd melyn,
A chnwd mawr ar glawr y glyn.

EBEN FARDD.


CADW DY GLEDDYF YN LOEW.

CADW dy gleddyf yn loew,
 Nertha fyddinoedd dy wlad;
 Ymladd dros Gymru hyd farw,
 Cartref dy fam a dy dad;
 Hanes gwladgarwch Brythoniaid,
 Fyddo'n dy enaid yn dân;
 Dewrder a chariad gwroniaid,
 Lonna, wfreiddia dy gân.

Cadw dy gleddyf yn loew,
 Chwifia hen faner y ddraig;
 Rhyddid a'i udgorn sy'n galw,
 Adsain y gadlef mae'r graig;
 Byw ydyw ysbryd Llywelyn,
 Dawnsia gwaed Cymru yn gynt;
 Deffro hen geinciau y delyn,
 Concwest sy'n beichio y gwynt.

Cadw dy gleddyf yn loew,
 Mathra'r gelynion dan draed;
 Mynna weld gormes yn marw,
 Sugned dy gleddyf ei waed;
 Hyrddia am byth o wyllt Walia,
 Waedlyd fradwriaeth i'w fedd;
 Ar ei adfeilion blodeua
 Rhinwedd, a chariad, a hedd.

Cadw dy gleddyf yn loew,
 Cerdda'n orchtygwr i'r gâd;
 Boed dy gerddediad yn hoew,
 Mynna iawnderau i'th wlad;
 Safa fel arwr di-wyro,
 Gwened y nef uwch dy ben;
 Coda i fyny heb flino,
 Fawredd, a bri Gwalia wen.

**BYWYD Y MOR.**

III. TYWYLL, OER, LLETHOL.

Y MAE'N anodd cael sicrwydd am hanes y pethau sy'n byw yn nyfnderoedd pell tywyll gwaelod y môr. Uwchben un o leoedd dyfnaf y môr safai'r llong *Challenger* i ollwng rhwyd i lawr i'r gwaelod. Rhoddid pwysau trwm wrthi, ac yna gadewid iddi ddisgyn, a'r rhaff oedd wrthi yn dad-ddirwyn ohoni ei hun oddiar yr olwyn oedd yn troi yn esmwyth. Ond cymer awr a chwarter cyn y bydd y rhwyd wedi disgyn i'r gwaelod.

Yna symuda'r llong yn araf, gan lusgo'r rhwyd hyd waelod y môr. Toc dechreuir codi'r rhwyd. A dyna waith hir. Trwy gydol y dydd bydd yr olwyn yn dirwyn y rhaff i fyny, a bydd bron yn nos cyn y gwelir y rhaff yn codi o'r dŵr. Ni raid dweyd y bydd pawb ar y bwrdd, yn llawn awydd gweled beth sydd yn byw yn y dyfnderoedd mawr odditanynt.

Gallech feddwl nad oes dim yn byw yng ngwaelod y môr.

Yn un peth, y mae'n berffaith dywyll yng ngwaelod y môr. Nid yw pelydrau yr haul erioed wedi cyrraedd yno. Ewch i lawr ryw ddau can gwrhyd, ac y mae'r goleuni'n colli'n hollol; y mae'n dywyll fel y fagddu wedyn.

Peth arall, y mae'n oer iawn yn y gwaelod. Ewch i lawr ryw ddwy fil o wrhydau, a chewch ei bod yn rhewi bob amser; ar waelod y môr y mae'n ddigon oer i rewi bob amser.

Peth arall eto,—os medr rhyw greaduriaid fyw yn y tywyllwch oesol, ac yn yr oerfel digyfnawid, beth a gânt yn fwyd? Tybed a oes rhyw blanhigyn fedr dyfu heb oleu na gwres? Y mae'n wir fod pob peth fydd farw ar wyneb y dŵr,—yr adar sy'n ehedeg uwch ei ben a'r pysgod fydd yn nofio ynddo,—yn disgyn i lawr i'r gwaelodion. Ond pe byddai i bysgodyn farw yn agos i wyneb y môr, cymerai ddyddiau lawer cyn y suddai i waelod y môr,—erbyn hynny byddai wedi pydru.

Meddylier am un peth eto. Pa anifeiliaid fedr ddal pwysau anferthol y dŵr yng ngwaelod y môr. Y mae pwysau'r awyr yn fawr arnom ni,—rhyw bymtheg pwys ar y fodfedd ysgwar. Ond yng ngwaelod y môr, y mae'r pwysau ar bob modfedd yn ddwy dunnell a hanner.

Oddiar fwrdd y *Challenger* anfonwyd potel wydr i lawr i waelod y môr. Nid oedd dim ond awyr y tu mewn iddi, ac yr oedd y gwydr yn dew a chryt. Rhoddwyd gwlanen am dani, a rhoddwyd hi mewn llestr copr hirgrwn. Yr oedd tyllau yng ngwaelod y llestr copr ac yn y caud, fel y medrai'r dwfr fynd i mewn yn hawdd. Anfonwyd hi i lawr i waelod y môr, a thynnwyd hi i fyny drachefn. Pan ddaeth i fyny, yr oedd y copr cryf wedi ei wasgu i mewn; ac yn lle'r botel wydr, nid oedd o fewn y wlanen ond llwch gwydr cyn faned a llwch eira.

Dyma fel y digwyddodd y cyfnewidiad. Wrth i'r botel fyned i lawr yr oedd pwysau'r dwfr yn mynd twy twy. O'r diwedd yr oedd mor fawr nes y chwilfriwiwyd y botel; a chyn i ddwfr fynd i mewn i'r llestr copr i lanw lle'r botel doredig, yr oedd pwysau aruthrol y dwfr wedi pantio honno.

Beth all fyw, ynte, ar waelod y môr,—yn y tywyllwch dudew, yn yr oerfel digyfnawid, lle nad oes planhigyn yn tyfu, a than y pwysau llethol? Treiaf ddweyd wrthyh yn y rhifyn nesaf.

Y GWENOLIAID YN YMADAEL.

(O Awdl y *Floyddyn*, Eben Fardd.)

U**ST!** Tewch! Mae acw ryw stwr,
 Ho! gwennol a wnai gynnwr.
 Beth yw'r gyfrinach ddi baid
 Gynalia y gwenoliaid
 Ar bennau tai, ar bwynt tŵr,
 Adeindorf fawr ei dwndwr?
 Parotoi y maent y pryd hyn
 I fudo a chwifio edyn
 Trwy'r ne, o un lle i'r llall,
 I diroedd rhyw wlad arall;
 O Walia gain i tol gwig,
 I siffrwd trwy gyrs Affrig;

Neu i fargod Pagoda,—i wrando
 Gwiriondeb y Bramah;
 Yn ol eu hynt, ni leiha
 Rhin eu hœnder yn India.

STORIAU CYMRU I'R PLANT.

GAN WATCYN WYN.

V. STORI Y DYN DALL A'I F FON.

(Na fydd yn rhy barod i roi dy ffon o dy law.)

A GLYWSOCH chwi stori
 Y dyn dall a'i ffon?
 Os naddo, gwrandewch
 Ac adroddaf fi hon.

'Roedd dyn dall yn cerdded
 O dŷ i dŷ,
 Yn cardota ei fwyd
 Yn y dyddiau fu.

'Roedd trachwant yn llawn
 Yn ei galon falch,
 A dim ond gwneyd arian
 Oedd meddwl y gwalch.

Un diwrnod fe gafodd
 Lond cwpan o laeth,
 Ac adref yn union
 I'w fwthyn yr aeth.

'Rol rhoddi y cwpan
 Yn ddiogel i lawr,
 Fel hyn wrtho'i hunan
 Siaradai yn awr,—

“Mi werthat y laeth
 Am geiniog neu ddwy,
 A prynnaf gywenen fach
 Gyda hwy.

“A gwnaf iddi ddodwy
 Wy bob dydd,
 Felly digon o wyau
 Yn fy meddiant fydd.

CYMRU'R PLANT.

“ Mi werthaf y rhain
 Ac mi fynnat oen,
 Felly caf wian a llaeth
 Am fy mhoen.

“ Mi werthaf y llaeth,
 Ac mi werthaf y gwlan,
 Ac mi werthaf yr ŵyn
 Pan yn ddefaid mân.

“ A chyda holl arian
 Yr holl ddefaid hyn,
 Mi brynnaf difeddiaeth
 Ar fro a bryn.

“ Ac os daw cardotyn
 Byth ataf fi,
 Cyfarchaf y diogyn,—
 ‘Ymaith â ti!’

“ Ac os na wna fyned,
 A myned yn fain,
 Mi roddaf y ffon
 Ar ei gefn, myn brain!”

A chyda hyn taflodd
 Y ffon o'i law,
 A thorrodd y cwpan
 A'r llaeth fan draw.

Drylliodd y cwpan,
 A cholodd y llaeth,
 A cholli ei ffon
 Yn y fargen wnaeth.

Dwedai'r hen bobol
 Wrth glywed hon,—
 “ Fel y dyn dall yn taro
 A cholli ei ffon.”

A dwedyd wna'f innau
 Wrth bob un a ddaw,—
 “ Na fydd yn rhy barod
 I roi dy ffon o dy law.”



CERFIO DUWIAU YN NEW ZEALAND.

DUWIAU MOR Y DE.

DARLUN pren o hynafiad rhyw lwyth yw y peth y mae y Maori tal acw yn rhoddi ei law arno. Odditano y mae llun pen un o'r duwiau y credir ynddynt yn Ynysoedd Môr y De.

Sylwch ar safn anferth y duw.

Y mae'n debyg fod ynysoedd Môr y De wedi bod yn un cyfandir ryw dro, neu yn nifer o gyfandiroedd bychain. Lle mae'r môr yn fas rhwng ynysoedd, y mae gan yr ynysoedd hynny yr un adar, yr un llysiâu, a'r un duwiau.

Y mae i dduwiau yr ynysoedd y mae New Zealand yn un ohonynt

un nodwedd neillduol,—sef maint eu safnau. O genhedlaeth i genhedlaeth o gerfwyr eilunod, a safn y gau dduw'n fwy. Ac o'r diwedd, nid oes yno ond llun safn yn unig. Dyna ydyw y swyn-dlws gerrir gan yr ynyswyr, sef rhywbeth ar lun cryman,—pen gau dduw wedi mynd yn safn i gyd.

Gwneir y safn yn fwy oherwydd y tybir fod gofynion y gau dduw yn fwy fwy, greulonach greulonach.

Byddai'n werth anton Cristionogaeth i'r nysoedd pell, hyd yn oed pe na buasai'n wir. Buasai ei dylanwad ar ddyinion yn ddyrchafol. Y mae rhyw reddf mewn dyn yn gwneyd iddo geisio ymdebygu i'w dduw. Os yw'r duw wedi mynd yn safn a dim arall, yn gofyn gofyn o hyd, yna didrugaredd a chreulon fydd y rhai sydd yn aberthu iddo; ac oddiar ofn gwasaidd y gwnant bob peth.

Ond y mae i ni Dduw sydd wedi ein caru, ac wedi rhoddi ei unig anedig fab, fel na chollir pwy bynnag a gredo ynddo ef, ond caffael ohono fywyd tragwyddol. Ac felly, yr ydym ni yn ceisio caru ein gilydd ac aberthu er mwyn ein gilydd.

Y mae'r eilundduw yn safn greulawn, ddiddigoni, i gyd. Ond beth ddywedir am ein Duw ni? "Ni fy rhawyd LLAW yr Arglwydd, fel na allo achub; ac ni thrymhaodd ei GLUST ef, fel na allo glywed." "Y mae ei LYGAD ef yn gweled pob peth gwerthfawr." "Wele y mae LLYGAD yr Arglwydd ar y rhai a'i hofnant ef, sef ar y rhai a obeithiant yn ei drugaredd ef, i waredu eu henaid rhag angau, ac i'w cadw yn fyw yn amser newyn. Ein henaid sydd yn disgwyl am yr Arglwydd; efe yw ein porth a'n tarian. Canys ynddo ef y llawenycha ein calon, oherwydd i ni obeithio yn ei enw sanctaidd ef. Bydded dy drugaredd, Arglwydd, arnom ni, megis yr ydym yn ymddiried ynnot."

T A S G.

Y MAE Gwyr Ieuainc Birkenhead yn cynnyg gwobr, at yr Eisteddfod gynhaliant dydd Llun y Pasg, am ysgrif ar darddiad ac ystyr yr ymadroddion hyn,—

Philistinism.	Crebwyll a Darfelydd.
Jingoism.	I'r wadd a'r ystumod.
Agnosticism.	Hud a lledrith.
Red Tapeism.	Hwyl.
Survival of the Fittest.	Y'Wal' ddiadlam!

Gellir cael rhestr y testynau oddiwrth yr ysgrifenyddion,—W. A. Phillips neu Ben Thomas, 22, Camden St., Birkenhead.

CRWYDRIADAU'R ADAR.

"Y durtur hefyd, a'r aran, a'r wennol, a gadwant amser eu dyfodiad."

—JER. viii. 7.



ADAR Y DYMESTL.

R ddechreu mis Hydref y mae miliynau o adar, rhai ar adenydd digon gweiniad, yn ehedeg uwch tonnau cythryblus y môr. Y mae rhai yn ehedeg yn heidiau afrifed o'n gwlad ni i wledydd cynhesach i fwrw'r gauaf. Y mae rhai ereill yn dod o hinsoddau oerach i dreulio eu gauaf gyda ni yn y wlad hon. Y mae rhai ereill yn ehedeg dros rannau o'n hynys-oedd ar eu ffordd i leoedd oer neu gynnes, ond na arhosant yma ond i orffwys ennyd. Yn awr, ar ddechreu'r mis, y mae adar yr haf yn prysur ymadael, ac adar y gauaf yn prysur ddod.

Y mae Heligoland, ynys ar gyfer traeth Holstein, yn hoff fan gan yr adar sy'n dod o'r gogledd i orffwys. Mae miloedd ar filoedd o adar yn gorffwys yno'n awr. Y mae'r dryw eurben yn curo yn erbyn ffenestri'r goleudy, ac yn gorffwys ar y silffoedd, bob awr o'r dydd a'r nos. Y mae cwmwl ar gwmwl o adar yr eira,* fyrddiynau ohonynt, yn ehedeg dros yr ynys tua'n gororau ni. O'r ochr arall y mae'r melyn-ogion† ar lan y môr yn ein gadael, a llawer creyr glas‡ yn croesi

Môr y Canoldir i hinsoddau cynnes Affrig.

Y mae llawer wedi disgrifio'r adar yn crwydro, yn ol rhyw reddf sydd ynddynt. Dywed Mr. Seebohm fod pymtheg mil o ehedydd-ion§ wedi eu dal mewn un noswaith yn Heligoland. Treuliodd ef un noswaith yn y goleudy, a dyma welodd,—

* Starlings. † Linnets. ‡ Crane. § Skylarks.

"Yr oedd yr holl gylch o oleuni o gwmpas y goleudy yn fyw gan adar yn mynd a dod. O'r dwyrain tywyll yr oedd cymylau o adar yn dod yn ddiror; arhosit am eiliad, fel pe wedi eu symu gan y goleuni, ac yna diflannent i dywyllwch y gorllewin. Weithiau cylchdroai ambell aderyn o gwmpas y goleudy, yna ehedai'n syth yn ei flaen. Dro arall tarawai aderyn yn erbyn gwydr y lamp, gan geisio gorffwys ar y gwifrau, a delid ef yn hawdd gan wr y goleudy. Daliwyd tri chant y noson honno. Ehedyddion oedd y cwbl bron, ond yr oedd yno un llostruddyn* ac un bras yr yd.† Yr oedd yr awyr yn llawn o nodau cwafriol yr ehedydd, yna clywid bronfraith, ‡ ac unwaith clywsom waedd creyr." ||

Er hired yw y siwrnai dros y môr, ac er fod llawer aderyn bach yn syrthio'n lluddedig i'r tonnau, y mae'r adar yn hoffi ehedeg, yn un dorf fawr, o'r tir i'r môr. Ond hoffach ganddynt gyrraedd tir yn ol,—torrant allan i ganu, fel torf waredigol, pan gyrhaeddant y lan.

Dyma ddarluniad Kingsley o ddryw bach wedi ei daith hir.

"Os yw'n cofio ei daith hir o Morocco yma, cofia am lawer peth ddigwyddodd ar y ffordd,—y daith hir flinedig hyd arfordir Portugal, trwy'r bwch rhwng y Pyrenees a'r Jaisquivel, dros wastadedd deheudir Ffrainc, dros Lydaw, yn teithio'r dydd ac yn ymguddio'r nos, gan geisio unrhyw damaid allai gael. Cofia fel y mentrodd ef a'i gyfoedion ystormydd y Sianel, fel yr ehedasant yn erbyn y goleudai, fel y trengasant wrth y cannoedd, fel y gyrrwyd yntau yn ei ol gan wyntoedd croesion oer. Ond teimlai fod yn rhaid iddo groesi'r dŵr, er na wyddai pam. Yr oedd ei fam wedi gwneyd hynny o'i flaen, ac yr oedd ei greddf ynddo yntau. Ac o'r diwedd cyrhaedda, yn flin a phrudd ac unig." Ond at yr haf y daeth ef; caiff fwyd a heulwen. Daw amser cân a nythu; a bydd y crwydryn bach yn hapus iawn.

Y mae'r adar yn ehedeg gyda chyflymder mawr, ddydd a nos. Yn y nos tarawant yn erbyn lampau'r goleudai weithiau, gan dorri'r gwydr, a lladd eu hunain, yn enwedig gwyddau gwylltion a chyffylgion.§ Mae cyflymdra rhai ohonynt yn anhygoel bron. Dywedir y gall y wennol ddu¶ ehedeg dau can milldir yr awr,—yn gynt o'r hanner na'r tren cyflymaf neu'r corwynt cryfaf. Tybir fod rhai adar yn ehedeg ar draws cyfandir Ewrob, dros ddywy fil o filldiroedd, rhwng machlud haul a'i godiad, heb orffwys. Dywedir fod yr hutan** yn gadael ei hafdy yng nghoedwigoedd Affrig gyda'r llwydnos, cyrhaedda rosdiroedd gogledd Siberia, lle y mae i fagu

*Redstart. †Bunting. ‡Thrush. ||Heron. §Wood cocks. ¶Swift. **Dotterel.

ei rhai bach, erbyn pump o'r gloch y bore. Beth yw ein tren cyflymaf ond malwen wrth hyn.

Cwyd yr adar i uchder mawr i ehedeg. Y mae'r awyr yn denuach ac oerach, felly nid ydynt yn blino cymaint. Gwelant bigau eiraog mynyddoedd o'r uchder hwnnw ymhell o'u blaenau, ac felly y mae yn haws iddynt wybod eu cyfeiriad. Y mae eu gelynyon. yr adar rhaib, yn byw yn is i lawr o lawer. Ond, o ran hynny, y mae'r adar rhaib yn crwydro i ganlyn eu hysglyfaeth. A glywsoch chwi sw'n adar yn y nos, yn galw ar eu gilydd wrth grwydro? Ni chlywsoch sw'n brain, yn ddistaw y teithiant hwy. Ond gallech glywed ysgrechiaidau'r gwyddau gwylltion, lleisiau cwafriol yr ehedyddion, sain udgorn yr alarch gwyllt. Feallai i chwi glywed gan rywun ofergoelus am gyfarthiad cwn Annwn yn y nos. Mae'n sicr mai lleisiau'r adar crwydr a glywsid.

Y mae rhai o'r adar sy'n dod atom ni ac yn ein gadael yn teithio tua deng mil o fildiroedd,—megis y wennol,^o y cornicyll,[†] y gorn-chwiglen,[‡] ac ereill.

Y mae greddf yn gwneyd i'r adar grwydro. Cychwynnant, hyd yn oed os bydd raid gadael eu rhai bach yn y nyth heb orffen eu magu. Yna a y rhai bach; yna'r anafus.

Newidiant eu plu cyn myned i'r daith bell.


Crwydra rhai bob yn yn, megis y gog a'r gyfflog, a rhai bob yn bâr; ond y rhan fwyaf yn heidiau mawrion. Cychwynna y rhai galarus ymhell o flaen y lleill,—y rhai y tynnwyd eu nyth neu y lladratwyd eu wyau.

Nytha tua 200 math o adar yn ein gwlad ni; daw 60 ereill i nythu ar eu tro; ymwel 38 arall â ni bob blwyddyn, a 70 ereill weithiau.

Pan ddaw'r gwanwyn, dywedaf wrthyhych o ba wledydd y mae'r adar yn dod yn ol. Tua Mawrth daw tinwen y garreg^{||} a'r gyfflog. Yn Ebrill daw llw, —y llostruddyn, y telorion,[§] y gwccw, y wennol, yn eu mysg. Ym Mai daw telor y gerddi, y wennol ddu, ac ereill.

Ond ein cymdeithion yn y gauaf sydd yn dod yn awr,—y deryn du, y fronfraith, y dinsigl,[¶] yr ehedydd, yr ydfran,^{**} yr asgell fraith,^{††} y felynog, ac ereill. Daw llawer o'r rhain i chwilio am nodded rhag gauaf gwledydd mwy tymhestlog ac oer. Croesaw iddynt, adar mwyn.

* Swallow. † Sand piper. ‡ Grey plover. || Wheatear. "Crac y clawdd" yw ei henw yn Nyfed. § Warblers. ¶ Wagtail. ** Rook. †† Chaffinch.



CASTELL POWYS.

ity

SIROEDD CYMRU.

XI. SIR DREFALDWYN.

A NAML y bydd y teithydd, pan yn dod i Gymru i chwilio am olygfeydd tlyision, yn mynd i sir Drefaldwyn. Ac eto y mae, ar lawer ystyr, y sir hyfrytaf yng Nghymru. Y mae'n llai mynyddig na'r siroedd ereill, sir amaethyddol hollol ydyw, ac y mae ei dyffrynnoedd prydferth yn ein hadgoffa am enw un o'i hen rannau,—Llannerch Hudol.

Y mae yn hawdd disgrifio safiad sir Drefaldwyn,—dyffryn uchaf yr Hafren ydyw. Rhed y mynyddoed, fel y gwyddoch, drwy ganol Cymru. Tua chanol ein gwlad, sir Feirionydd a Cheredigion yw llethrau gorllewinol y mynyddoedd,—yn edrych tua'r môr. Sir Drefaldwyn yw eu llethrau dwyreiniol,—rhaf llai serth, amlach eu dyffrynnoedd, yn edrych tua gwastadeddau Lloegr. Y tri phigyn uchaf yn y rhes sy'n gwahanu Meirion a Cheredigion oddiwrth Drefaldwyn yw Cader Fronwen, Aran Fawddwy, a Phlumlumon.

Yn rhedeg yn gyfochrog â'r mynyddoedd hyn, rhwng Cymru a Lloegr, y mae rhes o fryniau is. Cefn Digoll yw rhan ohonynt, lle'r ymladdwyd y frwydr olaf am anibyniaeth Cymru. Rhwng y ddwy res o fynyddoedd y mae broydd breision a hyfryd sir Drefaldwyn.

Cyfyd yr Hafren ym Mhlumlumon, a rhed i'r gogledd gyda godrau y rhes bellaf o fynyddoedd. Oddiar lethrau'r mynyddoedd, o'r gorllewin a'r gogledd, rhed llawer o atonydd iddi,—y Trannon, Banw, Einion, y Fyrnwy, a'r Tanad.

Y dref gyntaf ar yr Hafren yw hen dref enwog Llanidloes. Yna daw'r Drefnewydd, ac yna'r Trallwm. Wedi cyrraedd y Breiddin rhydd yr Hafren dro am dano, a thry i'r dwyrain i'r Amwythig, ac yna tua'r de. Ar ganghennau yr Hafren ceir Llanfair Caereinion a Llanfyllin. Yr unig le o bwys y tu dwyreiniol iddi yw Trefaldwyn,—adeiladwyd gan ryw Baldwin,—y dref roddodd ei henw i'r sir.

Y mae rhan o ddwy afon bwysig arall yn sir Drefaldwyn,—yn y rhan ddeheuol. Y mae rhan gyntaf o oes afon Wy ynddi, a Llangurig yn bentref arni. Y mae rhan olaf afon Dyfi ynddi hefyd, ac yn ei dyffryn tlws hi y mae tref henafol Machynlleth, gyda'i hadgofion am lengoedd Rhufain ac am filwyr a seneddwyr Owen Glyn Dŵr.

Y mae sir Drefaldwyn yn taro ar Loegr un ochr. Y mae'n cyffwrdd â môr y gorllewin yr ochr arall, wrth enau aton Dyfi, lle mae Meirion a Maldwyn a Cheredigion yn cyffwrdd â'u gilydd.

Y mae sir Drefaldwyn yn hynod am ei defaid a'i gwartheg. Bu

trefydd yr Hafren yn enwog am eu gweithdai brethyn; ac nid ydynt wedi llwyr golli eu henwogrwydd eto.

Rhan o hen deyrnas Powys ydyw sir Drefaldwyn. Gorchfygwyd y rhan fwyaf ohoni gan y Normaniaid; codasant gestyll Trefaldwyn, Dolforwyn, ac ereill. Yr oedd un o dywysogion Powys, Owen Cyfeiliog, yn fardd da hefyd. Y mae olion un mynachdy enwog,—Ystrad Marchell,—yn y sir. Gwnawd hi'n sir yn 1536; lluniwyd hi o amryw hen gymydau ac arglwyddiaethau, megis Maldwyn, Cedewain, Ceri, Arwystli, Cyfeiliog, Deuddwr, Powys.

Y mae llawer o bethau hynod yn sir Drefaldwyn. Ynddi hi y mae y llyn mwyaf yng Nghymru. Y mae'r llyn yn gorwedd ar hen bentref Llanwddyn, wedi ei gronni i gael dwfr i Lerpwl. Y mae ychydig aceri yn fwy na Llyn Tegid, sydd am y mynydd âg ef ym Meirion.

Y mae Pistyll Rhaiadr, ar lawer cyfrif, y rhaiadr ardderchocaf yng Nghymru.

Rhoddodd sir Drefaldwyn eu barddoniaeth dduwinyddol ddwysaf a goreu i Gymru ac i Loegr. Rhoddodd ganeuon George Herbert i'r naill, ac emynnau Ann Griffiths i'r llall.

Y mae dwy farddones fwyaf Cymru wedi eu claddu yn yr un fynwent yn sir Drefaldwyn, yn Llanfihangel yng Ngwynfe, sef Gwertyl Fychan ac Ann Griffiths.

Ni fedrai rhifyn cyfan gynnwys enwau a hanes y gwŷr mawr roddodd sir Drefaldwyn i Gymru. Cyfieithu'r Beibl yn Llanrhaiadr ym Mochnant, Llwydiaid Dolobran, bechgynod Robert Owen yn y Trallwm, gwasg a chanu Llanidloes, bechgyn Llanbrynmair,—y mae llawer o hanes diweddar i sir Drefaldwyn.

Y mae y bobl o natur wresog a hynaws a charedig, a cheir yn eu mysg nifer mawr o rai meddylgar a galluog a dwys.

Dylid gwneyd ymdrech i gadw neillduolion Cymreig y sir. Y mae'r llanw Seisnig wedi bod yn dylifo iddi, a gresyn os rhaid i bethau goreu Cymru gilio o flaen pethau salaf Lloegr.

P'W DDARLLEN YN DDIFYFYR.

GWELAIS frenin ar gefn mochyn mae blew duon yw rhai cymylau a dwfr y glanheir giar sydd wasanaethgar iawn yw llaeth y ceiliog sydd yn alluog iawn i ganu doh ray me sydd seiniau aflafar fyddai clywed asyn yn canu tenor a gana ianto Plaenpentre sydd fferm firwythlawn ydyw llawer gardd os caiff ei thrin yn arw mae Pegi yn myned o'i cho yn y fan yma gwelwyd ysbryd y frenhines sydd ddynes dduwiol iawn cydganwn "Duw gadwo'r frenhines."

Trisant.

LLANC.

CARTREFI EIN CYMYDOGION.

X. CARTREF Y GIGFRAN.



Y GIGFRAN.

MAE rhyw ddoethineb, bron yn ddigrifol, ar wedd y gigfran. Saif megis diwinydd neu athronydd ar gangen. Edrych ar y mynyddoedd mawr eiraog y tu ol iddi, edrych ar y pinwydd hardd gerllaw, edrych ar ei chymydogion odditani,—edrych arnynt oll gyda gwedd un sy'n gwybod popeth am danynt, pe buasai'n hoffi dweyd.

Y mae llygad meddylgar a llygad cysglyd rywbeth yn debyg i'w gilydd; a phwy ŵyr prun ai ynghwsg ynte yn effro y mae meddwl yr hen frân?

Pan gofiwn am rai o'i thriciau, y mae'n haws fyth chwerthin am ei phen. Er called y mae'n edrych, gwna y pethau gwirionaf. Medrir ei dofi, a'i dysgu i siarad. Gellir dysgu rhyw air iddi, megis y dysgwyd y gair *Never more* i honno ddesgrifir gan Edgar Allen Poe. Ond er mor ddwys a chyfrin y gair, ac er doethed yr edrych y gigfran, gwyddom o'r goreu na ŵyr hi ar y ddaear beth yw ei ystyr.

Gwna droion gwirion iawn hefyd. Y mae'n bur hoff o ladrata mân pethau,—ac y mae hyn yn beth ynfyd yn ogystal a pheth drwg. Ond peth rhyfeddach fyth, wrth gofio mor ddoeth yr edrych, llad-

rata bethau nad ydynt o'r gwerth lleiaf iddi,—megis darnau arian neu bres, botymau, hoelion, pinnau, a phob rhyw dacleuach.

Y mae'n hawdd adnabod y gigfran, a'i pherthynasau llai,—y brain. Y mae eu pigau yn galed ac yn gryfion. Y mae eu lliw yn ddu, oddigerth un math o frân sy'n trigo ar lan y môr. Wrth ei ffroenau y mae blew cryfion, yn tafu ymlaen. Y mae ei chynffon bron yn ysgwar.

Y mae'r gigfran yn hoffach o neillduaeth na'i pherthynasau bychain, y brain. Ond gellir ei dofi'n hawdd, a'i dysgu i siarad. Ehed yn uchel, ac y mae'n gref iawn ar ei haden. Dywedir yr arogl furgyn dair milldir oddiwrtho.

Gadewch i ni dalu ymweliad â'i chartref. Dewis le i wneyd ei nyth ar ben coeden uchelfrig, neu ar lethr rhyw graig uchel. Mae'n haws i ni ddringo craig na dringo coeden. A dyma ni wedi cyrraedd dy dŷ di, yr hen frân. Y mae'r nyth wedi ei wneyd heb lawer o ofal, drain yw ei ddefnydd, a gallem feddwl mai lle anifyr i orwedd ynddo yw cartref o ddrain.



CARTREF Y GIGFRAN.

Y mae tri o rai bach yn y nyth, ac wele'r hen gigfran yn dod a'u brecwest iddynt. Cânt lawer o ddewis. Fel rheol, cânt ddarn go lew o ryw ysgerbwd, ac y mae'r drwg arogl yn hyfryd iddynt hwy. Weithiau cânt ryw anifail bach, neu ffrwythau. Weithiau cânt giw iar oddi-ar ryw fuarth.

Y mae'r tri bach yn edrych yn ddoeth iawn, fel eu rhieni, oddigerth pan fydd arnynt eisiau bwyd. Yr adeg honno, y maent yn crawcian fel ynfydion. Yn y darlun chwi welwch fod un o'r cywion wedi ein gweled

ni cyn gweled ei fam, a'i fod yn edrych yn ddoeth fel pe buasai'n gwybod popeth.

Pe'r elech drwy gwadrangl cefn Coleg Balliol yn Rhydychen, ond didd na chlywech swm brain yn y coed uwchben,—dyna eu hoff le i fagu ac addysgu eu rhai bach. Odditanodd addysgir bechgyn coleg enwocaf Rhydychen. Pan oedd Jowett yn ben athraw y coleg hwnnw, byddai'n edrych i fyny weithiau at bennau'r coed, ac yn dweyd yn ei lais tarawiadol ef mai rhai go sal am addysgu eu plant fyddai'r brain.

Wrth edrych ar gartref y gigfran y mae dau beth yn eich taro am ei thri rhai bach. Yn un peth, y mae'n amlwg nad ydyw dysgu *manners* yn rhan o'r addysg a gânt. Y mae eu swm yn aflafar ac yn gynhenllyd ac yn drystiog,—'does dim byd yn foneddigaidd ynddynt.

Peth arall, y maent yn bur hyllion, yn enwedig pan fyddant yn

agor eu pigau ac yn rhythu eu llygaid. "Tlws pob peth bach," meddai'r ddiareb Gymreig. Ond nid wyf yn credu fod neb ond dau yn gweld y cigfrain bach yn dlyision iawn. Y ddau hynny yw eu tad a'u mam.

"Gwyn y gwel y frân ei chyw,
Er fod ei liw yn loew-ddu."

BLODEUYN BACH.

BU farw athraw ffyddlawn yn yr Ysgol Sabbothol dro yn ol. Aeth ei ddosbarth ieuanc bob un â thusw prydferth o flodau, a gollyngasant hwy i lawr ar ei arch yn y bedd. Wedi ei gladdu, yr oeddynt yn siarad â'u gilydd am dano, ac am y daioni oedd wedi ei wneyd iddynt, ac yn cyd-ddyfeisio beth allent wneyd i gadw ei goffadwriaeth yn anwyl. Penderfynasant osod blodau newyddion ar ei fedd bob Sabboth, a rhoddi y gofal i bob un o'r dosbarth yn ei dro.

Parhawyd i wneyd hyn am flwyddyn gyfan. Elai un o'r merched bach, ar ol yr Ysgol bob Sul, i gasglu blodau newyddion i addurno ei fedd. Un bore oeraidd yn Hydref, ymhen blwyddyn ar ol claddu yr athraw, gwelai y torrwr beddau eneth fach, o bump i chwech oed, yn gorwedd ac yn cysgu ar y bedd yr oedd y tath ofal wedi ei ddangos am dano. Cymerodd hi yn ei freichiau yn garedig, a deffrodd hi.

"Pa le'r wyf fi?" gofynnai y techan gan edrych yn wyllt o'i chwmpas. Ond yn fuan daeth ati ei hun, a dywedodd,—“O, 'dwi yn gwybod. Fy nhro i oedd i ddyfod a blodau ar fedd fy athraw neithiwr, ond methais a chael dim hanner digon da. Yr oedd ef yn arfer fy ngalw i ei flodeuyn bach, a meddyliais neithiwr y buaswn yn rhoddi fy hunan iddo i ddangos iddo fel yr oeddwn yn ei garu.”

Y mae dau fedd gyferbyn a'u gilydd yn y fynwent honno heddyw; un ydyw bedd yr athraw ffyddlawn yn yr Ysgol Sul, a'r llall ydyw bedd yr eneth fach anwyl; ac y mae wedi ei gerfio ar garreg ei bedd y geiriau,—“Blodeuyn Bach.” Rhoddodd ei hunan i ddangos mor fawr yr oedd yn ei garu.

UN O GROESOR.

Y GWYBODAETH.

Cwch wrth raff serch craff yw cryd—
Yn hafan hoff mebyd; [yn nofio
Anfon baban o'i wynfyd
Wna hwn i fôr ein hen fyd.

MORWYLLT.

Y PRYF COPYN.

O'i fola nydda'n filain,—ar fedeg
Gwna rwydi dirgelfain;
Gwêa'i oriel yn gywraïn,
A'i dŷ fydd ei ede fain.

IOAN PEDR.

“O Walia Wen.”

R. M. LEWIS.
(Cymru, Chwef. 1898.)

FRANZ ANT.

DOH D. S.S.C. M. 120.

m f

:d .m	s	:fe.s :l.s	s.m' :d'	:m.l	r	:r.m :f.r	s	:-	:d .m	}
1. O	wlad	y fro a'r	myn-ydd,	Y	llyn	a'r ffrydlif	lân,		O	
:d	m	:re.m :f.m	m.s :m	:d	t ₁	:t ₁ .d :r.t ₁	m	:-	:d	
2. Er	byw	mewn hin bles-	er - aidd	Yng	nghanol	blodau	blydd,		Lle	
:d	d	:d :d.d	d :d	:d.f ₁	s ₁	:s ₁ :s ₁ .s ₁	d	:-	:d	

A.t.

s	:fe.s :l.s	s.m' :d'	:d'f.r	t ₁	:r.m :f.r	s	:-	:l.f	}
wlad	y brwd aw-	en - ydd,	Y	del	- yn fwyn a'r	gân,		Y	
m	:re.m :f.m	m.s :m	:m ₁	s ₁	:t ₁ .d :r.t ₁	d	:-	:d	
taen - a'r	aw-el	ber - aidd	Bob	rhyw	ar - oglau'n	rhydd,		Bob	
d	:d	:d.d	d :d	:l ₁ r ₁ f ₁	s ₁	:s ₁ :s ₁ .f ₁	m ₁	:-	:f ₁ .l ₁

f.D. ρ

m	:m.s :f.r	d :	:d.s	r'.d' :t.d' :r'.t	d' :m	:l.s	}
del - yn fwyn a'r	gân;	Er	treul-io	maith flyn-	ydd-oedd	Ym	
d	:d.m :r.t ₁	d :	:d.s	s :s :s.s	s :d	:f.m	
rhyw	ar - oglau'n	rhydd;	Cwyd	law-er	gwaith och-	en - aid	Wrth
s ₁	:s ₁ :s ₁ .s ₁	d :	:d.s	f.m :r.m :f.r	m :d	:d	

ρ

f.s :f.s :m.s	r	:-	:s	r'.d' :t.d' :r'.t	d' :m	:l.s	}	
mhell o	d'olwg	di,	Mae'th	frig - lwyd	hen fyn-	ydd-oedd		Yn
r	:r	:d.d	t ₁	:-	:s	s :s :s.s	s :d	:f.m
gof - io'r	amser	fu,	A'i	ha - den	gymra'm	hen - aid	Draw,	
t ₁	:t ₁ :d.m	s ₁	:-	:s	f.m :r.m :f.r	m :d	:d	

f

f.s :f.s :m.s	r	:-	:s	d' :- .d' :r'.t	d' :d	:d	}	
an - wyl	fyth i	mi;	Er	treul-io	maith flyn-	ydd-oedd		Ym
r	:r	:d.d	t ₁	:-	:s	s :- .s :s.s	s :d	:d
draw	i	Gymru	gu;	Cwyd	law - er	gwaith och-	en - aid	Wrth
t ₁	:t ₁ :d.m	s ₁	:-	:s	m :- .m :f.r	m :d	:d	

}	d' :- d' :r' .t	d' :- :s	}	m' .r' :d' .t	:l .s	
	mhell o d'olwg	di, Mae'th		frig - lwyd	hen fyn-	
	s :- .s :s .s	s :- :m		d' .t	:l .s	:f .m
	gof - ior am-ser	fu, A'i		had - en	gymra'm	
m :- .m :f .r	m :- :d	d :- :d	:d .d			

}	l :i :r'	s :- .s :t .r'	}	m' :- :s
	ydd - oedd Yn	an - wyl fyth i		mi; Mae'th
	f :f :f	s :- .s :s .t		d' :- :s
	hen - aid Draw,	draw i Gymru		gu; A'i
f :f :r	s :- .s :s .s	d :- :s		

}	m' .r' :d' .t	:l .s	}	l :i :r'	}	s :- .d' :t .r'	}	d' :	
	frig - lwyd hen fyn-	ydd - oedd Yn		an - wyl fyth i		mi.			
	d' .t	:l .s		:f .m		f :f :f		s :- .m :r .f	m :
	had - en gymra'm	hen - aid Draw,		draw i Gymru		gu.		d :- .s, :s, .s,	d :
d :- :d	:d .d	f :f :r	s :- .s, :s, .s,	d :- :s					

3. O wlad lle magwyd glewion
 Gollasant drosti'u gwaed,
 Am hon hiraetha'm calon,
 Rhagoraf fan a gaed.
 Dy fri parhaed mor loew
 A'r bythol ser uwchben,
 A thros y gwir yn groew
 Dy lais, O Walia wen.

ADENYDD.

Y MAE Duw yn rhoddi i bob aderyn aden gymwys. Os yw'r aderyn am ehedeg yn uchel ac yn gyflym, rhydd Duw adenydd hirion blaen-feinion iddo. Ond os am ehedeg ychydig y mae, ac ehedeg yn agos at y llawr, rhydd Duw bytau o adenydd byrion iddo. Os na fydd am ehedeg, ni chaiff adenydd.

Yr un fath y mae gyda'r ieuanc. Os yw am ehedeg yn uchel mewn daioni, ca nerth i wneyd hynny. Nid y diog mae Duw'n helpu.

BUDDUGOLIAETH Y BABAN.

DARLLENNODD boneddiges y peth ddywedwyd am yr ysgall a'r lili yn y rhifyn diweddaf, ac anfonodd i mi yr ystori ganlynol am un sydd yn awr yn faban bach, ond a fydd ryw dro, y ol pob tebyg, yn frenin yr Eidal.

Aer y goron yn awr yw Tywysog Naples, ond nid oes ganddo ef na'i wraig blant. Ac y mae hynny yn achos gofid mawr iddynt.

Ar eu holau hwy aiff y goron i Dduc Aosta. Tua blwyddyn yn ol ganwyd mab i'r duc,—a gelwir ef y tywysog Amadeo.

Nis gallai Tywysoges Naples lai na bod yn eiddigeddus iawn wrth deulu Aosta, ac yr oedd wedi rhoddi ei chasineb ar y tywysog bach. Ond nid oedd wedi gwleud y bychan erioed.

Y mae Amadeo bach tua blwydd oed, a'i wallt yn oleu felyn.

Ryw ddiwrnod yr oedd ef a Thywysoges Naples yn y llys. Yr oedd ef ar fraich ei famaeth yn un o'r cynteddoedd, a phwy oedd yn dod i'w cyfarfod ond Tywysoges Naples. Trodd ei phen draw, fel y gwnaethai lawer gwaith o'r blaen, gan feddwl myned heibio heb edrych arno.

Ond estynnodd y baban ei freichiau bychain tewion ati. Nis gallai beidio ei gymeryd yn ei breichiau, tra y llanwai ei llygaid o ddagrau. Rhoddodd y baban ei wefusau ar ei gwefusau hi, a thynnodd ei law hyd ei gwyneb, gan roddi anwes iddi.

Dywedir fod Tywysoges Naples yn awr yn orhoff o'r tywysog bach. Os daw yn frenin yr Eidal, gobeithio mai yr un modd yr ennill ei fuddugoliaethau,—trwy ddynerwch, ac nid trwy fyddinoedd a llongelau a magnelau.

Y PLENTYN A'R AFONIG.

GAN Y PARCH. MORIEN MON HUWS, PH.D., AMERIG.

YR AFONIG,—

Chwardda yn yr heulwen hyfryd,
A chusana'r blodau blydd;
Sibrwd serch ganeuon hawddfyd
Wrth y glaswellt tyner rhydd;
Gwena ar y wybren loew,
Dawnsia ar ei thaith ymlaen,
Hapus yw ei heniath groew,
Gwasgar fwyniant pan ar daen.

Y PLENTYN,—

Piga fiodau swynol wenau
Dan d'wyniadau haul y nen;
Cana ei blentynaid donau
Gyda'r hedydd uwch ei ben;
Hapus ydyw'r plentyn hwyddgar,
Blodyn ydyw ddaeth o'r nef.
I ymagor ar y ddaear,
Dyma 'i drefn anfeidrol Ef.



PLANT CYMRU. CXVII. PLANT HERMON, PENBRE.

URDD Y DELYN.**Y RHEOLAU.**

1. Dysgu siarad ac ysgrifennu Cymraeg; darllen rhan o'r Beibl Cymraeg, neu ryw lyfr Cymraeg arall, bob dydd, ac ysgrifennu Cymraeg o'i gyfansoddiad ei hun.

2. Astudio hanes Cymru, a gwneyd ei oreu i godi ei wlad, fel y byddo Cymru fydd yn well na'r hen Gymru.

3. Dysgu canu'r delyn, os bydd hynny yn y cyrraedd; a dysgu alawon Cymreig.

4. Byw, hyd y gall, yn ol dysgeidiaeth yr hen Gymry gynt, mor bell ag y mae'r ddysgeidiaeth honno'n un a dysgeidiaeth Crist. Y mae'r ddysgeidiaeth honno'n gofyn purdeb, cariad at addysg, caredigrwydd at ddyn, addfwynder at greaduriaid direswm, iaith ddihalog.

HANES YR URDD.

Wedi ddarlunio un o ganghennau'r Urdd yn sir Gaerfyrddin, wedi ei dynnu gan wawl-arlunydd ieuanc medrus,—Mr. James Henry Davies, Cydweli. Cyn hir cawn hanes plant yr Urdd yn Ffestiniog yn cael siwrne gyda'u gilydd i ben y Wyddfa.

AELODAU NEWYDDION.

1167. Y Parch. Dad Hayde, St. Peter, Caerdydd.
 1168. Vida Davies, Tan y Castell, Gaernarfon.
 1169. B. Morris, Blaenplwyf Lodge, Llanbedr Pont Stephan.

Y mae arnaf ofn nas gellwch gael *Gweithiau Eben Fardd* na *Chofiant Ieuan Gwynedd*, ond yn ail law ar ddamwain.

ERGYDION DERBYNIOL.

UN tro, yr oedd tywysog Indiaidd o'r enw Moolraj yn gwarchae ar wersyll o filwyr Prydeinig; a thrwy fod y peleni a saethai atynt wedi darfod, daeth i'w feddwl yn ddisymwth am domen o *canisters*, a gymerasid ychydig ddyddiau cyn hynny oddiar y Saeson. Nid oedd ganddo un amheuaeth nad *canister shots* dinistriol y Prydeiniaid oeddynt. Bore drannoeth, tafwyd yr holl wersyll i syndod wrth weled fod yr hen Moolraj yn saethu i'w canol gyflawnder o *lobsters* wedi eu potio, ysgyfarnogod wedi eu piclo, *anchovy sauce*, cig carw, penwaig wedi eu piclo, a lluaws o foethau ereill priodol i'r tymor.

Nid oedd y *canisters* yn cynwys dim amgen na darpariaeth o ymborth danteithiol wedi ei selio i fyny, a bu y gwersyll yn gwledda ar y gawod ragluniaethol hon am dridiau gyda mawr foddhad.

MEIRIONFAB.

I'W DDARLLEN YN DDIFYFYR.

DRO yn ol gwelais ddyn yn mewian y mae y gath yn doddy wyau y mae ieir pren tlws sydd yn tyfu yn y simdde y mae'r huddugl yn berwi y mae y dillad priodas sydd yfory mewn cwch gwenyn y mae mêl sur yw yr afal brynnais i yn yr efail y mae glo yn canu mae'r ceiliog gwellt sydd yn tyfu mewn pulpucl y mae pregethwr yn dawnsio y mae yr aderyn mae yr eneth yn siglo ysgadan cochion sydd dda.

Llwyngwiril.

J. O. FOULKES.

YR YWEN GRIN.

Wyd ywen hen wedi huno,—noeth wyd,
 A'th ddall wedi syrthio;
 Mae dy frig, fu'n dewfrig do,
 A dy groen yn cyd grino.

Huw Tegai.

YR HYDRFF.

Melyna amlw Anian—drwy y tir,
 Daw'r twf i'w lawn oedran;
 O'i safle glwys, afal glân
 A gwymyp ohono'i hunan.

Eben Fardd.

PENLLWYN.

GORWEDD Penllwyn mewn dyffryn tlws gyda dwy afon yn ymdroelli drwyddo. Tarddle'r Rheidol yw Pumlumon. Cywir y canodd y bardd am dani hi,—

“ Hafren ac Wy, hyfryd eu gwedd,
Ond Rheidol fawr ei anrhydedd.”

Aber techan droellog yw Melindwr. Yng nghodre'r ardal rhed yn dawel i fynwes y Rheidol. Am bum milldir wedyn llifa'r Rheidol ar hyd gwastadedd y Dole, nes ymarllwys ym Mau Aberteifi, ger Aberystwyth. Ar bob ochr i'r dyffryn y mae cadwyn o fryniau isel, gan sturfio'r dyffryn megys cader fraich. Ar fronnau y bryniau tyf gelltydd o dderw. Pan yn eu llawn gwisgoedd,—gwisgoedd yr haf,—rhydd y gelltydd hyn ychwanegiad helaeth at brydferthwch y fangre. Wedi glasu o'r dolydd, a'r meusydd yn gymysg o wyrdd a melyn, mae'r olygfa yn swynol odiaeth.

Ceir yn yr ardal gydoniad o awelon y mynydd a'r môr. Caria'r naill berarogl y grug a'r llall berarogl y blodau a'r wimwn. Ac yng nghanol y fath adloniant, mae'r adar bach yn pyncio cân bob bore a hwyr. Ym min yr hwyr nid oes dim yn torri ar draws y distawrwydd ond ambell i gerdd gan yr asgellog gôr a murmur llon yr afonig.

Ganwyd Lewis Edwards, y duwinydd craff, ym Mhwllcenawon, o fewn ergyd carreg i'r Rheidol. Llauer gwaith y bu yn ymarfer ei ddychymyg byw yn su tyner yr afon. Pan yn hogyn sychedai am wybodaeth. Syrthiai mor ddwfn weithiau i ysbryd y llyfr ddarllennai, nes anghofio popeth. Yr oedd yn myned a nifer o wartheg i'r cae ryw dro, danfonnai hwynt o'i flaen gan ddarllen ei lyfr. Wrth ei weled mor hamddenol, aeth y gwartheg i bori ar ochrau y ffordd. Aeth yntau heibio iddynt, nes yr oedd wedi myned cryn filldir cyn deall ei fod wedi eu gadael ar ol. Fe ddyfrha'r Rheidol y dyffryn teg trwy ba un y llifa, gan beri i'r tir ffrwytho yn fawr. Fe ddyfrhaodd Dr. Edwards Gymru gyda'i lenyddiaeth a'i dduwinyddiaeth; ac y mae gwedd crefydd ac addysg Cymru yn awr yn un o'r profion amlycaf o hynny.

O fewn yr ardal hon y bu Ieuan Gwylt yn dychmygu pa fodd i greu ac ysbrydoli canu cynulleidfaol Cymru. Mewn blynyddoedd ar ol hynny, cafodd y mwynhad o weled ffrwyth toreithog ar ei ymdrechion dihafal. Nid llai anenwog ydoedd ei frodyr. Yr oeddynt yn feddiannol ar feddwl cryf, ac fe'i haberthasant ar allor gwasanaeth i'w Harglwydd.

Yma y bu Dr. John Rhys a Dr. Cynddylan Jones yn treulio rhai blynyddau dedwyddaf o'u bywyd, yn gyd-athrawon yn yr ysgol ddyddiol. Bu y Prifathraw Prys, Trefeca, hefyd, yn is-athraw yn yr ysgol mewn ysbaid ar eu holau.

A. J. PIERCE.

Y GLOYN BYW.

TI loyn byw, O dywed im
O ble y daethost ti mor chwim
I gwr fy ngardd?
Ai angel wnaeth dy anfon di,
I ddangos lliw y nef i ni?
Ai delw ohono ydwyt ti,
Greadur hardd?

Hiraethu wnes am danat ti
I ddod i chwareu gyda mi
I blith y dail;
Pe gallsai taer ddymuniad bardd
Dy ddenu ato, loyn hardd,
Ti fyddet beunydd yn fy ngardd,
Y tlws diall.

Rhoegadfan.

Ai galar am y blodau mân
A barodd iti, loyn glân
Ein gadael ni?
Ai teimlo 'roeddet ti'r pryd hyn,
Na allet aros yn dy wyn,
A hwythau'n marw yn y glyn
Yn d'ymyl di?

Ai digio wnest wrth ddail y coed,
Am wywo a syrthio wrth dy droed,
Dan gorwynt blin?
Ai su yr awel wnaeth ddeffroi
Rhyw awydd ynnot am gael ffoi
Lle na ddaw gauaf fyth i droi
Y dail yn grin?

R. H. WILLIAMS.

SEDD WAG YN Y DOSBARTH.

ER COF AM MR. WILLIAM THOMAS, BRYNDINAS, RHIWBRYFDIR.

Bu farw yn 21ain oed.

MAE'R haf ar hyd y bryniau
Yn chwareu'i thelyn bêr,
Mae'r ddôl dan gnwd o fiodau
Fel wybren lawn o ser;
Ond er fod anian drwyddi
Yn torri'n wenau llon,
Myn gauaf hiraeth oedi
Er hynny yn fy mron.

Mae'r dosbarth yn cyfarfod
Ar fron yr Ysgol Sul,
Gan ddisgwyl cael adnabod
Mwynderau'r llwybr cul;
Ond drwy'r holiadau dyrys
A'r pert atebion oll,
Yn deimlaf yn ofidus
Fod llais rhyw un ar goll.

Pe cawswn fy hysbysu
Mor agos oedd y pell,
Bydsw'n yn ymdrechu
Dy ddysgu'n llawer gwell;

Mae pob athrawiaeth bellach
Yn eglur iawn i ti,
Bu deall eu cyfrinach
Yn ormod gynt i ni.

Ar ymyl werdd dy feddrod
Lle crwydrai awel iach,
Dan gysgod cwmwl trallod
Offrymais ddeigr yn bach;
Ond gwelais lewyrch hyfryd
Drwy'r cwmwl du yn dod,
A thybiais weld dy ysbryd
Ar hyn mor wyn a'r ôd.

Ti ddysgaist lawer yma
O ysgrythrau Duw,
Cei bellach yn y Wynfa
Fwynhau'r sylweddau byw;
Mae'r dosbarth yn eu trallod
Yn gorfod canu'n iach,
Byddi'n hysbysu'n llawer gwell
Ryw ddiwznod, William bach.

BRYFDIR.

Y DDAU HOGYN RHEINY.

GAN WINNIE PARRY.

X. YMDDYGIAD Y DDAU YN Y CAPEL.

Y DIWRNOD fyddwn yn arswydo fwyaf tra'r oedd y Ddau ym Mhen y Bryn oedd dydd Sul.

Ni wyddem pa ddrychfeddwl ddeuai i'w pennau yn y capel i dynnu sylw'r gynulleidfa at sêr Pen y Bryn; a byddwn yn rhoddi ochenaid o foddhad wrth ddytodd allan o bob oedfa tyddai wedi myned heibio heb i ddim eithafol gymeryd lle. Aeth y Sul cyntaf heibio yn weddol. Creodd Bobbie ychydig o gynnwrf drwy sefyll ar un pen i'r fainc draed, a chan nad oedd pwysau cyfartal ar y pen arall, diflannodd Bobbie i waelod y sêr a disgynnodd pen y fainc gyda thrwst dychrynlyd.

Y Sul wedyn yr oedd eu ymddygiad dipyn yn fwy bywiog. Yr oedd Miss Jones a Cati wedi teimlo yn fawr nad oedd Bobbie wedi myned gyda Willie i'r llawr i ddweyd adnod yn y seiat y nos Sul cyntaf o'u harhosiad acw, ac yn ystod yr wythnos ddilynol gwnaethant i mi ddysgu un iddo, a thrwy ddweyd y caffai ef "lond papur mawr o shoclet" cawsant gan Bobbie addaw ei dweyd yn y seiat y nos Sul canlynol. Yr oedd wedi cymeryd gofal egluro i'r ddwy mai "shoclet" ac nid "peppermints" oedd y wobr i fod. Dywedodd Willie wrthyf pan holais ef,—“Na, fydd o ddim yn deyd yn y capal adra. Do, unwaith, ystalwrm dw i'n meddwl.” Nid oedd hyn fawr o eglurhad, fodd bynnag.

Ar ol yr oedfa nos Sul, aeth y Ddau i'r llawr, yn edrych mor ddiiniwed ag arfer. Mae John Evans, fydd yn gwrandaw'r plant, yn clywed braidd yn drwm ar adegau, a rhoddodd y ffaith yma fwy o rym ar beth ddigwyddodd. Daeth tro Willie, a dywedodd ei adnod yn weddol, a chafodd,—“da iawn wir,” gan John Evans. Yna dechreuodd Bobbie. Ei adnod oedd y gyntaf yn y bumed salm a'r hugain. Dywedodd y pedwar gair cyntaf yn gywir; ac yna, er fy nychryn, trodd at sêr Pen y Bryn a gwaeddodd mewn llais eithaf uchel,—“Hei, Elin, be sy wedyn?” Ond er mor dreiddiol oedd ei lais nid oedd John Evans wedi deall y frawddeg olaf, a thynnodd ei law dros gudynau euraidd Bobbie (yr oedd hyn cyn yr helynt torri gwallt) ac meddai,—“Da iawn, da machgen i.” Gofynnodd Bobbie i mi mewn ton ddigonus, ac yn ddigon uchel i fwy na ni ei glywed, pan ddaeth yn ei ol i'r sêr,—“Pam na fasa chi'n deyd wrtha i Elin?” “Hist,” oedd fy unig atebiad.

Ond y trydydd Sul o'u harhosiad y bu iddynt gyrraedd yr eithaf-

bwynt yn eu camymddygiad yn y capel. Yr oedd yn digwydd bod yn gwlawio ychydig pan yn amser cychwyn i oedfa'r bore. Ymysg dilladau ereill yr oedd gan y Ddau *capel* frethyn bob un yn cyrraedd bron at eu traed i wisgo ar dywydd gwlyb. Fel rheol, yr oedd ganddynt wrthwynebiad pur gryf i'r cyfryw ddilledyn o'u heiddo, a thrafferth fawr oedd eu cael i'w gwisgo; ac yr oeddwn yn meddwl y buasant yn gwneyd tipyn o gynnwrf cyn y cawswn eu rhoddi am danynt y bore hwnnw. Ond er fy syndod gofynnodd Bobbie i mi amser brecwast,—“ Rhaid i ni roid y *capel* heddyw, yn rhaid Elin?”

Bydd Miss Jones a Cati yn cychwyn i'r capel rhyw eithafol o gynnar, ac nid yn aml y byddaf yn barod ddigon buan i fyned i'w canlyn, yn enwedig pan oedd gennyf y gorchwyl o baratoi y fath rai a Bobbie a Willie. Hannah fydd yr olaf i adael y tŷ. Yr oedd yn ddeng munud i ddeg erbyn i mi orffen addurno y Ddau a fy hun y bore hwnnw, ac yr oedd gennyf y *capel* eto i roddi am danynt hwy. Pan yn botymu un Willie, cofiais fy mod wedi gadael fy menyf a fy hancaitsh boced ar y bwrdd yn fy ystafell, a rhedais i fyny'r grisiau, gan adael y Ddau yn y *lobby*, gyda'r gorchymyn i beidio symud na llaw na throed hyd hes y deun yn fy ol. Pan ddeuais i lawr edrychasent fel pe wedi ufuddhau i'r gorchymyn, a chychwynasom tua'r capel. Yr oedd y gynulleidfa yn canu pan gyrhaeddasom y drws. Yr oeddwn wedi meddwl tynnu y *capel* oddiam y Ddau cyn myned i mewn, ond yr oedd rhyw frys anghyffredin arnynt y bore hwnnw, ac yr oeddynt hanner y ffordd i lawr yr *alley* bron cyn i mi gael fy ngwynt ar ol dod i fyny'r allt at ddrws y capel. Cefais hwynt wedi eistedd yn daclus ym mhen draw y sêr erbyn i mi gyrraedd, a chymerais fy lle wrth eu hochr. Gan fod y pregethwr yn dechreu darllen nid oeddwn yn hoffi gwneyd cynnwrf i dynnu y *capel*, gan feddwl y cawswn wneyd hynny pan fyddent yn canu cyn y weddi, ac hefyd y cawswn newid fy lle er mwyn bod rhwng y Ddau, gan mai felly y byddent yn fwyaf diogel.

Yr wyf yn cofio mai yn y Brenhinoedd yr oedd y pregethwr yn darllen y bore hwnnw, ac yr oedd y bennod yn un dipyn yn faith. Sylwais fod y Ddau yn dechreu anesmytho, ac yr oeddwn yn dymuno yn fawr i'r emyn gael ei rhoddi allan. Gwelwn Willie yn rhoddi pwniad i'r llall, a chlywn ef yn dyweyd,—“ Tyd mi 'i dal hi 'rwan.” “ Na chei,” meddai Bobbie. Gafaelodd Willie ym mraich ei frawd, ond cyn i mi allu troi i roddi cerydd ddistaw iddynt, clywn swn fel cath bron a mygu yn ceisio mewian, a fflachiodd rhywbeth blewog gwyn o flaen fy llygaid. Prin y gallwn gredu fy llygaid pan welwn Titw yn sefyll ar ochr y sêr, a phob blewyn i fyny, yn edrych yn hynod gyffrous. Mae sêr Pen y Bryn yn agosaf at y sêr fawr, yn yr ochr, a chlywn i mi allu gafael yn y creadur dychrynedig, yr oedd

wedi rhoddi spring ar ysgwydd yr hen Evan Jones y blaenor, a ohlywn hwnnw'n gwaeddi,—“Yr andros fawr, be sy 'na, bobol?” O'r fan honno rhoddodd y gath spring ymhellach ar ymyl y pulpud, a neidiodd y pregethwr yn ol mewn dychryn. Un o fechgyn y coleg ydoedd; ac fel y rhan fwyaf ohonynt, dipyn yn wan ei *nerves*. Dywedodd yntau rywbeth, ni ddeallais beth. Mae yn debyg nad oedd mor eithatol a geiriau Evan Jones. Llwyddodd un o'r blaenoriaid i ddal Titw heb lawer ychwaneg o gynnwrf, a trosglwyddodd hi i Hannah i fyned adref.

Clywais Willie yn dweyd wrth ei frawd,—“Y peth gwirion, dasa ti wedi bod llonydd fasa hi ddim wedi neidio.” “Taw was, y chti ddaru 'i gwasgu hi,” atebai hwnnw. Ni ddywedaf fy mod wedi chwerthin y bore hwnnw yn y capel. Tra yr eisteddwn rhwng y ddau droseddwr bach ceisiwn gadw fy meddwl rhag crwydro at Evan Jones. Ni ddywedaf ddim am deimladau y ddwy Miss Jones ar yr achlysur, yr oeddnt tu hwnt i ddesgrifiad.

Ond nid oedd helyntion y Sabboth hwnnw drosodd gydag oedfa'r bore. Yr oedd Miss Jones, wrth weled Bobbie wedi methu dweyd adnod y Sul cynt, yn meddwl y buasai yn gallu cofio emyn yn well. Yr oedd ganddi sail i'r gred yma yn y ffaith ei fod yn medru adrodd nifer mor fawr o emynau; ac yn ystod yr wythnos flaenorol yr oedd wedi dysgu emyn fer bedair llinell iddo ei hun (yr wyt yn meddwl fod methiant Bobbie i ddyweyd yr adnod oeddwn i wedi ddysgu iddo, wedi tynnu llawer iawn o fy mri fel athrawes yng ngolwg Miss Jones). Cyn myned i'r capel y noswaith honno, yr oedd Bobbie yn cofio yr emyn ac yn ei hadrodd yn berffaith gywir. Pan ddaeth yr adeg i'w dweyd, yr oeddwn i, fodd bynnag, yn amheus parthed y doethineb o'i anfon i'r llawr gyda Willie. Yr oedd wedi cysgu a'i bwysau ar fy ochr drwy y rhan fwyaf o'r oedfa, ac nid oedd yn edrych yn hanner effro fel y gataelai yn llaw ei frawd. Sibrydai Miss Jones linell gyntaf yr emyn yn ei glust fel yr elai heibio iddi. Daeth tro Bobbie o flaen Willie y noswaith honno. A gellwch ddychmygu fel y teimlai teulu Pen y Bryn pan yr aeth drwy y geiriau canlynol gydag egni hollol anisgwyliadwy, fel y tybiwn, yn ei gyflwr cysglyd,—

“Cath Mary Roberts a chath Margiad Wynne,
Y ddwy jest a marw gan y frech wen;
Un yn gweddi mwrddwr, llall yn gwaeddi O,”—

Rhoddodd Willie bwriad iddo yn y fan hyn, a chafodd yr atebiad,—
“Be-saru di, was? Fel 'na mae hi.” A gorffennodd y llinell olaf,—

“Dowch Robert Spooner i ostwng y glo.”

Edrychai y plant eraill arno mewn syndod. Yr oedd John Evans

wedi deall rywfodd mai nid adnod oedd yn cael ei dweyd, a meddai gyda ei dynerwch arferol,—“Dyna hogyn da, emyn reid giws, yn te?” Yr oedd hyn yn fwy na fedrai hyd yn oed gynulleidfa barchus Salem ei ddal, ac aeth yn chwervthin cyffredinol.

Wrth fyned adref ceisiwn ddyfalu ai o fwriad yr adroddodd Bobbie y rhigwm hwnnw am y cathod ai peidio. Yr oedd yn swnio yn hynod bwrpasol ar ol digwyddiad y bore. Ni cheisiodd Miss Jones ganddo fyned i ddweyd adnod na phennill yn y seiat y Sul canlynol, ac yr oeddwn i yn deall yn awr paham na fyddai Bobbie yn cael y fraint honno gartref.

ODDI YMA AC ACW.

BETH YW TRAGWYDDOLDEB. Gofynnwyd i fachgen yn un o ysgolion rhad Ffrainc tua dechreu'r gauaf y gofyniad pwysig canlynol,—“Pa beth yw tragwyddoldeb?” Ei ateb yn unlongyrchol oedd,—“Einioes yr Hollalluog.

MYFYRGELL WORDSWORTH. Aeth gŵr dieithr unwaith i gartref y bardd Wordsworth i weled ei fyfyrgerll. “Dyma ei lyfyrgerll,” ebe morwyn y bardd, “ond y caeau yw ei fyfyrgerll.” Ai dyna'r rheswm fod cymaint o ddedwyddwch ym meddyliau Wordsworth?

DARLLEN HANES. Dywed Fuller, yn ei ddull tarawiadol ei hun, fod darllen hanes yn rhoddi inni bleserau henaint, heb ddim o'i boen.

CODIAD YR EHEDYDD. Dywedir mai nid yr ehedydd rydd y gân foreuaf. Dechreua rhai adar ganu ddau o'r gloch y bore,—a dechreua'r asgell fraith a'r melyneg ganu cyn y cwyd yr ehedydd.

ANGEL GWARCHEIDIOL. Dywed Syr John Lubbock mai cydwybod dyn yw ei angel gwarcheidiol. Dywed wrtho pan fydd perygl.

DIARHEBION EIDALAIDD. Yr Eidal, o bob man, yw gwlad diarhebbion y tu yma i'r dwyrain. Dyma rai ohonynt, o gyfieithiad Robert Bryan,—

“Pan gauo Duw y ffenestr, fe egyr y drws.”
 “A ad y ffordd dda, el ar ffordd arw.”
 “Dechreua di, gofala Duw am y gweddill.”
 “Di-serch i anifall, di-gariad i Gristion.”
 “Dall yw cariad, ond gwel ymhell.”
 “Gall cadwyn fach symud pwysau mawr.”
 “Mab di-ddolur, mam ddi-gariad.”
 “Lle mae tangnefedd y mae Duw.”

— Cytfeiriad y golygydd yw,—OWEN M. EDWARDS, LLANUWOBELLYN, Y BALA.

ARGRAFFWYD A CHEYRHOEDDwyd GAN HUGHES AND SON, 56, ROSE STREET, WARRICK.

CYSTADLEUAETH Y GWAWL ARLUNIAU.

CIAFWYD cystadleuaeth ddyddorol iawn. Bywyd llonydd ddarlunnir gan mwyaf,—ychydig iawn o ddim symudol sydd yn y darluniau. Yr oeddwn wedi disgwyl cael, nid yn unig yr afon lonydd neu y capel yn y wlad, ond gyrr o ddefaid neu alarch ar y llyn. Ond, fel y deallwch oddiwrth y darluniau fydd yn y rhifynnau nesaf, nid oes gennyf le i gwyno. Y mae ymysg fy narllenwyr arlunwyr medrus iawn.

Yn y dosbarth cyntaf yr wyf yn rhoddi y rhai sydd wedi dysgu cael *focus* wna'r darlun yn berffaith glir, wedi dysgu *developio* yr hyn sydd eisiau, yn lân ac yn daclus, ac wedi dysgu *tonio*.—maddeuer i mi am Gymreigio cymaint o eiriau Saesneg. Y mae y pethau hyn yn angenrheidiol cyn y medrir gwobrwyo. Yna daw chwaeth,—yr hyn sy'n penderfynu cymeriad arlunol y darlun. Y mae llawer gwrthrych, a llawer agwedd ar olygfa, nad yw'n ddymunol i'r llygad. Os golygfa, dylai fod yn un rydd orffwys i'r llygad. Gormod o *foreground* sydd mewn llawer o'r darluniau hyn. Dyma'r dosbarth cyntaf yn unig,—

CYCHWYN I DAITH. W. L. EVANS, Abergele. Gwaith glân, manwl.

YR HYNAP YN ABERGELE. J. L. EVANS. Gwaith da iawn eto.

PENTRE LLANDEBIE. D. REES, Pen y Groes. Golygfa eang, a chlir.

DYFFRYN YR YSTWYTH. R. J. THOMAS. Tlws iawn. Rhy unlliw.

CAPEL GOSEN. ISAAC THOMAS. Ychydig yn aneglur.

AR Y GAMLAS. J. E. EVANS. Golygfa brydferth. Gwall *developio*.

GOLYGFYDD YN LLANRWST. A. J. WILLIAMS. Gormod o *exposure*.

RHAIAFR CYNWYD. R. HUGHES. Rhy agos, *focus* amherffaith.

GŒR Y WYDDGRUG. E. PENRITH JONES. Darluniau da. Dim digon o unoliaeth yn y golygfeydd.

IN THE HIGHLANDS. F. CLARK. Gwaith da. Cysgodau rhy dduon.

PONT Y NANT. H. EARNSHAW. Pont a choed; ychydig yn aneglur.

PENRHOS LLUGWY. GAN Mynyddwt. Y *developio* braidd yn amherffaith.

STAG INN. DWY OLYGFA. T. LL. JONES. Yn *developio*'n bur anwastad.

CAPEL EIRIANELL. J. E. EVANS. Tarawiadol; gormod o *shade*.

YSGOL GANOLRADDOL BETHESDA. Rhy unlliw; rhy fach o *ddevelopio*.

CWM RHONDDA. W. D. LEWIS. Clir; ond *tonio* amherffaith.

CAPEL Y DYFFRYN. W. DAVIES, Taibach. Dymunol, ond rhy aneglur.

YSGUBOR BRYN SAITH MARCHOG. R. S. DAVIES. *Focus* anghywir.

Y mae'n anodd iawn pigo y rhai goreu. Rhannaf y wobr gyntaf rhwng W. L. Evans a J. L. Evans. Rhannaf yr ail rhwng F. Clark, Nannau, Dolgellau, ac awdwt darlun Llandebie, sydd yn y rhifyn hwn. Rhoddaf y drydedd i R. J. Thomas. Bydd gair am y gystadleuaeth hon yn y rhifyn nesaf eto.

Daeth darluniau tlysiion oddiwrth Dan Lewis, Cwmaman, yn rhy ddiweddar.



DARLUNIO HANES CYMRU.

O. H. Jones Cymru. 1063—1137.



GYDA'R IESU.

O MOR felus yw dy foli,
 Iesu anwyl, ar bob pryd;
 Dysg ni beunydd i dy garu
 Fel un mwy na'r byd i gyd;
 Casglu blodau dy rinweddau
 Fydd yn perarogli ein gwlad,
 Byw yr heddwch sy'n eu gwenau
 Fydd o hyd i ni'n foddhad.

Pan yn cychwyn ar dy lwybrau,
 Iesu, gwylia ni bob cam;
 O bydd beunydd â dy freichiau
Am amddifaid bach heb fam;
 Dysga ni i garu ein glydd,
 Hawdd i bawb dy garu di;
 Dysga ni i fyw ein crefydd,
 Dysga Gymru i gadw 'i bri.

BEN BOWEN.

DARLUNIO HANES CYMRU.

AR y ddalen gyferbyn gwelwch wr yn tynnu darlun o un o
 lecynnau hanesiol Cymru, dan gysgod un o hen gestyll
 Morgannwg. Y mae daear ein gwlad yn fud i lawer; ond y mae
 gan bob ardal ei hanes. Darlunio hanes Cymru hoffwn innau
 wneyd,—esbonio adfeilion ei chestyll a'i mynachlogydd,—fel y
 medrai pob plentyn wybod, os byddai awydd ddarllen arno, beth
 ddigwyddodd mewn cestyll sydd erbyn hyn, fel y castell acw, yn
 adfeilion llwm a mud.

Beth amser yn ol cyhoeddais lyfr bychan yn dangos hanes y Cymry hyd farwolaeth Gruffydd ab Llywelyn yn 1063. Yn hwnnw ceisiais adrodd hanes cyfnod maith,—dyfodiad y Cymry, y Rhufeiniaid, a'r Saeson i'r ynys hon. Rhoddais gipolwg ar Arthur, Maelgwn Gwynedd, Rhodri Mawr, Hywel Dda, a Llywelyn ab Seisyllt. Mewn ail gyfrol sydd newydd ei chyhoeddi,* yr wyf yn adrodd hanes cyfnod byrrach, sef o farwolaeth Gruffydd ab Llywelyn yn 1063 hyd farwolaeth Gruffydd ab Cynan yn 1137. Dyma gyfnod y Normaniaid, a chyfnod codi y rhan fwyaf o lawer o'r cestyll y gwelwn eu holion eto hyd Gymru. Yr wyf yn ceisio dangos pwy gododd bob un ohonynt, a beth enillodd. Er nad yw cyfnod y gyfrol ond cyfnod tyr, y mae llawer o Gymry dyddorol ynddo,—Bleddyn ab Cynfyn, tywysog Powys; Trahaiarn, tywysog Arwystli, gwmpodd ym Mynydd Carn; Gruffydd ab Cynan, un o wŷr mŵyaf Cymru; Rhys ab Tewdwr; Cadwgan ab Bleddyn. Ymysg cenhedlaeth iau y mae Owen ab Cadwgan, a'i hanes fel rhamant; Gruffydd ab Rhys ardderchog; ac Owen Gwynedd. Ymysg y Normaniaid y mae Huw Flaidd, Huw Goch, Robert o Ruddlan, a Robert o Felesme. Ymysg y merched enwog y mae Mabel greulon, Nest brydterth, a Gwenllian arwrol. Gorfenna'r gyfrol gyda brwydr fawr Aberteifi, a marwolaeth Gruffydd ab Cynan a Gruffydd ab Rhys,—tywysogion De a Gogledd,—yn yr un flwyddyn, sef 1137. Ceir cipolwg ar Owen Gwynedd yn dechreu teyrnasu.

Y mae'n gyfnod dyddorol a phwysig iawn. Dymunais fedru rhoddi ei hanes yn glir a deniadol o flaen ieuenctyd Cymru. Hwyrach y tybia rhywun fy mod, wrth ysgrifennu hyn, yn canmol fy ngwaith fy hun. Nid hynny yw fy amcan, ond galw sylw at lyfr sydd, er ei holl ddiffygion, yn ceisio esbonio cestyll ac eglwysi a beddau welwn o'n hamgylch yng ngwlad ein genedigaeth.

—◆◆◆—

DAU DDYCHYMYG.

BETH sydd mewn môr na cheir mewn mynydd,
Mae mewn afon ond nid mewn gweunydd?
Gwelir ef mewn llong ac angor,
Ac fe'i ceir bob dydd ym Mangor. *Ateb*,—O.

Beth mewn tŷ nad yw mewn palas,
Sydd mewn tlodi ond nid mewn urddas,
Mae mewn teulu ac mewn talaeth,
Ond mae'n estron i farddoniaeth? *Ateb*,—T.

Llangoed.

P. OWEN

HUW AP IOAN, &c.

* HANES CYMRU. Rhan II. 1063—1137. Gan Owen M. Edwards. Llan, darluniau, 124 tud. 1/6. Caernarfon, Swyddfa Cymru.



PLANT CYMRU. CXVIII. KHAI O BLANT Y WYDDGRUG.

DOSBARTH O YSGOL SUL, PENTRE, Y WYDDGRUG.

YR oedd y plant a welir yn y darlun yn paratoi ar gyfer Arholiad Ysgrythyrol Sir Fflint, 1898, a llwyddodd pedwar ohonynt i ennill gwobrwyon y sir, a bu yr un nifer yn llwyddiannus i ennill gwobrwyon y sir eleni hefyd. Cychwynwyd yr ysgol oddeutu deng mlynedd ar hugain yn ol mewn tŷ annedd, ond erbyn heddyw mae capel bychan del wedi ei adeiladu, a rhif yr aelodau yn 247.

Mae yr Ysgol Sul yma, fel ymhobman arall, wedi gwneyd anrhaethol les i'r gymydogeath. Mae y Parch. J. Owen yn cynnal cyfarfod rheolaidd bob wythnos yn ystod tymor y gauaf,—â llwyddiant amlwg.

Yr arolygwr presennol yw T. Parry, Ysw., Cadeirydd Cyngor Sir Fflint,—mae yn athraw yno ers dros 26 mlynedd.

Ar y chwith yn y darlun gwelir Mr. J. Owen, Wylfa, ac ar y dde Mr. D. Arthur, Wyddgrug, dau o'r athrawon.

Tynnwyd y darlun gan un o blant yr ysgol, set Mr. J. R. Colli



YR EIRA.

O EIRA mân, pam deui di
 Mor wyn a glân i'n daear ni?
 Ai dod 'r wyt o orielau'r nen,
 I ddweyd mor bur yw'r nefoedd wen?
 Mil croesaw iti, eira gwyn,
 Roi mantell dlos dros ddôl a bryn;
 Teyrnasi'n esmwyth wrth ein drws,
 Fel ymherawdwr popeth tlws.

A yw dy balas eira mân,
 Ar fin rhodfeydd angylion glân?
 Ai heibio'th gartre'n llon eu llef
 A'r saint i orseddfeinciau'r nef?
 A glywaist ti wrth ddod i lawr,
 Swn aur delynau'r dyrfa fawr,
 Sy'n canu mewn ysprydol hoen
 Ar fryniau byth-wyrdd byd heb boen?

Mor ysgafn y gosodi'th droed—
 Un tyner iawn wyt ti erioed;
 Ai ofni torri 'r wyt ar hedd
 Y blodau hunant yn eu bedd?
 Yn llon disgynni yn dy bryd,
 Fel blodau bendith ar y byd;
 Ceir gweld medelwyr ar ol hyn
 Yn canu am y gwenith gwyn.

Gwyn fyd na byddem ar ein taith,
 Fel ti yn harddu'r byd â'n gwaith;
 Prydferthwch yw dy nôd o hyd—
 Yn brydferth y dilladi'r byd;
 Wrth wisgo'r ddaear yn ei gwen,
 Gwnei ddarlun tlws o'r byd uwch
 ben;
 O na bai llwybrau'n llywyd ni
 Mor wyn a glân a'th lwybrau di.

Y Balas

RICHARD AB HUGH.



Y DDRAENOG GARTREF.

CARTREFI EIN CYMYDOGION.

XI. CARTREF Y DDRAENOG.

MAE gan y ddraenog bigau yn lle blew; ac y mae giau yn ei chroen fel y medr hel ei hun iddo fel i bwrs, a bydd fel pel gron a phigau drosti. A dyna fel y mae yn amddiffyn ei hun.

Ymysg cerrig mawr, mewn rhyw ddyrysni, y mae cartref y ddraenog. Erys yno yn y dydd, ac aiff allan i dorri ei newyn mawr yn y nos. Bydd yno bump neu chwech o rai bach. Genir hwy yn ddeillion ac yn fudion, a'u pigau'n ystwyth. Ond y mae eu cartref o olwg pob gelyn, nes y deuant i glywed a gweled, ac nes y tyf eu pigau.

Gwelwch eu bod ar ginio yn awr. Pryfed a chwilod, fel y gwelwch, yw eu bwyd. Gallant fwyta eu llond o chwilod heb fod ddim gwaeth; ond pe bwytai ci neu gath un ohonynt, caent y poenau mwyaf dirdynnol. Bwytant lyffaint hefyd, a chyhuddir hwy o hela ysgytarnogod weithiau. Ar ol y prytaid, hoffant gael firwythau, yn

enwedig afalau. Ond pa fodd y medr creadur mor fychan gael afalau? Aiff i'r berllan, a gwel afalau wedi syrthio oddiar y coed. Ymroliâ hyd lawr, a chydia rhai o'r afalau yn ei bigau. Yna rhed adre'n llawen, dan faich o afalau addfed.

— — — — —
COFIANTAU BYRION.



CLAUDIA,—bu farw Chwef. 18, 1899. Pum mlwydd oed oedd, a merch i Mr. a Mrs. John Leeke, Longbridge, ger Birmingham. Yr oedd yn hynod o gyflym i ddysgu pob peth, yn Gymraeg a Saesneg, ac yr oedd wedi ennill amryw wobrwyon am adrodd Cymraeg a datganu. Yr oedd ei chydnyddion yn addaw iddi ddyfodol disgleaer; cafodd ddyfodol disgleiriach nag oedd yr un ohonynt yn ei ragweled. Cafodd wythnos o gystudd caled, a chroesodd yr afon dan ganu emyn Cymraeg,—

“Dechreu canu, dechreu canmol.”

Canodd y Parch. D. Lloyd (*Llwyd o'r Nant*), Cwmrhos, Brycheiniog, farwnad fechan iddi, yn yr hon y dywed am dani,—

“Tyf fry ymhlith
 Gwanwynol flodau gwlad y dydd,
 Dan hudol wenau haf a'i enwog wllith,
 Ger porth y Palas gwyn.”

— — — — —
Y GORON DEG.

Ea cof am Ritchie, anwyl fab Evan a Jane Evans, Llwynderw, Penmorfa, yr hwn a fu farw yr 20fed o Awst, 1899, yn 19 mlwydd oed.

Nid coron arian ydoedd yn tynnu sylw byd,
 Nid coron ddail na blodau chwaith, na choron berlau drud,
 Rhinweddu a gyd-blethwyd i un o fechgyn Duw.—
 Doethineb, dysg, a chrefydd wnaed yn goron deca'i lliw.

Enillwyd hon gan Ritchie,—y llanc a garem ni;
 Er pan yn blentyn, byddai ef yn hoff o'i gwisgo hi.

Am bedair blwydd ar bymtheg ei chadw'n lân wnaeth ef,
 A'i thegwch yn cynhyddu fel gwawr yn uwyrain-naf.

Cymerodd Rhyfann ymâith y goron brydferth hon,
 Ac ynom am ei thegwch glân mae hiraeth fel y don

Cawn fynd at feddrod Ritchie i Lanfhangel draw,
 A deigr yn ein llygaid, a choron yn ein llaw,—
 Coron o barch,—i'w rhoddi wrth fedd y pur ei foes;
 Ond nid wrth fedd y goron deg enillodd yn ei oes.
 Mae honno ganddo eto, mewn palas euraidd pell;
 Mae'n goron decach erbyn hyn, ac yn prydferthu'n well.
 Mae'n "goron bywyd" heddyw, nid ofna fedd na chlwy;
 Mae'n "goron y gogoniant" pur, aniflanedig mwy.

Blaenau Ffestiniog.

T. LLOYD JONES.

GARDD YR ARLWYDD.

HANESYN I BLANT O WYTH I DDEG OED.

Cyfeithiedig o waith Coulson Kernahan, gan J. H. Roberts, A.C.P., Casnewydd ar Wysg.

PENNOD I.

YR oedd yn ganolddydd haf yn yr ardd, ac mor boeth fel y gellid gweled yr awyr yn dychlamu a chrynu uwchben y llwybrau graianog mewn tawch tonnog o wres. Tynnai hyd yn oed y gloyn byw ei anadl yn lluddedig; a grwgnachai oherwydd i ysgogiad y glaswellt gynhyrchu chwa boeth, tebyg i agoriad ffwrn. Ymddanghosai yr haul yn hynod agos, ac ymdrechai mor galed i fod yn boeth, nes y dywedai blodau llygad y dydd y gwelent ef yn ymestyn a lluddedu fel y safai uwch eu pennau; ond tebygaf nad oedd hyn ond eu dychymyg hwy, er digon gwir y tywynnai mor agos uwchben, fel nad oedd un esgus o gysgod yn unman, lle gellid ymguddio rhag y gwres tanbaid. Pendrymai yr holl flodau yn sychedig, ac nid oedd swm yn y byd yn cyffroi y distawrwydd mwell, ond ambell *buzz* rhyw wenynen a ehedai yn gysglyd heibio, neu a gladdai ei hun gyda *burr* o foddlonrwydd yng nghanol rhyw flodeuyn melus.

Ar unwaith dyna gynnwrf ymysg yr adar. Rhyw gath a fu am amser yn ymheulo a chānchwyrnu, gan agor a chau ei llygad yn awr ac eilwaith, i geisio dangos nad oedd yn gysglyd, oedd wedi syrthio i hepian, ac yn awr a ddeffroai gan agor ei phen ac ymestyn, nes achosi cyffro cyffredinol. "Whew! mae yn boeth wir!" meddai y gloyn byw, fel yr ymsaethai i fyny i ymestyn oddiar ben pabi (*poppy*). lle bu yn eistedd, ac yna dawnsiai yn onglog i lawr rhodfeydd yr ardd, gan addurno gwyrd-dlinellau hirion pren bocys yr mylon â dolennau o borffor ac aur. "Hyderat na wna fy mhwysau niwed i chwi," meddai gyda choeg foesgarwch wrth y lili, gan ddisgyn, heb aros atebiad, ar ei phen teg, yr hwn a grymai yn nychlyd dan y baich newydd, nes peri i lawer deilen bersawrus ddisgyn yn lluddedig i'r llawr.

"Drwg gennyf eich canfod yn edrych mor brudd," ychwanegai pan wedi sefydlu ei hun wrth ei fodd; "ond beth yn y byd a bwr i

chwi ymgrymu ymlaen mewn ystum mor anghyfforddus? Mae yna lecyn hynod gysgodol yn ochr y mur tu cefn i chwi; pahan nad ymgrymwch at yna? Fel yr ydych, ewch allan o'ch ffordd i wneyd eich hun yn anghysurus. Heblaw hynny, llawer gwell gennyf fi tyddai cael bod allan o'r gwres."

"Byddai yn falch gennyf allu symud i'r cysgod," meddai y lili yn dyner, "ond syrthiodd fy nghariad, y rhosyn, i gysgu ar yr ymyl, ac yr wyf finnau yn ymestyn drosti i gadw ei blagur rhag yr haul."

"Yr ydych yn hynod swynol!" meddai y gloyn yn floesg a choeglyd, ac mewn tŷn o ddirmyg moesgar, a awgrymai yn ychwanegol, "ac O'r fath ynfydrwydd, ond braidd yn amryw yw eich syniadau, chwi wyddoch; er wrth gwrs, yn bur ddyddorol. Hawdd gweled nad ydych wedi ymwneyd llawer â'r byd. Pan tyddwch wedi teithio oddiamgylch, ac wedi dysgu gymaint ag wyf fi, deuwch i edrych ar bethau mewn dull pur wahanol."

"Ie! yr ydych chwi wedi teithio, ac wedi byw yn y byd, a gweled llawer," dywedai y lili; "ond yr wyf fi wedi caru; a thrwy garu yn ogystal ag wrth fyw y mae dysgu."

"Na ryfygwch areithio i mi!" oedd yr atebiad amhwylog. "Blodeuyn yn gweled bai ar loyn byw! Ai nid gwybyddus gennyf fy mod i yn llawer uwch na chwi ar raddfa bodolaeth? Ond dywedwch i mi, a ydyw y cariad yma, y soniwch am dano, yn dwyn hapusrwydd i chwi?"

"Yr hapusrwydd mwyaf oll," sisialai y lili, braidd wrthi ei hunan, a chyda thynnerwch anfeidrol—ei chlychau gwynion fel pe yn goleuo, ac yn gorlenwi, megis llygaid dynol, tra y siaradai. "Caru yn gywir, a chael ein caru, sydd yn wir ran o ffatr y nefoedd. Holl oreu bethau y byd, nid ydynt deilwng i'w cynnyg fel cyfnewid am gariad un galon ffyddlan."

"Rhaid i mi ddysgu caru ynte," meddai yntau yn benderfynol, "gan mai fy ngwrthrych parhaus ydyw hapusrwydd. Dywedwch wrthyf pa fodd i ddechreu."

"Rhaid i ti ddechreu trwy *ddad*-ddysgu," meddai dahlia dwbl mawr a safai fel gwyllydydd yn ymyl, gan ymsythu mor ffoenuchel a phe newydd ei benodi yn heddeidwad ar fiodau yr ardd.

"Paid ti a meddwl y syrthia neb mewn cariad a thi," atebai y gloyn yn ddirmygus, gan droi yn ol a blaen ar gloch y lili, "yng ngardd y cefn y mae dy le di, ymysg y lludlwys (*artichokes*) a'r cucumerau. Y mae rhywbeth yn ardderchog yn ymddanghosiad peneuraid gwyn (*white chrysanthemum*), ac y mae y dahliau unplyg yn ddigon lluniaidd, ond am danat ti!—" a chymerai y gloyn arno ymysgwyd gan serhad, nes peri i'r dahlia sythu twy fyth ar ei gorseth gan ffyrngwydd.

“Pa fodd y meiddi di siarad mor ddiystyrllyd am fy nheulu?” meddai yn lliidiog, “ac am y peneuraid yna! maent fel pellennau drysiedig o edafedd, neu yr hen gi bach blewog Skye hwnnw a welwn weithiau yn yr ardd. Hen bethau talpog, dilun, ac anhrefnus y galwaf fi hwynt.”

Ni chymerai y gloyn fawr sylw o'r hyn ddywedai y dahlia, ond agorai a chauai ei edyn bob yn ail, fel pe meddyliai fod golwg barhaus ar y fath oreuraid yn ormod i'w ddal; ond mewn gwirionedd er dangos, yr hyn a wyddai yn dda, fod lliwiau tywyll a arddanghosent pan yng nghauad yn ychwanegu llawer, trwy wrthgyferbyniad, at wychder eu lliwiau pan yn agored.

“Ac wedi'r cwbl,” meddai, gan droi ei gefn yn sarhaus ar y dahlia, a rhoi clap derfynol ar ei edyn—yn debyg fel y caua rhyw foneddiges deg ei gwyntyll—“wedi'r cwbl, fy anwyl lili, nis gwn a fyddai o unrhyw werth i mi ddsygu caru; oherwydd erbyn yr adeg yma y flwyddyn nesaf, byddaf fi a chwithau wedi marw, a bydd yn hollol yr un fath i ni y pryd hynny a phe heb garu, ac yn wir heb fyw, erioed.”

“Nis gwn ddim am farw,” atebai y lili, “ond amhosibl ydyw i un caru amheu anfarwoldeb, ac os nad yw y rhosyn a minnau yn anfarwol yn barod, credaf y bydd i'n cariad ein gwneuthur felly.”

“Beth yw yr anfarwoldeb yma?” gofynnai y gloyn. “Clywais y gair yn cael ei ddefnyddio yn lled fynych yn ystod fy nheithiau, ond nis gwybum erioed ei ystyr yn gyflawn.”

“Tybiaf mai cael drachefn ar ol marw y rhai a garasom ac a gollasom; a'u caru, a byw gyda hwynt am byth,” atebai ei gydymaith.

“Nid wyf yn credu y gwyddoch ddim am dano,” meddai y gloyn yn bendant. “Byddai yr holl ddynion a merched a gyfarfyddais i yn defnyddio geiriau llawer mwy am dano—ac fe ddylent hwy wybod.”

“Efallai eich bod yn gywir,” atebai y lili yn dawel, gan blygu ei phen i gysgodi rhosyn egwan rhag yr haul crasboeth, “ond byddai cael bod am byth yng nghwmni y rhai a garaf yn ddigon o anfarwoldeb i mi. A chlywais y ferch ieuanc a ymlwybra yn yr ardd yn siarad ddoe, a chofus gennyf iddi ddweyd fod caru un plentyn bach yn bur ac anhunanol yn llawer mwy dwyfol na meddu ar galon wedi ei llenwi â myrdd o ddeheuadau eang gweigion am bethau nas gallwn eu gwylbod na'u deall.”

PENNOD II.

Mor hynod dawel ydoedd yn yr ardd. Yr oedd yr haf wedi myned, a Hydref braidd ar ddarfod; ond bu yn ddiwrnod mor glir a chynnes fel y dywedai pawb fod y gauaf eto ymhell. Ond er pan fachludodd yr haul, teimlai yr awyr yn oerach; disgleiria i y ser fel dur oer, ac edrychai y lloer mor fawr a disglauer, nes anghwdd

gan y blodau a ddeffroisiant gan boen rhewllyd wrth eu calonnau gredu mai nos ydoedd, gan fod pob gwelltyn a blodeuyn yn dangos allan gydag eglurder anghyffredin ar y glaswellt. Yr oedd rhyw sawr miniog yn yr awyr, a distawrwydd neillduol ym mhobman. Nid oedd swyn yn y coed, nac ysgogiad yn eu brigau, ond safai popeth yn syth a disymud fel pe yn clustfeinio yn bryderus.

"Efallai eu bod yn gwrandaw am droediad cyntaf y gauaf,—y gauaf sydd yn nesu i'n lladd," meddai y lili yn brudd, gan blygu i lawr i ymblethu yn amddiffynnol o amgylch y rhosyn.

"Efallai ein bod yn barod i farw, atebai y rhos gan grynu, "ac nad ydym ond ysbryd-flodau mewn gardd o ysbrydion. Mor oer a gwelw yr ymddengys fy nail yn y goleu llwydaidd yma. Ai y lle yma—llwyd, distaw, a llonydd fel angau—ydyw ein gardd heulog, bersawrus, a ddisgleiria i gan liwiau tyner, ac a fyddai byth yn llawn o tywyd?"

Cyn y gallai y lili ateb, clywid gwaedd ddisymwth o boen. Y gloyn ydoedd, a syrthiasai fel marw, gan yr oerfel, oddiar gangen gerllaw, ac a orwedda i, yn awr, yn rhyllid a digysgod, ar y llwybr rhewllyd.

"Ymlusga i tyny ar fy nail i, y gloyn anwyl," meddai y lili yn dyner fel yr ymgrymai yn agos ato, "a cheisiaf gael lle cynnes i ti yn agos at fy nghalon."

"O mae arswyd arnaf! mae arswyd arnaf!!" ocheneidia. "Y mae y byd yn trengu. Yn awr ymddengys y coed yn llonydd a marw. Yn fuan fe gwmp y ser o'r awyr i'r ardd. A adewir ni yn y tywyllwch pan ddiffydd y lleuad? Y mae ei gwyneb yn welw ofnadwy, er ei bod yn tywynnu mor ddisglaer. Beth ddigwyddodd i'r coed? Ar bob cangen disgleiria miloedd o fân oleuadau. Ai ser wedi disgyn o'r awyr ydynt?"

"Na nid ser mohonynt," atebai y lili, gan blygu drosto, a'i suo at ei chalon fel y cysura mam ei baban ofnus, "ond diamondau i goron y Brenin Rhew ydynt. 'Rwyf yn meddwl ein bod i farw heno. A wyt ti yn cysgu, fy anwyl ros? Mae y diwedd yn dod. Gad i ni ei gyfarfod yn effro, ac ym mreichiau ein gilydd."

"Y mae yn dod, fy nghariad, ac yn dod yn gyflym," atebai y rhos gyda chri. "Braidd y gallaf siarad gan y boen. Mae y nos yn myned oerach, oerach, ac O! mor hynod oleu ydyw y lleuad. Beth oedd y llinell arian yna ar draws y ffurfaten? Ai seren a syrthiasai o'i lle?"

"Credaf mai yr angel disglaer a enfyn Duw i'n cyrchu," atebai y lili.

"Fy anwylid hoff, bydd y diwedd yma gyda hyn. Mae y boen yn barod wedi cyrraedd fy nghalon. Yr wyt yn dechreu marw yn barod."

"A minnau hefyd," meddai y rhos. "Suddaf! llewygaf! Mae"

y boen yn pigo ac yn brathu. Dal fi yn dŷn, f'anwylyd. Braidd y gallaf dy weled."

"Na finnau dithau, fy hoff un."

"Dal fi yn agosach, agosach. Mae pob peth yn cilio ymaith."

"Pob peth ond cariad, fy anwylyd, a lle y mae cariad mae popeth. Cawn farw ynghyd."

Oerach ac oerach yr elai yr hin. Gwynnach a disgleiriach y tywynnai y lloer ar yr ardd, nes ymddanghosai cysgod blodeuyn yr haul fel pren du'r India ar arian ar hyd y glaswellt. Mwy rhewllyd fyth y disgleiriai y ser drwy yr awyrgylch glir, ac agosach at galon y blodau yr ymgripiai y boen; a thrwy yr hirnos safai y coed distaw yn syth a disymud, ond ni chlustfeinient yn hwy, gan fod y gauaf yn wir wedi dod, gan addurno pob cangen â gemwaith o rew grisialaidd.

Pan wawriodd y bore, yno gorweddai y gloyn yn fythol farw; tra blodeuai y lili a'r rhosyn yng NGARDD YR ARGLWYDD, yn decach eu gwedd na'r holl flodau ereill.

CHWAREU GYDAG ARTH.

BUM unwaith yn teithio mewn gwlad ddieithr. Ni ymhoffais rhamantus. Ni charwn ychwaith gael fy nghylcharwain i sylu a rhyfeddu at y peth yma a'r peth arall fel y rhoddid gorchymyn i mi. Hoffwn gerdded trwy bentrefydd tawel i wyllo arterion y bobl gyffredin. Un noswaith, cyrraeddais Lan ddinod, a gwelais ar unwaith fod rhywbeth rhyfedd wedi digwydd yno i beri cyffro ymysg y bobl, a chefais yr hanesyn canlynol.

Heddyw, tua chanol dydd, daeth dyn pryd tywyll i'n pentref gan arwain arth oedd ganddo yn foddion cynhaliaeth iddo. Teithiodd ymhell, a golwg lluddedig oedd arno. Aeth ar ei union i westy, gan adael yr arth a rheffyn am dano, yn rhwym oddiallan heb neb i ofalu am dano, er ei fod yn ffyrnig iawn. Wedi cael tamaid i fwyta, syrthiodd y dieithr ddyn i drwmgwsg, ac anghofiodd bopeth am yr arth.

Ymhen arall y pentref, yr oedd tŷ bychan ar ben ei hun, lle y trigai mam a thri o blant bach. Aeth y fam y prydawn heddyw i'r pentref ar neges, gan adael y tŷ yn hollol yng ngofal y plant. Nid oedd yr hynaf ohonynt ond chwech oed, a'r ieuengaf yn dair. Chwareuent â'u teganau yn ddi-ddan, a mwynhaent eu hunain heb na gofid na braw. Cyn pen hir clywsant dwrw rhywbeth yn dod i'w fyny'r grisiau. Neidiasant i fyny i wybod beth oedd y mater; ond cyn iddynt gyrraedd y ffenestr, gwthiodd y drws yn agored, a daeth

yr arth fawr, hirflewog, i mewn. Blinasai aros wrth y gwesty, a chan dorri y rhwymyn, crwydrodd yn ddisylw drwy'r pentref nes cyrraedd y tŷ unig hwn yr ochr arall, a mentrodd i fyny y grisiau, ac ymwithiodd drwy'r drws.

Dychrynnodd y plant, a rhedasant un i bob congl o'r ystafell. Cafodd yr arth hyd iddynt, aeth atynt ac a'u ffroenodd; oad ni wnaeth ddim niwed iddynt. Pan welsant hynny, dechreuasant fod yn fwy siriol, a gwaeddodd un ohonynt,—“Ci mawr yn siwr yw,” a chan dynnu ei ddwyllaw bach hyd-ddo, rhoddodd anwes i'r arth. Daethant yn wrol allan o'r conglau i ganol yr ystafell. Dechreuodd y lleiaf ohonynt ddawnsio a chwareu, gan guddio cudynau ei wallt eurfelyn yng ngwisg hirflew yr arth. Gafaelodd yr hynaf mewn *drum*, a dechreuodd ei guro. Cododd yr arth ar ei deudroed ol, a dechreuodd ddawnsio. Yr oedd pawb wrth eu bodd, ac yn ymbleseru yn eu gilydd. Cymerodd pob un ffon, a chan ei rhoddi ar ei ysgwyddau fel gwn, cerddasant yn ol a blaen gan waeddi,—“Un, dau, un, dau.” Dilynai'r arth hwy yn fanwl a gofalus.

Ar ganol y chwareu, dacwr'r drws yn agor, a mam y plant yn dod i'r tŷ. Golwg gwyllt ac ofnus oedd arni. Yr oedd ei llygaid yn fflachio fel mellen, a'i gwyneb yn llwyd. Edrychai yn syn ar yr olygta. Mae'r ieuengaf o'r plant yn ysgwyd ei ben ar ei fam, gan gerdded ymlaen yn reit foddllawn, a dweyd tel y gallai yn ei iaith ei hunan,—“Mam, sut ydach chwi yn ein leicio ni yn chwareu milwyr bach?”

P'W DDARLLEN YN DDIFYFFYR.

DDOE gwelais arth yn chwarel y Becyn gweithia llawer o ddynion clai sydd ddefnyddiol i wneyd uwd rhaid cael blawd ceirch o'r India dygir llawer o nwyddau direswm yw yr anifail feŷ ymladdwr rhagorai William Gladstone oedd enwog am ddaŷ gwningod carcharwyd y dyn yn siop Mary Jones gwerthir cig chwain sydd greaduriaid nerthol yw gwynt yn senedd Prydain gwelais Arglwydd Salisbury wedi meddwi yr oedd y dyn yn nofio gwelais long ar ben y Wyddfa ceir golygfeydd godidog ar chwareuon yr oes y darlithiai y gŵr parchedig ar gefn mul gwelais fy nain rhwng America a Spaen bu rhyfel heddwch fo arwyddair teyrnaoedd y byd.

Caim, Penmon.

IOAN JONES.

Yn y lle crwn gwelir darlun “Rhyfel.” Yr ydym mewn rhyfel â'r Transvaal ar awr. Bydd darlun “Heddwch” yn un o'r rhifynnau nesaf.

URDD Y DELYN.

Y RHEOLAU.

1. Dyegu starad ac ysgrifennu Cymraeg; darllen rhan o'r Beibl Cymraeg, neu ryw lyfr Cymraeg arall, bob dydd, ac ysgrifennu Cymraeg o'i gyfansoddiad ei hun.

2. Astudio hanes Cymru, a gwneyd ei oreu i godi ei wlad, fel y byddo Cymru fydd yn well na'r hen Gymru.

3. Dyegu canu'r delyn, os bydd hynny yn y cyrraedd; a dyegu alawon Cymreig.

4. Byw, hyd y gall, yn ol dysgeidiaeth yr hen Gymry gynt, mor bell ag y mae'r ddysgeidiaeth honno'n un a dysgeidiaeth Crist. Y mae'r ddysgeidiaeth honno'n gofyn purdeb, cariad at addysg, carodigrwydd at dilyn, addfwynder at greaduriaid direswm, iaith ddihalog.

AELODAU NEWYDDION.

- 1170—1172. David, Nellie, Kate Jones, 19, Thackeray St., Lerpwl.
 1173, 1174. Serena a Catherine Jones, Ty Berwyn, Towyn.
 1175, 1176. Kerris a Garth ap Thomas, Llanfairfechan.
 1177—1182. T. Leigh, D. J., J. W., Jones, Blaenplwyf Isaf; John a Thomas Davies, Blaenplwyf Uchaf; E. Murphey, Llwyn Cnau,—Llanbedr Pont Stephan.

GWEN.

GENETH fechan Mrs. Ann Evans, Caerllanbach, Pennal, yr hon a fu farw Awst, 1899, yn wyth mlwydd oed, oedd Gwen.

Yr oedd yr eneth fach, y cenir ei choffa, yn aelod ffyddlon a bywiog o Urdd y Delyn yma. Yr oedd ganddi liaws mawr o'r Diarhebbion o'r llyfr bach ar gôf, a mwy na mwy o emynnau ac adnodau, ac yn awyddus bob amser i gymeryd rhan mewn adrodd yn ein cyfarfodydd. Mae ei chydgyfoedion yn son gyda serch a hiraeth am dani. Byddai yn wastad yn llawen, a gwên fel y dydd yn dawnsio ar ei gwyneb cariadol tlws, a'i phen dan guwd o fiodau'r eithin. Bu farw yn sydyn o'r *diphtheria*. Bu farw ei thad rhyw chwech wythnos yn flaenorol iddi. Hi oedd yr aelod gyntaf o Urdd y Delyn yma i farw.

Gawn ni eto gwrdd i ganu
 A'r anwylyd dlos?
 A ddaw terfyn i alaru
 Ar fynyddau'r nos?

Gawn ni glywed Gwen yn adrodd,
 Heb un oslefr drist,
 Yr adnodau ieuanc ddysgodd
 Gynt, am Iesu Grist?

Clywaf Sicrwydd gwyn yn ateb
 Dros y bryniau pell,
 A llawenydd ar ei wyneb,—
 "Cawn, yn sanctaidd well."

Pennal.

Llewyg sydd dros Urdd y Delyn
 Am ei melus dant;
 Crynna Siom ei hiraeth-nodyn
 Yng nghalonau'r plant.

I fy nghwrdd yn lân a phrydlon
 Rhedai at y drws,
 Gyda rhes o ddiarhebbion
 Ar ei llafar tlws.

Y mae gwawr "yr ail gyfarfod"
 Yn dyddhau uwch ben
 Llecyn cysegredig beddrod,
 Hansell olaf Gwen.

Gwilym Dyfi.



PLANT CYMRU, CXIX PLANT LLANYSTUMDWY.

GOBEITHLU MORIAH, LLANYSTUMDWY.

AR y ddalen gyferbyn gwelir darlun o Obeithlu Moriah a'i chefnogwyr. Yn eu mysg y mae Mary Jones,—y bellaf ar yr aswy, a Maggie Jones-Roberts, sydd uwchben y bychan gwyn yng nghanol y darlun, y rhai sydd wedi cipio prif wobrwyon yr Arholiad Sirol allan o gannoedd o ymgeiswyr.

Yn wir, pa ardal yng Nghymru all gystadlu â Llanystumdwy am rif ei henwogion? Ymysg ei harwyr ceir Owen Gruffydd, Robert Jones Rhoslan, Nicander, Dewi Wyn, Rhobert ab Gwilym Ddu, ynghyda llu ereill. Ym mhen uchaf y darlun ar y chwith, mae E. Griffith; yna Evan Elias, arolygwr yr Ysgol Sul; yna yr ysgrifenydd, T. P. Elias; yna trysorydd y côr, G. J. Williams; yn nesaf ato, John Roberts, y diacon hynaf, a rhwng y ddau fachgen sydd yn y pen canfyddir Christmas Jones, arweinydd medrus y gân yn y lle. Mewn pasio yr Arholiad Cerddorol ynglŷn â'r Gymanfa Ysgolion ddiweddaf, yr oedd tystysgrifau a gwobrwyon Gobeithlu Moriah yn gymaint a rhai yr holl ysgolion ereill gyda'u gilydd. Mae hynny i'w briodoli yn gwbl i lafur y brawd dihymongar Christmas Jones. Mewn aml i gystadleuaeth gerddorol lled bwysig, ceir y plant hyn yn orchfygwyr.

NADOLIG HEDDYCHOL.

DYWEDIR mai y lle tawelaf a hytrytaf i dreulio Nadolig yw ar fin cyfandiroedd ia tragwyddol y pegwn deheuol. Gwyn sidanaidd yw pob peth yn y bore,—gwyn yw'r cyfandiroedd eira, gwyn yw'r adar sy'n nofio yn yr awyr glir uwchben. Pan gyfyd yr haul, troir môr ac eira a chwmwl yn lliwiau gogoneddus. Y mae'r awel yn falmaidd, mor iach fel y tybia yr hwn a'i hanadlo nad oes marwolaeth iddo. Y mae'r distawrwydd yn berffaith, oddigerth cyfarthiad pell rhyw forlo, neu swn cwmp rhyw ddarn o fynydd ia i'r dŵr. Oer, gwyn, breuddwydiol, prydferth y tu hwnt i allu geiriau i'w ddesgrifio, ydyw yno.

DYFNDER RHEW.

NIDYR rhew, ar auaf cyffredin, yn ein gwlad ni, yn treiddio mwy na throedfedd i'r ddaear. Ar hin galed a rhewllyd eithriadol, cafwyd ei fod yn treiddio i lawr gymaint a dwy droedfedd.

DRINGO MYNYDDAU.

UN o'r pethau mwyaf perygl yw dringo mynyddoedd, ond y mae rhyw swyn rhyfedd yn y gwaith.

Wele ddarlun o'r cyntaf safodd ar gopa Mont Blanc.

Y mae y peryglon bron yn anarluniadwy. Yr haf diweddaf colodd Owen Glynne Jones, dringwr mynyddau



BUDDUGOLIAETH !

enwog, athraw o'r Abermaw, ei fywyd wrth geisio dringo y Dent Blanche, yn yr Alpau.

Yr oedd pedwar ohonynt,—Jones, Hill, a dau arweinydd. Yr oeddynt wedi dringo yn uchel hyd wyneb ia llythrig, ac yr oedd y rhaff gref yn eu cysylltu wrth eu gilydd. Yr oedd talp o graig o'u blaenau ac yr oedd yn rhaid iddynt fyned drosti. Wrth geisio dringo hwnnw syrthiodd yr arweinydd cyntaf i lawr, ar gefn Jones a'r arweinydd arall, ac ysgubwyd y tri dros y dibyn ofnadwy.

Teimlai Hill ei hun yn cael ei dynnu ar eu holau; ond yr oedd carreg rhyngddo a'i gyfeillion, a throdd y rhaff am honno. Torrodd y rhaff, gadawyd Hill yn ei noddfa berygl, a gwelai'r Cymro a'r ddau Swisiad yn disgyn i'r dyfnder odditanodd,—eu dwylaw diymadferth yn estynedig, a'r rhaff yn eu cysylltu o hyd. Trwy beryglon anhygol medrodd Hill gyrraedd yn ol; ac æth mintal ddewr i chwilio am y dringwyr, ond heb obaith eu cael yn fyw.



BYWYD Y MOR.

IV. LLIWIAU AR WÆLOD Y MÔR.

FEL y mae tyfiant yn graddol ddarfod wrth i ni ddringo mynydd uchel, felly y mae'n darfod wrth i ni ddisgyn i ddyfnderoedd y môr. Am tua deunaw gwrhyd cawn laswellt y môr, a'i flodau arno. Am tua deg gwrhyd ar hugain, cawn hesg y môr. Yna, nes awn i lawr rhyw fil o wrhydau cawn fath o fwsogl a chen, rhai fedr fyw yn y tywyllwch. Yna y mae bywyd llysieuol yn darfod yn hollol. Rhaid i bethau sy'n trigo ynof yw ar y gawod o bysgod meirwon sy'n disgyn trwy'r môr hallt megis i'w bedd.

Un gwahaniaeth mawr rhwng creaduriaid gwaelod y môr a chreaduriaid y wyneb yw hyn,—maent wedi eu cyfaddasu i fyw yn y tywyllwch. Y mae llawer ohonynt yn ddall. Pysgod y goleuni yw rhai ohonynt, wedi suddo i'r dyfnderoedd, ac nid oes ganddynt erbyn hyn ond olion llygaid. Yn lle hynny y mae ganddynt flew hirion teimladwy. Gallant anfon y rhain o'u blaen, a'u troi o'u cwmpas, ac felly gwyddant beth sydd o'u hamgylch.

Y mae gan rai ereill lygaid enfawr, fel y gallant ddal yr holl oleuni gwan ddaw i'r gwaelod. Oni ddywedais na ddaw goleuni i'r gwaelod? Do, ond y mae yno beth goleuni. Yn crwydro trwy'r dyfnderoedd tywyll y mae pysgod sy'n pelydru goleuni o'u cyrff. Nid yw naturiaethwyr wedi penderfynu eto pa ddaioni yw eu goleu i'r pysgod hyn. Ond y mae'n amlwg ei fod o'r daioni mwyaf i'w cymydogion. Yma ac acw goleuir gwaelod y môr gan deulu o'r pysgod tanllyd hyn; a daw pysgod sy'n meddu llygaid i fyw yn eu goleuni.

Feallai, am a wyddom ni, fod llygaid enfawr pysgod y môr yn gweled goleuni na welwn ni mohono. Feallai fod gwres y corff yn oleuni iddynt hwy, a fod pob peth cynnes yn rhoi goleu. Os felly, dellid hwy ar unwaith pe gwelent oleuni tanbaid yr haul.

Mae'r rhan twyaf o anifeiliaid gwaelod y môr yn lliwiog, a rhai yn danllyd. Coch, melyn, a gwyrdd yw'r lliwiau; nid oes odid ddim glas. Mae rhai o'r pysgod yn dduon, ac ereill yn wynion fel yr eira.

“Gwneyd y byd fel nef.”

BEN BOWEN.

DOH Eb.

Trefn. o SCHUBERT.

}	.s	s	:-.m:m.m	m	:d	:.d	r	:-.m:s,f,r	d	:-	:
	.m	m	:-.d:d.d	d	:s,	:.d	d	:-.d:t,t,t	d	:-	:
	1.Yr	wyf	yn ffryndi'r	Ie - su,	Mae	'ngha-lon	fach	mor	llon,		
	.s	s	:-.s:s.s	s	:m	:.s	s	:-.s:s,f	m	:-	:
	.d	d	:-.d:d.d	d	:d	:.m	s	:-.s:s,t,s	d	:-	:

}	.s	s	:-.m:m.m	m	:d	:.d	r	:-.m:s,f,r	d	:-	:
	.m	m	:-.d:d.d	d	:s,	:.d	d	:-.d:t,t,t	d	:-	:
	Yn	llam	- u wrth ei	gar - u,	O	dan	y fyn-wes	hon.			
	.s	s	:-.s:s.s	s	:m	:.s	s	:-.s:r,f	m	:-	:
	.d	d	:-.d:d.d	d	:d	:.m	s	:-.s:s,t,s	d	:-	:

}	.d	r	:-.r:r.r	m,f:s	:.s	l	:-.s:m.d	r	:-	:	
	.d	d	:-.d:t,t,t	d,r:m	:.d	d	:-.d:d.d	t,	:-	:	
	Yr	wyf	yn caru'r	Ie - su,	Gwnaf	bopeth	fel gwnaeth	Ef;			
	.s	l	:-.l:s.s	s	:s	:.s	f	:-.s:s.fe	s	:-	:
	.m	fe	:-.fe:f.f	m,r:d	:.m	f	:-.m:d,l,s	s,	:-	:	

}	.r	r	:-.r:r.r	m,f:s	:.s	d'	:s,m:f,r	s	:-	:	
	.t,	d	:-.d:t,t,t	d,r:m	:.f	m	:-.m:t,t,t	d	:-	:	
	Rhaid	gweith	- io a rhaid	car - u,	I	wneyd	y byd fel	nef,			
	.s	l	:-.l:s.s	s	:s	:.t	d'	:-.s:s,s	s	:-	:
	.s	fe	:-.fe:f.f	m,r:d	:.r	m	:-.d:r,f	m	:-	:	

}	.s	d'	:s,m:s,f,r	d	:-	:	}	2	Anialwch	drygau'r	ddaear		
	.t,	d	:-.d:t,t,t	d	:-	:			Yn	Eden	eto	ddaw,	
	I	wneyd	y byd fel	nef.					A	blodau'r	nefoedd	hawddgar	
	.s	s	:-.s:s,f	m	:-	:			Yn	floedd	ar	bob llaw;	
	.f	m	:-.d:r,s	d	:-	:		O!	'rwyf	yn	caru'r	Iesu,	
								Gwnaf	bopeth	fel	gwnaeth	Ef	
								Rhaid	gweithio	a	rhaid	caru,	
								I	wneyd	y	byd	fel	nef.



LLANDEIBIE,—UN O BENTREFYDD SIR GAERFYRDDIN.
(*Darlun gwobrwydig.*)

SIROEDD CYMRU.

XII. SIR GAERFYRDDIN.

Y MAE sir Gaerfyrddin yn un o siroedd pwysicaf Cymru,—o ran maint, o ran golud, ac mewn hanes.

Wyneba tua'r de a thua'r môr, er fod rhai o'i hafonydd yn rhedeg tua'r gorllewin. Rhyngddi a Morgannwg ar y dwyrain y mae afon Lluchwr. Rhed afon Tywi ardderchog drwy ei chanol, gan dderbyn afon Cothi ac afon Gwili iddi. Ymhellach i'r gorllewin, ar gyffiniau sir Benfro, rhed afon Taf drwyddi i'r un cyfeiriad, sef i'r de. Mae afonydd Gwendraeth rhwng Lluchwr a Thywi. Ar ei therfyn gogleddol, rhyngddi a Cheredigion, rhed afon Teifi i'r gorllewin.

Y mae llawer o amrywiaeth yn 974 milldir ysgwar sir Gaerfyrddin. Yn y gogledd ddwyrain, rhyngddi a sir Frycheiniog, ymgytyd y Mynyddoedd Duon, ac y mae Ban sir Gaer yn cyrraedd uchder o 2596 troedffed. Llech a thywodfaen sydd yng ngogledd y sir, a bryniog yw. Glo a thywod sydd yn y de, ac y mae yno ddyffrynnoedd hyfryd iawn. Y mae'n debyg nad oes yn y wlad ddyffryn a golwg mor ffrwythlawn arno a dyffryn Tywi ger Llandeilo.

Y mae golud y sir yn amrywiol iawn,—gwenith a cheirch, gwartheg duon a defaid mân, glo a haiarn, beirdd a phregethwyr.

Y mae trefydd enwog yn nyffryn Tywi,—Caerfyrddin, unwaith y dref bwysicaf ym masnach a gwleidyddiaeth Cymru; Llanfairmuallt, cartref yr Hen Ficer, hynod am ei ffeiriau; a Llandeilo, ar fryn, ger Dynefor, hen lys tywysogion y Deheubarth. Llanelli yw'r lle gweithtaol pwysicaf.

Gwnawd Caerfyrddin yn sir gan Edward y Cyntaf yn 1284. Yr oedd y Normaniaid wedi codi llawer castell ynddi cyn hynny,—Caerfyrddin, Rhyd y Gors, Cydweli, Llanymddyfri, Castell Newydd



PLANT CYMRU. CXX. PLANT LLANEGWAD, CAERFYRDDIN.

Emlyn. Ond pwysicach na'r rhain, erbyn heddyw, yw cartrefi diwygiadau a chartrefi gwladgarwyr y mae sir Gaerfyrddin mor lawn ohonynt.

Nid oes odid sir fedr roddi rhestr hŵy o wŷr enwog,—o Hywel Dda at Charles o'r Bala, o Ruffydd ab Rhys at Rhys ab Thomas, ac oddiyno at Picton a Nott, o Lewis Glyn Cothi at Williams Pant y Celyn.

Wele ddarlun o rai o blant sir Gaerfyrddin,—plant ysgol Elanegwad. Y maent wedi gadael yr ysgol i gyd yn awr ond yr athraw, ac wedi cydfo yn eu gwaith. Wedi'r cwbl, cyfoeth mwyaf pob sir yw ei phlant ysgol.

Y STORMYDD.

III. GORLIFIAD Y WLADFA, 1899.

YN yr haf hwn daeth lli mawr dros y dyffryn yn Neheudir Amerig lle'r ymgartrefodd y Wladfa Gymreig. Y mae'n debyg fod sychder mawr wedi toddi mwy nag arfer ar eira yr Andes, a gorlifodd afon Gamway ei glannau. Bu'n fendith i'r gwladfawyr am flynyddau meithion, eleni trodd yn ddinistr. Wedi gwaith caled am bedair blynedd ar ddeg ar hugain i wneyd anialwch yn ardd, y mae'r gwladfawyr wedi gorfod edrych ar eu cartrefi'n ddifrodedig. Dyma ychydig bigion o lythyrau gan un oedd yn edrych, o ben un o'r bryniau cyfagos, ar y dŵr dros ei gartref.

Nid bychan oedd ein syndod pan ddaeth y newydd ar yr 21ain o Orffennaf fod yr afon wedi torri dros y ceulannau yn nhop y Dyffryn Uchaf, a'r dwfr yn ehedeg yn gyflym i lawr ar hyd y dyffryn, ie, mor gryf fel yr ofnid fod genau y gamlas fawr ogleddol wedi rhoddi ffordd, a gollwng y cafn ymaith gyda'r genllif ofnadwy oedd yn ddychryn i bawb. Erbyn hyn, ciliai y trigolion am y bryniau yn y nos, gan adael eu tai, eu celfi, a'u hanifeiliaid, i gynddaredd y llifeiriant,—ffoi am fywyd.

Trwy y dydd Sadwrn, Gorffennaf 22ain, ciliai y tyddynwyr yn eu gwageni yn llwythog o wragedd a phlant, dillad, gwelyau, ac ychydig luniaeth, yr hyn oedd o fewn cyrraedd i'w cipio megis ar y foment,—i'r bryniau.

Sabbath, 23ain, gwelid gwageni llwythog yn ffoi ar eu cyfer i'r bryniau. Erbyn y prydawn yr oedd y don fawr wedi cyrraedd gwaelod y Dyffryn Uchaf, gan adael y dyffryn yn fôr mawr tonnog ar ei ol o fryniau i fryniau, y ddau tu i'r afon yn un llyn fel y gellid hwylio llongau arno, ambell foncyn a thŷ arno i'w weled yma ac acw.

Yn ddiatreg bore dydd Llun, y 24ain, aeth pobl y Gaiman ati hi o ddifrif, rai i adeiladu cychod, ereill i groesi melin o'r ochr ddeheuol i'r ochr ogleddol i falu er cael blawd, oherwydd fod y melinau wedi sefyll am rai wythnosau, cyn hyn yr oedd prinder blawd mawr drwy y wlad. Fel yr oedd y cychod yn dyfod o'r weithfa, yr oedd rhai yn myned a hwy allan er ymchwilio am y rhai oedd wedi aros yn eu tai ar y dyffryn, gan eu dwyn i'r bryniau a'r Gaiman. Y tai yn syrthio ystail ar ol y llall. Dewai gwellt, gwair, nembrennau, ac byd yn oed dodrefn tai, ar wyneb y genllif trwy y Gaiman gan beryglu y bont, fel y gorfu llifio ymaith ei chanllawiau. Erbyn hyn

yr oedd tai y Gaiman, er mawr siomiant i lawer oedd wedi ffoi yno am noddfa, yn syrthio y naill ar ol y llall, gan ortodi'r preswylwyr gilio trachefn i'r bryniau. Ymwthiai y llifeiriant ymlaen, gan gymeryd meddiant cyffredinol o'r ddwy ochr i'r Dyffryn Isaf. Golygfa ofnadwy oedd gweled teuluoedd yn ymruthro, pawb ar ei gyfer, gan gymeryd yr hyn oedd wrth law, am ei fywyd i'r bryniau, yr hen a'r ieuanc, y gwan a'r cryf, cyfoethog a'r tlawd, pawb fel eu gilydd—ffoi! ffoi!! Pawb drosto ei hun, neb i gynorthwyo y naill y llall. Rhyw gysgod o "Ddydd mawr ei ddipter ef, pwy a ddichon sefyll?"

Calonrwygol yw edrych ar ochrau y bryniau a gweled henafwyr crymedig heb do uwch eu pennau, gwragedd y phlant bychain heb gartref,—pobi a chorddi yn yr awyr agored. Er y cwbl, y mae gennym le i ddiolch, ac hefyd le i roddi ein gobaith,—“Deuwch ataf fi, pawb ag sydd yn flinderog a llwythog, ac mi a esmwythaf arnoch.”

Wele, gwawriodd Gwyl y Glaniad, Gorffennaf 28ain. Glaniodd y fintai gyntaf yma bedair blynedd ar ddeg ar hugain yn ol (yn y flwyddyn 1865). Ac nid aeth y dydd heibio heb wyl a hwyl, mwy neu lai, hyd eleni. Ac eleni yr oedd ein Rhaglaw,—y Milwriad O'Dorrell, o darddiad Celtig,—wedi trefnu ei gwneyd yn wyl swyddol, diriogaethol,—chwifio banerau, a thalu rhan o'r treuliau, yn arbennig Côr Carrog, Drofa Dulog, am weini yn y cyngherdd hwyrol. Eithr wele fys Duw wedi taenu trwch o ddyfroedd dros holl ddyffryn y Câmwy am o leiaf gan milldir o'r môr,—tair mil o breswylwyr y rhanbarth o'r bron, oll ar y bryniau o'i ddeutu, a newyn yn rhythu yn eu gwynebaw; adfeilion eu tai yn ymrythu yn ysgyrlon ar hyd y dyffryn, braidd uwch gwaneg y tonnau.

Cwmpodd Tŷ y Llywodraeth, Prif Swyddfa yr Heddlu, Llys y Barnwr, Llys y Cyfreithiwr Cyffredinol, y Banc, tri Llythyrdy, deg o ysgolion, ac wyth o gapelau. Erys yn awr un eglwys Babaidd, mewn rhan yn adfeilion, tri chapel Methodus, dau gapel Anibynnol, ac un ysgol ddyddiol.

Ni raid i mi ymhelaethu. Fe wel y deallgar faint fu cynnydd y lle, a pha mor ddirifrol y golled heddyw. Wele! nid yw wedi cwpla. Amcangyfrif y colledion heno ydyw miliwn o ddoleri.



Y MAE gweithiau tarawiadol Coulson Kernahan wedi eu cyfieithu i lawer iaith. Y mae "Duw a'r Morgrugyn" i'w gael mewn Cymraeg da. Nid gall nod-ddarllen y meddylliau rhyfedd tarawiadol heb ddwyshau ei grefydd.



MAE'R NEF YN NES YN AWR.

Darlun yw yr uchod o Miss Jennie Jones, merch Mr. a Mrs. D. R. Jones, yr Hen Lythyrdy, Blaenau Ffestiniog, yr hon a fu farw yn fuan wedi i'r wawr dorri fore Mercher, Gor. 19, 1899, yn un ar bymtheg oed, wedi dioddef gyda phob tawelwch bythefnos o gystudd trwm. Aethai i Fangor bythefnos yn gynt i sefyll y *Matriculation*, cafodd anwyd trwm, a chydag anhawsder mawr y gallodd sefyll yr arholiad hwnnw i'r terfyn.

Yn sicr yr oedd Jennie Jones yn un o'r genethod gloewaf mewn dysg, mewn moes, ac mewn crefydd ym Mlaenau Ffestiniog. Yr oedd ymysg y rhai blaenaf oll yn yr Ysgol Ganolraddol, yr oedd felly yn yr Ysgol Sul a'r Arholiadau Sirol, ac felly hefyd yn y cyfarfodydd eglwysig yn y Tabernacl. Ar yr aelwyd gartref yr oedd yn ufudd, tyner, a gofalus. Yr oedd, hefyd, yn aelod o Urdd y Delyn, a hi oedd ysgrifenyddes cangen y Tabernacl o'r dechreu. Ac o'r mili aelodau sydd erbyn hyn yn perthyn i Urdd y Delyn, yr ydym yn credu nad oes cymeriad ha wddgarach na'r eiddo Jennie Jones. Nid oes ameu i fod nad yw yn awr yn perthyn i Urdd Delynanu'r nef.

DIANGAIST ymaith, Jemaie hoff,
Ar aden wen y wawr ;
Ac wedi'th gollu, tybiaf fod
Y nef yn nes yn awr.

Dios fod gloew fyd o hedd
Tu draw i'r ser di-ri,
Mae'n rhaid fod gwynfyd pur di-lan
I eneth fel tydi.

Os nad oes gwlaau gyd o gân
I ti tu hwnt i'r llen,
Mae holl obeithion goreu'r byd
Yn awr i gyd ar ben.

Os nad oes telyn yn dy law,
A choron ar dy ben;
Ni chredaf fod telynau mwy
Yng nghorau'r nefoedd wen.

Os nad oes gorsedd yn y nef
I wryf fel tydi,
Waeth peidio canmol Bethlehem
Na chanu am Galfari.

Anfonaf un gofyniad fry
Os gelli ddal y gair,—
Pwy rodia heddyw gyda thi
Ar hyd y palmant aur?

Mi wn pwy fyddai'th gwmmi gynt
Ar lwybrau bryn a dôl,—
Mae rheini eto gyda ni
Yn gwisgo du ar d'ol.

Ond pwy sydd ar bellderau'r nef,
Yn rhodio gyda thi;
Ai rhywun fu fel tithau gynt
Yn aros gyda ni?

Mi wn yn siwr mai un o'r saint
Hawddgara'r nefoedd fry;
Un felly'n bennaf garai'r fraint
O gael dy gwmmi di.

Yn awr o flaen fy llygaid syn
Mae'th lwybrau yn y byd,
A blodau gostyngeddwydd gwyn
Yn tyfu ar eu hyd.

Mae'th le ar aelwyd tad a mam
Yn wag, ac eto'n wyn;
Ond daw angylion goreu'r ne
I lanw lle fel hyn.

Cerddaist yn hoew ac ymhell
Ar lwybrau dysg y byd;
Mae rheini, megis llwybrau'r wawr,
O'th ol yn loew i gyd.

Wrth ddringo un o fryniau dysg
I fynu'r llwybr gwyn,
Y clywaist gyntaf lef yr Ior
Yn d'alw dros y glyn.

Esgynnaist drwy'th bryderon oll,
A chedwaist wisg-ddistaen,—
Mae'r arholiadau i gyd o'th ol
A gwyliau i gyd o'th flaen.

Yn Urdd y Delyn, gwag yw'th le,
Ac Urdd heb delyn yw;
A thithau'n taro'r tannau aur
Yn Urdd telynau Duw.

Clustfeinio wnaf i'th wrando di,—
Mae sain dy gân mor bêr,
Tebygaf fod ei hadsau hi
Yn disgyn heibio'r ser.

Ai fod melusder yn dy gân
Ni warafunaf air;—
Melusach eto, Jennie lân,
Fo tannau'th delyn aur.

Chwareua 'mlaen, mae'th dad a'th
fam,
Mae'th chwaer, a'th frodyr glân,
A'th hen gyfeillion, yn y man
Yn disgwyl dysgu'r gân.

Blaenau Ffestiniog.

R. R. MORRIS.

Y DDAU HOGYN RHEINY.

GAN WINNIE PARRY.

XI. DIGWYDDIADAU EREILL YNGLYN A'R DDAU.

YR wyf yn meddwl mai'r peth ddarfu'n tristáu fwyaf tra bu'r
Ddau ym Mhen y Bryn oedd tynged Titw druan. Bu yn
wers i minnau fod yn twy penodol ac eglur yn yr hyn ddywedwn
wrthynt, A gwnaeth i mi sylweddoli mewn modd effeithiol y parod-
rwydd oedd ynddynt i gymeryd popeth yn llythrennol.

Ar ol i Bobbie greu y fath gynnwrt yn y capel gyda chynorthwy y
gath, yr oedd yn daer i gael gwybod pa ddrwg oedd myned a Titw
i'r capel mwy nag i rywle arall, a phaham na chaffai hithau ganiatad
i ddod yn ogystal ag ef a Willie. Ceisiais wneyd y pwnc mor oleu

ag y gallwn iddynt. Ond nid oedd fy eglurhad yn boddloni Bobbie; ac ar y diwedd gofynnodd yr hen ofyniad,—“Wel dudwch, Elin, pam mae drwg mynd a Titw i'r capel?”

Un diwrnod yn ystod yr wythnos ar ol y Sabboth hwnnw, yr oedd Bobbie wedi fy mlino'n enbyd gyda'r pwnc yma. Yr oeddwn, yn ol fy arter, wedi prynnu dau neu dri o lyfrau newydd i'm difyrru yn ystod y gwyliau, ac yr oedd un ohonynt yn neillduol o ddyddorol. Digwyddwn fod yn ei ddarllen y diwrnod y cyfeiriaf ato, ac yr oedd Bobbie yn fy mhoeni yn y modd y crybwyllais. Yr oeddwn wedi rhoddi eglurhad unwaith iddo, ond ni fynnai ei dderbyn. O'r diwedd, meddyliodd am eglurhad ar y peth ei hun, ac meddai,—“Ofn iddi hi gael anwyd am fod hi'n damp oedd arnoch chi, Elin?” “O ia, cerwch i chwara rwan,” meddwn o'r diwedd, fy amynedd wedi llwyr ddfiannu. Er fy mod wedi cael llonydd ar ol hyn, edifarhaeis lawer fy mod wedi ateb y gofyniad yma yn gadarnhaol. Y bore Sabboth dilynol yr oedd yn digwydd fod braidd yn wlyb fel y Sul cynt. Nid oedd ar y Ddau gymaint o awydd rhoddi eu *capas* am danynt a'r Sul hwnnw fodd bynnag. Gwisgais hwynt fy hun fel arfer, y peth diweddfaf cyn gadael y tŷ, a chwiliais y ddau i edrych oedd ganddynt rywbeth gwaharddedig o'u cwmpas, ond y cwbl gefais oedd darn o linyr a dwy farblen ym mhoced Willie, a phib fechan yn un Bobbie. A throsglwyddais hwynt i fy mhoced fy hun, er eu dwfn ddigofaint. Yr oedd eu hymddygiad yn y capel y bore hwnnw yn fwy gweddus nag y bu o gwbl, ac yr oeddem i gyd mewn tymer Sabbothol pan yn cychwyn o'r capel ar ol yr oedfa honno.

Ymdrodd y ddwy Miss Jones i ymddiddan gyda rhai o'u cydnabod, ac aethom ni ein tri yn ein blaen i gyfeiriad Pen y Bryn. Yr oedd Hannah wedi mynd yn gyntaf, gan fod arni eisieu gofalu am y ciniaw. Yr oedd wedi peidio gwlawio erbyn hyn, a'r haul yn tywynnu ar y cloddiau gwllithog o bob tu nes y disgleirient fel pe wedi eu haddurno â miloedd o dlysau. Cerddai y Ddau yn hamddenol un o bob tu i mi, a rhoddais air o ganmoliaeth iddynt, wrth deithio ymlaen, am eu hymddygiad gweddus yn y capel. Cymerodd Bobbie y clod yn y dull canlynol.

“Do Elin, mi fuom ni'n *good boys* iawn yn y capel, a phobman, a mi newch chi brynnu shoclet i ni tory, yn gwnewch? Wyddoch chi be'dan ni wedi neyd, Elin?”

“Na wn i wir,” meddwn mewn llais hamddenol.

“Wel, mi ydan ni wedi rhoi Titw yn y pobty er mwyn iddi fod yn gynnes, a rhag iddi hi gael anwyd, am fod hi'n damp fel tro'r blaen.” Nis gallwn gredu fy mod wedi clywed yn gywir.

“Wedi be?” gofynnais mewn llais dychrynedig.

“Wedi rhoi Titw yn y pobty. Ddaru chi ddeyd mai cael anwyd

ddaru hi tro o'r blaen pen oedd hi'n damp dach chi'n cofio, a mae hi'n gynnes yn fan honno, a neith hi ddim cael anwyd eto, yn na neith Elin?"

Clywn y geiriau diweddat yn seinio yn y pellder, gan fy mod wedi dechreu rhedeg â'm holl egni i gyfeiriad Pen y Bryn. Yr arferiad yno ar fore Sul oedd i Hannah dynnu *flues* y pobty allan, a gwneyd tanllwyth o dân cyn myned i'r capel, ac yna byddai y pobty yn boeth erbyn iddi ddod yn ol, a chaffai roddi y cig oedd wedi darn ei goginio y diwrnod cynt i fewn i orffen gwneyd, ac yr oedd fy ngobaith yn wan parthed diogelwch Titw, druan. Pan gyrhaeddais y lliadiart cyfarfyddodd Hannah fi a gwyddwn beth oedd ei newydd cyn iddi waeddi,—“O, Miss Evans anwyl, Titw, druan, yn y pobty.” Rhedais i'r tŷ, a Hannah ar fy ol. Yr oedd drws y pobty yn gauad.

“Lle rhoisoch chi hi, Hannah?” gofynais.

“Mae hi yno o hyd, Miss Evans.” Yr oedd yr eneth wirion wedi cau y drws drachefn ar y creadur yn lle ei thynnu allan.

“Diar anwyl, Hannah,” meddwn tra yr agorais y drws, “pam na fasa chi'n i thynnu hi mewn munud.”

“Mi oeddwn i wedi dychryn gormod, Miss Evans.”

“Twt lol,” oedd fy atebiad, a thynnais Titw allan o'i charchar cynnes mor dyner ag y medrwn, a rhoddais hi i orwedd ar yr aelwyd. Ond yr oedd yn rhy ddiweddar. Gorweddai yn hollol lonydd. Yr oedd y croen gwyn esmwyth wedi ei ddeifio yma ac acw, ond yr oedd yn amlwg fod rhywbeth allan o le gyda'r *flues* y bore hwnnw, fel nad oedd y pobty yn agos mor boeth ag arfer, ac yr oeddwn yn teimlo ychydig yn llai gofidus wrth feddwl mai mygu ac nid llosgi ddarfu i'r creadur bach diniwed. Tra'r oedd Hannah a fi yn sefyll fel hyn uwchben Titw, daeth y Ddau i mewn yn ddigon digyffro, yn llusgo eu *capes* hyd y llawr ar eu hol. Gwaeddodd Bobbie allan,—

“Beth oeddach chi'n rhedeg o'n blaena ni, Elin? Mae drwg am redeg rās ar ddy' Sul. Ydi Titw yn gynnas?”

“At a chi, blant drwg, spiwch ar ych gwaith. Mi 'dach chi wedi lladd Titw bach.”

“Be di lladd, Elin?”

“Gneyd iddi hi farw, wās,” meddai Willie. Ac edrychodd y Ddau ar y gath yn gorwedd mor llonydd ar yr aelwyd, a'i llygaid gloewpurt wedi eu cau, a sylweddolodd y Ddau fod eu cynllun wedi troi yn hollol wahanol i'r hyn oeddynt wedi friadu, a dechreusant wlo-â'u holl hegni. Yn wir, nid oedd Hannah a fi heb ollwng deigrlyn neu ddau uwch ben Titw a'i thynged trist. Tra y safem ein pedwar fel hyn o amgylch y gath, daeth y ddwy Miss Jones i fewn, a bu raid dweyd yr ~~hysp~~ wrthynt hwy, ac yna yr oedd chwech o alarwyr yng nghegin Pen y Bryn.

Gallaf ddweyd mai rhyw giniaw pur ddirfrefn gawsom y Sabboth hwnnw. Yr oedd gwynebau y Ddau yn bob lliw ar ol y wylo chwerw, ac yn wir, yr oeddem i gyd yn teimlo'n ddigon prudd drwy y dydd. Ond erbyn bore drannoeth yr oedd y Ddau wedi dod i'w cyflwr arferol, ac yn cynorthwyo Hannah gyda'r dyddordeb mwyaf i wneyd bedd i'r gath yng ngwaelod yr ardd, ac aethant a fi i'w weled, ac yr oeddent yn dangos i mi fel yr oeddent wedi rhoddi blodau arno. Bu raid i mi ysgrifennu "Titw" hefyd ar ddarn o lechan gafodd Bobbie afael ynndi yn rhywle, a gosodasant hi gyda'r difrifoldeb mwyaf wrth y pen.

Ar un achlysur neillduol llwyddodd y Ddau i greu braw a dychryn heb ei fath ym Mhen y Bryn. Wrth nad oeddent yn cydweled o gwbl â rheol Miss Jones ynglŷn â myned i'w gwelyau, nid peth anghyffredin oedd iddynt ddiflannu i rywle ychydig cyn saith o'r gloch, a mynych y byddai raid i Hannah a fi tyned i'w ceisio yma ac acw hyd y ffyrdd a'r caeau. Yr wyf yn cofio unwaith i ni fethu dod o hyd iddynt amser codi hefyd, ac wedi i ni dreulio rhyw awr a hanner cyn ein brechwast i chwilio, cawsom hwynt yn cysgu'n dawel yng nghysgod clawdd un o gaeau'r Ffridd heb wisgo am danynt yn gyflawn. Eu heglurhad oedd eu bod wedi dod i hel *mushrooms*, a chredai Hannah mai Bobbie oedd wedi cael yr awgrymiad wrth ei chlywed yn dweyd wrth Catti y byddai yn ddigon dymunol ymhen tuag wythnos godi ryw fore i fyned i hel *mushrooms*. Diangerhaid yw dweyd fod y faged oedd yn eu canlyn yn wâg. Yr oedd y faged hon bron gymaint a Bobbie, a defnyddiai Hannah hi i fyned i'r pentref i gyrchu holl angenrheidiau'r wythnos i Ben y Bryn.

Ond digwyddodd iddynt tyned ar goll ar raddau mwy eang na hyn, pan, fel y dywedais eisoes, y bu iddynt greu braw a dychryn nid bychan ym Mhen y Bryn. Cymerodd hyn le ar un nos Lun tua diwedd eu harosiad acw. Yr wyf yn cofio fod llythyr wedi dod y bore hwnnw oddiwrth eu mam yn dweyd fod Cadben Thomas yn gwella, a'i bod yn myned ag ef adref y diwrnod dilynol, ac y byddai y gŵr ieuanc gymerodd ofal y plant ar y daith i Ben y Bryn yn myned drwy Nantgwyn y dydd Gwener ar ei ffordd gartref, ac y byddai iddo ofalu am danynt i fyned yn ol os y byddem mor garedig a myned a'r ddau i'r orsaf i'w gyfarfod. Nis gallwn beidio gwenu wrth gofio y gŵr ieuanc hwnnw. Yr oedd y llythyr yma wedi codi brwdfrydedd anarferol yn y Ddau. Ymddiddanent am tyned gyda'r trê'n ar hyd y dydd, ac yr oeddent yn fy mlino hyd eithafon, hyd yn oed fy amynedd i, i "bacio eu bocs," ys dywedent, ac aeth yn ddadl frwd rhyngddynt ynglŷn â phwy oedd i gael y *fruit* o gludo'r bag lleddr du i'r orsaf.

Erbyn amser tē yr oeddwn, fel bydd Miss Jones yn dyweyd ambell

i dro, "wedi ymladd." Er mwyn cael ymwared oddiwrthynt, pe ond am hanner awr, penderfynais fyned i'r pentref i wneyd un neu ddwy o negesau, ac wedi gwisgo am danaf, es allan drwy ddrws y cefn rhag i'r Ddau fy ngweld yn cychwyn, gan y buasai hynny yn golygu eu cwmni ar y daith neu ymratael, ac nid oeddwn yn teimlo mewn hwyl i ddadlu â hwynt ar unrhyw bwnc yr awr honno. Yr oeddwn yn ol ym Mhen y Bryn tua hanner awr wedi chwech. Nid oeddwn wedi gweld yr un o'r Ddau ar y ffordd wrth ddod o'r pentref, ac yr oedd yn amlwg oddiwrth y distawrwydd oedd o amgylch y tŷ nad oeddynt yn y cyffiniau. Yr oeddwn yn teimlo yn hynod flinedig fel y cerddwn i fynyr grisiau i fy ystafell i dynnu fy het. Yr oedd cur yn fy mhen hefyd, ac eisteddais yn y gadair fawr wrth y ffenestr yn teimlo'n hynod ddiawydd i wneyd dim ond eistedd felly, a'm pen yn pwysu ar gefn uchel y gadair, a'm dwylaw yn gorwedd yn llonydd ar fy nglin. Yr oedd yn noswaith hynod drymlyd, fel pe buasai terfysg heb fod ymhell. Rhaid fy mod wedi syrthio i gysgu, oherwydd y peth nesaf oeddwn yn ymwybodol ohono oedd teimlo rhywun yn gafael yn fy mraich, tra y clywn Miss Jones yn dyweyd,—“Elin, deffwrch, mae hi jest yn naw a mi 'dan ni'n ffaelio'n glir a chael hyd i'r Ddau yn unman.” Agorais fy llygaid, a gwelwn Miss Jones yn sefyll wrth fy ochr, yn edrych yn hynod gyffrous. Yr oedd bron wedi tywyllu, a golwg bygythiol neillduol ar yr awyr yng nghyfeiriad y Foel. Neidiais ar fy nhraed ar unwaith, a rhoddais fy het am fy mhen. “Mi a i hefo Hannah eto, Miss Jones,” meddwn, “peidiwch ag aneswytho, mi fyddwn ni'n siwr o ddod o hyd iddyn nhw yn rhywle yn union.” Yr oedd Catti a Hannah yn sefyll wrth ddrws y ffrynt, yr hen ferch mewn petrusder mawr. Dymunai Miss Jones a'i chwaer ddod gyda ni, ond gwelwn eu bod eisoes wedi blino, a llwyddais gael ganddynt beidio dod ymhellach na'r lliidiart. Sylwais ar hetiau'r Ddau ar y bwrdd yn y lobby wrth fyned allan, ond nid oedd hynny yn dweyd dim, oherwydd yr oedd eu ffyrdd mor anesboniadwy fel nad oedd iddynt fyned allan heb eu hetiau yn beth rhyfedd yn ein golwg o gwbl. Chwiliais yng nghwmni Hannah bob llecyn y gwyddwn yr arferent gyrchu yno, a llawer un, mae yn ddiameu, na fu eu traed ynddo erioed, gan waeddi “Bobbie” a “Willie” yn ddibaid, ond yn hollol aflwyddiannus, ac meddwn o'r diwedd,—

“Dw i'n meddwl y bydda well i ni fyned i'r Ffridd, Hannah, i edrych welson nhw ddim byd o rwthyn nhw yno.” Yr oedd erbyn hyn yn nos dywyll, ac fel y prysurai Hannah a fi i gyfeiriad y Ffridd ffachiai mellen yn awr ac yn y man o'm blaen, a chlywn y taranau yn rhuo yn y pellder. Yr oedd meddwl fod y Ddau yn crwydro yn bennoeth ymhell o'r un llety, feallai, a'r storm yn dynesu o hyd, yn fy ngwneyd yn hynod boenus fy meddwl, a theimlwn yn ddig wrthyf

fy hun am na fuaswn wedi myned a hwy gyda mi i'r pentref. Pan gyrhaeddasom y Ffridd yr oedd wedi deg o'r gloch, a'r teulu ar fin myned i orffwys. Dywedais fy helynt wrthynt, ond nid oedd neb ohonynt yn gwybod dim am y Ddau oedd ar goll. Goleuodd William Roberts, y gŵr, ddwy lantern, a rhoddodd un i'r gwast a chymerodd y llall yn ei law ei hun. "Mi ddown ni hefo chi, Miss Evans," meddai. "Geith Robin fynd i chwilio ochrau'r Foel, a mi awn ninnau i gyfeiriad Bryn Llwyd." Ond yr oedd ein holl gerdded a chrwydro yn ofer, a phan ddaethom i ffordd Pen y Bryn cyfartyddasom Robin a Miss Jones gydag ef, a deallasom ei fod yntau wedi bod yr un mor aflwyddiannus, ac wedi dod i Ben y Bryn i edrych oeddynt wedi cael rhyw hanes am y Ddau. Aethom i'r tŷ gyda'n gilydd, a safem yn y *lobby* yn ceisio dyfalu beth fyddai oreu wneyd. "Mi eith Robin a fi i drïo eto," meddai William Roberts, "ac os na fedrwn ni ddod o hyd iddyn nhw mi awn i godi'r pentre." Wrth fy ngweled i'n paratoi i'w dilyn, dywedodd ymhellach,—

"Well i chi beidio dwad, Miss Evans."

"Well gin i gael dwad os ca i."

"Wel, rhaid i chi roi rhywbeth drostoch, achos mi fydd yn gafod drom yn fuan."

"Mi â i nol fy nglôg," meddwn, "fydda i ddim dau funud." Cipiais ganwyll oddiar y bwrdd a rhedais i fyny'r grisïau. Yr oedd fy oriawr ar y bwrdd, a sylwais ei bod yn chwarter i ddeuddeg. Agorais ddrws y cwpwrdd mawr derw hen ffasïwn lle yr oedd fy nglôg yn hongian. Tynnais hi'n frysiog oddiar yr hoel, ac fel yr oeddwn yn troi i fwrdd disgleiriodd goleu'r ganwyll,—ar be feddyliech chi? Ar wyneb Bobbie. Yr oedd yn gorwedd yng ngwaelod y *wardrobe*, a'i ben yn pwyso ar rai o'm dilladau, yn cysgu'n esmwyth. Yr wyf yn meddwl mai'r peth nesaf wnes oedd rhedeg i ben y grisïau dan waeddi fel peth wirion,—“Mae Bobbie yn y cwpwrdd mawr.” Ac yna rhedais yn fy ol, tra y deuai y lleill yn frysiog i fyny'r grisïau. Er nad oedd Willie yn y cwpwrdd, gwyddwn nad oedd ymhell, ac y caffem wybodaeth am dano gan Bobbie. Yr oedd yn amlwg fod y trwst wnes pan ddeuais o hyd iddo wedi ei hanner ddeffro, oherwydd yr oedd yn rhwbio ei lygaid ac yn edrych o'i gwmpas mewn syndod pan gyrhaeddais fy ystafell yr ail waith. Codais ef a rhoddais ef i eistedd ar y gwely, a meddwn,—“Lle mae Willie, Bobbie?” Yn lle ateb fy ngofyniad edrychodd ar William Roberts a Robin, y rhai oedd yn sefyll wrth ddrws yr ystafell wedi dilyn y ddwy hen ferch a Hannah i fyny'r grisïau, yna gofynnodd,—

“Be sy ar y heina eisio, auntie Catti? A be dach chi'n crio, auntie Margiad? a Elin hefyd? a Hannah. Dach chi'n crio i gyd. Oes rhywun wedi gneyd i Spot farw.”

"Bobbie," meddwn drachefn, a throais ei wyneb ataf. "Lle mae Willie?"

"Dyma fi," deuai llais cysglyd, a theimlwn rywbeth yn rhygnu heibio fy nhraed, a gwalem ben Willie yn dod i'r golwg o dan y gwely. Yr oedd yr olwg arno mor ddigrifol fel y torrodd William Roberts allan i chwerrhin. Yna dechreuodd Bobbie roddi eglurhad fel arfer, ar eu hymddygiad. "Mynd i guddio i'r cwpwr ddaru mi, a Willie o dan y gwely, i ddychryn Hannah pen tasa hi'n dwad i gau y ffenast. Mi oeddwn i am neidio o'r cwpwr, a gneyd twrrw mawr, a Willie—," ond yr oedd hwnnw am ddyweyd ei ran ef ei hun, a thorrodd ar draws y llall,—“a finna am afael yn 'i throed hi wrth iddi hi pasio a gwaeddi fel mochyn yn cael 'i lladd.” Trodd Bobbie at William Roberts, a gofynnodd yn ddfrifol,—

"Fedrwch chi waeddi fel mochyn yn cael 'i ladd?" a chyn cael ateb rhoddodd y gorchymyn i'w frawd,—“Gna rwan, Willie, gael i nhw glywad.” A chyn y gallwn ei rwystro, rhwygwyd yr awyr gan y waed ofnadwy ac anaearol glywais ar noswaith gyntaf eu dyfodiad acw.

Pan oeddym yn y gegin, wedi i William Roberts a Robin fyned adref ar ol derbyn diolch gwresog Miss Jones a Cati,—ac yn wir yr oll ohonom,—am eu caredigrwydd, yr oedd y Ddau mewn hwyl anarterol. Clywais Bobbie yn dyweyd wrth y llall,—“Braf, ynte? Yn nos dywyll, a ninna ddim wedi mynd i'n gwelyau.” Gan fod yr oll ohonom wedi cusanu'r Ddau fwy nag unwaith yn ein llawenydd wrth wybod eu bod yn ddiogel, ofer oedd meddwl dechreu eu ceryddu am eu hymddygiad yn awr. Yr oeddynt hwy ar yr ochr arall yn methu esbonio dagrau y ddwy hen ferch o gwbl. Gofynnodd Bobbie,—“Be dach chi'n crio felna, auntie Catti? A chitha hefyd, Auntie Margiad?” A chan na chafodd ateb ceisiodd drachefn,—“Crio am i ni roi'r spetols yn y twll llygoden dach chi?” Ac ar ol disgwyl munud,—“'Ta crio am fod ni wedi cymyd yr hen linyr hwnnw o'r cloc? 'ta am fod ni wedi torri'r giat? 'Na ni byth eto. Dyna fo, tewi 'rwan,” a rhoddodd ei law ar wyneb Catti, yr unig dro i mi ei weled yn ceisio anwylo neb. Ond gwelais fod yn bryd rhoddi terfyn i'r holi yma, a chan eu bod wedi digoni eu hunain ar fowliad o fara llefrith bob un, danfonais hwynt i'w gwelyau. Clywn y gwlaw yn disgyn yn genllif ar do y *washhouse* fel yr elem i fyny'r grisiau, a swm taran yn awr ac yn y man, ac yr oeddwn yn teimlo yn ddiolchgar fod y Ddau yn fy ymyl mewn diôgelwch.

Ond fel y cewch weled, bu canlyniad digon anymunnol i mi i'r cuddio yn y cwpwrdd mawr.

☞ Cyfeiriad y golygydd yw.—OWEN M. EDWARDS, 8, CLARENDON VILLAS, OXFORD.

ARGRAFFWYD A CHYHOEDDwyd gan HUGHES AND SON, 56, ROSE STREET, WREKHAM.

AT OHEBWYR.

Nid oes lle yn y rhifyn hwn i orffen yr ysgrifau ar breswylwyr gwaelod y môr. Rhaid eu gadael tan ddaw cyfie eto,—y rhai sy'n cydio yn y gwaelod heb byth ei adael, y rhai sy'n crwydro hyd y gwaelod mewn mantell o gregyn benthg, y rhai sydd a safnau anferth yn agored yn y tywyllwch yn disgwyl i'w hyaglyfaeth syrthio iddynt. Rhaid i mi gael darluniau ohonynt, mae'n anodd desgrifio pethau mor ryfedd.



MISS WINNIE PARRY.

enwedig, ddal ar y cyfleustra i anrhydeddu un wnaeth gymaint i godi ein gwlad. Bydd yn dda gennyf dderbyn unrhyw symiau i'w hanfon i'r trysorydd. Cydnabyddir eu derbyniad ar y ddalen hon.

Gwelir fod amryw gyfresau wedi eu gadael ar eu hanner, o ddiffyg lle, megis Brwydrau Rhyddid, Meddygon, a Rhyfeddodau Celfyddyd. Parheir hwynt yn y gyfrol newydd.

Da gennyf hysbysu fod plant Urdd y Delyn yn rhifo dros fl ar ddiwedd y flwyddyn hon. Pwy w'yr beth a ddaw'r ganrif newydd gyda hi i Gymru?

Y mae blociau CYMRU'R PLANT ar werth. Y mae'n ddiamedheu y bydd yn dda gan rai eu cael at argraffu adroddiadau ysgolion, cardiau cof, rhaglenni cyfarfodydd, neu lyfrau. Hanner coron yw pris y rhai lleiaf; ac yn gyffredin, chwe cheiniog y fodfedd ysgwar. Ymoheber â'r cyhoeddwy, er mwyn egnill amser.

Ar ddiwedd y flwyddyn hon eto, yr wyf yn rhoddi fy niolchgarwch gwresocaf i'r rhai sydd wedi'm cynorthwyo mor garedig. Ystori, cân, darlun,—daw rhywbeth imi bron bob dydd; a gwel y plant oddiwrth hynny fod rhai yn meddwl am danynt. Y mae inni ddoosbarthwyr ffyddlon hefyd, nis galleu wneyd dim hebddynt hwy,—bydded iddynt weled o ffrwyth eu llafur.

Bydd yn ddrwg gan liaws o blant, hen ac ieuanc, golli cwmni y Ddau. Yr wyf yn disgwyl, ffordd bynnag, y bydd Miss Winnie Parry yn ein cyflwyno i rywrai ereill y flwyddyn nesaf eto.

Rhyfel sydd rhyngom a Boeriaid y Transvaal eto. Y mae llawer un ieuanc dewr wedi cwympo o bobtu. Y mae llawer bedd anamserol wrth droed Mynyddoedd y Dreigiau, a cher afon Orange. Y mae llawer cartref galarus ym Mhrydain, a llawer cartref galarus yng Ngwerniaeth Deheudir Affrig. Yr wyf yn rhoi darlun heddwch yn y lle crwn y mis hwn, i ddangos fy ngobaith y daw'r flwyddyn newydd a heddwch gyda hi.

Gwelir fod hanes byr pob un o'r tair sir ar ddeg yn y gyfrol hon. Cyn bo hir adroddir hanes addysg ymhob sir, a rhoddir rhestrau o'u dynion mawr, gyda bywgraffiadau byrion.

Gwneir tysteb genhedlaethoi i Granogwen. Dylai plant a merched, yn



CARTER Y CARW.



RHAGFYR, 1899.

CYF. VIII. RHIF 96.

Y DYDD BYRRAF.

YR unfed ar hugain o'r mis hwn yw dydd byrraf y flwyddyn. Nid oes ynddo ond llai nag wyth awr o oleuni. Ond nid efe, fel rheol, yw y dydd oeraf. Y mae'r ddaear heb golli holl gynhesrwydd yr haf eto; ni ddaw'r dydd oeraf, fel rheol, dan ganol Ionawr. Yna dechreu'r dyddiau hwyhau, a mwyn yw gweled hynny.

Yn awr yw amser hirnos gauaf, amser y tân braf, amser y darllen a'r dweyd hanesion ar yr aelwyd. Diolchwn i Dduw am y gauaf, efe sy'n ein dwyn ynghyd, mewn cariad a dedwyddwch.

COFIWCH AM YR ADAR.

Y MAE miloedd o adar wedi ein gadael, ac yn bwrw'r gauaf mewn gwledydd cynhesach. Ond y mae rhai wedi aros gyda ni, a chanant i ni yn nyfnder y gauaf. Clywir nodau'r dryw, aderyn yr eira, y llinos, bras yr yd, a'r asgell fraith ambell dro, fel adlais dedwyddwch eu brodyr yn y gwledydd pell. Clywir nodau mwy melodaidd y deryn du, yr ehedydd, a'r fronfraith weithiau hefyd. Ond y mae un aderyn yr ydym yn sicr o'i gân trwy'r gauaf; rhydd robin goch ei gân fach felus amrywiol i ni pan fo'r gauaf erwinaf.

Cofiwch am yr adar. Y maent yn disgwyl wrthyech. Nid yr

oerni sydd yn berygl iddynt, y mae Duw wedi rhoi dillad digon cynnes iddynt. Ond y mae arnynt ofn newyn a gwlaw. Peidiwch a'u tarfu o'r cysgod. Tafwch friwsion i leoedd cysgodol iddynt. Daw Duw a'r haf i chwithau.

NADOLIG.

CYN i'r flwyddyn hen ymadael,
Daeth Nadolig mwyn ei wedd;
Hawdd fydd canu yn yr angladd
Yng nghymdeithas Brenin Hedd.

Cilia, flwyddyn, pryd y mynnot,
I'r tragwyddol dros y lli;
Nid oes arnom ofn dy golli,—
Mae yr Iesu gennym ni.

Cyn i'r flwyddyn newydd ddyfod,
Daeth Nadolig mwyn ei wedd;
Hawdd yw canu i'r dyfodol
Yng nghymdeithas Brenin Hedd.

Flwyddyn newydd, tyrd pan fynnot,
A'th gyfrinion gyda thi;
Nid oes arnom ofn dy weled,—
Mae yr Iesu gennym ni.

J. R. TRYFANWY.

ADERYN YN GLANHAU EI BIG.

MAE doethineb y Creawdwr i'w weled ar bob llaw. Mae wedi llenwi natur â chymhwynasau.

Tyf yr uchelfar (*Mistletoe*) ar goed ereill. Ond pa fodd yr enfyn ei hadau o'r naill goeden i'r llall? Fel hyn. Daw'r frontraith neu ryw aderyn arall i fwyta eirin mân y planhigyn. Cydia'r hadau glydiog ym mhig a thraed yr aderyn. Ehed yntau ymaith, wedi gorffen ei bryd, i lanhau ei big ar bren arall. Rhwbia ei big yn y pren, a gad yr hadau yno,—lle wrth eu bodd i ffrwythloni a thyfu.

Nis gall aderyn lanhau ei big heb i'r Creawdwr drefnu fod hynny'n gymwynas â rhywbeth.

I'W DDARLLEN YN DDIFYFYR.

YN Llyn Tegid mae dwfr a physgod a ddelir gyda bach gwair sydd yn cael ei dorri wy sydd yn ymborth i ddyd gwelais ddwy goes pren sydd yn nofio mae hwyaid yn rhedeg am y goreu yr oedd dau ddyd yn ymryson mae llygod yn torri twll yr oedd y piano yn canu bas mae llanciau yn hoffi cael te am bedwar o'r gloch yr oeddwn i yn cael CYMRU'R PLANT y byddaf yn fisol gwelais y tren cyn oered a thrwyn ci tlws pob peth bychan oedd Iesu Grist yn iachau dynion oedd yn cadw cyngherdd'roedd y bobl yn myned i ben y Wyddfa y maent gyda'r tren i Lanuwchllyn yr awn adref.

CYMRU O'R MYNYDD.



Darlun gan Albert David.]

CROES TYDDEWI.

(Eglwys Dewi Sant yn y pell'cer.)

SIROEDD CYMRU.

XIII. SIR BENFRO.

AR lawer cyfrif, sir Bentro yw yr hyfrytaf o'n siroedd. Y mae'n hafaidd a ffrwythlon, a phriodol y gelwir ei rhannau deheuol yn ardd Cymru.

Afon Teifi, yn y gogledd, sydd yn ei gwahanu oddiwrth Geredigion. Ar du y dwyrain y mae llinell igam ogam yn ei gwahanu oddiwrth sir Gaerfyrddin. Ar bob tu arall y mae'r môr. O amgylch

yr arfordir eang y mae creigiau serth, breswylir gan filiynau o adar; ac ynnysoedd, tu gynt yn gartref i for-ladron.

Y mae sir Benfro tua 532 milldir ysgwar. Rhennir hi yn naturiol yn ddwy ran. Yn y gogledd y mae parhad o fynyddoedd Cymru; yn y de y mae gwlad gymharol wastad. Natur llech y gogledd sydd yn y rhan ogleddol, natur glo y de sydd yn y rhan ddeheuol. Cymraeg siaredir yn y rhan ogleddol, Saesneg yn y rhan ddeheuol.

Yng ngogledd y sir y mae'r mynyddoedd,—nid yn gadwen gyfan, fel yng Ngheredigion a Meirion ac Arfon, ond yn gadwen doredig. Cyfyd y mynyddoedd creigiog megis rhes o gewri, o'r wlad donnog,—Moel Eryr, Mynydd Cwm Cerwyn, y Freni Fawr (1285 troedfedd), Preseli (1754 troedfedd). Weithiau ymgyfyd y rhain fel drychiolaethau unig, dro arall fel dinasoedd caerog anghyfannedd. Bychain yw'r afonydd sy'n rhedeg i'r gogledd i'r Teifi,—yn eu mysig y mae afon Cuch, hynod yn y Mabinogion.

Tua rhanbarth Seisnig y de rhed afonydd mwy,—Cleddau Wen a Chleddau Ddu. I'r gorllewin rhed afonydd Gwaen, Nanhyfer, a Niwgel. Niwgel yw yr afon derfyn rhwng Penfro Gymreig a Phenfro Seisnig; dywedir fod terfynau y ddwy iaith fel yr oedd ganrifoedd yn ol.


Gwlad amaethyddol hollol yw Penfro, ac felly y mae ei hen amaethdai a'i hen fythynod,—lawer ohonynt,—yn adfeillion. Bu yn fagwrfa i filoedd o fechgyn iach, anfonwyd i'r gweithiau i Forganwg a Gwent, Bryniau isel a dyffrynnoedd hyfryd yw'r rhan ddeheuol i gyd.

Yn y gogledd y mae Llandudoch hyfryd, Cilgeran serth, Trefdraeth ar lan y môr, Abergwaen, a Thyddewi. Yn y de y mae Hwlfordd, Aberdaugleddau a'i borthladd ardderchog, Penfro gastello, a Dinbych y Pysgod fwyn. Prin y ceir cymaint o gestyll yn unlle ag yn sir Bentro. Y mae Carew, Manorbier (lle ganwyd Gerald Gymro), ac ereill, mewn eithaf cadwraeth.

Rhan o'r hen Ddyted yw sir Benfro. Gorchfygwyd hi gan y Normaniaid, a daeth tre Penfro yn gartref William Marshall, un o'r barwniaid Seisnig enwocaf. Nid llai enwog yw y rhan Gymreig, oherwydd ynddi hi y mae eglwys gadeiriol Tyddewi.

Fflemisiaid yw llawer o drigolion Penfro Seisnig, y fro a elwir weithiau yn "Little England beyond Wales." Yr un bobl ydynt ag Is-Ellmyn Holland a Boeriaid Deheudir Affrig.

Yn 1536 y gwnawd Penfro'n sir. Yr oedd yn Buritanaidd yn adeg y Rhyfel Mawr; ond trodd yn erbyn y fyddin fuddugoliaethus yn yr ail ryfel, ac y mae gwarchae Penfro gan Oliver Cromwell yn un o bethau hynod y rhyfel hwnnw.



YMLADDEFA YNG NGHARTREF Y CARW.

CARTREFI EIN CYMYDOGION.—XII. CARTREF Y CARW.

NID oes greadur harddach ar y ddaear na'r carw; ac nid oes gan neb gartref mwy mawreddog.

Y carw coch yw'r mwyaf adnabyddus o'r teulu mawr hwn, ceir ef trwy Ewrob ac yn rhai rhannau o Asia. Llwydgoch yw ei liw, gyda llinell ddu hyd ei gefn, ac ysbotiau bychain gwynion hyd ei ochrau. Ei hynodrwydd yw ei gyrn. Tyfant pan fydd yn ddwyflwydd oed. Y maent ar lun dagra i ddechreu; yna tyf canghennau y tu mewn iddynt, gan gynhyddu fel yr heneiddia'r carw. Bwriant eu cyrn yn y gwanwyn; a'r adeg honno rhaid iddynt ddibynnu am eu bywyd ar gyflymder rhyfeddol eu traed.

Mynyddoedd mawr coediog yw eu hoff gartref. Ymborthant ar laswellt, ac ar ddail y coed. Hyfryd i'w clustiau yw murmur afonig hefyd; hiraetha yr hydd am yr aberoedd dyfroedd. Yn y gauaf byddant yn ddiadelloedd mawrion gyda'u gilydd. Yn yr haf byddant yn deuluoedd bychain. Ym mis Mai y genir eu rhai bach,—pethau bychain melyngoch tlysion, heb gyrn.

Ceir hwy mewn parciau, ac yn wyllt yng nghoedwigoedd yr Alban

Y GAIR CAS.

AR y traeth yng nghwmni'r lasdon
Safai bachgen pymtheg oed;
Clywai'r llanw'n dweyd hanesion
Yn yr ewyn wrth ei droed.

Wrth ymwrando yno'i hunan
Dwys-fyfyriai, a phob tòn
Gludai ar ei gwefus arian
Iaith y dyfnder ger ei fron.

Wrth gyfodi ei olygon
Gwelodd seren loew, wen,
Yn pregethu hen gyfrinion
Iaith y nefoedd uwch ei ben.

Mae'r olygfa wedi deffro
Dymuniadau yn ei fron,—
Penderfynodd yntau weithio
Fel y seren wen, a'r don.

Penderfynodd wenu'n gyson
Fel y seren loew'i phryd;
Penderfynodd fel y lasdon
Adrodd iaith rhyw fôr i'r byd.

Rhodiodd rhywun yn ei hamdden
At y bychan ar y traeth,
Gwawdiodd fyfyrddau'r bachgen,—
Diystyrru'r oll a wnaeth.

Dim ond gair neu ddau, rhaid addef,
Ond llawn ddigon oeddynt hwy;
Trodd y bychan tuag adref,—
Nid yw yn myfyrio mwy.

Fe ddiffoddodd rhywun seren
Allai wenu'n deg ei phryd,
Rhwystrodd rhywun donnau llawen
I adrodd iaith y môr i'r byd.

Gwylw'n oll pan yn ymddiddan
Rhag rhoi troed ar ambell rôs,
Rhag in' wneuthur ton yn fudan,
Rhag in' ddiffodd seren dlos.

Blaenau Ffestiniog.

THOMAS LLOYD JONES.

CAROL.

ALAW,—*Codiad yr Hedydd.*

FRY, fry mae lluoedd nef,
A melus hwyl eu hanthem gref
Sy'n boddi sw'n y byd;
Dod, dod mae'r dwyfol wawl,
A chlychau nefol tonau'r mawl
Sy'n canu'n llon i gyd;
Adsain mae orielau'r nen
Odlau y "newyddion da";
Heulwen gobaith uwch ein pen
Gluda falm i wella'n pla;
Am eni'r Iesu'r nefoedd wen,
A'r ddaear, lawenha.

Y Bala.

Draw, draw yn ysgafn fron,
I Fethlem Judah awn yn llon,
Dan foli yn gytun;
Awn, awn mewn nefol hwyl,
I chwyddo'r garol ar ein gwyl
I Dduw am dded yn ddy'n;
Torrodd gwawr ar ddynol ryw,
Ganwyd Ceidwad in' mewn pryd;
Bloeddiwn Aleluwia'n fyw,
Gwres y gân yw gras i gyd,—
Gogoniant fyddo byth i Dduw,
A'i foliant lanwo'r byd.

RICHARD AB HUGH.



PLANT CYMRU. CXXI. DOSBARTH YN YR YSGOL SUL.
(Dosbarth Mrs. Rose Thomas, Capel Mawr, Cwm y Glo.)

DAN Y FANER WEN.

(Y gerddoriaeth gan y Parch. R. O. Williams, L.T.S.C., Amlwch.)

D OWCH ienectyd hawddgar Cymru	Clywch beroriaeth myrdd o leisiau
Dan y faner wen,	Dan y faner wen,
Miloedd heddyw sy'n cydgasglu	Dowch yn llu i chwyddo'r rhengau
Dan y faner wen;	Dan y faner wen;
Cilio'n ol mae'r prudd gynylau	Heb lwfrhau, ymlaen ymdeithiwn,
Araf loewi mae'r wybrenau,	Nerth y nef o'n plaid a geisiwn,
Cyn bo hir daw heulwen olau	Holl elynion rhinwedd drechwn
Ar y faner wen.	Dan y faner wen.

Ar glogwyni anwyl Gwalla
Rhown y faner wen,
Ar gopâon Bryniau Cassia
Rhown y faner wen;
Awn ymlaen mewn cydgan hyfryd
Drwy ddyffrynnoedd hedd a gwynfyd,
Nes cyrhaedd y Tir y Bywyd
Dan y faner wen.

BEREN.

COFIANTAU BYRION.



CU yw cof Lewis Davies, mab Evan a Margret Davies, Hen Shop, Dyffryn Ardudwy. Aeth at yr Iesu yn Chwefrol, 1899. Yr oedd er yn blentyn yn un o dymer siriol a hawdd ei drin, ac yn dangos bob amser y gostyngeddruwydd mwyaf i'w rieni; gofaldasant hwythau am ei fagu yn grefyddol, dan weinidogaeth yr efengyl a'r Ysgol Sul. Yr oedd yn medru llawer o Salmu a phenodau o'r Hen Destament, a llawer o'r Testament Newydd, cyn bod yn ddeuddeg oed. Cadwodd bob ceiniog a gaffai, mwy plaser iddo oedd eu doddi at gynnal achos yr efengyl na'u gwario. Difritol y gwrandawai y pregethau, manwl y cofiai y testynau, siriol yr adroddai y pennau, ac ysgrifennai ryw rannau ohonynt i lawr yn eglur pan nad oedd ond ieuanc iawn. Pan yn ddeg oed bu am dymor byr gyda Mr. R. T. Williams, y Llythyrdy, yn danton telegramau. Yr oedd y wên siriol oedd ar ei wyneb yn gwneyd pawb a'i adwaenai yn hoff ohono. Ni bu yn wael ond pum diwrnod, pan yr hunodd yn dawel yn yr angeu yn ychydig gyda deuddeg oed.

Yr oedd yn amyneddgar iawn yn ei glefyd, ac yn hawdd ei drin. Mynych yr oedd yn canu,—“O fryniau Caersalem,” ac “Ar for tymhestlog teithio 'rwyf.” Dywedodd ei dad wrtho,—“Yr ydwyf yn ein gadael ni a'r byd trafferthus ar ol.” Atebodd,—“Ydwyf, ac yn myned at Iesu.”

Ty'n y Ffynnon, Dyffryn.

DAVID LEWIS.

BESSIE JAMES, Pontardulais.—Meddai y sirioldeb a'r mwneidd-dra sydd mor nodweddiadol o ferched hawddgaraf Cymru. Ni chanfyddid hi nemawr byth na fyddai gwên ar ei gwyneb siriol, a gair caredig ar ei gwefus twyn. Yr oedd yn gymeriad mor bur fel na feiddiai neb a'i hadwaenai siarad na chanu dim o nodwedd isel yn ei phresenoldeb. O na ellid dweyd hyn am holl enethod Cymru! Yr oedd yn gantores o radd uchel. Meddai ar lais tyner a phur, a medrai ganu yn swynol dros ben. Cystadleuodd lawer mewn cyfarfodydd llenyddol ac Eisteddfodau, ac nid yn fynych y curid hi

yn yr ymgyrch. Yr oedd yn feddiannol ar y peth byw hwnnw sydd mor anhebgorol angenrheidiol er bod yn llwyddiannus mewn adrodd, pregethu, areithio, neu ganu, sef y gallu i roi enaid yn y gân, araeth, pregeth, neu'r adroddiad; a gwyddai sut i'w wneyd i bwrpas hefyd. Yr oedd yn dra chyfarwydd â gweithiau cerddorol a barddonol Cymreig, ac yn wir carai bopeth Cymreig. Yr oedd yn lled gyfarwydd yng ngweithiau awduron Seisnig, ac yn dra hoff o Longfellow a Tennyson, ond hoffai Ceiriog yn fwy.

“Rwyf yn cofio'r hen ganeuon ganodd i mi'n mrig yr hwyr,
Am ryw Alun mwyn a Menna, canu aeth â mryd yn llwyr.”

Bu farw yn ieuanc, ond gadawodd argraff ddwfn ar ei hol. Dywedai y Parch D. C. Jones, Cwmparc, Rhondda, am dani mewn llythyr at ei mam,—“Gellwch fod yn ddiolchgar am yr anrhydedd o fagu un o ferched prydferthaf Cymru, un o anwyliaid yr eglwys, ac un o etifeddion y net.” Ac am ei symudiad dywedai,—“Diau i Bessie gael yr hyn oedd oreu iddi, erbyn heddyw y mae yn iach, a chyda ei hoff waith o ganu clodydd ei Gwardedwr, a hynny gyda mwy o fedrusrwydd nag erioed o'r blaen.” Cafodd gystudd caled, ond dioddefodd yr oll yn amyneddgar a thawel, ac ar y chweched o Chwefrol, 1899, ehododd ei hysbryd ymaith i wlad lle mae yn dragwyddol haf.

Diengaist o dy boen,
Yn dy hun, i dy hoen,
A chefnaist ar gyfeillion lu;
I rodio'n ol dy droed,
Y llwybr goreu 'rioed;
Y llwybr a osodwyd
Gan ein Ceidwad eu.

Castellnedd.

Ti genaist pan yn iach
Yn y byd, rounyn bach,
Ti geni mwy ar Seion fryn;
Yng nghwmni pawb o'r saint,
Ganmolant byth eu braint,
A'u gynau oll yn gannaid,
Fel yr eira gwyn.

T. H. JONES.

MARW YN Y NWF.

WRTH geisio achub y ci, bu farw y plentyn; ac wrth geisio achub ei blentyn, bu farw y tad. Ie, prudd iawn yr hanes. Yn ymyl Brynaman, yn neheudir Cymru, mae hen bwl glo weithid ddyddiau yn ol. A thrwy ei shaft daw nwy gwenwynlyd, y *marsh gas*, sy'n angau i gynifer o lowyr. Effeithia'r nwy yn rhyfedd ar y neb fydd ynddo,—â'n ddi-deimlad, a syrth i drwmgwsg, o'r hwn ni ddefroa byth. Pan anadla'r glowyr y nwy, gadawant bopeth, gan redeg allan am eu bywyd. Ond bydd y gwanna'n cael ei orchfygu'n tuan gan y nwy, a syrth. Gwelais lowr cydnerth, diddan, dro'n ol, ac adroddai ei hanes yn ffoi rhag y nwy.

"Yr oeddym yn rhedeg i gyd," meddai, "am ein bywyd, ond ai'r nifer yn llai, 'roedd rhywun yn syrthio o hyd. Yr oedd yn ofnadwy o boenus i ni eu gweled yn marw a ninnau'n gorfod eu gadael,—ni wyddem pryd y syrthiem ninnau. Cyn hir cyrhaeddais y goleuni ymron llewygu. Pan ddeallais mai fi'n unig achubwyd, brôn na fai'n well gennyf orwedd yn y pwll glo'n farw gyda hwy na byw, gan faint fy ngofid."

Ac wrth enau'r pwll yr oedd ci rywfodd wedi anadlu peth o'r nwy ddeuai ohono, ac wedi syrthio. Pan welodd plentyn naw oed ei gi, druan, yn marw, rheddodd ato gan geisio ei gario, ond yr oedd yn rhy wan, ac anadlodd yntau y nwy marwol, a syrthiodd a'i ddwyllaw am wddf ei gi. Aeth y plant eraill i dweyd wrth William Jones, tad y plentyn, fod ei gi a'i fachgen yn marw yn y nwy. Rheddodd y tad yno, aeth at ei blentyn gan geisio ei gario ymaith, ond aeth y nwy yn drech nag yntau, druan, syrthiodd a'i ddwyllaw am ei blentyn. Pan aeth cynorthwy yno yr oedd y ci, y plentyn naw oed, a'r tad wedi marw yn y nwy.

URDD Y DELYN.

Y RHEOLAU.


1. Dysgu siarad ac ysgrifennu Cymraeg; darllen rhan o'r Beibl Cymraeg, neu ryw lyfr Cymraeg arall, bob dydd, ac ysgrifennu Cymraeg o'i gyfansoddiad ei hun.
2. Astudio hanes Cymru, a gwneyd ei oreu i godi ei wlad, fel y byddo Cymru fydd yn well na'r hen Gymru.
3. Dysgu canu'r delyn, os bydd hynny yn y cyrraedd; a dysgu alawon Cymreig.
4. Byw, hyd y gall, yn ol dysgeidiaeth yr hen Gymry gynt, mor bell ag y mae'r ddysgeidiaeth honno'n un a dysgeidiaeth Crist. Y mae'r ddysgeidiaeth honno'n gofyn purdeb, cariad at addysg, caredigrwydd at ddyn, addfwynder at greaduriaid direswm, iaith ddihalog.

AELODAU NEWYDDION.

1183. Llewelyn Jones, Cwm Newynydd, Crai, Brycheiniog.
 1184. Tom Roberts, Henblas, Brithdir, Dolgellau.
 1185. R. R. Jones, Canol y Cae, Penrhyn Deudraeth.

GWINWYDDEN HEN.

Y MAE gwinwydden yn Hampton Court wedi ei phlannu yn 1769. Y mae felly yn 130 mlwydd oed. Y mae arni eleni £,200 o glystyrau o rawnwin; pob clustwr, ar gyfartaledd, yn pwysu pwys.



GELERT.

CWN SANT BERNARD.

DYMA i chwi ddarlun o gi Sant Bernard, un o'r rhywogaethau mwyaf ardderchog o gŵn. Mae'n ddiameu fod y plant wedi darllen am gŵn enwog Mynachlog St. Bernard.

Rhwng gwledydd Switserland a Ffrainc y mae mynyddoedd a elwir yr Alpau, y rhai sydd mor uchel fel y bydd eira oesol ar eu copâu. Yn croesi y mynyddoedd hyn y mae bylchau, trwy y rhai y cerdd y teithwyr. Ond yn aml fe fydd ystorm o eira wedi bwrw gorchudd claerwen a disglær ar y llwybr a'r mynydd, gan wneuthur ymddangosiad y ddau yn un. A druan o'r teithiwr tlawd a fydd ar y mynydd yr adeg yma. Fe geisia tyned yn ei flaen yn bwylllog, gwthia ei ffon hir (*alpenstock*) i'r eira o'i flaen, ac ar ol cael gwaelod mentra ymlaen, ond o'r diwedd metha a chyrraedd lle diysgog â'i ffon, a dyna lle bydd yn palfalu am y llwybr. Yn ddiarwybod y mae

yn rhoddi cam i ddyfnder erchyll, ag sydd wedi ei guddio o'r golwg gan yr eira prydferth, a sudda dros ei ben yn y plu gwynion. Neu hwyrach mae dernyn enfawr o eira ac iâ (*avalanche*), a lithra yn ddisymwth hyd lechwedd y mynydd, ac a gladd y teithiwr, druan, yn fyw.

Gobaith gwan fuasai ganddo am ei fywyd onibai am gŵn ardderchog Sant Bernard a'u meistriaid dyngarol,—y mynachod sydd wedi cysegru eu bywydau i achub ac ymgeleddu teithwyr colledig.

Mae y cŵn yn gallu aroglï dyn pan o dan droedfeddi o eira, a chrafant yr eira i fwrdd â'u holl egni nes datguddio y dyn. Bydd dau yn gyffredin yn gweithio gyda'u gilydd, a bydd gan un ci gostrel o feddyginiaeth wedi ei chlymu wrth ei wddf, a'r llall fantell. Ar ol cael hyd i deithiwr yn yr eira, udant a chyfarthant er mwyn galw y mynachod i'w cynorthwyo, a'i ddwyn i le o ddiogelwch.

Ond Cymro o Gaergybi yw y ci uchod, a gŵr gwahanol iawn i fynach, erystal dyn ag ef, os nad gwell, o'r enw W. Gray Owen, yw ei feistr.

A chan nad yw mynyddoedd Cymru yn gyfryw ag y bydd eira arhosol arnynt ni cha Gelert gyfle i efelychu ei frodyr tramor.

Er hynny, gwna lawer o bethau hynod iawn. Dyma i chwi un hanesyn am dano. Un noswaith 'roedd ei feistr yn aros dros nos gyda ni. Awd a'r ci i gwt yn yr ardd. Yr oedd braidd yn anfodd-lawn i fyned i mewn,—yn wir, llety go salw i gi mor ardderchog oedd,—ond i mewn yr aeth, a rhowd clo arno. Yn ystod y nos yr oeddym yn clywed ei gyfarthiad fel rhuad llew, ond ychydig oeddym yn feddwl beth oedd yn ei wneuthur. Yn y bore, wrth fyned i'w ryddhau, er ein syndod, beth welwn ond y ci, a'i ben mawr allan trwy y drws, yn edrych yn ddiniwaid, a'i lygaid bychain yn dawnsio o lawenydd wrth weled ei feistr. Yr oedd wedi cnoi twll digon mawr, trwy ddrws iach, modfedd a hanner o drwch, i roddi ei ben allan trwyddo.

Dolhelyg.

J. G. O.

DAU DDYCHYMYG.

GAN HUGH AP IOAN, LLANGOED.

HAWDDGAROL blant Cymru, atebwch yn chwim
Fy nhrwsgwl ddychymyg, heb oedi fawr ddim,
'Rwy'n gwybod fod gennych atebion yn stor,—
Pa beth waedda ragor na mochyn dan ddôr? DAU FOCHYN.
Pa beth sydd yn canlyn pob cerbyd a throl
Nad yw o un defnydd, er cymaint ei frol,
Ond mae'n angenrheidiol ei gael ef bob pryd
Cyn 'r elo 'r un cerbyd na throl drwy y byd? SWN.

MEWN PERYGL.

VI. YN YR EIRA.

LLAWER o fywydau gollwyd adeg ystormydd o eira mawr. Ond nid yr eira sy'n lladd. Mae llawer wedi byw dyddiau o dan eira; ac y mae defaid yn byw felly beunydd. Yr oerfel sydd yn lladd,—y gwynt miniog yn fferru'r gwaed, a'r eirwlaw rhewlyd yn arafu curiadau'r galon. Bum droion mewn ystorm eirwlaw oedd ar fy rhwystro i anadlu. Bydd yn ystorm eira mawr yng Nghymru weithiau. Ar yr Arennig bu dyn yn mynd a llond car o wair i'r defaid; a chyn pen ychydig funudau deuai ystorm i guddio'r car o'i olwg â llen o eira.

Yn yr America y mae'r tywydd yn llawer mwy eithafol nag yn ein gwlad ni,—yn eithafol oer yn y gauaf ac yn eithafol boeth yn yr haf. Yn yr America y mae'r amaethwr acw yn ceisio tynnu adref gerfydd rhaff.

Y mae'r beudai a'r ystablau, tel y mae'n digwydd yn aml, dipyn oddiwrth y tŷ. Rhoddir rhaff gref oddiwrth ddrws y tŷ.

at ddrws y beudy a'r ystabl. Gŵyr yr amaethwr y gall ystorm erwin o eira godi, i guddio pob man o'i olwg. Mewn ychydig iawn o amser disgyn troedfeddi o eira ar ei lwybr, ac y mae'r awyr yn llawn o'r eira trwm. Ond tra y ceidw ei afael yn y rhaff, gŵyr ei fod ar y ffordd i ddiogelwch a diddosrwydd.



CEISIO MYND ADRE.

☞ CAROL NADOLIG. ☞

(RHIF 8.*)

"ETIFEDD ANWYD HEDDYW."

J. M. HOWELL, ABER ARRON.

L. J. ROBERTS, Y RHYL.

DOH Aḃ.

	:s ₁ s ₁ :-s ₁ s ₁ :s ₁	:m ₁ m ₁ :-m ₁ m ₁ :m ₁	:d ₁ d ₁ :-d ₁ d ₁ :d ₁	:l ₁ :- l ₁ :l ₁	:s ₁ :-s ₁ s ₁ :s ₁
1. Mae	cerdd - i yn yr	aw - el, Gwrid	yn yr wy - bren		
:d	d :-d d :d	d :r d :d	d :-d t ₁ .d :r		
:d ₁	d ₁ :-d ₁ d ₁ :d ₁	l ₂ :- l ₂ :f ₁	s ₁ :-s ₁ s ₁ :s ₁		

Eḃ.t.

	:s ₁ :- - :m	:m ₁ :- - :d	:d ₁ :- - :d	:l ₁ :- .l s .l :t	:d' :- m :f
bell:	Mae'r	dwyrain yn ym	ddeff - ro I		
d	:- - :s	:- .t t .d' :r'	d' :- ta :l		
d ₁	:- - :d	l ₁ r :- .r r :r	l :- s :f		

f.Aḃ.

	:s :- .s f .m :r	:d :- .de r .d :t	:s :- .s l .s :f	:d s ₁ :- -	:s ₁ s ₁ :l ₁ .t ₁ d :r
ob -	aith dydd-iau	gwell:-	Et - i - fedd an - wyd		
s	:- .s l .s :f	m ₁ t ₁ :- -	s ₁ t ₁ :d .r d :t		
m	:- .m r :s	d s ₁ :- -	s ₁ s ₁ :- .f ₁ m ₁ :r ₁		

	:m :- d :l	:s ₁ :- s ₁ :l	:d :- m :l	:d ₁ :- d :l	:l ₁ :t ₁ .de r :m	:f :- - :m
hedd -	yw, Y	ddae-ar, llaw - en	ha,	"Go -		
d	:- m :l	de :r .m f :s	f :- - :s			
d ₁	:- d :l	l ₁ :- .s ₁ f ₁ :m ₁	r ₁ :- - :m ₁			

* Y mae J. M. Howell ac L. J. Roberts wedi ysgrifennu Carol yn fynyddol i *Gymru'r Plant*, er pan gyohwynwyd y misolyn yn 1892.

}	r :m f :fe s :- .f m :d m :r d :t,	}
	l, :l, l, :r r :t, d :d l, :l, s, :s,	
	gon-iant i'r Gor - uch - af! I ddyn e - wyll - ys	
	l :- .s f :l s :- s :d d :r m :f	
	f, :m, r, :r .d t, :s, d :l, f, :f, s, :s,	

CYDGAN.

}	d :- — s, f :- .f f :s f :- m :m	}
	s, :- — s, d :- .d r :t, r :- d :d	
	da." Et - i - fedd an - wyd hedd - yw, Y	
	m :- — s, f :- .l s :s s :- s :s	
d, :- — s, l, :- .l, t, :s, d :- d :ta,		

}	m :- .m l :m f :- — :m r :m f :fe	}
	de :- .de de :de r :- — :de r :de r :l,	
	ddae - ar, — llaw - en - ha, "Go - gon-iant i'r Gor -	
	l :- .l m :s f :- — :s l :- .s f :m	
l, :- .l, l, :l, r :- — :m f :m r :- .d		

}	s :- .f m :d m :r d :t, d :- —	}
	s, :t, d :d d :l, s, :s, s, :- —	
	uch - af! I ddyn e - wyll - ys da."	
	r :s s :l s :f m :r m :- —	
	t, :r d :l, m, :f, s, :s, d, :- —	

2 Mae mintai o angylion
 Yn hedeg uwch y wlad ;
 Brenhinoedd sy'n ymgrymu,
 Ger bron y preseb mād :
 Yr holl genhedloedd ddeuant,
 I'w wasanaethu Ef ;
 Gogoniant ac anrhydedd
 I D'wysog mawr y Nef !

3 Awn, awn i faesydd Beth'lem,
 Dan wlith y sanctaidd nos ;
 Mae Seren Duw yn rhuddo
 Ymylau gwawrddydd dlos ;
 Mae'r dydd yn wir yn torri,
 Na welir ei brydnawn—
 Brenhiniaeth y Messiah,—
 Dydd iachawdriaeth lawn !

·Cydgan.—Etifedd anwyd heddyw, &c. Cydgan.—Etifedd anwyd heddyw, &c.



“A BACHGEN BYCHAN A’U HARWAIN.”

TEYRNAS Y PLENTYN.

Y MAE awenydd yn nyddiau tywyllaf y flwyddyn oherwydd geni'r Iesu yn blentyn i'r byd. Clywodd doctoriaid ei genedl ei leferydd, a synasant. Ac mewn llawer gwlad gwrendy'r hen yn astud ar iaith onest a diniwed plentyn. Mae cwestiynau plentyn yn ystor o ddedwyddwch i bob cenhedlaeth o ddynion o feddwl iach.

Daeth yr Iesu'n blentyn i'r byd, flynyddoedd maith yn ol. Er hynny y mae mwy o wrando ar y plentyn, a mwy o ofalu am dano. A phlant da, hoff o wybod, fydd prif addurn teyrnas Dduw,—“Ni ddrygant ac ni ddifethant yn holl fynydd fy sancteiddrwydd; canys y ddaear a fydd llawn o wybodaeth yr Arglwydd, megis y mae y dyfroedd yn toi y môr.”

Y DDAU HOGYN RHEINY.

GAN WINNIE PARRY.

XII. YMADAWIAD Y DDAU O BEN Y BRYN, AC UN DIGWYDDIAD
CYN HYNNY.

FEL y crybwyllais yn niwedd y bennod flaenorol bu canlyniad dipyn yn anymunol i'r cuddio yn y cwpwrdd mawr yn fy ystafell. Ar ol ciniaw y prydawn dydd Mercher cyn eu hymadawiad, aeth y ddwy Miss Jones i'r llofft yn ol eu harfer i wisgo am danynt ar gyfer y prydawn. Yr oeddwn i o dan orchymyn y Ddau i fyned i'r ardd bellaf i chwareu. Ar ol iddynt redeg o amgylch nes yr oeddynt yn boeth ac yn fyr eu hanadl, ac wedi fy ngwneyd innau bron yn yr un cyflwr, aethom ein tri i ryw adeilad bychan deiliog y geilw y ddwy hen ferch y "summer house," ac eisteddasom ar y fainc yng nghysgod y dail. Yr oeddwn i yn eithaf boddlon yn y fan honno, heb ddim i wneyd ond gwrando swn y wenynen a nodau rhyw fronfraith ym mrigyn y sycamorwydden oedd gerllaw.

Ond nid oedd difyrwrch o'r fath wrth fodd y Ddau o gwbl; a chyn ein bod wedi eistedd tri munud awgrymodd Bobbie y buasai edrych llyfr pictiwr s y peth mwyaf dymunol yn y byd o dan yr amgylchiadau. Yr oedd edrych llyfr pictiwr s, rhaid i chwi wybod, yn golygu fy mod i wneyd stori ar y funud honno, o ddyddordeb gweddol, am bob un o'r cytryw ddarluniau. Nid oedd fy nychymyg rhyw fyw iawn y prydawn hwnnw, a buaswn yn caru cael ymesgusodi, ond yr oedd fy meistri mor galon galed a'r Aifftwyr gynt. Aeth Bobbie ymlaen i ddweyd pa lyfr oedd wrth ei fodd y prydawn hwnnw,—“Y llyfr mawr cās coch hwnnw sy yn y parlwr cefn, Elin, mi eith Willie a fi i nol o.” Gwyddwn, drwy brofiad, y canlyniad o adael i'r Ddau fyned i chwilio am rywbeth. “Na,” meddwn, “fedrwrch chi ddim i estyn o. Mae o yn nhop y cwpwrdd. Rhoswch chi yn y fan 'ma a mi â i.” “Rhedwch, Elin, a brysiwch,” gwaeddai'r Ddau ar fy ol tra y cerddwn ar draws yr ardd at ddrws y cefn. Galwai Hannah rywbeth ar fy ol fel yr elwn heibio'r *wash-house*, a meddyliais mai dweyd ei bod yn boeth yr oedd. Cerddais yn syth i fewn i'r parlwr, ac er fy syndod, pwy oedd yn eistedd wrth y ffenestr ond Mr. Hughes y gweinidog, a tharawodd fi nad oedd ei arhosiad yn Llanonnen wedi gwneyd llawer o les iddo, a barnu oddiwrth yr olwg oedd arno.

Edrychai ef arnaf fi â chymaint o syndod ag yr edrychwn innau arno yntau, ac meddai wrth ysgwyd llaw â mi,—

“Pwy fasa'n meddwl ych gweled chi yn fan 'ma, Miss Evans, yr oeddwn i'n meddwl ych bod chi yn Llanonnen.”

"Diar anwyl," meddwn, "peth rhyfedd, 'roeddwn innau yn meddwl mai yn fan honno yr oeddach chiitha."

"Na, adra buo mi, mae nhad wedi bod yn wael iawn, a mi ydw i wedi bod ar fy nhraed y nos hefo fo gryn gwrs. Ond yr oedd rhywun yn dweyd wrtha i, cyn i mi fynd i fwrdd, ych bod chi'n mynd i Lanonnen hefo teulu'r siop am yr *holidays*."

"Diar anwyl, nag oeddwn i ddim wedi meddwl mynd i Lanonnen hefo nhw na neb arall," a cheisiwn ddyfalu pwy allasai fod wedi dyweyd peth mor ryfedd wrtho. Ac hefo teulu'r siop o bawb, nid oedd llawer o gyfeillgarwch rhyngof a'r cyfryw deulu, ac nid oeddwn yn dymuno iddo gynyddu tra yr oedd gennyf wrthwynebiad gwirioneddol i un o'i aelodau, sef y mab, Evan Henry, fel y galwent ef. Fodd bynnag, ni ddywedais ychwaneg ar y pwnc wrth Mr. Hughes. Dechreuais son am Bobbie a Willie.

"Ia," meddai, gan wenu, "yr wyf wedi clywed ychydig am danynt, mae yn amlwg eu bod wedi creu dipyn o stwr yn Nantgwyn. Lle mae nhw rwan?" Cyn i mi gael ateb, clywn y drysau yn clepian, arwydd agosrwydd y Ddau, ac agorwyd drws y parlwr yn y modd yr arferant hwy agor drws,—yr oedd hynny ychydig yn wahanol i fel byddai y gweddill o deulu Pen y Bryn yn gwneyd yr un peth. Nid oedd yn ddiogel i neb fyddai yn yr ystafell fod yng nghyffiniau'r drws ar yr adeg honno. Bobbie yn unig ddaeth i mewn y tro hwn, ac yr oedd mewn tymer. "Elin," llefai, "pam na ddowch chi hefo'r llyfr pictiwrws hwnnw." Syrthiodd ei lygaid ar Mr. Hughes,—“Cerwch i ysgwyd llaw hefo Mr. Hughes, Bobbie,” meddwn yn esmwyth. Edrychai braidd yn amheus, ond utuddhaodd, ac estynnodd ei law. Mae gan Mr. Hughes ffordd hynod ddeniadol gyda phlant, a llwyddodd i swyno Bobbie cyn pen ychydig o funudau. Tra yr oeddem yn ymddiddan am hyn a'r llall, sylwn ei fod yn craffu yn neillduol ar wyneb Mr. Hughes fel y safai wrth ei lin, a phan oedd distawrwydd rhyngom am ennyd, meddai, gydag ysgogiad o'i ben fel pe buasai wedi cael eglurhad ar rhywbeth,—“Mi wn i 'rwan. Chi 'di hwnnw mae gin Elin i lun o yn 'i llofft.”

“Pa bryd y ddaethoch chi'n ol, Mr. Hughes?” gofynnais yn frysiog; ond yr oedd dychymyg Bobbie yn hynod o fywiog y prydawn hwnnw, ac aeth ymlaen cyn i Mr. Hughes gael ateb fy ngofyniad,—

“Mi welis i Elin yn rhoi shiws i'ch pictiwr chi rhyw ddiwrnod.”

“Bobbie,” meddwn, mewn llais ofnadwy.

“Wel do, mi ddaruch, Elin, a mi ddaruch grio, a deyd, ‘O nghariad bach i.’ Tydi o ddim yn fychan, Elin. Pam oedd hi'n crio?” gan droi at Mr. Hughes. Neidiais oddiar y *sofa*, a gafaelais yng ngwar y bachgen,—nis gwn pa ansoddair i ddefnyddio. Yr

wyf yn gofidio na tuaswn yn ddynd, fel y gallwn osod un digon cryf i lawr, ond gwyddoch beth yr wyf yn feddwl. Gafaelais yn ei war, a llusgais ef o'r ystafell, tra y llefai,—“Wel mi ddaruch, Elin. Gwelis i chi y diwrnod hwnnw ddaru mi guddio yn y cwpwr mawr yn ych llofft chi, mae 'na hic bach yn drws y cwp—.” Rhoddais fy llaw ar ei enau. Mae yn wir fod darlun o Mr. Hughes, ymysg amryw eraill, ar y *chest of drawers* yn fy ystafell. Yr oedd yn gwybod fy mod yn hoff o ddarluniau o bob math, ac wedi rhoddi ei un yntau at fy nghasgliad ers gryn amser bellach. Gadawaf i chwi farnu a oedd yn debygol y buasai dynes o fy oedran i yn ymddwyn yn y dull penwan ddesgrifiai Bobbie. Ar y ffordd i'r llofft cyfarfyddodd Miss Jones ni, a meddwn,—

“Mae Mr. Hughes yn y parlwr.”

“Diar anwyl, wyddwn i ddim fod o wedi dwad yn ol. Lle 'dach chi'n mynd, Elin? A be mae Bobbie wedi dorri 'rwan?” Torri oedd y drwg mawr yng ngolwg Miss Jones.

“Ddaru mi ddim—,” dechreuai y troseddwr, ond rhoddais fy llaw ar ei enau drachefn a llusgais ef ar hyd y *lobby* i fy ystafell, ac wedi myned i mewn, troais yr agoriad yn y drws. Gosodais Bobbie i eistedd ar y gadair, a safais o'i flaen, a'm breichiau yn blygedig ar fy mynwes, yn pwyso ar bost y gwely. Syllais arno yn ddirifol tra y ceisiwn feddwl pa gosb i weinyddu arno. Ond er syndod iddo ef, ac er mwy o syndod i mi fy hun, daeth awydd “crio,” ys dywedai ef, cryf arnaf, a phwysais fy ngwyneb yn erbyn y post derw a rhoddais ffordd i'r teimlad yma. Gwelwch fod fy *nervous system out of order* eto. Ond er y cwbl, efallai na fuaswn yn gallu cymeryd ffordd well i ddwyn Bobbie i edifeirwch am ei bechod. Neidiodd oddiar y gadair, a daeth at fy ymyl, a meddai,—“Be 'dach chi'n crio, Elin? Yr hen ddynd 'na ddaru'ch dwrddio chi am i mi ddeyd wrtho fo? Na i byth ddeyd eto, Elin, tewi 'rwan, dyna fo.”

Ond wrth weled nad oedd rhyw fawr o effaith yn dilyn ei geisiadau i fy nghysuro, dechreuodd yntau wylo hefyd, a dyna lle y buom ein dau yn ymddwyn yn y modd anghall yma am beth amser. Fi ddarfu feddiannu fy hun yn gyntaf, a golchais fy ngwyneb mewn dwfr oer. Yr oedd Bobbie yn parhau i ollwng dagrau o'hyd. Pan oeddwn wedi gorffen gwneyd trefn arnaf fy hun troais ato ef i wneyd yr un gymwynas iddo yntau. Gofynnodd i mi,—“Ydach chi'n ffrindia hefo fi, Elin?” Ni ddywedais air wrtho mewn atebiad i hyn, ond gafaelais ynddo ac ês ag ef at y *washingstand*. “Dudwch Elin, ydach chi'n ffrindia hefo fi?” “Ydw, os newch chi beidio crio.” Ceisiodd dawelu yr ocheneidiau trymion oedd yn cynhyrfu ei fynwes, a golchais innau ol y dagrau oddiar ei wyneb; nid oedd, fodd bynnag, yn foddolawn, a gotynnodd drachefn,—“Ydych chi

wir-yr yn ffrindia, Elin." Er mwyn ei sicrhau o hyn, ês i *drawer* y bwrdd a deuais a darn o shoclet allan. Yr oedd hyn yn sicrwydd o fy maddeuant. "Thanciw, Elin, 'na i byth eto." Clywem lais Willie tuallan i'r drws. "Elin, mae Auntie Cati yn deyd bod tē yn barod, ac isio chi olchi nulo fi." Agorais y drws iddo, ac wrth gwrs bu raid darganfod darn arall o shoclet. Ond druan o edifeirwch Bobbie. Y peth cyntaf ddywedodd wedi myned i'r parlwr oedd,—“Na, 'na i ddim eista wrtha chi. Mi 'dw i wedi digio wrtha chi am neyd i Elin grio.” Yr oeddwn yn ddiolchgar i Mr. Hughes am beidio talu sylw i'r dywediad yma o eiddo Bobbie. Y mae yn ddyn synwyrol, a gwyddwn y byddai iddo edrych ar yr hyn gymerodd le yn gynarach yn y prydawn yn y goleuni priodol. A meddyliwn y gallwn, feallai, ar ryw achlysur ei hysbysu o hoffder Bobbie i dynnu ar ei ddychymyg gyda golwg ar rai pethau, heb gyfeirio at y digwyddiad hwnnw yn uniongyrchol. Gosodais Bobbie wrth fy ochr, a chedwais ef yno weddill arhosiad Mr. Hughes ym Mhen y Bryn y prydawn hwnnw.

Yr oedd acw brysurdeb anarferol dydd Iau a bore Gwener. Buasech yn tybio ein bod i gyd fel teulu am ymfudo i'r Amerig. Y ddamwain ddiweddfaf fu acw cyn iddynt ein gadael oedd i Bobbie, fore Gwener, dorri ffenestr y *landing* wrth geisio cynorthwyo Hannah gludo eu cist i lawr, a buasai ef ei hun wedi syrthio drwyddi i'r ardd islaw oni bai i Cati lwyddo i gael gafael yng ngodreu ei jecad mewn pryd.

Yr oeddwn wedi sicrhau na fyddai yr un ymrafael ynglŷn â'r bag lledr du y tro hwn drwy ei anfon gyda Hannah rhyw ddeng munud cyn i ni gychwyn o'r tŷ, ac nid es â fy mharasol i'm canlyn. Daeth y ddwy hen ferch i'n danfon at y lliidiart, yr hon oedd ers peth amser yn gorfod bod yn agored nos a dydd ar ol y driniaeth oedd wedi ei ddiodeff gan y Ddau. Heblaw y diffyg yma ynddi yr oedd ystyllen neu ddwy wedi dod yn rhydd hefyd. Llwyddodd y ddwy Miss Jones i gael "shiws" o ymadawiad gan Bobbie heb gymaint o drafferth ag a fuaswn yn feddwl.

Cyfarfyddodd Mr. Hughes y gweinidog ni yn y pentref, a daeth gyda ni i'r orsaf. Ac yn wir, nid oedd yn ddrwg gennyf, gan fod y Ddau mor llawn o frwdfrydedd wrth feddwl am y dedwyddwch o tyned gyda'r trên, fel, erbyn i ni gyrraedd yr orsaf cefais ei fod tuhwnt i fy ngallu bron i'w cadw rhag neidio oddiar y platform, heb son am eu cadw mewn trefn. Yr oedd yn amlwg fod y gŵr ieuanc oedd am gymeryd eu gofal gartref yn cael cryn waith i ymddangos yn *weddol* falch o'u gweled, ac mai gyda gradd o amheuaeth yr edrychai ymlaen at y daith yng nghwmni y Ddau.

Er fy syndod, rhoddodd Bobbie "shiws" i mi ohono ei hun fwy nag unwaith wrth ymadael, a gellwch fod yn sicr fy mod yn gwerth-fawrogi'r fraint. Yr oedd yr olwg olaf gefais arnynt yn nodweddiadol. Fel y lithrai y trên o'r orsaf, gwelwn y Ddau mewn ymdrech a'u gilydd prun ohonynt gaffai edrych drwy y ffenestr agosaf ataf, a'r geiriau diweddaff glywais oedd,—“Taw wâs, fi oedd yma gynta.”

Er mor ryfedd y mae yn swnio, rhaid i mi gyfaddef mai lle eithaf prudd oedd ym Mhen y Bryn weddill y dydd Gwener hwnnw. Nid oedd llygaid y ddwy Miss Jones yn eu cyflwr arferol, ac yr oedd yn angenrheidiol sychu eu gwydrau yn aml iawn; ac am Hannah, nid oedd hi yn ceisio cuddio ei bod yn teimlo “reit anifyr heb y petha bach.” Fy neimlad i pan yn eistedd yn yr ardd ar ol tē oedd, na fuasai dim yn fy ngwneyd mor hapus a chlywed Bobbie yn gwaeddi,—“Hei Elin, dowch yma, brysiwch.”

Y diwrnod ar ol eu hymadawiad danfonodd Miss Jones fi i'r pentref i ddweyd wrth y gwahanol grefftwyr oedd angen eu gwasanaeth ym Mhen y Bryn oherwydd y Ddau ddod yno ddydd Llun. Cyfarfyddais â Mr. Hughes ar fy nhaith, a dywedais fy neges wrtho, ac yr oedd ef yn gobeithio, er mwyn difyrrwch i mi, y deuent i gyd gyda'u gilydd.

Gyda llaw, mae ef wedi bod yn hynod gyson yn ei ymweliadau â Phen y Bryn ers pan y mae yn ol yn Nantgwyn. Feallai ei fod yn meddwl na chaiff y fraint honno yn hir, gan ei fod wedi derbyn galwad i Gapel Bethel, Tregors, ac yn bwriadu dechreu ar ei weinidogaeth yno cyn hir. Mae y ddwy Miss Jones yn gofidio yn fawr oherwydd ei ymadawiad ar lawer ystyr, meddent hwy. Ac yn wir, mae amryw ereill o eglwys Salem yn cwyno colli'r gweinidog. Nis gallaf fi ddweyd yr un modd, gan fy mod innau yn bwriadu canu'n iach â Nantgwyn ac â Phen y Bryn a'i berchenogion caredig i fyned i'r un dref, ac felly byddaf eto o dan ei weinidogaeth, mae yn ddiarheu, ond nid fel athrawes yr wyf yn myned i Tregors, oddigerth feallai athrawes yn yr Ysgol Sul.

Daeth yma anrhegion i'r ddwy Miss Jones oddiwrth Mrs. Thomas, fel cydnabyddiaeth, mae yn ddiameu, o'u gofal am y Ddau. A gyda hwynt yr oedd *inkstand* hynod hardd wedi ei gyfeirio i mi yn enwau Bobbie a Willie. Yr oeddwn wedi synnu yn ddirfawr. Nid oeddwn yn meddwl fy mod wedi creu argraff mor dda arnynt. Yn wir, yr wyf wedi derbyn amryw anrhegion yn ddiweddar. Y mae yn arferiad gan drigolion Nantgwyn roddi “rwbath i gofio am danom ni,” ys dywedent, i un fyddo'n digwydd ymadael o'u plith, ond nid oeddwn yn meddwl fy mod i yn cael fy nghyfri'n deilwng o'r goffadwriaeth honno gan yr un ohonynt. Mae yr hen Richard Morris y

saer wedi gwneyd bwrdd i mi,—“rhy fath a hwnnw sy ym mharlwr Pen y Bryn, hwnnw fyddwch chi'n leicio mor arw Miss Evans, mae o o fahogani solud.” Hen fwrdd Chippendale oedd model y bwrdd “mahogani solud.”

Yr wyf wedi cael anrheg gan y ddwy Miss Jones hefyd,—gŵn i wisgo ddiwrnod fy ymadawiad o Nantgwyn, meddent hwy. Yr wyf yn sicr na fu gŵn erioed â chymaint o ofal yn ei chylch. Fel y dadleuai'r ddwy parthed rhagoroldeb y defnydd yma, neu'r defnydd arall, ac nis gwn pa sawl gwaith y clywais y gofyniad,—“Dach chi'n leicio hwn, Elin?” Ond o'r diwedd, penderfynasant ar ryw ddefnydd esmwyth o liw llwyd goleu. Ar ol hynny bu dadleu tuhwnt i bopeth ar y dull i'w wneyd, ond yn awr y mae yn barod, a hwn, yn ol fy meddwl i, ydyw'r gŵn tlysaf fu yn fy meddiant erioed, ac yfory yr wyf am ei wisgo am y tro cyntaf. Gobeithio yr edrychaf yn neis ynddo.

DIWEDD.

DIWEDD CANRIF.

BYDD y flwyddyn nesaf y flwyddyn olaf o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Faint ohonom, tybed, gaiff fyw i weled gwawriad y ganrif newydd? Hyn sydd yn sicr,—a pob bachgen yn ddyn yn ystod y ganrif nesaf. Gwnawn ein dyledswydd dros ein gwlad a'n Duw.

MAE'R GAUAF WEDI DYFOD.

MAE'R gauaf wedi dyfod,
Mae oslef brudd y gwynt
Yn sibwrdd yn ddi-ddarfod
Fod dryghin ar ei hynt;
Gostega'r ganig olaf
Yng nghwr y goedwig draw,
Tra gwyntoedd oer y gauaf
Yn tramwy llwybrau braw.

Mae'r gauaf wedi dyfod
Mor rymus ag erioed;
A daeth i wasgar difrod
Ar frigau gwyw y coed;

Ton, Pentre.

Mae'r derw cedyrn, uchel,
A'u cangau oll yn llwm,
Yn plygu'n isel, isel,
Dan bwysau'r stormydd trwm.

Mae'r gauaf wedi dyfod,
Disgynna'r eira gwyn;
Mae'r plant i gyd mewn syndod
Yn lithro ar y llyn.

Mae'r eira ar y llwybrau,
Yn ei brydferthwch byw;
A gwynion yw'r mynyddau,
Fel hen broffwydi Duw.

CRNECH.

CYfariad y golygydd yw,—OWEN M. EDWARDS, 8, CLARENDON VILLAS, OXFORD.

ARGRAFFWYD A OYHODDWDYD GAN HUGHES AND SON, 56, HOPE STREET, WREKHAM



CYMRU'R

PLANT.

CYFROL IX.

DAN OLYGIAETH

OWEN M. EDWARDS, M.A., RHYDYCHEN.

Y CERDDORIAETH DAN OLYGIAETH


L. J. ROBERTS, M.A., Y RHYL.



GWRECSAM:

HUGHES A'I FAB, 56, HEOL ESTYN.

→ 1900. ←





RHAGYMDRODD I'R NAWFED GYFROL.

DYMA gyfrol olaf y ganrif. Nis gwn beth ydych yn ddisgwyl gael yn y gyfrol nesaf. Gwelaf chwi, mewn dychymyg, yn ffenestr y ganrif nesaf, yn edrych ac yn disgwyl. Beth, tybed, sy'n curo wrth y drws? Pa ymwelwyr rhyfedd ddaw atom fore'r ganrif nesaf? Pa ystorïau a pha ddarluniau ddaw hefyd yn rhifynnau CYMRU'R PLANT?

Y mae'n dda gennyf ddweyd fod eich cyhoeddiad bychan yn llwyddo. Y mae'n ennill cyfeillion newydd o hyd. Y mae'n cael croesaw bron ymhob ardal yng Nghymru. I chwi y mae i ddiolch am hyn. Oni bai eich bod chwi yn agor drws ar ol drws iddo, ni fedrai fyw a chryfhau. Bydd golwg mwy hoew arno yn y ganrif nesaf. Y mae'n ennill nerth a gwroldeb. Cred fod plant Cymru wrth ei gefn.

Un peth hoffwn ddangos i'r plant ar wawr canrif yw ôl traed y rhai ieuainc,—rhaf fu farw'n ieuainc,—wnaeth ddaioni i'w gwlad a'u cenedl. Ymysg y rhain y mae tywysogion a beirdd, megis Morgan Llwyd, Ann Griffiths, Ieuan Ddu, Ieuan Gwynedd, Golyddan, Thomas Ellis.

Hoffwn agor o flaen y plant, hefyd, olwg ar yr Ymherodraeth Brydeinig. Adroddir hanes y trefedigaethau, y rhai boblogwyd neu a wareiddiwyd gan Brydain, megis Deheudir Cymru Newydd neu'r Ynysydd Cyfeillgar.

Ond y peth goreu i mi yw peidio disgriflo'm cynlluniau ymlaen llaw. Gwell gadael i'r plant eu gwyllo'n dadblygu. Gwn beth maent yn ddisgwyl. Y maent yn disgwyl ystraeon aiff a'u holl fryd wrth iddynt eu darllen, y maent yn disgwyl hanes arwyr y gallant freuddwydio am fod yn debyg iddynt. Y maent yn disgwyl esboniad ar ffeithiau dieithr bywyd, y maent yn disgwyl llawer o hanes bywyd adar ac anifeiliaid. Y mae rhai ysgrifenyddwr wrth fodd y plant, y maent yn disgwyl yn bryderus wrth ambell un, chwiliant am eu henwau wrth ystori neu bennill.

Yr wyf yn disgwyl y medraf roddi hyn oll yn rhifynnau'r flwyddyn nesaf; ac yr wyf yn meddwl y medraf siomi'r plant o'r ochr oreu.

Nid difyrro'n unig yw fy amcan. Hoffwn fedru agor llygaid plant. Y mae'r byd yn llawn o dlyeni o'u cwmpas, yn llawn llwybrau i ddaioni a dedwyddwch. Hoffwn fedru gwneyd rhywbeth i fagu gwroldeb a thiriondeb, gonestrwydd a hynawsedd, awydd i wneyd da i ereill ac iddynt eu hunain, ac nid drwg.

Ni wawriodd canrif erioed ar Gymru yn fwy llawn o obaith cysurus. Addysgir ni'n awr at gymeryd ein rhan. Bydd lle mawr i Gymru yn hanes y ganrif newydd,—os credwn hynny.

Nis gwn pa mor bell i'r ganrif newydd y pery fy llwybr i, a llwybrau y rhai sy'n ysgrifennu i'r gyfrol hon. Ond yr wyf yn gobeithio cael cwmni plant Cymru hyd y diwedd. Y peth goreu gennyf feddwl am dano yn yr ugeinfed ganrif yw ei llond o leisiau dedwydd plant, plant bychain yn chwaraeu yn ei heolydd hi. A thra bo plant yn hapus, y mae'r dyfodol yn iawn. O chwarae plant, o gwsg esmwyth plant, y blodeua awen a gwrhydri y ganrif newydd. Chwaraeuwch, blant anwyl, a chysgwch pan wedi blino; y mae eich dydd gwaith chwithau i ddod.

Ar ddiwedd blwyddyn, ac ar ddiwedd canrif,—Nos Dda!


OWEN M. EDWARDS.



CYNHWYSIAD.

	TUDAL.
WYNEB-DDARLUNIAU,—	
“Tiws pob peth bychan”	2
Y gŵr eira	34
Yn Arfon	66
Mentone	98
Llunisia blodau... ..	130
Plant Holland	162
Haf y Trofannau	194
Tyrus	226
Haf yn Norway	258
Y Mynydd a'r Afon	290
Twr Eglwys Crist	322
“Colledig”	354
PLANT CYMRU,—	
Bethel, Arfon	237
Bwlchderwydd	332
Bwlch y Llan, Ceredigion	133
Casnewydd (Bolt St.)	73
Clynog yn Arfon	123, 142
Glyn Collen	180, 284
Lerpwl (David St.)	17, 43
Llangernyw	235
Llithfaen	86
Pen Llwyn, Ceredigion	309
Penrhyn Deudraeth	103, 209
Rhosymedre	23
Saron, Dyffryn Clwyd	117
Trisant	336
YN YR YSGOLION,—	
Athrofa Aberhonddu	150
Llwyddiant efrydydd (T. A. Levi)	202
Miss Effie Parry	11
Perygl yr Ysgol Sul	338
Un o golegau Rhydychen	323
Ysgol Nos Trisant	371
BYWYD PLANT,—	
Adar y cwterydd	113
Anfarwoldeb plentyn... ..	20
Basâr Lloft y Stabl	143
Beth mae plant yn ofni	153
Beth yw dy nod?	10
Blwyddyn Newydd Dda	8
Bob	72
Bod yn frenin	37
Bore oes Livingstone	246
Camgymeriadau plant	277
Dwry law plentyn	295
Gwir arwr	292
Helyntion bywyd bachgen... ..	19
Lord Roberts a phlant	204
Mwynder yr haf	131
Ofn Bwganod	845

	TUDAL.
Pethau bychain	164
Plant a'r Rhyfel	106
Profiad plentyn	162
Uchelgais... ..	2 2
Y baban Iesu	292
CANEUON AM BLANT,—	
Ann Gwenllïan a Huw	326
Cwyn plentyn amddifad	178
Deigryn plentyn	282
Do, mi glywais ganu	10
Gweddïau mam... ..	230
Gweddï'r morwr bach	212
Pan oeddym gynt	367
Pedwarawd Llwyn y Celyn	344
Phêbe	75
Plant Cymru	349
URDD Y DREYN,—	
43, 86, 123, 151, 190, 216, 250, 284, 360	
DIBWEST,—	
Gelyn pennaf plant	285
Peth i'w ystyried	310
Ymadafyd codwm	69



ER COR,—	
Alfred Evans, Trawsfynydd	25
Anne Thomas, Penmachno	94
Annie Davies, Carno	26
Arthur Stanley Roberts	219
Barbara Price	287
David Lloyd, Merthyr Vale	326

	TUDAL.
Elizabeth M. Evans, Bethesda ...	267
Evan E. Morris, Capel Garmon ...	346
Evan T. Jones, Llangollen ...	238
Hannah Jones, Minffordd ...	9
J. E. Thomas, Pandy Tudur ...	93
John G. Davies, Rhiwbrydir ...	365
Mary Jones, Penmachno ...	93
Mary Morgans ...	26
W. J. Jones, Llwydcoed ...	59
Yr haf ...	298

YSTRAEON HUD,—

i. Y Llwyn Ffa (<i>Lloegr</i>) ...	13
ii. Urashima (<i>Japan</i>) ...	45
iii. Y Tair Rhodd (<i>Poland</i>) ...	89
iv. Eryr Tynged (<i>India</i>) ...	126
v. Yr Aniolchgar (<i>Persia</i>) ...	138
vi. Y Tri Ci (<i>Sweden</i>) ...	184
vii. Cloch Tylwyth Teg (<i>Norway</i>) ...	207
viii. Y ddinas brudd (<i>China</i>) ...	243
ix. Aradr ryfedd (<i>Denmark</i>) ...	281
x. Torri amod (<i>Mongolia</i>) ...	307
xi. Dinas Is (<i>Llydaw</i>) ...	347
xii. Hans y Gwas (<i>Yr Almaen</i>) ...	369

BETH ENILLWYD MEWN CANBIF,—

i. Rhagymadrodd ...	3
ii. Swyn Natur ...	4
iii. Llywodraeth Leol ...	71
iv. Llennyddiaeth odidog ...	335
v. Pulpud grymus ...	335
vi. Cyfundrefn Addysg ...	335
vii. Cyfoeth ...	375
viii.—xii. Cymeriad da ...	376

GAUAF AR LAN MOR Y CANOLDIR,—

i. Y daith yno ...	27
ii. Manylrwydd y tolldy ...	56
iii. Tlysi Bordighera ...	81
iv. Barn ymwelwr ...	114
v. Gweled y wlad ...	134
vi. Elfen arwrol ...	159
vii. Bordighera ...	199
viii. George Macdonald ...	233
ix. Cydymaith diddan ...	299
x. Plant a mulod ...	329

ARWBIAETH YR ISLEDDROED,—

i. Y wlad ...	21
ii. Y bobl ...	49
iii. Perygl beunyddiol ...	77
iv. Erasmus ...	107
v. Elfen arwrol ...	159
vi. Y Tywysog Distaw ...	217
vii. Penderfyniad distawrwydd ...	251
viii. Y Cyngr Gwaed ...	279
ix. Ysbryd Rhyddid ...	361

O HEN LYFRAU,—

(Gan R. Griffiths, Manchester.)

i. Chwedl am Dafydd frenin ...	211
ii. Yr afal ...	274

GWLEDYDD PELL,—

China ...	241
Eglwys Rheims ...	63
Japan ...	83
Mentone ...	189
Shanghai ...	261
Tyrus ...	226

HANES Y BYD,—

Arwyr dinod ...	268
Goryndaith ryfedd ...	220
Jogonnath ...	303
Masnach Palestina ...	213
Syched y milwr ...	62
Y llongau ar dân ...	231
Ymdaith newyn ...	147
Ymherodraeth Prydain ...	18, 124
Ysbryd Rhyfel ...	327

DARNAU I'W HADRODD,—

Ar ol y frwydr ...	102
Ar y traeth ...	42
Boddiaid y Telynor Bach ...	12
Llongddrylliad ...	341
Trychineb Pwllheli ...	205
Tŷ ar dân ...	168
Y cysgrwr ym moddion gras ...	256
Y gorwaered,—gochel! ...	294
Y tŷ ar y tywod ...	269

ESIAMPLAU O LENYDDIAETH CYMBU,—

(Y pedair canrif diweddaf.)

i. Cyfoeth Tyrus (Beibl Cymraeg) ...	253
ii. Mahometaniaid (Chas. Edwards) ...	317
iii. Cwmp Llywelyn (Theo. Evans) ...	333
iv. Ffred (Daniel Owen) ...	367

CANEUON GWLADGAROL,—

Awelon y bryniau ...	250
Esgyn mae Cymru ...	280
Gwalia Wen ...	101
Y mnyddoedd doddasant ...	204

CANEUON AMRYWIOL,—

Ar fore gwyn o haf ...	154
Blodyn ar y bedd ...	312
Bore bywyd ...	156
Breuddwyd y milwr ...	346
Cenhadaeth y lloer ...	364
Dau hen bennill ...	188
Dos dithau ...	112
Diniweldrwydd ...	48
Emyn ...	10
Llwyn y Ne ...	356
Mae Duw yn dda ...	218
Mis Mai ...	132
Nos dda y Cristion ...	352
Pwyll yn well nag aur ...	18
Rhodie'r llwybr ...	302
Y gwllithyn ...	164
Yn ymyl bedd fy nhad ...	218
Yr afon ...	245
Yr afonig ...	249

	TUDAL.
HWIAN GERDDI,—	
Y De	106
Haf li lwli	318
CHWARE,—	
Hel Calennig	48
Yn nyddiau'r eira	35
GWYBODAŪ,—	
Aber San Si	140
Beth yw'r awyr	315
Cwmpas y morwr	74
Darluniau'r Iesu	298
Dychweliad yr afon	291
Gwenyn ac eira... ..	122
Gwres yr haul	5
Llosgfynydd y môr	254
Mehefin	163
Sigaref	306
Yfwr gwaed y byw	249
CYMRU A'R CYMEY,—	
Ar ben Pumlimon	181
Ar gamlas Llangollen	167
Bedd Talhaiarn... ..	176
Capel Eirianallt	275
Eglwys Llanbedr	31
Gwytherin	177
I ffwrdd ac adre	259
Llanfair Talhaiarn	177
Llanrwst	297
Mis Ebrill yng Nghymru	190
Pont ar Fynach	336
Pont y Nant	53
Porthmadog	60
Trefriw	344
Y Cenhadwr Ieuanc	120
Hanes,—	
Cofgolofn Daniel Owen	314
Mam Ieuan Gwynedd	229
T. C. Edwards	155
Llenyddiaeth,—	
Bore oes beirdd... ..	156
Eisteddfod y plant	237
Robert Owen	48
Llyfrau	173, 210
CYMEY AR WASGAR,—	
Nadolig yn yr Andes... ..	363
Plant Vermont	367
Troed yr Orsedd	339
ANIFREILIAID,—	
Cwningen... ..	79
Gwiwer	79
Llew	350
Pwy fedr noffo	262
Swyn,—i. Y llwynog a'r goediad	302
ii. Y neidr a'r geneu goeg	325
iii. Y wenci a'r ysgyfarnog	325
iv. Y ddioid a'r bachgen... ..	325
Y fwyalchen	44
Y gath	125, 141, 179



DAE.

Aderyn yn twyllo ei hun	340
Adfyd yr adar	67
Barcut a chyw iar	166
Colomen grwydr	313
Dod adre	318
Eurbinc	79
Nythod adar	85
Rhobin yn galw'r hadau	229
Rhobin goch	338
Wyau drudion	228
Ymson am y fronfraith	85
Yr iar	197, 319
BLODAU A FFRWYTHAU,—	
Blodau	99
Blodau Breuddwydion	346
Blodau'r eira	78
Blodau'r haf	195
Cen Cerrig	331
Sesame	204
Y lili wen... ..	286
NADROEDD,—	
Nadroedd	140
TONAU,—	
"Addfwyn Iesu"	52
"Bryn Calfaria"	334
"Bugail Israel"	316
"Canlyn Iesu"	283
"Dirion Iesu"	174
"Dringwn yn uwch"	214
"Fe anwyd yr Iesu"	372
"Gyda'r Iesu"	16
"Heibio'r aeth y gauaf blin"	118

TUDAL,

TUDAL.

"Mi hoffwn fod yn angel" ..	88
"Mor hawdd ydyw canu" ..	270
"Telyn Seion" ..	148

FLANESION,—

Arweinydd geneth fach! ..	112
Canwyll corff ..	166
Carohar y dyn du ..	256
Dial yr Alltud ..	84
"Duw a wŷr" ..	144
Dyfais cariad ..	160
Eglwys heb berson ..	100
Golchi'r du yn wyn ..	54
Gwerthu ceffyl i'r Tylwyth Teg ..	198
Heb ei orffen ..	76
Huw Llwyd a'r ysbryd ..	56
Meichiau Ffyddlawn ..	92
Nos Nadolig ..	374
Taith beryglus ..	145
Tarian ryfedd ..	343
Ward Beecher a'r bachgen ..	137
Y boneddwr a'r bachgen ..	328
Y gymwynas olaf ..	157
Yr ymyl ..	180
Ystori Robin Huw ..	149

Gan y Parch. Owen Owen,

i. Hoffwch ddaioni ..	39
ii. Pryder am dad ..	75
iii. Dial Samgar ap Anath ..	104
iv. Bugelliad Bethlehem ..	358

Gan G. R. Hughes, Bethel,—

Y Swllt Arian ..	109
Fot Dafydd Puw ..	189
Y gŵr eira ..	221
"Da Wil!" ..	283
Y perl olaf ..	311

Ystoriau Byrion,—

Bad Lord Stourton ..	310
Camgyfeirio ..	154
Cydwybod brenin ..	106
Meirch uchelbris ..	100
Newton a'r bugail bach ..	95
Pa ben? ..	41



DYCHMYGION,—

Cwestiynau Wil ..	96
Gwlad y Gog ..	83
AWGREYMIADAU ..	183, 306
LLWCH AUB ..	91, 92, 128, 160, 276, 351
CYSTADLEUAETHAU ..	86, 320, 342
HEB ATALNODAU ..	6, 101, 152, 183, 198, 206
MANION ..	6, 22, 32, 64, 158, 202, 236, 306
AT Y PLANT,—	
1, 83, 85, 97, 129, 161, 193, 225, 257, 289, 321,	353



AT Y PLANT.



I ddylem ofni y Gauaf, na diystyrnu ei brydferthwch. - Yr oedd Islwyn yn hoff iawn o'r Gwanwyn ac o'r Haf, ond meddai,—

“Mwy cydnaws a'm hysbryd yw'r Hydref
rhaiadrog,
A gwyntoedd y Gauaf, y gwyntoedd hir-
aethog.”

Ar ddechreu blwyddyn gadewch i ni ben-derfynu fod llaw Duw yn dyner arnom bob amser. Y mae i'r Gauaf, fel yr Haf, ei brydferthwch, ei dynerwch, ei dlysmi, ei ddefnyddioldeb. Beth sydd harddach nag ehangder o fynyddoedd mawrion dan orchudd o eira gwyn? Llawer gwaith y clywais fechgyn o'r India, wrth edrych arno am y tro cyntaf erioed, yn dweyd ei fod yn harddach na holl ysblander lliwiau eu gwlad hafaidd hwy. Sylwch ar brydferthwch canghennau a brigau'r coed,—yn enwedig rhai'r fedwen. Sylwch ar eu cysgodion ar noson oleu leuad. Onid oes swyn yn swm ystoriwydd? Dysged y plant fod yn hapus,—y mae ein Creawdwr yn meddwl i ni fod felly.

Cofiwch am yr adar,—yn enwedig robin goch. Y maent hwy wedi aros gyda ni, tra y miloedd o adar eraill wedi croesi'r môr, i fwrw'r gauaf mewn gwledydd cynhesach. Dywedaf hanes y crwydriaid bychain hyn i chwi pan ddont yn ol. Ond y mae rhai wedi aros gyda ni: ac y maent, ond odid, yn eich gwyllo bob bore, gan ddisgwyl briwsion. Nid oes arnynt ofn yr oerfel, y mae eu Creawdwr wedi rhoddi gwisg gynnes o blu iddynt. Os cânt gysgod a bwyd, byddant byw tan y gwanwyn, a chanant eu diolch i chwi.

Da gennyf weled fod darpariaeth mor dda ar gyfer plant Cymru y dyddiau hyn. Os cawn y plant, cawn yr oes a ddel. Y mae gan yr enwadau bron oil gylchgronau i'r plant. Mae gan blant y Methodistiaid eu *Trysorfa*, plant yr Anibynwyr eu *Dysgedydd*, plant y Bedyddwyr eu *Hauwr*, plant y Wesleyaid eu *Gwinllan*, plant yr Eglwyswyr eu *Peri*. Ni cha CYMRU'R PLANT arddel perthynas âg un sect yn fwy na'i gilydd, ac felly nid oes dull i'w hysbysebu ef fel y lleill. Rhaid iddo ddibynnu'n gyfangwbl ar ei ddarllenwyr. Os na chaiff help ganddynt hwy i fynd ymlaen i dderbynwyr newyddion, nis gall fynd ymlaen fel y dymunai. A ga'r golygydd ofyn i'w garedigion a wnant ei ddwyn i sylw trwy unrhyw foddion a farnant hwy yn ddoeth? Y mae'n apelio yn enwedig at athrawon, gan mai ei brif amcan yw ennyn dyddordeb plant mewn darllen a chwilio. Ebe'r bardd,—

I CYMRU'R PLANT dymunwn wir flwyddyn newydd dda
I garlo luni eto dorethblog ffurtywthau ha;
I'n lloeni a'n dyrchafu, a'n gwneyd yn well bob'dydd,
Mae CYMRU'R PLANT yn gwenu ymlaen ar Gymru fydd.

Wrth inni o'n calonnau ddymuno blwyddyn wen
I CYMRU'R PLANT cydunwn i'w godi ef yn ben,
Drwy ddyblu ei dderbynwyr y'g ngoleu haul y dydd,
Fel byddo'i lewyrchladau yn fwy ar Gymru fydd.

Ar ddechreu'r ganrif newydd boed iddo mewn mawrhad
Gael drws agored llydan i mewn i dai ein gwlad;
Mae CYMRU'R PLANT yn haeddu derbyniad breiniol rydd,
Mae'n seren sy'n goleuo yn awyr Cymru fydd.



"TLWS POB PETH BYCHAN."



CYMRU'R PLANT.

CYF. IX.

IONAWR, 1900.

RHIF 97.

BETH ENILLWYD MEWN CANRIF.

I.

DYMA ni yn dechreu ar flwyddyn olaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg. A gawn ni edrych yn ol y flwyddyn hon, rhyw unwaith yn y mis, i weled beth enillwyd? Gwell edrych ymlaen nac yn ol, gwn hynny yn dda. Ymlaen yr edrych yr hwn sydd yn cerdded; yr hwn sy'n sefyll sy'n edrych yn ol. Ond y mae'n iawn edrych yn ol ambell dro, er mwyn cael nerth newydd i fynd ymlaen.

Y mae llwybr ein Duw i'w weled ar hyd y ganrif hon, fel ol traed y bugail fu'n bugeilio ei ddefaid. Y mae drwg lawer wedi darfod; y mae da lawer wedi byw. Hauwyd hadau drygioni, mae'n wir, ond y mae eu cnwd wedi gwywo; hauwyd hadau daioni,—y mae eu blodau hwy eto yn perarogli'r ganrif.

"Tlws pob peth bychan," meddai'r hen air Cymraeg. Y mae llawer peth oedd yn fychan ac yn dlws ddechreu'r ganrif, sydd erbyn hyn yn nerthol iawn.

A'm hamcan innau yw dangos fel y ganwyd, ac fel y tyfodd, rhai o'r rheini.

Y mae llawer wedi ei ennill ym myd mater, yn beiriannau o bob math, yn llongau mwy cysurus, yn gartrefi mwy clyd, yn fwyd iachach, yn ddillad cynhesach. Y mae mwy fyth wedi ei ddarganfod ym myd y meddwl. Y mis hwn, gadewch i ni gyfyngu ein sylw i un darganfyddiad mawr.

II. SWYN NATUR.

Yr ydym ni ar ddiwedd y ganrif yn gweled prydforthwch y mynydd aruthrol, y rhos eang, y môr aflonydd diderfyn. Ond ar ddechreu'r ganrif yr oedd hwn yn syniad dieithr i'n tadau. Hyll ac anferth iddynt hwy oedd mynydd, rhos, a môr; ni welent brydforthwch ond mewn gerddi trwsiedig neu mewn dolydd gwastad gwrteithiedig. A dyma'r gwahaniaeth mawr rhwng meddwl y ganrif hon a meddwl y canrifoedd o'r blaen,—y mae dyn wedi gwneyd ei heddwch â natur, y mae mawredd y mynydd ac eangder y môr yn ei lenwi, nid â dychryn fel cynt, ond â mwynhad.

Cymerwn y beirdd Seisnig enwocaf. Nid oes un tarawiad o gariad at natur yn Shakespeare nac yn Milton. Ceir ef yn llenyddiaeth Lloegr yn dechreu dadblygu yn Addison. Dywed am un o olygfeydd mynyddig mwyaf swynol y cyfandir,—“It filled me with an agreeable sense of horror.”—“Llanwodd fi â theimlad hyfryd o ddychryn” Ond cydnebydd ei fod yn gweled mwy o brydforthwch mewn gwastadedd nag mewn mynydd.

Ar ddechreu'r ganrif yr oedd rhai yn desgrifio natur gyda ffyddlondeb cywir, ond heb lawer o gydymdeimlad â hi. Felly y gwnai Thomson yn Lloegr, a Dafydd Ionawr yng Nghymru. Yr oedd rhai ereill yn ei desgrifio gan orhoffi ei thlysi. Desgrifiai Gray fynyddoedd, Cowper rosydd, Collins anialdiroedd eang, a daeth Byron i ddarlunio'r môr. Ond y gŵr wnaeth heddwch rhwng dyn a natur yn Lloegr oedd Wordsworth—danghosodd ef fod ymhyfrydu yn nhlysi natur yn un o'r prif elfennau yn addysg dyn.

Yng Nghymru, yr oedd Ceiriog yn llawn hiraeth am fynyddoedd Llanarmon pan ym mŵg Manchester. “Mab y mynydd ydwyf finnau,” meddai, “oddicartref yn gwneyd cân.” Ond tebycach i Burns nag i Wordsworth yw ef; naturioldeb ei ddesgrifiadau o gymeriad, nid ei ddarluniau o natur, sydd amlycaf. Islwyn yw Wordsworth Cymru. Ynddo ef cawn gariad angerddol at brydforthwch natur wyllt. Mae'n gwneyd i'r mynydd a'r môr gydymdeimlo âg ef. Mae ei enaid mewn heddwch perffaith â Natur. Mae cariad wedi bwrw allan ofn. Mae'r byd tel nefoedd iddo,—yn gartref hoff.

“ Bythoedd y'th garaf, fro hawddgar fy nhadau,
Ac am dy fynyddoedd ymglyma'm serchiadau,
Ac yn dy aflonydd ystormus ymlifant,
▲ chyda'th awelon byth trwot y crwydrant.
Clyw'th ieuainc angylion, ar allor dy fryniau,
Yn tyngu ffyddlondeb i froydd eu tadau.”

Gymaint yn twy hapus ydym wedi'r ennill mawr hwn, —ymhyfrydu lle y dychrynnid o'r blaen, gelynyon wedi troi'n gyfeillion, hagrwach wedi troi'n dlysi.

GWRES YR HAUL

TRA mae "cawr y dydd" yn rhedeg ei yrfa, teifi oleuni a gwres i fydoedd eraill heblaw ein byd ni. Nid yw y blaned fechan yr ydym ni yn byw arni yn cael ond y 2,000,000,000 ran o wres a goleuni yr haul. Pe peidiai yr haul a thafu ei wres aruthrol arnom, darfuasai am danom. Dywed Proff. Dewar, pe bae yr haul yn peidio a thafu ei wres arnom, y buasai yr awyrgylch yn troi yn ddwfr, ac mae'n bur debyg yn rhew.

Mesurir gwres yr haul mewn amryw ffyrdd. Yr hen ffordd oedd trwy ddarganfod faint o rew a fedrai doddi. Cafwyd y buasai amgylch o rew pymtheg llathen o drwch dros wyneb yr haul yn cael ei doddi mewn un munud gan y gwres oddi tano. Dywed Syr William Herschel pe buasai bar o rew, hanner can milltir mewn tryfesur, yn cael ei wthio yn erbyn yr haul gyda'r cyflymdra o 186,000 o filltiroedd mewn eiliad o amser, y buasai pen y bar enfawr yn toddi fel y buasai'n dyfod mewn cyffyrddiad â'r haul. Y mae llathen ysgwar o wyneb yr haul yn taflu allan mewn awr gymaint o wres ag a roddai saith tunell o lo pan yn llosgi, a buasai y gwres yn ddigon i gynnal ager-beiriant 63,000 gallu cefyl am awr. Y mae holl wyneb yr haul yn taflu allan mewn blwyddyn gymaint o wres ag a roddai amgylch o lo dwy filltir ar bymtheg mewn tryfesur dros wyneb yr haul pan yn llosgi. Dywed Proff. Young y buasai llathen ysgwar o wyneb yr haul yn rhoddi digon o wres i gynnal hanner dwsin o'r llongau mwyaf sydd yn croesi yr Atlantic heddyw, o ddechreu y flwyddyn hyd ei diwedd. Y mae yr haul yn taflu digon o wres mewn awr i gynnal ager-beiriant 476,000,000,000,000,000,000,000,000,000 gallu cefyl am un munud. Dywed Proff. Langley fod digon o lo yn Pennsylvania i barhau am ganrif oedd lawer eto; eto i gyd, pe bai holl lo Pennsylvania yn llosgi ar unwaith, ni fuasai y gwres yn ddigon i fod yn gyfartal i wres yr haul am y filfed ran o eiliad. Dywed Syr Robert Ball, pe caem ddigon o *stokers* i dafu yr holl lo sydd ar y ddaear i'r haul, cawsai ei losgi'n ulw mewn degfed ran o eiliad.

Pan feddyliwn am y canrifoedd y bu yr haul yn taflu ei wres a'i oleuni allan, yr ydym yn barod i ofyn,—“Pa hyd y pery eto?” Gallwn ddweyd fod yr haul yn dyfod yn oerach o ddydd i ddydd, ac fe ddaw yn oer fel y lleuad. Pe llosgai yr haul fel tân, buasai wedi diffoddi ers llawer o flynyddoedd. Pe bai yn lo i gyd buasai ei wres yn parhau am chwe mil o flynyddoedd. Nid yw yn cynneu, ond yn twymwriddo fel haiarn cochedig. Gall gadw ei wres mewn dwy ffordd arbennig,—yn gyntaf, trwy y goruchion (*shooting stars*) sydd yn syrthio iddo; ac yn ail, trwy fyned yn llai. Darnau o

gerrig neu haiarn bychain yw y goruchion hyn, a theithiant o amgylch yr haul, a phan y deuant yn rhy agos i'r ddaear tynnir hwynt gan y ddaear trwy yr awyrgylch; ac y mae'r goruchion, wrth deithio gyda chyflymder aruthrol, yn torri pan ddeuant i gyffyrddiad sydyn a'r awyrgylch, a diflannant wedi hynny yn llwch. Nid ydynt yn weledig ond pan y maent yn dyfod trwy yr awyrgylch, ac yn ymddangos i ni fel "dreigiau." Er fod llawer mwy o oruchion yn syrthio i'r haul nag sydd yn syrthio i'r ddaear, nid ydynt yn cynnal llawer iawn ar ei wres. Pe buasai y lleuad yn cael ei mhalu yn oruchion a'i thafu i'r haul, buasai'n cynnal ei wres am flwyddyn. Pe trinnid y blaned Iau yr un modd, codai digon o wres i grasu y cysawd heulog.

Os gall yr haul gadw ei wres trwy fyned yn llai, mae'n rhaid ei fod yn llai heddyw na ddoe. Tryfesyf yr haul yw 860,000 o fildiroedd, ac aiff yn llai 220 o droedfeddi pob blwyddyn. Nid oes angen bod yn bryderus am ei wres a'i oleuni; mae gan y cawr yma ddigon am wyth miliwn o flynyddoedd eto.

JOHN C. MILLS.

—◆◆◆—
P'W DDARLLEN YN DDIFYFYR.

DAW dydd y Nadolig yn gynnar mis Mai
Bydd Dic yn priodi hen gaseg Ty Clai
Rodd gic i Shon Hywel mae pedwar o blant
Mae copa yr Wyddfa yn uchel mewn pant
Mae'r defaid yn pori gwallt Ifan Llwyn Du
Sy'n gwynnu ar dderwen y crogwyd y ci
Fe welais ddau lwynog yn myned i'r haul
Ar edyn dychymyg mae dyn heb y dail
Mae'r coed yn y gauaf yn bwyta cig llo
'Roedd Mari ac Ifan yn dyrnu y go
Wnaeth ddwy bedol haiarn i Boxer y ci
Sy'n gwylio y defaid ar goryn y tŷ
Mae'r wennol yn canu alawon fy ngwlad
Sy'n anwyl a swynol i bob Cymro mad.

Pen y Graig.

J. G.

—◆◆◆—
GAMBLO.

Y MAE gamblo a betio yn bechodau diraddiol iawn. Ysgrifennodd Tywysog Cymru at Archegob Caerfrog yn 1891 fel hyn,—

“Yr wyf yn arswydo rhag gamblo, a gwnawn fy ngoreu i beri i rai sydd a thuedd ato ymwrthod ag ef. Oherwydd ystyriaeth ei fod, fel meddwdod, yn un o'r melltithion mwyaf all syrthio i ran y wlad hon.”



“Y mae'r tair yn dod yn ddistaw iawn.”

BLWYDDYN NEWYDD DDA.

AR fore cynta'r flwyddyn y mae tair geneth bach yn dod i lawr y grisiau eu hunain, wedi codi heb i neb eu galw. Y mae'r tair yn dod yn ddistaw iawn; ac y mae gwên disgwyliad ar wyneb pob un. Er ei bod yn oleu ddydd, y maent yn meddwl eu bod yn

codi yn fore iawn. Eu hamcan yw gwaeddi "Fy nghalennig i" cyn i neb ddeall eu bod wedi codi, a chyn i neb waeddi "Fy nghalennig i" arnynt hwy. Eu perygl mawr yw chwerthin yn uchel cyn cyrraedd yr ystafell lle y mae eu mam a'u tad; oherwydd y mae eu calonnau yn llawn o obaith a mwynhad.

Nid oes dim ar y ddaear hon mor brydferth a phlant da mewn cartref hapus. Os medr rhieni wneyd cartref hapus i'w plant, byddant wedi rhoddi cariad yn eu meddyliau at ddiniweidrwydd pur bore oes, ac wedi rhoddi hiraeth yn eu calonnau am gartref a mam a thad,—hiraeth fydd yn sancteiddio eu heneidiau, ymhob temtasiwn a thymestl,—hyd eu bedd. Nis gallwn, feallai, roddi cyfoeth mawr na iechyd perffaith i'n plant; ond gallwn oll, hyd yn oed y tlotaf ohonom, geisio gwneyd eu cartref yn gartref dedwydd iddynt.

Yn nyfnder y gauaf hwn, gellid gweled golygfa dorcalonnus yn un o drefi bychain mwyaf crefyddol a mwyaf dyngarol Cymru. Yr oedd tri o blant bach heb gartref. Pan oedd yn dyddio, rhwng saith ac wyth o'r gloch y bore,—bore oer a gwlyb,—yr oedd tri bychan yn eistedd ar garreg drws gorsaf yr heddgeidwad. Gwasg-ent at eu gilydd i gynhesu; ond digon oer oedd y tri bychan carpiog.

Paham y daethant yno? Y mae'n debyg mai oherwydd mai yno y gwelsant eu tad a'u mam ddiweddaf. Yr oedd y rhai hynny wedi eu gwysio o flaen yr ynadon am esgeuluso eu plant, a'u gadael yn newynog a diymgeledd. Cafwyd y tad a'r fam yn euog o'r creulondeb hwn at eu plant eu hunain, ac anfonwyd hwy i'r carchar.

Beth all wneyd i dad a mam esgeuluso eu plant, a'u gadael i wylu mewn carpiâu, ac heb ddigon o fwyd? Nid oes ond un peth yn y byd fedr wneyd hyn, a'r peth hwnnw yw'r ddiweddaf.

Tra'r oedd y tad a'r fam yn y carchar, yr oedd eu tri plentyn bach yn chwilio am danynt; ac wedi cyrraedd, rywsut, at y fan y gwelsant hwy ddiweddaf. Beth bynnag fyddant, oddiwrth eu tad a'u mam y disgwyl plant nodedd.

Cymerodd rhyw Samaritan drugaredd ar y plant. Cawsant fwyd a chynhesrwydd; a rhoddwyd cyfarwyddyd iddynt ffordd i fynd i orsaf y ffordd haiarn, i fynd oddiyno i dloty tref gytagos. A gwelwyd y tri yn cychwyn drachefn,—y plentyn lleiaf yn cael ei gario ar gefn yr hynaf, ac un troed bach yn noeth.

Yn lân a hapus y dylai plant gael codi o'u gwelyau bob bore, i dderbyn croesaw a chusan tad a mam. Ond am y tri bychan hynny, yr oedd yn rhaid iddynt hwy guro'n ofnus wrth ddrws y tloty, lle nad oedd iddynt dad na mam.

HANNAH JANE.

YR oedd Hannah Jane yn marw yn wyth oed; ond yr oedd wedi dyfod yn gymeriad bach mor adnabyddus wrth ei henw ei hun yn ardal Minffordd, fel nad oedd raid ychwanegu ati a dweyd mai merch fach Mr. Griffith Thomas, Tyddyn Llwyn, olygid. Y mae yn gamp mor fawr i blentyn ddod yn boblogaidd ym myd y plant ag ydyw i ddyn fod felly ymhlith dynion; ond mor hoffus oedd hi fel y dyrswyd y trefniadau yn lân ddydd ei chladdu. Yr oeddym wedi trefnu i blant y Gobeithlu ganu wrth ei rhoddi i orwedd yn y bedd,—bedd sydd yn oer ar y goreu, ond sydd yn edrych gymaint yn oerach pan wedi agor i gau am blentyn hoff wyth oed. Beth wnaeth y cantorion bach i gyd ond troi y gân yn wlo.

Onid canu ddylesid gael yn angladd Hannah Jane o bawb. Yr oedd mor gydweddol â'i natur. Pan yn cael ei chario i'r capel ar fraich ei mham, byddai yn ymollwng y pryd hwnnw yn ol ei dawn i ganu gyda'r gynulleidfa, a bron ymhob cyfarfod o'r Gobeithlu, ar ol tyfu i fyny, byddai yn cymeryd rhan ynddo mewn canu neu adrodd. Cafodd ei bywyd bach ar ei hyd ei lanw o chware, dysgu, a chanu.

Ar ddiwrnod hyfryd yn ei chystudd yr oedd yn edrych allan trwy y ffenestr ac yn dweyd ei bod yn ddiwrnod braf i fynd am dro, ac mor chwith iddi hi oedd edrych gyda'i llygaid byw a gloew ar friallu Ebrill yn eu goreu yn y maes o flaen y tŷ, a hithau yn methu mynd i'w casglu,—y briallu y bu yn dringo tros gloddiau a thrwy wrychodd bob gwanwyn gyda diwydrwydd i'w casglu. Bob haf o'r blaen byddai yn foddolawn i ryw ddillad roid iddi, ond eleni yr oedd wedi dweyd mewn pryd fod arni eisiau i'r wisg newydd fod i gyd yn wen o'i phen i'w thraed, ac nid rhai lliwiau fel arfer. Yr wythnos y bu farw yr oedd eisiau rhybuddio y meddyg am iddi gael codi i fynd i'r capel y Sul; ond dydd Sadwrn, yr oedd yn dweyd mewn llais mwyn a chyda gwên wrth ei mham ei bod hi "yn mynd adref," ac yr oedd rhyw brydferthwch dieithr o goch a gwyn ar ei grudd, fel pe buasai eisoes radd o degwch y nef yn dechreu addurno ei phryd.

Pan oedd y gynulleidfa fore Sabboth yn canu yn y gwasanaeth dechreuol, yr oedd yr oenig fechan hon yn cychwyn adref i gorlan-glyd y Bugail y canodd hi gymaint ar y pennill hoff sydd yn dweyd ei fod yn ofalus am ei dyner addfwyn ŵyn.

Minffordd.

G. WILLIAMS.

DO, MI GLYWAIŠ GANU.

DO, mi glywais ganu
Ryw ddydd yn Ebrill glân;
Ni wyddwn prun ai'r ddaear
Ai'r nef oedd bia'r gân.

Wrth ddal, a dal i wrando
Fe leddfai'r gân ar goedd,
Aeth llawer tant yn alar,—
A chân y fynwent oedd.

Telynau ieuanc oeddynt,
Ac ambell delyn hen,
Yn canu, a methu canu
Wrth feddrod Hannah Jane.

Nid oedd y bedd yn dywyll,
O'i gylch 'r oedd ymyl wen;
Ond anodd iawn oedd canu
Heb wylu uwch ei ben.

Enethig wythmlwydd, hawddgar,
A'r gwanwyn ar ei gwedd;
Ni synnai'r nef fod daear
Yn wylu wrth ei bedd.

Pe cawsai Hannah hedfan
I Dyddyn Llwyn yn ol,
Gallasai'r nefoedd, hefyd,
Alaru ar ei hol.

Yng nghyrdau'r plant, am ganu
Enillodd goron bri;
Ni byddai neb yn blino
Wrth wrando arni hi.

Ni finai hithau 'n canu
Ei hoff ganiadau glân,—
'Roedd tannau 'i thelyn ieuanc
O hyd mewn cywair cân.

Blaenau Ffestiniog.

Nis gallai beidio caru'r
Briallu ar y bryn,
A'i grudd ei hun yn lanach
Na'r lanaf o'r rhai hyn.

'Roedd yn ei bryd freuddwydion
Aflonydd fel y don,
Yn deisyf dillad gwynion
At hât y fiwyddyn hon.

Pwy wyr gyfriniaeth ddirgel
Y deisyfiadau hyn?
A welsai hi gyflawnder
Yr Oen fu ar y bryn?

Yn gynnar ymagorodd
Ei henaid gloew hi,—
Gall fod yr eneth wythmlwydd
Yn gweled Calfari.

Pan genid cân y cysegr
Ar fore 'i Sabboth Ef,
Ei llygaid gloew, gloew,
Agorodd yn y nef.

Fe glywodd blant y nefoedd
Yn canu am Galfari,
A gwelodd delyn newydd
Yng nghadw iddi hi.

Cyffyrddodd yn ei thannau
A llaw ddihalog, lân,
A synnodd mewn gorfoledd
Ei bod yn medru'r gân.

A sylwodd yr angylion
Sy'n cylchu 'i orsedd Ef
Fod cân ar delyn newydd
Yng nghydgan plant y nef.

P. R. MORRIS.

EMYN.

MAE popeth byd yn wael,
'Does dim yn werth ei gael,
Heb Iesu gwiw;
Lleinw bob bron â'i hedd,
Gyr bechod cas o'i sedd,
Fe'n dwg tuhwnt i'r bedd,
I'r nef i fyw.

Castell Nedd.

Am wron mawr y groes
Mae son o oes i oes
Gan dyrfa fawr;
Ei ryfedd aberth Ef
Yw testyn cân y nef,
Cyduwn mewn un llef
I'w foli 'nawr.

TALNANT LLYWELYN.

MISS EFFIE PARRY.

UN o aelodau Urdd y Delyn,—geneth ieuanc o Gemaes, Môn,— ydyw Effie Parry, â medr arbennig ganddi at gerddoriaeth, hoff gelf y Cymry. Bu yn hynod o lwyddiannus yn ei hefrydiaeth ohoni, a'r flwyddyn diweddfaf enillodd yr hawl i'r llythrennau, A. Mus. L. C. M.

Mae yn meddu nodwedd gwir dalent, nid ydyw yn cyfrif ei bod wedi cyflawni unrhyw orchest; ond credai fod yr un llwyddiant yng nghyrraedd unrhyw fachgen neu eneth ymroddai i'r gwaith. Dywed mai diwydrwydd a phenderfyniad ydyw dirgelwch y cyfan. Pan yn cychwyn ar ei gyrfa fel efrydydd, penderfynodd, nid yn unig basio'r arholiadau, ond y mynnai fod yn y dosbarth blaenaf, a llwyddodd yn ei phenderfyniad. Ymhob arholiad ymddanghosai ei henw yn uchel ar restr y dosbarth hwnnw. Enillodd nifer luosog o wobrwyon, ac ar

un achlysur dyfarnwyd iddi wobr oedd yn aros o'r dechreu heb ei hennill gan neb. Yr oedd ymysg y rhai cyntaf bron a ymunodd ag Urdd y Delyn, ac mae yn un o'i haelodau ffyddlonaf. Mae yn caru Cymru a phob peth Cymraeg, ac nid oes neb yn fwy selog dros lês a llwyddiant gwlad y delyn.



MISS EFFIE PARRY.

BODDIAD Y TELYNOR BACH.

(DARN I'W ADRODD.)

O MAE y gaua 'n dlws 'n ei fantell freiniol wen,
 A'r barrug fel rhyw ferwig yn addurno 'i ben;
 Mae'r ia 'n gadwyni arian am hen freichiau'r coed,
 A'r rhew sy'n gwneyd y fflydd fel gwydr gloew dan fy nhroed;
 Mae sw'n a hwyl i'w gael hyd lwybrau'r gauaf hardd,
 Ac nid yw'r storom ddwys ond sw'n ei lais pan chwadd.

Mae plant yr ysgol fel ewigod draw yn llon,
 A diniweidrwydd sanctaidd ar eu tyner fron;
 Ni rodde cwmwl pryder iddynt unrhyw loes,—
 Llawn o freuddwydion dedwydd ydyw bore oes;
 Mor esmwyth a'r awelon llithrant ar yr ia,
 A thorra eu llawenydd pur yn ha, ha, ha.

Ust! ust! O dyna ryw ddiethriol lef yn dod,—
 "Mae'n boddi!" "O, mae'n boddi!" Beth, O beth sy'n bod?
 Mae'r rhew wedi torri er dychryn mawr ac alaeth,
 A bachgen nwyfus rhywun draw yn safn marwolaeth;
 Mae pawb yn rhedeg at y fan drwy'r eira gwyn,
 Nes dua'r torf gynhyrfus erchwyn oer y llyn;
 Mae llawer tad a mam yn gwibio 'n ofnus draw,
 Dan chwilio am eu plant sy'n wylo'n brudd mewn braw.
 "Pwy ydyw?" "Pwy?" ymhola pawb drwy'r dyrfa gref,
 A'r unig ateb sydd i'w gael yw,—“Pwy yw ef?”
 Ond dywed rhywun "John." Dealla pawb yn awr,
 A cherdda iasau oerion dros y dyrta fawr;
 Saif mam gerllaw, a daw ochenaid ddofn o'i bron,
 Ac wrth lewygu, dwed,—“Fy machgen i yw John.”
 Mudandod poenus fyn deyrnasu ar y lan,
 A thaena'r nos ei haden ddu i guddio'r fan.

Ond bore newydd gluda'r sibrwd ar ein clyw,—
 "Mae y telynor bach yn dod;" ond nid yn fyw.

Gofalwn wrth ddilyn difyrus chwareuon,
 Am gadw'n ofalus o ddannedd peryglon.

Y Bala.

RICHARD AB HUGH.

GWLAD HUD.

(Casgliad o Ystraeon Hud o
bob gwlad.)

I. Y LLWYN FFA.

(Un o Ystraeon Hud Lloegr.)



YR wyf yn eich gwahodd, blant tirion, i Wlad Hud, y munud y cysgwch, i glywed ystraeon.

Yr oedd bachgen bychan unwaith yn byw mewn bwthyn yn Lloegr gyda'i fam. Yr oedd ei dad wedi marw, ac yr oedd mam y bachgen wedi rhoddi gormod o anwes iddo. Yr oeddynt wedi mynd yn dlonion iawn, ac wedi gortod gwerthu popeth ond un fuwch. A rhyw ddiwrnod dywedodd y fam wrth Jac fod yn

rhaid gwerthu'r fuwch. Aeth Jac a hi i'r ffair, Ar y ffordd yr oedd dyn a llond ei het o ffa. Gwerthodd y bachgen gwirion y fuwch am y ffa, ac aeth a hwy adre i'w fam.

Pan ddeallodd y fam na chawsai ond ychydig ffa am y fuwch, gwylltiodd, a thafiodd y ffa dros y clawdd i'r ardd o flaen y tŷ. Y bore wedyn, pan ddeffrodd Jac, gwelai fod y ffa'n dechreu tyfu yn

llwyn mawr. Tyfodd a thyfodd, er syndod i'r fam a'r bachgen, nes cyrhaeddodd ei frig y cymylau. "Mi ddringaf fi hyd hwn," ebe Jac, "i weled beth sydd ar ei ben." Ond ofnai ei fam, a cheisiai ei ddarbwylllo i aros yn y bwthyn ar y ddaear. Dringo fynnai Jac.

Bu'n dringo ac yn dringo am ddyddiau. O'r diwedd, cyrhaeddodd ben y llwyn, a chafodd ei hun mewn gwlad ryfedd. Ni welai ddim ond cerrig a daear,—dechreuodd hiraethu am ei fam, ac yr oedd arno fawr eisiau bwyd. Pan yn ei benbleth, daeth genethig dlos ato, mewn gwisg wen, ac yn ei llaw yr oedd gwialen arian, a phaun aur ar ei phen.

"Un o Wlad Hud wyf fi," meddai. "Y mae tŷ mawr draw, ac yn hwnnw y mae cawr yn byw. Efe laddodd dy dad; a chofia hyn, ni ddaw da i ti byth os na leddi'r cawr." Yna diflannodd.

Dychrynnodd Jac. Nid oedd arno eisiau lladd neb, ac yr oedd arno ofn cawr; nid oedd arno eisiau dim ond tipyn o arian i'w fam i gael bwyd iddynt. Ond yr oedd arno gymaint o eisiau bwyd erbyn hyn fel y mentrodd ymlaen.

Daeth ty'r cawr i'r golwg toc. Cnociodd yn ofnus wrth y drws. Agorwyd y drws gan hen wraig; ac ymbiliodd Jac am damaid ganddi, gan ddweyd ei fod wedi blino a fod arno newyn a syched. Ac meddai'r hen wraig,—

"Wel, yn wir, y mae yma le perygl iawn i ti. Mae'r gŵr yma yn bwyta pob plentyn y caiff afael ynddo. Mae wedi dal llawer, maent yn barod i'w coginio yn y seler. Ond mi gei damaid, a chei ddianc cyn y daw'r cawr adre."

Aeth Jac ar ei hol i fewn. Aethant drwy ystafelloedd gwychion. Yna daethant i fynedfa dywell hir, a gwelai Jac lawer o blant yn garcharorion wedi i'r cawr eu dal, ac yn wylo ac yn gruiddfan, oherwydd gwyddent mai eu lladd a'u bwyta gaent. Ofnodd Jac fod y wraig am ei roi yntau yn eu plith; ond cafodd ei arwain ymlaen i'r gegin. Yno cafodd lestriad o laeth cynnes. Pan oedd newydd ei yfed, clywsant drwst mawr; clywent y plant yn wylofain mwy nag erioed, ac yr oedd y ty'n crynnu drwyddo.

"Mae'r cawr yn dod adre," ebai'r wraig, a chuddiodd Jac yn y pobty. Oddiyno clywodd gerddediad trwm y cawr yn dod i'r gegin. Gallai ei weled drwy dwll bychan,—ei lygaid tanllyd, ei safn anferth, ei ddwyllaw mawr gwaedlyd. Dechreuodd fwyta, a bwyta y bu nes oedd Jac wedi synnu. Yna dywedodd mewn llais fel taran,—

"Wraig, yr wyf yn clywed arogl cig fires." Crynnodd Jac gan arswyd; ond atebodd y wraig,—

"Arogl y plant yn y seler ydych yn glywed."

"Ugh!" ebe'r cawr. "Tyr'd a'r wydd yma." Synnai Jac os medrai'r cawr fwyta'r wydd wedyn. Daeth yr wydd i mewn. Yr oedd yn fyw. A phob tro y dywedai y cawr "Dodwa" wrthi, dodwyai hithau wy aur.

"Piti na fuasai gan mam a minnau wydd fel honacw," ebe Jac wrtho ei hun.

Aeth y wraig allan. Toc, cysgodd y cawr, ac yr oedd yn chwyrnu nes y crynnai'r gegin drwyddi. Agorodd Jac ddrws y pobty yn ochelgar a distaw, cydiodd yn yr wydd, aeth trwy'r cyntedd hir yn ddistaw, a diangodd am ei fywyd. Cyrhaeddodd ben y llwyn ffa, ac aeth i lawr ar hyd-ddo. Cyrhaeddodd adre, ac yr oedd yn dda iawn gan ei fam ei weled. Pryd bynnag y byddai arnynt eisiau aur, dodwyai yr wydd wy aur iddynt.

Ymhen ychydig aeth Jac yn anesmwyth. Cofiai eiriau yr enethig. Yr oedd y cawr wedi lladd ei dad, ac yr oedd yn lladd ac yn bwyta plant o hyd. Ond pa fodd y medrai ef, dim ond bachgen bychan, ladd y cawr?

Aeth hyd y llwyn ffa, i Wlad Hud, at y tŷ drachefn, ond mewn dillad gwahanol. "Cei, mi gei damaid," ebe'r wraig, "ond y mae'r cawr am ladd pob plentyn er pan ladratodd rhyw gardotyn bach ei wydd." Pan oedd Jac ar ganol bwyta, daeth y cawr i mewn fel o'r blaen. Diangodd Jac i'r pobty. Ar ol cinio, gwelai'r cawr yn cyfrif llond bag o arian, a llond bag arall o aur. Pan gysgodd y cawr, diangodd Jac a'r arian a'r aur; a daeth i lawr hyd y llwyn ffa.

Drachefn aeth i Wlad Hud. Yr un fu ei hanes. Ar ol cinio, wedi bwyta ac yfed llawer, galwodd y cawr am ei delyn. Rhoddwyd hi ar y bwrdd, a dechreuodd ganu alawon ohoni ei hun. Pan gysgodd y cawr, cipiodd Jac y delyn. Ond wrth fyned allan, dechreuodd y delyn ganu. Deffrôdd y cawr; ac wele ef yn dechreu rhedeg, yn atosgo feddw, ar ol y bachgen. Yr oedd bron a'i ddal pan gyrhaeddodd ben y llwyn ffa. Llithrodd Jac i lawr fel arfer, a'r delyn gydag ef. Ond yr oedd y cawr yn dod i lawr ar ei ol, gan fygwth a rhegi.

Wedi cyrraedd y gwaelod, rhedodd Jac i'r tŷ i ymfyn bwyall. Yna dechreuodd dorri'r llwyn yn ei fon. Yr oedd y cawr, erbyn hyn, wedi cyrraedd ei ganol, a gwelai Jac ei draed anferth yn dechreu dod i'r golwg. Gwnaeth hyn iddo ymgnio mwy gyda'r fwyall. Toc, torrodd fon y llwyn, ac wele ef yn syrthio, a'r cawr ar ei ganol. Yr oedd y cwmp mor fawr fel y lladdwyd y cawr yn y fan.

◎ Gyda'r Iesu. ◎

BEN BOWEN.
(*Cymru'r Plant*, Tsch., 1899.)

J. JONES OWEN, Talysarn.

DOH AŴ. *Moderato.*

:w, d	m	:- d	:r	m	r	:d	:l, l,	s,	:- d	:t, d	r	:-
:m, s,	d	:- d	:t,	d	t,	:l,	:m, f,	m,	:- m,	:fe, fe,	s,	:-
O mor	fel	- us	yw	dy	fo	- li,	Ie-su	an	- wyl,	ar bob	pryd;	
:d, m	s	:- s	:f	s	f	:m	:d	r	m	:- d	:r	d
:d, d,	d,	:- m,	:s,	s,	s,	:l,	:l,	t,	d	:- l,	:l,	l,
												s,

:m	r	d	:- d	:d	r	d	:t,	:l, l,	s,	:- d	:d	:t,	d	:-
:se, se,	l,	:- ta,	:l,	l,	s,	:s,	:m, f,	m,	:- m,	:l,	s,	s,	:-	
Dysg ni	beun	- ydd	i	dy	gar	- u,	Fel un	mwy	na'r	byd	i	gyd;		
:t, m	m	:- m	:f	f	m	:r	:d	r	d	:- d	:r	r	m	:-
:m, m,	l,	:- s,	:f,	r,	s,	:s,	:l,	t,	d	:- l,	:f,	s,	d	:-

:m	m	:- t,	:l,	d	r	:t,	:m	m	m	:- l	:s	fe	s	:-
:m	m	:- se,	:l,	l,	l,	:se,	:l,	r	d	:- d	:t,	l,	t,	:-
Caaglu	blod	- au	dy	rin-	wedd-au	Fydd yn	per	- ar-	ogli'n	gwlad.				
:m	m	:- m	:m	m	f	:m	:m	se	l	:- m	:r	r	r	:-
:m	m	:- r	:d	l,	r,	:m,	:d	t,	l,	:- l,	:r	r	s,	:-

:m	r	d	:- de	:r	m	f	:r	:d	d	d	:- m	:r	t,	d
:t,	t,	l,	:- ta,	:l,	l,	l,	:l,	la,	s,	:- d	:t,	s,	s,	:-
Byw yr	hedd	- wech	s'yn	eu	gwen-au	Fydd o	hyd	in'n	fodd	-bad.				
:m	m	:- m	:r	de	r	:r	:r	re	m	:- s	:f	r	m	:-
:s,	se,	l,	:- s,	:f,	m,	r,	:f,	fe,	s,	:- s,	:s,	s,	d,	:-

Pan yn cychwyn ar dy lwybrau,
Iesu. gwylia ni bob cam;
O bydd beunydd â dy freichiau
Am amddifaid bach heb fam;
Dysga ni i garu ein gilydd,
Hawdd i bawb dy garu di;
Dysga ni i fyw ein crefydd,
Dysga Gymru i gadw'i bri.



PLANT CYMRU. CXXII. RHAI O GYMRU LERPWL.

PLANT YSGOL SUL DAVID STREET, LERPWL.

DYMA ddarlun o rai o blant Ysgol Sul David Street. Daw ddarlun o blant ereill yr ysgol yn y rhifyn nesaf.

Bu, ac y mae yr ysgol hon yn feithrinfa dda i liaws mewn addysg Gymreig; ac er i'r plant gael eu hamddifadu o iaith Gwyllt Walia yn yr ysgolion dyddiol a chyda'u chwareuon, eto, ceir rhai o'r ysgol hon wedi tyfu'n Gymry trwyadl mewn iaith ac ysbryd, ac amryw ohonynt yn prysur ddringo brynau serth clod. Sefydlwyd yr ysgol Gorffennaf 14, 1878. Ei harolygwr cyntaf oedd y diweddar Mr. J. S. Jones, gŵr cu ac ymroddgar, cynghorwr caredig i'r plant,—a chyfaill cywir i'r bobl ieuainc. Gellir dweyd am dano,—“Ti a ymdrechaist ymdrech deg;” a diau ei fod yn awr yn mwynhau tangnefedd ei Arglwydd, y bu mor ffyddlaw'n i'w ddysg ac mor hoff o draethu am dano tra ar y ddaear.

Mae yr ysgol ers blynyddau ar ben y rhestr yn Arholiad y Safonau. Cafodd 90·1 o farciau y llynedd; a dyma adroddiad yr

yr arholwyr am dani,—“Mae ysgol David Street wedi myned y tuhwnt iddi ei hun,—y Gymraeg yn wir dda; y dysgu allan yn drwyadl a'r wers yn cael ei hastudio yn fanwl a deallus.” Llwyddodd 47 o'r aelodau i ennill tystysgrifau y llynedd.

Gofelir am danynt gan nifer o athrawon ieuainc ymroddgar selog, a rhoddir pob mantais iddynt ddadblygu yn grefyddol ac yn Gymry da yn y cyrddau wythnosol. Mae cyfarfodydd agored perthynol i'r Gobeithlu yn fwy lliosog a phoblogaidd na'r un cytarfod perthynol i'r eglwys.

Gweinidog anwyl a ffyddlawr yr Eglwys ydyw y Parch. W. Jones, mab yng nghyfraith David Davies, Abermaw.

J. R.

“MAE PWYLL YN WELL NAG AUR.”

MAE'R byd yn llaw gwyllt dymer
Bron syrthio lawer pryd,
Dros glogwyn anfoddlonder
I eigion dwfn creulonder
Sy'n llawn o wae i gyd;
Ond pwyll i'w achub ddeua
Yn hyf fel angel clae'r,
I bleser fe'i tywysa,
A heddwch fe'i corona,—
“Mae pwyll yn well nag aur.”

Olwynion a wnant dreiglo
Yw'r aur o gyrraedd dyn,
A'i adael i offdio;
Ond pwyll a saif i'w wyllo
Fel teyrn mewn stormydd blin;
Gwna'r annuw llawn gwylltineb
I garu'r dwyfel Air,
A rhodio tir uniondeb
Wrth brofi'r hen ddiareb,—
“Mae pwyll yn well nag aur.”

MYFYR TWBCH.

YMHODRAETH PRYDAIN.

Er mor aruthrol yw'r Ymherodraeth Brydeinig, y mae wedi colli rhai lleoedd, megis Unol Dalaethau'r America trwy drahausder, Minorca trwy raid, Havana a'r Ynysoedd Philipinaidd trwy gangymeriad, Ynysoedd Ionia trwy fawrfrydigrwydd, y Transvaal trwy gred fod rhoddi yn well na gofodi.

Tra yr wyf yn ysgrifennu,—Rhagfyr 15,—y mae'r wlad mewn galar dwfn oherwydd y coll bywyd anaale ar gyrrau'r Transvaal a Gweriniaeth Orange,—taliu ein tair byddin, sef byddinoedd Buller a Gatacre a Methuen, yn ol gyda cholled ddychrynlyd. Gwareder ni rhag rhyfel mwy.

Y mae tiriogaeth Prydain wedi cynyddu mwy na thiriogaeth yr un ymherodraeth fu yn y byd erioed. Y mae'r India yn un o wledydd brasaf a mwyaf poblogaidd y ddaear. Y mae cyfandir Awstralia yn prysur ddadblygu yn wledydd mawrion effro. Y mae Canada yn barod yn un o wledydd masnachol pwysicaf y byd. Y mae y rhan bwysicaf o Affrig yn Brydeinig,—yn enwedig hen wlad y Pharoaid, cryd y genedl etholedig.

Sylfeini mawredd Prydain yw hunan-lywodraeth, goddefiad, a masnach rydd. Y mae pob trefedigaeth yn llywodraethu ei hun, neu ar y ffordd i wneyd hynny. Nid oes eglwys sefydledig yn yr un o'r trefedigaethau. Pa randir bynnag ddaw dan faner Prydain, bydd yn rhydd i fasnach pob gwlad.

HELYNTION BYWYD BACHGEN

MEWN llyfrau fel “Hanes yr Unol Dalaethau” gan Bancroft, ceir llawer o hanes ymladd rhwng pobl wynion, y sefydlwyr cyntaf, a'r Indiaid. Y mae'r Indiaid yn graddol ddiflannu o'r wlad, ond y mae enwau melodaidd afon a mynydd yn dangos lle yr oedd eu hen helwrfa,—Mississippi, Missouri, Ohio, Alabama, Niagara.

Yn rhifynnau y *Drych* ddiwedd y flwyddyn 1899 edrydd y Parch. Daniel Williams, Storm Lake, Ohio, hanes gafodd gan hen fonedd-iges. Merch i Cadben Clark, swyddog dan Col. Snelling, llywydd caerfa ar lan y Mississippi oedd hi; a phan oedd yn eneth, yr oedd ymladd beunydd rhwng y sefydlwyr a llwythau'r Indiaid. Pan oedd yn blentyn bach, daeth adref o'r ysgol ryw ddiwrnod, a gwelodd fachgen bychan yn ei chartref. A dyma fel y rhydd Mr. Williams yr hanes o'i geneu.

“Daeth dynion i'r Fort ryw ddiwrnod oedd wedi bod ymhell yn y gorllewin yn hela; a daethant a'r newydd iddynt weled llwyth o Indiaid a dau o blant gwynion gyda hwynt. Pan glywodd Col. Snelling y newydd yma, anfonodd filwyr ar unwaith i chwilio am yr Indiaid, ac i gael gafael ar y plant os oedd modd. Daeth y milwyr yn ol ymhen amser a dau fachgen bach gyda hwy, y mwyaf oddeutu pump a'r lleiaf efallai heb fod lawn tair oed. Drwy yr hyn oedd John, y mwyaf, yn allu ddweyd o'u helynt, a'r hyn hefyd gafodd y milwyr gan yr Indiaid, medrwyd wneyd allan eu hanes yn lled lawn.

“Yr oedd eu tad, Ysgotyn o'r enw David Tully, wedi gadael sefydliad Selkirk, lle y saif tref Winnipeg yn awr, gyda'i wraig, baban, a'r ddau fachgen yma a'u hwyneb tua Fort Snelling, gan fwriadu myned ymlaen oddiyno i sefydliad St. Louis. Yn rhywle ar y ffordd daeth haid o Indiaid ar eu traws, wedi bod ar helpa affwyddiannus, ac mewn tymer ddrwg. Yr oedd arnynt eisieu cael y bwyd oedd ganddo. Gan nad oedd gan y dyn ddim arall at gynnal ei deulu, gwrthododd ei roddi iddynt. Aeth yn ddrwg rhyngddynt, a'r diwedd fu iddynt ei ladd ef a'r wraig a'r baban. Pan welodd y tad nad oedd gobaith am dano, dywedodd wrth John am redeg gydag Andrew bach, ac ymguddio yn y coed. Felly fu. Ymguddiodd y plant mewn llwyn o goed cyll oedd gerllaw, ond aeth yr Indiaid ar eu hol, a thorasant ymaith ddarn mawr o groen pen John. Yr oedd hynny fel yn boddloni eu syched am waed, fel na wnaethant ychwaneg o niwed iddynt.

“Wedi eu dwyn i'r Fort, cymerodd Col. Snelling John i'w deulu, a chymerodd Cadben Clark Andrew. Un diwrnod, pan oedd Charlotte bach a'i brawd yn dod o'r ysgol, gwelent fachgen bach

prydfarth, pryd goleu, yn eistedd ar riniog drws y tŷ. Aeth y plant ato, ac edrychasant arno yn syn. Yr oeddynt yn methu gwybod pwy oedd, nac o ba le yr oedd wedi dyfod. Dywedodd eu mam mai brawd bach iddynt oedd; ac mai ei enw oedd Andrew Tully. Yr oedd yn fachgen bach nwyfus, siriol, o dymer ddymunol iawn, ac yn herffaith iach. Nid ymddanghosai John mor gryf. Yr oedd y *nervous shock* gafodd, pan dorrodd yr Indiaid groen ei ben, wedi cael effaith niweidiol ar ei gyfansoddiad. Ymhen blwyddyn neu ddwy digwyddodd rhyw ddamwain iddo gyda'r fwyell. Trodd yn *lock-jaw* arno, a bu farw. Yn ei salwch diweddaf, pan wedi colli arno ei hun, byddai yn siarad llawer. Soniai weithiau am yr Indiaid yn lladd ei dad a'i fam, bryd arall byddai yn ceisio brysio Andrew bach ymlaen rhyngddynt a'r coed. Fel hyn y bu farw."

Cyn hir aeth Cadben Clark a'i deulu ymaith o'r goror i'r sefydliadau dwyreiniol am ysbaid, ac aethant ag Andrew gyda hwy. Prentisiwyd y bachgen i gerbydwr yn Efrog Newydd, a cholodd Charlotte olwg ar ei chydymaith bychan. Aeth Cadben Clark a'i ferch fechan i'r gorllewin drachefn, ond nid i Fort Snelling, ac wrth grwydro gydag ef cyfartyddodd yr enethig lawer a fu'n enwog wedi hynny yn hanes ei gwlad.—Andrew Jackson, Zachary Taylor, a Jeff Davies. Yn nechreu 1836, pan oedd Cadben Clark ar ei wely marw, daeth newydd fod rhyw berthynas wedi bod yn holi am John ac Andrew Tully, a'i tod yn gadael eiddo i Andrew. Wedi marw ei thad, priododd Charlotte.

Wedi bywyd o grwydro am bymtheg mlynedd ar hugain, ar hyd a lled yr Unol Dalaethau, daeth Charlotte i fyw Minneapolis yn 1860, o fewn ychydig filltiroedd i Fort Snelling, cartref ei mebyd. Yr oedd y wlad wedi newid drwyddi erbyn hyn,—yr Indiaid wedi cilio ymhell i'r gorllewin, a sefydliadau llewyrchus ymhob man. Ac yno y cartrefa yr hen foneddiges yn awr.

Pan oedd yr hen wraig ddeg a thrigain oed, clywai guro wrth ei drws. Pwy oedd yno ond Andrew Tully? Aeth y ddau i welod Fort Snelling, lle chwareuent yn blant drigain mlynedd yn ol. Gwelsant fedd John,—fu'n dianc gyda'i frawd bach rhag yr Indiaid ac yn pryderu am dano wrth farw,—ger bedd geneth fechan Col. Snelling.

ANFARWOLDEB PLENTYN.

THEIFL anfarwoldeb gwr ei fantell ar fywyd plant. Os collir plentyn i'r bedd, ni chyll tad a mam olwg arno. Tyf gyda'r plant ereill. Y mae fel angel gwarcheidol y teulu; gwena sancteiddrwydd ar fywyd yr aelwyd; y mae cof am ei fywyd mor ddeddydd a meddyliau y nefoedd.



GOLYGFA YN HOLLAND.

ARWRIAETH YR ISELDIROEDD.**I. Y WLAD.**

Y MAE ambell genedl yn cael gwlad ffrwythlon, heb berygl llifeiriant na gorsychder, i fyw ynddi. Y mae cenedloedd ereill mewn perygl beunydd oddiwrth orlifiad afon, neu ruthr môr, neu ddisgyniad rhyferthwy o rew o'r mynyddoedd, neu ddinistr llosgtynydd.

Natur sydd wedi rhoddi dymunoldeb i ambell wlad, ynni y trigolion i wlad arall. Lle mae natur yn rhy hael a charedig, anaml y dabblygir cymeriad cenedlaethol cryf. Ond lle y mae yn rhaid wrth ymdrech barhaus ac aberth achlysurol, lle mae anhawsderau i'w gorchfygu, yno y ceir arwyr hanes y byd a'r cenedloedd mwyaf arwraidd.

Nid oes genedl ar y ddaear wedi gorfod ymladd â chymaint o anhawsderau a'r Isellmyn. Ac ni fu cenedl fwy arwrol. Bu'n amddiffyn rhyddid y byd; ac yna, mewn lludded mawr, dechreuodd wanhau. Y mae Holland a Belgium heddyw ymysg gwledydd lleiaf Ewrop, ond y mae iddynt le mawr yn hanes rhyddid y byd.

Gwastadedd corsioeg yw Holland ar gwr y cyfandir, am y môr a rhannau de ddwyreiniol ein hynyoedd ni. Dyna ydyw,—y gwas-tadedd trwy yr hwn yr ymdroella y Rhein, yn wahanol ganghennau, â'r môr. Y Rhein a'r Maas wnaeth Holland. Cluda y Rhein laid i

lawr o fynyddoedd canolbarth Ewrob ers oesoedd diderfyn, cluda y y Maas laid o fryniau Ffrainç,—gwaeloda y llaid yn y môr, a'r môr felly yn fasach o hyd, ac o'r diwedd wele ysbotiau o dir sych yn ymddangos yma ac acw. Felly y cododd Holland yn raddol o'r môr.

Cludai'r gwynt hadau glaswellt, deuai aderyn ag aml hedyn gydag ef, golchai'r môr ambell wreiddyn ar y lan,—felly daeth y tyrrau llaid yn dwmpathau glaswelltog neu frwynog. Ar y twmpathau hyn ymsefydlodd yr Isellmyn.

Lleoedd perygl i ymgartrefu arnynt oedd y twmpathau godent o'r dyfroedd lliidiog. Weithiau, ar stormydd mawrion, rhuthrai'r môr, fel cesyg gwynion mawr drostynt. Byddai raid i'r tad a'r fam ffoi am eu bywyd, os medrent, ar geffylau, a'u rhai bach yn eu breichiau, cyn i'r môr gau am danynt.

O dipyn i beth, dechreuodd yr Isellmyn godi dyfrgloddiau, i gau'r môr allan. Cawsant anialwch o gorsydd a llynnau lleidiog. Drwy waith egniol, ac amynedd diderfyn, troisant wlad felly yn ardd,—o'r lle y daw ein blodau yn awr; a gwnaethant y llynnoedd lleidiog yn gamlesydd, i gychod dramwy ar hyd-ddynt. Dofasant lid y môr a chynddaredd y dyfroedd, a throisant elfennau dinistr yn weision ufudd. Troisant y dwfr, fu unwaith yn elyn, yn amddiffyn iddynt.

Nid oes wlad debyg i Holland yn y byd. Y mae llawer ohoni dan lefel y môr. Pan ddaeth gelyn unwaith, torrodd yr Isellmyn y llifgloddiau, ac felly yr oedd yn rhaid i fyddin Louis XIV. gilio neu foddï. Ond llawer tro y bu perygl yn gwasgu arnynt,—weithiau llifai'r môr i mewn, dro arall bwyteid y coed oedd yn sicrhau'r cloddiau gan filiynau o fôr-bryfaid bychain. Ond y mae egni, amynedd, a dyfais yr Isellmyn wedi gorchfygu pob anhawsder.

Y mae brenhiniaeth Holland yn awr yn 12,582 milldir ysgwâr. Y mae ei phoblogaeth agos yn bum miliwn. Y gwastadedd o amgylch geneu atonydd ydyw,—y Rhein, y Maes, yr Yssel, y Scheldt; nis gallai'r Isellmyn gadw ychwaneg o Ewrob yng ngwyneb y galluoedd milwrol mawrion sydd o'u cwmpas.

Brenhines sydd gan yr Isellmyn, fel ninnau. Y mae ein brenhines ni yr hynaf yn Ewrob, a'u brenhines hwythau yr ieuengaf,—y mae hi dan oed.

Adroddaf i chi rai ystraeon o hanes cynhyrfus yr Iseldiroedd.

DYMUNO BLWYDDYN NEWYDD DDA.

NID peth ofer yw dymuno blwyddyn newydd dda. Hoff gan blentyn gael calennig. Os na fedrwn roddi calennig, dechreuwn y flwyddyn gyda gwên ar bawb a chyda gwir ddymunïad. Y rhai fyddai'n gwrthod rhoddi calennig pan oeddwn i'n blentyn yw'r rhai tlotaf yn y plwy heddyw. Wrth roddi mae cael.



PLANT CYMRU. CXIII. CANGEN RHOSYMEDRE.

URDD Y DELYN.

Y RHEOLAU.

1. Dysgu siarad ac ysgrifennu Cymraeg; darllen rhan o'r Beibl Cymraeg, neu ryw lyfr Cymraeg arall, bob dydd, ac ysgrifennu Cymraeg o'i gyfiansoddiad ei hun.

2. Astudio hanes Cymru, a gwneyd ei oreu i godi ei wlad, fel y byddo Cymru fydd yn well na'r hen Gymru.

3. Dysgu canu'r delyn, os bydd hynny yn y cyrraedd; a dysgu alawon Cymreig.

4. Byw, hyd y gall, yn ol dysgeidiaeth yr hen Gymry gynt, mor bell ag y mae'r ddysgeidiaeth honno'n un a dysgeidiaeth Crist. Y mae'r ddysgeidiaeth honno'n gofyn purdeb, cariad at addyg, caredigrwydd at ddyn, addfwynder at greaduriaid direswm, iaith ddihalog.

AELODAU NEWYDDION.

1186. Monsieur Ian ar Fustek (*Ieuan ab Gwilym*), Paris.

1187; 1188. Maggie Lizzie Davies, Kate Ruth Davies, 6, Arfor Tŵyn.

CANGEN RHOSYMEDRE.

YN gyntaf un y flwyddyn hon, dyma ddarlun o aelodau selog a gweithgar Rhosymedre. Y mae yr oll a welch o'ch blaen wedi eu cofrestru yn y Gymdeithas, a rhai ohonynt yn dangos mawr sel drosti. Fel yn y trefi Seisnig a rhai mannau o Gymru, yr anhawddra mawr a deimlir yma yw yr iaith. Er fod tafodau yr oll yn fwy lliithrig gyda'r Saesneg, eto, y maent yn Gymry o galon, yn caru yr hen iaith, ac yn gwneyd ymdrech i'w deall a'i siarad. Gan mai capel yr Anibynwyr yw yr unig addoldy Cymraeg yn Rhosymedre, yno yr ymgasglant i gyd i addoli, ac yno y cyterfydd y Gymdeithas. Da gennyf ddeall fod yr iaith Gymraeg yn awr yn cael ei dysgu i rai ohonynt yn Ysgolion y Bwrdd, Cefn Mawr. Mawr dda i'r athrawon, a llywydd fyddo i'r plant.

Un peth a deimlwn sydd yn gwrthweithio yn erbyn pob ymgais i ddysgu'r Gymraeg iddynt yw gwaith y rhieni yn siarad Saesneg ar yr aelwyd gartref. Pan wél y rhieni y llinellau hyn, da chwi, rieni hoff, er mwyn eich iaith, eich gwlad, a'ch cenedl, siaradwch Gymraeg â hwynt, a dim arall.

Onid oes golwg hardd arnynt i gyd? Gwên ar wyneb ambell un, penderfyniad yn y llall, a diniweidrwydd yn arall,— y maent yn blant hoffus bob un, yn dyner, yn garedig, ac yn anwyl yn ein golwg. Y mae rhai o'r bechgyn ieuainc a welir yn y rhes uchaf nad oes mo'u gwell, o'r un oed, yn y cylch am gymeryd rhan flaenllaw gyda chrefydd, a hynny yn y Gymraeg, er bod dylanwad y Saesneg wedi bod yn gryf arnynt. Ymhlith y dosbarth ieuengaf, hefyd, ceir rhai ohonynt yn adroddwyr diail, ac wrth eu bodd yn dysgu allan neu yn parotoi ar gyfer arholiadau. Pwy a wyr beth a fydd y rhai hyn? Caniataed Duw fod pob un o blant Rhosymedre yn tyfu i fyny yn addurn i'w gwlad a'u crefydd.

Beth bynnag am eu dyfodol, gallaf dystio eu bod yn awr yn blant da, ufudd, rhadlon, a syml.

Yn eu canol yr eistedd eu llywydd a'u harweinydd,—y Parch. Hugh Parri; ac ar y dde iddo yr eistedd Mr. R. Bates, y Bazaar, Cefn, arweinydd y gân, a chyfaill calon y plant.

COFIANTAU BYRION.

ALFRED EVANS.—Mab ydoedd i'r diweddar Thomas Evans (*T. ab Ieuan*), ac Anne Evans, Glan y Wern, Trawsfynydd. Yr oedd er pan yn blentyn ieuanc iawn wedi ei feddiannu âg ysbryd darllengar a myfyrgar. Heblaw darllen CYMRU'R PLANT, ymbleserai mewn ysgrifennu manion iddo, y rhai a gyhoeddwyd o dro i dro. Yr oedd hefyd yn aelod o Urdd y Delyn, cadw yn fanwl at reolau yr hon a'i symbylodd i gasglu gwybodaeth.



ALFRED EVANS.

Byddai hefyd yn ymgymeryd â chyfieithu ambell hanesyn a'i anfon i'r *Cyfaill Eglwysig*. Er na dderbyniodd fanteision addysg y tuallan i ysgol elfennol, yr oedd trwy ymdrech difino wedi cyrraedd graddau o feistrolaeth ar yr iaith Saesneg. Enillodd lawer o wobrwyon mewn llyfrau mewn gwahanol gystadleuaethau, fel ag yr oedd wedi llwyddo i gasglu llyfrgell ddestlus o lyfrau da. Yr oedd yn aelod ffyddlon yn yr Eglwys Sefydledig, ac efe oedd ysgrifennydd ei hysgol Sul yn y lle. Yr oedd o natur wylaidd, addfwyn, a diymhongar. Yr oedd yn nodedig yn ei ardal fel un wastraffai ddim ar ei amser; ond adeg gweithio, byddai yn y "gongl ger y tân" gyda'i lyfrau yng nghwmni ei fam weddw. Pan ar hanner amser ei brentisiaeth fel lliwiedydd, dechreuodd ei iechyd dorri i lawr. Dioddefodd ei nychdod yn dawel am wyth mis, a hunodd yn yr Iesu Hydref 3ydd, 1899, yn ddwy ar bymtheg oed. Y dydd Sadwrn canlynol daeth tyrfa fawr i hebrwng, i dŷ ei hir gartref, weddillion un oedd wedi ennill edmygedd cyffredinol yr ardalwyr.

ANNIE.—Ganwyd Annie fach yn Efail Newydd, Carno, Hydref 7fed, 1894, a bu farw Tachwedd 16eg, 1899,—ychydig dros bump oed. Yr oedd yn eilun y teulu, ac yn blentyn a fawr hoffid gan bawb a'i hadwaenai. Bu farw o glefyd yr ymennydd, ar ol amryw ddyddiau o gystudd trwm iawn. Chwith iawn gennym ei cholli, mae gwagle ymhob man o'i hol,—ei llais wedi distewi, a'i theganau chwareu i'w gweled ymhob cwr. Un o'i hoff bleserau fyddai casglu blodau; bu farw pan oedd y blodau yn marw, a chwith iawn fyddai gweld y gwanwyn a'i flodau yn dyfod eto, ond heb y llaw fach anwyl yma i'w casglu. Yr oedd wedi dysgu unawd fechan i'w chanu yng nghystadleuaeth y plant yn eisteddfod y Nadolig; ac yr oedd yn meddwl llawer am yr adeg, ond cyn hynny, wele hi wedi ei galw i ganu yn iach byth yn y

nefoedd. Yr oedd wedi dysgu enwau y nodau ar y berdones, gan eu cyffwrdd â'i bysedd bach, ac yr oedd yn cael hyfrydwch mawr gyda hynny; ond erbyn hyn, y mae wedi cael "telyn yn y côr." Dysgodd lawer o adnodau bychain, y rhai a ddywedai mor siriol yn yr Ysgol Sul a'r seiat. Yr oeddym yn disgwyl llawer o bleser oddiwrthi yn y dyfodol, ond wele siomedig iawn yw y cwbl. Cawsom lawer iawn o gysur yn ein galar wrth ddarllen cofiantau byrion am blant Cymru sydd wedi ymddangos. Mor brydferth y dywed Islwyn am ei anwyl Lille,—

"Mae'n werth ymadael am ryw hirfaith gyfnod,
Er mwyn y fendith o'r fath ail gyfarfod."

A diweddwn yma yn ei eiriau,—

"Ffarwel, anwylaf Annie! nes gwawrio'r borau
Y cawn gyduno byth yng ngherdd y nefol gorau."

Yr hynaws a'r hoenuswedd—Annie fach
Yn fud yn y dyfnfedd!
Anhygoel yw'r unigedd
Lleinw y byw ar lan bedd.

I'r aelwyd bu'n glaser heulwen—oleuad
Y deuluol wybren;
Gwel yn awr gaddugol nen
Gudd lewyrch ei gwedd lawen.

MARY MORGANS, merch Evan a Jane Morgans, Cwm Morgan, ger Castell Newydd Emlyn. Yr oedd yn ferch ieuanc hardd, dyner, a gofalus, o gymeriad pur a chrefydd dlos. Mae ei lle yn wag heddyw, ond credaf y daw angel gwyn i weini ar ei theulu trallodus. Ni ddywedodd "Na" wrth ei rhieni erioed. Mae blodau hyd ei llwybr ymhob man. Rhoddwyd hi i orwedd, wedi dioddef cystudd caled, yn hen fynwent Capel Iwan.


W. EVANS, Carreg Lwyd.



ANNIE DAVIES.

ANNIE DAVIES, Ty'n yr Eithin, Carno.—
Bu farw yr eneth dirion hon ym Mai. Ni welodd ddiwrnod perffaith iach yma, aml a blin gystuddiau gafodd. Ond dysgodd un wers galed yn dda, yn well na llawer fu yn y byd yn hwy na hi,—y wers o ddioddef, a hynny yn dawel a dirwgnach. Darlennodd lawer iawn; gwnaeth wasanaeth mawr iawn i'w thaid oedrannus yn ei lesgedd a'i henaint, trwy ddarllen iddo yn feunyddiol rannau o'r Beibl, yr hyn oedd iddo o werth anhriadiawy.

"Gorffwys, bellach, Annie dirion, ti ddioddefaist lawer iawn,
Oes gystuddiol fu dy yrfa, dyna fu dy ddyddiau'n llawn;
Ni raid iti yfed mwyach ddyfroedd Mara chwerw flas,
Ti gei ganu a rhyfeddu fyth am waredigol ras."



SAVONA,—AR LAN MÔR Y CANOLDIR.

GAUAF AR LAN MOR Y CANOLDIR.

RHAGYMDRODD,—Y DAITH YNO.

MEWN pentref prydferth yng Nghymru, mae trwp o blant bychain sydd yn arfer dangos cymaint o ddyddordeb mewn pob rhyw hanesion allaf adrodd wrthynt, fel y maent wedi peri i mi feddwl mai nid anyddorol fyddai yr un hanesion i chwithau.

A chan mai i blant yr wyf yn ysgrifennu, gallaf ddweyd fod un eneth fach, fyw iawn ei dychymyg, yn arfer cymeryd gatael yn fy llaw, yn ei throï o gylch fy mhen, ac yn dweyd pan fydd arni awydd mawr am stori,—“Nawr esgus mai organ ydych, a bod yn rhaid i chi weyd rhywbeth pan y byddaf yn troi yr *handle*. Adroddwch rywbeth sydd yn wir, a bydd yn ddigon hawdd i chi fod yn ddifyrus. Gwedwch sut y perswadiodd Mrs. A— chwi i fynd i Itali gyda hi, y cwbl ddigwyddodd ar y ffordd wrth fynd, ac wedi i chi gyrraedd yno, ac wrth ddod yn ol.”

Mae 'mraich i yn troi nes yr wyf yn gorfod dechre yr hanes, a rhywfodd, fel y mae llygaid y fenyw fach sydd yn troi yr *handle* yn

mynd yn fwy a mwy wrth wrando, bydd adrodd yr hanes yn mynd yn beth mwy a mwy hawdd.

"Wel," meddwn, "roedd yn fore niwliog iawn ym mis Hydref pan y gadawsom ein cartref yn L—, ar ein taith i'r Riviera. 'Roedd rhai ohonom yn ofnus iawn wrth feddwl am groesi y sianel mewn niwl fel hyn. Ac wrth agoshau at Dover, lle yr oeddem yn cymeryd y cwch am Calais, edrychent allan i gael gweld fath olwg oedd ar y mor. Ond erbyn hyn yr oedd y niwl wedi clirio, yr awyr yn lās, a'r dwr fel llyn; yn gywir fel mae eich gofidiau chi yn clirio o'ch blaen, pan y byddwch yn methu yn deg a gwybod sut i fentro i'w canol,—y storm drosodd,—oedd fel pe bai wedi penderfynu na chae chi ddim mynd i'r parti. 'Pe bai yn para yn niwliog yr oeddw'n i wedi gwneyd fy meddwl i fyny na wnawn i ddim croesi,' meddai un o'r pump oedd yn gwneyd i fyny ein nifer, a dyma y gair cyntaf agorodd ein llygaid i'r ffaith mai nid peth hawdd oedd i bump boneddiges, gyda phump ewyllys gref iawn, a phump tymer boeth,—wel na, drwy drugaredd, 'roedd dwy neu dair tymer addfwyn, hawdd eu trin, yn ein mysg,—ond nid peth rhwydd, er hynny, oedd cyd dynnu."

"Oech chi yn cwmpo allan?" gofynnai'r eneth fach, a'i llygaid yn fflachio fel pe bai y posibilrwydd o anghydfod yn gwneyd fy hanes yn llawer mwy dyddorol.

"Cwmpo allan! dim o'r fath beth," meddwn, "ni welsoch chi erioed blant mor dda ag oeddem. Pan fyddai un am wneyd hyn, 'O'r goreu' meddai y llall yn union."

"Ych y fi, dyna ddiffas."

"O nage, wrth roi ffordd i ereill yr ydym yn cael y pethau goreu yn ein bywyd weithiau. Mi gewch wybod yn y fan beth oedd rhai o'r pethau gawsom ni. Mi wn i am lodes fach roddodd ei dol oedd yn cysgu i fyny i chwaer fach oedd yn llai na hi, ac fe anfonodd rhywun oedd yn gwybod am ei hunanymwadiad ddol fawr iddi oedd yn cysgu ac yn lletain. Ond 'dyw hyn ddim yn rhan o'r hanes, a mae'n rhaid i fi basio heibio i lawer o bethau, neu fe aiff fy stori yn llawer rhy hir.

"Wedi cymeryd y tren, a chael ein hunain,—Auntie Marian a finne,—mewn cerbyd gyda chwech boneddwr, dywedodd auntie yn yr hen iaith sydd mor ddefnyddiol,—'Swyddogion rhyfel yn mynd yn ol i India, ond oes golwg drist arnynt? Edrychwch ar yr un sydd yn eistedd wrth y drws, mae hwna wedi gadael ei galon ar ei ol.' Mor brudd oedd ei wyneb fel yr oedd yn dda gennym pan y cyrhaeddom Paris, i ni gael anghofio yn y berw a'r dwndwr yr argraff oedd wedi wneyd arnom. Ar ol ciniawa yn y *restaurant*, cawsom ein hunain yn y *salon lit*, cerbyd oedd Mrs. A.—a'r lleill

wedi gymeryd iddynt eu hunain, fel y gallent orwedd i lawr a chysgu fel yr oeddent yn trafeulu. Yn hwn yr oedd tair cadair fawr gysurus yr olwg arnynt, rhai wedi eu gwneyd yn y fath fodd fel y gellid eu troi yn welyau pan fyddai angen am danynt. Aeth auntie Marian a finne yn y cerbyd yma gyda'r tair arall o'r *Gare du Nord* i'r *Gare du Lyon*. *Station* yw *Gare*, neu feallai y dylaswn fod wedi gweyd mai Gorsaf yw *Gare* wrth siarad â phlant bach Cymru. Wel, yn lle mynd gyda ffordd haiarn y Ceinture gylch Paris, bydd rhai yn gyrru o un i'r llall; ond gan fod y *salon lit* yn cael ei symud o un tren i'r llall heb un ffwdan i ni, aethom o gylch Paris yn hwn i gyd gyda'n gilydd. A beth ych chi yn feddwl wnaeth auntie Marian ond tynnu allan *tea-basket* oedd gyda ni, a gneyd cwpanaid o de. Pan yr oedd y tân (*spirit lamp*) wedi ei gynu tan y tegyl, a'r llestri wedi eu gosod allan ar y bwrdd, fe roddodd y tren y fath *lurch*, fel yr oeddem i gyd yn y pryder mwyaf, a phob un,—pedair ohonom,—yn gwaeddi, 'O Marian! O Marian! beth oech chi yn gneyd y fath beth? Rhowch y tân allan, mae'n well gyda ni beidio cael te o gwbl.' Auntie Marian, yn cymeryd dim mwy o sylw ohonom na phe bai ddim yn ein clywed, ac yn gweyd, pan y rhoddodd Mrs. A— y gorchymyn yr ail waith, gydag awdurdod brenhines, fod yn *rhaid* iddi roi'r tân allan, gan fod y tren mor ansefydlog,—'Mae'r tren lawer yn fwy syfydlog na'r un ohonoch chi.'

"Ond dyna i chi gwpanaid o de, ni fuodd erioed o'i fath, ac ni fu erioed fath ganmoliaeth gatodd auntie am beidio gwrando arnom,—dyna i chi anghysondeb. Wel, wedi mwynhau ein te, a gweyd wrth ei yfed, fel eli i'n cydwybod euog,—'Ddylai neb wneyd peth fel hyn. Serch hynny, meddylwch mor beryglus yw,' &c., &c., aeth auntie a finne i'n cerbyd ein hunain. 'Roedd y tren yn llawn iawn, ond cawsom ddwy set gyda dau swyddog eto yn mynd yn ol i India; wrth weld pob set yn llawn o barseli, disgwyliem i ereill ddod i mewn, ond fel yr oeddem yn symud allan o'r orsaf, tynnodd y ddau foneddwr eu pethau oddiar y seti, a dechreuasant wneyd a allent i'n gwneyd ni yn gysurus dros y nos. Mynnai un ohonynt i ni gymeryd ei ryg i gadw ein traed yn gynnes, a'r llall i ni gymeryd ei set i orwedd i lawr, ac wedi ymryson â'n gilydd i fod yn *unselfish*, a setlo i lawr, gwneuthom ein goreu i gysgu, neu yn hytrach i fod yn llonydd i ereill gael cysgu. Llauer, a llauer o weithiau y gotyn-nais i auntie yn ystod y nos,—'Faint o'r gloch yw hi?' a 'Faint o'r gloch yw hi 'nawr?'

"Gyda'r wawr mi edrychais allan. Pun ai fy llygaid blinedig oedd yn gwneyd i'r llefydd oeddem yn basio trwyddynt i edrych yn anial garw neu beidio ni wn i ddim, ond wrth agoshau at Marseilles, 'doedd dim yn bosib rhoi'r bai ar eich llygaid,—'doedd dim byd.

glâs i weled yn un man, dim ond bryniau cerygog diffaeth, a choed olewydd yn edrych yn ddu a marwaidd iawn eu lliw. 'Pam mae pawb yn son cymaint am brydferthwch yr olewydd? 'Rw i yn 'i gweld nhw yn hyll iawn,' meddwn, gyda byrbwylldra yr anwybodus.

"Yr oeddwn wedi edrych ymlaen gyda phleser at y gobaith o gael brecwast ym Marseilles; ond 'doedd dim amser yno, a bu raid i ni fynd mor bell a Toulon, lle y cawsom ugain munud i gael *déjeuner*. Ond 'doedd hyn eto ddim yn ddigon o amser i bawb i gael yr hyn oeddent yn ystyried yn angenrheidiol at eu cysur a'u cynhaliaeth. Cwpanaid o goffi oedd yr hyn oeddwn i wedi rhoi fy mryd arno. Ac o'r diwedd, wedi hir aros, fe ddaeth. Ond pan yr oedd ar ei ffordd i'm genau, clywais lais hen wraig oedd yn eistedd wrth fy ochr yn dweyd mewn tôn ddolefus dros ben,—'Mi rown inne deyrnas am gwpanaid, ond mae'n rhy ddiweddar 'nawr.' Ac fe ddywedodd llais poenus arall yn agosach ataf,—'Rhowch eich cwpanaid chi iddi.'" A rhywfodd, mi ges gymorth i wneyd hynny. Ond pe bai chi yn gofyn i fi,—'Beth yw y weithred o hunanymwadiad fwyat a gyflawnoch erioed?'—mor ychydig yw eu nifer fel y byddai yn rhaid i fi gyfaddef mai dyma y mwyaf, gan nad wyf yn cofio dim yn fwy anioeddefol na'r syched angerddol ar ol noswaith yn y tren, a'r hen wraig wrth fy ochr yn yted y cwpanaid coffi oedd wedi cael hyd yn oed ei godi at fy ngwefusau.

"Pan aeth auntie Marian a finnau y funud olaf i edrych am ein cerbyd 'doedd dim siwt beth cael gafael ynddo, a bu raid i ni fynd i mewn i gerbyd arall,—yma, heb ein *shawls*, ein llyfrau, a llawer o gysuron ereill, cawsom wers fach ddefnyddiol iawn mewn bod yn ddiolchgar am fendithion bychain, un wnaeth y rhan olaf o'n siwrnai yn llawer llai grwgnachlyd. Yn La Pauline gwnaethom ymdrech i gael o hyd i'n pethau eto, ac wedi llwyddo a gwneyd ein hunain yn gysurus, dechreuasom foes ymadroddi ar y wers oeddem wedi gael. Ond ni pharodd hyn ddim yn hir. Fel yr oedd y golygfeydd yn mynd yn fwy a mwy prydferth, ai auntie a finne yn fwy a mwy cysglyd. 'O, edrychwch, dyma'r môr,' meddem, a cheisiem ein goreu i gadw ar ddihun. Daethom i St. Raphael, lle hynod o brydferth, ac wrth edrych allan yn yr orsaf gwelem fod Mrs. A— yn edrych am danom o'u cerbyd hwy, ac yn dala yn ei llaw *bunch* o *grapes*. 'Dim, diolch i chi,' gwaeddem, gan siglo ein pennau, 'mae gormod o ofn arnom i adael ein cerbyd.' Ond fe welodd Ffrancwr ein penbleth, ac fe aeth i fyny at Mrs. A— i ofyn a allai ef fod o ryw ddefnydd iddi. A welsoch chi Ffrancwr yn bowio erioed? Naddo? Wel mi rown i lawer am i chi gael golwg ar hwn, yn yn tynnu ei het ac yn ymgrymu wrth ofyn i Madame a gai e' gario

y grawn i Mademoiselle. 'Rwy'n ei weld e' 'nawr yn tynnu ei het ac yn ymgrymu eto wrth estyn y grawn i ni. Mi allai auntie a finnau fod wedi moesymadroddi eto ar toesgarwch y genedl Ffrengig; ond 'roedd hen elyn,—na, cyfaill caredig fyddwn i yn arfer galw cwsg, ynte,—wel, 'roedd cwsg wedi cymeryd gafael mor gryf ynnom, fel yr oeddem yn methu ateb ein gilydd pan fyddai un yn ceisio cadw y llall ar ddihun drwy ddweyd,—'O, edrychwch, dyma Cannes, lle mor adnabyddus drwy hanes, a Nice, lle arall mae y frenhines mor ho ohono.' Yma, yn Nice, daeth dwy foneddiges i mewn i'n cerbyd, ac er ein bod mor gysglyd, ac nad oeddem wedi clywed ond pedwar gair o enau un ac ateb byrrach o enau y llall, daethom ein dwy i'r penderfyniad mai Cymry oeddent. Mor gryf yw cariad at eich gwlad a'ch cenedl, fel yr ydych hyd yn oed yn eich cwsg yn clywed yr acen sydd yn rhoi ar ddeall i chi fod un o'ch pobl eich hunain yn agos."

Wrth son am gwsg, rwy'n gweld ei fod wedi llwyr orchtygu dwy o'm gwrandawyr bychain wrth wrando arnaf, ac nid yw hynny yn beth rhyfedd, gan fod môr glâs y Canoldir ei hunan, yr awyr lās uwch ben, y palmwydd, yr olewydd, a llawer o bethau ereill wedi methu a chadw eu dwy modryb ar ddihun.

H. E. M.



UN O EGLWYSI CEREDIGION.

(Darlun gan J. Thomas.)

ODDIYMA AC ACW.



RWY gamgymeriad y gelwir trigolion cyntefig yr America yn Indiaid oherwydd i Columbus feddwl, pan ddarganfyddodd ynysodd yr "India Orllewinol," ei fod wedi cyrraedd India. Cam-enw, felly, sydd ar yr Indiaid ac ar yr India Orllewinol.

Yn ystod gorllifiad y Wladfa Gymreig, ym Mhatagonia, pan oedd y gwladfawyr yn trigo mewn pebyll, ganwyd amryw blant. A rhoddodd y gwladfawyr enwau arnynt a'u hadgofiai am y llif mawr,—megis Glyndŵr, Lliffon, Dyfrig.

Yr oedd Wellington, yn erwin yn erbyn ysmegu; yn 1845 gorchymynnodd nad oedd y fyddin Brydeinig i ymwneyd â thybaco. Nid ysmygai Napoleon ychwaith; ond cymerai snuff.

Coch yw prif liw baneri cenhedlaethol y byd. Y mae coch ym manerau Prydain, Ffrainc, yr Unol Dalaethau, Awstria, Belgium, Holland, Switzerland, Sweden, Norway, Denmark, yr Eidal, Spaen, Portugal, Morocco, Roumania, Twrci, Siam, Japan, Peru, Chili, Mexico, Bolivia, Colombia, Venezuela.

Lliwiau ereill yw gwyn, glas, melyn, gwyrdd, a da.


Gwyrdd yw lliw cenhedlaethol yr Iwerddon; gwyn a gwyrdd yw lliwiau cenhedlaethol Cymru. Gwyn, coch, a glas yw lliwiau Prydain; ond nid yw'r gwyn ar y faner genhedlaethol.

Dywedir mai pobl afiach sy'n byw hwyaf, oherwydd eu bod yn cymeryd gofal am eu hi-chyd. Y mae pobl iach yn fwy dibris, oherwydd na ofnasant golli iechyd erioed.

Yr oedd Ynys Manaw dan frenhiniaeth o'i heiddo ei hun hyd 1765. Yr adeg honno prynnodd Senedd Prydain y frenhiniaeth gan Charlotte, merch Duc Athol, am £70,000.

Rhan o hen frenhiniaeth Normanaidd Gwilym y Gorchfygwr yw Ynysodd y Sianel, a'r unig ran yn aros ym meddiant penaduriaid Prydain.

Yr oedd Hanover yn perthyn i'n brenhinoedd Hanoveraidd. Ond yn ol cyfraith Salic y wlad honno, nis gall benyw eistedd ar yr orsedd. Felly, pan esgynnodd ein brenhines orsedd Prydain, aeth Hanover i'w hewythr. Bendith i ni oedd ei cholli, onide buasem yn sicr o orfod mynd i ryfel â Phrwsia anonest, oedd wedi ei chwennych ers blynnydoedd lawer.

 Cytfeiriad y golygydd yw.—OWEN M. EDWARDS, 8, CLARENDON VILLAS, OXFORD.

ARGRAFFWYD A CHEYHOEDDWDYD GAN HUGHES AND SON, 56, ROSE STREET, WREKHAM

Hugh Price Jones

AT Y PLANT. *lartell*

— *Upper Standard.*



LYFRAU NEWYDDION dechreu'r flwyddyn y mae adolygiadau yn CYMRU Ionawr ar y rhain.—Gwaith Daniel Owen, Cyf. I., gyda bywgraffiadau gan y Parch. J. Owen; "O Lygad y Ffynnon," gan y Parch. J. O Jones, B.A.; "Hirnos Gauaf," gan y Parch. T. M. Evans, M.A.; "The Celtic Year;" "Leçons de Grammaire Bretonne;" "Lewis Rees," gan Penar; "Beowulf," Miss Clara Thomson; "Gweddiau Cyhoeddus," gan y Parch. D. Cunllo Davies; "Telynau'r Wawr," gan Bryfdir; "The Elements of Welsh Grammar," gan S. J. Evans, M.A., &c.

Y flwyddyn 1900, nid y flwyddyn 1899, yw blwyddyn olaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Dechreuwn, wrth gyfrif, gyda 1, oni wnawn? Beth pe buasai rhywun yn eich dyled o £100, ac yn haeru mai y 99ain sofran oedd y ganfed? Yr un fath gydag oed; nid oes neb yn ddeg pan newydd cael ei naw. Drachefn, cymerer y cloc. Tybia rhai fod y bys wedi mynd o gylch ei wyneb pan darewir un ar ddeg,—fod y ddeuddegfed awr wedi mynd. Ond "mynd yn ddeuddeg" y mae hyd nes y bydd y cloc wedi taro deuddeg.

Mae llawer yn methu gweld hyn. Ymysg ereill y mae ymherawdwr yr Almaen a Rwsia. Ond er mor awdurdodol yw'r William hwnnw, nid eiff yr hen ganrif ddim arafach i'r pen rhag ofn iddo ef wneyd camgymeriad.

D. L. Llauer o ddiolch. Ond y mae'r anerchiad yn fwy priodol i gyhoeddiad crefyddol i ddynion nag i gyhoeddiad plant. Mae'n rhy *abstract* i blentyn. Rhywbeth clir, pendant, ac ystraeon ynddo, ddeallia plant. Ni fedrir cael plentyn i edrych ar drefniad gymylau, pa mor ogoneddus bynnag y bont; y fellten wél ef.

Yn rhifyn Ionawr o'r misolyn CYMRU y mae dwy erthygl ddyddorol iawn i blant. Un ydyw "Tro trwy'r Wig," gan un o athrawon Cymru; gwelir ychydig o'i diwedd yn y rhifyn nesaf. "Canu cyntaf Catrin bach," gan Miss Winnie Parry, yw y llail. Dyma'r ystori oreu ysgrifennodd Miss Parry erioed. Yr oedd yn rhy hir i'w rhoddi mewn un CYMRU'R PLANT, ni fuasai rhifyn cyfan yn ei chynnwys. Yr oedd yn resvn ei thorri yn benodau, gan mai rhyw ychydig ddyddiau mae'n ddarlunio. Felly rhoddais hi yn CYMRU, gan obeithio y myn y plant ei darllen yno.

Anfoner pob achebion am rifynnau at y cyhoeddwr. Os anfonir at y Golgydd, collir llawer o amser.

Da gennyf ddeall fod cyfeillion rhai eglwysi yn rhoddi CYMRU'R PLANT yn rhad drwy'r flwyddyn i blant tlodion yr eglwys nas gallant fforddio ei brynnu.

Nis gallaf ymrwymo i ddychwelyd dim ysgrifau anfonir imi. Cadwed yr ysgrifennydd gopi o bob peth enfyn i olygydd.



Y GWR EIRA.



CYMRU'R PLANT.

CYF. IX.

CHWEFROL, 1900.

RHIF 98.

YR NYDDIAU'R EIRA.

“Dyma'r eira cynta'n disgyn,
O mor dlws, mor gywraïn yw;
Gwel ei burdeb mor ddilychwin,
Mae yn dod o ddwylaw Duw.”

TALNANT LLYWELYN.

TRI mis oeraf y flwyddyn yw Rhagfyr, Ionawr, a Chwefrol. Y mae y gauaf ar ei brydferthaf ym mis Chwefrol, oherwydd gwyddom fod y gwanwyn yn prysur ddod i gymeryd ei le. Diflanna'r rhew a'r oerfel a'r eira; diflanna eu tlysni hefyd, eu hardderchawgrwydd o las a gwyn.

Dyddorol iawn yw holi pa fodd y mae bywyd anifail a llysieuyn yn parhau trwy'r tywydd garw. Am ddyd, medr ef ymsymud; ac y mae hynny yn cynhesu ei waed. Ac mae hyn yn wir am blant yn enwedig. Y mae chwarae yn rhoddi nerth newydd i'w haelodau, a gwres newydd yn eu gwaed. Ni rewant hwy, 'does dim perygl. Edrychwch arnynt. Y mae rhai'n ysglerio nes teimlo fod yr awel lem yn gynnes. Y mae ereill yn peltio eu gilydd âg eira, nes y mae eu gwaed yn gwrido eu bochau. Y mae ereill yn cludo eira i godi "gŵr eira,"—a dwy garreg yn llygaid iddo, a chetyn hagr yng nghil ei geg.

Önd pa fodd y medr rhai nas gallant redeg, na symud cam, gadw'n

gynnes ac yn fyw? Os cwbl rewa unrhyw beth, bydd farw. Dyna'r coed bythwyrddion,—yr ywen, y llawryfen, y ffrwydden, ac ereill. Pa fodd y gall eu dail fyw yn y rhew caled? Y mae'n debyg, yn un peth, fod ychydig iawn o ddfwr ynddynt yn y gauaf. Y mae y rhan wlyb o'u cyfansoddiad yn beth anrhwadwy hefyd,—megis *resin, turpentine, a benzine.*

Dywedir y gall rhai creaduriaid rewi'n galed, nes y tincient wrth eu taro yn erbyn gwydr, a byw wedyn. Rhewa pry'r teiliwr yn galed, a dadblyga'n loyn byw wedyn. Gall llyffant rewi fel nas gellir ei ystwytho, meddir, a byw. Rhaid cael rhew rhyfeddol o galed i rewi canol wy iar.


Y mae gwyddonwyr yn analluog, hyd yn hyn, i esbonio ond ychydig ar ddulliau natur i amddiffyn bywyd rhag oerni'r gauaf. Dywedir fod bychander rhai trychfilod yn eu cadw rhag rhewi. Ond y mae hyn yn sicr,—y mae adar a thrychfilod yn medru byw am fisoedd mewn oerni sydd yn ddigon i rewi arian byw.

Yn y rhew mawr yn 1895 bu llawer o blanhigion ac adar farw. Yr oedd yr eithin yn marw yn Scotland,—y wlad honno a Denmark yw y gwledydd mwyaf gogleddol y ceir ef ynddynt. Bu cymaint o adar farw fel nad oedd eisiau rhwydi i amddiffyn y ceirios a'r mefus wedyn; ac nid oedd adar ar y mynyddoedd i ddifa ffrwyth y coed criafol fel o'r blaen. Ond hyd yr oerni hwnnw oedd yn angeuol,—oherwydd yr oedd newyn yn dod gydag ef. Mi gredaf y gall adar ddal oerni mawr os cânt fwyd. Mae robin goch o flaen fy ffenestr tra yn ysgrifennu, yn sefyll ar gangen, ac yn edrych yn eithaf hapus er ei fod yn nannedd awel lem o'r gogledd-ddwyrain.

Peth rhyfedd iawn ydyw hyn,—gall llaw neu drwyn rewi, ond ni fadrant; wrth ddadmer y maent yn madru. Y rheswm yw hyn, meddir. Y mae'r aelod rhewedig yn meirioli'n rhy gyflym, ac y mae y gwlybyron sydd ynddo yn ymuno mewn dulliau anaturiol, ac y mae bywyd yr aelod yn colli. Ond wrth ei rwbio âg eira, rhwystrir ef rhag meirioli'n rhy fuan; ac felly cedwir y bywyd ynddo.

Y mae'r gwir yn rhy ddyrus i mi ei esbonio i gyd. Nid yw gwyddonwyr dysgedig wedi cael mwy na chipolwg arno. Ond cofiwn hyn,—os yw Duw yn anfon gauaf a rhew ac eira i'r byd, y mae wedi darpar moddion rhyfedd i gadw bywyd yn eu dyddiau hyd nes daw dyddiau cynnes, llawn bywyd, y Gwanwyn blodeuog gwyrdd.

ANGOF GOLYGYDD.—Drwg iawn gennyf i mi anghosio popeth am y gwobrau diweddf enillwyd gan y plant. Tybiais fy mod wedi eu hanfon, ond anghof oedd. Os oes rhywun heb gael ei wobwr eto, anfoned ei gyfeiriad imi, a chaiff glywed oddiwrthyf gyda'r troad.



EISIAU BOD YN FRENIN.

“**O** MI hoffwn fod yn frenin,” ebe Huw bach ab Ioan. “Fuase raid i mi ddim dysgu felly, a fuase raid i mi ddim ufuddhau, dim ond gorchymyn.”

Yr oedd Huw bach ab Ioan yn gwneyd camgymeriad mawr. Y mae brenin yn gorfod dysgu, yn gorfod gweithio'n galed, ac yn gorfod ufuddhau,—ychydig iawn o frenhinoedd sydd yn cael eu ffordd eu hun. Gall Huw wneyd ceffylau o'r cadeiriau, a dychmygu ei fod yn carlamu'n wyllt, a miloedd o bobl yn rhedeg oddiar y ffordd, ac yn rhyfeddu at ei allu i yrru cymaint o geffylau. Gall Huw ddychmygu hefyd y gallai reoli'r byd heb ddysgu dim; y mae llawer hŷn nag ef yn meddwl yr un peth ynyf.

Bachgennyn, ar hyn o bryd, yw brenin Spaen. Ei enw yw Alfonso XIII. Bu deuddeg Alfonso ar orsedd Spaen o'i flaen; ac yr

oedd rhai ohonynt yn rhyfelwyr dewr ac yn wladweinyddion doeth. Ond bachgennyn tal gwan yw ef.

Mae'n medru, heblaw ei iaith ei hun, Ffrancaeg a Saesneg a'r Almaeneg, ac y mae'n bur hyddysg yn ei Ladin. Cwyd saith o'r gloch y bore drwy'r flwyddyn. Wedi ymwisgo, gweddio, a brecwesta, bydd gyda'i lyfrau o hanner awr wedi wyth tan ddeg, llyfrau Saesneg a llyfrau Ffrancaeg bob yn ail fore. O ddeg i unarddeg, ca wers mewn marchogaeth. O unarddeg tan hanner dydd astudia fferylleg, daearyddiaeth, neu'r grefft filwrol. Am hanner dydd ca nawnbryd gyda dau o'i athrawon. O un tan ddau cymer Almaeneg a thynnu lluniau bob yn ail. Wedi hynny darllen lenyddiaeth a hanes. Y mae'n hoff iawn o hanes. Yna a allan am ychydig gyda'i fam, neu a drwy *drill* gyda bechgyn o'r un oed ag ef. Am saith o'r gloch ciniawa gyda'i chwiorydd. Am hanner awr wedi wyth cymer wers mewn cerddoriaeth. Yna, wedi dweyd ei bader, a i'w wely am naw.

Y mae'n amheus gennyf a oes bachgen yn holl Ysgolion Sir Cymru yn gweithio mor galed a brenin bach Spaen. Ymhen dwy flynedd a hanner bydd yn dechreu rheoli'r wlad. Y mae ei waith yn un anodd iawn, ac ni ŵyr neb eto a fedr lwyddo. Y mae llond y wlad o wrthryfel; y mae'r talaethau,—Catalonia, Asturias, Galicia, ac ereill,—yn teimlo iau Castile yn drom. Y mae llond y wlad o ddiodef ac o bechod; y mae'r llafurwyr yn cashau eu meistri, a therfysgoedd yn aml. Y mae Spaen yn dlawd, a'r trethi'n pwyso'n drwm ar y bobl. Y mae newydd fod mewn rhyfel ag Unol Dalaethau'r Amerig, ac wedi colli ei milwyr a'i llongau a'i threfedigaethau a'i pharch,—a hithau'n wlad falch iawn.

Tasg caled sydd o flaen Alfonso bach. Beth pe buasai Huw bach ab Ioan yn frenin, ac yntau'n wyllt ei dymer ac yn gwrthod dysgu? Dinistriai ei wlad ac ef ei hun.

DINIWEIDRWYDD.

WELAIST di y defnyn gwlith
Yn cusanu'r rhosyn brith?
Sylwaist di fod hyn yn arwydd
O fendigaidd ddiniweidrwydd?

Dacw blentyn bach dinam,
Wyr am ddim, ond glin ei fam;
Welaist di y drem ddiniwaid
Sydd yn llechu'n nghil ei lygaid?
Pennmachno.

Welaist di yr oenig lon
Yn ymhoeni ar y fron?
Sylwaist di fod dinweidrwydd
Ynddo'n ddelw o dy Arglwydd?

Iesu'n marw ar y groes,
Trwy ddiodef marwol loes,—
Edrych ar ei ddiniweidrwydd!
Dyna'th fywyd yn dragywydd.

HYFRYTRON.

HOFFWCH DDAIONI.

OS bydd gennych ddau beth eisiau eu gwneyd ar unwaith, un yn gas gennych a'r llall yn hyfryd, gwnewch y peth sy'n gas gennych yn gyntaf. Dyna'r ffordd oreu. Clywsoch son am Gwilym Hiraethog, onido? Os naddo, byddwch yn sicr o glywed ryw ddiwrnod. Mae ef yn un o'r dynion a wnaeth fwyaf i Gymru. Ysgrifennodd lyfr y leiciwn i chwi ei ddarllen, sef "Hanes bywyd yr hen deiliwr." Pan fydd ar y bechgyn eisiau dillad newydd, a gobeithio y cewch ddigon ohonynt byth, byddwch yn myned at y teiliwr i'ch mesur am danynt, a bydd yntau yn eu gwneyd gartref. Yn yr hen amser gynt byddai'r teiliwr, yn lle gwneyd y dillad gartref, yn myned o gwmpas o dŷ i dŷ, gan aros yn y tai nes gorffen y dillad. Teiliwr felly y sonia Hiraethog am dano. Nid oedd yn chwenychu myned i bob tŷ gystal a'u gilydd, er weithiau y byddai galwad arno fyned i ddau le ar unwaith.

Yn ei gymydogiaeth, yr oedd dau dŷ y byddai'r teiliwr yn arfer myned iddynt. Pobl anuwiol oedd yn byw yn un tŷ, a galwai'r teiliwr y tŷ hwnnw yn "Uffern ar y Ddaear." Trigai pobl dduwiol yn y llall, ac ailfedyddiwyd y tŷ hwnnw ganddo yn "Nefoedd ar y Ddaear." Un diwrnod, daeth galwad ar y teiliwr i fyned i'r ddau dŷ a nodwyd. Gofynnodd i'w brentis,—“I ba un yr awn gyntaf.” “I'r Nefoedd,” ebai yntau. “Nage,” meddai'r hen deiliwr, “yr wyt yn methu yn arw. Os awn i'r Nefoedd yn gyntaf, byddwn yn meddwl am Uffern tra y byddwn yno, ac felly nid allem fwynhau ein hunain yn y Nefoedd. Os awn i Uffern yn gyntaf, bydd yn haws byw yno pan gofiwn y cawn fyned i'r Nefoedd ar ol gorffen, ac ni fydd dim ar ein ffordd i fod yn ddedwydd yn y nefoedd pan gyrhaeddwn yno.” Felly chwithau, fy mhlant. Mae'n debyg y byddwch yn cael tasgau pan y bydd arnoch eisiau chwareu. Rhoddwn gyngor i chwi wneyd y dasg yn gyntaf, neu byddwch yn meddwl am y wers wrth chwareu, ac ni fedrwcw chwareu yn iawn. Ac mi fyddaf yn hoffi gweled plant yn chwareu â'u holl egni.

Clywsoch son am Amos. Proffwyd enwog ydoedd, yn byw yng ngwlad Canan tuag wyth gant o flynyddoedd cyn geni Iesu Grist. A dyma yw proffwyd mewn brawddeg fer y gall pob un ohonoch ei chofio,—dyn dros Dduw at ddynion. Mae ef yn cyffwrdd â'r drwg a'r da fel ninnau, canys fe ddywed,—“Casewch ddrygioni, a hoffwch ddaioni.” Dylech hoffi daioni er ei fwyn ei hun, a deallwch hynny ryw ddiwrnod. Yr wyf yn son am beth sy'n haws ei ddeall. Dylech wneyd y da am y daw pob da i'r golwg. Os caiff pob drwg ei ddatguddio, mae'r un peth yn wir am bopeth da. Daw *geiriau* da i'r golwg; daw *ysgrif*en dda i'r golwg; daw *gweithredoedd* da i'r

golwg; daw da *cuddiedig* y galon i'r golwg. Mae yn haws gwneyd y da os bydd rhywun yn edrych arnom. Wel, fy mhlant, y mae Un yn gwelod pob da yr ydym yn ei wneyd, ac y mae yn sicr o'i ddatguddio.

Dywed rhai dynion dysgedig fod pobl yn byw yn y blaned Mawrth. Nid wyf yn gwybod a oes yno ai peidio. Tybiwch fod; a thybiwch drachefn fod un ohonynt yn dod am dro i'r ddaear. Yn gyntaf oll el i Lundain, a dywed dynion wrtho fod gauaf oer ar ddechreu, y bydd eira gwyn yn disgyn, a'r rhew caled yn dod, ac na wnaiff dim byd tyfu o'r ddaear am fisoedd. Ar ol gwelod rhyfeddodau Llundain, daw'r dieithr ddyn o Fawrth i'r wlad, ac erys mewn ffarm. El i'r ydian ryw ddiwrnod a gwel ronynnau bychain ar lawr, a gofyn i'r amaethwr beth ydynt. Etyb y ffarmwr mai gwenith ydynt, ac mai â hwy y gwneir y bara goreu i gynnal dyn i weithio. Trannoeth y mae yn myned i'r cae, ac er syndod iddo gwel yr amaethwr yn cario y gwenith mewn sachau ac yn ei daflu ar hyd a lled y cae. Mae wedi synnu, er nad yw yn dweyd dim wrth y ffarmwr. Dysgodd ddigon o foesau da cyn dod i'r ddaear i beidio dweyd geiriau angharedig. Ond y mae yn ysgrifennu adref at ei blant bach, ac yn dweyd mai pobl rhyfedd iawn oedd yn byw ar y ddaear; fod un ohonynt yn dweyd fod ganddynt fân ronynnau a elwir yn wenith, a bod yn rhaid cael y gwenith i gynnal bywyd, ac eto ei fod yn lluchio sached ar ol sached ar hyd y ddaear galed oer. Ie, ond gŵyr y ffarmwr yn well o lawer na'r dyn o Fawrth, canys gŵyr y bydd yr had da yn sicr o ddod i'r golwg gyda chnwd. "Bwrw dy fara ar wyneb y dyfroedd, canys ti a'i cei ar ol llawer o ddyddiau." Mae'r un peth yn wir am y da. Gall rai diwybod ddweyd na ddaw i'r golwg, a rhai drwg yn dymuno iddo beidio dod; ond daw i'r golwg. Daw peth o'r da i'r golwg yn y byd hwn, a chawn ein talu am y daioni a wneir gennym.

Llawer blwyddyn yn ol, yr oedd dau fachgen yn teithio mewn llong, un ohonynt yn lled ieuanc a'r llall dipyn yn hŷn. Nid oeddnt yn adnabod eu gilydd, ond yn ystod y fordaith gwelodd yr hynaf o'r ddau yr ieuengaf yn wylo. Aeth ato, gan ofyn iddo beth oedd yr achos o'i wylofain. Atebwyd yn ol ei fod wedi cyfrif ei arian, ac nad oedd ganddo ddigon i dalu am ei gludiad adref. Rhoddwyd iddon iddo gan y llall, a phan ofynnodd am ei enw er mwyn cael talu yn ol, dywedodd wrtho, ond ychwanegodd nad oedd rhaid talu yn ol; ond os gwelai rywun mewn amgylchiadau cyfelyb ryw dro am dalu i hwnnw. Aeth aml i flwyddyn heibio. Tyfodd y bachgen ieuengaf yn ddyn, a gwelwyd ef unwaith eto ar fwrdd llong. Cantyddodd fachgen yn wylo. Gofynnodd yr achos, a chafodd allan fod ei arian yn brin, ac nad allai dalu am ei gludiad adref. Cofiodd fel y bu yntau yn yr un anhawsder, a dechreuodd holi y bachgen yn

fanylach, a chafodd allan mai mab ydoedd i'r bachgen a dalodd ei gludiad ef flynyddoedd yn ol. Da iawn oedd ganddo ad-dalu. Gwelwch, fy mhlant, fod gwneyd da weithiau yn dod i'r golwg yn y byd hwn.

Os na wel dynion, fe wel Duw, a dylem gofio hynny. Bydd llawer ohonoch ar ol tyfu i fyny yn cael y fraint hwyrach o fyw mewn cymoedd o'r golwg, ac na ŵyr y byd ddim am danoch, ac yn ddigalon i wneyd dim da gan feddwl nad oes neb yn sylwi arnoch. Camgymeriad yw hynny. Mae mwy yn sylwi arnom nag yr ydym yn meddwl. Ond os nad ydynt, cofiwch ddywediad arlunydd enwog. Trigai arlunydd enwog unwaith yn yr Eidal, a chafodd y gorchwyl i dynnu darluniau o'r eglwys fawr. Un diwrnod yr oedd yn gweithio pan ddaeth cyfaill iddo i mewn. Edrychai am yr arlunydd ymhobman, ond methai ei weled. Gwaeddodd,—

“Pa le yr wyt ti?”

“Dyma fi,” medd yr arlunydd.

“Beth wyt yn ei wneyd y fan yna?”

“Tynnu darlun.”

“Wel, yr wyt yn un gwirion. Wyddost ti ddim mai prin y gallat dy weled ti, heb son am y darlun. Wyddost ti ddim ychwaith fod llen yn cael ei rhoi i fyny yn y fan yna dros y fan. Pa ddiben iti dynnu darlun y fan yna?”

“Cefais dal am hynny,” medd yr arlunydd.

“Os cefaisd,” medd ei gyfaill, “tyn ef rywsut, ni welir ef gan yr un dyn, byth.”

“Nid gweithio er mwyn i ddynion edrych arno yr ydwyf fi, ond er mwyn gogoniant Duw.”

Gweithiwch chwithau, fy mhlant, dros Dduw. Cewch eich siomi os bydd i chwi ddisgwyl i ddynion eich moli. Hen arfer byd yw cospi eu dynion goreu. Ond ni siomodd Duw neb erioed. Gall pob peth fod yn dywyll iawn, ond, “Y bore haua dy had a phrydnawn nac atal dy law, canys ni wyddost pa un a ffynna, ai hyn yma. ai hyn acw, ai da fyddant ill dau yr un ffunud.”

PA BEN.

YR oedd dyn dieithr o'r America unwaith wedi troi i ffermdy Cwm Cloch, ger Beddgelert, lle y preswylia Mr. G. Evans, i ofyn y ffordd i Oerddwr. A dywedodd Mr. G. Evans wrtho,—

“Cerwch i fyny yn syth i ben y bryn acw, ac i lawr ar eich pen wedyn, ac mi ddowch o hyd iddo fo'n union deg.”

“Mae'n haws gin i fentro fy nhraed,” ebe'r teithiwr, “na fy mhen.”

“Ddeudis i ddim pa ben,” oedd yr ateb parod.

Oerddwr.

W. F. HUGHES.

AR Y TRAETH.

(DARN I'W ADRODD.)

AR y traeth ar haf-ddydd tawel, rhodiai tad a mam a phlentyn,
 Ac ysbrydion cudd yr awel yn clustfeinio ar eu hemyn;
 Aeth yr edrych ar y wendon, o edmygu swyn yr ewyn,
 Fel heb wybod trwy y trochion, yn anghofrwydd am y plentyn.

'Roedd edrychwyr, dorf frwdfrydig, acw ar y synllyd glogwyn,
 Yn tosturio wrth grwydredig, a blinedig, unig blentyn;
 Dacw'r tad a'r fam anghofus, draw ymhell oddiwrth y bychan,
 Yntau, gyda bron ddolurus, yn troi i wyllo wrtho'i hunan.

Dyna waedd uwch gwaedd rybuddiol yn taranu arswyd-ddychryn,—
 “*Mae y llanw hyf a beiddiol yn crynhoi o gylch y plentyn!*”
 Beth am dano? Bloeddiwch! Bloeddiwch!! *Llanw, llanw.* O!
 y plentyn!
 Ciliodd ysbryd gwyn difyrwch, crynna cyffro dorf y clogwyn.

Clybu clust y fam y fanllef ddoi o'u hol o'r clogwyn garw,
 Ac ysgubai ingol ddolef dros ei mŷn wrth weld y llanw
 Am ei phlentyn tlws, anffodus, welai yn y pellder creulon,
 Rhuthrai hithau yn wallgofus tuag ato trwy'r peryglon.

Dal ei hanadl y mae'r dyrfa wrth eu gweld mewn ymdrech galed,
 Ofn i lwybr gwyn dihangfa gael ei gau gan ddyfrllyd dynged,
 Maent yn ymyl eu hanwylyd,
 Ond, och! och!! mae ef yn *soddi*;
 A sibryda'r dorf gwyntanllyd,—
 O! 'run bach, mae wedi boddi.”

Tra mae pawb yn fud-alarus,
 Daw i'r golwg eto'n sydyn
 Ac mae breichiau tad helbulus,
 Yn ymblethu am ei blentyn;
 Tyc anthemau brwd-lawenydd
 Dros wefusau yr edrychwyr,
 A thry'r waredigaeth newydd
 Gannoedd hwyliog yn addolwyr.

GWILYM DYFI.



PLANT CYMRU. CXXIV. RHAI O GYMRY LERPWL.,

(Gwel eu hanes yn y rhifyn diweddaf.)

URDD Y DELYN.

Y RHEOLAU.

1. Dysgu siarad ac ysgrifennu Cymraeg; darllen rhan o'r Beibl Cymraeg, neu ryw lyfr Cymraeg arall, bob dydd, ac ysgrifennu Cymraeg o'i gyfansoddiad ei hun.
2. Astudio hanes Cymru, a gwneyd ei oreu i godi ei wlad, fel y byddo Cymru fydd yn well na'r hen Gymru.
3. Dysgu canu'r delyn, os bydd hynny yn y cyrraedd; a dysgu alawon Cymreig.
4. Byw, hyd y gall, yn ol dysgeidiaeth yr hen Gymry gynt, mor bell ag y mae'r ddysgidiaeth honno'n un a dysgeidiaeth Crist. Y mae'r ddysgidiaeth honno'n gofyn purdeb, cariad at addyg, caredigrwydd at ddyn, addfwynder at greaduriaid direswm, iaith ddihalog.

AELODAU NEWYDDION.

1189. Robert Morris Jones, Penlan, Penrhyndeudraeth.
 1190. Katie Morris, 5, Sea View, Porth y Gest.
 1191. Mari A. ap Morgan, Opunake, Taranaki, New Zealand.
 "A wnewch chwi ddweyd wrth y plant, er fy mod wedi treulio cym-
 aint o Gynyddoedd ymhell o'm bryniau Cymreig genedigol,—gadewais
 Gymru pan yn bedair ar bymtheg, ac yr wyf yn awr yn dair a thrigain,—
 yr wyf yn caru'm gwlad a'm cydwladwyr, ac yn gobeithio y tyf y plant
 i fyny yn ofn Duw ac mewn cariad at Gymru."
 1192. Thomas H. Jones, Hyfrydle, Penrhyndeudraeth.
 1193. Herbert Jones, Plas yn Blaenau, Pandy Tudur, Llanrwst.

 Y FWYALCHEN.

WRTH imi grwydro'r bryniau, rhwng blodau tlws a dail,
 Ar fynwes awel falmaidd daeth peroriaeth heb ei hail.

Yn araf awn i wrando, rhag cyffro'r swynol sain,
 Ddiferaï'n fêl o euraidd big mewn cysegredig ddrain.

Ni fu mwneiddiach cantor, na thenor gwell erioed;
 Dihalog ydyw melus gerdd y cyngherdd sy'n y coed.

Gwefreiddiaï'r alaw lawen goed Eden ddedwydd gynt,
 Pan ymddifyrrai'n tad a'n mam, heb nam,—anfarwol hynt.

Mae'r fwyalch awenyddol yn swynol gan y nef;
 A gwerthfawr yw yng ngolwg Duw, yn union clyw ei llef.

Croesawai fi o'i gorsedd i balas hedd â'i chân;
 Di-lid, di-ofid oedd y fron oedd dan blu duon glân.

Diolchais i'r ben-cerddes am ini'n gynnes gwrdd,
 Ond gelyn ddaeth mewn dirgel fodd, a'r fwyalch ffodd i ffwrdd.

Na thaenwn byth yn sarrug hen farrug poen a brad,
 Yn dâl am flodau tlysiion iawn tiriondeb gawn yn rhad.

Y Bala.

RICHARD AB HUGH.

GWLAD HUD.

(Casgliad o Ystraeon Hud o
bob gwlad.)

II. URASHIMA.

(Un o Ystraeon Hud Japan.)



YM mhell bell yn ol, yr oedd yn byw ar lan traeth môr Japan bysgotwr ieuanc o'r enw Urashima, bachgen caredig o galon a medrus gyda'i wialen bysgota.

Un diwrnod aeth i'r môr yn ei gwch isel. A beth feddylwch chwi a ddaliodd? Nid pysgodyn, ond tortois mawr mewn cragen galed gyda gwyneb hen hen, a chynffon fechan fechan. Hwyrach nas gwydd-

och fod y tortois yn byw am fil o flynyddoedd; o'r hyn lleia, dyna ydyw oes pob tortois yn Japan. A dywedodd Urashima wrtho ei hunan fel hyn,—“Fe wnai pysgodyn y tro yn llawer gwell i ginio na'r tortois yma. Paham y lladdaf o, a rhwystro i'r creadur gwirion fwynhau ei hun am naw cant a naw deg a naw o flynyddoedd? Na, na, ni wnaif dro mor greulon,—'rwy'n siwr na hoffai fy mam i mi wneyd hynny.” Ac wedi myfyrio fel hyn, fe daflodd y tortois yn ol i'r môr.

Tyner iawn ac esmwyth oedd awel y môr, fel yn union deg syrthiodd Urashima i gwsg hyfryd yn ei gwch. A thra yn ei gwsg, daeth geneth brydweddol i fyny odditan y tonnau, a dringodd dros ochr y cwch, a dywedodd,—“Y fi yw merch y môr-dduw, a rwy'n byw hefo fy nhad ym Mhalas y Goleuni, y tu draw i'r tonnau. Nid tortois oedd y creadur a ddoliaist ychydig yn ol, a'r hwn a deflaist mor garedig i'r môr yn lle ei ladd. Ond myfi ydoedd, wedi fy anfon gan fy nhad i edrych pa un ai creulon ai addfwyn oeddit ti. Gwyddom yn awr mai bachgen da caredig ydwyf, ac nas ceri ddrwg a chreulondeb, ac telly yr wyf wedi dod i dy nol atom. Cei fy mhriodi i, os mynni, a chawn fyw yn hapus gyda'n gilydd am fil o flynyddoedd ym Mhalas y Goleuni, y tu draw i'r môr dwfn glas.”

Felly, cymerodd Urashima un rwyf, a merch y môr-dduw y llall, a rhwyfasant am hir amser hyd nes daethant i Balas y Goleuni, lle y rheolai y môr-dduw ar y dreigiau a'r tortois a'r holl bysgod. Yr anwyl fawr,—mor ardderchog oedd y palas a'r wlad! Ei furiau oedd o aur pur, i'r coed yr oedd gemau yn ddail a pherlau yn ffrwythau, arian glân oedd adenydd y pysgod, ac aur dilin oedd cynffonnau y dreigiau. Ceiswch feddwl am bob peth dymunol a welsoch erioed, a rhowch nhw hefo'i gilydd, ac yna bydd gennyh ryw ddychymygwan am brydferthwch gorwch y wlad. A roedd y cwbl oll yn eiddo i Urashima, gan ei fod yn fab yng nghyfraith i'r môr-dduw ac yn wr i'r dlos dywysoges.

Am dair blynedd, buont byw yn hapus gan rodio bob dydd ymhlith y coed a'u dail yn emau a'u ffrwythau yn berlau. Ond un bore dywedodd Urashima wrth ei wraig,—“Yr wyf yn hapus iawn iawn yma, eto, mi hoffwn yn fawr fynd yn ol i'm hen wlad i weled fy nhad a mam a'm brodyr a'm chworydd. Gad i mi fynd am dro byr, ac yn fuan dof ataf yn ol.”

“Nid wyf yn hoffi dy weled yn mynd,” ebe hi. “Mae arnaf ofn y digwydd rhyw niwed i ti. Er hynny, os wyt ti yn dymuno mynd, ni wii i mi dy rwystro. Ond rhaid i ti fynd a'r blwch yma hefo thi, a gofalu am beidio ei agor nes doi yn ol. Os agori di ef, ni alli byth ddod ataf eto.”

Felly addawodd Urashima gymeryd gofal mawr o'r blwch, a pheidio ei agor ar unrhyw gyfrif; ac wedi mynd i'w gwch, rhwyfodd i'r môr, nes o'r diwedd y glaniodd ar draeth ei hen wlad.

Ond beth oedd wedi digwydd iddi er pan ymadawodd â hi? Pa le yr oedd bwthyn ei dad? Beth ddaeth o'r pentref lle yr arferai fyw? Yr oedd y mynyddoedd, yn wir, fel o'r blaen, ond yr oedd y coed arnynt wedi eu torri i lawr. Rhedai yr afonig fel o'r blaen yn ymyl tŷ ei dad, ond nid oedd mwyach ferched i'w gweld yn golchi dillad ynddi. Rhytedd iawn fod pob peth wedi newid cymaint mewn tair blwyddyn fer.

Pan welodd Urashima ddau ddyn yn rhodio ar y traeth, aeth atynt a gofynnodd,—

“A welwch chwi yn dda. ddweyd wrthyf i ba le yr aeth bwthyn Urashima?”

“Urashima! Urashima!” ebynt hwythau, “wele, y mae pedwar can mlynedd er pan foddodd Urashima wrth bysgota yn y môr. Mae ei rieni, a'i frodyr, eu wyrion a'u hor-wyrion wedi marw oll ers blynyddoedd lawer. Y mae hynny yn hen, hen hanes yn ein mysg. Pam 'rwyf ti mor wirion a holi am ei fwthyn? Y mae wedi malurio i'r llawr gannoedd o flywyddi yn ol.”

Yn sydyn, fflachiodd y syniad i feddwl Urashima mai perthyn i wlad y Tylwyth Teg yr oedd palas y môr-dduw, gyda'i furiau gwych a'i ffrwythau arian a'i ddreigiau aur-gynffonnog, a fod un dydd yno cyhyd a blwyddyn yn y byd hwn, fel yr oedd y tair blynedd y bu o yn briod hefo'r dywysoges ym mhalas y môr-dduw yn gannoedd o flynyddau mewn gwirionedd.

Wrth gwrs, nid oedd unrhyw bleser iddo aros yn ei hen gartref pan yr oedd ei holl gyfeillion wedi marw a'u claddu, a phan yr oedd y pentref, yn wir, wedi diflannu. Felly, mawr oedd brys Urashima i droi yn ol at ei wraig y tu cefn i donnau y môr glas mawr. Ond sut yr oedd mynd yno! Nis gwyddai ei hun, ac nid oedd neb i'w dangos iddo. “Feallai, os agoraf y blwch a roddodd imi,” meddai, “y gallaf wybod y ffordd ati yn ol.” Felly, anufuddhaodd i'w gorchymyn i beidio agor y blwch,—neu hwyrach fod y bachgen, druan, wedi ei anghofio. Beth bynnag, agor y blwch a wnaeth, a be feddyliwch chwi ddaeth allan o hono? Dim ond cwmwl gwyn gwyn a ddiangodd ymaith i'r môr. Gwaeddodd Urashima ar y cwmwl gwyn i aros, llamodd o gwmpas, a rhwygodd ei wisg gan ofid, canys daeth i'w gôf a ddywedodd ei wraig wrtho; ac yn awr, ar ol ei agor, deallodd nas gallai byth fyned yn ol i Balas y Goleuni.

Ond yn ebrwydd, nis gallai na rhedeg na gwaeddi mwy, canys trodd ei wallt yn wyn gan fel yr eira, crebychodd ei wyneb fel hen afal sych, a chrymmodd ei war fel hen wr. Yna arafodd ei anadl, a chwypodd yn farw ar lan y traeth.

Druan o Urashima! Bu farw oherwydd ei ffolineb a'i anufudd-dod. Pe gwnaethai fel y gorchymynnwyd iddo, gallasai fyw am fil o flynyddoedd. Oni hoffech chwi fyned i weled Palas y Goleuni y tu draw i'r tonnau glas, i gartref y môr-dduw sy'n llywodraethu fel brenin ar y dreigiau a'r tortois a'r pysgod, a lle mae'r coed a'u dail yn arian a'u ffrwythau yn berlau, a lle mae edyn y pysgod yn arian a chynffonnau y dreigiau yn aur pur?

HEL CALENNIG.

CREDAF nad oes cymaint o hel calennig yn awr ag a fyddai ddeng mlynedd ar hugain yn ol. Dydd Calan y flwyddyn 1869, yng Nghwm y Sylfaen, cododd bachgen bach deg oed am bump o'r gloch y bore hwnnw i fyned i hel calennig. Yr oedd ychydig o ymrafael wedi bod rhyngddo a bechgyn Llwyn Onn Uchaf y noson cynt ynghylch pwy allai gyrraedd y Sylfaen gyntaf, i gael swllt gan Miss Morris,—y cyntaf yno, pwy bynnag fyddai hwnnw, byddai yn sicr o'i swllt. Yr oedd yn fore rhewllyd oer, a'r lleud yn tywynnu ar gaeau oedd yn wynion gan farrug.

Yn ei frys y bore hwnnw, a'i ofn rhag i techgyn Llwyn Onn fyned o'i flaen, anghofiodd y bachgen ddweyd ei bader wrth erchwyn ei wely fel arter; a phan yn rhedeg ar draws y caeau cofiodd hynny, ac aeth yn gyfyngder arno. Nis gallai feddwl am fyned yn ei flaen heb ddweyd ei bader, a chredai na fyddai tawr o lwyddiant ar ei galennig y diwrnod hwnnw, os yn wir y cai galennig o gwbl. Os troai yn ol at erchwyn ei wely, byddai bechgyn Llwyn Onn yn sicr o fyned o'i flaen. Felly, beth a wnai? Nid oedd dim i'w wneyd ond yr hyn a wnaeth, sef myned ar ei liniau wrth y gamfa, ac yno-weddio ei weddi fach. Wedi gwneyd hynny rheddodd ymlaen yn ysgafn ei galon, galwodd yn Llwyn Onn Isaf wrth fyned heibio, a chafodd chwecheiniog gan y garedig Betti Edwards, am mai efe oedd y cyntaf i ddymuno "Blwyddyn newydd dda" iddi. Aeth yn ei flaen wedyn at y Sylfaen, a chafodd y swllt gan Miss Morris; a chyn cyrraedd adref, wrth gael dimai a cheiniog gan ambell un arall, yr oedd ganddo ddau swllt! Yr oedd hwn yn swm na fu ganddo ei gymaint erioed o'r blaen, ac nis gwyddai yn y byd beth i'w wneyd âg ef. Rhoddodd un swllt i'w fam i'w gadw, a phrynnodd lyfr â'r swllt arall.

Tyfodd bachgen a chydwybod mor dyner i fyny yn fachgen da, ond bu tarw yn gynnar. Ai tybed mai

"Tynged pob rhagoraf rai
Ydyw marw'n gynnar."

GWENDON.

Y PLANEDAU YM MIS CHWEFROL.

Y MAE Gwener brydfarth yn seren hwyrol trwy'r mis. Seren fore yw Mawrth goch, rhy agos at yr haul i'w weled. Ser y bore yw Iau a Sadwrn hefyd. Mae Mercher yn Seren fore yn nechreu'r mis, ond daw'n seren hwyrol tua'r diwedd. Y mae'r dydd yn hwyhau llawer yn Chwefrol, 51 munud y bore a 49 y prydawn.



PYSGOTWR YNG NGOGLEDD HOLLAND.

ARWRIAETH YR ISELDIROEDD.**II. Y BOBL.**

Y MAE cymeriad pobl yn dibynnu ar gymeriad eu gwlad,—ar ei ffurf ac ar ei hinsawdd. Os mai gwastadedd eang fydd gwlad,—fel Rwsia neu China,—nid oes ysbryd anibyniaeth yn y bobl; addolant eu gorthrymwyr, ac ni chodant o gaethiwed anobeithiol. Os bydd yr hinsawdd yn rhy gynnes, bydd y bobl yn ddiog, a dim digon o ynni ynddynt i godi i sefyllfa uwch.

Ond os bydd gwlad ar lan y môr, ac yn fynyddig, yno trig ysbryd anibyniaeth. Codi, a mynd ymlaen, yw hanes gwlad felly. Y mae ysbryd rhyddid yn y môr, ac yn y mynydd. Gwledydd y môr a'r mynydd sydd wedi codi ac arwain dynol ryw, a'r rhai hynny bron oll yn wledydd bychain,—Groeg, yr Eidal, Portugal, Prydain, Holland, Denmark, Sweden. Ac y mae cymeriad y bobl yn llawnach o ynni os bydd y wlad yn oer, ac anhawsderau ar ffordd llwyddiant yn fawr.

Wrth fynd heibio, gadawer i mi alw sylw at y ffaith fod Cymru yn rhes o fynyddoedd ar lan y môr; ac y mae Burne Jones wedi rhoddi ar sel ei Phrifysgol lun adeilad rhwng y mynydd a'r môr.



ISELLMYNNWR.

Wrth wneyd corsydd yn erddi, wrth wneyd eu hen elyn, y môr, yn was iddynt, dadblygodd cymeriad ardderchog ymysg yr Iseldirwyr. Daethant yn genedl o bobl amyneddgar, benderfynol, ddewr, ac anibynnol. Y mae eu diwydrwydd, a glanweithdra eu tai, yn ddiarhebol. Yr oedd eu pentrefydd yma ac acw ar dwnmpath sych yn y corsydd, yn hawdd eu hamddiffyn yn erbyn gelyn, felly yr oeddynt yn llywodraethu eu hunain er yr oesoedd boreuaf. Ond, pan ymosodid arnynt, ymunent oll yn un wlad gref, ac ni fedrodd galluoedd cryfaf Ewrob eu plygu.

Yn y Canol Oesoedd yr oeddynt dan lywodraeth Spaen. Yr oeddynt yn brif ffynhonnell trethi y wlad filwrol wastraffus honno. Yr oedd eu trefydd yn llawn o weithfeydd gwlan mwyaf y byd, ac yr oedd eu llongau ymhob moroedd. Tra y teyrnasodd Siarl V. arnynt, parchwyd eu hunan lywodraeth. Ond gyda'i farw ef, ac esgyniad Phylip II., daeth tro mawr ar fyd. Yn un peth, yr oedd y Diwygiad Protestanaidd wedi dechre, oherwydd o flaen Siarl V. yr ymddanghosasai Luther yn synod fythgofiadwy Worms yn 1520. Yr oedd yr Iseldirwyr gyda'r rhai cyntaf i groesawu'r Diwygiad. Daethant

yn Galfniaid pybyr, a phenderfynasant golli eu bywyd cyn y collent eu crefydd.

Ond yr oedd Phylip mor benderfynol a hwythau. Efe, cofier, oedd gŵr Mari, gyfenwir yn Waedlyd, brenhines Lloegr. Yr oedd Phylip a Mari yn credu mai eu dyledswydd oedd llosgi eu deiliaid yn fyw yn hytrach na gadael iddynt dderbyn y Diwygiad. Yn Holland y bu yr ymladd caletaf a'r dioddef mwyaf. — Am gan mlynedd, o tua 1550 i 1650, bu'r Isellmynwyr yn ymladd am eu rhyddid yn erbyn Spaen. Gwelais ddarnau o'r heiyrn rhydlyd a'r rhai yr arteithid y crefyddwyr, gwelais gerrig y daeargelloedd lle buont yn dihoeni, ac y mae gennyf aml ystori gynhyrfus i'w dweyd am yr amseroedd hynny.

Ar un pryd yr oedd Prydain yn ymladd am ei bywyd, adeg yr Armada yn erbyn Spaen; ac etallai mai colli a wnaethasai, onibai am gymorth yr Isellmyn dewr.

Yn 1650 cafodd yr Isellmyn gydnabod eu hanibyniaeth, a daethant yn brif wlad fasnachol y byd. Am gan mlynedd arall buont yn ymdrechu yn erbyn Prydain am fod yn brif wlad fasnachol y byd. Weithiau ymdrech gyfeillgar oedd, dro arall ymdrech elynol. Gorfododd Napoleon Holland i gymeryd ei ochr ef. Oherwydd hynny daeth ei threfedigaethau yn ys-bail i llynges Prydain. Y frwydr fawr rhwng llynges Prydain a llynges Holland oedd brwydr Camperdown. Wedi hon daeth Prydain yn frenhines y môr.

Ymysg y trefedigaethau ddaeth yn Brydeinig yr oedd Penrhyn Gobaith Da a'r wlad gampus o'i gwmpas. Yno, ar hyn o bryd, y mae brwydro chwerau rhwng y Prydeiniaid a'r Boeriaid, disgynddion y ddwy genedl ddewr fu'n cydymhladd, ddyddiau fu, dros ryddid a chrefydd.



UN O WRAGEDD HOLLAND.

Addfwyn esu.

Y Geiriau gan y PARCH. T. LEVI.

Trefn. gan L. J. ROBERTS.

DOH Bb. *Yn dyner ac yn addfwyn.*

$\left\{ \begin{array}{l} m : r \quad \quad d : -s_1 \\ s_1 : s_1 \quad \quad s_1 : -r_1 \\ \text{Addfwyn Ie-su, 'r} \\ d : t_1 \quad \quad d : -t_1 \\ d_1 : r_1 \quad \quad m_1 : -r_1 \end{array} \right.$	$\left\{ \begin{array}{l} m_1, s_1 : d, m \quad \quad r : - \\ m_1 : s_1 \quad \quad s_1 : - \\ \text{Ceidwad mawr!} \\ d : d \quad \quad t_1 : - \\ d_1 : m_1, d_1 \quad \quad s_1 : - \end{array} \right.$	$\left\{ \begin{array}{l} f : m \quad \quad r : -l_1 \\ f_1, l_1 : l_1 \quad \quad l_1 : f_1, r_1 \\ \text{De'st o'r nef-oedd} \\ r : de \quad \quad r : -d \\ r_1 : m_1 \quad \quad f_1 : -fe_1 \end{array} \right.$	$\left\{ \begin{array}{l} s_1, d : t_1, r \quad \quad d : - \\ m_1, s_1 : s_1, f_1 \quad \quad m_1 : - \\ \text{wen i lawr;} \\ d, m : r, t_1 \quad \quad d : - \\ s_1 : s_1 \quad \quad d_1 : - \end{array} \right.$
---	--	---	---

$\left\{ \begin{array}{l} m : r \quad \quad d : -s_1 \\ s_1 : s_1 \quad \quad s_1 : -r_1 \\ \text{Derbyn fawl un} \\ d : t_1 \quad \quad d : -t_1 \\ d_1 : r_1 \quad \quad m_1 : -r_1 \end{array} \right.$	$\left\{ \begin{array}{l} m_1, s_1 : d, m \quad \quad r : - \\ m_1 : s_1 \quad \quad s_1 : - \\ \text{bach fel fi,} \\ d : d \quad \quad t_1 : - \\ d_1 : m_1, d_1 \quad \quad s_1 : - \end{array} \right.$	$\left\{ \begin{array}{l} f : m \quad \quad r : -l_1 \\ f_1, l_1 : l_1 \quad \quad l_1 : f_1, r_1 \\ \text{Am it' far - w} \\ r : de \quad \quad r : -d \\ r_1 : m_1 \quad \quad f_1 : -fe_1 \end{array} \right.$	$\left\{ \begin{array}{l} s_1, d : t_1, r \quad \quad d : - \\ m_1, s_1 : s_1, f_1 \quad \quad m_1 : - \\ \text{dros-om ni!} \\ d, m : r, t_1 \quad \quad d : - \\ s_1 : s_1 \quad \quad d_1 : - \end{array} \right.$
--	---	---	---

$\left\{ \begin{array}{l} m_1 : m_1 \quad \quad m_1 : -m_1 \\ m_1 : m_1 \quad \quad m_1 : -m_1 \\ \text{Addfwyn Ie - su!} \\ d : r \quad \quad d : -d \\ l_1 : t_1 \quad \quad d : -l_1 \end{array} \right.$	$\left\{ \begin{array}{l} m_1, l_1 : s_1, t_1 \quad \quad l_1 : - \\ m_1 : m_1 \quad \quad m_1 : - \\ \text{cof - io rwyf} \\ d : t_1, r \quad \quad d : - \\ m_1 : m_1 \quad \quad l_1 : - \end{array} \right.$	$\left\{ \begin{array}{l} r_1 : r_1 \quad \quad r_1 : -r_1 \\ r_1 : r_1 \quad \quad r_1 : -r_1 \\ \text{I Ti ddiodde' marwol glwyf,} \\ r : d \quad \quad t_1 : -s_1 \\ t_1 : l_1, d \quad \quad t_1 : - \end{array} \right.$	$\left\{ \begin{array}{l} r_1, s_1 : fe_1, l_1 \quad \quad s_1 : - \\ r_1 : r_1 \quad \quad r_1 : - \\ \text{at - at Ti.} \\ d, m : r, f \quad \quad m : - \\ s_1 : s_1 \quad \quad d_1 : - \end{array} \right.$
--	--	---	--

$\left\{ \begin{array}{l} m : r \quad \quad d : -s_1 \\ s_1 : s_1 \quad \quad s_1 : -r_1 \\ \text{Ac it ddweyd am} \\ d : t_1 \quad \quad d : -t_1 \\ d_1 : r_1 \quad \quad m_1 : -r_1 \end{array} \right.$	$\left\{ \begin{array}{l} m_1, s_1 : d, m \quad \quad r : - \\ m_1 : s_1 \quad \quad s_1 : - \\ \text{blant fel ni,} \\ d : d \quad \quad t_1 : - \\ d_1 : m_1, d_1 \quad \quad s_1 : - \end{array} \right.$	$\left\{ \begin{array}{l} f : m \quad \quad r : -l_1 \\ f_1, l_1 : l_1 \quad \quad l_1 : f_1, r_1 \\ \text{Y caent ddyfod} \\ r : de \quad \quad r : -d \\ r_1 : m_1 \quad \quad f_1 : -fe_1 \end{array} \right.$	$\left\{ \begin{array}{l} s_1, d : t_1, r \quad \quad d : - \\ m_1, s_1 : s_1 \quad \quad s_1 : - \\ \text{at - at Ti.} \\ d, m : r, f \quad \quad m : - \\ s_1 : s_1 \quad \quad d_1 : - \end{array} \right.$
---	--	---	--

arafer.

$\left\{ \begin{array}{l} l_1 \quad \quad s_1, d : t_1, r \quad \quad d : -l_1 \\ f_1 \quad \quad m_1, s_1 : s_1 \quad \quad s_1 : -f_1 \\ d \quad \quad d, m : r, f \quad \quad m : -d \\ f_1 \quad \quad s_1 : s_1 \quad \quad d_1 : -f_1 \end{array} \right.$	$\left\{ \begin{array}{l} s_1 : s_1 \quad \quad s_1 : - \\ m_1, s_1 : r_1, f_1 \quad \quad m_1 : - \\ \text{at - at Ti,} \\ d, m : t_1, r \quad \quad d : - \\ s_1 : s_2 \quad \quad d_1 : - \end{array} \right.$	$\left\ \begin{array}{l} 2 \text{ Addfwyn Iesu! gwel yn awr} \\ \text{Blentyn wrth Dy draed i lawr;} \\ \text{Er mor fychan ydwyf fi} \\ \text{Gâd im ddyfod atat Ti:} \\ \text{Gâd im lechu wrth Dy draed:} \\ \text{Golch fi, Iesu! yn dy waed:} \\ \text{Rho i blentyn bychan le,} \\ \text{Gyda Thi yn nheyrnas ne.} \end{array} \right.$
--	---	--

2. yn nheyrnas ne, yn nheyrnas ne.



PONT Y NANT.

PONT Y NANT.

CODWYD y bont hon dros yr afon Clywedog, ar y ffordd sydd yn arwain o Adwyr Clawdd i Rhosllanerchrugog, heibio i Gad Wgan a Bron y Wylfa, tua'r flwyddyn 1824 gan John Powell, Rhosdir, y Mwnglawdd. Y mae yr olygfa o gyloch y bont ac i gyfeiriad y Nant yn un o'r rhai mwyaf prydferth a rhamantus yng Nghymru. Ychydig lathenni i fyny yr afon oddiwrth y bont y mae ffynnon fach. Adnabyddaf wr ieuanc fu yn cerdded dros ddwy filltir o ffordd bob dydd i gyrchu dwfr y ffynnon hon, yn unol a chyingor y meddyg, at wella afiechyd oedd wedi cydio yn ei dad, a chlywais et

yn tystio lawer gwaith i rinwedd y dwr, oherwydd iddo wella ei dad. Ym Mehefin, 1874, cynhaliwyd Eisteddfod fawr yng Nghoed Poeth, a daeth llawer o'r Rhos i'r Eisteddfod i weld a chlywed Edith Wynne, Mynyddog, a Thanymarian. Wrth fynd gartref ar ol un o'r cyngherddau yn yr hwyr, eisteddodd dyn o'r enw Tunnah ar wal y bont hon, a syrthiodd wysg ei gefn i lawr i'r aton, dyfnder o 24 o droedfeddi, a chafwyd ef yno bore drannoeth yn farw. Parodd y ddamwain i lawer gredu fod ysbryd Tunnah yn hofran o gylch y bont o hyd, a thystia llawer iddynt ei weld mewn amryw ffurfiau yn y coed yn yr hwyr. Y mae llawer o bobl heddyw na fynnant er dim gerdded dros y bont wedi machlud haul.

Adwy'r Clawdd.

POWELL PARRY.

GOLCHP'R DU YN WYN.

MEWN bywgraffiad sydd newydd ymddangos o'r diweddar esgob-genhadwr duwiol, John Selwyn, yr hwn a dreuliodd faith flynyddoedd i efengylu i anwariaid duon Ynysoedd Môr y De, ceir yr hanesyn a ganlyn.

Yr oedd yn Norfolk Island fachgennyn a ddygasid yno i'r ysgol o un o'r ynysoedd cymdogaethol,—ynys hynod dywell a barbaraid, ac yntau, o ganlyniad, o natur lled ystyfnig a nwydwyllt. Un diwrnod, pan oedd Mr. Selwyn (cyn iddo gael ei gysegru yn esgob) yn ymlw âg ef ynghylch rhyw ddrwg a wnaethai, cynheuodd tymer ffyrnig y bachgen yn fflam, a rhoddod ddyrnod drom i'w athraw yn ei wyneb. Yr oedd y fath weithred ysgeler yn beth na welwyd ei chyffelyb yn holl hanes y genhadaeth honno o'r blaen.

Dan ymddyferwad ei deimladau briwedig aeth Mr. Selwyn yn fud, a chan droi ymaith, aeth allan o'r ystafell. Cospwyd y bachgen am ei drosedd, ond gan mai parhau yn anhydryn yr oedd, danfonwyd ef yn ol i'w gartref ynysig heb ei fedyddio, ac yno ymchwelodd yn fuan i'w anwareidd-dra cysefin.

Flynyddoedd lawer ar ol hyn anfonwyd am y cenhadwr Mr. Bice i ddod ar frys at wely gŵr claf. Pwy ydoedd y gŵr claf ond y bachgennyn uchod, ac erfyniai yn daer gael ei fedyddio. Pan ofynnwyd iddo dan ba enw, (oblegid yr arfer yno ydoedd cymeryd enw newydd wedi geni y *dyn newydd*), atebodd yntau,—

“Galwch fi yn John Selwyn, oblegid mai efe a ddysgodd i mi y fath un yw Iesu Grist,—ie, efe, ar y diwrnod y rhoddais iddo y ddyrnod yn ei wyneb, ac y gwelais ei waed yn rhuddio ei ruddiau, ac nad ynganodd wrthyf fyth sill am hynny ond geiriau o gariad.”

Bedyddiodd Mr. Bice ef yn y fan, ac nid hir y bu cyn i'w ysbryd hedfan i'r Wlad Wen.

H. BRYTHON HUGHES.

HUW LLWYD O GYNFAL A'R YSBRYD.

GAN WATCYN WYN.

I.

A GLYWSOCH chi hanes yr ysbryd
Fu'n ceisio dychryn Huw,
Yr hen bregethwr doniol
Oedd gynt yng Nghynfal yn byw?

II.

"Roedd Huw yn mynnu myned
I'w bulpud yn y graig,
Dan gysgod y mynydd yn y nos
Yn groes i ewyllys ei wraig.

III.

"Roedd Huw yn mynd i'w bulpud,
A thros ei bregeth dlos,
Nes gwneyd i greigiau Meirion
I ganu yn y nos.

IV.

A'r wraig yn penderfynu
I'i gadw yn y tŷ,
A threfnodd i anfon ysbryd gwyn
I'w ddychryn ryw noson ddu.

V.

Ryw nos, pan nad oedd lleuad
Na seren yn y nen,
Anfonodd ei brawd i bulpud Huw
Wedi ei wisgo mewn mantell wen.

VI.

A bu fel gwraig yn ymbil
Ar Huw beidio mynd o'r tŷ,
Rhag ofn i'r ysbryd drwg ei ddal
Ar ganol nos mor ddu.

VII.

"Ond allan tua'i bulpud
Fel arfer cerddodd Huw,
Heb gredu dim fod ysbryd drwg
Wnai gyffwrdd â phroffwyd Duw.

VIII.

Wrth nesu at y fangre
Fe welai rywbeth gwyn
Yn sefyll yn y pulpud,
A safodd yntau'n syn.

IX.

Dywedodd wrth yr ysbryd,—
"Os ysbryd *da* wyt ti,
Ni raid i mi dy ofni ddim
Waeth gwas i Dduw wyf fi."

X.

"Neu, gwrando eto, gyfaill,
Os ysbryd *drwg* wyt ti,
Ni raid i mi ddim ofni dim,—
Mae'th chwaer yn wraig i mi."

XI.

Cychwynnai'r ysbryd ymaith
Mewn dychryn gyda hyn,
A Huw yn gwaeddi gyda hwyl,—
"Hai'r *du* ar ol y *gwyn*!"

XII.

A rhedai'r gŵr â'r fantell,
Heb edrych yn ei ol,
Gan gredu fod y diafol
Nawr wedi dod i'w 'nol.

XIII.

Fe gafodd Huw byth gadw
Ei bulpud wedi hyn,
Nid aflonyddwyd ar y fan
Gan ysbryd du na gwyn.

XIV.

Mae Cymru wedi ei chlirio
O'r holl ysbrydion 'nawr;
Mae un o hyd yn codi
I roi y llall i lawr.

GAUAF AR LAN MOR Y CANOLDIR.

II. MANYLRWYDD Y TOLLDY. CI MAWR.

“**M**AE Doris a May yn gweyd na 'na nhw ddim cysgu eto os ewch chi ym mla'n a'r stori. 'Nawr meindiwch chi," meddai Gwladys, gan siglo ei phen ar y ddwy chwaer fach oedd wedi peri i mi roi terfyn ar yr adroddiad o'n hanes y tro o'r blaen.

“Wel beth mae auntie yn peidio'n cadw ni ar ddihun ynte?" atebai y ddwy gyda'u gilydd, gan roi y bai i gyd ar yr adroddwr, a chlirio y gwrandawyr yn llwyr. Gwnaeth hyn i mi benderfynu y gwnawn fy ngoreu i gadw y plant allan o wlad Nod y tro hwn, a dechreuais drwy ofyn cwestiwn,—

“'Nawr, ble yr oe'n i, Gwladys?"

“'Roedd dwy foneddiges wedi dod i mewn i'r tren oedd yn siarad Seisneg fel Cymry," atebai Gwladys.

“Wel, 'roedd y ddwy yn gadael y tren eto yn Mentone, ac yn cael yno y croesaw mwyaf Cymreig a welsoch chi erioed,—dyn wedi gwisgo fel celfyddwr, ei wraig, a geneth fach yn eu cyfarfod. Bu ein llygaid ar y teulu yma am gymaint o amser fel yr oeddem wedi anghofio ein bod wedi cyrraedd lle mor enwog drwy hanes. Y peth cyntaf ddywedodd auntie Marion oedd mai yma y bu Mr. Spurgeon yn treulio cymaint o'i amser. I gapel Spurgeon yr oedd auntie yn arfer mynd pan yr oedd yn yr ysgol, a dyna pam yr oedd yn teimlo cymaint o ddyddordeb yn y ffaith fod hwn yn hoffle ganddo, ac mai oddiyma yr ehedodd ei ysbryd i'r nef. Mae'n anhawdd i chi feddwl am le mwy nefolaidd na Mentone. Oni bai fod pethau'r byd yn dod i mewn yma gallasech dybio eich bod wedi cyrraedd gwlad well. Mae'r Bay of Peace yn edrych, ar yr olwg gyntaf gawsom arno, fel pe na bai yn bosibl rhoi gwell enw arno,—yr awyr yn agos mor lân a'r môr, y tai yn wyn a disglaer, y mynyddau tu cefn i'r tai yn codi yn syth i fyny fel pe baent yn dweyd,—'Nawr, mi godwn ni yn ddigon uchel i gadw Morris y gwynt rhag chwythu ond o le cynnes iawn ar y dre fach lonydd yma, ac mi wnawn ein goreu i ddenu pobl afiach y gwledydd oer a gwlyb i ddod i gysgodi tan ein hadenydd.' Maent yn 4,300 troedfedd o uchder, ac yn cadw gwynt y gogledd a'r gorllewin, beth bynnag, rhag gwneyd dim niwed i'r rhai fydd yn cerdded neu yn eistedd, yn *drivio* neu yn *cyclo* ar y Promenade du Midi ar lan Môr y Canoldir. Ond os dechreuaf gerdded neu *cyclo* ar y Promenade du Midi, hyd yn oed mewn dychymyg, fe fydd yn anhawdd iawn i chwi fy nghael oddi yno. Mae'r adgoffon am dano mor hyfryd fel y mae'n rhaid i mi ei adael ar unwaith neu beidio ei adael o gwbl.

"Yn y tren yr oeddwn, ynte, 'nawr yn agoshau at Vintimiglia, lle yr oedd cerbyd o'r hotel yn Bordighera yn ein cyfarfod, i ni gael peidio aros am y tren oedd yn mynd yno. Fe gyrhaeddodd Vintimiglia am bump o'r gloch. Gan mai plant bach ydych, ac heb drafeilu llawer, mi ddylwn ddweyd fod swyddogion y tolldy, wedi i ni groesi o un wlad i'r llall, yn mynnu agor ein *boxes* i gael gweld os oeddem wedi ceisio smwglo rhywbeth i mewn heb dalu y toll sydd yn ofynnol."

"Agor eich *boxes*!"

"Ie, neu yn hytrach un *box*. Taflent eu llygaid dros eich *luggage*, ac wedi gweld fod un a mwy o strapiau o'i gylch na'r lleill, penderfynent ar unwaith mai dyma yr un i'w chwilio. Un tro, fy *mox* i oedd bob amser yn cael ei agor, nes yr oedd wedi mynd yn *joke* yn fy erbyn,—'Nawr, Hannah, eich allwedd,' meddai pawb rhyw hanner munud cyn y byddai y swyddog yn rhoi ei law ar fy *mox* ac yn dweyd gydag awdurdod,—'Le clef, Mademoiselle.' Ond y tro hwn, auntie Marian oedd yn cael ei drwgdybio, agorent ei *box*, ac aent i'w waelodion i gael gweld beth oedd yno, a cheuent y caudad ar y pethau mewn cymaint o anibendod nes yr oedd yr olwg arno yn dwyn ar gof i mi fy *mox* fy hun pan y bydd tair lodes fach wyf yn nabod wedi bod yn edrych a oes dim tamaid bach o ribon, neu flodyn, neu rywbeth ynddo wnaiff y tro iddynt hwy i helpu gwisgo eu dolis."

Yn y fan yma mae Ifor a Jac yn dod i ofyn beth ddigwyddai i ni pe baem wedi rhoi rhywbeth y dylem dalu am dano yn ein *boxes*.

"Wel, dyma beth a ddigwyddodd i un boneddwr oedd wedi cyrraedd yr Eidal ychydig o'n blaen ni. 'Roedd wedi defnyddio y frawddeg arferol,—'Rien à déclarer,' 'dim i godi toll arno,'—ond feallai fod y swyddogion yn gweld ei fod, fel auntie Marian a finne, yn berson i'w ddrwgdybio. Beth bynnag am hyn, fe benderfynont wneyd ymchwiliad ar unwaith, a dyna lle yr oedd *box* o *vestas*,—*matches* bychain, ac am bob un o'r *matches* fe wnaethont iddo dalu ffiranc. Meddylwch, *box* o *fatches* yn mynd yn ddeg ceiniog y *fatchen*, dyna i chi brofedigaeth."

"Oedd gyda chi rywbeth yn eich *boxes* y byddech yn gortod talu am dano pe baent yn gwybod?"

"Ah! Wn i ddim a wna i ateb y fath gwestiwn. Beth pe bai rhyw hen Eidalriad yn dod, yn rhoi ei law ar fy ysgwydd ac yn gweyd,—'Signorina, fe wnaethoch gam â ni, dewch i roi gyfrif am eich ymddygiad.' Ond feallai y gallaf fentro sibrdw yng nghlust May fod un peth mor angenrheidiol i gysur boneddiges ag yw *tobacco* a *matches* i gysur boneddwr, wedi cael ei smwglo i mewn i bob *box*, ond dim ond cymaint ag oedd yn oddefol i ni ei gario."

"Ah! Ond mewn hotel yr oeddech yn aros. Pwy iws oedd i chi fynd ag e gyda chi?" gofynnai y plant.

"Wel, fel hyn yr oedd yn union. Mae'r Ffrancod a'r Eidaliaid yn gwneyd gwell coffi na neb a'i gwnaeth erioed, feallai, ond mae eu te mor sal ac mor ddrud fel y mae y Saeson a'r Cymry sydd mor hoff o hono yn ei smwglo, nid yn unig i mewn i'r wlad, ond i mewn i'r hotels hefyd, ac yn ei barotoi yn eu *private rooms*, ac weithiau yn cael amser hynod o ddifyr uwch ei ben. Ond yn awr, 'dewch i ni gael mynd yn y blaen i ben ein siwrnai. Wedi cael ein hunain yn rhydd o law y swyddogion cawsom ei bod yn hanner awr wedi chwech o'r gloch, ond cofiwch mai chwech, nid pump, oedd wrth amser yr Eidaliaid pan y cyrhaeddodd eu gwlad, a phump wrth amser y Saeson. Ar ol deall fod awr o wahaniaeth fel hyn rhwng amser yn Eidal a'n hamser ni, gwnaethom o'r flaith esgusawd oedd yn cuddio llawer o feiau, yn y bore yn enwedig, pan y byddem yn dod i lawr yn ddiweddar. 'Edrychwch, Hannah, faint o'r gloch yw hi,' meddai Mrs. A——. 'Ah! dim ond wyth yw hi yn Llundain,' meddwn, a bron na theimlwn fy mod wedi gwneyd cam â mi fy hun drwy godi yn rhy fore.

"Ar ol brecwast y bore cyntaf wedi mynd allan i edrych oddeutu ychydig, un o'r pethau cyntaf a welais,—mor barod yw eich llygaid i weld yr hyn sydd yn eich boddio neu i'r gwrthwyneb,—oedd dau gi yn perthyn i'r Hotel, un yn fach, llon, a chyfeillgar o'r enw Fido, a'r llall yn fawr, hyll, a dychrynlyd yr olwg arno, o'r enw Adyor. Mi wyddoch fath o'n cŵn sydd arnaf. Wel, yr oeddwn yn meddwl fod yr olwg ar Adyor yn ddigon drwg, ond pan y clywais ei enw dieithr aeth fel cylllell drwy fy nghalon. Meddylwn pe bai yn Carlo, er engraifft, y gallai fod yn debyg i ryw hen Garlo caredig a diniwed yng Nghymru. Ond Adyor!

"Ond mae'n rhaid i fi weyd hanesyn bach wrthy ch am Adyor, i chi gael barnu dros och eich hunain fath gi oedd e. Ei hoff orweddle oedd o flaen y drws yn yr *hall*, a chyn y gallech fynd allan 'roedd yn rhaid i chi gamu drosto. Un diwrnod, pan yr oeddwn wedi tynnu fy ngwn yn dyn am danaf i gael bod yn sicr na byddwn yn cyffwrdd â'm gelyn, cefais, er fy syndod, ei fod wedi fy nghlywed, a'i fod yn fy nilyn i lawr i'r dre. Disgwylwn ei weled yn troi yn ol bob munud. Ond na, hyd yn oed pan awn i mewn i un siop ar ol y llall, safai Adyor wrth y drws fel ceidwad hyd nes y down allan. Ni wnaï hyn byth os byddem yn mynd i'r dre gyda'n gilydd; ond os gwelai un ohonom yn mynd, 'roedd yn barod bob amser i ddilyn fel gwyllyddydd. Fe wnaeth dro digrif iawn un bore pan yr oeddwn yn cerdded yn y Via Vittorio Emanuele. Cyfarfyddais â chyfeilles oedd yn byw yn yr un hotel. Wedi aros i siarad â hi am beth

amser, Adyor yn aros hefyd, trodd y foneddiges yn ol, a gofynnodd a gai hi gerdded gyda fi. Gwelodd Adyor fod gennyf gwmni, ac aeth adref yn y fan fel pe bai yn dweyd,—'Nawr, 'does dim iws i fi ffwdanu yn eich cylch.' Y gwir yw, 'roedd yn hen gi mor *cute* ac mor garedig nes yr oeddwn yn ofni yn fy nghalon ei fod yn gwybod fel yr oeddwn wedi ei ddrwgdybio. Ond dyna ddigon am y ci ynte, mae'n bryd i fi weyd rhywbeth am y lle."

—◆◆◆—

WILLIE JOHN JONES, LLWYDCOED, ABERDAR.

Daeth Mai a Gwanwyn mwyn i lonni'r byd,
A dygodd haf y nef i Willie yr un pryd.

MAB i Dafydd a Catherine Jones, Llwydcoed, Aberdar, ydoedd Willie John Jones. Ganwyd ef ar y 6ed o Fawrth, 1885, a bu farw ar y 27ain o Fai, 1890, yn bedair ar ddeg oed. Ganwyd ef



WILLIE JOHN JONES.

yn y gauaf, bu farw yn y gwanwyn a dechreu haf. Gauaf fu ei fywyd byr; aeth i wanwyn a haf pan fu farw. Yn ei hanes ef "gwell oedd dydd marwolaeth na dydd genedig-aeth." Ni bu erioed yn gryf, a phrofodd hynny yn antafais fawr iddo. Aml yr oedd Willie yn y cornel yn lle yn yr ysgol, ond yn wahanol i lawer bachgen iach, byddai wrthi yn ddiwyd yn dysgu rhywbeth yno. Gwnaeth fwy o waith nag ambell un iach a chryf, a chasglodd lawer o wybodaeth. Yr oedd ynddo lawer o dalent, a hoffai ddarllen a dysgu. Darlennai gyda chysondeb; a phe yn iach, buasai yn un o aelodau mwyaf ffyddlaw'n Urdd y Delyn. Dysgai yn rhwydd, ac enillodd dyst-

ysgrifau a gwobrwyon. Ef oedd yr unig un o'i ddosbarth yn Ysgol Sul Moriah ddysgodd y Maes Llafur am y flwyddyn ar ei gôf. Dymunai weled ei wob'r cyn marw, a chafodd hynny, ond yr oedd ei ysbryd wedi mynd at Iesu cyn i'r dystysgrif ddod i law. Trysorodd lawer o'r Beibl yn ei gôf, a gadawodd hynny ddylanwad da ar ei holl fywyd.

Meddai ar gymeriad hynod a rhagorol,—cymeriad dynnodd sylw

eglwys ac ardal. Er yn wan, ac yn aml mewn poen, yr oedd bob amser yn serchog, a'i lygaid mawrion gloewon yn pelydru cariad a-gonestrwydd. Yr oedd ei galon mor llawn o obaith a boreu ym Mehefin, a theimlem iasau o gywilydd wrth gofio mor anobeithiol a phruddglwyfus oeddym ni y rhai iach. Bu ambell hanner awr o'i gwmi i ni fel hanner awr ar y mynydd ddiwrnod o haf hirfelyn.

A'r hyn wnelai ei gymeriad yn un mor anwyl oedd ei grefydd dda, ymarterol. Yr oedd Willie yn fachgen duwiol, a byth ar ol ei weled a'i glywed ef, gallwn yn hawdd gredu y gall plant fod yn dduwiol. Yr oedd ei brofiad yn aeddfed, ac yn eiddo ef ei hun. Nid profiad hen ddyn oedd ganddo, ond profiad bachgen pedair ar ddeg oed. Soniai am Iesu Grist fel y gallai bachgen duwiol, a neb arall, son am dano. Bydd rhai yn son am Iesu sy'n peri i ni orfod credu mai rhagrithio y maent. Y mae eu siarad yn anaturiol. Soniai Willie am dano nes peri i mi hoffi y son, a charu yr Iesu yn fwy. Hoffai y capel, a phob peth ynglŷn âg ef. Yr oedd yn hoff iawn o ganu, a meddyliodd lawer am gael bod yn y Gymanfa ganu, ond aeth i Gymanfa well y noson cynt. Canwyd emyn i'w goffadwriaeth yng nghyfarfod y plant, a chafwyd blas mawr ar y canu. Fe hunodd Willie yn yr Iesu. Bu yn ei garu ar hyd ei oes. Ei air olaf i mi oedd,—“Dywedwch wrth blant y capel am fod yn blant da.” Gorffwysa yn dawel, blentyn hoff. Y mae ein hiraeth yn fawr ar dy ol.

PAHAM MAE FY ARDAL YN HYNOD.

I. PORTHMADOG.

YR hyn sydd yn gwneyd Porthmadog yn hynod ydyw ei bod wedi ei hachub o'r môr, trwy wneyd gwarchglawdd yn erbyn y tonnau. Gosododd yr anturiaethwr Madog iaith mewn llythyrennau breision ar ymylau y clawdd i ddywedyd wrth y môr,—“Hyd yma y deui.”

Er mwyn cael golwg iawn ar ryfeddodau yr ardal, byddai yn well i chwi ddod gyda mi i ben Moel y Gest, sydd yn ymgodi fel cawr anferth rhyngom a'r gorllewin, ac yn lledu ei freichiau mawrion allan i herio y mell, y taranau, a'r corwyntoedd cryfion rhag ruthoro ar y dyffryn. Wedi dringo ei ochrau llethrog, yr olygfa gyntaf y disgynna ein llygad arni ydyw Môr y Werydd, a dacw Sarn Badrig yn estyn ei thrwyn hiraen allan i'r môr; am yr hon y dywedir mai olion clawdd ydyw, wedi ei wneuthur i gadw y môr rhag llifo dros Gantre'r Gwaelod, tiriogaeth Gwyddno Garan Hir, yr hon a foddwyd trwy esgeulusdra ceidwad y dorau, sef Seithenyn Feddw. Yr ochr arall i'r forgilfach brydferth y mae pentir Lleyn yn ymestyn allan i'w

chyfarfod. Yn nes atom eto dyna gastell Harlech, yn sefyll yn gadarn ar graig uchel a serth yn gwynebu y môr. Odditano y mae morfa eang a gwastad, yr hwn rywbryd a fu yn orchuddiedig gan ddwfr. Odditanom eto y mae'r Morfa Bychan, a dacw'r Garreg Wen, ffermdy bychan ar lan y môr, lle ganwyd Dafydd y Garreg Wen, awdwr yr alaw antarfod hono,—“Codiad yr Ehedydd.”

Yn awr, trown ein ceinau ar y môr, ac O, y fath gyfnewidiad sydd yn yr olygfa. O'n blaen y mae rhes ysblenydd o fynyddau cribog, yn ymddyrchafu yn raddol. Ar yr ochr ddwyreiniol inni saif y Cnicht, yr Arddu, a'r Moelwyn, yn codi megis ar flaenau eu traed, ac yn edrych dros ysgwyddau eu gilydd ar yr olygfa dlws sydd ar y môr. Mae yr olygfa nesaf yn ein gwahodd i edrych ar y dyffryn hardd sydd yn ymledu ger ein bron. Cyrhaedda o Wern Pen y Morfa hyd Aberglaslyn, yn agos i Nanmor, lle bu y beirdd Rhys Goch Eryri a Dafydd Nanmor yn byw. A dacw yr afon Glaslyn eto yn llithro yn araf tua'r môr, gan ymdroi ac ymddolennu ar y gwas-tadedd, ac fel pe yn cymeryd ail a thrydedd olwg ar brydferthwch hen fangre ei tharddiad ym mryniau yr Eryri. Yn nes atom eto dyna'r morglawdd cadarn, yn cyrraedd o Ynys Towyn, yn ochr sir Gaernarfon, i Drwyn y Penrhyn, ym Meirion. Cyn gwneyd y morglawdd hwn, byddai y llanw yn dyfod i fyny yn agos i Bont Aberglaslyn, a byddai llestri bychain a chychod yn dod i fyny arno.

Wrth droed y Foel eto dyna dref prydferth Porthmadog. Nis gall y dref hon ymfrostio ym mawredd ei hynafiaeth fel ei chymydogion, Harlech a Chricieth, oblegid nid yw wedi cyfodi ond yn ystod y ganrif bresennol. Ond lle hynod ydyw am tasnach llechi. Yma y cludir holl gynnyrch chwarelau Ffestiniog, i'w llwytho yn y llongau a'u hanfon i bob cwr o'r byd. Cynhaliwyd aml i Eisteddfod rwyg-fawr yma hefyd, ac yma y ganwyd Ioan Madog ac amryw enwogion ereill.

Yng nghysgod y graig yr ochr draw inni y mae Tremadog, hen dref a fu yn enwog am ei ffeiriau a'i marchnadoedd. I'r gogledd inni eto dyna hen bentref gwledig Pen y Morfa; y mae llawer o enwogion wedi eu claddu yn y fynwent yna. Dywed traddodiad mai yn Wern Pen y Morfa yr adeiladodd Madog ei longau, i hwylio i'r môr mawr dieithr, tua'r flwyddyn 1170. Ar yr ochr orllewinol i'r Foel y mae Bron y Foel, lle bu Syr Hywel y Fwyall yn byw, yr hwn a urddwyd am ei wroldeb ym mrwydr Poitiers, pryd y dywedir ddo gymeryd brenin Ffrainc yn garcharor, drwy dorri pen ei gefy â fwyall.

Yn awr, rhaid disgyn o ben Moel y Gest, cyn i'r nos dasfu ei mhantell dywyll dros wyneuo anian dlos.

J. R. ROBERTS.

SYCHED Y MILWR.

UN o'r rhuthrgerchoedd mwyaf arwrol yn hanes rhyfel oedd rhuthr y brigadau Ysgotaidd yn erbyn gwersyll y Boeriaid ar Afon Modder yn niwedd y flwyddyn. Daethant i wyneb cawodydd o fwledi, oddiar ynnau yr anelwyr goreu yn y byd, a'r rhai hynny yr ochr arall i'r afon, mewn tyllau yn y ddaear. Ymysg yr Ysgotiaid yr oedd gŵr ieuanc o'r enw Harry Davies, ac anfonodd y llythyr canlynol at ei dad a'i fam i ddweyd ei hanes.

"Y mae'n debyg eich bod wedi darllen yn y papurau am ein brwydrau,—y gyntaf yn Belmont, lle y gorfod i ni gymeryd y bryniau â'r bidog, wedi ymladd am chwe awr; yr ail yn Jacobsdal, lle bu chwarae chwerw am ychydig; a'r drydedd yma ger Afon Modder, lle'r oedd rhif y gelyn yn 11,000, gyda'r afon rhyngom, a lle'r oeddylt wedi adeiladu amddiffynfeydd a thorri ffosydd i ymguddio ynddynt. Nid oeddym yn meddwl fod ymladd o'n blaenau, gan ein bod yn tybied fod y gelyn wedi gadael y lle. Aethom ymlaen tua phum cant o lathenni; yna gollyngodd y gelyn ei dân arnom. Yr oedd gwn Maxim yn union o'm blaen i; a syrthiodd tân-belen ar wddf y swyddog edrychai ar ei ol. Yr oedd yn beth ofnadwy gweled fy nghymdeithion yn gorwedd o'm cwmpas, a chlywed eu gruddfannau, a gweld eu gwaed yn llifo,—rhai'n marw o gollu gwaed, ereill yn erfyn am gael mynd o'u poenau. Pan welsom fod gynnu'r gelyn mor agos atom, a'u bwledi'n chwibannu o gwmpas ein pennau, gwaeddwyd arnom orwedd yn y glaswellt hir, a hynny a'n hachubodd. Buom yn ymladd am ddeg awr ar hugain, yr oeddym heb twyd ers dau ddiwrnod, ac yr oeddym mor wan a chathod bach. Yn y nos yr oedd ein dannedd yn curu ar eu gilydd oherwydd yr oerfel, ac anfonwyd *rum* i ni. Cefais i fy nogn i, a rhoddais ef wrth fy ngwefusau. Yr oedd arnaf syched angerddol,—ond ni chyffyrddais âg ef. Meddyliais am yr hyn wyf yn broffesu fod,—yn llwyrwmrthodwr am byth ac yn Demlydd Da. Setlodd hynny'r cwestiwn."

Ambell lythyr dinod fel hyn yw'r esboniad goreu ar y dewrder dihafal sydd wedi rhoddi i'r fyddin Brydeinig enw mor uchel ymysg byddinoedd y byd.

 ADDOLDAI.

YR wyf yn meddwl rhoddi i chwi ddarlun o ryw addoldy bob mis. Yn y rhifyn diweddaf yr oedd darlun o eglwys newydd Llanbedr Pont Stephan. Dyma ddarlun o un o eglwysi gwyfach Ffrainc, o'm llyfr bychan "Er Mwyn Iesu."



EGLWYS RHEIMS, FRAINC.

O BOB MAN.

YR oedd gŵr ieuanc yn y tren yn ddiweddar yn ymosod ar y Beibl. "Pwy reswm," meddai, "sydd dros gredu y medrai bachgen mor ieuanc a Dafydd dafu carreg i suddo i ben cawr?" "Peth digon hawdd oedd," ebe Crynwr tawel sisteddai mewn cong, "os oedd ei ben mor feddal a dy ben di."

.

"Y MAE John ni yn gweithio yn Nerpwl," ebe mam yn sir Fon, "ac y mae pum cant o weithwyr dano." Trwsio to barracks milwyr yr oedd John.

.

FEL y bu er bore ein hanes, y mae cenedloedd yn dal i ddylifo o'r gogledd a'r dwyrain i'r gorllewin a'r de. Dyna drefn natur i gadw egni a nerth corfforol dynol ryw,—adgyfnerthu hil feddal a diog y gwledydd cynnes a phobl wedi eu caledu yn hinsawdd oer y gogledd, lle mae gwaith caled yn angenrheidiol rhag newynu. Y fwyddyn ddiweddar daeth dros gan mil o'r Cyfandir i borthladdoedd Prydain.

.

DAETH yr hen Breis y Rhiwlas heibio i'r Pentre, cartref y pregethwr hynod Dafydd Rolant, unwaith. Cafodd bryd da o fwyd, a dywedir mai un o'r bwytywyr goreu oedd. "Pan bydd Sasiwn yn y Bala, chi dwad i Rhiwlas i ginio," meddai wrth Dafydd Rolant. Daeth dydd y Sasiwn, ac aeth Dafydd Rolant i'r Rhiwlas. Cafodd ginio mewn ystafell ar ei ben ei hun. Nid oedd yr hen Breis wedi smocio yn y Pentre; ond, ar ol cinio, dechreuodd Dafydd Rolant ysmocio yn y Rhiwlas. Daeth gwas ato, ac meddai,—

"Mae mistar yn gofyn beth mae tybaco da."

"Hy! hy! 'ngwas i, dywed wrtho nad ydi o da i ddim ond i'w losgi, am wn i."

.

YR oedd y diweddar Barch. John Williams, Llandrillo, pan yn fyfyrwr yn y Bala, yn gyfaill mawr â Dr. Anwyl, o'r hen dref honno. Yr oedd Dr. Anwyl wedi bod yn yfed gyda rhyw gyfeillion ofer yn Llanfor, ac wrth ddod yn ol cyfarfyddodd â John Williams ar y ffordd.

"Pe bai'r diafol yn dod i'r fan yma yrwan," meddai gyda chwerthiniad calonog, "prun o honom gymerai?"

"O fi, yn siwr," ebai'r myfyriwr yn fwynaid, "yr ydych chi ganddo'n barod."

☞ Cytfeiriad y golgydd yw,—OWEN M. EDWARDS, 8, CLARENDON VILLAS, OXFORD.

ARGRAFFWYD A CHYTHORDDWYD GAN HUGHES AND SON, 56, ROYAL SQUARE, WREKHAM

AT Y PLANT.

Y MAE y rhifyn hwn yn eich cyrraedd ychydig cyn, neu ar, ddygwyl Dewi. Hen sant ardderchog yw nawdd sant Cymru, ac y mae'r Cymry'n dod yn fwy teilwng o hono o hyd. Nid sant rhyfel ac anrhaith yw, ond sant efengyl ac



ewylls da at Dduw a dyn. Cofed y plant mai efenglydd oedd nawdd sant Cymru, ei fod yn credu mewn gweddi, ac yn hoff o adar. Dywedir fod aderyn wedi codi ei bregeth o'r dŵr unwaith, a dod a hi iddo yn ei big. Ar ei ddydd gwyl ef cofwn mai Cymry dym, ac y disgwyllir i ni garu a gwasanaethu ein gwlad fel y gwnaeth ein tadau arwrol o'n blaenau.

Sylwer fod darlun o blant yn breuddwydio gyda phob un o'r Ystraeon Hud. Y mae dau angei, a hen wr bach y Tylwyth Teg, yn gwahoddi y plant i fro dychymyg. Mewn breuddwyd, cofier, y maent. Nid wyf yn dweyd fod y straeon yn wir: ond adroddwyd hwy wrth genhedlaethau o blant. Danghosant ddychymyg plant pob gwlad hefyd. Yn yr ystori gyntaf, gwelir y dylai bachgen ymdrechu er mwyn ei fam. Yn yr ail, danghosir y dylai pob plentyn fod yn garedig wrth greaduriaid direswm. Yn yr ystori sydd yn y

rhifyn hwn, danghosir mai drwg yw eiddgeddu wrth ereill; os bydd gan rywun rywbeth nad oes gennym ni, llawenhawn, a pheidiwn eiddgeddu. Daw ystraeon hud ereill rhyfeddach, o wledydd pellach, ond ca'r plant dynnu'r gwersi eu hunain oddiwrth bob un. Ail adrodd yr ystraeon yw fy ngwaith i.

Y tro hwn rhoddir un o ystraeon Poland,—un o wledydd anedwyddaf y ddaear. Y mae wedi ei rhannu rhwng tri gorthrymwr Ewrob,—Rwsia, yr Almaen, ac Awstria. Gyda chwymp Kosciuszko yn 1794, dros gan mlynedd yn ol, daeth diwedd i ryddid Poland. Yr hanes Poland goreu yn Gymraeg yw erthygl y Parch. G. Hartwell Jones yn y *Llenor*, llyfr V., ar Kosciuszko. Gellir cael y llyfr, pris swlt, o swyddfa CYMRU'R PLANT.

Cefais amryw lythrau yn ceisio fy narbwyllo mai'r flwyddyn hon yw blwyddyn gyntaf canrif newydd. Atebaf hwynt y mis nesaf. Y maent yn bur ddoniol, ond oll heb gael pen iawn y llynyn.

Anfoner pob gohebiaeth ynghylch prynnu blociau, ac ynghylch archebion, i'r cyhoeddwr; ac nid i'r golygydd. Arall yw ei waith ef.



YN ARFON.

WALTERS



CYMRU'R PLANT.

CYF. IX.

MAWRTH, 1900.

RHIF 99.

ADFYD YR ADAR.

“ Now the snow hides the ground, little birds leave the wood,
And fly to the cottage to beg for their food.”

JOHN CLARE.

ENHUDDID Bryniau lâl mewn cwrlid o eira claerwyn. Byd *du* yr adar oedd y *gwyn*-fyd hwnnw. Cloisai y rhew eu bwyd-gelloedd arferol. Prysurent o'u cynefin at dai annedd i gasglu y briwfwyd gweddill a daflesid allan o bryd i bryd; neu, ynte, a estynnid iddynt, o dro i dro, gan y preswylwyr caredig.

Heidient at *dŷ*'r ysgol. 'Roedd yno arlwy o wahanol fwydydd wedi ei ddarparu iddynt. Safwn yn y ffenestr pan ddaeth yr adar yma. Rhuthrai'r deryn du eurbig o'r wig gerllaw; safai am encyd ar fur eiryog yr ardd, fel ddelw o eboni ar lawr o fynor, i ymwrando. Clustfeiniau. Yna, a'r lle yn dawl-ddigynnwrf, rhoddai herc, a thos; a hedai i'r llawr yn, sydyn; cymerai grystyn yn ei big; a dygai ef ymaith, gan yswitian, i le diogel i'w ysu. Disgynnai Tom Tit, yn ei wisg lās a'i gap du, ar bren eirin yng nghanol yr

ardd; hedfanai i'r goeden *lilac* wrth ochr y lliidiart; gwibhedai i myyl y tŷ; a chipiai asgwrn bychan yn ei gyffin i'w bigo, wrth ei hamdden, ar gangen ddraenen yn y fan draw. Heliar y ji-binc asgellarian, a gwas y gôg mewn gwisg lwyd, damaid yma, a thamaid acw; a deuai robin mewn gwasgod goch i'r trothwy, ac i'r tŷ i ddifa'r briwsion a'r mânfwyd syrthiasai yno. Hedent ymaith pan welent y ci neu y gath, neu pan glywent swm traed yn dynesu, a deuent yn ol drachefn 'rol i'r perygl fynd heibio.

Es allan i'r oertel. Cododd yr adar, a disgynasant,—rhai ar y mur ar un ochr i mi, ac ereill ar y llwyni yr ochr arall. Rhedodd y ci a'm dilynai ar ol deryn du, gan dybio'n ddiau, mai brân ydoedd, canys mae Frank yn ddig iawn wrth y brain crawclyd. Cerddais drwy yr eira un-nos disathr. Gwichiai dan fy nhraed ac ocheneidiai dan fy ngherddediad. Rhyfeddwn at ei wynder, a chrywnn gan ei oerni. Synnwn fod sylwedd mor odiaeth o brydferth cyn oered a hynny. Wrth ddrws yr ysgoldy gwelais frongoch wedi rhewi, ac yn gorwedd yn gelain ar y ddaear wen, oer. Cymerais ef yn fy llaw a brwsiais y pluf arian oddiar ei gôb lyfndeg. "O! edn," meddwn, "eheda." Na. Pallasai ei galon fechan a churo; safasai ei waed yn ei wythenau; ac yr oedd ei edyn a'i cariai gynt fel saeth wedi hen sythu wrth ei ddwy ochr. 'Roedd y llygaid, befrient unwaith fel ddwy ellygen, wedi cau a sefyll. "O! aderyn," meddwn drachefn, "cana i mi." Na, eto. Ymogwyddai ei ben ar ei fron, a gorweddai ei big ddyhidlasai lawer melusgan, yn ddiymadferth ar ei fynwes ruddgoch, ddianadl. Yn ystod yr hâf blaenorol a'r hydref oedd newydd farw, telorai yn iach-nwyfus ar frigau deiliog y wig; ac "ag eofndra ysgafndroed" chwareuai "rhwng cangau'r coed." Methodd ddal gerwinder a rhuthr yr ystorm ddisytyd. Oerfin y fain awel gynaraf a'i lladdodd, ac ôd cyntaf y tymor oedd yn amdo gwyn, oer, am dano. Druan o'r deryn!

Dyma i'r plant ystori fechan. Un diwrnod yn ysbaid y dymhestl honno aeth brongoch i mewn i gegin allan Brynmowion, amaethdy nepell o'r ysgol. 'Roedd golwg druanaidd a rhylllyd arno. Edrychai'n newynog, ac ar drengu. Cymerodd gŵr caredig y tŷ ef yn ei law, a daliodd ef o flaen y tŷ i'w gynhesu. 'Mhen ennyd ymadfywiodd y deryn, dan efaith y gwres. Ymystwyriai a phlyciai yn llaw garedig y gŵr am ei ryddid. "Rwy'n teimlo yn iawn yrwan," meddai. "Wnei di'n ngollwng i'n rhydd?" "Gwnaf," ebe'r cyfaill, a dygodd ef allan. Rhoes ef ar ben clawdd yn ymyl y tŷ. Arosodd y deryn yno am ychydig, ymysgwydodd, rhodd ei bluf yn eu lle, ymdwtiodd, agorodd ei big, canodd ddwywaith neu dair dros y lle, ac ehedodd ymaith. Cân o ddiolchgarwch ydoedd i'r gŵr tyner-galon fu'n garedig iddo yn ei gyfyngder. Blant,



ROBIN GOCH.

“Cân o ddiolchgarwch ydoedd.”

byddwch dyner o'r adar. Bwydwch hwy pan fo'r hin yn galed, a chanant i chwi. Na thorrwch eu nythod; na chymerwch eu hwyau a'u cywion ymaith, a charant hwythau chwi. Wyddoch chwi, mae cariad aderyn yn werth i'w ennill.

“ Let them enjoy their little day;
Their humble bliss receive;
Oh! do not lightly take away
The life thou canst not give.

Llanarmon yn Iâl.

R. MORGAN.

YMAFLYD CODWM.

BYDDAI ymaflyd codwm yn chwareu brenhinol unwaith. Ond yn awr nid yw mewn bri ond ymysg gweision ffermwyr. Unwaith yr oedd Peŵr Fawr, y Czar wnaeth allu aruthrol Rwsia y peth ydyw, yn gwledda yn y Neuadd Ymherodrol yn St.

Petersburg, y ddinas newydd oedd y Czar mawr wedi ei hadeiladu i fod yn brifddinas Rwsia. O amgylch yr ymherawdwr yr oedd llu o dywysogion a chadfridogion; a chydag ymylon y dorff ddisglaer, yn gwylio, yr oedd rheng o filwyr.

"A oes rhywun faidd ymafyd codwm â mi?" ebe Pedr Fawr. Aeth y tywysogion a'r pendefigion yn fud; ni feiddiai neb feddwl am daflu yr eneinio Gzar. Ond ymysg y milwyr yr oedd march-filwr ieuanc ffol. Cerddodd ymlaen, ac meddai,—

"Clyw, uniawngred Gzar, mi a dy fentraf di."

"O'r goreu," ebe'r Czar. "Mi a ymgodymaf â thi ar yr amod hwn. Os tafli fi, cei dy fywyd. Os tafla di, torrir dy ben. A ymgodymi di ar yr amod hwn?"

"Gwnaf, O Gzar mawr."

Ymaffasant yn eu gilydd, a thoc aeth y Czar mawr i lawr. Ond daliodd y milwr ef rhag syrthio i'r llawr.

Gofynnodd y Czar pa wob'r ddymunai, ac atebodd y bachgen ynyd,—*"Cael yfed yn ffri ymhob gwesty brenhinol."*

Medrai'r milwr ieuanc cryf daflu ymherawdwr Rwsia; ond, wrth geisio ymgodymu â'r ddiod feddwol, tarawodd ar un cryfach nag ef. Ac yn yr ymdrech honno, angeu oedd canlyniad colli'r frwydr.

BETH YW DY NÔD?

BETH yw dy nôd? Ai llawenhau
Dan heulwen ffug pleserau gau?
Wrth gasglu blodau mwyniant byd,
Cei weld fod drain i'w cael o hyd.

Beth yw dy nôd? Ai gwisgo bri
Yn goron hardd a hoffet ti?
Dring greigiau rhwystrau at dy nôd,—
Mae llu ar ben pinaclau clod.

Beth yw dy nôd? Rhydd gwaith
fwynhad,
Ond rhwd segurdd rydd sarhad;
Y gweithiwr ydyw asgwrn cefn
Y byd, a gweithio ydyw'r drefn.

Beth yw dy nôd, afradlon ffol?
Bryd doi i dy dad yn ol?
Mae'th le yn wag, tyrd gyda brys
O'r ffordd sy'n mynd i feddau'r blys.

Beth yw dy nôd? Ai gweithio'n mysg
Y cewri sy'n mwngloddiau dysg?
Ym mwrwydrau'r byd cei weled gwerth
Hen wregys dysg, a themllo'i nerth.

Beth yw dy nôd? Ai plannu drain,
A throï'n anialwch wledydd cain?
O na, gwna'r ddaear fel y ne,
A'th lwybrau'n flodau ym mhob lle.

Beth yw dy nôd? Ai rhoi dy fryd
Ar gasglu'n bentwr aur y byd?
Rho'th serch ar drysor uwch â gwell,
Mae golud weithiau'n ffoi ymhell.

Beth yw dy nôd. Ymdrecha'n iawn
I lenwi'r enw dyn yn llawn;
A'haith dy faner tra cei fyw,
Fo llo' cyd-ddyn,—gegoniant Duw.

Y Bala.

RICHARD AB HUGH.

BETH ENILLWYD MĒWN CANRIF.

III. LLYWODRAETH LEOL.

Y MAE rhyw fath o lywodraeth leol mewn bod ym Mhrydain erbyn cof, mwy nag yn yr un wlad arall. Ystyr llywodraeth leol yw—pobl yn cael rheoli eu materion eu hunain, yn lle eu gadael i swyddog anfonir gan y goron, swyddog nad yw'n gyffelyb iddynt hwy. Yn y Canol Oesoedd y barwniaid oedd yn rheoli materion lleol. Estynnodd y Tuduriaid y gallu i ddsbarth is,—dosbarth ynadon y dyddiau hyn. Hwyl fu'n rheoli materion lleol bron ar hyd y ganrif, ond eu bod, er ys tua 1824, yn gyfrifol i Fwrdd Llywodraeth Leol. Yn niwedd y ganrif hon estynwyd ef i'r werin.

Mae llawer iawn mwy o awdurdod a gallu ym meddiant y werin yn awr nag oedd erioed o'r blaen. Trwy egni a llafur gwladgarwyr a charedigion meibion llafur yr enillwyd hyn. Danghoswyd i Senedd ein gwlad y dylai y llafurwr o'r bwthyn gael hawl i drafod materion ei blwyf, yn gystal a'r yswain o'r plas. Erbyn hyn, mae'n bosibl i ddyn cyffredin, tlawd o ran cyfoeth materol, lanw safleoedd nad oedd yn agored iddo o'r blaen gan fod meddiannau yn gymhwysder angenrheidiol.

Un o'r deddfau yw Deddf Llywodraeth Leol, 1888, pan y daeth y Cynghorau Sir i fod. Trwy hon daeth llywodraeth siroedd Cymru a Lloegr, i raddau helaeth, i ddwyllaw aelodau y cynghorau etholedig hyn. Yn flaenorol, yr oedd y llywodraeth yn nwyllaw aelodau y *Quarter Sessions*, sef meistri tir a chyfoethogion y sir. Pan ddaeth hon i weithrediad gwelwyd y llafurwr o'r bwthyn yn ymgeisio yn erbyn yr yswain o'r plas am yr anrhydedd o gynrychioli y plwyf ar y Cyngor Sir, a'r llafurwr yn cario'r dydd. A phan ddaeth y dydd i'r Cyngor gwrdd, gwelwyd hen lywodraethwyr y wlad naill ai yn croesawu neu yn gwingo yn erbyn symbolau y rhai newydd, ac yn rhwydd neu afrwydd roddi cyfran o'r awenau i fyny.

Deddf arall oedd Deddf Llywodraeth Leol, 1894, pan ffurfiwyd y Cynghorau Plwyf a'r Cynghorau Dosbarth Gwledig. Yr unig gymhwysder i un yn byw yn y plwyf i fod yn aelod o'r Cynghorau hyn yw bod wedi cyrraedd un ar ugain oed, a gall merched fod yn aelodau. Trwy y ddeddf hon gall y Cyngor Plwyf godi treth tuag at gario allan welliantau yn y plwyf. Gallant agor darllenfeydd cyhoeddus, goleuo y pentrefydd, sicrhau cyflawnder o ddwfr glân i'r trigolion, gwella llwybrau cyhoeddus, ac atal cau llwybrau gan ddynion trachwantus, ynghyd â llawer o bethau ereill."

Tuag at edrych fod y deddfau hyn yn cael eu cario allan yn deg ac yn gywir, mae Bwrdd wedi ei benodi gan y Llywodraeth i'r amcan hwn. Gelwir ef Bwrdd Llywodraeth Leol (*Local Govern-*

ment Board). Ei breswylfod yw Whitehall, Llundain. Edrycha y Bwrdd fod swyddogion cymwys yn cael eu penodi gan y gwahanol gynghorau tuag at rod-di y deddfau hyn mewn grym. Rhaid cael sel ei gymeradwyaeth cyn y gellir rhoddi personau cyflogedig i lanw swyddi neillduol. Gofala hefyd na fydd y rhai hynny yn cael eu taflu o'u swyddi heb resymau digonol.

Mae arolygwyr dano yn dyfod ar hyd y wlad i edrych sut y bydd Byrddau y Gwarcheidwaid ac ereill yn gwneyd eu gwaith. Ar ddiwedd blwyddyn bydd y rhain yn gwneyd taflenni, yn y rhai y cyfartelir treuliau y gwahanol Undebau â'u gilydd. Danghosant ymha Undeb y mae mwyaf o dlodion, ac ymha un y rhoddir mwyaf o dreth i'r tlawd.

Y Bwrdd yma sydd yn rhoddi hawl i Gynghorau Trefol a Chyng-horau Dosbarth i godi arian ar lôg tuag at wneyd gwahanol welliantau. Rhydd ei ganiatad yn ewyllysgar os bydd yr achos yn deilwng; onide bydd yn bur gyndyn. Felly, fe welwn fod llawer o allu ac awdurdod ym meddiant Bwrdd Llywodraeth Leol. Ond teimlir ei fod yn defnyddio ei allu gydag amcanion teg a gonest bob amser. Yn unig cwynir fod ganddo ormod o waith, oherwydd eangiad mawr Llywodraeth Leol.

Ysbyty Ystwyth.

T. M. T.

BOB.

Y MAE'R plant yn cofio yr ystraeon dyddorol byrion fyddai Daniel Owen yn ysgrifennu i GYMRU'R PLANT ychydig amser yn ol. Yr wyf yn cofio ei lawenydd pan wedi gorffen ystori "Ci Hugh Burgess" i mi; yr oedd wedi dychmygu honno ei hun, meddai.

Y mae y gyfrol gyntaf o'i Waith newydd ei chyhoeddi, gyda chofiant gwerthfawr iawn. Un o'r cymeriadau mwyaf atyniadol yn *Rhys Lewis* yw Bob. Yr wyf yn cofio gofyn i Daniel Owen ryw dro,—“Pam yr oeddych yn gadael i Bob gael ei ladd mor gynnar yn y llyfr?” “Dim digon o baent oedd gennyf i fynd ymlaen gydag o,” oedd yr ateb.

Ond bu brawd iddo o'r enw Bob farw, gyda'i dad a brawd arall, pan oedd ef yn faban. Gorlifiwyd gwaith glo yr Argoed, ac yr oedd tad Daniel Owen a dau frawd bach gyda'r rhai foddwyd yng ngwaelod y pwll. Yr oedd gan Bob lais peraidd iawn. A phan oedd gyfyngaf a duaf ar y glowy'r yn eu carchar dan y ddaear, yn aros i'r dwfr didrugaredd ddod i'w boddi, cododd Bob ei lais hyfryd, ac unodd y glowy'r gydag ef, i ganu

“O Fryniau Caersalem ceir gweled.”



PLANT CYMRU. CXXV. RHAI O BLANT GWENT.

**BECHGYN YSGOL, Y BWRDD, BOLT STREET,
CASNEWYDD.**

DYMA i chwi ddarlun o fechgyn y safon uchaf wrth eu gwersi, yn un o Ysgolion Elfennol mwyaf Casnewydd-ar-Wysg. Y wers sydd mewn llaw yw tynnu map o Ddeheubarth Affrica. Yr oedd hyn yn nechreu yr helynt blin yn y Transvaal; cymer y bechgyn ddyddordeb rhyfeddol yn yr ymgyrch alaethus hon.

Plant Saeson yw y mwyafrif ohonynt, yn dwyn y fath enwau a Scadden, Nork, Cronk, a Pilgrim; y mae ereill ág enwau Cymreig, ond ni fedrant air o Gymraeg, na'u rhieni ychwaith. Ond y mae deg ohonynt yn Gymry glân gloew, yn medru siarad, darllen, ac ysgrifennu hen iaith y bryniau cystal llawn a phlant Llanuwchllyn a'r Bala neu Arfon fynyddig. Fe gynrychiolir tair sir yn arbennig yn y dosbarth, sef Gwlad yr Haf, Dyfnaint, a Chernyw. Y mae un o'r

bechgyn yn dwyn yr enw Pengelly, ac nid oes eisiau dweyd wrth fechgyn a genethod darlengar CYMRU'R PLANT mai swydd Cernyw oedd ei gartref cyntefig. Pwy ohonynt sydd heb glywed am yr hen chwaer Dolly Pentraeth, yr un olaf yng Nghernyw a fedrai ymgomio yn yr hen Gernywaeg,—chwaer iaith i'r Gymraeg?

Gwneir trigolion Casnewydd i fyny o ddyfodiaid o bob sir bron yn y Deyrnas Gyfunol, ond y mae'r Gwyddelod ieuainc yn ddieithriad yn cael eu haddysgu yn yr Ysgolion Pabyddol; y mae tair ysgol gan y Pabyddion yn y dref hon. Fel holl brif porthladdoedd ein gwlad, y mae yma dramoriaid wrth y cannoedd. O ba wlad, tybed, y daeth yr hogyn sydd yn dwyn yr enw Angelinetta, yn y darlun uchod,—yr ail fachgen yn y rhestr flaenaf, ochr llaw chwith i'r darlun? Beth fernwch chwi, ddarllenwyr ieuainc? Nid gwiw i chwi ddamcanu, y mae mor debyg i fachgen o Gymro. Wel, tramoriad bychan ydyw o wlad yr Ital heulog, gwlad Dante a Garibaldi; y mae yn medru yr iaith Seisnig bron cystal ag un o'i gyfoedion yn y dosbarth.

Y mae amryw o'r bechgyn uchod wedi ennill ysgoloriaethau a gynygir gan y Cyngor Trefol i'r bechgyn a'r genethod mewn cystadleuaeth yn y *School of Art and Science*, ac yn rhinwedd hyn, te'u darperir yn rhad gogyfer ag arholiadau "Adran Gwyddor a Chelf" South Kensington. Fe welir peth o'u gwaith yn y darluniau sydd ar y muriau.

Heblaw y testynau arferol sydd raid eu dysgu ym mhob Ysgol Elfennol, fel ag i ennill rhoddion y Llywodraeth, fe addysgir y safon uchod, ac hefyd y ddwy safon nesaf atynt, mewn Llawfer Pitman, Alsoddeg (*Algebra*), ac Elfennau Athroniaeth Naturiol (*Physics*) a *Chemistry*; ac yn y testynau hyn cymer y bechgyn ddyddordeb neillduol.

Cymro aiddgar a thwymgalon yw y prif-athraw, Mr. A. Morris; efe oedd Ysgrifennydd Cerddorol yr Eisteddfod Genedlaethol a gynhaliwyd yng Nghasnewydd yn 1897. Ei brif gynorthwyr yw Mr. Poole, brodor o Abertawe; saif yn y darlun yn y rhes olaf. Cymry hefyd yw y mwyatrif o'r athrawon cynorthwyol eraill yn yr ysgol fawr hon, sydd newydd ei helaethu i gynnwys pum cant o fechgyn.

CWMPAS Y MORWR.

DYWED y'Chineaid mai un o'u hymerawdwyr hwy, sef Hong Ti, ddarganfyddodd gwmpas y morwr. Mwy tebyg yw mai Flavio de Giovia, morwr o Amalfi, hen borthladd yn yr Eidal, a'i rhoddodd i'r byd. Duwinydd Seisnig, o'r enw William Barlow, a'i perffeithiodd, yn 1808. Nis gall neb gytrif faint o lwybrau ddanghosodd, faint o fywydau achubodd.

PRYDER AM DAD.

A FON fawr India yw'r Ganges. Addolir hi gan drigolion y wlad, a chredant y ceir goleuni ganddi ar bob amgylchiad mewn bywyd.

Ar ei glan, mewn bwthyn salw, flynyddoedd yn ol, fe drigai geneth hardd. Collasai ei mam, a denwyd ei thad i ymrestru yn filwr i ymladd â gelynyddion ei wlad. Ni allai y ferch, gan flinder dwys, wneyd fawr o ddim ond meddwl am yrfa ei rhiant dewr. Carasai yn fawr wybod rhywbeth yn ei gylch; ac wedi hir-ddisgwyl, o'r diwedd, penderfynodd ymofyn â'r afon Ganges. Dacw hi, gyda'i llusern fach yn ei llaw, ar noson dywell, yn dianc, yn ddistaw fel ewig, o'r bwthyn, a'i llygaid yn llawn o nwyfiant ieuencid. Dryllir ei sandalau gan y drain a'r meiri, a chilia bwystfilod rheibus yn synedig wrth weled y goleuni a chlywed y trwst. Neshoedd yr eneth at yr afon a gosododd y llusern i nofio arni, a chariwyd hi i lawr gyda'r lli. Gwelir pryder dyfnach ar wyneb y fach, a graddau o ofn yn dechreu dangos ei hun yn ei llygaid.

Cred fod ei thad yn fyw ac yn iach, ac y del adref ati ryw ddydd, os parha y llusern yn oleu tra y dywed hi ei gweddi hwyrol. Tyb weithiau fod y goleuni wedi myned allan, a chyffroir hi nes bron dyrsu ei gweddi. Camgymeriad ydoedd. Daw y llusern i'r golwg unwaith eto. Mae'r weddi drosodd, a chenfydd, wrth sylwi'n fanwl, y goleuni yn teithio yn hwylus i gyfeiriad y môr. Cyfyd i fyny wedi i'r llusern gilio o'r golwg, gan redeg tua'r bwthyn a gwaeddi,—“Mae 'nhad yn fyw!” Gwrendy y creigiau ar ei chri ac atebant yn ol,—“Mae 'nhad yn fyw.”

Gobeithio na siomwyd hi, ond i'w thad ddychwelyd yn iach a chydag anrhydedd mawr, canys ni feddai drysor mwy na'i eneth fach.

PHEBE.

(BU EI MHAM PARW AR EI GENEDIGAETH, DIWEDD 1899.)

A WELAIST ti y lli lon
 'R ol gwllith y nos ar ael y fron
 Yn gwenu'n iach?
 Ei chain brydferthwch sydd o hyd
 Yn addurn i rosynau'r byd,
 Ond milwaith tlysach na hwy i gyd
 Yw Phebe bach.

Fel cain rosynau teg y llawr,
 Mor hardd ei gwedd a phur ei sawr,—
 Yn tyfu'n iach
 Y bo y mebyn tlws ei wedd,
 A chaffed fyw mewn hwyl a hedd,
 A phell bo angau du a'r bedd
 I Phebe bach.

DAVID THOMAS (*Dewi Tudur*).

HEB EI ORFFEN.

[Adroddwyd yr ystori hon gan y Parch. Joseph Roberts, D.D., New York, yr hwn oedd yn adnabod yr hen borthmon yn dda.]

MEWN amaethdy yn un o gymoedd gwledig Cymru, preswyliai hen borthmon oedd yn darlennwr mawr, ond mae yn amlwg oddiwrth yr hanesyn a ganlyn mai ychydig a ddeallai ar yr hyn a ddarlennai.

Un hwyrnos gauafol darlennai y rhan honno o'r ysgrythyr sydd yn rhoddi hanes y greadigaeth, a syrthiodd ei lygaid ar yr adnod sydd yn rhoddi hanes creadigaeth dyn,—“A'r Arglwydd a luniasai ddyn o bridd y ddaear.” “Beth,” meddai wrtho ei hun, “llunio dyn o bridd y ddaear? Mi dreiaf fi.”

Drannoeth, cymerodd arfau pwrpasol gydag ef, ac aeth tua'r nant gerllaw, lle 'roedd clai lleidiog. Cymysgodd y clai yn dda, fel y gallai wneyd dyn o hono. Wedi ei ddwbio i fyny hyd ei wddf, ni allai yn ei fyw gael gan y pen sefyll yn union ar y corff. Gan ei fod wedi ei foldio yn dra helaeth er ei gael i fflur pen, yr oedd wedi meddalhau; ag felly yn gwyro i'r naill ochr neu y llall. Tybiodd pe buasai yn gadael iddo hyd drannoeth y gwnai sadio llawer, ac y gallai wneyd gwell pen wedi hyn.

Yn ystod y nos honno gwnaeth lifogydd mawrion, ac yr oedd pob nant a dwfr dros ei cheulannau. Cododd yr hen borthmon yn fore, ac at y nant ag ef. Ond er ei fawr siomedigaeth, nid oedd hanes am y dyn clai; a chredai yn ddigamsyniol ei fod wedi cymeryd y goes; ac nid oedd ond ffolineb ceisio ei argyhoeddi mai y llifeiriant a'i hysgubodd ymaith.

Beth amser wedi hyn yr oedd ffair mewn tref gyfagos; ac yn ol ei arfer yr oedd yr hen borthmon, yn rhinwedd ei alwedigaeth, yno, yn ei glos pen glin, ei gôb o frethyn cartref, a roden onnen gam o dan ei gesail. Ac fel yr oedd yn cerdded yn hamddenol o gwmpas, daeth dyn a phen cam ganddo i'w gyfarfod, ac yr oedd yn amlwg oddiwrth ei wyneb nad oedd yn grediniwr mawr mewn ymolchi. Mor gynted ac y gwelodd yr hen borthmon ef, safodd, gan syllu yn graff a beirniadol arno; gan gymeryd yn sicr yn ei feddwl mai y dyn anorffenedig yn ei greadigaeth a ddiengasai ydoedd. Wrth weled y porthmon yn syllu mor graff arno, gwenodd y dyn arno; nashaodd yr hen borthmon ato, a dywedodd wrtho, gan roddi ei law ar ei gefn,—

“Tasa ti heb ddengid mi faswn wedi gwneyd gwell pen iti, a golchi dy wynab di hefyd.”

HYFRITHON.

ARWRIAETH YR ISELDIROEDD.

III. PERYGL BEUNYDDIOL.

POBL yn byw mewn perygl beunyddiol yw'r Isel-dirwyr. Nis gwyddant pa eiliad y rhaid iddynt ruthro i gryfhau y dorau sy'n cadw'r môr o'u gwlad. Credant yn gryf yn Nuw, y maent yn genedl grefyddol iawn; ac, fel pob un fydd yn gweithio'n galed, y maent yn credu yn ffyddiog mewn gweddi.

Ryw dro galwyd trigolion pentre cyfan i ddianc rhag y cenhllif. Yr oedd tri argae yn amddiffyn y pentref hwnnw. Enw yr argau allanol oedd y Cysgadur, oherwydd gallai pawb gysgu'n esmwyth os byddai hwnnw'n gyfan. Enw yr ail oedd y Breuddwydiwr, oherwydd rhyw freuddwydio mewn ofn anesmwyth y byddid os curai'r môr ar hwnnw. Ac enw'r trydydd oedd y Deffrowr; oherwydd pan gurai'r môr ar hwnnw byddai'n bryd bawb ddeffro, naill ai i gryfhau'r arglawdd neu i ffoi am ei fywyd o flaen rhuthr ofnadwy y môr anorchfygol.

Rhyw fore, codwyd gwaedd fod y môr yn bygwth. Yr oedd y llanw yn ei fan uchaf, ac yr oedd gwynt uchel yn chwythu i'r tir. Torrodd y môr trwy'r Cysgadur, yn gynnar yn y prydawn rhuthrodd dros y Breuddwydiwr, a churai'n erwin ar y Deffrowr. Yr oedd yn amlwg nas gallai'r Deffrowr ddal dan y bore wedyn.



SABRATH YN YR ISELDIROEDD.

Ymdyrrai yr holl bentrefwyr i weled berw'r môr yn bygwth eu cartrefi; a syrthiasant oll ar eu gliniau, yn wŷr a gwragedd a phlant, i weddio am waredigaeth. Pan oeddynt ar eu gliniau felly, dyma arweinydd y pentref atynt, a gwaeddodd,—

“Codwch, bob un. Nid yw'n amser i weddio eto. Cariwch bob peth fedrwch gael gafael ynddo i grythau'r Deffrowr. Pob un o honoch, yn wŷr a gwragedd a phlant, ewch ati â'ch holl egni. Gweithiwch yn galetach nag y gweithiasoch erioed.”

Ni fu erioed y fath weithio. Cariwyd pob peth, hyd yn oed y dodrefn o'r tai, a gwellt o'r ysguboriau, i'w roi ar ben y Deffrowr, neu yn gadernid iddo. A phan oedd popeth allai pawb wedi ei wneyd, safasant lle y buont yn gweddio cynt.

Ond yr oedd y môr yn codi o hyd. Toc, wele dôn yn tafu dros y Deffrowr. Ymhen ychydig funudau byddai'r pentref dan y dwir. Cododd gwaedd o anobaith o fysg y bobl; ond meddai'r arweinydd,—

“Ar eich gliniau oll. Gwedd iwch yn daerach nag y gweddiasoch erioed.”

Tawelodd y dorf, a bu gweddi ddistaw daer. Dechreuodd y gwynt dawelu hefyd. Cyn pen ychydig iawn gwelid fod y Deffrowr yn ddiogel. Graddol giliodd y môr, fel llew wedi colli ei ysglyfaeth, dan ruo, y tu ol i'r Breuddwydiwr a'r Cysgadur.

A dyna ddirgelwch llwyddiant y bobl arwrol hyn,—gweddiant fel pe bai popeth yn llaw Duw, gweithiant fel pe bai popeth yn eu dwylaw hwy.

BLODAU'R EIRA.

Y MAE rhyw anwylddeb mewn blodeuyn neu aderyn neu gyfaill fydd yn aros gyda ni yn y gauaf ac mewn adtyd. Daw blodau'r eira o flaen y gwanwyn, gwenant arnom yn y gauaf; ac nid oes gemau gwyrdd a gwyn fedr gystadlu â hwy mewn tlysni.

Y mae traddodiad prydferth am eu geni. Wedi'r cwmp, daeth gauaf oer ar y ddaear, a galarai Efa wrth weled y blodau oll wedi gwywo a'r ddaear mor lom. Yr oedd gwynt rhewllyd yn deifio popeth, ebe'r traddodiad, ac yn lluchio eira o'i flaen.

Pan oedd Efa yng nghanol ei gofid, anfonodd Duw angel i'w chysuro. Daeth yr angel ati. Daliodd un o'r plu eira ar ei law, ac anadlodd arno, gan beri iddo fyw a blodeuo. Syrthiodd o'i law yn flodeuyn gwyn i'r llawr.

Pan ymadawodd yr angel, gwelai Efa flodau'r eira yn tytu yn y fan y safasai. Dywedent wrthi am faddeuant, a fod gwanwyn a haf i ddod eto

GWIWER, GWNINGEN, EURBINC.*

UWCHLAW i ni hed rhyw ddwsin neu ragor o adar bychain, cleberog. Gwnant am yr helygen ar ein de, ond nid cynt y cyfyrddant â'i brigau nag y codant drachefn; cyfeiriant at yr afallen sur sy'n tyfu o'r gwrych ymhellach ymlaen; disgynnant yn chwipyn ar honno, a thwit-twit-twitiant. Yn eu tro, piciant o gangen i gangen; ymsaethant o frigyn i frigyn; ymsuddant o'r golwg rhwng y cangau; a thasgant i'r brig drachefn, a swit-swit-switiant. Mae eu twit fel twit y deryn coch, a'u tryl anamlach fel eiddo y llinos werdd, ond nid adar coch na llinosiaid mo honynt. Beth ydynt ynte? Ddymunech chwi wybod? Dyneswn atynt gydag ymyl y gwrych, gan gadw ein hunain o'r golwg gystal ag y medrwn. Symudwn ymlaen yn ochelgar. Ydech chwi'n dod? O'r gore. Ust! Be sy'n symud y cyll yma? Beth yw'r rhugldrwt sy yn y cangau? Ar y gair, wele WIWER lwydfelen, ysgafn-gorff yn lithro i lawr yr osglau; yn llemain o gangen i frigyn; yn llamu i'r cae yr ochr arall i'r gwrych; yn llamsach i'r goeden yn ymyl; yn ei dringo yn chwimwth; yn troi'n sidrwyog am dani; ac yn diflannu'n chwaff am y paladr â ni. Mewn hanner winc, dacw hi'n cipedrych yn ochelgar—welwch chwi hi?—o un o'r ffyrch yng ngheinciau uchel y pren. Ha! mi dy welwn di, pws. Paham y dychrynni? Paham y diengi di rhagom? Ni fynnem er dim dy niweidio. "Wn i ddim, wir," ebe hi, a dringodd yn uwch.

Anghofiason yr adar yn helynt y wiwer. Maent ar yr afallen eto; ond gwelant ni, a chlywant ni yn siarad. Cyffroant; neidiant i gyd i frigau uchaf y pren; cyd-ffrilliant yn wyllt, codant, hedfanant i ffwrdd gan gogor a chlebran. "Welsoch chwi nhw?" ebe un. "O do," ebe'r lleill—a disgynnant ar derfyn eithaf y gwrych, dipyn ymhell oddiwrthym. Ond gadewch i ni eu dilyn. Symudwn ymlaen dipyn cyflymach, gyda'r berth o hyd. Holo, mae'r ci yn ein dilyn. O b'le ddaethost ti, Frank? Beth, tybed, sy arno? Mae gwefr ym mhob cymal a migrwn iddo. Rhed yn orwyllt o gwmpas gan ffroeni, a'i drwyn yn glos wrth y ddaear—rhydd blet,—tindafla,—rhuthra drwy'r llwyni,—ysboncia dros y boncynau,—daw'n ol, a'i drwyn ar y llawr o hyd—plet eto—neidia i'r dde—llama i'r aswy,—gwthia ei feinswch i'r prysgwydd,—ffroena'n fwy egr,—ysgythra ymlaen,—arogla, rhydd aml i "hoch" a rhyw hanner cyfarthiad yng nghorn ei wddw—ymlaen—ymweithia cyhyrau—ei gorff—ysgwyd ei gynffon—cocia ei glustiau—Wow! dacw

* O *Twi'rwy'r Wig*, gan R. Morgan, athraw Llanarmon yn Ial, yn CYMRU, Ionawr, 1900.

GWNINGEN yn codi o'i flaen. Hwi!—ffwrdd a hi, a fwrdd a'r ci, drwy'r drysni, heibio i'r llwyni, yn chwap o'n golwg. Waeth i ti beidio, Frank. Ddeli di mo'ni. Mae ei lloches yn agenau y galchfaen gyfagos.

A darfywd yr adar, tybed? Naddo,—maent dipyn ymhell oddi-wrthym. Daw eu twit,—gwrandewch,—ar edyn yr awel i'n clustiau. Gawn ni symud ymlaen? Ar un ochr i ni, yn y gwrych, hwbias gwas y gog yn ddistaw fel cysgod, o frigyn i frigyn; ar onnen yr ochr arall, telora brongoch yn fendigedig. Dyna ddryw fach yn tasgu o'r berth o'n blaen, yn hedeg fflap-fflap-fflap, gyda'r llawr, yn suddo i'r llwyn draw, ac yn cwafrio'n uwch na robin. 'Rwan, nid ydym nepell oddiwrth yr adar,—mae eu cogr yn ymyl. Cerddwn yn ddistaw. Mae tro yn y clawdd fan hyn. Hush. Plygwn i lawr yma, ac yspiwn drwy'r gwrych. Welwch chwi, mae'r adar o flaen ein llygaid. Cadwn yn reit dawel. Wele un ohonynt yn cymeryd ei aden, yn hedeg tuag atom, ac yn disgyn ar yr ysgall, gan bigo eu hadau, rhyw ddeglath o'r clawdd yn union o danom. Beth, EURBINC* ydyw! Mae yn gain. Ai ysplander yr enfys sy'n glog am dano? Coch, o liw'r gwaed, yw ei dalcen a'i wddw. Mae y tu ol i'w ben, a phlu ei wegil, yn ddu fel nos. Rhwng y du a'r coch,—ar bob boch iddo,—rhed rhimyn wynnad a distrych y don. Welwch chwi, dyna'r adar ereill yn codi ac yn disgyn i gyd ar frigau'r ysgall, Ond gadewch i ni ddesgrifio ein deryn. Gwineuddu yw ei gefn a'i ysgwyddau llytbnluf. Ymyla gwyn cannaid dduwch ei ronell, fel yr eiddia'r wawr gwr y nos. Ystaenir ei aden ag aur ac ag arian. Dyna i chwi olud o liwiau! Aderyn hardda'r wig yw yr eurbinc. Ysbiwch. Gwibheda yr ednod hoew o ysgellyn i ysgellyn.

Twitiant. Rhyfedda yr ysgall at eu prydfferthwch. Plygant eu pennau man-blufog i'w cusanu, a throant eu drain-bigau o'r neilldu er eu croesawu i'w mynwes. Cofleidia yr adar, hwythau, yr ysgall, ymlynant wrthynt ym mhob agwedd ac ystum, pigant, pigant yr hadau, ond cyn eu llyncu gwasgarant y pluf arian fel mwlwg i'r awyr. Gwreichiona rheini fel mantellt yn haul canolddydd. Dyma'r ci yn dychwelyd. Bow!—taw. "Be sy na?" ebe'r adar. "Ydyn' nhw yna eto?" Codant eu pennau, gwrandawant, ac ehedant ymaith ysgafned a gloynod byw. Ddeliaist ti'r gwningen, Frank?

* *Goldfinch*,—yr asgell aur, yr eurasgell, eurlinosen, peneuryn, nico, sowlidier bach y Werddon, teiliwr Llunden, gwas y seiri.

Mae'r adar bychain yma,—y tlysaf o adar ein gwlad,—yn prysur ddarfod o'r tir. Gresyn. Delir hwy yn lluoedd i'w cau mewn *cages*,—canant yno gân gorthrymder,—ac i addurno boneti a hetiau coeg-foneddigesau. Nid oes i'r amaethwr well cyfaill na'r eurbinc. Difa beth wmbredd o hadau ysgall a llysiâu diles ereill bob blwyddyn.



MONACO A MONTE CARLO.

GAUAF AR LAN MOR Y CANOLDIR.**III. TLYSNI BORDIGHERA.**

“**Y**R oeddem wedi darllen yn y *guide books* mai Dinas y Palmwydd oedd Bordighera yn cael ei galw; ac wrth weld fod palmwydd yn tyfu ym mhob man, nis gallein lai nag ystyried yr enw yn briodol. Mor enwog yw y lle am y coed yma, fel y mae wedi cael yr anrhydedd am ganrifoedd o anfon rhai i Rufain erbyn *Palm Sunday*,—Sul y Blodau. Gweleim fod dail y rhai oedd wedi eu nodi allan i’w hanton i Rufain yn cael eu rhwymo â rhaffau nes yr oeddent yn ymestyn i tyny tua’r ffurfafen droedfeddi yn uwch na’u huchder naturiol. Gwnai hyn iddynt edrych yn hyll iawn, ond cawsom ar ddeial fod rhwymo y dail fel hyn yn gwneyd y canol yn wyn, felly yr oeddent am rai wythnosau, yn gorfod aberthu eu harddwch er mwyn bod, am ychydig ddiwrnodau, yn fwy hardd hyd yn oed nag yr oedd natur wedi eu gwneyd. Wel, ni wyddom am rai merched bach sydd yn boddloni bod yn hyll yn y presennol er mwyn bod yn hardd yn y dyfodol, oni wyddom? Ond mae gwahan-iaeth mawr rhwng y lodes fach a’i gwallt mewn papur, a’r goeden

ardderchog a'u dail mewn rhaffau. Nid balchder y goeden sydd yn peri iddi ddarostwng ei hunan fel hyn, mae natur yn rhydd oddiwrth bob bychander o'r fath, ac yn hollol naturiol. Ond am y lodes fach, nid yw hi ddim bob amser yn boddloni ar yr hyn mae natur wedi wneyd iddi.

"Roedd y *Dactyliferae*, neu y *date bearing species*, yn tyfu yn braf iawn yma, ac yr oeddynt yn hynod o brydferth gyda'r ffrwythau yn hongian i lawr o dan y dail mawr oedd yn gwneyd cysgodfa mor hyfryd rhag gwres yr haul. Un diwrnod, pan yn eistedd danynt, estynnodd un o honom,—oedd yn credu fod yn dda i brofi pob peth,—ei llaw am un o'r *dates*, ond prin yr oedd rhwng ei dannedd pan y gwelom wrth ei gwedd nad oedd haul Bordighera, er mor boeth i'n teimlad ni, ddim yn ddigon poeth i addfedu ffrwythau'r balmwydden hon.

"Roedd yr Hotel Belvedere, lle yr oeddem yn aros, wrth droed y Torre dei Mostaccini, eto yn sefyll yn ddigon uchel i ni i allu edrych i lawr ar yr olewydd, y dref, a'r môr yn y pellder. Golygfa ardderchog oedd yr un a welom o'n hystafelloedd. Y peth agosaf at ein llygaid oedd gardd brydferth y Belvedere yn llawn o bob math o flodau fel pe bai yn ganol haf, a choed aurafalau, rhai o'r rhai yma a'r blodau a'r ffrwythau arnynt yr un pryd,—coed afalau melyn hirion, a phalmwydd yn taflu eu cysgod drostynt oll. Yn yr ardd hefyd yr oedd rhyw ddeg troedfedd ysgwar o borfa, yr unig damaid o borfa lās a welsom am fisoedd. Troem ein llygaid ble y mynnem 'doedd dim porfa i weld yn un man.

"Yn nesaf at yr ardd, tuallan i'r caerâu fel pe bai, 'roedd *grove* o olewydd, ac yn awr yr oedd yr amser wedi dyfod i ni i werthfawrogi yn llawn eu prydfferthwch. Yn nalen dywyll yr olewydden, yr oeddem yn cael y llonyddwch a'r gorffwysdra sydd mor angenrheidiol i'r llygaid lle y mae pob peth,—y wybr, y môr, y tai hyd yn oed, y ffyrdd,—yn eich dallu gan mor danbaid a disglaer ydynt. Y mae y tai a'r ffyrdd mor wyn nes y mae rhai pobl yn gorfod gwisgo gwydrau gleision i allu edrych arnynt.

"Mi glywsom lawer o rai oedd wedi ymweled â Bordighera am ychydig oriau o San Remo ar un llaw, neu Mentone ar y llall, yn dweyd eu bod yn methu gweld rhyw lawer o brydferthwch yn y lle. Ond nis gallai neb oedd wedi aros yno am wythnosau a misoedd gyuno â hwy, gan eu bod bob dydd yn gwneyd darganfyddiadau oedd yn peri iddynt feddwl mai edrych ar wahanol ddarluniau oeddynt o'r un lle, a bod y celfyddwr yn un hynod fedrus. Un diwrnod tua'r hwyr byddai yr haul wrth fynd i lawr yn gwisgo y mynyddau uchel oedd yn codi i fyny tu cefn i'r dref mewn mantell odidog y rhos; bore drannoeth, er eich syndod, pan y byddech yn gloddesta

yng ngwres haul tanbaid, 'roedd y rhestr hir o fynyddau Maritime Alps draw yn y pellder mewn mantell wyn o eira. Yr oedd yr awyr mor glir nes yr oedd Mentone, Monte Carlo, Monaco, a llawer o lefydd ereill oedd yn gorwedd dan eu cysgod ac ar lan y môr, fel pe baent yn ddigon agos i chi i osod eich llaw arnynt. Twyllodd eu hagosrwydd ar ddiwrnod clir fel hyn ni i wneyd rhai pethau ffol iawn yn ein byrbwylldra, nid oherwydd nad oeddem yn gwybod faint o ffordd oedd o un lle i'r llall, ond oherwydd ei bod gymaint yn hawddach credu eich llygaid eich hunain na gair rhyw estron o Eidaliad neu Ffrancwr.

"A sylwoch chi ar y dirmyg yn fy llais wrth son am yr estron?"

"Dyna fel y bydd rhai pobl yn siarad am estroniaid fydd yn dod i'n gwlad ni ar eu tro, neu i geisio gwneyd eu cartref. Ond cofiwch chi, nid yr Eidaliad yw yr estron yn yr Eidal, na'r Ffrancwr yn Ffrainc. Pwy ynte? Wel ni wrth gwrs, gan ein bod allan o'n gwlad ein hunain."

JAPAN.

DYWEDIR mai Prydain a Japan fydd y ddau ymgeisydd am fod yn brif allu morwrol a masnachol y byd. Y mae llawer o debygrwydd rhwng y ddau deulu o ynysoedd. Y maent agos yr un faint o ran milltiroedd ysgwar, o ran rhif eu trigolion, ac o ran eu byddin. Y mae eu safle yn debyg hefyd,—ynyoedd rhwng dau gyfandir, ac yn ymyl un. Y mae cymeriad y bobl yn debyg,—yn egniol ac yn awyddus am lwyddiant. Y mae'r hinsawdd yn debyg,—yr hinsawdd oreu at fagu cymeriad. Y mae eu hanes yn debyg,—daeth Prydain yn allu yn y ganrif ddiweddar trwy ymladd yn erbyn ei chymydog ar y cyfandir, Ffrainc; daeth Japan yn allu yn y ganrif hon trwy ymladd yn erbyn ei chymydog cyfandir hithau, sef China. Y mae eu traddodiadau hefyd yn debyg; onid yw ystori Urashima yr un a stori Gymreig Llwyn y Nef? Ac ar hyn o bryd y mae llygaid yr hen genhedloedd ar y wlad fechan egniol hon sydd a'i bryd ar ddod yn un o brif alluoedd y byd.

DYCHMYGION GWLAD Y GOG.

- I. Llogell wag, a rhywbeth ynddi. Beth sydd ynddi? TWLL.
- II. Beth sy'n cysgu a'i fys yn ei lygad? AERWY.
- III. Beth sy'n siarad pob iaith ar unwaith, ac eto'n rhesymol ac yn ddealladwy? AWRLAIS.
- IV. Sut mae dweyd "trap llygod mawr" mewn un gair? CATH.

DIAL YR ALLTUD.

YN yr hen amser yr oedd Genoa wedi ei rhannu yn ddwy blaid,— plaid y bobl, a phlaid y pendefigion. Un o arweinwyr y bobl oedd Uberto,— dyn tlawd o ran ei enedigaeth, ond ei fod trwy ei allu wedi dyfod yn llywodraethwr y ddinas. Yr oedd y pendefigion yn teimlo yn groes i fod o dan lywodraeth Uberto, ac ymunasant â'u gilydd er mwyn ceisio ei daflu i lawr. Ar ol iddynt ennill yr oruchafiaeth, dedfrydwyd ef i gael ei alltudio, ac i golli ei holl eiddo. Adorno, yr uchaf o'r pendefigion, wrth draddodi y ddedfryd a ddywedodd wrtho,—

“Tydi, mab i weithiwr, yn meiddio sarhau pendefigion Genoa, nid wyt ond i ddisgyn yn ol i'r iselder y codaist o hono.”

Yr oedd Urberto wedi ei frathu gan y dull sarhaus ym mha un y traddodid y ddedfryd, a dywedodd wrth Adorno,—

“Hwyrach y cewch achos i fod yn edifar am y geiriau bryntion yna.”

Ar ol ffarwelio â'i gyfeillion aeth Uberto i Naples, yno casglodd ychydig arian oedd yn ddyledus iddo, ac aeth i un o'r ynysoedd oedd yn perthyn i Venice. Yma eto, trwy ei allu a'i ddiwydrwydd, enillodd fwy o gyfoeth o lawer nag a feddai tra yn Genoa.

O'r ynys yma arferai fyned i Tunis, yn Affrica, i brynnu a gwerthu. Un tro gwelodd yno Gristion ieuanc mewn cadwyni yn gweithio tel caethwas. Yr oedd y llafur caled yn llethu y dyn ieuanc, ac yn aml gellid gweled y dagrau yn rhedeg dros ei ruddiau. Edrychodd Urberto arno gyda theimlad dwys, a chyfarhodd ef yn Italaeg.

Trodd y dyn ieuanc gyda llawenydd mawr wrth glywed iaith ei fam, ac mewn atebiad i Uberto dywedodd mai un o Genoa ydoedd.

“Beth yw eich enw?” ebai Urberto, “ni raid i chwi ofni cyfaddef eich gradd wrthyf fi.”

“O,” atebai yntau, “yr wyf yn ofni fod fy meistriaid yn ameu digon i fynnu cael iawn uchel am fy rhyddhad. Mae fy nhad yn un o'r dynion uchaf yn Genoa. Ei enw yw Adorno, a myfi yw ei unig fab.

“Adorno,” gallodd Uberto ymatal rhag gwaeddi, ond dywedodd wrtho ei hun,—“diolch i'r nefoedd, caf ddiol yn awr.” Aeth at feistr y dyn ieuanc, a gofynnodd iddo faint o iawn oedd yn ddisgwyl gael am dano. Dywedodd hwnnw ei fod yn garcharor gwerthfawr iawn, ac na dderbyniai ddim llai na dwy fil o goronau. Talodd Uberto yr arian, ac aeth at y gŵr ieuanc a dywedodd wrtho ei fod yn rhydd. Gyda'i ddwyllaw ei hun tynnodd y cadwyni, a gwisgodd am dano, a chynorthwyodd ef i esgyn ar ei farch.

Ar ol aros ychydig yn Tunis, trodd Uberto tuag adref, ac Adorno

ieuanc gydag ef, yr hwn, erbyn hyn, oedd wedi ennill serch Uberto yn llwyr. Cadwodd ef yn ei dŷ ei hun am beth amser, a phan gafodd gyfleusdra anfonodd ef i Genoa. Pan ar gychwyn rhoddodd gydaid o aur iddo yn un llaw, a llythyr yn y llall, a dywedodd wrtho,—

“Fy anwyl gyfaill, hoffwn gael eich cwmni yma am lawer yn rhagor, ond yr wyf yn teimlo mai creulondeb fuasai eich cadw yn hwy oddiwrth eich rhieni a'ch cyfeillion. Derbyniwch yr arian hyn ar gyfer eich taith, a rhoddwch y llythyr hwn i'ch tad. Hwyrach ei fod ef yn fy nghofio, er eich bod chwi yn rhy ieuanc i allu gwneyd.”

Yna ymadawodd y gŵr ieuanc, a chyrrhaeddodd Genoa, lle y derbyniwyd ef gan ei rieni calon-doredig gyda llawenydd mawr. Yr oeddnt hwy yn credu ei fod wedi marw er's llawer dydd. Ar ol cael gwybod ei fod wedi bod yn gaethwas yn Tunis, gofynnodd yr hen Adorno,—

“I bwy yr wyf i ddiolch am eich rhyddhad, fy machgen?”

“Fe ddywed y llythyr hwn, fy nhad,” ebai'r bachgen. Agorodd Adorno y llythyr a darlennodd ef,—

“Y mae mab y gweithiwr, yr hwn a ddywedodd wrthyoh y caech achos i edifarhau am eich gairiau bryntion, yn falch o weled ei ragddywediad yn cael ei wirio. Gwybyddwch, bendefig balch, mai achubydd eich mab o gaethiweid yw,—yr allud, UBERTO.”

Gollyngodd Adorno y llythyr, a gorchuddiodd ei wyneb â'i ddwyllaw, tra yr oedd ei fab yn adrodd am garedigrwydd Uberto.

Aeth Adorno at holl bendefigion Genoa i adrodd yr hanes, ac enillodd hwy i gyd o blaid Uberto, fel y penderfynwyd ei alw yn ol i Genoa. Antonodd Adorno eu penderfyniad i Uberto, gan erfyn arno ddod yn ol a bod yn gyfaill iddo ef. Felly daeth Uberto yn ol i'w hen gartref, a diweddodd ei oes mewn tangnefedd, yn cael ei edmygu gan bawb o'i gyd-ddinasyddion.

Llanllechid.

R. H.

YMSON AM Y FRONFRAITH.

HA! fronfraith, 'rwyn'n methu dy weled,

Mae'th hanes yn dywyll i mi;

Trist fyddwn os wyt wedi marw

Gan newyn yn ymyl fy nhŷ;

Ai tybed dy fod wedi symud

I ryw fangre arall o'r fro?

'Nol tyred, cei gyfran o'r briwsion

A deflais i adar y to.

Tŷefeghoys.

Afonydd a llynnoedd sy'n rhewi,

Prysglwyni a'r dolydd sy'n wŷn;

Ymdrecha yn wyneb yr oerfel,

Daw iti well adeg na hyn;

Cei esgyn i frigyn tal goeden,

A chanu dy donau i gyd,

Mae'r gwanwyn bob dydd yn dynesu,—

O cana yn dawel dy fyd.

SIARL TRANNON.



PLANT CYMRU. CXXVI. PLANT LLITHFAE'.

URDD Y DELYN.**Y RHEOLAU.**

1. Dysgu siarad ac ysgrifennu Cymraeg; darllen rhan o'r Beibl Cymraeg, neu ryw lyfr Cymraeg arall, bob dydd, ac ysgrifennu Cymraeg o'i gyfansoddiad ei hun.
2. Astudio hanes Cymru, a gwneyd ei oreu i godi ei wlad, fel y byddo Cymru fydd yn well na'r hen Gymru.
3. Dysgu canu'r delyn, os bydd hynny yn y cyrraedd; a dysgu alawon Cymreig.
4. Byw, hyd y gall, yn ol dysgeidiaeth yr hen Gymry gynt, mor bell ag y mae'r ddysgeidiaeth honno'n un a dysgeidiaeth Crist. Y mae'r ddysgeidiaeth honno'n gofyn purdeb, cariad at addysg, caredigrwydd at ddyn, addfwynder at greaduriaid direswm, iaith ddihalog.

AELODAU NEWYDDION.

1194. Thomas J. Hughes, Erw Gerrig, Rhosllanerchrugog.
 1195. Llew. Phillips, Victoria house, Rhosllanerchrugog.

1196. Maggie Evans, Tai Newyddion, Porth, Morgannwg.
 1197, 1198. Lily a Jennie Jones, Royal Stores, Porth.
 1199. *Robert T. Rogers, 18, Wesley Road, Bwlchgwyn.
 1200. *John Hughes, Pistyll, Dolyddelen.
 1201. *Hugh Jones, Singrig, Dolyddelen.

* Y mae y seren yn dynodi fod yr aelod wedi cael y bathodyn.

UN o'r pethau pruddaf i mi yw clywed fod aelodau ieuainc yr Urdd yn huno yn yr angau. Y mae amryw ohonynt, a mab hynaf y golygydd yn eu mysg, heddyw yn Urdd y Delyn Nefol. Dyma



T. R. EVANS.

ddarlun o'r diweddaf gollasom,—T. R. Evans. Yr oedd wedi meddwl sefydlu cangen o'r Urdd yn y Porth. Ond tarawyd ef gan enyniad yr ysgyfaint, a throdd hynny'n ddarfodedigaeth. Bu am saith mis yn ei wely mewn cystudd caled, ac erbyn Mawrth 20fed yr oedd y diwedd wedi dod. Yr oedd wedi sefyll yn uchel iawn yn arholiadau yr Ysgol Sabbothol, ac yn myfyrio llawer yn y Beibl. Yr oedd yn cymeryd rhan yn y weddi deulu-aidd yn gyson; a thra yr oedd yn ei wely cymerai ei ran arferol, a'r teulu i gyd o amgylch. Yn y diwedd yr oedd yn gallu rhoi i fyny i'r ewyllys fawr, ac wrth ffawelio yr oedd yn gallu dweyd ei fod yn myned i'r nefoedd. Adroddai y pennill hwnnw,—

“Cymer Iesu fi fel 'r ydwyf.”

Canwyd rhai o'i hoff hymnau ddydd ei angladd a'r Sul canlynol.

Ychydig amser cyn ei farwolaeth yr oedd yn anfon llythyr llawn o obaith am y daioni fedrai wneyd. Ychydig cyn hynny yr oedd yn anfon darlun a hanes ei frawd bach fu farw,—yntau hefyd yn aelod o'r Urdd. Erbyn heddyw y mae'r ddau frawd wedi cael cyfarfod i beidio ymadael mwy.

AELODAU NEWYDDION (AIL GYFRES).

1202. Thomas Edward Ellis, 9, Cowley Street, Westminster.
 Mab y gwladweinydd y mae Cymru eto'n galaru ar ei ol. Megir ef yn Gymro tebyg i'w dad, o iaith ac ysbryd.
 1203. J. Cynfelyn Harries, Glôch Gobaith, Abercarn, Mynwy.
 1204. Annie Williams, 4, Mount Pleasant, Porthmadog.

“ Mi hoffwn fod yn Angel.”

Huw AP IOAN.

T. OSBORNE ROBERTS,
Ysptyt Ifan.

DOH Eb.

:m.f	s :l	t :d'	d' :— t :l	s :l.s f :s.f	m :— —
:d.r	m :m	m :m	r :— r :d	d :d r :t,	d :— —
1.Mi	hoffwn	fod yn	Ang - el, A	choron ar fy	mhen,
:s	s :s	s :s	f :— f :f	s :f.s l :s	s :— —
:d	d :d	d :d	r :— r :f	m :f.m r :s,	d :— —

Bb.t.

:m.f	s :l	t :d'	d'f :— m :m.f	s :f.m r :m.r	d :— —
:d.r	m :f	r :m	^{fo} t, :— d :d	l, :l, l, :t,	d :— —
Wrth	orseddfainc	yr	Ie - su, O	fewn i'r nefoedd	wen;
:s	d' :d'	s :s	^l r :— d :d.r	m :r.de r :f	m :— —
:d	d :f	f :m	^r s, :— d :l,la,	s, :r,m, f, :s,	d, :— —

d.f.Ab.

Eb.t.

:d.r.m	f :m	r :d.r	m :— m :m.l.t	d' :t l :se.l	t :— —
:la,ta,	l, :d	d :d	d :— d : ^{le} re	re :re re :re	m :— —
Yn	sy-llu ar bryd-	ferth - wch	Yr	Arch-o-ffeir-iaid	llawn,
:f s	f :s	l :la	s :— s : ^a d.t	l :t d' :t.l	se :— —
:f,s,	r, :m,	f, :f,	d, :— d, :d f	f :f f :f	m :— —

:t.d'	r' :d'	t :d'.r'	d' :— d' :f	m :f.m r :m.r	d :— —
:m	m :m	m :m	m :— f :d	d :d d :t,	d :— —
A	roes Ei Hun yn	a - berth Dros	f'enaid un pryd-	nawn.	
:se.l	t :l	se :l.t	d' :ta l :la	s :l.s fe :f	m :— —
:m	m :m	m :m	l :s f :f,	s, :f,s, l, :s,	d :— —

2 Mi hoffwn fod yn Angel
A thelyn yn fy llaw,
I roddi croesaw adref
I'r pererinion ddaw;
O gorsydd lleidiog daear
I'r nefoedd dawel, glyd,
Heb glais, na chlwy, na chrychni
Yn iach a llon eu pryd.

3 Mi hoffwn fod yn Angel
Yn hedfan trwy y nen,
I gyrchu y ffyddloniaid
At Grist i'r nefoedd wen;

Mi hoffwn fod yn Angel
O fewn i'r wynfa lân,
Yn gweini i anghenion
Mil myrdd o blantos mân.

4 Mi hoffwn fod yn Angel
Yng nghwmni'r dedwydd lu,
Sy'n rhodio aur heolydd
Y ddinas ddisglaer fry;
Mi hoffwn fod yn Angel
O fewn i'r nef ddilyth,
Yn seinio nodau'r anthem,
Na dderfydd m'oni byth.

GWLAD HUD.

((Casgliad o Ystraeon Hud o
bob gwlad.)

III. Y TAIR RHODD.

(Un o Ystraeon Hud Poland.)



MEWN bwthyn ar un o wastad-
eddau eang Poland trigai
gwraig a thri o blant. Yr oedd y
wraig yn fam i Oleoska, ac yn llysfam
i Maria a Michael. Geneth fach
hagr, a gwenwynlyd o natur oedd
Oleoska, wedi ei spwylio gan ei
mham. Yr oedd Maria yn eneth
dlos iawn, ac ufudd, ond yr oedd ei
llysfam yn bur greulon wrthi ac
wrth ei brawd Michael.

Un bore aeth Maria i'r ardd i
dynnu blodau i'w gosod ar yr allor yn yr eglwys. Er ei syndod
gwelai yno dri gŵr ieuanc mewn gwisg danllyd, ac yn eu hymyl hen
gardotyn carpiog. Gofynnodd y cardotyn am rodd i'r eneth;
rhoddodd hithau ei hunig ffyrlling iddo. Yna trodd y cardotyn at y
tri gŵr, ac meddai,—

“Beth ddymunech i mi roddi i eneth dda, garedig, fel hon?”

"Dyro fod ei dagrau'n troi'n berlau," dymunai'r cyntaf.

"Dyro fod ei gwenau'n troi'n rosynau," ebe'r ail.

"Dyro fod dŵr yn llenwi o bysg euraidd pan gyffyrddo ag ef," ebe'r trydydd. Aeth yr eneth adref. Tarawodd ei llysfam hi am tod yn hir. Wylodd hithau. Ac wele, yr oedd ei dagrau'n troi'n berlau wrth ddisgyn o'i llygaid. Mewn gorlawenydd, casglodd y llysfam y perlau. Wrth weled ei llawenydd gwenodd Maria, a disgynnodd rhosynau paradwysaidd oddiar ei gwefusau. Aeth i roddi blodau yr allor mewn dwfr, a llanwodd y dwfr o bysg bychain euraidd y munud y cyffyrddodd ei llaw ag ef.

Wrth weled y perlau, y rhosynau, a'r pysg euraidd, daeth y llysfam yn garedig wrth Maria, a dealodd pa fodd y cafodd yr eneth y gallu gwyrthiol. Anfonodd hithau Oleoska i'r ardd, a sofrfen yn ei phoced. Gwelodd hithau'r tri gŵr ieuanc a'r cardotyn. Gofynnodd y cardotyn am rodd; rhoddodd hithau'r sofrfen, ond o hanner anfodd. Ac ebe'r hen gardotyn wrth y tri,—

"Beth ddymunech i mi roi i eneth wedi ei spwyllo, un galon galed?"

"Tro ei dagrau yn geneuogegiaid," ebe un.

"Tro ei gwenau yn llyffaint," ebe'r ail.

"Llanwed dŵr o nadroedd pan gyffyrddo ag ef," ebe'r llall.

Pan ddealodd mam Oleoska mai geneuogegiaid a llyffaint a nadroedd, ac nid perlau a rhosynau a physg euraidd, gaffai ei merch, aeth yn greulonach nag erioed wrth Maria a Michael. O'r diwedd penderfynodd Michael fynd i wlad bell oddi cartref. Wrth fyned, aeth at fedd ei dad a'i fam, i weddio dros Maria, ac i wylo. Pan gododd oddiar ei liniau, gwelai yn ei ymyl ddarlun prydferth o'i chwaer, a pherlau a rhosynau a physg euraidd o'i amgylch. Rhoddodd ef yn ei fynwes, ac aeth i'w ffordd yn llawen.

Ymhen hir daeth i dir y goron, a chafodd le yn arddwr i'r brenin. Yr oedd arno hiraeth mawr am ei chwaer, a rhyw ddiwrnod gwelodd y brenin ef yn tynnu y darlun o'i fynwes. Mynnodd ei weled, a llannwyd ei galon o gariad wrth weled gwyneb tlws Maria. Dywedodd Michael lawer am ei chwaer,—am y perlau, y rhosynau, y pysg, a'r cwbl. Ac ebe'r brenin,—

"Maria fydd fy ngwraig. Ysgrifenna lythyr at dy lystam, i ddod a hi yma ar unwaith, a chaiff wobwr fawr."

Rhoddwyd y llythyr i redegydd buan, ac aeth hwnnw ag ef i'r lystam. Ond ni roddodd honno ef i Maria. Penderfynodd mai Oleoska fyddai gwraig y brenin.

Aeth at swynes oedd yn yw gerllaw, a chafodd ddŵr melldith gan honno. Yna cychwynnodd mewn cerbyd tua llys y brenin. Ar y ffordd, pan oedd hi yn nos, tafodd y dŵr ar wallt Maria. Ar

yr eiliad trodd dillad a gwallt yr eneth dlos yn blu, a hithau'n hwyaden wyllt fechan hagr. A gwnaeth y llysfam iddi ehedeg o'r cerbyd i'r nos.

Daeth y fam ac Oleoska i'r llys. Dywedasant nad oedd Michael i ddod i'r briodas. Gwelai'r brenin nad oedd gwyneb Oleoska yn dlws a thyner fel y wyneb yn y darlun. Gwenodd arno, a dychrynnodd wrth weled ei gwenau troi'n llyffaint ar ei gwefusau. Pan olchodd ei dwylaw mewn llestr ar ol ciniaw, gwelodd fod y llestr yn llawn nadroedd. Yn ei ddychryn a'i ddig, aeth i chwilio am Michael. "Ti a'm twyllaist," meddai, a tharawodd ef yn farw.

Gosodwyd corff Michael i orwedd mewn arch yn yr eglwys fawr, a milwyr i'w wyllo. Pan ddaeth hanner nos, syrthiodd trwmgwsg ar y milwyr, agorodd y drws mawr o hono ei hun, ac wele hwyaden wyllt fechan yn cerdded i fyny llawr yr eglwys at yr arch. Yn raddol troai ei phlu yn ddiillad a gwallt,—ac wele, Maria oedd. Wylodd uwch corff ei brawd, a syrthiodd y dagrau'n berlau ar ei fron.

Pan ddaeth y bore, dywedodd y gwylwyr am y trwmgwsg ddaeth arnynt, ac am y perlau gawsant yn yr arch. Dyblwyd nifer y gwylwyr. Daeth trwmgwsg fel o'r blaen, agorodd y drws mawr hefyd, a daeth yr hwyaden wyllt i mewn. Wrth weled y gwylwyr wedi eu dyblu, a'r cwbl yn cysgu, gwenodd Maria, a disgynnodd ei gwenau'n rhosynau hyd yr eglwys.

Y nos wedyn, treblwyd y gwylwyr, a daeth y brenin i wyllo ei hun. Aeth i gornel o'r neilldu; a rhoddodd ddrych o'i flaen, fel y gallai weled yr eglwys heb i neb ei weled ef. Pan darawodd y cloch trymaidd hanner nos, gwelai arfau'r gwylwyr yn syrthio o'u dwylaw, a hwythau'n syrthio i gwsg, a'r drws mawr yn agor o hono ei hun, a hwyaden fach wyllt yn cerdded i mewn. Gwelai'r hwyaden, wrth gerdded llawr yr eglwys, yn graddol droi yn eneth dlos. Daeth o'i guddfan, ac aeth ati pan oedd ar gyrraedd yr arch. Ac ebai hithau mewn dychryn,—

"O peidiwch dweyd fy mod yma, onide caf ddrwg gan fy llysfam am adael ffurf hwyaden. Yr wyf wedi ehedeg dyddiau dros y moroedd, i chwilio am falm i ddadebru fy mrawd."

Tywalltodd y balm ar ben ei brawd, a daeth gwrid a bywyd yn ol. Priododd y brenin Maria. Gobeithio fod Oleoska a'i mam wedi edifarhau am eu heiddigedd.

Dyna'r stori fel yr adroddir hi i blant ar hirnos gauaf ar wastad-eddau mawr Poland, pan fo'r blaidd a'r arth yn crwydro hyd yr eira i chwilio am ysglyfaeth.

v Mae'r hwn yn gyntaf fyddo'n cyflawni unrhyw fái, •
Ac yna'n twyllo i'w guddio, yn gwneyd un drwg yn ddau.

MEICHAU FFYDDLAWN.

YR wyf yn cofio clywed ers ychydig yn ol am ryw ddyn wedi myned at dŷ bychan unig o'r enw Troed y Mynydd i ofyn llety noswaith. Dywedai y gŵr wrtho nad oeddynt hwy yn arfer lletya dieithriad, ac yr oedd gwraig y tŷ yn wrthwynebol iawn i'w dderbyn i mewn. Erfyniai y dyn am le i roddi ei ben i lawr, a sicrhau hwy ei fod yn ddyn gonest. "Ac," ychwanegai, "mi aiff Duw yn feichiau na bydd i mi gymeryd dim allan o'ch tŷ."

"Wel," ebe y gŵr wrth ei wraig, "yr wyf fi yn leicio y meichiau yn dda iawn. Mae yn well i ni ei ollwng i mewn."

"Yr wyf fi yn ei ddrwgdybio," ebe y wraig.

"Beth am y meichiau?" gofynnai y gŵr drachefn. Yna cytunwyd i wrando ar ei gri. Wedi rhoddi swper iddo aeth y dyn i'w wely, yr hwn oedd mewn ystafell ar y llawr. Ond erbyn i'r teulu godi yn y bore, yr oedd y lletywr wedi myned ymaith yn lladradaidd yn y nos. Dychrynwyd y tylwyth pan ddeallasant hynny, a dechreuent edrych o'u hamgylch er gweled a oedd rhyw bethau yn eisiau, a chawsant fod deryn mawr o gig moch wedi ei gymeryd ymaith. Ar hynny, dechreuodd y wraig a phoenyddio ei gŵr am ollwng crwydryn felly i mewn. Yr oedd fel defni parhaus ar ddiwrnod gwlawog iddo. Yr oll a ddywedai efe mewn atebiad iddi oedd,—

"Mae gen i feddwl o'r meichiau. Er ei fwyn ef y rhoddais i lety iddo."

Yr oedd yn ddiwrnod tywyll a niwliog, a pharhaodd felly o godiad hyd fachludiad haul. Wedi i'r lletywr adael Troed y Mynydd a'r baich cig ar ei gefn, cymerodd y mynydd gyda bwriad i'w groesi cyn y gallai neb ei ddal. Ond yn fuan wedi gadael y tŷ, dechreuodd ddyrysu yn y niwl, a bu yn cerdded yn galed trwy y dydd, a daliwyd ef gan y nos. O'r diwedd gwelodd oleuni gwannaidd, a chyfeiriodd ei gamrau tuag ato. Curodd y drws, a phan ddaeth gŵr y tŷ i agoryd gwelai ddyn a baich o gig moch ar ei gefn, a golwg ludd-edig arno. Gofynnodd am lety noson. Adnabyddodd y gŵr ef.

"Cewch yn union deg," meddai, "ond i chwi roddi yr un gŵr yn feichiau heno ac a gawsom neithiwr." Dychrynodd y dyn yn ddirfawr pan y deallodd ei fod wedi cael ei arwain yn ol i'r un fan. Arweiniwyd ef i mewn a thynnwyd y baich cig oddiar ei gefn. Tra yn gwneyd hyn gofynnodd y gŵr i Mari ei wraig,—

"Pa beth wyt yn ei feddwl o'r meichiau erbyn hyn, Mari?"

UN O GROESOR.

NEWTON.

Anian a deddfau anian oent gan lenni'r nos dan gudd;
"Boed Newton" ebe Duw, a daeth yr oll yn oleu dydd.

COFIANTAU BYRION.



CYFLWYNEDIG i Mr. R. M. Jones,
Penmachno, a'i briod, ar farwolaeth
eu hanwyl Mary.

Aros ni chafodd Mary,
A'i chân ar eich haelwyd chwi,
Awel nych angeuol nos,
I'r egin ddaeth rhy agos.

Siomedig drwy'r symudiad,—yw'r plant,
Y mae'r plwy dan deimlad,
El oerni'r hen alarnad
Ymaith a hedd mam a thad.

Am loew win ei chyfrinach,—na wylwch
Dan alar ymbhellach;
Hi aeth i uchel daith iachach,
Marw i fyw wnaeth Mary fach.

Byw redodd i baradwys
Yn ei glân chwareuon glws;
A hyfwyn engyl hefyd
At ei gwallt sy'n dotio'i gyd.
Urddasolion gwrdd Salem
I gyd a hoffant y gem.

Aeth o ofid certh, afiach,—draw i barch
Drwy y bedd, yn holliach,—
I Ganan,—ble'n amgenach,
O helynt y byd, i blant bach?

Llanrwst.

E. HARKER (*Imant*).

JOHN ELLIS THOMAS, Bryncelyn, Pandy Tudur.—Mab ydoedd i Mr. Elias Thomas, diacon ym Mhandy Tudur, a Mrs. M. J. Thomas, merch Mr. John Williams, diacon yng Nghapel Albion Park, Caerlleon. Ganed ef Gorffennaf 11, 1872, a derbyniodd ei addysg yn Ysgol Frytanaidd Pandy Tudur. Wedi cyrraedd y dosbarth uchaf, dechreuodd ar ei waith fel *pupil teacher* yn yr un ysgol. Ar ol gwasanaethu ei brentisiaeth, ymgeisiodd am Ysgoloriaeth y Frenhines, a bu yn llwyddiannus. Wedi hynny, aeth fel atffraw cynorthwyol i'r Borth; bu yno am flwyddyn, ac oddi yno aeth i Goleg Normalaidd Bangor. Bu yn y Coleg am ddwy flynedd. Tra yn y



JOHN ELLIS THOMAS.

Coleg bu yn ymdrechgar iawn, er gwaethaf gwaeledd ei iechyd, a gwobrwywyd ei ymdrech â llwyddiant. Yr oedd iddo air da gan bob un o'i gyd-golegwyr, a chanmolid ef yn fawr gan ei athrawon. Dywedent fod diwrnod disglair o'i flaen os y caffai iechyd. Daeth allan o'r Coleg Gorffennaf y flwyddyn 1897, wedi myned yn llwyddiannus drwy yr holl arholiadau, ac yn barod i ymgymeryd â'r gwaith o ysgolfeistr.

Daeth adref i Bryncelyn, Pandŷ Tudur, i ddisgwyl cael adgyfnerthiad iechyd cyn ymgymeryd a'i waith, ond dal yn wael iawn ei iechyd yr ydoedd o hyd, ac yn lle gwellhau, gwanhau yr ydoedd; bu adref am bedwar mis, ac ar Tachwedd 9, yn 25ain oed, gorffwysodd oddiwrth ei holl lafur, pan bron ar ddechreu y gwaith yr oedd wedi ei gymhwyso iddo.

“ Mae troion Rhagluniaeth yn ddyrus,
Rhy groes i'w hesbonio mewn iaith,
Yn torri gŵr ieuanc gobeithiol
I'r beddrod, ar ddechreu ei daith;
Ar ol iddo gyrraedd uchelgais
Ei fywyd, fe'i torrwyd i lawr;
Mor chwith ydyw meddwl na welir
Ei wenau,—mae'n hiraeth yn fawr.”

Pandŷ Tudur.

DAVID WYNNE.

ANNE THOMAS, Glan y Pwll, Penmachno.—

Pan lawn dyfodd blodau einloes
Ar wedd Anne, edwinwyd hi;
Rhinwedd ar ei hol a gwyna,
Fel y weddw leddf ei chri;
Tyfodd heibio bedd ei rhiaint
O dan ffrwythau gras a hedd;
Ac fel arlun o'i rhagoriaeth
Planner, dan gawodydd hiraeth,
Lwyn o fiodau ar ei bedd.

Megis blod'yn y glaswelltyn,
Tyner fu tra is y rhod;
Oedd weddeiddlws, a deniadol,
Fel Hadassah ddaeth dan glod;
Gwyn ei mhoes fel ewyn ffrydlif,
Didwyll fel colomen wen,
Mor ddarbodus a'r wenynen,
A than ddyg, fel y dywysen
Addfed, blyga'n ŵyl ei phen.

Rhagarwyddai, fel rhyw wanwyn,
I'w dyweddi, er ei bri,
Haf o wynfyd priodasol,
Ond yn wryf claddwyd hi;
Clod ddatganwyd ddydd Eisteddfod
Iddi hi am draethawd cu;
Llon y seiniwyd ei ffugenw,
Ond pan glywyd iddi farw
Prudd-der ddaeth fel cwmwl du.

Blodau gwynion ei rhinweddau
Geir fel pwysl myrr yn fyw;
Hoffai ganu, a rhyw lino
Oedd yng nghoedwig Seion Duw;
Carai ebyrth eglwys Salem;
Crefydd oedd ei choron wen;
Cofier, dan dymhestloedd galar
Ei bod hi dan dan wenau llachar
Bywyd na ddaw byth i beh.

GLAN MACHNO.

Y MAE AMRYW gofiantau bychain dyddorol i ddod. Rhaid eu cyfyngu i ddau dudalen y mis. Y mae'n amhosibl eu rhoddi y mis cyntaf ar ol eu derbyn, yn enwedig os bydd raid cerio darlun gyda'r cofiant.

NYTHOD ADAR.

Yn fuan iawn bydd yr adar yn dechreu nythu. Yr wyf am i'r plant gael pob cyfle i chwilio am nythod,—a gweled mor glyd yw'r nyth bychan, ac mor dlyision yw'r wyau. Ond na chyffyrdder â'r nyth nac â'r wyau. Os gwyddoch am blentyn mor greulon fel y dryllia nyth neu fel y torro wyau aderyn bach, gochelwch ef.

Y mae nythod adar mewn lleoedd anhebyg iawn i'w gilydd. Gwna robin goch ei nyth ar ryw lethr heulog gysgodol. Gwna'r dryw nyth ym mon draenen drwchus, neu mewn hen fur adfeilledig. Nytha'r ysguthan ar ben coeden uchel, a'r brain mewn nifer o goed fo'n tyfu gyda'u gilydd. Ceir nyth yr ehedydd yng nghanol glaswellt tal, neu yn y cae yd. Mae nyth y glofeinir ar wyneb y meusydd. Ni wna'r gog nyth; gedy hi ei wyau yn nythod adar ereill. Mae nyth y wennol dan y bondo, onid ydyw?

Y mae ambell nyth wedi ei wau a'i blethu gyda'r gofal mwyaf, y tu fewn yn esmwyth gan fanblu; mae nyth arall yn galed a garw, dim ond brigau; ac weithiau nid yw ond y llawr glas. Manblu'r ysgall,—mor wyn ac esmwyth,—sydd wrth fodd yr eurbinc; clai yw defnydd llawer o nyth y wennol; chwilia'r deryn du am wair sych a mwd; cwyd y barcutan ddarnau o hen esgidiau a phob math o garpiau; nid yw nyth y gornchwiglen ond y llawr glas.

Ac mor brydferth yw'r wyau bychain yn y nyth! Pwy sy'n adnabod wyau'r dryw,—rhai bychain gwynion, gydag ysbotiau cochion? A wyau'r eurbinc,—rhai gwynion, gydag ysbotiau porffor? A wyau'r melynog,—gwyn, gydag ysbotiau glas a llwyd? A wyau'r ehedydd,—gwyn, gyda rhannau'n llwyd,—nid y rhai harddaf? A wyau robin,—rhai gwyrddfelyn gyda gwawr lwyd ar ambell ran? A wyau glaswyrdd y *chaffinch*,—ond nid oes derfyn ar y lliwiau prydferth. Llawer gwaith y gwelais lawenydd plentyn wrth edrych ar y wyau. Pob rhyddid iddo eu gweled. Cofied, fodd bynnag, fod deryn bach ofnus roddai ei fywyd i lawr dros bob un o'r wyau hynny.

NEWTON A'R BUGAIL BACH.

TRA yr oedd Syr Isaac Newton unwaith yn marchogaeth ar draws Salisbury Plain, cyfarchwyd ef gan fachgennyn oedd yn gwylio defaid.

"Syr," ebai, "gwell i chwi frysio neu cewch eich gwlychu."

A Newton, wedi edrych o'i gwmpas a methu canfod yr un cwmwl ar yr awyr, a aeth rhagddo heb wneyd nemawr o sylw o rybudd yr hogyn. Ond nid oedd wedi myned lawer o filltiroedd pryd y cododd yn ystorm sydyn, a gwlychwyd ef at y croen. Wedi synnu.

at yr amgylchiad, ac yn benderfynol, os yn bosibl, cael allan pa fodd y daeth y bachgen anwybodus i feddu y fath wybodaeth gywir am y tywydd, o'r hon y buasai yr athronydd doethaf yn falch, trodd yn ei ol, er mor wlyb ydoedd. Wedi cael hyd i'r llanc, dywedodd,—

“Fy machgen i, rhoddaf gini i ti os dywedi wrthyf pa fodd y gelli ragddweyd y tywydd mor gywir.”

“O'r goreu, mi wnat,” meddai'r llanc, gan grafu ei ben â'r naill law a dal ei law arall am y gini. “Rwan syr,” ebai, ar ol derbyn y gini, “a welwch chwi y defaid yma? Pan welwch yr hwrdd du acw yn troi ei gynffon i'r gwynt, mae'n sicr o wlaw o fewn yr awr.”

Ar ol syllu yn fud ar yr hwrdd du am ychydig, dywedodd Newton,—
“Beth! A raid i mi, er mwyn rhagddweyd y tywydd, aros yma, a gwylid pa ffordd y try yr hwrdd du acw ei gynffon?”

“Rhaid syr,” atebai y bachgen, “os ydych am wybod pryd y daw i wlawio.”

Ymaith a Newton, yn ddigon boddlon ar y darganfyddiad a wnaeth, ond nid rhyw barod iawn i roddi prawf arno, nac ychwaith i'w gymeradwyo i ereill.

YMGEISYDD.

CWESTIYNAU WIL BACH.

YR oedd Wil Bach yn hoff iawn o ofyn cwestiynau pan fyddai ei ewythr yn aros yn ei gartref. Pan fyddai Nwncwl Ben wedi ymgolli yn ei bapur newydd, deuai Wil Bach a rhyw gwestiwn rhyfeddaf fu erioed. Dyma rai ohonynt.



Nwncwl Ben, faint ydyw
seven times dim byd?

Nwncwl Ben, beth fuase hi
heddyw tase tory'n ddoe?

Nwncwl Ben, beth sy'n
hedeg yn uchel ac yn hedeg
yn isel, yn gwisgo esgidiau,
ac heb draed? Llwhch y
ffordd. Ha! ha!

Cyfeiriad y golygydd yw.—OWEN M. EDWARDS, 8, CLARENDON VILLAS, OXFORD.

ARGRAFFWYD A OYHOEDDwyd GAN HUGHES AND SON, 56, ROSE STREET, WELSHAM

AT Y PLANT.



HILIP PHILLIPS (Castell Mawr), GRENETH, ac ereill. Yn hollol ofer, er donioled eich rhesymau, y ceisiwch fy mherswadio ein bod yn yr ugeinfed ganrif! Gwir fod blwyddyn wedi mynd heibio cyn bod Crist yn l oed; ond, er hynny, y flwyddyn gyntaf o'i fywyd ef oedd hi ar ei hyd. Pan nad oedd ond mis oed, yr oedd mis o'r flwyddyn l wedi mynd heibio. Nid oedd blwyddyn gyntaf y ganrif, sef y flwyddyn l wedi gorffen, wrth gwrs, tan oedd Crist yn ddeuddeg mis oed; ond yr oedd wedi dechreu pan ddechreuodd yntau anadlu,—a'r flwyddyn l oedd hi o hyd. Y flwyddyn l O.C. (cyn Crist) oedd y flwyddyn ymestynai at ei enedigaeth, y flwyddyn l O.C. (oed Crist) ymestynai oddiwrth ei enedigaeth; afresymol yw tybied fod blwyddyn 0 (dim byd) rhyngddynt. "Blwyddyn ein Harglwydd l" yw'r flwyddyn gyntaf wedi ei eni; "Blwyddyn ein Harglwydd 100" yw'r ganfed wedi ei eni,—beth sydd eglurach?

Y rheswm am eich camgymeriad, mae'n debyg, yw hyn. Hyd eleni, ysgrifenech rif deunaw wrth ddechreu ysgrifennu rhif y flwyddyn, a gwnaethoch hynny hyd ddiwedd 1899. Yna dyma droi dalen, a dechreu ysgrifennu rhif pedwar ar bymtheg, sef 1900. Tybiasoch, oherwydd hynny, eich bod mewn canrif newydd.

Ond, os yw y flwyddyn 1900 yn perthyn i ganrif newydd, yr ydych yn cael y bedwaredd ganrif ar bymtheg heb y ffigiwr 19 ar ddechreu yr un o'i blynnyddoedd; dechreuant oll gyda 18. Os nad yw'r flwyddyn gyntaf yn cyfrif yn rhif y blynnyddoedd, nid yw y ganrif gyntaf yn cyfrif yn rhif y canrifoedd; a dylech felly, yn ol eich rhesymeg chwi, alw'r bedwaredd ganrif ar bymtheg yn ddeunawfed, a'r ugeinfed yn bedwaredd ar bymtheg.

Gwn o'r goreu mai ymhen canrifoedd wedi ei eni y dechreuwyd cyfrif blynnyddoedd o enedigaeth yr Iesu; y mae'n debyg mai'r hanesydd Selsnig Bede, ysgrifennai yn Lladin yn yr wythfed ganrif, a'i gwnaeth yn arferiad cyffredin i gyfrif blynnyddoedd yn ol oed Crist.

Beth bynnag yw'r flwyddyn hon, y mae'r rhifyn hwn yn ganfed rhifyn o GYMRU'R PLANT; a phan fydd yn nwyllaw y darllenwyr, byddant wedi cael can thifyn o hono. Prif y meiddials obeithio ar y dechreu y cai fywyd mor hir. Ond y mae plant Cymru wedi rhoddi croesaw iddo, ac y mae y canfed rhifyn yn mynd i fwy o gartrefi na'r un rhifyn o'i flaen. Ni ddilystyrwyd ef gan neb; y mae beirdd goreu Cymru wedi addasu eu hawen at ei neges, y mae ein llenorion mwyaf medrus wedi cyfoethogi ei dudalennau. Y mae'r Wasg wedi cil-wennu arno rai gweithiau. Y mae plant Cymru yn dal yn ffyddlawn iddo. A dyma'r pethau wna olygydd yn hapus. Gyda diolch cynnes am bob cynhorthwy, penderfyna wneyd ei oreu i wella'r rhifynnau o hyd,—eu gwneyd yn bur, yn ddyrchafol, yn ddyddorol, yn eglur, ac yn feddylgar. Nid oes gormod i'w wneyd i blant Cymru yn y dyddiau hyn.

W. J. W. Yr oedd y demryn wedi ei gysodi, ond y mae yn *Nhrysorfa y Plant* y mis diweddfaf. Y mae'r ddau gyhoeddiad yn aml yn mynd i'r un teuluoedd, ac felly ni wiw i'r ddau gyhoeddi yr un pethau.

DAFYDD. Yr wyf yn ystyried "Holwyddoreg Dirwestol" y Parch. H. Hughes, Briton Ferry, yn un pwrpasol iawn,—yn syml, yn chwaethus, a'i bris yn geiniog.



MENTONE.



CYMRU'R PLANT.

CYF. IX.

EBRILL, 1900.

RHIF 100.

BLODAU.

DYMA ddechreu Ebrill, ac y mae Mai yn dod. Bydd ein daear yn dryfrith o flodau cyn hir,—hen gyfeillion yn dod i wenu arnom eto.

Mae plant yn hoff o flodau, a pha ryfedd? Y mae blodau yn rhan o'u chware yn yr haf. "Cywion gwyddau" y galwem ni flodau'r helyg pan yn blant; oherwydd y mae eu plu melynion esmwyth yr un fath yn union a'r siwt o ddillad gyntaf gaiff y cywion gwyddau bach. Llauer chwareuasom â dant y llew helyd, pan fyddai ei hadau adeiniog yn barod i ehedeg. Dywedai wrthym faint oedd o'r gloch. Os ai ei holl hadau i ffwrdd wrth inni anadlu arno unwaith, byddai yn un o'r gloch; os ar ddau anadliad, byddai'n ddau o'r gloch, ac felly ymlaen. Y mae'n amlwg wrth yr enw sydd arno yn Saesneg, sef "blow ball," fod plant y Saeson yn gwneyd yr un defnydd o hono,—

"Her treading would not bend a blade of grass,
Or shake the downy blow-ball from his stalk."

Y mae pen y glaswenwyn yn debyg iawn i ben cyrliog plentyn, a chlywaf y bydd plant yr Alban yn chware â'r blodau gleision hyn fel pe baent blant. Clywais fod blodeuyn rhyfedd yn tyfu yn yr Iwerddon. Dywedir y bydd bechgyn drwg, pan yn ofni'r gansen yn yr ysgol, yn mynd at y blodeuyn hwn, ac yn cydie ynddo gan ddweyd,—

"Os na wnei di rwystro'm chwipio
Tynnaf di o'r gwraidd yn chwim."

Ond nid oedd blodyn felly yn tyfu pan oeddwn i yn fachgen bach. Pan fyddai'r ysgol wedi torri, ym mis hafaidid Gorffennaf, ein prif bleser fyddai crwydro hyd y rhosydd, i gasglu'r blodeuyn alwem yn "fari hen wr," neu "frws y barbwr," gan rwbio ein gwynebau a'i ben esmwyth.

Mae llawer o chwedlau plant ynglŷn â blodau a llawer o chwareuon. Pwy a edrydd rai ohonynt wrthym?

EGLWYS HEB BERSON.

YNG Nghapel Garmon, flwyddyn yn ol, yr oedd bachgen bychan yn byw, a'i holl fryd ar drin y byd yn y baw. Llawer cerydd a gafodd wrth ddychwelyd i'w gartref am fod ei ddillad yn llawn o glai a rwbwl, ond yn hynny o beth yr oedd ei hoff chware ef.

Byddai yn cymeryd pleser neillduol wrth gymysgu pridd a chlai ger rhyw lyn bychan oedd yn agos i'r pentre, ac yn difyrru ei hun wrth ffurfio y gymysgedd yn anifeiliaid, tai, coedydd, &c., &c., fel yr oedd pawb yn synnu at ei fedrusrwydd, ac yn proffwydo fod "John Gibson yr ail" yn cychwyn o'r pentre gwledig. Weithiau caech weled cynllun tŷ bychan ganddo, gardd o'i flaen a hwyrach wr a gwraig wrth y drws,—er feallai y byddai yn anhawdd i chwi ddeall y cynllun heb iddo ef eich cyfarwyddo.

Un tro, yr oedd wedi cymeryd yn ei ben i wneyd eglwys, ac yn ol ei feddwl plentynaidd ef wedi llwyddo. Yr oedd wedi gosod y seti yn rhesi, ac wedi rhoi rhyw fodau ynddynt yn debyg i ddynion. Yr oedd wedi gwneyd pulpud a changell,—a phan yn brysur wrth ei waith, pwy ddigwyddodd ddod heibio ond Mr. Pritchard, y person. Yr oedd yn adnabod John yn dda, ac yn hysbys o'i duediadau. Gofynnodd iddo,—

"Wel John, beth wyt yn wneyd heddyw?"

"Gwneyd eglwys heddyw, Mr. Pritchard."

"Gad i mi weld," ebe ynte.

"Dyma'r drws," ebe John, wrth ei fodd yn egluro, "dyma'r seti, dyma'r bobol, dyma'r pulpud, dyma'r gangell."

"Lle mae'r person gen ti, John?"

"O," ebe John, "'does gen i ddim digon o *faw* i wneyd person." Yr oedd y clai wedi darfod.

Byddai Mr. Pritchard yn hoff o adrodd y stori, er mwyn dangos diniweidrwydd yr hogyn. Feallai fod rhai o hen blant Capel Garmon fedr adrodd beth ddaeth o John a'i gynlluniau plentynaidd.

Cambrian Gallery.

J. T.

GWALIA WEN.

I.

O'R gwledydd prydfferth, swynol sydd
Yn gorwedd is y nen,
Nis gall yr un fy swyno i
Fel gwalia Wen.

II.

Melus yn wir i f'ensaid i
Yw swn cerddoriaeth llon;
Melysach im yw murmur pur
Afonydd hon.

III.

Beth all roi imi syniad uwch
Am allu mawr fy Nuw,
Na hen fynyddoedd Gwalia Wen,—
Lle 'rwyf yn byw?
P. D.

IV.

Mae meddwl am y dyddiau gynt,
A'i hanes clodwiw hi,
Yn creu rhyw yspryd newydd yn
Fy nghalon i.

V.

Ond perl disgleiriad Gwalia Wen,
A'i choron wychaf yw—
Yr awydd a'i nodwedda hi
I foli Duw.

VI.

A phan yn niwedd dyddiau f'oes
Y daw fy nhaith i ben,
O, am i mi gael beddrod bach
Yng Ngwalia Wen!

J. H. M.

I'W DDARLLEN YN DDIFYFYR.

HEDDYW gwelais frân yn cnoi tybaco 'roedd y dyn meddw
'roedd Shon yn bwyta malwod sydd greaduriaid heinyf yw
ambell i fachgen yr eliffant sydd yn anifail gwan yw cath Penbryn
sydd dŷ mawr yw'r tren sydd yn mynd ar y môr mae llongau yn
nofio ar y tir mae trefydd yn Affrica mae rhyfel rhwyg plant bach y
rhennais yr afal chwerw yw wermod melus yw mêl du yw huddygl
poeth iawn yw tân glo sydd yn fwn coch yw gwaed mochyn sydd
greadur glân iawn yw Huw Owen sydd dad i fuwch mae dau gorn
dafad sydd yn greadur diniwed fel llew bydd dyn yn dyfod o'r
dafarn bydd iâr yn dodwy wyau dŵr sydd yn ddiodyd gan gi mae
cynffon aur sydd werthfawr i'r arth mae cywion llygod sydd yn
bwyta ceirch Dafydd sydd wâs i aderyn y tô mae asgell arian
sydd i'w gael yn y ddaear mae pobl dduon yn India mae CYMRU'R
PLANT yn dyfod allan bob mis mae Dydd Nadolig yn ŵyl i'r llyffant
mae traed pren yw defnydd y gadair.

Llanfair Puwl Gwyngyll.

JOHN H. ROBERTS.

MEIRCH UCHELBRIS.

GWERTHWYD un o geffylau y diweddar Dduc Westminster am
37,500 gini mewn arwerthiant. "Flying Fox" oedd ei enw;
pedair blwydd oed oedd. Prynnoidd Tywysog Cymru farch o'r
enw "Vane," teirblwydd oed, am 4,400 gini. Am bedwar ar bym-
theg o feirch cafwyd £74,312.

AR OL Y FRWYDR.

(DARN I'W ADRODD.)

UST! Ust! Adseinia udgorn rhyfel dros y wlad,—
 Mae iasau byw yn ysbrydoli'r dorf i'r gâd;
 Gwel mor fawreddog ydyw'r llu banerog llon,—
 Mae ardderchowgrwydd yn pelydru ar bob bron;
 Tywynna gwên foddhaus fel heulwen lawn o swyn,
 Yn swm gwefreiddiol miwsig, ar bob gwyneb mwyn;
 Mewn hwyf breuddwydiol, gwel pob un ei hun yn dod
 O'r frwydr,—a'r wlad yn gwlawio arno flodau clod;
 "Ymlaen," medd y cadfridog, ac ymlaen yr a,
 A'r milwr syth, calonnog, hoew ufuddha.

O, clyw'r magnelau'n rhuo fel ystorm daranau,—
 Bytheiriant eu dialedd lliidiog o'u mynwesau;
 Fel erydr gwae a dinistr popeth bron a rwygant,
 Ac ar gynefin teyrn galanas mae'u gogoniant;
 Mae genau miloedd o rych-ddrylliau'n awr yn poeri
 Heb baid gawodydd trymion, marwol o fwledi;
 Yn swm gweryriad meirch,—y cleddyf ar ei union
 Fyn dorri'i syched mawr yng ngwaed calonnau dynion;
 Yn llu mileinig, milwr rydd i filwr ddyrnod,—
 O, gwel. Ai dynion sydd yn ymladd draw fel llewod?
 Ar hyn crechwena'r llu, a elwir mwy yn arwyr,—
 Clyw, "Buddugoliaeth" fel taranfollt rwyga'r awyr;
 O, wallgof echryslonrwydd! dynion wedi meddwi
 Ar dywallt gwaed cyd-ddynion fathrant yn garneddi.

Mae'r milwyr yn dod adre wedi brwydro'n hir,
 O olwg galonrwygol! Pwy ddarlunia'r gwir?
 Mae'r goes ar ol gan un, ei fraich gollasai'r llall,
 Ac ambell fachgen ieuanc mwyach fydd yn ddall;
 Cledd gofid rwyga galon llawer mam a thad,
 A'u hiraeth chwilia am ryw fedd mewn estron wlad;
 Pwy rifa pa sawl plentyn bach amdditad sydd;
 A phwy esbonia gyfrol siomiant gweddwon prudd?
 Gruddfanna'r wlad dan feichiau anhawdd iawn eu dwyn,—
 Try rhyfel yn ddiffaethwch bob paradwys fwyn.

O Frenin Heddwch, torred gwawr y bore tawel,
 Caiff heulwen hedd dywynu heb ystormydd rhyfel.

*Y Bala.*RICHARD AB HUGH¹.



MISS KATE OWEN,
Athrawes.

PLANT CYMRU.

MISS DAVIES,
Prif Athrawes.

CXXVII. PLANT PENRHYN DEUDRAETH.

YSGOL PENRHYN DEUDRAETH.

Y MAE i'r ysgol hon ei hanes, fel pob un. Ar y llaw dde i'r darlennydd gwelir Miss Davies, Ysgol Feistres. Un o Ddinbych yw Miss Davies, ac y mae yn meddu ar ddawn eithriadol i addysgu, ac yn hoff iawn o blant. Enilla yr ysgol y *grant* uchaf ers blynnyddoedd, ac y mae ol llafur Miss Davies a'i hathrawesau i'w weled yn amlwg ar y plant. Ar y llaw chwith saif Miss Kate Owen, Athrawes.

R. R. J.

Pentref mawr gwasgarog yw Penrhyn Deudraeth, rhwng siroedd Meirion ac Arfon. Chwarelwyr yw ei brif breswylwyr; y mae Ffestiniog yn uwch i fyny yn yr un dyffryn. Cafodd y lle ei enw oddiwrth ei safiad, sef penrhyn yn ymestyn i'r môr yng nghwr Bau Tremadog, rhwng y Traeth Mawr a'r Traeth Bach. Fel pob ardal lle mae llawer o chwarelwyr, y mae digon o fywyd llenyddol a chrefyddol yn y Penrhyn, ac y mae cyfarfodydd llenyddol llewyrchus wedi bod mewn bri yno.

DIAL SAMGAR AP ANATH.

YSTORI O'R HEN AMSER GYNT.

"Ac ar ei ol ef y bu Samgar mab Anath; ac efe a darawodd o'r Philistiaid chwe channwr ág irai ychen; yntau hefyd a waredodd Israel."

hb
LLYFR Y BARNWYR, iii. 31.

YMHELL, bell, yn ol, yn agos i fil a hanner o flynyddoedd cyn geni'r Iesu, glaniodd dwy genedl o gyfeiriadau gwahanol yng ngwlad Canan. Daeth un o'r dwyrain, gan groesi'r Iorddonen ar gyfer Jericho; a'r llall o'r gorllewin, gan hwylio o ynys Capthor,—a elwir gennym ni heddyw yn Creta,—a gwnaethant eu cartret ar lain o iseldir ar lan Môr y Canoldir. Tybir i'r ddwy gychwyn o'r Aifft tua'r un adeg, yng nghanol cyffro symud, ond anhebyg iawn oeddynt mewn popeth. Pobl ffroenuchel, bendeifgol, a milwrol oedd y Philistiaid. Nid oeddynt yn barod i dderbyn argraffiadau newyddion, ond yn awyddus i roddi llaw ewyllysgar i bob ymgais a geidw fyd mewn tywyllwch, ac a rwystra ledaeniad gwybodaeth a doethineb. Tra gwahanol oedd yr Israeliaid. Pobl wledig oeddynt hwy, a fuont am gyfnodau meithion yn fugeiliaid, ond a ddeuent yn awr, wedi dod i dir ffrwythlawn Canan, yn amaethwyr. Gwylaidd, ofnus, a gwerinaidd oeddynt, yn rhy hawdd eu denu gan newydd bethau, ond er hynny yn awyddys i feithrin gwareiddiad a diwylliant.

Ceir amryw o genhedloedd ereill yn y wlad, ac yn eu plith yr Hethiaid. Collwyd eu hanes am ganrifoedd. Erbyn heddyw ceir ychydig o oleuni arnynt. Dywedir iddynt fod yn genedl hynod o ddiwylledig, yn teyrnasu ar diriogaethau eang, ac yn cael eu cynhyrfu gan amcanion goruchel. Pan ddaeth yr Iddewon i'r wlad yr oeddynt bron wedi darfod. Ychydig o weddill ohonynt a gaed yn y gogledd oddiamgylch Libanus.

Un o'r rhain oedd Samgar, mab Anath. Berwai hen feddyliau a thraddodiadau cynhyrfus cewri ei hynafiaid yn ei wythienau, a phan glywodd am y ddwy genedl newydd a ddaethant i'r wlad, gadawodd ef a'i deulu weddill ei lwyth, gan ymsefydlu a gwneyd eu cartref, wedi deall eu neges, ar gwrr gwlad yr Israeliaid. Rhoddodd heibio arfau duwies Anath, a throdd hwynt yn offer amaethyddol. Ymgymysgai â'r Iddewon, gan holi eu hanes a myfyrio ar eu cyfreithiau a'u crefydd; ac ar yr un pryd triniau ei ffarm yn ddiwyd, gan ddarparu ar gyfer ei deulu. Gwna fasnach eang â'r Cananeaidd crwydrol a dramwyent o'r Aifft i'r dwyrain, ac, yn raddol, aeth yn gyfoethog, ac yn wr o fri a dylawad.

Heb fod ymhell oddiwrtho yr oedd Gaza, dinas yn perthyn i'r

CYMRU'R PLANT.

1.

Philistiaid, ac wrth ei weled yn llwyddo, anfonodd brenin Gaza ato ryw ddiwrnod gan ddelsyf arno wneyd cynghrair âg ef yn erbyn yr Israeliaid. Gwrthododd Samgar gyda dirmyg wneyd dim âg ef. Gwylid ef mewn canlyniad gan y Philistiaid. Tachwedd, a chydag ef amser hau, a ddaeth. Tyfodd yr egin ac addfedodd y cnwd, a phan oedd Samgar ar fin cael y llwyth olaf o dan do, daeth lluoedd y Philistiaid, gan ei ddwyn ymaith i'r ddinas gerllaw.

Caled iawn y bu ar Samgar ar ei ran ei hun, ond caletach ydoedd edrych ar ei hen fam a'i wraig a'i blant yn dioddef. Rhedai o'r tŷ weithiau rhag clywed swm ei rai bach yn dolefaïn am fara. Ceisiai, er mor anhawdd, ddal yn amyneddgar.

Blwyddyn ar ol blwyddyn, hauwyd yr had a gai oddiwrth yr Israeliaid ei gymdogion, gan ddisgwyl y blinai'r Philistiaid. Mis ar ol mis porthai yr anifeiliaid, gan hyderu y deuai y masnachwyr i'w prynnu. Ond fel cloc deuai y Philistiaid drachefn a thrachefn, gan gymeryd yr ydau pan yn barod i'r ydian, a'r anifeiliaid, wedi iddo eu pesgi ar gyfer y farchnad. Pe cawsai'r yd a'r peisgrawn, y cynwreiddiau a'r perlysiâu eu dyfetha pan newydd eu hau, a'r anifeiliaid eu cymeryd ar hanner eu pesgi, haws o lawer fusasai dioddef. Ond anhawdd ydoedd dal o dan brinder a newyn heb obaith am lawnder am fisoedd. Eto, amyneddgar a fu Samgar. Gwelodd ei dad yn marw gan edliw iddo eu tynnu o'u cartref yn Libanus, a'i fam yn darfod wedi torri ei chalon. Gorfu iddo gladdu pob un o'i blant bach, na adewid arnynt cyn iddynt farw ond esgryn a chroen. O'r diwedd, bu farw ei wraig, a gadawyd Samgar fel pelican yr anialwch ar ei ben ei hun.

Cododd drannoeth gan ddechreu aredig y tir. Rhaid oedd gwneyd rhywbeth rhag mynd yn wallgof. Nid ffrwythlondeb y tir sydd yn ei boeni mwyach, nac ystad y farchnad, ond awydd DIAL. Gwthiodd o dro i dro, er mwyn ei geraint, ddigofaint cyflawn ei tynwes i lawr. Llawn yw ei enaid bellach o ysbryd dial, ac nid oes eisïâu ond cyfle i'w yrru fel saeth i ganol ei elynion. Ond sut? Pryd? Pa le? Yr amser a wawriodd, a pharod yn awr yw y dyn ar gyfer y gwaith. Daeth cwmni o Philistiaid fel arfer i ddisgyn arno. Llawn ydynt, canys dydd gwyl yw iddynt. Ni chredant fod perygl ger llaw. Aredig y tir y mae Samgar ac irai ychain yn ei law. Erfyn lled beryglus, wyth droedfedd o hyd, wedi ei flaenllymu yn un pen i yrru'r ychen, a'i agor allan fel cun enfawr y pen arall i lanhau yr aradr, yw'r irai ychain. Gwyliai Samgar y Philistiaid, er cymeryd arno fod yn ddisylw ohonynt. Gwel hwynt yn agoshau at y tŷ gwag,—yn wag mewn canlyniad i'w difrod hwy yn y gorffennol. Ar y ffordd sathrent fedd ei dad a'i fam. Cenydd hwynt yn chwerrthiin yn gellweirus tra yn dangos i'w gilydd orffwysfannau ei

wraig a'i blant. Gormod yw hyn iddo. Tyr rhwymau gochel-garwch, a gyrrir ef gan ddigofaint llawn ei enaid a fyn erbyn hyn weithio i fyny. Rhuthrodd arnynt, yn gryf yng ngysfawnder ei achos, a danfonodd hwynt i farn ar dde ac ar aswy. Taflodd hwynt i gellau anweledig, lle na cheir oleuni byth na chysur i neb, a gadawodd eu cyrff ar wyneb y maes yn ymborth i gigfrain.

PLANT A'R RHYFEL.

YN y rhyfel alaethus sy'n fyfnu yn Affrig, y mae plant yn dioddef llawer. Pan oedd ein gynnau yn tanio ar fyddin ffodig Cronje, cyn iddi roddi ei harfau i lawr, yr oedd llawer o blant bychain ym myddin y Boeriaid, wedi dod i edrych am eu tadau. Cloddid tyllau yn y ddaear i'w cuddio rhag y llosgbelenau; a gorfod i lawer tad gloddio bedd i'w blentyn yn y rhyferthwy ofnadwy hwnnw. Pan gymerwyd hwy'n garcharorion, yr oedd mwg ffaidd y *lyddite shells* wedi melynau eu gwallt a chochi eu gwynebau.

Y mae'r Boeriaid yn gwarchae ar Mafeking ers misoedd. Y mae yno lawer o blant,—gwynion a duon,—ac y mae'n galed iawn arnynt. Y maent gyda'u mamau mewn ogof yn y ddaear. Y maent yn marw beunydd, o ddiffyg lluniaeth, a cherrir hwy allan i'r fynwent fechan gerllaw wedi nos, i'w claddu. "Y mae mynwent y plant, ger noddfa'r gwagedd, yn ehangu o hyd,"—dyna'r newydd prudd olaf glywais.

RHAI O HWIAN GERDDI Y DE.

PEDOLI, pedoli, pe dinc,
Mi fynna i bedoli pe costie i mi bunt;
Pedol a ho'l, o dan y dro'd ol,
Pedol yn eise, o dan y dro'd ase.

Gyrru, gyrru, 'sha ffair Rhos,
Mynd cyn dydd, 'nol cyn nos.

Shinc a Pŵnc a finnau
Mynd i ffair y pinnau;
Dod yn ol ar gefn y frân,
A phownd o wlan am ddimau.

CYMRU'R PLANT.

ARWRIAETH YR ISELDIROEDD.

IV. ERASMUS.



COPGLOFN ERASMUS,
YN ROTTERDAM.

ARWRIAETH yw prif nodwedd hanes yr Iseldirwyr. Hwy fu'n tywallt eu gwaed tros ryddid mewn ugeiniau o frwydrau. Hwy heriodd allu Spaen a'r Chwyls a phob erlidiwr. Ond yr oedd bywyd tawel Erasmus mor arwrol a bywyd yr un o'i gydwladwyr, er na fu ef ar yr arteithglwyd nac mewn brwydr. Yn ei oes ef yr oedd yr Eglwys yn cau'r Beibl rhag

y bobl. Agorodd Erasmus ei ddalennau i'r bobl, er gwaethaf holl alluoedd Ewrob, gan ddweyd mai ynddo et y gwelid Iesu Grist.

Ganwyd Erasmus yn Rotterdam. Daeth i Rydychen yn 1498 i ddysgu Groeg. Yr oedd y pryd hynny yn ŵr ieuanc deg ar hugain oed,—ei ruddiau'n welw a'i lygaid yn bwl oherwydd ei ddwysfyfyrdod,—a'i holl enaid ar dân gan awydd rhoi'r hanes am yr Iesu i'r byd.

Yn Lloegr cafodd gwmni y rhai oedd yn paratoi'r ffordd i'r Diwygiad Protestanaidd,—Colet a Syr Thomas More. Aeth y tri yn hoff iawn o'u gilydd; ac anaml y gwelwyd tri mor hygar ynghyd. Yr oedd Erasmus yn ofnus a swil, yn enwedig os gofynnid iddo fynd i dai rhai o uchelwyr y wlad. Ryw ddydd gofynnodd More iddo a ddeuai i dŷ gydag ef. Aeth Erasmus; ond synnai, wedi cyrraedd yno, at wychder y lle. Deallodd toc fod More yn mynd ag ef i edrych plant bach y brenin Harri VII. Dyna lle'r oeddynt, yn dwr o Gymry bach glân, oll ond Arthur yr hynaf, yr hwn oedd yn

cadw llys yn Llwydlo ar ororau Cymru. Yr oedd Harri yno, daeth wedi hynny yn frenin Harri VIII.; yr oedd Margaret yno, daeth wedi hynny yn frenhines yr Alban; yr oedd Mary ac Edmund yno hefyd,—oll yn blant chwareus diniwed.

Yn 1500 gadawodd Erasmus Loegr; yn 1505 daeth yn ol i edrych am More; yn 1506 aeth i'r Eidal; yn 1510 y mae yn ol yn nhŷ More, yn ysgrifennu llyfr. Yn y flwyddyn honno sefydlodd Colet Ysgol St. Paul, lle y dymunai i'r ysgolheigion godi eu dwylaw bychain i fyny bob bore mewn gweddi drosto ef.

Yn 1514 aeth Erasmus i Basel, hen dref enwog ar un o drotwydd y Rhein, i argraffu y Testament Newydd. Yr oedd hwn i fod yn y Groeg gwreiddiol, yn union fel y llefarnod yr Iesu ef. A chyd hynny yr oedd cyfieithiad diwygiedig i'r Lladin, fel y gallai mwyafrif dysgedigion Ewrob gael y Testament mewn iaith ddeallent. Tra yr oedd am ddwy flynedd yn dwyn y Testament trwy'r wasg, codwyd cri yn ei erbyn. Yr oedd yr Eglwys wedi rhoddi ei sel, meddai'r mynachod penboeth, hyd yn oed ar gamgyfieithiadau yr hen Feibl. Mwy na hynny, dywedid ei fod am agor y Beibl i'r werin. Ar hynny synnwyd Ewrob gan lais rhyfedd. Dyma eiriau Erasmus,—

“Feallai mai gwell yw cuddio dirgeledigaethau brenhinoedd y ddaear; ond am Grist, ewyllysiodd ef i'w ddirgeledigaethau gael eu gwneyd mor gyhoedd ag y mae modd. Yr wyf yn ewyllysio fod y wraig wannaf yn cael darllen yr efengylau, a darllen epistolau Paul. A dymunwn weled eu cyfieithu i bob iaith, fel y deallir hwy, nid yn unig gan Ysgotiaid a Gwyddelod, ond gan Dyrchiaid a Saraseniaid. Yr wyf yn hiraethu am weled yr amaethwr yn canu rhannau ohonynt wrtho ei hun wrth ddilyn yr aradr, a'r gweydd yn eu mwmlan i swm ei wrenol, a'r teithiwr yn lladd blinder ei siwrne â'u newyddion.”

Peth newydd iawn oedd hyn, a pheth rhyfygus yng ngolwg dynion. Y werin ddall anwybodus,—pa reswm agor dirgeledigaethau Duw iddynt hwy? “Yno y gwelir yr Iesu,” ebe Erasmus, a dyna ei unig ateb. Clywodd mynachod Cologne fod Erasmus yn wael yn 1518, a'i fod yn marw; a llawenychasant uwch eu gwin. Ond cafodd fyw digon i weled ail argraffiad o'r Testament.

Y tro diweddaf yr oeddwn yn Rotterdam, yr oeddynt yn hwylio at glirio lle i gofgolofn i'r arwr hwn. Erbyn hyn y mae wedi ei gosod; a daw lluoedd i syllu ar y gofgolofn, gan gofio am fyfyrdd a hiraeth Erasmus.

CYDWBOD BRENIN. Yr oedd Sior y Trydydd yn frenin galluog a chydwybodol, ond heb oddefgarwch. Collasom yr Amerig oherwydd ei draha; ond yr oedd yn wrd gymeriad pur. Ryw ddiwrnod gwelodd ei enw ei hun yn y Llyfr Gwedd Gyffredin, “ei dra grasusol fawrhydi.” Croesodd y geiriau allan, a rhoddodd y gair “pechadur” yn eu lle i gyd.

Y SWLLT ARIAN.

(UN O STRAEON HANS ANDERSEN.)

YR oedd ryw dro swllt newydd ddod o'r Mint. "Hwre!" ebai ef, "dyma fi'n troi allan i'r byd!" ac allan ag ef. Gwasgai'r plant ef a dwylaw cynnes fel eu calon, a'r cybydd a chrafanc afaelgar; troai'r hen gryn lawer arno cyn ei ollwng, ond gollyngid ef gan yr feuauc yn rhwydd rwydd. Swllt arian oedd, heb ynddo ond ychydig gopr, ac yr oedd wedi bod am flwyddyn yn teithio'r byd,—hynny yw, yn y wlad lle ganed ef.

Ond ryw ddiwrnod aeth am dro i wlad bell; efe oedd yr olaf ym mhws ei feistr, ac ni wyddai hwnnw ei fod yno nes ei deimlo rhwng ei fys a'i fawd. "Gwarchod fi, dyma swllt!" ebai ef; "wel, o'r gore, fe gaiff ddod i'm canlyn," a'r swllt a dinciai mor falch oedd. Yr oedd iddo ddigon o gymdeithion dieithr, a'r rheiny yn mynd ac yn dod; ond ar ol yr arhosai'r swllt bob amser, a phrofa'i hynny nad oedd yr un fath a phawb.

Aeth amryw wythnosau heibio, a'r swllt wedi crwydro ymhell; prin y gwyddai, yn wir, ymhle'r oedd. Dywedai'r lleill wrtho mai o Ffrainc ac o'r Eidal y deuent hwy. Dywedai un ohonynt wrtho eu bod yn awr yn y dref hon, a thrachefn yn y llall; ond ni olygai hynny ddim iddo ef. Pa amgyffred fedrai ef gael o'r wlad a deithiai, ac yntau'n nghadw o hyd yn y pwrs? Ond ryw ddiwrnod, dyma'r pwrs yn cil-agor, a'r swllt yn brathu ei ben allan o hono. Ddylasai ef ddim gwneyd dim o'r fath; ac fe'i cospwyd am ei chwilfrydedd, fel y cawn weld yn union deg. Llithrodd allan i boced y trowsus, a deuwyd ag ef i lawr hefo'r dillad i'w glanhau, ond wrth eu cludo draws y neuadd, disgynnodd y swllt ar lawr heb i neb ei glywed na'i weld.

Bore drannoeth ymadawodd y boneddwr, ac arhosodd y swllt ar ol nes y gwelwyd ef ac y gyrrwyd ef allan yng nghwmni tri darn arall. "Braf iawn," ebe'r swllt, "yw troi allan i'r byd a gweld lleoedd ac arferion newyddion."

"Sut swllt, os gwn i, yw hwn?" dyna'r geiriau glywodd nesaf. "Wel, chymer neb mo hwn; un drwg ydyw, ac nid yw'n dda i ddim."

Ie; dyma lle dechreua helynt y swllt, tel yr adroddir ef ganddo ef ei hun.

"Un drwg! Yn dda i ddim!" Aeth y geiriau fel saeth i fy mron," ebe'r swllt. "Mi wyddwn fod fy nhinc yn eithaf, ac argraff fy ngwyneb yn iawn. Mae'n rhaid eu bod yn methu, neu mai nid am danaf fi yr oeddent yn son. Ond myfi oedd ganddynt mewn goiwig! Myfi oeddent yn alw yn dda i ddim. Rhaid imi ymadael

â hwn liw nos, ebe'r gŵr a'm perchenogai; a'm newid gawn liw nos, a'm hymlid gawn liw dydd. 'Un drwg, yn dda i ddim. Rhaid ymadael ag ef gynted ag y gellir.'

"Byddwn yn crynnu bob tro y rhoddid fi'n ddirgelaid, fel pe bawn yn arian da. Ys truan o swllt oeddwn i! Beth dalai fy mod yn arian, na'm gwerth, na'm hargraff, os na chyfrifid mohonynt yn ddim? Nid yw neb yngolwg y byd ond yr hyn y dewisa'r byd ei alw. Peth ofnadwy, mae'n rhaid, yw meddu cydwybod euog, a chudd-rodio llwybrau ceimion, os wyf fi, sy'n ddiniwed, yn teimlo mor druenus wrth ddim ond *ymddangos* yn anonest. Pob llaw newydd a'm cyffyrddai, byddwn yn crynnu; canys rhagwelwn fel y lluchid ac y dilornid fi megis swp o gelwydd a thwyll. Daethum unwaith i feddiant hen wreigan dlawd, a'm cafodd yn dâl am ddiwrnod o galedwaith, ond a fethai gael ymadael a mi'n lân. Chymerai neb mohonot; ac yr oeddwn yn boen gwirioneddol i'r hen wraig. 'Bydd orfod arnaf dwyllo rhywun â'r swllt yma,' ebe hi; 'waeth beth fo'm hegwyddor, ni fedraf fforddio cadw swllt drwg. Caiff y pobydd cytoethog ei gymeryd; medr ef ddal y golled; er nad yw hynny, ychwaith, yn iawn.' 'Ac felly rhaid imi'n awr lygru cydwybod yr hen wraig yma,' ebe fi, gydag ochenaid. 'Ai tybed, mewn difrif, imi newid cymaint yn fy henaint?' Cynhygiodd yr hen wraig fi i'r pobydd, ond yr oedd ef yn rhy lygadog i'm derbyn, a thafodd fi yn ei dannedd yn ol. Fedrai hi gael dim bara yn fy lle, ac yr oedd yn ofid calon gennyf feddwl mai fy mathu wnaed i beri helbul i ereill; myfi, yr hwn fum, pan yn ieuanc, yn ymtalchio cymaint yn fy ngwerth! Aeth y wraig a fi adref, gwnaeth olwg garedig arnaf. 'Na,' ebe hi, 'ni thwyllaf neb ag ef; mi a'i tyllaf, fel y gwelo pawb mai un drwg yw,—ac nid oes wybod yn y byd, o ran hynny, nad all fod lwc ynglŷn âg ef et! Rhedaf linyndrwy'r twll, a chaiff geneth fach y tŷ nesaf ei wisgo am ei gwddf.'

"A'm tyllu wnaed. Nid peth braf yw cael eich tyllu drwyddoch, ond rhaid dygymod â'r hyn fo er ein lles. Fe'm gosodwyd ar linyndrwy'r twll, am wddf yr eneth fach, yr hon a'm cusanai, ac a wenai arnaf, ac a adawai imi bwyso ar ei mynwes wen.

"Pan ddaeth hi'n ddydd, cydiodd y fam ynnof, ac yr oedd ganddi hithau, mi welwn o'r gore, ei syniad ei hun yn fy nghylch. Wedi torri'r llinyn â'r siswrn, dododd fi mewn finegr nes y troais yn wyrdd, ac wedi llanw'r twll, aeth a fi ar fwrdd yr hap-chwareuwr. 'Fe gawn weld yn union deg,' ebe hi, 'a yw ef yn swllt lwcus ai peidio.'

"O mor sal y teimlwn! Meddyliais y torrwn ar fy nhraws; gwyddwn y dirmygid fi, ac mai'm lluchio ymaith gawn, yngwydd pob darn arian arall, oedd yn falch o'i argraff a'i werth. Ond fe'm harbedwyd rhag hynny o waradwyd, canys tafodd y casglwr fi'n

ddiofal i blith y lleill. Wn i ddim enillais i rywbeth a'i peidio; ond un peth a wn i, imi bore' drannoeth gael fy nghondemnio fel yn ddiwerth, a'm danfon allan i dwyllo drachefn. Y mae'n fwy gwaradwydd nag a fedr neb ddioddef, yn enwedig pan fo'ch amcan a'ch cymeriad yn dda.

"Bum am flwyddyn gron gyfan yn cael fy ymbil o law i law, a neb yn fy nghroesawu, eithr pawb yn gwneyd cilwg arnaf. 'Doedd gan neb ymddiried ynnof fi, na chen innau ymddiried ynnof fy hun na neb arall. Amser ofnadwy oedd hwnnw. Cefais ryw ddiwrnod fy rhoi i dramorwr a fentrodd fy nghymeryd fel un da, ond pan geisiodd ymadael a mi, unwaith eto mi glywn y geiriau,—'Yn dda i ddim!'

"'Fel un da y cefais i ef,' ebe'r dyn. Edrychodd arnaf yn fanylach, a daeth ei wyneb yn wên i gyd. 'Arhoswch chwi,' eb efe, 'un o'n harian ni'n hunain yw hwn; swllt gonest a da,* wedi ei dyllu gan rywun fel pe bai'n un drwg. Fu erioed beth ryfedded. Mi a'i dodaf o'r neilltu, ac a af ag et adref hefo mi.'

"Aeth ias o lawenydd drwy 'mron. Cawswn ty ngalw yn onest a da, ac yr oeddwn i gael fy nwyn adref, lle'r adwaenai pawb fi, ac y gwyddai fy mod yn arian pur. Buaswn yn barod i wreichioni gan lawenydd be bai hynny yn fy natur; ond gadawaf i'r dur wneyd hynny, canys arian ydwyf fi.

"Fe'm lapiwyd mewn darn o bapur gwyn, rhag ofn ymadael â mi hefo'r lleill; a phan darawsom ar un o'n cydwladwyr, danghoswyd ac uchel ganmolwyd fi. Dywedai'r ddau fy mod yn 'ddyddorol;' sut bynnag y medr un fod yn ddyddorol heb fedru yngan gair.

"O'r diwedd, cefais fy hun adre'n ol, a'm holl helbulon ar ben. Ymgasglai'm cyfeillion o'm hamgylch gan fy mod yn ddernyn o arian da. Ni chefais ragor o ddim anymunol, er fod twll wedi ei dorri trwof fel pe buaswn yn ddrwg. Wna hynny fawr iawn o wahaniaeth, a minnau'n gwybod nad wyf fi ddim. Dysgwn ddiodde'n wrol, a daw popeth yn iawn yn y man. Yr wyf yn credu hynny," ebe'r swllt.

* Feallai na wŷr pob plentyn ddim pam y mae swllt mor uchel ei gymeriad yn ei wlad ei hun, ac mor ddirmygus mewn gwledydd ereill. Yn ein gwlad ni cyfnewidir sofran aur am ugain swllt arian. Ond, er pan sefydlwyd hynny, y mae'r aur wedi prinhau, a'r arian wedi amlhau. Pe toddech ugain swllt yn awr, ni chaech ond rhyw dair rhan o bedair o sofran am yr arian sydd ynddynt. Ond rhoddwn ni i'r swllt ei hen werth; a rhaid ei gymeryd fel newid yn ol cyfraith i fyny at ddwy bunt. Ond ar y cyfandir, edrychir arno yn ol ei werth gwirioneddol ansicr, a gwrthodir ef fel newid. Y mae'r sofran, oherwydd prinder aur, yn codi yn ei gwerth; pe toddid hi, byddai o'r un werth ag ydyw gyda'r argraff aeni; felly cymerir hi ymhob man.

ARWEINYDD GENETH FACH.

AETH geneth fechan ar grwydr un diwrnod oddi cartref pan yn chwarae yn ddifeddwl; a phan aeth yr haul yn isel, nis gwyddai yn y byd pa ffordd i droi ei gwyneb. Ac fel y mae yn beth cyffredin yn y fath amgylchiad, cymerodd lwybr hollol groes. Machludodd yr haul, a daeth y ser i'r golwg; ac O fel yr oedd yr un fechan yn ocheneidio pan yn meddwl am ei mham. Er estyn ei breichiau bychain mewn gofid, a galw eilwaith ac eilwaith am ei mam i ddod ati, nid oedd neb yn ateb. O fel y buasai calon y fam yn neidio o lawenydd pe clywsai gri yr un anwyl; ac fel y buasai yn rhedeg i'w chofleidio yn ei mynwes.

Ond dod yn dywyllach dywyllach yr oedd cysgodau yr hwyr, a Nellie dlawd a cholledig yn teimlo fod yn rhaid iddi dreulio y nos yn yr anialwch yn unig. O mor erchyll ac mor llawn o ofn oedd ei meddwl. Yn y fan clywodd swm, a dealodd mai brefiad oen bach ydoedd, wedi crwydro ymhell oddiwrth ochr ei fam fel hithau. O mor beraidd oedd y brefiad yng nghlustiau Nellie, nes cynyrchu ynddi obaith newydd; a gyrrodd ymaith bob ofn colli, fel pe buasai yn gwybod pa ffordd i fyned. A throes Nellie at yr oen, yn benderfynol i'w dilyn pa le bynnag yr elai. Yr oedd yn rhaid iddi redeg yn gyflym i gadw i fyny â phranciau hoenus traed ei harweinydd bychan; ond yr oedd ofn a gobaith wedi rhoddi iddi adenydd. Ni arosodd yr oen yn un man nes cyrraedd y gorlan lle yr oedd yr holl ddeaddell yn llechu. Ac yna edrychodd Nellie o'i hamgylch, ac adnabu gymydoggaeth ei chartref. O mor ddiolchgar oedd yr eneth fach pan yn neidio i fyny y grisiau, ac yn rhedeg i freichiau ei mam, a'r rheini yn ei gwasgu at galon lawn o gariad.

Blant anwyl Cymru, a ydych chi yn adnabod llais yr Oen a fu farw ar Galfaria un prydnewn yn eich lle? A ydych yn dilyn ei gamrau? A yw ei lais yn eich tynnu yn nes i'r cartref tragwyddol yn y nef?

BUGAIL.

"DOS DITHAU HYD Y DIWEDD."

(DANIEL xii. 13.)

"Dos dithau hyd y diwedd, a sefi yn dy ran;"
A dal o hyd i gofio fod Duw o blaid y gwan.

"Dos dithau hyd y diwedd" yw llais y nefoedd fry;
I blentyn Duw 'n y diwedd pob peth yn hyfryd sy'.

"Dos dithau hyd y diwedd," ymlaen trwy rwystrau fyrdd;
Nes cael dy hun yn ddiogel yng ngwlad y palmwydd gwyrrd.

J. H. o GROESOR.



“A cherddai yntau fel tywysog yn eu canol.”

MR. MOODY AC ADAR Y CWTERYDD.

DYWEDIR fod ambell ŵr mŵr sanctaidd fel y cilia pechaduriaid rhagddo, gan adael popeth yn ddistaw o'i flaen ac ar ei ol. Pan gerddai'r diweddar Mr. Moody drwy heolydd y dinasoedd, ymgasglai'r plant carpiog,—“adar y cwterydd,”—yn llawen o'i gwmpas. Ymwasant ato, cerddent gydag ef, a cherddai yntau fel tywysog yn eu canol. “Deuwch ataf fi,” yw gwahoddiad yr Iesu; tynnu ato, nid dychryn, y mae'r gwir sanctaidd.

GAUAF AR LAN MOR Y CANOLDIR.

IV. BARN YMWELWYR.

“**M**AE'N rhaid eich bod wedi blino ar ein hanes yn y Riviera,” meddwn pan oedd y plant, fel arfer, yn erfyn am storï.

“Wel, ni chysgodd dim un ohonom y tro diweddf,” atebai un llais bach; a chan nad oes yn bosibl cael gwell prawf o'r dyddordeb a gymer plant bach neu fawr mewn unrhyw beth na'r flaith eich bod yn gallu eu cadw ar ddihun, mi fentraf y tro hwn roi ryw ddychymyg i chwi, nid yn unig o Bordighera brydferth, ond o'r bobl a gyfarfyddom yno.

“Roedd mor gynnar yn y tymor fel nad oedd dim ond dwy foneddiges ac un boneddwr wedi cyrraedd yno o'n blaen. Meddyg Seisnig oedd y boneddwr; a'i wraig, fel y meddyliem ni ar y pryd, oedd un o'r boneddigesau. Ychydig iawn o siarad fu rhyngom pan y cyfarfyddom ar *lunch* y diwrnod cyntaf, ond yr un noswaith ar giniaw fe ofynnodd un ohonom os oeddent yn *cyclo*. ‘O, llawer iawn,’ oedd yr ateb; ac ar ol hyn bu llawer iawn o siarad.

“Ond cyn i mi geisio disgrifio rhai o'r cymeriadau y daethom i gyfarfyddiad â hwy, mi garwn adrodd ymddiddan a glywais flynyddau yn ol rhwng Ysgotes a Saesnes ar y cwestiwn o wneyd cyfeillion o'r bobl fyddwch yn gyfarfod mewn *hotels* pan yn teithio. 'Roedd y flaenaf wedi teithio llawer, ac yn un o'r rhai oedd yn credu mewn cael cymaint ag oedd yn bosibl allan o bob peth.

“‘Peidiwch a chyfaddef na fyddwch chi byth yn siarad â neb,’ meddai, pan oedd y Saesnes wedi hanner fostio nad oedd hi byth yn siarad â neb, nac yn gadael i ereill siarad â hi. ‘Y peth cyntaf fydda i yn neyd pan y byddaf wedi eistedd wrth y bwrdd yw gweyd rhywbeth fydd yn rhoi cyfle i'm cymydog ar y dde neu'r aswy i ymddiddan â mi.’

“‘Beth pe baech yn digwydd eistedd yn nesaf at rywun mewn sefyllfa lawer yn uwch na chi, ac iddynt eich *snubio*.’

“‘Mi ddisgwyliwn i foneddiges weld mai boneddiges oeddwn inne hefyd. Mae Thackeray wedi gweyd na fedr duces fod yn ddim uwch na boneddiges; ac felly, os mai dim ond ei theitl sydd yn gwneyd y gwahaniaeth rhyngom a'r ddamwain ei bod yn aelod o deulu uchel, mae gennyf hawl i gymeryd yn ganiataol na fyddai yn un diraddiad iddi i newid meddyliau â mi, gan nad yw y pethau pwysig yma yn ffafrio yr uchel un tipyn yn fwy na'r isel. *Snubio*, meddai, gyda nid ychydig o ddirmyg, ‘fedr neb eich *snubio* os byddwch chi yn gwrthod cymeryd y *snu*.’

“Nawr, mi gawsom engraifft neillduol o hyn mewn ymddygiad hen wraig fach hynod iawn fu yn treulio tair wythnos neu fis yn yr Hotel Belvedere yn ystod ein arhosiad. 'Roedd Mrs. Ronald-Green yn siaradwraig ddiidor, a'i gŵr o'r ochr arall yn agos iawn bod yn fud. Byddai Mrs. Green ar *lunch* neu giniaw yn siarad â'i chymydoges yn y dull yma. Dyma y noswaith gyntaf, cofiwch, ond 'roedd ganddi ddigon i ddweyd am fis.

“‘Mae fy ngŵr a minnau wedi dod yma o Alassio, ac yn hollol ddieithr i'r lle,’ meddai. ‘Ydych chi yn ystyried yr hotel yma yn un gysurus?’

“‘Mae y mwyaf cysurus yn y lle,’ atebai y foneddiges wrth ei hochr.

“‘Mae y mwyaf cysurus yn y lle,’ meddai Mrs. Ronald-Green, gan droi at ei phriod, ac adrodd air yn air eiriau y foneddiges.

“‘Mae y goginiaeth bob amser yn dda?’

“‘Bob amser.’

“‘Y goginiaeth bob amser yn dda,’ adroddai eto.

“‘Mi feddyliwn fod eglwys Seisnig yma.’

“‘Oes.’

“‘Oes, mae eglwys Seisnig yma.’

“‘A'r caplan yn bregethwr da?’

“‘Da iawn.’

“‘Mae'r caplan yn bregethwr da iawn.’

“Roedd aunt Marian a finnau yn eistedd gyferbyn, ac yn sylwi nad oedd y foneddiges yn gwneyd dim ond ateb y cwestiynau, ac yn gwneyd hyn mewn dull swta iawn, a Mr. Ronald-Green yn gweyd ‘Hym’ fel ateb; ond ymlaen yr ai yr hen wraig heb un cymhelliad ond yr awydd am wybodaeth, ac fel yr oedd yn gadael y bwrdd, clywem hi yn gweyd wrth y foneddiges,—

“‘Diolch yn fawr i chi am eich caredigrwydd yn rhoi i mi gymaint o *information*, fe fydd yn llawer o gynorthwy i ni.’

“Yr oedd auntie a finnau yn gweyd yn ein calonnau,—‘Da iawn, Mrs. Ronald-Green, yr ydych yn gwrthod cymeryd y *snub*.’ Yn wir, yr oedd yn amlwg i bawb nad oedd yr hen wraig yn delio dim mewn *snubs*, yn y ffordd o'u rhoi na'u derbyn. Daethom yn adnabyddus â hi ar ol hyn, a chawsom tod ganddi stôr o'r hyn a alwai yn *information*, ac mai ei dull yn unig oedd yn anymunol.”

“Gawsoch chi eich *snubio*?” gofynnai y plant.

“Ddeallais i ddim i mi gael; ond feallai mai un o'r un dosbarth a Mrs. Ronald-Green wyf, a'm bod yn eu gwrthod. Beth bynnag am hynny, mi allaf ddweyd wrthy ch fod auntie Marian a finnau yn siarad â phawb, nid yn mynd allan o'n ffordd i wneyd hynny,

cofiwch, ond pan y deuem i gyffyrddiad agos â hwy. A chan mai pobl ar eu taith i lefydd ereill,—rhai yn aros rhyw wythnos neu bythefnos,—fyddai yn eistedd gyferbyn a ni ac wrth ein hochr ar bryd bwyd, cawsom lawer iawn o fudd ac o bleser, a dim ond ychydig iawn o boen, oddiwrth ein harferiad.

“Un diwrnod, pan aethom i lawr i ginio, mi gawsom fod boneddiges yn eistedd gyferbyn a ni oedd wedi gwisgo mewn dull od iawn. Roedd ganddi am dani ryw fath o *academical gown* du, gyda llewys mawr gwyn, cap ar ei phen o *lace* mor dyn a chap nos, ond fod dau bin aur mawr iawn yn sefyll allan uwchben ei chlustiau. Daethom i'r penderfyniad mai boneddiges o Holland oedd, gan ein bod wedi gweld llawer iawn yn gwisgo yr addurniadau aur yma yn eu capiau yn y wlad honno. Ond wedi i ni fynd i'r *drawing-room*, a'i chlywed yn siarad Seisneg fel Saesones, dechreuasom ymddiddan, a fu yn ddifyr iawn. Ar ei ffordd gartref yr oedd i Alassio, lle yr oedd wedi bod yn byw am ddeuddeg mlynedd. Siaradai yn uchel am yr Eidaliaid, a dywedai ei bod wedi astudio eu cymeriadau yn eu cartrefi, a'i bod yn teimlo fod ganddi hawl i roi ei barn am danynt.

“‘Maent mor frwnt,’ meddai Saesnes, gan roi barn un oedd wedi bod dair wythnos neu fis yn y wlad.

“‘Yn llawer mwy glanwaith na Saeson o'r un dosbarth,’ atebai Mrs. Wyndham.

“‘Esgusodwch fi,’ meddai y meddyg, Dr. Yorke, wrth weld fod y Saesnes yn edrych braidd yn ffroen uchel, ‘dyna fy marn innau ar ol ugain mlynedd o brofiad.’

“‘Mae eu gwelyau gymaint yn lanach,’ meddai boneddiges arall, gan roi gair i mewn. Wrth wrando arnynt yn pleidio yn bur boeth, ac yn mynd i mewn i bethau mwy pwysig hyd yn oed na glanweithdra corfforol, daeth i'm meddwl eiriau Mark Twain, y gall estron dynnu darlun o'r allanol,—hynny yw, y tai, y golygfeydd, y bobl,—ond mae yn amhosibl iddo ddarlunio yn gywir y mewnol,—meddyliau, teimladau, enaid a bywyd y genedl. Myntumia y gall estron fyw flynyddau a blynyddau lawer mewn gwlad ddieithr, ac astudio y cymeriadau yn fanwl, heb allu rhoi syniad cywir ohonynt; dim ond drwy *unconscious absorption*, cymeryd pethau i mewn fel y gwna plant heb yn wybod iddynt, y gellwch ddeall yn drwyadl bethau dyfnion bywyd.

“Y rheswm paham yr ydym yn caru syniadau Mark Twain yw oherwydd fod auntie Marian a finnau wedi dioddef llawer ar law Saeson fydd yn mynd i Gymru am dair wythnos neu fis, ac yn dweyd wrthym, wedi iddynt ddod yn ol, fath pobl yw y Cymry. Digon yw dweyd na fyddem ni byth yn eu hadwaen.”



PLANT CYMRU. CXXVIII. RHAI O GYMRY DYFFRYN CLWYD.

YSGOL SABBOTHOL SARON.

SAIFF capel Saron uwch ben Dyffryn Clwyd, ar un o lechweddau iach mynydd Hiraethog. Y mae yma lawer o blant a phobl ieuainc yn yr ardal dawel hon sydd yn hynod ffyddlon gyda'r Ysgol Sabbothol. Yr oedd nifer y tystysgrifau yn yr Arholiadau Sirol a Cherddorol yn dangos fod yma lafur mawr. Ar yr ochr chwith, yng ngwaelod y darlun, gwelir yr arolygwr gyda cherdyn yn ei law. Y mae y diaconiaid yn y rhes uchaf uwch ei ben. Ar y dde gwelir y Parch. T. E. Williams, B.D., y gweinidog.

Mae'r capel o fewn pedair milltir i dref Dinbych. Adeiladwyd ef yn 1826.

D. R.

Drwg gennyf fod y darlun mor fychan. Camgymeriad y cerflunydd oedd; dylasai wneyd y darlun i ddod ar hyd, yn lle ar led, y tudalen.

Caiff darluniau ysgolion Sabbothol gymaint o groesaw a darluniau ysgolion dyddiol,—yn gyfan neu yn ddosbarthiadau. Byddwn yn dra diolchgar am hanes pob ysgol Sabbothol hefyd,—mor fyr ac mor gynhwysfawr ag sydd bosibl. Rhydd hanes un ysgol weithgar dda ynni newydd i ddwsinau o ysgolion ereill.

“Heibio'r aeth y gauaf blin.”

Y Geiriau o *Drysorfa'r Plant*, gan

E. ROBERTS, LLANFAIRFECHAN.

Y Gerddoriaeth gan

R. WILLIAMS, PORTH DINORWIG.

DOH Aḃ.

}	s_1 :d	t_1 :d	l_1 : t_1 :d	r m :—	f : r : m :d	f : r : m :d
	m_1 :s ₁	s_1 :s ₁	l_1 : l_1	s_1 :—	s_1 :s ₁	s_1 :s ₁
	l. Heibio'r	aeth y	gau - af	blin,	Dar - fu	dydd y
	d : m	f : m	d :d	d :—	r : t_1 :d	r : t_1 :d
	d_1 :d ₁	r_1 : m_1	f_1 : f_1	d_1 :—	s_1 :d	s_1 :s ₁

}	r :—	s_1 :—	s_1 :d	t_1 :d	l_1 : t_1 :d	r m :—
	fe_1 :—	s_1 :—	m_1 :s ₁	s_1 :s ₁	l_1 : l_1	s_1 :—
	ddryc -	in,	Dar - fu	tym - or	oer - aidd	hin,
	r : l_1	t_1 :—	d : m	f : m	d :d	d :—
	r_1 :—	s_1 : f_1 : m_1 : r_1	d_1 :d ₁	r_1 : m_1	f_1 : f_1	d_1 :—

}	f : r : m :d	f : r : m :d	r :—	d :—	m :s : fe :s	d : m
	s_1 :s ₁	s_1 : s_1 :d	t_1 :—	d :—	s_1 : l_1 : s_1	s_1 :d
	Rhew ac	eir - a	ger -	win;	Blod - au	haf sydd
	r : t_1 :d	r : t_1 :d	f :—	m :—	m : re : m	m :s
	s_1 :d	s_1 :d	s_1 :—	d :d	d :d	

}	l :s	r :—	m :s : fe :s	d : m	fe :—	s :—
	d :d	t_1 :—	s_1 : l_1 : s_1	s_1 :d	l_1 : t_1 :d	t_1 :—
	ar y	ddôl,	Rhos a	li - li'n	tyf -	u;
	f :s	s :—	m : re : m	m :s	r :—	r :—
	f_1 : m_1	s_1 :—	d :d	d :d	r :—	s_1 :—

}	s_1 :d	t_1 :d	l_1 : t_1 :d	r m :—	f : r : m :d	f : r : m :d
	s_1 :s ₁	s_1 :s ₁	l_1 : l_1	s_1 :—	s_1 :s ₁	s_1 : s_1 :d
	Daeth y	gw - cw	et - o'n	ol,	Yn y	llwyn i
	d : m	f : m	d :d	d :—	r : t_1 :d	r : t_1 :d
	m_1 :d ₁	r_1 : m_1	f_1 : f_1	d_1 :—	s_1 :d	s_1 : d : m_1

{	r	:-	d	:-		s	:-	.,l	s	:-	.,l	s	.,l	:s	.,l	s	:s ₁ .	
	t ₁	:-	d	:-		Tra	la	la	la	la	la	la	la	la	la	la	la	
	s ₁	:-	d	:-		d	d	:d	.	d	d	:d	.	t ₁ .	:t ₁ .	t ₁ .	t ₁ .	:t ₁ .
	gan	-	u.			Tra	la	la	,	tra	la	la	,	tra	la	tra	la	la
	f	:-	m	:-		m	m	:m	.	m	m	:m	.	f	:f	f	f	:f
s ₁	:-	d	:-		d	d	:d	.	d	d	:d	.	r	:r	s ₁ .	s ₁ .	:s ₁ .	

{	s	:-	.,l	s	:-	.,l	s	.,l	:s	.,l	s	:r	.	d	r	:m	r	m	:f			
	tra	la	la	la	la	la	la	la	la	la	la	la	la	d	t ₁ .	:d	t ₁ .	d	:t ₁ .			
	d	d	:d	.	d	d	:d	.	t ₁ .	:t ₁ .	t ₁ .	t ₁ .	:t ₁ .	d	t ₁ .	:d	t ₁ .	d	:t ₁ .			
	tra	la	la	,	tra	la	la	,	tra	la	tra	la	la	tra	la	la	tra	la	la	tra	la	la
	m	m	:m	.	m	m	:m	.	f	:f	f	f	:f	m	f	:s	s	s	:s			
d	d	:d	.	d	d	:d	.	r	:r	s ₁ .	s ₁ .	:s ₁ .	m	r	:d	f	m	:r				

{	m	f	:s	.,l	s	:-	f	l	:s	.f	m	.s	:m	.d	r	:-	d	:-
	d	d	:d	.,d	d	:-	d	t ₁ .	:d	.t ₁ .	d	.s ₁ .	:s ₁ .	.d	t ₁ .	:-	d	:-
	tra	la	la	la	la	la	la	tra	la	la	la	la	la	la	la	la	la	la
	s	.,l	:m	.,f	s	:-	l	r	:m	.f	s	r	:m	.s	f	:-	m	:-
	d	.,l	:s ₁ .	.,f	m ₁	:-	f	.,f	:m ₁ .	.r	d	.,t ₁ .	:d	.,m ₁	s ₁	:-	d	:-

2 Clywsom lais yr hedydd bach
 Yn y bore'n pyncio,
 Canu 'roedd â chalon iach,
 Galw pawb i ddeffro;
 Galw, galw, 'roedd o hyd,
 Canu wrth fynd i fynd,
 Dweyd yr oedd ei bod yn bryd
 I bob cysgadur godi.
 Tra la la, &c.

3 Sibrwd wnaeth yr awel fwyn
 Ar ei thaith ryw ddiwrnod,
 'N ddistaw bach, yng nghwr y llwyn
 Fod yr haf yn dyfod;
 Clybu'r ffrwd yng nghwr y coed,
 Ran o'r stori honno;
 Galwodd hithau'n fwyna 'rioed,
 Ar y blodau i ddeffro.
 Tra la la, &c.

4 Ysbryd blin y gwynt a'r gwlaw,
 Gyda'i olwg rhyndlyd,
 I'r gorllewin gillai draw,
 Rhedai am ei fywyd;
 Chwarddai'r haf ar ael y bryn,
 Dawnsiai wrth fodd ei chalon,
 A daeth i chwareu i lawr y glyn
 Gyda'r rhos a'r meillion.
 Tra la la, &c.

Y CENHADWR IEUANC.

ODDEUTU pum mlynedd ar hugain yn ol, mwy neu lai, 'roedd bachgen boneddigaidd ei wedd, a gwisgi ei gerddediad, yn cael ei fagu yn un o brif datarndai Beddgelert, a hynny yn swngloddest oferwyr. 'Roedd llawer, heblaw plant y pentref, yn hoff o Richard Gray, oherwydd y tynerwch oedd yn ei natur. Mynychai ysgol y Llan, a thynnai sylw neillduol yno fel un cyflym ei amgyffredion. Ystyridd ef yn ben-campwr am addysgu, ac enillai glod i'w ysgol.

Daeth tro ar fyd, a symudodd ei rieni o Feddgelert i gadw tafarn arall i dref Caernarfon. Felly, gorfu i Richard Gray ganu'n iach i'w hen gymdeithion yng ngoror yr Eryri; ond gan ei fod yn arfer a pharchu pawb, nid oedd ganddo elyn yn gwgu ar ei ol. Cyn hir, collodd ei fam, a magodd hynny ryw ddwysder yn ei ysbryd. Ni fu ef ei hun yn ymyrryd dim erioed â'r diodydd meddwol, gan ei fod yn eu cashau.

Nid oedd eto wedi taro ar waith penodol i ennill ei damaid, ac un noswaith, tra yn dilyn ei orchwyl fel marciwr i twrdd *billiards* yn un o westai y dref, argyhoeddwyd ef yn drwyadl o rwymedigaeth dyn i Dduw, wrth weled ieuencid yn colli cymaint ar eu hamser, gwerthfawr gydag adloniant di-fudd a darfodedig. Gadawodd y chwaraeule, gan y credai fod rhyw waith arall pwysicach wedi ei dorri iddo ef yn y byd, ond fod y llen heb ei chodi i'w ddangos yn eglur iddo y pryd hwnnw. Aeth yn aelod o eglwys Moriah, a ffurfiodd restr o addunedau distaw yn ei galon, a'u nod i gyd i fod yn fwy penderfynol i fyw buchedd lân, a bod yn ddefnyddiol a gweithgar gydag achos crefydd. Cymerodd y Beibl fel prif faes ei astudiaeth, a darlennai weithiau safonol yn ymwneyd â'i esbonio.

Pan ddaeth Arholiad Sirol yn Arfon, yn 1887, cymerodd Richard Gray ei le fel yr uchaf ei farciau o'r holl ymgeiswyr. Daeth hyn ag ef i'r amlwg fel un o alluoedd disglaer, a mawrygid y newyddion da am ei yrfa, yn enwedig gan ei hen gyfeillion ym Meddgelert.

Wrth ddarllen a myfyrio, canfu fod gwaith yn ei aros yn China, sef egluro fengyl dysgeidiaeth Crist i'r brodorion ofergoelus a mympwyol. Wedi llafurio i gymhwyso ei hun, derbyniwyd ef i fyned allan i genhadaeth y wlad honno. Priododd, a chychwynnodd at ei orchwyl pwysig fel cawr o dan fendithion. Yn nhrefigliad amser, cyhoeddwyd aml i lythyr tarawiadol oddiwrtho yn mynegi ei hanes gyda'r Chineaid,—fel y llwyddai i ddysgu eu hiaith anhawdd, a'i bryder dwfn wrth ganfod eu tywyllwch. Ni ddychmygodd erioed, yng Nghymru, fod cymaint o drigolion heb glywed a chredu y wybodaeth am aberth y groes, yr hyn a gynyrchai fwy o

rym yn ei enaid i weithio dros ei Waredwr, a datganai mor llawen ydoedd wrth weled graddau o lwyddiant yn coronni ei ymdrechion yn eu mysg. Ond y mae ambell i ffaith syml am dano tra yno, yn guddiedig,—esiampiau o ragoroldeb ei gymeriad fel dyn a Chrïstion. Wele ddwy yn unig, o'm gwybodaeth i.

Un diwrnod, derbyniodd J. P. Jones, siop y Cwch Gwenyn, ym Mhorthmadog, lythyr hynod o China, yn dwyn yr enw "Richard Gray." Mynegai ei hanes fel gŵr ieuanc yn dechreu byw, ac yn dechreu ar waith cenhadol, ac erfyniai yn daer am ei weddiau ddyddiol drosto. Yna deuai adnod yn iaith China. Ond neges bennaf y llythyr ydoedd,—nad oedd yn hoffi bod yn nyled neb, hyd y gallai, a'i fod dan yr argraff nad oedd ei dad wedi talu am siwt o ddillad a brynnodd iddo ef tra'r oeddynt yn byw ym Meddgelert; a'i fod yn anfon 16 swllt i ddechreu talu am dani, gan orchymyn iddo anfon faint oedd yng ngweddill.

Yr oedd yr hen siopwr caredig wedi ei syfrdanu. Nid oedd yn gwybod am ei enw, ac yr oedd wedi llwyr anghofio'r ddyled, gan fod cymaint o amser wedi treiglo. Aeth i chwilio'r hen gyfrifon, a chanfu y ddyled, ac anfonodd i China y manylion, gyda dangosiad ei fod yn setlo y cyfan gyda chalon rwydd. Credaf iddo anfon y lleill yn ol hefyd yn anrheg, gan na welodd y fath onestrwydd arwrol yn ei oes.

Yr oedd hen ot galluog yn byw gyda'i chwaer ym Meddgelert,—un pur i'r pen. Arferwn ymweled âg ef yn aml, gan ei fod yn caru hynafiaethau, a chasglu creiriau. Un tro, pan agorais ddrws ei amgueddfa, gwelwn fod rhywbeth yn ddieithriol yn ei drem, ond estynnodd lythyr ag amlen fawr ar y bwrdd, gan hysbysu,—

"Dyma beth gefais heddyw oddiwrth Richard Gray o China." Agorodd ef gan fanylu,—*"Dyma fwndel o ddail te; dyma'r pader yn y Chinaeg; dyma lythyr; a rhywbeth arall."*

Roedd y llythyr yn faith, ac mewn llawysgrieten dlos, a phob llinell o hono yn cyffwrdd y teimlad. Ei brif genadwri ydoedd,—nas gallai ei gydwybod oddef i feddrod ei fam, fu mor anwyl o hono, fod yn dwmpath gwyrddlas ym mynwent Beddgelert; a'i fod yn deisyf arno brynnu carreg i gofnodi'r fan. Nid oedd arno eisiau iddi fod yn garreg ddrud; yr oedd o'i brinder yn anfon swm o arian i dalu am dani. Gwnaeth y got ei ddyledswydd gyda'r gotal mwyaf, a heddyw gwelir carreg fechan ddi-addurn wrth ystlys hen Eglwys y Santes Fair, yn siarad gwersi distaw, dwyfol, ar gariad plentyn at ei fam.

Cyn nemawr ar ol hyn, daeth y newydd trist fod y cenadwr ieuanc, duwiolfrydig, Richard Gray, wedi marw. Ac onid oedd yn paratoi popeth yn drefnus cyn ymadael?

Yr oedd digon o dalent ac ymroddiad efengylwr ynddo i wneyd gwaith teilwng, fel y cenhadon enwog Robert Mostat, William Carey, neu John Williams. Ond yr oedd gan ei Dduw waith arall yn ei aros ef pan ym mlodau ei ddyddiau. Esmwyth a thawel to'i hun ym mhriddellau China bell, hyd doriad gwawr y bore rhyfedd,—

“ Bydd dorau beddau y byd
Ar un gair yn agoryd.”

CARNEDDOG.

GWENYN AC EIRA.

(O erthygl gan R. MORGAN, *Cymru*, Mawrth.)

CHWEFROL 8FED. Rhewodd neithiwr yn galetach nag y gwnaeth drwy'r gauaf eleni. Y bore, pan godais 'roedd tymeredd fy ystafell wely, fel y danghosai'r gwresfesurydd, amryw raddau dan y rhewbwynt (*freezing point*). Edrychais drwy'r ffenestr. Bron na ddallwyd fi gan yr olygfa. 'Roedd ôd, newydd ei fwrw, yn gaenen glaerwen ar eira tridiau. A'r barrug! Blodeuasai y coed, flodau gwynion, mewn un noson, fel gwialen Aron. Ariannai yr haul, oedd eto dan linell y gorwel, goryn uchaf y Berwyn draw, ond yr oedd cysgod dros y gwaelodion. Yn union dringodd yr Huan-dros gaerau y dwyrain. Ymloewodd y dyffryn gwynglog o danaf, a gwenai llethrau cannaid y mynyddoedd pell. O flaen pelydr yr haul gwywai'r nosflodau eiddildws; wylai y coed wrth golli eu haddurn; a chryn-fflachiai eu deigr trybelid fel perlau, yma ac acw, ar y cangau oerlaith. Cyn hir gadawyd y wig, oedd gynneu'n ddel, yn llwyd a noethlwm, ond erys yr eira gwyn, oer, ar y ddaear o hyd.

Mae'n brydnawn heulog. At allan i'r ardd i edrych helynt y gwenyn. Pan fo'r haul yn ddisglaer fel hyn, hedant o'u cychod, heb wybod eu perygl, os gallant rywfodd gael lle i ddod allan. Ar y gair, wele gwch a'r tobyn, gauai y twll, wedi llithro ymaith, ar ddamwain. Daw'r gwenyn i'r rhiniog, a denir hwy gan yr haul i anturio i'r awyr. Ond mae yn rhy oer iddynt, Teimlant yn gysglyd gan annwyd; disgynnant yn swrth ar yr eira; codant drachefn pan glywant ei iâs, i syrthio yn ol iddo wysg eu cefnau, a marw, ymhen ychydig eiliadau, o fferdod. Gorwedd cyrff degau ohonynt ar y gwynlawr oddiamgylch.

Rhynna gwenyn mewn tymeredd is na 50° Fahr.; a threngant ar unwaith yn nhymeredd rhew ac eira.



PLANT CYMRU. CXXIX. CANGEN CLYNOG.

URDD Y DELYN.**Y RHEOLAU.**

1. Dysgu siarad ac ysgrifennu Cymraeg; darllen rhan o'r Beibl Cymraeg, neu ryw lyfr Cymraeg arall, bob dydd, ac ysgrifennu Cymraeg o'i gyfansoddiad ei hun.
2. Astudio hanes Cymru, a gwneyd ei oreu i godi ei wlad, fel y byddo Cymru fydd yn well na'r hen Gymru.
3. Dysgu canu'r delyn, os bydd hynny yn y cyrraedd; a dyagu alawon Cymreig.
4. Byw, hyd y gall, yn ol dysgeidiaeth yr hen Gymry gynt, mor bell ag y mae'r ddyysgeidiaeth honno'n un a dysgeidiaeth Crist. Y mae'r ddyysgeidiaeth honno'n gofyn purdeb, cariad at addysg, caredigrwydd at ddyn, addfwynder at greaduriaid direswm, iaith ddinolog.

Y MAE pob darlun o blant Cymru yn darawiadol; y mae y darlun uchod yn neillduol felly. Gwelwch fod aelodau Urdd y Delyn yn ardal enwog Clynog Fawr yn Arfon wedi eistedd i dynnu eu

Huniau y cofgolofn Eben Fardd. Hen athraw eu hysgol oedd ef. Yf pedd yn ychwaneg na bod yn athraw yng Nghlynog, yr oedd yn athraw i Gymru. Iddo ef, yn un, y mae priodoli'r gwaith ardderchog wnaeth ein cyfarfodydd llenyddol. Ac yn llenyddiaeth Cymru, pryd yr anghofir *Awdl Dinistr Jerusalem* ac Eben Fardd? A phwy a w'r na chwyd rhai tebyg iddo o blant Urdd y Delyn welir yn eistedd gerllaw ei fedd?

CYNNYDD YR URDD.

Gwelir fod yr Urdd yn cynyddu bob mis. Nis oes wythnos wedi mynd heibio, er pan ffurfiwyd hi, nad oes rhyw blentyn wedi ymuno â hi. Y mae'r cwestiynau lluosog fyddaf yn gael yn ei chylch yn dangos y dyddordeb deimlir ynddi.

Dalier sylw nad oes dim rheolau wedi eu gwneyd eto ond y rhai welir ar y ddalen flaenorol. Nis gellir gwneyd rhai newyddion ond gan yr holl Urdd. Ond gall unrhyw gangen wneyd ei rheolau ei hun; ar un amod, bid sicr, sef na bont yn anghyson â'r ychydig reolau cyntefig. Gellir cael y bathodyn oddiwrth y Golygydd am swllt,—*cost price*. Ond nid yw'n angenrheidiol i neb, ond a fo'n dewis, ei gymeryd.

Ysgrifennir yr uchod fel ateb i gwestiynau anfonwyd gan amryw.

AELODAU NEWYDDION.

1205. Howell Parry, Cadnant, Llandegfan.

Disgwylir enwau ychwaneg o blant Llandegfan, ac ardaloedd ereill yn Mon, ar fyrder. Nid yw plant "mam Cymru" ar ol mewn gwladgarwch.

ENNILL A GWARIO.

Y MAE Prydain Fawr yn talu miliynau o bunnau bob blwyddyn am nwyddau ddaw i fewn iddi yn ychwaneg nag a delir iddi hi am nwyddau'n mynd o honi. Os felly, os yw'n gwario mwy nag y mae'n ennill bob blwyddyn, onid yw'n mynd yn dlotach? Nag ydyw, oherwydd y mae'n cael cyfoeth heblaw am y nwyddau y mae'n werthu. Yn un peth, ca enillion ei llongau; oherwydd ei llongau hi sy'n cario y rhan fwyaf o nwyddau y byd ar draws y moroedd. A pheth arall, ca logau ei harian; oherwydd â'i harian hi y gwnawd ffyrdd haiarn y rhan fwyaf o'r byd.

Yn yr hen amser, tybid mai dyled gwlad oedd cadw cymaint o aur o'i mewn ag oedd yn bosibl. Ond yn awr anfonir yr aur i wledydd ereill i wneyd daioni; a thrysorwn, yn y wlad hon, y pethau mwyaf dymunol gynyrcha holl wledydd y ddaear.

Y GATH.

I. TRAED, LLYGAID, BLEW, BARF.



AWL cartref yng Nghymru fedr wneyd heb gath? Pur ychydig, yr wyf yn sicr.—Nis gwn fawr o'i hanes ond hyn,—ei bod yn un o brif gyfeillion dyn er yr oesau boreuaf. Tybir yn awr nad yw'r gath wyllt yn berthynas iddi hi.

A welsoch chwi rywbeth mwy tlyision rywbyrd na chathod bach? A beth sydd yn fwy chwareus na thair neu bedair ohonynt pan gânt bellen i'w pawenau?

Sylwch ar y gath yn cerdded. Y mae yn hollol ddistaw. Y mae cnawd meddal dan ei thraed, fel nas clywo ei hysglyfaeth hi'n dyfod. Bydd wedi dal llygoden cyn i honno wybod ei bod yn ymyl. Er cym-arni hi eisiau esgidiau newydd,—

aينت y mae'n gerdded, nid oes maent yn newydd o hyd.

Edrychwch ar ei gewinedd bachog,—dont allan o'r blew pan fydd eu heisiau. I ddal ei hysglyfaeth y mae gewinedd ei thraed blaen, pump ar bob troed. I ddringo y mae gewinedd ei thraed ol, pedair ar bob troed. Bydd gewinedd y traed blaen yn tyfu'n rhy gyflym weithiau, a dyna pam y bydd yn crafu coed neu draed bwrdd,—i'w byrhau.

A welsoch chwi lygaid cath yn y tywyllwch erioed? Maent yn fflachio fel tân byw. Maent wedi eu gwneyd i weled wedi nos yn gystal a liw dydd; gall gyfyngu neu ehangu y ganwyll yn ol y goleu.

Y mae ei blew yn feddal ac esmwyth, a bwria hwy yn raddol yn y gauaf. Ceidw hwy yn lân iawn, ac ni fyn eu gwlychu er dim, os medr beidio.

A welsoch ei barf? Blew hirion yw honno, yn estyn allan o'i dwy gern. Gyda'r blew hyn *teimla* pws i ei ffordd ochelgar trwy dyllau ar ol llygod yn y tywyllwch. Y mae'n bur ofalus o'i blew; ac os codwch hwy y ffordd chwith cyll ei thymer. Ni fuasech chwithau yn hoffi i neb dynnu eich gwallt y ffordd chwith. Ond peth rhyfeddaf cath yw ei thafod. Adroddaf i chwi am rhyfeddodau hon y tro nesaf.

GWLAD HUD.

(Casgliad o Ystraeon Hud o
bob gwlad.)

IV. ERYR TYNGED.

(Un o Ystraeon Hud India.)



YR oedd gŵr ieuanc o'r enw Ali wedi colli ei dad. Daeth i gyfoeth mawr, ond gwariodd y cwbl ar oferedd. O'r diwedd aeth yn dlawd iawn, a gorfod iddo fynd i setyll dan gysgod mur y farchnad, ymysg y llaturwyr, i ddisgwyl i rywun ddod i'w gyflogi. Bu yno'n hir, ni fynnai neb ei gyflogi oherwydd ei fod mor eiddil, a'i ddwyllaw mor wynion. Ond o'r diwedd wele ŵr prudd hen yn dod, ac yn ei gyfarch,—

“Fy mab, mi a'th gyflogaf. Mae deg ohonon yn ein tŷ ni. Cei ein gwasanaethu, cei gyflog da, a feallai yr enilli dy gyfoeth yn ol. Ond y mae un amod. Os gweli ni'n wylu, na ofyn y rheswm. Os gofynni y rheswm, gwae alaethus fydd i ti.”

“Fy arglwydd, mi a ufuddhaf.”

Prynodd yr hen ŵr ddillad costus iddo, ac aeth ag ef adre i dŷ

mawr, a'i furiau o farmor amrywliw a'i do o las ac aur. Yno gwelai naw o hen wŷr ereill, yn eistedd ar gyfer eu gilydd. Yn sydyn, clywid ysgrech eryr, a wylodd y deg hen wŷr yn chwew. Yr oedd ar dafod Ali ofyn pam, ond cofiodd ei addewid, ac ofnodd i wae ei gyfarfod.

"Fy mab," ebe un o'r hen wŷr, "dyma i ti ddeng mil ar hugain o ddarnau aur, gwaria hwy er ein cysur ni ac er dy gysur dithau, yn ol dy ddoethineb." A gotalodd Ali am bob peth.

Cyn hir bu un o'r hen wŷr farw, a chladdwyd ef yng ngardd y palas. Ac o hyd yr oedd ysgrech yr eryr anweledig yn gwneyd i'r lleill wylo. O dipyn i beth buont oll feirw, ond yr hwn a gyflogasai Ali. Un dydd clafychodd hwnnw, ac yr oedd yn amlwg ei fod yn glaf hyd angeu.

"Fy arglwydd," ebe Ali, "llawer nos a llawer dydd y bum yn ffyddlon iti. Ac yn awr, atolwg, dywed imi beth yw ystyr ysgrech yr eryr, a phaham yr wyl." "

"Fy mab," ebe'r hen wŷr yn llesg, "nis gallaf dy ateb. Yr wyf yn marw, cymer di yr holl gyfoeth. Y mae drws du ym mur y palas. Nac agor hwnnw, onide cei dithau glywed ysgrech yr eryr, a wylo ar hyd dy fywyd."

Bu farw'r hen wŷr, a chladdwyd ef gyda'r lleill, a daeth Ali yn berchennog y palas a'r cyfoeth.

"Lle mae'r drws du, tybed?" meddai wrtho ei hun. Cafodd ef ryw ddiwrnod. Yr oedd gwe pryf copyn drosto, a phedwar o gloion rhydlyd arno.

"Nid agoraf ef," meddai Ali, "ond beth, tybed, sydd y tu mewn iddo?"

Aeth y tu allan i'r mur, ond nid oedd yno ddim i'w weled. Ryw ddydd cafodd bedair allwedd, a gwelodd mai hwy oedd allweddau y pedwar clo. Bob dydd meddyliai am y drws du, a chryfhai ei awydd am ei agor. O'r diwedd dywedodd,—

"Rhaid i mi gael ei agor, nis gallaf ddal yn hwy. Tynged yw tynged, y peth a ddigwydd a ddigwydd. Paham, tybed, yr oedd yr eryr yn ysgrechian?"

Tynnodd y gwe pryf copyn ymaith, ac agorodd y drws du. Nid oedd yno ond mynedfa gul. Cerddodd ar hyd honno, a bu yn cerdded hyd-ddi am oriau. O'r diwedd daeth i'r awyr agored; ac wele, yr oedd yn sefyll ar lan afon. Yn sydyn, disgynnodd eryr mawr o'r awyr, gan roddi ysgrech a adwaenai yn dda. Cymerodd yr eryr ef yn ei grafaganu, a chododd ef i'r awyr. Cariodd ef am ddyddiau dros diroedd, ac yna dros fôr llydan glas. Gollyngodd ef ar ynys fechan yng nghanol y môr, ac yna diflamodd o'r golwg i'r awyr.

Tybiodd Ali mai marw o newyn ar yr ynys fyddai ei dynged. Ond toc gwelodd long fechan ymhell ar y dŵr. Yr oedd y llong o ifori, a'i hwyliau a'i rhwyfau o'r eboni duaf. Yr oedd rhes o dariannau aur tryloewon ar hyd ei hochrau. Ynddi yr oedd deuddeg genethig. Daethant i'r lan, rhoddasant twyd i Ali, gan ei gyfarch fel hyn,—

“Ti yw'r priodfab, ti yw'r brenin.”

Codasant ef i'r llong, a rhwyfasant am rai oriau. Yna daethant at lan gwlad oedd yn hyfryd fel paradwys. Glaniasant, a daethant i ddyffryn eang. Yno gwelent rywun coronog yn dod, mewn dillad brenhinol, ar farch porthiannus. Yna dylifai rhai tebyg, ond heb goron ar eu pennau, yn fyddinoedd lliosog o bob gyfeiriad.

“Rhian ydwyf,” ebe'r un goronog, gan godi ei helmet oddiar ei gwyneb prydfferth, “ac wele fy myddin. Merched ydynt i gyd. Merched yw'r llywodraethwyr a'r milwyr yma. Tyfino a chrasu, golchi a gwnio, glanhau a choginio yw gwaith y dynion yn y wlad hon.”

Rhoddodd y frenhines deg ei hun mewn priodas i Ali. Ac am flynyddoedd lawer, mewn perffaith ddedwyddwch, buont yn rheoli'r wlad. Ond yr oedd un amod i barhad y dedwyddwch. Yr oedd un drws yn y palas brenhinol nad oedd Ali i'w agor. “Os agorir ef, bydd yn rhy hwyr i ti edifarhau.” Ond daeth awydd anorfod arno wybod beth oedd y tu mewn. Agorodd y drws, a beth oedd yno ond eryr ei dynged. Ysgrechiodd yr eryr, cydiodd yn Ali, cododd ef i'r awyr, a gollyngodd ef ger glan yr afon lle y cafodd ef gyntaf. Bu'r dyn anedwydd yno'n hir, yn wlo am y wlad hyfryd gollodd. Yna trodd trwy'r fynedfa i'r palas, i ddihoeni yno ac i wlo yno, fel y lleill o'i flaen. A gwyddai pahan yr oeddynt yn wlo.

GEIRIAU'R DOETH.

BETH YW GWOBR UN A FO'N DWEYD CELWYDD? Peidio cael ei goelio pan fydd yn dweyd y gwir.

Y MAE BYDDIN O GAIRW, DAN ARWEINIAD LLEW, YN FWY PERYGL NA BYDDIN O LEWOD DAN ARWEINIAD CARW.

PRUN OREU, DEWRDER AI CYFLAWNDER? Cyflawnder; oherwydd, pe byddai pawb yn gyfiawn, ni buasai angen am ddewrder.

“Yr wyf fi o uchel dras,” ebe arglwydd sarhaus wrth weithiwr llwyddiannus, “yr wyt tithau'n codi o'r llwch.” “Yr wyf fi'n codi teulu i fyny o'r llwch,” oedd yr ateb, “yr wyt tithau'n tynnu teulu i'r llwch.”

Ni fyddai gwŷr Sparta yn gofyn beth oedd nifer eu gelynyion. Eu hunig gwestiwn fyddai,—“Pa le y maent?”

55 Cytfeiriad y golygydd yw.—OWEN M. EDWARDS, LLANUWCHLLYN, Y BALA.

ARGRAFFWYD A GETHRODDWYD GAN HUGHES AND SON, 56, HOPE STREET, WREKHAM

AT Y PLANT.

YR wyf yn gwybod fod llawer heblaw plant yn derbyn ac yn darllen y cyhoeddiad hwn. Yr wyf yn rhoi ambell ysgrif ynddo nas gall plant bychain iawn ei deall, ond disgwyliaf i rai mwy ei hesbonio yn fanylach iddynt.

Y mae amryw lyfrau yn cael eu cyhoeddi er mwyn plant bron bob mis. Llyfr bychan hylaw newydd ei gyhoeddi gan y Mri. Hughes, Gwrecsam, yw "Gemau Ceiriog i Blant," detholiad o ryw ddeugain o ganeuon mwyaf telynegol Ceiriog gan Mr. Edmund D. Jones, M.A., prif athraw ysgol sir yr Abermaw. Gwna werslyfr swynol i ysgol, a chydymaith diddan i bawb; chwcheiniog yw ei bris. Llyfr arall i blant yw "Holwyddoreg ar ddyddiau boreuaf Iesu Grist," gan y Parch O. J. Owen, M.A., Rock Ferry,—llyfr bychan atyniadol, clir, meddylgar, llawn o hoff adnodaau a phenillion. Cyhoeddir ef gan Mr. E. W. Evans, Dolgellau, am ddwy geiniog.

BLOCIAU, RHIFYNNAU, &c. Ymholer am y rhai hyn â'r cyhoeddwyf, 56, Hope St., Wrexham. Drwg gan y golygydd ddweyd nas gall fforddio amser, er gwneyd ei oreu, i ymohebu yn eu cylch. Y mae y rhan fwyaf o'r blociau ar werth am bris isel, ceir ef ond ymohebu â'r cyhoeddwyf. Nis gellir rhoddi benthg blociau; dengys profiad fod yn anodd eu cael yn ol yn brydlon, ac na fyddant werth fawr pan ddeuant. Y mae'r prisiau mor isel fel nad oes gan neb reswm teg dros ofyn eu benthg.

TONAU. Anfoner y rhai hyn oll i'r golygydd cerddorol,—L. J. Roberts, Ysw., M.A., Tegvan, Rhyl. Os na wneir hyn, gallant yn hawdd fynd ar goll.

DARLUNIAU. Yr wyf yn dra diolchgar am ddarluniau o ysgolion, plant, golygfeydd, creaduriaid dyddorol, &c., anfonir imi. Pan fydd hynny'n gyfleus, anfoner y photograffiau heb eu rhoddi ar garden galed; mae'n llawer haws eu hanfon trwy'r post felly, wedi eu rholio'n grwn.

BOB. Treiwhc ysgrifennu rhyddiaith. Mae gormod o lawer o feirdd yn y byd. Ni ddylai neb ysgrifennu barddoniaeth, os medr ymatal. Os barddoniaeth, rhaid cael darnau gwir dda, neu ni fedraf wneyd lle iddynt. Nid oes gennyf hawl, fel golygydd, i roddi unrhyw beth i mewn "o drugaredd;" nid wyf fi ond llais i'r derbynwyr i gyd.

MARGARET. Ie, "perl" yw ystyr eich enw. Chaucer oedd y bardd hoffai flodeuyn y *Marguerite*,—"llygad y dydd mawr" yw'r enw glywais i arno.

L. O. J. Y mae lliaws o hen enwau Cymreig ar leoedd yn Lloegr, megis London, Kent, Sinodun.

L. Buaswn yn dewis "Gweithiau Daniel Owen" fel y llyfr Cymraeg yn rhestr eich gwobr, a "Land and the Book" Thomson yn llyfr Saesneg.

SIAN. Daw'r blodau a ennwch i gyd i fyny drachefu yng Nghymru ar ol y ganaf caletaf. Gwerthir hadau tansi gan y maenachwyr hadau. Gellwch godi coed mafon duon a mafon cochion o hadau yn hawdd. Gallwn feddwl y tyf mefus ymhob plwy yng Nghymru.



LLYFR LLAWN O LUNIAU BLODAU.



CYMRU'R PLANT.

CYF. IX.

MAI, 1900.

RHIF 101.

MWYNDER YR HAF.

DYMA fis Mai,—y mis anwylaf yn y flwyddyn i blant a blodau. Mae'r tymhestloedd mawr wedi myned heibio, mae'r awyr yn gynnes, a gwên llawer blodeuyn yn adlewyrchu gwres hyfryd yr haul. Mae'r wenynen yn crwydro'n ddiwyd o flodeuyn i flodeuyn, gan furrur ei hapusrwydd. Mae'r adar yn cyrraedd yn ol, clywir llais y gwcw yn y wlad.

Mae plant y cymoedd yn mynd i'r ysgol dan ganu; clywch eu lleisiau dedwydd o bell. Y mae gan Mair Blaen y Cwm lyfr yn llawn o luniau blodau, ac y mae wedi adnabod llawer ohonynt hyd ochrau'r ffordd wrth ddod i lawr i'r ysgol ar fore Llun. Trodd heibio'r Dolydd, i ddangos ei llyfr i'w chyfeillion Enid a Blodwen. Yr oedd hi wedi dysgu mwy na hwy y bore hwnnw, oherwydd yr

oedd wedi codi o'u blaenau. Clywodd y gog, a gwelodd! hi yn ehedeg ar draws y Cwm. Yr oedd ei llyfr yn ei llaw, a thybiai fod hynny yn arwydd dda; oherwydd dywed yr hen bobl mai'r peth fydd rhywun yn wneyd pan glyw'r gog gyntaf, hynny fydd ei brif orchwyl ar hyd y flwyddyn. A thybiai Mair fach hapus mai gwaith mwyn fyddai syllu ar ddarluniau blodau drwy'r flwyddyn. Yr oedd, trwy gymorth ei llyfr, wedi adnabod enwau llawer o flodau bach tlyision oedd yn hen ffryndiau iddi. Gallai eu galw yn awr wrth eu henwau, a gofyn iddynt ym mhle yr oedd nyth y dryw a robin a'r asgell arian. Yr oedd ffordd Mair i'r ysgol yn hir, ond yr oedd yn dysgu cymaint wrth fynd a dod ag oedd yn ddysgu yn yr ysgol. A dyna pam yr oedd meddwl Mair mor gyflym.

Gadawer i'r plant fod yn yr awyr agored, yn casglu blodau a chware. Felly y cant wrid iechyd yn eu bochau a llawenydd bywyd yn eu llygaid. Felly hefyd yr egyr llygaid y meddwl, ac y caiff yr enaid faeth.

Ym misoedd yr haf, eithaf peth fyddai i'r athraw fynd a rhai o'i ddisgyblion allan i'r caeau,—ei holl ysgol os myn. Caiff ddweyd wrthynt beth yw enwau y gwahanol flodau, a dweyd wrthynt ar ba aderyn y maent yn gwranddo. Byddai Charles Kingsley yn mynd a phlant gerfydd eu dwylaw hyd y meusydd o amgylch Caer, i ddangos iddynt flodau ac adar. Dywedai un o'i hen ddisgyblion wrthyf gymaint yn llawnach a dedwyddach oedd ei fywyd oherwydd addysg Kingsley.

MIS MAI.

AR garlam ffy'r tymhestloedd blin,
Fu'n udo wrth ein drws;
Hyd lwybrau hedd a'i hyfryd hin,
Mis Mai deyrnasa'n dlws;
Mae'r ddaear mewn rhyw fantell lon,
Forwynol yn ddi-fai;
A gwena'n siriol ar ei bron
Y blodau,—gemau Mai.

A'i bwyntel aur, mae'r haul o'i sodd
Yn glasu'r bryniau ban;
A bywyd sy'n addurno bedd
Y gauaf ym mhob man;
Bu dwylaw rhewynt yn rhoi sel
Ar bopeth wrth ein tai;
Ond cynnes yw gwefusau mêl
Awelom mwynion Mai.

Y Bala.

Lle gynt gruddfannai'r storom gref
Fhangellai'r eira'n lluwch,
Mae'r hedydd bach, wrth riniof nef,
Dan ganu'n dringo'n uwch;
Mawl telynorion Anian lon,
A lifa'n fôr di-drai;
Cydganu wnawa i chwyddo ton
Hwyl diddig miwsig Mai.

Llaw dyner gobaith egyr ddrws
I balas hawddfyd mwyn;
A bendith sy'n difera'n dlws,
Ei diliau gyda swyn;
Mae ffynnon cysur heddyw'n llawn,
Fel llanw nad a'n llai;
Yn ngwledd mwynhad cydganmol
Felusder mwynig Mai. [gawn

RICHARD AB HUGH.



PLANT CYMRU. CXXX. PLANT BWLCH Y LLAN.

COR PLANT BWLCH Y LLAN.

DYMA ddarlun o gôr plant Bwlch y Llan, Ceredigion, yr ardal lle magwyd yr anfarwol Daniel Rowland. Plant amaethwyr gweithgar ydynt, rhai hoff o ganu hen alawon Cymru. Y maent oll yn aelodau o Ysgol Sul Bwlch y Llan,—un o ysgolion goreu y sir. Llafuriasant yn galed gyda'r canu, a holl feusydd llafur ereill yr Ysgol Sul, yn ystod y fiwyddyn ddiweddaf. Arweinydd ymroddgar y cerddorion ieuainc hyn yw Mr. D. Andrew-Evans, gan yr hwn hetyd y tynnwyd y darlun.

“Y GRAIG FAWR.”

Daniel Rowland yw prif wron canolbarth Ceredigion. Ganed ef ym Mhant y Beudy, Llan-cwnlle, yn 1713. Bu farw Hydref 16, 1790, yn 77 oed. Clywodd Griffith Jones Llanddowror yn pregethu, deffrowyd ei gydwybod, a theithiodd lawer drwy Gymru i bregethu yr efengyl, ac i ddeffro cydwybodau ereill. Efe oedd un o brif ddeffrowyr Cymru.

GAUAF AR LAN MOR Y CANOLDIR.

V. GWELED Y WLAD.

“RHAG ofn eich bod wedi blino ar y son am gymeriadau, a phethau sydd braidd yn sych i blant, beth feddyliech am fynd am *bicycle ride* gyda auntie a finnau i gael newid yr awyr dipyn?”

“Mae'n bwrw, a'r ffyrdd mor wlyb.”

“Ah! reidio mewn dychymyg yn yr Eidal oeddwn i yn feddwl. Mae'r awyr yn sicr o fod yn glir yno, a'r ffyrdd yn wyn a chaled. Yr ydym yn barod i droi allan, ac yn gofyn i'r porter yn yr *hall* sut mae i ni fynd i Dolche Acqua. Mae y boneddigesau ereill wedi mynd yno mewn cerbyd, ac yr ydym am eu dilyn, a'u dal os yw hynny yn bosibl.

“O, yn ddigon posibl, meddai y porter, 'mae'r ffordd fel y llawr yma; ewch i lawr ar hyd y Via Bishoffsheim i'r dre, yno trowch i'r dde, ac ewch ymlaen drwy'r dre nes y dewch i'r trydydd tro, hynny yw, y trydydd cwm. Mae pedwar cwm yn rhedeg i fyny o'r ffordd yma ar lan y môr,—y Borghetto, y Vallecrosia, y Nervia, a'r Roia. Yn y trydydd, y Nervia, rhyw saith milltir oddiyma, mae Dolche Acqua; byddwch yn pasio drwy bentref prydfarth Camporosso ar eich ffordd.’

“Roedd cymeryd y trydydd tro yn ymddangos yn beth rhwydd iawn, ond wedi mynd rai milltiroedd i fyny, a chael y ffordd yn arw a cherygog iawn, dywedem,—‘Ai dyma syniad y porter o ffordd lyfn.’ Oni bai fod lle hynod brydfarth wedi dod i'r golwg i fyny fan draw ar ben bryn uchel,—mor uchel fel yr oeddym yn gorfod taflu ein hunain ar ein cefnau i gael golwg arno,—buasem wedi troi yn ol; ond dyma Dolche Acqua, fel y meddyliech ni, ac ymlaen yr aethom drwy bentref bychan Soldano, a milltiroedd ymhellach. Sylwem fod y cwm yn mynd yn gulach gulach, ac nad oedd dim un enaid byw i'w weld yn un man; ond y funud nesaf fe gawsom ein dychryn yn fawr gan ddyn ar gefn melyn ddaeth i fyny o wely'r afon mewn modd mor llechwraidd ac anisgwyladwy nes i ni bendersfynu ar unwaith i droi yn ol. Ond yn y fan, fe welsom dŷ bach a dwy neu dair menyw yn sefyll o'i flaen. Mentrodd auntie Marian otyn yn Ffrancaeg,—‘Ai Dolche Acqua yw y dref yna?’ Siglodd y fenyw ei phen a dywedodd,—‘Dim Ffrancaeg.’ Yr oeddym ninnau heb un gair o Eidalae. Beth i wneyd ni wydden ni ddim; cofiwch chi, roedd Mrs. Andrew a'i chwirydd yn ein disgwyf, neu byddem yn troi yn ol heb ail feddwl. Yr unig bethge allem wneyd oedd traio iaith y mud a'r byddar, estyn ein bys at y dre a dweyd,

gyda thon cwestiwn yn ein llais,—‘Dolche Acqua?’ Tafiodd y fenyw ei hunan ar ei chefn, a chwarddodd nes yr oedd ei chlust-dlysau yn jinglan. ‘Dolche Acqua, Ha! ha! ha! ha! ha! ha!’ heb geisio ein hateb. Ond wedi ein gweld yn parotol i droi yn ol, dywedodd, gan roi acen ar bob sill,—‘Per-in-al-do.’ Oh, rhyfedd. Yr oeddem yn yr ail gwm yn lle’r trydydd, a milltiroedd o Dolche Acqua.

“Wedi cael ein hunain unwaith ar ein *bicycles*, a rhoi gollyngdod i’n teimladau drwy ddweyd,—‘Dyna hen fenyw gâs,—aethom yn ol fel pe baem yn hedfan,—dros ben cerrig, a changhennau o olewydd, a llawer o bethau ereill a groesai ein llwybr. ‘Roedd yn lle digon peryglus, gan fod y ffordd yn gul ac ar lan yr afon, ond rhyw ddeg troedfedd yn uwch, ac heb un math o glawdd i’ch cadw rhag rhedeg dros y dibyn. Wrth ddweyd ‘ar lan yr afon,’ dylaswn ddweyd hefyd nad oedd dim dyferyn o ddwr yn afonydd y dyffryn-oedd yma, dim ond gwely o gerrig. Pan y gofynnodd Mr. Somerville, gweinidog y Presbyteriaid ym Mentone, i’w ferch fach,—‘Beth yw gwely’r afon?’ atebodd y plentyn,—‘lle i groesi yn lle mynd dros y bont.’ Ac yr oedd yn ateb da iawn, gan ein bod yn gwneyd hyn mor aml.

“Wedi cyrraedd yr hotel, cawsom fod Mrs. Andrew a’i chwiorydd wedi dod yn ol, ac mewn gofid enbyd yn ein cylch. ‘Beth yn y byd ddaeth o honoch?’ ‘A pheidiwch chi a gneyd y fath beth eto,’ meddent, cyn clywed ein hanes, a adroddem gyda blâs uwch ben cwpanaid o de.

“Cawsom lawer o ddifyrrwch hefyd ar ginio wrth adrodd ein helbul, a chlywed y gwahanol farnau ar y cwestiwn a oedd yn beryglus i fentro ymhell i’r cymoedd unig yma wrthym ein hunain. ‘Wnawn i ddim y fath beth am y byd,’ meddai Miss Keeling, boneddiges oedd wedi treulio wyth gauaf yn yr Eidal. ‘Oherwydd nad ydych wedi cymeryd y drafferth i wneyd adnabyddiaeth o’r Eidaliaid, ofn yn codi oddiar anwybodaeth yw eich ofn chwi,’ meddai Dr. Yorke, oedd wedi byw yno ugain gauaf. Ar yr un pryd barnai y meddyg y byddai yn llawer mwy difyr i ni i fynd allan i gyd gyda’n gilydd. ‘Roedd yno bedair yn medru *cyclo*, ac o hyn allan byddem yn mynd ar hyd y wlad yn gwmni diogel, ac yn hollol ddiogel o ddim ond yr Eidaliaid bach chwareus oedd mor hoff o redeg i’n cwrdd, dal gwialen fawr o flaen y cylch, a gwaeddi,—‘Signorina, *yes, yes.*’ Dim ond un gair o Saesneg oedd ganddynt, digon tebyg, gan mor falch yr oeddynt o hono. Cyn mynd i le anghysbell eto, gofynnwn i Madame Lombardi, perchennog yr hotel, i’n dysgu i ofyn y ffordd. ‘*Questa la strada per Dolche Acqua?*’ oedd y cwestiwn, ac wedi ei adrodd drosodd a throsodd.

a cheisio ei weyd fel pe baem yn ei ddeall, meddyliem y byddai yn well i ni wneyd prawf ar y dyn cyntaf a gwrddem, ac er ein syndod atebodd y dyn ein *bod* ar y ffordd i'r lle. Mae rhywbeth yn od ac anaturiol iawn mewn bod un yn eich deall chwi, pan na fyddwch chwi yn deall eich hunan. Yn wir, yr oeddem mor ddifennydd a'r parrot; a gredech chwi ein bod yn gofyn y cwestiwn yma wrth fynd i lefydd ereill, ond yn cael Dolche Acqua yn rhedeg ym maint yn fwy rhwydd gyda'r geiriau o'i flaen, nes yr oeddem yn methu a'i adael allan? A dyna i chwi benbleth wedyn.

"Roedd mantais ac anfantais mewn mynd yn gwmnioedd fel hyn; gormod o siarad oedd un o'r anfantaision. Peth poenus iawn yw cael un wrth eich ochr yn baldorddan ynghylch y ffrasiwn ddiweddaf mewn boneti a hetiau, pan y bydd eich llygaid wedi eu codi i fyny at y mynyddoedd; neu ryw un arall sydd yn gwerthfawrogi golygfeydd mawreddog lawn cymaint a chwithau, ond yn gwneyd hynny yn eu ffordd eu hunain, drwy waeddi allan,—'O rhyfedd! dyna i chwi olygfa, edrychwch, edrychwch!'

"Fe ddaeth auntie Marian a finnau o hyd i un, Miss Keeling, oedd yn cytuno i'r dim â ni. Un diwrnod, fe aethom dair milltir ar ddeg drwy'r golygfeydd mwyaf rhamantus heb yngan un gair wrth ein gilydd. Mae'n wir i'r cyntaf dorrodd ar y distawrwydd i wneyd hynny mewn modd anfarddonol iawn, ond codi oddiar angen yr oedd hyn, gan fod eisieu bywyd arnom, a'n bod wedi dod i le bach heulog mewn cwm cul oer, lle y byddai yn amhosibl i ni eistedd i lawr i fwyta ein *sandwiches* oni bai i ni wneyd hynny yng ngwres yr haul. Dechreusom siarad yn y fan hyn. Mae eisieu siarad fel eisieu bywyd yn codi arnoch weithiau, ond i chwi gael digon o amser i dreulio y siarad diweddaf.

"Yn y dyffryn mwyaf prydferth o'r pedwar, y Roia, yr oeddem yn awr, ar ein ffordd i Airole; lle rhamantus iawn yn sefyll ar fryn uchel, gyda choed olewydd o'i gwmpas, a mynyddau uchel y Maritime Alps yn wyn gan eira yn codi i fyny tu cefn iddo. Edrychai ar yr olwg gyntaf a gawsom arno yn gywir fel pe bai yn ceisio cael ein gweld ni heb i ni gael ei weld e. Daeth yn raddol i'r golwg fel yr oeddem yn *cyclo* wrth droed y graig lethrog oedd yn ei guddio; ond y funud nesaf, yn lle dod yn agosach atom fel yr oeddem yn mynd yn y blaen, aeth o'r golwg yn hollol.

"Rhedai y ffordd o un ochr i'r llall o'r cwm, dros bontydd lawer oedd yn croesi'r afon Roia. 'Roedd yn y dyffryn yma firwd gul o ddwfr yn rhedeg fel rhiban glâs, a glâs prydferth iawn hefyd, gan ei fod yn adlewyrchu yr awyr uwch ben. Pan y cyrhaeddom Airole, yn lle cael gwell golwg arno, prin y cawsom ei weld o gwbl, gan fod y lle fel pe bai yn hongian uwch ben y ffordd. Aethom ymlaen

nes y daethom at dynel oedd yn rhy fyr i fod yn dywyll. Wedi *cyclo* drwyddo daethom allan yng ngolwg San Michele, pentref bach oedd yn llythrennol wedi ei amgylchynu gan tynyddoedd, a 'doedd dim modd i ni ei gyrraedd ond drwy ganol un ohonynt.

"Sut i droi yn ol ni wydde ni ddim, mor ddeniadol oedd y golyg-feydd o'n cwmpas. 'Ewch ymlaen,' meddem un wrth y llall, ac ymlaen yr aethom hyd nes y cyfartyddom â dyn, dychrynlyd yr olwg arno, yn cerdded rhwng dau *gendarmes* (heddgeidwaid). Yn y fan, dywedodd un o'ch modrybydd,—'Beth pe baem yn troi yn ol yn awr?' Ond gobeithio na fyddwch chwi ddim mor ymchwilgar a gofyn p'un."

H. E. M.

WARD BEECHER A'R BACHGEN TLAWD.

YR oedd Henry Ward Beecher yn cerdded i lawr dros ystryd yn New York un diwrnod, pan welai blentyn bychan gwywedig yn eistedd ar garreg, yn gwerthu *matches*. Safodd, a siaradodd âg ef. Cafodd mai plentyn wedi ei wrthod ydoedd, ac yn debyg o farw o eisiau gofal priodol. Meddylodd Mr. Beecher am funud; yna gofynnodd i'r bachgen a fedrai ganu. Atebodd y medrai, ei fod yn ceisio gwneyd weithiau.

"Gadewch i mi eich clywed," ebe Beecher. Dechreuodd y bachgen ganu. Safai Mr. Beecher a'i freichiau ym mhleth i'w wrando. Dechreuodd tyrfa gasglu.

"Da iawn," ebe Beecher, wedi i'r bachgen orffen. "Cenwch dôn arall."

Erbyn i'r bachgen orffen yr ail gân, yr oedd yno dorff fawr wedi dod ynghyd. Plygodd Beecher, cododd y bachen bach, gosododd ef i eistedd ar ei ysgwydd, a'i wyneb at y bobl.

"Yn awr, fy ngwas bach i," ebai, "dyna wrandawyr i ti, dyro gân iddynt."

Canodd y llanc bach gân oddiar ysgwydd uchel y pregethwr enwog. Wedi iddo orffen, gofynnodd Mr. Beecher am fenthyg cap y bachgen, ac aeth trwy y dyrfa i gasglu iddo. Mewn ychydig funudau, yr oedd llawn ddau gant o ddoleri (deugain punt) yn y cap. Cymerodd Beecher y llanc i swyddfa cyfaill iddo, gwisgodd ef â phâr o ddillad, mynnodd le iddo i ennill bywiolaeth, a rhoddodd yr arian yn y banc at wasanaeth y llanc bach. Sicr fod yr Arglwydd Iesu yn sisial uwch ben ei weinidog y dydd hwnnw,—“I mi y gwnaethost.”

UN GARA DÔN Y GWŶR DA.

GWLAD HUD.

(Casgliad o Ystraeon Hud o
bob gwlad.)

V. YR ANIOLCHGAR.

(Un o Ystraeon Hud Persia.)

YR oedd teithiwr unwaith yn croesi, ar farch, un o rannau diffaeth Khorassan, ar ffin yr Anial Heli Mawr. Yr oedd tyfiant y gwanwyn wedi gwywo a chrino, ac yr oedd gwres yr haul wedi ei roddi ar dân. Cyflymai y teithiwr ymlaen ar ei farch buan, gan ochel y llecynnau oedd ar dân,—llecynnau fu unwaith yn wyrddion a llaith. Dylaswn ddweyd, hefyd, fod gan y teithiwr un o alluoedd gwlad hud,—gallai

ddeall iaith adar ac anifeiliaid a blodau a choed.

Wrth basio un llecyn oedd yn dechreu cynesu, gwelai neidr mewn perygl cael ei llosgi'n fyw. Yr oedd wedi ei hamgylchynu gan y fflamau, yr oedd ei llygaid yn waedgoch, yr oedd ei thafod colynog yn gwibio yn ol ac ymlaen o'i safn agored. A phan welodd y gŵr a'r march, ebe hi,—

"O ddyn, er y llid sydd rhwng fy nheulu i a dy deulu di, achub fi." Tosturiodd y teithiwr Hafiz wrthi. Estynnodd un o fagiau ei gyfrwy ar ben polyn hir ati, a dywedodd wrthi am ymdorchi yn y bag. Gwnaeth hithau hynny, a charlamodd Hafiz o gyrraedd y tân, gan ddal y bag hyd y polyn oddiwrtho. Ac yr oedd y neidr yn edrych arno, â'i llygaid bychain cochion, dros y bag. Wedi cyrraedd lle diogel, rhoddodd Hafiz y bag i lawr, ac ymlithrodd y neidr o hōno. Nis gallai march Hafiz fynd ymlaen ond ar hyd y llwybr y gorweddai'r neidr waredig arno.

"O ŵr," ebe'r neidr, "er i ti wared fy mywyd, y mae'r hen awydd yn gryf ynof. Mi a'th frathaf di a'th farch. Twyllwr fu dyn erioed, a dylai farw."

"A achubais dy fywyd," ebe Hafiz, "i ti fod yn angeu i mi a'm march fyddlawn? Wele fuwch yn pori gerllaw, gofynnwn iddi hi a wyt yn gyfiawn."

Galwasant y fuwch atynt, a gosodasant yr achos gerbron. Rhoddodd hithau ei barn fel hyn,—

"Cymerodd dyn fy llo oddiarnaf. Yna cymerodd fy llaeth at ei wasanaeth ei hun. Yna, pan aethum yn glaf, trodd fi i'r anialwch i farw. Ond cefais feddyginiaeth yno, ac aethum yn dew. Ddoe daeth y dyn heibio i mi, ac yn y man daeth a chigydd gydag ef, ac yr wyf i farw yfory. Nid yw dyn yn haeddu trugaredd am unrhyw gymwynas.

"A glywi di," ebe'r neidr, "O ddyn? Aeth y farn yn dy erbyn. Parotoa i farw."

"Gad i ni apelio at un barnwr arall cyn fy mrathu," ebe Hafiz.

"Wele goeden, gofynnwn ei barn hi."

"O'r goreu," ebe'r neidr, "rhodded ei barn."

"Y mae dyn beunydd yn ymgysgodi danaf," ebe'r goeden, "ond ni welais yr un erioed yn ddiolchgar am y caredigrwydd. Yn lle hynny torrann fy nghanghennau ieuainc i wneyd flyn, a chlywais un yn bygwth cymeryd fy nghorff i wneyd estyll. Ni ddengys dyn ei fod yn ddiolchgar am gymwynas; na ddanghoser diolchgarwch iddo yntau."

"A glywaist ti," ebe'r neidr, "beth ddywedodd y goeden hefyd? Parotoa i farw, ti a dy farch."

"Gwrando unwaith eto. Melus, O sarff, yw bywyd. Gad i mi atolwg, atw un barnwr eto. Mi a welaf lwynog draw. Y mae efe yn hynod am ei gyfrwystra. Os etyb ef fel y fuwch a'r pren, boddlonaf i farw drwy dy goly, mi a'm march."

Galwyd y llwynog. Daeth yno yn araf a llechwraidd. Gorfod iddynt adrodd y helynt iddo lawer gwaith. O'r diwedd dywedodd,—

"Nis gallaf gredu yr un ohonoch. Nis gallaf gredu fod sarff

mor fawr wedi medru ymdorchi i le mor tychan a'r bag acw, ac ni fdradaf gredu y medrai y dyn hwn gario baich mor fawr ar flaen polyn mor hir."

Taera'r neidr a'r dyn eu bod wedi dweyd y gwir wrtho, ond ni tynnai ef gredu. "Amhosibl," meddai, faint bynnag ddywedent wrtho. O'r diwedd, cynhygiodd y neidr fynd i'r bag i ddangos iddo fod hynny'n bosibl, a gofynnodd i'r dyn ei chodi â'r polyn. Felly fu. Pan oedd y neidr yn gaeth yn y bag, ebe'r llwynog wrth y dyn,—

"Dos a'r sarff yn ei hol i'r fan lle cefaist hi."

Diolchodd Hafz iddo am ei gyngor. Carlamodd yn ol, a gollngodd hi yng nghanol y tân, lle y cawsai hi. Ac felly y gwneir â'r neb na fyddo'n ddiolchger am gymwynas.

ABER SAN SI.

Y MAE llawer yn cofio y byddent, pan yn dysgu'r wyddor Saesneg, yn gorffen fel hyn,—“X, Y, Z, aber, san, si.”

Y ffurf roddir i'r geiriau “aber san si” yw, &c.

Os ysgrifennwch y rhan gyntaf o &c. yn llawn, cewch “et c.” Os ysgrifennwch yr ymadrodd yn ei lawn hyd, cewch “et cetera.” Ystyr y ddau air lladin hyn ydyw,—“a'r gweddill.” Nid yw & ond y gair *et* mewn llaw redeg. Rhoddwyd & ar ddiwedd y wyddor, nid oherwydd ei fod yn llythyren fel y lleill, ond oherwydd ei fod yn arwydd talfyredig am air cyfiredin,—sef “et” yn Lladin, “and” yn Saesneg, “a” neu “ac” yn y Gymraeg.

Wedi dywedyd y wyddor, gwneid i'r plentyn Seisnig ychwanegu,—“and, *per se*, ‘and c.’” Ystyr hyn yw,—“ac, ar ei ben ei hun, &c.,” neu “ac, ar ei ben ei hun, ‘and c.’” Dau air Lladin yn meddwl “ar ei ben ei hun” yw *per se*.

Dull plentyn o Gymro o ddweyd “and, *per se*, ‘and c’” yw “aber san si.”

NADROEDD.

Y MAE gelyniaeth rhwng dyn a'r sarff oherwydd, yn ol Milton, ei ffurf hi gymerodd Satan i demtio ein rhieni cyntaf. Er hynny, y mae rhai seirff yn rhyteddol brydferth i'r llygad dynol; a pheth ardderchog yw neidr anferthol yn dolennu fel afon trwy goed y trofannau. Deheudir India, Ceylon, ynsoedd yr India Ddwyreiniol, canolbarth Amerig yw hoff gartref y nadroedd gwenwynig.

Y GATH.

II. EI THAFOD.



YLWAIS mai'r peth rhyfeddaf sy'n perthyn i gath yw ei thafod. Yn un peth, gwna tafod cath yn lle dannedd. Nid oes ganddi hi ddannedd cnoi, fel ci, ond tyn gig oddiar esgyrn â'i thafod. Y mae tafod cath yn galed ac yn arw. Pe tynnai hi hyd eich llaw, teimlech hi yn cosi nes eich brifo. Y mae gan lew neu deigr dafod o'r un defnydd; a phe tynnent hwy eu tafod ar hyd eich croen, raspient y croen ymaith, nes y ffrydiai eich gwaed. Pe rhoddech dafod cath dan y microscop, gwelech fod ei gwneid yn llawn o fachau bychain afrifed. Nid rhyfedd telly y gall pwsî wneyd asgwrn yn lân iawn.

Gall cath newid llun ei thafod hefyd. Gall ei gwneyd yn syth a gwastad, fel *file*. Gall ei gwneyd hefyd ar lun llwy, a chodi dwtr neu lefrith ynddi i'w safn.

A'i thafod y mae pwsî yn glanhau ei hun hefyd. Yn gyntaf, cymer ei phawen flaen, gwlycha hi, a thyn hi dros ei blew. Yna gylch y cwbl yn lân â'i thafod. Difyr yw ei gweled yn golchi ei hun, a sylwi mor fedrus y mae i gyrraedd pob man ar ei chorff. Nid oes ond tri lle nas gall gyrraedd â'i thafod,—ei chlustiau, ei phen rhwng ei dwy glust, a'i gwar. Nid oes bosibl cael creadur mor hoff o fod yn lân. Dyna un rheswm am y croesaw a gaiff i bob tŷ. Ceir hi yn chwyrnu'n foddhaus ar bentan y gwerinwr ac ar garped y goludog.

Rhaid i'r plant fod yn lân hefyd. Bydd pwsî yn eu golchi yn aml ac yn fanwl iawn. Defnyddia ei throed i ddechreu, a'i thafod weithiau. Ni tydd y gath fach yn hoffi gorchwyl y glanhau bob amser, a dengys ei gwrthwynebiad trwy fewian, os nad trwy gripio. Os gwnel hynny, deil yr hen gath hi i lawr âg un troed, a gylch hi'n iawn â'r troed arall. A'r diwedd fydd cael pwsî fach yn lân ac yn dlos ryfeddol. Fel y fam y bydd y ferch. Mewn amser daw pwsî bach i ddefnyddio ei throed a'i thafod, a'i hoff waith fydd glanhau ei hun.

Ond y mae gan gath rai ffaeleddau, heblaw llawer o rinweddau. Caf enwi y rhai hynny y tro nesaf.

PLANT CLYNOG.

YMDDANGHOSODD darlun o aelodau Urdd y Delyn, cangen Clynog, yn y rhifyn diweddat. Ac nid oes eisiau dweyd wrth neb sy'n caru Cymru a'i gwŷr grymus fod cryn swyn yn y darlun,—cangen sefydlwyd megis ar fedd Eben Fardd.

Ac er mwyn llawer o aelodau pell, hwyrach mai buddiol fyddai dweyd sut le yw Clynog Fawr yn Arfon. Ardal wledig lonydd ydyw, ar fin y môr ac wrth droed y mynydd, ac un o ffyrdd goreu sir Gaernarfon yn rhedeg drwodd rhwng Pwllheli a Chaernarfon. Y mae'n lle hynod o iach, ac y mae'r bobl yn byw'n hen yma,—rhai yn gant a throsodd.

Golwg hoew a llond eu crwyn o chware sydd ar y plant hefyd. Gwenant bob amser,—ar y ffordd, yn y capel, ac yn y tŷ. A swydd go anodd yw eu cadw'n lonydd am awr; ond nid rhy anodd os y cânt rywun i ddweyd hanes yn ddoniol a difyr wrthynt. Swynir hwy'n fuan gan sel ac egni y rhai droant o'u deutu. Y maent yn hoff iawn o benhillion Williams Pant y Celyn ac adnodau am Iesu Grist. Prin eto y maent wedi agor eu llygaid ar dlysi syml Ceiriog, ac nid yw awen esmwyth Glasynys ond prin wawrio ar eu meddwl ieuanc; ond pwy ŵyr na thyr y wawr yn sydyn, ac y gwelant gydmariaethau cryfion, wedi eu morteisio'n berffaith bron, yng ngweithiau Glasynys, megis,—

“ Fel eira gwyn ar fynwes llyn
Fy mron i'w bron a dawdd.”

Diolchwn am Urdd y Delyn i gyflawni'r gwaith yma mor gynnar ar eu bywyd,—i ddweyd wrthynt am dalent ac athrylith pobl ffyddlon Cymru fu. Cânt bellach alw'u sylw'n fynych fynych at ddarnau symlaf Eben Fardd, a phregethau a thanbeidrwydd Robert Roberts, Clynog, ynghyd âg englynion tarawiadol Dewi Arfon,—pobl fu'n arfarwoli bro geni'r tŷ presennol. A'r rhain yn anwyl iawn iddynt. A pha anrhydedd mwy all neb ennill iddo'i hun na gorsedd ddiogel yng nghalonau plant bach Cymru. Cenir “Diliau'r Delyn” yn swynol ganddynt, ac nid ar ddim y cyrhaeddasant y tir yma. Rhoir noson dros ben yn aml gan Mr. T. R. Jones i'w dysgu i ganu'n soniarus a chwaethus. Dysgant hwythau'r penhillion adre, ac adroddant hwy yn y cyfarfodydd. Cysegrir peth amser hefyd i son am yr hen Gymry. Eir drwy'r penodau yn y llyfr bychan pwrpasol hwnnw,—“Holi ac Ateb.” Tynnant luniau ŵyn bach ac adar a chreaduriaid dof adwaenant oreu yn ddigon o syndod. Gallent ragori yn y cyfeiriad yma pe'r ymroent ati. Ysgrifennant hefyd draethodau byrion tŷsion ar destynau'n gweddu i mor ieuainc. Cymerant sylw garw o'r rhyfel chwerw sy'n rhwygo calonau

maniau a chwiorydd a pherthynasau, a'u gwron hwy o'r dechreu yw Baden-Powell. Soniant yn aml am dano hyd yn oed yn y cyfarfodydd.

Ysgrifennydd cyntaf y gangen yw bachgen o'r Ysgol Ganol-raddol,—Richard Pritchard. Daw ei lun eto, a mymryn o'i hanes. Gofalwyr yr Urdd yma ýnt Mri. Griffith Roberts, G. T. Jones, William Hughes, T. R. Jones, T. Williams, ac Edward Evans.

Camfa'r Bwth.

EDWARD EVANS.

BASAR LLOFT Y STABL.

YR ydym yn mynd oddiyma i fyw i'r Felinheli mewn dau fis eto. Yr oedd gennym lawer iawn o deganau chwareu, a methem a gwybod beth i wneyd â nhw. Nid oeddym yn hoffi eu gwerthu, am ein bod wedi eu cael yn anrheg. Penderfynasom gael Basar, a rhoi yr elw i Gymdeithas Genhadol Llundain, i helpu bechgyn bach duon y gwledydd pell. Buom yn gweithio yn galed am ddau fis, a gwnaethom lawer o fasedi, a dodasom felusion ynddynt. Gwnaethom liaws o darluniau hefyd, a chawsom lu o bethau ereill. Pan ddaeth bore dydd Sadwrn, Mawrth zydd, yr oedd pawb yn barod. Yr oeddym wedi cyhoeddi trwy'r pentre fod y Basar i fod. Codasom yn fore bore dydd Sadwrn, a dodasom faner ar ben to'r stabl a chariasod fwrdd yno. Daethom a'r teganau i'r llofft mewn basged ddillad. Gosodasom nhw ar y bwrdd yn drefnus. Yr oedd y stabl yn agos i'r llwybr, telly yr oeddym wedi gofalu am le cyfleus i gael gafael ar rai i brynnu. Yr oeddym yn barod erbyn hanner awr wedi dau y prydawn.

I ddechreu, daeth y doctor a John Jones y garddwr heibio. Dywedai'r doctor nad oeddym wedi gwneyd digon o dwrw. "*All right,*" meddem, "dos i nol y gloch a'r concertina, Kerris." Rhedodd fy mrawd yn ei ol o'r tŷ a'r gloch yn ei law a'r concertina o dan ei gesail. "Cymerwch chi hon, William John, a chymer dithau y gloch yma, Garth," meddai Kerris, "ac fe gymera innau gorn." Dyma ddechreu gwneyd swm mawr ar unwaith, nes gwaeddodd y doctor,—"*Hold on, hold on, boys,* mae yma ormod o swm 'rwan." Aeth y doctor a John Jones i ffwrdd, a dywedodd y doctor,—"*Na i ddim deyd wrth bobol Basar am neyd twrw byth eto.*"

Yn nesaf, daeth dyn o'r enw Robert Thomas heibio. Gwerthasom werth chwech iddo. Wedyn, daeth llawer iawn o rai ereill. Buasai yn gwneyd CYMRU'R PLANT yn fawr pe buaswn yn eu henwi oll. Gofynnent,—"*Faint ydi hwn?*" a "*Sut y ma' hwna ym mynd?*" a "*How much is that?*" Ond un tro daeth hogyn bach tair blwydd a

hanner ataf gan ofyn,—“Gai geffyl a throl, 'sgwelwchi'n dda?" Ond gwerthasid y ceffylau oll er yn gynnar yn y prydawn. Eto, gwelais fy hen geffyl Tudno, a brynasid i mi yn Llandudno, ar gefn yr hwn yr elwn pan yn postio llythyrau yn “Letter Box” y pentre. Gofynnais i'r hogyn bach faint oedd ganddo. Dywedodd yn syn,—“Ceiniog,” gan ofni na buasai yn cael Tudno am y geiniog. Gofynnais iddo,—“Cymeri di hwn?” “Cymaf,” meddai. “Doro i mi dy geiniog ynte,” meddwn innau. “Dyma hi.” Cafodd Charles Tudno, a chefais innau y geiniog. Pe gwelsech Charley yn rhedeg adref, a fy hen geffyl hoff o dan ei gesail, fe chwerthech. Os ewch i Gerizim, Llanfairfechan, fe gewch Tudno yn edrych mor smart a phe buasai yn ebol blwydd.

Gwnaethom 6/7 o elw i'r Genhadaeth yn llofft y stabl.

Enwau y bechgyn fu'n cynnal y Basâr yw William John Jones, Robert Tibbot (13 oed), Kerris Ap Thomas (6 oed), a

GARTH AP THOMAS (9 oed).


D U W A W Y R .

FAINT sydd wedi darllen am y ddamwain fwyaf adfydus a fu ar y môr erioed? A dyna oedd hynny,—suddiad y llong newydd ac ardderchog y *Northfleet* trwy wrth-darwiad â llong dramor ymhen ychydig o amser wedi iddi adael y Tafwys ar ei mordaith i Awstralia, gyda channoedd o ymfudwyr. Yr oedd llawer o hynodion yn perthyn i'r olygfa alaethus honno, ac o blith y lliaws fe gofir am ddewrder y capten, yr hwn oedd ŵr ieuanc newydd briodi, a'r hwn a wnaeth bopeth yn ei allu i achub bywydau y rhai oedd dan ei ofal, ac yn eu plith ei briod hawddgar. Wedi gweled hon ac ereill yn ddiogel yn y bad, glynodd wrth ei long hyd nes y suddodd, ac y boddwyd y capten gyda channoedd ereill. Ac nis gwelwyd byth mwyach ddim ohonynt, oddigerth corff un enethig fach. Golchodd y tonnau ei chorff tlws i'r traeth ger pentir Dungeness. Wedi gwneuthur darpariadau i'w chladdu, gofynnodd trefnwr yr angladd i gymydog a safai gerllaw,—“Pa enw a ddodwn ar gauad yr arch?” Atebodd yntau, gyda theimlad dwys,—“Duw a ŵyr!”

Ymhen ychydig fisoedd dodwyd carreg ar fedd y techan ddieithr, a'r unig eiriau cerfiedig ar y garreg ydynt yr atebiad syml ond awgrymiadol,—“Duw a ŵyr.”

Gŵyr Duw lle y mae y rhai bach yn huno, a'u henwau bob un.

MORWR BACH.



“Trodd y gwynt yn sydyn.”

TAITH BERYGLUS.

YN ystod y flwyddyn ddiweddaf, hysbyswyd fod ser dieithr i'w gwyled ar noson neillduol. Er mwyn cael yr olwg oreu arnynt, penderfynodd seryddwyr o ymyl Rhydychen fynd mewn awyren i fyny i'r awyr glir y tu hwnt i'r cymylau. Fin nos aethant i gerbyd yr awyren, a gollyngwyd hi oddiwrth y ddaear. Ymsaethodd hithau i fyny, a thafasant gydaid ar ol cydaid o dywod o honi, er mwyn prysuro ei hesgyniad drwy'r cymylau. Cododd yn gyflym

trwy'r cymylau, er mor drwchus oedd eu plygion llaith o'i hamgylch. Yna arafodd, mewn awyr deneu ac oer a iach, ymhell uwchlaw cwmwl a daear. Yr oedd oerni llaith y cymylau wedi gwneyd i'r nwy oedd yn yr awyren tynd yn llai o swm; crebychodd hithau, a thrymhaodd, a gorffwysodd heb godi ychwaneg.

Daeth y bore, a disgynnai pelydrau'r haul ar yr awyren yn gynnes mewn bro ddigymylau. Wrth gynhesu ymehangai'r nwy, ysgafnai'r awyren, a chodai'n gyflym yn uwch fyth i'r entrych. Yna dealodd y seryddwyr, er eu braw, fod y llinyn oedd yn disgyn i lawr i'r cerbyd o'r awyren, i ollwng nwy, yn gwrthod gweithio. Ofer fuasai ceisio dringo ochr pelen yr awyren yn yr uchder mawr hwnnw. Wrth ollwng nwy y gwneir i'r awyren ddisgyn. Rhaid i'r teithiwr fedru gwneyd i'r awyren esgyn a disgyn yn ol ei ewyllys, er mwyn medru mynd y flodd y mynno. Os bydd arno eisiau teithio i'r gogledd esgyn neu ddisgyn hyd nes yr el i wynt yn chwythu yn y cyfeiriad hwnnw. Os bydd arno eisiau troi i'r dwyrain, esgyn neu ddisgyn drachefn. Ac weithiau cwyd uwchlaw y ffrydiau o wyntoedd croesion i gyd, er mwyn cael hofran uwch y byd mewn unigedd tawel a distaw.

Ond nid oedd gan y seryddwyr y soniais am danynt reolaeth ar eu hawyren. Teimlent eu hunain yn codi'n chwyren o hyd. Toc, er fod y cymylau oedd odditanynt wedi clirio, gwelent y ddaear yn graddol newid. Am hir gwelent y ffyrdd fel llinynau gwynion meinion. Ac yna ni welent ond llecyn gwyrdd wrth edrych i lawr.

Tua chanol dydd daethant i firwd o wynt oedd yn chwythu'n gryf tua'r gorllewin. Teimlasant eu hunain yn teithio'n gyflym i'r cyfeiriad hwnnw. Buan y sylweddolasant eu perygl. Beth pe buasai'r awyren yn syrthio i'r môr?

Yr oedd y nos yn dod. Gwlychid ac oerid yr awyren. Ym mhle y disgynnai? Ysgrifenasant lythyr ar ol lythyr i'w taflu i lawr, i rybuddio gwylwyr glannau'r moroedd i sylwi ar yr awyren, ac i anfon llong i hwylio o dani os ai wrth ben y môr. Ond gobaith gwan oedd i neb gael y llythyrau mewn pryd. Syrthiai rhai ar y mynyddoedd a rhai ar y caeau; siawns oedd i un syrthio i dref neu dramwyfa pobl. Cyn iddi dywyllu gwelent liw'r ddaear yn newid. Yn lle gwyrdd daeth glas. Bron na pheidiodd eu calonnau guro gan fraw. Yr oeddynt uwch ben y môr.

Ni chysgasant hunell y noson honno. Disgynnodd gwlaw oer, a fferrodd hwy. Teithiai'r awyren yn gyflym tua'r gorllewin o hyd. Yr oeddynt yn sicr, oherwydd yr oerni a'r gwlaw, ei bod yn disgyn hefyd.

Wedi rios hir, gwawriodd y bore. Er eu llawenydd gwelsant eu bod uwch ben y tir sych, a'u bod yn llawer agosach i'r ddaear.

Gwelsant mai Sianel Bryste oedd y môr a groesasant, a'u bod yn awr yn teithio uwch ben glan ddeheuol Deheudir Cymru. Yn y prydawn gwelsant y môr drachefn, a bron na suddodd eu calonnau o'u mhewn. Ond cyn eu hyrddio i'r môr dros bentir Dyfed, trodd y gwynt yn sydyn i'r gogledd. Yr oedd yr awyren yn graddol ddisgyn, ac yn rhywle yn sir Benfro, tarawodd y cerbyd yn erbyn coeden; llusgwyd ef ymlaen ar draws gwrychoedd hyd nes y daliwyd yr awyren gan dderwen dalfrig. Ysgytiwyd tipyn ar y teithwyr, ac anatwyd un yn bur drwm, ond anghofiasant bopeth,—y ser hefyd,—yn eu llawenydd wrth deimlo eu traed ar y ddaear galed. Cawsant luniaeth a chynhesrwydd yn nhai rhai o amaethwyr caredig Dyfed; ond y mae'n sicr nad anghofiant eu taith beryglus hyd y bedd.

YMDAITH NEWYN.

YN ystod y gauaf a'r gwanwyn diweddfaf cawsom ni dywydd digon oer; bu gwynt miniog y dwyrain yn cadw'r claf a'r blodau'n ol am hir. Yn yr India ar yr un pryd yr oedd Newyn yn teyrnasu.

Yr oedd y gwlaw wedi peidio dod yn ei amser. Yr oedd yr holl ffynhonnau wedi sychu. Yr oedd pobl yn gyrru anifeiliaid hyd welyau sychion yr afonydd, a merched yn taenu dillad i sychu ar beth fuasai unwaith yn waelod llyn. Yr oedd y wlad wedi troi yn llwch cochlwyd, yrrid gan y gwynt.

Y mae tlodi ac angen yn y pentref. Y mae'r bwyd wedi darfod. Y mae popeth oedd yn y tŷ wedi ei werthu i dalu am yr ychydig fara prin. Os oedd yno hen addurniadau arian, neu hen lestri pres cerfiedig, neu flychau o bren aroglus, y maent oll wedi myned. Tŷ gwag sydd yno,—popeth wedi mynd i gael bwyd. Ac y mae Newyn yn aros yno o hyd. Ac o ddrws agored teml gerllaw, y mae eilun coch fel pe'n gwawdio dioddefiadau ei addolwyr.

Y mae'r teuluoedd yn cychwyn, o un i'un, i weithfa'r Llywodraeth draw, lle y rhoddir digon o fwyd i brin gadw croen ar yr asgwrn, am waith. Y mae'r fam yn cario'r baban mewn basged ar ei phen, a phlentyn arall yn ei breichiau. Cluda'r tad a'r plant ereill holl eiddo'r teulu. Wedi cyrraedd y weithfa, gwnant eu goreu i ennill ymborth trwy dorri cerryg; ond, er eu bod yn bwrw â'u morthwylion bychain goreu gallent, ychydig iawn o gerrig dorrai'r plant.

Yn Bombay yn unig y mae'r Llywodraeth yn cynnal cymaint a holl boblogaeth Cymru. Eu prif ofn yw i'r cholera ddilyn y newyn; eu gweddi sydd am wlaw. Os daw'r cholera, med adladd y newyn i'r bedd wrth y miloedd.

"Telyn Seion."

Y Geiriau gan ANTHROPOS.

J. LUMLEY DAVIES, G.T.S.C.

DOH F.

{	:s .s	s	:-.m	:r.d	f	:m	:r.d	d	:-.t ₁ :l.s	s	:-	
{	:m .m	m	:-.d	:t ₁ .d	d .t ₁ :d	:l ₁ .l ₁	s ₁	:-.s ₁ :t ₁ .t ₁	d	:-		
{	Telyn Sei	- on, ar ei	than-nau,	Chwery	bys	- edd	engyl	iach,				
{	:s .s	s	:-.s	:s .s	s	:s	:f .m	r	:-.r	:f .r	m	:-
{	:d .d	d	:-.d	:f .m	r	:d	:f ₁ .f ₁	s ₁	:-.s ₁ :s ₁ .s ₁	d	:-	

{	:s .s	s	:-.m	:r.d	l	:s	:d .d	r	:-.r	:m.r	s	:-	:-	:-
{	:m .m	m	:-.d	:t ₁ .d	d	:d	:d .d	d	:-.d	:l ₁ .d	t ₁	:-	:-	:-
{	Dyna	de-lyn	saint yr	oes - au,	Dyna	de-lyn	plentyn	bach.						
{	:s .s	s	:-.s	:s .s	l .t	:d'	:s .s	fe	:-.fe	:fe	s	:-	:-	:-
{	:d .d	t ₁	:-.d	:r .m	f	:m	:m .m	r	:-.r	:r .r	s ₁	:-	:-	f

CYDGAN.

{	:d .r	m	:m	:d .r	m	:m	:m .m	d'	:-.t	:l .s
{	:d .t ₁	d	:d	:d .t ₁	d	:d	:d .r	d	:-.r	:m .m
{	Delyn	Sei	- on,	ar ei	than - nau,	Chwery	bys	- edd	engyl	
{	:s .f	m	:s	:s .f	m	:s	:s .s	l	:-.l	:l .l
{	:m .r	d	:d	:m .r	d	:d	:d .t ₁	l ₁	:-.t ₁	:d .d

{	s	:f	:r .m	f	:f	:r .m	f	:f	:m .r
{	r	:-	:r .de	r	:r	:r .de	r	:r	:d .t ₁
{	iach,		Dyna	de - lyn	saint yr	oes - au,	Dyna		
{	l	:-	:l .s	f	:l	:l .s	f	:l	:
{	r	:-	:f .m	r	:r	:f .m	r	:r	:

{	f .m	:s	:m	r	:-	:s .s	s .s	:l	:t	d'	:-
{	delyn	plen - tyn	bach,	Dyna	delyn	plen - tyn	bach.				
{	r .d	:m	:d	t ₁	:-	:r .r	r .s	:f	:f	m	:-
{	:	:		:s .s	:t .t	t .t	:d'	:r'	d'	:-	
{	:	:		Dyna	delyn	telyn	plen - tyn	bach.			
{	:	:		:s .s	:s .s	s .s	:s ₁	:s ₁	d	:-	

2 Delyn Seion,—hen alawon
Ddysgwyd yn y cystudd mawr,
Gyd-gymysgant â newyddion
Odlau hedd y bore wawr.

3 Delyn Seion,—yn dy seiniau
Crwydra hiraeth am y nef,
Gwlad y bywyd di-ofidiau—
Gwlad yr anthem "Iddo Ef."

4 Delyn Seion,—beraidd dannau
Tyred eto ar dy hynt,
I ddeffroi y diwygiadau
Fu yn ysgwyd Cymru gynt.

5 Gwlad y gân fo Cymru dirion,
Ei dyfodol fyddo'n glaer,
Ond ar edyn ei hawelon
Cluder "swan y delyn aur."

YSTORI ROBIN HUW.


CYMERIAD tra hynod ar gyffiniau gwlad y glo yma oedd yr hen Robert Hughes, neu fel y gelwid ef yn gyffredin,—Robin Huw. Er ei fod ers rhai blynyddau bellach wedi cefnu am fyd arall, erys un hanesyn bychan arferai ddweyd mor fyw ar fy meddwl heddyw ag erioed.

“Cofiaf yn dda,” arferai ddweyd, “am gyfnod yn nyddiau fy nerth, pan y dilynwn yr alwedigaeth o yrru ceffyl yn y pwll glo. Yr oeddem o hanner dwsin i ddeg o yrwyr yn yr adran lle yr arterwn weithio, ac fel y dosbarth yma yn gyffredin yr oeddym,—teg yw addef,—yn dra esgeulus mewn moesau a rhinweddau da. Byddai gan bob gyrrwr hogyn bychan yn ddrwsr, er agor y drysau o flaen y ceffylau; a phan ddigwyddai fod hogyn yn dechreu gweithio o'r newydd fel drwsr o dan y ddaear, rhaid oedd iddo gydymffurfio â ffyrdd ac arferion drwg yr hogiau ereill. Un tro, fodd bynnag, daeth i'm rhan i i gael hogyn fel yma, newydd ddod o'r ysgol, o'r enw Willie Rees.

“Hogyn bach hynaws, a thawel iawn, oedd Bili bach, eto'n fywiog yn ei holl waith; ni chlywid llw o'i enau, nac un duedd at ddrygioni byth yn ei ffyrdd. Enynnodd hyn eiddigedd a llid yr holl hogiau, ac hyd yn oed y gyrrwr, yn ei erbyn, ac wrth gwrs rhaid oedd i minnau ddilyn. Wedi hir gipio ar Bili bach i bechu un dydd, aethom ati oll o ddifrif i geisio ei ortodi i regu, ond gwrthwynebai yn hyf, er lliaws o fygythion. Modd bynnag, ym mhoethder y brofedigaeth, neidiodd un ohonom,—yr hwn a ystyrriid gennym yn gampwr,—ymlaen, a chan ollwng llif o lwon erchyll, crochwaeddai,—‘Nawr, Wil, rhaid i ti ddweyd un llw, neu fe'th dafaf yn grwn ar dy ben i'r gasgen dwr acw. Wyt ti'n rhegu?’ Ar hyn dyma'r hogyn bach yn codi ei olygon, ac yn syllu ym myw llygaid ei demtiwr, a chyda deigr yn gloew yn llithro tros ei rudd, sibrydai ei ffoesg,—‘Pe bai nhad yma'n awr ni wnelech chwi hyn.’ Aeth y frawddeg yn syth i'n calonnau oll, ac yn lle ei dasu i'r gasgen i'w foddi, cofleidiodd y campwr ef yn ei fynwes.

“O'r awr honno,” ebai'r hen frawd, “cerddwyd y ffordd newydd a bywiol gennym i gyd, yr hon sydd yn arwain o'r byd hwn i deyrnas yr Hwn a'n carodd â chariad mor fawr.”

Y mae llawer bachgen gwrol wedi gwneyd gwrrhydri. Os cewch fachgen feiddia weddio yn wyneb gwawd ei gymdeithion, dyna i chwi ddefnydd dyn a arwain fyddin i fuddugoliaeth, rydd ei fywyd i lawr dros y gwir, tra y diangai ei wawdwyr am eu hoedl.



COLEG YR ANIBYNŴYR, ABÉRHONDDŪ.

URDD Y DELYN.

Y RHEOLAU.

1. Dyagu siarad ac ysgrifennu Cymraeg; darllen rhan o'r Beibl Cymraeg, neu ryw lyfr Cymraeg arall, bob dydd, ac ysgrifennu Cymraeg o'i gyfansoddiad ei hun.

2. Astudio hanes Cymru, a gwneyd ei oren i godi ei wlad, fel y byddo Cymru fydd yn well na'r hen Gymru.

3. Dyagu canu'r delyn, os bydd hynny yn y cyrraedd; a dyagu alawon Cymreig.

4. Byw, hyd y gall, yn ol dysgeidiaeth yr hen Gymry gynt, mor bell ag y mae'r ddyseidiaeth honno'n un a dysgeidiaeth Crist. Y mae'r ddyseidiaeth honno'n gofyn purdeb, cariad at addyg, caredigrwydd at ddyn, addfwynder at greaduriaid direswm, iaith ddihalog.

AELODAU NEWYDDION.

- 1206 *Maggie Edwards, Dolpandy, Penllwyn, Ceredigion.
 1207 John Baldwyn Jones, Meirionfa, Dinas Mawddwy.
 1208 *Tom Lloyd, Cwmbwch, Rhydlewis, Ceredigion.

CANGEN LLANDEGFAN.

1209—1231.

W. J. Morris, Pen Cefn Bach (Llywydd); William Prichard, Pant Bach (Arweinydd y gân); Owen Jones, Groeslon (Arholwr); Llewelyn Parry, Felin (Ysgrifennydd); Howell Parry, Felin (Trysorydd); Mrs. Parry, Felin; Jane Owen, Pen Maen; Mary Williams, Hen Ysgol; Eliza Jones, Groeslon; Richard Williams, Hen Ysgol; Harry Morris, Pencefn Bach; W. O. Jones a Bob Jones, Pen y Caera; Evan Williams, Hen Ysgol; R. Gray Owen, Carreg Felan; John Jones, Groeslon; Thomas Hughes, Pen yr Orsedd; Hugh Hughes, Pen yr Orsedd; M. A. Jones, N. Jones, Groeslon; Richard Eams, Glan y Don; Hugh Owen, Pen yr Orsedd; W. J. Humphreys, Pen y Lon.

CANGEN CLYNOG (AIL RESTR).

1232—1245.

Idwal Roberts, Bryn Eisteddfod; John Lewis, Tŷ'r Capel; Tommie H. Owen, Penarth; Evan Jones, Cilcoed; Robert Pritchard, Hugh Jones, William Hughes, a Richard Hughes, Yr Allt; T. R. Jones, Ysgol Ramadegol; Besie Roberts, Bryn Eisteddfod; Jane Davies, Garnedd; Annie Owen, Tyrpeg; Barbara Ellen Jones a Mary Jones, yr Allt.

1246. William D. Williams, 2, Castle Terrace, Dolwyddelen, Arfon.
 1247. *Gwilym Derfel, Llandderfel, Meirion.

Gwir a ddywedwch, ysywaeth, fod llawer Cymro a llawer Cymraes nas gallant ysgrifennu llun o lythyr Cymraeg.

LLYFRGELLOEDD.

Mae rhai o ganghennau mwyaf blodeuog yr Urdd am ffurfio llyfrgell fechan i'r aelodau. Yr wyf ar ganol chwilio am restr o'r llyfrau mwyaf cyfaddas eu pris, a'r dull goreu i'w cael. Disgwylir i'r plant brynnu y llyfrau rhataf eu hunain, a chasglu llyfrgell fechan o'u heiddo eu hunain ynghyd. Ni chant gyfeillion gwell na mwy dyrchafol na llyfrau.

PROFIAD PLENTYN.

Adroddwyd y penillion canlynol gan fachgen bach yr awdwr yng nghyfarfod y plant.

I.

NID wyf fi ond plentyn bychan,
 Heb gael teimlo loes na briw;
 Ond mi garwn wneyd fy nghyfran
 Gyda Band of Hope y Rhiw.

II.

I rai ereill yn eu hamser,
 Ar eu taith i'r Ganan wiw,
 Cysgod rhag dryghinoedd lawer
 A fu Band of Hope y Rhiw.

III.

Heddyw mae fy ngobaith innau
 Fel yr enfys hardd ei lliw,—
 Gobaith cyrraedd gwell trigfannau
 Gyda Band of Hope y Rhiw.

IV.

Rhaid i bawb ymroi i weithio—
 Cyn daw'r byd yn winllan Duw,
 Dyma'r cylch wyf fi'n ddymuno,—
 Gyda Band of Hope y Rhiw.

BRYFDIR.

I'W DDARLLEN YN DDIFYFYR.

Y DYDD o'r blaen gwelais briodas rhwng ci a chath mae gelyn-iaeth ofnadwy gweled meddwyn mewn pulpud gwelais bregethwr yn dal llygod 'roedd cath John Owen sydd ddyn crefyddol fel tyrchwr 'roedd Robert yn enwog am ddal pysgod ces fy nghosbi wrth ddarllen mae cael gwybodaeth o'r Beibl Twm Shon Cati oedd ddyn enwog am wneyd bara oedd Jane mewn cut 'roedd mochyn yn rhyfela mae'r milwyr yn y Transvaal daliwyd Cronje mewn tepot mae te yn gwneyd olwynion mae saer melinau sydd lesol at noddî blawd mewn wy mae melyn a gwyn yw hosanau Mary Jane sydd yn wraig rinweddol iawn am hel ystraeon cefais gerydd mewn cerbyd gwelais blentyn yn dal gwningod 'roedd ffermwr mewn coleg 'roedd pregethwr yn pregethu i bechaduriaid y byd arall sydd agos.

Llawr y Glyn.

NATHAN EVANS.

1-18412 802 = 18412

BETH MAE PLANT YN OFNI.

GWYR plentyn, fel rheol, beth mae'n ofni fwyaf. Pan oeddwn i'n blentyn, yr oedd arnaf fwy o ofn gwlan na dim. Os rhoddid tusw o wlan ar fy llwybr, gellid bod yn sicr na cherddwn hyd y llwybr hwnnw. Nis gwn pam yr ofnwn wlan; ond, hyd yn oed heddyw, pan gyffyrddaf â gwlan, bydd iasau o'r hen ddychryn yn mynd drwof. Ni fu arnaf ofn taranau erioed; ond, pan tyddai Ab Owen yn chwarae bellder o'm golwg, gwyddwn, os clywn daran, y byddai yn fy myl ar fyrder, a'i wyneb cyn wynnied a'r galchen.

Beth amser yn ol gwnaeth athraw Americanaidd ymchwiliad digon rhyfedd. Gofynnodd i 1500 o blant ysgol beth oedd arnynt ofn fwyaf. Y naw peth yr oedd mwyaf ohonynt yn ei ofni fwyaf oedd,—

- | | |
|----------------------|------------------------------|
| I. Mellt a tharanau. | VI. Tân. |
| II. Nadroedd. | VII. Anifeiliaid dof. |
| III. Pobl ddieithr. | VIII. Anifeiliaid gwylltion. |
| IV. Tywyllwch. | IX. Pryfed. |
| V. Marw. | X. Ysbrydion. |

Y mae ystormydd o feltt a tharanau yn twy sydyn, yn fwy ofnadwy, ac yn fwy difrodus yn yr Amerig nag yn y wlad hon. Y mae nadroedd yn fwy aml yno hefyd, ac yn fwy gwenwynig. Mae'r tai yn bellach oddiwrth eu gilydd, a'r plant felly yn gweled llai o bobl. Y mae'n ddiameu mai nid yr un un fuasai rhestr pymtheg cant o blant Prydeinig.

Ofna plentyn y peth y dysgir iddo ei ofni. Clywais un cyfaill yn dweyd y rhuthrai ei blant ef i'r gornel dywyllaf at y "bo bo" os clywent ei fod yno. Yr oedd wedi eu dysgu i gredu fod y bod hwnnw yn gadael melusion ar ei ol i blant da.

Yr oedd ar y merched bach Americanaidd ofn 1,765 o bethau, a'r bechgyn 1,106. Yr oedd ar rai bechgyn, a llawer o ferched, ofn llygod. Ond yr oedd ar fwy o'r bechgyn ofn dŵr, pobl ddieithr, a syrthio o leoedd uchel. Y plant hynaf oedd ar fwyaf o ofn taranau, ymlusgiaid, lladron, a pheiriannau.

Yr oedd y rhan fwyaf o'r plant yn meddwl tod ysbrydion yn wynion, rhai eu bod fel dynion, a rhai eu bod fel cysgodau, ac ereill eu bod fel pobl wedi marw. Tybiai rhai fod ganddynt freichiau hirion iawn.

Sylwodd yr athraw Americanaidd lawer ar y plant oedd yn ei ateb. Os byddai plentyn yn unig blentyn ei rieni, sylwodd ei fod yn twy hen ffasiw'n na'r lleill, yn llai bywiog, ac yn fwy hunanol. Nid oedd ei iechyd cystal ychwaith, yr oedd yn fwy araf gyda'i waith, ac yn llai hoff o chwarae.

Sylwodd mai yn yr haf yr oedd y plant talaf wedi eu gent fel rheol, yn enwedig ym mis Gorffennaf; a'r rhai byrraf yn y gauaf, yn enwedig ym mis Tachwedd. Sylwodd fod plant tlodion yn fyrrach, oherwydd diffyg maeth, na phlant cyfoethog hefyd.

Hoffwn yn fawr gael tipyn o hanes plant gan eu hathrawon. Beth sydd ar blant ysgolion Cymru fwyaf o ofn? Faint ohonynt sydd a gwallt du, a faint a gwallt melyn? Faint sydd a llygaid duon, faint a llygaid gleision? A yw llygaid du a gwallt du, llygad glas a gwallt goleu, yn myned gyda'u gilydd bob amser? Pa un ai merched ynte bechgyn yw'r prydlonaf? Ar bwy mae mwyaf o ofn gwlaw? Beth yw nodweddion plentyn ei nain?

CAMGYFEIRIO.

YR oedd gweinidog unwaith yn ysgrifennu llythyr at eglwys ac at ei denant. Ei neges at yr eglwys oedd gwneyd dwy blaid yn un; ei neges at ei denant oedd dweyd beth i'w wneyd yr wythnos wedyn. "Rhoddwch bopeth heibio er mwyn llafurio, a chofiwch fod y tarw du yn beryglus,"—dyna'r llythyr at y tenant. Mewn camgymeriad, rhoddodd y llythyr hwn yn yr amlen oedd i fynd i'r eglwys; ac anfonodd lythyr yr eglwys i'r tenant. Wedi darllen y llythyr, ebai pobl yr eglwys,—“Dyna gyngor ardderchog. Pe rhoddem bopeth heibio er mwyn llafurio, ni fyddai gennym amser i gweryla. Ac y mae'r hen Satan, sef y tarw du y cyfeiria y gweinidog duwiol ato, mor beryglus ag erioed.”

A darfyddodd y cweryl yn yr eglwys.

AR FORE GWYN O HAF.

A R ol dryghinog auaf du,
A'i hen ystormydd oerion fu,
Cawn bellach dywydd braf;
Cawn weld y dolydd hardd eu llun
Yn wyn gan fiodau bob yr un,
Ac maent mor hardd a'r nef ei hun
Ar fore gwyn o haf.

Pan byddwy'n myned drwy y llwyn
Fe glywir rhyw gerddoriaeth fwyn,
Yr adar yno gaf;
Fe fydd y dryw a'r asgell fraith
Yn canu gyda newydd iaith,
A pha beth gwell i lonni'm taith
Ar fore gwyn o haf?

Pan byddwy'n myned at fy ngwaith,
Yn fore fore ar y daith,
Beth i'm dyddanu gaf?
Dim ond asgellog gôr y llwyn,
A'u lleisiau'n toddi'n llawn o swyn,
Mor hyfryd eu telynuau mwyn,
Ar fore gwyn o haf.

Ond mor ddiffygiol ydyw dyn
I weld drwy'r cyfan Dduw ei hun,
Ynghyd â'i roddion braf;
Beth yn brydfertlach geir yn wir
Na'r blodau sy'n tryfritho'n tir,
Ac ernes bach o'r nefol dir
Yw bore gwyn o haf.

DEWI Tudra.

Y PRIFATHRAW T. C. EDWARDS.

GANWYD y Prifathraw Edwards yn y Bala, Medi 22, 1837; ac yno y bu farw, Mawrth 22, 1900. Cafodd ei addysg yn y Bala, yn enwedig yn y coleg, lle'r oedd ei dad, Dr. Lewis Edwards, yn brifathraw. Graddiodd ym mhrifysgol Llundain; ac yn un o'r arholiadau yr oedd yn ail ar y rhestr, a Jevons, ddaeth yn rhesymegwr enwog wedi hynny, yn gyntaf. O Lundain daeth i Rydychen, ac ymunodd â Choleg Lincoln, y pryd hwnnw dan lywyddiaeth yr hynod Mark Pattison. Graddiodd yn y dosparth cyntaf mewn anrhydedd.

Wedi gadael Rhydychen bu yn weinidog eglwys am beth amser. Pan agorwyd Coleg Prifysgol Cymru yn Aberystwyth, penodwyd ef yn brifathraw cyntaf arno; ac yno y bu hyd o fewn ychydig flynyddoedd yn ol, pan y symudodd i'r Bala, i gymeryd lle ei dad fel prifathraw y Coleg Duwinyddol.

Ysgrifennodd lyfrau gwerthfawr ar esboniad-aeth dduwinyddol. Ond fel pregethwr yr oedd yn fwyaf adnabyddus; pregethai gyda goleuni a gwres oedd bron yn anorchfygol. Rhoddodd firwyth goreu ei feddwl i'w esboniad ar yr Epistol Cyntaf at y Corinthiaid. Darganfyddodd feddylliau Paul, a phregethodd hwy yng Nghymru gyda nerth mawr.

Bu Dr. Lewis Edwards, farw yn 1887; yr oedd ei fab ar ganol ysgrifennu cofiant iddo pan ddaeth ei angau cynnar yntau.



Y PRIFATHRAW T. C. EDWARDS, D.D.

[Darlun gan J. Thomas, Lerpwl.]

BORE BYWYD.

TELYNEG.

I.

I RODDI tro am febyd mad
Cyffroad gaiff yr awen ;
Wel casted ar ei difyr hynt
Hyrwyddol wynt i'w haden ;
Mor felus cofio hwyl a stôr
Dull hoew'r cyfnod llawen.

II.

Er hyn, nid melus oedd i gyd,
Mae ambell ennyd chwerw
Yn gallu cuddio peth o wên
Y tymor llawen hwnnw ;
Pryd yma caem, am ddrygau dwys,
Enbydus bwys y bedw.

III.

Er hyn, mae Eden oes yn wir
Ar wyn gyfandir mebyd,
A dyma'r unig gyfnod gaf
I'w enwi'n haf fy mywyd ;
Pawb yma gant, fel engyl glân,
Deg hedfan uwch dig adfyd.

IV.

O dymor hoff,—a'i ddeiliaid mân
Yn llawn o dân chwareaeth,
Da gwyddent beth yw llonder llwyr,
Ond neb ni w'yr am alaeth ;
Oblegid ceir elfennau llon
Mwynderon yma'n doraeth.

V.

Hen fore oes diloes, dilwyth,
Sydd esmwyth, heb ofalon,—
Lle'r ymwyfyda lliaws byd
Cyn mynd dan lid helbulon ;

Pryd cwyd o'r ysgafn fron ddimam
Waedd grefa am ddirifon.

VI.

Y byd, o garedigrwydd, gawn
Yn drylawn, wrth ei dreulio,
Cai 'newis bethau i'm eu dwyn
Ond traethu cwyn ac wylô ;
'Nawr chaf i unpeth, heb, fel llew
Ymdynnu'n lew am dano.

VII.

Ei ddinych bêr dddiddanwch byw
Eiddunwn eilfyw eto ;
O ! na bai'r bywyd yma gawn
Yn fil mwy llawn o hono ;
Nid oes blinderau câs na llid
Hyll ofid drwyddo'n llifo.

VIII.

Gu fore oes ! hyfrydwch fedd.
A llonydd hedd a hawddfyd,
Ni âd i helynt byd a'i groes
Ag einioes i ymyrryd ;
O fewn, meithrina ysbryd llon,
A chalon ddifrycheulyd.

IX.

O, febyd hoff, a'i swyn ar led !
Y meddwl hêd yn llawen
O hyd yn ol i ail fwynhau
Ei ddyddiau dedwydd addien :
Rhan delaid oes,—mae'n dyled
I'w moli am ei heulwen.

Gwsgog.

BORE OES BEIRDD.

LE trenliodd rhai o feirdd Cymru fore eu hoes ?
Rowland Fychan yn Llanuwchllyn, Morgan Llwyd ger Ffestiniog, Huw Morris yng Nglyn Ceiriog, Edward Morris yng Ngherrig y Drudion, Sion Dafydd Las yn Llanuwchllyn, Ellis Wynne yn Harlech, Lewis Morris ym Mhenrhoe Llugwy, Goronwy Owen yn Llanfair Mathafarn, William Williams yn Llanfair ar y Bryn, Morgan Rhys yn Llanymddyfri, Twm o'r Nant yn Nantglyn, Edward Richard yn Ystrad Meurig, Dewi Wyn yn Llanystudlwyr, Ann Griffiths yn Llanfangel yng Ngwynfa, Ieuan Glan Geirionnydd yn Nhrefriw, Eben Fardd yn Llanybi, Gwilym Hiraethog yn Llansanan.

Y GYMWYNAS OLAF.

CYMERODD y digwyddiad yr wyf ar ei wneyd yn hysbys le tra yr oeddwn yn treulio fy ngwyliau haf yn Rwsia. Yr oeddym yn gwmni o ddeuddeg, yn cael ei wneyd i fyny o deithwyr o wahanol wledydd, wedi dyfod i dreulio eu gwyliau yn yr un modd a mi fy hun, i fwynhau golygfeydd rhan o'r wlad fawr honno.

Cymerwyd cyfran o'n dyddiau i ymweled â'r rhan honno o'r wlad sydd a'i henw, yn yr adgof o'r hyn gymerasai le yno, yn aros yn ysmotyn du ar hanes Prydain Fawr,—y Crimea, lle bu brwydro mor ffyrnig rhyngom a'r Rwsiaid. 'Roeddem wedi bod trwy'r dydd o tan arolygiaeth arweinydd, yn edrych ar wahanol rannau o'r tir oddiar ben uchelderau'r Alma. Er mai pleser ac adloniant ydoedd nod ein taith, eto nid dynol fuasem pe heb geisio sylweddoli i ni ein hunain yr ymladd erchyll, y rhwad magnelau, a'r trwst carlamiad meirch, wnai i'r hen fynydd hwn grynnu ar ei seiliau ar un diwrnod yn niwedd haf 1854,—dydd brwydr yr Alma.

Wedi bod fel hyn, trwy'r dydd yn teithio o fan i fan, heb lawer o ymborth, cychwynasom tua'n llety yn flinedig. 'Roedd yr haul wedi machlud, a'r nos wedi ein goddiweddyd. Nid oedd un awel yn chwythu, nac un swn yn aflonyddu ar gwsg y tir.

Tra yn teithio fel hyn ynghyd, mewn gormod cydymdeimlad â'r distawrwydd cyffredinol i siarad, tynnwyd ein sylw at oleuni yn tywynnu yn wan mewn lle cyfagos.

Gofynasom i'r arweinydd beth oedd y goleu hwnnw, gan dybied fod yno westy, neu rywbeth o'r fath. Ond ei atebiad ydoedd mai mewn cyteiriad lle safai y fynwent yr oedd y goleuni. Aethom, yr oll ohonom, i gyfeiriad y goleu.

Wedi cerdded ychydig daethom at borth mynwent. Aethom i mewn drwyddo, nes setyll o fewn ychydig i'r goleu. Gwelem yno fachgennyn tuag wyth oed. 'Roedd heb gôt na chap, nag esgidiau na hosanau. Yr oedd rhith o gryd am ei gefn, a throwsus carpiog a gedwid i fyny gan liny gan dros ei ysgwydd. Yr oedd ar ei benliniau ar un o'r beddau. Gwelem, hefyd, nad oedd y bedd ond newydd ei gau, gan mor newydd yr edrychai y pridd. Cynyrchid y goleu gan ganwyll fechan wedi ei gosod yn y ddaear wrth un pen i'r bedd. Ar y bedd gwelem lun croes wedi ei gwneyd â cherrig bychain. 'Roedd y cyfan wedi eu gwneyd yn drefnus. O amgylch y bedd yr oedd rhes o gerrig wedi eu gosod i gadw y pridd yn ei le.

Arhosai y bachgennyn uwchben y bedd yn edmygu y gwaith,—yr hwn oedd newydd ei orffen,—gyda chymaint o foddhad ag i'w wneyd yn hollol anwybodol o'n presenoldeb ni. Dywedai, yn ei

iaith ei hun,—a chan fy mod yn medru cryn dipyn ar yr iaith honno, deallais ef,—

“Wel, Mair fach, dyma fi wedi gwneyd y groes ar dy fedd, ac wedi plannu y pren, blannaist ti yn yr ardd dro yn ol, uwch dy ben. Gobeithio na fyddi ddim yma yn hir. Fe ddaw y gauaf yn fuan a'r eira i'th orchuddio, a'r blaidd i grafu y ddaear i chwilio am ysglyf-aeth, a byddaf finnau heb neb i chwareu â mi.”

Ar hyn torrodd yr un bach i wylo yn hidl. Cymerais afael yn ei law. Ar hyn sylweddolodd ein presenoldeb. Ond ni ddychrynnodd. Gwelodd mai dieithriaid oeddy, a'r peth cyntaf ddywedodd ydoedd,—

“Gobeithio na ddinistriwch y groes.”

“O na wnawn,” atebais innau. Gofynnais iddo beth oedd yn ei wneuthur yno yr amser hynny o'r nos. Ebe'r bychan,—

“Yr wyf heb fam na thad, ac nid oedd gennyf ond fy chwaer fach i chwareu â mi. Dywedodd y Tad Raphaelowski fod ein tad a'n mham mewn byd prydferth, ac y deuant yn ol i'n hymofyn cyn hir. Elem ein dau, mi a'm chwaer, bob tro y gallem, allan i'r mynydd gan ddisgwyl am ein rhieni, ond nid ydynt wedi dyfod eto. Y ddde bu Mair fach farw; a dyma fi yn unig heb fy chwaer anwyl. Merch fach dlos oedd hi,—gwallt melyn oedd ganddi,—ac heddyw y claddwyd hi. Gofynnais i fy ewyrth am ddimai i brynnu canwyll, er cael goleu i ddod i wneyd croes ar ei bedd, a phlannu'r pren wrth ei phen, gan fy mod yn byw yn bell oddiyma, ac nis gallwn gael cyfle i ddod yma am hir amser, ac feallai y byddai yr eira wedi dod cyn hynny. Felly, ciliais yma heno ar ol swper, a dyma fi wedi gorffen fy ngwaith. Ffarwel, Mair fach, dewch yn ol yn fuan, mi fyddaf i yn eich disgwyl bob dydd hyd nes dewch. Deuaf yma eto.”

Yna wylai yn hidl. Ond ar unwaith diffoddodd y ganwyll, a chollassom olwg ar ein gilydd am ychydig gan sydynrwydd y tywyllwch. Pan aethom i chwilio am y bachgen, yr oedd wedi cilio ymaith i'r tywyllwch, ac nis gwelsom ef mwyach.

E. J. R.

TYNERWCH Y TYLWYTH TEG.

WRTH adrodd hanes y Tylwyth Teg yn *Cymru* diweddaf, dywed J. W. Huws, Llantaelog, y byddai'r Tylwyth Teg yn cymeryd plant o'u cryd ac yn rhoddi eu plant eu hunain yn eu lle, er mwyn iddynt gael gwell magwraeth. Rhai croesion iawn fyddai eu plant hwy,

Os gwrthodid cymeryd plentyn y Tylwyth Teg, a'i adael i'w rhoddi yn y cryd, deuai ei fam i'w ymofyn; a deuai ei rhieni gwrthoddi oddiyno i'w rhoddi yn ei ol.



TU MEWN TY YN HOLLAND.

ARWRIAETH YR ISELDIROEDD.—V. ELIEN ARWROL.

Y MAE gan ddisgynyddion arwyr rhyddid un elfen bwysig,—y mae eu tai yn lân fel yr aur. Y mae glendid yn elfen arwrol. Yn ol hen werslyfr ysgol, y mae glanweithdra yn nesaf peth at dduwioldeb. Nis gall dyn sydd yn caru rhyddid fyw mewn afterwch a baw. Dull ar ryddid yw glanweithdra, ac un o nodweddion y bywyd arwrol. Ewch i dŷ yn Holland, cewch yno gariad at ryddid ac at oleuni. Gwelwch hynny'n eglur. Nid oes yno lwch. Os llian gwyn, mae'n wyn fel yr eira. Os llestr gloew, mae mor loew fel y gwelwch eich llun ynddo. Os dodrefnyn coed, mae'n lân loew. Os gwydr, ni cha llwch rwystr o'r haul belydru trwyddo. Mae bywyd rhydd a meddyliau effro'r bobl megis wedi llewyrchu glanweithdra ar bob peth o'u hamgylch. Os gwelwch ddyn yn dadleu dros ryddid i'r bobl a goleuni addysg i blant, ac yntau ei hun yn byw mewn baw, peidiwch a chredu ei fod o ddirif. Nid y' athron-
~~wr~~ lewr sy'n dioddef llwch, ond y diog a'r slataidd, un nas i wneyd gwrhydri dros y gwan a'r gorthrymedig.

DYFAIS CARIAD.

CLYWAIS fy nhaid yn adrodd hanesyn, oedd ef yn gofio, am dŵr uchel yn cael ei adeiladu. Nid wyf yn cofio ym mha le yr oedd, ond yr oeddynt wedi bod yn hir iawn gyda'r gwaith, ac yr oedd y tŵr wedi myned yn uchel iawn. A rhyw ddiwrnod, pan oeddynt bron a'i orffen, fe ddigwyddodd damwain ynglŷn â'r gwaith. Daeth yr ysgaffaldiau i lawr i gyd. Nid oedd ond un dyn ieuanc i fyny ar y pryd, ac fe ddeallodd hwnnw ei fod mewn perygl, ac fe symudodd oddiar y coed ac fe safodd ar ben y tŵr. Ac yno yr ydoedd, tel aderyn unig, ac heb ffordd yn y byd i ddyfod i lawr, gan fod popeth cysylltiol â'r ysgaffaldiau wedi mynd i lawr i gyd.

Yr oedd yno dyrfa fawr wedi ymgasglu i edrych ar yr olygfa bruddaidd, ac yr oedd llenni'r nos yn dechreu cysgodi popeth, gan raddol guddio y bachgen oedd ar ben y tŵr o'r golwg. Er pob dyfais o eiddo yr arch-adeiladwyr a llawer ereill, nid oedd yn bosibl cael y dyn i lawr. Ond yr oedd ei fam yn y dyrfa. Ac fel y mae cariad bob amser, nid oes dim yn anhawdd iddo. Fe welodd honno ffordd i'w gael i lawr, a dyna hi yn gwaeddi o ganol y dorff,—
 “Tyn dy hosan oddi am dy droed, a datod hi; a gollwng ben yr edeu i lawr.” Fe wnaeth yntau, a chyn hir yr oedd pen yr edeu wedi cyrraedd y llawr. Fe rwymwyd llinyn wrth yr edeu, â'r hon y tynnodd yntau y llinyn i'w law. Wedi hynny, rhoddwyd rhaff gref wrth y llinyn, a thynnodd yntau honno i fyny, a rhwymodd hi o amgylch pen y tŵr, ac aeth i lawr ar hyd-ddi yn ddiogel.

Cwmloch Isa, Beddgelert.

GRIFFITH THOMAS.

GEIRIAU'R DOETH.

“Nid oes dim mwy effeithiol, nid oes dim rhatach, na charedigrwydd.”

“Ni wrendy'r cyflawn ar reswm fo yn erbyn cydwybod.” (HOMER.)

“Pwy sy'n gorchfygu? Y rhai sy'n credu y gallant.” (DRYDEN.)

“Llyfr Duw yw cydwybod dyn, a gwyh ganddo ysgrifennu ei ewyllys ynddi.” (MORGAN LLWYD o WYNEDD.)

“A'i law gref e blyg yr Ior

Y gangen at ei gyngor.” (ISLWYN.)

“Boddio Naf, bydd dda i ni.” (DEWI WYN.)

“Doeth gynghorydd yw gobennydd pluf.” (CEIRIOG.)

“Cws, hoff adferydd natur.” (SHAKESPEARE.)

“Y neb a lafurio ei dir a ddigonir o fara.” (SOLOMON.)

C Cytfeiriad y golygydd yw,—OWEN M. EDWARDS, LINCOLN COLLEGE, OXFORD.

ARGRAFFWYD A OETHODDWDYD GAN HUGHES AND SON, 56, ROSE STREET, WELSHAM

AT Y PLANT.



R yr ail ddafen, yn wyneb-ddarlun i'r rhifyn hwn, ceir golygfa ar blant Holland, wrth un o'r camlesoedd sydd yn rhedeg drwy bob rhan o'u gwlad. Rhaid gadael y bennod ar arwriaeth eu gwlad,—pennod o hanes ieuencid y Tywysog Distaw,—dan y rhifyn nesaf. Rhaid gadael hefyd y bennod yn desgrifio Bordighera o'r gyfres

“Gauaf ar lan Môr y Canoldir.”

GWLAD y llew yw Affrig, ac y mae ymladd yno o hyd. Y llew Prydeinig drecha yn y diwedd, ond nid heb golli gwaed fel dwfr. Buan y'terfyno y rhyfel erchyll hwn rhwng Cristionogion. Gresyn fod y ganrif yn debyg o ddarfod, a chanrif newydd ddod i mewn, mewn gwaed.


H. J. Wrth gofio, dyma lythyr dyddorol arall ar “frwydr y canrifoedd.”

“Tybiwch eich bod yn cychwyn o Gaergybi ar hyd yr *Holyhead Road* i Lundain. Yn awr, wrth gychwyn o Gaergybi, byddai yn rhaid i chwi deithio milltir cyn y gwelech y garreg filltir *number one*, a byddai yn rhaid teithio dwy filltir cyn y caech y garreg filltir *number two*, ac felly ymlaen hyd nes y gwelech y garreg filltir *number cant* (100),—yn awr, oni fyddai yn rhaid i chwi fod wedi teithio can milltir cyn dyfod at y garreg filltir *number 100*? Yn awr, wedi pasio y garreg filltir *number 100*, pa un ai cerdded y filltir olaf o'r cant cyntaf, ai y filltir gyntaf o'r ail gant y byddech chwi?”

O'r dechreu hyd y garreg filltir gyntaf, yr ydych yn y filltir 1. Wedi cerdded ei chwarter, yr ydych wedi cerdded chwarter y filltir 1. Yr un fath gyda'r ail a'r ganfed. Fel mai 1 yw enw y filltir gyntaf, felly 100 yw enw yr olaf. I yw blwyddyn gyntaf bywyd, 100 yw canfed flwyddyn hen wr. Y mae 1 ar ddiwedd milltir, i ddangos ei bod wedi ei gorffen, a'r un fath 100? Pe rhennid y filltir, fel y rhennid blwyddyn, rhannau o 1 fuasai rhannau'r filltir gyntaf, rhannau o 100 fuasai rhannau'r filltir olaf.

Y MAE SON am allu swynwyr yn ystraeon Gwlad Hud,—y mae dynion a chwn ac adar yno yn medru gwneyd pethau pell uwchlaw gallu dyn. Ond coed plant fod yn eu byd gwirioneddol hwy alluoedd cryfach na dim sydd yng Ngwlad Hud. Dyma rai,—cariad, amynedd, caredigrwydd, dewrder, maddeugarwch. Medr y rhain oll wneyd gwyrthiau.

Yn y rhifyn diweddf dywedais fod y Prifathraw T. C. Edwards ar ganol ysgrifennu bywgraffiad ei dad pan fu farw. Yr wyf yn deal fod y bywgraffiad wedi ei orffen, a'i fod yn gyfan yn llaw y cyhoeddwr,—Mr. Isaac Foulkes, Lerpwl,—er ys rhai misoedd. Bydd yn dda gan lawer glywed hyn, fel yr oedd yn dda gennyf innau glywed. Yr wyf yn ysgrifennu y nodiad hwn rhag, yn ddiarwybod, i mi beri i neb feddwl ei fod, wrth dderbyn rhifynnau y gwaith, yn tybied ei fod yn derbyn rhifynnau gwaith anghyflawn.



PLANT HOLLAND YN YR HAF.



CYMRU'R PLANT.

CYF. IX.

MEHEFIN, 1900.

RHIF 102.

MEHEFIN.

MAE bywyd y byd ar ei lawnafl ym mis Mehefin. Y mae mwy o oleuni ynddo nag yn yr un mis arall. Ar amryw o'i nosau y mae'r wawr yn torri cyn i'r gwyl ddarfod,—prin y mae'r nos yn cael gorffwys ei hadenydd ar y byd.

Dyma fis ysplander blodau, yn enwedig blodau gwynion. Beth sydd yn fwy gogoneddus na blodau'r haf,—blodau'r drain, blodau'r ysgawen, blodau'r gwynwydd, blodau brenhines y weirglodd, a blodau afalau? Y mae'r ddaear wedi ei gwisgo âg eiliw o wynder disglair a thyrer y nef.

Mor nerthol yw bywyd. Gall planhigyn eiddil wneyd peth sydd yn debyg iawn i wyrth. Gall gwreiddiau carn yr ebol, er mor wylaidd yr ymddengys ei ddail mawrion llydain, rwygo creigiau. Gwelwyd cyn hyn goeden fasarnen fechan yn tyfu drwy dwll hen faen melin oedd wedi ei adael mewn maes gerllaw'r olwyn ddwr; ac, wrth dyfu, yn codi'r maen i fyny gyda hi. Ar y mynydd weithiau gwelir craig wedi ei hollti'n ddwy. O'r agen tyf goeden griafol. Y hi holltodd y graig. Nid oedd ar y dechreu ond hedyn gludwyd i'r mynydd o'r meusydd islaw ar big aderyn. Disgynnodd i'r agen, tyfodd yn goeden fechan eiddil brydferth. Er mwyn cael lle i dyfu, holltodd y graig.

Mae bywyd ym mhob man ym Mehefin. Edrychwch ar y garreg fawr wastad acw sydd yn gorwedd er ys cyn cof ar ymyl llwybr y cae. Y mae pantle bychan ar ei chanol; ac ar hwnnw y mae ychydig lwich chwythesid gan y gwynt wedi ymgasglu. Nid yw'r llwch yn cuddio mwy nag a guddiai darn chwe cheiniog; ac eto, edrychwch, y mae pump o wahanol blanhigion bychain gwylltion wedi gwneyd eu cartref yno, ac yn tyfu'n ddewr.

Bywyd yn chwilio am le i flodeuo, i ddangos ei dlysni, gawn ym mis Mehefin. Nid oes gae, nid oes ymyl ffordd, nid oes bwl o ddŵr llonydd, na cheir ynddynt rywbeth byw y gallem ryfeddu at ei dlysni. Pa fwyaf ddengys y chwydd-wydr inni, mwyaf ryfeddwn at ofal y Creawdwr, ac at eangder dihybydd ei gyfoeth.

PETHAU BYCHAIN.

“**N**A ddiystyrrwch ddydd y pethau bychain.” “Tlws pob peth bychan.” Dyna adnod a dihareb. Mae pethau mwyaf y ddaear yn dechreu yn fach; y mae pethau mwyaf nerthol y ddaear yn dechreu yn eiddil. Rhydd Duw dlysni i'r bychan i fod yn am-ddiffyniad iddo.

Ychydig wyddai neb y byddai'r bachgen Charles Dickens yn un o awduron enwocaf Lloegr. Yr oedd yn dlawd, ac ni fedrai gael ysgol fel bechgyn ereill. Ond, yn ieuanc iawn, dysgodd sylwi ar ddulliau bywyd ac ar ffyrdd dynion,—a chafodd ystôr o wybodaeth. O'r cyfoeth hwnnw y gweodd ei nofelau,—nofelau wnaeth gymaint i ddyddori miloedd, ac a wnaeth gymaint i ennyn cydymdeimlad â'r tlawd a'r gorthrymedig. Ychydig feddyliai neb wrth ateb gwestiynau plentynaidd Walter Scot eu bod yn helpu i gynhyrchu rhamantau enwocaf Prydain. Nid oes hedyn distadl nas gall rwygo creigiau; nad oes blentyn nas gall godi ac ysgwyd y byd.

Y GWLITHYN.

I.

WLITHYN bychan, tlws ei wedd,
Mor ddirwst bu'n disgyn
Drwy y dwfn-gyfriniol hedd,
I fywhau'r blodeuyn.

II.

Irodd fin y lili dlôs,
Yn ei gwynder sanctaidd;
Torrai'i chalon yn y nos
Heb ei gusan gwylajidd.

III.

Pan gyffyrdda'r wawr ei rudd
Y pelydra'i dlysni;—
Mae disgleirdeb tlysach dydd
Drwy ei swyn yn pefru.

IV.

O! mae nef o burdeb byw
Yn ei fynwes loew;—
Drwy y gwllithyn cofa Duw
Na cha'i flodyn farw.

CENECH.

CANWYLL CORFF.

PWY sydd yn otni ysbrydion ar hinos Mehefin? Neb. Ryw dro yr oedd dau fachgen yn byw yn sir Aberteifi. Yr oedd Sion yn credu mewn canhwyllau cyrff, yr oedd Gruffydd yn anghrediniol. A wyddoch beth yw canwyll gorff? Gwel rhywun ganwyll oleu yn ymdeithio ei hun yn y nos oddiwrth ryw ddrws, ac yna yn crwydro hyd nes y cyrraedd fynwent, ac yno diffydd. Ymhen ychydig ddyddiau bydd rhywun tarw yn y cartref y gwelwyd y ganwyll yn gadael ei ddrws, ac ymdeithia'r cynhebrwng ar hyd y llwybr y buasai'r ganwyll gorff yn crwydro hyd-ddo.

Yr oedd Sion a Gruffydd yn y ffair yn y dref. Cychwynnodd Sion adre'n gynnar. A dweyd y gwir, yr oedd arno ofn gweld canwyll gorff ar Ros y Meirch, os arhosai nes yr ai'n nos. Cychwynnodd Gruffydd ymhen ysbaid ar ei ol. Er cychwyn yn gynnar, ymdrôdd Sion ar y ffordd; ac erbyn iddo gyrraedd cwr Rhos y Meirch, yr oedd yn nosi'n gyflym. Yr oedd y ffordd yn croesi'r rhos hirfaith, ac yn y pen pellat yr oedd yn mynd dros bont. Wedi mynd dros y bont honno, a dim cynt, anadlai Sion yn rhydd.

Pan ddechreuodd gerdded ffordd y rhos, yr oedd arno ofn edrych yn ol. Yr oedd wedi clywed llais plentyn; ac yr oedd son fod plentyn bach pen felyn,—ysbryd plentyn,—yn crwydro yn y coed. Felly, beth bynnag ddigwyddai, yr oedd yn rhaid mynd ymlaen.

Er ei fraw, gwelai oleu ymhell o'i flaen, ac nid oedd yn sicr nad oedd yn dod i'w gyfarfod. Safodd ei wallt yn syth ar ei ben; teimlai chwys oer drosto. Diflannai'r goleu am eiliad, deuai i'r golwg drachefn. Araf iawn y trafaeliai. "O ran hynny," ebe Sion wrtho'i hun, a'i ddannedd yn crynnu ar eu gilydd, "araf iawn yw angladd hefyd." Yr oedd yn amlwg fod y goleuni yn trafaelio i gyfeiriad y bont. Yr oedd yn agosach at y bont na Sion; ond, gan fod y goleu yn mynd mor araf, oni allai Sion gyrraedd y bont o'i flaen? Penderfynodd roi cynnyg arni. Ac wele'r llanc tal heglog yn rhedeg yn gyflym hyd lwybr y rhos.

Gwelodd Sion, a rhedeg ei oreu, y byddai'r goleu wrth y bont o'i flaen. Suddai ei galon ynddo gan ofn. Ond ni wyddai beth i'w wneyd ond ceisio rhuthro i'r bont. Cydiodd yn dynnach yn ei ffon onnen.

Pan ddaeth at y bont yr oedd y goleu,—dim ond goleu,—yn sefyll ar ganol ei ffordd. Bwriodd Sion ergyd ato â'i ffon; a chlywai grecian, fel gwydr yn torri. Dychrynnodd fwy fyth, ac yr oedd yn croesi'r bont fel melten. Ac os bu rhedeg cyflymach na rhedeg Sion i fyny'r allt oddiwrth y bont, ni chlywais i erioed am dano.

Ymhen ychydig yr oedd Gruffydd, ar ei ffordd adre, yn dynesu at y bont. Cyn dod yno, clywai swn plentyn yn wyllo. Goleuodd fatsen, a gwelai eneth fechan yn eistedd ar lawr ar ochr y ffordd. Yr oedd ei llaw yn gwaedu ychydig, ac yr oedd llusern doredig ar lawr yn ei hymyl.

Gwen fach y Llwyn, amaethdy gerllaw, oedd. Yr oedd ei mham wedi ei hanfon, a llusern yn ei llaw, i chwilio am ful crwydredig. A dyma ei hystori hi,—

“Pan oeddwn i wrth y bont, fe ddaeth rhywbeth du allan o'r tywyllwch. Tarawodd y llusern nes oedd yn deilchion, ac yna diflannodd drachefn.”

Goleuodd Gruffydd y llusern, yr oedd y noson mor dawel fel na ddiffoddai, er fod ei gwydr wedi torri. Cafwyd y mul, ac aeth Gwen adre'n dawel.

Dyna oedd cwestiwn tad Sion y noson hono,—“Beth allai fod y goleu welodd y bachgen yma tybed?” A dyna feddyliai Gruffydd,—“Beth, tybed, oedd y peth du ddaeth o'r tywyllwch i dorri gwydr llusern Gwen fach y Llwyn?”

Y BARCUT A'R CYW IAR.

MEWN bwthyn gwyngalchog mewn pentref tawel ar lan un o afonydd mwyaf mawreddog sir Gaerfyrddin, preswylai hen wraig, yr hon oedd i'w gweled bob nos, gyda chysgodion yr hwyr, yn sefyll wrth ei drws a hosan yn ei llaw, ac yn gweu ei gwaethaf, a golwg iachus braf ar ei gwyneb.

Un diwrnod twym iawn ym mis Medi, pan oedd yr haul yn tywynnu, gellid gweled rhyw ddwsin neu ragor o gywion bach mwy na'r cyffredin yn y cae ger y bwthyn yn chwilio yn ddyfal a hyd iddo am ryw fwyd. Toc, dyna'r barcut yn disgyn yn eu canol, ac yn y fan yn crabachu am un o'r cywion, gan feddwl ei gymeryd i fyny. Yr oedd ei ewinedd i mewn yn y cyw, ac wele ef yn myned i gymeryd ei aden. Ond yr oedd y cyw yn ei ddal ar y llawr o hyd, oherwydd ei fod yn rhy drwm i'r barcut ei godi. Ac hefyd yr oedd y ddau wedi eu rhwymo mor dyn yn eu gilydd fel nas gallsent wahanu.

Rhedai y cyw ar hyd y cae, a'r barcut wrtho. Rhedai i bob man bron. O'r diwedd, cafodd y cyw y fynedfa o'r cae at y bwthyn, ac aeth i mewn i'r tŷ, a'r barcut yn glynu wrtho. Pwy oedd yn y tŷ ond yr hen wraig, a phan welodd yr olygfa, aeth mewn syndod mawr. Pa beth a wnaeth, tybed? Fe ymasfodd mewn haiarn ger y tân, a gwnaeth ddefnydd o hono i ladd y barcut. Y canlyniad fu i'r barcut gael ei ladd a'r cyw gael ei achub.

Caerfyrddin.

D. REES PHILLIPS.



AR Y GAMLAS, GER LLANGOLLEN.

AR Y GAMLAS.

DARLUN yw hwn anfonwyd i'r gystadleuaeth gan Mr. John E. Evans, Ysgwar Stryd y Capel, Llangollen. Y mae gorffwys i'r llygad wrth edrych arno, ac yn hynny y mae hyfrydwch darlun. Tynnwyd ef ychydig yn is i lawr ar y Ddyfrdwy na Llangollen, ychydig yn is na bro hanesiol mynachlog Glyn y Groes a Chastell Dinas Bran.

Nid yw'r gamlas yn mynd yn uwch i fyny na'r dyffryn tawel lle saif Glyn y Groes ynddo. Wedi hynny y mae'r wlad yn codi'n rhy serth i ddwfr fod yn dramwyfa. Byddai gweddoedd Meirion yn dod at ben y gamlas i geisio glo, calch, papur, a phob nwydd. Llwybr, ffordd, ffordd dŵr, ffordd haiarn,—dyna bedwar cyfnod ffyrdd ein gwlad.

T Y A R D A N .

(DARN I'W ADRODD.)

GANOL NOS,—

Distawa murmur tonnau masnach yn y pellder,
 A'r gweithiwr hun yn felus heb ystormydd pryder;
 Ni chlywir dim ond mawl "tw hw" dallhuan unig,
 A chwynfan isel awel heda dros y goedwig.

O dawel, brydferth nos, yn dy ddistawrwydd dwyfol,
 Y teimlwn ddwyllaw byw agosrwydd yr ysprydol;
 Rhwng llynges o gymylau, lampau'r nef ddanghosant
 Y cyfandiroedd rodia engyl y gogoniant;
 Mae byd a'i fwyn delynau ym mreichiau cwsg yn huno,
 A chariad daena fantell o dawelwch drosto.

Ust! Ust! Clyw lef fel udgorn wna i'r ardal ddeffro,—
 "Tân!" "Tân!" ateba creigiau'r glyn y llais sy'n bloeddio;
 Mae'n dal i waeddi'n uchel,—"Tân!" "O, deuwch yma."
 A chalon fawr ddyngarol gwlad yn awr gynhyrfa.

Mae cartref y gweithiwr yn aberth i'r tân,
 A fflam goch fel baner ar ben ei dŷ glân;
 Mae'r bwthyn oedd ddoe yn baradwys i gyd,
 A'i aelwyd yn ddrych o drueni i'r byd;
 Mae bachgen bach anwyl yn rhywle'n y tŷ,
 Ac angeu yn rhuo fel llew arno'n hy;
 Trychineb fel yspryd deyrnasa'n y fan,—
 Oes neb yn y dorf a'n waredwr i'r gwan?
 Y dewr rhwng magnelau peryglon a 'mlaen,
 A'r fflamau fel nadroedd yn chwythu o'i flaen;
 Dolefa'r fam dyner,—"Fy mhlentyn di nam,
 Rho naid drwy y ffenestr i fynwes dy fam."

Ond, gwaedda rhywun,—"Ffown, estynna'r tân ei freichiau
 I ollwng gwas a'i cynorthwya o'i gadwynau,"
 A chilia'r llu,—mae dan y grisiau'n ffugio hepian,
 Ddefnyddiau ffrwydrol yn clustfeinio am ddod allan;
 Ar hyn, fel tymestl rhuthra dinystr mawr o'i garchar,
 A'i ruad dwfn fel taran drom ddirgryna'r ddaear;
 Yr oddaeth hyrddiwyd oll tel lluwch i'r pedwar gwynt,—
 O, lle mae'r dewr, y fam, a'r plentyn dedwydd gynt?

Y Bala.

RICHARD AB HUW.

FOT DAFYDD PUW.

DDYWEDAIS i mo'r hanes erioed o'r blaen; ond gan nad wyf bellach yn teimlo lawn mor ieuanc ag y bum, y mae rhywbeth yn peri imi osod ar gof a chadw yr hanes canlynol am ddigwyddiad gymerodd le yn etholiad 1868,—cyn dechreu pleidleisio drwy'r balot.

Poethai'r frwydr etholiadol bob dydd. Canai'r seindyrf, rhuai'r cyflegrau, goleuid yr holl ffenestri â chanwyllau, ac yr oedd dros driugain o areithwyr wrthi bob nos yn traddodi cynifer a hynny o areithiau. A choelio gohebwy'r un ochr, yr oedd y rheiny "yn fflamio gan hyawdledd byw;" ond ym marn eu gwrthwynebwy'r "ni chlywyd y fath ebychiadau llipa erioed." Yr oedd pob un o'r saith gyfarfod a thriugain naill ai "yn gorfforiad o ddeall y wlad wedi defro," neu ynte "yn ddyrnaid o radicaliaid ar dorri eu calon," yn ol lliw politicaidd y gŵr roddai'r hanes.

Ymdeithid drwy ystrydoedd pob tref gan gwmniau gwrthwynebol,—llawer ohonynt mewn carpiâu ac yn cario fflamdorchau wedi eu trochi mewn olew,—y rhai a ymwithient blith drafflith drwy'r llaid a'r llwch, a'u dillad yn drewi gan arogl olew.

Cynhwysai ein tref fechan ninnau, Llandinod, bob peth at boethi'r etholiad,—dwy neuadd, dau bapur newydd, dwy seindorf, a dau ymgeisydd am bob swydd. Heblaw hynny, yr oedd y ddwyblaid yn y dref mor gyfartal, fel na fedrai'r naill na'r llall o'r ymgeiswyr, ar ei oreu, ddisgwyl mwy na thri neu bedwar o twyafrif.

Pan ddynesai'r etholiad at ei derfyn yr oedd pawb mor gynhyrfus a brwdfrydig fel na phrynnid ac na werthid nemawr ddim. Gwleidyddiaeth oedd ym mryd a meddwl pawb. Treulid mwy o amser yn y gwestai nag yn y gweithdai, a thrymach oedd y gnoc ar fwrdd y dafarn na'r gnoc ar engan y gôf. Yr oedd hyd yn oed y merched yn ddwyblaid,—rhai yn ffræo â'u gilydd bob tro y cwrddent, a'r lleill yn mynd heibio'u gilydd heb fedru gair o Gymraeg.

Yr oedd raid i ninnau'r bechgyn, wrth gwrs, gael bod fel ein rhiaint. Aem i bob cyfarfod, cymerem ran ymhob gorymdaith, a chynhaliem gyfarfodydd a gorymdeithiau ein hunain gan faint ein sêl boliticaidd. Nid oedd ball ar ein dadleuon â'n gilydd, ac ni wnelai flewyn o wahaniaeth na wyddem ddim byd yng nghylch y peth.

Yr oedd i mi le amlwg iawn yn y berw, am fod fy nhad yn ymgeisydd am y sedd yn y Senedd. Sut y dewiswyd ef yn ymgeisydd, wn i ddim. Mae'n siwr na wyddai ynta ddim chwaith. Gŵr tawel, gonest, yswil, a distaw oedd fy nhad, na wnaeth araeth erioed yn ei

fywyd, ac nas medrai wneyd yr un pe mynnai. Wyddai ef ddim mwy am helyntion a fyrdd gwladweinwyr nag a w'yr pobol Greenland am *sunstroke*.

Byddat yn meddwl erbyn hyn mai dyna'r rheswm y dewiswyd ef, ei fod mor dawel ac yswil. Yr oedd y dref wedi hen alaru ar ormod o ymgeiswyr fel arall.

Buasai rhodio'r ystrydoedd eich hunain fel rhodio amgylchoedd Merthyr gynt pan gyrchai pob drwg-weithredwr yno; a byddai mor anodd dod yn ol o'r Post, y noson y cynhelid cyfarfodydd y ddwyblaid, ag ydoedd i fyddin Buller weithio'i ffordd i Ladysmith.

Dyma ddiwrnod yr etholiad wedi dod. Dywedai pawb mai nyni enillai. Os goddefol fuasai'm rhan hyd yn hyn, melus meddwl fod i ninnau'r plant, fel y bobol fawr, y diwrnod hwnnw, ein rhan o'r ilafur a'r clod. Os na fedrwn fotio fy hun, medrwn lusgo etholwyr dihidio a methodig i le'r fotio hefo'm car a'm merlyn bach.

Y cyntaf ddaeth i Neuadd y Sir i fotio oedd Wil Dafis, y crydd clôff, yr oeddwn wedi ei lusgo oddiar ei fainc wyth o'r gloch y bore i gyflawni ei ddyledswydd fel Cymro rhydd,—a hynny rhag i Domos Wmffre ddod o hyd iddo o fy mlaen. Gweithgar iawn dros y gelyn oedd Thomas, ac os nad ai ei hen geffyl gwedd aniben mor chwim a'm merlyn bach teirblwydd i, eto, deuai a chymaint seith-waith o bobol ar y tro a'r *gig* oedd gennyf fi.

Bachgen blaenllaw ac haerllug oedd Tomos, a chanddo'r fantais, heblaw hynny, o nabod pob etholwr wrth ei enw, ac o wybod credo pawb. Nid oedd raid iddo ef, gan hynny, gollu amser i holi i ble nac am bwy i fynd, tra yr oedd yn rhaid i minnau, druan, wrth gryn hyfforddiant a chyfarwyddyd.

Ond yn hyn yr oeddem yn debyg i'n gilydd,—danghosem lawer mwy o egni i ddwyn pobol i'r pŵl nag i fynd â hwy'n ol ar ol darod.

A dyna lle buom wrthi drwy gydol y dydd, nes, erbyn yr hwyr, nad oedd i'w gael yn Llandinod neb ymron nad oedd wedi fotio; ond po leiaf oedd heb wneyd, cynhyddu wnai'r berw, canys danghosai llyfrau'r swyddogion, erbyn hyn, fod y ddwyblaid, o fewn dim, yn gyfartal.

O'r bron nad oedd fy nhad yn dechreu pryderu, ac ymwylltai y rhai blaenllaw fel gwallgofiaid. A dyma un ohonynt ataf ar ffrwst.

"Hei, Bob!" eb efe. "Gyrrwch, nerth y carnau, hyd ffordd y Caeau Cochion i nol Pw, —i'r tŷ fferm cyntaf ar ol croesi'r bont."

Dyna dro ar ben y merlyn heb ddim rhagor. Faint bynnag yn rhagor oedd gan y gŵr i'w ddweyd, fe'i collwyd yn nhwrwr olwynion wrth imi ymbryuro 'mlaen yn ol deuddeng milltir, neu ragor, yr awr. Ond-yr oedd gormod o yrru wedi bod ar y merlyn y diwrnod hwnnw i fedru dal ati ar y fath garlam, a gorfu i minnau, o'm hanfodd, cyn hir, ei ollwng i arafu.

Yn ebrwydd dyma Tomos Wmffre heibio imi, wedi newid ei geffyl am yr un newydd campus oedd Dr. Morgan newydd ei brynnu. Mae'n rhaid ei bod hi'n galed neu ni roisai'r doctor byth mo'i geffyl yng ngofal gyrrwr mor ddiarbed a Tomos.

Ond nid oedd waeth heb ymboeni yr un tamaid; a cheisiais innau ymfoddloni yn dawel i edrych arno'n diflannu tros gopa'r allt oedd o'm blaen.

Yr oedd cryn ffordd at dŷ Dafydd Puw, ac yr oedd gennyf lawn hanner milltir eto i'w theithio pan gyfarfum, newydd droi trofa, a Tomas yn dychwel yn ol. Nid oedd ganddo neb i'w ganlyn, a hawdd oedd darllen ei siom ar ei wedd. Pan ddaeth ataf, arhosodd a gofynnodd,—

“I ble'r ewch chwi, Bob?”

Ond wnes i ddim ond gwenu, gan nad oeddwn am iddo wybod fy nghynlluniau.

“Wel, peidiwch chwi a dweyd os mynnwch,” eb efe'm mhellach, “ond mi wn i. I dŷ Dafydd Puw yr ydych yn mynd.”

“Beth am hynny?” ebwn innau.

“O, dim byd, dim byd, ond nad yw'ch deryn chwi ddim adref heddyw. Waeth i chwi droi'n ol o'r fan yma damaid.”

Ond deffrôdd hyn fy amheuaeth. Prin, hwyrach, yr oeddwn yn meddwl mai anwiredd ddywedai Tomos, ond er byrrfed fy mhrofiad o wleidyddiaeth, yr oedd ynnof duedd i ameu pob gair ddywedai'r gwrthwynebwy. Felly, penderfynais weld tros of fy hun, a dywedais hynny wrth Tomos.

“O'r gore ynte, Bob,” ebe yntau, ac ymlaen ag ef yn sarrug. “Ewch chwithau ynte, ac edrychwch beth wnewch chwi o honi hi.”

Ymlaen a mi, gan dreio teimlo'n falch mor bert a phenderfynol fuaswn, ond digon prin yr oeddwn yn llwyddo, gan fod rhywbeth o hyd yn fy nghyhuddo mai tro gwael oedd ameu gair neb. Mae ameu unwaith, ar gam, yn waeth na chael eich twylllo ddwywaith.

Cyrhaeddais hen ffermdy brat Dafydd Puw gan feddwl, ymron yn siwr, mai Tomos oedd yn iawn, ac na chawn mohono gartref. Ond er fy mawr syndod, gwelwn hen ŵr ger yr ystabl wrthi'n prysur iro-olwyn trol.

“Mr. Puw?” ebe fi.

“Dyna fydd rhai yn fy ngalw,” ebe yntau, heb ond yn brin godi ei olygon.

Atelais fy ngwynt. Celwydd wedi'r cwbl, oedd Tomos wedi ddweyd wrthyf. Ond mae'n dda gennyf, er hynny, fedru dweyd fod yn edifar gennyf beidio ei goetio.

“I ofyn i chwi ddod hefo mi i'r dref y dois i yma, os gwelwch

chwi'n dda," ebwn i ymhen ennyd. Edrychodd arnaf yn ymholgar.

"Eisieu imi fotio, aie?"

"Ie, dyna pam y dois i yma. Sut y gwyddech chwi?"

"O, 'does dim gwerth er pan fu yma ddyn ieuanc arall eisieu'r un peth."

Ac felly yr oedd y Bonwr Tomos wedi bod yn treio dwyn fy neryn; felly wir! 'Doedd waeth gan innau bellach am ddim, a gwnes fy meddwl i fyny yn bwylllog y cai Dafydd Puw fynd i'r pôl tae raid imi ei gario ar fy nghefn bob cam.

"'Doedd byw na marw nad awn i, nes y dywedais i nad oedd waeth iddo heb. 'Does yma ungrwr heddyw ond myfi, mae'r mab yma wedi mynd i ffordd, ac yma filoedd o fân swyddi i'w gwneyd."

"Chymer o mo'r awr i chwi, Mr. Puw. Mae'r etholiad yn un caled tuhwnt, a bydd raid inni wrth bob fôt fedrwn ni gael," crefwn innau.

"Raid i chwi, wir? Wel, chewch chwi mo fy un i, wr bonheddig," eb efe, gan edrych yn hynod gyndyn. "Yn un peth, dyma'r drol yma eisieu —"

"O, mi rof fi help llaw i chwi hefo honyna!" ebe finnau, gan neidio o'r *gig* a chipio'r corn irad.

"Peth arall, dyna eisieu carthu'r beudy," eb efe 'mhellach, gan adael yr iro i mi yn ddiwrthwynebiad.

"Mi a wnaif hynny hefyd."

"A pheth arall, dyna eisieu gogrwn y lludw."

Deliais innau ati, gan ddweyd y gwnawn hynny hefyd, ond yn synnu swyddi mor tudron oedd y cwbl oedd ganddo i'w gwneyd. Ond gwelwn arwyddion ei fod yn llacio.

"Os y medrwrch chwi offen mewn pryd, hidiwn i mo'r llawer, wr ieuanc, na ddown i hefo chwi."

Cipiais olwg ar fy oriawr, a gwelais, ond prysuro, y medrwn "gael a chael" cyn i'r pôl gau. Ac felly dechreuais fwrw i'm gwaith.

Go symol yr irais i'r drol, a rywbeth yn debyg y certhais i'r beudy. Ac erbyn imi ddechreu gogrwn y lludw, yr oedd fy ngwyneb a'm dillad yn irad i gyd, lle caffai le gan dail y beudy. Ymgymysodd y lludw â'r irad, a'r ddau â chwys fy ngwyneb, nes ymfurfio ohonynt yn bowdwr i brydferthu'm gwedd.

Yna taniodd Dafydd Puw ei getyn, gan eistedd yn gysurus o gyrraedd y lludw, a dechreuodd ymgomio'n hamddenol yng nghylch ei fferm a'i deulu, ei gyfeillion a'i elynion, nes y tybiais y collwn arnaf fy hun. Yna dechreuodd holi yng nghylch pynciau'r ysgol, a phan ddeallodd fod seryddiaeth yn un ohonynt, buan iawn y daeth ar draws ei hoff ddadl,—fod yno bobol yn byw yn y lleuad.

Dirwynodd hi 'mlaen mor faith ar hyn nes y dechreuais ddeisyf ar iddo ef gael ei gymeryd yno, fôt neu beidio. Ond yr oeddwn wedi gosod fy llaw ar y gogr, ac nid oedd wiw troi nghefn.

Ond ar ol dwy neu dair o fân swyddi ereill, cefais fy hunan,—a'm deryn,—o'r diwedd yn ei gwneyd hi'n wyllt am y dref. Ychydig 'son fuasai hyd yn hyn am wleidyddiaeth. Nid hir y bum cyn gweld nad oedd Puw yn rhyw selog dros neb, ac ni faliai ond ychydig yn y mater, a dyna y rheswm, mi dybiwn, i Domos dreio ei droi. Ond er blined a butred fy ngolwg, ymchwyddai fy mynwes gan hunan-foddhad am ddarfod imi fÿnnu cael fy mhwrpas.

Daethom at ddrws y pól pan oedd ar gau. Ymddanghosai pryder y dorf yn fwy nag erioed, ac achosodd ein dyfodiad gryn gynnwrf. Curai rhai eu dwylaw, ysgrechiai'r lleill, ac hwrtiai'r gweddill ni, a rhuthrai pawb am y drws.

Tra'n ceisio gwneyd ffordd i fy neryn drwy'r dorf, cefais gip ar Domos a rhyw ddiredi rhyfedd yn ei wyneb. Gan dasu golwg ffroenuchel arno ymwithais ymlaen at y bwrdd, a rhyw hanner eiliad cyn cau cofrestrodd Dafydd Puw ei bleidlais, yr hon a enillodd yr etholiad o un,—ie, ond i'r ochr wrthwynebol!

Dyna floedd! 'Doedd dim a'm cadwai rhag ymosodiad fy nghyfeillion ond gwaith y lleill yn tyrru o'm cylch i ysgwyd llaw â mi mewn llongyfarchion gwawdlym. A Tomos oedd yr uchaf o bawb.

"Fuasai waeth i chwi nghoelio i, a fuasai?" eb efe ar dop ei lais. "Y mab oedd i ffordd oedd eich dyn chwi. Fotiodd yr hen Buw i neb ond i'r Toris erioed, ers mwy na deugain mlynedd!"

"Naddo debyg, ŵr ieuanc!" ebe'r hen ŵr dan chwerthin. "Ddarfu i chwi erioed ofyn i mi yn nghylch fy nghredo, a chymmerais innau'n ganiataol mai un o'n pobol ni oeddech chwi. Ond os nad ydych yn rhyw lawer o wleidyddwr yr ydych yn weithiwr dan gamp. Os dowch chwi acw yforu, mi orffennwn ni'r ddadl yn nghylch y lleuad, a bydd acw ludw i'w ogrwn hefyd."

Ymhen yr helm wair, o gywilydd, y bum i nes y cysgais ac y deffrowyd fi drannoeth gan lais fy nhad yn dywedyd,—

"Na hidia, fy machgen i, ddim byd. Os nad wyt ti'n fawr o wleidyddwr, nid ydyw dy dad yn ddim gwell; ac mae'n gryn ysgafn-hâd i'm meddwl i gael peidio mynd i'r Senedd."

AM YR IESU.

Y MAE y Parch. D. Cunllo Davies wedi ysgrifennu tri llyfr bychan ceiniog campus i adrodd, ar ddull holi ac ateb, hanes Iesu Grist. Y mae'r cyntaf ar yr hanes hyd y briodas yn Cana, yr ail ar yr hanes hyd y prawf olaf, y trydydd hyd yr esgyniad. Cyhoeddir hwy gan Davies ac Evans, y Bala; a W. James, Dowlais.

"DIRION IESU."

TŌN I S. S. A.

Y Geiriau gan

Tom Evans ("Tel").

DOH Eb. *Moderato.**mf*

{	:m f	s :- .l	s f :m f	s :-	m :r m	f :- .l	s :f	}
	1. Wedi	storm-ydd yr	an -	ial -	wch, Wedi	gor-thrym-der	- au	
	:d r	m :- .f	m r :d r	m :-	d :t, d	r :- .f	m :r, l,	
{	2. Tawel	or - ffwys mae myrdd-	ryn -	au, Yn nhrig-	fan -	au'r nef	yn	
	:d, d	d :- .d	d :d	d :-	d :s, s, s,	:- .s,	d :f,	

{	m :-	r :m f	s :- .l	s f :m f	s :-	m :d' d'	}
	lu,	Daw nef-	ol -	aidd, bur, daw -	el -	wch, Mae gor-	
	d' :-	t, :d r	m :- .f	m r :d r	m :-	d :m fe	
{	awr,	Uwch an-	hyf -	ryd sw'n y	brwydr -	au Gawsant	
	s, :-	- :d d	d :- .d	d :d	d :-	d :l, l,	

{	t :- .l	s :fe	s :-	- :s m	s :- .m	s f :l s	}
	ffwys -	fa'n ol	i	ni;	Holl fin-	der - au'r daith ddar -	
	s :r m	r :r	r :-	- :m d	m :- .d	m r :f m	
{	yn	y cys -	tudd	mawr;	Nes daw	gwawr y bor - eu	
	s, l, t, d	r :- .d	t, :-	- :	d :- .d	d d :d d	

1. Holl, &c.
2. Nes, &c.

{	d' :- r'	d' :s m	s :- .m	s f :l s	d' :- r'	d' :t l	}
	fydd -	ant, Try ga-	lar -	u'n fel - us	fol -	iant, A chys-	
	s :-	s :m d	m :- .d	m r :f m	s :-	s :s f	
{	hyf -	ryd Gwelwn	nin -	nau'n ein Han -	wyl -	yd, Gwylwn	
	m :- .f	m :	d :- .d	d d :d d	m :- .f	m :r t,	

Try, &c.
Gwelwn, &c.

rall.

}	s :- .l s .f : m .f s :- m : f .l s :- .m m : r
	tudd - iau yn o - gon - iant, Ar der-fyn - au'r "af - on
	m :- .f m .r : d .r m :- d : d .d t ₁ .d : r .d d : t ₁
	ser - en Ei add - ew - id, O or-ffwys - fa uwch y
d :- .d d : d d :- d : l, f, s ₁ .l ₁ : t ₁ .d s ₁ : s ₁	

CYDGAN.

a tempo.

}	d :- - m .,m s .,l : s - : s .,s d ₁ .,r : d ₁ - : d ₁ .,l
	ddu." Dirion Ie - su, anwyl Ie - su, Estyn
	d :- - : s .,f m .,f : s : l .,s f .,s : l .,f
	llawr. Dirion Ie - su, anwyl Ie - su,
d :- - m .,f : m .,r d .,r : m l : l ₁ r .,m : f	
Dir - ion Ie - su, an - wyl Ie - su,	

}	s :- .s s : m s :- - : s .,s l :- s : d ₁ .,d ₁
	i mi'th dyn - er law, Mae fy en - aid yn hir-
	m .,f : s .,f m : d r : m f : m .,m f :- m : s .,l
	Estyn i mi'th dyn - er law, Mae fy en - aid yn hir-
d .,r : m .,r d : d t ₁ : d r : d .,d t ₁ .s ₁ : l ₁ .t ₁ d .d : m .,f	
Estyn i mi'th dyn - er law, Mae fy enaid yn hiraethu, Mae fy	

f

}	r ₁ :- d ₁ : d ₁ .,l s :- .d ₁ l : t d ₁ :- -
	aeth - u Am y dêg or-ffwys - fa draw.
	ta :- l : l .,f m :- .m f : f m :- -
	aeth - u Am y dêg or-ffwys - fa draw.
m .d : r .m f .f : f .,f d :- .d r : s ₁ d :- -	
enaid yn hiraethu Am y dêg or-ffwys - fa draw.	



BEDD TALHAIARN.

MYND I'R MOR.

NID oes dim yn fwy atyniadol i blant, yn enwedig plant ardal-dal oedd gwledig ac amaethyddol Cymru, na chael myned yn yr haf i lan y môr, i fwynhau awelon balmaidd, ac i ymdrochi. Y mae hen ystori ysmala i'w chael am blant Gwytherin,—nid y plant sydd yno heddyw, ond y plant oedd yno ddechreu y ganrif sydd yn awr yn diweddu. Daeth i feddwl yr hen dadau doniol oedd yno ar y pryd y buasai yn beth dymunol iawn iddynt hwy a'r plant gael myned am ddiwrnod o wyl i lan y môr, er cael ei weled am y tro cyntaf erioed. Penderfynasant mai Abergele oedd y mwyaf cyfleus iddynt, a nodasant y diwrnod i fyned. Trefnwyd i gael cerbydau iddynt gael eu cario.

O'r diwedd, y mae y bore hyfryd yn gwawrio, a hwythau yn cychwyn bellder o bymtheg milltir. Gallen feddwl bod yno syniadau gwreiddiol am fôr yn y cwmni dyddorol, a mawr y dyfalu pa fath beth ydoedd. Pan oeddynt wedi myned oddeutu hanner y daith y maent yn dyfod at bentref Llanfair Talhaiarn. Yno y maent yn gweled meusydd mawrion o wair,—gwair hadau,—yn ymdonni o flaen awel ysgafn yr haf. A chyferbyn ag un maes, y mae y cerbydau yn sefyll, y maent yn argyhoeddedig mai y gwair hwnnw ydoedd y môr, a fwrdd a'r plant iddo, gan ymrolio a chwareu am oriau gyda'r boddhad mwyaf. "Ond tyda ni yn ddyfn, lads?" medd un. "Weli di y tai acw, gwylia foddi, fachgen," medd arall. Felly mwynhaodd y cwmni diddan eu hunan yn fawr, ac ni fu pall ar glodforedd y plant i'r môr flynyddau meithion, medd yr hanes.

DAVID THOMAS (*Dewi Tudur*).

 LLANFAIR TALHAIARN.

Y MAE gwlad eang iawn, fynyddig ac unig, rhwng dyffryn Conwy a dyffryn Clwyd. Gwahanol rannau hirfaith Fynydd Hiraethog ydyw, ac o honi y rhed afon Alwen i'r Ddyfrdwy, ac atonydd Elwy ac Aled i afon Clwyd. Dyma'r wlad y bu Llywelyn farw drosti yn bennaf; oherwydd gorthrwm y Saeson, ynddi hi yr ail gododd faner Cymru. Ymysg pentrefydd y wlad hon y mae Llansanan, Gwytherin, Nantglyn, a Llangernyw. Y maent oll yn bell oddiwrth dren a phrif wythienau bywyd masnach; y maent eto'n dawel ac amaethyddol a gwledig, yn lleoedd hyfryd i rywun hoffai fyfyrion neu orffwys. Nid rhyfedd, ychwaith, fod y fro yn gyfoethog o feirdd a llenorion.

Ymnytha pentref bychan Llanfair Talhaiarn yn nyffryn dwfn yr

Elwy. Saif yng nghanol y wlad rhwng Clwyd a Chonwy; gallwn feddwl ei fod tua hanner y ffordd rhwng Llanelwy a Llanrwst. Cysyllta traddodiad y lle â Thalhairn Sant ac â Hedd Molwynog. Y mae niwl y pellder ar eu hanes hwy. Ond y mae llawer o gymhwynaswyr diweddar wedi cofio am Lanfair Talhainn, ac wedi gadael eiddo nid ychydig i'w hysgolion ac i'w thylodion.

Yn y dyddiau diweddar hyn cofir am Lanfair Talhainn fel cartref y bardd Talhainn. Ganwyd John Jones (*Talhainn*) yng ngwesty'r Harp, Ionawr 19, 1810. Enw Seisnig ar y delyn yw enw'r dafarn. Nis gwn pam y rhaid rhoddi enwau Seisnig ar dafarnau, ond yr wyf yn credu mai felly y mae trwy Gymru i gyd. Yn amser Ab Ithel gelwid unig dafarn Llan ym Mawddwy yn Westy'r Haul, ond Sun Inn yw'n awr.

Yr oedd tad Talhainn yn meddwl mwy o'i alwedigaeth fel asiedydd nag o'i dafarn, oherwydd roddodd ei fab mewn galwedigaeth debyg. Bu Talhainn dan amryw athrawon a meistri, ac o'r diwedd cafodd ei hun dan Syr Joseph Paxton, ac yr wyf yn meddwl iddo fod a llaw yn adeiladaeth y Palas Gwydr; ac amryw balasau y Rothschildiaid. Wrth adeiladu un o'u palasau hwy ym Mharis, cafodd gyfle i weled tipyn ar y byd. Ond yr oedd ei galon yn Llanfair Talhainn o hyd, gyda'r mynyddoedd a'r beirdd a'r holl hen Gymry glân. Un doniol a diddan oedd; a hoffai pawb ef. Collodd lawer o amser yn nyddu cynghanedd ar gyfer Eisteddfodau, ac ysgrifennodd rai caneuon gwladgarol gyffro galon Cymro lle bynnag y bo. Bu farw Hydref 17, 1869, a chladdwyd ef yn hoff fro ei febyd.

CWYN Y PLENTYN AMDDIFAD.

PLENTYN bach amddifad ydwyf
 Heb ddim cysur yn y byd,
 'Rwyf yn dlawd a diamddiffyn,
 Oer a gwelw iawn fy myrd;
 Nid oes neb yn cydymdeimlo,
 Nid oes neb yn gweld fy nghanam,
 Yma yn unig 'rwyf mewn galar
 Ar ol colli f' anwyl fam.

O mor ddedwydd ar blant ereill,
 O mor lasaidd yw eu byd,
 Dan ofalon mamau anwyl,
 Mewn cartrefi cynnes clyd,—
 Hwy ni wyddant beth yw dioddef
 Eisiau bwyd, a llawer cam,
 Hwy ni wyddant beth yw colli
 Gofal tyner anwyl fam.

Fel y gwywa'r blodyn prydfferth
 Pe ymgollai'r heulwen mawr,
 Fel y crina'r ddeilen werddlas
 Pan y cwmpa hithau i lawr,
 Felly finnau yn fy ngwaeledd,
 Collais gariad pur dinam,
 Ac nid oes ond gwywo bellach
 Ar ol colli f' anwyl fam.

Tra'r wyf yma yn fy ngharpiâu,
 Ac yn rhodio'n llwyd fy ngwedd,
 Daw rhyw hiraeth arnaf beunydd
 Am y wlad tu draw i'r bedd;
 Bugail Israel, clyw fy ymbil,
 Gad i'm roddi atat lam,—
 Derbyn blentyn bach amddifad
 I gymdeithas f' anwyl fam.

H. o FADOG.

Y GATH.

III.



YLWASOCH, mae'n ddiameu, ar y gath yn dod a llygoden i mewn wedi ei lladd. Balch ydyw o'i gwrhydri, ac y mae'n disgwyl i chwi ei chanmol. Sylwasoch hefyd fod pws'n hoff iawn o frewest. Y rheswm am hynny ydyw mai yn y nos y byddai'r gath, yn ei chyflwr naturiol, yn chwilio am ysglyfaeth.

Ond, erbyn hyn, y mae'n rhoddi ei medr a'i ffyddlondeb serchog at wasanaeth dyn. Cofiw'n ninnau fod yn garedig wrthi.

Cofiw'n roddi digon o fwyd iddi. Os gwnawn hyn, erys gartref, bydd yn lân, a deil lygod yn well na phe byddai ar newynu. Lleidr mwy, nid llygotwr gwell, yw cath newynog. Dylai gael llaeth bob dydd, mewn dull os yn bosibl. Mae'n hoff iawn o dipyn o siwgr ynddo. Dylai gael glanhau esgyrn; a gore fo fwyaf o lysiau, megis pytatws, nad oes ar neb eu heisiau. Y mae'n hoff iawn o bysgod, er fod arni ofn gwlychu; ond fel gwobr am ryw wasanaeth neillduol y ca ddarn bach o bysgodyn, fel danteithfwyd.

Yn nesaf at ddigon o twyd rhodder iddi ddigonedd o ddwr glân bob dydd. Na cheisied y plant ei golchi, creulondeb yw hynny, ac y mae'n sicr o gael yr anwyd. Gofala hi am ymolchi yn ei dull ei hun, ac ni bydd neb glanach yn y tŷ.

Gofaler am le cysurus iddi. Basged yw'r peth goreu, a chlustog fechan y tu mewn, iddi orwedd arni. Os caiff hynny, ni bydd arni eisiau crwydro fawr iawn o gyffiniau'r tŷ.

Os gwneir fel hyn â hi, ni fydd ganddi ffaeleddau. Ond os troir hi allan y nos, os newynir hi, os na roddir dwfr iddi, a hithau yn gath grwydrol, fudr, ddiwerth.

Mae'n greadur serchog iawn; daw'n ffrindiau â'r ci a'r ceffyl a phawb. Mae'n hoff iawn o'i rhai bach. Os rhaid eu cymeryd oddiarni, gwnaer hynny'n dynner, a bob yn-un. Ac os bydd raid ei lladd pan yn rhy hen, na wnaer hynny mewn dull creulon; ond

mynner rhyw feddyglyn gan y chemist i roddi cwsg diboen iddi, o'r hwn ni ddeffry.

Caredigrwydd yw'r gallu cryfaf i drin creaduriaid. Wrth fod yn garedig wrthynt talant yn dda. Cana pws ei grwndi, rhydd ei chwmmi glân a serchog, amddiffyn ein tai, a'n bwyd, ond i ni fod yn garedig wrthi.

YR YMFL.

YR oedd hen foneddwr unwaith wedi colli ei gerbydwr trwy farwolaeth, un oedd wedi bod yn ei wasanaeth am flynyddau lawer. Antonodd allan hysbysiad am olynedd iddo. Wedi i'r cyntaf a ddaeth i geisio y lle roddi cyfrif boddhaol am ei gymeriad a'i allu i'r swydd, gofynnwyd iddo pa mor agos y gallai yrru y cerbyd i'r ymyl, pan y byddai dyfnder peryglus i'w weled oddi tanodd. Yntau a atebodd,—“O fewn modfedd.” Gorchymynnodd yr hen foneddwr roi bwyd iddo, ac iddo adael ei enw a'i gyfeiriad, gan ychwanegu, os byddai am ei wasanaeth, y cai glywed oddiw'rtho ymhen diwrnod neu ddau.

Yn fuan, daeth un arall i geisio y lle. Aeth yntau o dan yr un arholiad a'r un blaenorol, ac atebodd y gofyniad olaf trwy ddweyd y gallai yrru o fewn hanner modfedd, a'i fod wedi gwneyd hynny lawer tro. Derbyniodd yntau yr un caredigrwydd a'i ragflaenor.

Heb fod yn hir wele y trydydd yn gwneyd cais am y lle; a phan ofynnwyd iddo yr un gofyniad, sef pa mor agos y gallai yrru cerbyd i ymyl dibyn peryglus, pe byddai galw am hynny, atebodd yn ddi-gyffro,—“Yn wir, syr, nid wyt yn gwybod, gan na chynhygiais y peth erioed; oblegid fy rheol i bob amser ydyw cadw draw mor belled ag sydd bosibl oddiw'rth y fath berygl, a'm gwobr am hynny yw fy niogelwch i fy hun a'r hwn a wasanaethwn.” Danghosodd yr hen foneddwr ei fod yn berffaith foddhaol ar yr atebiad; ac ond iddo ddyfod â phroffion o gymeriad da, na fyddai i fater o gyflog eu gwahanu, ac ychwanegai,—“Yr wyt wedi myned yn hen ac ofnus, ac y mae arnaf eisieu cerbydwr y gallaf ymddiriad yn ei ochelgarwch a'i ofal yn ogystal ag yn ei farn.”

Y mae yma wers i lawer dosbarth yn yr hanesyn buddiol hwn. Gocheler myned yn rhy agos i'r dibyn. Bydded i'r mab a'r ferch ieuanc gymeryd gofal rhag i'w harferion eu harwain yn rhy agos i'r dibyn, neu dichon mai y canlyniad fydd syrthio drosto. Gofynnwyd i weinidog duwiol unwaith pa mor bell y gallai dyn fyned ymlaen mewn pechod, ac eto fod yn gadwedig. Atebodd,—“Mae y prawf yn rhy beryglus i'w wneyd.”

Dôl Twlc, Cwmystwyth.

DANIEL JONES.



DYFFRYN YR YSTWYTH.

[Darlun gan B. J. Thomas, Penparcau, Aberystwyth.]

AR BEN PURLIMON.

Y DIWRNOD dreuliais ar ben Pumlimon oedd un o ddyddiau hapusaf fy mywyd.

Cychwynasom yn y bore o Nant y Moch, lluest wrth droed y mynydd, gerllaw i gapel bychan Blaen Rheidol. Yr oedd gennym ddwy filltir o ffordd bur lechweddog i'w cherdde, a honno dipyn yn arw weithiau,—drwy y brwyn a thros fân nentydd, heibio Ffald Fuches Wen, Pen Bryn yr Hydd, Graig Wen Fawr, a Bwlch Lladron; ac wedi rhyw awr a hanner o gerdded. Ar ol colli tipyn o chwys, cawsom ein hunain ar goryn yr hen fynydd enwog.

Yr oedd yr olygfa yn un ardderchog,—braidd nad allem ddweyd ein bod mewn rhyw bêr-lewyg. I ba gyfeiriad bynnag yr edrychem, yr oedd y golygfydd mwyaf arddunol yn ymagor o'n blaen. I fyny yn y gogledd gwelem yr Wyddfa fawr, brenhines mynyddoedd

Cymru, a Chader Idris gribog, yn gwthio eu copâu i fyny i'r cymylau gwynion. I lawr yn y de, yr oedd Bannau Brycheiniog, yn ymddangos i ni fel twmpathau morgrug yn y pellder. Yr oedd sir Aberteifi yn gorwedd fel gardd o'n blaen, a'r Rheidol yn ymddolennu yn ariannaidd drwy ei dolydd a'i dyffrynnoedd heirdd.

Y mae i'r hen fynydd hwn gryn enwogrwydd; dywed traddodiadau y fro mai ar ei goryn y cododd Owen Glyndwr faner rhyfel,— un ag y bydd ei enw yn anwyl

“ Tra fo creigiau yn Eryri,
A thra tonnau yn y môr.”

Cafodd ef a'i fyddin fechan, wrol, loches glyd yn nghesailiau yr hen fynydd lawer noson. Ychydig islaw, ar fynydd Hyddgant, yr ymosodwyd arno, heb eiliad o rybudd, gan fyddin fawr o'r tramoriaid creulawn hynny. Ond bu yn edifar ganddynt cyn pen ychydig oriau. Ymosododd Owen a'i wŷr arnynt yn ddidrugaredd, ac wedi lladdfa fawr, bu raid i'r gelynyon ffoi am eu heinioes, a da cael y cyfle. Gwelsant nad un i chwareu âg ef oedd Owen Glyndwr.

Ar gopa y mynydd gwelir dwy garn fawr o gerrig, ac y mae yn hen arferiad gan bob ymwelydd i dafu carreg yn ychwanegol atynt. Yr oedd yn dda gennym ninnau gael y fraint o fyned drwy y seremoni. Diameu y byddant wedi chwyddo yn anferth, os cedwir yr hen arferiad ymlaen am ganrifoedd i ddyfod.

Wrth ystlys y mynydd y mae Llyn Llygad Rheidol,—llyn mor grwn a cheiniog,—a'i dyfroedd oerion yn disgleirio fel arian; o hono y mae trigolion tref henafol Aberystwyth yn cael eu dwfr bellach ers tuag ugain mlynedd. O hwn hefyd y tardd y Rheidol.

O Bumlimon hefyd y tardd yr Hafren a'r Wy, a golygfa hardd yw eu gwled yn gornentydd bychain, yn cychwyn ar eu teithiau hirfaith i'w gwahanol gyfeiriadau.

Dywedir fod crombil y mynydd yn gytoethog iawn o fwnau; agorwyd gwaith pur lewyrchus arno flynyddoedd lawer yn ol, ond y mae bellach ers cryn dipyn wedi aros.

Y mae llawer o hen draddodiadau wedi cael lle i roddi eu traed i lawr ar ben y mynydd. Dyma un ohonynt. Gwelir cylch crwn o gerrig fel pe wedi eu gyrru yn ddwfn i'r ddaear. Barn llawer yw fod rhyw enwogion wedi eu claddu danynt oesau yn ol, neu ynte fod llawer o drysorau yn guddiedig o danynt; ac os meiddir ceisio cloddio i lawr, i geisio y cyfrinion, fe ddua yr awyr las mewn amrantiad, ac fe ddaw yn ystorm o fellt a tharanau a gwlawogydd, na welwyd eu bath. Ceisiodd dau ohonom ryddhau rhai o'r cerrig, ond taer erfyniodd y llall arnom beidio, gan fod tipyn o wair ganddo eisiau ei gael i fewn dan do cyn nos. Felly, ni chawsom roi prawf ar yr hen draddodiad y diwrnod hwnnw.

Golygfa ardderchog oedd i'w chael ar y llyn dros y clogwyni creigiog, sydd yn hongian fel ysbrydion uwch ei ben; a difyr iawn oedd gollwng ambell i garreg i lawr drostynt. Yr oedd llinellau Eben Fardd yn cael eu gwirio i'r llythyren gennym,—

“Torri clogwyni gannoedd,—a'u treiglo
Nes draw eu glanio, yn isder glynoedd.”

Yr wyf yn sicr i ni ddychrynnu tipyn ar yr hen lwynogod sydd yn cael noddfa rhag pob gelyn yn yr hen ogofeydd; y maent yn herio cwn y greadigaeth yn y creigiau hyn.

Yn y prydawn, cychwynasom i lawr o gam i gam, gan ddilyn nant fechan sydd yn llawn o frithyllod. Bwriwyd bach. Ac wedi codi rhyw hanner dwsin o ryw edlychod i fyny, cydiodd un mwy na'r cyffredin yn yr abwyd, ond gyda'i fod bron dod i dir, fe dorrodd y llinyn, ac aeth yn ol i'r dwfr a'r bach yn ei wddf, ac nis gwelwyd ef mwyach.

Erbyn hyn yr oedd yn bryd i ni hwylio adref, a chanasom yn iach i'r hen fynydd enwog.

Pen y Graig.

J. GRIFFITH.

I. FFINY.

DYWEDIR mai'r gair arferir amlaf wrth siarad Saesneg yw “up.” Os telly, nid rhyfedd fod y Saeson yn meddiannu'r byd. Meddyliwn ninnau fel Cymru fwy am “uchel” nag am “isel,” am fynd “i fyny” yn hytrach nag aros ar lawr. Onid yw y mynyddoedd yn dangos ein ffordd i ni? “I fynydd” yw ein llwybr fel cenedl, onide?

I'W DDARLLEN YN DDIFYFWR.

GWELAIS ddyn yn dal pysgod â bach gwair lladdodd. Bob yr hwch mewn beudy mae gwartheg yn myned am drip 'roedd Tywysog Cymru sydd anwyl iawn yn yr haf mae llawer yn teithio mewn cychod gwenyn ceir mel heb ei fwyta mae'r blawd ceirch sydd yn tyfu mewn ffwrn 'roedd bara am ddeuddeg awr bum yn gorffwys yn Llyn Ebyr mae pysgod yn hedeg mae'r wennol trwy yspieन्द्रych gwelais ddyn yn y lleuad mae goleuni mewn box mae te glo sydd ddefnyddiol iawn i wneyd lliidiart pres sydd yn brin gan y frenhines mae gorsedd Prydain Fawr sydd mewn rhyfel yn Neheudir Affrig mae llewod ar gefn ceffyl 'roedd Robert yn palu'r ardd gwelais ddyn mewn crochan mae tatws yn berwi ar y ffordd mae cerrig yn fynych yn gwneyd pedolau mae'r gôf a'i deulu i gyd yn hoff o CYMRU'R PLANT.

Dolfallen, Llawr y Glyn.

N. EVANS.

GWLAD HUD.

(Casgliad o Ystraeon Hud o
bob gwlad.)

VI. Y TRI CI.

(Un o Ystraeon Hud Sweden.)



AETH y brenin am dro i wlad bell, a daeth a brenhines adre gydag ef. Ganwyd merch iddynt, a dotiai pawb ar ei thlysnï. Ryw nos daeth hen wraig i'r llys; nid oedd neb wedi ei gweled o'r blaen, ac ni wyddai neb o ba le y deuai.

"O frenin," meddai, "na ad i'r enethig fynd i'r awyr agored tan fydd yn bymtheg oed, onide ti a'i colli."

Yr oedd gofal y brenin am ei eneth mor fawr fel y cadwyd y baban mewn ystafell enfawr, ac nid oedd i fynd allan i awyr gymylog Sweden. Yn y gwanwyn wedyn, daeth merch fechan arall i lys y brenin; ac yn y trydydd gwanwyn, daeth trydedd ferch. A dywedai llawer fod yr ail yn dlysbach na'r gyntaf, a'r drydedd na'r ddwy. Daeth yr un hen wraig yno bob tro, a rhoddodd yr un cyngor. Felly nid oedd yr un o dair merch y

brenin i adael y llys tan yn bymtheg oed; ofnai eu tad i ryw ddrwg ddigwydd i'w anwyliaid bychain.

Daeth rhyfel i'r wlad, ac aeth y brenin i fwrdd gyda'i fyddin. A rhyw ddiwrnod, pan oedd yr awyr yn las a'r blodau ar y ddaear, mentrodd y tair geneth fach i'r maes oedd o flaen y ffenestr. Gydag iddynt fynd i'r awyr agored, diflanasant. A bu galar ac ofn mawr yn y llys.

Daeth y brenin adre, ac nid oedd derfyn ar ei ofid pan welodd ei gartref yn wag. A dywedodd ar goedd,—“Pwy bynnag fedr gael un o'm merched, caiff hi yn wraig, a bod yn frenin ar un ran o dair o'm teyrnas.”

Daeth dau farchog i'r llys, rhai creulawn a garw, a dywedasant wrth y brenin yr aent ar hyd y byd i chwilio am y tair geneth fach.

Yr oedd tri brawd bach yn gwylio moch yn y coed. Plant am-ddifad oeddynt, ac yr oedd eu meist'r yn greulawn iawn wrthynt. Y nawn hwnnw yr oeddynt yn gwylio tri mochyn tew,—un yn gwylio pob un,—wrth iddynt ymbesgi ar y mes dan y coed. Yr oedd y tri wedi gwneyd chwibanogyl o helygen ir, ac yn canu gyda'u gilydd. Ac wele hen ŵr gwargrwn yn dynesu atynt, a chi mawr du wrth ei sawdl.

“Fy machgen,” ebe wrth yr hynaf, “a roi di dy fochyn am y ci?”

“Gwnaf,” ebe'r bachgen, heb feddwl dim am y canlyniadau, oherwydd yr oedd wedi hoffi y ci mawr du, a'i lygaid ffyddlon serchog.

“Cefaiſt fargen dda,” ebe'r hen ŵr. “Dal yw ei enw, a deil unrhyw ddyn neu greadur fel nas gall syflyd dim.”

Aeth y plant a'r ci â'r ddau fochyn adre y nos honno. Gwylltiodd eu meist'r. “Dod a hen gi yn lle mochyn tew!” dolefa'i. Cododd ffon i daro'r bachgen hynaf, ond rhuthrodd Dal ato, a daliodd ef fel nas gallai syflyd dim.

Nawn drannoeth yr oedd y plant yn gwylio'r ddau fochyn, ac yn canu eu chwibanoglau yn y coed. Ac wele'r hen ŵr yn dod drachefn, a chi mawr coch wrth ei sawdl.

“Fy machgen,” ebai wrth yr ail, “a roi di dy fochyn am y ci?”

“Gwnaf,” ebe'r bachgen, wedi llwyr anghofio llid ei feistr wrth edrych ar y ci mawr prydferth.

“Cefaiſt fargen dda,” ebe'r hen ŵr, “Rhwyg yw ei enw, a rhwyg unrhyw ddyn neu fwystfil ond i ti roddi gorchymyn iddo.”

Aeth y plant adre y noson honno a dau gi, ond heb ddim ond un mochyn. Gwylltiodd eu meist'r yn fwy nag o'r blaen. Cododd ffon i daro'r ail fachgen; ond cydiodd Dal ynddo, a buasai Rhwyg wedi ei larpio oni bai i'r bachgen roddi ei law ar ei ben.

Nawn drannoeth, pan oedd y tri bachgen a'r ddau gi yn gwyllo'r unig fochyn tew, wele'r hen ŵr yn dod y drydedd waith, a chi mawr gwyn wrth ei sawdl.

"Fy machgen," ebai wrth yr ieuengaf, "a roi di dy fochyn am y ci?"

"Gwnaf," ebe'r bachgen, heb feddwl am ddim ond am dlysni y ci gwyn welai'n prancio gyda chi du a chi coch ei frodyr.

"Cefai't fargen dda," ebe'r hen ŵr, "Clyw yw ei enw, gall glywed y sw'n lleiaf yn y pellder mwyaf."

Aeth y tri llanc adre, a'r tri ci, heb yr un mochyn, a chawsant eiriau celyd gan eu meistr. "Ewch," meddai, "i'r fan a fynnoch, chwi a'ch cwn, ac na ddeuwch yma byth eto." Crwydrodd y llanciau a'u cwn i'r goedwig ac i'r nos. Bore drannoeth daliodd Dal garw iddynt, a rhostiasant ei gig wrth dân coed. Ac felly y buont byw, dan grwydro, amryw ddyddiau.

Ryw nawn daethant ar draws bugail, a dywedodd hwnnw hanes colli merched y brenin iddynt. Aethant hwythau i'r llys, a chwarddodd gwŷr y llys am ben y tri llanc gwladaidd. Ond rhoddodd y brenin groesaw iddynt; ac yr oedd yn well ganddo y tri llanc gwylaidd na'r ddau farchog ffrostfawr oedd wedi cychwyn o'r blaen.

Aeth y tri bachgen a'r tri ci i gyfeiriad mynyddoedd mawr y gogledd. Yr oedd y daith yn hir a garw, a mynych y rhoddid y bachgen ieuengaf ar gefn Clyw, y ci cryfaf o'r tri. Wedi hir grwydro daethant i olwg y bryniau uchel oedd o flaen yr Herjehogna eiraog uchel mawr. A chlywodd Clyw sw'n troell aur yn rhywle yn y mynydd. Rhedodd yn ei flaen, a'r ddau gi arall yn ei ddilyn. Ac ar eu hol hwythau aeth y bechgyn. Yno yr oedd drws haiarn yn y mynydd. Tynnodd Rhwyg hwnnw oddi ar ei fachau. A beth oedd yn yr ogof ond merch hynaf y brenin yn troi olwyn troell aur. Yr oedd yr eneth wedi synnu gweled y bachgen hynaf yn dod i mewn.

"Yr wyf yma er ys amser maith," meddai, "ac y mae arnaf hiraeth mawr am fy nhad a'm mam, ac am fy chworiydd. Ewch ar frys i ddweyd lle yr ydwyf, rhag i'r cawr ddod a'ch gweled."

Ond gyda hynny clywodd Clyw sw'n y cawr yn dod yn y pellder o'r mynyddoedd. Pan welodd y ddau fachgen ger y ddor haiarn, rhuodd fel taran,— "Cewch farw." Ond cydiodd Dal ynddo, a buan y llarpiodd Rhwyg ef. A llawen iawn oedd merch y brenin.

Aethant ychydig ymlaen, a chlywodd Clyw sw'n troell aur arall. Daethant at ddrws haiarn fel y llall, a chawsant yr ail ferch yn yr ogof. A'r un diwedd fu i'r ail gawr.

Aethant ymlaen ychydig wedyn, ac arhosasant amryw ddyddiau, oherwydd yr oedd y ddwy eneth yn methu cerdded ar ol eu hir garchar. Yr oeddynt yn dihoeni o hiraeth hefyd. Ryw nawn tra

yma yr oedd yn amlwg fod Clyw yn clywed swm troell arall. Penderfynwyd fod i'r ddau fachgen hynaf droi tuag adre, gyda dwy ferch hynaf y brenin, a fod y bachgen ieuengaf i fynd a'r tri ci i waredu yr eneth ieuengaf.

Trodd y pedwar i'r de, ac aethant ar eu ffordd yn llawen am amryw ddyddiau. Ond pan mewn coedwig o fewn ychydig i'r llys, gwelent ddau farchog yn prysuro atynt, mewn gwisgoedd dur, a chleddyfau yn eu dwylaw. Dyma'r ddau farchog bostfawr oedd wedi bod yn chwilio'n ofer am ferched y brenin. "Lladdwn y ddau lanc yma," ebe hwy, "a dywedwn mai ni waredodd y ddwy dywysoges fach." Rhuthrasant ar y llanciau, a chuddiasant hwy, yn waedlyd glwyfedig, yn y coed. Dywedasant wrth y ddwy dywysoges fach y lladdent hwy os dywedent beth a fu. Yr oedd llawenydd mawr yn y llys pan ddaeth y ddau farchog a phlant tlyision y brenin da adre. Ond ni wyddai neb pam yr oedd y ddwy dywysoges fach mor brudd. Ac yr oedd y brenin yn hiraethu am ei blentyn ieuengaf o hyd.

Aeth y bachgen ieuanc ar ol y tri chi i'r drydedd ogof, a mawr oedd llawenydd y dywysoges fach pan welodd ef. Ond yr oedd y trydydd cawr wedi gwybod am dynged y lleill, ac yr oedd yn fwy dichellgar na hwy. "Y cwn sy'n berygl," meddai wrtho ei hun, "ond cael llonydd ganddynt hwy, bydd yn hawdd lladd y bachgen." Felly, pan ddaeth adre, yn lle bygwth fel y lleill, siaradodd yn deg â'r llanc. Rhoddodd ymborth iddo i'w fwyta, a daeth syched mawr ar y llanc. "Y mae ffynnon o ddwfr iachus ar y fron fry," ebe'r cawr, "anfon dy gi a'r ysten yno i ymfodyn peth." Gorchymynnodd y bachgen i Clyw fyned, ac aeth y ci gwyn, ond o'i anfodd. "Y mae'r ci yn hir yn dod," ebe'r cawr, "anfon y llall i edrych lle y mae." Gorchymynnodd y bachgen i Dal fynd, ac aeth hwnnw, ond yn anfoddlon iawn, a than chwyrnu. Yr oedd y ddau yn hir iawn yn dod. "Beth ddaeth o'r ci gwyn a'r ci du," ebe'r cawr, "anfon y ci coch i chwilio am danynt." Ond ni syflai Rhwyg oddiwrt h y bachgen hyd nes iddo ei fygwth, am y tro cyntaf erioed. Yna aeth, dan udo.

O gwmpas y ffynnon yr oedd mur, a'r munud y croesai'r cwn y mur nis gallent ddod yn ol. Delid hwy yno gan allu rhyw swynwr.

Pan oedd yn sicr fod Rhwyg yn y ddalfa gyda'r lleill, ebe'r cawr,—

"Y mae dy gwn yn ddiogel, yn awr parotoa i farw."

Erfyniodd y bachgen am ennyd i ddweyd y weddi ddysgodd ei fam iddo, ac i ganu ar ei chwibanogl ei ffarwel i'r byd. Ac erfyn-

iodd y dywysoges fach drosto, gan wylo. Rhoddodd y cawr ganiatad yn ddirmygus.

Ond y munud y dechreuodd y bachgen weddio gweddi ei fam, syrthiodd yr hud oddiar y mur, ac yr oedd ei amddiffynwyr yn rhydd. Cyn i'r dôn ar y chwibanogI ddod i ben, yr oedd y cwn yn yr ogof, a buan y bu raid i'r cawr ffarwelio â'r byd.

Cychwynnodd y dywysoges a'r bachgen a'r tri ci adref. Yn y coed clywodd Clyw ruddfan, a chawsant y ddau frawd clwyfedig dan y dail. Golchasant hwy, a chafwyd meddyg i drwsio eu briwiau, a dechreusant wella.

A rhyw nawn, wele ferch ieuengaf y brenin, a thri llanc, a chi gwyn, a chi coch, a chi du, wrth borth y llys. Wrth eu gweled, daeth y ddwy dywysoges brudd yn llawen iawn. A thwy borth arall, gellid gweled dau farchog yn dianc am eu bywyd i'r coedwigoedd.

DAU HEN BENNILL.

DYMA ddau hen bennill mae fy nhad wedi glywed gan hen fodryb iddo. Y mae hi yn awr yn 92 oed. Yr oedd wedi eu dysgu pan yn eneth fach. Ni welodd fy nhad hwy wedi eu hargraffu erioed, a chlywodd o neb yn eu dweyd chwaith.

Cwm Cloch, Beddgelert.

GRIFFITH THOMAS.

CYNGHORION I BLENTYN.

Pan godi di'r bore, meddwl am Dduw;
Golcha dy wyneb, mi fendi'n dy liw;
A dywed dy bader cyn profi dim bwyd,
Rhag ofn i'r hen satan dy ddal di'n ei rwyd.

MISOEDD Y FLWYDDYN.

Y flwyddyn yn dechreu, Ionawr gwair i'r fch,
Chwefrol, Mawrth, ac Ebrill, i ddal y brithill brych;
Mai, Mehefin hefyd, Gorffennaf, gydag Awst,
Medi, Hydref, Tachwedd, Rhagfyr, cig ar drawst.

I'W DDARLLEN YN DDIFYFR.

DRO yn ol gwelais bregethwr yn bwyta eithin yr oedd y ceffyl pren sydd yn tyfu ar wyneb y dwfr yr oedd llong yn nofio y mae yr iar yn dodwy wyau y gog sydd aderyn du yw huddugl gwyn yw eira yn yr haf cawn ffrwythau chwerw yw wermod a Quinine Bitters Gwilym Evans sydd enw ar y gath y mae blew gwydn yw lledr yn y gauaf ceir rhew ac eira poeth yw tân gwladgarwch CYMRU'R PLANT sydd fisolyn chwecheiniog gefais i gan fy ewythr Ellen sydd enw benywaidd.

ARABELLA.

MENTONE.

YN rhifyn Ebrill yr oedd darlun o Mentone. Saif trefydd bychain prydferth Monaco, Mentone, a Roquebrune, ar gwr eithaf de ddwyrain Ffrainc. Yn yr ardaloedd swynol hyn y mae Alpau'r Môr yn gosod eu traed ym Môr y Canoldir, ac ar eu llethrau, yng nghilfachau'r môr, y mae'r tri lle a enwais. Am y terfyn â hwy, yn yr ochr Eidalaid, y mae Ventimiglia, Bordighera, a San Remo.

Yn y lleoedd hafaidd cysgodol hyn, ymysg palmwydd a choed eurfalau, y bydd cyfoethogion y byd yn bwrw'r gauaf. Ar y lan brydferth hon, ychydig i'r dwyrain, y ganwyd Columbus, darganfyddwr Amerig, ac ychydig ymhellach wedyn y mae Genoa, un o borthladdoedd enwocaf y byd. Ond nid morwyr anturiaethus yw prif gynnyrch lleoedd fel Mentone heddyw, eithr gweision gwŷr bonheddig, a chlundwyr bagiau.

Er hynny, meiddiodd pobl Mentone ymladd yn ddiweddar iawn, ac ym mis Ebrill diweddaf, bu farw Giovanni Trenca, eu harweinydd. Gwrandewch ar hanes ymdrech y pentraf bach tlws.

Pan orchfygwyd Napoleon yn 1815, penderfynodd galluoedd mawrion Ewrob ail roi iau brenhinoedd ar genhedloedd bychain oedd wedi eu hysgwyd ymaith. Rhoddwyd Monaco, Mentone, a Roquebrune i deulu Grimaldi, a gwnawd un ohonynt yn frenin dan yr enw Honorius V. Prif nod bywyd hwn oedd gwasgu arian o'i ddeiliaid. Ni chai neb amaethu na phobi ond efe; yr oedd yn rhaid i bawb brynnu bara ganddo. Prynnai wenith am y pris isaf, gwerthai ef am y pris uchaf. Gyrrai ei wenith ei hun i wledydd ereill i'w werthu; prynnai wenith yr oeddid wedi ei gondemnio yn Genoa fel peth nas dylid ei fwyta, ac â hwnnw pobai fara i'w bobl ei hun.

Rhoddodd drethi llethol ar bob peth ddeuai i'r wlad. Os mynnai rhywun dorri un o'i goed olewydd ei hun, byddai raid iddo dalu i Honorius. Os genid oen, byddai raid talu tair ceiniog o dreth ar unwaith. Ni chai neb ddyfrhau ei ardd heb gennad; ni chai neb fynd allan ar ol deg y nos heb lusern.

Nid er lles y deiliaid, nac i sicrhau dim iddynt, y gorthrymid hwy fel hyn, ond er mwyn Honorius a'i deulu anghenus. Nid bugeilio y defaid oedd ei amcan, ond eu cneifio; ie, a'u blingo pe medrai.

Yn 1848 anadlodd ysbryd rhyddid ar Ewrob drachefn. Ymysg ereill, gwrthryfelodd Mentone a Roquebrune yn erbyn y gorthrymwr. Llwyddasant; ac am naw mlwydd bu'r ddau bentref yn weriniaeth. Yna, o'u bodd, ymunasant â Ffrainc, oherwydd y chwyldroad Ffrengig roddodd ysbryd ryddid ynddynt, a rhan o Ffrainc ydynt heddyw.

Y mae Monaco eto dan deulu Honorius, yn deyrnas fechan o wyth milltir ysgwar, gyda byddin o 126 o wŷr. Y tŷ gamblo anferth yn Monte Carlo yw ffynhonnell cyfoeth y tywysog a'i bobl.



PLANT CYMRU. CXXXI. DAU O BLANT BRYCHEINIOG.

URDD Y DDELYN.

YN y darlun uwchben gwelir dau o aelodau cangen Glyn Collen, Brycheiniog, sef Margery Morris, Tŷ Fry, ac Alfred Jenkins, Tramroad Cottage. Hwy oedd enillwyr y gwobrwyon Cymraeg yng nghyfarfod llenyddol capel Aber, Ebrill 16, 1900.

Y RHEOLAU.

1. Dysgu siarad ac ysgrifennu Cymraeg; darllen rhan o'r Beibl Cymraeg, neu ryw lyfr Cymraeg arall, bob dydd, ac ysgrifennu Cymraeg o'i gyfansoddiad ei hun.

2. Astudio hanes Cymru, a gwneyd ei oreu i godi ei wlad, fel y byddo Cymru fydd yn well na'r hen Gymru.

3. Dysgu canu'r delyn, os bydd hynny yn y cyrraedd; a dysgu alawon Cymreig.

4. Byw, hyd y gall, yn ol dysgeidiaeth yr hen Gymry gynt, mor bell ag y mae'r ddysgeidiaeth honno'n un a dysgeidiaeth Crist. Y mae'r ddysgeidiaeth honno'n gofyn purdeb, cariad at addysg, caredigrwydd at ddyn, addfwynder at greaduriaid dreswm, iaith ddihalog.

AELODAU NEWYDDION.

1248. *Maggie Elizabeth Jones, 1, Brynkir Terrace, Penmorfa.

1249. Ioan Dewi Roberts, Ty'n Twll, Llanarmon Dyffryn Ceiriog.

1250. Richard Michael Morgan, Plas yn Dre, Rhaiadr.

Dyma'r cyntaf o blant Maesyfed. Gwyddis fod Maesyfed yn fwy Seisnig na'r un sir yng Nghymru, nid oes un lle o'i mewn lle mae hen iaith Cymru yn iaith y wlad. Yr wyf yn gobeithio y cyfyd llawer ym Maesyfed fel Richard Michael Morgan,—un o ddisgynyddion y seraff bregethwyr o Glynog a Phyllheli,—“ Mae yr hen Gymraeg wedi marw yn sir Faesyfed, ond yr ydwyf fi yn ceisio dysgu yr hen iaith. Yr wyf yn siarad Cymraeg gartref gyda fy mam, yn darllen Beibl Cymraeg, ac mewn dosparth Cymraeg yn yr Ysgol Sul.”

1251, 1252. *Mary E. Parry, *Annie Parry, 1, Brynkir Terrace, Penmorfa.

1253—1255.

David Ll. Davies, Johnny R. Davies, Maggie Davies, Danbank, Felindre, Ceredigion.

MIS EBRILL YNG NGHYMRU.

EBRILL 20. Diwrnod hafaidd; haul tanbaid; pob peth yn bur anhebyg i'r hyn oedd adeg y tywydd oer a'r gwynt deifiol y dyddiau cynt. Ardderchawgrwydd y blodau sy'n dod o flaen y dail, yn enwedig blodau'r helyg ger aberoedd y mynydd. Nerth gwres yr haul, prin y medrwn gyffwrdd â charreg las orweddai ar y mynydd, yr oedd mor boeth. Wrth ddod adref gwelais, mewn cornel gysgodol, lu ardderchog o flodau dail carn yr ebol,—twm-pathau o flodau llwydgochion, tebyg i *hyacinths*. Gwyddwn am eu dail llydain yn dda o'r blaen. Ysmocid hwy, rhag y peswch, ac o gynhildeb. Gwna'r amaethwr ei oreu i'w difa, ond gwaith anodd

iawn yw, os cânt le wrth eu bodd, lle graianog heb fod yn bell oddiwrth afon. Y mae hen air anwir am danynt,—

“ Pan fyddo'r tir yn dangos y carnau,
Mae'n bryd i'r tenant gymeryd y coesau.”

21. Peth trist iawn yw angladd plentyn yn y gwanwyn. Heddyw yr oedd angladd geneth fach flwydd a hanner oed, unig blentyn ei rhieni. Yr oedd calon pawb yn gwaedu drostynt. Y Sabbath yw yfory,—mor wag ac mor ddistaw fydd eu cartref.

23. Eisteddais i orffwys mewn cwm cul yn y mynydd, lle nad oedd tŷ na thwlc yn y golwg. Ehedai adar, yn enwedig cornchwiglod, dros fy mhen, yn ddistaw ac yn gyflym iawn. Ond, un tro, cododd cri brawychus oddiwrth un pan ar ganol croesi, a dilynwyd ef gan ereill. Tybiwn weled yspotyn du bychan yng nghyfeiriad y creigiau uchel draw. Cudyll coch, yn ddiameu oedd; ac yr oedd yr adar yn ei weled yn dyfod o bell. Bum yn edrych droion, oddiar ben yr Aran, ar y cudyll yn nofio drwy'r awyr uwchben adar y cwm. Prin y mae ei adenydd i'w gweled yn symud; ond, o graffu, symudant mor gyflym fel ag i edrych o bell yn hollol lonydd.


Clywais lawer o son pan yn fachgen am Gwn Annwn,—cwn fyddai'n hela enaid yr anuwiol wedi nos. Yr wyf yn sicr yn awr mai'r swm glywai ein tadau fyddai cri adar yn crwydro trwy'r awyr yn y tywyllwch.

26. Gadael Cymru heb glywed y gog. Y perthi yn dechreu glasu; erbyn cyrraedd canolbarth Lloegr, y mae'r drain a'r coed afalau dan gyfoeth gogoneddus o flodau gwynion.

28. Sylwi, fel llawer noson o'r blaen, ar 'ogoniant disglauer Gwener yn y gorllewin fel seren hwyrol. Ar ei chyfer y mae'r seren Vega,—dim ond megis llwchyn bychan o aur o'i chydmaru â'r blaned ddisglauer sydd yn tafu cysgod, megis, dros ser y nos i gyd.

Eto, nid yw Gwener ond planed fechan, fel ein daear ni, yn troi o gwmpas yr haul. Ac feallai fod Vega yn haul anfeidrol fwy na'n haul ni, a fod ein haul ni a'i blanedau yn troi o'i chwmpas. Dywed seryddwyr fod y gyfundrefn heulog yn teithio'n gyflym i gyfeiriad Vega, dan atyniad rhywbeth nas gwyddom ni beth ydyw. Dywedir ein bod yn myned yn agosach ati ddeng milltir bob eiliad,—tua 300,000,000 o filltiroedd bob blwyddyn. Ond, er y cyflymder aruthrol hwn, y mae Vega mor bell fel mai seren fechan fechan fydd eto i ddynion ymhen canrifoedd,—byddant mor bell oddiwrthi. Hawdd y gallwn gredu geiriau Islwyn wrth gydmaru gogoniant ffachiol Gwener, seren cariad, â thlysi tawel dieithr Vega,—

“ Arddunol yw yr agos, ond nefol yw y pell.”

 Cyfeiriad y golygydd yw,—OWEN M. EDWARDS, LINCOLN COLLEGE, OXFORD.

ARGRAFFWYD A CHYHOEDDwyd gan HUGHES AND SON, 56, ROSE STREET, WREKHAM

AT Y PLANT.



IDRIS FYCHAN YN CANU GYDA'R TANNAU.



URDD Y DELYN. Nid wyf yn deall fod ond ychydig iawn o blant yr Urdd yn medru canu'r delyn. Nid oes manteision yn eu cyrraedd eto. Ond yr wyf yn sicr y daw'r delyn eto'n ol i'w hen wlad, yn fwynach ac yn burach nag erioed.

Gwelir rhestr hir o is-athrawon yn y rhifyn hwn. Y mae'n hyfrydwch gweled athrawon ac athrawesau yn cymeryd dyddordeb yn yr iaith Gymraeg. Os gwnant, bydd gwell llewyrch ar ein hysgolion yn fuan iawn. Y mae llawer o enwau ereill wedi dod, ond yn rhy ddiweddar i'r rhifyn hwn; ceir hwy oll yn y rhifyn nesaf.

HUW BACH. Nis gellir gwerthu dau fedal Urdd y Delyn i'r un aelod os na fydd rhyw reswm neillduol dros hynny, sef colli yr hen un, &c.

TAD BOB. Byddaf yn ddiolchgar iawn am bob awgrym sut i wella'r rhifynnau,—am ystraeon a darluniau a nodweddion newyddion a phob peth. Nis gellir fy nigio,—fy amcan yw cael y beirniadaethau mwyaf llymion. Oni bai am awgrymiadau oddiwrth ereill ni fuasai CYMRU'R PLANT hanner cystal ag ydyw.

MAIR. “Bordigi-êra” yw'r ffordd iawn i ddweyd enw Bordighera. “Glêms” yw'r ffordd i ddweyd Glamys, “Minnis” yw'r ffordd i ddweyd Menzies, “Mannering” y gelwir M anwaring, “Marshbancs” y cynhenir Marjoribanks, “calibiet” y cynhenir *chalybeate*, “Drôeda” yw'r ffordd i ddweyd Drogheda.

YN y rhifyn hwn ceir un hanes am y gauaf,—mwyn yw meddwl am y gauaf o ganol yr haf. Caiff y plant wybod yn y cynhwysiad ar y diwedd pwy sydd yn darparu hanesion swynol a rhyfedd Hans Andersen iddynt.



YR HAF YN Y TROFANNAU.



CYMRU'R PLANT.

CYF. IX.

GORFFENNAF, 1900.

RHIF 103.

YR HAF.

MI gredaf nad oes dymor mwy hyfryd yn unlle na'r haf ar fynyddoedd Cymru. Nid yw mor ardderchog a'r haf yn ardaloedd y trofanau,—nid yw'r haul mor danbaidd ar y bryniau, nid yw'r dail yn codi'n llafnau mawr, nid yw lliwiau'r adar mor ysblenydd, nid oes dim mor amryliw a chroen y teigr neu blu y paun gwyllt neu dorchau'r neidr.

Ond, o bob haf, haf Cymru yw'r mwynaf i mi. Mae cae gwair yn nechreu Gorffennaf yn un o'r golygfeydd mwyaf swynol,—pan fo'n ymdonni o flaen awel y mynydd, neu pan fo'n hyfryd lonydd ar fore dan wres gwridog yr haul. Gwn am weirglodd lle mae gold y gors yn gyfoeth o aur lle bu dŵr oer y gauaf; gwn am lechwedd y gallaf gasglu cynffon y gath a'r *orchis* gwyllt, ac y mae lliw gwyrdd gwan y naill yn cydmaru'n brydterth â lliwiau tyner y llall,—y gwyn a'r glas a'r gwridog goch. Gwelaf mewn dychymyg gae glas arall gydag ambell ddyferyn o liw goleugoch yma ac acw. Y defnynnau lliw yw pennau ragsiog blodau'r frân. "Ragged robin" yw'r enw Saesneg arnynt, ac y mae'n ddarlun ohonynt. Heb fod ymhell y mae

glas-wynder tyner mantell Fair a melyn tanbaid blodau'r ymenyn a glesni'r glaswenwyn (*scabious*).

Gwn am gae porfa lle y mae crafanc y frân mor felyn a'r aur gloew, lle mae llygad piws Siwsan yn gwenu o gysgod y cloddiau, lle mae'r gwynwydd (*honeysuckle*) yn perarogli gwrychoedd, a'r rhosyn gwyllt (*dog-rose*) yn eu harddu, lle mae chwerwlys yn eithin (*wood-sage*) ar dwmpathau sychion, lle y mae lliwiau cynnes llysiâu'r effros bychain (*eye-bright*) yn denu serch atynt, lle mae graianllys y dŵr (*water speedwell*) yn codi ei ben glas crwn o'r ffos i wenu cof am ddyddiau gynt.

Gwn am rosydd lle cwyd plu'r gweunydd (*cotton-grass*) eu pennau gwlanog, a lle gellir suddo mewn migwyn (*white-bog moss*).

Gwn am fynydd lle mae brigau'r twynau (*yellow bed-straw*) yn gwenu'n wylaidd, lle mae ceirios y waun (*cranberry*) yn prysur addfedu, lle mae corn y carw (*buckshorn plantain*) yn dringo'r llechwedd.

Gwn lle yr oedd y mafon coch hefyd, yn llwyni tal, a'u ffrwythau melus gwridog arnynt. Gwn lle'r oedd y cnau'n melyn ar y cyll, a lle'r oedd blodau gwynion y fieren yn troi'n fafon duon blasus.

Cofiaf am ddyddiau y gwnawn gadwyni o grawel y moch, sef ffrwyth y rhosyn gwyllt; cofiaf am ddyddiau y cyfrifwn fy nghyfoeth yn ol y rhif o fes a chriafol oeddwn wedi gasglu.

Gwnewch gyfeillion mebyd o'r blodau. Ni thwyllant chwi. Ni throat eu cefnau arnoch. Hawdd y cofwch am danynt. Os cewch fyw hyd bedwar ugain oed, ac ychwaneg, bydd cof am danynt a golwg arnynt yn bleser diddarfod.

YR HAF.

DAETH YR haf-ddydd i deyrnasu,—

Blodau sy'n sancteiddio'i sedd;
Sw'n ei delyn aur wrth ganu,
Wna i ofid weinio'i gledd;
Ffoa cwmwl du pryderon,—
Heulwen hedd ddwg faln gwellhad;
Cawn o dwrf heolydd llwydion,
Wledd o hawddfyd yn y wlad.

Hudol ydyw cathlau mwynion,
Adar yn ffenestri'r dail;
Llais croesawiad yw murmuron
Nentydd ddawnsiant bob yn ail;
Cluda'r awel ar ei gwefus,
Ddiliau rhyddid i ni'n rhad;
Salmu'r mawl orlifa'n felus,
Gyngherdd mwyniant yn y wlad.

Y Bala.

Dryllia'r haf gadwyni tynion,
Hen ofalon glynoedd poen;
Egyr ddrws i ffrwd cysuron,
Ddwyn i'r fynwes nefol hoen;
Cerdda drwy heolydd Anian,—
A'i ysbrydiaeth rydd fwynhad;
Cilia galar dros hen geulan
Angof yn swyn tlysi'r wlad.

Croesaw iti, haf-ddydd siriol,
Wenu ar ein daear ni;
Gwrid Paradwys,—delw'r nefol,
Sy'n dy wyneb hawddgar di;
Boed dy lwybrau yn llifeirio,
O fendithion mewn mawrhad;
Sw'n dy delyn aur fo'n deffro
Hiraeth am haf dwyfol wlad.

RICHARD AB HUGH.

YR IAR.

I.

UN o arwyddion yr hen Gymry fod lle yn gyfaneddol oedd clywed clochdar iar neu gân ceiliog. O bob da pluog yr iar-
yw y fwyaf adnabyddus a'r fwyaf defnyddiol. Lle bynnag y ceir
cartref yn y wlad, os bydd ychydig dir ynglŷn âg et, ceir tyrfa fechan
hapus o ieir, bump neu chwech ohonynt, yn prysur chwilio am fwyd
neu'n eistedd ar lecyn
cynnes a heulog.

Y mae'r iar yn perthyn i
deulu lluosog o dda
pluog,—y twrci, y paun, yr
iar gini,—ac i ereill o deulu
y pheasant. Ond nid wyf
am son yn awr ond am y
rhai sydd wedi eu dofi, ac
i'w gweled o gwmpas ein
cartrefi yn ein gwlad ni.

Grawn yw hoff fwyd da
pluog. Nid oes dannedd
yn eu pigau, ac nid yw eu
pig yn ddigon cref a chaled
i falu grawn. Ond medrant
dreulio y peth caletaf; mae
y tu fewn iddynt bron fel
dau faen melin.

Edrychwch mor fyrion yw
eu hadenydd, ac mor drym-
ion ydynt hwythau. Dengys
hynny mai ychydig fedrant
ehedeg, a'u bod yn blino yn
union. Edrychwch ar eu
coesau,—y maent yn hirion
a gwydnion; felly gallant
gerdded yn dda. Yn wir,
gŵyr llawer plentyn y gall-
ant redeg yn gyflym iawn.

Edrychwch hefyd ar eu gewinedd cryfion; â hwynt y maent yn crafu'r
ddaear, i chwilio am fwyd. Os medrant fynd i gae yd newydd ei
hau, ni chyfyd yno yd y flwyddyn honno.

Gŵyr pob plentyn am ddull yr iar,—am y pen aflonydd, y grib,
y twll yn y big at anadlu, y gynffon a rhyw ddeunaw pluen fawr
ynddi. Caf ddweyd eto paham y mae gan iar y peth yma a'r peth arall.



TEULU'R IAR.

[Darlun gan J. Thomas.]

GWERTHU CEFFYL I'R TYLWYTH TEG.

AR ddechreu y ganrif hon yr oedd y mynyddoedd rhwng Llanegryn a Dolgellau yn enwog fel cartrefi y Tylwyth Teg; ac eisteddai ein cyd-genedl yng nghysgodion tywyll mynyddoedd cedyrn ofergoeliaeth i wrandaw eu hanes yn awchus a synedig. Dyma chwedl yr adroddwyd llawer arni, ond nid yw henaint wedi ei hysbeillio o'i phrydferthwch.

Elai amaethwr o Lanegryn a cheffyl i'w werthu i ffair yn Nolgellau, dros y Ffordd Ddu, yng nghysgod tawel bryniau Meirion, heb ddim i ddeffroi ei fyfyrdod ond swm y gornant, a brefiadau y defaid mân. Ond yn unigedd Pont Cwmllywd dyma'i fyfyrdod yn cael aflonyddu arno gan gyfarchiad gŵr dieithr. Holai ynghylch y ceffyl. Ceisiodd ei brynnu, ond gan na roddai y pris, gwell oedd gan yr amaethwr fyned i'r ffair, er cael gwell cyfleusdra. Wrth ymadael dymunodd y gŵr dieithr, os methai a'i werthu, ac os boddolawn ganddo ei gynnyg ef, am iddo ddyfod i'w gyfarfod i'r un man erbyn naw o'r gloch bore drannoeth.

Aeth yr amaethwr yn ei flaen heb sylwi dim ar y dde na'r aswy. Yr oedd ei holl freuddwydion yn y ffair a'i phethau. Ni welai ddim yn ddwyfol yn yr hen Gader Idris yn codi ei phen uwchlaw y bryniau oll i agor mynwes y cwmwl i eneinio dyffryn a dŵl, dyn ac anifail, â gwllith-wlaw hyfrydlawn; ac wrth basio Llyn Gwernen ym mhlith y bryniau ni welai ddim ynddo ond ei fod dipyn yn fwy na'r llyn hwyaid oedd ger ei gartref.

Cyrhaeddodd Ddolgellau. Dechreuai y ffair a bywiogi, y porthmyn yn arfer eu hyawdledd er ceisio prynnu am y pris isaf, a'r gwerthwyr o'r tu arall, yr un modd er ceisio gwerthu am y pris uchaf. Wedi methu a drabwyllo neb fod ei geffyl y goreu yn y ffair, gorfod i amaethwr Llanegryn, druan, droi tuag adref gyda'r gwyll a'i geffyl ganddo. Cyrhaeddodd adref, ac wedi i'w wraig gydgyfranogi yn llwyr o'r siomedigaeth, adroddodd mai'r cynnyg goreu a gafodd oedd gan ŵr dieithr wrth Bont Cwmllywd, a dywedodd am y modd y gorchmynnodd iddo ei gyfarfod drannoeth.

Yr oedd Pont Cwmllywd yn hen adnabyddus i'r ddau fel mangre y Tylwyth Teg, ac ni buont yn fyr o feddwl y gallai y gŵr dieithr fod yn un ohonynt. Ond gan mai eisiau pris da oedd arnynt, penderfynwyd myned a'r ceffyl i'w gyfarfod. Nis gallai y gŵr fyned ei hun, rhaid oedd cael cwmni cymydog, ac yng nghwmni y cymydog aeth y ffarmwr a'r ceffyl at Bont Cwmllywd erbyn naw o'r gloch. Daeth y gŵr dieithr yn ol ei addewid, gorchmynnodd i'r amaethwr gyda'r ceffyl ei ganlyn. Deisyfai'r amaethwr am gael cwmni ei gymydog, ond nacawyd hynny yn bendant. Daethpwyd

at enau ogof, pryd y gorchmynnodd y gŵr dieithr yn llym am iddo-beidio mewn un modd a chyffwrdd â dŵr y fangre danddaearol. Daethpwyd yn union i heol hardd, ac i neuaddau ysblenydd. Arddanghoswyd pob caredigrwydd gan breswylwyr y lle i'r amaethwr. Rhoddwyd y pris yn llawn iddo. Ond ni chafodd ddim i'w fwyta, yn sych nag yn wlyb. Arweiniwyd ef yn ol yn dirion at enau yr ogof. Cafodd ei gymydog yn y fan ei gadawodd, wedi ei syfrdanu trwy ei ddiflaniad anweledig. Aeth y ddau adref yn llawen, fel rhai wedi ennill bywyd o farwolaeth a rhyddid o gaethiwed.

MAB RHYDDID.

GAUAF AR LAN MOR Y CANOLDIR.

VI. BORDIGHERA.

“**W**RTH geisio disgrifio Bordighera mi ddylwn ddweyd rhywbeth wrthyhych am ei brif-ffordd. Fe wyddoch fod gan bob tre neu bentre ei fan cyfarfod; yn A—, ar y ‘Terrace’ y byddwn yn cerdded os y byddwn am weld llawer o bobl; yn B—, i'r gerddi y byddwn yn mynd. Yn Bordighera a pawb i'r Strada Romana. Ffordd lydan brydferth iawn ydyw, nid ar lan y môr, ond rhyw gwarter milltir oddiwrtho, ac wrth droed y mynyddau uchel oedd yn ein cysgodi rhag y gwyntoedd oerion. Ar bob ochr y ffordd yr oedd tai mawr yn sefyll yn eu gerddi eu hunain. Y mwyaf prydferth o'r rhai yma oedd tŷ Arglwydd Strathmore, gyda'i dŵr agored a'i risiau troellog. Edrychai fel rhyw degan ardderchog, gan ei fod mor wyn a'r eira, ac wedi ei addurno â llythrennau mewn aur a phob math o liwiau; i'r dysgedig yr oedd rhyw ystyr neilltuol iddynt, ond i ni yr anwybodus, 'doeddent ond addurn yn unig; cawsom ar ddeall er hynny mai dweyd yr oeddent fod brenhines yr Eidal wedi bod yn aros yma yn 1879.

“Byddem yn aml iawn yn cyfarfod yn y Strada â menywaid y lle yn mynd a dod at eu gwaith, a'u beichiau,—byddent fach neu fawr,—bob amser ar eu pennau. Ar brydnawn dydd Sadwrn gwelwm hwynt yn cario basgedi gwynion mawr bâs, wedi eu cuddio â gauze, un yn lās, y llall yn wyrdd, un arall yn goch neu felen, eu llygaid duon yn serenu gan hapusrwydd wrth feddwl fod y dillad yn lân yn y fasedg, ac mai derbyn tâl am eu gwaith oedd y peth nesaf. Golchwragedd y lle oedd y rhai yma. Gwelais unwaith fenyw digon gwannaidd yr olwg arni yn cario baich mawr o ddrain ar ei phen, a dyn cryf ysgwyddog yn cerdded wrth ei hochr, ei ddwylaw yn ei bocedi a phibell yn i ben. 'Nawr, peidiwch chwi a rhedeg i ffordd a'r dyb fy mod i yn ystyried fod gwŷr yr Eidal yn galed iawn

wrth eu gwragedd, yn unig oherwydd y ffaith yma; feallai mai digwyddiad yn unig oedd. Mi wyddom fod pethau fel hyn yn digwydd yng Nghymru hefyd. Gallaf gofio y funud hon am fwy nag un John Jones fedr smocio ei bib yn hollol gysurus, a rhoi ei ddwyllaw yn ei bocedi hefyd, pan y mae Jane, nid feallai yn cerdded wrth ei ochr a baich drain ar ei phen, ond yn cario baich er hynny, a hwnnw yn un pigog iawn weithiau; feallai mai dyled yw, neu dymer ddrwg John. Waeth am hynny os yw yn drwm ac yn un nas gellir ei daflu i lawr, fel y gallai menyw yr Eidal daflu ei baich drain wrth ei drws.

"Rwy'n gweld eich bod yn teimlo dyddordeb neilltuol yn null y mynywaid o gludo eu pethau o un man i'r llall. Ni fydda i yn synnu dim os gwelaf chwi yn cerdded i fyny a lawr i'r ystafell a rhyw becyn ar eich pennau i gael profi p'un a oedd yn beth anhawdd neu beidio. Ond cofiwch chwi, os ydych am efelychu mynywaid yr Eidal, bydd yn rhaid i chwi gario potel a'i llond hi o laeth, neu fasedd fawr yn llawn o ffrwythau, a baban yn eich breichiau yr un pryd. Mi welais i fenyw yn gwneyd hyn, ac yn plygu i lawr i godi rhywbeth oedd wedi weld ar ganol y ffordd, tra yr oedd y fasedd mor sefydlog ar ei phen a phe bai yn rhan o honi hi ei hunan, a'r plentyn mor hapus a phe bai wedi cael profiad hir o allu ei fam i wneyd hyn, heb i'r ffrwythau arllwys eu hunain yn gawod ar ei ben bach. 'Roedd y fenyw yma yn agos at ei chartref yn yr hen dref pan y gwnaeth hyn.

"Mae y dref newydd sydd ar lan y môr yn ddigon tebyg i'n trefydd ni, ond am yr hen dre mae'n gywrain dros ben,—yn edrych o bell fel rhyw gastell mawr yn dechre adfeilio, gan fod llawer iawn o'r ffenestri heb ddim gwydr ynddynt. Mae'r tai mor glos wrth eu gilydd, a'r strydoedd mor gul, fel y byddai bron yn bosibl i ddau ddyn i siglo llaw o un tŷ i'r llall yn groes i'r ffordd; maent yn uchel iawn hefyd, a'r awyr uwchben yn edrych fel llinyn glâs rhyngddynt.

"Trodd y fenyw y soniais am dani i fyny i'r dref, ac esgynnodd y grisiau oedd yn arwain iddi,—ond grisiau yw y ffordd i gyd o ran hynny. Safodd auntie Marian a finnau yn syn i edrych arni yn mynd i fyny, i fyny, ac yn cerdded yn fwy *graceful* o lawer nag a allem ni; ond y mae yn ddiameu fod y llwyth ar ei phen yn ei gorfodi i symud yn unionsyth ac araf, gan y byddai yn amhosibl i un letwith a thrwsgl i gadw y pethau yn gywir.

"Wedi colli golwg arni cawsom amser i sylwi fod *arches* wedi eu tafu yn groes o un ochr i'r llall i gylumu y tai wrth eu gilydd. Sylwem fod ar fwy nag un o'r rhai yma y dyddiad '1887.' Wedi mynd yn ol i'r hotel gofynnais i foneddiges, oedd yn eistedd wrth fy

ochr ar giniaw, ystyr y dyddiad yma. 'Yn 1887 y bu y daeargryn ofnadwy hynny,' oedd ei hateb. Yr oedd yn digwydd bod yn y lle ar y pryd, ac wedi cael y fath ddychryn fel yr oedd bob gauaf ar ol hyn yn rhoi ei bonnet a'i siaced *sealskin* a'i 'sgidiau ar stôl wrth ochr ei gwely gyda chanwyll a *matches*, i gael bod yn barod mewn cyfyngder. Mor ddigrif oedd y darlun baentiodd ei geiriau yn fy meddwl fel yr oeddwn yn methu peidio chwerthin wrth ofyn paham yr oedd yn peidio mynnu rhyw *dressing-gown* daeargryn mawr, fyddai yn ddigon hir i'w chuddio o'i phen i'w thraed, ac yn ddigon cynnes i'w chadw rhag cael anwyd pe byddai galwad iddi dreulio y nos yn yr awyr agored. Ond deallwn wrth ei hateb ei bod yn ystyried ei bod wedi gwneyd dewisiad doeth iawn. Gofynnais hefyd paham nad oedd yn rhoi un pilyn yn rhagor gyda'r pethau ar y stôl. 'Oh, byddai llawer o bethau yn fy nyrysu, nid peth i chwerthin am dano yw daeargryn,' meddai, wrth weld fy mod braidd yn ysgafn, ac heb ystyried mai nid y daeargryn oeddwn yn gael mor ddigrif ond yr olwg arni hi yn fy nychymyg; meddyliwn y byddai yn well iddi ddyrysu tipyn na throi allan hyd yn oed ganol nos yn y fath ddiwyg.

"Cyn gadael yr hen dre dylaswn fod wedi gwneyd wrthych ei bod yn sefyll yn brydferth iawn ar y Capo; ond mae gennyf y fantais wrth ysgrifennu neu adrodd o allu mynd yn ol a blaen o un lle i'r llall mewn eiliad. 'Roedd yr *headland* yma, y Capo di Bordighera fel ei gelwid, yn rhedeg allan mor bell i'r môr, fel yr oedd teithwyr o Marseilles i'r Eidal yn cael golwg arno awr neu ragor cyn y cyrhaeddent y *frontier*. Tywynnai'r haul ar Gampanile yr eglwys awr gyfan ar ol y byddai Mentone,—oedd ond deuddeg milltir oddiwrtho,—wedi cael ei gau i mewn gan gysgodau'r hwyr.

"Wedi cael ychydig ddesgrifiad fel hyn o'r Capo, bydd yn hawdd i chwi ddychymygu ei weled yn llygaid eich meddwl; a'r hen dref hefyd yn sefyll arno. Pe baech yn defnyddio eich dychymyg eto, ac yn troi i fyny heibio i'r Villa Bianca Piana, ac esgyn grisiau lawer i'r Piazza Fontana, a cherdded ymlaen ychydig ymhellach, fe gawsech eich hunain wrth ochr yr *aqueduct*, yn agos i'r fan lle yr oedd y mynywaid yn golchi eu dillad. Gwnaent hyn yn yr awyr agored bob amser, ac mewn dwfr oer, a churent y dillad i'w cael yn lân; bu hyn yn esboniad i ni ar lawer o dyllau a gaem mewn ambell bilyn oedd yn hollol anghyfarwydd â thriniaeth mor arw; ond mae'n rhaid cyfaddef fod y dillad fel y carlwm pan y deuent adref.

"Croesawai y golchwragedd ni yn serchog iawn pan yr aem ar ein tro heibio iddynt; dibynnent i raddau mawr am eu bywd a'u cynhaliaeth ar y gwaith gaent gan y Saeson ddeuent i'w gwlad i auafu.

Feallai mai dyna y rheswm paham yr oeddynt mor llon wrth ein gweld ni, ond 'rwy'n credu mai pobl naturiol serchog fel y Cymry yw yr Eidaliaid. Wrth son am eu serchawgrwydd mae gwyneb llon a llawen Madame Arnolfo yn 'dod yn fyw i fy meddwl. Daethom yn gyfarwydd iawn â hi gan ein bod yn mynd i'w thŷ bob bore, ac yn cael croesaw cynnes iawn bob amser, a llawer o ddifyrrwch wrth geisio ymddiddan â ni yn ei hiaith ei hunan. Chwarddai mor iachus weithiau nes yr oeddem yn gweyd un wrth y llall,—‘Ond yw hon yn debyg i Pegws Blaenpant?’ Gellwch feddwl wrth ei henw ei bod yn perthyn i ddosbarth uwch na Pegws, ond mewn gwirionedd yr oeddent yn yr un sefyllfa yn gywir; arteriad a moesgarwch oedd yn peri ei bod yn cael y blaenddodiad Madame. Pe bai Pegws yn yr Eidal byddai yn gystal Madame a hithau.

“Byth ni byddem yn blino pan yn blant ar hanesyn bach fyddai ein mam yn adrodd am ein mamgu yn mynd yn gennad dros Mrs. Jones y Plas at Beti Benwan i weyd mor ddrwg oedd ganddi ei bod wedi agor llythyr iddi oedd wedi dod o Dowlais, a'i bod wedi gwneyd hynny am ei bod yn meddwl ma hi oedd yr unig Mrs. Jones yn Tre—, a'r desgrifiad o Beti yn dawnsio gan natur ddrwg ac yn gweyd,—

“‘Mae go whith gen i i bod hi wedi agor yn llythyr i, a gwedwch chi wrthi, ma'm, mod i gystal Mrs. Jones a hithau yn Dowlais.’

“Pe bai y Cymry mor foesgar a'r Eidaliaid,—ond mae'n rhaid cyfaddef ein bod ymhell yn ol yn hyn,—ni fyddai dim eisiau i Beti i drafeilu mor bell cyn y cawsai y pleser o glywed yr enw parchus Mrs. Jones; ond feallai mai prinder enwau yw y rheswm paham mae menywaid o'r un dosbarth a Beti mor aml yn cael eu hadnabod wrth ryw enw llysg fydd yn ddesgrifiad o'u cymeriad neu eu harferion.”

H. E. M.

LLWYDDIANT EFRYDYDD.

DA gennyf weled Cymry ieuainc yn sefyll ar y blaen, beth bynnag fo eu llwybr mewn bywyd. Hoffwn alw sylw gwŷr ieuainc Cymru at yrfa gŵr ieuanc sydd yn meddu athrylith a diwydrwydd. Mab golygydd amryddawn *Trysorfa'r Plant* yw Mr. T. A. Levi, ac y mae yntau ei hun yn fardd ac yn llenor Cymreig da. Graddiodd gydag anrhydedd mawr ym Mhrifysgol Llundain, cym-erodd ei radd o Goleg Lincoln yn y dosbarth cyntaf mewn anrhydedd ym Mhrifysgol Rhydychen. Yn ei arholiad olaf fel bargyfreithiwr, safodd yn gyntaf ym mhob un o'r pedwar pwnc, a chafodd dysteb anrhydedd. Yr wyf yn credu fod hon yn gamp na wnawd gan yr un efrdydd o'r blaen.



“Dechreuodd Mair ddweyd ystraeon.”

YSGWRS YN Y BORE.

MERCHED Blaen Cwm Criafol yw Mair ac Eluned. Ryw dro aeth y ddwy i rodio at eu modryb i'r dref. Gartref byddent yn codi am chwech o'r gloch y bore yn yr haf; ond, yn y dref, ni ddisgwylid hwy i lawr tan wyth. Ac felly, o chwech dan wyth, siaradai y ddwy am eu cartref i fyny yn y mynyddoedd. Codai Mair hiraeth ar Eluned ac arni ei hun wrth son am gartref,—am y

blodau oedd yno, am y cwn yn rhedeg trwy'r gwllith, am y cynhauaf gwair, ac am eu mham. Synnent sut yr oedd eu mam yn medru gwneyd hebddynt.

O'r diwedd dechreuodd Mair ddweyd ystraeon am eu cartref, pethau na wyddai Eluned hyd hynny. Rhof innau adroddiad o rai o'r ymgomiau hynny yn y bore.

LORD ROBERTS A PHLANT.

DYWEDIR fod Lord Roberts yn hoff iawn o blant. Y dydd wedi iddo gymeryd Pretoria aeth un o'i swyddogion ato ar neges bwysig. Yr oedd gan yr hen gadfridog blentyn bychan ar ei lin, ac yr oedd yn ceisio ei ddysgu i ysgrifennu. "Chwi welwch fod gennyf waith pwysig," ebai wrth y swyddog.

Cofir fod Lord Roberts wedi colli ei unig fab yn nechreu y rhyfel. Lladdwyd y bachgen ar lannau'r Tugela, wrth geisio achub y gynnuau rhag y Boeriaid.

**"Y MYNYDDOEDD A DODDASANT O FLAEN
YR ARLWYDD"**

TODDA bryniau llwydion Cymru
Dan ddylanwad *gwenau* Duw;
Tardd ei gariad yn fendithion,—
Gwenant yn wyrddlesni byw.
Gŵyr y defaid fod y llethrau
'N tyfu'n borfa las, a brwyn,
Ac fod braser lond y borfa
Sydd yn hanner cuddio'r ŵyn.

Toddir hagrwech ein mynyddau
'N ddafnau heirdd o fiodau blydd;
Tyf y garreg lwyd yn fswg;
Gwena'r cae drwy'r llygaid-dydd;
Cwyd y cloddiau'n deg friallu;
Gwrda'r glyn yn lili dlos;
Chwardda meillion a rhoynau
'N dlysi byw dan wllith y nos.

Gŵyr y gwenyn fod ffynhonnau,
Llawn o fêl ym mlodau'r grug;
Ac fod blodau'r dreiniog berthi
'N llanw o neithdarol sug.
Gŵyr yr adar am y gruglus
Addfed, wridant ael y bryn.
Gwyddom ninnau am y meusydd,
Lle y dawnsia gwenith gwyn.

Yn nhywyllwch bryniau Cymru,
Hoffwn innau fod yn wawl.
Ar y ffordd i fryniau Gwynfa,
O! na fedrwn doddi'n fawl;
Treulio einios fer i ddechreu
Miwig melus nef y nef,—
Nefoedd ar y ddaear ydyw
Canu moliant iddo Ef.

ISAAC EURPIN BENJAMIN.

SESAME. Hadau planhigyn dwyreiniol yw sesame, i'w bwyta neu i wasgu olew ohonynt. Mae'n air hefyd a ddefnyddir mewn chwedl Arabaidd i agor drws gwlad hud.

TRYCHINEB PWLLHELI.

[Cofir yn hir am foddiaid llu o blant ym Mhwllheli yn haf 1899. Plant chwarel-wyr o Arfon oeddynt, wedi dod am ddiwrnod i'r môr. Gorlanwasant gwch, troisant ef, a boddwyd hwy. Darluniai'r cychwr un plentyn bach prydferth estynnai ei breichiau ato yn y dŵr am ymwared. Ymhen ychydig yr oedd gorymdaith brudd yn ardal cartref y plant, yn dirwyn i lawr tua'r fynwent, ac yn derbyn eirch newyddion wrth basio cartref ar ol cartref.]

Y WAWR ymgodai yn hafddydd gwyn
 Ar fron yr Elidir fawr,
 Tra llu o galonnau yn dawnsio'n chwim,
 Mor llon a phelydrau'r wawr.

Mae gobaith ieuentid am bleser-daith
 Yn ymlid eu cwsg i bant;
 Mor llon ag ewigod y llama'r llu
 I'r orsaf ar gwr y nant.

Yn y gerbydres dan ganu yr ant
 I dreflan Pwllheli deg,
 Yn llawn o awyddfryd am fwyniant pur
 Dan wenau yr hafddydd chweg.

Mae llu o ieuentid mewn plesertad,
 Ac amryw o riaint llon,
 Yn cychwyn i yfed awelon mwynhad
 Heb bryder ar frig y don.

Y cwch a ymlithra dros fron yr aig
 Mor esmwyth a'r awel rydd;
 Rhieni a phlant gyd-dystiant mai hwn
 Yn eu hoes yw'r hapusaf ddydd.

Ond pan mae y bad i ddychwel yn troi,
 Ymruthra rhyw awel flin,
 Fel pe'n genfigenus wrth eu mwynhad,
 A chyfry ddiplonedd yr hin.

Dacw don yn ymgodi'n ffyrnig draw
 Gan ruthro fel cennad brad,
 A hyrddia ei hunan mewn gwallgof nwyd
 Yn erbyn ystlys y bad.

CYMRU'R PLANT.

O! erchyll olygfa, rhieni a phlant
 Yn ymladd âg angau erch,
 Ah! clywch eu dolefau, tra'r creulawn fôr
 Yn gwatwar ymbiliau serch.

Pa galon mor galed na thodda'n llyn
 Wrth weled y baban iach
 Yn ymladd am fyw yn y tonnog li,
 Gan ysgwyd ei freichiau bach?

Try'r mwyniant yn ddychryn i'r dorf ar y lan,
 Fel taranfollt disgynna'r braw;
 Ar aden y fellten ymruthro wna
 I froydd Dinorwig draw.

Mae yno gartrefi na ddychwel un
 O'u hanwyl breswylwyr mwy,
 I sangu eu trothwy, ond yn eu harch
 Wrth ymdaith i lan y plwy.

Mae yno galonnau yn gwaedu'n llif
 Am golli rhai anwyl iawn,
 A'u gobaith yn cilio fel llewyrch dydd
 Dros orwel eu prudd brydnawn.

Ni welir pleser-daith yn cychwyn mwy
 O'n ardal ar doriad dydd,
 Na ddaw y trychineb ofnadwy hwn
 I daflu ei gysgod prudd.

Rhostryfan.

T. D. R. (*Tryfanydd*).

—◆◆—

I'W DDARLLEN YN DDIFYFYR.

YN yr haf mae blodau cerrig sydd yn ddefnyddiol i wneyd potes rhaid cael cig llyffant sydd greadur heglog yn yr haf mae awelon balmaidd i wneyd bwyd rhaid cael defnyddiau o haiarn gwneir llawer o beiriannau meddal yw'r ymenyn glâs sydd yn lliw du yw'r huddugl gwyn yw'r golomen yn cyfnewid mae dyn aflonydd yw'r môr marw raid i bawb hofran uwchben mae'r cwmwl yn y Pandy mae capel Pabyddion sydd yn lliosog ar gynnydd mae addysg yn CYMRU mae darluniau chwe cheiniog ydyw y pris am seneddwr y mae y genedl yn darfod mae y rhyfel heddwch ddaw i deyrnasu buan gwawried yr adeg hyfryd pan na ddysgant rhyfel mwyach.

DAVID THOMAS (*Dewi Tudur*).

GWLAD HUD.

(Casgliad o Ystraeon Hud o
bob gwlad.)

VII. CLOCH TYLWYTH TEG.

(Un o Ystraeon Hud Norway.)



YN Norway byddai'r Tylwyth Teg yn dawnsio dan gysgod y creigiau, ac ymysg y twmpathau grug. Un tro yr oedd un ohonynt,— un ieuanc,—yn llon iawn ei ysbryd wrth ddawnsio yng ngoleu'r lleuad. Pan aeth i lawr i ddynderoedd y ddaear yn ei ol, gwelodd, er ei traw ei fod wedi colli'r gloch oedd ar ei gap. Ni chai ddod i'r ddaear mwy am fis, tan fyddai'r lleuad yn llawn drachefn.

Yn y bore, ar doriad y wawr, daeth llanc o fugail i wyllo'r defaid. Er ei lawenydd, cafodd gloch fechan ariannaidd ar lawr. Canodd hi; ac ni chlywsai fwsig mwy melus erioed. Gwrandawai'r cwn a'r defaid, gyda boddhad. Gwnaent y peth a fynnai'r bachgen, ond yn unig iddo roddi tinc ar ei gloch fach. Ni ddiangai'r defaid, aent

y ffordd y mynnai. Ac yr oedd y cwn yn berffaith ufudd. Ac ni fu bugail bach mwy dedwydd o fewn y fro i gyd.

Yr oedd yr haf yn dod; ac aeth y bachgen a'i ddiadelloedd o'r hendre i'r hafoty,—lawer iawn o filltiroedd yn uwch i fyny yn y mynyddoedd.

Ymhen y mis daeth bachgen y Tylwyth Teg i chwilio am ei gloch. Chwiliodd dan bob twmpath, ysgydwodd bob cangen o'r grug,—ond methodd gael ei gloch, ac aeth yn ol tan wlo.

Wedi mynd i'w gartref tan y ddaear drachefn, treuliodd ddydd a nos i synnu beth, tybed, ddaethai o'i gloch. O'r diwedd cofiodd fod adar yn lladron mawr. Teimlai'n sicr fod rhyw frân wedi lladrata'r gloch. Y tro nesaf y daeth i'r ddaear, trodd ei hun yn aderyn bychan tlws; a phenderfynodd wibio ymysg yr adar, ar fynydd a môr, hyd nes y caffai ei gloch.

Ar ddamwain, daeth unwaith uwch ben y fan y porai defaid y bachgen gawsai'r gloch. Yr oedd yn drwgdybio rhyw wylan y môr, ac wedi ei dilyn. Pan glywodd glychau'r defaid, safodd uwch eu pennau, i wrando a oedd swm ei gloch ef yn eu mysg.

Gwelodd y bachgen yr aderyn tlws uwch ei ben. Dotiodd ar ei dlynsi. Pan oedd ar ehedeg ymaith, tynnodd y bugail bach y gloch o'i fynwes, a chanodd hi, i dynnu ei sylw.

A llawen iawn oedd bachgen y Tylwyth Teg wrth weled ei gloch. Disgynnodd ar dwmpath gerllaw. Trodd i'w ffurf ei hun. Collodd y bugail olwg ar yr aderyn, ond gwelai fachgen fel yntau yn dod ato. Cyfarchodd y bachgen dieithr ef a gofynnodd,—

“Faint gymeri di am y gloch yna?”

“Chymeraf fi ddim. Mae wedi gwneyd y cwn a'r defaid yn ufudd, a finnau yn hapus.”

“A gymeri di lawer o aur ac arian?”

“Na chymeraf, mi a gadwaf y gloch tra bof byw.”

Yna dechreuodd bachgen y Tylwyth Teg erfyn, a dywed gwir hanes y gloch. “Rhof i ti wialen helyg, wedi ei dirisglo gan fy mam. Os bydd yn dy law, llwyddi yn dy waith, beth bynnag fo, ond iddo yn unig fod yn waith da.”

Cafodd bachgen y Tylwyth Teg ei gloch, rhoddodd hi ar ei gap, ac aeth yn ol yn llawen i Wlad Hud, dan y mynyddoedd mawr. Cafodd y bugail y wialen helyg, llwyddodd yn ei holl ffyrdd, ac yr oedd ganddo fwy o ddefaid na neb.

Nis gwn a oedd gan y gloch a'r wialen gymaint o allu a hynny. Ond gwn am un peth wna fwy nag a wnaeth y gloch ryfedd honno oedd ar gap bachgen y Tylwyth Teg,—caredigrwydd yn y galon.



PLANT CYMRU. CXXXII. PLANT PENRHYN DEUDRAETH.

**YSGOL Y RHAI BACH, MINFFORDD,
PENRHYN DEUDRAETH.**

WELE ddarlun wedi ei dynnu gan ein harlunydd ieuanc, Mr. P. G. Thomas, o blant *Infant School*, Minffordd. Y mae arnaf ofn ei galw yn "Ysgol y Babanod," fel y cyfieithir yn aml, rhag eu digio, o ran clywais un o'r rhai lleiaf hyn y dydd o'r blaen yn gwaeddi ar ol un bach arall wrth ei weled yn rhedeg adref mewn dychryn pan y gwelodd ŵr o draw yn dod ar hyd y ffordd,—“Yr hen fabi mawr, ofn y plismon?” Gadewch i ni ei galw yn “Ysgol y Rhai Bach.” Yr wyf yn lled sicr hefyd pe clywech y rhai bychain hyn yn mynd trwy eu pethau na fyddai i chwi eu hystyried yn rhyw fabanod.

Newydd ei hagor am y tro cyntaf erioed yw yr ysgol hon, ond nid yw i'w chau mwyach, fel y dywedodd Thomas Jones y Rhosydd, gyda'i ffraethineb arferol, wrth gyhoeddi y bregeth gyntaf i fod yng

nghapel bach newydd Cwmorthin,—“Fe fydd pregethu y Sabboth nesaf yng nghapel y Cwm,” meddai, “a waeth heb gwmpasu, fe fydd yno bregethu o hyn allan hyd ddiwedd y byd.”

Dyma yr ysgol ddyddiol gyhoeddus gyntaf yn yr ardal hon, a mawr oedd y llawenydd pan y cafwyd hi. Wrth fod y ffordd mor bell i'r ysgol i'r rhai lleiaf fe gynhygiodd cyfeillion y capel ran o'u hadeiladau newyddion rhagorol a chyfleus at ei chynnal. Gwnaed cais at y Bwrdd Ysgol. Y mae hwnnw yn cael ei wneyd i fyny o foneddigion sydd yn credu eu bod wedi eu hethol i hyrwyddo addysg y plant, ac ar unwaith fe ganiatawyd y cais.

Ar y chwith, dacw y feistres,—Miss Emily Edwards, merch ieuanc o Dalysarn, un llawn ynni a brwdfrydedd gyda'i gwaith, ac un yn meddu yn helaeth y gallu prin i ennill serch calon un bach, trwy yr hyn yn rhwydd wedyn y gellir goleuo ei ben, a pheri y bydd dysgu yn bleser, a'r ysgol yn fwyniant, yn lle baich anhawdd i'w ddwyn, iddo. Y mae yr eneth ieuanc sydd yn ei chynorthwyo,—Miss Salome Jones,—ar dde y darlun.

Am y pared a'r ysgol y mae llyfrgell ragorol y capel, lle y mae casgliad da o lyfrau Cymraeg a Saesneg yn disgwyl am ddarllenwyr ychwanegol o blith yr ysgolorion ieuainc addawol hyn.

Y mae y plant hyn byw ar derfyn eithaf Meirionnydd, am yr afon a sir Gaernarfon. Y maent yn chwareu bob dydd yng ngolwg cadwen fawreddog mynyddoedd yr Eryri. Ar ddiwrnod clir o haf gwelant yn eglur fwg y tren yn dringo yn fuddugoliaethus y llethrau serth i gopa dyrchafedig yr Wyddfa. Y mae awel gryfhaol y mynydd yn rhoddi iechyd corff a hoen ysbryd iddynt, ac y mae awel dyner, gynnes y môr,—awel yn chwythu dros Gantref y Gwaelod,—yn rhoddi gwawr brydferth o gymysg coch a gwyn i'w gruddiau bach; ond nis gall arluniaeth ddynol byth baentio y lliw swynol hwnnw.

Minffordd.

G. WILLIAMS.

“CYMRU.”

BYDD rhifyn y mis hwn o'r misolyn *Cymru* yn rhifyn cyntaf yr ugeinfed gyfrol. Ynddo mae Eluned Morgan yn adrodd ei hanes yn dringo'r Andes, ac yn disgrifio ardaloedd nas disgrifiwyd erioed o'r blaen yn Gymraeg. Mae Dewi Medi yn darlunio rhai o bregethwyr mawr y Deheudir. Mae J. M. Howell yn darlunio golygfa gynhyrfus yn yr Iwerddon. Mae darluniau tlysiôn o rai o arweinwyr Lerpwl. Hanes Gruffydd Prisiart, pennod gyntaf hanes Cymru yn y ganrif hon, adar a blodau haf, caneuon gan rai o brif feirdd Cymru, darluniau prydfferth,—dyna ran o gynhwysiad rhifyn Gorfennat.

O HEN LYFRAU YR OES O'R BLAEN.

I. CHWEDL AM DAFYDD, BRENIN ISRAEL.

(O "Goleud Cymru," 1821.)

UN diwrnod, daeth plant Israel at Dafydd, i geisio ganddo ddangos iddynt hwy pa fodd y dygid ymlaen y farn ar ddydd yr adgyfodiad. "Da iawn," ebe Dafydd," deuwch ataf fi ar ryw wyl, a mi a ddanghosaf i chwi."

Ynghylch yr amser hwn, yr oedd achos dyryslyd iawn yn cael ei ddwyn ger bron Dafydd,—gwraig weddw, yr achwynnid arni ei bod wedi lladrata ych, a'i ladd yn ymborth. Dadleuai y wraig ei bod bron marw o newyn; ac i'r ych ddyfod ati o hono ei hun, gan ddywedyd,—“Lladd fi, a bwyta fi, byddaf yn ymborth rhagorol i ti.”

Ymddanghosai Dafydd yn foddlon i'r esgus hwnnw; ond nid felly perchennog yr ych; gwaeddai ef yn haerllug am gyfiawnder.

Yr amser hwnnw ymddanghosodd Gabriel i Dafydd, gan ddywedyd,—

“Gorchymyn i holl blant Israel ymgylfarfod y fory ar y gwas-tadedd, fel y caffont weled cynllun o'r farn a gymer le ar ddydd yr adgyfodiad.”

Yn ganlynol, y bobl a ymgynhullasant ar y dydd nesaf, pryd yr esgynnai Dafydd i areithfa, gan beri dwyn y wraig, a pherchennog yr ych, ger ei fron. Yn gyntaf darlennodd Dafydd adnod neu bennill o un o'r Salmu; ar hynny, dyna ddistawrwydd cyffredinol; pawb yn gwranddo ar ei lais ef. Yna efe a lefarodd wrth berchennog yr ych, gan ddywedyd,—

“A ydwyf ti yn cofio ar y dydd y gadewaist Syria, i fyned i'r Aifft, ymgylflogi gyda phennaeth ag oedd yn ymdeithio gyda phum cant o gamelod llwythog, ac i ti yrru y camelod i wastadedd, lle y llofruddiaist eu perchennog, gan ei gladdu yn y tywod; ac i ti fyned ymlaen i'r Aifft gyda'r camelod a'r trysorau, lle yr arhosaist ddeugain niwrnod? Ac wedi hynny dychwelaist i Syria, a dywedaist i feibion Israel mai eiddo ti dy hun oedd yr holl drysorau a ddygaist gyda thi. Fel hyn ti a'th wnaethost dy hun yn ŵr mawr ar y ddaear, ac y mae dy gyfoeth yn para i gynhyddu hyd y dydd hwn. Yn awr, y gw'r a lofruddiaist ti ydoedd priod y wraig hon, a thad ei dau blentyn.”

Pan glybu perchennog yr ych yr araeth hon, efe a wadodd y cyhuddiad, gan ddywedyd,—

“Ni lofruddiais i ddyn erioed, ac ni ladratais i eiddo neb yn fy holl fywyd.”

Yn y fan ei ddwylaw a lefasant allan,—

“O broffwyd Duw, nyni a dorasom wddf y dyn ar y dydd

hwnnw"; a'i draed a ddywedasant,—“O broffwyd Duw, nyni a'i claddasom ef yn y tywod.”

Fal hyn, ei aelodau a dystiasant yn ei erbyn, ac nis gallai ei enau ddywedyd dim yn chwaneg er hunan-ymddiffyniad. Yn y modd hynny y barna Duw ddynton yn nydd yr adgyfodiad; pryd y cauir eu genau, ac y tystia eu dwylaw a'u traed am eu gweithredoedd.

Parodd Dafydd dorri pen yr yspeiliwr llofruddiog, a'i osod ar bolyn, a rhoddi ei holl feddiannau i'r wraig, priod yr hon a laddasai efe. Ac iawn y gwnaeth, medd y cyfieithydd.

IAGO TRICHRUG.



“ Fiu nos a thoriad gwawr
Gwrando ni, ein Duw.”

GWEDDŵR MORWYR BACH.

FIN nos a thoriad gwawr
Gwrando ni, ein Duw;
Ar y dyfnder mawr
Cadw ni yn fyw.

Yn ol i'n cartref clyd,
Dwg ni, O ein Duw;
Ac o fordeithiau'r byd
Dwg ni i'r nef i fyw.

MASNACH PALESTINA.

Y MAE popeth ynglŷn â gwlad y Beibl yn ddyddorol i Gymro. A gwn y bydd yn dda gan lawer wybod beth yw masnach Palestina yn y dyddiau hyn.

Y mae ffordd haiarn yn rhedeg er ys wyth mlynedd o Joppa i Jerusalem, ac y mae honno wedi tynnu llawer o fasnach i hen troydd tawel Canan. Yr oedd gwerth y nwyddau gymerwyd i mewn ac a yrrwyd allan,—dadforion ac allforion,—y flwyddyn ddiweddaraf yn £706,418; ac y mae hyn yn dangos cynnydd rhyfeddol o fewn yr ychydig flynyddoedd diweddaraf. Os na ddaw rhyfel, bydd gwlad ddfrodedig, orthrymedig, dlawd y Beibl eto'n wlad yn llifeirio o laeth a mel.

Prif gynnyrch y wlad yw eurafalau. Oddiyno y daw'r orenau melusaf a goreu, y mae perllannoedd eurafalau yn ymestyn dros wlad fu unwaith yn lloam megis pe dan felldith. Nid oes digon o wlaw iddynt, hyd yn oed pe deuai'r cynar-wlaw a'r diweddar wlaw yn eu pryd, a phrynnir peiriannau olew i godi gwfr o'r afonydd i redeg drwy'r gerddi. Nid yw cost cludo bocsiad o orenau o Joppa i Lerpwl yn awr ond 1s. 3½d. Tyf haidd dan gamp yn hen wlad y Philistiaid o gwmpas Gaza, ac y mae'r Iddewon sy'n dychwel i'r hen gartref o'u hir grwydro yn plannu coed ffrwythau.

Buan y newidia y fasnach gynhyddol hon wyneb y wlad. Cyn hir bydd hen adeiladau a hen ddulliau o fyw wedi diflannu, oherwydd y mae llongau'r cenhedloedd yn prysur gludo i'r wlad bob math o ddefnydd adeiladu, pob math o nwyddau haiarn, dodrefn ffrasiwn newydd, peiriannau, ie, a cheffylau heigrn.

Y llynedd bu 2,300 o ymwelwyr yn Jerusalem, dwy ran o dair ohonynt yn Saeson ac Americanaid. Bu yno luoedd o bererinion hefyd,—7,500 o Rwsiaid, 1,200 o Roegiaid, 900 o Armeniaid, 800 o Goptiaid yr Aifft, a 3,000 o wahanol wledydd ereill.

Dyma'r pethau allfori i wledydd ereill,—eurafalau, sebon, gwin, gwenith, sesame, gwlan, crwyn, ffrwythau.

Dyma'r pethau ddadfori o wledydd ereill,—dillad cotwm, haiarn, reis, siwgr, glo, halen, coed at adeiladu, blawd.

Dyma hanes masnach Palestina yn 1899, sef gwerth allforion a dadforion, a phwysau gerrir gan longau pob gwlad,—

	Anfonir i	Dadforir o	Tunelli llongau		Anfonir i	Dadforir o	Tunelli llongau
Prydain...	£65,965	£34,500	140,517	Rwsia.....	£8,900	£48,600	58,838
Twrci	£54,800	£64,250	32,161	Yr Almaen	£11,150	£39,500	—
Ffrainc	£61,200	£69,000	72,552	Amerig	£2,200	£3,200	—
Yr Eidal ..	£8,750	£20,000	7,449	Cyprus	—	£3,700	—
Yr Aifft ..	£87,750	£63,900	—				

Pan gofir mai dan faner Prydain y mae'r Aifft a Cyprus, gwelir mai rhyngddi hi a Phalestina y mae'r fasnach helaethaf.

“Dringwn yn uwch.”

Y Geiriau gan BRYFDIR.

Y Gerddoriaeth gan
J. E. JONES, DOLE, PEN Y GARN.

DOH A. *Eywlog.*

				>									
{	:s ₁	s ₁ :m	:r		d :t ₁	:l ₁		l ₁ :- :-		s ₁ :- :s ₁		l ₁ :t ₁	:d
	:m ₁	m ₁ :s ₁	:f ₁		m ₁ :s ₁	:f ₁		f ₁ :- :-		m ₁ :- :s ₁		f ₁ :- :m ₁	}
	1.Mae	new -	ydd	ddydd	yn	tor	-	ri	Dros	ael	y	}	}
	:d	d :-	:t ₁		d :-	:d		t ₁ :- :-		d :-	:f		d :-
:d ₁	d ₁ :-	:d ₁		d ₁ :-	:d ₁		d ₁ :- :-		d ₁ :-	:m ₁		f ₁ :s ₁	:l ₁

{	r :m	:f		m :- :-		r :- :s ₁		s ₁ :m	:r		d :t ₁	:l ₁
	l ₁ :de	:r		d :- :-		t ₁ :- :s ₁		s ₁ :- :s ₁		s ₁ :-	:f ₁	}
	clog -	wyn	ban,	}	Cyf -	od -	wn	i'w	glod-	}	}	
	f :s	:l	s :- :-		:-	:s ₁		m :s	:f		m :r	:d
f ₁ :m ₁	:r ₁	s ₁ :- :-		:-	:s ₁		d ₁ :-	:d ₁		d ₁ :-	:d ₁	

{	s ₁ :- :-		d :-	:d		t ₁ :d	:m		r :l ₁	:t ₁		d :- :-		:-
	m ₁ :- :-		f ₁ :-	:fe ₁		s ₁ :-	:s ₁		s ₁ :fe ₁	:f ₁		m ₁ :- :-		:-
	for -	i,	Cy -	chwyn -	wn	tu -	a'r	lan.	}	}				
	d :- :-		d :-	:d		r :m	:d		t ₁ :d	:r		d :- :-		:-
d :- :-		l ₁ :-	:la ₁		s ₁ :-	:s ₁		s ₁ :-	:s ₁		d ₁ :-	:-		:-

CYDGAN.

{	:s ₁	s ₁ :m	:d		l ₁ :- :-		l ₁ :- :-		l ₁ :f	:r
	:m ₁	m ₁ :s ₁	:m ₁		f ₁ :- :-		f ₁ :- :-		f ₁ :l ₁	:f ₁
	* A	chan-wn	yn	rhydd	}	Dan	wen -	au	y	
	:d	d :d	:d		d :- :-		d :- :-		r :r	:r
:d ₁	d ₁ :d ₁	:d ₁		f ₁ :- :-		f ₁ :- :-		r ₁ :r ₁	:r ₁	

{	t ₁ :- :-		:-	:m ₁ :f ₁	:s ₁		l ₁ :-	:t ₁		d :- :-
	s ₁ :- :-		:-	:m ₁ :f ₁	:s ₁		l ₁ :-	:se ₁		l ₁ :- :-
	dydd,	}	}	Dringwn	yn	uwch	i'r	lan,	}	
	r :- :-		:-	:m ₁ :f ₁	:s ₁		l ₁ :-	:m		m :- :-
s ₁ :- :-		:-	:m ₁ :f ₁	:s ₁		l ₁ :-	:m ₁		l ₁ :- :-	

* Yn y 3 pennill diweddf, “Ond canwn,” yn lle “A chanwn.”

}	- :- :	s ₁ :l ₁ :t ₁ d :- :r	m :- :- -	:- :d
	- :- :	s ₁ :l ₁ :t ₁ d :- :t ₁	d :- :- -	:- :d
	- :- :	Dringwn yn uwch i'r lan,		A
	- :- :	s ₁ :l ₁ :t ₁ d :m :s	s :- :- -	:- :m
- :- :	s ₁ :l ₁ :t ₁ d :- :s ₁	d :- :- -	:- :d	

}	m :re :m	s :- :-	m :- :-	r :d :t ₁	l ₁ :- :-
	d :d :d	r :- :-	d :- :-	t ₁ :l ₁ :se ₁	l ₁ :- :-
	chanwn yn rhydd,	Dan	wen - au	y	dydd,
	s :fe :s	s :- :-	s :- :-	s :m :m	d :- :-
d :d :d	t ₁ :- :-	d :- :-	s ₁ :l ₁ :m ₁	f ₁ :- :-	

rall.

}	- :- :	s ₁ :d :m	s :- :t ₁	d :- :- -	:- :-
	- :- :	m ₁ :s ₁ :d	t ₁ :- :s ₁	s ₁ :- :- -	:- :-
	- :- :	Dringwn yn uwch i'r lan.			
	- :- :	d :m :s	r :- :f	m :- :- -	:- :-
- :- :	s ₁ :s ₁ :s ₁	s ₁ :- :s ₁	d :- :- -	:- :-	

2 Mae'r dydd yn torri'n dawel
Ar freintiau Cymru lân ;
Mae heddwch, fel yr awel,
Yn llifo drwy ei chân ;

Ond canwn yn rhydd, &c.

3 Mae glynnoedd anfanteision
Yn wynion, erbyn hyn ;
Blodena addewidion
Hyd lwybrau serth pob bryn ;

Ond canwn yn rhydd, &c.

4 Mae gloewach dydd yn torri
Ar grefydd dëg ei graen ;
A thyfu mae gwyrddlesni
Y nef dros fryn a gwaen.

Ond canwn yn rhydd, &c.

URDD Y DELYN.

Y RHEOLAU.

1. Dysgu siarad ac ysgrifennu Cymraeg; darllen rhan o'r Beibl Cymraeg, neu ryw lyfr Cymraeg arall, bob dydd, ac ysgrifennu Cymraeg o'fi gyfansoddiad ei hun.
2. Astudio hanes Cymru, a gwneyd ei oreu i godi ei wlad, fel y byddo Cymru fydd yn well na'r hen Gymru.
3. Dysgu canu'r delyn, os bydd hynny yn y cyrraedd; a dygu alawon Cymreig.
4. Byw, hyd y gall, yn ol dysgeidiaeth yr hen Gymry gynt, mor bell ag y mae'r ddysgeidiaeth honno'n un a dysgeidiaeth Crist. Y mae'r ddysgeidiaeth honno'n gofyn purdeb, cariad at addysg, caredigrwydd at ddyn, addfwynder at greaduriaid direswm, iaith ddihalog.

CANGEN YSGOL IS-ATHRAWON CAERDYDD.

RHESTR GYNTAF AELODAU.

1256—1331.

Gwladys Anthony, Margaret Bevan, Beatrice Boughton, Blanche Brimson, John L. Conroy, Olive Cook, David Davies, Mary Davies, Sarah Davies, William Davies, John E. Edmunds, William H. Edwards, Esther Evans, Mary Evans, Bertha Garland, Maggie J. Gould, Emily H. Griffin, David Hardcastle, Florrie Harris, Phillip Hawkins, Emily Howe, Mabel Ings, Elsie G. James, Eva Jenkins, Kate Jenkins, Gwladys John, Florrie Jones, Maggie Jones, Gethin Joshua, Cassie Lewis, Eva Lewis, Jennie Lewis, Mabel Lewis, Grace Locke, Kate Wynne Margam, May McCarthy, Blanche McKiever, John Miles, Gwladys Miller, Maggie Mordecai, Arthur E. Morgan, Charles Morgan, Gwen Morgan, Tom Morgan, Lydia Nute, Lucy Padfield, David E. Phillips, Jenkin G. Phillips, Ethel Pitcher, Mary Price, Myfanwy Pritchard, Jennie Prothero, Maggie Roberts, Miriam Rowlands, Edward Samuel, Arthur Slade, Arthur John Smith, Edith Smith, Edith Thomas, Edith M. Thomas, Jeannie Thomas, Kate Thomas, Lizzie Thomas, Sarah A. Watkins, Johanna Welsh, Hugh Warwick, Joshua Warwick, May Welsh, Mabel Wilson, Gertrude Williams, Gwladys Williams, Gwenllian Williams, Annie Winnell, Bessie Batt, Thomas Llewellyn Evans, David Williams.

ARWRIAETH YR ISELDIROEDD.

VI. Y TYWYSOG DISTAW.

BU raid i'r Iseldirwyr ymladd i ddechreu yn erbyn dyfroedd ac ystormydd, ac yna yn erbyn gorthrwm. Yr arweinyddion yn

erbyn gorthrwm oedd y Tywysog Distaw a'i frodyr.

Ganwyd William yn hen gastell Dillenburg yn 1533. Yr oedd ei dad, o'r un enw, yn un o dywysogion yr Almaen, ac wedi clywed Luther yn siarad yng nghyngor enwog Worms o flaen yr ymherawdwr Siarl V. a'r Tywysogion. Yr oedd ei fam yn wraig dda, ddarbodus, yn gwnio ac yn gweu ac yn darllen yn y castell. Yr oedd ei gartref yn gyrchfan tywysogion lawer; deuent yno, a'u marchogion gyda hwy. Weithiau, ar fin nos, gwelai'r plant, oddiar y muriau, gymaint a chant neu gant a hanner o farchogion, a'r haul yn euro eu gwisgoedd dur wrth fachlud, yn dynesu at y castell, i aros yno dros nos. Yr oedd yno groesaw i bob estron, fel y byddai yn yr hen amser difyr gynt.



YSTRYD YN YR ISELDIROEDD.

Ond dylwn ddweyd enwau y plant bach hapus i gyd, fel y medro fy narllenwyr ddychmygu eu gwyled ar fur y castell mawr. Dyma hwy,—Magdalena,

William, Hermanna, John, Louis, Maria, Anna, Elizabeth, Catherine, Julianna, Henry. Bu Hermanna farw yn faban bach; tyfodd y lleill i gyd i gymeryd rhan yn hanes cynhyrfus y Diwygiad Protestanaidd yn nhrefydd a meusydd yr Iseldiroedd.

Yn yr Almaen y mae castell Dilenburg, ar fryn uwchlaw pentref; ond mewn rhan arall o ymherodraeth Siarl V. yr oedd y bechgyn a'r genethod i chwael rhan bwysig yn hanes y byd, sef ar feusydd corsiog ac yn ystrydoedd culion dyfrllyd yr Iseldiroedd. Y misnesaf cawn ddilyn y Tywysog Distaw trwy'r ysgol i faes gwrthryfel.

MAE DUW YN FAWR A DA.

(LLEDGYFIEITHIAD.)

DUW wnaeth yr haelwen glir uwch-
I lanw'r dydd â golau, [ben
A'r ser disgleirwch sy'n y nen
Fel llw o aur ganwyllau.

Fe wnaeth fynyddau uchel, ban,
Yn gadarn ac yn grïbog;
Ef wnaeth y llynnoedd sy' mhob man,
A'r moroedd llydain tonnog.

Fe wnaeth y nentydd gloew, byw
Sy'n golchi traed y brynïau;
Ef wnaeth y ffrydiau bychain syw
Sy'n rhychu y mynyddau.

Fe wnaeth holl adar mân y coed
Sy'n canu mor sonïarus;
A'r blodau dyf o glych fy nhroed
Yn brydferth a phersawrus.

Fe greodd Duw y pethau hyn
I'm llonni i a chwithau;
Dolchwn iddo yn ddi-brin
Yn ddyddiol am ei ddonïau.

Llangwryfon.

J. EDWARDS.

YN YMYL BEDD FY NHAD.

O FEWN i ardal fechan dïos,
Lle mae y gwllith ar flodau'r rhos,
O fewn i'm hanwyl wlad,
Mae mynwent fechan. Cofion cu
Sydd gennyf am y diwrnod du
Pan y cydgerddwn gyda'r llw
I ymyl bedd fy nhad.

'Roedd awel Mai ar frïgau'r llwyn,
A'r haul mor ddisglaer ar bob twyn
Yn gwenu mewn boddhad;
Ac er bod anïan yn ei bri,
Dan flodau gwynion fyrdd, di-ri,
Nis gallai leddfu'm hiraeth i
Yn ymyl bedd fy nhad.

Mewn hiraeth dwys am anwyl un
Newidïodd fyd am Dduw ei hun
Yr ydwyf mewn tristâd;
Adgofion fyrdd sydd imi'n dod
O'i wyneb serchog llawn o glôd,
Ac O mor anhawdd ydoedd bod
Yn ymyl bedd fy nhad.

Ni chlywaf mwy ei dyner lef,
Tynerwch oedd ei nodwedd ef,
A rhodiai mewn maswrhad;
A phan y daeth cysgodau'r hwyf,
I Dduw ei galon doddai'n llwyr,
Ac O fy nheïmlad pwy a wyf
Yn ymyl bedd fy nhad.

DAVID THOMAS (*Dewi Tudur.*)

COFIANTAU BYRION.

A RTHUR STANLEY ROBERTS oedd unig blentyn Mr. a Mrs. Roberts, Ysgol Overton on Dee, Ellesmere. Brodorion o sir Gaernarfon yw ei rieni; ganwyd a magwyd Mr. Roberts yng Nghaernarfon, a Mrs. Roberts ym Mwllch y Ffordd, Fourcrosses, Lleyrn.

Ganwyd Arthur Stanley yn Llandwrog, Awst y 4ydd, 1894; bu farw Chwefror 5ed; 1900, yn Overton on Dee. Gellid disgwyl oddiwrth ei ymddanghosiad, ei fod yn flodeuyn i ymagor yn y byd hwn gyda graddau o brysurddeb; enillai edmygedd pawb a'i hadwaenai, a diameu nad oedd neb yn meddwl ei golli mor fuan o'r fuchedd hon. Adwaenid ef fel un o flaen ei oes, medrai adrodd rhannau o ryddiaith, neu farddoniaeth, yn hynod darawiadol. Yr oedd yn nodedig am ei atebion, meddai ar lais swynol i ddatganu; prif wrthrych ei adroddiadau, ei atebion, a'i ddatganiadau, ydoedd y grasol Iesu; ac, o'r hyn a ddisgwylid gael gan blentyn am ei Waredwr, ystyriwn fod ei syniadau yn dra eang.

Dysgodd o'i febyd y wers o ufudd-dod a gostyngeiddi'w rieni. Ni ddysgodd un adeg ddywedyd "na" wrthynt, eithr danghosai ufudd-dod iddynt pan y gelwid arno i dderbyn ei gosb. Gwir ei fod yn blentyn chwareus, a



ARTHUR STANLEY ROBERTS.

thrw y hynny yn gwneyd rhai pethau yn anffodhaol gan ei rieni, ond dywedai y gwir bob amser. Cafodd gystudd byr ond hynod o galed am oddeutu wythnos. Ei eiriau olaf wrth ei fam cyn ymadael oeddynt,—“*You are a good mamie to me, a'n't you ?*”

Adgoffon hiraeth sydd
Am Arthur Stanley
Yn dod i'm bron bob dydd
Trwy dewlion lenni,
Ymhell uwchlaw y ser
Cadd delyn gan fy Ner,
A chana'i thannau'n ber
I'w fythol foli.

Rhy oer oedd gaua'r wlad
I'r bychan rodio
Lle mae ei fam a'i dad
Yn awr yn teithio ;
Mewn mil rhagorach byd,
Cartrefle'r saint i gyd,
Mehefin ar ei hyd
Dros byth gaiff dreulio.

ISELFION.

GORYMDAITH RYFEDD.

AR ddiwrnod heulog ym mis Mehefin, yr oedd gorymdaith ryfedd yn Courtrai, yn Belgium. Yr oedd pobl y wlad boblog oddiamgylch oll wedi dod i'w gweled.

I ddechreu daeth gorymdaith o enethod, oll mewn gwyn, ac yr oedd cymaint o honynt fel y llanwent ddwy filltir o'r ffordd. Y mae genethod y cyfandir yn meddwl y byd o cael ymddangos mewn gwyn yn y gorymdaithiau crefyddol.

Yna daeth delwau saint y wlad. Yna darluniadau o olygfeydd yr Hen Destament.

Yna, tra'r dorf yn ddistaw iawn, cludai offeiriad gorwych ar glustog goch beth y mae pob llygad yn y dorf yn craffu arno. Ychydig wallt euraidd ydyw, mewn gwydr. Credir mai gwallt Crist yw, wedi ei dorri pan dynnid y goron ddrain oddiar ei ben wedi'r disgyn oddiar y groes.

Ceidw gwallt faint a fynnir. Ond y mae'n anhebyg iawn fod hwn yn wallt Crist. Dywedir i'r gwallt hwn ddod o Wlad Canan yn 1137,—wedi ei gadw yno dros fil o flynyddoedd,—ac mai Count Phylip o Alsace ddaeth ag ef.

Cedwir creiriau Crist mewn llawer man ar y Cyfandir,—rhannau o'r goron ddrain, y bicell, yr hoelion dur, y wisg ddi-wniad, y llian main, &c. Pan gymerwyd Dafydd, brawd Llywelyn ein Llyw Olaf, gan y Saeson yn y mynydd uwchlaw Aber Gwyn Gregin, yr oedd ganddo ddarn o'r wir groes. Ni wyddir pa le y mae yn awr.

Nid wyf yn credu fod yr un o'r pethau hyn y gwir bethau. Ond y mae gennym ni yng Nghymru, ym mhob bwthyn, beth anrhaethob mwy gwerthfawr na gwallt Crist, sef ei brogeth ar y mynydd.

Y GWR EIRA.

(UN O STRAEON HANS ANDERSEN.)

"MAE hi'n oer erwinol! Y mae pob cwr ohonof yn torri ac yn agenu," ebe'r gŵr eira. "Mae'r gwynt yn ddigon a fferru dyn. Ac welwch chwi'r hen beth coch mawr acw'n llygadrythu?" Yr haul, oedd ar fachlud, oedd hwnnw. "Ond chaiff ef mo'm dallu i. Mi fynnaf fi ddal gafael yn fy narnau.

Dyna oedd ei "ddarnau,"—dau ddernyn o lechen roed yn llygaid iddo, ac hen gribyn toredig wnaed yn geg iddo, nes yr oedd ganddo digonedd o ddannedd, bid a fynno.

Yng nghanol sŵn plant yn llawen-floeddio y ganed ef, a swm clychau'r meirch a chleciadau'r chwipiau a'u gyrrant hyd y rhew.

Aeth yr haul i gaerau; a chododd y lleuad yn llawn ac yn glir yn yr awyr deneu, lās.

"Dacw fo'n dod yr ochr arall," ebe'r gŵr eira, "dacw fo'r haul unwaith eto. Ond mi wnes i iddo flino'n llygadrythu, mae hynny'n beth camp. Ond gall dywynnu, os myn, i mi weld fy hun. Gresyn na wyddwn i sut i ymlwybro; buasai'n bur dda gennyf gael symud tipyn bach. Pe medrwn, mi awn i ysglerio at y bechgyn acw; ond wn i ar y ddaear sut y maent yn medru gwneyd."

"Bow-wow!" dyna'r hen gi cadw yn cyfarth; fedrai ef ddim cyfarth yn rhyw uchel iawn, canys cawsai anwyd trwm pan ydoedd yn gi'r tŷ ac yn cysgu yn ymyl yr ystôf, nes yr oedd wedi crygu'n llwyr. "Bow-wow! Fe ddysg yr haul iti'n union sut i ymlwybro. Mi welais i hynny aua'r llynedd pan oedd dy ragflaenydd di yma, ac hefyd y gauaf cyn hynny ynglŷn â'i ragflaenydd yntau. Maent hwy i gyd *wedi* symud oddiyma."

"Wn i ddim beth wyt ti'n feddwl, fy ngwas i," ebe'r gŵr eira. "Ai meddwl yr wyt ti y gwna nacw imi symud? 'Does fawr er pan oedd ef ei hun yn ei gloewi hi wrth imi edrych yn ei wyneb; ac yn awr dacw fo'n brathu ei ben eto yr ochr arall."

"Dwyt ti'n gwybod dim," ebe'r ci cadw,— "a sut y gallet ti, a thithau ddim ond newydd dy wneyd? Y lleuad yw nacw, debyg iawn, a'r haul oedd yr un aeth i ffordd; daw yma yfory eto, a thi gei weld mor fuan y dysg efe iti redeg. Mae'r tywydd ar droi,—mae fy nghoes ol chwith yn pigo,—mae'r tywydd ar droi."

"Fedra'i ddeall mohono," ebe'r gŵr eira, "ond mae gennyf feddwl mai rhywbeth cas y mae ef yn ei ddweyd. A'r peth hwnnw dywynnai,—yr haul, fel y geilw ef,—nid fy nghyfaill mo hwnnw, mi a'i gwn."

"Byw-wow!" ebe'r ci cadw. Yna rhoes dri thro ar ol ei gynffon, a gosododd ei hun i lawr i gysgu yn ei gut.

Ac yn wir fe droes y tywydd hefyd. Erbyn y bore yr oedd hen dawch oer tros y wlad; a'r gwynt yn rhewynt, a'i ias yn deifio dyn i'r byw; ond pan gododd yr haul, pwy sydd fedr ddarlunio ei ysblander? Yr oedd y coed, fawr a mân, i gyd dan farrug, yn edrych fel cwrel arianlliw a'i gangau'n llawn blodau disglaerwyn. Yr oedd rhediad y cangau, guddir gan dewdwr dail haf, yn awr i'w weld yn eglur, yn un arianwe perffaith. Ymdonnai'r bedw yn y gwynt; a phan ddaeth yr haul i'r golwg, danghosodd ogoniant yr olygta, yr hon ai'n ddisgleiriach ddisgleiriach nes edrych o'r ddaear a'r coed fel pe wedi eu taenellu â llwch diemwynt, neu wedi eu gorchuddio â mil mil o fân fflamau, mwy cannaid na'r eira ei hun.

"O mor odidog brydferth!" ebe rhyw eneth ieuanc; "fedr yr haf ei hun ddangos inni ddim byd tlysach na hyn."

Hi a safai yn ymyl y gŵr eira, gan edrych ar y coed dan eu baich o blyf.

"Na fedr," ebe'r llencyn oedd wrth ei hochr, "ac yn yr haf ni fydd gan ddyn hen gyfaill fel hwn i edrych arno. Hen fachgen doniol yw'r gŵr eira."

Chwarddodd yr eneth. Crymodd ei phen ar y gŵr eira; yna cydiodd y llanc am ei chanol, a dawnsiodd y ddau ei hochr hi hyd yr eira sych a mân.

"Pwy ydyw'r ddau acw?" ebe'r gŵr eira wrth y ci cadw. "Yr wyt ti wedi bod yn y buarth yn hwy na myfi; wyddost ti pwy ydynt?"

"Gwn, mwyn dyn i," ebe'r ci cadw. "Llawer gwaith y bu hi yn tynnu ei llaw hyd fy mhen, a llawer tamed ges i ganddo yntau. Fyddat fi byth yn brathu yr un o'r ddau yna."

"Ond beth yn y byd ydynt hwy?" gofynnai'r gŵr eira.

"Cariadon," ebe'r ci cadw. "Aiff y ddau i'r un cut ryw ddiwrnod, i gyd-gnoi yr un asgwrn. Bow-wow!"

"Ai yr un fath greaduriaid a ni, ti a minnau, ydynt hwy?" gofynnai'r gŵr eira.

"I'n meistri ninnau'n dau y maent yn perthyn," ebe'r ci. "Yn wir, y mae'n syndod lleied wŷr pobl na welsant ond undydd unnos! Y mae hynny i'w weld arnat ti. Ond yr wyf fi yn hen a phrofiadol; yr wyf yn 'nabod pawb sy'n perthyn i'r tŷ, canys nid allan yn yr oerni yr arferwn i fyw erioed. Bow-wow!"

"Peth braf ydyw'r oerni," ebe'r gŵr eira. "Dywed imi dipyn rhagor; ond paid a gwneyd trwst â' th gadwen, neu mae'n gwneyd i mi deimlo'n fregus."

"Bow-wow!" ebe'r ci cadw. "Yr oeddwn i yn gi-bach digon del; ar glustog sidan mewn cadair freichiau yn y tŷ acw yr oeddwn i'n byw. Magai fy meistres fi, a thynnai ei llaw hyd fy mhen, â

dywedai mai ei Smot bach anwyl hi oeddwn i. Dyna fy enw i,— Smot. Ond eis yn rhy fawr, a rhoed fi i'r ben-forwyn, a gortu imi ddod i lawr i'r gegin. Medri edrych i fewn i honno o'r fan y sefi. 'Doedd hi ddim yn llawn can wyched a'r ystafelloedd i fyny, ond yr oedd yn llawer mwy cysurus i gi. Cawn llawn cystal, os nad gwell, bywd na chynt; ac nid oedd yno ddim plant i fy mhoeni. A gwell na'r cwbl, medrwn ymwithio dan yr ystôf. Dyna'r adeg oreu fu erioed ar fy mhen i. Byddaf yn breuddwydio am yr ystôf yrwan,— bow-wow!"

"A yw'r ystôf yn rhywbeth tlws iawn ynte?" gofynnai'r gŵr eira. "A oes ynddi ryw debygrwydd i mi?"

"Na, hollol wahanol i ti yw hi. Y mae'n hir, hir ei gwddf, a chan ddued a'r frân. Hi fwyty lo a choed nes bo tân yn fflamio o'i safn. Rhaid iti ofalu cadw y naill du iddi; yn wir, y peth brafiat i gyd ydyw ymwithio o dani. Medri ei gweld o'r fan lle sefi.

Brathodd y gŵr eira ei ben drwy'r ffenestr, ac o'i flaen fe welai wrthrych uchel, a gloew, can ddued a'r frân, a thân gwynias o'i mewn. Daeth drosto ryw deimlad disymwth nas gallai mo'i ddarlunio na chyfrif am dano ychwaith. Y mae pobl ereill, sydd heb fod yn wŷr eira, yn gwybod o'r gore am y teimlad.

"Sut erioed y medraist ti ei gadael hi?" llefa'i'r gŵr eira. Teimlai'n sicr yn ei teddwl mai i'r rhyw fenywaidd y perthynai'r gwrthrych. "Sut erioed y medraist ti adael y fath le?"

"Gorfol gwneyd ddarfu imi," ebe'r ci cadw; "fy nhroi dros y drws gefais, a'm rhoi yn rhwym. Wedi brathu yr oeddwn y mab-ieuengaf yn ei goes. 'Doedd dim dalai ganddo ond dwyn fy esgyrn oddiarnaf. 'Wel, asgwrn am asgwrn, ynte,' ebwn innau. Ond digio ddarfu iddynt i'r carn, a byth er hynny wrth y gadwen yr wyf. Gwrando mor grug ydwyf,—bow-wow! Mae fy llais i fy hun wedi mynd yn llwyr,—bow-wow!"

Ond ni thalai'r gŵr eira ddim sylw iddo. Dalai i syllu'n synllyd i'r gegin ar yr ystôf. Dyna hi, ar ei phedwar-troed o bres; yr un daldra'n union a'r gŵr eira ei hun.

"Dyna'n ddigrif yr wyf fi'n teimlo!" ebe'r gŵr eira. "Ai tybed na chaf fi byth fynd i mewn ati. Mae'n rhaid imi gael. Mae'n ddymuniad digon diniwed, a thybed na chawn ni'n dymuniadau diniwed. Rhaid imi gael mynd i mewn a sefyll yn ei hymyl, hyd yn oed petae raid imi dorri'r ffenestr."

"'Dei di byth i mewn i'r fan yna," ebe'r ci cadw; "a phe y deuet ti'n agos i'r ystôf byddai ar ben arnat."

"Yr wyf yn credu fy mod i'n dechreu ymddadmer," ebe'r gŵr eira gydag ochenaid.

Trwy gydol y dydd dalai'r gŵr eira i syllu ar yr ystôf; edrychai'r

ystafell yn fwy deniadol nag erioed fin nos; gwasgarai'r ystôf ei llewyrch mwyn; nid fel yr haul na'r lleuad, ond gyda'r sirioldeb hwnnw nad yw i'w weld mewn dim ond mewn ystôf fo'n coginio rhyw flasusfwyd. Bob tro yr agorai'r drws brathai'r fflam ei phen allan,—un o'i hen arferion oedd hynny. Disgynnai ei phelydr gwynias ar wyneb gwelw'r gŵr eira, nes gwneyd i'w fron wridô'n goch.

"Fedraf fi mo'i ddal," ebe'r gŵr eira. "O mor brydferth yw thi!"

Hir hir fu'r nos, ond ni theimlai'r gŵr eira'n unig. Yr oedd wedi ymgolli mewn myfyrdod, a rhewodd nes yr oedd yn suo drachefn.

Erbyn y bore gorchuddiodd y barrug ffenestri'r gegin â lluniau blodau o risial. Addefai'r gŵr eira eu bod yn dlws, ond yr oeddent yn cuddio'r ystôf, dyna'r drwg. Gwrthodai'r gwydr yn lân a dadmer. Yr oedd popeth yn rhewi gymaint fyth. Yr oedd yn gyfryw rew a ddylasai beri i galon gŵr eira lawenychu. Ond fedrai'r gŵr eira ddim llawenhau. Beth faliai ef am rew? Yr oedd ef dan glefyd yr ystôf.

"Clefyd peryglus i ŵr eira yw hwnnw," ebe'r ci cadw. "Fe fum innau hefyd dano, ond cefais y trechaf arno,—bow-wow! Y mae'r tywydd ar droi."

Yna hi ddechreuodd ddadmer nes mynd o'r gŵr eira yn llai, lai. Ni chwynai ddim o gwbl, ond gwaethaf yn y byd oedd hynny. Ryw fore fe lwyr ddarfu. Ond yr oedd rhywbeth edrychai fel coes ysgub yn aros yn weddill o hyd.

"Dyna esboniad ar y cwbl," ebe'r ci cadw. "Mi welaf yn awr pam y bu arno glefyd yr ystôf. Dyna'r rhac fyddai ganddynt yn ei glanhau. Rhac yr ystof oedd yng nghorff y gŵr eira. Ond, sut bynnag, dyna'r cwbl ar ben,—bow-wow!"

A chyn hir yr oedd y gauaf ar ben hefyd; ond cryg-gyfarth "Bow-wow!"wnai'r hen gi. Ond canu wnai'r plant yn y tŷ,—

"Dowch i chware! mae'r dail yn wyrdd,
A'r coed dan eu blodau fyrdd;
Mae'r hedydd a'r gôg yn pyncio 'nghyd,
Canys gwawriodd Ebrill tros y byd.
Cw-cw! Tra-la! Dyna'n canig fwyn;
O haul! tywynna ar fryn a llwyn."

Ac erbyn hyn mae'r gŵr eira wedi hen fynd o'n côf.

AT Y PLANT.

YN ddiweddar daeth llyfr cyntaf Livingstone, y "Missionary Travels in South Africa," i'm meddiant. Ar y dechreu y mae ychydig eiriau wedi eu hysgrifennu gan Dr. Livingstone â'i law ei hun. Y mae'n bur ddyddorol yn y dyddiau hyn, pan goftwn fod rhyfel yn anrheithio'r dyffrynnoedd a'r brynau y bu Livingstone yn crwydro yn heddychlon ar hyd-ddynt. Yr wyf yn rhoddi crynhoad o hanes ei febyd, yn ei eiriau ei hun. Y mae ei anibyniaeth, a'i ymdrech i gael addysg, yn deilwng o sylw ac edmygedd pob plentyn.

Yr wyf yn meddwl rhoddi bob mis, os medraf gael lle, un o brif ddarnau llenyddiaeth Gymreig, er mwyn i lenorion ieuaic weled beth yw gwir fawredd a gwir dlyni meddwl. I ddechreu daw darluniad Ezekiel o fawredd a chwymp Tyrus, o'r Beibl Cymraeg.

DARLUNIAU YSGOLION. Drwg gennyf fod llawer o ddarluniau ysgolion yn hir yn ymddangos, a rhai, hwyrach, wedi mynd ar goll. Y rheswm am bron bob oediad ydyw hyn,—ni fydd yr anfonwr caredig yn dweyd a oes hawlysgrif ar y darlun. Os gofynnwyd i arlunydd dynnu llun ysgol, ac os talwyd iddo am wneyd, y talwr bia hawlysgrif y darlun. Ond os tynnu y darlun o hono ei hun, i werthu copiau, a wnaeth yr arlunydd, ei eiddo ef yw yr hawlysgrif. Cyn y medraf gyhoeddi rhai o'r dosbarth enwais ddiweddar, rhaid i mi gael caniatad yr arlunydd. Byddaf yn dra diolchgar os gofynnir cennad yr arlunydd cyn anfon y darlun; pâr hynny lawer iawn o hwylusdod i'r golygydd. Rhoddir enw a chyfeiriad y darlunydd dan y darlun,—bydd hynny yn hysbysiad iddo.

B. Gwelwch fy mod yn ceisio darn i'w adrodd at bob rhifyn. Yn y rhifyn diweddar yr oedd un o waith Tryfanwydd, yn dechreu,—


"Y wawr ymgodai yn hafddydd gwyn
Ar fron yr Eilidir fawr."

Yn y rhifyn nesaf cewch ddarn desgrifiadol gan Berthonian ar y "Tŷ ar y Tywod," seiliedig ar Matthew vii. 26, 27.

M. A. Rhoddir awgrym bob amser os mai rhamant, ac nid ffaith, adroddir. Gellwch ddiybennu, er engraffit, ar gywirdeb hanes carchar y dyn du yn y rhifyn hwn; peth welodd yr ysgrifennydd a ddesgrifia.

RAHEL. Bydd yn dda gennyf roddi hanes ambell blentyn welodd ymhell i'r tragwyddol mewn oes fer. Eithriad yw plentyn felly yn y byd, ond gwn ei fod i'w gael. Gyda'i chwaraeon y mae'r plentyn cyffredin, ac yno dylai fod.

PAN wyf yn ysgrifennu y mae lle cryf i ofni fod yr Ewropeaid yn Pekin,—yn wŷr, gwragedd, a phlant,—wedi eu llofruddio mewn dull anwaraidd iawn. Yn un o'r papurau Seisnig y mae darlun tarawiadol,—gwraig arfog (Ewrob) yn ceisio torri drws mawr ymherodraeth China, ac yn dyblu ei hergydion wrth weled gwaged yn dechreu rhedeg allan dan y drws. Rhof hanes y plant eto.



TYRUS.



CYMRU'R PLANT.

CYF. IX.

AWST, 1900.

RHIF 104.

TYRUS.

TLAWD iawn yw Tyrus heddyw. Wrth ei gweled, prin y medrir credu ei bod unwaith yn brif ddinas masnach y byd. A phrin y gellid gweled paham y mae iddi le mor bwysig yn y Beibl.

Adeiladwyd hi ar ynys ac ar benrhyn sy'n ymestyn o wastadedd Sur i'r môr. I'r gogledd y mae Sidon, i'r de y mae Mynydd Carmel, megis yn codi o'r môr. Yn nyddiau gogoniant Tyrus, dywed proffwydi Israel lawer am ei gwychder, yn enwedig Esay ac Ezekiel. Y mae darluniad Ezekiel,—y seithfed bennod ar hugain,— yn un o'r darluniadau ardderchocaf yn llenyddiaeth y byd. Y mae'n ddarlun cywir iawn o'i hanes hefyd, o'i hysblander gynt ac o'r colofnau gwenithfaen toredig sydd yn ei dyfroedd heddyw.

Yn amser Dafydd a Solomon yr oedd Tyrus yn rhydd, yn gyfoethog, ac yn gartref masnach a chelfyddyd. Yn ofer y ceisiodd brenhinoedd mwyaf y ddaear,—brenhinoedd Nineseh a Babilon a'r Aift,—ei llethu. Yr oedd ei therfynau yng nghanol y môr. O Abyssinia i Armenia, o Arabia i Georgia, o'r India i dir Groeg,—gwelid ei llongau ym mhob môr ac afon fawr fordwyol.

Daeth ei chwmp hithau. Cododd gallu aruthrol Babilon, ac ni fedrai Tyrus ei wrthsefyll; ymhangodd masnach Groeg, a daeth

ymdrech hyd farw rhyngddi a Thyrus. Rhwng pump a chwe chan mlynedd cyn Crist yr oedd Nebuchodonor yn dial yn greulawn ar Dyrus oherwydd iddo orfod gwarchae arni am dair blynedd ar ddeg. Dywed y proffwyd fod ei filwyr wedi bod o'i blaen mor hir nes y moelodd eu pennau. Rhyw ddau can mlynedd wedyn gwarchaewyd arni gan Alecsander a'r Groegiaid. Ofer fu ymdrech arwrol a medr milwraidd y Tyriaid. Er tafu tywod poeth ar eu pennau, cymerodd y Groegiaid y ddinas ar y lan. Yna, â choed a cherrig yr hen ddinas, gwnaethant sarn trwy'r môr i'r ynys, a chymerasant honno. Lladdwyd wyth mil o'r Tyriaid wrth ruthro i'r ddinas; croeshoeliwyd dwy fil ereill, gwerthwyd deng mil a'r hugain yn gaethion, a fodd y lleill yn eu llongau i eithafoedd y môr.

Pregethwyd yr efengyl yn Tyrus gan Paul. Daeth apostol y cenedloedd o Patara mewn llong i Tyrus. Bu yno saith niwrnod; a phan ymadawodd oddiyno, daeth y dychweledigion i'w hebrwng i'r llong,—“ac wedi i ni ostwng ein gliniau ar y traeth, ni a weddiasom.”

Enillwyd Tyrus gan yr efengyl. Toc daeth cenllif tân y Saraseniad drosti. Yna daeth milwyr y groes i'w gwaredu. Ac yna syrthiodd i'r tlodi a'r anwareidd-dra y mae ynddo hyd heddyw.

Hyfryd, er hynny, yw crwydro hyd y lan y bu ymladd mor chwerw arni, a'r lle y penliniodd Paul a Christionogion cyntaf Tyrus. Tai tlodaidd ydynt, ac nid yw'r boblogaeth ond rhyw dair mil a hanner. Tyf tybaco ar y bryniau draw. Y mae coed olewydd yn dechreu tyfu hefyd. Lle bynnag y cloddir ceir adfeilion.

Ond y peth sy'n mynd a'r meddwl bellaf yn ol yw'r cregin ar y traeth; ar ol storm, y mae miloedd ohonynt. Dyma gragen y *murex*,—o honi hi y ceid porffor bydenwog Tyrus. Dyma'r *Helix Janthina*, o'r hon y gwneid y glas prydferth i brydferthu gwaith edau a nodwydd. A dyma'r *buccinum* o'r hon y ceid lliw ysgarlad gogoneddus.

Rhown dro mewn dychymyg hyd draeth Tyrus. Meddyliwn am droion ei hanes hir. Ac y mae swm y gwynt, wrth grwydro o'i hen farchnadoedd dros donnau glas Môr y Canoldir, yn adsain geiriau'r broffwydoliaeth,—“Ac ni byddi byth mwyach.”

WYAU DRUDION.

DYWEDIR fod 75 o wyau y “great auk” ar gael, a dim ond hynny. Tybir fod yr olaf o'r adar hyn wedi marw yn y flwyddyn 1845. Gwerthwyd un o'r wyau mewn arwerthiant yn Llundain yn ystod y mis diweddaf, a'i bris oedd 315 gini. Rhyw dri chan gini yw pris arferol wy y “great auk” yn awr.

RHOBIN YN GALW'R HADAU.

HEDYN bach llwyd yn cysgu yn drwm,
I lawr yn y ddaear, a'i gwyneb llwm;
Nes galwodd Rhobin o'r gangen uwchlaw,
Ac meddai yr hedyn—"Taw, Rhobin, taw."

"Cwyd o dy wely, yr hedyn bach llwyd,"
Medd Rhobin o'r twmpath,—“Mae'n hwyr iti, cwyd!
Fioledd beneuraidd, ym mynwes dy fam,
Wyt nesaf i'r erchwyn, a'r cynta i roi llam."

Deffro fu raid, a chodi o'i wâl,
Gan rwbio ei lygaid a theimlo'n sâl;
Dwy ddeilen fel dwylaw yn gwthio drwy'r pridd,
Ac yna'i ben melfed mor siriol a'r dydd.

Cododd ei ben a gwelodd yr haul,
A gwelodd y gwanwyn a'i fantell ddail;
Gwenodd ar Robin,—“Ho, ho,” medd efe,
“Yr oeddit ti, Rhobin, yn llygad dy le.”

LLEW TEGID.

MAM IEUAN GWYNEDD.

BYTH nid anghofwn yr olwg ar Ieuan ar lan y bedd, uwchben
gweddillion marwol ei fam, pan yr oedd ei dad ysbrydol yn
annerch y dorf,—ei wyneb mor deneu a gwelw, yn edrych i fyny
tua'r nef, ei ruddiau rhychiog yn frydio o ddagrau, tra yr oedd ei
lygaid llymion, treiddgar, yn pelydru o sirioldeb, fel pe yn gweled,
trwy ei ddagrau ei hun a'r cymylau uwchben, ysbryd gogoneddedig
ei fam yng nghanol Paradwys Duw.

Buasai yn fam ddyblyg iddo, naturiol ac ysbrydol. Pa wasanaeth
bynnag a gyflawnasai i Dduw a'i wlad, a pha safle bynnag a
gyrhaeddasai yn eglwys Crist ac yn y byd, o gychwyniad ei yrfa
gyhoeddus hyd lan y bedd hwnnw, teimlai ei fod yn fwy dyledus am
y cyfan ag ydoedd i'r cychwyniad rhagorol a gawsai yn blentyn gan
yr un a orweddai yn farw i lawr yn ei waelod, nag i neb arall o'i
gyd-farwolon. Yr oedd i Catherine Jones, ar lan y bedd y pryd-
nawn hwnnw, y gofgolofn twyaf priodol a ddymunasai byth gael o'r
hyn ydoedd ac a wnaethai hi yn ei bywyd,—IEUAN GWYNEDD.

Nod uchaf uchelgais ei fam oedd i 'Ífan bach' fod yn bregethwr,
i dreulio ei alluoedd a'i fywyd i gyhoeddi y Gwardedwr a'i cadwodd
hi yn Waredwr i golledigion ei wlad. Ond i'w phlentyn hi gael yr

anrhydedd hwn, boddlaw'n iawn yr edrych'ar holl anrhydedd a chyfoeth y ddaear yn myned i'r sawl a'u carent. Ei syniad uchaf hi am urddas daearol, a nod uchaf ei llafur yn addysgu ei dau blentyn, oedd iddynt gael gwasanaethu Duw yn efengyl ei Fab ef. Cafodd argoelion boreuol iawn yn yr ieuengaf fod yr Arglwydd yn debyg o foddhau ei dymuniadau a gwobrwyo ei llafur yn hyn. Pan yn pobi, nyddu, neu wau, neu ynghylch rhyw orchwyl arall wrth y bwrdd mawr neu ar yr aelwyd, gwnai i'r plentyn, pan nad oedd eto ond tua phump neu chwech mlwydd oed, eistedd gyferbyn, i ddarllen iddi rannau o'r Beibl yn uchel, er mwyn ei addysgu i ddarllen a phwysleisio yn gywir fel pregethwr. Brydiau ereill cymerai ei destyn, codai ei bennau, a phregethai iddi,—nid fel pechadures, ond fel beirniad, i'w hyfforddi yn y gwaith; a hawdd y gellir dychmygu y farn lle yr oedd y fam yn feirniad. Pan nad allai ei fam wrando arno, ai i ben carreg fawr,—y garreg olchi,—wrth y drws, a phregethai oddiar honno i'r dderwen fawr a'r pistyll bychan gyferbyn gyda brwdfrydedd a boddhad mawr. Mae y pulpud carreg wrth ddrws y Ty Croes, a'r dderwen uchelfrig a'r pistyll bychan gloew gyferbyn ag ef eto; ond y pregethwr plentyn-aidd 'ei le nid edwyn ddim o hono ef mwy.' Fel y cynhyddai mewn oedran ac amgyffrediad, gwnai ei fam iddo ddarllen rhannau o'r *Dysgedydd* neu ryw lyfr duwinyddol a fyddai i'w gael, a beirniadau iddo y golygiadau a gynhwysent. Yn ei flynyddau boreuol hyn ei fam oedd ei awdurdod duwinyddol uchaf ar bob pwnc, ac yr oedd ei dedfryd hi yn derfynol ar bob dadl.

R. O. REES. ❷

GWEDDIAU MAM.

BABAN prydferth yn ei gryd
 Sydd yn gwenu
 Wrth weld angel a'i holl fryd
 Arno'n sylly;
 Gwên y bychan tlws dînam
 Yw ei weddi,
 Nis gall dim ond calon mam
 Ei dehongli.


Plyga'r plentyn tlws i lawr
 Wrth ei wely,
 Rhoi ei hunan mae yn awr
 I ofal Iesu;
 Offrwm hithau 'i fam yn daer
 Weddi drosto,
 Nes mae'r holl angyllion clae'r
 Arni'n dotio.

Penllwyn.

Ceisla'r fam am noddod Duw,
 Dros ei phlentyn,
 Ei gweddïau tra fydd byw
 A'i hamddiffyn;
 Pan yng nghanol rhwystrau lu,—
 Rhwystrau'r yrfa,
 Gweddïau'i fam a'i gwna yn gry,
 Fe'u gorchfyga.

Wedi dodi'r fam mewn bedd
 Yn y dyffryn,
 Yn hiraethu am ei gwedd
 Bydd ei phlentyn;
 Ond ei gweddïau iddo fydd
 Yn egwyddorion,
 A'i harweinla, megis ffydd,
 I'r nef wiwlion.

A. J. PIERCE.



YN YR ANGORFA.

Y LLONGAU AR DAN.

Y MAE y mis diweddfaf wedi bod yn llawn o bethau hynod, a chyffrous yn hanes y byd. Yn Affrig y mae cynddaredd rhyfel. Yn Asia y mae cynddaredd gwrthryfel. Yn Amerig cawn esiampl o ganddaredd un o elfennau peryclaf natur.

Torrodd tân allan yn un o swyddfeydd Cwmni Germanaidd Lloyd ar y dociau yn New Jersey. Nis gwyddis pa fodd y torrodd allan. Feallai mai rhyw ysmygwr diofal daflodd ben sigaret o'i law tra hi eto yn mygu. Feallai fod y tân yn mud losgi yn rhyw gornel er ys tro. Hyn yn unig wyddis,—ei fod wedi ennill nerth gyda chyflymdra ofnadwy, ac mai ofer oedd i fraich ddynol geisio atal ei raith erchyll. Yr oedd llawer o olew petroleum, a llawer iawn o gotwm, wedi ei ystorio yn y dociau. Mewn ychydig funudau wedi codi gwaedd "Tân!" yr oedd y dociau mawr yn wenflam, a'r buanaf ei droed yn teimlo tod Angeu'n fuanach nag ef y dydd heddyw.

Ar yr afon gerllaw'r dociau yr oedd llongau mawrion y Norddeutsche Lloyd. Yr oedd yno bedair neu bump ohonynt, a rhai ar gychwyn i'w taith i'r Almaen ar draws y Werydd. Yr oedd rhai o'r teithwyr wedi trefnu eu cabanau, yr oedd ereill ar y llongau yn ffarwelio â'u cyfeillion.

Chwythodd y gwynt y tân ofnadwy yn eu cyfeiriad. Gwelodd swyddogion un ohonynt y perygl mewn pryd, a medrwyd cael y llong fawr yn ddigon pell i'r afon i fod yn ddiogel. Ond druain o'r lleill.

Ysgubodd y fflamau dros eu deciau, cymerodd hynny o bren oedd ynddynt dân, ac yn fuan iawn yr oedd haiarn a dur eu deciau yn wynias.

Diangasai y teithwyr a'r morwyr i lawr i'r cabanau. Ond dilynai y tân hwynt, a chymerai afael ar du mewn y llong. Tynnwyd y llongau enfawr i ganol yr afon,—ond ar dân o hyd. Yr oedd cychod o'u cwmpas, ond ni fedrid gwared y trueiniaid oedd ynddynt.

Gwaeddent am ymwared trwy y *port-holes*, y tyllau crynion sydd yn ochrau'r llong. Yr oedd yn bosibl i rai o'r blant ymwithio allan trwy'r tyllau hynny, a disgyn i lawr i'r dwr oer, mor greulon a'r tân, oedd i lawr obry. Ond nid oedd bosibl i'w rhieni ddianc gyda hwy. Ceisiodd rhai ruthro i fyny i'r dec, ond llosgent i farwolaeth ar y dur poeth. Nid oedd dim i'w wneyd ond aros eu tynged. A gwynebau gwelwon, ffarwelient â'u cyteillion, a gyrrent eu cofion adre i'r Almaen, trwy'r *port-holes*. Yna cyrhaeddai y tân hwynt, a syrthient iddo wedi eu mygu.

Y mae'n wir i lawer iawn fedru dianc trwy neidio i'r dwr mewn pryd. Ond ofnir fod tua phedwar cant wedi colli eu bywydau ar y nos Sul ofnadwy honno.

Y llong Kaiser Wilhelm ddiangodd. Daliwyd y lleill,—y Saale, y Main, a'r Bremen,—gan y tân. Y mae'r tair llong, fu unwaith yn balasau nofiadwy ardderchog, yn awr yn furddynod llosgedig yng ngwaelod lleidiog yr afon,—y tân a'r dwr wedi bod yn ymladd am danant. Ac yr oedd bywyd dynol yn mynd yn aberth i'r naill elfen fel y llall.

DEIGRYN PLENTYN.

HA, ddeigrin bendigedig,
Mae'n swyno dynolryw,
Mae'i lonaid o dynerwch,
Rhyw fyd o harddwch yw;
Mae'r ddwyrudd dlos ddeniadol
Fel blodau dan y gwllith,
Ac engyl diniweidrwydd
Sy'n rhodio yn eu plith.

Rhyw arddanghosiad ydyw
O fynwes dan ei chur,
Teimladau calon ieuanc
Geir yn y deigrin pur;
Pan fyddo'r tafod bychan
Mewn iaith yn methu'n lân,
Hyawdledd dwys y deigrin
A dry fynwesau'n dân.

Nid rhagrith a gynhyrha
Y gloew ddeigrin mud,
Gonestrwydd a ganfyddir
Yn dawnsio drwyddo i gyd;
Mae deigrin prydferth plentyn
Yn tynnu sylw'r nef,
Mae hwn yn gyrru gwefr
I'w galon dyner Ef.

GAUAF AR LAN MOR Y CANOLDIR.

VII.

“YR oeddem wedi bod dros fis yn Bordighera pan y dechreuodd yr *English residents* dyrru yn ol i’w cartrefi Eidalaid yn y Strada Romana a llefydd ereill. Edrychem ymlaen gyda phleser at eu dyfodiad, gan fod gennym lythyrau cyflwyniad at lawer ohonynt.”

“Beth yw llythyrau cyflwyniad?”

“Mi wyddwn y byddai Gwladys neu un o honoch yn gofyn hyn. Pan y byddech yn mynd oddicartref i ryw wlad ddieithr, bydd eich cyfeillion weithiau yn gofyn os ydych yn adnabod rhywun yno; neu, os nad ydych, a fyddech chwi yn caru cael llythyr oddiwrthyt hwy i’ch cyflwyno i rywrai fyddant hwy yn adnabod. Ysgrifennant y llythyr, a rhoddant ef yn agored i chwi i’w anfon iddynt, a dywedant y pethau goreu a yddant am danoch; ac os byddwch wedi gwneyd rhywbeth gwerth son am dano, gwnant yn fawr iawn o hynny.”

Fedr neb ofyn cwestiynau mor gâs a phlant. Fe ofynnodd Gwladys un yn y fan yma, a’ m gwnaeth yn fud am ychydig funudau. Diflas iawn yw gorfod cyfadde nad ydych ymysg y rhai sydd wedi gwneyd rhywbeth.

“Y mwyaf enwog o’r trigolion Seisnig oedd George Macdonald; enwog ym mhob ystyr y gair. Un peth neilltuol a’i henwogai oedd ei garedigrwydd a’i letygarwch. Roedd ei dŷ yn agored i bawb o’r Saeson a ddewisent fynd yno bob wythnos ar brydnawn dydd Mercher, a byddai rhyw wledd ddifyr ac addysgiadol yn aml iawn yn cael ei baratol iddynt mewn ystafell eang ac ardderchog oedd yn rhan o’r tŷ. Os bydd rhai o’r plant heb fod yn gwybod pwy yw George Macdonald, gobeithio y gofynnant y cwestiwn ar unwaith i rywun a’u gwnant yn awyddus i ddarllen ei lyfrau, gan ei fod wedi ysgrifennu, nid yn unig lawer o ystraeon, ond wedi gweyd cymaint o bethau gwerth eu cofio fel y dylai plant, fel y byddont yn tyfu i fyny, benderfynu eu gwneyd yn eiddo iddynt eu hunain.

“Un o gymwynaswyr mwyaf Bordighera oedd Mr. Clarence Bicknell, rhoddwr y *museum* sydd wedi ei adeiladu yn agos i’r Strada. Yma hefyd mae cartref y llyfrgell sydd yn gymaint o gysur i ymwelwyr o wahanol wledydd, gan fod ynddi 3000 o gyfrolau mewn pedair o wahanol ieithoedd.

“Wrth dafu fy meddwl yn ol at yr amser y dechreuodd pobl ein gwlad ein hunain ddod allan, mae pethau digrif iawn yn dod i fy meddwl, pethau y gallwn weyd am danynt gyda blas oni bai fy mod yn ofni cael swn. ‘Rwy’n gorfod gwneyd llawer iawn o hyn,—

dethol y priodol oddiwrth yr amhriodol, ac nid wyf heb ofni fod fy ngofal, feallai, yn peri i'm hanes bach i fod yn anyddorol iawn, gan fy mod o'r farn mai yr hyn wyf yn adael allan sydd yn fwyaf dyddorol.

"Mae'n rhaid i chwi gofio fod y cwbl a ysgrifennaf yn wir; ond 'rwyn credu yr hen ddiareb,—'Llawer gwir goreu'i gelu,' ac yn cadw yn ol rai gwirioneddau oedd yn gwneyd ein gauaf hafaidd ar lan Môr y Canoldir yn amser mwy dedwydd a difyr nag a allaf byth ei ddesgrifo.

"Gwnaeth y bobl y daethom i gyfarfyddiad â hwy lawer iawn tuag at wneyd i amser ein halltudiad i redeg yn gyflym. Cofiaf yn awr am un o'r nos Suliau cyntaf yn yr Hotel Belvédère, pan yr oeddwn wedi bod mor ffol a mynd a llyfr gwerth ei ddarllen i lawr i'r *drawing-room*, ac yn cael ond y pleser o'i ddal yn fy llaw, tra yr oedd un foneddiges yn adrodd mor sâl yr oedd wedi bod wrth groesi y sianel, ac un arall gynifer o weithiau yr oedd wedi cael yr *influenza*. Yng nghanol y berw, pan yr oedd aunt Marian a finnau yn dechre edrych ar ein gilydd, fe ddaeth Miss Kemp i mewn, ac fe sibrydodd yn fy nghlust,—'Mae Dr. Yorke yn mynd i ddarllen i ni yn ein hystafell, ac y mae yn meddwl y byddwch chwi a'ch chwaer, feallai, yn leicio dod.' 'Leicio dod,' meddem, pan yr oeddem y funud nesaf ar ein ffordd i fyny i'r tŵr, lle y treuliom ar ol hyn lawer a llawer i awr ddifyr,—pe baem yn blant bach y tloty, yn cael ein gwahodd allan i ginio, byddai yn anodd i ni fod yn fwy balch.

"Dydd Sul, feallai, oedd yr unig ddydd y teimlem ychydig o thiraeth am ein cartref. Aem i'r eglwys yn y bore, ac weithiau yn y prydawn, ond eto, teimlwn fod rhywbeth yn eisieu. Un prydawn dydd Sul, fe aethom i gyd i'r Campo Santo (y gladdfa) i weld gorymdaith o offeiriad, mynachesau, a rhyw ugain neu ychwaneg o ferched ieuainc, mewn gynau a gorchuddlenni gwynion, oedd yn mynd yno yn ol arfer ar ddydd yr Holl Seintiau. Carient yn eu dwylaw fanerau mawrion, darlun o'r croeshoeliad, lampau, a llawer o bethau nas gwyddem eu hystyr na'u pwrpas, a chanent fel yr oeddent yn cerdded, mewn lleisiau aflafar iawn, nes yr oeddem yn ofni y byddem yn chwerthin, ac ni fynem am y byd wneyd hynny, gan fod gwynebau gwelw y rhan fwyaf ohonynt yn dweyd eu bod ar eu ffordd at orweddle eu hanwyliaid, a'u bod yn brudd iawn o'r herwydd.

"Wedi dilyn yr orymdaith i mewn i'r gladdfa cawsom fod y beddau i gyd wedi eu gwisgo â blodau naturiol a flug-flodau, ac wedi eu hamgylchu â chanwyllau goleuedig,—pedair, chwech, neu wyth, o gylch pob bedd. 'Roedd yn olygfa hynod iawn, ond yr oeddem yn sylwi fod goleu gwan y ganwyll, druan, fel pe bai yn

cywilyddio, ac yn methu gwneyd cyfiawnder â hi ei hunan yng ngoleuni tanbaid yr haul. Wedi clywed un hen offeiriad â gwyneb angylaidd ganddo yn siarad neu yn pregethu mewn llais undonog, ac mewn iaith hollol anadnabyddus i ni, yr oeddem yn ddigon parodi adael. Gan ein bod yn ymyl y gladdfa Seisnig, aethom yno, a chawsom fod gwahaniaeth mawr rhwng y ddau le. Yma teyrnasai distawrwydd, tawelwch, a symylrwydd, ac yr oedd yn fwy cydnaws â'n teimladau ni fel Protestaniaid na'r fan arall, lle yr oedd ar y pryd-ugainiau, os nad cannoedd, o ganwyllau yn llosgi.

"Torrodd Mrs. Andrew ar y dwfn ddistawrwydd drwy ddweyd ei bod wedi meddwl na fynnai am y byd gael ei chladdu yn yr Eidal, ond wedi gweld y fonwent Seisnig, na fyddai ganddi y gwrthwynebiad lleiaf i gael ei rhoi i orwedd yno. 'Byddai yn amhosibl i neb o honom deimlo gwrthwynebiad i hynny,' meddai boneddiges arall, gan edrych o un i'r llall o honom yn awgrymiadol.

"Wrth wrando arnynt cofiais yn sydyn eiriau Martha Tim ym mhentref gwledig Llar.—, yng Nghymru, pan yr oedd ei hen fam yn trefnu ble yr oedd hi a'i mherch i gael eu claddu,—

"'Cleddwch chi'ch hunan os ych chi'n leicio, mam; ond gadewch chi fi yn llonydd.' Teimlais fel Martha fod rhywbeth yn hynod o ddfifas mewn cael, fel pe bai, eich claddu yn fyw, a bum bron a dweyd,—'Gadewch chwi fi yn llonydd.'

"Wrth fynd yn ol o'r fynwent, fe gyfarfyddom â'r caplan, ac fe ddwedodd y boneddigesau yr un peth eto, eu bod yn teimlo wedi gweld y tynwent fach brydferth na fyddai ganddynt y gwrthwynebiad lleiaf i gael eu rhoi i orwedd ynddi.

"'Wel,' meddai y caplan, gyda gwên foddhaus ar ei wyneb, 'mae'n dda gen i allu dweyd wrthyhych y gellwch yn awr brynnu darn o dir *in perpetuity*.'

"Er ein syndod, 'doedd dim chwant prynnu tir ar yr un ohonynt; fe newidiwyd testyn yr ymddiddan hefyd mewn eiliad, a gwelem fod y boneddigesau yn gwenu wrth feddwl gymaint yn hawddach oedd claddu eu hunain na goddef i rywun arall hyd yn oed i'n cynhorthwyo i wneyd hynny.

"Ond mae'n rhaid i finnau newid y testyn; 'rwy'n gweld wrth eich gwynebau nad yw rhyw siarad fel hyn ddim yn eich boddio, ac yn ceisio dyfalu yn fy meddwl beth allaf wneyd i dynnu y blâs chwerw allan o'ch genau; a chan nad oes dim yn fwy llesiol at iechyd y corff a'r meddwl na *cycle ride*, mi awn i San Remo, lle yr oeddem yn aml iawn yn mynd pan y byddem eisieu prynnu *panatonia* (math o gacen) i dâ. Yr oeddem yn cael fod yn llawer hawddach reidio wyth milltir a hanner i San Remo, na cherdded cwarter milltir i'r dre, er ein bod yn gorfod wynebu swyddogion y tolldy fyddent yn ein holi ynghylch y pecyn ar ein *machine*.

"Pe bawn yn medru desgrifio y ffordd enwog yma ar lan y môr, fe gaech ddarlun prydf berth iawn o flaen eich llygaid, gan ei bod yn rhan o'r *cornice* sydd mor nodedig am ei phrydf berthwch. Mae mewn mannau wedi ei thorri yn y graig sydd yn hongian uwch ben y môr, a 'does dim ond gwal fach rhyw droedfedd o uchder rhyngoch a'r dibyn, a'r fath ddibyn, gan eich bod gannoedd o droedfeddi yn uwch na'r môr. 'Roedd gennym riw hir i ddringo i fyny i Ospedaletti, pentref sydd hanner y ffordd rhwng Bordighera a San Remo, ond mae yn hawdd dringo rhiwydd yr Eidal, gan fod yr awyr mor glir a chwithau yn teimlo mor ysgafn. Yn y pentref yma mae *casino* mawr oedd wedi ei fwriadu i fod yn *rival* i Monte Carlo, ond gwrthododd y Llywodraeth Eidalaid ei drwyddedu, a dyna paham y mae Ospedaletti yn le bach tawel a llonydd y dydd heddyw, ac nid yn fan cyfarfod i'r gwaela o ddynolryw.

"Ar ol dringo y rhiw sydd yn arwain i fyny o Ospedaletti i San Remo, a chael ein hunain yr ochr draw i Cap Nero; yr oeddem yn mynd i lawr yn gyflym iawn, mor gyflym nes y bum mewn perygl unwaith o redeg ar draws hen wraig oedd yn cerdded ar ganol y ffordd. Cenaus fy nghloch cyn dyfod i fyny ati, a chenaus hi yn ei chlust, ond ni chymerai y sylw lleiaf, ac yn lle colli ei thymmer, fel y gwnawn i pe bawn yn ei lle, gwaeddodd ar fy ol,—'Brava, brava, Signorina.' 'Rwy'n nodi y digwyddiad bach dibwys yma er mwyn cael dweyd mor brydf berth oedd ei geiriau yn swnio. Trowch hwy i'r Saesneg neu i'r Gymraeg i gael gweld a ellwch roi iddynt yr un swn barddonol, mi fentraf ddweyd na ellwch os bydd eich cyfieithiad ni diweddu gyda'r gair bach 'Miss.' Beth bynnag am hynny, swniai 'brava, brava' yr hen wraig yn fy nghlustiau yr holl ffordd i San Remo mewn modd na wnai '*Well done, Miss*' y Saeson.

"Yr oeddwn wedi bwriadu adrodd am dro bach go ddigri a ddigwyddodd i aunt Marian a finnau yn San Remo un diwrnod, ond mae rhywun yn gweyd ei bod yn bryd i chwi fynd i'r gwely."

H. E. M.

DILLAD HANESIOL.

YN ddigon aml y mae dilledyn yn codi adgofion tyner, fel y gŵyr y fam fu'n cadw dillad un bychan gollodd i'r bedd.

Mae dilledyn yn deffro adgofion cenedl gyfan hefyd weithiau. Ychydig dros flwyddyn yn ol gwerthid yn Llundain wasgod laswen, ac ychydig ysbotiau gwaed ar ei choler. Hi wisgai Siarl y Cyntaf y bore eiraog yn Ionawr, 1649, pan dorrwyd ei ben. A'r mis diweddfaf gwerthid, yn yr un ddinas, y dillad wisgai Oliver Cromwell pan yn blentyn bach yn dechreu cerdded.



PWYLLGOR EISTEDDFOD BETHEL.

EISTEDDFOD Y PLANT.

YN yr hen amser rheolid Cymru gan rai mewn awdurdod, nid oedd a tynno y werin ddim â rheoli. Yr oedd un wedi ei eni yn dywysog, ac un arall wedi ei eni yn ddeiliad. Yr oedd un wedi ei eni i ganu, ac un arall i dewi. Ufuddhau oedd rhan y lliaws, a thewi.

Yn ein hamser ni rheolir Cymru, yn wladol a chrefyddol a llenyddol, gan ei gwerin. Y bobl sydd yn awr yn penderfynu pob peth yn y pen draw. Y mae llywodraeth leol yn fwy perffaith yng Nghymru nag yn unlle. Pam? Oherwydd fod ein bechgyn a'n merched wedi cael profiad ar bwyllgorau ynglŷn â chrefydd a llenyddiaeth.

Sefydliad campus yw Eisteddfod Plant Bethel, Arfon. Cynhelir yr Eisteddfod gan blant. Ar y pwyllgor y mae ychydig rai mewn oed fel *referees*; ond y plant sy'n rheoli. Trwy hyn dysgir hwy i reoli eu gwlad. Lle bynnag y byddant mewn bywyd, gwyddant sut i gynnal Eisteddfod, sut i drefnu, sut i reoli. Ac onid doniol iawn yw pwyllgor o blant, côr plant, arweinydd o blentyn, plentyn yn brif draethodwr, plentyn yn fardd cadeiriol?

☉ "CANLYN IESU." ☉

TŌN I BLANT.

Y Geiriau o *Gymru'r Plant*, gan
T. JONES, ABERTAWR.

Y Gerddoriaeth gan
CARADOG JONES, A.C., LLUNDAIN.

DOH C. *mf*

{ :d m :f :m r :- :m	s :- :- m :- :m s :f :m
{ :d d :- :d t, :- :d	r :- :t, d :- :d m :r :d
{ Mae'r byd i gyd yn	bryd - ferth, A lla - wen
{ :m s :l :s s :- :s	s :- :- s :- :s s :- :s
{ :d d :- :d r :- :d	t, :- :s, d :- :d s, :- :s,

G.t. *cres.*

{ r :m :f m :- :- - :- :s, l,	t, :- :r d :- :m
{ t, :d :r d :- :- - :- :s,	s, :- :s, s, :- :s,
{ iawn i mi,	Yr haul sydd yn dis-
{ s :- :s s :- :- - :- :m	f :- :f m :- :d
{ s, :- :s, d :- :- - :- :d	r :- :t, d :- :d

f.C. *p*

{ s :- :f l, :- :f m :d :m m :- :r d :- :- - :- :d s	
{ l, :- :- l, :- :la, s, :- :d t, :l, :t, d :- :- - :- :ta, f	
{ gleir - io Yn y ffur-fa - fen fry;	Mi
{ d :- :- d :- :d d :m :s f :- :f m :- :- - :- :s r'	
{ f, :- :- f, :- :f, s, :- :s, s, :- :s, d :- :- - :- :m, t,	

dolce.

mf

{ s :l :s fe :s :d' t :- :- l :- :l l :se :l r' :d' :t	
{ m :f :m re :m :s s :- :- f :- :f m :- :m m :- :m	
{ wn y bydd - af dded - wydd, Tra'n teith - io yn y	
{ d' :- :d' d' :- :d' d' :- :- d' :- :d' d' :t :l t :l :se	
{ d :- :d d :- :m f :- :- f :- :r m :- :m m :- :m	

cres.

{ d' :- :t l :- :l l :t :d' t :d' :r' m' :- :- d' :- :-	
{ m :- :- - :- :s fe :- :fe s :- :s s :- :- s :- :-	
{ byd, O - bleg - id can - lyn Ie - su	
{ l :- :t d' :- :d' r' :- :r' r' :d' :t d' :- :- d' :- :-	
{ l :- :- - :- :l r :- :r s.f:m :s d' :- :- m :- :-	

}	^f	r' :- :- d' :- :d'	t :- :- - :- :s	s :- :s s :- :s
	f :- :- fe :- :fe	s :- :- - :- :s	s :- :s s :- :s	
	Wnaf, wnaf o hyd,		O - bleg - id can - lyn	
	l :- :- r' :- :r'	r' :- :- - :- :s	s :- :s s :- :s	
	f :- :- r :- :r	s :- :- - :- :s	s :- :s s :- :s	

}	d' :- :- d' :- :r'	^{>} m' :- :- m' :- :r'	d' :- :- - :-
	fe :- :- fe :- :-	s :- :- f :- :f	m :- :- - :-
	Ie su	Wnaf, wnaf o hyd.	
	d' :- :- d' :- :-	d' :- :- t :- :t	d' :- :- - :-
	la :- :- la :- :-	s :- :- s :- :s	d :- :- - :-

2 Pererin bychan ydwyf,
 Yn cychwyn ar fy nhaith,
 Mae lliaws yn proffwydo
 Y methaf lawer gwaith ;
 Dywedant fod helbulon,
 A thralod yn y byd,
 Ond mi ganlynaf Iesu,
 Gwnaf, gwnaf o hyd.

3 Ac fel pererin bychan,
 Beth bynnag ddaw i'm rhan,
 Mi af at Iesu'n unig,
 Mae'n hoffi nerthu'r gwan ;
 Mewn galar, sych fy nagrau,
 A bydd yn noddfa glyd,
 Mi a ganlynaf Iesu,
 Gwnaf, gwnaf o hyd.

4 Nid ofnaf ddrygau mwyach,
 Ond teithiaf yn ddi-fraw,
 Yr Iesu a'm harweinia
 Yn dyner yn ei law ;
 Nid ofnaf angau creulon
 Yn ei gymdeithas ef ;
 Trwy'r glyn canlynaf Iesu
 Fry, fry i'r nef.



CHINEAID YN YMOBOD AR DY CENHADON.

CHINA.

Ger toriad, gwawriad y gwir
 Ei gau ragfarnau fernir.
 Haeledd ddaw i filoedd hon,
 A chul ni fydd ei chalon;
 Heibio y daw meib y don
 Hyd lannau dielnyion.

I mewn i'w hafnau mwynion,—gwahoddir,
 A chroesawir fel o ochrau Seion;
 Pan erddyl efengyl fwyn,—China gau
 Rydd ei hallweddau ar ddull addwyn.

ISLWYN. *Y Genhadaeth.*

Y MAE llygaid yr holl fyd gwareiddedig, ar hyn o bryd, ar China. Y mae llysgenhadwyr, masnachwyr, a chenhadon,—tri apostol gwareiddiad,—yma ac acw yn ei thiriogaethau eangfaith; ac y mae llawer, yn ol pob tebyg, naill ai wedi eu llofruddio, neu dan warchae gan lu ffyrnig atrifed o Chineaid. Tra yr wyf yn ysgrifennu, y mae hanes sicr fod llysgenhadwr yr Almaen, y Baron von Ketteler, wedi ei lofruddio yn heol Pekin, prifddinas y wlad. Y peth olaf glywsom am Syr Claude Macdonald, Edward Conger, M. de Giers, a'r llysgenhadon ereill, oedd eu bod wedi ffoi am noddfa i'r llysgenaty Prydeinig; a'u bod yno, gyda'u gwragedd a'u plant, yn ceisio amddiffyn y muriau brau rhag y miloedd llofruddiog sydd yn ysgrechian am eu gwaed y tu allan. Y mae llysgenhadwr, yn ol cyfraith yr holl genhedloedd, i fod yn ddianaf bob amser. Ond y mae lle i ofni na waeth gan yr hon sydd wedi trawsfeddiannu gorsedd China am arferion gwareiddiad. Cyn y byddwch yn darllen y llinellau hyn, y mae'n bur debyg y ceir sicrwydd a fedrodd llysgenhadwyr Prydain, yr Unol Daleithiau, Rwsia, Ffrainc, a'r gwledydd ereill, ddianc rhag marwolaeth ddychrynlyd.

Ar hyn o bryd y mae byddinoedd a llongau pob gwlad fawr yn cyfeirio yno. Ceisiodd Syr Edward Seymour, gyda byddin o forwyr Prydeinig, gyrraedd Pekin. Ond gwithiwyd ef yn ol, ac amgylchynwyd ef ar wastadedd gan filoedd o filwyr Chineaid. Heriodd hwy nes y daeth byddin arall,—Prydeiniaid, Ffrancod, Japaniaid, Almaenwyr, a Rwsiaid,—i'w waredu.

Erbyn hyn y mae'r Ewropaid, yr Americanaid, a'r Japaniaid wedi cymeryd amddiffynfeydd Taku, yng ngenau'r afon Pei Ho, wedi cymeryd dinas fawr Tientsin yn uwch i fyny'r afon, ac yn paratoi i fynd ymlaen i Pekin. Byddin ryfedd fydd. Ar ei blaen, yn ol pob tebyg, bydd Cymry a Sikiaid,—mynyddwyr o ddwy ran o'r ymherodraeth Brydeinig. Yna daw Americanaid a Japaniaid, Rwsiaid a Ffrancod, Germaniaid ac Eidalwyr. Beth fydd y diwedd, ni wyr neb. Y mae Rwsia yn llawn awydd meddiannu rhannau o China, ac y mae Ffrainc yn gefn iddi. Y mae Japan yn benderfynol na chaiff yr arth Rwsiaidd roddi ei phalf ar Corea, ac y mae Prydain yn awyddus na cha Rwsia gau porthladdoedd lle mae gan ein masnachwyr ni fwy o gwsmeriaid na holl fasnachwyr y byd gyda'u gilydd. Bydd gan yr Unol Daleithiau a'r Almaen air i'w ddweyd hefyd.

Y mae dau reswm am y cythrwfl yn China. Ysbryd cenedl-aethol yw y naill, y cenhadon Cristionogol yw y llall. Y mae rhyddid cenedlaethol a'r efengyl yn gyson; ond yn China y maent yn elynion. Ac y mae y rheswm am hyn yn amlwg. Y mae Rwsia a'r Almaen yn cymeryd crefydd yn esgus i latrata tir. Am hynny, y mae'r Chineaid yn drwgdybio pob cenhadwr, ac ar hyn o bryd wedi ymgynndeiriogi yn eu herbyn.

Nid rhyfedd fod gan China gymaint o swyn i feddwl y cenhadwr a'r masnachwr. Cofia'r naill am filiynau ei phobl; cofia'r llall am ehangderau diderfyn ei gwastadeddau cyfoethog. Y mae yn China dros dri chan miliwn o bobl. Y mae y wlad enfawr yn bedair miliwn a hanner o filltiroedd ysgwar,—yn un ran o ddeuddeg o holl dir y ddaear. Yn y gogledd, y tu hwnt i'r môr mawr, y mae mynyddoedd Altai ac anialdiroedd eang Mongolia. Yn y gorllewin y mae mynyddoedd aruthrol Tibet ddiethr. Yn y dwyrain a'r de y mae China ei hun. Pe na bai ond China yn unig, y mae yn aruthrol fawr, a'i chyfoeth yn anhygoel. Y mae'r Afon Felen, yr Hoang Ho, yn 2,800 milltir o hyd. Cytyd yng ngwlad y Tartariaid, a dyfrha y trefedigaethau mawrion sydd rhwng y mur a mynyddoedd Pe Sing, sef Kansoo, Shen Si, Shan So, Honan, a Shan Tung. Yn nes i'r de y mae'r afon ardderchog honno, yr Yang Tse Kiang, yn 3,200 milltir o hyd. Rhed drwy ardaloedd breision mawr Sze Chuen, Hu Pe, Hu Nan, Kiang Si, Ngan Whei, a Kiang Tsu. Ar ei glan y mae tref fawr Nankin, a phorthladd Shanghai,—un o borthladdoedd mwyaf Asia.

Ymherodres sydd yn awr ar yr orsedd. Ei henw yn llawn yw Tszehi Toanyu Kangi Chaoyu Chuangcheng Shokung Chinhien Chung-Si. Dywedir mai geneth dlawd oedd, wedi ennill serch ymherawdwr China oherwydd ei thlynsni a'i doethineb. Ganwyd hi yn 1834, ond y mae ei gwallt eto yn ddu fel y frân. Y mae'n boblogaidd iawn yn China. Daeth newyn i dalaeth Shan Si unwaith; a dywedodd yr ymherodres na fwytai damaid o gig, ac na fwyteid tamaid o gig yn y palas mawr brenhinol, hyd nes y peidiai y newyn. Anfonwyd y cig i gyd i'r trueiniaid. Gelwir hi yn Tszehi Dda gan ei deiliaid, a chydmerir hi gan dramoriaid â brenhines weddw Prydain Fawr. Nid oes amheuaeth am ei gallu nac am ei gwladgarwch. Er mwyn ei gwlad, yn ol ei thyb hi, y mae wedi rhwystro pob diwygiad, ac y mae'n cashau'r Cristionogion fel gelynyion ei gwlad.

Ond y mae'n sicr, yn enwedig wedi'r rhyfel â Japan, nas gall China herio'r byd, a chau ei hafonydd a'i phorthladdoedd rhag llongau gwledydd pell. Rhaid iddi agor ei dorau. Aiff masnach i mewn. Eled yr Iesu i mewn hefyd, fel brenin heddwch. Na adawer i orthrymwyr Poland a Finland gymeryd ei enw yn gochl dros ladrad.

GWLAD HUD.

(Casgliad o Ystraeon Hud o
bob gwlad.)

VIII. Y DDINAS BRUDD.

(Un o Ystraeon Hud China.)



YR oedd brenin da a doeth yn byw unwaith ar gyffiniau China. Yr oedd yn hael i dlawd ac i bawb o bell. Hoffai hedd a chân leddf ac ystori. Dysgodd ei ddeiliaid i feddwl, ac i fod yn hapus. Ryw dro aeth ar daith i wlad bell. Pan ddaeth yn ol nid oedd yr un dyn a chynt. Er fod ei ddeiliaid yn ei garu yn angerddol, ni thalai un sylw iddynt. Yn lle byw yn eu canol fel cynt, aeth i ynys unig, ac

yno y mynnai fod, heb neb ond ei chwaer hoff yn agos ato.

Ryw ddydd daeth teithiwr i'w lys,—gŵr hen a doeth. Hoffodd y brenin ei ddoetffineb, a chadwodd ef yn ei lys lawer o ddyddiau. Ond, er pob ymdrech i'w ddyddori, yr oedd y gŵr dieithr yn brudd o hyd. O'r diwedd gofynnodd y brenin paham na wenai weithiau.

"A oes rhyw ofid yn dy lethu?" gofynnai.

"Rhynged bodd i'th fawrhydi faddeu i dy was anheilwng," ebe'r teithiwr hen, "ni fedraf ddweyd fy hanes heb farw gan ofid. Boddid fy llais gan ddagrau pe dechreuwn. Dois yma dros Fynyddoedd yr Eira, a thros yr afon fawr Lan-tang-kiang, o ddinas Hoang Pei. Yno y mae pawb yn brudd fel finnau. Ond ni wŷr neb pam heb fynd yno."

Penderfynodd y brenin ymwisgo fel crwydryn, a theithio hyd y ffordd bell i'r Ddinas Brudd. Wedi teithio llawer o ddyddiau, ar fin nos ym mysg y nosau cyrhaeddodd y porth cyn iddo gau. Cafodd lety gan farsiadwr caredig; ond, er fod pawb yn awyddus i'w wasanaethu, yr oedd pawb yn brudd. Yn y bore aeth drwy heolydd y ddinas. Yr oedd pawb yn garedig ac yn foneddigaidd; ond oll yn ddistaw ac yn brudd. Os na siaradai ef, ai pawb heibio gan edrych yn drist ar y llawr.

"O gyfaill fy nghalon," ebe'r brenin wrth y marsiadwr, "paham y mae pawb yn y ddinas yn brudd?"

Erfyniodd y marsiadwr arno beidio mynnu ateb. "Os mynni ateb, hoff blentyn y duwiau," meddai, "edifarhai tra bot byw."

Ond mynnai'r brenin atebiad. "Wel ynte," ebe'r marsiadwr, yn bruddach nag erioed, "rhaid i mi fynd a thi y tu allan i'r muriau i weled y rheswm."

Aeth y ddau allan drwy'r porth mawr. Yr oedd rhai yn myned yn gyflym allan; yr oedd ereill yn dod yn araf a thrist i mewn. Toc daethant at fasedg fawr ar lan afon. Elai y naill wŷr ar ol y llall i'r fasedg, arhosai yno ennyd, yna deuai allan dan wylo'n dost. Gofynnodd y brenin i'w gydymaith paham yr oeddylt yn wylu. Ond nis gallai hwnnw ateb, gan ei ddagrau ei hun.

"Mi af i'r fasedg," ebe'r brenin, "mynnaf wybod."

Erfyniodd ei gyfaill arno beidio. Ond ni fedrai ei rwystro,—camodd iddi. Gydag iddo eistedd ynddi, dyma'r fasedg yn codi i'r awyr o honi ei hun. I fyny, i fyny yr ai, hyd nes y daethant i wlad uwch y cymylau. Ac yno safodd y fasedg ar y lan.

Ni fu y brenin erioed mewn gwlad mor hyfryd. Nid oedd nawn haf ar lan Llyn y Grisial ond gauaf o'i gydmaru â hi. Yr oedd yr awel mor dyner, yr oedd y blodau mor amryliw, yr oedd y gerddi mor llawnion, yr oedd y cerrig yn emau a'r gro yn berlau. Yr oedd bywyd newydd yn treiddio trwy bob gwythien iddo.

Cyn hir gwelai yr enethig brydferthaf welodd erioed, yn cerdded yn araf i'w gyfarfod. "Tyred," meddai, "y mae merch y brenin yn dy ddisgwyl. Yr wyt ti yn bur o galon, cei ei gweled."

Ymlaen yr aethant, a thoc, heibio i lynnoedd tawel a than goed hyfryd, heb flino dim, daethant i lys gorwych merch y brenin.

Rhoddwyd y teithiwr i eistedd ar orsedd, ychydig yn is na gorsedd merch y brenin. A llawer dydd y buont yno,—hi yn dweyd hanes teyrnas ei thad, yntau yn dweyd hanes ei deyrnas ef. Hoffent eu gilydd,—yr oedd y ddau yn hoff o wybodaeth, a'r ddau yn bur o galon.

Yr oedd temtasiynau yn y wlad hyfryd honno. Er mor garedig a doeth oedd y brenin daearol, yr oedd iddo yntau ei demtasiwn. A rhyw dro, daeth ei bechod i'w gyfarfod heb iddo ei ddisgwyl; ac aeth yn drech nag ef.

Ac efe yn yfed gwin, syrthiodd i gwsg. Pan ddeffrôdd, yr oedd yn y faged honno, yn myned yn gyflym ar i wared. Safodd yn y gwaelod fel o'r blaen. Ac yr oedd tyrfa brudd yn ei hamgylchynu, ac yn barod i fynd iddi. Ond nid aeth y faged i fyny y dydd hwnnw mwy.

Aeth y brenin at ei letywr caredig, yn drist a distaw. Ddydd ar ol dydd deuai drwy'r porth at y faged, ac eisteddai ynddi. Ond yr oedd fel pe'n rhy drwm iddi ei godi mwy.

Trodd ei gamrau tuag adre. Croesodd yr afon-fawr Lan-tsang-kiang, croesodd Fynyddoedd yr Eira, a daeth at ei bobl yn ol. Yr oedd pawb yn llawen iawn wrth ei weled, oherwydd ni fu brenin mor dda erioed yn y wlad honno. Ond ni fedrent symud ei alar a'i dristwch. Er hynny, wedi llawer blwyddyn, medrod cariad chwaer wneyd dyfais i ddod a'i brawd i'r wlad hyfryd honno y rhaid myned iddi trwy'r Ddinas Brudd.

YR AFON.

AWN i rodio glan yr afon,
Lle mae tlyision flodau'n byw;
Iechyd gyda'i bwyntel euraidd,
Dry'n rhosynaidd fochau gwyw;
Cawn twynhad yng ngerddi Anian,
Llonder lifa'n falm i'r fron;
Hedd di-gwmwl a deyrnasa,
Lle'r anadla'r brydferth don.

Chware gawn ar lan yr afon,
Ymhlith ceinion heb eu hail;
Adar haf gân ar ei minion,
Fel angylion rhwng y daill;
Odlau y baradwys dawel,
Gluda'r awel i bob man;
Gwledda gawn ar wenau tyner,
Heulwen mwynder ar ei glan.

Y Bala.

Awn i rwyfo ar yr afon,
O un galon bawb yn llon;
Melus hwyl mewn gwynfyd perffaith,
Ydyw'r daith ar gefn y don;
Huna'r storm, a gwena'r nefoedd,
Yn ei gwisgoedd glaaliw hi;
Difyr ydyw rhwyfo'n ddiiddig,
Yn swm miwsig mwyn y lli.

O na byddem fel yr afon,—
Gana'n fwynlon yn ei bri;
Gwenn'n danbaid y mae purdeb,
Ar ei gwyneb-hawddgar hi;
Plethwn ddiloes fwyn ganiadau,
Yn swm clychau'r hyfryd don;
Dygnw fel yr afon hudol,
Ddelw'r nefol ar ein bron.

RICHARD AB HUGH

BORE OES DAVID LIVINGSTONE.

CWYMPPODD ein hendaidd ym mwrwydr Culloden, yn ymladd dros hen frenhinoedd ei wlad. Amaethwr bychan yn Ulva oedd ein taid, ac yno y ganwyd fy nhad. Ynysig, un o liaws ynys-oedd yr Hebrides, yw Ulva. Canodd Walter Scott am dani,—

“ Ac Ulva dywell, Colonsay,
A'r holl ynys-oedd heirdd sy'n we
O amgylch Staffa hen.”

Yr oedd fy nhaid yn gyfarwydd â'r holl draddodiadau roddodd yr ysgrifennydd enwog gwinnw yn ei “Tales of a Grandfather.” Pan yn blentyn, gwrandawn arnynt yn awchus, oherwydd nid oedd ball ar ystoriau fy nhaid; ac yr oedd llawer ohonynt yn rhyfeddol debyg i ystoriau glywais, lawer blwyddyn wedyn, o gylch y tân min nos yn Affrig. Canai fy nain ganeuon Gaelig, a chredai fod llawer ohonynt wedi eu gwneyd gan ynyswyr hiraethlawn pan yn gaethion ymysg y Tyrciaid.

Medrai fy nhaid roddi hanes chwe cenhedlaeth o'i deulu o'i flaen ef. O un peth yn yr hanes yr wyf yn falch. Yr oedd un o'r ynyswyr tlodion gweithgar yn hynod am ei gallineb, a dywedir iddo alw ei blant ato pan ar ei wely marw a dweyd,—

“Yn ystod fy mywyd chwiliais yn ddyfal holl draddodiadau ein teulu, ac nis gallaf weled fod un dyn anonest ymysg ein hynafiaid. Os aiff rhai ohonoch chwi, neu rai o'ch blant, i ffyrdd anonest, ni wnewch hynny am ei fod yn eich gwaed; ni pherthyn hynny i chwi. Yr wyf yn gadael y gorchymyn hwn i chwi,—Byddwch onest.”

Gwelodd fy nhaid nad oedd ei ffarm yn Ulva yn ddigon i gadw teulu lliosog, ac felly symudodd i waith cotwm Blantyre yn nyffryn prydferth y Clyde, uwchlaw Glasgow. Yr oedd ei blant wedi cael yr addysg oreu fedrai'r Hebrides roddi, a chawsant oll le fel clerod yn y gwaith. Perchid fy nhaid am ei onestrwydd anhyblyg, a'i waith oedd cludo symiau mawr o arian o Glasgow i'r gweithdai. Yn ei henaint cafodd ffwydd-dal gan y cwmni, a threuliodd nawn ei oes yn gysurus.

Aeth fy ewyrthod oll i wasanaeth y brenin yn ystod y rhyfel â Ffrainc, fel milwyr neu forwyr. Arhosodd fy nhad gartref; ac er ei fod yn rhy gydwybodol i lwyddo llawer fel gwerthwr te, enillodd ei garedigrwydd hoffder ei blant tuag ato yn llawer mwy na phe buasai wedi ennill ffortiwn iddynt. Addysgodd fy nhad ni yn Eglwys yr Alban, eglwys sydd wedi bod o fendith arhaethol i'n gwlad. Ond gadawodd yr eglwys honno, ac am ugain mlynedd olaf ei oes bu yn ddiakon eglwys Anibynnol yn Hamilton; ac enillodd fy edmygedd diddarfod oherwydd ei fod wedi rhoddi

esiampiau i mi o'n mebyd o'r gwir ddyndu, dyn ddarlunnir mor gwyr gan Burns yn ei "Nos Sadwrn y Gweithiwr."

Bu farw yn Chwefrol, 1856, mewn gwir ddiogel obaith am y drugaredd y gobeithiwn oll am dani drwy farwolaeth ein Gwardwr. Yr oeddwn i ar y pryd ar fy nhaith islaw Tumbo,* ac heb feddwl am bleser mwy yn y wlad hon na chael eistedd wrth dan ein bwthyn i ddweyd yr hanes wrtho. Mae ei gof yn gysegredig imi.

Y peth cyntaf wyf yn gofio am fy mam yw darlun sydd mor gynefin ymysg tlodion yr Alban,—gwraig bryderus yn ceisio cadw dau pen y llinyn ynghyd. Pan yn ddeg oed anfonwyd fi i'r ffatri, i'm henillion bychain leihau pryder fy mam. A rhan o gyflog fy wythnos gyntaf prynnais "Rudiments of Latin" Ruddiman; ac astudiais yr iaith honno yn galed am lawer blwyddyn wedyn mewn ysgol nos. Byddai'r ysgol o wyth tan ddeg y nos, gweithiwn innau gyda'm llyfrau o hynny tan hanner nos, ac yn hwyrach os na ddeuai fy mam i gipio'm llyfr o'm llaw. Yr oedd yn rhaid i mi fod yn y ffatri erbyn chwech yn y bore, a dal i weithio, gydag ychydig seibiant i gael brecwest a chinio, tan wyth y nos. Fel hyn darlennais lawer o'r awduron clasurol, ac yr oeddwn yn twy hyddysg yn Fyrsil a Horas pan yn un ar bymtheg oed nag wyf yn awr. Yr oedd ein hathraw yn ofalus a charedig, ac yr oedd ei dâl mor ychydig fel yr oedd addysg yng nghyrraedd pawb. Manteisiodd llawer ar y fraint, ac y mae rhai o fy nghyfoedion mewn lleoedd pwysig erbyn hyn.

Darlennwn bopeth y gallwn roddi'm dwylaw arno, oddigerth nofelau. Ond darllen hanes teithwyr a llyfrau ar wyddoniaeth oedd fy mwynhad pennaf. Ofnai fy nhad nad oedd y pwnc olaf a enwais yn hollol gydweddol â chrefydd, a gwell ganddo fuaasai fy ngweled yn ymboeni uwchben "Y Cwmwl Tystion" neu "Bedwar Cyflwr Dyn." O'r diwedd gwrthryfelais, a'r tro diweddaf y cospwyd fi oedd am beidio darllen "Cristionogaeth Brofiadol" Wilberforce. Bu llenyddiaeth byneiol sych yn ddiflas imi am flynyddoedd wedyn; ond, wedi cael golwg ar y llyfrau campus hynny o waith Dr. Dick,— "Athroniaeth Crefydd" ac "Athroniaeth Sefyllfa Ddyfodol,—gwelais mai fi oedd yn iawn, a fod crefydd a gwyddoniaeth yn gyfeillion, ac nid yn elynion i'w gilydd.

Yr oedd fy rhieni wedi cymeryd trafferth mawr i roddi egwyddorion crefydd yn fy meddwl, ac yr oeddwn yn deall yr egwyddorion hynny yn dda, yn enwedig y prunedigaeth. Ond tua'r adeg hon y sylweddolais y dylwn gymhwysu'r egwyddorion at fy achos fy hun.

* Lle ar y Zambesi, yng nghanol Affrig, lle cyferfydd Affrig Bortugeaidd, De Affrig Brydeinig, a Chanol Affrig Brydeinig.

Daeth cyfnewidiad drosod. Wrth weled mor eang a rhydd yw cynnyg Duw i lanhau oddiwrth bob pechod, dechreuais garu yr hwn a'n prynnodd â'i waed. Yn anterth y cariad penderfynais roi fy mywyd i leddfdu dioddef dynol ryw. Wedi troi llawer ar y peth yn fy meddwl, tybiais y medrwn ddwyn bendith dymhorol i ymherod-raeth eang China trwy fod yn rhagflaenydd Cristionogaeth ynddi. Felly penderfynais fynnu addysg meddyg, i gyfaddasu fy hun i'r gwaith.

Crwydrais yn aiddgar hyd y wlad i gasglu llysiâu iachaol. Gwnaeth hyn lawer i gryfhau fy ymhyfrydiad ym mhrydferthwch natur. Yn aml byddai'm dau frawd gyda mi; ac er y byddai'r ieuengaf yn wylu weithiau oherwydd lludded ac eisiau bwyd, byddem yn fuan iawn yn awyddus am gychwyn taith newydd.

Ar un o'r teithiau hyn aethom i gloddfa galch. Nis gallat ddesgrifio fy llawenydd a'm syndod wrth gasglu cregin yng ngherrig calch High Blantyre a Cambuslang. Wrth weled plentyn yn syllu ar y cregin, edrychodd un o'r gweithwyr calch arno gyda rhyw gydymdeimlad dirmygus.

"Sut yn y byd y daeth y cregin i'r creigiau?" gofynnai'r bachgen.

"Pan wnaeth Duw y creigiau, gwnaeth y cregin ynddynt," oedd yr ateb oer a therfynol.

Darlennwn fy llyfrau pan wrth fy ngwaith, drwy roddi'm llyfr ar y peiriant y gweithiwn o'i flaen. Gwelwn frawddeg wrth fynd, brawddeg arall wrth ddod yn ol ac ymlaen. Felly darlennwn yn rheolaidd yn rhu diddarfod y peiriannau. Trwy hyn y dysgais ymroddi i'm waith ynghanol pob swm; gallaf fytyrio yn awr yn gysurus pan fo'r paganiaid yn canu ac yn dawnsio o'm cwmpas.

Yr oedd gwaith gweydd cotwm, gwaith y dyrchafesid fi iddo yn bedair ar bymtheg oed, yn galed iawn i fachgen hirsefain heglog. Ond yr oedd y tâl yn dda; a thrwy weithio â'm dwylaw yn yr hat medrais ddilyn y dosbarthiadau Groeg a meddygol ym Mhrifysgol Glasgow, a darlithiau duwinyddol Dr. Wardlaw, yn y gauaf. Nidderbyniais ffyrlling o help gen neb, a buaswn wedi mynd i China fel cenhadwr meddygol yn hollol ar fy nghost fy hun oni buasai i rai o'm cyfeillion fy nghyngchori i ymuno â Chymdeithas Genhadol Llundain, oherwydd nad oedd a fynno â sect. Enfyn, "nid Esgob-yddiaeth na Phresbyteriaeth nac Anibyniaeth, ond efengyl Crist i'r pagan." Yr oedd hyn yn cytuno yn hollol a'r hyn y tybiwn y dylab cymdeithas genhadol fod. Eto, nid heb boen y penderfynais gynnwng fy hun, gan fod dibyniaeth yn groes i natur un wedi arfer gweithio yn ei ffordd ei hun. Ac ni fuasai cael fy ngwrthod yn un brofedigaeth imi.

Wrth edrych yn ol ar lafur caled bore oes, yr wyf yn ddiolchgar

am ddull fy addysg; a phe cawn ail ddechreu bywyd, ail ddechrewn ef yn yr un modd. Yr oedd addysg, gwladgarwch, a rhinwedd fy ardal yn nerth i mi.

Gorffennais ty ngyrfa efrydol, ac yr oeddwn yn barod i fynd at waith fy mywyd. Ond yr oedd rhyfel yr *opium* rhyngom a China. Fy hoff obaith oedd medru mynd i mewn i'r ymherodraeth gloedig honno trwy rin gallu i iachau. Ond nid oedd gobaith am heddwch yn fuan; a gwnaeth llafur Mr Moffat i mi droi fy meddwl tuag Affrig. Wedi ychwaneg o addysg feddygol yn Lloegr cychwynnais i Affrig yn 1840, a chyrrhaeddais Benrhyn Gobaith Da wedi mordaith o dri mis. Oddiyno aethum i Fau Agola, ac oddiyno i'r canol-barth, gan wneyd Kuruman^o yn gartref.

YFWYR GWAED Y BYW.

DYWEDID am y *vampire*,—sef math o ddyn anynol,—ei fod yn byw trwy sugno gwaed bywyd plant. I'w ladd yr oedd raid ei dorri'n ddarnau, a'i gladdu ger croesffordd. Os tywynnai'r lleud ar y darnau, deuai'n fyw drachefn.

Nid yw hyn oll ond hen chwedl adroddid wrth yr ofnus. Ond y mae aderyn a elwir *vampire* yn nyffryn yr Amazon yn byw ar waed cesyg ieuainc byw. "Erbyn y bore," ebe Mr. Russell Wallace, "yr oedd golwg truenus ar y march ieuanc, y gwaed yn rhedeg i lawr o'i wddf a'i gefn, lle yr oedd yr adar wedi ei bigo. I'w rhwystro drachefn rhoddwyd pupur coch hyd-ddo. Ond daethant, a gwaedasant ef yr ail waith. Ond gwaedant heb beri unrhyw boen, colli gwaed yw perygl y march."

YR AFONIG.

MAE'R fach afonig ar ei thaith
Yn araf droellu drwy y ddôl;
Mae'n mynd o hyd yn llawn o waith,
A byth ni ddychwel yn ei hol.

A rhwng clogwyni dyfnion serth
Mor brydferth yw ei dyfroedd glân;
Wrth fynd ymlaen mae'n ennill nerth
A than bob rhwystrau'n murmur cân.

O awr i awr, o ddydd i ddydd,
Heb aros dim, na grwgnach chwaith,
Wrth fynd ymlaen cyfrannu bydd
O'i dyfroedd glân hyd ben y daith.

'Rwyf finnau fel'r afonig fach
Yn cyflym deithio'r ddaear lawr,
Caf finnau f' hun mhen gronyn bach
O fewn i'r tragwyddoldeb mawr.

DAVID THOMAS, (*Dewi Tudur*).

* Gwarchaewyd ar Kuruman, a chymerwyd hi, gan y Boeriaid yn y rhyfel aydd eto'n difrodi De Affrig.

URDD Y DELYN.

Y RHEOLAU.

1. Dysgu siarad ac ysgrifennu Cymraeg; darllen rhan o'r Beibl Cymraeg, neu ryw lyfr Cymraeg arall, bob dydd, ac ysgrifennu Cymraeg o'i gyfansoddiad ei hun.

2. Astudio hanes Cymru, a gwneyd ei oreu i godi ei wlad, fel y byddo Cymru fydd yn well na'r hen Gymru.

3. Dysgu canu'r delyn, os bydd hynny yn y cyrraedd; a dysgu alawon Cymreig.

4. Byw, hyd y gall, yn ol dysgeidiaeth yr hen Gymry gynt, mor bell ag y mae'r ddisgeidiaeth honno'n un a dysgeidiaeth Crist. Y mae'r ddisgeidiaeth honno'n gofyn purdeb, cariad at addysg, caredigrwydd at ddyn, addfwynder at greaduriaid direswm, iaith ddihalog.

ENWAU NEWYDDION.

- 1332 Geraldine M. Hagarty, The Gael, New York, U.S.A.
 *1333 Dora E. Jones, Pen y Garnedd, Garn.
 *1334 Hugh Beynon Jones, 48, Waverley St., Seacombe.
 *1335 Katie Hughes, Ynyspandy, Garn.
 *1336 David Lewis, Ty'n y Ffynnon, Dyffryn Ardudwy.
 *1337 Mattie Davies, Garnedd Hir, Garn.

AWELON Y BRYNIAU.

'R WY'N caru awelon y bryniau,
 A'u chwedlau am ryddid o hyd;
 Dymunwn gael treulio fy nyddiau,
 Ym mynwes yr awel i gyd;
 Hyd lwybrau'r awelon mae iechyd,
 Yn deffro llawenydd a hoen,
 A son mae telynau mwyn hawddfyd,
 Am wynfyd a bywyd heb boen.

'Rwy'n caru'r awelon sy'n chwarau,
 Fel engyl ar ysgwydd y bryn;
 Wrth deimlo gogleistad eu camrau,
 Y grug dan ei flodau a gryn;
 Cenhadon yw'r tyner awelon,
 Wahoddant y dyffryn a'r dref,
 I ddringo yn ysgafn eu calon,
 I'r bryniau—cynteddau y nef.

Y Bala.

'Rwy'n caru'r awelon sy'n hedfan,
 Lle rhodia y wawrddydd mor dlos;
 'Rwy'n hoffi eu croesaw a'u cusan,—
 Pereidd-dra y briall a'r rhos;
 Ar orsedd o dlysmi arddunol
 Ceir mawredd yn ddwyfol ei wedd,
 Lle cluda'r awelon yn hudol
 Gawodydd o fwynder a hedd.

'Rwy'n caru'r awelon sy'n canu
 Yn swynol yn nhemlau y bryn;
 Mae mawl eu telynau yn denu
 Fy enaid, a'm calon a gryn;
 Ym mreichiau'r awelon esgynnaf
 Orielsau mynyddau fy ngwlad;
 Yng nghwmni'r awelon y canaf,
 Yng nghanol rhyw nefol fwynhad.

RICHARD AB HUGH.



AMSTERDAM.

ARWRIAETH YR ISELDIROEDD.

VII. PENDERFYNIAD DISTAWRWYDD.

PAN oedd William yn fachgen unarddeg oed, ac eto dan addysg ei dad a'i fam yng nghastell Dillenburg, syrthiodd etifedd-iaethau eang ewyrthod a chefnryd,—rhai wedi marw o henaint, ereill mewn rhyfel,—yn eiddo iddo ef. Ei eiddo ef oedd tiriogaethau teulu Nassau yn yr Iseldiroedd; ei eiddo ef oedd tywysogaeth fechan Orange yn neheudir Ffrainc.

Yr adeg honno yr oedd Spaen a Ffrainc yn ymdynnu am fod yn feistri'r byd. Brenin Spaen oedd yr ymherawdwr Siarl V., y gŵr y bu Luther yn dadleu o'i flaen yn Worms. Brenin Ffrainc oedd Ffrancis I., brawd Margaret o Valois, emynyddes y Diwygiad yn Ffrainc. Yr oedd yr Iseldiroedd yn perthyn i Spaen, ac o'i threfi diwyd hi y cai brenhinoedd Spaen drethi i gynnal llynges a byddin.

Daeth ei dad a William ieuanc i Brussels, i'w addysgu yn llys gorwych Siarl y Pumed. Er mai Lutheriad oedd y tad, yr oedd yn foddllawn i'w fab gael addysg Pabydd. Yr oedd y tywysog

ieuanc yn uchel yn ffafir yr ymherawdwr; a phan roddodd Siarl ei holl allu a'i ogoniant i fyny, gan bwysu ar ysgwydd William y daeth i'r neuadd fawr i ddiosg ei goron ac i ymrhyddhau oddiwrth ofal byd er paratoi, yn ei hen ddyddiau, ar gyfer brawdle Duw.

Yn lle Ffransis daeth ei fab Harri II., yn lle Siarl daeth ei fab yntau Phylip II. Yr oedd y ddau hyn yn uno mewn un peth, sef casineb ffyrnig yn erbyn Protestaniaeth. Ond yr oedd rhyfel-rhyngddynt. Bu brwydr fawr o flaen St. Quentin. Ymysg y Ffrancod oedd yn ymladd yno yr oedd Coligni, oedd wedi hynny i arwain Huguenotiaid Ffrainc. Ymysg y Spaenod yr oedd William, oedd i ddod wedi hynny yn arweinydd Calfiniaid Holland. Yn Ebrill 1559, gwnawd heddwch Cateau-Cambresis rhwng y ddau frenin.

Ymysg y gwystlon anfonwyd gan Phylip i Paris, yr oedd William. Ryw ddydd, pan yn hela yng nghoed Vincennes, cafodd ei hun yn unig gyda brenin Ffrainc, y tra-chrefyddol Harri'r Ail. Dechreuodd y brenin siarad âg ef, gan ddweyd mor ofidus oedd oherwydd cynnydd heresi. Yna dywedodd fod cynghrair rhyngddo a Philip, arglwydd William ieuanc, i ddifodi'r pryfetach gwenwynig, fel y galwai y Protestaniaid, o'r byd. Yr oedd Harri'n meddwl fod y tywysog yn gwybod am y dealltwriaeth hwn oedd rhyngddo a'i feistr i ddefnyddio y Chwyls a milwyr Alva i lethu'r grefydd newydd.

Gwrandawodd William mewn syndod a dychryn ar ysgwrs y brenin yn y coed. Ni ddywedodd air; ac am hynny y gelwir ef byth er hynny yn Dywysog Distaw.

Ond daeth cyfnewidiad dros ei enaid wrth wrando yn y coed. Yr oedd, hyd at hynny, wedi helpu'r Spaenod i lywodraethu'r Iseldiroedd. Ond yn awr gwelai mewn dychymyg ei ddeiliaid ffyddlon yn cael eu dirdynnu am eu crefydd gan chwylsyrw Spaen, a'u cartrefi'n cael eu hanrheithio gan filwyr creulon Alva. "Penderfynais â'm holl enaid," meddai, "y mynnwn weled ysgubo'r Spaenod o'r Iseldiroedd." Yr oedd yn awr tua chwech ar hugain oed.

Aeth adre. Yr oedd Phylip yn cynllwyn, â'i holl allu penderfynol, pa fodd i lethu Protestaniaeth yn yr Iseldiroedd a Lloegr. Piododd frenhines Lloegr; penderfynodd lethu'r Diwygiad yn y ddwy wlad drwy dân y stanc a dirdyniadau'r arteithglwyd.

William oedd gwir dywysog yr Iseldiroedd. Anfonodd Phylip esgob cyfrwys Arras, ac yna ei chwaer Margaret, i lywodraethu'r wlad. Yr oedd y Chwyls a'r milwyr yn dod. Yr oedd nerth William a phenderfyniad y bobl yn cryfhau hefyd.

Yn niwedd 1566, torrodd yr ystorm. Ni ellid rhwystro rhyferthwy'r Diwygiad mwy. Rhuthrodd tyrfa o ddiwygwyr cyffrous i eglwys gadeiriol Antwerp, torasant y delwau, a chwilfriwasant y gwydr lliw. Pwy fedrai fesur llied Phylip? Beth a wnai y Tywysog Distaw?

CYFOETH TYRUS A'I HANFAD GWYMP.

[EZEKIEL XXVII.]

GAIR yr Arglwydd a ddaeth ataf drachefn, gan ddywedyd, Tithau fab dyn, cyfod alarnad am Tyrus; a dywed wrth Tyrus,

O dydi yr hon wyt yn trigo wrth borthladdoedd y môr, marchnadyddes y bobloedd i ynysoedd lawer, fel hyn y dywed yr Arglwydd Dduw; Tyrus, ti a ddywedaist, Myfi wyf berffaith o degwch. Dy derfynau sydd ynghanol y môr; dy adeiladwyr a berffeithiasant dy degwch. Adeiladasant dy holl ystyllod o ffynnidwydd o Senir: cymerasant gedrwydd o Libanus i wneuthur hwylybren i ti. Gweithiasant dy rwyfau o dderw o Basan: mintai yr Assuriaid a wnaethant dy feinciau o ifori o ynysoedd Chittim. Llian main o'r Aiff o symudliw oedd yr hyn a ledit i fod yn hwyli i ti; glas a phorffor o ynysoedd Elisah oedd dy dô. Trigolion Sidon ac Arfad oedd dy rwyfwyr: dy ddoethion di, Tyrus, o'th fewn, oedd dy long-lywiadwyr. Henuriaid Gebal a'i doethion oedd ynnot yn cau dy agennau: holl longau y môr a'u llongwyr oedd ynnot ti i farchnata dy farchnad. Y Persiaid, a'r Ludiaid, a'r Phutiaid, oedd ryfelwyr i ti yn dy luoedd: tarian a helm a grogasant ynnot; hwy a roddasant i ti harddwch. Meibion Arfad oedd gyd â'th luoedd ar dy gaerau oddi amgylch, a'r Gamadiaid yn dy dyrau: crogasant eu tariannau ar dy gaerau oddi amgylch; hwy a berffeithiasant dy degwch.

Tarsis oedd dy farchnadyddes oherwydd amlra pob golud; âg arian, haiarn, alcam, a phlwm, y marchnatasant yn dy ffeiriau. Jafan, Tubal, a Mesech, hwythau oedd dy farchnadyddion: marchnatasant yn dy farchnad am ddynion a llestri pres. Y rhai o dŷ Togarmah a farchnatasant yn dy ffeiriau â meirch, a marchogion, a mulod. Meibion Dedan oedd dy farchnadwyr; ynysoedd lawer oedd farchnadoedd dy law: dygasant gyrn ifori ac ebenus yn anrheg i ti. Aram oedd dy farchnadydd oherwydd amlled pethau o'th waith di: am garbuncl, porffor, a gwaith edau a nodwydd, a lian meinllin, a chwrel, a gemau, y marchnatasant yn dy ffeiriau. Judah a thir Israel, hwythau oedd dy farchnadyddion: marchnatasant yn dy farchnad am wenith Minnith, a Phannag, a mêl, ac olew, a thriagl. Damascus oedd dy farchnadydd yn amler dy waith oherwydd lliaws pob golud; am win Helbon, a gwlan gwyn. Dan hefyd a Jafan yn cyniwair a farchnatasant yn dy farchnadoedd: haiarn wedi ei weithio, cassia, a'r calamus, oedd yn dy farchnad. Dedan oedd dy farchnadydd mewn brethynau gwerthfawr i gerbydau. Arabia, a holl dywysogion Cedar, oedd hwythau farchnadyddion i ti am wyn, hyrddod, a bychod: yn y rhai hyn yr oedd dy farchnadyddion. Marchnadyddion Seba a Ramah, hwythau oedd dy farchnadyddion: marchnatasant yn dy ffeiriau am bob prif bêr-aroglau.

ac am bob maen gwerthfawr, ac aur. Haran, a Channeh, ac Eden, marchnadyddion Seba, Assur, a Chilmad, oedd yn marchnata â thi. Dyma dy farchnadyddion am bethau perffaith, am frethynau gleision, a gwaith edau a nodwydd, ac am gistiau gwisgoedd gwerthfawr, wedi eu rhwymo â rhaffau, a'u gwneuthur o gedrwydd, ym mysig dy farchnadaeth. Llongau Tarsis oedd yn canu ym danat yn dy farchnad; a thi a lanwyd, ac a ogoneddwyd yn odiaeth ynghanol y moroedd.

Y rhai a'th rwyfasant a'th ddygasant i ddyfroedd lawer: gwynt y dwyrain a'th ddrylliodd ynghanol y moroedd. Dy olud a'th ffeiriau, dy farchnadaeth, dy forwyr, a'th feistriaid llongau, cyweirwyr dy agennau, a marchnadwyr dy farchnad, a'th ryfelwyr oll y rhai sydd ynnot, a'th holl gynulleidfa yr hon sydd yn dy ganol, a syrthiant ynghanol y môr, ar ddydd dy gwmp di. Wrth lef gwaedd dy feistriaid llongau, y tonnau a gyffroant. Yna pob rhwyfwr, y morwyr, holl lywyddion y moroedd, a ddisgynnant o'u llongau, ar y tir y safant; a gwnant glywed eu llef am danat, a gwaeddant yn chwerw, a chodant lwch ar eu pennau, ac ymdrybaeddant yn y lludw. A hwy a'u gwnant eu hunain yn foelion am danat, ac ymwregysant â sachlian, ac a wylant am danat â chwerw alar, mewn chwerwedd calon. A chodant am danat alarnad yn eu cwyntfan, a galarant am danat, gan ddywedyd, Pwy oedd fel Tyrus, fel yr hon a ddinistriwyd ynghanol y môr! Pan ddelai dy farchnadaeth o'r moroedd, diwellit bobloedd lawer; âg amllder dy olud a'th farchnadaeth y cyfoethogaist frenhinoedd y ddaear. Y pryd y'th dorrer gan y môr yn nyfnderau y dyfroedd, dy farchnad a'th holl cynulleidfa a syrthiant yn dy ganol. Holl breswylwyr yr ynnysoedd a synnant am danat, a'u brenhinoedd a ddychrynant ddychryn; hwy a dralloidir yn eu hwynebau. Y marchnadyddion ym mysig y bobloedd a chwibanant arnat: dychryn fyddi, ac ni byddi byth mwyach.

LLOSGFYNYDD Y MOR.

Y MAE mynyddoedd uchel yng ngwaelod y môr, rhai a'u pennau ymhell uwchlaw'r wyneb. Pennau mynyddoedd yn y golwg yw ynnysoedd.

Y mae llosgfynyddoedd yng ngwaelod y môr, yn dal i daflu tân i fyny i'r dyfnderoedd mawr. Berwa'r dwfr o amgylch eu copâu.

Y mis diweddaf colodd y llong ryfel Brydeinig Ringarooma un o'i *torpedoes* yn ymyl ynnysoedd yr Hebrides Newyddion. Anfonwyd tri suddwr i lawr i'r môr i chwilio am dano. Ond yr oeddynt uwchben llosgfynydd, a chawsant fod y dwfr yn berwi ar y gwaelod.

Pan oera'r ddaear, rhuthra dyfroedd y môr i mewn iddi. A dyna, yn ol rhai, fydd diwedd y byd, dim digon o ddwfr yn aros i gael gwlaw.

CARCHAR Y DYN DU.

YN niwedd y flwyddyn 1883 aeth Cymro, yng nghwmni cyfaill, i weled un o garcharau y dyn du. Safai ychydig bellder o bentref Rock Mart, Swydd Polk, talaeth Georgia, deheubarth Unol Dalaethau America. Adeilad coed, cadarn, hirgul ydoedd, a drws yn un pen iddo. Ar gyfer drws y carchar, yr oedd caban y gwyliwr; safai gwyliwr yno fel delw, a'i ddryll llwythog yn ei law yn barhaus. Yr oedd yno hefyd ddau o waedgwn cryfion i'w gynhorthwyo, pe buasai angen am hynny. Safai yr adeilad yng nghanol coedwig dywell, heb fod ymhell o'r ffordd haiarn. Cynhwysai ugeiniau lawer o garcharorion negroaidd. Gellid tybio, yn ol yr olwg arnynt, eu bod yn mwynhau eu byd yno. Canai rhai, ysmaliai ereill. Yr oedd y carchar wedi ei rannu yn debyg i ystablau Cymru, a rhyw nifer o'r carcharorion ymhob rhan. Arferid cyflogi, ac anfon allan ryw nifer ohonynt yn ddyddiol; gellid eu gweled, yma ac acw yn y cylchoedd hynny, yn gweithio i gymerwyr (*contractors*) o bob math. Gosodid cadwen hyd cam byr wrth aerwy am y meilyngau (fel llyfethair ar geffyl yng Nghymru). Adnabyddid hwy wrth yr enw "Chain Gang." Llywodraethid hwy yn ystod y dydd gan swyddog o'r carchar, yn cario llawddryll llwythog.

Yr oedd y dieithriaid yn talu llawer o sylw i'r gwaedgwn. Adroddai y swyddog hanes lliaws o orchestion y cwn gyda ffoaduriaid. Ond dywedai fod un carcharor, dro yn ol, wedi llwyddo i ddianc i ffordd. Yr oedd hwnnw yn y benydfa ers tro, ac wedi cael tipyn o ryddid i fynd a dod wrth alwad y swyddogion. Cafodd gyfle drwy hynny i wneyd cyfeillion o'r cwn.

Ryw ddiwrnod collwyd golwg ar y carcharor, ac ar y cwn hefyd. Daeth y ddau waedgi yn ol ymhen rhai dyddiau. Ond ni chafwyd gair o hanes y ffoadur hyd y dydd hwnnw. Rodgers ydoedd enw y prif swyddog. Dywedai ei fod o waedoliaeth Cymreig. Bu mor garedig a dangos i'r ymwelwyr y modd y gallai y gwaedgwn "weithio."

Galwodd ar garcharor ieuanc, heini, allan. Dywedodd wrtho am fynd drwy y coed ar gylch, fod arno ef eisiau i'r cyfeillion dieithrgael gweld y cwn yn gweithio. Ymaith a'r llanc du mor fuan ag y gallai ei draed ei gario. Ymhen ysbaid o hanner awr gollyngwyd y cwn yn rhyddion. Chwiliasant am lwybr y ffoadur, a chawsant o yn fuan. Collwyd golwg ar y cwn. Clywid eu swn yn mynd drwy y coed ar gylch. Toc safasant yn agos i'r carchar. Wedi mynd yno, cafwyd y ddau waedgi a'u traed blaen ar goeden uchel, a'r carcharor wedi dringo i'w brig er ei ddiogelwch. Sicrhaodd y swyddogion y cwn, daeth y llanc i lawr, a gwnaeth y goreu o'i draed i'w hen drigfan.

Penmachno.

OWEN T. DAVIES.

Y CYSGWR YM MODDION GRAS.

(DARN I'W ADRODD.)

DIGRIFOL olygfa! A welwch chwi'r cysgwr
 Yn dechreu pendympian a'i law dan ei ben?
 Mae'n porthi'r gwasanaeth â'i foes-ymgrymiadau,
 Mae'n cau ei ddau lygad i weld hwnt i'r llen;
 'Mhen yspaid bydd cynnydd ym mhwysau ei benglog,
 Yn sydyn mae'n llithro i gyfeiriad y llawr;
 Mwy sydyn na hynny daw eto i fyny,
 A'r cysgwr digywilydd ymsytha fel cawr.

Newidia'r olygfa! 'Nol cau ei ddau lygad
 Ar wagedd y pethau a welir is nen,
 Mae'n agor ei enau yn llawn ddigon llydan
 I brofi'n derfynol mor wag yw ei ben;
 Mae gweld y cysgadur a'i safn yn agored
 Ar ddiwrnod teg hafaidd yn temtio y pryf
 I hedeg yn union, rhwng dannedd y gwirion,
 A cherdded ei dafod yn hynod o hyf.

Gwaethyga'r olygfa! Mae'n syrthio i drwmgwsg,
 Breuddwydia'n anesmwyth am lewod a moch,
 Mae'n chwynu fel mochyn ei hunan, tra 'i boeryn
 Yn treiglo'n anghynnes i lawr hyd ei foch.

Druenus olygfa! Ni wŷr y cysgadur
 Ei fod ef yr awrhon yn wir destyn gwawd,
 Edrycha fel hurtyn, wrth ddeffro yn sydyn
 Dan bwriad caredig o eiddo rhyw frawd.

Däifrifol olygfa! Tra cennad yr Arglwydd
 Yn gwahodd eneidiau i gymod â Duw,
 Dirmygu trugaredd a wna y cysgadur
 A llais yr efengyl ei hunan ni chlyw.
Ofnadwy olygfa! Yr enaid newynog
 A gysgodd yng nghanol goleuni y nef,
 Pan ddeffry yn sydyn yng ngwyddfod ei Farnwr,
 Angylion arswydant pan glywant ei lef.

Morfa Bychan.

W. D. JONES.

AT Y PLANT.

Y MAE amryw lyfrau pwrpasol wedi cyrraedd. Oddiwrth y Mri. Hughes daeth "Oriau Hamdden," llyfr bychan chwe cheiniog deniadol ar lyfrau gan Anthropos; a "Gorchestion Gwilym Bevan," ystori deimladwy am fywyd y gweithiwr, gan T. Gwynn-Jones, a darluniau gan J. R. Lloyd-Hughes. Oddiwrth Mr. D. Jenkins daeth cantawd,— "Plant y Nefoedd,"—ar eiriau Dyfed gan Mr. Dan Protheroe. Anfonodd F. Jaffrennou ei "Delen Dir," cyfrol ddestlus o farddoniaeth Lydawaid, a darluniau gan yr arlunydd ieuan gobeithiol Cymreig Pwyntil Meirion. Llyfr mwy na'r rhain yw "Cofiant a Phregethau Caleb Morris," gan yr athraw D. Tyssil Evans. Bydd adolygiad ar y rhain ac ereill, ac ar gylchgronau, yn rhifyn *Cymru* y mis hwn.

YN rhifyn *Cymru* am y mis diweddaf y mae R. Morgan yn dweyd hanes yr aderyn penfelyn, lili'r dyffrynnoedd, a chloch yr eos. Y mae'r Parch. D. Lewis, Llanelli, yn darlunio pregethwyr enwog a glywodd, a Thegwyn yn adrodd am gannmlwyddiant Wesleyaeth Gymreig. Y mae ynddo hanes siwrne i'r eira trawgyddol, hanes Cymry dyddorol ac enwog, caneuon byrion, a gwybodaeth lawer sydd wrth fodd hanesydd a hynafieithydd Cymreig. Cymerir traferth mawr, hefyd, gyda'i ddarluniau.

NID oes gennyf fawr ddim i'w ddweyd am hanes y byd. Amser rhyfedd, tywyll ydyw. Ni wyr neb beth sydd ar drothwy y ganrif newydd. Dioddefadau milwyr Prydain yn Ne Affrig, bradlofruddio brenin yr Eidal, ac yn enwedig y pryder ynghylch y llysgenhadwyr yn Pekin, ac ynghylch dyfodol China,—y mae y rhain, beth bynnag, i aros yng nghof y byd mewn hanes.

CANRIF llawn fu hon,—ni fu angenrheidiau bywyd, yn fwyd ac yn ddillad ac yn danwydd, erioed mor rad. Ond y mae y rhyfel yn gyrru prisiau i fyny ar garlam. Gwareder ni rhag rhyfel eto yn China; onide bydd y tlawd yn ein mysg yn teimlo min y dicddaf yn y gauaf sy'n dod.


DERBYNIAIS amryw ddarluniau, ystoriau, a phenhillion. Ymysg y plant, daw darluniau o ral o blant Amerig cyn hir.

YR wyf yn ddiolchgar iawn i'm darllenwyr am photograffiau o ambell lecyn tiws neu hanesiol, ac ychydig o hanes y fan. Mynyddoedd a rhaiaidrau ac afonydd, eglwysi a chapelau, ystrydoedd ein hen drefydd, ambell gartref o balasdy neu fwthyn, maes brwydr neu faes cymanfa, plant neu deganau, cwn neu gathod neu gywion ier,—y mae digon o bethau dyddorol i dynnu eu lluniau.

DYMA englyn Islwyn i'r nos a'r blodau,—

" A dŵr Nef dioda'r Nos
Fil o dyner flodionos;
Yna'n wyl oll dan len,—ant i huno,
Mwy, i freuddwydio am froydd Eden."

YR wyf yn cadw nifer o enwau Urdd y Delyn tan y rhifyn nesaf. Cewch enwau y ddau fuddugwr, sydd a'u darluniau yn y rhifyn hwn, y tro nesaf. Bydd llyfr bychan arall yn barod i'r Urdd cyn y gauaf.



NAWN HAF YN NORWAY.



CYMRU'R PLANT.

CYF. IX.

MEDI, 1900.

RHIF 105.

I FFWRDD AC ADRE.

Y MAE mwy o wyliau ac o deithio yn awr, y mae'n debyg, nag a fu erioed. Byddai milwyr a marchogion a phererinion yn teithio yn yr hen amser, ond ychydig oeddynt. Yr oedd y ffyrdd yn ddrwg, a pheryglon yn lluosog ar dir a môr.

Onid yn awr y mae bron bawb yn symud weithiau am dro o'i gartref a chylch ei waith. Mae trafaelio wedi dod yn beth hawdd a chysurus iawn. Ym mis Awst y mae gorsafoedd Llundain yn orlawn, a'r syndod ydyw o ba le y daeth cymaint o filoedd o bobl, ac ym mha le y gwnawd cymaint o ddillad mor wych. Ddydd a nos y mae trenau gorlawn yn eu cludo i'r dwyrain tua'r cyfandir, i'r gogledd tua'r Alban, ac i'r gorllewin tua Chymru a Chernyw a'r Iwerddon.

Try llawer i hafanau ac ynsoedd Norway, ac ereill i fyny'r Rhein, a rhai i'r tyndra i Baris, ereill i fynyddoedd y Swisiaid, ereill i'r môr.

Wedi teithio llawer gwlad, cydnabyddir fod teithio gartref mor ddyddorol a theithio yn unlle. Y mae llawer iawn i Gymro weled yn ei wlad ei hun. Cymered daith drwy sir Fon, er esiampl, Y munud y croeso Bont Menai, cofia gymaint o adgofion fedd am hanes yr ynys,—gwel fedd Henry Rees o'r bont; yn union daw at hen gastell hanesiol Beaumaris; oddiyno aiff at ddaear gysegredig Llânfaes, lle claddwyd gwraig Llywelyn a John Elias a Richard

Llwyd. Ac ymhellach yn yr ynys y mae cartrefi Goronwy Owen a Lewis Morris Mon.

Neu cymerer tro yn Nyffryn Clwyd. Eleni, yn enwedig, y mae'r dyffryn clodfawr yn ddyddorol i'r Methodistiaid Wesleyaidd, oherwydd yn Rhuthyn, gan mlynedd i ddiwedd y mis diweddfaf, y cychwynwyd Wesleyaeth Gymreig. Yn y dyffryn ceir cestyll Rhuthyn, Dinbych, a Rhuddlan. Ac onid yw Morfa Rhuddlan yn codi prudd-der yng nghalon pob Cymro? Ger Dinbych y mae mynwent yr Eglwys Wen,—lle'r huna Twm o'r Nant, Golyddan, a Thomas Gee. Yn Llanelwy y mae'r eglwys gadeiriol a chofgolofn cyfieithwyr y Beibl. A mwyn fuasai ambell dro i'r mynyddoedd, yn enwedig i Lansanan, i weled cofgolofn ei henwogion.

Neu cymerer tro ym Meirion, o'r Bermo i'r Bala. Nid oes wlad dlysach nac iachach yn y byd. Ac am adgofion hanes a llenyddiaeth,—ceir hwy ar bob llaw. Dafydd Ionawr, Ieuan Gwynedd, Sion Dafydd Las, Ap Vychan, Charles o'r Bala,—wiw dechreu eu henwi. Afon y Bermo, Castell Carndochan, Mynwent Llanecil,—ni fethwn lawer pe dywedwn mai dyna dri llecyn tlysaf Cymru.

Neu treulier wythnos yn Abergafenni, gyda'i hadgofion am hen Eisteddfodau. Pa gastell ág adgofion mor gyffrous a'r castell sy'n codi mor syth uwch dyffryn tlws yr afon? I un cyfeiriad y mae dyffryn prydferth y Wysg,—a Chrug Hywel, a chartref Henry Vaughan y Siluria. I gyfeiriad arall y mae Mynwy dlos gyf-oethog,—castell Raglan, mynachlog Gristercaidd Tintern, cartref Ifor Hael, gwlad Dafydd ab Gwilym ac Islwyn, a holl brydferthwch cyfareddol afon Wy.

Neu cartref am wythnos yn Abertawe. Os gwlaw, y mae yno lyfrgell ardderchog, a chroeso iddi. Os teg, pa amser mor ddifyr a'r amser dreulir ar fryniau heulog Gwyr?

Neu treulier yr amser yng ngardd Cymru,—yn neheubarth Penfro. Tlysni Dinbych y Pysgod, adgofion cestyll Manorbier a Carew a Phenfro a llu ereill, y daith hir i Dyddewi, tawelwch hyfryd y fangre bell honno,—dyma bethau nad anghofir wedi eu gwelod.

Neu cymerer dyffryn uchaf yr Hafren, o Lanidloes i'r Amwythig. Gwleidyddiaeth y Siartwyr, Sosialaeth Robert Owen, emynnau Ann Griffiths,—dyna ddigon heb fynd yn ol at ganeuon Owen Cyfeiliog a mynachod Ystrad Marchell.

Neu cymerer y gororau. Caer, Amwythig, Llwydlo, Henffordd, Caerloew,—mewn ychydig fannau yn y byd y mae cymaint o leoedd mor ddyddorol mor agos at eu gilydd.

Yn wir, gall pob sir yng Nghymru roddi cartref am wythnos o wyliau, a dangos rhyfeddodau y gall y meddwl ymhyfrydu yn yr adgof am danynt am flynyddoedd lawer. Ac i Gymro, y mae'r oll yn gysegredig.



YSTRYD YN SHANGHAI.

SHANGHAI.

AR hyn o bryd, y mae llygaid y byd ar China. Yr Ewropeaid sy'n byw yno sydd yn llenwi meddwl pawb yn awr. Y mae tua 13,000 o dramoriaid yn China; ac o'r rhain, y mae eu hanner ym mhorthladd mawr Shanghai. I'r porthladd anferth hwn, ac i'w ystrydoedd prysur rhyfedd, daw gwerth tuag ugain miliwn o bunnau o wledydd Ewrob, yn enwedig o Brydain, bob blwyddyn. Daw'r llongau bob dydd fel adar llwythog o'r môr, gan gludo llieiniau, edafedd, hoelion, barrau heyrn, llestri alcan, arfau dur, olew, glo, sebon, a phopeth bron welir mewn "siop pob peth" yn llannau llonydd Cymru. Daw tuag deng mil ar hugain o dunelli o lo o Gaerdydd bob blwyddyn.

O Shanghai anfonir i'r byd nwyddau agnabyddir ymhob man,—te du, te gwyrd, defnydd sidan, a reis.

Dengys y tabl isod o dunelli llongau pwy sydd â'r fasnach

Thelaethaf a phorthladdoedd China. Am Shanghai yn unig y mae y ffigyrau hyn.

Prydain	4,300,000
Unol Dalaethau	116,000
Yr Almaen	535,000
Ffrainc	226,000
Sweden a Norway	138,000
Rwsia	84,000
Japan	578,000
China	1,760,000
Gwledydd ereill	74,000

Cyfanswm.. 7,809,000

Y mae cynddaredd yn China yn erbyn masnach a thramoriaid a Christionogaeth. Y mae tair prif grefydd yn China,—Confuciaeth, Buddistiaeth, a Taotiaeth. Crefydd syml ddiaddurn yw'r gyntaf, gwneyd yn ol dysgeidiaeth y gŵr sanctaidd Confucius, oedd yn byw rhyw ddwy fil o flynyddoedd yn ol. Crefydd ddaeth i China ryw 1,800 mlynedd yn ol yw Buddistiaeth. Athroniaeth wedi dirywio i ddefodaeth yw Taotiaeth. Y mae i Fuddistiaeth a Taotiaeth demlau ardderchog, yn llawn o eilun dduwiau gwyhion. Gall yr un dyn berthyn i bob un o'r tair crefydd ar unwaith. Ni chynhelir yr un grefydd gan y Llywodraeth. Yr Ymherawdwr yw'r arch-offeiriad ar yr uchel wyliau; efe abertha ar "Allor y Nefoedd" yn Peking.

Mae yn China, hefyd, ddeng miliwn ar hugain a Fahometaniaid, miliwn o Babyddion, a thua hanner can mil o Brotestaniaid.

PWY FEDR NOFIO?

PWY fedr nofio? Llygod, yn gampus,—yn fawr a bach. Gallant nofio mor naturiol ac mor esmwyth a cherdded.

Yn afrosgo iawn y medr y wiwer nofio. Dywedir yr eistedd ar bren yn mynd gyda'r dŵr, ac y cwyd ei chynffon lydan i fyny i ddal y gwynt, fel hwyl llong, i fynd yn ei blaen.

Gall cwningod a ysgyfarnogod nofio yn eithaf mewn dŵr llonydd, ond ofnant dŵr chwyrn, a throant yn eu holau.

Yr oedd gŵr yn sefyll ar lan Llyn Tegid unwaith. Gwelai gynhyrfiad yn y dwr, yn araf ddod ato. Beth oedd yno ond twrch, wedi nofio ar draws y llyn. Pan welodd y twrch y dyn, trodd yn ei ol, a nofiodd ar draws y llyn eilwaith. Nofiodd felly rhwng dwy a thair milltir cyn dod o'r dŵr.

"DA WIL!"

(UN O STRAEON HANS ANDERSEN.)

YR wyf am adrodd wrthyach stori glywais innau pan yn fachgen. Hi ai'n dlysach bob tro y clywn i hi. Ceir rhai straeon felly, fel rhai pobl,—po hynaf y maent yn mynd, gore oll y maent yn edrych.

Chwi fuoch yn y wlad lawer gwaith, mi warantaf. A welsoch chwi erioed yno yr un hen ffermdy to gwellt? Y mae mwsogl a glaswellt hyd ei do, a nyth gwennol bob amser dan ei fondo. Ymhle y gwelodd neb erioed do gwellt na fyddai gwennol wedi mynnu gwneyd ei nyth ynddo? Hen barwydydd digon ceimion sydd i'r tŷ, ei ffenestri oll yn isel, a dim ond un ohonynt wedi ei gwneyd i agor. Ger y drws dacw gut Tango'r ci, sydd,—fel pobci cadw da,—yn cyfarth ei hochr hi ar ol pawb el heibio.

Dyna i chwi'n gymwys y ffermdy lle'r oedd yn byw hen ŵr a hen wraig. Nid rhyw lawer o bethau'r byd oedd ganddynt ar eu helw; ac eto yr oedd ganddynt un peth y medrent wneyd y tro hebdo. Eu ceffyl oedd hwnnw, arferai bori'r gwellt hyd ochrau'r ffyrdd. Mynych y marchogai'r hen wladwr ei hunan ei geffyl tua'r dre, a llawn mynychach na hynny y rhoddai ei tenthg y'w gymdogion, y rhai a lwyddent i ad-dalu'r gymwynas trwy ryw dro caredig neu gilydd. Er hyn i gyd, tybiai'r hen ŵr a'r hen wraig mai gwell fyddai ceisio gwerthu'r ceffyl, neu, o'r hyn lleiaf, ei ffeirio am rywbeth atebai eu diben yn well. Ond dyna'r cwestiwn, am ba beth?

"Tydi ŵyr hynny oreu, Wil," ebe'r wraig. "Mae hi'n ffair heddyw fel mae'n digwydd. Beth pe marchoget ti i'r dref i werthu'r ceffyl neu i'w ffeirio am rywbeth neu gilydd? Wnei di ddim ond y peth gore. Dos dithau, da di, i'r ffair."

Hi glymodd ei gadach am ei wddf,—hyhi fedrai wneyd hynny oreu; gwnaeth ef yn ddwy ddolen daclus, nes yr oedd yn edrych yn dda. Yna hi dynnodd ei llaw hyd ei het, ac a roes iddo glamp o gusan, gan ei gychwyn ar y ceffyl ag yr oedd ef naill ai i'w werthu neu i'w newid am rywbeth gwell. O, fe wyddai'r hen ŵr beth i'w wneyd!

Yr oedd yr haul yn prysur esgyn y ffurfafen, yr awyr yn ddi-gwmwl a glâs, a lluoedd lawer o bobol,—ar feirch, mewn cerbydau, ac ar draed,—yn ei gwneyd hi, drwy'r llwch, am y dref. Nid oedd gymaint a chysgod cawnen yn unman i'w gael rhag yr haul.

Yr oedd yno, ymysg y lliaws, ddyn yn gyrru ei fuwch i'r ffair,—cystal buwch ag a fynnai neb byth. "Cawsem beth wmbredd o laeth gan nacw," meddyliai'r hen wladwr wrtho'i hun. "Fedrwn i byth wneyd bargaen well na ffeirio'r ceffyl am dani."

"Hei, ddyn y fuwch!" eb efe. "Mi ddywedaf i chwi beth, y mae ceffyl yn werth llawer rhagor na buwch, mi wn o'r gore; ond nid wyf yn malio mo hynny; mi fydd buwch o fwy o gwasanaeth i mi ar hyn o bryd, ac mi ffeiriaf hefo chwi, os mynnwch."

"Bodlon fi," ebe'r llall; ac aeth yn ffair.

Fuasai waeth i'r hen wladwr yn awr "deg edrych tuag adre," canys yr oedd ei neges wedi ei gwneyd; ond gan iddo gychwyn i'r ffair, rhy brin yr hoffai droi'n ol heb weled dim o honi, ac felly'n mlaen âg ef, gan yrru ei fuwch o'i flaen.

Ymhen ennyd daliodd ddyn a chanddo ddafad,—dafad dew, braf, ac arni gnu ardderchog o wlan.

"Buasai'n dda gennyf o 'nghalon gael y ddafad yna," meddyliai'r hen wladwr. "Gallai bori'r gwellt hyd ochrau'r ffyrdd, ac yn y gauaf gallem ei chadw yn y tŷ. Buasai ddafad, ar lawer ystyr, yn fwy cyfleus na buwch. Ffeiriwch chwi?" eb efe wrth y dyn.

"O gwnafl, a chroeso," ebe'r dyn. Tarawyd y fargen, ac ymlaen a'r hen wladwr a'i ddafad yng nghyfeiriad y ffair.

Nid hir y bu cyn cwrdd â dyn yn dod o ryw gae a chanddo wŷdd dan ei gesail.

"Dyna wŷdd braf sydd gennyf," ebe'r hen wŷr, "mae'n dew fel yr afal, a chnwd o blu ar ei chefn. Mi fuasai yn edrych yn ddel, wedi ei rhwymo hefo llinyn wrth y polyn sy'n ymyl y llyn. Dyna beth fuasai'r hen wraig acw'n hoffi gael; gallai hel rhyw hen ysbwrial yn fwyd iddi. Lawer gwaith y clywais i hi'n deisyfu cael gwydd! Yn awr dyma gyfle, a, wirionedd i, rhaid iddi gael un hetyd. Ffeiriwch chwi? Mi rof fi fy nafad yn lle eich gŵydd chwi, a theimlaf yn ddiolchgar ar y fargen."

Yr oedd y dyn yn ddigon boddlon, a chafodd yr hen wladwr yr wŷdd.

Yr oedd efe, erbyn hyn, ymron a chyrraedd y dref; a'r dorf wedi chwyddo cymaint nes yr oedd dynion ac anifeiliaid yn sathru traed eu gilydd, hyd y ffordd, ac hyd lwybrau'r ochor, ac hyd yn oed yn y cae tatws tros y gwrych. Yn y cae yr oedd iar y ffermwr, yn rhwym â llinyn gerfydd ei throed, rhag iddi ddychryn gan y dyrta a threio hedeg i ffordd. Cynffon fach, fach, gwta oedd gan yr iar; ac yr oedd hi'n cau ac yn agor ei llygaid gan edrych yn hynod ddoeth. "Clwc, clwc! clwc, clwc!" ebe'r iar. Beth oedd hynny'n feddwl, wn i ddim, ond y funud y gwelodd ein hen wladwr hi, dyma to'n gwaeddi,—

"Dyna'r iar brafiaf welais i erioed yn fy oes! Nid yw iar frid y person yn ddim byd iddi. Wirionedd innau, mi fuasai'n dda gen i gael yr iar yna. Mi fedr iar, o fewn dim, fyw arni ei hun. Ffeiriwch chwi?" eb efe wrth y ffermwr. A hi a aeth yn ffair. Cafodd y ffermwr yr wŷdd a'r hen wladwr yr iar.

Yr oedd yn dechre blino erbyn hyn, ar ol gwneyd cymaint o fusnes. Daeth i'w feddwl yr ai i'r dafarn am fara, a chaws, a chwrrw, Pan oedd ete ar y trothwy, deuai'r gwas allan trwy'r drws, a chyfarfu'r ddau a'u gilydd. Yr oedd gan y gwas sach trwm ar ei gefn.

"Beth sydd gennyti yn dy sach?" gofynnai'r hen ŵr.

"Afalau," ebe'r dyn, "hap dda i'r moch, sachaid cyfan."

"I'r moch? Wel dyna wastraff! Piti garw na welsai'r hen wraig acw nhw. Chawsom ni ddim ond un afal ar ein coeden ni y llynedd, a chadwasom ef ar y cwpwrdd derw i edrych arno nes yr aeth yn ddrwg. Arferai'r hen wreigan acw ddweyd ei fod yn rhywbeth i feddu arno. Beth ddywedai hi, tybed, am hyn,—sachaid cyfan? Piti garw na fedrai hi gael eu gweld nhw."

"Faint rowch chwi am danynt, y sach a'r cwbl?" gofynnai'r dyn.

"Mi wna i ffair hefo thi am yr iar yma," ebe'r hen wladwr; a dyna wnaed. Aeth a'r afalau i barlwr y tŷ tafarn, gan osod y sach yn ofalus a'i bwysau ar y stôf tra yr elai ef i'r *bar*. Ond yr oedd tân yn y stôf; ac ni ddaethai hynny yr unwaith i'w feddwl. Yr oedd y lle yn llawn o ymwelwyr, a phorthmyn, rhai'n gyrru gwartheg, a ffermwyr.

Yn eu plith yr oedd dau Sais, a'r rheiny mor gyfoethog nes yr oedd eu pocedau ymron a thorri gan aur. Yr oedd ar y ddau awydd betio, a—ond cewch glywed eto sut fu.

"H-i-s-s-s-s! h-i-s-s-s-s!" Yn eno'r dyn, beth oedd ar y stôf? Yr afalau oedd yn dechreu rhostio! "Beth sydd yna?" llefai'r gwahoddedigion.

"O, mi ddywedaf i chwi," ebe'r hen wladwr; ac allan a'r hanes o'r dechreu i'r diwedd,—yr holl ffeirio i gyd, gan ddechreu hefo'r fuwch a diweddu hefo'r sachaid afalau.

"Dyn a'm gwarchod! mi cewch hi'n braf pan ewch chwi adret," ebe un o'r ddau Sais. "Wel mi cewch hi gan yr hen wraig!"

"Cael beth?" ebe'r hen ŵr. "Mi ddywedaf i chwi beth gaf ganddi, mi gaf gusan, ac mae hi'n siwr o ddweyd 'Da Wil.'"

"Faint ddaliwch chwi?" ebe'r Sais. "Mi ddaliaf i chwi ganpant o aur yn erbyn canpwys o afalau."

"Does gen i ddim ond pecaid," ebe'r gwladwr; "mi fydd pecaid o aur yn ddigon, ac mi a rof fy hun a'r hen wraig yn y fargen; mi fydd hynny yn fesur da, tybed."

"Tarewch fy llaw i ynte." A gwnaed y fet.

Daeth y tafarnwr a'i gerbyd at y drws; aeth y gwladwr a'r ddau Sais iddo, ac ymaith a nhw am yr hen dŷ fferm.

"Wel, 'rhen wraig!"

"Wel, dithau, 'rhen ŵr!"

"Mi ffeiriais i."

"Mi wyddet ti sut i wneyd, mi w'ranta," ebe'r hen wraig, a chlamp o gusan iddo, heb sylwi'r unwaith ar y ddau ddyn dieithr nac ar y sachaid afalau.

"Cefais fuwch yn lle'r ceffyl."

"Gogoniant!" Wel mi gawn laeth, ac ymenyn, a chaws at ein hiws ein hunain. Dyna flair go lew."

"Ie, ond mi ffeiriais i'r fuwch am ddafad."

Mae hi'n gwella o hyd. Yr wyt ti'n cofio am bob peth. Bron ddigon o wair i ddatad sydd gennym, a chawn hefyd ei llaeth a'i gwlan. Caf ddigonedd o hosanau cynnes yrwan. Nid yw buwch yn werth dim am hosanau; yn wir, colli eu blew wnant hwy. Yr wyt ti'n cofio am bob peth."

"Ie, ond mi ffeiriais i'r ddafad am wydd."

"Wel wir, ynte, mi gawn wydd rôst cyn diwedd y flwyddyn. Mae'n rhaid mai o bwrpas i fy mhlesio i y gwneist ti hynyna. Caiff fynd o gwmpas dipyn, a llinyn am ei throed, nes pesgi rhagor byth."

"Ie, ond mi ffeiriais i'r wydd am iar."

"A ffair gampus wneist ti hefyd! Fe ddodwya honno wyau inni, ac fe gawn gywion bach, ac ymhen ychydig bydd gennym lond y buarth ohonynt. Lawer gwaith y dymunais i gael cadw ieir!"

"Ie, ond mi ffeiriais i'r iar am sachaid o afalau."

"Afalau! Wel wir, rhaid iti gael cusan ynte. Wel, beth feddyllet ti? Gynted ag y cychwynaist ti heddyw'r bore, mi ddechreuais feddwl beth ar y ddaear gawn i'n swper iti heno. O'r diwedd mi feddyliais am ham a chrempog; yr oedd gennyf wyau, a chennyf ham, ond nid oedd gennyf ddeiliach i'w rhoi ynddi. Ac felly mi eis i dŷ'r ysgolfeistr, canys gwyddwn fod ganddynt hwy ddigonedd. Ond hen grabasen yw ei wraig, er mor deg y medr hi siarad. Gofynnais iddi a gawn i fenthyg tipyn bach o ddeiliach.

"'Benthyg deiliach?' ebe hi, 'O, 'does gen i ddim i'w rhoi'n fenthyg! 'Does gennym ni ddim byd yn ein gardd. Fedrwn i ddim cymaint a rhoi benthyg yr un afal glâs i chwi, wraig bach!' Ac mi fedraf i yrwan roi benthyg deg iddi hi, neu sachaid cyfan os imyn! Y mae rhyw chwerthin arnaf wrth feddwl am y peth." A rhoes glamp o gusan braf i'w hen ŵr.

"Go dda wir!" ebe'r ddau Sais yn unllais. "O dlrwg i waeth 'bob tro, ac er hynny'n llawen drwy'r cwbl! Yr oedd yn llawn werth yr arian, bryd fyynnir, i gael dod yma i'w weld."

A dyma nhw'n talu pecaid o ddarnau aur i'r hen ŵr gawsai ei gusanu yn lle ei ddwrddio.

Ie; gwell i'r wraig bob amser yw sefyll wrth gefn ei gŵr a chefnogi popeth wna fel y peth callaf a gore.

ELIZABETH MARY EVANS.

UN o fodau cynnar y nefoedd ar y ddaear oedd yr eneth ieuanc anwyl uchod,—merch Mr. David Evans, Glanrafon, Bethesda. Ganed hi Mehefin 15, 1880, bu farw Ionawr 15, 1900. Dygwyd hi i fyny gan ei hewythr a'i mhodryb,—Mr. a Mrs. Cadwaladr Ellis, Bontuchaf,—oddiar pan oedd yn bum mlwydd oed. Un o ffyddloniaid eglwys y Carneddi fu hi o'i phlentyndod; a gellir dweyd iddi roi ei hoes fer ar y ddaear i gyd i Iesu Grist; bu yn "ffyddlon ar ychydig" mewn gwirionedd.

Ond nid wrth nifer ein blynyddoedd y mae Duw yn mesur bywyd, ond wrth ddyfnder ein hymgys-egriad. Gwybu hi yr Ysgrythyr Lân o'i mhebyd; trysorodd gannoedd o adnodau cyfoeth-ocaf y Beibl yn ei chôf ac yn ei ei chalon, a throisant yn faeth ac yn nerth gwirioneddol iddi. O! mor nerthol, O! mor brydferth yw bywyd a Iesu Grist yn enaid iddo; ac yr oedd bywyd Elizabeth Mary wedi ei guddio yn sicr gyda Christ yn Nuw, a hynny er yn gynnar. Un o "nwydau" llywodraethol ei bywyd byr fu casglu at y Genhadaeth Dramor,—bu wrthi yn ddyfal am flynyddoedd, a chafodd wobwr bob tro. Cynhygiodd Arholiad yr Ysgol Sul gyda chysondeb, a safai yn uchel ar y rhestr bob blwyddyn. Ysgrifennodd lawer i'r *Drysorfa*

o ysgrifau byrion ac adeiladol; ac i CYMRU'R PLANT fwy nag unwaith. Yr oedd yn hynod o fyw i ystori a gynhwysai foes-wers ergydiol a thlos; ac ond odid, pe cawsai fyw, nad allai ddisgleirio yn amlwg yn y gangen yma, fel aml un o'ch gohebwyrr. Yn sicr yr oedd ganddi *chwaeth* at lenyddiaeth, a honno y lenyddiaeth oreu,—bur a dihalogedig; yn wir, gallai hi aroglu "y drwg" o bell, a ffeiddiai ef â'i holl galon. Tarewid ni yn aml â'r syniad ei bod yn hŷn na'i hoed (fel y dywedir) gan ei phrofiad addfed ynghyd â'i sylwadau tarawiadol mewn ymddiddan.



ELIZABETH MARY EVANS, BETHESDA.

Fel y galleid ddisgwyl, gellir ddweyd ei bod yn "fawr mewn gweddi,"—dyma anadl ei bywyd hi. Dioddefodd lawer o gystudd yn ei dydd byr; a deallwyd ei bod yng nghafael y darfededigaeth, yn prysur gilio i fyd sydd well. Cawsom y fraint o ymweled â hi yn ei misoedd olaf, ac yr oedd ei phrofiad yn felus odiaeth. Er dioddef o honi gan besychiadau blin, ac er cyfynged yr anadl naturiol,—eto, deallasom fod ei henaid "yn anadlu tua'r lan" yn rhwydd a diymdrech. Ryfedd tuddugoliaeth ffydd!

Nid oedd arni ofn marw,—dywedai hynny yn groew ar fin y glyn. "Cytamod tragwyddol," meddai, "a wnaeth Efe â mi." Ac ar bwys y cyfamod hwnnw yr ymadawodd am y Tir Dymunol. Ychydig cyn marw, gofynnai am i ni ganu y pennill canlynol yn ei chynhebrwng, yr hyn a wnaed gyda melus sain cyfeillion a chydabod,—

"Mor ddedwydd yw y rhai, trwy ffydd,
 Sy'n mynd o blith y byw:
 Eu henwau'n pêr-arogli sydd,
 A'u hûn, mor dawel yw."

Carneddi.

J. T. JOB.

ARWYR DINOD.

YN Aldersgate Street, Llundain, y mae lle newydd ei adeiladu i fforddion lechu rhag y tywydd. Ar y muriau cofnodir am arwriaeth ymysg y tlawd. Hyd yn hyn y mae pedwar cofnod ar y mur.

i. THOMAS GRIFFIN, llafurwr, Ebrill 12, 1899.

Ysgaldiwyd i farwolaeth mewn gwaith siwgr yn Battersea wrth droi'n ol i chwilio am ei gydymaith.

ii. WALTER PRART, gyttwr peiriant, } Gor. 18, 1899.
 HARRY BEAN, tanwr,

Tra'n cael eu llosgi a'u hysgaldio, aberthasant eu bywyd i achub tren cyflym Windsor.

iii. MARY ROGERS, ystiwardes y *Stella*, Mawrth 30th, 1899.

Aberthodd ei hun trwy roddi ei *life-belt* i arall, ac aeth i lawr o'i bodd gyda'r llong.

iv. STEPHEN FUNNELL, plismon, Rhag. 22, 1899.

Achubodd ddau fywyd, ac aeth yn ol i'r tân, ar berygl ei fywyd i achub geneth.

A fedr rhyfel ddangos mwy na'r arwriaeth yma? Onid oes mwy o'r dwyfol yn y natur ddynol ymhobman, mewn tlodi a dinodedd, nag ydym yn aml yn feddwl?

Y TY AR Y TYWOD.

EDRYCH! Edrych ar y tŷ prydferth draw,
 Ar fin y môr, a'i dawel don. Bu llaw
 Celfyddyd ar ei goreu wrth bob rhan
 Ohono. Ni fedd gongl heb fod o dan
 Archwiliad manwl ei berchennog craff,—
 Ei fur sydd sicr, a'i drawstiau'n rhuddyn praff.
 Ei ddrysau heirdd ddadgloa duwies iechyd
 I deyrn y dydd, ac yntau chwaon hyfryd
 I'w fynwes deifl. Gwél ei fenestri dengar,
 Gywreiniwyd gyda cheinion enfys liwgar;
 Mae'r môr yn siriol wenu yn ei wyneb
 A'i donnau'n tewi yn ei bresenoldeb.

Ond ust! Wele drowynt ar wibdaith drwy'r tywod,
 A'r daran ysgydwol yn rhwygo y nen;
 A llywydd y gauaf yn trefnu ei rengoedd
 Nes llanw yr wybren â phrudd-der uwchben;
 Elfennau dinistriol ddychwelant o'u cyngrair
 Er gwneyd ymosodiad hyd lannau yr aig;
 A'u bryd ar ddimchwelyd y tŷ ar y tywod;
 A gwneuthur yn garnedd y tŷ ar y graig.
 Y felten a egyr lifddorau y cwmwl,
 Nes syrthia ei gynnwys yn genllif o wlaw;
 A'r corwynt esgynna orsingoedd galanas,
 A nerthoedd y dwyrain i gyd yn ei law,
 Ymunant yn dymestl ar gonglau'r adeilad,
 Nes try sŵn y rhuthrbrawf yn fraw trwy y cread;
 Yr adail sy'n herio elfennau y ne'
 Tra'r corwynt yn methu troi llechen o'i lle.
 Ond Ah! Teyrn y weilgi sy'n gyrru ei luoedd
 I fyny i'w wyneb, mewn dyfalbarhâd;
 A'r tonnau ffröchionwyllt yn dal ar ei safle
 Fel byddin ddewrfrydig yn ennill y gâd;
 O dywod ei sylfaen gwnant wain i'r bidogau,
 Ei gonglau sy'n llaesu. Gwel acw ei furiau
 Yn syrthio dros—O! ei nen sy'n ddrylliau ynddo,
 A'r tonnau yn tynnu eu ffosgloddiau trwyddo.
 Y tŷ a'i berchennog a olchwyd i'r aig,
 'Does dim—dim i'w weld ond y tŷ ar y graig.

BERTHONIAN.

“Mor hawdd ydyw canu yn llafar.”

Allan o Gantawd “Plant y Nefoedd,” drwy ganiatod Mr. D. Jenkins, Mus. Bac. (Cantab).

DOH B β . *Andante cantabile.*

DAN PROTHEROE, MUS. BAC.

mf

S.	{	:s ₁		s ₁ :d :t ₁		l ₁ .t ₁ :l ₁ .t ₁ :l ₁ .t ₁		s ₁ .m ₁ :s ₁ :— — :— :s ₁	}
				Mor		hawdd yd-yw		can - u yn llaf - ar,	
								Wrth	
A.	{	:s ₁		m ₁ :m ₁ :s ₁		f ₁ .s ₁ :f ₁ .s ₁ :f ₁ .s ₁		m ₁ .d ₁ :m ₁ :— — :— :m ₁	}

{	:s ₁ :f ₁ :m ₁ r ₁ :l ₁ :s ₁	m ₁ :— :— — :— :s ₁	}
	gof - io yn deu - lu cy - tun,		Fod
	m ₁ :r ₁ :d ₁ t ₂ :t ₂ :t ₂	d ₁ :— :— — :— :m ₁	

{	:s ₁ :d :t ₁ l ₁ .t ₁ :l ₁ .t ₁ :l ₁ .t ₁	s ₁ .m ₁ :s ₁ :— — :— :l ₁	}
	Duw a - ddew - id - ion y ddae - ar,		Yn
	m ₁ :m ₁ :s ₁ f ₁ .s ₁ :f ₁ .s ₁ :f ₁ .s ₁	m ₁ .d ₁ :m ₁ :— — :— :	

				F.t.				
{	t ₁ :d :r m :r :d f	m :— :— — :— :m	}					
	par - a'n y nef - oedd yr				un		Yn	
	:	:		:	:m ₁ l ₁	s ₁ :l ₁ :t ₁ d :t ₁ :l ₁	}	
				Yn		par - a'n y nef - oedd yr		

				f.B β .				
{	m :— :— m :— :r	d s ₁ :— :— — :— :—	}					
	par - a yr	un.			un.		Mor	
	s ₁ :l ₁ :s ₁ f ₁ :f ₁ :f ₁	m ₁ .t ₂ :— :— — :— :s ₁	}		un.			
	un, Yn par - a yr				un.			

{	:	:		:	:	d :t ₁ :d m :s :—	}
				Mor		hawdd yd - yw can - u,	
	s ₁ :f ₁ :m ₁ r ₁ :l ₁ :s ₁	m ₁ .f ₁ :s ₁ :— — :— :s ₁	}		hawdd yd - yw can - u yn llaf - ar,	Wrth	

{	— :— :— — :— :—	— :— :— — :— :s ₁	}
		Fod	
	s ₁ :f ₁ :m ₁ r ₁ :l ₁ :s ₁	m ₁ .f ₁ :s ₁ :— — :— :	
	gof - io yn deu - lu cy - tun		



UCHELGAIS.

MAE pob plentyn, wrth natur, yn uchelgeisiol. Hoff iawn yw tipyn o duedd cilio mewn plentyn, hyd yn oed os bydd y duedd mor gref nes gwneyd y bachgen yn yswil. Er hynny, dan y distawrwydd a'r yswildod, y mae awydd bod yn rhywbeth a gwneyd rhywbeth.

Y mae plant, fel popeth ieuanc, yn chwareus. Os yn iach y maent wrthi â'u holl egni, o fore glas tan â chwsg yn drech na hwy. Pan ddeffroant y bore, eu meddwl cyntaf yw codi; ac ni roddant eu chware heibio nes bydd yr amrant yn drom ar y llygad nwyfus a chwsg yn graddol feddiannu coes a braich. Ac yn hyn y mae plant yn esiampl i bawb. Ynni a gwaith sy'n naturiol i bawb, a gorffwys a chwsg pan fo raid.

Gadawer i blentyn chwareu digon. Os medrir, gwnaer ei addysg mor ddifyr a chwareu iddo. Dysger ef i ddysgu ei hun. Y mae hanes creaduriaid,—yn enwedig yr adar a'r pethau sydd o'i amgylch,—mor bwysig iddo ef a hen frenhinoedd diddrwg didda sydd wedi marw. Rhodder arfau saer coed a saer maen yn ei law. Danghoser iddo beirianwaith. Dyweder wrtho pa fodd y defnyddir nerth dyn, nerth march, nerth ager, nerth trydan. Dyweder am lwybrau'r moroedd, ac am y feddodau gwledydd pell. Dadblyger gallu ei law, a dadblyger ei ddychymyg. Y mae iechyd a medr



llaw ac uchelgais yn well na dim arall fedrir roddi i blentyn. Os gadewir cyfoeth iddo, mwyaf yn y byd o eisiau ei ddysgu sydd. Gall cyfoeth fod yn felldith i blentyn, nis gall medr llaw a deffroad meddwl fod yn ddim ond bendith.

Gadawer i blentyn gymeryd at y peth y mynno. Os cymer at orchwyl sydd ychydig yn fwy gwerinaidd na gorchwyl ei dad, gadawer iddo. Os cymer y plentyn at drin neu yrru anifeiliaid, cofier fod yr alwad yn anrhydeddus cyn fod son am alwad athraw na seneddwr, bancer na thwrnai. Os cymer geneth at goginio, cofier mai dyna un o alwedigaethau pwysicaf, hynaf, a mwyaf anrhydeddus y byd. Llawer gwell yw i eneth fedru gwneyd bwyd maethlawn blasus na medru gyrru *type-writer* am ychydig geiniogau yn y dydd.

Uwchlaw pob peth, dysger plentyn fod anrhydedd, yn ogystal ag elw, ymhob llafur. Nid yw golchi'r llawr yn anfri ar frenhines, y mae cyffyrddiad â rhaw yn fwy o anrhydedd i law brenin na chyffyrddiad â'r cledd. Os ydyw addysg yn dysgu i fachgen neu eneth garu diogi, ac yn eu dysgu i ddiystyrru unrhyw waith angenrheidiol, y mae yn addysg y buasai yn well iddynt hebddo.

Clywais gwyno droion fod plant yn gorfod dysgu pethau yn yr ysgolion nad ydynt o ddim budd. Y mae peth sail i'r gwyn, ond daw pethau'n well, a hynny cyn hir. Bydd addysg plant Cymru yn ddoethineb, yn ddedwyddwch, ac yn allu eu bywyd.

O HEN LYFRAU YR OES O'R BLAEN.

II YR AFAL.

(O'r "Dyagedydd," 1838.)

YM mhalas y brenin Herod preswyliai gŵr cyfoethog, yr hwn oedd brif ystafellydd y brenin, yr hwn a wisgai ei hun mewn porffor a llian main, ac a gymerai fyd da, yng nghanol pleserau y bywyd hwn.

Daeth, ar ddamwain, un o gyfeillion ei ieuencyd o wlad bell i ymweled âg et; yr hwn nas gwelsai er's blynyddoedd. Yr ystafellydd, er rhoddi pob croesaw iddo, a wnaeth wledd fawr, ac a wahoddodd lawer o'i gyfeillion. Ar y bwrdd gosodwyd llawer o ddsylglaucostus o aur ac arian, a chwpanau yn llawn o enaint a gwin o bob math. A'r gŵr bonheddig a eisteddai yn uchel ar y bwrdd, ac a wnaeth bob ymddanghosiad o fyd da; ac ar ei law ddehau yr eisteddai ei gyfaill, yr hwn a ddaethai o wlad bell. A hwy a fwytasant, ac a yfasant, ac a gymerasant bob llawenydd. Yna dywedai ei gyfaill o wlad bell wrtho,—

“Ni welais erioed yn fy ngwlad, ymhell nac yn agos, y fath ymddangosiadau gorwychaidd ag yn dy dŷ di.”

Ac efe a'i gosododd allan fel y mwyaf dedwydd o feibion Adda.

Yna, yr ystafellydd cyfoethog a gymerai afal o phiol aur yn ymyl. Yr oedd yr afal yn un mawr, ardderchog yr olwg arno, yn ymddangos yn allanol fel porffor. Ac efe a gymerodd yr afal, ac a ddywedodd,—“Gwel, y mae'r afal hwn yn ymddangos yn un hardd iawn yr olwg arno.”

Ac efe a'i hestynnodd i'r gŵr dieithr, ei gyfaill o'i ieuencyd; a'r dieithr a rannodd yr afal, ac wele bryf yn ei ganol. Y dieithr a edrychai yn syn ar yr ystafellydd cyfoethog. Ond efe a edrychai i lawr tua'r ddaear, ac a ocheneidiai yn chwerw.

Ddarlennydd, cofia fod pryf yng nghanol gwleddoedd gwyfach y ddaear; fod pryf yng nghanol y palasau harddaf; fod pryf yng nghanol yr aur a'r arian; fod pryf yn y wyneb teg; fod pryf yn y cwmpeini llawen; fod pryf yng nghwpan y meddw; a bod pryf yn y ddawns, a'r holl chwaryddiaethau a gynhelir ym mhlith dynion.

Nid oedd y pryf i'w weled yn yr afal nes ei rannu a'i chwilio; ac y mae y pryf sydd ym mhethau y byd hwn yn ymguddio allan o'r golwg nes eu chwilio. Yng nghanol afon yr Iorrdonen y gwel llawer y pryf, yno y teimlant ef gyntaf; ond efe a fydd yn “bryf na bydd marw.” Gochelwn fagu y pryf yn ein mynwesau yn awr.

S. DAVIES.

CAPEL EIRIANALLT.

SAIF Capel Eirianallt ar waelod bryn bychan yng ngodrau mynyddoedd y Berwyn, ac ar fin ffordd fawr Llundain a Chaergybi. Yn ochr y ffordd hon y mae y reilffordd yn rhedeg o Riwabon i'r Bermo; ac yn ochr y reilffordd mae afon Dyfrdwy, ac yn ochr y Ddyfrdwy mae y camlas, yr hwn sydd yn mynd i amryw barthau yn Lloegr. Mae y rhai hyn oll yn gyfochrog, ac mor agos i'w gilydd fel y gall dyn daflu carreg drostynt oll. Gerllaw i'r capel, ar yr ochr arall i'r afon, y mae Bryn Tysilio, preswylfa Syr Theodore Martin, a'r ddiweddar Lady Martin (*Helen Faucit*). Y gŵr hwn ysgrifennodd Hanes Bywyd y Tywysog Cydweddog. Talodd Brenhines Prydain Fawr ymweliad â'r plâs pan y bu yng Nghymru. Hefyd talodd Robert Browning ymweliad â'r lle. Mae y cymydog-aethau yn brydferth a rhamantus dros ben.

Rhywbryd o 1840 i 1845 adeiladwyd Capel Eirianallt. Cyn hynny cynhelid Ysgol Sul yn y Feifod, ac wedi hynny mewn tŷ annedd yn Tan y Bedw, a byddai brodyr o Langollen yn myned bob yn ddau o dŷ i dŷ yn y Feitod, Rhysgog, Dolfawr, &c., i gynnal cyfarfodydd gweddi, i bob tŷ yn ei dro. Yr oedd rhestr o enwau y cyplau a

aent yn ysgrifenedig â sialc tu fewn drws cloer yn wal Hen Gapel, Llangollen,—darllawdy ar ol hynny. Gwelwyd yr enwau yno ymhen blynnyddoedd ar ol ei droi yn ddarllawdy. Nis gwyddom a ydynt yno yn awr. Un cwpl oedd Dafydd Jones, Penllwyn (tad y Parch. John Jones, Rhiwabon), a Richard Jones y crydd; dau enwog am ddarllen a gweddio.

Adeiladwyd Capel Eirianallt ynghanol y cymdogaethau y cynhelid y cyfarfodydd gweddio, a chrynowyd y moddion yn y capel, a pheidiasant yn y tai. Ar ddydd agor y capel am y waith gyntaf



CAPEL EIRIANALLT.

[Darllun gan J. E. Evans, Llangollen.]

y pregethwyr oedd Thomas Francis, Gwrecsam, a'r Parch William Pierce, Rhosesmor. Pregethodd y cyntaf oddiar Galatiaid iii. 13, a'r olaf oddiar Philippiaid i. 27. Pregethent yn y ffenestr gan fod y capel yn llawn, a nifer o bobl yn methu myned i mewn.

Cynhelid ysgol bob bore Sul yn Eirianallt, dan ofal Dafydd Hughes, Tan y Capel (yr hwn yn ddiweddarach a aeth i dyddyn yn Cefnddwygraig, ger y Bala, wedyn i Lanelidan, ac yna i'r America, lle y bu farw), a John Jones y saddler, yr hwn a anwyd yn Llanarmon, ac a brentisiwyd yn Rhuthyn, ac a ymgartrefodd yn Llangollen, Gŵr da oedd, defosiynol, a defnyddiol ar hyd ei oes. Efe oedd yn llywyddu yr Ysgol, ac yn gofalu am y cyhoeddi a'r casgliadau. Unwaith anghofiodd am y casgliad, a gadawodd i'r bobl i gyd fyned allan, ond pan gofiodd gwaeddodd ar eu holau am y casgliad, a daeth pob un yn ol, a chyfrannodd fel arfer.

Y pregethwyr oedd Richard Edwards, Llanddyn; John Edwards, Dee Cottage; Hugh Jones, Llangollen; Thomas Hughes, Pentrefelin, a Dafydd Williams, Llangollen,—ynt i gyd wedi myned adref.

Yr oedd amryw o frodyr ereill y dylid eu henwi am eu ffyddlondeb; megis Richard Edwards y Rhysgog, a Thomas Davies y Rhysgog, a'u teuluoedd. Edward Jones, Bryn Newydd, a anrhegodd y capel a'r Beibl sydd yn bresennol ar y pwlpudd; Hugh Jenkins a William Jones, yr Henffordd; Edward Salisbury; William Williams; a hefyd William Jones, y Rhysgog, yr hwn a fu farw Chwefrol 27ain, 1900, ar ol bod yn llafurio yma dros ddeugain mlynedd. Yr oedd yn hynod am ei ffyddlondeb gydag achos yr Arglwydd, ac yn esiampl i bawb am ei gysondeb a'i brydlondeb yn y moddion.

Yn 1868 gwnaed helaethiad ar y capel, a darlun o'r capel wedi ei helaethu yw yr uchod. Gweinyddwyd Swper yr Arglwydd ynddo am y waith gyntaf gan y Parch. W. Evans, Rhuthyn, Awst 25ain, 1878.

Cynhelir yr Ysgol Sul bob bore Sabboth er pan adeiladwyd y capel hyd yn bresennol, ac yn y prydawn daw y pregethwr fydd yn Rehoboth, Llangollen,—y fam eglwys,—i bregethu i Eirianallt. Nos Sul bydd pregethu neu gyfarfod gweddi yn y capel. Ni chynhelid seiat yma tan 1878, ac nid yn aml wedi hynny nes daeth y Parch. William Ffoulkes, ein gofalus fugail, i'n plith. Daliodd yr achos ei dir yn dda ar hyd yr amser, ac y mae yn parhau felly hyd yn awr.

OL GWAITH GWEINIDOG.

Ac os ydyw'r llaw yn llonydd fu yn hau, mae'r had yn fyw,
Ac mewn llawer calon bellach aur dywyssen aeddfed yw.

CAMGYMERIADAU PLANT.

CRED llawer mai y Gwyddelod rydd yr atebion pertiaf o'r holl genhedloedd agosaf atom. Gall hyn fod yn wir i ryw raddau. Clywais lawer atebiad digrif gan Batric neu Fichael pan ar wibdaith drwy eu hynys y llynedd. Ond wedi'r cwbl, gwell gennyf fi atebion plant o dair i saith oed. Y maent yn fwy pur a doniol allan o'u genau hwy. Wele hanner dwsin, wedi tarddu oddiar gamgymeriadau.

AELS A LLIDIART. Yr oedd hen wraig o Eifionnydd ym mynd i edrych am ei merch oedd yn byw yn un o nentydd Eryri. Cyfarfu â nifer o blant yn dod o'r ysgol, y rhai oedd yn mynd i'r un cyfeiriad a hi. Yr oedd y ferch yn dod i gyffwrdd ei mam, a phan wrth lidiart terfyn oedd rhwng dwy fferm, canfu'r hen wraig hi, trwy i dwrff y llidiart wrth gau dynnu ei sylw. Ac meddai,—

“Aels ydi nacw, deudwch?”

“Nage, llidiart,” ebe un o'r hogiau mwyaf.

“Aels” fyddai yr hen bobl yn ei arfer am *Alice*, ond ni chlywodd y plant y fath enw erioed.

PRYNNU CATIAU. Yr oedd dau fachgen bywiog ym mynd i'r ysgol ystalwm o Nanmor i Feddgelert, ac yr oedd hen wraig o'r enw Elin Sion yn cadw siop fechan yn y fro. Byddai y bechgyn yn arfer a gwneyd negesau iddi am “dda da.” Un bore gwaeddai ar ben y drws wedi iddynt basio,—

“Ddowch chi ddim a gwerth swllt o gatiâu i mi o'r pentre?”

Gyda'r nos, aeth y bechgyn i'r efail i ofyn am y catiau. Chwarddai yr hen of boddlon Gruffydd William nes oedd yn siglo, a pherodd iddynt gofio dweyd wrth Elin Sion am anfon trol yno i'w cyrchu drannoeth. Aeth y bechgyn adref, a rhoddasant adroddiad syml o'u gwaith i'r hen siopwraig wrth basio. Bu honno yn petruso tipyn cyn deall y dirgelwch, ond pan welodd drwyddo, rhoddodd geiniog i bob un am gofio eu neges gydag esboniad eglur ar y gwahaniaeth rhwng “catiâu” a “gatiâu.”

Y CRYDD GLAS. Rhyw ddau neu dri o hafau yn ol, safai Sais ym Mwlch Aberglaslyn, neu Y Gymwynas, i wyllo creyr glas mawr oedd yn hofran ac yn curo ei adenydd yn erbyn y gwynt, i fyny uwchben y gagedor. Deuai bachgennyn dan chwibanu yn ddiotal, o gyfeiriad Beddgelert, a throdd y Sais ato, gan ofyn yn awdurdodol,—

“What is the name of that bird, boy?”

“Shoemaker blue, sir,” ebai'r Cymro bach.

Yna aeth y ddau ymlaen.

DAU HEN WR. O flaen drws amaethdy henafol Hafod y Foel ymae gardd eang. Byddai Enid, yr eneth leiaf, yn hoff o dreulio llawer o'i hamser ynddi, yng nghwmni ei thaid, yn trin y llyisiau a'r coed blodau. Un diwrnod, daeth cyfeilles o'r dref gyfagos i ymwelwedd â'r teulu, a chyn mynd i'r tŷ, rhoddodd dro drwy'r ardd brydterth. Mewn congî, 'roedd coeden "hen wr" fawr, a'r gwynt wedi digwydd ysigo ei changhennau gleision yn arw. Wrth weled hyn, gofynnodd yn sydyn i'r eneth,—

"Bedi'r mater a'r "hen wr," Enid?"

"Does dim byd arno fo, a fynta'n palu'n fanyna," meddai llais egwan yn ddiatreg.

Y DYN CYNTAF. Ym Mehefin, 1897, 'roedd Llanarddu, fel pob Llan arall, yn dathlu hir deyrnasiad ein brenhines mewn llawenydd. Wedi mwynhau te a bara brith, 'roedd Sgweiar Plas yr Helyg yn arhegu yr enillywr am chwareuon diniwed. Yr oedd cwpan arian hardd, ac arni ddelfw a nodiadau am Buddug, yn cael ei rhoddi i'r goreu am "ymryson rās." Daeth llu o gampwyr i'r ornest, ac yr oedd yr enillydd yngolwg y plant ar y pryd yn gystal arwr a'r un fu erioed.

Y Sul wedyn, ar ddiwedd yr ysgol, yr oedd hen athraw profiadol yn holi y plant yn "Rhodd Mam," ond yr oedd meddwl llawer crwtyn yn wibiog, gan gil-gnoi y *currants* oedd wedi aros yng ngwaelod eu llogell ar ol y diwrnod mawr. Toc, dyma'r gofyniad yn dod,—

"Pwy oedd y dyn cynta, 'mhlant i?"

"Hugh Jones, Tŷ'r Hendre," ebai cono parod wrth ddôr y set.

Y "BOERS." Y Nadolig diweddaf, yr oedd ton o brudd-der nawelwyd ei gyffelyb yn rhedeg drwy'r wlad hon, gan lwyrr feddiannu pawb, o'r frenhines i'r distadlaf o'i deiliaid, a hynny yn bennaf am fod Buller yn methu a chroesi'r Tugela i waredu Ladysmith.

Wedi i deulu Gelli'r Bryniau fwyta eu ciniaw, deuai llu o fechgyn yr ardal yno i ganu carolau ac alawon Cymreig. Ond yr oedd y rhyfel a'i stŵr yn drysu pob amcan. "Boers, Boers," oedd byrdwn eu cân o hyd.

Yr oedd Dei, dwyflwydd a hanner oed, yn gwranddo yn astud ar eu holl storïau cynhyrfus a phrudd, a phan oeddynt ar ganol ymgomio, dyma Grif y gwās yn troi y gwartheg allan o'r beudy oedd gerllaw, a dyma Mwynwen Fawr yn bretu am ei llo yn ei dull dramayddol ei hun.

"Be sy 'na 'rwan, *boys?*" ebai un o'r cwmni.

"Bôs! Bôs!! Bôs!!!" llefaî Dei, dan redeg i lechu am ei fywyd, i'r gornel bellaf o dan fwrdd mawr y gegin. Gorfuwyd gwastraffu llawer o ddonïau i'w ddarbwylllo rhag ofn y "Boers."

CARNEDD OG.

ARWRIAETH YR ISELDIROEDD.

VIII. Y CYNGOR GWAED.

YR oedd y grefydd newydd wedi meddiannu gwladwyr a marsiandwyr yr Iseldiroedd yn weddol lwyr, nid yn unig Holland wastad ddyfrlyd ein dyddiau ni, ond Antwerp a'r wlad elwir yn awr yn Belgium, a threfydd sydd yn awr yn Ffrainc, megis Valenciennes,—y lle yr enillodd ei gôr meibion yn Arddangosfa Paris y mis o'r blaen.

Yr oedd Phylip yr Ail wedi rhoi ei fryd ar lethu'r crefyddwyr. Arswydodd yr holl wlad pan glywodd fod Duc Alva a byddin o Ysbaenod yn dod i roddi grym yn ewyllys y Cyngor Gwaed. Nid oedd bosibl gwrthsefyll. Yr oedd llawer o'r uchelwyr, megis Egmont a Horn, yn credu y madd-euai Phylip i bobl Antwerp, ac mai ynfydrwydd oedd ei wrthsefyll. Ar hynny, yn brudd iawn, ciliodd y Tywysog Distaw i'r Almaen, i aros ei amser.

Pan ddaeth Alva, dywedodd Egmont fod croesaw iddo. "Croesaw neu beidio, dyma fi," oedd ei ateb sarhaus. Yn fuan iawn yr oedd Egmont a Horn mewn carchar. Dechreuodd y Cyngor Gwaed ar ei waith. Deuddeg o wŷr creulawn, bwystfilaidd oedd y Cyngor. Dygid tyrfaoedd o wŷr goreu'r wlad o'u blaenau, ac yn ebrwydd llusgid hwy wrth gynffonnau ceffylau i'r dienyddle. Llanwyd y wlad â chrogbrennau; yr oedd cyrff yn crogi oddiar bob coeden gar yffordd; nis gellid cerdded milltir heb weled meirw yn



TRAMWYFA YN HOLLAND.

rhwymedig wrth ystanciau, wedi hanner losgi,—yr oedd cyrff hebbennau ymhob man. Mewn ychydig wythnosau, dienyddwyd dros ddeunaw cant o bobl mewn dulliau barbaraid. Prin y gall hanes ddangos gwaith mwy erchyll na gwaith y Cyngor Gwaed. Os oedd yn well gan Phylip reoli anialwch na gwlad lawn o hereticiaid, yr oedd i gael ei feddwl. Yr oedd y wlad fwyaf goludog a llwyddianus ar y ddaear yn suddo i dlodi a dinistr.

Trodd llygaid y wlad orthrymedig druenus at y Tywysog Distaw. Ac ar yr un pryd gwyswyd ef a'i frodyr o flaen y Cyngor Gwaed.

Parotodd yntau. Anfonodd ei ddau frawd, Louis ac Adolphus, a byddin gyda hwy. Ymgyrrodd eu cydwladwyr yn lluoedd atynt. Ond beth oedd gwŷr di-brofiad, heb fedr nac arfau, i wynebu Ysbaenod disgybledig Alva, y milwyr goreu yn y byd?

Ym mhentref Heyligerlee bu brwydr chwerw. Ac er syndod i Ewrob, fodd catrodau disgybledig Ysbaen o flaen gwerinwyr yr Iseldiroedd, gan adael eu magnelau ar eu holau yn eu brys i ffoi.

Yn y frwydr cwmpodd Adolphus, y brawd ieuengaf,—y cyntaf o'r plant hapus welsom yng nghastell Dillenburg i farw dros ei wlad.

Y mae anfodion lawer i gyfarfod ei frodyr, cyn huno gydag ef. Ond y mae buddugoliaeth Heyligerlee wedi deffro'r Iseldiroedd. Ac un o bethau rhyfeddaf hanes yw gweled Spaen, gallu milwrol erlidgar y byd, yn gorfod cydnabod, yn y diwedd, grefydd ac anibyniaeth gwerinwyr arwrol y wlad wastad.

ESGYN MAE CYMRU.

ESGYN mae Cymru mewn bri,
Esgyn yn uwch uwch i fyny,
Trwy anhawsderau di ri
Esgyn o hyd y mae Cymru;
Addysg a chrefydd a chân,
Rhyddid, moesoldeb a rhinwedd,
Dyfant ar led Cymru lân,
Wisgant ein gwlad ag anrhydedd.

Os cafodd nos ei gordoi,
Torrodd y wawr,—daeth y dydd,
Heddyw mae'r rhod wedi troi,
Esgyn mae haul Cymru Fydd.

Dewr feibion Gwalia i'r gâd,
Casglwn ein rhengau digymar,
Unwn i godi ein gwlad
Fry, uwch holl wledydd y ddaear;

Rhostrufan.

Cwmped pob gormes i'w fedd,
Cilled pob drwg i'r cysgodion,
Ffoed anfoesoldeb rhag gwedd
Purdeb cymeriad ein meibion.
Os cafodd nos ei gordoi, &c.

Dringwn ar hyd grisiau dysg,
Sathrwn y rhwystrau, fel dewrion,
Na ddeled llwfrdra i'n mysg,
Canwn,—“I fyny mae'r goron.”
Noddwn hen iaith Cymru wen,
Carwn ei lles uwchlaw hynny,
Yna dan fendith y nen,
Llwyddiant addurna blant Cymru.

Os cafodd nos ei gordoi,
Torrodd y wawr,—daeth y dydd,
Heddyw mae'r rhod wedi troi,
Esgyn mae haul Cymru Fydd.

EINION.

GWLAD HUD.

(Casgliad o Ystraeon Hud o bob gwlad.)

IX. ARADR RYFEDD.

(Un o Ystraeon Hud Denmarc.)



RYW dro yr oedd amaethwr yn dod adre o'r maes. Yn yr hen amser oedd hyn, pan oedd yr hen grefydd yn Denmarc, a phan oedd y Tylwyth Teg yn byw yno.

Ar y ffordd o'r cae i'r tŷ yr oedd croes garreg fawr, a chroes arall wedi ei cherfio mewn cylch ar ei chanol. Ar y groes fewnol hon, gwelai'r amaethwr bryf dieithr. Yr oedd yn amryliw, ac weithiau fflachiai tân o'i adenydd. Rhedai

bob eiliad, â'i holl egni, hyd y groes; ond ni fedrai symud oddiarni. Weithiau codai ei adenydd, fel pe i ehedeg, ond nis gallai godi ei draed oddiar y gareg.

Penliniodd yr amaethwr, yn ol ei arfer, o flaen y groes, a dywedodd ei bader. Wrth iddo adrodd gweddi'r Arglwydd, gwibiai y pryf yn fwy cyflym hyd y garreg, os oedd yn bosibl, nag o'r blaen.

"Beth, tybed," ebe'r amaethwr wrtho ei hun, "yw'r pryf hwn?"

Drannoeth daeth heibio'r garreg, ac yr oedd y pryf yno o hyd, yn gwibio fel o'r blaen.

Yr oedd mam yr amaethwr yn hen iawn, ac yn ddoeth. Pan glywodd am y pryf ar y groes, dywedodd wrth ei mab,—

"Fy mab, gochel ymyrryd ag ef. Un o'r Tylwyth Teg ydyw. Drwy ryw anhap, daeth i gysylltiad â'r groes. Ac yno y bydd, os na olyngir ef yn rhydd gan law ddynol, hyd nes y trenga o newyn."

Meddyliodd yr amaethwr lawer am hyn wrth ddilyn yr aradr y diwrnod wedyn. Yr oedd gwyneb ei gae yn drwm a chleio, ac yr oedd yn gorfod gwthio'r aradr yn ei blaen er mwyn helpu'r march ei thynnu. Erbyn amser noswyllo, yr oedd ef a'r march bron syrthio gan ludded. Ond er mor lluddedig oedd, yr oedd meddwl hapus wedi ei daro. Yr oedd wedi penderfynu cael aradr newydd.

Daeth heibio'r groes. Yr oedd y pryf yno o hyd, ac yn gwibio'n brysur, a'i draed yn dechreu crynnu gan ludded. Cydiodd yr amaethwr ynddo, a chododd ef oddiar y groes. Ceisiodd y pryf ehedeg ymaith, ond gofalodd yr amaethwr ei gadw'n garcharor.

"Pwy wyt ti?" meddai wrth y pryf.

Ni ddywedai'r pryf air; ond ceisiai ddianc.

"Mi dy rof dan grochan," ebe'r amaethwr, "a chei farw o newyn yno os na siaredi."

Lawer gwaith, wedi noswyllo, deuai'r amaethwr at y crochan, a gwaedai yr un cwestiwn ar y pryf,—

"Wyt ti'n siarad?"

Ac o'r diwedd, ymhen tua phythefnos, daeth ateb gwan,—

"Gwnaf."

Cododd yr amaethwr y crochan, a throdd y pryf yn hen ŵr heinif, byr, o flaen ei lygaid,—gyda barf laes a chap pigfain.

"Un o'r Tylwyth ydywyf," meddai, "fel y gweli. Ryw nos dywell yr oeddwn wedi blino, ac eisteddais ar y garreg heb wybod mai croes dy grefydd di oedd hi. Daliwyd fi'n garcharor gan ryw allu nas gwn i am dano. Gwyddwn mai llaw dyn yn unig a'm rhoddai'n rhydd. Ymrithiais yn bryf amryliw, i dynnu dy sylw. Gobeith-iwn y gollynget fi, gan feddwl mai gwibedyn oeddwn. Ond yn awr yr wyf yn dy allu. Beth a fynni am fy ngollwng yn rhydd? Os gofynni arian ac aur, cei ddigonedd."

"Nid oes eisiau arian ac aur arnaf. Rhaid i mi gael aradr."

"Ti a'i cei."

"Ie, ond nid aradr gyffredin. Rhaid iddi fod yn ddigon ysgafn i blentyn ei chario. Rhaid iddi fynd drwy'r dywarchen ei hun, fel na fydd fy march na minnau wedi blino dim fin nos."

"Da y dewisaist. Ti a'i cei."

Aeth yr hen ŵr ymaith. Drannoeth daeth ag aradr fechan, wedi ei gwneyd o bren bedw. Gallai plentyn ei chario. Tynnai'r march hi trwy'r tir caethaf heb un anhawster, ac ni flinai ef na'r amaethwr mwy. Trwy'r aradr honno, daeth yr amaethwr yn gyfoethog iawn. Ac nid oedd amaethwr dedwyddach na march dedwyddach ar wastadeddau Denmarc i gyd na'r amaethwr hwnnw a'i farch.

I wlad Denmarc yr a bechgyn a merched heddyw os ydynt am ddeall y ffordd oreu i ddilyn yr aradr, i drin llaeth, ac i wneyd caws ac ymenyn. Y peth mwyaf pwysig i'w ddysgu yw hyn,—dysgu rhoi mwy o bwys ar fedr ac ar aradr nag ar arian ac aur.

EVAN THOMAS JONES.

PAN oedd 1899 yn gwywo, a 1900 yn dechreu ymagor, yr oedd un o aelodau mwyaf ffyddlon cangen y Fron, Llangollen, o Urdd y Delyn, yn gwywo i'r byd hwn ac yn dechreu ymagor i'r byd arall.



EVAN THOMAS JONES.

Evan Thomas Jones oedd ei enw, ac nid oedd ond deuddeg oed. Bachgen da, mwyn a thawel oedd Evan, prydferth a dymunol dros ben, rhydd ei gymwynas i bawb. Rhoddodd foddlonrwydd i'w rieni, a phawb, ei fod wedi adnabod Gwardwr y byd, ei garu a chredu ynddo.

Chwith gan ei gyfoedion yn yr Urdd weled ei le yn wag yn eu cyfarfodydd, a chwith gan ei rieni ei gollu; ond teimlant yn ddiolchgar er hynny, eu bod wedi cael y fraint o fagu am ddeuddeng mlynedd un sydd i fod bellach am dragwyddoldeb yn canu i'w Waredwr.

Os swynol seinia'r eos
A gwenau gwanwyn gwyn,
Mwy swynol seinia Evan
Ei fawl ar Seion fryn.

H. PARRI, EI WEINIDOG.



DAU O BLANT BRYCHEINIOG.

URDD Y DELYN.**Y RHEOLAU.**

1. Dysgu siarad ac ysgrifennu Cymraeg; darllen rhan o'r Beibl Cymraeg, neu ryw lyfr Cymraeg arall, bob dydd, ac ysgrifennu Cymraeg o'i gyfansoddiad ei hun.
2. Astudio hanes Cymru, a gwneyd ei oreu i godi ei wlad, fel y byddo Cymru fydd yn well na'r hen Gymru.
3. Dysgu canu'r delyn, os bydd hynny yn y cyrraedd; a dysgu alawon Cymreig.
4. Byw, hyd y gall, yn ol dysgeidiaeth yr hen Gymry gynt, mor bell ag y mae'r ddysgeidiaeth honno'n un a dysgeidiaeth Crist. Y mae'r ddysgeidiaeth honno'n gofyn purdeb, cariad at addysg, caredigrwydd at ddyn, addfwynder at greaduriaid direswm, iaith ddihalog.

AELODUS NEWYDDION. vwnsi

1338, 1339. Gwilym Henri Lewis, David Charles Lewis, Rhydlydan.

LLANGERNYW.

PENTREF bychan yw Llangernyw yn rhannau gwledig sir Ddinbych. Saif ar lannerch brydferth ar y ffordd sydd rhwng Llanrwst ac Abergele. Rhed yr afon Elwy ychydig islaw y pentref, yr hŏn sydd a'i tharddiad ym mynydd Hiraethog; ac oherwydd fod ansawdd y tir yno yn fawnog, y mae dwfr yr afon o liw tywyll. Ymarllwysa mân afonydd ereill iddi yng nghyffiniau y llan,—sef y Gerwyn a'r Gallen. Y mae ychydig fryniau o gwmpas y pentref, a llawer o goedwigoedd prydferth, y rhai sydd yn chwaneu at dlysni y lle yn fawr.

Tua chwarter milltir o'r pentref y mae Hafod Unos, palasdy y diweddar H. R. Sandbach, lle y preswylia yn awr ei fab, y Milwriad Sandbach. Gellir dweyd wrth fyned heibio ei fod ef, fel ei dad, yn dirfeddiannwr da; ac y mae teulu Hafod Unos wedi gwneyd llawer iawn o ddaioni yn yr ardal.

Cysylltir Llangernyw âg hanesiaeth Cymru gan Digain Sant, y mae eglwys y lle wedi ei chysegru iddo, ac yn cynnwys cofadeiliau am deulu Llwydiaid o hil Hedd Molwynog.

Ychydig gerllaw i'r pentref mae amaethdy o'r enw Cammaes, lle unwaith y bu John Jones Talysarn yn gwasanaethu, chwaer yr hwn oedd yn byw yno. Tra yn aros yma cafodd argyhoeddiad yng nghapel Cefn Coch, ac yn fuan ymunodd â'r eglwys.

Yn y pentref hwn hefyd y magwyd yr athraw Henry Jones, o Brifysgol Glasgow, yr hwn sydd yn glod, nid yn unig i'w ardal enedigol, ond hefyd i ni fel cenedl. Un arall o blant yr ardal yw y Parch. H. C. Williams, gweinidog parchus gyda'r Bedyddwyr yng Nghorwen, sir Feirionnydd, yr hwn sydd nid yn unig yn bregethwr sylweddol, ond hefyd yn fardd o fri.

Gwelir felly y gall Llangernyw dawel ymffrostio yn ei henwogion, yn oystal a'i chymdigion Llansanan a Llanfair Talhaiarn.

TREBOR CERNYW.

GELYN PENNAF PLANT.

YR wyf yn rhoddi aml hanes bywyd plentyn; a dengys pob hanes, nid yn unig mor gariadus yw bywyd blentyn bach, ond hefyd mor dyner yw gofal ei rieni am dano.

Gallwn roddi, o'r ochr arall, aml hanes wnai i'r llygaid lenwi ac i'r gwaed ferwi. Nid oes ond un gallu yn y byd wna fam dyner yn greulon wrth ei hanwyliaid. Y ddiod feddwol yw y gallu hwnnw. Trwy'r ddiod hon medr y diafol wneyd gwyrthiau.

Mewn carchar yng ngogledd Lloegr y mae mam anedwydd

heddyw. Mewn ffit o feddwod tafodd ddwr berwedig dros ei bachgen dwyflwydd oed. Y mae'r fam heddyw yn gwallgofi wrth feddwl am boenau arteithiol ei bachgen hoffus cyn marw, pan edrychai arni â llygaid llawn o serch.

Mewn carchar yn un o siroedd canol Lloegr y mae tad yn teimlo nad yw llafur caled y carchar yn ddim wrth ing meddwl. Yr oedd yn hoffach o un o'i blant nag o'r lleill,—geneth fach. Rhedai i'w gyfarfod pan ddeuai adre o'i waith; ac yr oedd yn awr yn ddigon hen i ddweyd ei chwynion bychain wrtho, oherwydd yr oedd yn bedair oed. Ryw fin nos daeth y tad adref yn feddw. Yn ei gyn-ddaredd tafodd ebill at ei wraig. Aeth yr ebill heibio'r fam a tharawodd yr eneth ar ei harlais. Pan sobrodd y tad, gwelai ei eneth yn gorwedd yn wen a llonydd. Ni ddeuai gwên i'w gwyneb, ni redai i'w gyfarfod byth mwy.

Symier anrhaith gelynyion dyn,—rhyfel, erledigaeth, haint, a newyn. Tystiaf, ac apeliaf at hanes y byd i brofi fy nhystiolaeth, fod y ddiod feddwol yn achos o fwy o ddiodesdef i blant na'r cwbl ynghyd.

— — — — —

Y LILI WEN.

LLECHU 'ngesail perth yn wylaidd,
Mae amddifad lili wen;
Ac yn llon fel duwies lariaidd,
Plyga dan y gwllith ei phen.

Geilw'r byd i'r ysgol ati,
Cyn i'r barrug fwyta'i gwedd,
Ar ddihalog lwybrau'i gwersi,
Yr arlwy a inni wledd.

Er ei phoeni a'i dolurio,
Beunydd gan gleddyfau'r drain;
Ar ei bochau glân yn perlio,
Er pob storm mae gwenau cain.

Gwisg o emwaith tlws, urddasol,
Yw ei hawddgar fantell wen;
Gwelwn yn ei phurdeb dwyfol,
Ddelw engyl fiodau'r nen.

Coron anwyl o symylrwydd,
Yw ei swynol dlysi byw;
Dysga i thremiad ostyngaidrwydd,
Dwed mai nâd gwir fawredd yw.

Cludo yng nghostrelau rhinwedd,
I ni y mae'r awel fwyn
Ei hadfywiol berarogledd,
Sydd yn denu'r byd â'i swyn.

Bri ei thegwch a'i serchowgrwydd,
Mewn edmygedd sydd yn ben;
Darlun nefol o sanoteiddrwydd
Ydyw'r siriol lili wen.

Mewn gogoniant y dilladwyd,
Holl amryliw fiodau'r ardd;
Ond y lili a goronwyd
Arnynt yn frenhines hardd.

O na byddem fel y lili,
Geidw'i hun yn wen o hyd;
Gwisgwn burdeb,—yn ei ohwmni,
Unwn i brydferthu'r byd.

BARBARA PRICE.

SYN iawn fuasai gan yr un fechan wylaidd, y mae ei henw uwchben, dybied y buasai yn werth gan neb ysgrifennu llinell ar ol ei marw hi i'w choffau, ac mewn gwirionedd ni fuaswn innau yn meddwl y deuai i hynny pan oedd yn cyd-chwareu yn ei phlentyndod gyda'r plant ereill yn y gymdogaeth. Nid oedd ganddi wyneb agored yn gwenu, ac yn edrych ym myw llygad pawb, fel ambell un serchog; nid oedd yn un barod a phert ei hatebion; ac nid oedd chwaith yn un gyflym i ddysgu; ac ni chlywid ei llais hi ymhlith y plant ereill. Nid oedd bore ei dydd byr fel hyn yn rhyw addawol iawn, ond yr oedd ei brydnawn cynharol yn deg odiaeth, a phawb yn synnu at ei brydferthwch.

Gwan oedd ei chyfansoddiad, rhy wan i ddal yn hwy na phedair blwydd ar ddeg. Cafodd gystudd corff lled faith, ond ei fod o gystudd yn un esmwyth, hawdd ei ddwyn. Yn rhyfedd iawn yr oedd hwnnw bron i'r diwedd, yn lle difwyno ei gwedd, yn gwneyd ei gwyneb yn fwy prydferth a hawddgar. Yr oedd y cochni yn wan a naturiol, ac nid oedd awel laith yr afon yn troi y gwynder prydferth yn welwder oer.

Os oedd ei chystudd maith yn gwanhau ei chorff eiddil, yr oedd ei effaith ar ei hysbryd yn dra gwahanol, ac yn "odidog ragorol." Yr oedd mynd am dro i'r Graig,—yr annedd fechan gwyneb melyn ynghanol yr ardd,—i ymweled â'r eneth fach ag oedd, er llanw bywyd mis Mehefin, yn nistyll trai ei bywyd hi, yn sirioldeb ysbryd ac yn gryhad i ffydd. Yr oedd yn ymfwynhau yn emynnau Williams,—nid yr emynnau hynny y bydd plant bach yn eu dysgu ac yn eu hoffi, ond y rhai sydd yn datgan profiad hen bererinion lluddedig Seion, fel pe buasai hithau, bererin ieuanc, wedi teimlo ar ddechreu'r daith fel hyn, mor anhawdd cadw'r llwybr, ac wedi blino. Dyma ddywedai fel ei phrofiad,—

"Lleoedd dyfnion sydd ar aswy,
Lleoedd dyrys sydd ar dde."

Ond cafodd yn helaeth yr hyn ofynnir yn niwedd ei phennill,—

"Dal fi i fyny addfwyn Iesu,
Arwain f'enaid yn dy law."

Yr oedd awydd arni am gael ei derbyn yn gyflawn aelod, ond yr oedd yn rhy lesg i ddod i'r capel, ac fe wnaed hynny yn ei habsenoldeb. Yr oedd adrodd ei phrofiad addfed yn gwneyd y seiat honno yn un i'w chofio yn hir.

Mor fynych fel hyn y gwelir yr egwan ofnus yn wynebu angeu yn eofn a chryf, a'r dewr natur yn crynnu gan fraw ac ofn; y

gwylaidd distaw mewn cân orfoleddus, a'r tafod hyawdl yn rhwym ac yn fud.

Un o'r dyddiau olaf y bu fyw breuddwydiodd freuddwyd effeithiodd yn fawr arni, ac yng ngoleu ei hanes ar ol hynny. Yr oedd cyd-darawiad rhyfedd yn y breuddwyd a'r amgylchiadau. Yr oedd ei chartref yn ymyl y ffordd haiarn, a saith o'r gloch y bydd y tren boreuol yn pasio heibio. Yn ei breuddwyd gwelai ei hun yn sefyll yn y stesion, yr hon sydd yn agos at y tŷ, a dyma y tren saith, fel arfer, yn dod i mewn; ond y bore hwnnw yr oedd yno res o gerbydau, a'r rhai hynny yn llawn o bobl a phlant bach, tebyg iawn yn eu gwisg a'u dull i blant Ysgol Sul yn mynd am bleserdaith. Yn naturiol iawn clywai hwy yn cyd-ganu yn hyfryd a melodaidd yr hen bennill adnabyddus,—

“ Yn y dyfroedd mawr a'r tonnau
Nid oes neb a ddeil fy mhen,
Ond fy anwyl briod Iesu
A fu farw ar y pren.”

Yr oedd hithau yn hoff iawn o ganu, ac er yn ddiethr, methodd a pheidio ymuno â hwy yn y gân. Pan y tarawodd hi i mewn fel hyn, dyma ryw ŵr llawn urddas, oedd yn ymddangos fel a gofal y rhai bach arno, yn dyfod ati, a chan edrych yn nodedig o siriol arni, cyfarchodd hi mewn llais tyner a mwyn,—

“ O, yr wyf yn gweled eich bod chwithau yn medru canu, fy ngeneth fach i; os ydych yn eneth dda iawn, cewch ymuno a dod gyda ni.”

Y noson olaf y bu fyw, yr oedd ei meddwl yn crwydro tipyn weithiau, a dyna oedd ei siars i'r wraig garedig oedd yn gweini arni,—“ Cofiwch am i ni fod yn barod erbyn y tren beth bynnag,— *y tren saith cofiwch.*” Yn rhyfedd iawn, pan oedd twrf y tren hwnnw fore drannoeth i'w glywed yn hyglyw ar y bont sydd ychydig islaw'r tŷ, yr oedd hi, nid yn cael ymuno yn ol ei breuddwyd â'r cwmni oedd yn y tren hwnnw yn canu mewn nodau lleddf yr ochr hon i'r “ dyfroedd mawr a'r tonnau,” ond yn cychwyn i'r daith bell i ymuno â'r cwmni llon sydd yn canu yn ddiangol ar y dawel lan yr ochr draw i ymchwydd yr Iorddonen. Clywsai lais Gŵr mwy ei urddas fyth yn ei gwahodd i'r cwmni hwnnw, mewn geiriau denol mwyn,—“ Gadewch i blant bychain ddyfod attaf fi.”

Minfordd.

G. WILLIAMS.

Cyfeiriad y golygydd yw,—OWEN M. EDWARDS, LINCOLN COLLEGE, OXFORD.

ABGRAFFWYD A CHEYRORDDWYD GAN HUGHES AND SON, 56, HOPE STREET, WREKHAM

AT Y PLANT.

YMAE y disgrifiad o Jogonnath, yn y rhifyn hwn, wedi ei ysgrifennu gan lygad dyst o'r hyn a ddesgrifia,—un o'r cenhadon Cymreig ar wastadeddau gogledd yr India.

O. Rhyfel cartrefol ym Mhrydain oedd y Rhyfel Mawr, rhwng y brenin Siarl I. a'r Senedd. Yn 1642 y dechreuodd. Edgehill, Marston Moor, a Naseby oedd y prif frwydrau. Y Senedd orfu; ond ymrannodd yn ddwy blaid,—Presbyteriaid ac Anibynwyr,—a difawyd ei nerth. Methodd Oliver Cromwell gadw'r heddwch; ac yn fuan wedi ei farw ef galwyd Siarl II., mab Siarl I., i'r orsedd. Ond, er adferu'r frenhiniaeth, graddol enillodd y Senedd ei gallu.

MAIR. Y mae Iddewon eto yn gobeithio cael mynd yn ol i'w gwlad. Cyfarfu cynhadledd y "Seioniaid," fel y gelwir Iddewon sydd am fynd yn ol i Seion, yn Llundain yr haf hwn. Y Twrc Mahometanaidd sy'n meddu Seion heddyw, a deil ei afael ami tra medr. Y mae Rwsia am y wlad, oherwydd fod cymaint o bererinion Rwsiaidd yn mynd yno; y mae Ffrainc am dani, oherwydd traddodiad a masnach; y mae'r Almaen am dani oherwydd fod cymaint o Almaenwyr yn byw ynddi; y mae Prydain am dani oherwydd ei bod ar y ffordd i'r India. Gall fod yn faes rhyfel y byd eto, fel y bu gynt. Ond y mae'n anhebyg iawn y gwelir brenin Iddewig yn Jerusalem byth.

GELLW Hywel Cernyw fy sylw at wall yn y rhifyn diweddf. Nid ym mynwent yr Eglwys Wen y claddwyd Thomas Gee, ond ym mynwent newydd Dinbych.


WEDI darllen am y bachgen bach gollwyd ar Fannau Brycheiniog, y mae amryw wedi gofyn am barnad o'r ystoriau "Ar Goll." Ni fedraf gael lle iddynt yn y gyfrol hon; ond meddyliaf am y peth wrth gynllunio rhifynnau y gyfrol nesaf.

IFAN. Tybia'r ofergoelus fod cath ddu yn dod a lwc, ac nad a neb yn dlawd os bydd ganddo gath ddu.

BOB. Y mae sulphur lawer mewn melyn wy. Hwnnw sy'n achosi arogil anymunol wy hen. Efe hefyd sy'n peri fod wy yn andwyo llwy arian. Llwy bren neu agwrn yw'r oreu i fwyta wy.

Y MAE'r drydedd gyfrol o Glasuron Cymru wedi ei chyhoeddi. "Bywyd Ieuan Gwynedd" yw ei theitl. Rhoddir prif weithiau Ieuan Gwynedd, a detholiad o'i waith llai adnabyddus, i egluro gwaith ei fywyd. Y mae yn y gyfrol aml gân swynol, megis "Bythod Cymru," a "Beth yw Siomiant." Y mae ynddi aml ddarn o erthyglau, o bregethau, ac o ddyddlyfrau Ieuan a enbyn uchelgais pob Cymro yn enwedig. Y mae ynddi y disgrifiad hynod o fam ac o gartref mabyd Ieuan Gwynedd; darlun yw hwn, mi gredaf, nad anghofir mohono gan ein plant.

Pris y gyfrol yw chwecheinig mewn amlen, swllt mewn llian. Gellir ei chael heb dorri ei dalennau os mynnir; ac yn y dull hwnnw, i'm tyb i, y mae bydfferthaf. O SWYDDFA Cymru, Caernarfon, y mae i'w chael.



Y MYNYDD A'R AFON.



CYMRU'R PLANT.

CYF. IX.

HYDREF, 1900.

RHIF 106.

Y MYNYDD A'R AFON.

"**F**FARWEL, fy nghyfeilles hawddgar," ebe'r Mynydd wrth yr Afon," y mae'n well gennyt y Môr na mi. Yr wyf yn sefyll yma bob amser, a than oleu haul a lleuad yr wyf yn syllu ar dy dlysni, a gwrando ar dy gân. Ond mynd dy oreu yr wyt ti, ddydd a nos. Mae arnat hiraeth am y Môr."

"Rhaid i mi fynd," ebe'r Afon, "i roi dŵr i'r blodau. Oni weli hwy ar fy mynwes? Y mae'r ddol yn disgwyl am danaf, i'w diodi. Y mae fy merched, y ffrydlifoedd bychain, yn crwydro i chwilio am danaf. Y mae llongau a chyched yn fy nisgwyl i'w cludo i'r môr."

"Bydd arnaf hiraeth am danat," ebe'r Mynydd, "a ddoi di'n ol?"

"Dof. Pan af i'r môr collaf bob amhurdeb. Cwyd yr haul fi i fyny i'r awyr, chwyth y deheuwynt fi uwch y tir, a disgynnaf yn wlaw tyner ar dy ben, yn fendith y Nefoedd iti, hen Fynydd cadarn a ffyddlon."

"Byddaf finnau'n lloches i'r defaid," ebe'r Mynydd, "a rhoddaf fwyd i'r glaswellt ac i'r coed ac i'r adar. Yr wyf fi yn aros, yr wyt tithau'n newid. Ac wrth i mi aros, ac wrth i ti newid, y mae pob peth yn fyw ac yn dlws. Cân, Afon dlos, a chrwydra i wneyd daioni. Yr wyt ti byth yn ieuanc, croesaw iti."

"Aros dithau, Fynydd ardderchog, yn gysgod i'r coed a'r blodau rhag ystormydd. Mawredd sydd iti, a ffyddlon wyt. Yr wyf bob amser yn dychwel atat, ac yn canu cân i ti."

Y BABAN IESU.

Y MAE pedwar darlun o'r baban Iesu na byddaf byth yn blino edrych arnynt. Un yw darlun Raffael. Yn hwn saif ar lin Mair. Y mae hithau'n troi dalennau llyfr bychan darluniedig, ac y mae'r bachgen wedi dysgu sylwi arno. Gwyneb dwys prydferth ydyw, yn dechreu meddwl.

Yr ail yw darlun Carlo Dolci. Yn hwn dengys ei fam iddo flodau. † Y mae yntau wedi dewis rhosyn, a gallai'r ddau ddweyd wrth eu gilydd,—

“ Rhosyn Saron,
Ti yw tegwch nef y nef.”

Gwyneb plentyn yn dechreu sylwi sydd yn y darlun hwn.

Y trydydd yw darlun Sassoferrato. Plentyn gwallt goleu ydyw yma, yn cydio'n dyn am wddf ei fam. Gwyneb plentyn cariadus a serchog sydd yna.

Yr olaf yw darlun Murillo. Yn hwn saif ar garreg, gydag un llaw yn llaw ei dad, a'r llall yn llaw ei fam. Hwn yw'r goreu gennyf o'r pedwar, ond nis gallaf ddweyd dim am dano ond mai darlun o blentyn naturiol yw.

Dysgu meddwl, dysgu sylwi, dysgu caru, ac eto'n blentyn,— beth yn y byd sydd dlysach na'r pedwar darlun hyn ?

GWIR ARWR.

Y MAE daioni lle na ddisgwylir ei gael, yn aml. Ymysg y plant carpiog tlodion sydd yn hanner newynu hyd heolydd Llundain, y mae aml galon fechan ddewr yn curo, yn llawn caredigrwydd ac awydd gwneyd daioni.

Yr oedd un o weinidogion Cymreig Llundain yn pasio cornel lle y saif *crossing sweeper*,—bachgen ungoes, wedi ei dafu yn hollol at drugaredd y byd. Y munud hwnnw aeth plentyn bychan dan olwynion cab. Er perygl ei fywyd ei hun, rhuthrodd y cardotyn bach cloff i waredu'r plentyn. Tynnodd ddimeuau lawer o'i boced, cyfrifodd hwy, ac estynnodd hwy i'r cabman. Cododd y plentyn yn ei freichiau i'r cab, ac meddai,—

“ Cabbi, ar eich union i'r ysbyty.”

Pan aeth y cab a'r plentyn clwyfedig ymaith, aeth y gweinidog at yr ysgubwr, estynnodd ddarn arian iddo, a dywedodd,—

“ Fy machgen i, fedwrch chwi ddim fforddio talu o'ch poced eich hun.”

“ Na, syr,” oedd yr ateb dewr, “ myfi sy'n talu.” A gwrthododd yr arian; er, y mae'n debyg, byddai raid iddo ddiodef oerfel a newyn o'r herwydd.



“Gwelais dri yn treulio y nawn poethaf.”

ER COF AM YR HAF.

Y MAE'R haf ar ein gadael. Y mae y rhan fwyaf o'r blodau wedi darfod. Ffrwyth a hadau yr Hydref sydd o'n hamgylch yn awr. Mae'r Gauaf i ddod. Wrth feddwl am dano ehed miliynau o adar dros y moroedd, ar daith bell, i wledydd lle mae'r hin yn fwy tyner. Mae'r blodau yn cilio i lawr i'r ddaear i gysgu yn gynnes, o gyrraedd bysedd oerion y rhew. Erys llawer o adar gyda ni, megis robin goch, a chawn eu gweled wrth ein drws pan fo eira ar fro a bryn. Erys ambell flodeuyn bron trwy'r flwyddyn hefyd; yn aml ceir blodeuyn dydd olaf yr hen flwyddyn wedi aros i groesawu blodeuyn dydd cyntaf y llall.

Dengys hyn fod hin ein gwlad yn un dymherus. Hi yw un o'r gwledydd goreu i fyw ynnddi. Y mae'r ddaear yn werdd trwy'r flwyddyn, nid oes fis na chân rhyw aderyn ynnddo. Nid yw'r haf yn boeth iawn, nid yw'r gauaf yn oer iawn. Yr haf diweddfaf oedd y poethaf, rai dyddiau o'hono, o hafau y ganrif. Gwelais dri yn treulio y nawn poethaf. Yr oeddynt wedi syrthio i gwsg. Breuddwydiodd y tri eu bod ymhellach i'r de na Chymru, ac na Gwlad yr Haf. Yr oeddynt dan gysgod palmwydd. Yr oedd yr haul yn llethol. Yr oedd ffrwythau melyn a choch gerllaw. Ond yr oeddynt yn rhy gysglyd i'w codi. Toc, clywent dwrf dychrynlyd. Ystorm o fellt a tharanau oedd. A chyda hynny deffroisant.

Swn y gloch a'u deffrodd. Yr oedd yr ysgol ar ben.

Y GORIWAERED,—GOCHEL!

HEN wr ystyriol rodia!
 Ar ffordd uwch Gallt y Dibyn,
 A llencyn ieuanc yrrai
 Yn orwyllt ar ddeurodyn;
 Rhybuddiair dyn y rhedwr
 I ochel goriwaered,
 Ond, rhuthro'n mlaen wna'r gyrrwr
 I lawr i'w farwol dynged.

Ceir llawer o ieuencyd
 'Run fath a'r llencyn hwnnw,
 Uwch gellydd prif-ffordd bywyd
 Un rhybudd ni cha'u sylw;
 I ganlyn drwg arferion
 Y rhuthrant, heb ystyried
 Fod beddau eu cymdeithion
 Islaw y goriwaered.

Aeth Gwen, yn eneth heini,
 I ffwrdd i wlad yr estron,
 Ac yno aeth i hoffi
 Difyrwrch gwag chwareuon;
 Ai i ganlyn hudoliaethau
 Y dafarn, a'r chwareudy,—
 Diweddodd Gwen ei dyddiau
 Dan warth, yn y tyloty.

Tom Wyn oedd unig blentyn
 A fagwyd ym Mryn Dedwydd,
 A dysgwyd ef i ddilyn
 Glân lwybrau moes a chrefydd.
 Dan awyr ddigymylau
 Aeth Tom i'r dref i weini,—
 Ond, hudwyd ef i'r conglau,
 A llithro wnaeth i feddwi.

Tregholydd roes hysbysiad,—
 "Corff meddwyn ieuanc gafwyd;"
 Gwnaeth cannoedd ddwys ymholiad,—
 Sawl tad, a mam, a glwyfwyd?
 I'r ardal daeth y newydd,—
 Ofnadwy genadwri,—

"CAED WYN, HOFF FAB BRYN DEDWYDD,
 YN FARW'N MHANT TRUENI."

DRWY LAW PLENTYN.

[O lyfr newydd T. Gwynn-Jones,—“Gorhest Gwilym Befan.”]

AETH Gwilym yn ei flaen, a throes i dŷ yn yr un stryd ag y lletyai efe ynddi. Tŷ bychan, diawyr, ydoedd, heb ond ychydig ddodrefn ynddo, ond yr oedd yn lân odiaeth. Yn y gornel wrth y tân, eisteddai dyn tua phymtheg ar hugain oed. 'Roedd ganddo wyneb glân, hawddgar, ond yr oedd yn welw a churiedig, a phesychai'r dyn yn boenus pan ddelai Gwilym i fewn. Ar lawr, o flaen y tân, eisteddai dau hogyn bach, y naill tua phedair, a'r llall tua dwyfiwydd oed. Chwareuai'r ddau yn ddistaw ac yn henaidd eu dull gyda dernyn bach o llyn a swp o garpiâu wedi ei rwymo wrtho.

“Wel, Joseff, machgen i, ydech chi'n teimlo dipyn yn well heno?” ebai Gwilym.

“Na'n wir, digon cwla ydw i,” ebai Joseff Tomos, canys dyna oedd ei enw, “rydw i wedi cael y peswch yma'n ofnadwy heddyw, ond mae o'n well 'rwan. Steddwch i lawr, Gwilym.”

Eisteddodd Gwilym i lawr ar gadair gyferbyn â Joseff, a chyda hynny, daeth dynes ieuanc i fewn, a geneth fach, tua chwe bliwydd oed, ar ei braich.

“Sut mae'r eneth bach heno, Mrs. Tomos?” ebai Gwilym.

“Digon gwael ydi hi'n wir,” atebai Mrs. Tomos, “mae'r doctor yn deyd ei bod hi mewn gwendid mawr, ond y daw hi gyda gofal.”

“O, da iawn,” ebai Gwilym yn siriol. “Dowch yma ata i, Gwen bach,” meddai, gan estyn ei freichiau i dderbyn y plentyn.

Estynnodd yr eneth fach ei breichiau bychain eiddil tuag ato, a phan gymerodd efe hi ar ei lin, edrychodd yn llawen ym myw ei lygaid, a dywedodd,—

“Da!”

“Wel, sut mae Gwen bach heno?”

“Gwen bach yn sal,” meddai'r plentyn, “tada hefyd yn sal. Gwen bach yn mynd i farw.”

“O, na,” ebai Gwilym, a'r dagrau yn dod i'w lygaid ar ei waethaf, “Gwen bach yn mynd i wella, a mynd o gwmpas i chware a hel blode eto pan ddaw hi'n braf. Ddaw Gwen bach allan hefo fi 'fory, i weld y coed a'r mynyddoedd?”

“O! ie, coed a mynyddoedd mawr, mawr, a'r haul hefyd. Feder Gwen bach ddim cerdded yn bell, bell.”

“O, wnawn ni gario Gwen bach yn bell, bell, i weld y coed a'r mynyddoedd mawr, mawr, a'r adar bach, a'r môr a'r haul hefyd.”

Claiodd y plentyn ei dwylo bach ynghyd, dan sibrwd, “a'r haul hefyd!” ac yna, edrychodd yng ngwyneb Gwilym, plethodd ei breichiau bychain am ei wddf, a chusanodd ef. Yna pwysodd ei

phen melyn, cyrliog, ar ei tynwes, ac edrychodd yn hapus wrth feddwl am y coed a'r mynyddoedd mawr, mawr, a'r haul.

Curodd rhywun ar y drws, ac aeth Mrs. Tomos i agor. Daeth rhywun i fewn, gan ofyn gyda llais afrywiog, garw,—

“Wel, sut yr ydech chi heno? Ydi'r rhent yn barod gynnoch chi?”

Rhoddodd Joseff ei law yn ei boced, a thynnodd hanner coron allan, ac aeth ag ef i'w wraig. Gwelodd yr eneth fach yr hanner coron, a dechreuodd wylo'n ddistaw, a chuddio ei gwyneb bychan tlws dan gysgod cot Gwilym.

“Beth sy' ar Gwen bach 'rwan?” ebe Gwilym.

Daeth ochenaid fawr o fynwes yr eneth fach.

“Tada'n mynd â phres Gwen bach i'r hen ddyd cas yna!” meddai.

“O, mi wnawn ni o'r gore â'r hen ddyd cas,” ebai Gwilym, gan dynnu hanner coron o'i logell; “dyma bres i Gwen bach yn eu lle nhw. Dyna fo, Gwen bach i beidio i ddangos o i neb.”

Gwenodd yr eneth fach wên werth holl hanner coronau'r byd, ie, a'i holl goronau hefyd, a gwasgodd y dernyn arian at ei mynwes. Fe wyddai Gwilym yn eitha da y torrai'r hanner coron hwnnw newyn teulu cyfan drannoeth, ac y siriolai gymaint ar ei thad a'i mam pan gefid hyd iddo, wedi'r elai ei berchen bach i gysgu, ag a siriolai'r pryd hwnnw arni hithau. Ond yr eneth bach oedd cyfrwng y rhodd; nid oedd derbyn yn brifo'i theimlad hi, ac nid oedd rhoi iddi hi yn edrych fel elusen, fel cardod, fel y sarhad a eilw'r byd yn garedigrwydd.

Cysgodd y fechan yn mreichiau ei chyfaill, dalai i wasgu'r hanner coron yn ei llaw fach, nad oedd eto'n ddigon o faint i gau am dano. Daeth y tad a'r fam i fewn.

“O, mae hi wedi cysgu,” ebai'r wraig, “gadewch i mi ei chael hi, Gwilym.”

Cymerodd y plentyn ganddo, a syrthiodd yr hanner coron ar lawr.

“O, Gwilym, ddylech chi ddim yn wir,” ebai Mrs. Tomos, “rydech chi'n rhy —.”

“Ydech, thâl hyn ddim, yn wir, Gwilym,” ebai Joseff, gan godi'r hanner coron a'i estyn i Gwilym.

“Cadwch o iddi hi,” ebai Gwilym yn drwsgl, “mi fydd yn crio am dano fo pan ddeffry hi —.”

“Ond, 'does dim rheswm —.”

“Na, rhowch o iddi hi, 'roedd gen y beth bach anwyl gymaint o feddwl o hono fo. Rhaid i mi tynd hefyd. Nos dawch, Joseff, a chymrwch ofal rhag cael ychwaneg o anwyd. Nos dawch, Mrs. Tomos. Nos dawch i gyd. Mae hi'n mynd yn hwyr, a rhaid i mi fynd, nos dawch.”

Cyn ei fod wedi dyweyd y “nos dawch” olaf, yr oedd Gwilym ar garreg y drws, ac heb aros eiliad yn rhagor, aeth yn ei flaen yn gyflym, ac allan i'r wlad.



A. J. Williams.]

GER LLANRWST.

LLANRWST.

WELE gipolwg ar gwr o Lanrwst. Tynnwyd y darlun gan un o fechgyn ieuainc y dre. Gwelir ychydig o afon Gonwy, oherwydd o bobtu i afon Gonwy y saif tref Llanrwst,—rhan o honi yn sir Gaernarfon a rhan yn sir Ddinbych. Cysylltir y ddwy sir gan bont,—gwelir rhan o honi yn y darlun. Y mae y bont hon yn un o saith rhyfeddod Cymru. Adeiladwyd hi yn 1636, ychydig cyn dechreu y Rhyfel Mawr. Y prif saer enwog Inigo Jones a'i cynlluniodd. Y mae bwa canol y bont yn dri ugain troedfedd. Gall y llwythau trymaf fynd dros y bont heb iddi grynnu; ond, os sefwch a'ch cefn ar ei mur, gellwch ei hysgwyl.

Y mae Dyffryn Conwy yn un o'r rhai harddaf yn y byd,—o Fetws y Coed i Aber Conwy a Llandudno. Saif Llanrwst tua'i ganol, a mynyddoedd uchel yn edrych arni o bobtu,—mynyddoedd Eryri ar y naill ochr a Hiraethog ar y llall.

Yn yr hen amser byddai Llanrwst yn enwog am ei thelynau a'i thelynoriau. Nis gwn a oes yno delyn heddyw. Byddai'n enwog

hefyd oherwydd ei gweithfeydd gwlan; a dylifai pobl y wlad oddi-amgylch, wrth y miloedd, i'w marchnadoedd i werthu hosanau. Yr adeg honno byddai gwŷr, gwragedd, a phlant yn gweu yn brysur ar hirnos gauaf. Ond y mae hyn hefyd wedi diflannu, a'r gwlan yn mynd i drefi mawrion Lloegr. Ond, pan wneiff addysg ei ol, bydd Cymru eto yn llawn o weithfeydd gwlan, a bydd gwlanen Cymru yn enwog am ei wydnwch meddal cysurus. Yr adeg honno daw'r telynau yn ol hefyd.

Yn ymyl Llanrwst y mae Castell Gwydyr, hen gartref y Wyniaid. Y mae cryd Syr John Wyn yno eto. Cedwid arch carreg gwag Llywelyn Fawr ar lawr y capel; nis gwn a yw yno eto.

Bu Ieuan Glan Geirionydd yn ysgol Llanrwst; y mae Ty'n y Celyn, ei gartref, gerllaw. Canodd yn felus am afon angau, am "lan Iorddonen ddofn," gan ei hofni fel yr ofnai afon Gonwy pan yn blentyn.

Y DYN CRIST IESU.

NID oes ond ychydig o arlunwyr mawr y byd, sydd wedi darlunio'r natur ddynol, heb dynnu darlun o wyneb yr Iesu. Ni wyddai yr un ohonynt y fath wyneb oedd ganddo, ond ceisia pob un roi iddo y gwyneb harddaf y medrai ddychmygu am dano. Tebyg yw wyneb yr Iesu ym mhob gwlad, felly, i'r hyn ystyrir y prydferthaf a mwyaf sanctaidd yn y wlad honno.

Yn narlun yr Eidalwr Francesco Raibolini gwyneb Eidalwr, ond mwy meddylgar a harddach na neb, yw gwyneb yr Iesu. Yn narlun yr is-Ellmynnwr Rogier van der Weyden, gwyneb Teutonaidd, hir a thrwm a phrudd, yw'r wyneb. Yn narlun Antonello de Messina wyneb Venetaidd ydyw,—gwyneb llawn yn pelydru hawddgarwch. Yn narlun Luini y mae y wyneb plentynaidd yn llawn bywyd a meddwl brwdtrydig a syml, fel ambell blentyn welir eto o amgylch Milan; ac y mae y gwahaniaeth rhyngddo a wynebau y doctoriaid sydd o'i amgylch, gwynebau celyd cyfrwysgall,—yn darawiadol iawn. Yr un wyneb sydd gan Correggio yn ei ddarlun yntau, ond ei fod yn hŷn, a than gur, a than goron ddrain. Y mae Guido Reni wedi ei ddarlunio ddwywaith, unwaith yn blentyn hawddgar dedwydd, ac unwaith yn ŵr gofidus dan goron ddrain; ond yr un darlun yw'r ddau. Gwyneb Ysbaenaidd sydd gan yr Iesu yn narlun Francesco de Herrera,—tawel, trymaidd, llygatddu. Wyneb gogleddwr sydd ganddo yn narluniau tywyllion Rembrandt,—tosturiol, gonest, sanctaidd.

Er y gwahaniaeth yma, y mae rhywbeth yn debyg yn yr holl

ddarluniau o'r Iesu a welais i. Y mae pob arlunydd yn rhoi yn y wyneb y pethau goreu welodd yn wynebau harddaf ei wlad ei hun. Ac y mae perffeithrwydd prydfferthwch yn y wyneb dynol yn debyg ym mhob man. Brodyr ydym.

Cymerwch yr arlunydd a fynnoch, ni raid i neb ddweyd wrthych pwy ydyw ei Iesu. Nis gallwch ei gamgymeryd am ryfelwr na sant na neb. Pan fydd y meddwl dynol ar ei oreu, ac yn ceisio desgrifio'r dwyfol, y mae gwawl y dwyfol yn tywynnu arno,—ac nis gall yr un pechadur beidio adnabod y gwawl hwnnw.

GAUAF AR LAN MOR Y CANOLDIR.

VIII.

“**W**EDI'R cyfan, 'doedd yr hyn ddigwyddodd i ni yn San Remo yn ddim mwy digrif na pheth arall,—bod ag eisieu bwyd ac heb ddigon o arian i dalu am dano.”

“Oh! Oh!”

“Ie, wel, mae'n ddigon hawdd i chi i weyd 'Oh!' Ond beth pe bawn i yn dannod mai wedi gwario ein harian yr oeddem ar focseidiau o orenau i anfon i ryw blant bach yng Nghymru? Ond fydda i byth yn dannod rhodd i neb.

“Dim ond franc (deg ceiniog) oedd gennym ar ein helw, a 'doedd hyn ddim yn agos digon o arian i dalu am ein te mewn siop lle yr oeddent yn codi yr eithaf am bob peth. Mynnwn i fynd i mewn i'r siop a gofyn iddynt roi i ni gymaint a allent am y swm oedd gennym; ond erfyniai aunt Marian arnaf i beidio bod mor blentyn-aidd a ffol. I mewn yr es er hynny, auntie yn canlyn o hirbell i gael gweld fath dderbyniad oeddwn yn gael. Chwerddais wrth ddweyd ein helbul wrth y ferch ieuanc tu cefn i'r counter, i ddangos iddi fy mod yn gwybod fod yr hyn oeddwn yn wneyd yn hollol anarferol; a chwarddodd hithau wrth ateb,—'Yr ydych wedi bod yma gynifer o weithiau, dewiswch beth a fynnoch, fe gewch dalu y tro nesaf y dewch i mewn i'r dre.’

“‘Mewn pythefnos, neu dair wythnos?’ meddwn.

“‘Pryd bynnag y byddwch yn dod,’ atebai.

“‘Ar ginio y-noswaith hynny bostiem wrth foneddwr oedd wedi pledio llawer â ni ynghylch ein cenedl fel yr oeddem wedi cael ein trystio.

“‘A wydden nhw mai Cymry oeddech?’ gofynnai.

“‘Na wydden, ond mae'n amlwg eu bod yn gweld gonestrwydd yn ein gwynebau Cymreig.’

“‘Ah!’ meddai, ‘pe baent yn gwybod mai Cymry oeddech, a phe baent yn gyfarwydd â llenyddiaeth ein gwlad, yn enwedig â gweithiau ein beirdd mwyaf adnabyddus, ’rwyn berffaith sicr na fyddai gennych y siawns leiaf am gwpanaid o de na’r danteithion gawsoch gydag ef; ond mae’n amlwg nad yw’r Eidaliaid ddim wedi trosglwyddo i’w côf, fel yr wyf fi wedi gwneyd, y geiriau tarawiadol a desgrifiadol hynny,—

‘Taffy was a Welshman,
Taffy was a thief.’

“‘Mr. L——, ’rwy’n synnu atoch, eich bod yn gwneyd defnydd o hen erfyn mor sâl,’ oedd y cwbl allem ddweyd gan chwerthin.

“Cap——, ah! bum bron a dweyd pwy oedd Mr. L——; ond gan fy mod yn bwriadu adrodd rhai pranciau bach go fachgennaidd o’i eiddo, feallai y bydd yn ddoethach i mi i gadw ei enw yn ddiregel. Yn ——land yr oedd yn byw, ac yr oedd wedi dod i Bordighera i geisio cael yn ol yr iechyd oedd wedi gollu yn y wlad honno; a chan ei fod yn adnewyddu ei nerth yn anisgwyliadwy o gyflym, teimlai fel bachgen ieuanc oedd wedi bod am flynyddau dan law haiarnaidd ysgolfeistr oedd wedi rhoi gwersi caled iawn iddo i ddysgu, ac er nad oedd yr wythnosau a dreuliodd yn Bordighera ond rhyw seibiant byr, a bod yn rhaid iddo i fynd yn ol i’r ysgol eto, llwyddodd i gael cymaint ac oedd yn bosibl o les a budd o’r ychydig wyliau, a throsglwyddodd lawer iawn o’r hapusrwydd a deimlai, nid yn unig i gyfaill oedd wedi dod yno fel cwmni iddo, ond i ninnau hefyd.

“Siaradai yn ddyddorol a buddiol iawn am ei fywyd yn ——land, a gwyddai pryd i roi tertyn ar ei hanesion cyn ein blino. Mi wn fod hyn yn beth pwysig iawn yn eich golwg chwi, gan fod eich llygad byw yn gweyd ‘Dyna ddigon’ weithiau, pan y byddaf i yn cadw yn rhy hir at yr un testyn. Ond ’doedd Mr. L—— byth yn rhoi cyfle i ni i weyd ‘Dyna ddigon.’ Roedd ganddo dalent neilltuol i siarad ac i wrando. Fe ddwedodd rhywun am Oliver Wendel Holmes ei fod nid yn unig yn siaradwr *brilliant*, ond yn wrandawr *brilliant* hefyd. Mae’r un geiriau yn ddisgrifiad cywir o Mr. L——. Un diwrnod wedi eistedd wrth y bwrdd, yn lle gofyn, fel y gwnai llawer o honom un i’r llall,—‘Ble y buoch yn cerdded heddyw?’ neu ryw gwestiwn yr un mor ddibwynt, gofynnai,—‘Pwy yw y dyn mwyaf enwog y cawsoch y fraint o siglo llaw ág ef erioed?’ Atebodd un foneddiges mai Archesgob Caergaint, boneddiges arall mai rhyw esgob adnabyddus, auntie Marian a finnau mai Mr. Gladstone, Mr. Elford mai Arglwydd Tennyson. ‘Fe aeth a mi i weld ei foch hefyd,’ meddai yr olaf, mewn tŷn oedd

yn dweyd ei fod wedi ein curo ni i gyd. 'Ah! mae'r ffaith yna yn profi fod Arglwydd Tennyson yn gwybod beth i ddangos i bawb,' meddai Mr. L—, heb yr ofn lleiaf y byddai yn digio ei gyfaill, gan ei fod yn un oedd yn medru chwerrhin am ei ben ei hun.

"Fe welwch fod cwestiwn Mr. L— yn troi yr ymddiddan i sianel mwy eang, ac yn rhoi i ni destynau gwerth siarad arnynt,— Mr. Gladstone, Arglwydd Tennyson, Dr. Benson. Cymharwch hwynt â'r testynau arferol,—y tywydd, *influenza*, y digwyddiad dibwys diweddfaf ymhlith y Saeson yn y lle, ac fe gewch ryw syniad o'n teimlad o ddiolchgarwch i un a fedrai ein codi uwchlaw yr olaf.

"Feallai fod perygl i Doris a May ffino ar ryw hanesion fel hyn, ond mi weda i stori fach wrthych am Mr. L—, fydd yn sicr o wneyd i chi wrando. Fe ddywedodd wrthym un diwrnod ar ginio, ei fod wedi bod yn gofyn i Madame Lombardi a wnai hi adael iddo ddod i'r hotel fel *Boots*, a'i bod yn hanner addaw y cai ddod. 'Dyna yw pinael fy uchelgais yn awr,' meddai, 'gohirio drwy ryw fodd fy ymadawiad o'r Belvedere.'

"'Ond,' meddai un o honom, 'ar bwy delerau y byddwch yn cymeryd arnoch waith mor isel? A fyddech chwi yn disgwyl cael ciniawa wrth y *table d'hôte*?'

"'Wrth gwrs, a chael y pleser o ymddiddan â chwi hefyd,' atebai.

"'Yr ydych yn anghofio mai *Boots* fyddech nid A— B— C—,' meddai boneddiges arall, gan enwi ei swydd.

"'Byddwn yr un mor ddysgedig, byddwn yr un mor foneddigaidd. Pwy wahaniaeth i chwi beth fydd fy ngwaith?' gofynnai Mr. L—.

"'Wedi gofyn i bob un o honom i weyd pwy wahaniaeth fyddai rhyngddo a'r boneddwr oedd yn cael y fath groesaw wrth y bwrdd, dywedodd gyda gwên yn llawn o ddireidi,—

"'Mi ellwn dweyd wrthych yn gywir sut y byddech yn ymddwyn tuag ataf ar ol y cyfnewidiad yn fy amgylchiadau. Mi wn y byddai pob un o honoch yn ol eich cymeriad yn ymddwyn yn hollol wahanol'

"'Teimlai rhai o honom braidd yn anghysurus, gan ein bod yn ofni ei fod wedi gweld ynom ryw argoel am y *snobbery* sydd mor atgas pan y byddwn yn dod i gyffyrddiad âg ef yn ereill. Ond chwerrhin yn unig a wnai pan yr erfyniai un foneddiges ar iddo fod yn hollol ddiwyll a dweyd yn gywir sut y byddai *hi* yn ymddwyn tuag ato. Cawsom fod Mr. L— wedi bod ar hyd a lled y byd yn rhy hir i oddef cymeryd ei berswadio i fod yn ddiwyll tuag at un oedd heb amheuaeth yn twyllo ei hunan."

H. E. M.

RHODIO'R LLWYBR.

I.

MAE llwybr yn y dyffryn
 Yn croesi'r caeau gwyrdd,
 O'i gylch mae coed ac adar,
 A gwenau blodau fyrdd;
 Ein pennaf peth yw rhedeg
 Ar ysgafn, ysgafn droed,
 A chanu cân o gariad
 I'r llwybr drwy y coed.

II.

Hen llwybr hoff y dyffryn,—
 Nyni yn unig ŵyr
 Y modd yr ymhyfrydem
 Ei rodio fore a hwyr;
 Ac wrth ddychlamu drosto
 Fe glywem lais o bell,—
 "Mae llwybr bach y dyffryn
 Yn dangos llwybr gwell."

III.

Mae llwybr mwy urddasol
 I'w gerdded yn y byd,
 Sef gwneuthur ein dyledswydd—
 Ar hyn y rhown ein bryd;
 A'r Iesu a'n harweinia
 Nes myned ato Ef,
 I rodio llwybrau'r Wynfa,
 A chasglu blodau'r Nef.

THOMAS LLOYD JONES.

Y LLWYNOG A'R GOEDIAR.

MEWN newyddiadur, beth amser yn ol, ysgrifennai boneddwr
 o'r Alban hanes

"Y llwynog coch o'r ogof,
 Gelyn pob aderyn dof."

Dywedai ei fod un diwrnod yn sefyll mewn maes agored, ger llaw
 coedwig lle y porthid coedieir gan berchennog y lle. Tynnwyd ei
 sylw gan dwrw coediar yn ehedeg tuag ato. Safodd yr aderyn ar
 ben coeden fawr, uchel, am y terfyn ag ef.

Ymhen munud neu ddau gwelai llwynog yn prysuro drwy y coed
 i'r un lle. Safai y boneddwr yn ddistaw, i wyllo yr olygfa. Gwelai
 y llwynog yn sefyll wrth fon y goeden lle'r oedd y goediar, ac yn
 fuan dechreuodd droi o'i hamgylch gyda chyflymdra.

Ymhen ysbaid byr wedyn clywid twrw yr aderyn yn syrthio i
 lawr drwy frigau y goeden, ac yn disgyn yn agos i'w gelyn cyfrwys.
 Cipiodd y llwynog afael yn y goediar ar unwaith, a chollwyd golwg
 arno mewn eiliad yn y coed.

Dywedai y boneddwr y carai gael gwybod, os gwelodd rhywun,
 yn rhywle, rywbeth tebyg i'r uchod. A oes rhywun o'm darllenwyr
 all ei ateb?

Penmachno.

OWEN T. DAVIES.

JOGONNATH.

Y MAE enw Jogonnath yn hysbys i bawb, cyrhaeddodd ei hanes ers llawer dydd i lyfrau'r ysgolion elfennol, ac yno desgrifir y creulonderau erchyll gymer le ar ddydd mawr ei wyl. Erbyn hyn, drwy rym cyfraith Brydeinig, nid yw y creulonderau ond pethau mewn hanes; eto, parha Jogonnath yn ei fri cyntefig, a chedwir ei wyl bron ym mhob tref a phentref drwy dalaeth boblog Bengal. Enilla enw iddo ei hun o fod yr eilyn hyllaf ymysg eilunod hyllion India; ond chwareu teg iddo, y mae'n barod gyda'i reswm am hyn.

Dyma'r fel y digwyddodd, yn ol traddodiad. Lladdwyd Krishna, yr ymgnawdoliad llawnaf o dduw yn ol yr Hindw, yn ddamweiniol gan heliwr,—y creadur dwl hwnnw yn ei gamgymeryd am aderyn. Yna llosgwyd ei gorff, yn unol â'r arferiad gyffredin, a chadwyd ei esgyrn. Yn fuan derbyniodd brenin y dalaeth y digwyddodd hyn ynddi orchymyn o'r nefoedd i barotoi delw i gadw ynddi esgyrn Krishna. Ar ol dyfal chwilio cafodd y brenin hyd i saer celfydd, yr hwn addawodd wneyd delw ar yr unig amod nad oedd neb i ddod i edrych arno yn gweithio. Cydsyniodd y brenin â'r telerau, ond ym mhell cyn i'r saer orffen aeth cywreinrwydd yn drech na'r brenin, ac yn llechwraidd aeth i weled y gwaith. Ar hyn, taflodd y saer ei gelfi ymaith, a gorfu i'r ddelw fod ar hanner ei gorffen. Druan o Jogonnath, dyma paham y mae ei lygaid o faintioli mor fawr, a'i enau yn cyrraedd o glust i glust, ei freichiau fel holbrennau heb esgus o fysedd yn agos atynt. Cuddir amherffeithrwydd y gweddill o'i gorff gan ddillad gwychion. Er y cwbl y mae y parch a delir iddo gan wreng a bonedd yn ddiderfyn.

Ar gyfer dydd mawr yr wyl parotoir cerbyd, os iawn galw rhyw ysgaffaldiau ar olwynion yn gerbyd. Pa un bynnag, gwna y tro i gario Jogonnath, yr hwn a roddir ar esgynlawr ar ben uchaf y



JOGGONATH, DUW INDIA.

cerbyd, uchdwr o bedair neu bum llath o'r llawr. Weithiau bydd Jogonnath yn mynd ei hun yn y cerbyd, dro arall ca gwmpeni ei wraig neu ei frawd a'i chwaer. Nawn dydd yr wyl, adeg y machluda'r haul, cychwynnir allan drwy i driugain neu ragor o feibion a merched dynnu y cerbyd. Arhosir ar ol cyrraedd un llecyn arbennig, lle yn ol y chwedl y triga ei dad yng ngyfraith, ond yn yr oes taterol yma nid yw yn ddim amgen na llecyn dipyn yn agored a chyfleus. Yn y cyfamser, gwelir fod cerbydau cyffelyb yn dod o wahanol gyfeiriadau, pob pentref, ie, weithiau dau neu dri o deulu-oedd wedi ymuno â'u gilydd, yn gwneyd cerbyd ac yn ei dynnu. Fel, os bydd y lle cyfarfod yn agos i dref, gwelir cymaint ag ugain o gerbydau yn cyfarfod ac yn ffurfio cylch. Yng nghanol y cylch gwelwn ddwsin neu ragor, gyda gwahanol offerynau cerdd, yn canu moliant i Krishna. Anhawdd yw gwneyd fawr o synwyr o'u geiriau, ond clywem ddau air yn aml iawn yn y gân, sef "hori bol." Ystyr hynny yw,—“Galwch ar y gwardwr,” sef Krishna. Wrth ail ddweyd ei enw fel hyn, pentyrrant rinwedd a fydd yn dda iddynt wrtho yn y dyfodol.

Syniad sydd wedi glynu yn ddwfn yn y dwyreinwyr yw fod rhinwedd yn deilliaw o ddim ond dweyd enw eu duw. Clywir y Mahomedan yn gwaeddi "Allah" byth a hefyd. Dyna ei enw ef ar Dduw. Ai dyma paham y rhoddwyd y gorchymyn gynt,—“Na chymer enw'r Arglywydd dy Dduw yn ofer?”

I ddychwelyd at Jogonnath,—yn ystod y daith, ac ar ol cyrraedd i'w phen, gwelwn ddau neu dri o offeiriaid ar bob cerbyd yn brysur yn cyflwyno offrymau y bobl i'r eilun. Os arian fydd yr offrwm, yna a yr oll o hono i'r gôd sydd yn hongian ymlaen y cerbyd; os ffrwythau, caiff yr addolwyr ran yn ol, yr hyn a fwyteir yn awchus er mwyn ennill sancteiddrwydd. Dacw un offeiriad yn brysur yn ffanio Jogonnath; y mae'r tywydd dipyn yn dwym. Dacw un arall wedi taro ar gynllun gwell, y mae wedi hongian ffan fawr uwchben y cerbyd ac yn ei thynnu yn ol a blaen â chortyn o'r tu ol.

Ar ol hanner awr o ganu ac offrymu troir y cerbyd yn ol. Dyma ddiffyg eto yr oes faterol yma. Nid yw Jogonnath yn wir i ddod yn ol am ddeng niwrnod, ond beth wneir? Nid oes lle iddo aros allan dros yr amser yma. Felly, rhaid ei dynnu yn ol, ac ymhen deng niwrnod mynd ag ef drachefn i'r un lle. Eto, gelwir y dydd cyntaf "dydd y daith i dŷ y tad-yngyfraith," a'r llall "dydd y daith yn ol."

Cymerir rhan yn yr helynt gan fawr a bach, a'r bobl gyffredin yn rhoi eu hunain gydag ynni i'r gwasanaeth. Dywed y rhai sydd wedi cael tipyn o addysg nad ydynt yn credu oes yn hyn; eto, cymaint yw adyniad yr arddanghosiad fel nad oes neb yn gallu sefyll draw.



LLAWNDER YR HYDREF.

Wyneb holl dir ein pellderau—meithion,
 Mewn amaethol barthau,
 Orchuddir gan geirch a heiddiau—llawn, glân,
 A digon weithian o deg wenithau.

EBEN FARDD.

SIGARET.

Y MAE cwmni rheilffordd mawr yn yr Amerig yn gwahardd i'w gweision ysmegu sigaret. Dywedir fod yr ysmegu hwn yn gwneyd dynion yn llai cydwybodol, yn llai effro i arwyddion perygl, ac yn salach dynion ymhob dull.

Y mae yr ysmegu anheilwng hwn yn gwanhau y cyfansoddiad. Os dechreua plentyn ysmegu sigaret, ond odid mai eiddilyn fydd ar hyd ei oes. Dywed meddygon fod y sigaret yn atal tyfiant bechgyn, yn tueddu i roi golwg byr iddynt, yn arafu ynni eu hymennydd,—yn gwneyd corachod ohonynt o gorff, ac eiddilod o feddwl. Gwanheir eu hewyllys, a byddant yn wannach pethau nag ereill. Y mae rhai Byrddau Ysgol yn dechreu gofyn am foddion i rwystro plantos difeddwl wneyd niwed iddynt eu hunain trwy ysmegu'r sigaret.

DYMUNO MWY.

A NAML iawn yr ydym yn foddolawn ar yr hyn sydd gennym. Yr wyf yn adnabod tad a mam sydd yn meddu mab cys-tuddiol. Y mae'n bymtheg oed yn awr, ond nid oes olwg y medru wneyd fawr byth i ennill edmygedd y byd. Y mae'n wan o nerth; rhaid iddo orwedd bron trwy'r dydd. Y mae'n fachgen hoffus ryfeddol, yn dioddef yn dawel a dirwgnach, ac yn ganwyll llygad tad a mam. Tybia'r ddau y byddent yn berffaith ddedwydd pe gwelent eu bachgen yn medru rhedeg a chwareu gyda'r plant ereill ar wres a gwlaw.

Yr wyf yn adnabod tad a mam sy'n meddu mab llawn o bob iechyd ac ynni. Y mae yntau,—fab bochgoch a llawn o ddireidi a chwerthin,—yn hoff iawn gan ei rieni. Ond ychydig o'i gwmmi gânt. Er pan oedd yn bedair oed y mae allan yn chware o hyd; ni ddaw adre ond i gysgu. Ac yn fuan iawn bydd wedi eu gadael, arwain ei ysbryd anturiaethus ef i Affrig neu China. A thybia y tad a'r fam y byddent yn berffaith hapus pe'r arhosai eu mab ychydig ychwaneg yn eu cwmni.

AWGRYM.

“**F**ASECH chi'n leicio tase chi'n fi, mami?”
“Buaswn, fy machgen i.”

“Mi faswn inne'n leicio bod yn chi, mami. Mi roiswn i ddime i chi bob dydd Llun.”

GWLAD HUD.

(Casgliad o Ystraeon Hud o
bob gwlad.)

X. TORRI AMOD.

(Un o Ystraeon Hud Mongolia.)



YR oedd llwyth wedi cartrefu er
ys peth amser rhwng llyn-
noedd Kobdo a mynyddoedd yr
Altai Mawr. Yr oedd yno borfa
dda, a dŵr glân ddigon. Pesgai'r
ceffylau a'r gwartheg a'r geifr a'r
defaid. Ac yr oedd y llwyth yn
hapus iawn. "Ni raid i ni ymadael
oddiyma yn hir," meddent, "os
byth."

Ond nid fel y dymuna dyn y
digwydd yn aml. Ryw nos, daeth
tyrfa ddirifedi o lygod i'r gwersyll. Bwytaent bob peth; nid yn
unig bwyd, ond y crwyn y gorweddid arnynt, a'r careiau oedd yn
sichau y pebyll. Ni fedrid eu dal; a gwelodd y llwyth fod raid
gadael llewyn dymunol iawn, a throi i anialdir Gobi i chwilio am
ddwr a phorta arall.

Cyn tynnu'r pebyll i lawr, y bore yr oeddynt i gychwyn, daeth

corach i'r gwersyll o rywle. Rhedodd y plant i gysgod y pebyll rhag ei ofn. Oherwydd yr oedd yn hyll iawn,—ei geg yn anferth, ei glustiau fel clustiau mul, ei goesau fel bachau crochan, ei ddwyllaw yn ddigon i guddio dafad odditanynt, ei llygaid yn fflamlyd gochion.

“Os caf fi ddeugain dafad dda,” meddai, “mi yrraf y llygod i fwrdd i gyd.”

Addawodd pennaeth y llwyth y deugain dafad oreu a feddent iddo, ar yr amod hwnnw. Tynnodd y corach bib o waled fawr oedd ganddo ar ei gefn, a dechreuodd ei chanu. Wrth iddo ganu, dechreuai'r llygod nesu ato i'w wrando. Toc, dylifent ato o bob twll, safent ar eu traed ol, ac ni welent ddim ond efe.

Toc, dechreuodd y corach gerdded, dan ganu. Aeth y llygod, yn un dyrfa fawr, i'w ganlyn. Arweiniodd hwy i lyn o ddwfr hallt gwenwynig; ac yno trengasant bob un.

Daeth y corach yn ol i ofyn ei ddefaid. Yr oedd y pennaeth wedi pigo deugain iddo; ond rhai teneuon clafrlyd oeddynt i gyd. Gwylltiodd y corach; gwrthododd y defaid; ac aeth ymaith dan fyrgg y llwyth mewn rhyw iaith ddieithr. Lluchiodd y plant gerrig ar ei ol. “Cewch chwithau edifarhau,” meddai.

Y nos honno daeth hen swynes i'r gwersyll. Dynes dal oedd, a breichiau hirion, a gwallt du, a llygaid tanllyd. “Ni roddasoch ei ddeugain dafad i fy mab,” meddai, “rhaid i mi gael deugain o'ch plant.” Aeth yn wylo mawr ymysg plant y gwersyll.

Cododd y swynes ei llaw. Daeth yn ystorm o fellt a tharanau arswydus, llifai gwlaw yn genllif dinistriol. A rhag ofn i'r holl lwyth farw, dywedwyd y cai y deugain plentyn. Wedi hel y plant at eu gilydd, diflannodd y swynes, a'r plant oll gyda hi,—ond un. Yr oedd mam y plentyn hwnnw wedi gweddio drosto y bore; ac yr oedd ef yn ddiogel.

Crwydrodd y llwyth am fisoedd lawer, gan alaru am y plant. Pan ddaethant at dir Uliasutu, canfyddasant hen ŵr doeth, ac adroddasant yr hanes iddo. “Y mae'r ddewines yn byw mewn castell du mawr yn Cara Ousu,” meddai. “Nis gall ond plentyn fynd yno. Rhaid ei fod yn blentyn y gweddiodd ei fam drosto bob bore. Rhaid ei fod yn blentyn na ddywedodd anwiredd erioed, ac na fu'n anuffudd. Rhaid rhoi yn ei law gleddyf na fu erioed yn llaw neb ddiangai rhag blaidd na lleidr.”

“Y bachgen adawyd gaiff fynd,” ebe'r pennaeth. “Gweddiodd ei fam drosto bob bore, bu ei dad farw wrth amddiffyn y praid. Cymered gleddyf ei dad, ac eled i'r castell.”

Aeth y bachgen, ac adroddir hanes y pethau rhyfedd welodd yn y castell, ac fel y rhyddhaodd ei gyfoedion, hyd y dydd hwn, gan fugeiliaid Mongolia.



PLANT CYMRU. CXXXIII. RHAI O BLANT PENLLWYN.

RHAI O BLANT PENLLWYN.

LLAWER gwaith y bu plant Penllwyn yn dymuno gweled eu darlun ymysg darluniau plant Cymru, ac wele bellach eu hoff ddymuniaid wedi dechreu cael ei sylweddoli.

Darlun ydyw hwn o ddosbarth dan ddeuddeg oed fu'n sefyll yr Arholiad Sirol eleni. Yn y canol gwelir y Parch. D. Morgan, ein gweinidog, ac wrth ei ochr Mr. Abram J. Pierce,—y rhai sy'n cydlafurio i baroto'r plant gogyfer a'r arholiadau hyn. Gwneir mwy o ymdrech yma gydag egwyddori'r plant yn yr Ysgrythyrau nag a wneir gyda dim arall, ac nid rhyfedd felly eu bod yn blant da. Coronir y llafur hwn â llwyddiant da bob blwyddyn, gan y saif y nifer luosocaf o'r plant yn uchel yn y dosbarth blaenaf ar restr y rhai llwyddiannus. Daeth llawer gwobr i'r dosbarth hwn erioed, ac fe ddaeth tair gwobr i'r dosbarth nesaf ato eleni, a merch dan 21 oed o'r ardal enillodd y wobwr flaenaf, gyda'r bathodyn arian yn y dosbarth hwnnw.

Mae'r dynion da godwyd yn yr ardal yn creu rhyw ysbrydiaeth yn y plant hyn am ddod yn gyffelyb iddynt. Maent wedi eu gosod ar ben y llwybr priodol i gyrraedd y nod hwnnw.

Ganol haf eleni bu'r Ysgol Sul yn treulio diwrnod yn Aberaeron. I ddangos fel y gall plant Penllwyn ymddwyn ar ddydd gwyl mewn lle dieithr, dyfynnwn yr hyn a ganlyn a ymddanghosodd mewn un o newyddiaduron y sir yr wythnos ganlynol, wedi ei anfon gan ohebydd enwog o'r lle hwnnw,—

“Nis gallai ymwelydd â'r ystafell lle ciniawent beidio sylwi ar ymddygiad gwylaidd, didwrw, a boneddigaidd y plant. A chan eu bod yn dod o gartref Dr. Edwards, Ieuan Gwyllt, y prif athraw John Rhys, Dr. Cynddylan Jones, y prif athraw Owen Prys, ac ereill llai enwog, nis gellid llai na disgwyl iddynt bod yn well na phlant ereill.”

Ardal amaethyddol yn bennaf ydyw Penllwyn, ac fel pob ardal o'r fath, bychan ydyw nifer y plant. Y mae oddeutu cant o enwau ar lyfrau'r ysgol ddyddiol. Addysgir y rhai hyn gan yr athraw medrus Mr. R. Adams, brawd y Parch. D. Adams (*Hawen*). Mae yn athraw yma ers dros chwe blynedd ar hugain, ac y mae'r ysgol ganddo yn meddu'r bri o fod yn un o'r rhai goreu yn y sir.

PETH I'W YSTYRIED.

“**G**ALLAF eich sicrhau,” ebe awdwr “Gochelwch,” y darn i'w adrodd yn y rhifyn hwn, “fod pob pennill yn sylfaenedig ar ffeithiau difrifol. Dyma yr olaf. Cafwyd corff dyn ieuanc, beth amser yn ol, wedi boddi ger y lanfa yn Lerpwl. Gan nad oedd dim ar y corff y gellid, drwyddo, wybod pwy oedd y trancedig, hysbyswyd am dano yn y newyddiaduron. Derbyniodd y treng-holydd, cyn pen yr wythnos, dros 300 o lythrau, o wahanol Barthau y wlad, yn gofyn am ddesgrifiad a manylion cyflawnach am y trancedig. Son am ryfel Deheudir Affrica; y fasnach feddwol yw y gelyn mwyaf ofnadwy a dinistriol a fedd Prydain heddyw.”

“BAD LORD STOURTON.”

Y MAE gŵr yn awr yn ceisio profi y dylai gael sedd yn Nhy'r Arglwyddi. Ymysg ei hynafiaid,—a rhaid iddo adrodd hanes llawer ohonynt,—y mae “bad Lord Stourton.” Un o'r lordiaid gwaethaf oedd hwnnw. O'r diwedd llofruddiodd dad a mab. Ar ei dreial ni ddywedai air, hyd nes y bygythiwyd ei wasgu i farwolaeth, yna cyffesodd. Un ffafir gafodd oherwydd ei waed,—ei grogi â llinyn o sidan yn lle â'r cortyn cyffredin. Y mae ei fedd yn eglwys gadeiriol Salisbury, a bu'r llinyn sidan yn crogi uwch ben y bedd hyd nes y braenodd o henaint.

Y PERL OLAF.

(UN O STRAeon HANS ANDERSEN.)

DYMA ni mewn tŷ llawn cyfoeth a dedwyddwch, a phawb o'i fewn, yn ŵr ac yn wraig, yn gyfeillion ac yn weinidogion, wedi eu llanw o falchder ac o lawenydd. Y mae heddyw yn ddydd o lawenydd i'r rhieni, canys ganwyd iddynt etifedd a mab.

Yn yr ystafell lle cysgai'r fam a'i baban yr oedd y lamp wedi ei chysgodi'n ofalus, gorchudd o sidan wedi ei dynnu tros bob ffenestr, carped esmwyth fel mwswgl tan draed, a'r lle yn llawn gorffwys a hedd. Cysgu wnelai'r weinyddes (*nurse*); a gallai wneyd hynny'n eithaf tawel, canys digwyddai fod popeth yn iawn. Plygai'r ysbryd berthynai i'r teulu uwch y gwely gan ddal rhwydwaith o sêr disglær uwchben y baban; a phob seren yn berl o gyfoeth a dedwyddwch. Yn eu plith yr oedd iechyd, a chyfoeth, ffawd dda, ac anwyldeb, i'w gweld,—pob peth y dymuna dyn ei gael ar y ddaear hon.

"Y maent wedi dyfod a phopeth," ebe'r yspryd.

"Nid popeth," ebe llais gerllaw. Oddiwrth angel gwarcheidol y baban y daeth. "Y mae un ysbryd caredig wedi atal ei rodd. Fe ddaw, ond nid yn awr; hwyrach na ddaw efe ddim am flynyddau. Y mae'r perl olaf eto'n ngholl."

"Y perl olaf yngholl? Ond chaiff hynny ddim bod. Tyred hefo mi i chwilio am yr ysbryd, i'r blethdorch ser fod yn gyfan."

"Y mae'n siwr o ddod; paid ofni dim. Fe ddaw heb chwilio am dano."

"Dywed wrthyf ymhle mae'n byw. I beth y mae'n oedi? Dywed ymhle y dof o hyd iddo, ac af ato i ymfyn y perl."

"Wyt ti am fynnu mynd?" ebe'r angel da. "Yna mi a'th arweiniaf ato yn ebrwydd, gan nad ymhle y mae. 'Does ganddo'r un cartref sefydlog, yn crwydro o balas i fwthyn y bydd, ond ni âd ungrwr heb ei gyffwrdd. Daw a rhyw rodd neu gilydd i bawb, boed honno degan boed fyd. Ac fe ddaw at y bachgen yma hefyd. Wyt ti ddim am aros am dano? Wel, gad inni, ynte, fynd i ymfyn y perl, yr olaf yn y gadwen."

Ac yn law-law rhedodd y ddau i'r fan lle'r oedd yr ysbryd gadwai'r perl yn byw.

Tŷ mawr ydoedd, ac ynddo tynedfeydd tywyllion ac ystafelloedd gweigion; ymdaenai rhyw dawelwch dieithr tros bob man; ymwithiai awel y nos i mewn fel y mynnai drwy'r ffenestri agored, a chwyfiai'r gorchuddlenni gwynion, hirion, yn y gwynt oer, oer.

Yn y fwyaf o'r ystafelloedd yr oedd arch agored, ac ynddi gorff dynes, ieuanc a phrydweddol iawn. Ar ei mynwes, ac yn ei dwylaw plethedig, yr oedd rhosynnau newydd eu torri; a dygai

tawelwch ei gwyneb teg, oedd heddyw'n decach nag erioed yn yr angau, arwyddion allanol ei hymgyflwyniad i Dduw a'i hymdaith i'r anweledig.

Safai'r gŵr a'r plant o gylch yr arch, a'u dagrau'n treiglo'n lli; ac yswatiai'r ieuengaf yng nghesail ei dad. Dyma'r olwg olaf gaent ar wyneb un a fawr hoffent; a'r tad a roes gusan i'w llaw. Disgynnai honno mor farw a dalen wyw'r hydref; er nad oedd fawr er pan welsent hi yn prysur weini caredigrwydd i bawb. Ddywedai neb yr un gair, ond llefarai'r distawrwydd gyfrolau o alar. Ac yna, yn ddistaw bach, llithrodd y galarwyr allan o'r ystafell.

Ger yr arch dacw ganwyll yn llosgi, a'i fflam yn ymgodi ac yn chwareu yn y gwynt. Dyna sw'n traed dieithr yn yr ystafell, y caudad yn cael ei ddodi ar yr arch, a phob ergyd o eiddo'r morthwyl yn mynd i galon y tad a'r plant.

"I ble'r aethost ti a fi?" ebe'r ysbryd. "'Does yma'r un perl i'w gael."


"Oes, yn yr ystafell yma, gysegrwyd gan weddi a galar," ebe'r angel. A chyfeiriodd â'i fys i gornel yr ystafell, lle'r arferai y fam ymadawedig eistedd, ynghanol ei blodau a'i llyfrau, ac o'r lle, megis angyles y teulu, yr arferai hi wlawio ei bendithion ar bawb, gan fod yn ganolbwynt holl sirioldeb a llawenydd y tŷ. Nid oedd yno ond un ddieithr erbyn hyn, boneddiges wedi ymwisgo mewn du; Galar ydoedd enw'r angyles, a theyrnasai dros y tŷ yn lle yr un a fu. Disgynnodd deigrin poeth ar ei glin gan edrych yn debyg i berl; disgleiriai fel seithliw'r enfys, a chipiodd yr angel ef yn ei law.

"DYMA'R perl olaf a goreu oedd yngholl," ebe'r angel, "set perl adfyd, sy'n rhoi eu hystyr a'u gloewder i'r lleill. Dysga weled ynddo ogoniant yr enfys glyma'r nefoedd a'r ddaear ynghyd; y bont a'n tywys drwy angau i'r bywyd, Yn y tywyllwch yn unig y medrwn ni weld y ser, a thrwy adfyd yn unig y medrwn ni gyrraedd perffeithrwydd. Y tu fewn i berl adfyd y mae edyn yr enaid wedi eu plygu, yn disgwyl am fynd a ni oddiyma i'r llawenydd tra-gwyddol."

Y BLODYN AR Y BEDD.

SUT y meiddiaist, flodyn bychan,
 Uwch marwoldeb wneyd dy sedd?
 Pam y gweini yma'th hunan?
 Beth yw'th neges ar y bedd?
 Credaf fod y swynion purlan
 Wenant ar dy blygion gwyn
 Yn awgrymu mai dy amcan
 Yw sirioli llwybrau'r glyn.
Bethania.

Ar y beddrod mewn unigedd
 Dyna ydwyf,—proffwyd hedd,
 Yn proffwydo am dangnefedd
 Yn y byd lle nad oes bedd;
 Hawdd i flodyn gwyn yw gwenu
 Uwch gorweddfan plentyn Duw,
 Wedi iddo ef ymdrechu
 Gwneyd y byd yn wyn wrth fyw.
 CLEDANYDD.



COLOMENNOD CRWYDR.

Y GOLOMEN GRWYDR.

Y MAE'R golomen grwydr yn un o adar mwyaf dyddorol yr Amerig. Aderyn glas yw, ond yn wyn odditano; gydag adenydd duon, ymyl wen. Mae ei lygad yn goch disglaer, ei big yn ddu, a'i droed yn ddugoch.

Crwydra o fan i fan i chwilio am ei fwyd; a'i grwydriadau sydd wedi rhoddi ei enw iddo. Daliwyd un yn New York a reis yn ei grombil; yr oedd wedi cael ei bryd diweddfaf, felly, ar gaeau reis Carolina, tua phedwar can milltir i fwrdd. Yr oedd wedi ehedeg milltir bob munud. Beth yw cyflymder llongau'r Werydd wrth hyn? Gallai un o'r colomennod crwydr ymweled âg Ewrob mewn tri diwrnod.

Rhaid fod eu gwelediad yn wyrthiol graff, ymron. Ehedant yn uchel wrth grwydro dros dir anial, i weled aceri ar unwaith. Ehedant yn isel uwch tir firwythlon, yn ddim llawer uwch na'r coed.

Wrth newid gwlad, crwydrant yn un llinell hir ddu, fel llond ffordd o bobl. Gwelodd Audubon hwy'n croesi'r Ohio am ddarn diwrnod cyfan. Rhaid fod yno filiynau ar filiynau ohomant. Cytrifai un awdwr fod dros 2,000,000,000,000 o golomennod ymhob haid, a'u bod yn gofyn yn agos i ddeunaw miliwn o fwsieli o yd bob dydd.

Wrth ehedeg dilynant eu gilydd bob amser. Os ymesyd aderyn rhaib ar y colomennod cyntaf, a gwneyd iddynt gymeryd cylch i'w osgoi, cymer yr adar sy'n dilyn yr un cylch, er fod eu gelyn wedi mynd o'r golwg.

Eu hoff orffwysfan yw ambeu goedwig dewfrig. Yno daw eu gelynyon i ddisgwyl am danynt. Daw amaethwyr yno, yn gyrru moch i besgi ar y celaneddau. Ymgasgl adar rhaib yn y coed. A draw clywir cyfarthiadau a rhuadau bleiddiaid, llwynogod, ac eirth.

Y mae llu o ddynion, gyda gynnu a pholion hirion, yn disgwyl dan y coed. Y mae pob peth yn ddistaw. Ond toc, pan oedd y gwyll yn duo i'r nos, dyma waedd,—“Maent yn dod.” Clywid swn fel swn tonnau lawer, neu swn awel yn y coed. A chlywid yr adar yn dod i'r coed i glwydo. Cyn hanner nos yr oedd holl ganghennau y coed mawr yn plygu dan adar; ac weithiau torrai canghennau mawrion dan eu pwysau.

Dechreuau'r gelanedd. Curir hwy i lawr â pholion, saethir hwy,—disgynnant i'r ddaear wrth y cannoedd ac wrth yr ugeiniau. Pan ddaw'r bore bydd y ddaear wedi ei hulio â'u cyrff. Codir hynny sydd eisiau yn fwyd i'r bobl. Yna gadewir i'r moch ymborthi ar y gweddill. Ac wedi iddynt hwythau gael eu diwallu, bydd digon o gig colomennod i besgi miloedd o fleiddiaid a llwynogod newynog.

COFGOLOFN DANIEL OWEN.

Y MAE cerddedw bres o Daniel Owen i sefyll mewn lle amlwg yn y Wyddgrug. Bydd pob plentyn a heibio yn gofyn cofgolofn pwy yw. Atebir mai cofgolofn yr hwn ysgrifennodd am Mari Lewis a Rhys Lewis a Bob, am Tomos Bartley a Mr. Pugh a “chapel mawr Iesu Grist.” Ac felly bydd y golofn yn help i ddysgu plant yr oes a ddél.

Nid yw'r golofn wedi ei gosod eto. Y mae eisiau can punt yn ychwaneg. Nid oes neb wedi darlunio plant gyda mwy o serch tuag atynt na Daniel Owen. A wneiff y plant gasglu ychydig o'r canpunt, a'u hanfon i mi i Lanuwchillyn? Cyhoeddaf yr enwau yn CYMRU'R PLANT.

BETH YW'R AWYR?

UN o'r cwestiynau cyntaf i'w ofyn ynglŷn â'r awyr ydyw,—
 "Beth ydyw?" Uniad o ddau nwy ydyw, ac nid cymysgfa
 ohonynt. Enwau y ddau nwy yw oxygen a nitrogen.

O gan mesur o'r awyrgylch, y mae un rhan ar hugain yn oxygen,
 a'r gweddill yn nitrogen. Oxygen sydd yn cyd-losgi,—yn rhoi
 gwres wrth ymuno â phethau ereill. Y mae'n hanfodol i gynnal
 pob math o fywyd, ac yn un o'r pethau pwysicaf yn natur. Y mae
 hanner crystyn y ddaear yn cynnwys oxygen, a chynhwysa dwfr
 wyth ran o naw o hono.

Nis gall nitrogen gynnal cydlosgiad, ac nid yw mewn un modd yn
 cynnal bywyd. Rhyw fath o gydymaith araf i oxygen yw, neu
 garchar iddo.

Y mae yr awyrgylch yn amgylchynu y ddaear, yn troi gyda hi yn
 ddyddiol ar ei hechel, ac yn cylchdroi o amgylch yr haul. Cyrhaedda
 i fyny am yn agos i hanner can milltir, a phwysa yn ol ei uchder a'i
 dewder, oherwydd y mae y rhain yn gyfnewidiol. Dengys y
 barometer fod yr awyrgylch yn pwysu pymtheg pwys ar bob
 modfedd ysgwar dros wyneb y ddaear. Pwysa bedair tunell ar ddeg
 ar gorff dyn canolig, ac ni fedrai'r dyn ddal y fath bwysau, ond
 oherwydd fod yr awyrgylch yn pwysu gyda'r un nerth ym mhob
 cyfeiriad, ac yn gwneyd y pwysau yn ddim. Pwysau yr awyrgylch
 dros holl wyneb y ddaear yw 5,000,000,000,000,000 o dunelli, neu
 bwysau pelen o blwm triugain a chwech o filkiroedd mewn tryfesur.

Gadewch i ni edrych ar rai o'r canlyniadau pe bai modd dileu'r
 awyrgylch. Ni fuasai yr un math o fywyd yn bod. Chlywid yr un
 swn o fath yn y byd. Diflannai y Nïw glâs prydferth sydd yn yr
 awyr, oblegid yr awyr sydd yn adlewyrchu goleuni yr haul. Ni
 fuasai gwawr yr y bore na gwyll yn yr hwyr, oherwydd yr awyrgylch
 sydd yn gwrthdorri (*refractor*) goleuni yr haul, ac yn achosi y gwyll.
 Ni buasai dim gwlaw, eira, gwynt, nac ystorn. Ymddanghosai yr
 haul mewn un lle yn yr awyr, a thywyllwch dudew o'i amgylch. Fe
 droai y dywell nos yn oleu ddydd heb un rhybudd. Mewn gwir-
 ionedd, pe dileid oxygen yr awyrgylch, darfyddai pob math o fywyd
 yng ngwahanol barthau y ddaear, yr awyr, a'r môr.

Y mae enwau Cymreig ar oxygen, nitrogen, a barometer. Yr
 wyf yn meddwl mai "ufel" yw gair y geiriadur am oxygen, ac
 "awyr fesurydd" am barometer. Ond gwell i ni dderbyn y geiriau
 gwyddonol, oll wedi eu gwneyd o iaith y gŵyr y byd am dani, sef yr
 iaith Roeg. Y mae ieithoedd ereill yn derbyn y geiriau gwyddonol
 hyn; a phaham na wnawn ninnau?

J. C. M.

"Bugail Israel."

DOH D. *Andante.*

T. OSBORNE ROBERTS, Ysbyty Ifan.

}	:m.f s :fe.s l :s.m m :— r :r.m f :s.l s :—f m :— —
	:d.r m :re.m re :m.d d :— t, :t, d t, :d d.t, :l, t, d :— —
	:s.s s :l.s fe :s s :— s :f.m r :m.f r :—s s :— —
	:d.d d :d d :d s, :— s, :s, s, s, :s, s, :—s, d :— —

}	:m.f s :fe.s l :s.m ^{A.t.} d'f :— m :r.d ^{rall.} s, l, :t, d ^{f.D.} rd.t, :l, t, d s :— —
	:d.d d :d d :d ^{A.t.} m, l, d :t, l, ^{rall.} s, :l, l, ^{f.D.} s, fe, :f, s, f, :f, m, t, :— —
	:s.s s :l.s fe :s ^{A.t.} d, l, :r, d t, :r, re ^{rall.} m, d :r, m r :r d s :— —
	:d'.r m :m re :m.d ^{A.t.} l, r, :— m, :f, fe, s, :s, s, :s, d, s, :— —

}	<i>tempo. dolce.</i> :r.m f :m.f l :s.f m :—f s : ^{A.t.} d, t, ^{cres.} l, t, :d, r m :f m :— —
	:t, d t, :d, r f :m, r d :— d : ^{A.t.} m, s, e, ^{cres.} l, s, e, :l, d d :t, r :d, t, d
	:f, m r :s s :s s :— s : ^{A.t.} m, m m :m, f s :s s :— —
	:s, s, s, :s, s, :s, d :— r, m : ^{A.t.} m, l, t, ^{cres.} d, t, :l, s, s, :s, d :— —

}	<i>f.D.</i> : ^f d'.r' d' :t, l s :f, m r :f l :t, d' ^{rall.} d'.s :f, m m :— r d :— —
	: ^d s.s s :s, f m :r, de r :— re :re, re ^{rall.} m, d :d d, l, :t, d :— —
	: ^f d'.t' d' :d' d' :l, s f :l d' :t, l s :l s, fe :f m :— —
	: ^l m.f m :d d :r, m f :— fe :fe, fe s, m :f, f, s, :—s, d :— —

Bugail Israel sydd ofalus

Am ei dyner anwyl ŵyn;
 Mae'n eu galw yn groesawus,
 Ac yn eu coffeidio'n fwyn.
 "Gadewch iddynt ddyfod ataf,
 Ac na rwystwrch hwynt," medd Ef,
 "Etifeddiaeth lân hyfrydaf
 I'r fath rai yw teyrnas nef."

Deuwn, Arglwydd, â'n rhai bychain,
 A chyflwynwn hwynt i Ti;
 Eiddot mwyach ni ein hunain,
 A'n hiliogaeth gyda ni.
 Dewch, blant bychain, dewch at Iesu,
 Ceisiwch wyneb Brenin nef;
 Hoff eich gweled yn dynesu
 I'ch bendithio ganddo Ef.

MORRIS DAVIES, BANGOR, 1796—1876.

MAHOMETANIAID AC IDDEWON.

(CHARLES EDWARDS.)

Y MAE gan y Tyrciaid demlau eang a chostus, yn y rhai nid oes dim luniau onid y geiriau hyn yn ysgrifenedig yn iaith Arabia,—

“NID OES OND UN DUW, A MAHOMET YN BROFFWYD IDDO. UN CREAWDWR, A'R PROFFWYDI YN GYDRADD. NID OES GADARF FEL YR ARGLEWYDD.”

Y mae eu hofferiaid i weddio ynddynt ynghyd â'r bobl foneddigaidd bum waith beunydd. Ac wrth ddyfod i'w gweddiau, golchant eu dwylo a'u traed, a thanellant ddfwr ar eu pennau deirgwaith, gan ddywedyd,—“Gogoniant i'n Duw.” Yna, wedi tynnu eu hesgidiau oddiam eu traed, a'u gadael wrth ddrws y deml, ant i mewn, rhai yn droednoeth, ereill mewn esgidiau glân, â'r rhai ni chyffyrddasant y ddaear mewn lle arall yn y byd. Wedi y darfyddo gan yr offeiraid bregethu, caniff ef a'r bobl â llais isel dros hanner awr, heb ddywedyd dim ond y geiriau hyn,—“Nid oes ond un Duw.”

Ymprydiant bum wythnos yn y flwyddyn. Yn y dyddiau hynny ni phrofant ddim nes gweled y ser, ac yna bwyânt bob rhyw fwyd, oddieithr y peth a dagwyd, a chig moch. Enwaedant eu plant yn saith neu wyth mlwydd oed, pan allont wneuthur cyffes. Priodant heb gynhysgaeth. Yn eu pebyll wrth fyned i gysgu, ac wrth gychwyn drannoeth, llefant yn uchel gan ddywedyd “Duw” deirgwaith,—“Allah, Allah, Allahu.”

Y mae'r Iddewon hetyd yn glynu yn ffurf crefydd yn rhyfeddol. Y maent yn yr oes hon yn wasgaredig ar hyd y byd, ac yn preswyllo draw ac obry yn y rhan fwyaf o deyrnasoedd y dwyrain a'r gorllewin, ond heb ymuno â chenedloedd ereill mewn addoliad; eithr ar eu pennau eu hunain yr addolant, ac â'u gilydd gan mwyaf yr ymgymdeithasant. Cadwant y Sabboth bob wythnos ddiwrnod o flaen y Cristionogion. Enwaedant ar eu plant fel gynt. Y mae ganddynt yr Hen Destament Hebraeg yn ysgrifenedig ar femrwn, a chadwant ef yn barchedig yn eu synagog; ac wedi ei gyrchu o'r fan lle y mae ynghadw at y darlennwr, sefiff yr holl gynulleidfa ar eu traed, a chanant fawl i Dduw. Ac heblaw hynny, y mae ef gan lawer ohonynt yn brintiedig, ac edrychant ynddo i ganlyn eu hathro pan fyddo ef yn darllein yn y memrwn. Tra fyddont yn addoli ni thynnant mo'u hetiau, eithr bwriant orchgudd teneu arnynt, a syrth i lawr dros beth o'u hwynebau, mewn coffadwriaeth (tebyg gennyf) o'r gorchgudd a roes Moses ar ei wyneb pan ydoedd yn discleirio, wedi iddo aros cyhyd yn y mynydd gyda Duw i dderbyn y Gyfraith. A'r arfer hwn a allai roddi achlysur i'r apostol i ddywedyd am danynt yn ei amser ef, fod eu meddyliau hwynt wedi eu dallu; canys, medd ef, hyd y dydd heddyw y mae'r un gorchgudd wrth

ddarllen yr Hen Destament yn aros heb ei ddatcuddio. Disgwyliant y Messias i ddyfod, a gobeithiant y caiff eu cenedl hwynt ddychwelyd i wlad Canan eto.

—◆◆—

HAI LI LWLI.

CWSG, O cwsg fy mhlentyn anwyl,
 Cau dy lygaid ar y byd ;
 Canaf, suaf, yn dy ymyl,
 Caru'r ydwyf siglo'th gryd ;
 Diniweidrwydd wena beunydd
 Yn dy wedd rosynog iach ;
 Cwsg, fy mherlyn byw, yn ddedwydd—
 Hai li lwli, babi bach.

Cwsg, O cwsg, f'anwylyd bychan,
 Melus yw'th gusanu di ;
 Ffrydiau'm cysur wyt, fy maban,
 Seren gobaith wyt i mi ;
 Tlydach wyt na'r gwridog flodau,
 Glanach fil na'r gloew lyn ;
 Cwsg, mae nefoedd yn dy wenau—
 Hai li lwli, f'angel gwyn.

Cwsg, O cwsg mewn hedd, fy nghalon,
 Angel wylia uwch dy ben ;
 Nefol hafaidd fo'r breuddwydion
 Redant drwy dy fynwes wen ;
 Heulog lwybrau fo dy fywyd—
 Delw'r nef fo ar bob cam ;
 Cwsg, mae'th gwmi imi'n Wynfyd—
 Hai li lwli, cariad mam.

Y Bala.

RICHARD AB HUGK.

—◆◆—


DOD ADRE.

YR ydym wedi rhyfeddu llawer at grwydriadau adar. Gadawant un wlad, croesant foroedd ac anialdiroedd a choedwigoedd, a deuant adre'n ol. Ni byddant byth yn colli eu ffordd. Trwy ystormydd y môr a phopeth, ehedant yn union tua'u hen gartref. Daw'r wennol filoedd o filltiroedd i nythu dan yr un bondo, flwyddyn ar ol blwyddyn, mewn rhyw feudy pell yng Nghymru.

Sut y maent yn medru'r ffordd? Y mae'n wir eu bod yn gweld ymhell, a hwyrach fod pennau mynyddoedd yn arwyddion iddynt. Er hynny, un o'r pethau rhyfeddaf yw fod aderyn bach yn medru mynd mor bell, trwy gymaint o beryglon, a dod yn ol yn union i'r un fan.

Ond y mae peth rhyfeddach na hynny. Y mae pysgod yn crwydro yr un modd, ac yn dod yn ol yr un mor sicr. Ychydig fedrant weled yn y dwfr, yn enwedig yn nwfr llwyd yr afonydd mawrion ; a phan ant i'r môr, ant am daith hir trwy ei ddyfroedd heb weled na glan na pheth. Ac eto deuant yn ol, o bellderoedd y môr, i'r firwd fechan tynyddig yng Nghymru o'r lle y cychwynasant.

Trwy natur i gyd y mae rhyw swyn mewn cartref. Mae'r awydd am ddod adre yn un o'r dyheadau cryfaf a mwyaf sancteiddiol.



Y TEULU YN MYND AM DRO.

Y R I A R.

II.

Y CEILIOG, yr iar, a'r cywion,—dyna'r teulu i gyd. Y mae'r ceiliog a'r iar yn rhoddi esiampl i'r cywion yn eu rhodiad.

Aderyn dewr ac ardderchog yw'r ceiliog. Y mae'n ofalus iawn am yr iar tra bo hi yn eistedd ac yn magu'r cywion. Ymladd ddau fywyd drosti, yn erbyn cwn a llygod mawr a phob gelyn. Dioddefa newyn er ei mwyn hefyd. Y mae rhai dynion anuwiol ac anwaraidd yn cymeryd mantais ar ddewrder y ceiliog, ac yn ei ddysgu i ymladd â cheiliog arall. Weithiau rhoddant lafn cyllell ar ei yspardun, i wneyd ei ergyd yn fwy angeuol. Y mae y ceiliog yn ganwr campus hefyd, adseinia y buarth yn y bore ei lawen ac uchel gân.

Y mae yr iar yn weddaidd, yn ofalus, ac yn lân. Y mae yn fam dda i'r cywion. Am dair wythnos bydd yn eistedd ar y wyau, i'r cywion ddod ohonynt; ac yn ei phryder i'r wyau gael chware teg, anghofia fwyta ac yfed. Y mae ei gofal am y cywion yn fawr iawn hefyd. Pan ddaw gelyn, neu gawod o wlaw, cysgoda hwy â'i hadenydd. Bu Iesu Grist yn sylwi ar y gofal manwl hwn. Chwilia am fwyd iddynt hefyd, a saif yn newynog gerllaw, gan alw "clwc clwc" arnynt, tra y bont hwy yn gwledda ar rawn addfed neu bryfaid tewion.

Y mae'r cywion yn medru llawer peth yn reddfol. Y munud y deuant o'r wy adnabyddant eu bwyd, a bydd eu pig ynddo. Nis gall adar ereill, yn eu hoed hwy, ond agor eu pigau. Ond ni raid i'r iar ond mynd a hwy i'r lle mae'r bwyd, a galw arnynt yno.

Dysgant lawer o bethau oddiwrth yr iar. Dysgant wneyd eu

hunain yn brydferth, trwy ofalu fod pob pluen yn ei lle. Dysgant fod yn lân iawn hefyd. Ymdreiglant mewn llwch, neu ludw sych, i fygu'r pryfaid fydd yn ceisio nythu dan eu plu,—dyna eu *bath* hwy.

Y maent yn hollol ddof. Ni ehedant ymaith fel adar ereill. Ac eto y maent yn dod o wledydd pell iawn. Mae'r iar gyffredin yn dod o ynysoedd Java a Sumatra, o'r coedwigoedd corsiog poethion hynny. Pe deuai neidr at y cywion, y mae gan yr iar allu greddfod i'w dinistrio, canys nadroedd gwenwynig yw eu prif elyn yn yr hen gartref. Trwy Hamburg y daeth un math o iar,—un ddu, gyda chap gwyn mawr. Trwy Spaen y ddaeth yr iar ddu dal, hirgoes, gribgoch. O Cochîn-China y daeth iar adnabyddus arall.

Y mae ieir wedi hen gynefino yn ein gwlad ni erbyn hyn; ond rhaid cofio mai o wledydd cynhesach y daethant. Dylai eu cut fod yn gynnes, yn sych, ac yn lân. Gwellt yw'r to goreu,—mae'n gynnes y gauaf ac yn oer yr haf. Dylai'r cut fod mewn lle cysgodol, yng ngwyneb yr haul. Nid oes neb mor hapus a ieir pan fo'r haul yn gynnes ar eu plu; yr adeg honno cerddant yn eu holl ogoniant. Ond maent yn druenus pan fo gwlaw oer yn disgyn arnynt. Nid ohyfedd y byddai'r hen Gymry'n dweyd,—“Na werth dy iar ar wlaw.”

Y mae'r iar o'r gwerth mwyaf. Y mae ei hwyau a'i chig y bwyd mwyaf maethlawn, yn enwedig i blant ac i bobl wanlyd. Y mae ei phlu yn werthfawr fel cynhesrwydd,—i wneyd gwelyau, pulwau, a thu mewn dillad gauaf. Dodwya un iar o ddau cant i dri chant o wyau bob blwyddyn.

Pan gofir mor werthfawr yw ieir, ac mor ddiwyd a gofalus ydynt, dylem fod yn ofalus am danynt hwythau. Rhoddwn iddynt-gartref cynnes a sych; clwyd heb fod yn rhy uchel; tir glaswelltog, lle y gallant gael pryfaid a dail; graian, a dŵr glân; twll llwch, yno yr ant hwy i ymolchi; a bwyd,—grawn, reis, deiliach, a phob rhyw friwfyd oddiar y bwrdd.

TRIOEDD NEWYDDION.

RRODDIR argraffiad tlws o “Bywyd Ieuan Gwynedd” yn wobr i'r neb anfonodd y chwech o drioedd goreu erbyn Tachwedd 1, sef (1) tri bardd goreu Cymru, (2) tri bardd byw goreu Cymru, (3) tri bardd fu'n farw'n ieuan, (4) tri bardd fu byw'n hen, (5) tair cân dlysaf Cymru, (6) tri llyfr goreu Cymru.

Rhoddir gwobr gyffelyb am y cynnyg goreu ar y trioedd hyn,—(1) tair tref fwyaf Cymru, (2) tair tref hynaf Cymru, (3) tair tref fwyaf darllengar Cymru, (4) tair tref fu'n gartref i fwyaf o enwogion.

Cyfeiriad y golygydd yw,—OWEN M. EDWARDS, LINCOLN COLLEGE, OXFORD.

ARGRAFFWYD A OYTHRODDWYD GAN HUGHES AND SON, 56, ROSE STREET, WREKHAM

AT Y PLANT.

YR ydych yn sylwi fy mod yn y gyfrol hon yn rhoddi pedair esiampl o Gymraeg awduron mwyaf poblogaidd Cymru. I ddechreu rhoddais bennod o'r Beibl, i ddangos arddull canrif y Diwygiad; yna daeth pennod o "Hanes y Ffydd" Charles Edwards, i ddangos arddull yr ail ganrif ar bymtheg; yn y rhifyn hwn, ceir pennod o "Ddrych y Prif Oesoedd," i ddangos arddull y ganrif ddiweddfaf; yn y rhifyn nesaf, daw pennod o "Dreflan" Daniel Owen, i ddangos arddull y ganrif hon.

Gellir cael y rhan o "Hanes y Ffydd" sydd yn adrodd hanes Cymru am dair ceiniog oddiwrth Hughes a'i Fab, Gwrecsam; gellir cael y rhan hanesyddol o "Ddrych y Prif Oesoedd" o swyddfa *Cymru*, Caernarfon.

Yn rhifynnau'r flwyddyn nesaf rhoddir deuddeg dalen o ddeuddeg awdwr, o'r Mabinogion hyd ddiwedd y ganrif hon, ac erthyglau byrion eglur ar brif gyfnodau ein llenyddiaeth.

CYHNWYSA rhifyn Hydref o'r *Tyst Dirwestol* erthygl ddarllenadwy iawn ar y Parch. Samuel Owen, y dirwestwr pybyr o Danygrisiau. "Tanbeidrydd a sirioldeb ac ysgafnder natur,"—dyna ddarluniad o Mr. Owen nas gellir ei well.

BOB. Ni raid fod planedau pell yn oerach na'n planed ni. Dibynna eu gwres ar eu hawyrgylch. Yr awyr sydd yn cadw gwres yr haul o gylch ein daear ni. Uchaf yn y byd yr ewch, teneuaf oll yw'r awyr, ac am hynny y mae'r hin yn oerach. Mae'n oer ar ben mynyddoedd uchel bob amser.

DYWED y *Monthly Treasury* mai Awst 7, 1830, oedd dydd geni y Parch. Josiah Thomas, M.A., Lerpwl, ac mai efe yw yr unig un yn fyw o frodyr y gwyr Cymru yn dda am danynt,—Dr. Owen Thomas a Dr. John Thomas.

"**CEFFYL** haiarn," "deurod," a "deugylch," yw'r geiriau glywais i am *bicycle*. Nid oes gan yr olwynwyr hawl i alw ar i bawb symud oddiar eu ffordd, er fod rhai ohonynt yn tybio hynny. Hwyl sydd i osgoi'r fforddolyn, nid y fforddolyn sydd i ddianc am ei fywyd wedi clywed tinc cloch yn ei ymyl.

YR wyf yn ddiolchgar i D. R. Pierce, 10 George St., Aberystwyth; ac i'n dosbarthwr ym Mostyn, am ddarluniau prydfferth o'u hardaloedd. Cerfir hwy gynted y bydd cyfleustra iddynt ymddangos.

MEN. Gellwch gael CYMRU'R PLANT heb dorri ei ymylon, ond gofyn am dano i'ch dosbarthwr. Felly y mae goreu ei gael o lawer, yn enwedig os byddwch yn meddwl ei rwymo wedyn.

Y MAE amryw ardaloedd yn paratoi at gael cangen o Urdd y Delyn. Daw enwau mintoedd newyddion yn y rhifynnau nesaf.

Y MAE cyfrol brydfferth o waith Robert Bryan,—"*Odlau Cân*,"—i'w chyhoeddi. Ei phris fydd 3/6. Antoned tanygrifwyr eu henwau i O. M. Edwards, Lincoln College, Oxford.

BYDD y rhifyn nesaf yn rhifyn olaf y ganrif. Gwneir ymdrech i wneyd CYMRU'R PLANT yn llawer gwell yn y ganrif newydd. Ceir manylion yn y rhifyn nesaf.



TWR COLEG EGLWYS CRIST,
RHYDYCHEN.



CYMRU'R PLANT.

CYF. IX.

TACHWEDD, 1900.

RHIF 107.


UN O GOLEGAU RHYDYCHEN.

Y MAE Eglwys Crist yn un o golegau enwocaf Rhydychen. Wele ddarlun o'r tŵr, ac o ran o wyneb y coleg. Adeiladwyd ef gan Cardinal Wolsey, pan oedd Harri'r Wythfed mewn penbleth a groesawai y Diwygiad Protestanaidd ai ni wnai. Cyn gorffen yr adeilad, yr oedd y brenin wedi derbyn y Diwygiad, yr oedd y cardinal wedi colli pob ffafr a chyfoeth; ac, er hardded ydyw, nid yw'r coleg y peth oedd yn y cynllun.

Cafodd lluoedd o wŷr enwog eu haddysg o fewn y muriau acw, John Wesley a Mr. Gladstone yn eu mysg. Ond gwnawd hwy'n gymrawdwy'r o golegau ereill,—aeth John Wesley i Goleg Lincoln, a Mr. Gladstone i Goleg Oriel. Bu Ioan Tegid yn gymrawd yng Ngholeg Eglwys Crist, a bu llu o Gymry yn efrydwy'r yno o dro i dro.

Pan ewch i mewn drwy y tŵr, cewch eich hun mewn lle agored eang, ac adeiladau o'i gwmpas. *Yng nghanol y lle agored y mae llyn o ddwfr. Os gwna rhyw efrydydd rywbeth i ddigio y lleill, hen arfer y coleg yw ei drochi yn y llyn. Pan fydd wedi myned i'w wely, codir ei ddrws oddiar ei fachau, cludir ef allan a llusgir ef, dan gicio ac ymladd yn ddigon aml, i ymyl y llyn. Codir ef i fyny

gan freichiau cryfion, a thefir ef i mewn. Yna a pawb i'w ystafell, a gadewir iddo lusgo ei hun goreu gallo, yn wlyb ac yn diferu, at ei dân neu i'w wely. Yr wyf yn cofio bachgen yn cael ei dafu i'r llyn ar gam unwaith. Bachgen tawel di-ofn oedd. Ni chlodd ei ddrws. Gadawodd iddynt ei gludo at y dŵr heb wrthwynebu dim. Ni cheisiodd gicio na dyrnu na brathu, fel y gwnai y lleill. Cymerodd ei dafu i'r llyn, cododd oddiyno yn dawel, a cherddodd i'w ystafell. Nid oedd ei gydefrydwyr yn cael dim mwyniant wrth gosbi un felly. Toc deallasant, hefyd, eu bod wedi ei drochi ar gam. Ni feiddiodd neb ameu hwnnw wedyn, na chyffwrdd âg ef. Os clywant am dano



COLEG EGLWYS CRIST, RHYDYCHEN.

fel milwr neu wladweinydd neu athraw neu esgob, gwyddant mai gŵr drecha bawb ydyw. Mae'n hawdd cicio a dyrnu, ac nid yw brathu yn beth anodd; ond y llariaidd penderfynol sydd yn meddu gwir gryfder, ac efe orchfyga yn y diwedd.

Nid oes gan y colegau ereill llyn mor gyfleus at gospi ar amhoblogaidd, ond y mae ganddynt oll bwmp. Pan drosedda efrydydd yn erbyn y lleill, arweinir ef, yn nhrymder nos, dan y pwmp. Bydd dau yn pwmpio, bydd hanner dwsin yn dal pen a gwar y gŵr a gosbir dan y firwd oer, a bydd y lleill yn gylch o gwmpas yn gwneyd areithiau difyfyfyr.

S W Y N.

Fel parhad o'r hanes am y llwynog a'r goediar yn y rhifyn diweddaf, cefais dri hanes arall, oddiwrth wahanol bobl.

II. Y NEIDR A'R GENEU GOEG.

"YR oeddwn yn cerdded drwy goedwig yn Jamaica," ebe Vernon Foster, "lle'r oedd y coed wedi eu torri, a'u gadael i fraenu ar y llawr. O'm blaen yr oedd llawer boncyff, rhyw dair neu bedair troedfedd o uchder. Gwelwn geneu goeg (*lizard*) yn dod yn brysur i'm cyfarfod, ac yn rhedeg i fyny hanner un o'r boncyffiau. Gwyddwn mai nid fy ofn i oedd arno. Er mwyn gweled beth oedd wedi ei ddychrynnu, sefais yn berffaith lonydd. Ymhen ychydig eiliadau clywn ryw siffrwd ymysg y dail sychion ar y llawr, a gwelwn neidr yn ymlithro at y boncyff lle gorffwysai y geneu goeg anffodus. Gallasai'r geneu goeg ddringo i ben y boncyff yn hawdd, neu ymguddio y tu ol iddo o olwg ei elyn. Ond yr oedd wedi colli pob gallu i symud, ei ben wedi gwyro i un ochr, a'i lygad bychan llym yn syllu ar y neidr yn dod. Arhosodd fel hyn yn berffaith ddiymadferth nes y daeth y neidr ato, i'w lyncu a'i ben ynghyntaf.

"Daeth geneu goeg arall i'r un lle. Y munud y gwelodd y neidr, parlyswyd ef. Trodd ei ben, sefydlodd ei lygad, fel y gwnaethai y llall, ar y neidr; a dioddefodd yn llonydd nes y llyncwyd yntau yr un modd."

III. Y WENCI A'R YSGYFARNOG.

"YR oeddwn yn cerdded trwy'r coed yn sir Buckingham y llynedd," ebe un sy'n enwog drwy'r deyrnas fel ysgrifennydd hanes adar. "Gwelwn ysgyfarnog yn croesi lle gweddol agored o fy mlaen. Synnwn fod rhywbeth yn rhyfedd yn ei symudiadau. Ni sylwai arnaf fi, ac ni sylwai ar y ci oedd yn fy nilyn. Yr oedd yn sylwi ar rywbeth nas gallem ni ei weled, ac yr oedd ei choesau megis yn graddol arafu a pharlysu. Sefais yn llonydd. Toc gwelwn gangen yn ysgwyd bellder oddiwrth yr ysgyfarnog, a wenci yn araf gerdded tuag at ei ysglyfaeth. Gallasai'r ysgyfarnog ddianc yn hawdd, yr oedd yn llawer mwy buandroed na'r wenci, ond yr oedd wedi ei swyno a'i pharlysu. Arhosodd yn llonydd yno hyd nes y daeth y wenci ati, i gydio ynddi, ac i sugno gwaed ei bywyd."

IV. Y DDIOD A'R BACHGEN.

"GWELAIS beth tebyg i swyn y llwynog a'r goediar," ebe gweinidog o Ddeheudir Cymru. "Yr oeddwn yn adnabod gŵr ieuanc-gobeithiol. Yr oedd wedi cael llawer iawn o fanteision. Gallasai

wneyd llawer iawn o ddaioni. Ond nis gallai symud cam ymlaen. Yr oedd rhyw elyn nas gallwn i ei weled wedi ei swyno; pryd bynnag y cychwynnai ar ryw lwybr i wneyd daioni, yr oedd rhyw ddylanwad cudd yn ei barlysu, ac nis gallai wneyd dim. Daeth ei elyn i'r golwg cyn hir. Arhosodd y bachgen yn ddiymadferth ar ei lwybr, a lladdodd ei elyn ef. Enw ei elyn oedd y ddiod feddwol."

ANN GWENLLIAN A HUGH BEYNON.

ANWYLIAD BACH MR. A MRS. R. E. JONES, WAVERLEY STREET, SEACOMBE.

YN nhlysi gwanwyn bywyd,—
Tynerwch mebyd mwyn,
Mae gwenau'r ddau anwylyd
Yn llawn o serchog swyn;
Yng ngardd y teulu tirion,
Fel lili wen a rhos,
Y ceir yr aer Hugh Beynon,
Ac Ann Gwenllian dlos.

Mor swynol i'w rhieni
Yw miwsig per eu llais;
Mae'r hen Gymraeg heb gollï
Ei swyn yng ngwlad y Sais;
Mor brydferth ac mor felus
Yw iaith sir Benfro iach
Wrth lifo'n dlws dros wefus
Y ddau anwylyn bach.

Tra pery'r ddau anwylyn
I siarad iaith ein gwlad,
Yn hir caiff Urdd y Delyn
Glodforedd a mawrhâd;
A thra bo Ann Gwenllian
A'i brawd, yn byw yn bur,
Caiff Gwalia Wen anrhydedd
Ar ol ei garwaf gur.

Dymunaf i Hugh Beynon
Ac Ann Gwenllian fwyn,
Ddyfodol llawn prydferthion
Fel enfys lawn o swyn;
Eu hoed fo'n llawn o fiodau,
A llawer seren wen
Dywynno ar eu llwybrau
Nes delo'u taith i ben.

OWEN CAERWYN ROBERTS.

DAVID LLOYD.

ANWYL BLENTYN JOSHUA A JANE LLOYD, MEERTHYR VALE.

AETH David drwy yr anial dir
Yn fore tua'r nef,
Ond fe fu yma'n ddiagon hir
I deimlo'i chwerwedd ef.
Fe dynnodd ef tua thŷ y Tad
Hyd un o'r byrraf ffyrdd,
Fel pe'n awyddus am weld gwlad
Y gân a'r palmwydd gwyrdd.
Yr oedd yn hardd pan gyda ni
Yn oerni'r cystudd mawr,
Ond miliwn harddach ydyw fry
Yng nghwmni Iesu mawr.
Fe welem ni ddyfodol gwyn
Drwy'i lygaid gloewon ef,—
Ond 'chydig wyddem fod y glyn
Mor agos, gan y nef.

Ond pwy all bythol feddwl am
Ddyfodol sy'n fwy gwyn,
Anfeidrol well na mynwes mam,
I'r plant na Seion Fryn?
Am gael ei ddwyn o fyd o boen
I wlad dragwyddol iach,
Yng nghôr y plant yn moli'r Oen
Am byth bydd David bach.
Mor hyfryd mynd o'n daear ni
Cyn gallu pechu 'rïoed,—
A chael y plant sy'n moli fry
I ddathlu'i bum mlwydd oed.
Mae telyn aur i bawb o'r plant
Gan Iesu yn y nef,
A byth ar hon yn taro tant
O fawli i'r Oen bydd ef.

MICHAEL THOMAS.



“Nwyd heb fod dan reol.”

YSBRYD RHYFEL.

MELLDITH fawr yw nwyd heb fod dan reol. Dyna wna i genhedloedd ryfela. Ni ddylai rhyfel fod yn y dyddiau hyn. Y mae digon o ffyrdd i roi terfyn ar bob dadl mewn hedd. Ond y mae nwyd yr hen natur ddynol yn ei dallu. Fflachia llygaid dig cenedl, ni wél ddim ond ei cham ei hun, ni theimla ddim ond ei lliid ei hun, ni wna dim ond dinistrio popeth o'i hamgylch. Mae'r meirch, gweision mwyaf gwerthfawr dyn, wedi eu malurio hyd faes y gwaed; ni thynnant aradr mwy, ni thynnant lwyth, ac ni chlodant ddyn ar hoew ymdaith. Y mae miwsig y ddaear wedi troi'n ysgrechian gwallgof. Y mae'r wasg, fydd yn offeryn gwar-eiddiad yn amser heddwch, yn awr yn difwyno meddwl y byd. Y mae nwyd yn ei dallu, tel na wél y gwir.

Os rhaid i genedl fynd i ryfel, mewn ysbryd dwys a thrist gweddi y dylai fynd. Nid y milwr anllad a meddw fedr ymladd brwydrau rhyfel cyfiawn. Os bydd gwlad yn bloeddio'n wallgof ac yn dawnsio mewn ysbryd llofruddiog, nid oes le i greu fod y rhyfel yn gyfiawn. Yn amser rhyfel y Crimea, gelwid pob un gondemniai y rhyfel yn fradwr. Dywedwyd wrth John Bright, apostol heddwch, fod

pleidwyr y rhyfel wedi penderfynu ei ladd. "Gall peth gwaeth na hynny ddigwydd imi," oedd yr ateb. Ac eto gwyddom yn awr mai tri achos y rhyfel hwnnw oedd casineb gwladweinydd Seisnig, balchder llysgenhadr Seisnig, ac uchelgais ymherawdwr Ffrengig.

Dylai pob plentyn ddysgu hyn o wladlywiaeth,—y mae'n anodd aberthu gormod dros heddwch, y mae'n anodd galaru gormod am ryfel.

Y BONEDDWR A'R BACHGEN.

A DRODDAI un yn ddiweddar ei fod ryw dro yn cerdded ar hyd un o ystrydoedd tref fawr yng ngogledd Lloegr. Tynnwyd ei sylw gan ŵr boneddig yn codi darn chwe cheiniog oddiar y palmant. Daeth bachgen bychan prydferth a thrwsiadus i fyny at y gŵr boneddig, a dywedodd wrtho yn foneddigaidd mai ei eiddo ef oedd y chwe cheiniog a godasai i fyny, ac mai newydd syrthio o'i logell yr ydoedd. Cyfaddefodd y gŵr boneddig ei fod wedi codi darn chwe cheiniog oddiar y palmant, ond ymddanghosai fel yn ameu ai y bychan oedd ei berchennog. Felly cauodd ei ddwrn yn dyn am dano, a dywedodd,—

"Nid oedd croes wedi ei naddu ar gefn eich chwecheiniog chwi?"

"Nac oedd," meddai y bychan, gan sefyll i fyny fel dyn.

"*Well done!*" meddai y boneddwr, "yr wyt yn fachgen bach da. Pa le yr wyt yn byw?" Ac estynnodd hanner coron iddo yr un pryd gyda'r chwech. Dywedodd y bychan wrtho pa le y trigai, a diolchodd iddo am ei garedigrwydd. Aeth y gŵr boneddig yno drannoeth, a chymerodd y bachgen gydag ef i'w fasnachdy, ac y mae y bachgen erbyn heddyw, meddai y gŵr oedd yn adrodd yr ystori, yn un o fasnachwyr mwyaf y ddinas honno, ac y mae ei holl lwyddiant i'w briodoli i'r ffaith ei fod yn medru dweyd y gwir bob amser.

Dyna fachgen bychan wedi dangos gwroldeb onide? Ie, fy nghyfeillion bychain, mwy o wroldeb o lawer nac un milwr ar faes y gad. Blant Urdd y Delyn a Chymru lân, dilynwch ei esiampl. Gwirionedd ddeil ei dir.

Fe fu'r hen Gymry gynt yn bobl fwyaf anrhydeddus y byd; a dyna fuasai yn ardderchog,—gwneyd i'r byd deimlo fod Cymry'r oes yma a'r nesaf yr un fath. Y mae mwy o wir anrhydedd ynnom ni nag yn un genedl arall ar wyneb y ddaear; ac y mae yn ddigon hawdd i ni gadw cymeriad ein tadau i fyny ond i ni gofio dweyd y gwir bob amser. Un o'u diarhebion hwy oedd, "Y gwir yn erbyn y byd." Bydded honno yn un o arwyddeiriau ein bywyd ninnau.

Gwyrdd Fynydd, Penuwch.

THOMAS H. DAVIES.

GAUAF AR LAN MOR Y CANOLDIR.

IX.

"**T**UA'R amser yr wyf yn ysgrifennu am dano,—diwedd mis Tachwedd,—fe ddaeth boneddiges oedd yn aelod o'r 'Society for the Prevention of Cruelty to Animals' i'r Belvedere i aros, ac fe wnaeth gynhwrf angyffredin yn y lle fel aelod o'r gymdeithas honno. Feallai i chwi glywed fod yr Eidaliaid yn cael y gair o fod yn dyner iawn o'u plant, tra y maent yn greulawn iawn tuag at eu creaduriaid. Ychydig welsom ni o'r creulondeb yma, ond mae'n rhaid i mi gyfaddef ein bod yn llygaid-dystion o'r hyn a barodd i Miss Scott wneyd a allai i roi terfyn ar guro a chicio y ceffylau a'r mulod i geisio cael ganddynt i wneyd yr hyn oedd yn amhosibl iddynt. 'Roedd tŷ newydd yn cael ei adeiladu yn y Strada Romana, ac yr oedd llwythi mawr o gerrig yn cael eu cywain at yr adeilad, a dim ond dau fulyn gwannaidd yr olwg arnynt yn tynnu pob cart. Curai y certwr y mulod yn ddirugaredd, nes yr oedd yn boenus gweld y creaduriaid bach yn gwneyd eu goreu ac yn methu. Un diwrnod, pan yr oedd trwp o edrychwyr wedi crynhoi ar gornel yr heol i weld pun ai'r cartwr neu y ceffyl wnaï gario'r dydd, fe aeth Miss Scott i fyny at y dyn, ac fe ddwedodd wrtho, wedi cymeryd y whip o'i law, y gwnai hi ei chadw hyd nes y byddai ei pherchennog yn gwybod sut i drin ei anifail, ac y gwnai ysgrifennu at y maer ac i'r newyddiaduron Seisnig i ddynoethi ei greulondeb. Wedi mynd yn ol i'r hotel fe aeth o un i'r llall o'r Saeson oedd yn aros yno i ofyn iddynt ysgrifennu at y Maer i ddweyd wrtho eu bod yn penderfynu gadael y lle os y byddai hyn yn para. Atebodd y Maer, yn y modd mwyaf gostyngedig, y cai y peth ei sylw ar unwaith; a chawsom drannoeth, fel canlyniad i ymyrraeth Miss Scott, fod pump mulyn ymhob cart yn lle dau.

"Ychydig amser yn ol fe ymddanghosodd erthygl yn un o'r papurau Seisnig ar y cwestiwn yma, ac yr oedd yr ysgrifennydd yn dweyd rhywbeth tebyg i hyn,—'Pe bai y plentyn distadlaf a mwyaf brwnt yn syrthio yn y llaid fe wnaï y certwr mwyaf creulon ei gymeryd i fyny yn ei freichiau a'i gusanu; ond am y ceffyl gwerthfawr, 'doedd dim un Eidaliad wnaï godi ei fys i'w gynorthwyo.'

"Mae'r geiriau yn swnio fel pe bai plentyn brwnt yn rhywbeth is na cheffyl gwerthfawr. Pe na bai yn bosibl bod yn dyner o blentyn ac anifail, 'rwy'n sicr y gwnawn innau godi y plentyn bryntaf o'r ffôs iselaf cyn y cai yr anifail fy sylw, er fod hynny yn ymddangos yn beth dieithr yng ngolwg aelod o gymdeithas yr anifeiliaid.

Dibynna llawer iawn ar ein ffordd o edrych ar bethau. Mae yr Eidaliaid yn agor eu llygaid duon tyner mewn syndod pan y soniwyd am y 'Society for the Prevention of Cruelty to Children,' ac yn gofyn beth yn y byd all fod ystyr a gwaith y fath gymdeithas; tra y mae y Saeson yn edrych arnynt hwy yn ddynion creulon, ac yn cael yn eu plith gymaint o waith i'r gymdeithas arall.

"Roedd gennym bob cyfle i chwilio beiau ar ein gilydd, gan fod yn y lle gannoedd o ddynion segur, a segur iawn. Gwnaem ein goreu i ddifyrru ein hunain drwy wahodd ein gilydd allan i de, mynd yn gwmnoedd bychain am *rides* meithion drwy y cymoedd prydferth, mynd i ambell gyngherdd, 'At Homes,' a gwahanol bethau. Ond difyrrwch oedd y cwbl, nid gwaith; a 'dyw pobl sydd yn difyrru eu hunain wedi'r cyfan ddim mor hapus a'r rhai sydd yn gweithio.

"Un prydawn, fe aeth dwy o'n cwmni ni i dŷ Dr. George Macdonald i weld *tableaux* prydferth iawn oedd oedd wedi ei barotoi er ein budd a'n pleser. Yn y darluniau byw yma cymerai pobl mwyaf enwog y lle eu rhan. Y 'Doethwyr yn y Dwyrain' oedd un o'r darluniau, ac yr oedd rhai o ddoethwyr ein gwlad ni yn eu personoli yn y darlun.

Wrth siarad am yr *entertainment* y noswaith hynny ar ginio, dywedodd Dr. Yorke ei fod un gauaf wedi bod mewn parti hynod iawn yn nhŷ yr awdwr enwog, a'i fod wedi cael nid ychydig o ffwdan i gael o hyd i got ddigon carpiog i wisgo ar yr amgylchiad. Dydd pen-blwydd chwaer yng nghyfraith i Dr. Macdonald oedd yn cael ei ddatlu, ac yr oedd yr hen foneddiges wedi bod yn ei dydd yn gweithio llawer ymysg trueiniaid tlodion Llundain. Am y rheswm yma gofynnwyd i bawb o'r gwahoddedigion i bersonoli cymeriadau yr East End, ac nid yn unig i wisgo hyd a allent ddiillad *costers, cats' meat men, match girls, a flower girls*, ond i wisgo eu meddyliau hefyd yn iaith y bobl yma, a chytarch eu gilydd a'u *hostess* fel y gwna 'Arrys a 'Arriets ein prif ddinas.

"Mae enw Dr. Macdonald yn dwyn ar gof i mi ymddiddan a gefais gyda boneddiges a gyfarfyddais yn Cannes yr un gauaf.

"'Rwy'n clywed eich bod wedi bod yn treulio rhai misoedd yn Bordighera,' meddai un noswaith pan yn eistedd yn agos ataf. 'A ellwch chwi ddweyd wrthyf a ydyw Dr. Macdonald yn darllen gweithiau y beirdd Seisnig fel yr oedd yn arfer bob prydawn dydd Mercher?'

"'Mi wn nad yw ei iechyd ddim yn caniatáu iddo i wneyd hynny,' meddwn, a syrthiodd ei gwyneb a dywedodd,—

"'Gellwch feddwl fath siomedigaeth yw hyn i mi, pan y dywedaf wrthyf y mod wedi penderfynu mynd yr holl ffordd i Bordighera

yn unig er mwyn ei glywed, ac i roi dau neu dri cwestiwn pwysig iddo.'

"Yn y fan ceisiwn ddychmygu beth allai y cwestiynau fod, a dywedais,—

"'Byddai yn ddyddorol iawn bod yno i glywed eich cwestiynau ac atebion Dr. Macdonald iddynt.'

"'Wel y cyntaf yw,' meddai gyda'r parodrwydd mwyaf, 'A ydych yn credu mewn anfarwoldeb cŵn?'

"'Roedd llymder a difrifoldeb ei gwyneb yn gweyd y byddai yn beth dychrynlyd i chwerthin, neu buaswn wedi llwyr golli llywodraeth arnaf fy hunan, gan mor wahanol oedd ei chwestiwn pwysig hi i'r un ddaeth yn gyflym i fy meddwl i wrth geisio dychmygu beth allai fod. Boddlonais ar wybod y cwestiwn cyntaf yn unig, rhag ofn i mi droseddu rheolau moesau da; ond gofynnais os oedd rhywbeth yn llyfrau Dr. Macdonald oedd yn peri iddi feddwl ei fod yn cymeryd dyddordeb yn nyfodol cŵn. Atebodd nad oedd hi ddim yn ddigon cyfarwydd â'i weithiau i wybod hyn.

"Mae pobl od iawn yn y byd. Synnwn a rhyfeddwn fod un yn gallu trafferthu cymaint ynghylch dyfodol cŵn pan yr oedd ei dyfodol ei hunan mewn cymaint o dywyllwch. Tebyg iawn ei bod wedi rhoi ei chalon mor llwyr i ryw Carlo neu Fido, yn y byd yma, fel yr oedd am gael rhyw obaith, os nad sicrwydd, y cawsai ei gyfardod eto mewn byd arall."

CEN CERRIG.

YM mis Tachwedd, y mae golwg anwydog a thruan ar ambell flodyn all fod eto'n ceisio byw yn yr ardd. Curir ef yn ddidrugaredd gan y gwlaw. Brethir ef gan rew y nos. Ymladda'r blodeuyn yn ddewr am ei fywyd; yna syrth, fel ei filoedd brodyr o'i flaen.

Ond y mae rhai planhigion ar eu tlysaf ym mis Tachwedd. Yn eu mysg y mae cen cerrig (*lichen*). Fel y dengys ei enw, ar garreg y tyf y cen, ar garreg ac awyr yr ymbortha. Y mae ei liw yn ddisglaer, weithiau yn danbaid. Yn yr hen amser defnyddid ef i lifo brethyn; a gwnai liw prydfferth iawn, a hollol barhaol. Treuliodd Ap Vychan lawer o fore ei oes i hel cen cerrig. Gwelais sacheidiau o hono droion. Byddai'r Parch. Michael D. Jones yn gwisgo brethyn Cymreig wedi ei liwio âg ef.

Tyf y cen cerrig yn uchel iawn ar y mynydd. Un peth sy'n hanfodol iddo, sef awyr iach. Y mae mŵg yn farwol iddo. Dywedir ei fod ymysg y planhigion hynaf fedd ein daear.



PLANT CYMRU. CXXXIV. DOSBARTH YM BWLCHDERWYDD.

BWLCHDERWYDD.

ER mai ardal amaethyddol rhwng Arfon ac Eifion yw Bwlchderwydd, eto nid yw yn anhysbys i Gymru, gan mai yma y bu yr hen flaenor hynaws a doniol a duwiol, Owen Owens, Cors y Wlad, yn trigo ac yn bwrw ei arabedd iach at fagu cymeriadau cryfion yng ngwlad y "brwyn a'r mawn." Darlun yw'r uchod o ddosbarth o'r Ysgol Sul, ac mae'n debyg y ca y plant acw, fel eu rhagflaenwyr, y fraint o gyfeirio eu bysedd yn llawen at Gors y Wlad mewn atebiad i gwestiwn geir gan ddieithriad fydd yn talu ymweliad a'r fro, sef,— "Lle mae Cors Owen Owen?" Nid pob ardal sydd yn meddu gallu i dynnu cwestiwn o ymwelwyr.

Gŵr ieuanc sydd yn byw yn Nhy'r Capel yw athraw y dosbarth. Mae Thomas Griffith yn un gweithgar gydag achos Iesu Grist, a medr dynnu y plant i son am Fethlehem a Chalfaria. Mawr yw ei fraint.

Plas Du, Bwlchderwydd

W. A. JONES.

CWYMP LLYWELYN.

(THEOPHILUS EVANS.)

YN y flwyddyn 1283 y dygpwyd Cymru gyntaf dan lywodraeth brenin Lloegr; trwy frad a ffalsder, digon gwir; ac, er hynny, yn well, ie, fil o weithiau yn well, er lles cyffredin y wlad, nag yn amser y tywysogion, y rhai oeddent fel bleiddiaid rheibus, mor chwannog i fwrddro eu gilydd. Canys pan fu farw Llywelyn ap Gruffydd, y tywysog diweddaf o waed diledryw y Brutaniaid, y danfonodd y brenin Edward y Cyntaf at benaethiaid y Cymry, i erchi iddynt ufuddhau i'w lywodraeth ef, a bod yn ddeiliaid i goron Lloegr.

Ond yna yr atebasant, nad ymostyngent hwy fyth i neb ond i un o'u cenedl eu hunain; ac y byddai raid i hwnnw fod o ymarweddiad da, ac heb air o Saesneg ganddo. Ac yno y brenin, pan ddeallodd na thyciai mo'u bygylu, a ddychymygodd ffalsder i'w siomi; canys yn y cyfamser yr oedd gwraig y brenin yn feichiog, ac efe a'i hanfonodd hi i dref Caernarfon i esgor. A phan anwyd iddi fachgen, y danfonodd Edward yn gyfrwys ei wala at benaethiaid y Cymry, gan ofyn iddynt a oeddent o'r un bwriad ag o'r blaen. A hwy a ddywedasant eu bod.

"O'r goreu," ebe Edward, "mi a enwaf i chwi dywysog o'r cyneddfau pa rai yr ydych chwi yn ewyllysio. Ganwyd i mi fab yng Nghaernarfon, a hwnnw a gaiff fod yn dywysog i chwi. Un ydyw na w'yr air o Saesneg, ac nid all fod dim bai ar ei fywyd a'i fuchedd."

Prin y buont foddlon i dderbyn y baban; ac eto yn lled ddiffas, megis rhai yn yfed wermod, cytuno a wnaethant. Ac o hynny allan y cyfenwyd mab hynaf brenin Lloegr, Tywysog Cymru.

Llywelyn ap Gruffydd a ryfelodd ar unwaith â holl gadernid Lloegr ac Iwerddon, ar fôr ac ar dir. Efe a soddodd longau y Gwyddelod, ac a yrrodd frenin Lloegr a'i fab a'i holl lu ar ffo. Ond yr hwn nid allodd holl gadernid Lloegr ac Iwerddon ei orthrechu, a gwypodd drwy frad yn ei wlad ei hun. Felly derwen fawr, breninbren y tyddyn, a saif yn ddigyffro yn erbyn ystorom, ond diffeithiwr gerllaw a'i bwr hi i lawr â'i fwyell.

Efe a fradychwyd ym Muallt, ar ddydd Gwener, 11eg o Ragfyr, yn y flwyddyn 1282. Ei ben a osodwyd ar ben pawl haiarn, ar dŵr Llundain, a'i gorff a gladdwyd mewn lle a enwid o hynny allan Cefn y Bedd; ond pa fan enwedigol y mae ei feddrod, ni w'yr neb o'r trigolion presennol.

"Pob mab yn ei gryd sy'n udo;
Bychan lles oedd i'm am fy nhwylo,
Gadael pen arnaf, heb ben arno."

Bryn Calfaria.

Geiriau gan

J. REES JONES, Llanon, sir Aberteifi.

DOH F.

Y Gerddoriaeth gan

T. J. WILLIAMS, A.C., Rhos,
Pontardawe.

	:s, m :-:f m :r :d	d :-:t, l, :-:t, d	s, :d :r m :s :m	r :-:-- :-:--
}	:s, d :-:d d :-:s,	l, :-:s, f, :-:s,	s, :-:t, d :-:d	t, :-:-- :-:--
	Ar ben bryn bach Cal-	far - ia Bu	far - w Ie - su	Grist,
}	:s, s :-:l s :f :m	f :-:-- d :-:r, d	t, :d :s s :-:s	s :-:-- :-:--
	:s, d :-:d d :-:d	f, :-:-- f, :-:r, m	f, :m, s, d :m :d	s, :-:-- :-:--

	:s, m :-:f m :r :d	d :-:t, l, :-:t, d	s, :d :r m :-:r	d :-:-- :-:--
}	:s, d :-:d d :-:s,	l, :-:s, f, :-:s,	s, :-:l, s, :-:f,	m, :-:-- :-:--
	Ore-awd - wr byd yn	dio - ddef Dros	hen bechad - ur	trist;
}	:s, s :-:l s :f :m	f :-:-- d :-:r, d	t, :d :d d :-:t,	d :-:-- :-:--
	:s, d :-:d d :-:d	f, :-:-- f, :-:r, m	f, :m, f, s, :-:s,	d :-:-- :-:--

	:m m :-:r d :t, :l,	t, :-:-- m :-:m	m :-:r d :-:l	s :-:-- :-:--
}	:m m :-:r d :t, :l,	t, :-:-- s, :-:t,	d :l, :s, l, :-:d	t, :-:-- :-:--
	Ef e ddaeth lawr o'r	nef - oedd, Er	mwyn rhai drwg fel	ni,
}	:m m :-:r d :t, :l,	t, :-:-- m :-:s, e	l :-:m m :-:f	r :-:-- :-:--
	:m m :-:r d :t, :l,	t, :-:-- m, :-:r	d :-:t, l, :-:f,	s, :-:-- :-:--

	:s s :-:s, e l :-:t	d' :-:-- l' :-:l	s :f :m m :-:r	d :-:-- :-:--
}	:r d :-:m m :-:r	d :-:-- d :-:d	d :t, :d d :-:t,	d :-:-- :-:--
	Gan ad - ael geir - iau	ded - wydd, O!	deu - wch at - af	fi.
}	:s d' :-:t l :-:s, e	l :-:-- l :-:f	s :-:s s :-:f	m :-:-- :-:--
	:f m :-:r d :-:t,	l, :-:-- f, :-:f	m :r :d s, :-:s,	d :-:-- :-:--

'Rwyn hoffi dweyd am dano,
Mae'n caru plant y llawr,
Mae llawer ger ei orsedd
Fu yn y cystudd mawr;
Maent yn eu prydferth wisgoedd,
Yn canu 'nawr mewn hedd,
Mewn cartref nefol, tawel,
Yr ochr draw i'r bedd.

Paham y digalonna
Fy enaid egwan ddim,
Y llais o'r nef sy'n gwaeddi,
"Digonedd yw fy ngrym:"
Mae'r Iesu'n galw eto
Mor daer a bu erioed;
Er mwyn yr Hwn sy'n galw,
Canlynnwn ol ei droed.

BETH ENILLWYD MĒWN CANRIF.

IV. LLENYDDIAETH ODIDOG.

PPRIN y bu canrif yn ein hanes mor flodeuog. Prin y bu gennym erioed gymaint o feirdd a llenorion. Ar ddechreu y ganrif yr oedd Anne Griffiths yn fyw. Ar ei hol hi daeth Dewi Wyn, Ieuan Glan Geirionnydd, Eben Fardd, Alun, a Robert ab Gwilym Ddu. Yna daeth Gwilym Hiraethog, Caledfryn, Glan Alun, Cynddelw, Nicander, Emrys, Ieuan Gwynedd, Talhaiarn, Ceiriog, Mynyddog, Islwyn, Daniel Owen,—a llu ereill allwn enwi. Yn sicr ni welwyd un ganrif a chymaint o gweri llenyddol ynddi.

V. PULPUD GRYMUS.

Ar ddechreu y ganrif yr oedd John Elias yn tyw. Daeth llu o bregethwy'r nerthol ar ei ol. Williams o'r Wern, Christmas Evans, Ebenezer Morris, Ap Vychan, John Jones Talysarn, Henry Rees, Owen a John Thomas, y Prifathraw Edwards, Herber Evans, Evans Eglwysbach,—y mae'r ganrif yn orlawn o rai y mae eu hyawdledd wedi gadael argraff anileadwy ar feddwl a bywyd Cymru.


VI. CYFUNDREFN ADDYSG WEDI EI GORFFEN.

Ar ddechreu'r ganrif yr oedd Cymru ymhellach yn ol mewn addysg na'r un rhan o Brydain. Yn awr y mae ei chfundrefn addysg yn fwy cyflawn na'r un. Y mae ei Hysgol Sul wedi ennill nerth, o ddyddiau Charles o'r Bala yn nechreu'r ganrif, hyd yn awr. Y mae'r cyfarfod llenyddol yn blodeuo fwyfwy er dyddiau Eben Fardd. Y mae'r Eisteddfod Genhedlaethol yn tynnu miloedd o wrandawyr bob blwyddyn. Y mae'r colegau duwinyddol yn gwneyd cystal gwaith ag erioed.

Y mae'r ysgolion elfennol yn rhoi addysg yng nghyrraedd y tlotaf, ac anrhydeddir yr iaith Gymraeg ynddynt. Uwchlaw yr ysgolion elfennol, y mae amryw ysgolion Canolraddol ymhob sir. Uwchlaw y rhain y mae'r tri choleg cenhedlaethol, yn gwneyd un Brifysgol.

Gorffod i'n tadau wneyd ar ychydig iawn o addysg. Ond gwelwn, ar drothwy y ganrif newydd, eu bod wedi paratoi moddion addysg i ni. Yn awr yr ydym fel Cymry i fynd i'r byd yn bobl ddsygedig, wedi ein haddasu i wneyd gwaith da. Ni raid i neb mwyach wro pen oherwydd ei fod yn Gymro, neu oherwydd fod y Cymry'n anwybodus neu Gymru'n dlawd. Yr ydym i fynd yn hyf i'r byd, gan gredu fod gennym allu i wneyd daioni.

Beth bynnag enillasom mewn llenyddiaeth, mewn crefydd, mewn addysg yn yr hen ganrif, gadewch i ni gredu yr enillwn fwy eto yn y ganrif newydd. Daw llenyddiaeth fwy godidog eto, daw pulpud mwy grymus eto, oherwydd fod ein hysgolion yn fwy o allu, ac oherwydd fod bendith Duw yn aros ar wlad a hoffo gyfiawnder.



PLANT CYMRU, CXXXV. PLANT TRISANT, CENEDIGION.

YSGOL Y BWRDD, TRISANT.



RA y mae Arfon a Meirion yn ymgon-eddu yn uchder a rhif eu mynyddoedd, y mae Ceredigion hithau yn meddu ei rhannau mynyddig,—llai caregog ac ysgythrog, ond yn fagwrfa meddylwyr glewion a gwreiddiol.

Plant mynyddwyr Ceredigion ydyw y plant gyferbyn. Saif

Trisant rhyw ddwy filltir i'r de-orllewin i'r bont enwog honno,—Pont ar Fynach. Perthyna yr ysgol hon i Fwrdd Ysgol Llanfiangel y Croyddin Uchaf.

Ar y chwith yn y darlun gwelir Mr. D. Joseph Lewis, yr ysgolfeistr. Dyn ieuanc o Langyfelach, ger Abertawe, ydyw. Cafodd ei addysg golegawl yn y Coleg Normalaidd, Caerfyrddin. Mae yn athraw dan gamp. Gellir dweyd am dano ei fod yr iawn ddyn yn yr iawn le.

Ar y dde yn y darlun, gwelir Miss Mary Jane Mason, yr is-athrawes. Mae yr ysgol mewn sefyllfa lewyrchus. Mae yn un o

PONT AR FYNACH
(neu Bont y Gŵr Drwg).

ysgolion goreu y sir. I fyny yr elo, nes "codi'r hen wlad yn ei hol."

Pont yn tafu dros wely cul yr afon yw Pont ar Fynach; a buasai'n anodd croesi pe hebddi hi. Yn yr hen amser tybid am unrhyw beth aruthrol, os wedi ei wneyd cyn cof, mai'r Gŵr Drwg a'i gwnaethai.

PERYGL YR YSGOL SUL.

YN yr haf diweddaf darlennodd Mr. J. Parry-Jones, U.H., un o athrawon Ysgol Sul Blaenau Ffestiniog, bapur dyddorol iawn ar waith a pheryglon yr ysgol. O fysg llawer o awgrymiadau gwerthfawr, hoffwn alw sylw difrifol athrawon at yr isod.

"Mae yn rhaid cyfaddef fod y Safonau sydd gennym yn bresennol wedi bod o les anrhaethol. Maent wedi bod yn foddion i ddwyn trefn ar ein Hysgolion Sul; ac yn ol pob arwydd, mae y plant yn cymeryd dyddordeb anghyffredin ynddynt. Ond wedi i ni gael peirianwaith fel hyn i drefn dda, mae yn bosibl i ni esgeuluso y rhan ymarferol o'r gwaith. Nid yw trosglwyddo addysg oer, gelfyddydol, yn ddigon ynddo ei hunan,—rhaid cael defosiwn a dwysder ysbryd yn y plentyn. Nid yw cyfrannu gwybodaeth iddo am Dduw yn ddigon; rhaid ei ddysgu i garu ac ofni Daw, i ymhyrydu yn ei gyfraith, ac i rodio yn ei lwybrau. Mae yn dra phosibl i'n heglwysi fod ar eu colled os na feithrinir ysbryd crefyddol yn y plant tra yn cyfrannu addysg iddynt trwy y Safonau."

Dyna, yn ddiameu, fan gwan ein haddysg. Y duedd ydyw llwytho'r cof yn lle dadblygu'r meddwl.

ROBIN GOCH.

"Robin goch ar ben y rhinlog,
Yn gofyn tamaid heb un geiniog;
Ac yn dweyd yn bur ysmala,—
'Mae hi'n oer, mi ddaw yn eira.'"

DYNA rigwm glywem bob amser tua dechreu Tachwedd. Deuai robin at y drws, yn ddof ddigon, a cheisiai edrych fel pe yn ein hadnabod i gyd. "Mi tum i'n bur brysur yn yr haf, ond yr wyf am dipyn o'ch cwmni y gauaf,"—dyna ddywed.

Mae ganddo dair tŷn. Y mae ganddo un gân lon, ac yr ydym yn hoff iawn o hono wrth ei gwranddo. Y mae ganddo gân leddf, pan fydd y gauaf yn dod, ac yntau'n brin o fwyd. Ac y mae ganddo waedd hir; clywir hi pan fo gelyn yn agos.

Weithiau aiff robin dros y môr, i dreulio ei auaf mewn gwlad gynhesach. Ond, os ca groesaw, erys yng nghysgod ein tŷ, a chlywir ei gân pan fo'r adar ereill i gyd yn ddistaw.

TROED YR ORSEDD.

CARTREF CYMBREIG YN YR ANDES.

(O erthygl gan Eluned Morgan yn *Cymru*.)

YN Nthroed yr Orsedd yr oeddym wedi trefnu i wneyd ein cartref tra yng ngwlad y mynyddoedd. Felly yr oedd gennym i groesi'r afon Llchwyr eto cyn cyrraedd eithaf pen y daith. Rhydio'r afon a wneir, ac i'r rhai cyfarwydd mae'n waith digon hawdd. Yr oeddwn wedi arfer rhydio'r Camwy, ond nid yw hi yn brysio ar ei thaith fel afonydd yr Andes. Pan gychwynnodd ein harweinydd drwy'r Llchwyr, yr oeddwn i yn syllu ac yn dotio at y graian mân a gloewder y dwfr, a phan godais fy ngolygon, gwelwn fy nghyfeillion yng nghanol yr afon yn mynd gyda rhyw gyflymder ofnadwy. Gwaeddais arnynt i anelu am y lan, ond chwerthin yn iachus wnaent, gan ddweyd mai am y lan yr oeddynt yn mynd, a phan aethum innau i ganol yr afon, mynd yr oeddwn innau hefyd iel nad aethwn erioed o'r blaen. Ynte'r dwfr oedd yn mynd? Barned y darllennydd.

Yr oedd ein ffordd yn mynd drwy'r coed yn awr, coed pinwydd, coed bedw, banadl, drain gwynion, a llu o rai dieithr nad oes ond enwau Hispeinig arnynt. Yr oedd y cwmni yn llawen, ond gwell fuasai gennyf deithio mewn distawrwydd, yr oedd arswyd y mynyddoedd mawr arnaf. O mor druenus fychan oeddym, a thyma natur fel y daeth o law y Crewr cyn ei "gwella" gan ddyndoliaeth eiddil, afiach. Buaswn yn hoffi rhoi pwys fy mhen ar y ddaear werddlan, gan sisial,—“Pechais, nid wyf fi deilwng.” Clywais lawer pregeth ar ostyngyddrwydd a gwyleidd-dra,—ond dyma bregeth,—O na fuasai gennyf ysgrifbin o aur wedi ei wlychu yng ngwlith y wawr i ysgrifennu cenadwri natur at ei phlant. Mae ei llain mor ddistaw-dyner, mae ei dagrau ar bob deilen werdd, a'i miwsig lleddf, swynol ymhob ffrydlif risialog. Mawr y son am emynwyr Cymru,—dowch gyda mi i'r Andes, dyma emynwyr y Nef, fyrddiynau ar fyrddiynau ohonynt. Beth maent yn ddweyd? Ah, dyna eu cyfrinach,—“Gadewch i blant bychain ddyfod ataf fi.” “Y pur o galon a wela Dduw.” “Yr addfwyn a etifedda y ddaear.” Dyma'r gynulleidfa sy'n gwrandao ar y Côr Mawr yn mynd trwy'r prif ddarn.

Ond,—wele “Droed yr Orsedd.” Un ystyr sydd gan drigolion y Fro i'r enw, ond y mae gennyf fi ddau. “Gorsedd y Cwmwl,”—dyna enw'r mynydd sydd y tu cefn i'r bwthyn. Fe welir wrth hyn mai purion enw roddwyd ar y cartref. Ond ni ddywedaf ail ystyr yr enw hyd nes cyflwyno y teulu mwyn. Dacw'r hen gyfaill Dalar wedi ein gweled, ac yn prysuro i'n croesawu. Yr oedd cymaint o

amser er pan welswn ef a'i deulu mân, fel yr oedd yn rhaid i mi gael eu henwau oll yn gyntaf dim, a iechyd i bob Cymro fyddai gwranddo arnynt,—Irfonwy, Brychan, Morgan, Sian, Ioan, Briallen, Madryn, Eurgain,—a breintwyd y plant nwyfus hyn â mam dyner, ddwys o'r enw Esther. Onid yw pob calon Gymreig yn dotio at dlynsi y rhestr, a chyn mynd i orffwys y noson gyntaf yn y Fro yr oeddwn wedi dotio mwy at y plant hyd yn oed na'r enwau. Tua naw o'r gloch gwelwyd yr hen Feibl Mawr yn cael ei ddodi ar y ford, a'r plant bach yn crynhoi gylch yr aelwyd. Mor syml a dirodres y gwneid hyn fel nad oedd dor ar yr ymddiddan, ond wedi gorffen y sgwrs, dyma gôr yr aelwyd yn dechreu canu. Nid oedd yno neb ond y fechan hunai ym mynwes ei mam nad oedd yn canu, y lleisiau bychain pur yn codi yn un anthem o orfoledd. Byddaf yn credu bob amser fod ar Satan fwy o ofn plant bach yn canu hanes Iesu na dim. Gwelais ymwelwyr yn gorfod mynd allan o'r bwthyn wrth *droed yr Orsedd* pan fyddai ei genhadon bychain Ef yn canu eu "Nos Da." Wedi'r canu caem y darllen, a sylwais mor fanwl fyddai y dewisiad, rhywbeth i nerthu a chalonogi bob amser. Ac yna, caem oll gyd-addoli, cyd-ddiolch am noddod y dydd a chyderfyn am noddod y nos. Yr oeddwn wedi clywed son am aelwydydd fel hyn yng Nghymru lân, ond ni ddaeth i'm ffawd weled yr un hyd nes teithio i eithafoedd y ddaear at "Droed yr Orsedd," a bydd yn yr enw ystyr cysegredig i mi hyd ddiwedd yoes.

Yr oedd ty nghyfeillion yn awyddus ar i mi orffwys ychydig cyn dechreu teithio i weld y wlad oddiamgylch. Ond yr oedd y cylchynion hyfryd a'r awel iachus wedi'm llanw â'r fath nwyf ac ynni fel na allaswn fod yn llonydd pe mynnwn. Y peth cyntaf welwn drwy ffenestr fy ystafell bob bore oedd Mynydd Llwyd, a'i gopa gwyn ym myd y cymylau. Yr oedd yn demtasiwn ac yn swyn anorchfygol i mi, a rhaid oedd ffurfio cwmni i ddringo i'w ben. Nid oedd ond un wedi bod fan honno erioed, a bygythid pethau mawr arnom am ein rhyfyg.

ADERYN YN TWYLLLO EI HUN.

GWELWYD, cyn hyn, pheasant yn syrthio yn sydyn, pan ar ei aden uwchben llyn, ac yn boddï. Ehedai amryw pheasantau ereill ar ei ol; syrthient hwythau yr un fath, a boddent yr un modd. Y mae pheasant yn gryf iawn ar ei aden, y mae'n amlwg mai nid diffygio wna. Paham, ynte, y cwympa i'r llyn?

Credir mai gweled llun y lan yn y dŵr a wna. Eheda i'r dŵr, gan dybied ei fod yn mynd i'r wlad werdd dyner sydd yn gorwedd y tu arall i'r llyn.



“ A mil o donnau hy
A gydymdorrant ar y bwrdd.”

Y LLONG DDRYLLIAD.

O ISLWYN,—“ Y MORWR.”

RHYW gadarn long wrth hedeg, ail eryr, dros yr aig,
Fel priddgawg brau ymddrylliodd ar ddannedd celt y graig.
Lle drylliodd llawer llanw ei donnau balch i gyd,
Lle torrodd llawer taran ei hudgorn mawr mewn lliid,
A lle y crygodd llawer storm a chorwynt croch cyn hyn,
Hi suddodd i'r dyfnderoedd. Ac uwch ei beddrod gwyn,

Yn golofn fawr o ddytroedd i fyny chwyddai'r don,
 A'r dryllion a'r hwylybrenni fel fforest yn ei bron.
 Ah! Long gyfoethog gadarn, mawreddog oedd ei gwedd
 Y ddoe, wrth aru'r eigion sydd heno iddi'n fedd.
 A bloeddiar llawer tyrfa o'r lan, pan welent hi
 O'r gorwel yn ddyrchafu, fel duwies ar y lli.
 A llawer tro yr hwyliodd hyd brif-ffyrdd pell yr aig,
 Ac hwyliodd yn ddiogel hyd ymyl llawer craig.
 Ond daeth ei hawr, ei holaf! A mil o donnau hy
 A gydymdorrant ar y bwrdd, a thafiant, hyrdiant hi
 Yn gyflym, fel llucheden, dros anial gwyllt yr aig,
 Nes suddo'n llawn o donnau i'w bedd o dan y graig.

Rhyw forwr gwlyb o'r tonnau, yn rhylllyd noeth ei fron,
 Sy'n ceisio dringo'r creigiau, a'i waed yn rhuddo'r don;
 Yn awr ar golli ei afael, a'i ruddiau'n ddu gan fraw,
 Y dyfnder aruthr dano, a'r creigiau crog uwchlaw;
 O, pwy ddarlunia'i gyflwr, yn noeth i'r dymestl hy,
 Heb noddfa rhag y gwyntoedd, heb gysgod rhag y lli?

O, mae un galon dyner ymhell tu hwnt i'r lli,
 Oes, mae un galon heno yn teimlo drosot ti;
 O, y mae llygad yno yn effro drwy y nos,
 A'i dagrau ar ei grudd fel gwlyth ar dyner rudd y rhos.
 Hi glywodd lais yr awel, fu'n dawel fwyn y dydd,
 Yn rhuo o'r mynyddau; a'r storm o'i rhwymau'n rhydd,
 Yn galw ar y moroedd i godi ar bob tu,
 Trwy'i udgorn o daranau, ei nerthol udgorn fry.
 Edrycha ar ei baban, ei baban tyner, mwyn;
 Mae'n gwenu ar ei mynwes, a'i wên yn llawn o swyn.
 O na bai llygad gan y Storm! Mae'n gwenu ar ei bron,
 Angylaidd ddiniweidrwydd yn gwenu'r funud hon.

Braidd na archai'r Nefoedd, o'u llys serenol ban,
 I'r môr ddiplannu byth, a ffoi am byth o wydd y lan.

ADRODD BREUDDWYDION.

Y MAE trioedd newyddion yn dod i'r gystadleuaeth bob dydd, a bydd y dyfarniad arnynt yn y rhifyn nesaf.
 Yr wyf am gynnyg gwobr newydd. Rhoddaf ddeg swllt o wobr i'r hwn anfonu y breuddwyd mwyaf tarawiadol. Gall fod yn freuddwyd fydd yr ysgrifennydd wedi ei freuddwydio ei hun, neu yn un a glywodd gan arall. Y mae y breuddwydion i'm cyrraedd cyn Rhagfyr 1.

TARIAN RYFEDD.

Y CADLYWYDD galluocaf fu'n gwasanaethu Prydain, yn ol pob tebyg, oedd Duc Marlborough.

Pan yn fachgen ieuanc iawn, anfonwyd ef i Tangiers, yn ngogledd Affrig, lle oedd yn perthyn i Brydain yr adeg honno. Yr oedd y fyddin Brydeinig yn y dref; ac yr oedd lluoedd o'r Mooriaid yn y wlad oddiamgylch. Yr oedd yn berygl iawn, felly, i neb fynd allan i'r wlad.

Un noson hyfryd, pan oedd y lleuad iawn yn tafu ei goleuni clir ar yr anialwch, temtiwyd Churchill ieuanc i fynd allan wrtho ei hun i'r wlad. Temtiodd yr olygfa ryfedd ef i gerdded ymhell hyd ochr cwm, heb feddwl dim am y gelyn. Ond, toc, clywai swn y tu ol iddo. Safodd, a gwrandawodd yn astud. Deallodd fod nifer bur liosog o'r Mooriaid rhyngddo a'r dref, ac yn rhedeg yn gyflym ar ei ol. Rhedai yntau yn ei flaen. Daeth i le yr oedd dwy ochr y cwm yn serth iawn, bron yn unionsyth, ac yn agos iawn at eu gilydd. Wedi mynd tipyn yn ei flaen wedyn, gwelodd le i groesi i ochr arall y cwm. Ei gynllun oedd rhedeg yn ol hyd yr ochr arall cyn i'r Mooriaid gyrraedd y lle i groesi.

Ond sylwodd nad oedd ond un yn dilyn ar ei ol. Lle, tybed, yr oedd y lleill? Gwelodd, er ei ddychryn, eu bod wedi gosod eu hunain ar yr ochr serth honno, i'w saethu wrth iddo geisio pasio hyd yr ochr arall. Nid oedd y pellder ond byr, yr oedd y Mooriaid yn anelwyr heb eu bath, ni fedrai neb redeg hyd y llwybr digysgod hwnnw yn fyw.

Penderfynodd y milwr ar unwaith beth i'w wneyd. Gadawodd i'r Moor oedd yn ei ddilyn ennill arno, fel pe buasai wedi blino gormod i redeg ychwaneg. Tynnodd ei oriawr allan, a danghosodd hi i'r Moor, fel pe yn ei chynnyg am arbed ei fywyd. Disgleiriai'r oriawr yng ngoleu'r lleuad. Disgleiriai llygaid y Moor wrth feddwl y cai'r oriawr a'r swyddog.

Rhuthrodd at y milwr ieuanc, a chydiodd ynddo. Cyn pen yr eiliad cafodd ei hun ar wastad ei gefn, ei ddryll a'i gleddyf wedi eu tafu oddiwrtho. Nid oedd y bachgen mor flinedig ag yr oedd wedi meddwl. Nid oedd waeth i'r Moor heb geisio gwingo, yr oedd mewn gafael megis gafael gefail haiarn. Cododd y gŵr ieuanc ef ar ei gefn, a'i ddwylaw dros ei ysgwyddau, ac ail gychwynnodd ymlaen, a'i faich ganddo.

Toc deallodd y Moor beth oedd meddwl hyn oll. Yr oedd y bachgen am ei ddefnyddio fel tarian tra yn pasio trwy'r lle cyfyng heibio ffroenau drylliau ei gyfeillion. Wrth nesau at y lle cul, cerddodd y bachgen wysg ei ochr, gan ddal y Moor rhyngddo a'r

drylliau. Yn ofer y ceisiai'r Moor gicio, yn ofer y ceisiai frathu; yr oedd ei freichiau fel pe ar ymollwng oddiwrth ei gorff gan boen.

Dechreuodd waeddi ar ei gymdeithion beidio saethu. Ymbiliai, gweddiai, rhegai. Yr oedd arno ofn bob munud glywed bwled yn mynd drwyddo. Ond gwelodd ei gyfeillion nas gallent saethu eu gelyn heb yrru'r fwled drwy eu cyfaill. Gadawsant i Churchhill eu pasio'n ddiogel, a'i darian fyw ar ei gefn. Daliodd y bachgen ei afael ar y Moor nes oedd o gyrraedd ergyd. Yna lluchiodd ef i ochr y ffordd, a rhedodd yn ol am ei fywyd tua Tangiers. Tyngodd y Moor, gan enwi Allah a Mahomet lawer o weithiau, y gofalai na chymerai yr un o'r digred byth mohono ef ar ei gefn wedyn.

PEDWARAWD LLWYN Y CELYN.

Englynion i bedwar plentyn Mr. a Mrs. Jones, Llwyn y Celyn, Llanberis.

GAN SION FRYNRODYN.

I. BLODWEN.

Er ymgais, ni cheir amgen—am siarad
Mor siriol a llawen;
Doed ynghyd y byd o'i ben
I bleidio enw Blodwen.

II. ROWENA.

Y wir anwyl Rowena,—hir sonnir
Ei swynol olygfa;
Ac arddull siwr y cerdda
Ei thaith ddwys yn eneth dda.

Awst 19, 1900.

[“Sion Frynrodyn” ydyw enw barddol yr hen weinidog anwyl a adwaenir ar lafar gwlad fel “John Jones y Groeslon,” ger Caernarfon. Y mae yn dra hoff o blant, ac wedi dysgu llawer ohonynt i gau emyn a chân. Da gennyf gael bod yn gennad o ladmerydd i anfon ei gynnyrch-olaf i CYMRU'R PLANT.—R. D. R.]

III. CERIDWEN DORA.

Y dirion Ceridwen Dora,—hi a ddaw
Ryw ddydd i sefyllfa
Dâl yn deg i deulu da
Amod yr addysg yma.

IV. MAELGWN GWYNEDD.

Gweini ar Maelgwn Gwynedd,—dyna
Dyn o fri a mawredd; fraint;
Gelynyon wna'n gelanedd
Yn ein gwlad, trwy fin ei gledd.

TREFRIW.

HEN ardal dawel, lonydd
Yw Trefriw glyd a glân,
Lle ganwyd Glan Geirionnydd,
Emynnwr llawn o dân;
Awelon per y mynydd
Sy'n treiddio trwy y lle,
A'r Grafnant grych emynna
Yn awyr iach y Ne.

Llanrwst.

Mae swyn y dolydd gwyrddion,
Dan wenau haul y dydd,
Yn denu'r awen gynnes
I blith y blodau blydd;
Mi welaf heirdd fynyddoedd
Yn codi draw yn fyrdd,
Dan lenni o brydferthwch
A'u henw'n fythol wyrdd.

J. HERBERT HUGHES.



“Ni ddylid dychrynu un b; chan.”

OFN BWGANOD.

NID yw ofn y “bo bo” yn poeni pob plentyn. Peth ddysgir iddo gan fam neu chwaer neu tamaeth ydyw, i’w gadw yn llonydd. Mewn rhai manau o’r wlad, megis yn Essex, nid oes neb yn credu mewn ysbrydion. Gwn am un ddysgodd ei blant redeg i unrhyw gornel dywell lle dywedid fod y “bo bo.” Arferai roddi melusion mewn cornelau felly, a thybïai’r plant mai nid i’w cyrchu hwy y deuai yr un hyll, ond i adael melusion iddynt.

Ni ddylid dychrynu un bychan. Peth creulon yw llenwi bore oes â phethau sy’n boen a dychryn. Mae dychymyg plentyn yn fyw iawn, a gellir ei ddysgu i hoffi neu i ofni llawer peth,—cysgod ar nen ei ystafell wely, cymylau yn yr awyr. Dysger plentyn i gredu tod pob peth yn gyfaill iddo, fod pob peth yn dymuno daioni iddo. Dysger et i fwynhau harddwch goleu y dydd, ac i beidio ofni harddwch du y nos. Dyweder wrtho mai clog yw’r nos, rydd Duw dros y byd, i bawb orffwys ond Efe ei hun. “Wele, ni hun a ni chwsg ceidwad Israel.”

EVAN E. MORRIS, CAPEL GARMON.

BU FARW GORFFENNAF, 1900, YN 23 MLWYDD OED.

YNG nghanol hafddydd hudol
 Machludai'th fywyd gwyn,
 Pan oedd prydfferthwch dwyfol
 Yn harddu bro a bryn;
 Pan suai'r mwyn awelon
 Trwy wyrddlas dail y coed,
 Bu farw'r bachgen tirion
 Yn dair ar hugain oed.

Mor wyn ei foes a'r blodyn
 Ganfyddir ar y ddôl,
 Mor bêr ei gân a'r delyn
 Sy'n dod i Gymru'n ol;
 Cyfuniad o brydfferthwch,
 Pob cam yn union roed,
 A huno wnaeth mewn heddwwch
 Yn dair ar hugain oed.

Ym more ddydd ei fywyd
 Yr aeth fy nghyfaill cu,
 Breuddwydio wnaem am hawddfyd
 A rhyw bleserau lu;
 Ond byd yn llawn o siomiant
 Yw'r byd lle'r y'm erioed;
 Aeth Ewan i ogoniant
 Yn dair ar hugain oed.

Hyd ymchwydd yr Iorrdonen
 Yn eofn aethost' di,
 Dan ganu drwyddi'n llawen
 Heb ofni grym ei lli;
 Mi hoffwn innau beunydd
 Gael dilyn ol dy droed,
 Cyrhaeddaist Salem Newydd
 Yn dair ar hugain oed.

DAVID THOMAS (*Dewi Tudur*).**BREUDDWYD Y MILWR.**

AR faes y gad yn Affrig,
 Un bore gwyn ei wawr,
 'Roedd milwr archolledig
 A'i waed yn ruddo'r llawr;
 Tra'n gorwedd yn ei glwyfau,
 I esmwyth gwsg yr aeth,
 A meddwl am ei gartref
 Mewn breuddwyd melus wnaeth.

Dychmygai weld ei hunan
 Yng Nghymru fach yn ol,
 Yng nghwmni ei anwylyd
 Yn rhodio drwy y ddôl;
 A gwelai yr hen afon
 Mor loew ag erioed,
 A chlywai gân yr adar
 Fel arfer yn y coed.

A'r bwthyn bach gwyngalchog
 A welai ar y bryn,
 A'r llwybrau lle bu'n chwaren
 Yn hapus iawn cyn hyn;
 Gerllaw y bwthyn gwelai
 Ei anwyl dad a'i fam,
 A'i galon gan lawenydd
 O'i fewn a roddodd lam.

Deffrodd i gael ei gludo
 I dŷ'r ymgeledd draw,
 Lle rhwymwyd ei archollion
 Gan dyner esmwyth law;
 Cyn hir ca ddychwel adref
 Drachefn i Gymru'n ol,
 I rodio glan yr afon
 A'r llwybrau drwy y ddôl.

TREMAGON.

BLODAU BREUDDWYDION.


TYBIAI yr hen bobl fod coel ar freuddwydion am flodau. Peth lwcus oedd gweled palmwydden, olewydden, lili, ysgallen, draenen, wermod, ac yn enwedig rhosyn. Peth anlwcus oedd breuddwydio am rosyn gwyw, dant y llew, cypreswydd, coed eirin duon, a ffa. Mae gweled derw neu gold y gors, ac yn enwedig cnau, yn arwydd fod cyfoeth i ddod i'n rhan. Peth lwcus, a hyfryd hefyd, yw breuddwydio am lygaid y dydd yn y gwanwyn. Daw celynen a breuddwydion os rhoddir ysbrigyn dan y gobennydd y nos cyn y Nadolig. Ond y gwir yw hyn,—os cred rhywun ei fod yn sicr o freuddwydio, y mae'r breuddwyd yn siwr o ddod.

GWLAD HUD.

(Casgliad o Ystraeon Hud o
bob gwlad.)

XI. DINAS IS.

(Un o Ystraeon Llydaw.)



YR oedd brenin yn byw yn Llydaw, yn yr hen oesoedd, o'r enw Gradlon. Ryw ddydd yr oedd yn cerdded ar lan yr afon, a gwelai y wraig harddaf a welodd erioed yn codi o'r afon. Hi a ddaeth yn wraig iddo; ac un o'r Tylwyth Teg oedd hi. Rhoddodd iddo lawer cyngor doeth, a daeth yntau yn frenin enwog iawn. Ond troseddodd yn ei herbyn, a diflannodd am byth o'i wydd. Gadawodd un ferch, o'r

enw Dahut, ond yr oedd hi yn eneth ddrygonus, a daeth terfyn ar lwyddiant ei thad.

Symudodd Gradlon ei lys, yn ol ei chais, o Kemper i Ddinas Is. Safai y ddinas honno ar ddôl eang wastad, a bryniau o'i hamgylch ar bob tu ond un. Y tu hwnnw yr oedd y môr. Yr oedd y ddinas yn is na'r môr. Yr oedd llif-ddorau mawr yn cadw'r tonnau allan

pan fyddai'n ben llanw; ond agorid hwy pan fyddai yn drai. Cedwid yr allwedd gan Gradlon ei hun, yn ei ystafell wely. Yr oedd gŵr sanctaidd o'r enw Gwenole yn byw yn y ddinas; ac yr oedd wedi cynghori'r brenin i beidio gadael i'r allwedd fynd o'i law.

Yr oedd Dinas Is yn bechadurus iawn. Yr oedd ei phechodau yn galw yn uchel am i'r nefoedd ei chosbi. Ac yr oedd dinistr gerllaw.

Yr oedd Dahut, merch y brenin, mor ddrwg a neb oedd yn y ddinas. Ymysg ei chariadau yr oedd un oedd yn cashau'r brenin Gradlon a'r sant Gwenole. Medrodd ddarbwylllo Dahut i fynd i ystafell wely ei thad, a lladrata allwedd y llif-ddorau oddiyno.

Y nos honno cododd gwaedd anobeithiol fod y môr yn rhuthro i mewn. Ymysgydwodd y ddinas ddrwg mewn cyffro. Ond yr oedd yn rhy hwyr i ffoi. Yr oedd Gradlon a Gwenole yn farchogwyr da. Prysurasant ymaith, ac ereill yn dilyn ar eu holau ar feirch, a'r lluoedd dychrynedig ar draed. Y tu ol iddynt yr oedd y tonnau brigwyn, cesyg didrugaredd y dyfnder, yn rhuthro ac yn carlamu ar eu holau. Daliwyd y dyrfa oedd ar droed, a boddwyd hwy. Yna daliwyd y ceffylau mwyaf llesg. Y blaenaf rhai oedd y brenin a'r sant, a Dahut ar eu holau. Yr oedd y môr fel pe'n ymgnio i ddal Dahut. Tynnodd hi a'i march iddo, a llyncodd hi â rhu enfawr. Yna dofodd ei lid, a charlamodd Gradlon a Gwenole yn ddianaf,—yr unig rai achubwyd o drigolion lliosog a phechadurus Dinas Is.

Pan wawriodd y bore, yr oedd môr glas tonnog yn gorwedd lle'r oedd y ddôl frâs a'r ddinas gyfoethog y diwrnod gynt. A phan edrych y Llydawr ar fau eang Douarnenez heddyw, cofia am y ddinas foddwyd gynt. Ac wrth hwylio ei gwch tros y bau i'r môr, y mae'r pysgotwyr yn dychmygu ei fod yn gweled ei thyrâu a'i phalasau yn y dyfnder. A chlywir swn ei chlychau, ebe hwy, ambell nawn haf, yn codi'n fwsig melus trwy'r dŵr.

CHWEDLAU'R GWLEDYDD.

YR oeddwn wedi meddwl gorffen y gyfres o ystraeon hud yn y rhifyn nesaf gydag un o ystraeon Cymru. Ond yr wyf yn meddwl y bydd cyfres arall, ychydig yn wahanol eu natur, yn dderbyniol.

Y mae llawnder o'r ystraeon hyn yn perthyn i bob gwlad bron. Adroddid hwy ar hinos gauaf ym mwthynod y gogledd, a than gysgod coed ym mhoethder dyddiau'r de. Y maent wedi magu dychmyg llawer cenedlaeth, y maent wedi difyrru llawer o oesau; ac y mae haen o ddoethineb a gonestrwydd yn sylfaen iddynt i gyd. Y gonest a'r trugarog sy'n llwyddo ynddynt; ond cyll y drwg y dydd.



PLANT CYMRU.

PLANT Cymru anwyl ydym ni,
 Ynglyma'n serch yn dyn
 Am yddfau ei mynyddoedd hi,—
 Chwareule'n mebyd gwyn ;
 Ei chanmol wna pob aber fach,
 Dan roi deniadol lam ;
 A mwyn yw miwsig awel iach,
 Hen gartre'n tad a'n mam.

Plant Cymru anwyl ydym ni,
 Ein gwynfa yw, a'n cân ;
 Mae ffrydiau gobaith heddyw'n llu
 Ar ei haelwydydd glân ;
 Os niwl ei hanwybodaeth gynt,
 A gadwai'n gwlad dan len ;
 Rhag heulwen dysg ffodd gyda'r
 gwynt,
 Mae Gwalia'n codi'i phen.

Plant Cymru anwyl ydym ni,
 Cân rhyddid loewa'i gwedd ;
 Tyf lili rhinwedd ynddi hi,
 Dan wenau heulwen hedd ;
 Ar olion camrau lliid a brad,
 Rhosynau serch sy'n dlws ;
 A gwlawia'r nef gawodydd rhad,
 O freintiau wrth bob drws.

Y Bala.

Plant Cymru anwyl ydym ni,
 Gwladgarwch ferwa'n bron ;
 Cydgodwn i binaclau bri,
 Hen Gymru dlos yn llon ;
 Ar fryniau clod tyf palmwydd draw,
 Gawn ar ein baner wen ;
 Mae hafddydd heulog llwydd ger llaw,
 A Gwalia'n codi'i phen.

RICHARD AB HUGH.

LIVINGSTONE A'R LLEW.

PAN oedd Livingstone yn byw yn Mabotsa, yr oedd llewod yn neidio i'r corlannau yn y nos, ac yn lladd y gwartheg. Os lleddir un llew, cilia y lleill o'r ardal honno. Ceisiodd Livingstone wneyd cylch o ddyinion o amgylch y coed lle llochesai'r llewod, a phawb i gerdded tua'r coed, a'i wn neu ei bicell, i gau am y llewod. Ond rhuthrai llew ar ol llew allan, ac yr oedd ar y Caffiriaid ormod o'u hofn i ymosod arnynt.

Trowd yn ol mewn anobaith. Wrth fynd yn ol, gwelodd Livingstone lew yn eistedd ar graig y tu ol i dwmpath. Nid oedd ond rhyw ddeg llath a'r hugain oddiwrtho. Cododd ei ddryll, a thaniodd y ddwy faril. Gwaeddodd y bobl,—“Mae'r llew wedi ei saethu, gadewch i ni ruthro arno.” Ond gwyddai Livingstone nad oedd y llew wedi ei ladd. Gwelodd ef yn codi ei gynffon mewn digofaint. Gwaeddodd ar y brodorion,—“Arhoswch nes ail lwythaf fy nryll.” Pan oedd ar ganol llenwi'r ddryll, clywai floedd. Edrychodd i tyny, a gwelai y llew yn cymeryd naid ato. Ychydig iawn welodd lew yn neidio atynt, a chael byw i ddweyd yr hanes. Ond cafodd Livingstynne fyw i ysgrifennu beth a deimlodd.

“Yr oeddwn ar fryncyn bychan,” meddai, “pan neidiodd ataf. Cydiodd yn fy ysgwydd, a syrthiasom i lawr ein dau gyda'n gilydd. Rhuai'n erchyll yn fy nghlust, ac ysgydwai fi fel yr ysgwyd ci lygoden. Yr oedd y *shock* gyntaf wedi fy ngwneyd yn ddiymadferth, fel y gwna'r ysgydwad cyntaf lygoden ym mhawen cath. Tafodd hyn fi i ryw ystad freuddwydiol, yn yr hon nid oedd teimlad o boen nac o ddychryn, er fy mod yn hollol ymwybyddol o bob peth oedd yn digwydd. Yr oeddwn yn yr un ystad a chleifion yn rhannol ymwybodol dan *chloroform*, yn gweled pob peth, ond heb deimlo min y gyllell. Nid unrhyw ymresymiad meddyliol a'm rhoddodd yn y sefyllfa hon. Yr oedd yr ysgydwad wedi difodi ofn, ac nid oedd arnaf ddim dychryn wrth edrych ar y bwystfil. Cynhyrchir y teimlad hwn, yn ol pob tebyg, ymhob peth a leddir gan fwystfilod ysglyfaethus; ac os felly, y mae'n ddull trugarog o waith ein Creawdwr i leihau poenau marwolaeth. Troais, er mwyn ymryddhau ychydig oddiwrth bwysau y llew, oherwydd yr oedd ei bawen ar fy mhen, a gwelais fod ei lygaid yn cyfeirio at Mebalwe, yr hwn oedd yn ceisio ei saethu o bellder o ryw ddeg neu bymtheg llath. Methodd ei ddryll danio; gadawodd y llew fi ar unwaith, ac ymosododd ar Mebalwe, gan frathu ei ffer. Ceisiodd dyn arall, un yr oeddwn wedi achub ei fywyd o'r blaen pan deffid ef gan ych gwyllt, drywanu'r llew â phicell tra yr oedd yn cnoi Mebalwe.

Gadawodd y llew Mebalwe, a chydiodd yn y dyn hwn gerfydd ei ysgwydd; ond y funud honno dechreuodd effaith y bwledi arno, a syrthiodd i lawr yn gelain. Nid oedd y cwbl ond gwaith ychydig eiliadau; a rhaid mai ymdrech angeuol olaf ei gynddaredd oedd." Llosgodd y brodorion gorff y llew, i dynnu'r swyn o hono yn ol eu tyb hwy, a dywedent mai dyna'r llew mwyaf a welsant erioed. Yr oedd wedi malurio asgwrn Dr. Livingstone yn ysgyrion, ac yr oedd wedi gadael un ar ddeg o olion dannedd ar ran uchaf ei fraich. Y syndod ydyw fod neb wedi medru dod o'i balfau cryfion yn fyw.

DIARHEBION LLYDAW.

I.
Bezo du, bezo gwen,
Pep gavr a gar he men.

II.
An hini a erbed e zec'hed
A erbed e iec'hed.

III.
Awel ar c'hreiste
A zigas glao hepdale.

IV.
Goude c'hoarzin e teu gowela,
Goude c'hoari huanada.

V.
Here, Du, ha Kerdu,
A hanver ar mizion du.

I.
Bydded du, bydded gwyn,
Pob gafr a gâr ei myn.

II.
Y dyn a arbed ei syched
A arbed ei iechyd.

III.
Awel y canoldydd
A ddug glaw yn ebrwydd.

IV.
Gwedi chwerrthin daw wylo,
Gwedi chwareu ochneidio.

V.
Hydref, Tachwedd, a Rhagfyr,
Enwir (yn Llydaw) yn misoedd duon.

F. VALLIE.

DIARHEBION CYMREIG.

MAE SAWYR y cenin ar y cewyll.

Mae mêl yng ngallt Ddygai; ond pwy sy well er ei fod?

I ti yr heddyw; i bwy y fory?

Llawer o waith a wna llawer o ddwylaw.

Hir yw byth, a da yw Duw.

Goreu cyfrwysdra gonestrwydd.

"NOS-DDA" Y CRISTION.

(REFELYCHIAD.)

A NWYLYD, gorffwys, huna'th olaf hun
 A'th ben ar fynwes dy Waredwr cun;
 Mae cariad IESU'N fwy na chariad dyn;—
 Nos-dda!

Dy hun, fel eiddo maban, tawel yw;
 Ond ni ddihuni mwy mewn anial gwyw;
 Gorffwysfa berffaith yw gorffwysfa Duw;—
 Nos-dda!

Hyd oni chwelir prudd gysgodau'r llawr,
 Hyd oni chesglir y Cynhauaf mawr,
 Hyd oni ffoa Nos o ffin y Wawr;—
 Nos-dda!

Hyd oni wawrio'r Pasg-ogoniant gwyn,
 Hyd oni chwyd y meirw yng Nghrist o'r glyn,
 A'i ddyfod Et,—nid yn dylawd pryd hyn;
 Nos-dda!

Hyd oni welir di yn deg dy wawr
 Gan[ddwyfol gariad dy Waredwr mawr,
 A'r goron aur yn barod ganddo'n awr;—
 Nos-dda!

Dim ond "Nos-dda," anwylyd, dyna i gyd,
 Nid "Ffarwel" mwy, Ei saint gânt drigo 'nghyd
 Yn sanctaidd undeb y tragwyddol tyd;
 Nos-dda!

Hyd oni chyfarfyddom hwnt i'r llen,
 Yn ddifrycheulyd ger Ei orsedd wen;
 Hyd oni chawn ei weled Et, ein Pen;—
 Nos-dda!

Betws y Coed.

GUTYN ARFON.

66 Cytfeiriad y golygydd yw,—OWEN M. EDWARDS, LINCOLN COLLEGE, OXFORD.

ARGRAFFWYD A OYTHODDWDYD GAN HUGHES AND SON, 56, HOPE STREET, WARRIAM

CYSTADLEUAETH Y TRIOEDD NEWYDDION.

DAETH 440 o atebion i law. Yr oedd yn gryn waith mynd trwyddynt i gyd, a chadw cyfrif ohonynt. Ond yr oedd yn waith difyr ryfeddol; ac yr oedd arnaf awydd mawr dod i'r teryn, i weled pa fardd a pha gân oedd oreu gan blant Cymru.

TRI BARDD GOREU CYMRU. Y tri ydynt,—Islwyn, Eben Fardd, Ceiriog. Yr oedd Islwyn ymhell ar y blaen, ac Eben dipyn o flaen Ceiriog. Yn agosaf atynt daw Williams Pant y Celyn a Goronwy Owen a D. ab Gwilym. Yna daw Dewi Wyn, Hiraethog, a Glasynys. Ac yna daw Ieuan Glan Geirionnydd a llawer ereill.

TRI BARDD BYW GOREU CYMRU. Tybia'r plant mai'r tri goreu yw Dyfed, Elfed, a Hwfa Mon. Y mae Dyfed yn gyntaf o ddigon. Yn agos iawn at y tri hyn daw Iolo Caernarfon, Pedrog, a Watcyn Wyn. Yna daw Tafolog, Cadfan, a Berw. Yna Rhys J. Huws, Ben Davies, a J. T. Job. Yna enwir lliaws mawr,—R. Bryan, Nathan Wyn, Elfyn, Gwilym Cowlyd, Eifion Wyn, Bryfdir, Gwylfa, Gwill, Meiriadog, Tryfanwy, J. M. Jones, Barlwydon, R. ap Hugh, Alafon, Anthropos, Beren, Ben Bowen,—digon i lenwi rhifyn cyfan.

TRI FU FARW'N IEUANC. Golyddan, Ieuan Gwynedd, a Ieuan Ddu enwir amlaf. Enwir hefyd Ann Griffiths, Telynog, R. Owen, Gwenffrwd, a thua deugain ereill.

TRI FU BYW'N HEN. Enwir Gwalchmai, Clwydfardd, a Gwilym Hiraethog amlaf. Enwir hefyd R. ab Gwilym Ddu, Huw Morus, Edmund Prys, Twm o'r Nant, a thua hanner cant ereill.

Y TAIR CAN OREU. "Bedd y Dyn Tylawd," "Beth sy'n hardd," a "Ti wyddost beth ddywed fy nghalon" ydyw'r tair. Yn agos iawn atynt daw "Ceisio Gloewach Nen," y "Cyfamod Disigl," a "Fy anwyl fam fy hunan." Enwir hefyd,— "Y Gwenith Gwyn," "Myfanwy Fychan," "Y Fodrwyr Briodasol" (Cranogwen), "Deio Bach," "Beth yw Siomiant," "Cathl yr Eos," "Pa wlad fel Cymru lân," "Gwraig y Pysgotwr," "O dowch a'r delyn yn ei hol," "Anwyl y Wlad," "Pia'r Beddau," "Dal i ganu gyda'r awel," "Gymru anwyl, gwlad fy nhadau," "Rhagorffaint y Gweithiwr," "Hwangerdd y Weddw," "Pan godir Cymru'n ol," "Dweyd wrth Iesu," "Hapus Luddedig," a llawer ereill.

Y TRI LLYFR GOREU. Y Beibl, y Gwyddoniadur, a Gwaith Islwyn ga fwyaf o enwau. Yna daw Bardd Cwsg, Taith y Pererin, Geiriadur Charles, Rhys Lewis, Canwyll y Cymry, Drych y Prif Oesoedd, y Mabinogion, &c.

TAIR TREF FWYAF CYMRU.—Caerdydd, Abertawe, Casnewydd. Enwir hefyd Ystradfyodwg, Merthyr Tydfil, Tredegar, Caerfyrddin, Llanelli, Gwrecsam, a lleoedd llai.

TAIR TREF HYNAF CYMRU.—Caernarfon, Caerfyrddin, Caerlleon ar Wysg. Enwir Conwy, Caerlleon, Caerdydd, Tyddewi, Bangor, Beaumaris, Caerfili, Machynlleth, &c.

TAIR TREF FWYAF DARLLENGAR.—Aberystwyth, Bangor, Caerdydd. Yn nesaf daw Ffestiniog, Abertawe, a Chasnewydd. Enwir Llanelli, Bethesda, Caergybi, &c.

TREI FWYAF O ENWOGION.—y Bala, Caerfyrddin, Caernarfon. Enwir Dinbych, Conwy, Llanrwst, Lerpwl, Porthmadog, Abertifi, y Wyddgrug, &c.

Y TRI BUDDUGOL.—Luned Lewis, Dyffryn, Meirion; Annie M. Evans, 143, Henry St., Tonypandy; Hugh Owen, 35, Allington St., St. Michael's, Lerpwl.

Bydd gair eto mewn rhifyn dyfodol ar y gystadleuaeth dra dyddorol hon. Bydd rhai tebyg iddi eto yn y rhifynnau nesaf. Dengys ol chwilio a holi nid yohydig.



"COLLEDIG."



CYMRU'R PLANT.

CYF. IX.

RHAGFYR, 1900.

RHIF 108

BEN BOWEN.

GWELSOCH lun Ben Bowen, a buoch yn darllen aml gân o'i waith. Glowr ydyw, bachgen amddifad heb dad na mam; ond cafodd ei gadeirio fel bardd cyn bod yn ddeunaw oed, ac efe yw bardd cadeiriol ieuengaf ei genedl. Yr oedd arno awydd am addysg; a thrwy ymdrech egniol, cafodd fynd o'r pwll glo i'r ysgol. Dyma un peth i ddangos mor athrylithgar yw,—yr oedd yn ail oreu ar y bryddest yn Eisteddfod Lerpwl. Dywed Iolo Caernarfon, ein beirniad craffaf a galluocaf, ei fod y meddyliwr mwyaf a grymusaf yn y gystadleuaeth. "Arddengys dreiddgarwch a beiddgarwch digyffelyb, ac y mae'n gyfoethog o dynierwch a phrydferthwch." Sonia lawer am daranau a mell, am Gymru a thragwyddoldeb,—gyda difrifwch a brwdfrydedd yr ieuanc. Prin y gallesid disgwyl i lowr un ar hugain oed guro beirdd goreu Cymru, ond dywed y beirniad, wrth roddi un arall megis o'i anfodd o'i flaen,—“Gwesgir fi i fynegi mai hon yw yr addewid fwyaf a gyfarfyddais i mewn un Eisteddfod erioed; a hyderaf y caiff ei hawdwr fywyd i sylweddoli y disgwyliadau y mae wedi ddefro'i.”

A dyna neges y tudalen hwn,—dweyd fod y bardd ieuanc gobeithiol wedi colli ei iechyd, ac mai mordaith i Ddeheudir Affrig yn unig, yn ol barn y meddygon, fedr achub ei fywyd. Mae pawb yn hoff o Ben Bowen,—mae mor naturiol a charedig. Mae ei eglwys,—Moriah, Pentre,—wedi galw pwyllgor i apelio am dysteb genedlaethol iddo. Yr ysgrifennydd yw J. M. Jones, 25, Baglan St., Pentre, R.S.O., Glam. Os teimla neb ar ei galon anfon, gwaith da fydd chwyddo tysteb gŵr ieuanc mor ragorol sydd wedi cyfarfod â phroffedigaeth mor ddwys.

GENETH DDEWR.

Y MAE'N ddyledswydd ar bawb helpu plismon pan fydd mewn anhawsder wrth wneyd ei ddyledswydd ef. Y dydd o'r blaen yr oedd plismon yn Llundain yn methu mynd a dynes afreolus i'r carchar. Edrychai dau cant o bobl, oedd wedi ymgasglu i'r fan, arno. Ni chodai yr un ohonynt law i'w helpu.

Ond daeth geneth ddewr, dim ond un ar bymtheg oed, i'w helpu. Cododd hynny gywilydd ar y gweddill, a daeth rhai ohonynt ymlaen.

Cofiw'n mai nid gelyn y cyhoedd yw'r plismon, ond ein cyfai'll pennaf. Yn ein trefydd mawrion, y mae y drefn gedwir gan yr heddeidwaid ar yr heoludd yn edmygedd y byd. Gall plismon a'i galon yn ei waith wneyd daioni diderfyn. Ac y mae'r gyfraith, yn gystal a rheswm, yn galw ar bawb ei gynorthwyo pan fydd eisiau.

LLWYN Y NEF.

YNG Nghôr Beuno yr oedd mynach
A fyfyrïai nos a dydd
Am ysblander gwlad tangnefedd,
Am ddedwyddwch Gwynfa fydd.

"Tybed," meddai, "na diflasir
Ar delynau'r ardal lonydd,
Ac ni choeliat fod anthemau
Yno'n para fyth yn newydd."

Rhodïai gyda glannau ffrydig
A sisialai wrth y brwyn,
Ganddi clywai'r mynach unig
Iaith yn llawn hudolus swyn.

Bryslai'r ffrydig tua'i chartref
Draw yng ngwlad y tonnog li.
"Byth a bythoedd, byth a bythoedd,"
Dyna'r fel y canai hi.

Gwelai oleu aur machludïad
Trwy'r tawelfrig lwyni pell,
Adar cerddber wedi tewi,
Miwsig myfyr fil oedd well.

Yno 'nghysgod prennau gwyrddlas
Yr eisteddai'r mynach blin,
Suaf'r awel yn y ceulwyn
Hyd nes cysgodd wrtho'i hun.

Blaenau Ffestiniog.

Yno bu am fil o oesoedd,
Nid oedd oes ond megis dydd;
Yna melus lais meddalfwyn
Yn ei glust yn galw sydd,—

"Cod gysgadur; cod i fyny,
Oni chlywi'r gloch o draw?
Prysur yw'r Fynachlog heddyw,
Pam yr ydwyt ti'n ddifraw?"

Teimlai'n ieuanc ac yn heinyf,
Ac o'i amgylch syllai'n syn.
Nid oedd tŷ na chlawdd na chamfa,
Ac ni wyddai ystyr hyn.

"Popeth wedi'i symud," meddai,
"A'i fy ngwlad i ydyw hon?
Ple mae'm brodyr, ple mae'm brodyr?
O am weld eu gwyneb llon."

Aeth i mewn i'r hen Fynachlog,
Nid adwaenid ef gan un.
Do, fe deimlodd yn bererin,
Ac fe wylodd wrtho'i hun.

Wylo wnaeth hyd nes yr hunodd,
Hunodd fyth i ddeffro mwy.
Yn y bore dyrnaid lludw
Welwyd yno ganddynt hwy.

W. W. WILLIAMS.



PLANT CYMRY AMERICA. CXXXVI. PLANT VERMONT.

PLANT CYMRY AMERICA.

BUM yn meddwl, llawer gwaith, y buasai plant bach Cymru yn caru gweled gwynepryd rhai o blant Cymry yr Unol Dalaethau. Wele naw o blant pentref West Pawlet, Vermont, "mynyddoedd gwyrddion" Unol Dalaethau yr America. Plant y Cysegr ydynt, sef naw o oreuon y *Band of Hope*. Yr amcan oedd ac sydd gennym mewn golwg, trwy gynnal y cyfarfodydd hyn, yw cadw yr iaith Gymraeg yn fyw ymysg Cymry America, a chredaf ein bod yn llwyddo. Pwy wŷr na welir rhyw John Elias, neu ryw ddoctor mawr, yn codi o'r ardal ddinod hon?

Yr oeddyd wedi dosbarthu y plant yn dri ddoobrth, a'r rhai blaenaf yn y dosbarthiadau hyn i gael eu gwobrwyo ar ddiwedd y tymor. Bu eu hathrawes gyda'r canu yn fyddlon iawn, sef Mrs. H. J. Roberts. Dyma enwau aelodau y pwyllgor,—Llywydd, H. J. Roberts; Is-Lywydd, D. W. Pritchard; Trysorydd, D. O. Owens; Ysgrifennydd, J. C. Jones.

BUGEILIAID BETHLEHEM.

SAIF Bethlehem ar ben bryn, ac eir i fyny ati drwy bentref bychan a elwir Beit Savur,—“Pentref y Bugeiliaid.” Yna eir ar hyd llwybrau caregog a chwmpasog hyd at droed y bryn, ac wedi hir ddringo, cyrhaeddir Eglwys y Geni Rhyfedd. Ar y gwastadedd gwelir bugeiliaid hyd heddyw yn gwyllo eu praidd. Nid ydynt yn awr o ran safle bydol yr hyn a fuont. Hwylt hwy, heddyw, yn y dwyrain yw'r dosbarth isaf ymysg yr amaethwyr. Nid yw meist'r y meusydd yn gweithio o gwbl; y bugeiliaid yw ei weision, a'i weithwyr, a gwylwyr ei ddefaid. Gellir eu gweled yn ein dyddiau ni, a gorchudd du, hir am eu pennau, croen dafad ar eu hysgwyddau, yn droednoeth, neu wedi eu gwisgo â sandalau drylliog, a gwialen o dderwen neu sycamorwydden yn eu llaw. Newdiant a'u gilydd o wylidwriaeth i wylidwriaeth, gan eistedd o dan ryw graig, a thŷn mawr heb fod ymhell. Ar ol y cynnar wlaw, gorchuddir y ddaear â llysiau ac â blodau. ac ar y cynnyrch cynharol hwn y mae y praidd yn byw. Yn yr amser gynt yr oedd gwaith bugail yn anrhydeddus iawn.

Yn agos i ddwy fil o flynyddoedd yn ol yr oedd tri yn gwyllo eu praidd liw nos, tri yn perthyn yn agos i'w gilydd,—taid, a thad, ac ŵyr deuddeg mlwydd oed. Hen ŵr talgryf a'i wallt yn wyn oedd Caiaphas y taid. Er ei fod dros ddeg a thriugain oed, eto cryf ac iach ydoedd, yn disgwyl am ddiddanwch yr Israel, canys yr oedd yr Ysbryd Glân wedi dweyd wrtho yntau hefyd, fel wrth Simon, na welai efe angau cyn iddo weled Crist yr Arglwydd. Dyn canol oedd Hanun y tad, yntau hefyd yn disgwyl am y Messiah, nid er mwyn cael marw wedyn, ond er mwyn cael dechreu byw. Blin a phoenus iddo oedd iau Rhufain, a phe deuai y Crist parod oedd i ymrestru dan ei faner i ryddhau ei wlad. Bachgen gwridgoch a theg yr olwg a hardd o wedd oedd Benjamin yr ŵyr, yn anwyl yn ei daid ac yn obaith ei dad. Collodd ei fam pan yn blentyn bach, a gadawodd hynny ryw effaith rhyfedd arno, gan ei wneyd yn fwy meddylgar na'r cyffredin. Wedi hir gymdeithasu â'i daid, hyddysg ydoedd yn hen draddodiadau ei genedl, ac ymhoffai glywed hanes yr hen gewri a fu. Tynrwyd ynddo ddisgwyliaidau gwleidyddol ei dad gan obeithion crefyddol ei daid. Bob nos, cyn dechreu eu gwylidwriaeth, adroddai y taid ryw gyfran o hanes Israel i'r bachgen, ac os cwsge fyddai ei ran ymgymysgai yr hanes â'i freuddwydion; os gwyllo gweuai hwylt yn rhamant swynol yn ei feddwl. Adroddid yr hanes gan yr hen ŵr yn noswaith yn fwy prydfeth nag arfer. Bethlehem a'i stori ryfedd oedd y testyn. Soniai am Boaz a Ruth, ac am eu disgynnydd enwog Dafydd,

yr hwn a fu unwaith yn fugail fel hwythau. Yng nghysgod Dafydd adroddai am yr un mwy oedd i'w eni ym Methlehem cyn bo hir, a dywedai yn fyfyrgar y credai fod adeg dyfodiad hwnnw bron ger llaw, gan ddyfynnu hen addewid,—“Nid ymedy y deyrnwialen o Judah, na deddfwr rhwng ei draed ef hyd oni ddelo Silo.”

Tro'r bachgen oedd i wyllo gyntaf y noson honno. Myfyriai am yr hyn a glywodd, gan geisio dyfalu pa bryd y deuai Crist. Yn sydyn gwelid ef yn ymestyn allan, fel pe bai yn clywed rhywbeth yn y pellder draw. Deffrodd ei daid gan waeddi,—

“Nhaid, mae Ef yn dod.”

Cododd Caiaphas i fyny gan wybod meddwl ei ŵyr, a cheisiodd ymwrandaw, ond ni chlywai ddim. “Rhaid,” meddai, “machgen i, dy fod wedi syrthio i gwsg a breuddwydio. 'Does dim i'w glywed. Gorweddat i lawr drachefn.”

Aeth y bachgen yn ol i eistedd ar y twmpath o dan gysgod olewydden, gan droi tudalennau llyfr y Diarhebion, a chredu o'r bron fod geiriau ei daid yn wir ac y bu iddo gysgu. Ymhen ychydig, y mae eto yn clustfeinio, a chan redeg, deffry yr hen ŵr drachefn, gan ddweyd,—

“Nhaid, yn wir y mae Ef yn dyfod. Clywais eiriau y gân yn glir,—‘O byrth, dyrchefwch eich pennau.’ Dowch i wrandaw, nhaid,” a thynnodd yr hen ŵr i ganol y maes, ond ni chlywai ddim.

“Machgen i,” meddai, “rhaid bod yr hanes a ddywedais wrthy wedi dy gyffroi yn fawr. Af eto i ymorffwys ychydig, ac yna cymeraf dy le, i'th feddwl gael ymdawelu.”

Ni allai y bachgen eistedd mwy. Cerddai ol a blaen, gan sylwi ar y defaid yng nghysgod y tân, a meddwl beth oedd wedi dod iddo y noswaith hon. Cyn pen hir, rhedai y bachgen yn ol gan lefain,—

“Nhaid, nhaid, deffrowch, mae'r dydd yn gwawrio.” Codasant yn frysio ar eu traed, a gwelent oleuni disgleiriach na goleuni y wawr o'u hamgylch, ac yn araf deg, ar ol i'w llygaid ymgynefino, gwelent hefyd angel yr Arglwydd o'u blaen. Ofn a ddaeth arnynt; ond y mae'r angel yn siarad â hwy, gan ddywedyd,—

“Nac ofnwch, ganwyd i chwi heddyw Geidwad yn Ninas Dafydd, yr hwn yw Crist yr Arglwydd.” Ac ar ol hynny gwelai y tri liaws o lu nefol yn moliannu Duw, ac yn dywedyd,—“Gogoniant yn y goruchaf i Dduw, ac ar y ddaear tangnefedd, i ddynion ewyllys da.” Wedi gorffen eu cân diflanasant. Syrthiodd yr hen ŵr ar wddf y bachgen gan ddywedyd,—

“Machgen i, i ti, yn gyntaf un, y rhoddwyd golwg ar ddyfodiad Crist. Gad i ni'n awr ddringo'r bryn i'w weled.” A hwy a ddaethant ar frys, ac a gawsant Mair a Joseph a'r dyn bach yn gorwedd yn y preseb. Dychwelodd y tri at eu praid, ond taenodd.

prudd-der y noson honno dros y bachgen. Ni cheir y melus mewn bywyd yn hir heb y chwerw. Cyn y bore bu farw ei daid, gan ddywedyd â'i anadl olaf,—“Yn awr y gollyngi dy was mewn tangnefedd yn ol dy air.”

TEITHIO YN Y NOS.

MAE adar yn ehedeg dros foroedd a thiroedd yn eu hadeg, i wlad gynhesach i fwrw'r gauaf, neu i ryw anialdiroedd oerion i nythu. Cychwynnant bron bob amser yn y nos, a chyrhaeddant y tir cyn y bore. Y mae'r gwenoliaid yn eithriad; ehedant hwy liw dydd. Hoffa'r adar gyrraedd tir cyn iddi oleuo, a mynd i'w hen gynefin. Ond, druain, syrth llawer un, yn llesg a blinedig, i'r môr,—yn rhy wan i ddal y daith.

URDD Y DELYN.

NID oes lle yn y rhifyn hwn i roddi ond ychydig enwau,—rhaf sydd wedi dod i law er ys amser pur faith. Gwelir fod dros drigain o Lanuwchllyn yn unig; rhoddir eu henwau oll yn y rhifyn nesaf. Cyfuniad o'r *Band of Hope* ac Urdd y Delyn sydd yn Llanuwchllyn,—hen amcanion y naill ac ysbryd gwladgar y llall. Yr wyf yn credu fod y cynllun hwn yn gynllun da iawn,—Cymreig-eiddio pob hen sefydliad sydd yn gweithio er daioni yn ein gwlad, a'i drwytho ag ysbryd gwladgarol y deffroad llenyddol.

Yr wyf yn meddwl mai enw merch ieuanc o Ddolgellau fydd yr enw cyntaf yn y ganrif newydd.

*1340 Ceridwen Huws, Preswylfa, Porthmadog.
1341—1403 Cangen Llanuwchllyn o Urdd y Delyn.

DYNER IESU.

(*Gentle Jesus, meek and mild.*)

DYNER Iesu, tirion, mwyn,
Edrych arnaf, un o'th wyn;
Cofia'm diniweidrwydd i,
Gad im ddyfod atat Ti.

Anwyl Iesu, dyner Oen,
Yn Dy ddwyllaw 'rwy'n ddioben;
Gwna fi, 'm Ceidwad, megis Ti,
Tyrd Dy Hun i'm calon i.

ARTHUR HUGHES.

ARWRIAETH YR ISELDIROEDD.

IX. YSBRYD RHYDDID.

GWELODD y Tywysog Distaw heidiau creulawn milwyr Ysbaen yn torri dros holl wastadedd yr Iseldiroedd. Cymerasant bron bob dinas, a'r cledd oedd tynged y rhai arbedasid gan y newyn. Zutphen, Naarden, Haarlem, Alkmar, a lliaws o bentrefi a threfydd ereill ar lan y marddwr a'r canal yn y wlad wastad brysur,—ymladdodd pob un hyd farw. Ymladdai'r gwragedd, a'r plant. Ac yn y diwedd, pan fyddent yn rhy wan i sefyll ar y muriau gan ludded a newyn, rhuthrai y bwystflod Ysbaenaidd i mewn. Ysgrifennai Alva at Phylip i ddweyd fod yr hereticiaid wedi eu difodi.

Gwyliai y Tywysog Distaw ei gyfle. Ni cholodd un cyfleustra i estyn ymwarded i'w bobl, erlidid oherwydd eu crefydd. Gweddiai ei fam oedrannus drosto yn y castell draw, hen gartref ei febyd. Colodd ei frodyr dewrion o un i un. Cwmpodd Astolph yn awr buddugoliaeth Heiligerlee. Methodd gael hanes Louis a Henry, ar awr dduaf ei gyfyngder. Louis oedd

eilun ei wlad,—yr oedd mor ddewr, mor hardd, mor egniol ymhob da. Tebyg iddo oedd y brawd ieuengaf, Henry, dros yr hwn y gweddiai eu mam ddwsaf. Ar awr gyfyng, edrychai y Tywysog Distaw tua'r gorwel i ddisgwyl ei ddau frawd. Disgwyliai hwy bob



PRYSURDEB DIWYDRWYDD.

dydd, ysgrifennai llythyr ar ol llythyr atynt, i ofyn iddynt brysuero, oherwydd dioddef ofnadwy eu pobl. Ni wyddai ef fod y ddau, Louis a Henry, yn gorwedd yn farw mewn cors, wedi ymladd hyd angyu yn erbyn y gelyn. Ni wyddai eu mam lle yr oeddynt ychwaith; ond daliai i weddio, fel miloedd o famau yr Iseldiroedd.

Amcan y Tywysog Distaw a'i trodyr oedd ymuno â'r Saeson, ac yn enwedig â Huguenotiaid Ffrainc, i dorri grym y gormesdeyrn Yspañig. Ymladdasant dros yr Huguenotiaid ym mhob brwydr bwysig yn Ffrainc, ceisiasant ymuno â brenhines Lloegr a thywysogion yr Almaen. Aberthasant eu bywyd a'u heiddo er mwyn pawb, oherwydd yr oeddynt wedi penderfynu cadw ysbryd rhyddid a chrefydd yn fyw.

Yr oedd anhawsterau y Tywysog Distaw yn aruthrol. Nid oedd gan ei bobl,—gwladwyr a physgotwyr a siopwyr,—ddim gwybod-aeth filwrol; ac yr oeddynt yn gorfod ymladd yn erbyn byddin fwyaf disgybledig y byd. Yr oedd ei gyfeillion yn Ffrainc a'r Almaen a Lloegr yn wan neu'n anfoddog. Lladdwyd Coligni, ei gytaill pennaf, ym mrad ofnadwy dydd Bartholomew. Ac yn haf 1584, saethwyd y Tywysog Distaw gan fradlofrudd, oedd wedi prynnu llawddryll âg elusen roddasai'r tywysog caredig iddo. Awr dduaf yr Iseldiroedd oedd honno pan gludid corff y Tywysog i'w gladdu yn eglwys fawr Delft.

Ond ni ymadawodd ysbryd rhyddid o'r corsydd gwastad hynny. Yno y cafodd rhyddid gwladol a chrefyddol Ewrob eu noddfa olaf. Yn 1650, dan arweiniad ŵyr y Tywysog Distaw, tafodd Holland iau Spaen ymaith am byth. Y mae'r wlad yr ymladdodd drosti eto'n anibyynnol; ac wyres iddo ef yn yr unfed gradd ar ddeg yw'r enethig hawddgar sy'n rheoli Holland heddyw.

CWSG Y BLODAU.

MEWN un peth y mae gauaf llym yr Amerig yn fwy caredig wrth y blodau na'n gauaf tynerach ni. Cuddia hwy â gwrthban trwchus o eira; ac odditano y maent yn gysurus,—ni chyrrhaedda dannedd y rhew, nac anadl awel lem y gogledd, atynt. Ond gwena ein gauaf ni weithiau, yna rhewa yn sydyn.

Yr hilyn goreu fedr ein blodau ni gael yw dail y coed. Gadawer i'r dail cynnes orwedd ar wyneb yr ardd. Ac onid ydynt yn llawer tlysach, yn garped llwydgoch, na'r ddaear lom ac ambell flodeuyn triglyd yn rhyngu arni?

NADOLIG YN YR ANDES.

(O orthygi gan Elned Morgan yn Cymru.)

YR oedd y cwrdd Nadolig wrth droed yr Andes wedi fy nghodi i'r fath hwyliau fel nas gallwn fod yn llongydd ar ol cyrraedd gartref wedi'r owrdd. Yr oedd yno liaws o gyfeillion wedi dod yn ol gyda ni, yr oedd yn noson lawn lloer, ar lethr Gorsedd y Cwmwl yng nghanol y goedwig yr oedd un o'r rhaiadrau hyfrytaf yn y fro. Yr oeddwn wedi bod yn ei gweled a'i mwynhau, yng ngoleu llachar yr haul, a meddyliwn mor swynol fuasai cael un gip arall arni ar nos Nadolig yng ngoleu gwyl y lloer. Yr oedd Dalar bron credu, os byddwn yn y Fro yn hir, yr awn yn wyllt, ac mai yn y coed y byddwn byw; ond yn rhadlonrwydd ei galon, daeth gyda ni, y cwmni llawen yn dathlu gwyl Nadolig. Teithiem yn heini gan ganu carolau ac addurno ein hunain â blodau'r banadl a'r meluspia, yr oedd y lloer yn gwenu'n siriol arnwm fel pe'n cydfwynhau. Wedi rhyw hanner awr o gerdded, daethom at y llwybr cul oedd yn arwain i lawr y ceunant at fin y dwfr. Gyferbyn a'r rhaiadr ymgodai hen graig anferth fel llu arfog i warchae'r darlun tlws. Wedi cryn lafur, dringwyd i ben y graig, a safem ar y palmant cadarn yn gwynebu'r dyfroedd gwynlachar. Cwympent ar y ddwywaith gan wasgar lluwchion eu hewyn ar y coed a'r blodau, ymhyfrydent yn y gwllith perliog hwn. Nid oedd y lloer eto yn tafu ei goleuni yn llawn ar y rhaiadr. Er disgwyl am yr olygfa honno, gwnaethom goelcerth ar ben y graig, a thra yr oeddym ni yn prysur fwydo'r tân, daeth y lloer yn ddistaw, ddistaw, gan belydru megis drwy'r dyfroedd. Erbyn hyn yr oedd y goelcerth yn ei gogoniant, fel pe mewn ysbryd cystadlu â'r lloer, pa un belydrai yn fwyaf effeithiol ar yr ewyn gwyn. Ond cynorthwyo'u gilydd yr oeddym i wneyd un darlun gogoneddus, a'r amrywiaeth lliwiau yn dallu'r llygaid wrth edrych arnynt. Yr oedd yr olygfa o ben y rhaiadr yn sicr o fod yn darawiadol hefyd, yr oedd canghennau'r coed yn tafu cysgodion cywrain yng ngoleu'r fflamau, a ninnau yn ein coronau o blodau yn gwibio o gwmpas y fflamau. Hawdd iawn fuasai ein camgymeryd am lu'r tylwyth teg wedi dod allan i ddawnsio ar noson lawn lloer. Nid oedd neb wedi edifarhau dyfod erbyn hyn, yr oedd rhyw swyngyfaredd wedi ein meddiannu. Ni ddywedai neb fawr ddim, dim ond yfed yn helaeth o ardderch-owgrwydd gwaith ei ddwyllaw Ef. Ond methodd y calonnau. Cymreig a dal y distawrwydd yn hir, torrodd yr edmygedd a'r mwyniant allan yn un anthem o fawl,—

“ Duw mawr y rhyfeddodau maith,
Rhyfeddol yw pob rhan o'th waith.”

Yr oedd y cwmni oll yn hoff o ganu, a chredaf na fu y fath ganu ar yr hen emyn erioed, bron nad oeddym yn gweled drws y nef, ac na.

chlywem yr Amen fel corws yr engyl gwyn,—dylem a threblem y llinellau nes yr oedd y goedwig gylchynol fel pe wedi uno a'r mawl. Un o oriau euraidd bywyd oedd honno, dringem y llwybr bychan mewn distawrwydd perffaith, yr oedd yna gysegredigrwydd yn y fangre i bob un ohonom byth mwy. Yr oeddwn i yn olaf yn cyrraedd o'r ceunant, ac yr oedd y cwmni wedi mynd ychydig ymlaen. Cofwn y byddai raid i mi ymhen ychydig ddyddiau deithio'n ol dros y diffeithdir sych i wlad ddigoed ddiflodau. O yr oedd fy hiraeth yn fawr iawn, yr oedd fy mywyd yn ystod y mis diweddaf wedi bod mor lawn o ddedwyddwch pur, fel yr oedd rhyw ofn yn llanw fy nghanol wrth feddwl am y dyfodol. Fel yr hiraethwn am gael byw bywyd pur—dilychwin. Mor hawdd fuasai gwneyd hynny yng nghanol cylchynion fel hyn. Rhedais i lawr y ceunant yn fy ol. Sefais yn ymyl y cwmp, nes derbyn yn helaeth o fedydd y gwynias ddwfr. Yr oeddwn yn gwneyd cyfamod yn fy medydd; llithraf a chwypaf aml waith ar ddyrus llwybr bywyd, ond ni fyddaf byth yn unig mwy.



CENHADAETH Y LLOER.

MYFI ydwyf Lusern yr
Ior,

Goleuaf barwydydd y
byd;

A chyfrin Lywyddes y môr,
Ymsigla'n barhaus yn ei
gryd;

O ganol dyfnderoedd y nef
Hudwenaf ar fynydd a
rhos; [llef,

Ond pan gwyd ystorom ei
Fe'm cuddir gan gymyl
y nos.

Dros Dduw wyf genhades,
a'm gwedd

Oleuwyd i ddysgu y byd;
Athroniaeth meddyliau o
hedd

Egluraf i rywrai o hyd;
A gyfyd i olwg Haul Duw,
Goleuni'n yr Hwyr yw
ei ran; [byw

Gweinyddu i ereill yw'r
Dry'n oleu i gyd yn y
man.

Merthyr. W. R. JONES.



JOHN G. DAVIES.

ER COF ANWYL

AM

JOHN G. DAVIES, GLANYFWLL VILLA, RHIWBRYFDIR, BLAENAU FFESTINIOG.

I.

MAE'R Hydref dros dy feddrod
 Yn crwydro erbyn hyn,
 A dagrau'r haf mewn cawod
 O ddail hyd ruddiau'r glyn ;
 Ond aros mae dy fywyd
 Fel gwanwyn tlws y nef,
 Ac nis gall stormydd adfyd
 Ysbeilio'i fiodau ef.

Ein parch a'n sylw hawliaist
 Pan yn dy flagur gwiw ;
 Yn eglur peraroglaist
 Yng nghanol plant y Rhiw ;
 Mor nwyfus a llaweroedd
 Ni fuost, ieuanc sant ;
 Ond cerddaist tua'r nefoedd
 Drwy ddagrau torf o blant.

Yr oeddit fel yr Iesu
 Yn Ieuan ac yn gefn;
 I ti yr ydoedd dysgu
 Mor hawdd a rhoddi gwên;
 Os yw dy dystysgrifau
 Yn segur ar y mur,
 Daw balm o'n tystiolaethau
 I esmwythau ein cur.

Bu iechyd fel yn oedi
 Yn hir cyn troi ei gefn,
 Gan feddwl cyfamodi
 A'th natur wael drachefn;
 Bu llawer gweddi ddyfal
 Yn gofyn gaet ti fyw;
 Ond nis gall gweddi atal
 Bwriadau dyfnion Duw.

I ffenestr dy ystafell
 Edrychais lawer hwyr,
 A'r goleu gwan o hirball
 A'm llethai bron yn llwyr;
 Bu torf o garedigion
 Cyd-rhyngot a phob cam;
 Ond rhoddant oll y goron
 Ar ben dy dad a'th fam.

Bu'th daid a minnau'n canu
 Dy goffa'n isel fryd;
 Telynau wedi'u lleddfu
 Sydd gennym ni i gyd;
 Mae aur-delynau'n segur
 Ym mro'r Gaersalem wiw,
 Bydd cofio hynny'n gysur
 I rai o blant y Rhiw.

BRYFDIR.

II.

RYM ni ar y ddaear yn methu yn lân
 A deall pam 'rydwyt mor uchel dy gân,
 Mynega, os gelli, er lleddfu ein cri,—
 "O gyrraedd pob gofid am byth yr wyf fi."

Oes yna ddim stormydd a lludded a poen
 Ar fryniau y nefoedd yng nghwmni yr Oen?
 Drycinoedd gwastadol ymwelant â ni,—
 "O gyrraedd pob drycin am byth yr wyf fi."

'R'ym ni lawer noson, a'r cwsg wedi ffoi,
 Yn methu gan bryder a gwybod ple i droi,
 Ai tybed fod pryder yn fiinder i ti,—
 "O gyrraedd blinderau am byth yr wyf fi."

Oes cawn ni foreuddydd heb gwmwl uwch ben,
 Daw'r nawn ag wylofain a'n haul aiff dan len;
 Mae corff y farwolaeth o hyd gyda ni,—
 "O gyrraedd marwolaeth am byth yr wyf fi."

Mae angau cydrhyngom a'r wlad lle 'rwyf ti,
 Cyfiawnder yn gwarchod ei phyrth sydd heb ri,
 A ofni di mwyach rhag angau a'i frad?
 "Nid yw yn bererin drwy gyrrau y wlad."

A wyddost ti rywbeth mewn ardal mor glyd
 Am alar a hiraeth y saint yn y byd?
 "O! na, nid oes hiraeth am ddim yn y nef
 Ond hiraeth am ganu yn uwch iddo Ef."

IOAN AP GRUFFYDD,
 Ei daid, yn 80 mlwydd oed.

PAN OEDDYM GYNT YN BLANT.

A R aden hiraeth hedwn,
I wynfa bore oes ;
Drwy niwl trafferthion gwelwn
Hen lwybrau hoff diloes ?
Rhwing blodau gwanwyn bywyd,
Yn gyflym fel y nant,
Y llifai ffrydiau hawddfyd,
Pan oeddym gynt yn blant.

Gwawr gobaith lonnai'r cwmni
Oedd fel ewigod gynt ;
A'r hwyl wnai ein gwresogi
Gân heddyw yn y gwynt ;
Er holi yr awelon,—
Nid oes ar fryn na phant,
Fel gwledd yr hen chwarenon,
Pan oeddym gynt yn blant.

Y Balu.

Dan nefol wlith-gafodau,
Y peraroglai moes ;
Bryn tlws oedd disgwylladau,
Dan lesni Mai ein hoes ;
Yn felus rhedai dilliau
Mel mwynder o bob tant,
Yn nhelyn ein gwynfydau,
Pan oeddym gynt yn blant.

Breuddwydion bortreadent
Ryw baradwysaidd hynt ;
A'r hwylliau'n esmwyth chwiflent
Yn wynion yn y gwynt ;
Mae cofio'r oriau euraidd,
Fel miwsig telyn sant ;
Blodeuai'r byd yn fwynnaidd,
Pan oeddym gynt yn blant.

RICHARD AB HUGH.

FFRED.

(DANIEL OWEN.)

ER fy mod wedi gweled Mr. Smart yn flaenorol, nid oeddwn cyn hyn wedi sylwi ei fod yn ddyn mor hardd. Nis gwn pa un ai am ei fod yn edrych i well mantais yn ei dŷ ei hun, ai desgrifiad Mr. Pugh o hono, a wnaeth i mi edrych arno felly y noswaith hon; ond parodd ei daldra, ei ysgwyddau llydain, ei farf laes a thrwchus, a'i ymddanghosiad *noble*, ys dywedai Mr. Pugh, i mi deimlo yn fychan a diystyr yn ei ymyl. Ac nis gallaswn ymryddhau oddiwrth y meddwl ei fod yntau hefyd yn edrych felly arnaf, ac yn dweyd yn ddistaw yn ei fynwes,—“Wel, gresyn, gresyn, ei fod mor fychan ac eiddil.” Yr oeddwn yn argyhoeddedig o hyn bob tro yr edrychai arnaf, er fy mod yn eisio eistedd yn syth ac ymddangos mor fawr ag a allwn.

Ymddanghosai Ffred yn hogyn bach digon diniwed, ac yn gwbl ddarostyngedig i ddisgyblaeth lem ei dad. Eisteddai ar gader uchel, a'i goesau meinion, y rhai a wisgid â *knickerbockers* ac hosanau amryliw, yn brin o droedfedd i gyrraedd y llawr. Edrychai mor lwfr, ac mor lonydd, ac yn meddu y fath arswyd o'i dad, nes yr oedd yn creu gwaew yn fy nghoesau. A symudai law neu droed, byddai llygaid ei dad yn meltenu cerydd arno y foment honno. Unwaith bu mor anwyliadwrus a rhoddi ei ddwylaw yn ei bocedau; ond buan y gwnaed ef yn hysbys o'i ryfyg gan lais dwfn ac

awdurdodol ei dad yn gwaeddi arno,—“Ffred!” Mewn eiliad yr oedd ei ddwyllaw bychain drachefn yn gorwedd yn farwaidd ar ei gluniau, fel pe buasai yn mynd i gael tynnu ei lun. *Poor fellow!* Yr oeddwn yn sicr mai Ffred a finnau oedd y ddau fwyaf anghyfforddus yn yr ystafell. Yr oedd yr ymddiddan oedd yn myned ymlaen mor drwm o ran mater ac arddull fel nas gallasai yr hogyn bychan ei werthfawrogi, hyd yn oed pe buase yn deall tipyn o Gymraeg. Wedi iddo, trwy ymdrech digyffelyb ymron, gadw ei lygaid yn agored i edrych yn yr un cyteiriad am yspaid ag oedd mewn gwirionedd yn glod iddo, cafodd cwsg o'r diwedd y llaw uchaf arno i'r fath raddau nes ei orfodi i'w cau am oddeutu dau eiliad. “Ffred!” ebe ei dad; neidiodd y bychan diniwed yn ei gader fel pe buasai rhywun wedi ei drywanu yn ei feingefn.

“My dear,” ebe Mr. Smart, gan annerch ei hanner oreu, “mae yn amser i Ffred fyned i'w wely. Now, Ffred, say your verse to Mr. Rees before you go to bed.” Yr oedd y bychan yn rhy gysgadlyd i gofio yr adnod yn gywir; ond dywedodd gyda phob parodrwydd,—“Iesu dwedodd Cadewch i plant bwchyn tyfod ataf i, a na wenywch irint.” Oherwydd fod ei lygaid yn hanner cauedig, a'r naill hanner o hono mewn trwmgwsg er ys meityn, cafodd gryn drafferth i ysgwyd dwylaw â phawb o honom. Pa fodd bynnag, wedi iddo gyflawni y gwaith hwn, ac i Miss Smart estyn ei boch wen iddo i'w chusanu, ymbalfalodd allan o'r ystafell fel dyn wedi meddwi. Wedi i Ffred fyned i'r gwely, teimlwn ei fod rywfodd wedi taflu ei fantell drosof; canys yr oedd arnaf eisiau symud fy nghoesau a'm dwylaw yn barhaus, ond fod arnaf arswyd gwneyd hynny rhag y buasai Mr. Smart yn gwaeddi arnaf, “Noah!”

Ymddanghosai pawb o'r cwmni, oddigerth Mr. Pugh, i mi fel rhan o'r dodrefn, gan mor sefydlog a stiff oeddym. Rhwng popeth, yr oeddwn yn teimlo yn dra anedwydd. Yr hyn oedd yn fy synnu fwyaf oedd fod Mr. Pugh yn gallu bod mor rhydd a chartrefol. Estynnai ei gosau allan, hapus wr! a gosodai ei draed ar y *fender*, a throai a throasai fel pe buasai yn ei dŷ ei hun. Nis gallaf adrodd wrthyt gynifer o weithiau y bu raid i Mrs. Smart ailosod yr *antimacassar* oedd ar gefn y gader yr oedd efe yn eistedd arni. O'r diwedd arbedodd Mr. Pugh y drafferth iddi trwy ei luchio yn ddirmygedig ymhell oddiwrtho. Pellebrodd Miss Smart â'i llygaid i lygaid Mrs. Smart; pellebrodd Mrs. Smart i lygaid Mr. Smart. Meddyliwn mai cynnwys y telegram oedd,—“What an ignorant man!”


ADDYSG. Yr hyn yw cerffuniaeith i bentwr o farmor, hynny yw addysg i enaid dyn. ADDISON.

GWLAD HUD.

(Casgliad o Ystraeon Hud o
bob gwlad.)

XII. HANS Y GWAS.

(Un o Ystraeon Hud yr Almaen.)



YR oedd gan ffarmwr was unwaith o'r enw Hans. Yr oedd rhai yn meddwl nad oedd cymaint ym mhen Hans ag ym mhen pawb; ond, er ei ddiniweidrwydd, yr oedd rhywbeth yn hirben iawn ynddo. Ryw ddydd dywedodd wrth ei feistr,—“Dyro fy nghyflog i mi; yr wyf am fyw ar fy arian, ni weithiaf mwy.” Yr oedd wedi gweithio am dair blynedd. Gwyddai y ffarmwr na welsai Hans arian o'r

blaen, ac ni roddod iddo ond dau ddarn arian bychan. Ond tybiai Hans fod hynny yn llawer iawn.

Aeth ymaith dan ganu, a'r ddau ddarn arian yn ei boced. Yr oedd ei lwybr tua'r dref yn mynd trwy goedwig fawr. Pan yn ymyl y goedwig gwelai hen ŵr carpiog truan yn dod i'w gyfarfod. Un o'r tylwyth teg mewn rhith cardotyn oedd, ond ni wyddai Hans mo hynny.

"Was mwyn," ebai yr hen ŵr, "tosturia wrth un tlawd."

Rhoddodd y gwas caredig ei ddau ddarn arian iddo yn y fan. "Diolch yn fawr iti," ebe'r hen ŵr, "cei dy ddau ddewis beth yn wobr am dy diriondeb. Dewis y peth a fynni."

"Hoffwn," ebe'r gwas diniwed yn araf, "gael bwa hawdd ei anelu—a ffidil wna i bawb a'i clywo ddawnsio."

Chwarddodd yr hen ŵr yn galonnog, a dywedodd,— "Ti a'u cei." Tynnodd fwa a ffidil o'r tu ol, a rhoddodd hwy iddo. Aeth y gwas ar ei ffordd yn llawen.

Toc gwelai Iddew yn sefyll dan goeden, a chydaid o arian yn ei law. "Ust," ebe'r Iddew, "a weli di'r aderyn prydfferth acw? Hwyrach y medri di saethu adar â'th fwa. Os saethi yr aderyn acw, cei y cydaid arian hwn." Heb ddweyd gair, cododd Hans ei fwa, a gwelid yr aderyn yn syrthio i'r llwyn draw.

Edifarhaodd yr Iddew addaw yr arian. Rheddodd i chwilio am yr aderyn gwerthfawr i'r llwyn; ac, wedi ei gael, ceisiodd fynd ymaith ffordd arall yn llechwraidd. Ond daeth rhyw awydd dawnsio yn y coed drosto, er na ddawnsiodd erioed o'r blaen. Yr oedd Hans yn canu'r ffidil â'i holl egni. Dawnsiai'r Iddew yn y drain a'r mieri, nes oedd ei ddillad yn rhwygedig, ac yntau yn waed. O'r diwedd gwaeddodd y cai Hans yr arian os peidiai canu'r ffidil.

Ond yr oedd yr Iddew wedi penderfynu dial. Aeth at y barnwr a danghosodd ei hun iddo. Dywedodd fod gwladwr wedi ymosod arno yn y coed, ac wedi ei ysbeilio. Anfonwyd milwyr i chwilio am Hans, druan, a dygwyd ef ger bron y barnwr. Coelïai y rheithwyr ystori yr Iddew, ond ni choelïent ystori Hans. A dedfrydodd y barnwr ef i gael ei grogi am ladrad pen ffordd. Wrth esgyn grisïau'r crogbren, ebai Hans wrth y barnwr,—

"Syr, os gwelwch yn dda, a gaf ganu un dôn ar fy ffidil cyn marw?"

"Na chaiff, na chaiff," ysgrechïai'r Iddew, "na rowch ganiatâd iddo."

"Nid yw ei gais yn un afresymol, druan," ebe'r barnwr, "gadewch iddo."

Dechreuodd Hans.

Cyn pen nemawr funudau dechreuodd y rheithwyr ddawnsio er eu gwaethaf. Dawnsiodd ceidwad y carchar, a dawnsiodd yr Iddew. Dawnsiodd y barnwr ei hun.

Toc dechreuasant flino, ond ni fedrent beidio. Crefent ar Hansymatal. Ni ymatalïai Hans nes y cai bardwn. Dywedodd y barnwr y cai bardwn.

Ond gorfod i'r Iddew ddawnsio nes y cyfaddefodd iddo ddweyd anwiredd, ac mai ysbail rhyw druan oedd y cydaid arian oedd ganddo.



YSGOL NOS TRISANT.

YSGOL, NOS TRISANT.

DYMA i'r plant ddarlun o Ysgol Nos Trisant a'i chefnogwyr. Yn eistedd yn y canol gwelir yr athraw, Mr. D. Joseph Lewis,—un o athrawon ieuainc mwyaf llewyrchus y sir. Ar y dde, yn eistedd, gwelir y Parch. T. M. Jones, Ysbyty Ystwyth, aelod o'r Bwrdd Ysgol, a chyn gadeirydd y Cyngor Sir. Ar y chwith, gwelir y Parch. R. Gwmryn Jones, Trisant, bugail yr eglwys. Yn ei ymyl gwelir aelod arall o'r Bwrdd, Mr. Samuel Evans, Nantgwyn. Yn gyntaf ar y dde o'r rhestr ganol y dynion gwelir Mr. William Bonnor, Glantrisant, arweinydd cor canu Trisant,—arweinydd melus a medrus.

Gwnaeth yr ysgol hon waith da y tymor diweddaf. Enillasant y *grant* uchaf posibl. Rhwng canu a dysgu mae gwedd addawol ar ddynion ieuainc Trisant.

✻ CAROL NADOLIG. ✻

(Rhif 9.*)

“Fe anwyd yr Iesu.”

J. M. HOWELL, ABER AERON.

L. J. ROBERTS, Y RHYL.

DOH D,

	>								
:s	s :- s :s	s.l :s	- :s	s :l s :f	f :- m				
:m	m :- m :m	f :f	- :f	f :- m :r	r :- d				
1.Ar	ed - yn yr	aw - el,	Mae	Dwy - fol fur -	mur - on;				
:d'	d' :- d' :d'	t :t	- :t	t :- d' :s	s :- s				
:d	d :- d :d	r :r	- :r	s, :- s, :s,	d :t, d				

	>	>							
		A.t.							
:m	m :-r d :l	s :-f m :m ₁	s ₁ :-d f :m	r :- d					
:d	t, :- d :d	r :- d :d _f	s ₁ :- s, :s ₁	s ₁ :f ₁ m ₁					
A	chlyw - ir drwy'r	wybr - en, Si	ed - yn ang -	yl - ion:					
:s	s :-f m :m	r :s s :s ^d	d :- t, :d	d :t, d					
:d	s ₁ :- l, :l,	t, :- d :d _f	m ₁ :- r, :m ₁ f ₁	s ₁ :- d,					

f.D.

	>								
:d _s	s :- s :s.l	ta :ta	- :ta	l :- t :d'	d' :- t				
:d _s	s :- s :s	m :m	- :s	f :- f :f	f :- f				
Tyr	an - them fol -	ian-nus,	Ang -	yl - ion yn	can - u,				
:d _s	d' :- d' :d'	d' :d'	- :d'	d' :- r' :r'	r' :- r'				
:d _s	m :- m :m	d :d	- :d	f :- r :l	s :- s				

	>	>							
		mf							
:s	d' :- m :m	l :- d :r.m	f :- m :r	s :s	-				
:f	m :- d :d	d :- d :d	d :- d :t,	d :d	-				
Go -	gon - iant! Go -	gon - iant! Fe	an - wyd yr	le - su,					
:t	d' :- d' :d'	l :- s :l.s	l :- s :s	s :s	-				
:s	l :- s :s	f :- m :f.m	r :- s :s.f	m :m	-				

* Y mae J. M. Howell ac L. J. Roberts wedi ysgrifennu Carol yn fynyddol i *Gymru'r Plant*, er pan gyhwynwyd y misolyn yn 1892.

			arafer					
{	:s	d' :- d' :d'	r' :- d' :t.l	s :-m d :f.m	r :- d			
	:s	s :- m :m	f :- f :re	m :-t, d :d	d :t, d			
	Go -	gon - iant! Go -	gon - iant! Fe	an - wyd yr	Ie - su.			
	:s	d' :- ta :ta	l :- l :t.d'	d' :-s m :f.s	f :- m			
	:s	m :- s :s	f :- f :fe	s :-s, l, :r, m, f, l	s, :- d			


CYDGAN. *Yn llawn.*

{	:s	s :- s :s	l :- l :l	t :d' t :l	l :- se
	:m	m :r d :r	m :s f :m	m :- f :m	m :- m
	Go -	gon - iant! Go -	gon - iant! Fe	an - wyd yr	Ie - su,
	:d'	d' :t d' :t	l :- l :l	se :l r' :d'	d' :- t
	:d	s :f m :r	de :m r :d	t, :l, se, :l,	m :- m

			arafer					
{	:m	m' :- r' :d'	t :- l :l	s :-m d :f.m	r :- d			
	:m	m :- m :m	m :r d :re	m :-t, d :d	d :t, d			
	Go -	gon - iant! Go -	gon - iant! Fe	an - wyd yr	Ie - su.			
	:m	l :- se :l	se :- l :d'	d' :-s m :f.s	f :- m			
	:m	d :- t, :l,	m :- f :fe	s :-s, l, :r, m, f, l	s, :- d			

2 Yr Iesu, Gwaredwr!
 O Faban bendigaid!
 Y Preseb yw'th Orsedd
 A ninnau yw'th ddeiliaid.
 Cyhoedder Eï Enw
 Yn llon wrth bob calon
 Nes caffo yr Iesu
 Bob baner a choron.

Cydgan—Gogoniant, &c.



NOS NADOLIG.

DISGYNNAI'R eira'n blu gwynion yn unigrwydd yr heol, ac yno gwnai yntau wely oer iddo ei hun. Llewyrchai goleu lampau a than nos Nadolig yn ffenestri'r tai; a chlywid o un ohonynt swm canu,—canu carol am “Geidwad a anwyd yn ninas Dafydd,” a chynghaneddai'r seiniau yn y modd hyfrytaf trwy'r eira oedd yn gweu yn yr awyr.

Yn un o gilfachau'r tai chwiliai rhywun am loches o'r oerni a'r eira, ac weithiau tywynnai goleu lamp yr heol arno, a'r pryd hwnnw amlygai wyneb tyner a gwelw plentyn bychan. Ymdrechai wasgu'r wisg garpiog oedd am dano i gynhesu ei gorff; ni fynnai yr ocheneidiau eu caethiwo na'r dagrau iddo eu hatal.

I lawr yr heol dyma fachgen gwridgoch, iach, yn rhedeg, a gwisg gled am dano. Safodd wrth y bychan unig, a thrwy'r eira a'r awyr treiddiai hoewlais y plentyn yn addfwyn a thyner,

“Be wy' ti'n neyd yma? Pam nad ei di adre?”

“Does gen mam ddim i roi inni, na than i'n cynhesu,” meddai yntau yn ol. Ac o'r tŷ hwnnw deuai swm cân unwaith eto,—“Gogoniant yn y goruchaf i Dduw, ac ar y ddaear tangnefedd, i ddynion ewyllys da.” Cyn gynted a meddwl rhoes y bachgen ei law yn ei boced, a thynnodd allan chwe cheiniog gwyn a gafodd gan ei fam y bore hwnnw, ac estynnodd ef i'r hwn oedd heb ddim.

Disgleiria'r lamp eto ar y ddau wyneb,—yn y naill sychwyd y dagrau a thawelodd yr ocheneidiau hwythau; yn y llall, fel trwy ddrych, gwelid y geiriau “Dedwydd yw rhoddi yn hytrach na derbyn” yn chwarae ar dannau tyneraf ei galon.

Gadawyd yr heol i'w hunigrwydd; cafodd yr eira yntau weu fel y mynnai, ac yna ddisgyn i'w wely oer i orwedd hyd nes y cyfodai'r haul i'w gymeryd ato ei hun.

GRUFFYDD.

COFGOLOFN DANIEL OWEN.

YMAE merch ieuanc garedig,—Miss Eleanor Griffith, Fron, Nant Peris, wedi casglu coron at gofadaill Daniel Owen. Rhoddodd Mr. O. G. Closs swllt; daeth $\frac{3}{6}$ o'r Fron, gan Mrs. Griffith, Miss J. Griffith, Miss A. Griffith, Miss E. Griffith, a Mri. Robert a John Griffith; a chwe cheiniog oddiwrth Mr. J. R. Jones.

Wedi darllen darluniad Daniel Owen o Ffred yn y rhifyn hwn, feallai y cymer rhywrai eto at gasglu digon i osod cofgolofn iddo yn heol ei dref enedigol, sef y Wyddrug.

BETH ENILLWYD MEWN CANRIF.

VII. CYFOETH.

Prin y meiddiaf, mewn ychydig linellau, ddweyd gymaint fu cynnydd cyfoeth materol Cymru. Y mae bron gymaint a chynnydd cyfoeth ei meddwl. Tlodion iawn oedd y Cymry ddechreu'r ganrif. Byddai'r gweithiwr wrthi'n dyrnu drwy'r dydd, a chai rot am ei boen, i brynnu bwyd drud i wraig a phlant. Heddyw mae gan y tlotaf fara, llyfr, a gobaith. Ddechreu'r ganrif nid oedd poblogaeth Caerdydd mo'r dwy fil, heddyw y mae'n tynnu at ddau can mil. Heddyw gwelir cynyrchion Cymru,—glo, haiarn, dur, copr, alcan, aur, llechi,—ymhob rhan o'r byd.

VIII. CYDRADDOLDEB.

Dechreu'r ganrif yr oedd pellder mawr rhwng mab yr yswain a mab y dyn tlawd. Cyfoeth, bri, gwledd, addysg oedd etifeddiaeth y naill; tlodi, dirmyg, newyn, dygn anwybodaeth oedd rhan y llall. "Y neb a enir i dair ceiniog, ni esgyn i rot," ebe'r hen air; ac felly yr oedd. Ond yn awr y mae modd i'r tlotaf ddod yn gyfoethocaf, ac i'r mwyaf dinod dod yn fwyaf anrhydeddus. Y mae y ddau lefelwr mawr,—masnach ac addysg,—wedi gwneyd eu hol, ac wedi newid wyneb y wlad.

IX. YSBRYD GWLADGAROL.

Tua dechreu'r ganrif hon y blodeuai Dic Shon Dafydd. Y mae wedi marw erbyn hyn. Nid oes ar yr un Cymro yn awr gywilydd o'i wlad, nac o'i iaith. Unwaith, oherwydd gwyleidd-dra yn troi'n waseidd-dra, tybiai fod bod yn rhywbeth arall yn well na bod yn Gymro. Yn awr y mae'n falch ei fod yn Gymro, yn falch ei fod yn medru siarad Cymraeg.

X. ANIBYNNIAETH MEDDWL.

O wladgarwch daw anibyniaeth meddwl. Os meddyliwn lawer o'n tadau, mentrwn ymlaen. Eiddilod yw'r anwladgar bob amser. Y mae ymdeimlad o nerth ym mywyd a llenyddiaeth Cymru heddyw. Y mae yn twy anibynnol ac yn fwy gwreiddiol nag y bu erioed. Mentra athrylith y wlad siarad, oherwydd gŵyr beth siaredir mewn gwledydd ereill. Mae ar ganol dysgu, mae'n wir, ond y mae argoel amlwg fod llenyddiaeth Gymreig newydd, nerthol, dlos i ddod. Cyn hir honna hawl i sylw'r byd.

XI. CYMERIAD DA.

Pan ddechreuasom barchu ein hunain a'n gwlad a'n hiaith, dechreuodd ereill ein parchu. "Taffy was a Welshman, Taffy was a thief" oedd gair dechreu'r ganrif. Ni faidd neb ei ddweyd yn awr. Yn y senedd, yn y wasg, ar faes y gwaed; o'r Cyngor Plwy i'r Senedd, o'r bel droed i'r frwydr, o'r cyfarfod y plant i'r Brifysgol, y mae i Gymru enw da. Gwlad yr egni meddwl, gwlad y grefydd yn crythau bywyd, gwlad y diwydiannau mawrion, ydyw hi. Enwir hi, nid gyda dirmyg mwy, ond gyda pharch.

XII. GOBAITH AM FOD YN FWY A GWELL.

Dyma ei hennill pennaf,—ffydd i weld y dyfodol yn oleu. Edrychir ymlaen i'r dyfodol yn ddiolfn. Teimlir y bydd i Gymru le mwy nag erioed.


Am y tro olaf mewn canrif, yr wyf yn ysgrifennu at y plant. Bydd canrif newydd wedi gwawrio cyn y caf yrru gair eto. Credwch, blant anwyl, fod gan Dduw a Chymru neges i chwi yn y ganrif newydd. Ymsancteiddiwch, canys yfory y gwna yr Arglwydd bethau mawrion yn eich mysg. Y mae Arthur yn mynd i ddeffro yn y ganrif nesaf,—

"Gymru, daeth yr adeg,
Clyw hi'n taro deuddeg,
Chwareu bellach ddynol ran yn hanes dynol ryw."



50 Cymeriald y golygydd yw,—OWEN M. EDWARDS, LINCOLN COLLEGE, OXFORD.





GENERAL LIBRARY - U.C. BERKELEY



8000882948

